# Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH (CYLLIDEB)** | | **THE EXECUTIVE (BUDGET)** |
| **DYDD MAWRTH 14 CHWEFROR 2017 10.00 o'r gloch** | | **TUESDAY 14 FEBRUARY 2017 10.00 am** |
| **SIAMBR Y CYNGOR SWYDDFEYDD Y CYNGOR LLANGEFNI** | | **COUNCIL CHAMBER COUNCIL OFFICES LLANGEFNI** |
| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes 01248 752518** | Committee Officer |

**Annibynnol / Independent**

R Dew, K P Hughes, H E Jones a Ieuan Williams (Cadeirydd/Chair)

**Plaid Lafur/Labour Party**

J A Roberts (Is-Gadeirydd/Vice-Chair) a Alwyn Rowlands

**Aelod Democratiaid Rhyddfrydol Cymru /Welsh Liberal Democrat (Heb Ymuno / Unaffiliated)**

Aled Morris Jones

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

## R H A G L E N

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2** **MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG**

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

**3** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 23 Ionawr, 2017.

**4** **2016/17 MONITRO'R GYLLIDEB CH 3 - REFENIW** (Tudalennau 7 - 20)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151.

**5** **2016/17 MONITRO'R GYLLIDEB CH 3 - CYFALAF** (Tudalennau 21 - 34)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151.

**6** **ARIAN WRTH GEFN** (Tudalennau 35 - 56)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151.

**7** **FFIOEDD A THALIADAU 2017/18** (Tudalennau 57 - 94)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151.

**8** **Y TÂL SAFONOL AR GYFER GARTREFI GOFAL Y CYNGOR 2017/18** (Tudalennau 95 - 98)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion.

**9** **FFIOEDD PRESWYL A CHARTREFI NYRSIO'R SECTOR ANNIBYNNOL 2017/18** (Tudalennau 99 - 104)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion.

**10** **FFIOEDD A THALIADAU AR GYFER GWASANAETHAU DI-BRESWYL 2017/18** (Tudalennau 105 - 114)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion.

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

**11** **STRATEGAETH ARIANNOL AR GYFER Y TYMOR CANOL A'R GYLLIDEB 2017/18** (Tudalennau 115 - 170)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151.

**12** **CYLLIDEB CYFALAF 2017/18** (Tudalennau 171 - 206)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151.

**13** **TRETHI CENEDLAETHOL ANNOMESTIG – POLISI AR GYFER CYMORTH DEWISOL TUAG AT DRETHI BUSNES AM 2017/18** (Tudalennau 207 - 214)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151.

**BYDD Y CYFARFOD O'R PWYLLGOR GWAITH YN AILYMGYNNULL AM 1.00 O'R GLOCH I DRAFOD Y CANLYNOL:-**

**14** **BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 215 - 226)

Cyflwyno adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd.

**15** **GWELLIANT I'R CYFANSODDIAD** (Tudalennau 227 - 230)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro.

**16** **ASESIAD ANGHENION POBLOGAETH** (Tudalennau 231 - 640)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion.

**17** **CYNLLUN COMISIYNU CEFNOGI POBL** (Tudalennau 641 - 770)

Cyflwyno Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

**18** **DEFNYDD O'R PREMIWM TRETH GYNGOR AR AIL GARTREFI AC EIDDO GWAG HIRDYMOR** (Tudalennau 771 - 782)

Cyflwyno Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

**19** **SAFLEOEDD SIPSIWN A THEITHWYR AR YNYS MÔN** (Tudalennau 783 - 890)

Cyflwyno Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

**20** **CWRS GOLFF, LLANGEFNI** (Tudalennau 891 - 894)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

**21** **TRAWSNEWID Y GWASANAETH LLYFRGELLOEDD** (Tudalennau 895 - 960)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Dysgu.

**22** **TRAWSNEWID Y GWASANETH IEUENCTID** (Tudalennau 961 - 1016)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Dysgu.

**23** **STRATEGAETH A GWELEDIGAETH TWF AR GYFER ECONOMI GOGLEDD CYMRU** (Tudalennau 1017 - 1022)

Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr.

**24** **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 1023 - 1024)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol:

"Dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar eitem 8 isod, oherwydd y posibilrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig ei rhyddhau fel y diffinnir hi yn Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm".

**25** **ACHOS BUSNES LLAWN NEWYDD AM YSGOL NEWYDD YM MRO RHOSYR/ABERFFRAW** (Tudalennau 1025 - 1088)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Dysgu.

# PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2017

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd J Arwel Roberts (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr R Dew, K P Hughes, A M Jones, H E Jones ac Alwyn Rowlands |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymuned a Gwella Gwasanaethau),<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151,<br>Pennaeth Dysgu,<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,<br>Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr John Griffith, Llinos M. Huws, R. Meirion Jones. |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |

### 1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Derbyniwyd datganiadau o ddiddordeb gan :-

Datganodd y Cynghorydd K. P. Hughes ddiddordeb personol mewn perthynas ag eitem 7.

Datganodd y Cynghorydd H. Eifion Jones ddatganiad personol mewn perthynas ag eitem 6.

Datganodd y Cynghorydd J. Arwel Roberts ddiddordeb personol mewn perthynas ag eitem 7 a 8.

### 2 MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO

Nid oedd unrhyw fater brys.

### 3 COFNODION

Cyflwynwyd i'w cadarnhau, gofnodion cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 19 Rhagfyr 2016.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 19 Rhagfyr 2016 fel rhai cywir.**

## 4 COFNODION - PANEL RHIANTU CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd, i'w mabwysiadu gan y Pwyllgor Gwaith, gofnodion cyfarfod y Panel Rhiantu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2016.

**PENDERFYNWYD cadarnhau cofnodion y cyfarfod o'r Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr, 2016 fel rhai cywir.**

## 5 BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd er ystyriaeth gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a oedd yn cynnwys Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod Chwefror – Medi 2017.

Tynnodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd sylw at y newidiadau i'r Blaen Raglen Waith fel a ganlyn :-

- Eitem 2 – Rhent Tai Cyngor a Garejis yn ystod 2017/18 – gwneir penderfyniad dirprwyedig ar y mater hwn ym mis Chwefror 2017.

**Eitemau newydd i'r Blaen Raglen Waith**

- Eitem 17 – bydd Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017 – 2020 yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 14 Chwefror 2017;
- Eitem 18 – bydd Cynllun Comisiynu Cefnogi pobl yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 14 Chwefror 2017;
- Eitem 19 – bydd Defnydd Premiwm Treth Gyngor ar ail gartrefi a thai gwag tymor hir yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 14 Chwefror 2017;
- Eitem 20 – bydd Safleoedd ar Ynys Môn i Sipsiwn a Theithwyr yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 14 Chwefror 2017;
- Eitem 38 – bydd yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol (Cynllun Gwella) 2016/17 yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ym mis Medi 2017;
- Eitem 39 – bydd y Cynllun Corfforaethol 2017 – 2022 yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ym mis Medi 2017.

**Eitemau a aildrefnwyd ar gyfer ystyriaeth**

- Eitem 13 – Asesiad Llesiant – Bwrdd Gwasanaethau Lleol wedi ei aildrefnu i gael ei ystyried gan y Pwyllgor Gwaith ar 20 Mawrth 2017 yn hytrach na 14 Chwefror 2017;
- Eitem 28 – Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant wedi ei aildrefnu i gael ei ystyried gan y Pwyllgor Gwaith ar 24 Ebrill 2017 yn hytrach na 20 Mawrth 2017;
- Eitem 29 – Cynllun Busnes a Chyllideb Ddrafft y Cyfrif Refeniw Tai 2017-2018 i gael ei ystyried gan y Pwyllgor Gwaith ar 20 Mawrth 2017 yn hytrach na 14 Chwefror 2017;

**Eitemau newydd i'w hystyried nad ydynt ar y Blaen Raglen Waith ar hyn o bryd :-**

- Newid i'r Cyfansoddiad wedi ei raglennu i gael ei ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 14 Chwefror 2017 ac yna gan y Cyngor Sir ar yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 2017;
- Cwrs Golff, Llangefni wedi ei raglennu i gael ei ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 14 Chwefror 2017;
- Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi ei raglennu i gael ei ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 20 Mawrth 2017;
- Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd (Gwynedd ac Ynys Môn) wedi ei raglennu i gael ei ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 20 Mawrth 2017;
- Llywodraethiant Gwasanaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi ei raglennu i gael ei ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 20 Mawrth 2017.

**PENDERFYNWYD cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi ei diweddaru am y cyfnod o fis Chwefror i fis Medi 2017 yn amodol ar y newidiadau ychwanegol a amlinellwyd yn y cyfarfod.**

**6 ADRODDIAD AR YR YMGYNGHORIAD STATUDOL AR OSTWNG OED MYNEDIAD I YSGOL BRYNSIENCYN**

Cyflwynwyd er ystyriaeth y Pwyllgor Gwaith – adroddiad gan y Pennaeth Dysgu mewn perthynas â chais gan Gorff Llywodraethu Ysgol Brynsiencyn i'r Awdurdod ystyried gostwng oed mynediad yr ysgol i dderbyn disgyblion yn rhan-amser o'r Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed.

*Wedi datgan diddordeb personol, dywedodd y Cynghorydd H. Eifion Jones ei fod wedi derbyn cyngor cyfreithiol a bod hawl ganddo i gymryd rhan a phleidleisio mewn perthynas â'r eitem hon.*

Adroddodd yr Aelod Portffolio Addysg bod y Pwyllgor Gwaith wedi cytuno i ddechrau'r broses ymgynghori ym mis Mehefin 2016. Cynhaliwyd cyfarfod agored yn yr ysgol ar 13 Medi 2016 i drafod y Ddogfen Ymgynghori drafft. Paratowyd y ddogfen derfynol a chynhaliwyd ymgynghoriad rhwng 24 Hydref a 4 Rhagfyr 2016.

**PENDERFYNWYD parhau gyda'r broses drwy gyhoeddi gorchymyn statudol ynghylch gostwng oed mynediad i Ysgol Brynsiencyn fel y gellir derbyn disgyblion ar sail rhan amser yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed.**

**7 MODERNEIDDIO YSGOLION – CAERGYBI A LLANFAETHLU**

Cyflwynwyd er ystyriaeth y Pwyllgor Gwaith – adroddiad gan y Pennaeth Dysgu mewn perthynas â symud dyddiad gweithredu'r rhybuddion statudol ar gyfer Ysgol Rhyd y Llan ac Ysgol Cybi.

*Dywedodd y Cynghorwyr K. P. Hughes a J. Arwel Roberts eu bod wedi datgan diddordeb personol mewn perthynas â'r eitem hon ac nad oedd hawl ganddynt i siarad na phleidleisio ar y mater hwn.*

Adroddodd y Deilydd Portffolio Addysg bod oedi wedi digwydd yn y gwaith o adeiladu Ysgol Rhyd y Llan oherwydd bod gweddillion archeolegol wedi eu canfod ar y safle a bod nifer o faterion cadwraeth wedi codi fel rhan o'r broses gynllunio mewn perthynas ag Ysgol Cybi, gan fod yr adeilad yn un rhestredig.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo oedi o ran dyddiad gweithredu'r ddau gynnig i gwblhau Ysgol Rhyd y Llan ac Ysgol Caergybi tan 1 Medi 2017 ar yr amod bod y swyddogion yn rhoi gwybod i'r "partïon perthnasol".**

## 8 TREFNIADAU CYLLIDO AR GYFER YSGOLION NEWYDD

Cyflwynwyd er ystyriaeth y Pwyllgor Gwaith adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 mewn perthynas â threfniadau cyllido ar gyfer ysgolion newydd.

*Dywedodd y Cynghorydd J. Arwel Roberts ei fod wedi datgan diddordeb personol mewn perthynas â'r eitem hon ac nad oedd ganddo hawl i siarad na phleidleisio.*

Adroddodd y Deilydd Portffolio Cyllid nad yw'r Polisi Ariannu Teg wedi cael ei ddiweddaru ers y 1990au cynnar a nododd bod angen rhoi polisi cadarn yn ei le er mwyn cyllido ysgolion pan fyddant yn cael eu huno.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Yn y flwyddyn gyllido gyntaf, gosod cyllidebau ar gyfer unrhyw ysgolion sy'n cau neu ysgolion newydd sy'n eu holynu, a hynny'n seiliedig ar ddyraniad cyllidebol yr ysgolion cyfredol ar gyfer blwyddyn lawn, ac yna rhannu'r cyfanswm rhwng yr ysgolion sy'n cau a'r ysgolion newydd sy'n cymryd eu lle, yn seiliedig ar ddyddiadau cau neu agor pob ysgol;**

- **Diwygio'r Polisi Ariannu Teg, er mwyn caniatáu trosglwyddo unrhyw warged cyfun sydd gan yr ysgolion sy'n cau i'r ysgol newydd sy'n cymryd eu lle, hyd at y trothwy o £50,000 ar gyfer y sector Cynradd / £100,000 ar gyfer y sectorau Uwchradd ac Arbennig neu 5% o ddyraniad cyllidebol yr ysgol sy'n olynu;**

- **Trosglwyddo i'r gyllideb Addysg Ganolog unrhyw warged sydd dros £ 50,000 / £ 100,000 yn yr ysgolion sy'n cau, neu sy'n uwch na 5% o ddyraniad cyllidebol yr ysgol newydd, a hynny er mwyn talu am gostau trosiannol yn y flwyddyn gyntaf;**

- **Pan geir arbedion refeniw yn sgil cau ysgolion a sefydlu un ysgol newydd arall yn eu lle, bydd unrhyw arbediad refeniw yn cael ei dynnu o gyllideb ddirprwyedig gyffredinol yr ysgol fel cyfraniad i'r cynnydd yn y costau cyllido cyfalaf sy'n deillio o'r buddsoddiad yn yr ysgolion newydd;**

- **Bydd unrhyw bwysau Diogelu Cyflog yn cael eu tynnu o’r arbediad refeniw uchod (pwynt 4). Dylai'r cyflog cyfartalog ar gyfer yr ysgol newydd gynnwys unrhyw bwysau o ran diogelu cyflogau. Bydd yr ysgol newydd yn gyfrifol am dalu'r costau diogelu cyflogau. Unwaith y bydd y diogelwch cyflog wedi dod i ben, bydd yr arbediad hwn hefyd yn cael ei dynnu o'r Gyllideb a Ddirprwywyd i Ysgolion.**

Daeth y cyfarfod i ben am 10.15 am

**Y CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **14 CHWEFROR 2017** |
| **PWNC:** | **MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW, CHWARTER 3 2016/17** |
| **AELOD (AU) PORTFFOLIOI:** | **Y CYNGHORYDD H E JONES** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>FFÔN:<br>E-BOST: | **CLAIRE KLIMASZEWSKI**<br>01248 751865<br>ClaireKlimaszewski@ynysmon.gov.uk |
| **AELODAU LLEOL:** | **d / b** |

**A - Argymhelliad / Argymhellion a Rheswm / Rhesymau**

**1.** Ym mis Mawrth 2016, gosododd y Cyngor gyllideb net ar gyfer 2016/17 gyda gwariant net o £124.037m ar gyfer gwasanaethau i'w gyllido o incwm y Dreth Gyngor, Trethi Annomestig Cenedlaethol a grantiau cyffredinol.

**2.** Yng nghyllideb 2016/17, roedd angen gwneud arbedion gwerth £3.46m. Mae'r rhain wedi cael eu hymgorffori yng nghyllidebau'r gwasanaethau unigol ac adlewyrchir llwyddiant neu fethiant i gyflawni'r rhain yn y tanwariant / gorwariant a ddangosir.

**3.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar gyfer trydydd chwarter y flwyddyn ariannol sy'n berthnasol i'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Rhagfyr 2016. Hefyd, ceir crynodeb o'r sefyllfa a ragwelir ar gyfer y flwyddyn gyfan.

**4.** Y sefyllfa ariannol gyffredinol a ragwelir ar gyfer 2016/17 yn chwarter 3, gan gynnwys Cyllid Corfforaethol a'r gronfa Dreth Gyngor, yw gorwariant o £16k. Mae hyn yn cyfateb i 0.01% o gyllideb net y Cyngor ar gyfer 2016/17. Mae hyn yn welliant sylweddol o gymharu â'r gorwariant o £660k a ragwelwyd yn ystod chwarter 2.

**5.** Argymhellir : -

**(i)** Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â'r perfformiad ariannol hyd yma.
**(ii)** Caniatáu trosglwyddo unrhyw danwariant ar ddiwedd y flwyddyn yn y gyllideb graenau ffyrdd i gronfa wrth gefn glustnodedig. Byddai'r arian hwn o gymorth i gyllido costau ychwanegol yn y dyfodol yn sgil tywydd garw dros y gaeaf.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn?**

d / b

**C - Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (gorfodol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Amherthnasol – Adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn |
| **3** | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** (gorfodol) | Byddwn yn ymgynghori fel rhan o'r UDA |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Craffu** | |
| **8** | **Aelodau lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall / au** | |
| **E - Risgiau ac unrhyw liniaru (os yn berthnasol)** | | |
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrth-dlodi** | |
| **3** | **Troseddau ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniadau** | |
| **7** | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

- Atodiad A – Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw - Chwarter 3, 2016/17
- Atodiad B - Tabl o'r Canlyniadau Refeniw a ragwelir ar gyfer 2016/17, Chwarter 3
- Atodiad C - Crynodeb o Gyllidebau Wrth Gefn 2016/17
- Atodiad CH - Crynodeb o'r Perfformiad Ariannol a Ragwelir o ran Cyflawni Arbedion Cyllidebol 2016/17

**FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

Cyllideb Refeniw 2016/17 (fel y cafodd ei hargymell gan y Pwyllgor hwn ar 1 Mawrth 2016 a'i mabwysiadu gan y Cyngor Sir ar 9 Mawrth 2016).

## MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW - CHWARTER 3, 2016/17

### 1. Balans Cyffredinol – Sefyllfa Agoriadol

**1.1** Balans y gronfa gyffredinol ar ddechrau'r flwyddyn oedd £7.886m. Fodd bynnag, yn erbyn y ffigwr hwn, mae angen caniatáu ar gyfer ymrwymiad posib o leiaf £ 2.15m i setlo hawliadau tâl cyfartal sy'n weddill. Mae hynny'n gostwng lefel y gronfa wrth gefn sydd heb ei hymrwymo i £5.736m, sydd £736k yn uwch na'r isafswm o £5m a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith ar gyfer balans y cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn 2016/17. Mae'r Cyngor yn ymdrechu i sicrhau cytundeb gan Lywodraeth Cymru a fyddai'n caniatáu i'r Cyngor drin y gwariant fel gwariant cyfalaf, a fyddai'n golygu y gellid ei godi fel tâl ar y gyllideb refeniw dros nifer o flynyddoedd. Os bydd yn llwyddo, mae'n golygu y bydd y £2.15m yn dod yn gyllideb sydd heb ei hymrwymo ac yn cael ei hychwanegu'n ôl i'r gronfa wrth gefn gyffredinol sydd ar gael i'r Cyngor.

### 2. Perfformiad Ariannol a Ragwelir fesul Gwasanaeth

**2.1** Mae manylion perfformiad ariannol pob gwasanaeth ar gyfer y cyfnod a'r canlyniadau a ragwelir ar gyfer pob un wedi eu nodi yn Atodiad B. Rhagwelir gorwariant o £756 (0.70%) ar wasanaethau ar 31 Mawrth 2017. Fodd bynnag, yn achos Cyllid Corfforaethol, rhagwelir tanwariant o £1.004m (6.31%) sy'n gwrthbwyso'r gorwariant a ragwelir ar wasanaethau. Yn ogystal, rhagwelir diffyg o £264k o ran casglu'r Dreth Gyngor. Cynydda hyn y rhagolwg refeniw ar gyfer 2016/17 i orwariant o £16k (0.01%). Mae'r tabl isod yn crynhoi'r amrywidau sylweddol (£100k neu fwy). Mae hon yn well sefyllfa nag yr adroddwyd arni yn chwarter 2 pan ragwelwyd cyfanswm gorwariant o £660k.

| **Crynodeb o'r amrywiadau a ragwelir ar 31 Mawrth 2017 yn seiliedig ar wybodaeth ariannol ar 31 Rhagfyr 2016** | **(Tan) / Gorwariant £ 000** |
|---|---:|
| Dysgu Gydol Oes | 700 |
| Gofal Cymdeithasol i Blant | 718 |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | (258) |
| Gwasanaethau Eiddo | (175) |
| Rheolaeth Gorfforaethol | (100) |
| Cyllid Corfforaethol | (1,004) |
| Casglu'r Dreth Gyngor | 264 |
| Arall (cyfanswm yr amrywiadau sy'n is na £100k) | (129) |
| Gor/(Tan)wariant Net ar wasanaethau | 16 |

## 3. Eglurhad ar yr Amrywiadau sylweddol

### 3.1 Dysgu Gydol Oes

#### 3.1.1 Addysg Ganolog

**3.1.1.1** Roedd gwariant y gwasanaeth £604k (24.91%) yn uwch na'r gyllideb a broffiliwyd ar ddiwedd chwarter 3. Rhagwelir y bydd y gwasanaeth yn gorwario £775k (21.4%) ym mlwyddyn ariannol 2016/17. Mae'r sefyllfa wedi gwaethygu o gymharu â'r tanwariant o £167k yr adroddwyd arno yn chwarter 2. Mae cynnydd yn nifer y lleoliadau all-sirol arbenigol wedi arwain at bwysau sylweddol ar y gyllideb ar gyfer y gwasanaeth, ac amcangyfrifir y bydd gorwariant o £405k yn y cyllidebau hyn. Yn ogystal, mae cynnydd pellach yn y costau cludo disgyblion i'r ysgol, a rhagwelir y bydd gorwariant o £310k. Mae yna hefyd nifer o fân danwariannau a gorwariannau eraill. Mae cais y gwasanaeth am arian buddsoddi i arbed i'w fuddsoddi yn y System 'One Management' bellach wedi ei gymeradwyo, ac fe ddylai hynny fod o gymorth i leihau costau cludiant ysgol (tacsis) o 2017/18. Mae'r holl arbedion effeithlonrwydd ar gyfer 2016/17 ar darged i gael eu cyflawni.

#### 3.1.2 Diwylliant

**3.1.2.1** Roedd gwariant y gwasanaeth hwn yn £149k (13.42%) yn is na'r gyllideb broffiliedig ar ddiwedd y cyfnod, a'r canlyniad a ragwelir ar gyfer y flwyddyn yw tanwariant o £75k (5.28%). Mae hyn yn fwy na'r tanwariant o £53k yr adroddwyd arno yn chwarter 2. Disgwylir gorwariant o £10k ar Amgueddfeydd ac Orielau a thanwariant o £60k ar y Gwasanaethau Llyfrgell. Rhagwelir hefyd y bydd tanwariant o £25k ar gyfer Ynys Lawd, ac mae £16k ohono oherwydd incwm dros ben yn dilyn cynnydd yn y ffioedd. Mae'r holl arbedion effeithlonrwydd ar gyfer 2016/17 ar darged i gael eu cyflawni.

### 3.2 Gofal Cymdeithasol i Oedolion

**3.2.1** Roedd gwariant ar y gwasanaeth £605k (3.58%) yn uwch na'r gyllideb a broffiliwyd ar ddiwedd y cyfnod hwn. Fodd bynnag, cyllidir y rhan fwyaf ohono o grantiau. Y canlyniad a ragwelir ar gyfer y flwyddyn gyfan yw gorwariant o £44k (0.20%). Mae hyn yn well na'r gorwariant o £143k a ragwelwyd yn chwarter 2.

**3.2.2** Mae'r amrywiadau a ragwelir yn y canlyniad a ragwelir fel a ganlyn:-

- Gwasanaethau ar gyfer yr Henoed: rhagwelir gorwariant o £44k;
- Anableddau Corfforol (AC): rhagwelir gorwariant o £173k;
- Anableddau Dysgu (AD): rhagwelir gorwariant o £461k;
- Iechyd Meddwl (IM): rhagwelir gorwariant o £141k;
- Yr Uned Ddarparu: rhagwelir tanwariant o £722k; a
- Rheolaeth a Chefnogaeth: rhagwelir tanwariant o £53k.

**3.2.3** Mae'r cyllidebau hyn yn cael eu harwain gan y galw a gall cynnydd bach yn nifer y lleoliadau arwain at gynnydd sylweddol yn y costau – mae hyn yn dibynnu ar gymhlethdod y pecynnau gofal. Mae'r pwysau cyllidebol mwyaf arwyddocaol yn y maes Anableddau Dysgu. Mae'r pwysau ar gyllideb y gwasanaethau Iechyd Meddwl wedi gostwng ers chwarter 2, er y gwelwyd pwysau ychwanegol ar gyllidebau gwasanaethau Anabledd Corfforol. Mae dau leoliad preswyl newydd a ffioedd uwch wedi cynyddu'r gorwariant a ragwelir yn y gwasanaethau Anabledd Corfforol o'r £8k yr adroddwyd arno yn chwarter 2 i £173k. Fodd bynnag, cymerwyd camau o fewn yr Uned Ddarparu i gynyddu'r tanwariant i £722k, ac mae tanwariant o £53k mewn costau rheoli a chymorth wedi gwrthbwyso llawer o'r pwysau cyllidebol hyn.

**3.24** Mae'r rhagamcan cyllidebol wedi gwella ers chwarter 2, yn bennaf oherwydd llai o bwysau yn y misoedd diwethaf ar y gyllideb ar gyfer gwasanaethau Iechyd Meddwl, gwasanaethau i'r Henoed a chynnydd yn y tanwariant yn yr Uned Ddarparu.

**3.2.5** Nod y gwasanaeth yw lleihau'r gorwariant drwy ddwyn ymlaen arbedion penodol yn 2017/18 i'r flwyddyn gyfredol. Mae arbedion wedi'u targedu ar gyfer dau unigolyn a leolwyd mewn lleoliadau arbenigol mewn siroedd eraill. Bydd y gwasanaeth yn parhau i reoli niferoedd y lleoliadau trwy banel adnoddau wythnosol ar gyfer Gwasanaethau Pobl Hŷn / Anabledd ac o fewn y Gwasanaethau Anabledd Dysgu. Mae'r panelau hyn yn chwarae rôl hanfodol wrth reoli gwariant ac i sicrhau y comisiynir gwasanaethau priodol ac sydd mor gost-effeithiol â phosib.

## 3.3 Gwasanaethau Plant

**3.3.1** Roedd y gwariant ar y gwasanaeth £513k (9.05%) yn uwch na’r gyllideb a broffiliwyd ar ddiwedd chwarter 3 a rhagwelir y bydd gorwariant o £718k (9.59%) ar gyfer y flwyddyn ariannol yn ei chyfanrwydd. Mae hyn yn cynnwys gorwariant o £721k a ragwelir ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG). Mae hwn yn gynnydd bychan o gymharu â’r gorwariant o £683k yr adroddwyd arno yn chwarter 2.

**3.3.2** Mae’r gorwariant a ragwelir yn cael ei achosi gan gynnydd yn nifer y lleoliadau arbenigol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Mae'r galw am y gwasanaethau statudol hyn yn anodd ei reoli a gall un neu ddau o achosion cymhleth olygu cynnydd sylweddol yn y gwariant mewn cyfnod byr o amser. Fodd bynnag, fel yr adroddwyd yn chwarter 2, yn ei gyfarfod ar 25 Gorffennaf, 2016 cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith ryddhau cyllid ychwanegol i'r Gwasanaethau Plant i ariannu’r tîm Trothwy Gofal. Bydd y tîm hwn yn mynd ati mewn modd ataliol i sicrhau lles plant ac mae'n anelu at ostwng nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal ar Ynys Môn. Mae £100k wedi cael ei neilltuo ar gyfer 2016/17 o gronfeydd wrth gefn a bydd £241k yn cael ei ychwanegu at gyllideb y gwasanaeth ar gyfer 2017/18 a 2018/19. Mae'r gwasanaeth yn disgwyl y bydd yn dechrau gweld manteision y prosiect hwn o ran osgoi costau o 2017/18 ymlaen.

## 3.4 Tai (Cronfa'r Cyngor)

**3.4.1** Roedd y gwasanaeth hwn £114k (8.62%) yn tu ôl i’r gyllideb a broffiliwyd ar ddiwedd y cyfnod. Disgwylir y bydd gan y gwasanaeth danwariant o £50k (6.05%) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae hyn yn fwy na’r tanwariant o £12k a ragwelwyd ar ddiwedd chwarter 2. Disgwylir y bydd tanwariant o £30k ar y Strategaeth Dai a pharheir i ragweld tanwariant o £40k ar weinyddiaeth Tai. Rhagwelir gorwariant o £10k yr un yng Nghanolfan JE O'Toole ac ar Wasanaethau Digartrefedd. Mae gwaith yn parhau i gael ei wneud i gwblhau a gweithredu’r newidiadau yn y gwasanaeth cyngor lles ond mae’n annhebygol bellach y gwelir yr arbediad yn 2016/17. Bydd adnoddau’r gwasanaeth yn cwrdd â’r diffyg hwn.

## 3.5 Rheoleiddio a Datblygu Economaidd

### 3.5.1 Economaidd a Chymunedol (yn cynnwys Morwrol a Hamdden)

**3.5.1.1** Roedd y gwasanaeth yn gyffredinol wedi gwario £281k (14.68%) yn llai na’r gyllideb a broffiliwyd ar ddiwedd chwarter 3. Gellir priodoli £153k o'r tanwariant i broblemau proffilio cyllidebau grantiau ond bydd y rhain wedi eu gwario erbyn diwedd y flwyddyn. Rhagamcenir y bydd tanwariant o £9k (0.47%) erbyn 31 Mawrth 2017. Mae hyn yn well na’r gorwariant o £17k a ragwelwyd yn ystod chwarter 2.

**3.5.1.2** Rhagwelir y bydd gan elfen Datblygu Economaidd y Gwasanaeth danwariant o £41k oherwydd cynnydd yn yr incwm o logi cyfleusterau'r ganolfan ac ad-daliadau mewnol. Mae swyddi gweigion hefyd yn cyfrannu at y tanwariant.

**3.5.1.3** Mae disgwyl y bydd tanwariant o £53k yn yr Adain Forwrol ar ddiwedd y flwyddyn o ganlyniad i reoli swyddi gweigion a chamau eraill fel gostwng gwariant dydd i ddydd.

**3.5.1.4** Rhagdybir y bydd gorwariant o £85k yn y Gwasanaeth Hamdden ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn, yn rhannol, o ganlyniad i gau pwll Canolfan Hamdden Caergybi yn ystod cyfnod yr haf ar gyfer gwaith cynnal a chadw hanfodol ac atgyweiriadau ar ôl difrod storm yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf sydd wedi lleihau lefel yr incwm a dderbyniwyd.

**3.5.2 Rheoleiddio (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd)**

**3.5.2.1** Roedd y gwasanaeth hwn wedi gwario £322k (15.27%) yn llai na'r gyllideb a broffiliwyd ar ddiwedd y cyfnod, a rhagwelir tanwariant o £258k (10.35%) erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn yn fwy na'r tanwariant o £170k yr adroddwyd arno yn ystod chwarter 2. Yn ogystal, amcangyfrifir y bydd incwm dros ben oddeutu £140k mewn perthynas â datblygiadau mawr a bydd yr arian hwnnw'n cael ei roi mewn cronfa wrth gefn glustnodedig i gefnogi gweithrediad datblygiadau mawr yn y dyfodol.

**3.5.2.2** Mae'r rhan fwyaf o'r cyllidebau yn yr Adran Reoleiddio yn tanwario ac eithrio 'Planning Delivery Wales', Cefn Gwlad a'r Arfordir, Safonau Masnach a Marchnadoedd sydd, fe ragdybir, yn debygol o orwario rhywfaint.

**3.6 Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo**

**3.6.1 Priffyrdd**

**3.6.1.1** Roedd y gwasanaeth wedi gwario £57k (0.88%) yn llai na'r gyllideb broffiliedig ar ddiwedd y cyfnod, ond rhagwelir y bydd tanwariant o £16k (0.25%) erbyn diwedd y flwyddyn os bydd y tywydd mwyn dros y gaeaf yn parhau. Mae hyn yn well na'r rhagolwg yr adroddwyd arno yn ystod chwarter 2. Nid yw'r canlyniad hwn a ragwelir yn cynnwys unrhyw ragamcan mewn perthynas â'r cyllidebau gwaith gan fod y rhain yn cael eu heffeithio gan ofynion cynnal a chadw dros y gaeaf ac unrhyw ddifrod storm. Mae yna hefyd ansicrwydd ynghylch costau cludiant cyhoeddus ac, o'r herwydd, rhagdybiwyd cyllideb gytbwys ar gyfer y rhain. Er nad yw effaith cyllidebau gaeaf wedi ei chynnwys yn y rhagolygon, dylid trosglwyddo unrhyw danwariant yn y gyllideb graeanu i gronfa wrth gefn glustnodedig. Byddai hynny o gymorth i gwrdd â chostau ychwanegol yn y dyfodol yn sgil tywydd garw dros y gaeaf.

**3.6.1.2** Mae'r gwelliant yn bennaf oherwydd camau a gymerwyd i leihau gwariant ar waith stryd sydd wedi arwain at amcanfyfrif o danwariant o £80k. Disgwylir gorwariant o £76k yn y Gwasanaeth Dylunio Gwaith Cynnal a Chadw ac amcangyfrifir gorwariant o £50k yn y gwasanaeth rheoli cynnal a chadw. Mae yna nifer o fân orwariannau a thanwariannau eraill.

### 3.6.2 Gwastraff

**3.6.2.1** Roedd y gwasanaeth Gwastraff wedi gwario £63k (1.02%) yn llai na'r gyllideb broffiliedig ar ddiwedd Rhagfyr 2016. Mae'r gwasanaeth yn rhagweld gwelliant sylweddol yn y canlyniad a rhagwelir tanwariant o £60k (0.96%). Amcangyfrifir bod hyn yn ostyngiad o £205k yn y gwariant o gymharu â'r gorwariant o £145k yr adroddwyd arno yn chwarter 2.

**3.6.2.2** Mae pwysau cyllidebol yn parhau o fewn y gwasanaeth a disgwylir gorwariant o £60k gyda'r Safle Cynhyrchu Trydan a Gorsaf Drosglwyddo Penhesgyn. Fodd bynnag, mae costau cael gwared ar wastraff wedi gostwng yn sylweddol yn sgil casglu bob tair wythnos a threfniadau amgen i gael gwared ar y gwastraff. Ni wyddys beth fydd effaith net y cynnydd yn y costau casglu a'r gostyngiad yn y costau gwaredu hyd yma. Disgwylir tanwariant o £180k erbyn diwedd y flwyddyn ariannol yn y Gwasanaeth Cael Gwared ar Wastraff oherwydd y newidiadau hyn.

### 3.6.3 Eiddo

**3.6.3.1** Roedd tanwariant o £209k (20.39%) yn y Gwasanaethau Eiddo o gymharu â'r gyllideb a broffiliwyd ar ddiwedd y cyfnod a rhagwelir y bydd tanwariant o £175k (19.12%) ar 31 Mawrth 2017. Mae hyn yn uwch na'r tanwariant o £115k a ragwelwyd yn chwarter 2.

**3.6.3.2** Rhagwelir y bydd pwysau ar gyllidebau, fel gorwariant o £100k ar waith trwsio a chynnal a chadw, costau casglu gwastraff a chostau rhesymoli swyddfeydd yn cael eu gwrthbwyso gan: tanwariant ar gostau gweithwyr (£70k), tanwariant ar Drethi Annomestig (£100k), gwasanaeth Glanhau (£80k) a thanwariant o £30k yr un ar renti a chyfleustodau.

## 3.7 Trawsnewid

**3.7.1** Roedd gwariant y Gwasanaeth Trawsnewid £386k (14.94%) yn uwch na'r gyllideb a broffiliwyd ar ddiwedd y cyfnod, fodd bynnag, bydd llawer o'r costau hyn yn cael eu cyllido o gronfeydd wrth gefn a grantiau a glustnodwyd a fydd yn cael eu credydu i gyllideb y Gwasanaeth ar ddiwedd y flwyddyn. Rhagwelir y bydd tanwariant o £50k (1.37%) yn y gwasanaeth ar ddiwedd y flwyddyn sydd yr un fath â'r tanwariant yr adroddwyd arno yn chwarter 2.

**3.7.2** Bydd gorwariant o £ 50k ar gostau TGCh yn cael ei wrthbwyso gan y tanwariant a ragwelir yn y tîm Trawsnewid Corfforaethol (£50k) a Phartneriaeth Ynys Môn a Gwynedd (£50k).

## Adnoddau

**3.8.1** Roedd cyllideb y Swyddogaeth Adnoddau yn dangos tanwariant o £91k (3.57%) erbyn diwedd y cyfnod. Rhagwelir y bydd gorwariant o £92k (3.37%) yn y swyddogaeth erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae hyn yn well na'r gorwariant o £131k yr adroddwyd arno yn chwarter 2.

**3.8.2** Mae'r pwysau cyllidebol allweddol yn ymwneud â thanysgrifiadau technegol (£15k), ymgynghoriaeth (£46k), costau cefnogi meddalwedd (£40k), costau banc (£30k) a staffio (£25k). Bydd grantiau annisgwyl (£44k) ac arbedion ar gostau staffio yn y gwasanaeth archwilio (£20k) o gymorth i ostwng y gorwariant net.

### 3.9 Busnes y Cyngor

**3.9.1** Roedd y swyddogaeth wedi gwario £19k (1.79%) yn fwy na’r gyllideb a broffiliwyd ar 31 Rhagfyr, 2016. Fodd bynnag, mae’r gwasanaeth yn parhau i ragweld tanwariant o £62k (4.12%) ar gyfer y flwyddyn ariannol.

**3.9.2** Y rhesymau mwyaf arwyddocaol am hyn yw tanwariant disgwyliedig yn y Gwasanaethau Pwyllgor (£42k) a phridiannau tir yn cynhyrchu mwy o incwm (£25k) na’r disgwyl. Mae yna fân orwariannau a thanwariannu eraill.

### 3.10 Costau Corfforaethol a Democrataidd

**3.10.1** Roedd y gwasanaeth wedi gwario £141k (7.45%) yn llai na'r gyllideb broffiliedig ar ddiwedd y cyfnod. Rhagwelir y bydd tanwariant o £18k (0.94%) ar ddiwedd y flwyddyn.

### 3.11 Rheolaeth Gorfforaethol

**3.11.1** ‘Roedd tanwariant o £72k (12.90%) yn y swyddogaeth ar 31 Rhagfyr 2016 a rhagwelir tanwariant o £100k (13.38%) ar gyfer y flwyddyn ariannol oherwydd arbedion yn deillio o ailstrwythuro Rheolaeth Strategol.

## 4. Cyllid Corfforaethol

**4.1** Disgwylir y bydd tanwariant o £1,004k (6.31%) ar ddiwedd y flwyddyn mewn perthynas â Chyllid Corfforaethol.

**4.2** Mae’r gyllideb budd-daliadau yn cynnwys budd-daliadau tai, taliadau tai dewisol a chynllun gostyngiadau’r dreth gyngor. Amcangyfrifir y bydd tanwariant o £274k yn y gyllideb. Yr elfen sylweddol ohono yw tanwariant o £501k oherwydd bod y llwyth achosion yn llai na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol. Fodd bynnag, mae cynnydd o £150k a amcangyfrifir yn y ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg a chostau o £77k nad ydynt yn gymwys ar gyfer cymhorthdal yn lleihau’r ffigwr.

**4.3** Amcangyfrifir bod y prosiect gweithio’n gallach £302k yn brin o’i darged arbedion corfforaethol Mae yna arbedion y gellir eu priodoli’n glir i’r prosiect, er enghraifft, gellir credydu cau swyddfeydd yn erbyn y gyllideb hon. Fodd bynnag, mae arbedion eraill mewn perthynas â chostau staff gweinyddol a gweinyddiaeth gyffredinol yn cael eu gwireddu yng nghyllidebau’r gwasanaethau ac nid yw’r arbedion hyn wedi eu cyfrif yn erbyn y targed hwn. Nid oes dim i’w ddweud na fydd y prosiect Gweithio’n Gallach yn cyflawni'r arbedion a ragwelwyd ar y cychwyn.

**4.4** Mae yna ddiffyg sylweddol hefyd o ran y llog a dderbynnir ar adneuon banc yr Awdurdod (£105k), ac mae’r sefyllfa wedi gwaethygu gyda thorri’r gyfradd banc swyddogol o 0.50% i 0.25%. Mae'r gorwariannau hyn yn cael eu gwrthbwyso, fodd bynnag, oherwydd mae’r costau benthyca’n is gan fod yr Awdurdod yn defnyddio ei falansau ar gyfer y rhaglen gyfalaf yn hytrach na benthyca’n allanol. Mae cynnydd yng nhyfran y CRT o’r ffioedd llog yn dilyn tynnu allan o’r system cymhorthdal ar gyfer y CRT hefyd yn gostwng costau llog i Gronfa’r Gyngor. Fodd bynnag, mae’n bosib na fydd y benthyca mewnol hwn yn bosib yn y dyfodol oherwydd y prosiectau cyfalaf sylweddol, yn enwedig mewn perthynas â rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

**4.5** Mae Atodiad C yn crynhoi'r sefyllfa ariannol mewn perthynas â chyllidebau wrth gefn ar 31 Rhagyr 2016. Cafodd cyllideb ar gyfer cronfeydd wrth gefn werth £2.039m ei chymeradwyo fel rhan o gyllideb 2016/17. Mae £620k net wedi cael ei drosglwyddo i wasanaethau i ariannu prosiectau penodol neu faterion cyllidebol a gymeradwywyd gan y Swyddog Adran 151. Yn ogystal, mae £1,507k wedi'i ymrwymo o'r arian wrth gefn i ariannu costau a gymeradwywyd a disgwylir y bydd tanwariant o £150k yn y gronfa wrth gefn gyffredinol. Yn ogystal, rhagwelir tanwariant o £143k yn y gronfa wrth gefn a glustnodwyd ar gyfer y gwasanaeth Oedolion. Rhagwelir cyfanswm o £293k o danwariant felly yn y cronfeydd wrth gefn. Bydd y cyllidebau wrth gefn sy'n weddill wedi eu gwario'n llawn erbyn diwedd y flwyddyn yn unol â'r gymeradwyaeth angenrheidiol ar gyfer defnyddio cyllidebau wrth gefn.

## 5. Casglu'r Dreth Gyngor

**5.1** Amcangyfrifir y bydd y Dreth Gyngor a gasglwyd £88k yn brin o'r targed. Yn ogystal, rhagwelir ar hyn o bryd y cynnydd yn y ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac amheus yn £176k. Felly, amcangyfrifir ar hyn o bryd y bydd y Gronfa Dreth Gyngor £264k (0.21%) yn brin o'r targed, a hynny'n bennaf oherwydd y gofyniad i wneud darpariaeth ddarbodus ar gyfer dyledion drwg. Mae hon yn sefyllfa waeth na'r diffyg o £ 198k a ragwelwyd yn ystod chwarter 2.

## 6. Arbedion Cyllideb 2016/17

**6.1** Cafodd arbedion cyllidebol o £3.06m eu tynnu o gyllidebau gwasanaethau ar gyfer 2016/17 a £400k ychwanegol o arbedion o ddiswyddiadau gwirfoddol eu cadw mewn cronfa wrth gefn. Yn Atodiad CH, ceir crynodeb o'r perfformiad disgwyliedig yn erbyn yr arbedion cyllidebol hyn ar gyfer y flwyddyn. Mae £2.476m (80.9%) o'r arbedion eisoes wedi eu cyflawni neu fe dybir y gellir eu cyflawni yn ystod y flwyddyn.

**6.2** Ni fydd modd cyflawni £542k (17.7%) o'r targedau arbedion yn 2016/17 ond mae'n debygol y gellir eu cyflawni yn 2017/18. Mae £251k o'r rhain eisoes wedi cael eu cynnwys yn y canlyniad a ragwelir ar gyfer y flwyddyn. Fodd bynnag, nid yw £291k wedi cael ei gynnwys yn y rhagolygon oherwydd diffyg gwybodaeth i asesu a fydd modd cyflawni'r arbedion hyn ai peidio. Os na fydd yr arbedion hyn yn cael eu cyflawni, yna bydd cynnydd pellach o £291k yn y gorwariant ar gyfer y flwyddyn. Er gwaethaf y ffaith na fydd modd cyflawni gwerth £542k o'r arbedion yn 2016/17, mae gwaith yn parhau i fynd rhagddo i weithredu'r cynigion ac, o ganlyniad, mae'r arbedion yn debygol o gael eu cyflawni yn 2017/18. Fodd bynnag, ni fydd modd cyflawni gwerth £42k (1.4%) o arbedion yn y dyfodol. Ni fydd y targed incwm £10k ar gyfer hysbysebu ar finiau yn cael ei gyflawni gan nad oes marchnad ar gyfer hyn. Yn ogystal, ni fydd modd cwrdd â'r targed £32k yn y Gwasanaethau Plant o ganlyniad i fwy o ofynion cyfreithiol sy'n golygu na fydd modd gwneud yr arbedion.

**6.3** Bydd y rhan fwyaf o'r £400k (75%) o arbedion o ddiswyddiadau gwirfoddol yn cael eu cyflawni. Wrth i staff gael eu rhyddhau, caiff strwythurau staffio eu had-drefnu ac mae angen penodi staff i'r strwythurau diwygiedig. Mewn rhai achosion, mae'r broses hon wedi cymryd mwy o amser i weithredu ac mae staff y mae'r Cyngor wedi cytuno i'w rhyddhau yn parhau i gael eu cyflogi gan y Cyngor.

## 7. Casgliad

**7.1** Rhagwelir y bydd cyfanswm y gorwariant ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2017 yn £16k (0.01%). Rhagwelir gorwariant o £756k ar gyllidebau gwasanaethau, er rhaid pwysleisio ei fod yn cynnwys nifer o orwariannau a thanwariannau. Y Gwasanaethau sy'n parhau i fod dan bwysau cyllidebol yw Addysg Gydol Oes a'r Gwasanaethau Plant. Mae hyn oherwydd cost gwasanaethau statudol ar gyfer lleoliadau arbenigol sydd y tu allan i reolaeth y gwasanaethau i raddau helaeth. Disgwylir i'r gorwariant ar wasanaethau gael ei ariannu gan danwariant mewn Cyllid Corfforaethol o £1.004m, sydd wedi digwydd yn bennaf oherwydd tanwariant ar y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac arbedion ar Ariannu Corfforaethol. Yn ogystal, amcangyfrif y bydd yr incwm a gesglir o'r Dreth Gyngor £264k yn brin o'r targed, a hynny'n bennaf oherwydd y gofyniad i ddarparu ar gyfer dyledion drwg.

**7.2** Dylid nodi mai amcangyfrif yw hwn ac y bydd materion tu allan i reolaeth y Cyngor, megis tywydd garw dros y gaeaf yn cael effaith ar y gwariant ond nid oes modd eu ffactora i mewn i'r rhagolygon hyn. Gall rhagamcanion o'r fath newid wrth i wybodaeth newydd ddod i'r fei. Fodd bynnag, bydd sgriwtini rheolaidd gan yr yr UDA a chamau unioni gan Benaethiaid Gwasanaeth yn helpu rheolwyr gwasanaethau i reoli'r cyllidebau y maent yn gyfrifol amdanynt.

**Atodiad B**

## Tabl o'r Canlyniadau Refeniw a ragwelir ar gyfer 2016/17, Chwarter 3

| Gwasanaeth / Swyddogaeth | Cyllideb Ddiwygiedig 2016/17 (heb gynnwys CSC a Dibrisiant) £'000 | Ch3 Cyllideb 2016/17 £'000 | Ch3 Gwariant gwirioneddol a'r gwariant a ymrwymwyd £'000 | Ch3 Amrywiant 2016/17 £'000 | Ch3 Amcangyfrif o'r Gwariant hyd at 31 Mawrth 2017 £'000 | Ch3 Amcangyfrif o'r Canlyniadau ar 31 Mawrth, 2017 drosodd / (danodd) £'000 | Ch2 Amcangyfrif o'r Canlyniadau ar 31 Mawrth, 2017 drosodd / (danodd) £'000 | Gor(tan) Wariant fel % o'r gyllideb ddiwygiedig ar gyfer 2016/17 % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | | | | |
| Cyllidebau a ddirprwywyd i'r Ysgolion | 43,779 | 33,581 | 33,581 | 0 | 43,779 | **0** | **0** | **0.00%** |
| Addysg Ganolog | 3,665 | 2,426 | 3,030 | 604 | 4440 | **775** | **167** | **21.14%** |
| Diwylliant | 1,419 | 1,111 | 962 | (149) | 1,344 | **(75)** | **(53)** | **(5.28%)** |
| | | | | | | | | |
| Gwasanaethau oedolion | 22,295 | 16,916 | 17,522 | 605 | 22,339 | **44** | **143** | **0.20%** |
| | | | | | | | | |
| Gwasanaethau Plant | 7491 | 5664 | 6176 | 513 | 8209 | **718** | **683** | **9.59%** |
| | | | | | | | | |
| Tai | 826 | 1,324 | 1,210 | (114) | 776 | **(50)** | **(12)** | **(6.05%)** |
| | | | | | | | | |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | | | | | | | | |
| Priffyrdd | 6472 | 6458 | 6401 | (57) | 6456 | **(16)** | **80** | **(0.25%)** |
| Eiddo | 915 | 1,027 | 818 | (209) | 740 | **(175)** | **(115)** | **(19.12%)** |
| Gwastraff | 6278 | 6,172 | 6,109 | (63) | 6218 | **(60)** | **145** | **(0.96%)** |
| | | | | | | | | |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** | | | | | | | | |
| Economaidd | 1,073 | 1,039 | 865 | (174) | 979 | **(94)** | **(53)** | **(8.76%)** |
| Hamdden | 857 | 873 | 767 | (107) | 942 | **85** | **70** | **9.92%** |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | 2,493 | 2,171 | 1,840 | (332) | 2,235 | **(258)** | **(170)** | **(10.35%)** |
| | | | | | | | | |
| **Trawsnewid** | | | | | | | | |
| Adnoddau Dynol | 1,186 | 879 | 1,023 | 144 | 1,186 | **0** | **0** | **0.00%** |
| TGCh | 1,613 | 1,238 | 1,456 | 218 | 1,663 | **50** | **50** | **3.10%** |
| Trawsnewid Corfforaethol | 858 | 466 | 491 | 24 | 758 | **(100)** | **(100)** | **(11.65%)** |
| | | | | | | | | |
| **Adnoddau** | | | | | | | | |
| Adnoddau | 2,733 | 2,546 | 2,637 | 91 | 2,825 | **92** | **146** | **3.37%** |
| | | | | | | | | |
| Busnes y Cyngor | 1,505 | 1,070 | 1,089 | 19 | 1,443 | **(62)** | **(62)** | **(4.12%)** |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | 1,913 | 1,893 | 1,752 | (141) | 1,895 | **(18)** | **(18)** | **(0.94%)** |
| Rheolaeth Gorfforaethol | 747 | 560 | 487 | (72) | 647 | **(100)** | **(100)** | **(13.38%)** |
| **Cyfanswm Cyllidebau Gwasanaeth** | **108,120** | **87,415** | **88,216** | **802** | **108,876** | **756** | **801** | **0.70%** |

| Gwasanaeth / Swyddogaeth | Cyllideb Ddiwygiedig 2016-17 (heb gynnwys CSC a Dibrisiant) £ '000 | Ch3 Cyllideb 2016/17 £ '000 | Ch3 Gwariant gwirioneddol a'r gwariant a ymrwymwyd £ '000 | Ch3 Amrywiant 2016/17 £ '000 | Ch3 Amcangyfrif o'r Gwariant hyd at 31 Mawrth 2017 £ '000 | C3 Amcangyfrif o'r Canlyniadau ar 31 Mawrth, 2017 drosodd / (danodd) £ '000 | Ch2 Amcangyfrif o'r Canlyniadau ar 31 Mawrth, 2017 drosodd / (danodd) £ '000 | Gor(tan) wariant/fel % o'r gyllideb ddiwygiedig ar gyfer 2016/17 % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ardollau | 3,194 | 2,393 | 2,397 | 4 | 3,198 | **4** | **0** | **0.13%** |
| Cyllido Cyfalaf | 8,286 | 2,931 | 3,015 | 84 | 7,546 | **(740)** | **(88)** | **(8.93%)** |
| Addasiad corfforaethol ar gyfer dibrisiant | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | **0** | **0.00%** |
| Rhyddhad Dewisol at y Dreth | 60 | 0 | 0 | 0 | 57 | **(3)** | **(2)** | **(5.00%)** |
| Cronfeydd wrth gefn cyffredinol ac eraill | 1,658 | 0 | 0 | 0 | 1,365 | **(293)** | **(40)** | **(17.67%)** |
| Cyllido a defnyddio arian wrth gefn | (3,218) | 0 | 0 | 0 | (2,916) | **302** | **102** | **9.38%** |
| Budd-daliadau a Roddwyd | 5937 | 5985 | 6,060 | 75 | 5,663 | **(274)** | **(311)** | **(4.62%)** |
| **Cyfanswm Cyllid Corfforaethol** | **15,917** | **11,309** | **11,473** | **164** | **14,913** | **(1,004)** | **(339)** | **(6.31%)** |
| | | | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllideb 2016/17** | **124,037** | **98,724** | **99,689** | **965** | **123,789** | **(248)** | **462** | **(0.20%)** |
| | | | | | | | | |
| Cyllido 2016/17 | | | | | | | | |
| TAC | (21,309) | | | | (21,309) | **0** | **0** | |
| Y Dreth Gyngor | (32,109) | | | | (31,845) | **264** | **198** | |
| Grant Cynnal Refeniw | (70,619) | | | | (70,619) | **0** | **0** | |
| **Cyfanswm Cyllid 2016/17** | **(124,037)** | | | | **(123,773)** | **264** | **198** | **0.21%** |
| | | | | | | | | |
| **Cyfanswm canlyniad gan gynnwys effaith cyllido** | **(0)** | | | | **16** | **16** | **660** | **0.01%** |

## Crynodeb o Sefyllfa Ariannol y Cyllidebau Wrth Gefn Chwarter 3, 2016/17

| | Cyllideb wreiddiol<br>£ | Trosglwyddiadau<br>£ | Cyllideb Ddiwygiedig<br>£ | Ymrwymwyd hyd yma (31/12/16)<br>£ | Heb ei ymrwymo<br>£ | Amcangyfrif o'r gor(tan)wariant ar 31/03/17<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwella | 400,000 | (104,730) | 295,270 | 285,000 | 10,270 | - |
| Cronfa wrth Gefn Gyffredinol | 317,927 | 47,680 | 365,607 | 165,000 | 200,607 | (150,000) |
| Tâl a Graddfeydd | 500,000 | (168,080) | 331,920 | - | 331,920 | - |
| Cost Newid | 136,000 | (63,000) | 73,000 | - | 73,000 | - |
| TAC Caniatáu disgownt | 60,000 | - | 60,000 | 60,000 | - | - |
| Cronfa Wrth Gefn Glustnodedig | 625,000 | - | 625,000 | 625,000 | - | (143,000) |
| **Cyfanswm cyllidebau wrth gefn** | 2,038,927.00 | (288,130) | 1,750,797 | 1,135,000 | 615,797 | (293,000) |

**Atodiad CH**

## Crynodeb o'r Perfformiad a Ragwelir o ran Cyflawni Arbedion 2016/17 - Chwarter 3



| Gwasanaeth / Swyddogaeth | Arbedion 2016/17 £'000 | Arbedion y gellir eu cyflawni yn 2016/17 £'000 | Arbedion na fydd modd eu cyflawni o bosib yn 2016/17 £'000 | Arbedion na chânt eu cyflawni o gwbl £'000 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| Dysgu Gydol Oes | 1,308 | 1,308 | - | - | Disgwylir medru cyflawni'r holl arbedion yn 2016/17 |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | 258 | 217 | 41 | - | Dim modd cyflawni £28k o'r arbedion oherwydd diffyg yn yr incwm o'r caffis yn y canolfannau hamdden, yn bennaf oherwydd eu bod ar gau tra bod gwaith atgyweirio yn cael ei wneud arnynt. Bydd hyn yn cael ei ariannu yn ystod y flwyddyn o danwariant mewn rhannau eraill o'r gwasanaeth. Yn ychwanegol, ni lwyddwyd i gwrdd â'r targed i godi £13k o incwm ychwanegol yn y Gwasanaeth Rheoli Pla ond caiff ei gyllido o danwariant o fewn y gwasanaeth. |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 730 | 406 | 314 | 10 | Ni lwyddir i gael £17k o incwm o'r meysydd parcio ychwanegol, er y bydd gwaith cynnal a chadw yn gostwng i ariannu hyn. Ni fydd modd gwneud arbediad o £6k o danc septig Porth Swtan yn 2016/17 oherwydd oedi gyda'r gwaith. Yn ogystal, mae'n anodd asesu £291k o'r arbedion tan gyfnod y gaeaf. Ni lwyddir i gael incwm o £10k o hysbysebu ar finiau gan nad oes marchnad ar gyfer hyn, ond bydd hyn yn cael ei ariannu eleni gan danwariant yn y Gwasanaeth Cael Gwared ar Wastraff. |
| Gwasanaethau Oedolion | 335 | 200 | 135 | - | £135k yn anodd ei gyflawni yn ystod 2016/17 o ganlyniad i brosesau adolygu, ymgynghori a chyfreithiol. |
| Gwasanaethau Plant | 143 | 96 | 15 | 32 | Dim modd cyflawni £32k oherwydd newid yn y gyfraith, yn debygol o fedru cyflawni £15k o 2017/18. |
| Tai | 74 | 37 | 37 | - | Gohiriwyd £37k tan 2017/18 oherwydd derbyn adroddiad yn hwyr gan yr Ymgynghorydd. Fodd bynnag, yn 2016/17 bydd yr arbedion hyn yn cael eu cyllido o'r tanwariant mewn rhannau eraill o'r gwasanaeth. |
| Trawsnewid | 4 | 4 | - | - | Disgwylir medru cyflawni'r holl arbedion yn 2016/17. |
| Busnes y Cyngor | 56 | 56 | - | - | Disgwylir medru cyflawni'r holl arbedion yn 2016/17. |
| Adnoddau | 72 | 72 | - | - | Disgwylir medru cyflawni'r holl arbedion yn 2016/17. |
| Partneriaeth Ynys Môn a Gwynedd | 80 | 80 | - | - | Disgwylir medru cyflawni'r holl arbedion yn 2016/17. |
| **Cyfanswm** | **3,060** | **2,476** | **542** | **42** | |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **14 CHWEFROR 2017** |
| **PWNC:** | **ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF – CHWARTER 3 2016/17** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD H E JONES** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES (EST 2601)** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>RHIF FFÔN:<br>E-BOST: | **GARETH ROBERTS**<br>**01248 752675**<br>GarethRoberts@ynysmon.gov.uk |
| **AELODAU LLEOL:** | **d/b** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Argymhellir nodi'r gwariant a'r derbyniadau yn erbyn y gyllideb gyfalaf

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

d/b

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

- Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu perfformiad ariannol y Gyllideb Gyfalaf ar gyfer trydydd chwarter y flwyddyn ariannol.
- Mae monitro'r gyllideb yn swyddogaeth a ddirprwywyd i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Gosod y Gyllideb Gyfalaf flynyddol.

| | **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)**(mandadol) | |
| 2 | **Cyllid / Adran 151**(mandadol) | Amherthnasol – adroddiad gan y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| | **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
| --- |
| Atodiad A - Adroddiad Monitro'r Gyllideb Gyfalaf - Chwarter 3, 2016/17.<br>Atodiad B - Crynodeb o Wariant y Prosiect Cyfalaf hyd yma yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a'r Gwariant a ragwelir erbyn Diwedd y Flwyddyn. |
| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
| • Cyllideb Gyfalaf 2016/17, fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor hwn ar 1 Mawrth 2016;<br>• Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2016/17 a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn ar 10 Mawrth 2016;<br>• Adroddiad Monitro Cyllideb Gyfalaf - Chwarter 1 2016/17 fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor hwn ar 19 Medi 2016; ac<br>• Adroddiad Monitro Cyllideb Gyfalaf - Chwarter 2 2016/17 fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor hwn ar 28 Tachwedd 2016. |

**ATODIAD A**

# 1. RHAGARWEINIAD

**1.1** Hwn yw'r adroddiad ar fonitro'r Gyllideb Gyfalaf ar gyfer trydydd chwarter y flwyddyn ariannol ac mae'n caniatáu i'r Aelodau nodi cynnydd y Gwariant Cyfalaf a'r Derbyniadau Cyfalaf yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf.

**1.2** Ym mis Mawrth 2016, cymeradwyodd y Cyngor Raglen Gyfalaf ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai, sef £26.933m ar gyfer 2016/17 a Rhaglen Gyfalaf o £11.636m ar gyfer y CRT. Ym mis Mai 2016, cymeradwyodd y Cyngor ddwyn ymlaen £7.792m o lithriad cyfalaf o 2015/16. Ers y broses o bennu'r gyllideb, ychwanegwyd cynlluniau eraill i'r rhaglen. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cael eu hariannu gan grantiau ac maent yn gwneud cyfanswm o £6.502m. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau grant megis grant cyfalaf £3.148m dan y Cynllun Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, Grant Diogelwch Ffyrdd o £0.105m, Grant Llwybrau Diogelach mewn Cymunedau o £0.108m a grant Cronfa Gofal Canolraddol o £0.244m. Cymeradwywyd cyfanswm o £0.286m o brosiectau Buddsoddi i Arbed hefyd a gyllidir o Gronfeydd Wrth Gefn y Cyngor. Mae hyn yn dod â chyfanswm y gyllideb Gyfalaf ar gyfer 2016/17 i £52.863m.

# 2. CYNNYDD AR WARIANT YN 2016/17

**2.1** Isod mae tabl cryno o'r gwariant cyfalaf hyd at 31 Rhagfyr 2016, y gyllideb a broffiliwyd hyd at 31 Rhagfyr 2016 a'r cyllid arfaethedig ar gyfer Rhaglen Gyfalaf 2016/17.

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol £'000 | Cyllideb a broffilwyd £'000 | Gwariant Gwirioneddol £'000 | Gwariant a Ymrwymwyd £'000 | Cyfanswm Gwariant £'000 | % y Gwariant o'r Gyllideb a broffiliwyd | % y Gwariant o'r Gyllideb Flynyddol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa Dai Gyffredinol | 2,744 | 1,464 | 1,014 | 52 | 1,067 | 73 | 39 |
| CRT Tai | 14,221 | 6,405 | 5,187 | 860 | 6,047 | 94 | 43 |
| Dysgu Gydol Oes | 12,776 | 7,569 | 7,412 | 128 | 7,540 | 100 | 59 |
| Economaidd ac Adfywio | 4,346 | 948 | 747 | 7 | 755 | 80 | 17 |
| Priffyrdd | 11,671 | 6,305 | 5,929 | 625 | 6,554 | 104 | 56 |
| Rheoli Gwastraff | 628 | 509 | 468 | 52 | 520 | 102 | 83 |
| Eiddo | 1,128 | 644 | 928 | 1 | 929 | 144 | 82 |
| Trawsnewid | 1,728 | 821 | 1,090 | 88 | 1,178 | 143 | 68 |
| Cynllunio | 1,765 | 590 | 241 | 217 | 457 | 78 | 26 |
| Gwasanaethau Oedolion | 1,857 | 919 | 863 | - | 863 | 94 | 46 |
| **Cyfanswm** | **52,863** | **26,173** | **23,879** | **2,030** | **25,910** | **99** | **49** |

| | |
|---|---|
| **Ariannwyd gan:** | |
| Grant Cyfalaf | 25,314 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 6,575 |
| Benthyca gyda Chymorth | 2,189 |
| Benthyca Digefnogaeth | 6,730 |
| Cyfraniad Refeniw | 10,667 |
| Arian Wrth Gefn | 786 |
| Yswiriant | 603 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **52,863** |

**2.2** Y gwariant a broffiliwyd hyd at ddiwedd y trydydd chwarter ar gyfer y Gronfa Gyffredinol yw 100%. Fodd bynnag, dim ond 51% o'r gyllideb flynyddol a wariwyd hyd yma. Y rheswm am hyn yw bod nifer o'r cynlluniau cyfalaf wedi eu pwysoli tuag at chwarter olaf y flwyddyn ariannol. Erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, disgwylir y bydd 77% o'r gyllideb ar gyfer y Gronfa Gyffredinol wedi ei wario. Fel y dywedwyd yn y chwarter diwethaf, y ddau Brosiect Cyfalaf mwyaf na fyddant wedi gwario eu cyllidebau'n llawn yn y flwyddyn ariannol hon - ac sy'n rhannol gyfrifol am y ffaith mai dim ond 77% o'r gyllideb sydd wedi ei wario - yw'r Cynllun Seilwaith Strategol ar gyfer Caergybi a Llangefni a'r Cynllun Priffyrdd Newydd i Wylfa Newydd. Mae'r Cynllun Seilwaith Strategol ar gyfer Caergybi a Llangefni yn dal i aros am arian SCEC ac ni ragwelir y bydd unrhyw wariant cyfalaf eleni. Rhagwelir y bydd tanwariant yn y Cynllun Priffyrdd Newydd i Wylfa Newydd oherwydd bod Prosiect Ffordd Nanner wedi costio llai nag a ragwelwyd ac nid oes cymaint o waith ar-lein wedi ei wneud hyd yma ag yr amcangyfrifwyd yn wreiddiol. Mae risgiau gyda rhai prosiectau cyfalaf ac mae'r rhain wedi eu hamlygu yn Rhan 3.1.2 yr adroddiad hwn. Mae rhai cynlluniau cyfalaf wedi hen gychwyn a gwariwyd y rhan fwyaf o'r gyllideb a broffiliwyd ar gyfer Chwarter 3 os nad y cyfan Nid yw rhai Cynlluniau Cyfalaf wedi cychwyn hyd yma, ond mae eu cyllidebau wedi cael eu proffilio tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Gellir gweld y cynlluniau hyn a'u proffiliau yn Atodiad B.

**2.3** Mae'r Cyfrif Refeniw Tai wedi gwario 94% o'r gyllideb a broffiliwyd, ond dim ond 43% o'r gyllideb flynyddol. Amcangyfrifir ar hyn o bryd y bydd 65% o'r gyllideb wedi ei wario ar ddiwedd y flwyddyn ariannol oherwydd mai dim ond 30 eiddo a brynwyd o gymharu â'r amcangyfrif gwreiddiol o 40. Fodd bynnag, bydd y 10 na chawsant eu prynu yn y flwyddyn ariannol hon yn cael eu prynu yn 2017/18 ac, felly, bydd y gyllideb a danwariwyd yn llithro i'r flwyddyn ariannol nesaf. Yn ystod Chwarter 2 llwyddwyd i gwblhau contractau cyfalaf y dygwyd ymrwymiad iddynt ymlaen o 2015/16. Dyfarnwyd 5 o gontractau gwaith cynnal a chadw traddodiadol newydd, sydd wedi ymrwymo dros £3.8m o'r gyllideb ar gyfer 2016/17. Mae'r Gwasanaeth Tai yn rhagweld y bydd y contractau hyn wedi eu cwblhau'n ymarferol cyn diwedd Chwarter 4. Gwahoddwyd tendrau am 2 gynllun pellach yn ystod Chwarter 3. O ganlyniad, bydd y gyllideb ar gyfer y rhaglen gynnal a chadw wedi ei hymrwymo'n llawn cyn diwedd Chwarter 3.

**2.4** Mae'r rhaglen gwella mân-ddaliadau, a gyllidir yn bwrpasol gydag arian cyfalaf a geir yn sgil gwerthu mân-ddaliadau ac incwm rhent, wedi cael ei hymestyn am flwyddyn ychwanegol. Mae gwariant ar y rhaglen hon yn parhau i fod yn uwch na'r cyllid a geir drwy werthu mân-ddaliadau a'r rhent a geir amdanynt. Dygwyd diffyg o £1.281m ymlaen o 2015/16. 'Roedd derbyniadau cyfalaf hyd at ddiwedd y trydydd chwarter yn £1.507m a gwariwyd £0.891m hyd yma. O ganlyniad, mae'r diffyg bellach yn £0.665m. Ar gyfer chwarter olaf y flwyddyn rhagwelir Gwariant Cyfalaf o £0.450m a £1.683m o Dderbyniadau Cyfalaf. Byddai hyn yn golygu, pe bai'r holl fân-ddaliadau yn cael eu gwerthu am y pris disgwyliedig, bydd gwarged o £0.568m ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn y rhaglen mân-ddaliadau. Bydd angen gwneud penderfyniad ynghylch a ddylid neilltuo unrhyw Dderbyniadau Cyfalaf sydd dros ben ar gyfer y Rhaglen Mân-ddaliadau ynteu eu dyrannu i'r Gronfa Gyffredinol.

## 3. CYLLID

### 3.1 Grantiau cyfalaf

**3.1.1** Mae nifer o gynlluniau Grant Cyfalaf yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2016/17. Ar ddiwedd y trydydd chwarter, mae un cynllun sydd heb ddechrau eto, sef y Gronfa Gofal Canolraddol gyda chyllideb o £0.244m. Fodd bynnag, disgwylir y bydd y grant hwn wedi ei wario yn llawn erbyn diwedd y flwyddyn.

**3.1.2** Mae pum cynllun sy'n cario risg sylweddol o ran y cyllid Grant Cyfalaf, sef:-

- Prosiect Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain - Ar ddiwedd y trydydd chwarter, ‘roedd y Grant Cyfalaf ar gyfer y prosiect hwn wedi ei hawlio yn unol â’r proffil ac nid oes ond dau fater bach i adrodd arnynt. Yn gyntaf, fel yr adroddwyd o’r blaen, oherwydd y gwaith archeolegol wrth Ysgol Rhyd Y Llan mae posibilrwydd o orwariant o £0.150m. Fodd bynnag, os ceir y gwariant ychwanegol eleni, rydym yn dal i fod o fewn yr amlen ar gyfer Band A ac, felly, nid oes unrhyw broblemau gyda chyllid grant. Yn ail, mae’n annhebygol y llwyddir i gwrdd â tharged cyllid cyfatebol yr Awdurdod ar gyfer 2016/17. Fodd bynnag, caiff ei ddwyn ymlaen i 2017/18. Gan fod hwn yn gynllun mor fawr gyda chyllideb eleni o £12.274m, mae'n cario risg sylweddol. Er bod y tywydd wedi bod yn dda dros y gaeaf, erys risg bydd tywydd garw yn ysod gweddill y gaeaf a gall materion annisgwyl godi gyda'r safleoedd ac y gallai hynny olygu oedi. Gallai unrhyw broblemau arwain at fethiant i wario yn unol â’r proffil yn y dyfodol, a gallai hynny arwain at golli arian.

- Grant Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid (LlLlLlA) - Mae’r gyllideb gyfalaf am 2016/17 yn £3.148m. Ar ddiwedd y trydydd chwarter, dim ond £0.754m sydd wedi ei wario, er bod y rhan fwyaf o gyllideb y cynllun wedi ei broffilio’n drwm tuag at chwarter olaf y flwyddyn ariannol. Disgwylir gwario’r grant yn llawn erbyn diwedd y flwyddyn, ond, o ystyried lefel y gwariant sydd ei angen yn chwarter olaf y flwyddyn ariannol, mae perygl na fydd y gwariant yn cyrraedd y lefel ofynnol ac y collir cyllid grant. Ym mhedwerydd chwarter y flwyddyn ariannol, dyrannwyd yn llawn y gyllideb LlLlLlA ar gyfer prosiectau nad ydynt wedi eu cwblhau hyd yma.

- Cynllun Ffordd Gyswllt Llangefni - Y gyllideb bresennol ar gyfer y cynllun hwn yw £4.349m, oherwydd bod yr Awdurdod wedi cael grant ychwanegol o £0.617m gan Lywodraeth Cymru ar gyfer yr olion archeolegol a ddarganfuwyd ar y safle yn gynharach yn y flwyddyn. Mae’r cynllun yn mynd yn ei flaen yn dda ond mae angen prynu rhagor o dir ac mae hynny’n risg ynddo’i hun. Ar ddiwedd y trydydd chwarter ‘roedd cyfanswm y gwariant yn £3.334m, a rhagwelir y bydd y gyllideb wedi ei gwario’n llawn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

- Cynllun Atal Llifogydd ym Miwmares - Ar ôl cwblhau'r elfen arfordirol ym mis Chwefror, ‘roedd cam dau y Cynllun Atal Llifogydd hwn yn cynnwys elfen afonol y gwaith. Mae oedi gyda’r elfen hon o’r gwaith yn sgil gwrthwynebiadau gan drigolion a methiant i ddod i gytundeb gyda thirfeddiannwr. Mae Llywodraeth Cymru wedi dod i ddyfarniad yn ddiweddar ar y gwrthwynebiad (o blaid y Cyngor) ac ar hyn o bryd rydym yn disgwyl am gyngor cyfreithiol ar y ffordd ymlaen yng ngoleuni hyn. Mae trafodaethau yn parhau gyda'r perchennog tir ond maent yn araf ac ni lwyddwyd i ddod i gytundeb hyd yma. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud eu bod wedi neilltuo cyllid ar gyfer y gwaith hwn ond hyd yma, oherwydd yr anawsterau a ddisgrifir uchod, ni ddyfarnwyd y Grant. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wrthi'n ystyried yr adolygiad dylunio a wnaed yng ngoleuni lifogydd afonol ym mis Rhagfyr y llynedd. Yn amodol ar gyngor cyfreithiol ar y gwrthwynebiad ac ystyriaeth ffafriol gan Lywodraeth Cymru i’r adolygiad dylunio, mae'n debygol y bydd gwaith ar y cynllun yn dechrau yn y flwyddyn ariannol nesaf.

- Cynllun Seilwaith Strategol ar gyfer Caergybi a Llangefni – Cyflwynwyd cynlluniau busnes ar gyfer y ddau brosiect i SCEC ac maent yn cael eu gwerthuso ar hyn o bryd. Mae trafodaethau'n parhau ag Adrannau Llywodraeth Cymru ynghylch cyllid cyfatebol, gydag elfennau o Gynllun Ffordd Gyswllt Llangefni i gael eu defnyddio fel rhan o'r cyllid cyfatebol ar gyfer Cynllun Llangefni. Mae trafodaethau yn parhau ynghylch yr elfennau cyllid cyfatebol a gwerth am arian y cynllun. Rhagwelir y caiff cynllun Llangefni ei gymeradwyo yn chwarter 4 ac y bydd cynllun Caergybi'n cael ei gymeradwyo yn chwarter 1 y flwyddyn ariannol nesaf.

## 3.2 Derbyniadau Cyfalaf

**3.2.1** Y derbyniadau cyfalaf ar gyfer y flwyddyn hyd yn hyn, y derbyniadau cyfalaf a gyllidebwyd a'r derbyniadau cyfalaf a ragwelwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol hon yw: -

| | Cyllideb 2016/17 £'000 | Derbyniwyd hyd at 31-Rhagfyr-2016 £'000 | Rhagamcan hyd at 31 Mawrth 2017 £'000 |
|---|---|---|---|
| **CRT Tai:** | | | |
| Gwerthiannau Hawl i Brynu | 565 | 667 | 749 |
| Gwerthu Tir | 0 | 0 | 0 |
| | | | |
| **Tai Sector Preifat:** | | | |
| Gwerthu Plotiau | 0 | 0 | 0 |
| Taliadau a Ad-dalwyd | 0 | 0 | 0 |
| Grantiau a Ad-dalwyd | 0 | 54 | 54 |
| | | | |
| **Cronfa'r Cyngor:** | | | |
| Mân-ddaliadau | 2,285 | 1,507 | 3,190 |
| Cyffredinol | 1,480 | 648 | 1,840 |
| Diwydiannol | 380 | 0 | 380 |
| Ysgolion | 1,865 | 0 | 1,865 |
| | | | |
| **Cyfanswm** | **6,575** | **2,876** | **8,078** |

**3.2.2** Y derbyniadau cyfalaf a ragwelir ar 31 Mawrth 2017 yw £8.078m, ond dim ond £2.876m a dderbyniwyd erbyn 31 Rhagfyr 2016 (35.6%). Roedd hyn yn bennaf yn sgil gwerthu chwe mân-ddaliad (£1.507m), un eiddo yng Nghaergybi (£0.115m), un eiddo yn Llangefni (£0.350m) a saith dan y ddeddf Hawl i Brynu (£0.667m). Mae'r derbyniadau cyfalaf a ragwelir yn cynnwys £1.675m yn sgil gwerthu hen safleoedd ysgol, £0.350m ar eiddo yn Llangefni a £1.683m ar gyfer gwahanol Fân-ddaliadau.

**3.2.3** Mae'r gyllideb Derbyniadau Cyfalaf mewn perthynas â gwerthiannau Hawl i Brynu dan y CRT yn seiliedig ar y cynllun 30 blynedd ar gyfer y CRT a rhagwelir y bydd 8 eiddo yn cael eu gwerthu yn y flwyddyn ariannol hon. Fel y nodwyd yn 3.2.2, gwerthwyd 7 eiddo hyd at ddiwedd y trydydd chwarter. Mae posibilrwydd y bydd dau arall yn cael eu gwerthu dan y ddeddf Hawl i Brynu yn chwarter olaf y flwyddyn ariannol gan gynhyrchu £0.143m o dderbyniadau cyfalaf, ond nid oes sicrwydd o'r rhain.

**3.2.4** Ers diwedd y chwarter, mae'r Awdurdod wedi derbyn £0.315m o Dderbyniadau Cyfalaf - (£0.105m) am eiddo diwydiannol, (£0.128m) am eiddo yn Aberffraw a (£0.082m) a werthu un eiddo dan y ddeddf Hawl i Brynu.

**3.2.5** Allan o'r £8.078m o Dderbyniadau Cyfalaf a ragwelir erbyn 31 Mawrth 2017 bydd £6.768m ar gael ar gyfer Cyllido yn 2016/17. Bydd £0.742m ar gael ar gyfer Rhaglen Gyfalaf 2017/18, ac yn unol â’r gyllideb ddrafft mae angen £1.522m o Dderbyniadau Cyfalaf i ariannu'r rhaglen. Yr rhagweliad diweddaraf yw y bydd yr Awdurdod yn derbyn £0.780m o Dderbyniadau Cyfalaf yn 2017/18. Rhagwelir y bydd y rhaglen Mân-ddaliadau (fel y crybwyllwyd yn adran 2.4 o'r adroddiad hwn) yn dangos gwarged o £0.568m erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, oherwydd y bydd y Derbyniadau Cyfalaf yn fwy na Gwariant. Bydd angen gwneud penderfyniad ynghylch a ddylid neilltuo unrhyw dderbyniadau Cyfalaf dros ben i'r rhaglen Mân-ddaliadau, ynteu eu dyrannu i'r Gronfa Gyffredinol.

## 4. Y GWARIANT GWIRIONEDDOL A RAGWELIR AR GYFER 2016/17

**4.1** Isod mae tabl gyda’r gwariant a ragwelir erbyn 31 Mawrth 2017 a’r cyllido diwygiedig: -

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol £'000 | Gwariant a Ragamcenir £'000 | (Tan)/ Gorwariant a Ragamcenir £'000 | % Amrywiad |
|---|---|---|---|---|
| Cronfa Gyffredinol Tai | 2,744 | 2,128 | - 616 | - 22 |
| CRT Tai | 14,221 | 9,209 | - 5,012 | - 35 |
| Dysgu Gydol Oes | 12,776 | 11,333 | - 1,443 | - 11 |
| Economaidd ac Adfywio | 4,346 | 1,936 | - 2,410 | - 55 |
| Priffyrdd | 11,671 | 7,967 | - 3,704 | - 32 |
| Rheoli Gwastraff | 628 | 617 | - 11 | - 2 |
| Eiddo | 1,128 | 1,502 | 374 | 33 |
| Trawsnewid | 1,728 | 1,597 | - 131 | - 8 |
| Cynllunio | 1,765 | 1,063 | - 702 | - 40 |
| Gwasanaethau Oedolion | 1,857 | 1,434 | - 423 | - 23 |
| **Cyfanswm** | **52,863** | **38,786** | **- 14,077** | **- 27** |
| **Ariannwyd gan:** | **Cyllideb Flynyddol £'000** | **Cyllid a Ragamcenir £'000** | **Amrywiad** | **% Amrywiad** |
| Grant Cyfalaf | 25,314 | 14,078 | - 11,236 | - 44 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 6,575 | 6,634 | 58 | 1 |
| Benthyca gyda Chymorth | 2,189 | 6,216 | 4,027 | 184 |
| Benthyca Digefnogaeth | 6,730 | 5,212 | - 1,518 | - 23 |
| Cyfraniad Refeniw | 10,667 | 5,758 | - 4,909 | - 46 |
| Arian Wrth Gefn | 786 | 286 | - 500 | - 64 |
| Yswyriant | 603 | 603 | - | - |
| **Cyfanswm Cyllid** | **52,863** | **38,786** | **- 14,077** | **- 27** |

**4.2** Fel y gwelir o dabl 4.1 (uchod), rhagwelir tanwariant o £14.077m ar y Rhaglen Gyfalaf am 2016/17, gyda llithriad posib i Raglen Gyfalaf 2017/18 o £7.732m. Mae'r £6.345m arall yn dod o gynlluniau i'w cwblhau yn 2016/17 sydd o dan y gyllideb, neu lle cyflwynwyd cais Cyfalaf newydd ar gyfer 2017/18. Bydd y cyllid ar gyfer y llithriad hefyd yn llithro i 2017/18 a chymerwyd hynny i ystyriaeth wrth gynhyrchu'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2017/18. Y prif brosiectau y rhagwelir y byddant yn tanwario yw’r Cynlluniau Seilwaith Strategol ar gyfer Caergybi a Llangefni a’r Cynllun Priffyrdd Newydd i Wylfa Newydd, fel y gwelir yn Atodiad B. Ymhelaethir ar y rhesymau am y tanwariant yn y Cynlluniau Seilwaith Strategol ar gyfer Caergybi a Llangefni yn rhan 3.1.2 yr adroddiad hwn. Rhagwelir y bydd y Cynllun Priffyrdd Newydd i Wylfa Newydd yn tanwario oherwydd bod Prosiect Ffordd Nanner wedi costio llai nag a ragwelwyd ac oherwydd na wnaed cymaint o waith ar-lein ag yr amcangyfrifwyd yn wreiddiol. Rhagwelir tanwariant hefyd o £5.012m yn y Cyfrif Refeniw Tai a bydd hwnnw’n llithro i 2017/18.

**4.3** Y Gofyniad Cyllid Cyfalaf a ragwelir ar 31 Mawrth 2017 yw £134.628m, sef yr angen sylfaenol i'r Awdurdod gymryd benthyg i allu ariannu ei Raglen Gyfalaf. Ar hyn o bryd mae'r benthyca allanol yn £110.737m, sy'n golygu yn y bôn bod angen i'r Awdurdod gymryd benthyg £23.891m, naill ai'n fewnol neu'n allanol, i ariannu'r Rhaglen Gyfalaf gyfredol. Os benthycir yn allanol, bydd yr Awdurdod yn dal o fewn ei derfynau benthyca awdurdodedig yn unol â Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2016/17(Atodiad 11 o'r Datganiad yma).

**4.4** Fel y gwelir o dabl 4.1 (uchod), mae gwahaniaeth sylweddol yn y cyllid ar gyfer Grantiau Cyfalaf a Benthyca â Chymorth. Y prif reswm dros y cynnydd yn y Benthyca â Chymorth yw'r trefniant ariannu ar gyfer Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif ar gyfer 2016/17. Mae'r cyllid gan Lywodraeth Cymru ar ffurf Grant Cyfalaf a Benthyca â Chymorth, ac amcangyfrifwyd y byddai hynny wedi ei rannu ar sail 50:50 yn 2016/17. Fodd bynnag, mae mwy o bwysoliad tuag Fenthyca â Chymorth yn 2016/17, sy'n golygu bod y Benthyca â Chymorth wedi cynyddu a'r Grant Cyfalaf wedi gostwng. Fel arall fydd hi yn y blynyddoedd i ddod, gyda mwy o bwysoliad tuag at Grant Cyfalaf. Y sefyllfa hon, ynghyd â'r rhagolygon o danwariant yn y Cynlluniau Seilwaith Strategol ar gyfer Caergybi a Llangefni a'r tanwariant a ragwelir yn y Cynllun Priffyrdd Newydd i Wylfa Newydd, fel y nodwyd eisoes, yw'r prif resymau pam y bydd Grant Cyfalaf yn llai yn 2016/17.

## 5. Y DYFODOL

**5.1** Aeth yr Adroddiad ar y Gyllideb Gyfalaf ar gyfer 2017/18 i'r Pwyllgor Gwaith ar 7 Tachwedd 2016. Cyfanswm y rhaglen gyfalaf arfaethedig ar gyfer 2017/18 (gan gynnwys Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a'r Cyfrif Refeniw Tai) yw £40.949m. Gellir torri hyn i lawr i'r Ymrwymiad Cyfredol o Raglen Gyfalaf 2016/17 (£8.826m), Asedau Cyfredol (£2.301m), Buddsoddi i Arbed (£0.271m), Ailwynebu Priffyrdd (£0.760m), Cynlluniau Newydd (£11.675m) Cynlluniau Benthyca Digefnogaeth (£0.362m), Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif (£6.865m) a'r CRT (£9.889m). Bydd y cyllido arfaethedig ar ffurf £21.258m (52%) o ffynonellau cyllido allanol megis y Grantiau Cyfalaf a £19.691m (48%) o ffynonellau mewnol. Mae hyn yn cynnwys £3.472m o fenthyca â chymorth, £5.063m o fenthyca digefnogaeth gyda'r £11.156m sy'n weddill yn cael ei gyllido o'r Grant Cyfalaf Cyffredinol, Derbyniadau Cyfalaf a chronfeydd wrth gefn y Cyngor ei hun. Derbyniwyd y Gyllideb Gyfalaf ddrafft ar gyfer 2017/18 gan y Pwyllgor Gwaith a bydd y cynnig terfynol yn cael sylw ganddo ar 14 Chwefror 2017 ac yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn ar 28 Chwefror 2017.

**5.2** Fel y crybwyllwyd yn 4.2, ni chwblheir rhai cynlluniau Cyfalaf yn Rhaglen Gyfalaf 2016/17 erbyn 31 Mawrth 2017. Bydd y cynlluniau hyn yn cael eu cwblhau yn ystod 2017/18 a bydd angen symud y cyllid i 2017/18. Bydd angen gofyn i'r Pwyllgor hwn am ganiatâd i symud y cyllid i 2017/18, a gwneir hynny yn Adroddiad Alldro Cyfalaf 2016/17 a gyflwynir i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Mehefin 2017.

**ATODIAD B**

## Crynodeb o Wariant y Prosiect Cyfalaf hyd yma yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a'r  Gwariant a ragwelir erbyn Diwedd y Flwyddyn

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Gwariant a Ymrwymwyd (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiad o gymharu â'r proffil (£) | % Gwariant o gymharu â'r Gyllideb a Broffiliwyd | % o'r Gyllideb Flynyddol a Wariwyd | Gwariant Rhagamcanedig (£) | (Tan) / Gorwariant Rhagamcanedig (£) | % Amrywiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfa Dai Gyffredinol** | | | | | | | | | | | |
| Troi Tai'n Gartrefi i'w gosod | 182,240 | 136,680 | 48,671 | 0 | 48,671 | -88,009 | 36 | 27 | 182,240 | 0 | 0 |
| Troi Tai'n Gartrefi i'w Gwerthu | 167,500 | 125,625 | 25,000 | 0 | 25,000 | -100,625 | 20 | 15 | 167,500 | 0 | 0 |
| Troi Tai'n Gartrefi (2) | 167,600 | 125,700 | 112,400 | 0 | 112,400 | -13,300 | 89 | 67 | 167,600 | 0 | 0 |
| Astudiaethau Tai a Ffioedd Ll Ll Ll A | 7,000 | 7,001 | 2,124 | 0 | 2,124 | -4,877 | 0 | 30 | 7,000 | 0 | 0 |
| Grantiau Tai Ll Ll Ll A 1 | 20,000 | 20,000 | 17,649 | 0 | 17,649 | -2,351 | 88 | 88 | 20,000 | 0 | 0 |
| Grantiau Tai Ll Ll Ll A 2 | 20,000 | 20,000 | 12,720 | 0 | 12,720 | -7,280 | 64 | 64 | 20,000 | 0 | 0 |
| Grantiau Tai Ll Ll Ll A 3 | 20,000 | 15,000 | 17,777 | 0 | 17,777 | 2,777 | 119 | 89 | 20,000 | 0 | 0 |
| Grantiau Tai Ll Ll Ll A 4 | 20,000 | 15,000 | 15,426 | 0 | 15,426 | 426 | 103 | 77 | 20,000 | 0 | 0 |
| Grantiau Tai Ll Ll Ll A 5 | 20,000 | 15,000 | 19,550 | 0 | 19,550 | 4,550 | 130 | 98 | 20,000 | 0 | 0 |
| Pryniant Gorfodol - Cynllun Peilot | 458,550 | 105,000 | 120,510 | 468 | 120,978 | 15,978 | 115 | 26 | 140,000 | -318,550 | -69 |
| Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | 900,560 | 562,500 | 471,697 | 0 | 471,697 | -90,803 | 84 | 52 | 750,000 | -150,560 | -17 |
| Safle Preswyl i Sipsiwn a Theithwyr | 247,000 | 75,000 | 0 | 37,150 | 37,150 | -37,850 | 50 | 15 | 100,000 | -147,000 | -60 |
| Grant Ll Ll Ll A - Tai Cymdeithasol Lôn Cyttir | 98,760 | 98,760 | 49,381 | 0 | 49,381 | -49,379 | 50 | 50 | 98,760 | 0 | 0 |
| Grant Ll Ll Ll A - Bwlch Alltran | 5,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 5,000 | 0 | 0 |
| Grant Ll Ll Ll A - Porth Fictoria | 13,000 | 20,000 | 9,560 | 5,506 | 15,067 | -4,933 | 75 | 116 | 13,000 | 0 | 0 |
| Grant Ll Ll Ll A - Lôn Cyttir | 38,190 | 38,185 | 35,000 | 0 | 35,000 | -3,185 | 92 | 92 | 38,190 | 0 | 0 |
| Grant Ll Ll Ll A - Carreg Domas | 6,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 6,000 | 0 | 0 |
| Grant Ll Ll Ll A - Safleoedd ac Adeiladau Ganol y Dref | 64,300 | 64,300 | 38,908 | 8,950 | 47,858 | -16,442 | 1 | 74 | 64,300 | 0 | 0 |
| Tai fforddiadwy a ddygwyd ymlaen 2015/16 | 288,700 | 20,000 | 18,053 | | 18,053 | -1,947 | 90 | 6 | 288,700 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **2,744,400** | **1,463,751** | **1,014,426** | **52,075** | **1,066,501** | **-397,250** | **73** | **39** | **2,128,290** | **-616,110** | **-22** |
| **CRT Tai** | | | | | | | | | | | |
| Contract Gwres Canolog | 350,000 | 156,887 | 76,891 | 40,429 | 117,320 | -39,567 | 0 | 34 | 300,000 | -50,000 | -14 |
| Contract Gwaith Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd | 5,190,678 | 3,840,088 | 2,745,274 | 790,184 | 3,535,458 | -304,630 | 92 | 68 | 5,190,678 | 0 | 0 |
| Cerbydau'r UCA 2016/17 | 80,000 | 80,000 | 95,555 | 0 | 95,555 | 15,555 | 119 | 119 | 97,470 | 17,470 | 22 |
| Gwaith Amgylcheddol | 362,500 | 207,131 | 199,858 | 2,495 | 202,353 | -4,779 | 98 | 56 | 362,500 | 0 | 0 |
| Ailfodelu'r Stoc Bresennol | 450,000 | 6,500 | 6,500 | 0 | 6,500 | 0 | 0 | 1 | 6,500 | -443,500 | -99 |
| Prynu Eiddo Bresennol | 6,452,830 | 1,250,000 | 1,251,635 | 0 | 1,251,635 | 1,635 | 100 | 19 | 2,000,000 | -4,452,830 | -69 |
| Addasiadau Sector Cyhoeddus | 250,000 | 250,000 | 331,572 | 26,723 | 358,295 | 108,295 | 143 | 143 | 450,000 | 200,000 | 80 |
| Risg Tân | 250,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | #DIV/0! | 0 | 0 | -250,000 | -100 |
| Offer Trawsnewid UCA | 33,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -33,000 | -100 |
| Gwaith Mewnol SATC | 750,000 | 562,500 | 427,898 | 0 | 427,898 | -134,602 | 76 | 57 | 750,000 | 0 | 0 |
| Effeithlonrwydd Ynni Ll Ll Ll A | 52,000 | 52,000 | 51,766 | 0 | 51,766 | -234 | 100 | 100 | 52,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **14,221,008** | **6,405,106** | **5,186,948** | **859,831** | **6,046,779** | **-358,327** | **94** | **43** | **9,209,148** | **-5,011,860** | **-35** |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | | | | | | | |
| Ailweirio Adeiladau Addysg | 37,000 | 37,000 | 36,240 | 0 | 36,240 | -760 | 0 | 98 | 37,000 | 0 | 0 |
| Mynediad i'r Anabl i Adeiladau Addysgol | 300,000 | 50,000 | 113,837 | 0 | 113,837 | 63,837 | 0 | 38 | 280,000 | -20,000 | -7 |
| Cyfleusterau Arlwyo mewn Ysgolion | 165,000 | 160,000 | 154,399 | 0 | 154,399 | -5,601 | 0 | 94 | 165,000 | 0 | 0 |
| Ysgolion 21ain Ganrif - Caergybi | 7,297,000 | 5,458,889 | 4,934,826 | 16,422 | 4,951,248 | -507,641 | 91 | 68 | 6,990,497 | -306,503 | -4 |
| Ysgolion 21ain Ganrif - Caergybi Grant Ll Ll Ll A | 270,000 | 270,000 | 250,000 | 0 | 250,000 | -20,000 | 93 | 93 | 270,000 | 0 | 0 |
| Ysgolion 21ain Ganrif - Y Llannau | 3,960,000 | 1,377,705 | 1,772,386 | 84,084 | 1,856,470 | 478,765 | 135 | 47 | 3,165,531 | -794,469 | -20 |
| Ysgolion 21ain Ganrif - Parc y Bont | 150,000 | 40,725 | 725 | 17,281 | 18,006 | -22,719 | 44 | 12 | 30,000 | -120,000 | -80 |
| Ysgolion 21ain Ganrif - Aberffraw/Bro Rhosyr | 390,000 | 154,365 | 149,380 | 10,346 | 159,726 | 5,361 | 103 | 41 | 385,000 | -5,000 | -1 |
| Ysgolion 21ain Ganrif - Bro Seiriol | 207,000 | 20,000 | 0 | 0 | 0 | -20,000 | 0 | 0 | 10,000 | -197,000 | -95 |
| **Cyfanswm** | **12,776,000** | **7,568,684** | **7,411,792** | **128,133** | **7,539,925** | **-28,759** | **100** | **59** | **11,333,028** | **-1,442,972** | **-11** |

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Gwariant a Ymrwymwyd(£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiad o gymharu â'r proffil (£) | % Gwariant o gymharu â'r Gyllideb a Broffiliwyd | % o'r Gyllideb Flynyddol a Wariwyd | Gwariant Rhagamcanedig (£) | (Tan) / Gorwariant Rhagamcanedig (£) | % Amrywiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Economaidd ac Adfywio** | | | | | | | | | | | |
| Grant Buddsoddi Busnes Caergybi Ll Ll Ll A | 115,000 | 128,275 | 62,337 | 0 | 62,337 | -65,938 | 49 | 54 | 115,000 | 0 | 0 |
| Arian Partneriaeth heb ei ddyrannu | 58,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 58,000 | 0 | 0 |
| Toiledau Cyhoeddus | 44,770 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 44,770 | 0 | 0 |
| Isadeiledd Strategol Caergybi | 1,257,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -1,257,000 | -100 |
| Isadeiledd Strategol Llangefni | 1,157,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -1,157,000 | -100 |
| Buddsoddi i Arbed - System Gynllunio | 93,000 | 8,000 | 8,250 | 0 | 8,250 | 250 | 0 | 9 | 93,000 | 0 | 0 |
| Uwchraddio Unedau Penrhos - Grant Ll Ll Ll A | 12,640 | 12,641 | 12,994 | 4,104 | 17,098 | 4,457 | 135 | 135 | 17,098 | 4,458 | 35 |
| Clwb Gymnasteg Ynys Môn - Grant Ll Ll Ll A | 8,640 | 8,000 | 8,638 | 0 | 8,638 | 638 | 0 | 100 | 8,638 | -2 | 0 |
| Datblygu Cymunedau Actif - Grant Ll Ll Ll A | 40,000 | 40,000 | 4,710 | 2,900 | 7,610 | -32,390 | 19 | 19 | 40,000 | 0 | 0 |
| Hyfforddi Amgylcheddol CG Môn - Grant Ll Ll Ll A | 20,000 | 20,000 | 3,084 | 0 | 3,084 | -16,916 | 0 | 15 | 20,000 | 0 | 0 |
| Clwb Bocsio - Grant Ll Ll Ll A | 3,800 | 3,800 | 0 | 0 | 0 | -3,800 | 0 | 0 | 3,800 | 0 | 0 |
| Gwelliannau Millbank - Grant Ll Ll Ll A | 2,450 | 2,140 | 2,446 | 0 | 2,446 | 306 | 114 | 100 | 2,450 | 0 | 0 |
| Canolfan Cymunedol Millbank - Grant Ll Ll Ll A | 80,000 | 80,000 | 72,608 | 0 | 72,608 | -7,392 | 0 | 91 | 80,000 | 0 | 0 |
| Prosiectau Ll Ll Ll A sydd heb eu cwblhau | 806,970 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 806,970 | 0 | 0 |
| Uwchraddio Canolfan Hamdden Plas Arthur | 3,250 | 2,438 | 2,030 | 461 | 2,492 | 54 | 102 | 77 | 3,250 | 0 | 0 |
| Uwchraddio Canolfan Hamdden Amlwch | 2,810 | 2,108 | 3,018 | 0 | 3,018 | 911 | 143 | 107 | 2,810 | 0 | 0 |
| Goleuadau LED | 38,000 | 38,000 | 37,749 | 0 | 37,749 | -251 | 99 | 99 | 38,000 | 0 | 0 |
| Ail-doi Canolfan Hamdden | 262,500 | 262,500 | 233,416 | 0 | 233,416 | -29,084 | 89 | 89 | 262,500 | 0 | 0 |
| Ail-doi Canolfan Hamdden Caergybi | 340,000 | 340,000 | 295,943 | 0 | 295,943 | -44,057 | 87 | 87 | 340,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **4,345,830** | **947,901** | **747,222** | **7,465** | **754,688** | **-193,213** | **80** | **17** | **1,936,286** | **-2,409,544** | **-55** |
| **Priffyrdd a Thrafnidiaeth** | | | | | | | | | | | |
| Meysydd Parcio | 41,390 | 22,790 | 28,162 | 0 | 28,162 | 5,372 | 124 | 68 | 41,390 | 0 | 0 |
| Cerbydau | 374,400 | 163,460 | 163,460 | 0 | 163,460 | 0 | 100 | 44 | 238,460 | -135,940 | -36 |
| Menter Benthyca Darbodus y Sir | 2,229,120 | 2,124,000 | 1,989,246 | 0 | 1,989,246 | -134,754 | 94 | 89 | 2,229,120 | 0 | 0 |
| Gwaith Lliniaru Llifogydd Biwmares (LlC) | 600,000 | 65,089 | 65,089 | 0 | 65,089 | 0 | 100 | 11 | 75,000 | -525,000 | -88 |
| Priffyrdd Newydd i Wylfa Newydd | 3,784,000 | 629,871 | 300,610 | 538,542 | 839,152 | 209,281 | 133 | 22 | 839,828 | -2,944,172 | -78 |
| Goleuadau LED | 80,270 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 80,270 | 0 | 0 |
| Ffordd Gyswllt Llangefni | 4,348,570 | 3,187,500 | 3,247,034 | 86,580 | 3,333,615 | 146,115 | 105 | 77 | 4,250,000 | -98,570 | -2 |
| Grant Diogelach Ffyrdd y Gymuned 2016/17 | 108,000 | 45,000 | 44,849 | 0 | 44,849 | -151 | 0 | 42 | 108,000 | 0 | 0 |
| Grant Diogelwch Ffyrdd | 105,000 | 67,000 | 90,226 | 0 | 90,226 | 23,226 | 135 | 86 | 105,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **11,670,750** | **6,304,710** | **5,928,676** | **625,122** | **6,553,798** | **249,088** | **104** | **56** | **7,967,068** | **-3,703,682** | **-32** |
| **Rheoli Gwastraff** | | | | | | | | | | | |
| Prynu Telehandler a phont pwyso | 118,520 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 97,000 | -21,520 | -18 |
| System newydd ar gyfer casglu gwastraff | 509,000 | 509,000 | 468,347 | 51,503 | 519,850 | 10,850 | 102 | 102 | 519,850 | 10,850 | 2 |
| **Cyfanswm** | **627,520** | **509,000** | **468,347** | **51,503** | **519,850** | **10,850** | **102** | **83** | **616,850** | **-10,670** | **-2** |
| **Eiddo** | | | | | | | | | | | |
| Deddf Gwahaniaethu Anabledd | 100,000 | 10,000 | 6,248 | 0 | 6,248 | -3,752 | 0 | 6 | 100,000 | 0 | 0 |
| Doc Pysgod Caergygi | 96,340 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -96,340 | -100 |
| Mynwent Llanbedrgoch | 85,680 | 0 | 415 | 0 | 415 | 415 | 0 | 0 | 415 | -85,265 | -100 |
| Mynwent Llanddona | 45,590 | 34,193 | 30,956 | 0 | 30,956 | -3,236 | 91 | 68 | 60,000 | 14,410 | 32 |
| Mân-ddaliadau | 800,000 | 600,000 | 890,184 | 1,314 | 891,498 | 291,498 | 149 | 111 | 1,341,213 | 541,213 | 68 |
| **Cyfanswm** | **1,127,610** | **644,193** | **927,803** | **1,314** | **929,117** | **284,925** | **144** | **82** | **1,501,628** | **374,018** | **33** |

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Gwariant a Ymrwymwyd(£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiad o gymharu â'r proffil (£) | % Gwariant o gymharu â'r Gyllideb a Broffiliwyd | % o'r Gyllideb Flynyddol a Wariwyd | Gwariant Rhagamcanedig (£) | (Tan) / Gorwariant Rhagamcanedig (£) | % Amrywiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Trawsnewid** | | | | | | | | | | | |
| Gweithio'n Gallach - Cyfalaf | 953,060 | 534,000 | 781,237 | 40,866 | 822,103 | 288,103 | 154 | 86 | 822,103 | -130,957 | -14 |
| Buddsoddi i Arbed - EDMS | 57,860 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 57,860 | 0 | 0 |
| System Cynnwys y Wefan Gorfforaethol | 75,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 75,000 | 0 | 0 |
| Trwyddedu Meddalwedd | 72,000 | 72,000 | 72,000 | 0 | 72,000 | 0 | 100 | 100 | 72,000 | 0 | 0 |
| Uwchraddio Rhwydwaith | 60,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 60,000 | 0 | 0 |
| Adnewyddu Serfwyr | 150,000 | 60,000 | 59,402 | 0 | 59,402 | -598 | 99 | 40 | 150,000 | 0 | 0 |
| Buddsoddi i Arbed - System CRM | 135,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 135,000 | 0 | 0 |
| System TG wrth gefn | 35,100 | 35,100 | 64,525 | 46,960 | 111,486 | 76,386 | 318 | 318 | 35,100 | 0 | 0 |
| TG - Citrix | 190,000 | 120,000 | 113,255 | 0 | 113,255 | -6,745 | 94 | 60 | 190,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **1,728,020** | **821,100** | **1,090,420** | **87,826** | **1,178,246** | **357,146** | **143** | **68** | **1,597,063** | **-130,957** | **-8** |
| **Cynllunio** | | | | | | | | | | | |
| Prosiect Hyb Neuadd y Farchnad Caergybi | 970,000 | 210,000 | 162,641 | 181,208 | 343,850 | 133,850 | 164 | 35 | 568,000 | -402,000 | -41 |
| Datblygu Tirlun Ynys Gybi - Ll Ll Ll A | 5,000 | 5,000 | 3,406 | 0 | 3,406 | -1,594 | 68 | 68 | 5,000 | 0 | 0 |
| Ffioedd Datblygu ail ran Menter Treftadaeth Treflun - Grant Ll Ll Ll A | 789,730 | 375,000 | 74,625 | 35,577 | 110,201 | -264,799 | 29 | 14 | 489,730 | -300,000 | -38 |
| **Cyfanswm** | **1,764,730** | **590,000** | **240,672** | **216,785** | **457,457** | **-132,543** | **78** | **26** | **1,062,730** | **-702,000** | **-40** |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | | | | | | |
| Gweithredu CCIS | 459,000 | 63,800 | 41,188 | 0 | 41,188 | -22,612 | 65 | 9 | 74,300 | -384,700 | -84 |
| Canolfan Byron | 150,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 150,000 | 0 | 0 |
| Gofal Ychwanegol Llangefni | 700,000 | 700,000 | 700,000 | 0 | 700,000 | 0 | 100 | 100 | 700,000 | 0 | 0 |
| Adnewyddu Haulfre | 206,760 | 155,070 | 121,486 | 0 | 121,486 | -33,584 | 78 | 59 | 168,000 | -38,760 | -19 |
| Cartref Gofal Preswyl Plas Crigyll | 98,000 | 0 | 490 | 0 | 490 | 490 | 0 | 1 | 98,000 | 0 | 0 |
| Grant Cyfalaf Cronfa Gofal Canolraddol | 243,640 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 243,640 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **1,857,400** | **918,870** | **863,164** | **0** | **863,164** | **-55,706** | **94** | **46** | **1,433,940** | **-423,460** | **-23** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **52,863,268** | **26,173,315** | **23,879,470** | **2,030,055** | **25,909,525** | **-263,789** | **99** | **49** | **38,786,031** | **-14,077,237** | **-27** |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **Y PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **14 CHWEFROR 2017** |
| **TESTUN:** | **DEFNYDDIO ARIAN WRTH GEFN A BALANSAU** |
| **DEILIAD/DEILIAID PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD H E JONES** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES (EST. 2601)** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>FFÔN:<br>E-BOST: | **Marc Jones**<br>**EST. 2601**<br>**rmjfi@ynysmon.gov.uk** |
| **AELODAU LLEOL:** | **Dim yn berthnasol** |

**A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau**

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

**1.1** Bydd yr adroddiad yn nodi asesiad y Swyddog Adran 151 ar lefel balansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn ar gyfer 2017/18 ac yn gwneud argymhellion mewn perthynas â chlustnodi balansau cyffredinol i'w defnyddio yn ystod 2017/18.

**2. ARGYMHELLION**

- I nodi y polisi cyffredinol ynglŷn â balansau a chronfeydd a fabwysiadwyd ar 1 Mawrth 2016, fel y nodir hynny yn Atodiad A;
- Pennu isafswm balansau cyffredinol o £6m ar gyfer 2017/18 yn unol ag asesiad y Swyddog Adran 151;
- Cadarnhau parhad y cronfeydd presennol a glustnodwyd.

**B - Pa opsiynau eraill a ystyriwyd gennych a pham y bu i chi eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Ni ystyriwyd unrhyw opsiwn arall - nid oedd hynny'n briodol yn yr achos hwn.

**C - Pam mai'r Pwyllgor Gweithredol fydd yn penderfynu ar hyn?**

Mae'r Cyfansoddiad yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor Gwaith gyflwyno ei gynigion ar y gyllideb terfynol cyn i'r Cyngor ei hystyried.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn?**

D/B

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

D/B

| **DD - Gyda phwy y bu i chi ymgynghori?** | | **Beth oedd ganddynt i'w ddweud?** |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth Strategol (TAS)** (gorfodol) | |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Ddim yn berthnasol - adroddiad gan y Swyddog Adran 151 yw hwn |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | Dim sylw |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Craffu** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | |

| | | |
|---|---|---|
| **E -** | **Risgiau ac unrhyw liniaru (os yn berthnasol)** | |
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Troseddu ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundeb Canlyniadau** | |
| **7** | **Arall** | |
| **F -** | **Atodiadau:** | |
| | Atodiad A - Polisi cyffredinol arfaethedig ynglŷn â Chronfeydd a Balansau<br>Atodiad B – Balansau hyd yma | |
| **FF -** | **Papurau cefndirol (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad i gael rhagor o wybodaeth):** | |
| | | |

**DDEFNYDDIO BALANSAU CYFFREDINOL A CHRONFEYDD WRTH GEFN**

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

**1.1.** Mae Adrannau 32 a 43 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol ystyried lefel y cronfeydd sydd ei angen ar gyfer gwariant a amcangyfrifir yn y dyfodol wrth gyfrifo anghenion y gyllideb. Mae Adran 25 Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Swyddog Adran 151 adrodd yn ffurfiol ar gadernid yr amcangyfrifon a digonolrwydd y cronfeydd arfaethedig pan bennir gofynion y gyllideb ac i sicrhau bod yna brotocolau allweddol ar gyfer eu pennu a'u defnyddio.

**1.2.** Bydd yr adroddiad yn nodi asesiad y Swyddog Adran 151 ar lefel balansau cyffredinol a chronfeydd ar gyfer 2017/18 ac yn gwneud argymhellion mewn perthynas â chlustnodi balansau cyffredinol i'w defnyddio yn ystod 2017/18.

**2. POLISI AR GRONFEYDD A BALANSAU**

**2.1.** Yn ychwanegol at y balansau cyffredinol, mae'r Cyngor yn dal nifer o gronfeydd ar ei fantolen. Pwrpas y cronfeydd hyn yw talu am gost prosiectau a gynllunnir neu ar gyfer ariannu eitemau penodol o wariant pryd bynnag fo angen gwneud hynny.

**2.2.** Mae'r ddogfen a atodir fel Atodiad A yn nodi'r egwyddorion cyffredinol a'r polisi mewn perthynas â phenderfynu ar lefel cronfeydd a balansau digonol a sut y defnyddir cronfeydd.

**3. BALANSAU CYFFREDINOL**

**3.1.** Ar 31 Mawrth 2016, lefel y balansau cyffredinol oedd £8.886m, oedd yn gynnydd o £1.693m ers y flwyddyn flaenorol.

**3.2** Yng nghyllideb 2016/17, crëwyd cronfa o £1m o'r balansau cyffredinol er mwyn ariannu prosiectau unigol ag oedd gyda'r modd i greu arbedion effeithlonrwydd i'r Awdurdod. Derbyniwyd 29 cais busnes gan adranau ac, ar ôl asesiad gan banel, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a Chynghorwyr, cafwyd 9 cais ei cymeradwyo gyda gweth o £937,800.

**3.3** Fel y nodir yn Atodiad A, paragraff 5, bydd angen i'r Swyddog Adran 151 asesu nifer o risgiau wrth benderfynu ar lefel y balansau cyffredinol sydd ei hangen. Ystyrir y risgiau isod:-

- **Gwasgfeydd Costau yn y Dyfodol** - Wrth i gyllidebau gael eu tocio, mae gallu gwasanaethau unigol i ddefnyddio unrhyw gapasiti wrth gefn o fewn eu cyllidebau presennol er mwyn mynd i'r afael â gwasgfeydd costau annisgwyl yn llawer llai a, phan fo gwasgfeydd costau yn digwydd, y balansau cyffredinol fydd yn cael eu defnyddio i fynd i'r afael â'r gwasgfeydd yma. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn wynebu gwasgfa ar y gyllideb yn ystod 2016/17, a hynny'n fwyaf amlwg mewn perthynas â Gwasanaethau Plant, Oedolion ac Addysg. Mae'r setliad gwell na'r disgwyl wedi galluogi'r Cyngor i fynd i'r afael â'r gwasgfeydd costau yma yng nghyllideb 2017/18, sy'n lleihau'r risg o orfod defnyddio mwy o'r balansau cyffredinol. Mae hon yn sefyllfa sydd angen ei hadolygu'n rheolaidd.

- **Arbedion** - Mae cyllideb 2017/18 yn cynnwys pecyn arbedion o £2.44m. Mae'r arbedion arfaethedig wedi cael eu herio ac arweiniodd hynny at beidio â chynnwys dros £456k o arbedion arfaethedig yng nghyllideb arfaethedig 2017/18, oherwydd ystyriwyd na ellid eu gwireddu yn ystod 2017/18. Er bod yna risg na fydd yr holl arbedion yn cael eu cyflawni, dylai'r broses herio sydd wedi cael ei chynnal sicrhau bod y risg yn cael ei lleihau ac na fydd unrhyw alwadau dilynol sylweddol ar y balansau cyffredinol.

- **Chwyddiant a Chyfraddau Llog** - Mae cyllideb 2017/18 wedi tybio mai isel fydd y lefelau chwyddiant a chyfraddau llog. Mae dyfyrniadau hysbys cyflogau 1% a chwyddiant contractau wedi cael eu cynnwys yn y gyllideb. Mae chwyddiant o 1% wedi cael ei gynnwys o dan holl benawdau eraill y gyllideb ond am incwm, 3% o chwyddiant. Mae'r lefel chwyddiant bresennol yn 1.6%, a ragwelir fydd yn cynyddu ymhellach yn ystod 2017/18 ond mae'r rhagolygon yn amrywio a bydd hyn yn ddibynnol ar perfformiad yr economi ar ôl Brexit. Ar hyn o bryd 0.25% yw'r gyfradd llog sylfaenol ac, eto, nid yw'n debygol o godi yn y dyfodol rhagweladwy. Felly, asesir mai bychan yw'r risg o gynnydd sylweddol o ran chwyddiant neu gyfraddau llog ac y bydd y cyllidebau presennol yn ddigonol ar gyfer delio ag unrhyw gynnydd fydd yn digwydd yn ystod 2017/18.

- **Incwm** - Mae sicrhau bod cyllidebau incwm yn cael eu gwireddu bob amser yn anodd eu gwarantu, yn arbennig mewn perthynas â gwasanaethau dewisol pan fo cwsmeriaid yn gallu dewis prynu'r gwasanaeth neu beidio. Mae'r broses o bennu cyllideb 2017/18 wedi adolygu tueddiadau incwm real ac mae cyllidebau incwm wedi cael eu hail-alinio pan ystyriwyd y byddai'r gwir incwm yn sylweddol is na'r gyllideb. Ni ellir anwybyddu'r risg na fydd targedau incwm yn cael eu cyrraedd ac y gallai hynny olygu y byddai'r gwariant net yn uwch na'r gyllideb gyffredinol, ac y byddai'r balansau cyffredinol wedyn yn gorfod talu am y diffyg hwnnw.

- **Hanes -** Ers 2010/11, mae'r Cyngor wedi tanwario ei gyllideb refeniw net yn ystod 3 o'r 5 mlynedd, a bu cynnydd o £5.796m yn 2012 i £8.886m yn 2016 yn y balans cyffredinol. Mae hyn yn cadarnhau bod y trefniadau rheoli cyllideb yn gyffredinol gadarn, a bod y risg o orwario sylweddol yn erbyn cyllidebau yn isel, er y cydnabyddir bod y risg hon yn cynyddu wrth i gyllidebau gael eu tocio.

- **Sefyllfa Ariannol Gyffredinol y Cyngor** - Mae sefyllfa ariannol gyffredinol y Cyngor yn dda ar hyn o bryd gyda lefel iach o falansau cyffredinol a chronfeydd wedi'u clustnodi. Mae'r rhaglen gyfalaf yn y dyfodol wedi ei hariannu ac mae Gofynion Ariannu Cyfalaf y Cyngor tua £28m yn is na'r ffîn weithredol, ac yn £33m yn is na'r terfyn statudol a ganiateir.

**3.4** Nid oes yna reol gadarn mewn perthynas â lefel y balansau cyffredinol y dylai'r Cyngor ei gynnal, er bod rheol gyffredinol yn bodoli sy'n awgrymu y dylai lefel balansau cyffredinol fod yn 5% o'r gyllideb refeniw net, ac eithrio'r gyllideb ysgolion ddirprwyedig. Fodd bynnag, oherwydd Balansau Ysgolion sy'n disbyddu, mae'r cyfrifyddu ar gyfer lefel 2017/18 yn cynnwys cyllideb ysgolion dirprwyedig. Yn seiliedig ar gyllideb arfaethedig 2017/18, byddai angen i falans y cronfeydd cyffredinol fod tua £6m, sy'n £2m yn is na'r balans sy'n cael ei ragamcanu ar gyfer 31Mawrth 2017.

**3.5** Mae cynnal balansau cyffredinol yn rhoi sicrwydd ariannol i'r Cyngor, ond mae cynnal balansau heb angen yn golygu nad yw adnoddau ariannol yn cael eu defnyddio'n effeithiol. Ar ôl asesu'r risgiau ariannol sylfaenol sy'n wynebu'r Cyngor, yr hyblygrwydd cyfyngedig sydd gan ddeiliaid cyllidebau bellach wrth reoli eu cyllidebau a'r angen i ryddhau arian er mwyn gwireddu arbedion effeithlonrwydd, rwy'n asesu y dylid pennu isafswm balansau cyffredinol o £6m. Dylid cynnal asesiad arall yn ddiweddarach yn ystod blwyddyn ariannol 2017/18 i weld a yw'n bosibl rhyddhau mwy o arian o'r balansau cyffredinol ar ôl cwblhau cyfrifon 2016/17

**3.6** Mae'r gyllideb arfaethedig terfynol yn cynnwys gostyngiad yn lefel y cronfeydd wrth gefn cyffredinol i £280k. Er ni ddisgwylir bydd y costau na ragwelir sy'n codi yn ystod y flwyddyn yn uwch na hyn, mae risg y bydd hyn yn digwydd. Fel rhan o'r gyllideb arfaethedig, mae'r Pwyllgor Gwaith yn gofyn am y pwer dirprwyedig i ddefnyddio £200k ychwanegol o'r balansau cyffredinol.

## 4. CRONFEYDD A GLUSTNODWYD

**4.1** Mae Cronfeydd a Glustnodwyd yn perthyn i gategorïau penodol, fel a ganlyn:-

- Cronfeydd Cyfalaf - y cronfeydd sydd eu hangen ar gyfer ariannu'r rhaglen gyfalaf;
- Cronfeydd Cyfyngedig - y cronfeydd sydd eu hangen i dalu am gostau posibl yn y dyfodol, mae'r defnydd ohonynt yn cael ei gyfyngu i bwrpas penodol ac ni ellir eu rhyddhau at unrhyw ddiben arall, cronfeydd gaiff eu dal gan y Cleient ar ran trydydd parti neu gronfa sy'n gysylltiedig â'r gyllideb ysgolion ddirprwyedig ac na ellir ei hailddyrannu;
- Cronfa CRT - cronfeydd sy'n cael eu neilltuo ar gyfer y CRT;
- Cronfa Yswiriant - cronfa sydd ei hangen ar gyfer talu am gost unrhyw golledion anyswiriedig a thaliadau dros ben y polisi fydd i'w talu gan y Cyngor;
- Cronfeydd Dal Grantiau - cronfeydd sy'n dal swm unrhyw grant a dderbyniwyd nad yw wedi cael ei ddefnyddio;
- Cronfeydd a Glustnodwyd - Cronfeydd sydd wedi'u clustnodi i wasanaethau ar gyfer cynnal prosiectau penodol.

**4.2** Dangosir balans y cronfeydd wedi'u clustnodi ar 31 Mawrth 2016 a'r balans rhagamcanedig ar gyfer 31 Mawrth 2017 ar gyfer pob un o'r categorïau yn Nhabl 1 isod (atodir dadansoddiad llawn o bob categori fel Atodiad B).

**Tabl 1**

**Crynodeb o Falansau Cronfeydd a Glustnodwyd**

| Categori'r Gronfa | Balans ar 31 Mawrth 2016 £ | Newid yn Ystod 2016/17 £ | Balans Rhagamcanedig ar gyfer 31 Mawrth 2017 £ |
|---|---|---|---|
| Cyfalaf | 899,000 | 46,934 | 945,934 |
| Cyfyngedig | 5,133,817 | -377,583 | 4,756,234 |
| Arfarnu Swyddi a Thâl Cyfartal | 3,635,000 | -2,948,088 | 686,912 |
| Yswiriant | 1,250,000 | 0 | 1,250,000 |
| Dal Grantiau | 1,997,679 | -1,625,134 | 372,545 |
| A Glustnodwyd | 3,076,293 | 522,404 | 3,598,697 |
| **CYFANSWM** | **15,991,789** | **-4,381,466** | **11,610,323** |

**4.3** Bydd cynnydd o £46k yn y gronfa gyfalaf o ganlyniad i ddau daliad o £30k a £16k, benthyciadau mewnol am gritars newydd.

**4.4** Mae'r gronfa gyfyngedig yn cynnwys nifer o gronfeydd unigol sylweddol, yn arbennig cronfa Safle Penhesgyn £2m, Cronfa Gwaith Trin Gwastraff Gogledd Cymru o £1.3m, cronfa Addysg ysgolion o £1.2m. Bydd cronfa Gwaith Trin Gwastraff Gogledd Cymru yn cael ei defnyddio yn y dyfodol agos oherwydd arwyddo'r cytundeb Gwaith Trin. Bydd cronfeydd Addysg yn cael eu defnyddio'n rhannol yn selidedig ar y flwyddyn academaidd. Nid yw'n debygol y bydd Cronfa Reoli Safle Penhesgyn yn cael ei defnyddio yn ystod 2016/17, ond bydd angen cynnal y gronfa hon er mwyn talu am unrhyw gostau posibl yn y dyfodol.

**4.5** Mae'r Rheolwr Risg ac Yswiriant wedi asesu bod angen £1.25m er mwyn sicrhau bod digon ar gael i dalu am golledion anyswiriedig posibl a thaliadau dros ben. Fodd bynnag, hysbyswyd y Cyngor yn 2015/16 y bydd ardoll ychwanegol yn cael ei godi ar y Cyngor o bosibl fel cyfraniad tuag at gost hawliadau yn y dyfodol mewn perthynas ag Yswiriant Municipal Mutual. Nid yw hyn wedi digwydd hyd hyn.

**4.6** Mae Cronfa CRT yn cael ei gwarchod ac ni ellir ei defnyddio ond i ariannu gwariant mewn perthynas â'r CRT. Nid yw'n debygol y bydd y cronfeydd yn cael eu defnyddio yn ystod 2017/18.

## 5. ARGYMHELLION

**5.1** Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r argymhellion canlynol:-

1. Nodi'r polisi cyffredinol ynglŷn â balansau a chronfeydd fel y nodir hynny yn Atodiad A;

2. Pennu isafswm balansau cyffredinol o £6m ar gyfer 2017/18 yn unol ag asesiad y Swyddog Adran 151;

3. Cadarnhau parhad y cronfeydd presennol a glustnodwyd, Atodiad B.

**ATODIAD A**

**POLISI CYFFREDINOL AR GRONFEYDD A BALANSAU**

**1. Pwrpas**

Mae'n ofynnol i Ynys Môn gynnal cronfeydd ariannol digonol er mwy bodloni anghenion y sefydliad. Pwrpas y polisi hwn yw nodi'r trefniadau llywodraethu ar gyfer Defnyddio Cronfeydd a Balansau er mwyn sicrhau eu bod yn rhoi i'r Cyngor yr hyblygrwydd sydd ei angen arno, a hefyd er mwyn sicrhau y'u defnyddir i ychwanegu gwerth i'r sefydliad.

**2. Cyd-destun Rheoleiddiol**

Mae Adrannau 32 a 43 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol ystyried lefel y cronfeydd sydd ei angen ar gyfer gwariant a amcangyfrifir yn y dyfodol wrth gyfrifo anghenion y gyllideb.

Nid oes yna isafswm cronfeydd penodol y dylai awdurdod ei ddal, ac mae Adran 25 Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Swyddog Adran 151 adrodd yn ffurfiol ar ddigonolrwydd y cronfeydd arfaethedig pan bennir gofynion y gyllideb ac i sicrhau bod yna brotocolau allweddol ar gyfer eu pennu a'u defnyddio.

Mae'r polisi hwn yn nodi'r fframwaith ar gyfer defnyddio a rheoli cronfeydd defnyddiadwy, yn unol â Chôd Ymarfer Cyfrifyddu Awdurdod Lleol yn y Deyrnas Unedig: Datganiad o'r Arfer a Argymhellir (CIPFA/LASAAC) ac y cytunir ag ef mewn polisïau cyfrifyddu.

**3. Mathau o Gronfeydd.**

Gellir categoreiddio cronfeydd refeniw defnyddiadwy mewn dwy ffordd:-

Cronfeydd cyffredinol wrth gefn ar gyfer lliniaru effaith digwyddiadau annisgwyl neu argyfyngau; a

Chronfeydd a Glustnodwyd sydd, fel arfer, yn cael eu cynyddu er mwyn talu am rwymedigaethau hysbys neu rwymedigaethau a ragwelir.

Fel arfer caiff Cronfeydd Refeniw a Glustnodwyd eu creu a'u dal am un o'r pum prif reswm isod:-

**i.** Adnewyddu – er mwyn galluogi gwasanaethau i gynllunio ac ariannu rhaglen effeithiol o adnewyddu cerbydau ac offer a gwaith cynnal a chadw eiddo a gynllunnir. Mae'r cronfeydd hyn yn fecanweithiau ar gyfer hwyluso gwariant fel y gellir cyflawni rhaglen adnewyddu resymol heb yr angen i amrywio cyllidebau.

**ii.** Tanwariant a ddygir ymlaen - mae rhai gwasanaethau yn ymrwymo gwariant i brosiectau, ond heb allu gwario'r gyllideb yn ystod y flwyddyn. Defnyddir y cronfeydd fel mecanwaith i gario'r adnoddau hyn ymlaen.

**iii.** Cyfrifon masnachu - mewn rhai achosion, cedwir gwargedion ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol.

**iv.** Cronfa Yswiriant - er mwyn talu am yr hawliadau sy'n cael eu rhagamcanu yn y dyfodol er mwyn galluogi'r Cyngor i dalu am y taliadau dros ben nad yw'r yswiriant yn atebol amdanynt.

**v.** Bydd cronfeydd eraill a glustnodwyd yn cael eu sefydlu o dro i dro er mwyn talu am rwymedigaethau hysbys neu rwymedigaethau a ragamcanir, er enghraifft, pwysau ar alwadau cyllidebau a ragamcanir yn y dyfodol.

Er bod cronfeydd a glustnodwyd yn cael eu sefydlu at ddiben penodol, mae cronfeydd cyffredinol yn gronfeydd na chyfyngir ar y defnydd a wneir ohonynt. Gellir defnyddio cronfeydd o'r fath i liniaru effaith pwysau sylweddol o un flwyddyn i'r llall, i wrthbwyso'r gofynion ar y gyllideb yn ystod y flwyddyn, a lliniaru risgiau digwyddiadau annisgwyl neu argyfyngau.

Hefyd, gellir defnyddio cronfeydd cyffredinol er mwyn cefnogi buddsoddiadau a ddyluniwyd i sicrhau mwy o arbedion yn y gyllideb sylfaenol.

## 4. Rheoli Cronfeydd

Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i ddal a chynnal cronfeydd, ond mae hefyd yn cydnabod, drwy ddal a chynyddu cronfeydd, bod y Cyngor yn clustnodi adnoddau rhag cael eu defnyddio at ddibenion eraill posibl ac, o ganlyniad i hynny, mae yna 'gost cyfle 'sy'n gysylltiedig â dal balansau fel cronfeydd. Oherwydd hyn, mae'n bwysig sefydlu fframwaith eglur, a adolygir yn rheolaidd, y gellir ei defnyddio i reoli'r cyfryw gronfeydd.

Mae rheoli cronfeydd ariannol yn elfen allweddol o strategaeth ariannol gyffredinol y Cyngor, ac mae iddi ddau amcan allweddol:-

- Cynnal cyllidebau sefydlog a chynaliadwy drwy gydol y tymor canolig; a
- Sicrhau bod cronfeydd yn canolbwyntio'n effeithiol ar flaenoriaethau.

Mae'r gydnabyddiaeth a roddir i'r angen i reoli risg yn tanategu'r broses o wireddu'r amcanion hyn. Gall hyn fod yn fwy o risg o ansefydlogrwydd mewn tybiaethau cynllunio wrth i'r cyfnod economaidd ansicr barhau, neu'r risg i gyllideb Llywodraeth Cymru o ganlyniad i adolygiadau cyllido sylweddol yn y dyfodol. Fodd bynnag, efallai bydd y busnes am gymryd mwy o risgiau busnes drwy fabwysiadu dulliau arloesol o ddarparu gwasanaethau er mwyn cyrraedd targedau anodd mewn perthynas ag arbedion. Po fwyaf y risgiau, y mwyaf yw'r cronfeydd y mae'r Cyngor yn debygol o fod angen dal gafael arnynt er mwyn lliniaru yn erbyn hynny. Mae'n rhaid i werthfawrogi risgiau o'r fath fod yn flaenllaw yn ystyriaethau'r Swyddog Adran 151.

## 5. Mesur y Cronfeydd Angenrheidiol

Mae pennu lefel y cronfeydd cyffredinol yn un o nifer o benderfyniadau cysylltiedig wrth ffurfio'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) a'r gyllideb flynyddol. Wrth wneud y penderfyniad hwn mae angen ystyried y risgiau strategol, gweithredol ac ariannol sy'n wynebu'r Awdurdod. Yn benodol, mae'r CATC yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor sefydlu a chynnal cronfeydd cyffredinol i dalu am y risgiau ariannol allweddol fydd yn ei wynebu.

Bydd angen i'r Swyddog Adran 151 ystyried nifer o ffactorau wrth benderfynu ar union lefelau'r cronfeydd, ac mae nifer ohonynt yn golygu asesu risg y tybiaethau sy'n gynwysedig yn y gyllideb a'r CATC, yn ogystal â sefyllfa ariannol y Cyngor a sut y rheolir ei arian.

Nodir y ffactorau allweddol isod:-

Rhagdybiaethau'r Gyllideb;
Sefyllfa ariannol a rheoli ariannol;
Gofynion cyffredinol ar y llif arian, tebygolrwydd mewn perthynas â chwyddiant a chyfraddau llog;
Sefyllfa ariannol gyffredinol y Cyngor (lefel y benthyciadau, dyled a.y.y.b.);
Amcangyfrif o lefel ac amseru'r derbyniadau cyfalaf;
Hanes y Cyngor mewn perthynas â rheoli cyllideb a rheoli ariannol, yn cynnwys cadernid ei gynlluniau tymor canolig;
Ystod posibl costau gwasanaethau sy'n seiliedig ar alw;
Capasiti'r Cyngor i reoli pwysau ar y gyllideb yn ystod y flwyddyn;
Arbedion effeithlonrwydd a gynlluniwyd / enillion cynhyrchiant;
Cryfder y wybodaeth ariannol a'r trefniadau adrodd;
Y risgiau ariannol sy'n rhan annatod o unrhyw bartneriaethau cyllido newydd sylweddol;
Trefniadau allanoli mawr neu ddatblygiadau cyfalaf mawr;
Trosglwyddiad y Cyngor a'r gweithdrefnau diwedd blwyddyn mewn perthynas â than/gorwariant yn y gyllideb;
Argaeledd cronfeydd eraill er mwyn talu am hapddigwyddiadau mawr a digonolrwydd darpariaethau;
Digonolrwydd trefniadau yswiriant y Cyngor er mwyn talu am risgiau anrhagweladwy mawr.

Bydd gwerthusiad gwrthrychol o'r ffactorau yn cael ei gynnal bob blwyddyn er mwyn penderfynu ar lefel ddarbodus cronfeydd cyffredinol yn seiliedig ar asesiad o'r ffactorau uchod. Fodd bynnag, mae lefel derfynol y cronfeydd yn y pen draw yn ddarostyngedig i farn y Swyddog Adran 151, gan ystyried yr holl ffactorau perthnasol.

Fel rhan o'r argymhellion cyllideb blynyddol i'r Cyngor, bydd y Swyddog Adran 151 yn amlygu'r symiau sy'n cael eu neilltuo ar gyfer y cronfeydd.

## 6. Cynyddu Cronfeydd

Petai'r Swyddog Adran 151 yn ystyried y dylid cynyddu lefel y Cronfeydd Cyffredinol, byddai hynny'n cael ei gyflawni fel rhan o'r broses o bennu cyllideb, gan bennu dyraniad o'r gyllideb flynyddol er mwyn cyrraedd lefel y balans a ddymunir. Dylai cyfraniadau i ac o'r Cronfeydd Cyffredinol gael eu hadolygu'n flynyddol. Bydd hyn yn ychwanegol at unrhyw symiau fydd eu hangen i ailgyflenwi'r cronfeydd sydd wedi cael eu defnyddio yn ystod y flwyddyn flaenorol, er mwyn cynnal isafswm lefel y cronfeydd.

Bydd cronfeydd a glustnodwyd yn cael eu sefydlu yn 'seiliedig ar angen' yn unol â'r gofynion a gynlluniwyd neu a ragdybiwyd, a byddant yn destun cymeradwyaeth y Pwyllgor, fel arfer fel rhan o adroddiad blynyddol ar y cronfeydd sy'n rhan o'r adroddiad diwedd blwyddyn.

Yn achos pob cronfa, bydd y Cyngor yn diffinio:-

Pwrpas y gronfa;
Sut a phryd y gellir defnyddio'r gronfa;
Gweithdrefnau ar gyfer rheoli'r gronfa;
Proses ac amserlen ar gyfer adolygu'r gronfa er mwyn sicrhau perthnasedd a digonolrwydd parhaus. Fel rheol bydd hyn yn digwydd ar ddiwedd y flwyddyn.

## 7. Defnyddio'r Cronfeydd

Unwaith yn unig y gellir defnyddio'r cronfeydd, ac oherwydd hynny ni ddylid eu defnyddio fel arfer i ariannu gwariant cylchol a gynlluniwyd - er enghraifft ni fyddai'n ddisgwyliedig iddynt gael eu defnyddio i 'fantoli'r gyllideb' heblaw o dan amgylchiadau eithriadol.

Pan fo cronfeydd yn cael eu defnyddio i gefnogi gweinyddu'r gyllideb yn ystod unrhyw flwyddyn benodol, er enghraifft i leihau effaith amrywiadau cyllidebu neu wasgfeydd yn ystod nifer o flynyddoedd, dylai'r Cyngor sicrhau bod y cronfeydd yn cael eu hailgyflenwi yn ystod y flwyddyn ganlynol os bydd angen.

Pan fo'r Cyngor wedi defnyddio cronfeydd cyffredinol at ddibenion buddsoddi er mwyn cynhyrchu arbedion, fel rheol byddai'r rhain hefyd yn cael eu had-dalu erbyn diwedd y flwyddyn ariannol ganlynol. Mewn amgylchiadau eithriadol, megis lleihau effeithiau tocio gwasanaethau ar ddefnyddwyr a dinasyddion, byddid yn caniatáu mwy o amser i ailgyflenwi, hyd at uchafswm o bedair blynedd, yn unol â'r cylch cynllunio tymor canolig.

Bydd y defnydd o Gronfeydd Cyffredinol yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Swyddog Adran 151, a'r Pwyllgor Gweithredol mewn rhai amgylchiadau. Hefyd, bydd creu cronfeydd a glustnodwyd yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Swyddog Adran 151, a phan fo'r gymeradwyaeth honno wedi cael ei rhoi, gellir tynnu arian o'r gronfa yn ddarostyngedig i fodloni'r meini prawf.

Mewn amgylchiadau eithriadol, pan fo cronfeydd cyffredinol wedi cael eu gwagio o ganlyniad i bwysau anrhagweladwy ar wariant yn ystod unrhyw flwyddyn ariannol benodol, byddai'r Cyngor yn gallu tynnu arian o'i gronfeydd a glustnodwyd er mwyn darparu adnoddau tymor byr, ond ni fyddai hynny'n gynaliadwy, a byddai angen adfer y balansau.

Ni fyddai cronfeydd a glustnodwyd sydd wedi'u defnyddio i dalu am rwymedigaeth benodol yn cael eu hailgyflenwi, ar ôl cyflawni'r diben y'u sefydlwyd ar ei gyfer yn wreiddiol.

## 8. Cronfeydd Gwasanaethau

Cyfunwyd cronfeydd gwasanaethau unigol i greu un Gronfa Gwasanaeth Gorfforaethol, a nawr gall gwasanaethau unigol gyflwyno cynigion / bidiau ar gyfer defnyddio'r cronfeydd a ddelir yn y Gronfa.

Bydd y defnydd o'r Gronfa Gwasanaeth Gorfforaethol hon yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Swyddog Adran 151, y Deilydd Portffolio Cyllid neu'r Pwyllgor Gwaith mewn rhai amgylchiadau. Pan roddir y gymeradwyaeth hon, gellir tynnu arian o'r gronfa.

## 9. Cronfeydd Cyfalaf

Mae'r rhaglen gyfalaf ar gyfer 2016/17 yn defnyddio'r holl gronfeydd sydd ar gael yn llawn hyd at y lefel lleiafswm. Hyd yma, nid yw derbyniadau cyfalaf gwerthiant asedau strategol disgwyliedig yn y dyfodol wedi cael eu cynnwys yn y rhaglen gyfalaf.

Mae strategaethau rheoli asedau da yn cynnwys ailgyflenwi asedau yn dilyn gwerthiant asedau strategol, fel y bydd yna asedau o werth strategol ar y fantolen ar gyfer blynyddoedd y dyfodol.

Mae'r derbyniadau cyfalaf a ddaw o werthiant asedau strategol o'r fath yn ffynhonnell werthfawr o arian cyfalaf ond, yn yr un modd, mae angen ail-fuddsoddi cyfran o'r derbyniadau hyn naill ai ar gyfer enillion refeniw neu ar gyfer buddsoddi mewn asedau eraill a fydd, gydag amser, yn cynyddu yn eu gwerth ac yn ffurfio rhan o arian cyfalaf blynyddoedd y dyfodol.

Dylid clustnodi cyfran o'r holl dderbyniadau cyfalaf o asedau strategol ar gyfer ei hail-fuddsoddi, naill ai ei buddsoddi er mwyn creu ffynonellau cyllid yn y dyfodol neu er mwyn creu ffrwd o incwm refeniw.

Bydd cronfa Buddsoddi Cyfalaf yn cael ei chreu ac, ar ôl derbyn enillion o werthiannau, bydd cyfran yn cael ei ychwanegu i'r gronfa hon. Bydd cynlluniau cyfalaf sydd naill ai yn cynnig ail-fuddsoddi mewn asedau neu ffrydiau incwm refeniw yn cael eu hystyried ar gyfer eu hariannu gan y gronfa hon a glustnodwyd, er mwyn ategu cynlluniau'r rhaglen gyfalaf bresennol a ariennir gan gronfeydd derbyniadau cyfalaf cyffredinol.

Yn yr un modd, bydd y cronfeydd cyfalaf a glustnodwyd ar gyfer Gorchmynion Prynu Gorfodol yn cael eu hailgyflenwi gan y derbyniadau cyfalaf a ddaw o werthu'r eiddo a brynwyd. Yna bydd hyn yn sylfaen i gronfa dreigl ar gyfer y gorchmynion prynu gorfodol a roddir.

## 10. Cronfa Yswiriant

Cafodd ffigwr y gronfa yswiriant ei gynyddu'n hanesyddol dros gyfnod o amser er mwyn talu am golledion o dan y polisïau yswiriant mwy. Bydd lefel y Gronfa Yswiriant yn cael ei hadolygu yn flynyddol o leiaf gan y Rheolwr Risg ac Yswiriant ac yn destun cymeradwyaeth y Swyddog Adran 151.

| Cyfadran | Cronfa | Categori | Cyfanswm Hyd Yma | A yw'r gronfa yma'n debygol o gael ei wario'n llawn yn ystod 2016/17 | Yw cais i ddwyn ymlaen i 2017/18 yn debygol, os felly, pa werth? | Cyfanswm a Ragwelir |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Plant – Gwasanaethau Lleoli Plant | Buddsoddi i Arbed Gwasanaeth Lleoli Plant | **CLUSTNODWYD** | 45,420.00 | YDYW | AMHERTHNASOL | 0.00 |
| Gwasanaethau Cymunedol – Gwasanaethau Tai | Pobl Fregus Corfforaethol | **CLUSTNODWYD** | 700,000.00 | NAC YDYW | YDYW | 700,000.00 |
| Gwasanaethau Cymunedol – Gwasanaethau Tai | Tai – Arian Wrth Gefn Gwasanaeth Oedolion | **CLUSTNODWYD** | 911,944,50 | NAC YDYW | YDYW – Defnyddir y balans i gyllido prosiectau Cefnogi Pobl a talu am weinyddu'r cynllun. | 911,944,50 |
| Corfforaethol | Cyfraniadau Refeniw na chymhwyswyd | **GWARIANT CYFALAF** | 1,071,415.87 | NAC YDYW | Cynlluniau prosiet yn pontio mwy nag un blwyddyn ariannol. | 945,934.31 |
| Corfforaethol | Cost newid | **CLUSTNODWYD** | 502,156.22 | NAC YDYW | Angen gwaith pellach ar y gronfa yma i nodi'r swm, os oes rhywfaint, y gellir ei roi yn ôl i'r Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol. Nodir hyn yn y papur ar Gronfeydd Wrth Gefn yn y Datganiad Cyfrifon ym Mehefin/ Gorffennaf 2017. | 462,156.22 |
| Corfforaethol | Ail-lansio Civica, Tîm Lejer Newydd | **CLUSTNODWYD** | 685.14 | YDYW | AMHERTHNASOL | 0.00 |
| Corfforaethol | Arfarnu Swyddi | **ARFARNU SWYDDI A TÂL CYFARTAL** | 686,912.00 | NAC YDYW | Ffurfio rhan o'r Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Hawliadau Tâl Cyfartal. | 686,911.87 |
| Corfforaethol - Adnoddau | Datblygu'r System Civica a'r Gweithgareddau ariannol cysylltiedig | **CLUSTNODWYD** | 21,592.23 | YDYW | AMHERTHNASOL | 21,592.23 |
| Corfforaethol - Adnoddau | Cronfa Yswiriant (Trychineb) | **CRONFA YSWIRIANT** | 1,250,000.00 | NAC YDYW | YDYW – ystyrir gan y Rheolwr Yswiriant fod lefel yr arian wrth gefn yn dderbyniol ar gyfer Awdurdod o'n maint. | 1,250,000.00 |

| Cyfadran | Cronfa | Categori | Cyfanswm Hyd Yma | A yw'r gronfa yma'n debygol o gael ei wario'n llawn yn ystod 2016/17 | Yw cais i ddwyn ymlaen i 2017/18 yn debygol, os felly, pa werth? | Cyfanswm a Ragwelir |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Corfforaethol | Cronfa Wrth Gefn Gwasanaeth | **CLUSTNODWYD** | 93,500.00 | NAC YDYW | YDYW | 93,500.00 |
| Busnes y Cyngor – Cyfreithiol | Prynu System Rheoli Achosion Cyfriethiol newydd (rhanbarthol) | **CLUSTNODWYD** | 30,000.00 | Nac Ydyw. Bydd cynlluniau TGCh ar gyfer cychwyn ar yr uwchraddio yng nghanol Mawrth 2017 ar y cynhara, felly, bydd yn pontio mwy nag 1 blwyddyn ariannol. | O leiaf £25k, ond caniatau ar gyfer hapddigwyddiadau | 25,000.00 |
| Busnes y Cyngor – Cyfreithiol | System gyfrifiadurol Pridiannau Tir | **CLUSTNODWYD** | 8,100.00 | Nac ydyw. Gallai profi'r system gymeryd hyd at Ebrill 2017 | Dwyn ymlaen beth sy'n weddill ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. | 8,100.00 |
| Busnes y Cyngor - Polisi | System Rheoli Polisi | **CLUSTNODWYD** | 32,600.00 | Nac ydyw. Bydd hyd at £4k yn cael eu anfonebu yn ystod 2016/17. | YDYW - y balans hyd at £32,600. | 32,600.00 |
| Busnes y Cyngor - Polisi | Gwe-ddarlledu | **GRANT** | 8,434.00 | Bydd yn cael ei ddefnyddio i dalu am y gwasanaeth 2016/17 | Dwyn ymlaen beth sy'n weddill – ac fe'i ddefnyddir yn 2017/18 | 8,434.00 |
| Priffyrdd, Eiddo, Gwastraff – Priffyrdd | Cronfa Grantiau Cyfyngedig Priffyrdd – Grant Llifogydd | **CYFYNGEDIG** | 36,473.34 | NAC YDYW | Dwyn ymlaen £36,473.34 oherwydd oediadau'n cwblhau gweithfeydd FLWMA – gweithio mewn partneriaeth â Chonwy. | 36,473.34 |
| Priffyrdd, Eiddo, Gwastraff – Priffyrdd | Cronfa Grantiau Cyfyngedig Priffyrdd - Grant Llwybyr Arfordirol | **CYFYNGEDIG** | 7,552.68 | NAC YDYW | Dwyn ymlaen £7,552.68, dal y cyllid i brintio'r fersiwn nesaf o Canllaw Llwybr Arfordirol Ynys Môn ac amryw bamffledi. | 7,552.68 |

| Cyfadran | Cronfa | Categori | Cyfanswm Hyd Yma | A yw'r gronfa yma'n debygol o gael ei wario'n llawn yn ystod 2016/17 | Yw cais i ddwyn ymlaen i 2017/18 yn debygol, os felly, pa werth? | Cyfanswm a Ragwelir |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Priffyrdd, Eiddo, Gwastraff – Priffyrdd | Cronfa Grantiau Cyfyngedig Priffyrdd – Incwm Maes Parcio Maes Awyr | **CYFYNGEDIG** | 6,406.21 | NAC YDYW | Dwyn ymlaen £6,406.21 – LlC sy'n berchen y cyllid ac fe'i ddefnyddir ar gyfer amryw weithfeydd ym Maes Awyr Môn. | 6,406.21 |
| Priffyrdd, Eiddo, Gwastraff – Rheoli Gwastraff | Cronfa Gyfyngedig Eiddo - Mân-ddaliadau | **CYFYNGEDIG** | 1,927.51 | NAC YDYW | Dwyn ymlaen £1,927.51 – balans incwm Mân-ddaliadau, ac fe'i ddefnyddir i gyllido gwelliannau pellach. | 1,927.51 |
| Priffyrdd, Eiddo, Gwastraff – Rheoli Gwastraff | Safle Penhesgyn | **CYFYNGEDIG** | 2,000,000.00 | NAC YDYW | Dwyn ymlaen £2m – ei gadw rhag ofn bydd ceuffos yn cwympo o dan Tip Penhesgyn neu os bydd NRW yn newid eu polisi. | 2,000,000.00 |
| Priffyrdd, Eiddo, Gwastraff – Rheoli Gwastraff | Gwario i Arbed – Toiledau Cyhoeddus | **CLUSTNODWYD** | 72,600.00 | Gwaith yn dechrau'n fuan, dylai fod wedi ei wario i gyd. | NAC YDYW - oni bai fod oediadau annisgwyl. | 0.00 |
| Priffyrdd, Eiddo, Gwastraff – Rheoli Gwastraff | Cronfa Gwastraff/Ailgylchu | **GRANT** | 323,681.14 | NAC YDYW | Dwyn ymlaen y swm gyfan – Cyllid yw hwn a dderbyniwyd gan LlC ar gyfer dibenion ailgylchu. Disgwylir bydd y rhan fwyaf o'r swm yn cael ei wario yn ystod 2017/18 i brynu mwy o flychau troli ailgylchu. | 323,681.14 |
| Priffyrdd, Eiddo, Gwastraff – Rheoli Gwastraff | Gwaith Trîn Gogledd Orllewin Cymru | **CYFYNGEDIG** | 1,306,249.82 | NAC YDYW – ond bydd rhagor o wariant flwyddyn yma (£80k). | Dwyn ymlaen y swm gyfan – bydd gwario sylweddol yn ystod y 3 mlynedd nesaf wrth i'r gwaith trin Ynni o Wastraff gael ei adeiladu. | 1,306,249.82 |

| Cyfadran | Cronfa | Categori | Cyfanswm Hyd Yma | A yw'r gronfa yma'n debygol o gael ei wario'n llawn yn ystod 2016/17 | Yw cais i ddwyn ymlaen i 2017/18 yn debygol, os felly, pa werth? | Cyfanswm a Ragwelir |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Priffyrdd, Eiddo, Gwastraff – Rheoli Gwastraff | Incwm Proses Ailgylchu | **CYFYNGEDIG** | 382,738.60 | NAC YDYW – ond defnyddir £100k ar gyfer gorwariant tebygol yn ystod 2016/17. | Dwyn ymlaen y swm gyfan – Grant Amgylchedd Sengl (GAS) ar gyfer 2017/18 wedi cael ei dorri 6.7% ar ôl gosod y gyllideb, gan olygu diffyg o £120k. Dylid gadw'r gronfa wrth gefn yma ar gyfer diffygion yn y GAS a fydd yn parhau i gael ei dorri yn y dyfodol. Dylid defnyddio unrhyw warged i brynu mwy o droliau ailgylchu. | 382,738.60 |
| Priffyrdd, Eiddo, Gwastraff – Priffyrdd | Maes Awyr Priffyrdd | **CYFYNGEDIG** | 93,990.02 | NAC YDYW | Dwyn ymlaen £6,406.21 - LIC sy berchen y cyllid ac fe'i ddefnyddir ar gyfer amryw weithfeydd ym Maes Awyr Môn. | 6,406.21 |
| Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff – Eiddo | Risg Adeiladu – Cynnal a Chadw | **CLUSTNODWYD** | 3,337.22 | NAC YDYW | Dwyn ymlaen y swm gyfan. | 3,337.22 |
| Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff - Eiddo | Rhesymoli Rheoli Asedau | **CLUSTNODWYD** | 99,516.86 | NAC YDYW | Dwyn ymlaen beth bynnag sydd heb ei wario gan fod prosiectau'n pontio mwy nag un blwyddyn ariannol. | 99,516.86 |
| Tai | Darpariaeth Digartrefedd | **CLUSTNODWYD** | 92,700.00 | NAC YDYW | Y swm a ragwelir i'w ddwyn ymlaen - £67,750 | 67,750.00 |
| Tai | Gwelliannau Tenant Landlord | **CLUSTNODWYD** | 15,000.00 | NAC YDYW | Y swm a ragwelir i'w ddwyn ymlaen - £5,000 | 5,000.00 |
| Tai | Tai Fforddiadwy | **CLUSTNODWYD** | 117,500.00 | NAC YDYW | Y swm a ragwelir i'w ddwyn ymlaen - £94,000 | 94,000.00 |

| Cyfadran | Cronfa | Categori | Cyfanswm Hyd Yma | A yw'r gronfa yma'n debygol o gael ei wario'n llawn yn ystod 2016/17 | Yw cais i ddwyn ymlaen i 2017/18 yn debygol, os felly, pa werth? | Cyfanswm a Ragwelir |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tai | Rheoli Tai | **CLUSTNODWYD** | 56,300.00 | NAC YDYW | Y swm a ragwelir i'w ddwyn ymlaen - £49,000 | 49,000.00 |
| Dysgu – Addysg | Cronfa Dyddiau Ysgol | **CYFYNGEDIG** | -66,860.00 | Mae'n rhaid dwyn rhain ymlaen gan fe'y dirprwywyd i ysgolion. | YDYW – y balans llawn. Cronfa ddirprwyedig i'r holl ysgolion yw hwn ac fe'i ddefnyddir i wneud iawn am amrywiadau rhwng y flwyddyn ysgol yn ddibynnol ar pryd mae Pasg yn disgyn o fewn y calendr. Mae'r gronfa mewn diffyg ac ni ddefnyddir i wneud iawn am ddiwrnodau ychwanegol, ond bydd yn cael ei ychwanegu at y blynyddoedd pan mae diwrnodau ysgol yn gostwng, hyd nes fydd y gronfa'n cael ei chlirio, yn dilyn hynny ni fydd angen cronfa wrth gefn rhagor. Bydd y balans diffyg yn parhau tu hwnt i 2016/17. | -66,860.00 |
| Dysgu - Addysg | Cynllun Atgyweiriadau a Cynnal a Chadw - Cynradd | **CYFYNGEDIG** | 51,547.26 | Anhysbys. Mae'n rhaid dwyn rhain ymlaen gan fe'y dirprwywyd i ysgolion. | YDYW – y balans llawn - cyllideb ddirprwyedig yw hwn. | 51,547.26 |
| Dysgu - Addysg | Cynllun Salwch/Hysbysebu – Cynradd | **CYFYNGEDIG** | 61,739.57 | Anhysbys. Mae'n rhaid dwyn rhain ymlaen gan fe'y dirprwywyd i ysgolion. | YDYW – y balans llawn - cyllideb ddirprwyedig yw hwn. | 61,739.57 |
| Dysgu - Addysg | Cronfa Cyllid Ôl 16 ELWA | **CYFYNGEDIG** | 0.00 | | YDYW – y balans llawn - cyllideb ddirprwyedig yw hwn. | 0.00 |

| Cyfadran | Cronfa | Categori | Cyfanswm Hyd Yma | A yw'r gronfa yma'n debygol o gael ei wario'n llawn yn ystod 2016/17 | Yw cais i ddwyn ymlaen i 2017/18 yn debygol, os felly, pa werth? | Cyfanswm a Ragwelir |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dysgu - Addysg | Rhesymoli Ysgolion | **CYFYNGEDIG** | 1,082,885.64 | Disgwylir bydd y gronfa yma'n gostwng £290k erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. | YDYW – y balans llawn - cyllideb ddirprwyedig yw hwn. | 792,885.64 |
| Dysgu Gydol Oes - Diwylliant | Estyn Allan y Gogledd | **CLUSTNODWYD** | 2,643.11 | Bydd angen dwyn hwn ymlaen gan ei fod wedi ei ddyrannu ar gyfer gweithgareddau penodol wedi eu hamserlennu. | YDYW | 2,643.11 |
| Dysgu Gydol Oes - Diwylliant | Cronfa Prynu'r Amgueddfa | **CYFYNGEDIG** | 19,167.12 | Hwn yw arian a godwyd drwy gyfraniadau i'r Oriel a ni ellir ei ddefnyddio tuag at unrhyw bwrpas arall. | YDYW – y balans llawn. Cyllid wedi ei amgàu yw hwn o roddion a ni ellir ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw bwrpas arall. | 19,167.12 |
| Dysgu Gydol Oes – Addysg | Buddsoddi i Arbed – system talu ar-lein awtomotaidd i ysgolion ar gyfer taliadau am brydau | **CLUSTNODWYD** | 50,000.00 | Bydd unai'n cael ei wario'n llawn yn ystod y flwyddyn ariannol yma, neu, os ddim, bydd yn cael ei wario erbyn diwedd y flwyddyn academaidd. | Bydd angen dwyn ymlaen unrhyw gyllideb sy'n weddill, hyd at ddiwedd y flwyddyn academaidd. | 50,000.00 |

| Cyfadran | Cronfa | Categori | Cyfanswm Hyd Yma | A yw'r gronfa yma'n debygol o gael ei wario'n llawn yn ystod 2016/17 | Yw cais i ddwyn ymlaen i 2017/18 yn debygol, os felly, pa werth? | Cyfanswm a Ragwelir |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rheoleiddio – Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | Cronfa Trwydded | **CLUSTNODWYD** | 23,000.00 | NAC YDYW - £0 | £23,000 – cronfa wrth gefn wedi ei chlustnodi i brosiect TG sydd i ddigwydd yn 2017/18.<br><br>Mae angen i Warchod y Cyhoedd foderneiddio a diweddaru eu cronfa ddata er mwyn mabwysiadu'n llawn athroniaeth Gweithio'n Gallach. Bydd angen adnoddau ychwanegol i uwchraddio neu newid y gronfa ddata bresennol ac, er fod rhywfaint o gyllid wedi cael ei ddarparu, clustnodwyd y gronfa wrth gefn yma yn flaenorol i uwchraddio cronfa ddata Drwyddedu a bydd yr uwchraddio arfaethedig newydd yma'n helpu cyflawni'r diben gwreiddiol. Bydd y swyddog prosiect yn cychwyn yn Ebrill 2017. | 23,000.00 |
| Rheoleiddio – Cynllunio | Grant PIF | **GRANT** | 12,870.64 | Ydyw, defnyddir y gronfa yn ystod y flwyddyn ariannol 2016/17 | AMHERTHNASOL | 0.00 |
| Rheoleiddio – Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | Cynllun Datblygu Lleol | **CLUSTNODWYD** | 208,190.00 | Anhebyg i'w wario'n llawn gan fod y broses Cynllun Datblygu Lleol yn parhau hyd at Gwanwyn 2017. | Bydd angen dwyn ymlaen y mwyafrif o'r gronfa wrth gefn i'r flwyddyn ariannol 2017/18. Mae ei angen ar gyfer gwaith parhaus. | 208,190.00 |

| Cyfadran | Cronfa | Categori | Cyfanswm Hyd Yma | A yw'r gronfa yma'n debygol o gael ei wario'n llawn yn ystod 2016/17 | Yw cais i ddwyn ymlaen i 2017/18 yn debygol, os felly, pa werth? | Cyfanswm a Ragwelir |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rheoleiddio – Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | Cronfa Prynu Gyda Hyder | **CLUSTNODWYD** | 6,240.00 | Mae angen ei gadw gan y sywddogaeth Gwarchod y Cyhoedd. | Bydd angen dwyn ymlaen y mwyafrif o'r gronfa wrth gefn i'r flwyddyn ariannol 2017/18. Mae ei angen ar gyfer gwaith parhaus. | 6,240.00 |
| Rheoleiddio - Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | Cynllunio | **CLUSTNODWYD** | 25,000.00 | Ydyw, defnyddir y gronfa yn ystod blwyddyn ariannol 2016/17 i falansio cyllidebau staffio yn dilyn ail-raddio Arfarnu Swyddi. | AMHERTHNASOL | 0.00 |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd – Economaidd | Cronfa Prosiectau'r UE | **CLUSTNODWYD** | 50,000.00 | NAC YDYW - £0 | YDYW – bydd angen dwyn ymlaen y swm gyfan (£50,000) i'r flwyddyn ariannol 2017/18. Mae wedi ei ddyrannu fel darpariaeth rhag ofn bydd Archwiliad Prosiectau Ewropeaidd, a allai ddigwydd rhwng rwan a 2024. | 50,000.00 |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd – Economaidd | Datblygiadau Mawr | **CLUSTNODWYD** | 198,387.10 | NAC YDYW - £0 | YDYW – bydd angen cadw'r swm gyfan (£198,387.10). Dyranwyd y gronfa wrth gefn eisoes i'r broses Caniatadau DCO a fydd yn cymryd lle yn ystod y flwyddyn ariannol 2017/18. | 198,387.10 |

| Cyfadran | Cronfa | Categori | Cyfanswm Hyd Yma | A yw'r gronfa yma'n debygol o gael ei wario'n llawn yn ystod 2016/17 | Yw cais i ddwyn ymlaen i 2017/18 yn debygol, os felly, pa werth? | Cyfanswm a Ragwelir |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd – Economaidd | Cronfa Datblygu Economaidd - Ynys Ynni | **CLUSTNODWYD** | 213,132.85 | Dim yn llawn, tua £60k ar hyn o bryd (yn dibynol ar anfonebau heb eu derbyn eto) | YDYW – bydd angen cadw oddeutu £60,000 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017/18. Bydd yr holl gyllideb sydd heb ei wario yn 2016/17 yn cael ei ddwyn ymlaen. | 60,000.00 |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd – Economaidd | Cronfa Cyfyngedig Datblygu Economaidd | **CLUSTNODWYD** | 37,115.78 | NAC YDYW - £0 | YDYW – bydd angen dwyn ymlaen y gronfa wrth gefn gyfan (£37,115.78) i'r flwyddyn ariannol 2017/18. Mae wedi ei ddyrannu fel darpariaeth rhag ofn bydd Archwiliad SETS, a allai ddigwydd rhwng rwan a 2024. | 37,115.78 |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd - Hamdden | Cronfa Gwelliannau Hamdden | **CLUSTNODWYD** | 173,600.24 | Ydyw, fe'i defnyddir i dalu am Welliannau Cyfalaf yng Nghanolfannau Hamdden Plas Arthur ac Amlwch sydd wedi eu gwneud eisoes. | AMHERTHNASOL | 0.00 |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd – Hamdden | Cynllun Cynnal a Chadw Canolfan Hamdden | **CLUSTNODWYD** | 2,941.00 | Defnyddir tuag at atgyweiriadau a cynnal a chadw y safleoedd treftadaeth amgueddfeydd ac Orielau. Mae'n debygol y'i defnyddir yn llawn cyn diwedd y flwyddyn ariannol. | Dwyn ymlaen unrhywbeth sydd heb ei wario gan fod prosiectau'n pontio mwy nag un flwyddyn ariannol. | 2,941.00 |

| Cyfadran | Cronfa | Categori | Cyfanswm Hyd Yma | A yw'r gronfa yma'n debygol o gael ei wario'n llawn yn ystod 2016/17 | Yw cais i ddwyn ymlaen i 2017/18 yn debygol, os felly, pa werth? | Cyfanswm a Ragwelir |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Adnoddau | Refeniw a Budd-daliadau | **CLUSTNODWYD** | 90,870.00 | Nac ydyw – gwaith wedi cychwyn ac fe wneir ychydig o wariant, fodd bynnag, bydd y rhan fwyaf o'r gwariant yn ystod 2017/18. | YDYW | 90,870.00 |
| Adnoddau - Caffael | Swyddog Caffael Dros Dro | **CLUSTNODWYD** | 33,620.44 | Nac Ydyw | Effaith Blwyddyn Rhannol, felly, bydd angen ei ddwyn ymlaen i 2017/18. | 20,000.00 |
| Adnoddau – Refeniw a Budd-daliadau | Staff Refeniw a Budd-daliadau | **CLUSTNODWYD** | 27,000.00 | Nac Ydyw | YDYW - gwaith yn pontio mwy nag un blwyddyn ariannol. | 27,000.00 |
| Gwas. Cym. – Gwasanaethau Oedolion – Iechyd Meddwl | Cronfa Adran 117 | **CYFYNGEDIG** | 150,000.00 | Nac Ydyw | £150,000.00 | 150,000.00 |
| Gwas. Cym. – Gwasanaethau Oedolion a Phlant | Trawsnewid | **CLUSTNODWYD** | 228,134.10 | Nac Ydyw | £195,546.46 | 195,546.46 |
| Trawsnewid – AD | Camddefnyddio Sylweddau Cymdeithasol | **CLUSTNODWYD** | 54,000.00 | Nac Ydyw | I'w adolygu | 0.00 |
| Trawsnewid – AD | SCWDP | **GRANT** | 40,430.17 | YDYW | YDYW – Y gwerth cyfan. | 40,430.17 |
| Trawsnewid – AD | Hyfforddiant Gweithio'n Gallach | **CLUSTNODWYD** | 30,000.00 | Mae rhan o hwn yn cyllido'r deilydd sywdd e-ddysgu hyd at 31 Mawrth 2017 ac mae angen trosglwyddo'r gweddill i 2017/18 ar gyfer yr un pwrpas. | YDYW – y cyllid gweddillol i'w drosglwyddo i gyllideb staffio 2017/18 ar gyfer AD i alluogi'r swydd cydlynydd e-ddysgu gael ei chyllido. | 15,000.00 |
| Trawsnewid – TGCh | Costau Trosi PSBA | **CLUSTNODWYD** | 38,266.74 | | | 38,266.74 |
| | | | **12,822,655.00** | | | **11,610,322.67** |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Y PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **14 CHWEFROR 2017** |
| **Pwnc:** | **FFIOEDD A THALIADAU 2017/18** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD HYWEL EIFION JONES – (AELOD PORTFFOLIO – CYLLID)** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **MARC JONES – PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **MARC JONES**<br>**01248 752601**<br>**RMJFI@YNYSMON.GOV.UK** |
| **Aelodau Lleol:** | **DDIM YN BERTHNASOL** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**ARGYMHELLION A RHESYMAU**

Fel rhan o'r broses o osod y gyllideb, caiff holl ffioedd a thaliadau'r Cyngor eu hadolygu.

Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi gosod amcan y dylai'r holl ffioedd a thaliadau anstatudol gael eu cynyddu 3% ar gyfartaledd ar draws pob gwasanaeth unigol. Mae hyn wedi caniatáu i'r Penaethiaid Gwasanaeth gynyddu ffioedd unigol o fwy neu lai na 3% ond, ar y cyfan, byddai'r cynnydd cyfartalog ar draws y gwasanaeth yn cyfateb i 3%.

Cynyddwyd yr holl ffioedd statudol yn ôl y swm a osodwyd gan y corff sy'n cymeradwyo pan oedd y cynnydd wedi'i gyhoeddi. Pan nad yw'r tâl diwydiedig yn hysbys, caiff y ffî ei dangos fel 'i'w gadarnhau' a chaiff ei diweddaru unwaith y ceir gwybod beth yw'r ffî newydd.

Caiff cynnydd yn y ffioedd sy'n perthyn i Ofal Cymdeithasol eu hadrodd i'r Pwyllgor Gwaith fel eitemau ar wahân ar yr agenda.

**ARGYMHELLIAD**

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r atodlen ffioedd a thaliadau ar gyfer 2017/18.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Fe roddodd Wasanaethau unigol ystyriaeth i lefel ffioedd gwahanol er mwyn cyflawni'r gofyn o gynnydd o 3% yn y lefel gyffredinol o ffioedd anstatudol ar gyfer y gwasanaeth.

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'r penderfyniad yn ffurfio rhan o'r broses o osod y gyllideb.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

D/B

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

D/B

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Awdur yr Adroddiad |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |
| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |
| **F - Atodiadau:** | | |
| Atodiad A – Atodlen o Ffioedd a Thaliadau 2017/18 | | |
| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** | | |
| | | |

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Ffioedd a Thaliadau

# 2017-18

# CYNNWYS

**Gwasanaeth Oedolion**
Gofal Cymdeithasol Oedolion

**Cyfadran Gymuned**
Tai

**Cyfadran Dysgu Gydol Oes**
Addysg
Llyfrgelloedd a Diwylliant

**Cyfadran Datblygiad Cynaliadwy**
Economaidd ac Adfywio Cymunedol
Hamdden
Morwrol
Priffyrdd
Rheoli Gwastraff
Gwarchod y Cyhoedd
Cynllunio

**Adran y Dirprwy Brif Weithredwr**
Cyfreithiol

**<u>Nodiadau</u>**

**1. Cyfnod Perthnasol**

**1.1** Mae'r holl ffioedd a thaliadau o'r 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018 (yn gynhwysol) oni bai y nodir fel arall.

**2. TAW**

**2.1** Mae'r holl ffioedd a thaliadau yn cynnwys TAW (TAW yn amodol i newid), oni bai y nodir fel arall.

**2.2** Allwedd i Ddangosyddion TAW

**S** - Yn cynnwys TAW Cyfradd Safonol (20%, amodol i newid)
**Z** - Cyfradd sero
**E** - Eithriwyd o TAW
**N** - Tâl Net TAW (Dylid ychwanegu TAW i'r ffî/taliad)
**O/S** - Tu allan i gwmpas TAW / Ddim yn fusnes
**Amh** - Amherthnasol

**2.3** Nid yw taliadau rhwng gwasanaethau Cyngor Sir Ynys Môn yn cynnwys TAW.

# Gofal Cymdeithasol Oedolion

| Gwasanaeth | Ffi/Tâl | TAW |
|---|---|---|
| **Gofal Preswyl yng Nghartrefi'r Awdurdod ar gyfer Pobl Hyn** | | |
| Tâl safonol (ar gyfer preswylwyr sydd hefo'r modd ariannol i dalu'r gost llawn) | £584.29 yr wythnos | O/S |
| **Gofal Cartref** | | |
| Ar fudd-daliadau prawf modd – DIM yn derbyn Lwfans Gweini Uwch | I'w gadarnhau | Amh |
| Ar dudd-daliadau prawf modd – YN DERBYN Lwfans Gweini Uwch | I'w gadarnhau yr wythnos | O/S |
| Dim yn derbyn budd-daliadau prawf modd ac yn amodol ar y lefelau incwm gweddilliol canlynol :-<br>- Pobl o oedran pensiwn : £219.24 yr wythnos;<br>- Pobl yn fengach na'r oedran pensiwn : £152.76 yr wythnos. | I'w gadarnhau yr wythnos | O/S |
| **Prydau yng Ngwasanaethau Dydd** | | |
| **(Yn berthnasol i'r holl brydau a lluniaeth ddarparwyd ym mhob lleoliad Gwasanaeth Dydd)** | | |
| Prydau yng Ngwasanaethau Dydd ar gyfer oedolion (ac eithrio pobl hefo anableddau dysgu) | £5.70 | O/S (S yw prydau ddarparwyd i bersonau ddim wedi derbyn asesiad Gwasanaethau Cymdeithasol) |
| Byrbryd canol dydd yng Ngwasanaethau Dydd ar gyfer pobl hefo anableddau dysgu | £2.30 | |
| Lluniaeth arall (te/coffi/teisen) yng Ngwasanaethau Dydd | £1.30 | |
| **Cludiant i Wasanaeth Dydd** | I'w gadarnhau | Amh |
| **Gwasanaethau Teleofal** | | |
| Defnyddwyr Gwasanaeth Ynys Môn cyn 2007 | I'w gadarnhau | Os darparwyd fel rhan o becyn gofal – O/S. Os darparwyd i'r anabl – Z. Os darparwyd i'r henoed ddim fel rhan o becyn gofal, neu i drydyd bartïon (e.e. Cymdeithasau Tai) – S. |
| Pecynnau Teleofal Sylfaenol (Haen 1) | I'w gadarnhau | |
| Pecynnau Teleofal Amgylcheddol (Haen 2) | I'w gadarnhau | |
| Pecynnau Teleofal Gofal Personol (Haen 3) | I'w gadarnhau | |
| Tâl Gosod | £41.73 | |
| **Elfennau wedi eu cynnwys yn nhaliadau Gwasanaethau Teleofal** | | |
| Tâl monitro | I'w gadarnhau | |
| Tâl cynnal a chadw | I'w gadarnhau | |
| **Bathodynnau Glas (sefydliadol ac amnewid (colli/dwyn))** | £10.00 | O/S |
| | | |
| **Cartrefi Preswyl a Nyrsio Sector Annibynnol** | | |
| Preswyl (Oedolion) | I'w gadarnhau | O/S |
| Preswyl (EMI) | £547.33 | O/S |
| Gofal Nyrsio Sylfaenol (Elfen Gofal Cymdeithasol) | £567.81 | O/S |
| Nyrsio (EMI) (Elfen Gofal Cymdeithasol) | £598.51 | O/S |

## Tai

| Gwasanaeth | Ffi/Tâl | TAW |
|---|---|---|
| **Llogi Ystafelloedd - HUWC** | | |
| Ystafell Gynadledda | £15.75 fesul hanner diwrnod | E, oni bai wedi dewis i drethu, wedyn yn S. |
| Ystafelloedd Llai | £5.25 yr awr | E, oni bai wedi dewis i drethu, wedyn yn S. |
| **Ffioedd Troi Tai'n Gartrefi** | | |
| Hyd at £50,000 | £345.00 | O/S |
| Dros £50,000 | £395.00 | O/S |
| **Cynllun Benthyciad i Wella Cartrefi** | 15% o werth y benthyciad (gall hefyd fod yn amodol ar ffi brisio gan drydydd parti) | |
| **Rhenti Garejys** | £7.60 yr wythnos | Amrywiol |
| **Ffioedd** | | |
| 1 Llofft – Tŷ/Byngalo | £77.92 cyfartaledd fesul wythnos | Amrywiol |
| 2 Llofft – Tŷ/Byngalo | £80.79 cyfartaledd fesul wythnos | |
| 3 Llofft – Tŷ/Byngalo | £87.05 cyfartlaedd fesul wythnos | |
| 4 Llofft – Tŷ/Byngalo | £91.81 cyfartaledd fesul wythnos | |
| 5+ Llofft – Tŷ/Byngalo | £99.98 cyfartaledd fesul wythnos | |
| 1 Llofft - Fflat | £72.65 cyfartlaedd fesul wythnos | |
| 2 Llofft - Fflat | £77.06 cyfartaledd fesul wythnos | |
| 3 Llofft - Fflat | £83.75 cyfartaledd fesul wythnos | |
| Fflat un ystafell | £65.23 cyfartaledd fesul wythnos | |
| 1 Llofft - Tŷ Gwarchodedig | £78.31 cyfartaledd fesul wythnos | |
| 2+ Llofft - Tŷ Gwarchodedig | £80.93 cyfartaledd fesul wythnos | |
| 1 Llofft - Fflat Gwarchodedig | £72.97 cyfartaledd fesul wythnos | |
| 2+ Llofft - Fflat Gwarchodedig | £79.98 cyfartaledd fesul wythnos | |
| Ffî Llys | £325.00 cyfartaledd fesul wythnos | |
| Warant | £110.00 cyfartaledd fesul wythnos | |
| Ail-gyhoeddi Warant | £110.00 cyfartaledd fesul wythnos | |
| **Taliadau Gwasanaeth mewn Anheddau** | | |
| Glanhau ardaloedd cymunedol | £0.72 - £4.66 yr wythnos | O/S os mewn perthynas â phrydles tŷ Cyngor, ac E am brydlesau arall |
| Cynnal a chadw lifftiau | £0.46 - £4.21 yr wythnos | |
| Erialau mewn ardaloedd cymunedol | £0.10 yr wythnos | |
| Gwresogi a goleuadau mewn ardaloedd cymunedol | £0.62 yr wythnos | |
| Larymau tân ac offer tân | £0.26 yr wythnos | |
| Mynediad drws | £0.39 yr wythnos | |
| Taliadau Carthffosiaeth | £3.40 yr wythnos | |
| Peintio ardaloedd cymunedol | £0.13 - £0.47 yr wythnos | |
| Cynnal a chadw tiroedd (Eiddo domestig) | £2.26 yr wythnos | |
| Cynnal a chadw tiroedd (Eiddo gwarchod) | £0.14 - £2.32 yr wythnos | |
| Ffi rheoli | 15% o'r tâl gwasanaeth | |

# Addysg

| Gwasanaeth | Ffi/Tâl | TAW |
|---|---|---|
| **Prydau Ysgol hyd at dymor mis Medi:** | | |
| **Disgyblion a staff goruchwylio:** | | |
| Ysgolion cynradd | £2.10 y pryd | O/S |
| Ysgolion uwchradd | £2.20 y pryd | O/S |
| **Staff ac ymwelwyr eraill:** | | |
| Ysgolion cynradd | £4.00 y pryd | S |
| Ysgolion Uwchradd | £2.60 y pryd | S |
| **Prydau Ysgol o dymor mis Medi:** | | |
| **Disgyblion a staff goruchwylio:** | | |
| Ysgolion cynradd | I'w benderfynnu gan y Pwyllgor Gwaith | O/S |
| Ysgolion uwchradd | I'w benderfynnu gan y Pwyllgor Gwaith | O/S |
| **Staff ac ymwelwyr eraill:** | | |
| Ysgolion cynradd | I'w benderfynnu gan y Pwyllgor Gwaith | S |
| Ysgolion Uwchradd | I'w benderfynnu gan y Pwyllgor Gwaith | S |
| **Gofal cyn y Clwb Brecwast** | | |
| 30 munud o ofal cyn y clwb brecwast | £0.75 y plentyn | I'w Gadarnhau |
| **Bysus Ysgol hyd at dymor Medi:** | | |
| Dros 16 Oed | £100.00 y flwyddyn | O/S |
| Dan 3 milltir | £90.00 y flwyddyn | O/S |
| Allan o'r dalgylch | £150.00 y flwyddyn | O/S |
| **Bysus Ysgol o dymor mis Medi:** | | |
| Dros 16 Oed | £120.00 y flwyddyn | O/S |
| Dan 3 milltir | £108.00 y flwyddyn | O/S |
| Allan o'r dalgylch | £180.00 y flwyddyn | O/S |
| **Taliadau Eraill** | | |
| Llungopïau | £0.10 y ddalen | I'w Gadarnhau |

# Llyfrgelloedd a Diwylliant

| Gwasanaeth | Ffi/Tâl | TAW |
|---|---|---|
| **Amgueddfeydd a Diwylliant** | | |
| **Llynnon** | | |
| Oedolion | £4.35 | S |
| Henoed | £3.25 | S |
| Plant | £3.25 | S |
| Oedolion (Grŵp 15+) | £3.80 | S |
| Henoed/Plant (Grŵp 15+) | £3.00 | S |
| Gweithdy Grŵp (15+) | £4.10 | E |
| Teulu (4) | £11.90 | S |
| **Carchar Biwmares** | | |
| Oedolion | £5.40 | S |
| Henoed | £4.35 | S |
| Plant | £4.35 | S |
| Oedolion (Grŵp 15+) | £4.90 | S |
| Henoed/Plant (Grŵp 15+) | £4.10 | S |
| Teulu (4) | £16.20 | S |
| **Llys Biwmares** | | |
| Oedolion | £3.90 | S |
| Henoed | £3.05 | S |
| Plant | £3.05 | S |
| Oedolion (Grŵp 15+) | £3.70 | S |
| Henoed/Plant (Grŵp 15+) | £2.85 | S |
| Teulu (4) | £11.40 | S |
| **Tocyn Cyfunol Biwmares** | | |
| Oedolion | £8.15 | S |
| Henoed | £6.70 | S |
| Plant | £6.70 | S |
| Oedolion (Grŵp 15+) | £7.60 | S |
| Henoed/Plant (Grŵp 15+) | £6.50 | S |
| Teulu (4) | £25.45 | S |
| **Ynys Lawd** | | |
| Oedolion | £6.00 | S |
| Henoed | £4.35 | S |
| Plant | £3.25 | S |
| **Oriel Ynys Môn** | | |
| Comisiwn ar werthiant | 35% | Amrywiol |
| **Llogi Ystafelloedd** | | |
| Prif Oriel Gelf oriau gyda'r nôs (6-11yh, isafswm o 2 awr) neu<br>Oriel Kyffin Williams oriau gyda'r nôs (6-11yh, isafswm o 2 awr) | £80.00 yr awr/gyda'r nos | E |
| Tunnicliffe oriau gyda'r nôs (6-11yh) | £40.00 yr awr/gyda'r nos | E |
| **Ystafell Tunnicliffe – Masnachol:** | | |
| Yr Awr (uchafswm 3 awr) | £33.00 | E |
| Hanner Diwrnod (3.5 awr) | £100.00 | E |
| Diwrnod Llawn (7 awr) | £200.00 | E |
| Oriau Ychwanegol | £35.00 yr awr | E |

| | | |
|---|---|---|
| **Ystafell Tunnicliffe – Addysgol:** | | |
| Yr Awr (uchafswm 3 awr) | £16.50 | E |
| Hanner Diwrnod (3.5 awr) | £50.00 | E |
| Diwrnod Llawn (7 awr) | £100.00 | E |
| Oriau Ychwanegol | £21.00 yr awr | E |
| **Ystafell Tunnicliffe – Sefydliadau di-elw:** | | |
| Yr Awr (uchafswm 3 awr) | £15.00 | E |
| Hanner Diwrnod (3.5 awr) | £45.00 | E |
| Diwrnod Llawn (7 awr) | £90.00 | E |
| Oriau Ychwanegol | £18.00 yr awr | E |
| **Ystafell Tunnicliffe – Cyngor:** | | |
| Yr Awr (uchafswm 3 awr) | £21.00 | E |
| Hanner Diwrnod (3.5 awr) | £63.00 | E |
| Diwrnod Llawn (7 awr) | £115.00 | E |
| Oriau Ychwanegol | £26.00 yr awr | E |
| **Stafell Gyfarfod Fechan** | | |
| Yr Awr (uchafswm 3 awr) | £10.00 | E |
| Hanner Diwrnod (3.5 awr) | £30.00 | E |
| Diwrnod Llawn (7 awr) | £60.00 | E |
| Oriau Ychwanegol | £12.00 yr awr | E |
| **Amrywiol** | | |
| Gweithdai | £4.00 y pen | E |
| Copïau Digidol anfonwyd drwy e-bost | £6.00 yr awr | S |
| Copïau Digidol anfonwyd drwy CD/DVD | £12.00 yr awr | S |
| Gwasanaeth Ymchwil a Dalwyd | £30.00 yr awr | S |
| **Ffilmio yn OYM a safleoedd [Pris ar Gais]** | | |
| Yr Awr – Defnydd Unigol | £60.00 | S |
| **Atgynhyrchiadau - Delweddau [Pris ar Gais]** | | |
| Atgynhyrchu mewn llyfrau a chyfnodolion | £36.00 | S |
| Atgynhyrchu mewn arddangosfeydd (anfasnachol) | £48.00 | S |
| Atgynhyrchu ar gyfer defnydd addysgol | £36.00 | S |
| Atgynhyrchu ar gyfer defnydd masnachol, i werthu, a.y.y.b. | £120.00 | S |
| **Atgynhyrchiadau – delweddau – darlledu ac ar-lein** | | |
| Cymraeg/Rhanbarthol, hyd at 10 mlynedd | £60.00 | S |
| Prydeinig, hyd at 10 mlynedd | £72.00 | S |
| Byd-eang, hyd at 10 mlynedd | £84.00 | S |
| Defnydd we | £48.00 | S |
| Defnydd we ffrydio digidol ar-lein | £96.00 | S |
| **Postio a Phacio** | | |
| Parcelforce Byd-eang – Printiau (postio £11.99) | £15.00 | I'w Gadarnhau |
| Pacio (postio fel prisiau Royal Mail ar-lein) | £1.00 - £3.00 | I'w Gadarnhau |
| **Llyfrgelloedd a Gwasanaethau Gwybodaeth** | | |
| **Taliadau am ddychwelyd llyfrau / casetiau / CDs yn hwyr (fesul eitem):** | | |
| 1 diwrnod yn hwyr | £0.25 | O/S |
| 2 ddiwrnod yn hwyr | £0.35 | O/S |
| 3 diwrnod yn hwyr | £0.45 | O/S |
| 4-7 niwrnod yn hwyr | £0.80 | O/S |
| Cost ar gyfer pob wythnos hwyr (uchafswm o £8.00) | £0.80 | O/S |
| **Taliadau am ddychwelyd fideos / DVDs yn hwyr (fesul eitem)** | | |
| Fesul wythnos neu ran o wythnos – Gwasanaeth premiwm (uchafswm o £30.00) | £3.00 | O/S |
| Fesul wythnos neu ran o wythnos – Gwasanaeth rheolaidd (uchafswm o £15.00) | £1.50 | O/S |

| | | |
|---|---|---|
| **Taliadau am ddychweliadau hwyr i lyfrgelloedd symudol (fesul eitem)** | | |
| Ymweliad 1af ac 2il ymweliad | £0.00 | O/S |
| 3ydd ymweliad | £0.60 | O/S |
| 4ydd ymweliad | £0.75 | O/S |
| 5ed ymweliad | £1.30 | O/S |
| Uchafswm cyfanswm y gost | £6.00 | O/S |
| **Ceisiadau (fesul eitem)** | | |
| Plant (dan 16) | £0.00 | O/S |
| Oedolion – Mewn stoc yng Nghymru (yn cynnwys LINC) | £0.00 | O/S |
| Eitem newydd i'r stoc | £10.00 | O/S |
| **Llogi CDs / DVDs (fesul eitem)** | | |
| CDs | £1.25 y CD dros 3 wythnos | O/S |
| DVD Premiwm – (DVDs a ychwanegwyd i stoc o fewn 1 flwyddyn) | £3.00 y DVD yr wythnos | O/S |
| DVDs hŷn a DVDs plant | £1.75 y DVD yr wythnos | O/S |
| **Cerdyn Aelodaeth Coll** | | |
| Plant | £1.25 | O/S |
| Oedolion | £2.25 | O/S |
| **Taliadau am eitemau a gollwyd/difrodwyd** | | |
| Llyfrau plant – Cymraeg | Yr LMS newydd yn codi pris manwerthu llawn yn awtomatig. Cytundeb Awdurdodau llyfrgelloedd Gogledd Cymru. | O/S |
| Llyfrau oedolion – Cymraeg | | O/S |
| Ffuglen – plant | | O/S |
| Ffeithiol – plant | | O/S |
| Ffuglen – oedolion [clawr papur] | | O/S |
| Ffeithiol – oedolion [clawr papur] | | O/S |
| Ffuglen – oedolion [clawr caled] | | O/S |
| Ffeithiol – oedolion [clawr caled] | | O/S |
| Llyfrau llafar – oedolion | | O/S |
| Llyfrau llafar – plant | | O/S |
| DVD – Oedolion | | O/S |
| DVD – Plant | | O/S |
| CD - cerddoriaeth | | O/S |
| Cost weinyddol ar eitemau hwyr iawn yr anfonebwyd amdanynt. | £5.00 fesul anfoneb | O/S |
| **Eitemau wedi eu tynnu allan o stoc – tâl isaf** | | |
| Ffuglen Clawr Papur – oedolion [Saesneg] | £0.75 yr un<br>Neu<br>£3.50 am 5 | S |
| Ffuglen Clawr Caled – oedolion [Saesneg] | £1.00 yr un<br>Neu<br>£1.75 am 2 | S |
| Ffeithiol Clawr Caled – oedolion [Cymraeg a Saesneg] | £1.50 yr un<br>Neu<br>£2.75 am 2 | S |
| Ffeithiol Clawr Papur – oedolion [Cymraeg a Saesneg] | £1.00 yr un<br>Neu<br>£1.75 am 2 | S |
| Llyfrau cyfeirio | prisiau unigol | S |
| Ffuglen Cymraeg – oedolion | £0.75 yr un<br>Neu<br>£3.50 am 5 | S |
| Llyfrau Plant [pob iaith] | £0.75 yr un<br>Neu<br>£3.50 am 5 | S |
| **Defnyddio Offer Cyfrifiadurol** | | |
| Ymwelwyr heb Gerdyn Llyfrgell o'r Deyrnas Unedig | £2.50 am bob ½ awr | O/S |

| | | |
|---|---|---|
| **Llungopïau** | | |
| A4 | £0.15 y ddalen | O/S |
| A4 – 10+ copi | £0.10 y ddalen | O/S |
| A4 – cefn wrth gefn | £0.30 y ddalen | O/S |
| A4 – cefn wrth gefn 10+ copi | £0.20 y ddalen | O/S |
| A3 | £0.30 y ddalen | O/S |
| A3 – 10+ copi | £0.20 y ddalen | O/S |
| A3 – cefn wrth gefn | £0.60 y ddalen | O/S |
| A3 – cefn wrth gefn 10+ copi | £0.40 y ddalen | O/S |
| **Argraffu o Gyfrifiadur a Disgiau** | | |
| A4 – du a gwyn | £0.15 yr un | O/S |
| A4 – du a gwyn 10+ copi (os cânt eu hargraffu ar unwaith mewn un sesiwn) | £0.10 yr un | O/S |
| A4 – argraffu lliw | £0.75 yr un | O/S |
| A4 – argraffu lliw 10+ copi (os cânt eu hargraffu ar unwaith mewn un sesiwn) | £0.50 yr un | O/S |
| Disgiau CDR | £0.80 yr un | O/S |
| Disgiau CDR/W | £1.65 yr un | O/S |
| Cof Bach (USB) 1Gb | £6.50 yr un | O/S |
| **Gwasanaeth Ffacs** | | |
| Tudalen 1af - Y Deyrnas Unedig | £1.75 | O/S |
| Tudalen ychwanegol - Y Deyrnas Unedig | £0.50 y dudalen | O/S |
| Tudalen 1af - Ewrop | £2.75 | O/S |
| Tudalen ychwanegol - Ewrop | £1.00 y dudalen | O/S |
| Tudalen 1af - Gogledd America | £3.75 | O/S |
| Tudalen ychwanegol - Gogledd America | £1.50 y dudalen | O/S |
| Tudalen 1af - Gweddill y Byd | £4.75 | O/S |
| Tudalen ychwanegol - Gweddill y Byd | £2.00 y dudalen | O/S |
| Derbyn Ffacs A4 | £1.00 | O/S |
| **Gosod Ystafelloedd** | | |
| Sesiwn 2 awr - yn ystod yr wythnos | £21.00 | I'w Gadarnhau |
| Sesiwn 2 awr gyda thâl mynediad/codi arian - yn ystod yr wythnos | £31.50 | I'w Gadarnhau |
| Cost ar gyfer pob hanner awr atodol - yn ystod yr wythnos | £5.50 | I'w Gadarnhau |
| Sesiwn 2 awr - Dydd Sadwrn | £31.50 | I'w Gadarnhau |
| Sesiwn 2 awr gyda thâl mynediad/codi arian - Dydd Sul | £42.00 | I'w Gadarnhau |
| Cost ar gyfer pob hanner awr atodol - Dydd Sadwrn | £6.50 | I'w Gadarnhau |
| **Llogi cyfleusterau cyfrifiadur (yn cynnwys llogi ystafell)** | | |
| Sesiwn 2 awr - Yn ystod yr wythnos yn ystod y dydd | £31.50 | I'w Gadarnhau |
| Sesiwn 2 awr - Gyda'r nos a dydd Sadwrn | £37.00 | I'w Gadarnhau |
| Sylwer - Gellir trafod prisiau ar gyfer llogi cyfleusterau cyfrifiadurol ar gyfer defnydd tymor hir a sesiynau trwy'r dydd | | |
| Comisiwn ar Werthiant Arddangosfeydd | 30% o werthiant | I'w Gadarnhau |
| **Hysbysebu Masnachol - Posteri** | | |
| Ffi am 4 wythnos | £3.50 | I'w Gadarnhau |
| **Archifau Môn** | | |
| **Deunydd papur** | | |
| Pensiliau | £0.40 y pensil | S |
| Tocynnau Darllen (Tocyn CARN) | £1.05 y tocyn | S |
| **Reprograffig** | | |
| Bydd yr holl eitemau a anfonir trwy'r post ar gyfradd llythyr mawr ail ddosbarth (os gofynnir am ddosbarth cyntaf neu dosbarthiad a gofnodwyd, codir tâl yn unol â hynny) | | |
| **Llungopïau** | | |
| Copïau A4 du a gwyn | £0.50 y ddalen | S |
| Copïau A3 du a gwyn | £0.70 y ddalen | S |
| Copïau A4 lliw | £1.00 y ddalen | S |
| Copïau A3 lliw | £1.20 y ddalen | S |

| | | |
|---|---|---|
| **Llungopïau - trwy'r post** | | |
| 1-3 Dalen A4 du a gwyn | £6.00 | S |
| 4-7 Dalen A4 du a gwyn | £6.80 | S |
| 1-3 Dalen A3 du a gwyn | £6.60 | S |
| 4-7 Dalen A3 du a gwyn | £7.35 | S |
| 1-3 Dalen A4 lliw | £11.90 | S |
| 4-7 Dalen A4 lliw | £13.65 | S |
| 1-3 Dalen A3 lliw | £13.65 | S |
| 4-7 Dalen A3 lliw | £15.30 | S |
| **Argraffu i ddarllenwyr** | | |
| Print A4 du a gwyn | £1.10 y ddalen | S |
| Print A3 du a gwyn | £1.20 y ddalen | S |
| **Argraffu i ddarllenwyr - trwy'r post** | | |
| 1-3 Dalen A4 du a gwyn | £8.35 | S |
| 4-7 Dalen A4 du a gwyn | £10.20 | S |
| 1-3 Dalen A3 du a gwyn | £10.20 | S |
| 4-7 Dalen A3 du a gwyn | £11.90 | S |
| **Argraffu o gyfrifiadur** | | |
| A4 du a gwyn | £0.50 y ddalen | S |
| A3 du a gwyn | £0.70 y ddalen | S |
| A4 lliw | £1.00 y ddalen | S |
| A3 lliw | £1.20 y ddalen | S |
| **Argraffu o gyfrifiadur - trwy'r post** | | |
| 1-3 Dalen A4 du a gwyn | £6.00 | S |
| 4-7 Dalen A4 du a gwyn | £6.80 | S |
| 1-3 Dalen A3 du a gwyn | £6.80 | S |
| 4-7 Dalen A3 du a gwyn | £7.35 | S |
| 1-3 Dalen A4 lliw | £11.90 | S |
| 4-7 Dalen A4 lliw | £13.65 | S |
| 1-3 Dalen A3 lliw | £13.65 | S |
| 4-7 Dalen A3 lliw | £15.30 | S |
| **Copïau wedi sganio** | | |
| Argraffwyd ar bapur A4 plaen | £3.65 y ddalen | S |
| Argraffwyd ar bapur A3 plaen | £4.35 y ddalen | S |
| 1 copi wedi ei sganio wedi ei gadw ar CD | £3.65 | S |
| 2-5 copi wedi sganio wedi eu cadw ar CD | £7.35 | S |
| 6-10 copi wedi sganio wedi eu cadw ar CD | £12.50 | S |
| **Copïau wedi sganio - Trwy'r post** | | |
| Argraffwyd ar bapur A4 plaen | £3.65 y ddalen + cost postio | S |
| Argraffwyd ar bapur A3 plaen | £4.35 y ddalen + cost postio | S |
| 1 copi digidol (ffeil math JPEG) wedi ei gadw ar CD | £3.65 + £3.05 cost postio | S |
| 2-5 copi digidol (ffeil math JPEG) wedi cadw ar CD | £7.35 + £3.05 cost postio | S |
| 6-10 copi digidol (ffeil math JPEG) wedi cadw ar CD | £12.50 + £3.05 cost postio | S |
| **Copïau digidol - dros e-bost** | | |
| 1 Ffeil math JPEG | £3.80 | S |
| 2-3 Ffeil math JPEG | £7.60 | S |
| 4-5 Ffeil math JPEG | £11.40 | S |
| **Cost postio yn defnyddio cyfraddau postio'r Deyrnas Unedig (bydd post tramor yn cael ei bwyso a'i brisio yn unol â hynny):** | | |
| hyd at 100g – ail ddosbarth | £1.10 | S |
| hyd at 200g – ail ddosbarth | £1.50 | S |
| hyd at 500g – ail ddosbarth | £1.85 | S |
| hyd at 700g – ail ddosbarth | £2.40 | S |

| | | |
|---|---|---|
| **Caniatâd ffotograffig ar gyfer defnyddio yn yr Ystafell Chwilio** | | |
| 1 diwrnod | £7.15 | S |
| 1 wythnos | £18.25 | S |
| 1 flwyddyn | £89.75 | S |
| Atgynhyrchiadau mewn llyfrau a chyfnodolion | £31.15 | S |
| **Ymchwil** | | |
| Gwasanaeth ymchwil â thâl | £31.35 yr awr | S |
| (isafswm 1 awr ac uchafswm o 2 awr ar gyfer pob cais) | | |
| **Llythyr swyddogol** | | |
| Llythyr swyddogol / llythyr ardystiad | £7.15 | S |
| **Ffilmio ar yr Eiddo** | | |
| (isafswm o 1 awr) | £58.40 yr awr | S |
| **Teledu (a TAW)** | | |
| Darllediad Cymreig / rhanbarthol - hyd at 10 mlynedd | £116.80 y ddelwedd | S |
| Darllediad Prydeinig - hyd at 10 mlynedd | £142.75 | S |
| Atgynhyrchu byd eang - hyd at 10 mlynedd | £162.25 | S |
| Defnyddio ar y we | £64.90 | S |
| Defnyddio ar y we gwasanaeth ffrydio digidol ar-lein | £206.00 y ddelwedd | S |
| **Llogi Ystafell Dewi O. Jones** | | |
| Yr Awr | £23.80 | E |
| Fesul Hanner Diwrnod: 09.30 – 13.00 | £65.90 | E |
| Fesul Hanner Diwrnod: 14.00 – 16.30 | £54.10 | E |
| Fesul Diwrnod Llawn: 09.30 – 16.30 | £102.75 | E |
| Tâl cosb ar gyfer aros tu hwnt i'r cyfnod a archebwyd | £32.95 | E |

# Adfywio Economaidd a Chymunedol

| Gwasanaeth | Ffi/Tâl | TAW |
|---|---|---|
| **Llogi Ystafell Gyfarfod Canolfan Fusnes Môn (ac eithrio TAW)** | | |
| **Llynnon** | | Yn destun TAW lle bo'n briodol h.y<br><br>N – i gleientiaid allanol<br><br>Dim TAW ar logi mewnol |
| Cost fesul awr | £25.00 | |
| Cost fesul hanner diwrnod | £55.00 | |
| Cost fesul diwrnod llawn | £95.00 | |
| **Rhosyr** | | |
| Cost fesul awr | £15.00 | |
| Cost fesul hanner diwrnod | £40.00 | |
| Cost fesul diwrnod llawn | £55.00 | |
| **Lligwy** | | |
| Cost fesul awr | £15.00 | |
| Cost fesul hanner diwrnod | £40.00 | |
| Cost fesul diwrnod llawn | £55.00 | |
| **Cybi** | | |
| Cost fesul awr | £15.00 | |
| Cost fesul hanner diwrnod | £40.00 | |
| Cost fesul diwrnod llawn | £55.00 | |
| **Parys** | | |
| Cost fesul awr | £10.00 | |
| Cost fesul hanner diwrnod | £30.00 | |
| Cost fesul diwrnod llawn | £45.00 | |
| | | |
| **Llogi offer cyfieithu** | £36.00 y sesiwn | S |
| **Llogi offer cynadledda fideo** | £51.00 y sesiwn | S |
| **Lluniaeth** | £1.30 y gwpan | S |

# Hamdden

| Gwasanaeth | Ffi/Tâl | TAW |
|---|---|---|
| **Canolfannau Hamdden** | | |
| **Canolfan Hamdden (Tâl Blynyddol)** | | |
| Plant a phobl ifanc (dan 18 oed) a rhai sydd wedi cofrestru'n anabl | £7.20 | S |
| 60+ oed | £11.30 | S |
| Oedolion (18 – 59 oed (cynhwysol)) | £20.60 | S |
| Di-waith (3+ mis) | £5.15 | S |
| Timau / grwpiau | £70.00 | S |
| Clybiau | £95.00 | S |
| Ar gyfer pob archeb **grŵp achlysurol**, codir y **gyfradd llawn**<br>**Mae'r prisiau i gyd yn Gyfraddau Llawn** (rhoddir prisiau gostyngol mewn bracedi)<br>**Mae'r holl brisiau yn seiliedig ar un archeb, fesul awr** (oni nodir fel arall)<br>Nofio = fesul ymweliad<br><br>CHDH = Canolfan Hamdden David Hughes<br>CHPA = Canolfan Hamdden Plas Arthur<br>CHA = Canolfan Hamdden Amlwch<br>CHC = Canolfan Hamdden Caergybi | | |
| **Cyffredinol** | | |
| Cawodydd | £3.10 (£2.05) | S |
| Amser Staff (30 Munud) | £13.90 | S |
| **Neuadd Chwaraeon** | | |
| Neuadd Lawn | £45.00 | S |
| Neuadd Lawn (heb gynnwys TAW) | £36.00 (£22.50) | Amh |
| Neuadd lawn - llogi masnachol (heb gynnwys TAW) e.e. Zumba | £51.50 | Amh |
| Hanner Neuadd | £25.75 | S |
| Pwll parti pwmpiadwy (CHC) | £83.45 | S |
| Parti - castell naid (CHC) | £65.90 | S |
| Parti - castell naid (CHPA) | £65.90 | S |
| Amrywiol becynnau parti (CHA) | Pris ar ofyn | S |
| Cwrt Badminton / Tenis Byr / Bowlio Mat | £8.25 (£4.65) | S |
| Cwrt badminton i grŵp | £12.90 | S |
| Cwrt i grŵp (heb gynnwys TAW) | £10.30 | Amh |
| Cwrt sboncen | £8.25 (£4.65) | S |
| Cwrt sboncen i grŵp | £12.90 | S |
| Cwrt sboncen i grŵp (heb gynnwys TAW) | £10.30 | Amh |
| Tenis bwrdd (fesul bwrdd) | £8.25 (£4.65) | S |
| **Defnydd ysgolion – heb hyfforddwyr (30 munud)** | | |
| Neuadd lawn | £18.00 | E |
| Hanner neuadd | £13.40 | E |
| Hyfforddwyr ar gyfer yr uchod | £13.90 | E |
| **Llogi Ystafelloedd** | | |
| Ystafell Weithgareddau | £15.45 | S |
| Ystafell Gyfarfod | £12.90 | E |
| Archeb 4 awr olynol | £39.15 | E |
| Diwrnod llawn | £78.30 | E |
| **Ystafell ffitrwydd / ystafell codi pwysau** | | |
| Ymsefydlu | £12.35 (£8.75) | E |

| | | |
|---|---|---|
| **Defnydd Unigol:** | | |
| 16+ | £4.95 (£3.90) | S |
| Tocyn Wythnosol - Campfa a Nofio | £11.30 (£8.25) | S |
| Tocyn Misol - Campfa a Nofio | £32.95 (£24.70) | S |
| Tocyn Wythnosol (CHDH) - Campfa yn unig | £10.30 (£7.75) | S |
| Hyfforddiant Ffitrwydd Ieuenctid 14-16 oed - gyda hyfforddwr yn bresennol | £2.70 | E |
| **Debyd Uniongyrchol - Pob Canolfan Hamdden** | | |
| Pecyn Llawn | £28.00 | S |
| Pecyn Oriau Tawel | £18.00 | S |
| Pecyn Nofio | £15.00 | S |
| Pob categori (Misol) | £22.00 | S |
| Pob categori (12 Mis) | £220.00 | S |
| Tâl gweinyddol na ellir ei ad-dalu am godi bil | £5.65 | S |
| **Ymarfer trwy Wahoddiad** | | |
| Ddim yn acíwt | £2.00 | E |
| Adferiad cardiaidd | £2.00 | E |
| Ffit am Oes | £2.50 | E |
| **Sesiynau a Chyrsiau - Ochr Sych** | | |
| Sesiwn Ffitrwydd (1 awr) | £4.60 (£3.60) | Amh |
| Sesiwn Ffitrwydd (2 awr) | £5.70 | Amh |
| Gweithgareddau i Blant | £3.10 | Amh |
| Meithrinfa | £2.05 | S |
| **Nofio** | | |
| Nofio cyhoeddus (fesul sesiwn) | £4.10 (£2.40) | S |
| Tocyn wythnosol (Llun-Sul) | £8.75 (£5.15) | S |
| Teulu - tocyn nofio dyddiol | £10.30 | S |
| Teulu - tocyn nofio wythnosol | £20.60 | S |
| Gwersi (30 munud) | £5.45 (£4.20) | Amh |
| Gwersi preifat un i un (30 munud) | £21.65 (£17.50) | Amh |
| Defnydd Clwb Nofio Ynys Môn | £28.85 | Amh |
| Clwb Nofio Ynys Môn - Llogi Lôn (heb gynnwys TAW) | £9.30 | Amh |
| Defnydd Neilltuedig o'r prif bwll | £72.10 | S |
| Defnydd Neilltuedig o'r prif bwll (heb gynnwys) | £57.70 | Amh |
| Defnydd Neilltuedig o'r pwll bach | £36.05 | S |
| Defnydd Neilltuedig o'r pwll bach (heb gynnwys) | £28.85 | Amh |
| Llogi lôn | £15.45 | S |
| **Nofio - defnydd ysgolion - 1 hyfforddwr fesul dosbarth wedi ei gynnwys (30 munud)** | | |
| Dosbarth hyd at 14 o blant (angen 1 hyfforddwr) | £32.45 | E |
| 15 - 29 o blant (angen 2 hyfforddwr) | £34.50 | E |
| Dros 30 o blant (angen 3 hyfforddwr) | £38.10 | E |
| Hyfforddwr atodol | £13.90 | E |
| **Cyfleusterau Awyr Agored** | | |
| Hanner cae synthetig (CHPA) | £36.05 (£25.75) | S |
| Hanner cae (CHPA) (heb gynnwys TAW) | £28.85 (£20.60) | Amh |
| Cae synthetig llawn (CHPA) | £49.45 (£37.10) | S |
| Cae synthetig llawn (CHPA) (heb gynnwys TAW) | £39.55 (£29.65) | Amh |
| Ffi Gêm (CHPA) | £49.45 (£30.40) | S |
| Cyrtiau Allanol (CHA / Ysgol David Hughes) | £27.80 (£19.25) | S |
| Cyrtiau Allanol (CHA / Ysgol David Hughes) (heb gynnwys TAW) | £22.25 (£15.65) | Amh |
| Tenis - cost y pen | £4.65 (£2.60) | S |
| Cwrt tenis - defnydd ysgolion | £6.20 | E |
| **Llogi Offer** | | |
| Pêl / Raced | £2.05 | S |
| Caiac - yr un | £4.65 | S |

# Morwrol

| Gwasanaeth | Ffi/Tâl | TAW |
|---|---|---|
| **Pier St. George – Porthaethwy** | | |
| Angori yn y pier | Aliniad gyda ffioedd Awdurdodau cyfagos | S |
| Cyflenwad dŵr croyw - llongau dros 15 tunnell | £7.50 y dunnell o ddŵr | S |
| Byrddio a glanio teithwyr sy'n talu | £480.00 y flwyddyn | S |
| Trwydded Parcio Car (Blynyddol) | £60.00 | S |
| **Pier Biwmares** | | |
| Angori yn y pier | Aliniad gyda ffioedd Awdurdodau cyfagos | S |
| Codi a glanio teithwyr sy'n talu | £480.00 y flwyddyn | S |
| **Ffioedd Trwydded Angorfa** | | |
| Traeth Coch a Cymyran – cyson | £0.60 (fesul metr x ardal) | S |
| Biwmares, Porthaethwy a Bae Llanfaes – cyson | £0.95 (fesul metr x ardal) | S |
| Ffi Rhestr Aros | Aliniad gyda ffioedd Awdurdodau cyfagos | S |
| **Harbwr Allanol Amlwch** | | |
| Angori – iotiau a chychod hamdden yn ymweld | Aliniad gyda ffioedd Awdurdodau cyfagos | S |
| Ffioedd trwydded angori (pob cwch ac eithrio pysgota masnachol) | £42.20 y metr, y flwyddyn | S |
| Ffioedd trwydded angori pysgota masnachol | £84.45 y metr, y flwyddyn | S |
| Cyflenwad dŵr croyw - llongau dros 15 tunnell | £7.50 y dunnell o ddŵr | S |
| Cyflenwad dŵr croyw – tancer neu bowser | £43.25 | S |
| Ffi codi (pob llong) | £6.20 y metr | S |
| Storio cwch ar y lan - ffaldau allanol: < 21 o ddyddiau | Dim tâl | Amh |
| Storio cwch ar y lan - ffaldau allanol: > 21 o ddyddiau | £9.05 y metr yr wythnos | S |
| Storio cwch ar y lan - ffaldau allanol: > 21 o ddyddiau | £4.40 y metr y dydd | S |
| Ffi gwarchodaeth / harbwr - pob cwch | £54.60 | Z |
| **Harbwr Mewnol Amlwch** | | |
| Ffioedd trwydded angori pob cwch ac eithrio pysgota masnachol | £42.20 y metr y flwyddyn | S |
| Ffioedd trwydded angori pysgota masnachol | £84.45 y metr y flwyddyn | S |
| Llongau heb drwydded - iotiau a chychod hamdden yn ymweld | Aliniad gyda ffioedd Awdurdodau cyfagos | S |
| Llongau heb drwydded - ffi gwarchodaeth / harbwr - pob llong | £54.60 | Z |
| Ffi Rhestr Aros | Aliniad gyda ffioedd Awdurdodau cyfagos | S |
| **Cofrestru pob cwch pŵer (fan 10hp, dim ffi lansio)** | | |
| **Cofrestru Blynyddol** | | |
| Drwy'r post neu yn Llangefni | Ffî cyson y cytunwyd rhwng y 4 Awdurdod Lleol Gogledd Cymru | O/S |
| Ar y lanfa | | O/S |
| Ar lanfeydd preifat mewn partneriaeth (75% Cyngor / 25% gwerthwr) | | O/S |
| **Ffioedd lansio** | | |
| Tâl dyddiol | Aliniad gyda ffioedd Awdurdodau cyfagos | S |
| Trwydded flynyddol | | S |
| Trwydded flynyddol - wedi ei leihau ar gyfer tystysgrif cychod pŵer | | S |
| Cwmnïau yn lansio i arddangos neu brofi (cytundeb ysgrifenedig) | | S |

| | | |
|---|---|---|
| **Masnachol** | | |
| Lansio cerbyd masnachol | £92.70 | S |
| 50 lansiad cyntaf | £173.05 | S |
| Pob 50 wedi hynny | £227.10 | S |
| Cychod diogelwch ar gyfer digwyddiadau | Dim tâl (dal angen cais) | Amh |
| Cychod masnachol (profi ac arddangos) | £80.00 | S |
| **Amrywiol** | | |
| **Defnyddio'r blaendraeth ar gyfer Criwiau Ffilmio/Digwyddiadau ac ati** | | |
| Hanner diwrnod | £420.25 | S |
| Diwrnod llawn | £741.60 | S |
| Sefydliadau elusennol yn defnyddio'r blaendraeth | Yn ôl doethineb staff y Swyddogaeth Forol | S |

# Priffyrdd

| Gwasanaeth | Ffi/Tâl | TAW |
|---|---|---|
| **Gorchmynion Arallgyfeirio a Diddymu Llwybrau** | | |
| Cyngor cychwynnol ac ymweliad safle (hyd at ddwy awr) | Dim tâl | Amh |
| Tynnu cais yn ôl neu ei wrthod wedi ystyriaeth gan swyddogion | £217.00 | O/S |
| Gwneud gorchymyn, ond ei dynnu'n ôl wedi ei hysbysebu | £758.00 | O/S |
| Gorchymyn sy'n cael ei gadarnhau gan yr awdurdod heb wrthwynebiad | £1,244.00 | O/S |
| Os ceir gwrthwynebiad i'r gorchymyn ond ei fod yn cael ei dynnu'n ôl. | £1,352.00 | O/S |
| Os derbynnir gwrthwynebiadau a ategir a bod y gorchymyn yn cael ei gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol | £2,326.50 | O/S |
| Ceisiadau lluosog – os yw'r cais yn cynnwys arallgyfeirio mwy nag un llwybr, y ffi ar gyfer pob llwybr atodol a gynhwysir yn yr un gorchymyn | £325.00 | O/S |
| **Gorchmynion Arallgyfeirio a Chau Llwybrau Dros Dro** | | |
| Argyfwng hyd at 21 diwrnod | £217.00 | O/S |
| Gwaith tymor byr hyd at 5 niwrnod (angen 2 wythnos o rybudd) | £217.00 | O/S |
| Gwaith tymor hirach hyd at 6 mis (angen 6 wythnos o rybudd a 2 hysbyseb) | £1,298.00 | O/S |
| Estyniad ar orchymyn 6 mis (cais i Lywodraeth Cymru) (6 wythnos o rybudd ac 1 hysbyseb) | £866.00 | O/S |
| **Gwaith Stryd** | | |
| Cofrestriad cwmni sgipiau | £310.00 | O/S |
| Trwydded sgip | £32.00 | O/S |
| Cofrestriad cwmni sgaffaldau | £320.00 | O/S |
| Trwydded sgaffald | £40.00 | O/S |
| Adran 171 (deunyddiau ar y briffordd) | £250.00 | O/S |
| Adran 50 presennol (offer ar y briffordd) | £250.00 | O/S |
| Adran 50 newydd | £350.00 | O/S |
| Cau ffordd | £2,400.00 | O/S |
| **Digwyddiadau ar y Briffordd** | | |
| Gorchmynion Rheoleiddio Traffig ar gyfer yr Anabl | Cost wirioneddol | O/S |
| Marciau Amddiffyn Mynediad | £90.00 | O/S |
| Goddefeb Parcio | £15.00 | O/S |
| **Ffioedd Gorchymyn Gwaharddiad Dros Dro** | | |
| Gorchymyn gwahardd cerbydau ar gyfer digwyddiad (cau lôn, tua 6 digwyddiad y flwyddyn) | £600.00 | Amh |
| Gorchymyn diwygio traffic ar gyfer digwyddiad (aros cyfyngedig, un ffordd, a.y.y.b., tua 6 digwyddiad y flwyddyn) | £500.00 | Amh |
| Arwydd Twristiaeth | £60.00 | O/S |
| **Ceisiadau Chwilio (heb gynnwys TAW)** | | |
| Chwiliad sylfaenol mewn un lleoliad | £62.40 | S |
| Chwiliad sylfaenol mewn hyd at 5 lleoliad | £126.00 | S |
| Chwiliadau Tref Manylach | £247.20 | S |
| Chwiliadau Ardal Manylach | £510.00 | S |
| Cais ar gyfer datblygiadau mawr | £62.40 yr awr | S |

| Meysydd Parcio | | |
|---|---|---|
| **Ceir** | | |
| 30 munud | £0.50 | S |
| 1 awr | £1.00 | S |
| 2 awr | £1.50 | S |
| 4 awr | £2.00 | S |
| Hyd at 12 awr | £3.00 | S |
| **Bysus** | | |
| 4 awr | £4.00 | S |
| 12 awr | £6.00 | S |
| **Tymhorol** | | |
| 4 awr | £3.50 | S |
| 12 awr | £4.50 | S |
| Trelar | £6.00 | S |
| **Tymhorol - Fron Towyn** | | |
| 1 awr | £1.00 | S |
| 4 awr | £3.50 | S |
| 12 awr | £4.50 | S |
| Trelar | £6.00 | S |
| **Tymhorol - Rhoscolyn** | | |
| 2 awr | £2.00 | S |
| 4 awr | £3.50 | S |
| 12 awr | £4.50 | S |
| Trelar | £6.00 | S |
| **Parcio a Rhannu Llanfairpwll** | | |
| 1 diwrnod | £0.20 | S |
| 2 - 7 diwrnod | £2.00 y dydd | S |
| **Tocyn Tymor Parcio** | | |
| 12 mis | £150.00 | S |
| 6 mis | £100.00 | S |

# Rheoli Gwastraff

| Gwasanaeth | Ffi/Tâl | TAW |
|---|---|---|
| Bin olwynion du newydd neu amnewid ar gyfer gwastraff gweddilliol (tâl danfon a gweinyddu yn unig, nid gwerthu biniau olwynion du) | £31.00 | S |
| Casglu gwastraff swmpus 'A' (hyd at 4 eitem fesul casgliad) | £27.00 | O/S |
| Casglu gwastraff swmpus 'B' (hyd at ½ tunnell y llwyth) | £87.00 | O/S |
| Casglu gwastraff swmpus 'B' (hyd at 1½ tunnell y llwyth) | £227.00 | O/S |
| Gwerthu allwedd radar | £6.20 | E |
| Gwerthu biniau compost (prynu, danfon a gweinyddu) | £33.00 | S |
| Taliadau casglu/gwaredu sbwriel masnach | Gwir gyfradd gyfredol a godir gan gontractwr casglu gwastraff y Cyngor a thâl gweinyddol o 20% | S |
| **Holl Ffioedd Eraill** | | |
| **e**.e.:<br>• Gadael troli siopa a bagiau<br>• Cael gwared ar fagiau sbwriel<br>• Llogi biniau olwynion ar gyfer digwyddiadau a drefnwyd<br>• Cyfleusterau cyhoeddus - agor atodol | Costau atodol sy'n codi a thâl gweinyddol 20% | Amrywiol |

# Gwarchod y Cyhoedd

| Gwasanaeth | Ffi/Tâl | TAW |
|---|---|---|
| **Trwyddedau / Caniatâd / Cofrestriadau Iechyd Amgylcheddol** | | |
| **Rheoleiddio / Lles Anifeiliaid** | | |
| Sefydliadau marchogaeth | £135.20<br>plws<br>ffioedd milfeddyg | E<br><br>S |
| Sefydliadau bridio cŵn | £167.60<br>plws<br>ffioedd milfeddyg | E<br><br>S |
| Lletya anifeiliaid<br>sefydliadau | £167.60<br>plws<br>ffioedd milfeddyg | E<br><br>S |
| Anifeiliaid yn perfformio | £210.90 | E |
| Siopau anifeiliaid anwes | £167.60<br>plws<br>ffioedd milfeddyg | E<br><br>S |
| Trwydded sw | £313.65<br>plws<br>ffioedd milfeddyg | E<br><br>S |
| Anifeiliaid gwyllt peryglus | £475.85<br>plws<br>ffioedd milfeddyg | E<br><br>S |
| Rheoli cŵn | Tâl Statudol: £25<br>plws<br>Ffi Casglu: £62.50 | I'w Gadarnhau<br><br>N |
| Rheoli cŵn | Tâl Statudol: £25<br>plws<br>Ffi Casglu o Cenel Mona:<br>£40.00 | I'w Gadarnhau<br><br>N |
| Cofrestru ci - tab cofrestru plastig | Dim tâl | - |
| Cofrestru ci - tab cofrestru metel | £5.50 | E |
| Ffî cosb di-microsglodyn | £50.00 | I'w Gadarnhau |
| **Tacsis** | | |
| Trwydded gweithredwr (trwydded 5 mlynedd) | £489.50 | O/S |
| Trwydded cerbyd (newydd ac adnewyddu) | £209.00 | O/S |
| Trwydded gyrrwr (trwydded 3 mlynedd) (***heb gynnwys*** costau gwiriadau DVLA) | £311.00 | O/S |
| Ffi trosglwyddo | £44.50 | O/S |
| Ffi prawf | £54.00 | O/S |
| Ffi ail brawf | £54.00 | O/S |
| Ffî ail brawf o fewn 24 awr (mân ddiffygion) | £27.00 | O/S |
| Platiau trwydded cerbyd (newydd) | £65.00 | O/S |
| Platiau adnewyddu | £42.50 | O/S |
| Amnewid platiau | £27.00 | O/S |
| Amnewid braced platiau | £27.00 | O/S |
| Bathodyn gyrrwr newydd | £19.50 | O/S |
| Ffî ail-eistedd gwybodaeth | £25.00 | O/S |
| **Ffioedd Cofrestriad Sifil** | | |
| Trefnu priodas a phartneriaeth sifil<br>Ffi - Swyddfa Gofrestru | £46.00 | O/S |
| Trefnu priodas a partneriaeth sifil<br>Ffi - Eiddo Cymeradwy | £100.00 | O/S |
| Ffî archebu o flaen llaw, 12 – 24 mis, nad ydynt yn ad-daladwy | £60.00 | O/S |
| Seremonïau Neuadd y Dref – Caergybi | £230.00 | O/S |

| | | |
|---|---|---|
| **Seremonïau Ystafell Cefni – Llangefni:** | | |
| Yn yr wythnos | £190.00 | O/S |
| Dydd Sadwrn | £225.00 | O/S |
| Dydd Sul/Gŵyl y Banc | £335.00 | O/S |
| **Seremonïau Ystafell Môn – Llangefni:** | | |
| Yn yr wythnos | £120.00 | O/S |
| Dydd Sadwrn | £150.00 | O/S |
| Gŵyl y Banc | £260.00 | O/S |
| **Priodas mewn gwesty:** | | |
| Yn yr wythnos | £375.00 | O/S |
| Dydd Sadwrn | £395.00 | O/S |
| Dydd Sul/Gŵyl y Banc | £490.00 | O/S |
| **Ystafell Cefni ac eiddo cymeradwy - agor estynedig:** | | |
| Yn ystod yr wythnos 6-8pm | £133.90 | O/S |
| Yn ystod yr wythnos 8-12pm | £257.50 | O/S |
| Dydd Sadwrn 6-8pm | £185.40 | O/S |
| Dydd Sadwrn 8-12pm | £309.00 | O/S |
| Dydd Sul/Gŵyl y Banc 6-8pm | £257.50 | O/S |
| Dydd Sul/Gŵyl y Banc 8-12pm | £370.80 | O/S |
| Trwyddedu eiddo ar gyfer seremonïau sifil | £1,440.00 | O/S |
| Ystafell atodol mewn eiddo cymeradwy | £206.00 | O/S |
| Ymarfer priodas | £56.65 | O/S |
| Ffi weinyddol – newid enw ac ati | £51.50 | O/S |
| **Seremoni enwi baban:** | | |
| Yn yr wythnos | £221.45 | O/S |
| Penwythnos/Gŵyl y Banc | £272.95 | O/S |
| **Adnewyddu addunedau:** | | |
| Yn yr wythnos | £221.45 | O/S |
| Penwythnos/Gŵyl y Banc | £272.95 | O/S |
| Chwiliad hanesyddol o 3 mlynedd at bob ochr i ddyddiad penodol | £32.45 | O/S |
| **Gwasanaeth blaenoriaeth (yr un diwrnod) ar gyfer tystysgrifau (tâl ychwanegol):** | | |
| Wedi casglu | £10.00 | O/S |
| Postiwyd | £13.00 | O/S |
| **Cyhoeddi tystysgrifau o fewn 24 awr (tâl ychwanegol):** | | |
| Wedi casglu | £5.00 | O/S |
| Postiwyd | £8.00 | O/S |
| Safonol 3-5 niwrnod gwaith | £3.00 | O/S |
| Ardystio dogfennau | £3.00 y copi | O/S |
| Seremonïau dinasyddiaeth – gwasanaeth blaenoriaeth (tâl ychwanegol) | £110.00 | O/S |
| Cyfleoedd i dynnu lluniau yn Ystafell Môn | £10.00 | O/S |
| **Amrywiol** | | |
| **Caniatâd Masnachwyr Stryd** | | |
| **Manwerthu ac arlwyo:** | | |
| Diwrnod | £54.00 | O/S |
| Wythnos | £162.00 | O/S |
| Mis | £243.00 | O/S |
| 3 mis tymhorol | £703.00 | O/S |
| 6 mis tymhorol | £1,298.00 | O/S |
| Blynyddol | £1,945.00 | O/S |
| Unedau symudol | £1,081.50 blynyddol | O/S |

| | | |
|---|---|---|
| **Hyrwyddiad:** | | |
| Diwrnod | £32.50 | O/S |
| Wythnos | £81.00 | O/S |
| Mis | £162.20 | O/S |
| Tatŵo / colur lled barhaol | £123.60 fesul eiddo plws £61.80 fesul ymarferwr | O/S |
| Tyllu clustiau / cosmetig | £123.60 fesul eiddo plws £61.80 fesul ymarferwr | O/S |
| Aciwbigo | £123.60 fesul eiddo plws £61.80 fesul ymarferwr | O/S |
| Electrolysis | £123.60 fesul eiddo plws £61.80 fesul ymarferwr | O/S |
| Siop rhyw / sinema rhyw | £973.35 (yn cynnwys costau gwrandawiad posibl) | O/S |
| Deddf Iechyd 2006 – troseddau ysmygu | Dirwyon statudol | O/S |
| **Mae ffioedd ar gyfer loterïau bach, peiriannau gamblo a thrwyddedau ar gyfer gemau gyda gwobrau wedi eu gosod gan lywodraeth ganolog** | | |
| Chwiliadau ac ymholiadau trwyddedu | £99.75 yr awr | S |
| Cofrestru neu adnewyddu cofrestriad fel gweithredwr achub moduron (cofrestriad 3 mlynedd) | £135.20 | O/S |
| Copi wedi ei ardystio o un cofnod mewn cofrestr gweithredwyr achub moduron | £21.60 | O/S |
| Copïau heb eu hardystio o gofnod mewn cofrestr gweithredwyr achub moduron | Gall fod taliadau llungopïo corfforaethol | O/S |
| **Cyngor cyn trwyddedu:** | | |
| Tâl Isafswm | £99.75 | S |
| Codir tâl am bob awr neu ran o hynny ar gyfradd safonol fesul awr fesul swyddog | £99.75 | S |
| **Deddf Gamblo 2005** | | |
| **Casino Rhanbarthol** | | |
| Ffi flynyddol | Wedi eu gosod gan y Llywodraeth Ganolog | O/S |
| Cais i drosglwyddo | | O/S |
| Cais i adfer | | O/S |
| Cais am ddatganiad amodol | | O/S |
| Cais am drwydded (Deiliaid Datganiad Amodol) | | O/S |
| **Casino Mawr** | | |
| Ffi flynyddol | Wedi eu gosod gan y Llywodraeth Ganolog | O/S |
| Cais i drosglwyddo | | O/S |
| Cais i adfer | | O/S |
| Cais am ddatganiad amodol | | O/S |
| Cais am drwydded (Deiliaid Datganiad Amodol) | | O/S |
| **Casino Bach** | | |
| Ffi flynyddol | Wedi eu gosod gan y Llywodraeth Ganolog | O/S |
| Cais i drosglwyddo | | O/S |
| Cais i adfer | | O/S |
| Cais am ddatganiad amodol | | O/S |
| Cais am drwydded (Deiliaid Datganiad Amodol) | | O/S |

| | | |
|---|---|---|
| **Eiddo Casino wedi ei Drosi** | | |
| Ffi flynyddol | Wedi eu gosod gan y Llywodraeth Ganolog | O/S |
| Cais i drosglwyddo | | O/S |
| Cais i adfer | | O/S |
| **Bingo** | | |
| Ffi flynyddol | Wedi eu gosod gan y Llywodraeth Ganolog | O/S |
| Cais i drosglwyddo | | O/S |
| Cais i adfer | | O/S |
| Cais am ddatganiad amodol | | O/S |
| Cais am drwydded (Deiliaid Datganiad Amodol) | | O/S |
| Cais amrywiad | | O/S |
| **Canolfan Hapchwarae Oedolion** | | |
| Ffi flynyddol | Wedi eu gosod gan y Llywodraeth Ganolog | O/S |
| Cais i drosglwyddo | | O/S |
| Cais i adfer | | O/S |
| Cais am ddatganiad amodol | | O/S |
| Cais am drwydded (Deiliaid Datganiad Amodol) | | O/S |
| Cais amrywiad | | O/S |
| **Betio (Trac)** | | |
| Ffi flynyddol | Wedi eu gosod gan y Llywodraeth Ganolog | O/S |
| Cais i drosglwyddo | | O/S |
| Cais i adfer | | O/S |
| Cais am ddatganiad amodol | | O/S |
| Cais am drwydded (Deiliaid Datganiad Amodol) | | O/S |
| Cais amrywiad | | O/S |
| **Adloniant Teuluol** | | |
| Ffi flynyddol | Wedi eu gosod gan y Llywodraeth Ganolog | O/S |
| Cais i drosglwyddo | | O/S |
| Cais i adfer | | O/S |
| Cais am ddatganiad amodol | | O/S |
| Cais am drwydded (Deiliaid Datganiad Amodol) | | O/S |
| Cais amrywiad | | O/S |
| **Betio (arall)** | | |
| Ffi flynyddol | Wedi eu gosod gan y Llywodraeth Ganolog | O/S |
| Cais i drosglwyddo | | O/S |
| Cais i adfer | | O/S |
| Cais am ddatganiad amodol | | O/S |
| Cais am drwydded (Deiliaid Datganiad Amodol) | | O/S |
| Cais amrywiad | | O/S |
| **Triniaeth Rheoli Plâu** | | |
| Rheoli plâu masnachol (dibynnol ar faint yr eiddo) | £81.10 yr ymweliad | S |
| Contractau trin rheoli plâu masnachol (Cyfanswm cost yn amrywiol, yn ddibynnol ar faint yr eiddo, amlder ymweliadau y flwyddyn ac ati) | £59.50 yr awr a chost deunyddiau. | S |
| **Rheoli plâu domestig – llygod mawr a llygod** | | |
| Ymateb 24 awr | £50.00 | S |
| Ymateb 5 niwrnod | £35.00 | S |
| **Rheoli plâu domestig triniaethau (heblaw llygod)** | | |
| Chwilod duon | £87.55 | S |
| Chwilod gwely (yn amodol ar arolwg) | £175.10 | S |
| Cacwn, gwenyn, morgrug, arall – ymateb 24 awr | £65.95 | S |
| Cacwn, gwenyn, morgrug, arall – ymateb 5 niwrnod | £51.50 | S |
| **Mygdarthiad** | | |
| Hyd at 3 ystafell wely | £56.65 | S |
| 4 ystafell wly neu fwy | £72.10 | S |

| **Taliadau Iechyd Amgylcheddol Eraill** | | |
|---|---|---|
| Dirwyon cosb sefydlog - baw ci | £75.00 (within 14 days of offence) £50 (within first 10 days of 14 day window) | O/S |
| Trosedd sŵn gyda'r nos | Dirwyon statudol | O/S |
| System raddio hylendid bwyd cenedlaethol – ailraddio | Dirwyon statudol | O/S |
| System raddio hylendid bwyd cenedlaethol – cosb sefydlog methiant i arddangos graddiad | Dirwyon statudol | O/S |
| Tystysgrifau ar gyfer bwyd a ddifrodwyd | £85.00 y dystysgrif | O/S |
| Copïau o'r Gofrestr Eiddo Bwyd | £5.00 | O/S |
| Archwiliadau mewnfudo | £214.15 | S |
| Tai Amlbreswyliaeth | £505.00 | S |
| Tai Amlbreswyliaeth<br>Cynllun Trwyddedu Atodol | £505.00 | S |
| Ffioedd ar gyfer cyhoeddi Hysbysiadau Gorfodi fel y dynodwyd dan Adran 49 Deddf Tai 2004 | £257.00 | O/S |
| Cais am Archwiliad Tai HHSRS – masnachol | £214.15 | S |
| Cydsyniad i ddefnyddio uchelseinyddion yn y strydoedd | £91.90<br>plws<br>cost hysbysebu | O/S |
| Ceir a adawyd | Ffioedd a ragnodwyd | O/S |
| Ceisiadau am awdurdodiadau EPA | Dirwyon statudol | O/S |
| Copïau o'r Gofrestr Awdurdodiadau | £5.00 | O/S |
| Ymholiad tir wedi'i halogi<br><br>Ffî fesul awr chwilio ac ymholi yn berthnasol i amser ychwanegol | £227.10<br>+<br>Ffî yr awr | S<br><br>TBC |
| **Y Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2010. Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r ffioedd y gall awdurdodau lleol eu codi am reoleiddio cyflenwadau dŵr preifat:** | | |
| Asesiad risg | I'w Gadarnhau | O/S |
| Samplu cyflenwadau bach | I'w Gadarnhau | O/S |
| Samplu cyflenwadau mawr | I'w Gadarnhau | O/S |
| Ymchwiliad | I'w Gadarnhau | O/S |
| Caniatâd | I'w Gadarnhau | O/S |
| Cymerwyd dan Reoliad 10 | I'w Gadarnhau | O/S |
| Cymerwyd yn ystod monitro gwiriad | I'w Gadarnhau | O/S |
| Cymerwyd yn ystod monitro archwiliad | I'w Gadarnhau | O/S |
| Samplu cyflenwadau dŵr yfed (e.e. iechyd porthladd, llongau ac ati) | I'w Gadarnhau | S |
| Ymholiad cyflenwadau dŵr preifat | I'w Gadarnhau | S |
| Tystysgrifau Iechyd Allforio | £30.00 | S |
| Tystysgrifau Iechyd Allforio - cais yr un diwrnod | £45.00 | S |
| Tystysgrifau Iechyd Allforio Eraill - (uchafswm o 5 fesul cais) | £30.00 | S |
| Tystysgrifau Iechyd Allforio Eraill - cais yr un diwrnod (uchafswm o 5 fesul cais) | £45.00 | S |
| Tystysgrif allforio maint A4 angen mewnbynnu data | £9.50 | S |
| Tystysgrif allforio maint A3 angen mewnbynnu data | £11.00 | S |
| Copi o dystysgrif allforio Tseiniaidd | £9.50 | S |
| Newidiadau i dystysgrif allforio Tseiniaidd unwaith darparwyd copi ardystiedig | £9.50 | S |
| Tystysgrif Glanweithdra Llong | I'w Gadarnhau (Gosodir yn genedlaethol gan Gymdeithas Awdurdodau'r Porthladdoedd) | O/S |

| Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 | | |
|---|---|---|
| Carfan Unigol | I'w Gadarnhau | E |
| Safle bach (2 – 10 uned) | I'w Gadarnhau | E |
| Safle canolig (11 – 50 uned) | I'w Gadarnhau | E |
| Safle mawr (51+ uned) | I'w Gadarnhau | E |
| Amrywio amodau | I'w Gadarnhau | E |
| Rheolau llety | I'w Gadarnhau | E |
| Trwydded amnewid | I'w Gadarnhau | E |
| **Marchnadoedd a Ffeiriau** | | |
| **Amlwch a Chaergybi - Cyfnod 1 (Ebrill 2017 i Fedi 2018 yn gynhwysol)** | | |
| Masnachwyr (taliad isaf o £20.00 ac uchafswm o £40.00) | Symudwyd Marchnad Caergybi i'r Grŵp Menter yn 2016/17 a bydd Amlwch yn symud i'r Grŵp Menter cyn diwedd y flwyddyn, felly, dim marchandoedd yng Nghaergybi na Amlwch ar gyfer 2017/18 | O/S |
| **Amlwch a Chaergybi - Cyfnod 2 (Hydref 2017 i Fawrth 2018 yn gynhwysol)** | | |
| Masnachwyr (taliad isaf o £15.00 ac uchafswm o £24.70) | Symudwyd Marchnad Caergybi i'r Grŵp Menter yn 2016/17 a bydd Amlwch yn symud i'r Grŵp Menter cyn diwedd y flwyddyn, felly, dim marchandoedd yng Nghaergybi na Amlwch ar gyfer 2017/18 | O/S |
| **Ffair Borth** | | |
| Parth A – Ffordd y Bont a Ffordd y Ffair (hyd at 2 fetr) | £15.00 y metr (tâl isafswm o £40.00) | O/S |
| Parth A – Ffordd y Bont a Ffordd y Ffair (dros 2 fetr) | Ffi uchod plws £1.50 ar gyfer pob 0.1 metr ychwanegol | O/S |
| Parth B – Ffordd Telford (hyd at 2 fetr) | £12.50 y metr (tâl isafswm o £40.00) | O/S |
| Parth B – Ffordd Telford (dros 2 fetr) | £1.25 ar gyfer pob 0.1 metr ychwanegol | O/S |
| Parth C – Stryd y Paced (hyd at 2 fetr) | £10.00 y metr (tâl isafswm o £40.00) | O/S |
| Parth C – Stryd y Paced (dros 2 fetr) | £1.00 ar gyfer pob 0.1 metr ychwanegol | O/S |
| **Marchnad Ffermwyr Môn** | Nid yw'n cael ei redeg gan yr Awdurdod bellach, yn codi ffî trwydded o Orffennaf 2017 ymlaen. | O/S |

| Mesureg | | |
|---|---|---|
| **Offer Pwyso a Mesur Arbennig**<br><br>Archwilio, addasu, profi, ardystio, stampio, awdurdodi neu adrodd am offer pwyso neu fesur arbennig<br><br>Mae'r mathau o offer a eithriwyd yn benodol o'r tablau yn cynnwys:<br>• Peiriannau pwyso awtomatig neu gyfansymio.<br>• Offer a gynlluniwyd i bwyso llwythau wrth symud.<br>• Offer mesur tanwydd swmp a brofwyd yn dilyn digwyddiad Rheoliad 65 neu 66.<br>• Pwyso neu fesur offer a brofwyd trwy samplu ystadegol.<br>• Sefydlu cromliniau calibradu ar gyfer templedi<br>• Templedi a raddolwyd mewn milimedrau<br>• Profion neu wasanaethau eraill yn unol â rhwymedigaeth gymunedol ar wahân i gwiriad EC cychwynnol neu rannol.<br>• Ardystio offer pwyso neu fesur ble mae angen datganiad o wall gwirioneddol. | £99.75 fesul swyddog fesul awr<br><br>(Cyfrifir yn unigol gan awdurdod lleol yn seiliedig ar y ffigwr uchod yn y fan ble darperir y gwasanaeth) | O/S |
| **Offerynnau Pwyso** | | |
| Yn ddim mwy nag 1 tunnell | £146.00 | O/S |
| Dros 1 tunnell hyd at 10 tunnell | £237.90 | O/S |
| Mwy na 10 tunnell | £529.50 | O/S os ddim gwasanaeth trydydd parti arall ar gael, S os ddim. |
| Taliad i gynnwys unrhyw gostau atodol sy'n gysylltiedig â phrofi offer gyda sgrin arddangos ar wahân neu gyfleusterau argraffu allai fod yn seiliedig ar y ffi sylfaenol o ystyried yr uchod a chostau atodol ar gyfradd o £99.75 ar gyfer pob swyddog ychwanegol yr awr. Wrth gyflenwi offer arbenigol (yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, uned brofi pont bwyso, fan a phwysau prawf), gellir codi ffi atodol fesul awr, dydd neu fesul apwyntiad, yn ddibynnol ar yr amgylchiadau. | | |

| | | |
|---|---|---|
| **Offer mesur ar gyfer Tanwydd Hylif ac Ireidiau** | | |
| **Allbynnau sengl / lluosog (ffroenellau):** | | |
| **(a)** Profi'r ffroenell gyntaf | £99.75 fesul swyddog yr awr | O/S os ddim gwasanaeth trydydd parti arall ar gael, S os ddim. |
| **(b)** Pob ffroenell atodol a brofir | £99.75 fesul swyddog yr awr | O/S os ddim gwasanaeth trydydd parti arall ar gael, S os ddim. |
| Gallai taliad i gynnwys unrhyw gostau atodol sy'n gysylltiedig â phrofi offer atodol sydd angen profion atodol ar y safle, fel derbynwyr cerdyn credyd fod yn seiliedig ar y ffi sylfaenol o ystyried yr uchod a chostau atodol ar gyfradd o £99.75 ar gyfer pob swyddog ychwanegol yr awr. | | |
| **Tystysgrifau Calibradu** | | |
| Darparu Tystysgrif Calibradu | £54.10 | O/S os ddim gwasanaeth trydydd parti arall ar gael, S os ddim. |
| **Cofrestru Gwenwynau** | | |
| Cofrestriad Cychwynnol | Ffioedd statudol | I'w Gadarnhau |
| Cyn Ailgofrestru | Ffioedd statudol | I'w Gadarnhau |
| Newid ym manylion y cofrestriad | Ffioedd statudol | I'w Gadarnhau |

**Nodiadau ar gyfer Profi Offer Mesureg:**

1. Pryd bynnag y bydd offer yn cael ei brofi ac na ragnodir ffi briodol yn y Rhestr Ffioedd, dylai'r gwaith gael ei gostio ar gyfradd o £99.75 yr awr.
2. I sicrhau fod yr awdurdod yn gystadleuol yn ei wasanaeth calibradu masnachol, dylid defnyddio'r rhestr uchod fel sail prisio ar gyfer gweithgareddau calibradu yn gysylltiedig gyda gwaith ISO 9000, ond gan gytuno ar ostyngiadau parthed cyflwyniadau lluosog ar yr un safle. Bydd graddfa'r gostyngiad sydd ar gael yn cael ei bennu gan y Prif Swyddog Safonau Masnach mewn ymgynghoriad, gan dalu sylw i ystyriaethau masnachol yn unig. Gellir ymestyn hyn i weithgareddau calibradu eraill, os yw monopoli'r awdurdod lleol wedi ei ddiddymu.

| | | |
|---|---|---|
| **“PRYNU EFO HYDER” – CYNLLUN CYMERADWYO MASNACHWYR** | | |
| New application fee 0-5 employees | £150.00 | S |
| New application fee 6-20 employees | £200.40 | S |
| New application fee 21-49 employees | £249.60 | S |
| New application fee 50+ employees | Pris ar ofyn | S |
| Annual Membership Fee 0-5 employees | £300.00 | S |
| Annual Membership Fee 6-20 employees | £450.00 | S |
| Annual Membership Fee 21-49 employees | £600.00 | S |
| Annual Membership Fee 50+ employees | Pris ar ofyn | S |
| Additional Premises | £224.40 | S |
| Additional Trading Styles | £150.00 | S |

# Cynllunio

| Gwasanaeth | | Ffi/Tâl | TAW |
|---|---|---|---|
| **Anfon Ffacs** | | | |
| Dalen gyntaf | | £2.20 | S |
| Wedi hynny | | £0.90 | S |
| **Gwasanaeth Cynllunio** | | | |
| Hysbysiad Penderfyniad a dogfennau swyddogol eraill (oni bai yn rhan o ymholiad ymchwil) | | Dim tâl | - |
| A4 – cyffredinol : | | | |
| Du a Gwyn (Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth/EI) | | £0.10 y ddalen | E |
| Lliw (Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth/EI) | | £0.50 y ddalen | E |
| Du a Gwyn | | £0.10 y ddalen | S |
| Lliw | | £0.60 y ddalen | S |
| A3 – cynlluniau : | | | |
| Du a Gwyn (Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth/EI) | | £0.50 y ddalen | E |
| Lliw (Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth/EI) | | £1.00 y ddalen | E |
| Du a Gwyn | | £0.60 y ddalen | S |
| Lliw | | £1.25 y ddalen | S |
| A2 – cynlluniau : | | | |
| Du a Gwyn (Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth/EI) | | £4.65 y ddalen | E |
| Lliw (Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth/EI) | | £7.70 y ddalen | E |
| Du a Gwyn | | £5.50 y ddalen | S |
| Lliw | | £9.25 y ddalen | S |
| A1 – cynlluniau : | | | |
| Du a Gwyn (Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth/EI) | | £5.65 y ddalen | E |
| Lliw (Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth/EI) | | £8.78 y ddalen | E |
| Du a Gwyn | | £6.80 y ddalen | S |
| Lliw | | £10.50 y ddalen | S |
| A0 – cynlluniau : | | | |
| Du a Gwyn (Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth/EI) | | £6.70 y ddalen | E |
| Lliw (Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth/EI) | | £9.80 y ddalen | E |
| Du a Gwyn | | £8.00 y ddalen | S |
| Lliw | | £11.75 y ddalen | S |
| Copïau ar CD | | £18.55 | S |
| Ffioedd cais cynllunio | | Ffi sefydlog a osodir gan Lywodraeth Ganolog http://www.anglesey.gov.uk/Journals/e/i/e/Planning_Application_Fees__October_2015.pdf | - |
| **Ceisiadau Rheoliadau Adeiladu** | | | |
| **Tabl A: Anheddau Newydd ac Anheddau a Grëwyd trwy Drosi** | | | |
| **Nifer Anheddau:** | | | |
| 1 | Tâl Blaendal Cynllun | £200.27 | S |
| | Tâl Archwilio | £371.93 | |
| | Hysbysiad adeiladu neu refersiwn | £572.20 | |
| 2 | Tâl Blaendal Cynllun | £286.87 | S |
| | Tâl Archwilio | £532.76 | |
| | Hysbysiad adeiladu neu refersiwn | £819.64 | |
| 3 | Tâl Blaendal Cynllun | £368.06 | S |
| | Tâl Archwilio | £683.56 | |
| | Hysbysiad adeiladu neu refersiwn | £1,051.62 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4 | Tâl Blaendal Cynllun | £470.90 | S |
| | Tâl Archwilio | £874.55 | |
| | Hysbysiad adeiladu neu refersiwn | £1,345.45 | |
| 5 | Tâl Blaendal Cynllun | £589.99 | S |
| | Tâl Archwilio | £1,095.70 | |
| | Hysbysiad adeiladu neu refersiwn | £1,685.69 | |
| 6 | Tâl Blaendal Cynllun | £687.42 | S |
| | Tâl Archwilio | £1,276.63 | |
| | Hysbysiad adeiladu neu refersiwn | £1,964.05 | |
| 7 | Tâl Blaendal Cynllun | £703.65 | S |
| | Tâl Archwilio | £1,306.79 | |
| | Hysbysiad adeiladu neu refersiwn | £2,010.44 | |
| 8 | Tâl Blaendal Cynllun | £795.67 | S |
| | Tâl Archwilio | £1,477.68 | |
| | Hysbysiad adeiladu neu refersiwn | £2,273.35 | |
| 9 | Tâl Blaendal Cynllun | £882.28 | S |
| | Tâl Archwilio | £1,638.52 | |
| | Hysbysiad adeiladu neu refersiwn | £2,520.79 | |
| 10 | Tâl Blaendal Cynllun | £979.70 | S |
| | Tâl Archwilio | £1,819.45 | |
| | Hysbysiad adeiladu neu refersiwn | £2,799.16 | |
| 11 | Tâl Blaendal Cynllun | £1,033.84 | S |
| | Tâl Archwilio | £1,919.98 | |
| | Hysbysiad adeiladu neu refersiwn | £2,953.81 | |
| 12 | Tâl Blaendal Cynllun | £1,131.26 | S |
| | Tâl Archwilio | £2,100.92 | |
| | Hysbysiad adeiladu neu refersiwn | £3,232.19 | |
| 13 | Tâl Blaendal Cynllun | £1,174.57 | S |
| | Tâl Archwilio | £2,181.34 | |
| | Hysbysiad adeiladu neu refersiwn | £3,355.91 | |
| 14 | Tâl Blaendal Cynllun | £1,272.00 | S |
| | Tâl Archwilio | £2,362.28 | |
| | Hysbysiad adeiladu neu refersiwn | £3,634.28 | |
| 15 | Tâl Blaendal Cynllun | £1,331.53 | S |
| | Tâl Archwilio | £2,472.85 | |
| | Hysbysiad adeiladu neu refersiwn | £3,804.38 | |
| 16 | Tâl Blaendal Cynllun | £1,401.90 | S |
| | Tâl Archwilio | £2,603.53 | |
| | Hysbysiad adeiladu neu refersiwn | £4,005.43 | |
| 17 | Tâl Blaendal Cynllun | £1,466.86 | S |
| | Tâl Archwilio | £2,724.16 | |
| | Hysbysiad adeiladu neu refersiwn | £4,191.01 | |
| 18 | Tâl Blaendal Cynllun | £1,542.64 | S |
| | Tâl Archwilio | £2,864.89 | |
| | Hysbysiad adeiladu neu refersiwn | £4,407.53 | |
| 19 | Tâl Blaendal Cynllun | £1,623.83 | S |
| | Tâl Archwilio | £3,015.67 | |
| | Hysbysiad adeiladu neu refersiwn | £4,639.50 | |
| 20 | Tâl Blaendal Cynllun | £1,694.20 | S |
| | Tâl Archwilio | £3,146.35 | |
| | Hysbysiad adeiladu neu refersiwn | £4,840.55 | |

| Tabl B: Taliadau am Adeiladau Bach, Estyniadau ac Addasiadau Penodol i Anheddau (Atodlen 2 yn flaenorol) | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Garejys Ar Wahân ac Ynghlwm a Phyrth Ceir a rennir gydag anheddau presennol** | | | | |
| **1.** | Codi garej ar wahân neu ynghlwm gydag ardal llawr heb fod yn fwy na 40 metr sgwâr. | Tâl Blaendal Cynllun | £108.25 | S |
| | | Tâl Archwilio | £201.05 | |
| | | Hysbysiad adeiladu neu refersiwn | £309.30 | |
| **Estyniadau/Gwaith trosi/Trosi Llofftydd a gwaith Addasu Adeilad i Anheddau** | | | | |
| **2.** | Trosi garej presennol i lunio llety atodol gydag ardal llawr heb fod yn fwy na 40 metr sgwâr. | Tâl Blaendal Cynllun | £97.43 | S |
| | | Tâl Archwilio | £108.95 | |
| | | Hysbysiad adeiladu neu refersiwn | £278.38 | |
| **3.** | Unrhyw estyniad i annedd ble nad yw cyfanswm ardal y llawr yn fwy na 10 metr sgwâr, yn cynnwys modd mynediad a gwaith mewn cysylltiad â'r estyniad hwnnw | Tâl Blaendal Cynllun | £108.25 | S |
| | | Tâl Archwilio | £201.05 | |
| | | Hysbysiad adeiladu neu refersiwn | £309.30 | |
| **4.** | Unrhyw estyniad i annedd ble mae cyfanswm ardal y llawr yn fwy na 10 metr sgwâr ond heb fod yn fwy na 40 metr sgwâr, yn cynnwys modd mynediad a gwaith mewn cysylltiad â'r estyniad hwnnw | Tâl Blaendal Cynllun | £162.38 | S |
| | | Tâl Archwilio | £301.57 | |
| | | Hysbysiad adeiladu neu refersiwn | £463.96 | |
| **5.** | Unrhyw estyniad i annedd ble mae cyfanswm ardal y llawr yn fwy na 40 metr sgwâr ond heb fod yn fwy na 60 metr sgwâr, yn cynnwys modd mynediad a gwaith mewn cysylltiad â'r estyniad hwnnw | Tâl Blaendal Cynllun | £189.68 | S |
| | | Tâl Archwilio | £352.26 | |
| | | Hysbysiad adeiladu neu refersiwn | £541.94 | |
| **6.** | Unrhyw estyniad i annedd ble mae cyfanswm ardal y llawr yn fwy na 60 metr sgwâr ond heb fod yn fwy na 80 metr sgwâr, yn cynnwys modd mynediad a gwaith mewn cysylltiad â'r estyniad hwnnw | Tâl Blaendal Cynllun | £227.34 | S |
| | | Tâl Archwilio | £422.20 | |
| | | Hysbysiad adeiladu neu refersiwn | £649.54 | |
| **7.** | Trosi gofod llofft i lunio llety preswyl atodol gydag ardal llawr heb fod yn fwy na 50 metr sgwâr | Tâl Blaendal Cynllun | £189.68 | S |
| | | Tâl Archwilio | £351.00 | |
| | | Hysbysiad adeiladu neu refersiwn | £540.68 | |
| **8.** | Trosi gofod llofft i lunio llety preswyl atodol gydag ardal llawr yn fwy na 50 metr sgwâr | Tâl Blaendal Cynllun | £227.34 | S |
| | | Tâl Archwilio | £422.20 | |
| | | Hysbysiad adeiladu neu refersiwn | £649.54 | |
| **9.** | Amnewid pob ffenestr a drws | Tâl Blaendal Cynllun | £78.00 | S |
| | | Tâl Archwilio | Wedi ei gynnwys yn y Tâl Cynllun | |
| | | Hysbysiad adeiladu neu refersiwn | £78.00 | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **10.** | Adnewyddu elfen thermol sengl e.e. amnewid to / lloriau. | Tâl Blaendal Cynllun | £92.80 | S |
| | | Tâl Archwilio | Wedi ei gynnwys yn y Tâl Cynllun | |
| | | Hysbysiad adeiladu neu refersiwn | £92.80 | |
| Sylwer: Ble mae mân waith adeiladu yn cael ei gyflawni ar yr un pryd ag estyniad y cyfeirir ato yn 3 i 8 uchod, bydd y tâl atodol fel 11 isod. | | | | |
| **11.** | Cost y gwaith < £1,000 | Tâl Blaendal Cynllun | £61.86 | S |
| | | Tâl Archwilio | Wedi ei gynnwys yn y Tâl Cynllun | |
| | | Hysbysiad adeiladu neu refersiwn | £61.86 | |
| | Cost gwaith rhwng £1,000 a £5,000 | Tâl Blaendal Cynllun | £92.80 | S |
| | | Tâl Archwilio | Wedi ei gynnwys yn y Tâl Cynllun | |
| | | Hysbysiad adeiladu neu refersiwn | £92.80 | |
| Ble mae cost amcangyfrifol y gwaith yn 11, uchod, yn fwy na £5,000 bydd y tâl yn unol â 'Thabl C'. | | | | |
| **Gosodiadau trydanol newydd a gwaith trydanol i eiddo presennol** | | | | |
| **12.** | Gwifrio trydanol mewn cysylltiad ag estyniad newydd i annedd yn dal i gael ei adeiladu gyda gofod llawr heb fod yn fwy na 60 metr sgwâr | Tâl Blaendal Cynllun | £309.30 | S |
| | | Tâl Archwilio | Wedi ei gynnwys yn y Tâl Cynllun | |
| | | Hysbysiad adeiladu neu refersiwn | £309.30 | |
| **13.** | Gosodiad trydanol newydd i annedd yn cael ei adeiladu neu ailwEIrio annedd presennol (hyd at uchafswm o 5 ystafell wely) | Tâl Blaendal Cynllun<br>Tâl Archwilio | £402.10<br><br>Wedi ei gynnwys yn y Tâl Cynllun | S |
| | | Hysbysiad adeiladu neu refersiwn | £402.10 | |

| Tabl C – Gwaith ar wahân i'r gwaith yn Nhablau A a B (Atodlen 3 gynt) | | | |
|---|---|---|---|
| **(YN SEILIEDIG AR AMCANGYFRIF O'R GWIR GOST ADEILADU A GYFLAWNWYD GAN GONTRACTWYR GYDA CHOFRESTRIAD TAW)** | | | |
| **Amcangyfrif o Gost y Gwaith** | | | |
| **< £1,000** | Tâl Blaendal Cynllun | £123.72 | S |
| | Tâl Archwilio | Wedi ei gynnwys yn y Tâl Cynllun | |
| | Hysbysiad adeiladu neu refersiwn | £123.72 | |
| **£1,001 - £5,000** | Tâl Blaendal Cynllun | £185.58 | S |
| | Tâl Archwilio | Wedi ei gynnwys yn y Tâl Cynllun | |
| | Hysbysiad adeiladu neu refersiwn | £185.58 | |
| **£5,001 - £10,000** | Tâl Blaendal Cynllun | £97.43 | S |
| | Tâl Archwilio | £180.94 | |
| | Hysbysiad adeiladu neu refersiwn | £278.36 | |
| **£10,001 - £15,000** | Tâl Blaendal Cynllun | £119.08 | S |
| | Tâl Archwilio | £221.15 | |
| | Hysbysiad adeiladu neu refersiwn | £340.22 | |
| **£15,001 - £20,000** | Tâl Blaendal Cynllun | £140.74 | S |
| | Tâl Archwilio | £261.36 | |
| | Hysbysiad adeiladu neu refersiwn | £402.10 | |
| **£20,001 - £25,000** | Tâl Blaendal Cynllun | £162.38 | S |
| | Tâl Archwilio | £301.57 | |
| | Hysbysiad adeiladu neu refersiwn | £463.96 | |
| **£25,001 - £30,000** | Tâl Blaendal Cynllun | £184.03 | S |
| | Tâl Archwilio | £341.77 | |
| | Hysbysiad adeiladu neu refersiwn | £525.80 | |
| **£30,001 - £35,000** | Tâl Blaendal Cynllun | £205.68 | S |
| | Tâl Archwilio | £381.98 | |
| | Hysbysiad adeiladu neu refersiwn | £587.66 | |
| **£35,001 - £40,000** | Tâl Blaendal Cynllun | £227.34 | S |
| | Tâl Archwilio | £422.20 | |
| | Hysbysiad adeiladu neu refersiwn | £649.54 | |
| **£40,001 - £45,000** | Tâl Blaendal Cynllun | £238.16 | S |
| | Tâl Archwilio | £422.30 | |
| | Hysbysiad adeiladu neu refersiwn | £680.46 | |
| **£45,001 - £50,000** | Tâl Blaendal Cynllun | £259.81 | S |
| | Tâl Archwilio | £482.51 | |
| | Hysbysiad adeiladu neu refersiwn | £742.32 | |
| **£50,001 - £55,000** | Tâl Blaendal Cynllun | £281.46 | S |
| | Tâl Archwilio | £522.72 | |
| | Hysbysiad adeiladu neu refersiwn | £804.18 | |
| **£55,001 - £60,000** | Tâl Blaendal Cynllun | £303.12 | S |
| | Tâl Archwilio | £562.93 | |
| | Hysbysiad adeiladu neu refersiwn | £866.05 | |
| **£60,001 - £65,000** | Tâl Blaendal Cynllun | £324.77 | S |
| | Tâl Archwilio | £603.13 | |
| | Hysbysiad adeiladu neu refersiwn | £927.90 | |
| **£65,001 - £70,000** | Tâl Blaendal Cynllun | £346.42 | S |
| | Tâl Archwilio | £643.34 | |
| | Hysbysiad adeiladu neu refersiwn | £989.76 | |
| **£70,001 - £75,000** | Tâl Blaendal Cynllun | £368.06 | S |
| | Tâl Archwilio | £683.56 | |
| | Hysbysiad adeiladu neu refersiwn | £1,051.62 | |
| **£75,001 - £80,000** | Tâl Blaendal Cynllun | £389.72 | S |
| | Tâl Archwilio | £723.77 | |
| | Hysbysiad adeiladu neu refersiwn | £1,113.49 | |
| **£80,001 - £85,000** | Tâl Blaendal Cynllun | £411.37 | S |
| | Tâl Archwilio | £763.97 | |
| | Hysbysiad adeiladu neu refersiwn | £1,175.34 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **£85,001 - £90,000** | Tâl Blaendal Cynllun | £433.02 | S |
| | Tâl Archwilio | £804.18 | |
| | Hysbysiad adeiladu neu refersiwn | £1,237.20 | |
| **£90,001 - £95,000** | Tâl Blaendal Cynllun | £454.67 | S |
| | Tâl Archwilio | £844.39 | |
| | Hysbysiad adeiladu neu refersiwn | £1,299.06 | |
| **£95,001 - £100,000** | Tâl Blaendal Cynllun | £476.33 | S |
| | Tâl Archwilio | £844.60 | |
| | Hysbysiad adeiladu neu refersiwn | £1,360.93 | |
| Ar gyfer datblygiadau dros £100,000 cysylltwch ag Arweinydd y Tîm Rheoli Adeiladu | | | |
| Cael copïau o ddogfennau Rheoliadau Adeiladu ar gyfer eich eiddo (dylai ceisiadau fod yn ysgrifenedig) | | | |
| Am chwiliad o'r holl geisiadau ers Ebrill 1996 yn cyfeirio i'ch eiddo | | £25.00 | O/S |
| Am gopïau o'r cymeradwyaethau/hysbysiadau/tystysgrifau cwblhau yn dangos ar y chwiliad yn ymwneud â'ch eiddo. | | £30.00 | S |
| Ymchwil ac Ymholiadau Masnachol (tâl isafswm)<br>Bydd tâl am lungopïau yn ychwanegol | | £116.80 yr awr | S |
| **Cyngor cyn cynllunio ar geisiadau mawr** | | Wedi ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru http://www.ynysmon.gov.uk/download/52062 | |
| **Cefn Gwlad/Wardeiniaeth** | | | |
| Ffi parcio ym Mharc Gwledig Morglawdd Caergybi: | | | |
| 1 awr | | £1.00 | S |
| 2 awr | | £1.50 | S |
| 4 awr | | £2.00 | S |
| Hyd at 12 awr | | £3.00 | S |
| Trwydded Flynyddol | | £150.00 | S |
| | | | |
| **Amgylchedd Adeiledig a Thirlun** | | | |
| Cwynion gwrychoedd uchel | | £320.00 | Z |
| Archwiliad safle (isafswm tâl) | | £116.80 yr awr | S |
| | | | |
| SETIAU DATA GIS (ER ENGHRAIFFT - TPO's, GWRYCHOEDD, ADEILADAU RHESTREDIG) | | £84.35 y set plws<br>£84.35 ffi weinyddol | S |

# Cyfreithiol

| Gwasanaeth | Ffi/Tâl | TAW |
|---|---|---|
| **Taliadau Tir Lleol** | | |
| Chwilio[1] | £111.25 | S |
| Ffurflen LLC[1] | £8.25 | S |
| Con 29 (ac eithrio cwestiwn 22)[1] | £11.30 y cwestiwn | S |
| Cwestiwn 22[1] | £15.45 y cwestiwn | S |
| **Ffioedd Cyfreithiol Dewisol** | | |
| **Rhwymedigaethau cynllunio (cytundebau adran 106)** | | |
| Annedd fforddiadwy sengl hunan adeiladu | £540.75 | O/S |
| Bydd yr holl drefniadau eraill (ar gyfer 3 awr o waith, cyfradd fesul awr perthnasol yn cael ei godi ar yr amser a dreuliwyd dros 3 awr, gweler y cyfraddau isod) | £811.65 | O/S |
| Gweithredoedd rhyddhau syml | £257.50 | O/S |
| **Gwerthu tir neu Ganiatáu prydlesau** | | |
| Os na phenodir cyfreithiwr, gan barti arall (ar gyfer 3 awr o waith, cyfradd fesul awr perthnasol yn cael ei godi ar yr amser a dreuliwyd dros 3 awr, gweler y cyfraddau isod) Pan mae eiddo wedi ei optio i mewn i'r dreth, y TAW a godir yw'r graddfa safonol. Pan nad ydyw wedi optio i mewn i'r dreth, mae'r TAW y tu allan i'r sgôp. | £585.85 | S neu O/S |
| Os penodir cyfreithiwr, gan barti arall (ar gyfer 6 awr o waith, cyfradd fesul awr perthnasol yn cael ei godi ar yr amser a dreuliwyd dros 6 awr, gweler y cyfraddau isod) Pan mae eiddo wedi ei optio i mewn i'r dreth, y TAW a godir yw'r graddfa safonol. Pan nad ydyw wedi optio i mewn i'r dreth, mae'r TAW y tu allan i'r sgôp. | £1,171.75 | S neu O/S |
| Grantiau o brydlesi (i gynnwys amrywiadau, aseiniadau a datganiadau) Pan mae eiddo wedi ei optio i mewn i'r dreth, y TAW a godir yw'r graddfa safonol. Pan nad ydyw wedi optio i mewn i'r dreth, mae'r TAW y tu allan i'r sgôp. | Gwir amser a dreuliwyd ar raddfa yr awr perthnasol* | S neu O/S |
| Cytundebau adran 38 a 278 (Deddf Priffyrdd) | £811.65 | O/S |
| Gorchmynion rheoleiddio traffig, os ceir cais gan drydydd parti (ar gyfer 4.5 awr o waith, cyfradd fesul awr perthnasol yn cael ei godi ar yr amser a dreuliwyd dros 4.5 awr, gweler y cyfraddau isod) | £489.25 | O/S |
| **Cyfraddau fesul awr priodol** | | |
| Pennaeth Swyddogaeth, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol neu Gyfreithiwr | £162.75 | O/S |
| Unrhyw staff eraill sy'n ennill ffi | £97.85 | O/S |
| SYLWER - bydd gan y Pennaeth Swyddogaeth neu Reolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, yn ôl ei ddoethineb, y pŵer i hepgor y ffi mewn rhai achosion o galedi ariannol profedig. | | |

[1] Mae TAW yn daladwy ar bridiannau tir lleol a cwestiynnau CON29. Dywedodd CTEM dylai gweithrediad fod mor fuan â phosib cyn 31 Mawrth 2017. Penderfynodd Cyngor Sir Ynys Môn i weithredu ar yr holl chwiliadau ar neu ar ôl 16 Ionawr 2017.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Cyfarfod Busnes y Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **14 Chwefror 2017** |
| **Pwnc:** | **Cartrefi'r Awdurdod Lleol ar gyfer Pobl Hŷn - Pennu'r Ffi Safonol** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Aled Morris Jones** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Alwyn Rhys Jones, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Rhys L Roberts, Rheolwr Cyllid**<br>**01248 752690 RhysRoberts2@ynysmon.gov.uk**<br><br>**Dafydd Bulman, Rheolwr Busnes a Thrawsnewid**<br>**01248 752013 DafyddBulman@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amrywiol** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Mae angen i'r Awdurdod Lleol bennu ei ffi safonol ar gyfer ei gartrefi gofal am y flwyddyn Ebrill 2017 - Mawrth 2018.

Mae'r aelodau wedi penderfynu ar gynnydd cyffredinol o 3**%** mewn ffioedd a thaliadau fel canllaw. Fodd bynnag, gellir trin ffioedd a godir am gartrefi preswyl y mae'r awdurdod lleol yn berchen arnynt fel eithriad oherwydd eu bod yn seiliedig ar ddarpariaeth statudol sy'n amlinellu sut y dylid eu cyfrifo.

Fel yn y blynyddoedd diwethaf, mae costau'r holl gartrefi wedi eu cronni i gyfrifo ffi safonol gyfartalog ar gyfer y cartrefi yn unol â Chanllawiau Cenedlaethol.

Dylid bod yn ofalus wrth gymharu'r ffi safonol gyda ffioedd awdurdodau eraill oherwydd, er gwaethaf canllawiau, efallai nad yw awdurdodau eraill wedi cyfrifo'r ffi ar yr un sail yn union. Fodd bynnag, fel gwybodaeth gefndirol, rydym yn nodi isod y ffioedd safonol ar gyfer 2016/17 i Gartrefi Awdurdodau Lleol Gwynedd a Chonwy:-

- Gwynedd - £581.28
- Conwy - £547.00

Yn ystod 2016/17, cyfrifwyd y Ffi Safonol yn £723.08 yr wythnos ac roedd hynny'n seiliedig ar gyfraddau defnydd o 89.7% ar draws y 5 cartref preswyl mewnol (ac eithrio Garreglwyd). Penderfynodd y Cyngor ar gynnydd o 5% yn y ffi safonol wythnosol ac i dderbyn y gwahaniaeth fel cost reoli ar gyfer trawsnewid y ddarpariaeth fewnol ar gyfer gofal preswyl. Pennwyd ffi safonol o £567.27 yr wythnos yn ystod 2016/17 felly ar gyfer y trigolion.

Wrth gyfrifo'r ffi safonol ar gyfer 2017/18, nid ydym, unwaith eto, wedi cynnwys y gwelyau a

gadwyd yn wag yng Nghartref Preswyl Garreglwyd yn ystod 2016/17 oherwydd y bwriedir ailfodelu'r Cartref. Wrth gyfrifo ffigwr 2017/18 rydym hefyd wedi gadael allan nifer y gwelyau a gadwyd yn wag yn Haulfre oherwydd y gwaith atgyweirio a wnaed yna yn 2016/17. Y cyfraddau defnydd yn y 4 cartref a oedd yn weddill yn ystod 8 mis cyntaf 2016/17 oedd 89.7% yn seiliedig ar gyfanswm o 110 o welyau.

Mae'r tabl a ganlyn yn cyfrifo'r gost dybiedig wythnosol fesul preswylydd am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2018.

| | |
|---|---|
| Nifer y gwlâu sydd ar gael | 110 |
| Amcangyfrif o'r Cyfraddau Defnydd | 89.7% |
| Amcangyfrif o nifer yr wythnosau trigolion | 5,127 |

| | **2017/18**<br>**£** | **2017/18**<br>**£** | **2016/17**<br>**£** |
|---|---|---|---|
| Amcangyfrif o Gostau Rhedeg yn 2017/18 | 3,299,574 | 641.07 | 531.95 |
| Ychwanegu - Tâl dibrisio | 184,187 | 35.79 | 37.76 |
| • Gwasanaethau Cymorth | 151,190 | 29.37 | 33.36 |
| Tynnu incwm o Weithgareddau Di-breswyl | -40,000 | -7.77 | -34.80 |
| | **3,594,952** | **698.46** | **567.27** |
| | | | |
| **Cynnydd o gymharu â ffi safonol 2016/17** | **23.13%** | **£131.18** | |

Yn seiliedig ar y tabl uchod, amcangyfrifir bod y gost wythnosol am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2017 yn £698.46 fesul preswylydd. Gan gydnabod penderfyniad y Cyngor ar gyfer 2016/17 a'r cynnydd sylweddol y byddai symud o £567.27 i £698.46 yn ei olygu, argymhellir:

- Er bod y Cyngor yn cydnabod y costau sy'n gysylltiedig â gofal preswyl, dylid peidio adlewyrchu cost wirioneddol darparu'r gwasanaeth yn y tâl a godir ar drigolion.
- Bod y cynnydd ar gyfer y rheini sy'n cyfrannu tuag at gost eu gofal yn gyson gyda'r canllawiau ar gyfer gwasanaethau'r Cyngor, sef 3%, a bod ffi o £584.29 yn cael ei gosod.

| |
|---|
| Trwy beidio â chodi'r tâl llawn ar drigolion hunangyllido mae'r Cyngor yn rhoi cymhorthdal o £114.17 yr wythnos i bob un o'r defnyddwyr hyn, sef £5,936.84 y flwyddyn. Ar gyfer y 24 o hynangyllidwyr mae hynny'n cyfateb i £142,484 y flwyddyn. |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Y ffi safonol yw'r ffi y mae'n rhaid i'r Awdurdod ei chodi ar drigolion a chanddynt **y modd ariannol i dalu am eu gofal preswyl yn llawn**. Mae ein rhagdybiaeth gynllunio o gwmpas ein hunangyllidwyr wedi cael ei hadolygu dros yr wythnosau diwethaf i sicrhau ei bod yn parhau i fod yn gyfredol. Fel sydd wedi ei nodi yn A, 'rydym wedi ystyried cynyddu'r tâl i adlewyrchu cost lawn y ddarpariaeth, ond wedi penderfynu peidio â gwneud hynny oherwydd y byddai'n gynnydd sylweddol ac anghymesur i'r trigolion. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Yn unol ag Adran 22 Deddf Cymorth Gwladol 1948, mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol bennu'r ffi safonol ar gyfer eu cartrefi. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Mae'r penderfyniad hwn yn gyson gyda Pholisi Cenedlaethol fel yr amlinellir yn rhan C uchod. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Cefnogol o'r adroddiad pan gafodd ei gyflwyno i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ar y 16/1/2017 |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Cefnogol o'r adroddiad pan gafodd ei gyflwyno i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ar y 16/1/2017 |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Cefnogol o'r adroddiad pan gafodd ei gyflwyno i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ar y 16/1/2017 |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |

| | | |
|---|---|---|
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **14 Chwefror 2017** |
| **Pwnc:** | **Ffioedd Gofal Cartref yn y Sector Annibynnol ar gyfer 2017/18** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cyng Aled Morris Jones** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Alwyn Rhys Jones – Pennaeth Gwasanaeth** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Dafydd Bulman – Rheolwr Trawsnewid Strategol a Busnes**<br>**01248 752013 Dafyddbulman@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Pob Aelod** |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

O 6 Ebrill 2016, mae'r fframwaith ar gyfer asesiad ariannol a chodi ffioedd bellach yn dod dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Rhaid i'r Awdurdod Lleol adolygu ffioedd yn y sector cartrefi gofal annibynnol bob blwyddyn i gyd-ddigwydd â newidiadau Llywodraeth Ganolog i lefelau budd-daliadau a phensiynau.

Wrth bennu ffioedd ar gyfer cartrefi gofal yn y sector annibynnol, rhaid i ni ddangos ein bod wedi rhoi ystyriaeth lawn i gostau'r ddarpariaeth wrth benderfynu ar ein ffioedd gofal sylfaenol. Gwneir hyn mewn cydweithrediad gydag Awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru a'r Bwrdd Iechyd drwy ddefnyddio Methodoleg Ffioedd Ranbarthol.

Mewn ymateb i'r galwadau am strwythur ffioedd diweddaredig a chan gydnabod y ddibyniaeth gynyddol mewn cartrefi gofal, cwblhawyd arolwg staff yn ystod 2016/17 i siapio'r model hwn. Er bod cynnydd ar draws yr holl gategorïau gofal, mae anghysondeb y canlyniadau ar draws categorïau ac ar draws siroedd wedi arwain at bryderon ynghylch dilysrwydd a chywirdeb y canlyniadau.

Gan gydnabod y pryderon a oedd yn gysylltiedig â'r arolwg staff, penderfynwyd defnyddio'r oriau staffio a awgrymwyd gan Fforwm Gofal Cymru yn ei gyflwyniad yn 2011 er mwyn siapio ffioedd. Y rhain yw: Preswyl 21, Preswyl i Oedolion Hŷn Bregus eu Meddwl 23, Nyrsio 25, Nyrsio i Oedolion Hŷn Bregus eu Meddwl 28.

Mae Methodoleg Gogledd Cymru (Atodiad 1) wedi argymell cynnydd rhwng 2.84% a 8.98% ar draws y 4 categori gofal. Cynigir y ffioedd isod ar gyfer 2017/18:

**Tabl 1 – Argymhelliad Methodoleg Gogledd Cymru**

| Categori | 2016/17 | 2017/18 | Cynnydd £ | Cynnydd % |
|---|---|---|---|---|
| Preswyl (Oedolion) | £483.46 | £526.87 | £43.41 | 8.98% |
| Preswyl (Pobl Hŷn Bregus eu Meddwl) | £532.07 | £547.33 | £15.26 | 2.86% |
| Gofal Nyrsio Sylfaenol (Elfen Gofal Cymdeithasol) | £546.27 | £567.81 | £21.54 | 3.94% |
| Nyrsio (Pobl Hŷn Bregus eu Meddwl) (Elfen Gofal Cymdeithasol) | £573.58 | £598.51 | £24.93 | 4.34% |

(y cyfan yn seiliedig ar Ddychweliad o 10% ar Fuddsoddiad)

Cytunodd Penaethiaid Gwasanaethau Oedolion Gogledd Cymru (NWASH) mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 16/12/16, bod y codiadau a nodwyd yn gyson â gweithredu'r model ffioedd.

Rydym yn bwriadu defnyddio'r fethodoleg yn llawn ar gyfer:

- Preswyl (Pobl Hŷn Bregus eu Meddwl)
- Gofal Nyrsio Sylfaenol (Elfen Gofal Cymdeithasol)
- Nyrsio (Pobl Hŷn Bregus eu Meddwl) (Elfen Gofal Cymdeithasol)

Ystyriwyd nad oedd gweithredu'r model yn llawn ar draws yr holl sectorau yn fforddiadwy. Wedi rhoi'r sylw dyledus i fforddiadwyedd y codiadau, a'r cyfeiriad strategol y mae'r Cyngor yn ei gymryd o ran datblygu dewisiadau amgen i ofal preswyl (ar ffurf Tai Gofal Ychwanegol a gofalu am bobl yn eu cartrefi), rydym yn bwriadu pennu'r cyfraddau ar gyfer cartrefi gofal preswyl ar Ddychweliad ar Fuddsoddiad (DAF) is o 9%.

Amcangyfrif o'r pwysau blynyddol yn seiliedig ar DAF 10% ar gyfer Gofal Preswyl = £789k
Amcangyfrif o'r pwysau blynyddol yn seiliedig ar DAF 9% ar gyfer Gofal Preswyl = £659k
Amcangyfrif o'r pwysau blynyddol yn seiliedig ar DAF 8% ar gyfer Gofal Preswyl = £529k

O'r herwydd, mae Ynys Môn yn argymell y cyfraddau isod ar gyfer eu cymeradwyo.

**Tabl 2 – Ffioedd Arfaethedig Ynys Môn ar gyfer 2017/18**

| Categori | 2016/17 | 2017/18 | Cynnydd £ | Cynnydd % | DAF |
|---|---|---|---|---|---|
| Preswyl (Oedolion) | £483.46 | £517.17 | £33.71 | 6.97% | 9% |
| Preswyl (Pobl Hŷn Bregus eu Meddwl) | £532.07 | £547.33 | £15.26 | 2.86% | 10% |
| Gofal Nyrsio Sylfaenol (Elfen Gofal Cymdeithasol) | £546.27 | £567.81 | £21.54 | 3.94% | 10% |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Nyrsio (Pobl Hŷn Bregus eu Meddwl) (Elfen Gofal Cymdeithasol) | £573.58 | £598.51 | £24.93 | 4.34% | 10% |

Bydd angen i'r Cyngor ymgynghori gyda darparwyr lleol ynghylch y ffioedd a bennwyd. Efallai y bydd angen ystyried cyflwyniadau unigol gan ddarparwyr fel rhan o'r broses hon. Petai tystiolaeth glir i ddangos nad yw'r ffi a bennwyd yn ddigonol mewn unrhyw achos unigol, bydd angen i'r Cyngor ystyried eithriadau i'r ffioedd a bennwyd.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:-

1. Cydnabod Methodoleg Ffioedd Gogledd Cymru fel y cafodd ei gweithredu hyd yma gan yr Awdurdodau yng Ngogledd Cymru fel sylfaen ar gyfer pennu ffioedd yn Ynys Môn yn ystod 2017/18 (Atodiad 1 ).

2. Cymeradwyo'r argymhelliad i gynyddu'r lefelau ffioedd a nodwyd yn **nhabl 2** uchod

3. Yr un modd ag Awdurdodau eraill, rhoi'r awdurdod i'r Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol a Chyllid ymateb i unrhyw geisiadau gan gartrefi i edrych ar eu cyfrifon penodol a defnyddio'r ymarfer fel sylfaen i ystyried unrhyw eithriadau i'r ffioedd y cytunwyd arnynt. Rhaid i unrhyw eithriadau gael eu cytuno gyda'r Deilydd Portffolio, Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion o'r cyllidebau cyfredol. Oni cheir cytundeb, bydd y mater yn cael ei gyfeirio i'r Pwyllgor Gwaith i'w benderfynu arno.

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Ystyriwyd gweithredu Model Ffioedd Gogledd Cymru yn llawn. Ar sail fforddiadwyedd i'r Cyngor, gwrthodwyd hynny ac argymhellwyd y model a gynigir yn Nhabl 2. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Rhaid i Awdurdodau Lleol bennu ffioedd cartrefi gofal yn unol â pholisi cenedlaethol. Mae gan y penderfyniad hwn oblygiadau ariannol i gyllideb yr Awdurdod Lleol o ran fforddiadwyedd yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Mae'r penderfyniad hwn yn gyson â'r cytundeb a wnaed i gydweithio gydag Awdurdodau Lleol eraill yng Ngogledd Cymru ac i ddefnyddio Methodoleg Gogledd Cymru i bennu'r ffioedd bob blwyddyn. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Yn seiliedig ar drafodaethau manwl gyda'r Adran Gyllid yn amcangyfrif effaith y newidiadau hyn a |

| |
|---|
| chyllideb arfaethedig yr adran ar gyfer 2017/18, ystyrir y gellir cwrdd â'r codiadau hyn o fewn y gyllideb.<br><br>Bydd angen i'r adran barhau i ganolbwyntio ar leihau nifer y lleoliadau o'r math yma fel y gwelwyd yn y blynyddoedd diweddar. |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)**<br>(mandadol) | Cefnogol o'r adroddiad pan gafodd ei gyflwyno i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ar y 16/1/2017 |
| **2** | **Cyllid / Adran 151**<br>(mandadol) | Cefnogol o'r adroddiad pan gafodd ei gyflwyno i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ar y 16/1/2017 |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro**<br>(mandadol) | Cefnogol o'r adroddiad pan gafodd ei gyflwyno i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ar y 16/1/2017 |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad 1- ffioedd sector annibynnol - 30.01.17 |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| |

| **Fee Calculations 2017/18: Based on CFW staffing hours (50% of hours paid at National Living Wage, 50% paid at Senior Carers rate as reported in survey)** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **The figures below do not include FNC elements accepted by the Health Board** | | | | | |
| | **Fee 2016/17** | **Indicative Fee 2017/18** | **Basis of Calculation** | **Increase per week** | **Overall % Increase** |
| **1. INDIRECT COSTS -standard for all categories of care** | | | | | |
| Utilities (electricity, gas, TV, Council Tax, Water, Telephone) | 28.00 | 28.28 | CPI Sept = 1% | | |
| Registration (Professional Membership, CRBs etc) | £1.23 | £1.24 | CPI Sept = 1% | | |
| Recruitment | £2.38 | £2.40 | CPI Sept = 1% | | |
| Contract maintenance of equipment | £3.45 | £3.48 | CPI Sept = 1% | | |
| Maintenance of capital equipment | £21.17 | £21.38 | CPI Sept = 1% | | |
| Gardener /handyman | £8.65 | £9.30 | NLW 4.17% increase on amended 16/17 rate (£8.93) | | |
| Furniture/Fittings including repairs and renewals | £12.77 | £0.00 | Removed for 2017/18 | | |
| Training | £2.37 | £2.39 | CPI Sept = 1% | | |
| Non prescription medical supplies | £3.57 | £3.61 | CPI Sept = 1% | | |
| Insurance | £5.96 | £6.02 | CPI Sept = 1% | | |
| Groceries & household provisions | £27.55 | £27.82 | CPI Sept = 1% | | |
| **Sub-total Indirect Costs** | **£117.10** | **£105.92** | | | |
| | | | | | |
| **2. OTHER COSTS - standard for all categories of care** | | | | | |
| Return on Investment | £97.79 | £97.16 | 10% ROI | | |
| Additional Expenses (not covered elsewhere) | £17.38 | £17.55 | CPI Sept = 1% | | |
| **Sub-total Other Costs** | **£115.17** | **£114.71** | | | |
| | | | | | |
| **3. STAFF COSTS** | | | | | |
| **Residential Homes** | | | | | |
| Management /Admin | £47.42 | 47.89 | 1% increase | | |
| Senior Care Staff | | 114.77 | 10.5 hours x £10.93 | | |
| Care Staff | £163.38 | 100.17 | 10.5 hours x £9.54 | | |
| Domestic Staff | £40.39 | 43.41 | NLW 4.17% increase on amended 16/17 rate (£41.68) | | |
| **Sub-total Residential Homes' Staff Costs** | **£251.19** | **£306.24** | | | |
| **TOTAL RESIDENTIAL** | **£483.46** | **£526.87** | | **£43.41** | **8.98%** |
| | | | | | |
| **EMI Residential Homes** | | | | | |
| Management /Admin | £47.42 | 47.89 | 1% increase | | |
| Senior Care Staff | | 125.69 | 11.5 hours x £10.93 | | |
| Care Staff | £211.99 | 109.71 | 11.5 hours x £9.54 | | |
| Domestic Staff | £40.39 | 43.41 | NLW 4.17% increase on amended 16/17 rate (£41.68) | | |
| **Sub-total EMI Residential Homes' Staff Costs** | **£299.80** | **£326.70** | | | |
| **TOTAL EMI RESIDENTIAL** | **£532.07** | **£547.33** | | **£15.26** | **2.86%** |
| | | | | | |
| **Nursing Homes** | | | | | |
| Management /Admin | £47.42 | £47.89 | 1% increase | | |
| Senior Care Staff | | £136.63 | 12.5 hours x £10.93 | | |
| Care Staff | £226.19 | £119.25 | 12.5 hours x £9.54 | | |
| Domestic Staff | £40.39 | 43.41 | NLW 4.17% on amended 16/17 rate (£41.68) | | |
| **Sub-total Nursing Homes' Staff Costs** | **£314.00** | **£347.18** | | | |
| **TOTAL NURSING** | **£546.27** | **£567.81** | | **£21.54** | **3.94%** |
| | | | | | |
| **EMI Nursing Homes** | | | | | |
| Management /Admin | £47.42 | 47.89 | 1% increase | | |
| Senior Care Staff | | £153.02 | 14 hours x £10.93 | | |
| Care Staff | £253.50 | 133.56 | 14 hours x £9.54 | | |
| Domestic Staff | £40.39 | 43.41 | NLW 4.17% on amended 16/17 rate (£41.68) | | |
| **Sub-total Nursing EMI Homes' Staff Costs** | **£341.31** | **£377.88** | | | |
| **TOTAL EMI NURSING** | **£573.58** | **£598.51** | | **£24.93** | **4.34%** |
| | | | | | |
| | | | | | |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **14 Chwefror 2017** |
| **Pwnc:** | **Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Dibreswyl yn y Gymuned - Ffioedd a Thaliadau 2017/18** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Aled Morris Jones** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Alwyn Rhys Jones - Pennaeth Gwasanaeth** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | **Dafydd Bulman - Rheolwr Busnes a Thrawsnewid Strategol**<br>**01248 752013** Dafyddbulman@ynysmon.gov.uk<br><br>**Delyth Ll Jones - Uwch Swyddog Cyllid**<br>**01248 752785** DelythJones@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | **Pob aelod** |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a Rheswm / Rhesymau

1. **Cefndir**

1.1 Mae'n arferol i adolygu'r ffioedd a godir mewn perthynas â gwasanaethau cartref bob blwyddyn i gyd-fynd ag adolygiad y Llywodraeth Ganolog o lefelau budd-daliadau a phensiwn a ddaw i rym eleni ar **01/04/17**

1.2 Mae'r adroddiad yn nodi taliadau a ffioedd a godir am ofal cymdeithasol dibreswyl yn y gymuned yn 2017/18 yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

2. **Adolygiad o Bolisïau ac Arferion Codi Tâl Lleol - 2017/18**

2.1 <u>Gwasanaethau Gofal Cartref</u>

2.2 Yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae Awdurdodau Lleol yn gosod isafswm incwm gweddilliol ar gyfer y flwyddyn i ddod. Fel y digwyddodd yn y blynyddoedd diwethaf, bydd angen i'r Awdurdod gadarnhau'r lefelau incwm gweddilliol a ganlyn ar ôl caniatáu ar gyfer byffer o 45% a'r cynnydd mewn lefelau budd-dal a phensiwn a ddaw i rym ar 01/04/17. Mae'r lefelau incwm gweddilliol a ddefnyddir yn ystod 2017/18 i'w gweld isod: -

- Pobl o Oedran Pensiwn: £ 231.06
- Pobl o dan Oedran Pensiwn: £ 153.19

2.3 Yn hanesyddol, pennwyd y taliadau a nodir yn nhabl 1 gan y Cyngor fel tâl cyffredinol a godir ar bob unigolyn sy'n derbyn Lwfans Gweini Uwch.

**Tabl 1 Taliadau Gofal Cartref Cyfredol:**

| Categori | Tâl 2016/17 |
|---|---|
| 1. Yn derbyn budd-dal sy'n seiliedig ar brawf modd – DIM yn derbyn Lwfans Gweini Uwch (£82.30) | DIM TÂL |
| 2. Yn derbyn budd-dal sy'n seiliedig ar brawf modd – YN DERBYN Lwfans Gweini Uwch (£82.30) | £ 15.00 |
| 3. Ddim yn derbyn budd-dal sy'n seiliedig ar brawf modd ac yn destun y lefel incwm gweddilliol | £ 60.00<br>(Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ymgynghori ynghylch codi hyn i £70 i ddod i rym yn Ebrill 2017) |

2.4 Cyflwynwyd adroddiad i'r pwyllgor sgriwtini ym mis Tachwedd 2016 yn argymell y dylid adolygu'r sefyllfa hon ac y dylid ymgynghori ag unigolion perthnasol mewn perthynas â dull bandio ar gyfer codi tâl ar unigolion sy'n derbyn Lwfans Gweini Uwch.

2.5 Mae'r strwythur codi tâl arfaethedig ar gyfer 2017/18 ac sy'n sail ar gyfer ein hymgynghoriad fel a ganlyn: -

**Tabl 2 – Taliadau Arfaethedig yn Ynys Môn ***

| **Os ydych dros oedran pensiwn ac yn derbyn incwm o £231.06 neu fwy ar hyn o bryd yn 2017/18** | **Taliadau wythnosol** | **Os ydych o dan oedran pensiwn ac yn derbyn incwm wythnosol o £153.19 neu fwy ar hyn o bryd yn 2017/18** |
|---|---|---|
| A'ch incwm yn llai na £236.05 yr wythnos | **DIM TÂL** | A'ch incwm yn llai na £158.18 yr wythnos |
| **A'ch incwm rhwng:** | | **A'ch incwm rhwng:** |
| £ 236.06 - £ 241.05 | **£ 5.00** | £ 158.19 - £ 163.18 |
| £ 241.06 - £ 242.44 | **£ 10.00** | £ 163.19 - £ 164.57 |
| £ 242.45 - £ 246.05 | **£ 11.39** | £ 164.58 - £ 168.18 |
| £ 246.06 - £ 261.05 | **£ 15.00** | £ 168.19 - £ 183.18 |
| £ 261.06 - £ 276.05 | **£ 30.00** | £ 183.19 - £ 198.18 |
| £ 276.06 - £ 286.70 | **£ 45.00** | £ 198.19 - £ 208.83 |
| £ 286.71 - £ 291.05 | **£ 55.65** | £ 208.84 - £ 213.18 |
| Incwm o £ 291.06 neu fwy neu gynilon o dros £ 24,000.00 | **£ 60.00** | Incwm o £ 213.19 neu fwy neu gynilon dros £24,000.00 |

* Mae'r ffigurau hyn ychydig bach yn wahanol i'r rhai a ddefnyddiwyd yn y ddogfen ymgynghori gan fod newidiadau budd-dal blynyddol a wneir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi eu cadarnhau ers i'r broses hon ddechrau.

2.6 Fel y nodwyd yn Nhabl 1, mae’n debygol y bydd cynnydd yn y tâl uchaf y gellir ei godi, sef o £60 i £70. Mae hyn yn debygol o ddod i rym ym mis Ebrill 2017.Mae'r cynnydd hwn yn o ganlyniad i argymhelliad gan Lywodraeth Cymru.

2.7 Mae'r tabl canlynol yn adlewyrchu newid hwn os caiff ei weithredu

| **Os ydych dros oedran pensiwn** gydag incwm wythnosol o £301.06 neu fwy neu gynilon o dros £24,000 | **Tâl Wythnosol £70.00** | **Os ydych o dan oed pensiwn** gydag incwm wythnosol o £223.19 neu fwy neu gynilon o dros £24,000 |
|---|---|---|

2.8 Fel rhan o'n hymgynghoriad gofynnwyd i bobl ystyried nifer o opsiynau ar gyfer newid y ffioedd a godir. Roedd 5 opsiwn ar gael i'r Cyngor ar gyfer pobl sy’n defnyddio’r gwasanaethau ar hyn o bryd:

1. Dim newid
2. Gweithredu'r dull bandio ar gyfer pobl sy'n newydd i'r gwasanaeth
3. Gweithredu’r dull bandio fesul cam - 50% y flwyddyn dros 2 flynedd (cynnydd graddol ar gyfer pobl sy’n derbyn gofal cartref ar hyn o bryd)
4. Gweithredu’r dull bandio fesul cam - 33% y flwyddyn dros 3 blynedd (cynnydd graddol ar gyfer pobl sy’n derbyn gofal cartref ar hyn o bryd).
5. Gweithredu’r dull bandio a argymhellir o 1/4/2017.

2.9 Mae opsiwn 3 yn cynhyrchu £62.5k o incwm ychwanegol y flwyddyn dros 2 flynedd. Mae Opsiwn 4 yn cynhyrchu £41.6k o incwm ychwanegol y flwyddyn dros 3 blynedd ac Opsiwn 5 yn cynhyrchu £125k o incwm ychwanegol yn 2017/18.

2.10 Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 8 Rhagfyr, 2016 ac 13 Ionawr 2017. Derbyniwyd 82 o holiaduron. Mae’r adborth a dderbyniwyd yn dangos:

- Dywedodd 66% o bobl na fyddent yn ystyried rhoi’r gorau i ddefnyddio’r gwasanaeth os oedd raid iddynt dalu mwy amdano. Dywedodd 3% (3 o bobl) y byddent yn ystyried rhoi'r gorau i ddefnyddio’r gwasanaeth pe baent yn gorfod talu mwy.
- ‘Roedd 56% o bobl yn ffafrio Opsiwn 1 - dim newid; 20% yn ffafrio opsiwn 4 – gweithredu’r cynnydd yn raddol dros 3 blynedd a 10% yn ffafrio cyflwyno’r dull bandio’n syth yn Ebrill 2017.
- ‘Roedd 61% yn cytuno gyda'r datganiad *"Rwy'n deall pam mae Adran Gwasanaethau Oedolion Cyngor Sir Ynys Môn yn cynnig y newidiadau hyn i daliadau. Byddai'r newidiadau a argymhellir (os cânt eu cymeradwyo) yn golygu y bydd pobl sy'n gallu fforddio gwneud hynny yn cyfrannu tuag at eu gofal ac y bydd y ffioedd am y gwasanaeth yn decach i bawb ".*
- Mae 38% o bobl yn dweud nad ydynt yn siŵr sut y gallai'r newidiadau a gynigir effeithio arnynt. Mae 30% yn dweud y bydd y newidiadau yn cael effaith fach arnynt ac 18% (15 o bobl) yn dweud y bydd y newidiadau arfaethedig yn effeithio’n sylweddol arnynt.

2.11 Os gweithredir opsiynau 3, 4 neu 5 cwblheir adolygiad ariannol llawn o’r bobl sy'n derbyn gofal cartref ar hyn o bryd a rhoddir cyfnod rhesymol o rybudd o’r ffioedd uwch.

2.12 Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 yn dweud y dylai unrhyw dâl a godir am ofal fod yn gyson, yn deg ac yn hawdd i’w ddeall ac na ddylai pobl y gofynnir iddynt dalu ond fod yn talu’r hyn y gallant ei fforddio.

2.13 Ar ôl rhoi sylw dyledus i ganlyniad yr ymgynghoriad a chan gyfeirio at y fframwaith asesu ariannol a chodi tâl a gyflwynwyd gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, mae'r adran yn argymell y dylid gweithredu **Opsiwn 5**.

2.14 Mae opsiwn 5 yn caniatáu trefniant tecach ar gyfer codi tâl yn y tymor byr, ac yn darparu incwm ychwanegol i’r Cyngor a fydd o gymorth i ddarparu’r gwasanaethau statudol.

2.15 Os bydd unrhyw unigolyn yn gwrthod gwasanaethau yn y dyfodol, bydd yr adran yn cyfeirio'r fath achosion am gymorth gwaith cymdeithasol i ystyried opsiynau cymorth parhaus

2.16 Os bydd unrhyw unigolyn yn dweud na allant fforddio'r cynnydd yn y taliadau, gallant apelio yn erbyn yr asesiad ariannol. Mewn achosion o'r fath, bydd y Pennaeth Gwasanaeth yn gallu ystyried a oes amgylchiadau eithriadol ac yn ystyried a oes cyfiawnhad dros ganiatáu eithriad llawn neu rannol.

## 3.0 <u>Prydau mewn Gwasanaethau Dydd</u>

3.1 Mae'r tâl hwn yn berthnasol i brydau a lluniaeth a ddarperir ym mhob lleoliad Gwasanaeth Dydd.

3.2 Cynigir yr egwyddorion canlynol: -

- Cynnydd o 3% mewn perthynas â darparu prydau bwyd / lluniaeth.

3.3 Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r taliadau arfaethedig.

**<u>Tabl 3: Darparu Prydau 2017/18 Taliadau Arfaethedig</u>**

| | Ffioedd 2016/17 | 2017/18 (Ffioedd Arfaethedig) |
|---|---|---|
| Prydau mewn Gwasanaethau Dydd i oedolion (ac eithrio pobl ag | £ 5.50 | £ 5.70 * |

| | | |
|---|---|---|
| Anabledd Dysgu) | | |
| Byrbryd canol dydd mewn gwasanaethau dydd i bobl ag Anabledd Dysgu | £ 2.25 | £ 2.30 * |
| Lluniaeth Arall (te / coffi / teisen) mewn gwasanaethau dydd | £ 1.25 | £ 1.30 * |

** Mae'r ffioedd a gynigir ar gyfer 2017/18 wedi eu rowndio i fyny i'r sero agosaf er mwyn lleihau costau gweinyddol.*

## 4.0 Ffioedd teleofal

4.1 Rhaid cymryd y ffactorau canlynol i ystyriaeth wrth benderfynu tâl teg am y gwasanaeth Teleofal:

- Cyfraniad yr Awdurdod Lleol i'r Gwasanaeth Galw Gofal Rhanbarthol;
- Taliadau cynnal a chadw;
- Costau offer teleofal;
- Costau Cyllid a Gweinyddiaeth;
- Costau gosod;
- Costau offer ailgylchu;
- Costau archwiliadau Iechyd a Diogelwch gweledol bob chwe mis;
- Effaith ar fusnes cyfredol.
- Trawsnewid Gwasanaethau Oedolion.

4.2 Teleofal: Ffioedd Arfaethedig yn 2017/18

4.3 Mae trefniadau codi tâl hanesyddol yn golygu bod Cyngor Sir Ynys Môn erbyn hyn yn codi tâl gwahanol am yr un lefel o gymorth – nid yw hyn yn deg nac yn gyson i bawb. Yr argymhelliad yw y dylid codi ffi sefydlog ar gyfer pawb sy'n derbyn Gwasanaethau Teleofal, a hefyd ar gyfer darparu a gosod mân-offer megis rheiliau llaw. Cyflwynwyd adroddiad i'r pwyllgor sgriwtini ym mis Tachwedd 2016 yn argymell y dylid adolygu'r sefyllfa hon ac yn argymell cyfnod ymgynghori gydag unigolion perthnasol.

**Tabl 4: Taliadau Teleofal Arfaethedig yn 2017/18**

| | |
|---|---|
| **Haen 1**<br>Offer, gwasanaeth a chynnal a chadw (uned, larwm gwddf a larymau mwg) | Bydd pawb yn talu £45.24 y chwarter<br><br>(£ 3.48 yr wythnos) |

| | |
|---|---|
| **Haenau 2 a 3**<br>Offer, gwasanaeth, monitro a chynnal a chadw<br>(Offer heblaw uned, larwm gwddf a larymau mwg) | Bydd pawb yn talu £90.22 y chwarter<br><br>(£ 6.94 yr wythnos) |

4.4 Ffioedd Teleofal Blynyddol - cynnydd o 3% ar gyfer 2017/18

**Tabl 5 – Ffioedd Teleofal Blynyddol ar gyfer 2017/18**

| | Ffioedd 2016/17 | 2017/18<br>(Ffioedd Arfaethedig) |
|---|---|---|
| Gwasanaeth a Chynnal a Chadw | £ 101.40 | £ 104.44 |
| Gwasanaethau yn unig | £ 65.52 | £ 67.49 |
| Costau Gosod unwaith ac am byth | £ 40.52 | £ 41.74 |

4.5 Ni fydd unrhyw newidiadau i becynnau a ariennir y llawn neu'n rhannol gan y Rhaglen Cefnogi Pobl a chynhelir adolygiad pellach yn 2017/18.

4.6 Mae gan y Cyngor 4 opsiwn:

1. Dim newid
2. Gweithredu'r cynnydd yn raddol, sef 33% y flwyddyn dros 3 blynedd - cynnydd i rai o hyd at £ 8 y chwarter yn 2017/18, cynnydd ychwanegol wedyn o £ 8 y chwarter yn 2018/19 a £ 8 y chwarter ychwanegol wedyn yn 2019/20. (Cynnydd o £ 31 y flwyddyn ar y mwyaf am bob un o'r tair blynedd. Ar ddiwedd y tair blynedd bydd pawb yn talu'r un swm ar gyfer yr un lefel o wasanaeth).
3. Gweithredu'r cynnydd yn raddol, sef 50% y flwyddyn dros 2 flynedd - cynnydd i rai o hyd at £ 12.50 y chwarter yn 2017/18 (hyd at £ 50 y flwyddyn) a £ 12.50 ychwanegol y chwarter wedyn yn 2018/19 (hyd at £ 50 y flwyddyn).
4. Peidio gweithredu'r cynnydd yn raddol ac ail alinio'r holl daliadau ar gyfer 2017/18 - cynnydd o lai na £ 24 y chwarter ar y mwyaf i rai (£ 93 y flwyddyn) i ddod i rym ym mis Ebrill 2017.

4.7 Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y newidiadau arfaethedig i'r ffioedd teleofal rhwng 8 Rhagfyr, 2016 ac 13 Ionawr 2017. Derbyniwyd 174 o holiaduron:

- Ni fyddai 69% o bobl yn ystyried rhoi'r gorau i ddefnyddio'r gwasanaeth os byddai'n rhaid talu mwy amdano ond dywedodd 15% (27 o bobl) y byddent yn

ystyried rhoi'r gorau i ddefnyddio'r gwasanaeth pe bai'n rhaid iddynt dalu mwy.

- 'Roedd 40% yn ffafrio Opsiwn 1 - dim newid; 33% yn ffafrio opsiwn 3 - dull gweithredu fesul cam dros 2 flynedd; a 19% yn ffafrio opsiwn 2, gweithredu fesul cam dros gyfnod o 2 flynedd.
- Cytunodd 73% gyda'r datganiad: *"Rwy'n deall pam mae Adran Gwasanaethau Oedolion Cyngor Sir Ynys Môn yn cynnig y newidiadau hyn i ffioedd. Byddai'r newidiadau a argymhellir (os cânt eu cymeradwyo) yn golygu y bydd pobl yn talu'r un faint am yr un gwasanaeth fel ei fod yn decach i bawb ".*
- 'Roedd 43% o bobl yn credu y byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael effaith fach arnynt; 18% (30 o bobl) yn credu y byddant yn cael eu heffeithio'n sylweddol ac 'roedd 13% yn ansicr ynghylch effaith y newidiadau arnynt.

4.8 Yr opsiwn a argymhellir ac a ffefrir gan yr Adran yw Opsiwn 3

**5.0 Taliadau uniongyrchol**

5.1 Mae Taliadau Uniongyrchol yn galluogi unigolion i brynu drostynt eu hunain y gwasanaethau y byddai'r Awdurdod Lleol wedi eu darparu ar eu cyfer fel arall. Mae Taliadau Uniongyrchol yn cefnogi byw'n annibynnol drwy alluogi unigolion i wneud eu penderfyniadau eu hunain a bod â rheolaeth dros eu bywydau eu hunain. Yng Nghymru, mae'r Cynllun wedi cael ei ymestyn yn raddol i gynnwys: -

- Pobl hŷn
- Gofalwyr
- Rhieni Plant ag Anableddau
- Oedolion ag Anableddau

5.2 Pennir cyfradd Taliad Uniongyrchol o £ 10.50 yr awr ar gyfer 2017/18. Cynhelir adolygiad llawn o'r gyfradd hon yn ystod 2017/18

**6.0 Moderneiddio'r Cynllun Bathodyn Glas yng Nghymru**

6.1 Argymhellir codi tâl o £ 10 am bob bathodyn mewn perthynas â bathodynnau sefydliadol a bathodynnau newydd (yn lle rhai a gollwyd neu a gafodd eu dwyn) ar gyfer 2017/18.

**7.0 Prynu Gwasanaethau Gofal Dydd mewn Cartrefi Gofal Preswyl Annibynnol**

7.1 Y ffi am brynu gwasanaethau dydd yn 2016/17 oedd £ 30.37. 'Rydym yn cynnig cynnydd o 3% yn y ffi i £ 31.28 i fod yn gyson gyda chynnydd yn nhaliadau'r Cyngor. Bydd y cynnydd hwn o gymorth i sicrhau cynaliadwyedd a pharhad gwasanaethau gofal dydd a brynir o gartrefi gofal preswyl annibynnol, ac er mwyn cwrdd ag anghenion unigol y defnyddwyr gwasanaeth.

**8.0 Ffioedd Gofal Cartref**

8.1 Ar hyn o bryd mae’r adran gofal cymdeithasol i oedolion yn comisiynu gofal cartref gan y sector annibynnol ar gost uned o £ 15.50 yr awr neu ran o awr. Mae angen cydnabod pwysau o fewn y sector hwn yn 2017/18 yr un fath â’r pwysau o fewn y sector gofal preswyl. Mae'r rhan fwyaf o'r pwysau’n ymwneud â chostau cyflogaeth. Byddai hynny’n golygu y byddai’n rhaid codi’r ffi i £ 15.90. Mae'r cynnydd hwn yn cydnabod y newidiadau yn y cyflog byw (£ 7.20 i £ 7.50) a 10c i dalu gorbenion y cyflogwyr.

8.2 Mae'r ffi a delir i unigolion sy’n cynorthwyo unigolion ag anabledd dysgu yn amrywio ar hyn o bryd. Ar gyfer 2017/18 ‘rydym yn bwriadu cynnig cyfradd sylfaenol o £ 14.50 i’r holl ddarparwyr a chytuno cyfradd ar gyfer rhai pecynnau eraill ar sail unigol .Yn ystod y flwyddyn rydym yn bwriadu gweithio gyda darparwyr i gytuno ar gyfradd gyson ar gyfer y blynyddoedd i ddod

**Argymhellion**

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r: -

A1 Ffioedd gofal cartref a amlinellir yn nhabl 2.

A2 Mabwysiadu'r argymhelliad fel yr amlinellwyd yn 2.13 i weithredu'r trefniadau bandio newydd ar gyfer gofal cartref yn 2017/18

A3 Ffioedd ar gyfer prydau mewn gwasanaethau dydd a amlinellir yn nhabl 3.
Prydau mewn Gwasanaethau Dydd i oedolion (ac eithrio pobl ag Anabledd Dysgu) - £5.70
Byrbryd canol dydd mewn gwasanaethau dydd i bobl ag Anabledd Dysgu - £ 2.30
Lluniaeth Arall (te / coffi / teisen) mewn gwasanaethau dydd - £ 1.30

A4 Ffioedd ar gyfer gwasanaethau Teleofal fel yr amlinellwyd yn nhabl 4.
Haen 1 – bydd pawb yn talu £ 45.24
Haenau 2 a 3 – bydd pawb yn talu £ 90.22

A5 Mabwysiadu'r argymhelliad fel yr amlinellwyd yn 4.7 i weithredu’r codiadau y cytunwyd arnynt o dan argymhelliad 4 ar sail raddol, sef 50% dros ddwy flynedd.

A6 Cyfradd o £ 10.50 / awr ar gyfer Taliadau Uniongyrchol fel yr amlinellir ym mharagraff 5.2 uchod.

A7 Ffi o £ 10.00 ar gyfer costau gweinyddu mewn perthynas â cheisiadau am Fathodyn Glas ac i ddarparu bathodynnau newydd yn lle rai a gollwyd neu a gafodd eu dwyn - fel yr amlinellir ym mharagraff 5.2 uchod

A8 Cynnydd o 3% yn y ffi am brynu gwasanaethau gofal dydd mewn cartrefi preswyl annibynnol i £31.28

A9 Cytuno i gynyddu’r ffioedd a delir ar gyfer gofal cartref a gomisiynwyd o £ 15.50 i

| |
|---|
| £ 15.90 yr awr.<br><br>A10 Cynnig cyfradd sylfaenol o £ 14.50 i'r holl ddarparwyr am becynnau Anabledd Dysgu a chytuno pecynnau ar sail unigol ar gyfer 17/18. |

| **B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Mae'r opsiynau a nodir yn gyson â dull cyffredinol y Cyngor o weithredu mewn perthynas â ffioedd a thaliadau yn 2016/17. |

| **C - Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae gan benderfyniadau ar ffioedd a thaliadau oblygiadau ariannol i gyllideb yr Awdurdod Lleol o ran incwm a dderbynnir a fforddiadwyedd taliadau a wneir yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni. |

| **CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi |

| **D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (Gorfodol) | Cefnogol o'r adroddiad pan gafodd ei gyflwyno i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ar y 16/1/2017 |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (Gorfodol) | Cefnogol o'r adroddiad pan gafodd ei gyflwyno i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ar y 16/1/2017 |
| **3** | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** (Gorfodol) | Cefnogol o'r adroddiad pan gafodd ei gyflwyno i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ar |

| | | |
|---|---|---|
| | | y 16/1/2017 |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Caffael** | |
| 8 | **Sgriwtini** | |
| 9 | **Aelodau lleol** | |
| 10 | **Unrhyw gorff / gyrff allanol / arall / eraill** | |

| **E - Risgiau ac unrhyw liniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrth-dlodi** | |
| 3 | **Troseddau ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | Mae Asesiad llawn o'r effaith ar Gydraddoldebau wedi ei ddrafftio ar gyfer y ffioedd teleofal a gofal cartref ac fe'i cwblheir yn derfynol cyn i'r Pwyllgor Gwaith gyfarfod ym mis Chwefror. |
| 6 | **Cytundebau Canlyniadau** | |
| 7 | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| |

| **Papurau cefndir (cysylltwch â'r awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach) - FF:** |
|---|
| |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **14 CHWEFROR 2017** |
| **PWNC:** | **CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOL A'R GYLLIDEB 2017/18** |
| **DEILYDD (ION) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD HE JONES** |
| **PENNAETH Y GWASANAETH:** | **MARC JONES (EST. 2601)** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>FFÔN:<br>E-BOST: | **Marc Jones**<br>**2601**<br>**rmjfi@ynysmon.gov.uk** |
| **AELODAU LLEOL:** | **d/b** |

**A - Argymhelliad / argymhellion a rheswm / rhesymau**

## 1. CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOL A'R GYLLIDEB 2017/18

### 1.1 Pwrpas

Mae gofyn i'r Pwyllgor Gwaith gytuno ar nifer o faterion allweddol mewn perthynas â chyllideb 2017/18. Bydd hyn wedyn yn caniatáu i'r argymhellion terfynol gael eu cyflwyno i'r Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror, 2017. Y materion y mae angen cytuno arnynt yw: -

- Cyllideb Refeniw'r Cyngor a'r Dreth Gyngor ar gyfer 2017/18 yn sgil hynny;
- Strategaeth Ariannol ddiweddaredig y Cyngor ar gyfer y Tymor Canol;
- Defnydd o arian unwaith ac am byth i gefnogi'r gyllideb.

### 1.2 Crynodeb

Mae'r papur hwn yn dangos y cynigion manwl ar gyfer y gyllideb refeniw y mae angen eu hadolygu a'u cytuno arnynt yn derfynol ar gyfer 2017/18 ac effaith ddilynol hynny ar gyllideb refeniw Cyngor Sir Ynys Môn. Mae'r rhain yn faterion i'r Cyngor gytuno arnynt a gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith wneud argymhellion terfynol i'r Cyngor.

Mae hefyd yn diweddaru'r Strategaeth Ariannol ar gyfer y Tymor Canol sy'n darparu cyd-destun ar gyfer gwaith ar gyllidebau'r Cyngor yn y dyfodol. Fodd bynnag, dylid nodi y bydd adroddiad pellach ar Strategaeth Ariannol y Cyngor ar gyfer y Tymor Canol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith yn ddiweddarach yn y flwyddyn pan fydd gwybodaeth bellach ar yr economi a'r setliad arfaethedig i lywodraeth leol ar gyfer y dyfodol yn gliriach.

## 2. ARGYMHELLION YNGHYLCH Y GYLLIDEB REFENIW A'R DRETH GYNGOR 2017/18

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith: -

- Nodi'r cyfarfodydd ymgynghori ffurfiol ar y gyllideb ac ystyried yr adborth a gafwyd yn sgil hynny ac fel yr amlinellir yn Adran 2 Atodiad 1 ac Atodiad 2;
- Nodi'r crynodeb yn Adran 11 ar oblygiadau'r cynigion cyllidebol o safbwynt cydraddoldebau;
- Cytuno ar fanylion terfynol cyllideb arfaethedig y Cyngor gan gynnwys y cyllid diwygiedig mewn ymateb i'r pwysau ar y gyllideb a'r arbedion arfaethedig fel y'u dangosir yn Adran 10 Atodiad 1 ac Atodiad 3;

- Dyrannu'r arbedion sydd eu hangen o ran cyllidebau ysgolion i'r 3 sector ysgolion fel yr amlinellir yn Adran 12 Atodiad 1;

- Nodi argymhelliad y Swyddog Adran 151 bod o leiaf £6m yn cael ei gadw ym malansau'r Gronfa Gyffredinol ar gyfer 2017/18;

- Nodi'r sylwadau a wnaed gan y Swyddog Adran 151 ar gadernid yr amcangyfrifon a wnaed fel y cânt eu hamlinellu yn Adran 8 Atodiad 1;

- Argymell cyllideb net ar gyfer y Cyngor Sir a'r cynnydd yn lefel y Dreth Gyngor o ganlyniad, gan nodi y bydd penderfyniad ffurfiol,yn cynnwys y Praeseptau i Heddlu Gogledd Cymru a'r Cynghorau Cymuned yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar 28 Chwefror, 2017;

- Awdurdodi'r Swyddog Adran 151 i wneud unrhyw newidiadau a all fod yn angenrheidiol cyn cyflwyno'r cynigion terfynol i'r Cyngor;

- Cytuno fod unrhyw gyllidebau a arweinir gan y galw ac y ceir pwysau annisgwyl arnynt yn ystod y flwyddyn ariannol, yn gallu tynnu ar gyllid o'r cyllidebau wrth gefn cyffredinol;

- Gofyn i'r Cyngor awdurdodi'r Pwyllgor Gwaith i ryddhau hyd at £250k o'r balansau cyffredinol os bydd y gyllideb wrth gefn gyffredinol wedi'i hymrwymo'n llawn yn ystod y flwyddyn;

- Dirprwyo i'r Swyddog Adran 151 y pwer i ryddhau hyd at £50k o'r gronfa wrth gefn gyffredinol ar gyfer unrhyw un eitem. Ni chaniateir cymeradwyo unrhyw eitem dros £50k heb gael caniatâd ymlaen llaw gan y Pwyllgor Gwaith;

- Argymell cynnydd o 2.5% yn y Dreth Gyngor i'r Cyngor llawn.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Ystyriwyd nifer o opsiynau yn dilyn rhyddhau'r cynigion cychwynnol ar gyfer y gyllideb. Mae'r cynigion terfynol ar gyfer y gyllideb yn cymryd i ystyriaeth y setliad terfynol i lywodraeth leol, y sylwadau a gafwyd yn ystod y broses ymgynghori a barn y Pwyllgor Sgriwtini.

**C - Pam fod y penderfyniad hwn yn un i'r Pwyllgor Gwaith?**

Yn unol â'r Cyfansoddiad, rhaid i'r Pwyllgor Gwaith gyhoeddi ei gynnig terfynol ar gyfer y gyllideb cyn iddo gael ei ystyried gan y Cyngor.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

D/B

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

D/B

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth wnaethon nhw ei ddweud? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Tîm Strategol Arweinyddiaeth (UDA)** (gorfodol) | Mae'r Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth wedi bod yn rhan o'r broses o osod y gyllideb ar ei hyd ac maent yn cytuno gyda'r adroddiad ac yn cefnogi'r cynnig terfynol ar gyfer y gyllideb |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | D/B - y Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad |
| 3 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** (gorfodol) | Mae'r Swyddog Monitro yn aelod o'r UDA ac o'r herwydd, mae sylwadau'r swyddog wedi cael eu cymryd i ystyriaeth. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | - |
| 5 | **Eiddo** | - |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | Ystyriwyd y cynigion terfynol ar gyfer y gyllideb gan y Pwyllgor Sgriwtini yn ei gyfarfod ar 6 Chwefror 2017. Caiff diweddariad ei ddarparu mewn adroddiad ar wahân. |
| 8 | **Aelodau lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | |
| **E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrth-dlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |
| **F - Atodiadau:** | | |

- Atodiad 1 – Adroddiad manwl ar y Cynigion ar gyfer y Gyllideb
- Atodiad 2 – Crynodeb o Ganlyniadau'r Broses Ymgynghori
- Atodiad 3 - Dadansoddiad o'r Arbedion Arfaethedig
- Atodiad 4 – Crynodeb o'r Gyllideb Refeniw Arfaethedig ar gyfer 2017/18 fesul Gwasanaeth

**FF - Papurau cefndir (cysylltwch â'r awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

## 1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

**1.1.** Mae'r adroddiad canlynol yn nodi'r cynigion ar gyfer cyllideb refeniw 2017/18 ac mae'n un o gyfres o adroddiadau sy'n rhoi darlun cyffredinol o sefyllfa ariannol y Cyngor ac yn sicrhau bod y cyllid sydd gan y Cyngor yn cael ei ddyrannu i fodloni ei flaenoriaethau. Mae'r adroddiadau eraill sy'n ffurfio rhan o gyfres o adroddiadau yn ymwneud â Rhaglen Gyfalaf y Cyngor, Strategaeth y Cyngor ar gyfer Rheoli'r Trysorlys, Ffioedd a Thaliadau a Defnyddio Cronfeydd Wrth Gefn y Cyngor.

**1.2.** Mae'r gyllideb refeniw a'r angen parhaus i ddod o hyd i arbedion refeniw wedi cael ei yrru gan y Strategaeth Ariannol ar gyfer y Tymor Canol. Gellir crynhoi'r Strategaeth a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2016 fel a ganlyn: -

**Tabl 1**

**Cynllun Ariannol ar gyfer y Tymor Canol 2017/18 i 2019/20**

| | **2017/18<br>£ 'm** | **2018/19<br>£ 'm** | **2019/20<br>£ 'm** |
|---|---:|---:|---:|
| Cyllideb Refeniw Net D / Y | 124.04 | 124.45 | 123.40 |
| Pwysau Cyllideb a Chwyddiant | 3.90 | 0.84 | 1.72 |
| **Cyllideb ddiwygiedig** | **127.94** | **125.29** | **125.12** |
| Cyllid Allanol Cyfun | 91.38 | 89.00 | 86.60 |
| Y Dreth Gyngor | 33.07 | 34.40 | 35.77 |
| **Cyfanswm y Cyllid** | **124.45** | **123.40** | **122.37** |
| | | | |
| **Arbedion Angenrheidiol** | **3.49** | **1.89** | **2.75** |
| **Prif Ragdybiaethau** | | | |
| Dyfarniadau cyflog | 1.0% | 1.0% | 1.5% |
| Chwyddiant cyffredinol | 1.0% | 2.0% | 2.4% |
| Gostyngiad Cyllid Allanol Cyfun | -0.6% | -2.6% | -2.7% |
| Cynnydd yn y Dreth Gyngor | 3.0% | 4.0% | 4.0% |

**1.3.** Cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith ei gynigion cychwynnol ar gyfer y gyllideb yn ei gyfarfod at 7 Tachwedd 2016 a chymeradwywyd gosod y gyllideb ddigyfnewid ar £128.26m ac yn seiliedig ar y setliad dros dro a chynnydd o 3% yn y Dreth Gyngor, nodwyd mai £ 2.9m oedd y bwlch cyllidebol a bod y lefel hon o arbedion wedi cael ei nodi.

## 2. YMGYNGHORIAD Y CYNGOR

**2.1.** Cyhoeddodd y Cyngor ei gynigion ar gyfer y gyllideb ar 11 Tachwedd 2016 a daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 16 Rhagfyr 2016. Gofynnwyd i ddinasyddion, partneriaid, cydranddeiliaid a staff ymateb i'r ymgynghoriad drwy wahanol ddulliau gan gynnwys: -

Arolygon ar-lein;

- Arolwg ar-lein yn benodol i bobl ifanc
- Ysgrifennu llythyr neu anfon e-bost at y Cyngor.

Yn ogystal, cynhaliodd y Cyngor:-

- 7 o grwpiau ffocws ar gyfer pobl ifanc dan 25 oed;
- Fforwm Pobl Hŷn;
- Sesiwn gyda Phrif Athrawon ac Uwch Reolwyr Ysgolion;
- Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned;
- Fforwm Partneriaeth (yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân, Iechyd, Cynghorau Tref a Chymuned, Trydydd Sector).

**2.2.** Mae canlyniadau'r broses ymgynghori ynghlwm yn Atodiad 2.

## 3. Y GYLLIDEB DDISYMYD DDIWYGIEDIG AR GYFER 2017/18 A'R BWLCH CYLLIDEBOL

**3.1.** Ers cwblhau'r cynnig cychwynnol ar gyfer y gyllideb, gwnaed ychwaneg o waith i adolygu a diwygio'r gyllideb ddisymyd ar gyfer 2017/18. Mae hyn wedi arwain at nifer o newidiadau a manylir ar y rhain yn Nhabl 2 isod: -

**Tabl 2**

**Addasiadau i'r Gyllideb Ddisymyd**

| | £'m | £'m |
|---|---|---|
| **Y Gyllideb Ddisymyd fel yr oedd ar 7 Tachwedd 2016** | | **128.259** |
| Grantiau a Chyfrifoldebau Newydd a oedd wedi eu cynnwys yn y Setliad Terfynol | 0.163 | |
| Ardoll y Gwasanaeth Tân – Addasiad Terfynol | 0.012 | |
| Addasiad i Gyllid yr UPCC wedi ei gynnwys fel newid yr ymrwymwyd iddo | 0.125 | |
| Gweddarlledu Cyfarfodydd y Cyngor | 0.010 | |
| Cywiro Chwyddiant ar Gyllidebau Incwm | (0.022) | |
| Addasu Costau Cyllido Cyfalaf | (0.705) | |
| Cynnwys Cronfa Wrth Gefn ar gyfer Digwyddiadau Unwaith ac am Byth | 0.030 | |
| Cyfanswm yr Addasiadau i'r Gyllideb Ddisymyd | | (0.387) |
| **Y Gyllideb Ddisymyd Ddiwygiedig fel yr oedd ar 14 Chwefror 2017** | | **127,872** |

**3.2.** Cafodd ffigrau'r setliad terfynol eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ar 21 Rhagfyr 2016. Ar draws Cymru, gwelwyd cynnydd o £23.631m yn yr Asesiad Gwariant Safonol, fodd bynnag, gwelwyd cynnydd hefyd o £16.772m yn y Dreth Gyngor a ragwelwyd ynghyd â gostyngiad o £0.658m yn y cyllid ar gyfer topio i fyny. O ganlyniad, cynyddodd y Cyllid Allanol Cyfun (AEF) ar gyfer Cymru gan £6.20m o gymharu â'r ffigwr yn y setliad dros dro gyda hynny'n ei dro yn newid ffigwr AEF y Cyngor, gyda'r ffigwr terfynol yn £92.652m, cynnydd o £0.364m o gymharu â'r ffigwr dros dro.

**3.3** Mae'r Cyngor wedi penderfynu gosod premiwm o 25% ar dai sydd wedi eu dynodi fel rhai gwag (h.y. sydd wedi bod yn wag am gyfnod hwy na'r cyfnod eithrio) a thai a ddynodir fel ail gartrefi i drethdalwyr y Cyngor. Byddai'r premiwm hwn, ynghyd â chynnydd 3% yn y Dreth Gyngor, yn creu £33.67m. Felly, byddai cyfanswm y cyllid sydd ar gael i'r Cyngor yn £126.32m, diffyg o £1.552m.

**3.4** I bontio'r bwlch cyllido gyda'r Dreth Gyngor yn unig, byddai angen ei chynyddu 7.75%.

## 4. ARBEDION CYLLIDEB REFENIW

**4.1.** Yn ei gynigion cychwynnol ar gyfer y gyllideb, nodwyd ac ymgynghorwyd ar gyfanswm o £2.9m o arbedion refeniw. Roedd y cynigion unigol ar gyfer arbedion wedi cael eu hadolygu ymhellach gan y Tîm Cyfrifeg a'r Rheolwyr Gwasanaeth. Canfuwyd yn yr adolygiad na fyddai modd cyflawni gwerth £0.314m o'r arbedion cychwynnol yn ystod 2017/18.

**4.2** Mae'r cynigion ar gyfer arbedion yn y Gwasanaeth Ieuenctid (£90k) a'r Gwasanaeth Llyfrgell (£30k) yn dibynnu ar benderfyniad a fydd yn cael ei wneud ar ôl i'r Pwyllgor Gwaith gyfarfod i gwblhau'n derfynol ei gynigion ar gyfer cyllideb 2017/18. Mae'r arbedion hyn wedi cael eu cynnwys a bydd y gyllideb yn cael ei haddasu unwaith y bydd penderfyniad terfynol ynghylch y ddarpariaeth o wasanaethau yn y dyfodol wedi cael ei wneud. Bydd hyn yn arwain at gyfraniad i neu o gronfa wrth gefn gyffredinol y Cyngor yn 2017/18 a bydd y gyllideb yn cael ei hailddatgan yn 2018/19.

**4.3** Mae cyfanswm o £153k o gynigion ar gyfer arbedion wedi eu nodi fel rhai y mae angen gwneud gwaith pellach arnynt cyn y gellir eu cyflawni. Nid oes dim ar y funud i awgrymu na fydd modd cyflawni'r arbedion ond mae'n bosibl na fyddant wedi cael eu gweithredu erbyn 1 Ebrill 2017. Mae hyn yn peri risg i'r gyllideb ac fe drafodir hynny'n nes ymlaen yn yr adroddiad.

**4.4**. Mae cynigion wedi cael eu cyflwyno ar gyfer arbedion terfynol a fydd werth £2.586m. Ceir crynodeb fesul gwasanaeth yn Nhabl 3 isod a chrynodeb fesul categori yn Nhabl 4.

**Tabl 3**

**Crynodeb o'r Cynigion ar gyfer Arbedion gan Wasanaethau**

| Gwasanaeth | Cynigiwyd £'000 | I'w gweithredu £'000 | Ddim yn Bosibl i'w Gweithredu £'000 |
|---|---|---|---|
| Oedolion | 574 | 559 | 15 |
| Plant | 0 | 0 | 0 |
| Tai | 41 | 41 | 0 |
| Addysg - Canolog | 340 | 279 | 61 |
| Addysg – Wedi ei ddatganoli i Ysgolion | 990 | 876 | 114 |
| Diwylliant | 89 | 87 | 2 |
| Hamdden | 56 | 56 | 0 |
| Economaidd a Morwrol | 30 | 25 | 5 |
| Priffyrdd a Thrafnidiaeth | 77 | 77 | 0 |
| Eiddo | 282 | 230 | 52 |
| Gwastraff | 56 | 32 | 24 |
| Gwarchod y Cyhoedd | 52 | 52 | 0 |
| Cynllunio | 54 | 54 | 0 |
| Busnes y Cyngor | 18 | 18 | 0 |
| Trawsnewid | 120 | 79 | 41 |
| Adnoddau | 121 | 121 | 0 |
| **Cyfanswm** | **2,900** | **2,586** | **314** |

**Tabl 4**

**Crynodeb o'r Arbedion yn ôl Categori**

| Categori arbedion | Cynigiwyd £'000 | I'w gweithredu £'000 | Ddim yn Bosibl i'w Gweithredu £'000 |
|---|---|---|---|
| Rhoi'r Gorau / Trosglwyddo Gwasanaeth | 167 | 135 | 32 |
| Dileu swyddi gweigion / swyddi nad oes eu hangen | 126 | 86 | 40 |
| Ailstrwythuro Staff | 266 | 214 | 52 |
| Arbedion Effeithlonrwydd cyffredinol | 710 | 710 | 0 |
| Arbedion Caffael | 220 | 220 | 0 |
| Gostyngiad yng Ngostau Ysgolion (dim yn gysylltiedig â dysgu) | 330 | 216 | 114 |
| Gostyngiad mewn Grantiau | 37 | 37 | 0 |
| Creu Incwm | 504 | 443 | 61 |
| Trawsnewid Gwasanaethau | 540 | 525 | 15 |
| **Cyfanswm** | **2,900** | **2,586** | **314** |

**4.5** Mae'r gyllideb arfaethedig yn cynnwys darpariaeth wrth gefn o £300k a fydd yn cwrdd ag unrhyw gostau diswyddo'n codi o ailstrwythuro strwythurau staffio. Bydd unrhyw gynnig i ailstrwythuro strwythurau staffio sy'n arwain at dalu taliadau diswyddo'n gorfod dangos y byddai'n arwain at arbedion parhaol yn y gyllideb sydd yn uwch na chost y diswyddiad dros gyfnod o amser y cytunwyd arno.

**4.6.** Felly, gan gymryd i ystyriaeth lefel ddiwygiedig yr arbedion, dangosir y sefyllfa o ran y gyllideb ddiwygiedig yn Nhabl 5 isod:-

**Tabl 5**

**Sefyllfa'r Gyllideb Ddiwygiedig ar ôl gwneud Arbedion**

| | £'m |
|---|---|
| Cyllideb Ddisymyd fel yr oedd ar 14 Chwefror 2017 | 127.872 |
| Arbedion a Nodwyd | (2.586) |
| **Y Gyllideb Refeniw Ddiwygiedig ar ôl Arbedion** | **125.286** |
| Cyllid Allanol Cyfun | (92.652) |
| **Y Gofyniad Cyllidebol i'w Ariannu o'r Dreth Gyngor** | **32.634** |

## 5. PWYSAU A THWF

**5.1.** Yn adroddiad monitro'r Cyngor at ddiwedd chwarter 3, dangoswyd bod y Gwasanaethau Plant a'r Gwasanaethau Oedolion dan bwysau, yr un modd â'r gyllideb Addysg All-sirol. Er bod disgwyliad ar bob gwasanaeth i gadw o fewn eu cyllidebau, mae hyn yn anodd mewn gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan y galw amdanynt

Yn ychwanegol at y pwysau arferol ar gyllidebau sy'n cael eu harwain gan y galw amdanynt, mae penderfyniadau a wnaed sydd yn rhannol y tu allan i reolaeth y Cyngor hefyd wedi arwain at bwysau ychwanegol ar gyllidebau. Mae'r rhain yn cynnwys:-

- Lwfansau i Ofalwyr Maeth – Cyflwynodd Llywodraeth Cymru lwfans sylfaenol cenedlaethol yn 2011 ac adolygir y lwfansau hyn bob tair blynedd. Ar ddechrau mis Ionawr 2017, hysbyswyd y Cyngor bod yr adolygiad yn argymell cynnydd dros y tair blynedd nesaf. Bydd hyn yn creu pwysau ychwanegol o £35k ar y gyllideb yn 2017/18.

- Ffioedd Gofal Preswyl – Mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu lefel y cynilion y gall cleient eu cael cyn gorfod talu'r ffi lawn am ofal preswyl o £24,000 i £30,000. Er bod y setliad terfynol yn cynnwys £110k ychwanegol i gwrdd â'r gost ychwanegol, tybir y bydd y newid yn cael effaith ar 18 o gleientiaid ac y bydd eu ffi wythnosol yn gostwng gan fwy na £300 ar gyfartaledd. Mae hyn yn creu pwysau ychwanegol o £195k ar y gyllideb.

- Mae'r ffioedd ar gyfer y cartrefi gofal annibynnol yn destun adroddiad ar wahân i'r Pwyllgor hwn. Mae'r adroddiad yn cynnig dewisiadau ar lefel y cynnydd a dangosir y gellir cyllido'r cynnydd isaf o'r elfen chwyddiant ychwanegol a ychwanegwyd at y gyllideb ynghyd â gostyngiad yn nifer y lleoliadau drwy reoli'r galw amdanynt. Os caniateir ar gyfer dychweliad uwch ar fuddsoddiad (9% neu 10% o gymharu â'r dychweliad sylfaenol o 8% ar fuddsoddiadau), bydd hynny'n creu pwysau ychwanegol ar y gyllideb a fydd rhwng £130k a £260k.

- Er nad yw Llywodraeth Cymru yn mynnu bod y cyllid ychwanegol a gynhyrchir drwy'r premiwm Dreth Gyngor yn cael ei ddefnyddio i helpu gyda'r cyflenwad o dai fforddiadwy, dyma'r prif reswm dros gyflwyno'r premiwm a rhaid i'r Cyngor gymryd hyn i ystyriaeth wrth osod y gyllideb derfynol. Dylid nodi hefyd bod gwaith gweinyddol ychwanegol yn gysylltiedig â'r premiwm ac y bydd angen staff ychwanegol i'w gasglu.

**5.2** Bydd ariannu'r pwysau cyllidebol hyn yn cynyddu'r gofynion ar gyllideb net y Cyngor ac yn lledu'r bwlch rhwng y ffigwr hwnnw a chyfanswm y cyllid sydd ar gael.

## 6. Y DRETH GYNGOR

**6.1.** Y ffi ar gyfer Band D y Dreth Gyngor yn 2015/16 oedd £1,061.46, sef y 6ed isaf yng Nghymru ac roedd yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru sef £1,127. Yn bwysicach na hyn yw sut mae lefel y Dreth Gyngor yn Ynys Môn yn cymharu â'r 5 awdurdod arall yng Ngogledd Cymru. Gweler y gymhariaeth yn Nhabl 6 isod:-

**Tabl 6**

**Cymharu Taliadau Band D y Dreth Gyngor ar gyfer Awdurdodau Gogledd Cymru**

| Awdurdod | Ffi Band D 2015/16 £ | Swm yn uwch / yn is nag Ynys Môn £ | Canran yn uwch / yn is nag Ynys Môn % |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 1,061.46 | | |
| Gwynedd | 1,207.76 | + 146.30 | +13.8% |
| Conwy | 1,063.76 | + 2.30 | + 0.2% |
| Sir Ddinbych | 1,159.35 | + 97.89 | + 9.2% |
| Sir y Fflint | 1,071.41 | + 9.95 | + 0.9% |
| Wrecsam | 1,023.16 | - 38.30 | - 0.4% |

**6.2.** Cyllideb y Dreth Gyngor ar gyfer 2016/17 (ar ôl addasu ar gyfer y newid yn Sail y Dreth Gyngor) oedd £32.137m. Felly, mae pob cynnydd o 1% yn cynhyrchu £321,000 ychwanegol. Cynnig cychwynnol y Pwyllgor Gwaith oedd cynnydd o 3% yn y Dreth Gyngor a fyddai'n creu £0.980m ychwanegol ac yn rhoi tâl band D o £1,093.32, sef cynnydd o £31.86 (£ 0.61 yr wythnos).

**6.3.** Dangosir effaith pob cynnydd 0.5% o 1% i 5% yn Nhabl 7 isod. Dylid nodi nad yw lefel y cynnydd yn y Dreth Gyngor yn bwysig ar gyfer gosod cyllideb 2017/18 yn unig, ond y bydd hefyd yn effeithio ar 2018/19 oherwydd bydd y man cychwyn ar gyfer y Dreth Gyngor yn cael ei benderfynu gan y cynnydd yn 2017/18 a bydd hyn yn cael effaith ar y cynnydd y bydd ei angen yn 2018/19.

**Tabl 7**

**Effaith Amrywio'r Cynnydd yn Lefel y Dreth Gyngor ar gyfer 2017/18**

| Canran y Cynnydd | Newid o ran Cyllid Cyffredinol y Cyngor £ | Y Gwarged uwchben Cyllideb Sail Ddiwygiedig 2017/18 £ | Tâl Band D 2017/18 £ | Cynyddu o gymharu â Thâl 20116/17 £ | Cynnydd Wythnosol gymharu â Thâl 2016/17 £ |
|---|---|---|---|---|---|
| 5.0% | + 1.634m | +1.688m | 1,114.56 | +53.10 | +1.02 |
| 4.5% | + 1.471m | +1.524m | 1,109.25 | +47.79 | +0.92 |
| 4.0% | + 1.307m | +1.360m | 1,103.94 | +42.48 | +0.82 |
| 3.5% | +1.144m | +1.198m | 1,098.63 | +37.17 | +0.71 |
| 3.0% | +0.981m | +1.034m | 1,093.32 | +31.86 | +0.61 |
| 2.5% | +0.817m | +0.871m | 1,088.01 | +26.55 | +0.51 |
| 2.0% | +0.654m | +0.707m | 1,082.70 | +21.24 | +0.41 |
| 1.5% | +0.490m | +0.544m | 1,077.39 | +15.93 | +0.31 |
| 1.0% | +0.327m | +0.380m | 1,072.08 | +10.62 | +0.20 |

**6.4.** Dylid nodi na wnaeth Ysgrifennydd y Cabinet ar gyfer Cyllid a Llywodraeth Leol unrhyw gyfeiriad penodol yn ei ddatganiad ar y setliad ynghylch lefel y cynnydd yn y Dreth Gyngor y dylai awdurdodau unigol fod yn ei hystyried.

**6.5.** Yn y setliad terfynol, cafodd yr elfen dreth safonol ar gyfer y Cyngor, sef y ffigwr Dreth Gyngor safonol ar draws Cymru a ddefnyddir i benderfynu ar AEF pob Cyngor, ei phennu ar £1,132.25, sydd 4% yn uwch na'r ffigwr ar gyfer 2016/17.

## 7. CRONFEYDD WRTH GEFN CYFFREDINOL A PHENODOL, ARIAN WRTH GEFN AR GYFER ARGYFYNGAU A RISG ARIANNOL

**7.1.** Mae'r gyllideb arfaethedig yn cynnwys nifer o ragdybiaethau o ran lefelau tebygol incwm a gwariant yn y dyfodol. Felly, yn anochel, mae yna nifer o risgiau ariannol cynhenid yn y gyllideb arfaethedig. Mae'r risgiau ariannol allweddol wedi'u hamlygu isod: -

- Mae gan unrhyw orwariant a ragwelir yn 2016/17 oblygiadau uniongyrchol ar gyfer cyllideb 2017/18, h.y. a fydd y gwasanaethau hynny sy'n gorwario ar hyn o bryd yn wynebu'r un pwysau cyllidebol yn 2017/18 a, o ganlyniad, a fydd modd iddynt gyflawni gwasanaeth o fewn y gyllideb arfaethedig yn 2017/18. Yn ychwanegol at hyn, bydd unrhyw orwariant yn 2016/17 yn effeithio ar lefelau arian wrth gefn cyffredinol y Cyngor ar gyfer y dyfodol. Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd gorwariant net o £756k (ac eithrio cyllidebau corfforaethol a chostau cyllido cyfalaf) ar gyllidebau Gwasanaethau yn 2016/17 ac mae hwn yn ffactor pwysig i'w gymryd i ystyriaeth;

- Roedd y cynnig cychwynnol ar gyfer y gllideb yn cynnwys cynigion ar gyfer arbedion gwerth £2.9m. Mae adolygiad pellach o'r arbedion hyn wedi canfod na fydd modd cyflawni gwerth £314k o'r arbedion yn yn 2017/18. Bydd angen cyflawni'r £2.586m sy'n weddill, os cant eu gweithredu, er mwyn sicrhau cyllideb gytbwys ar gyfer 2017/18. Mael lwfans wedi'i wneud, lle y mae'n briodol ar gyfer costau gweithredu, ond mae elfen o risg ariannol yn gysylltiedig â chyflawni'r holl arbedion yn llawn, gyda'r risg honno yn amrywio'n sylweddol rhwng y cynigion unigol. Mae rhagdybiaethau realistig wedi cael eu gwneud ar gyfer rhan o'r flwyddyn lle na fedrir gweithredu ar unwaith, ond mae risg ariannol gynhenid yn gysylltiedig â sicrhau'r newidiadau mewn pryd i gyflawni'r math hwn o arbediad a gynlluniwyd;

- Caniatawyd ar gyfer cynnydd chwyddiant o 1% ar draws yr holl wariant (oni bai y gwyddys beth yw'r cynnydd chwyddiant contractyddol). Mae'r risg sy'n gysylltiedig â chwyddiant tâl yn fychan iawn a bydd y ffactor chwyddiant a ganiatawyd yn cwrdd â'r costau tâl ychwanegol. Mae'r sefyllfa o ran gweddill y cyllidebau gwariant yn llai sicr ac mae'n bosibl y bydd chwyddiant yn dechrau codi yn ystod rhan olaf 2017 ac y bydd yn uwch na'r 1% y caniatawyd ar ei gyfer. Gwnaed cynnydd o 3% yn y cyllidebau incwm anstatudol.

**7.2.** O ran cronfeydd ar gyfer digwyddiadau annisgwyl a chronfeydd wrth gefn, mae angen i'r Swyddog Adran 151 adolygu'r rhain yn eu cyfanrwydd ochr yn ochr â'r gyllideb sylfaenol ei hun a'r risgiau ariannol sy'n wynebu'r Awdurdod. Yn ogystal, dylai'r adolygiad gynnwys golwg tymor canol lle mae angen hynny a dylai gymryd i ystyriaeth ddatblygiadau allweddol a allai effeithio ar yr angen am adnoddau unwaith ac am byth a'r defnydd ohonynt.

**7.3.** Mae ystyriaeth drylwyr a chadarn yn cael ei rhoddi i risgiau cyllidebol a diogelu iechyd ariannol y Cyngor ar hyn o bryd. Mae hyn yn arbennig o wir pan mae angen diogelu arian unwaith ac am byth yn ddigonol fel y gellir ei ddefnyddio i ariannu newidiadau strategol / trawsnewidiol yn y dyfodol yn hytrach nag i ariannu gorwariant sylweddol ar y gyllideb sylfaenol ei hun.

**7.4.** Ystyriwyd yr angen i gadw'r gostyngiadau gwariant a wneir yn syth ac effaith hynny wedyn ar wasanaethau i'r lefel isaf bosib, ond rhaid cydbwyso hyn yn erbyn yr angen i sicrhau sefydlogrwydd ariannol y Cyngor yn y tymor canol a'r tymor hir, ac i arbedion gael eu gweithredu dros y blynyddoedd nesaf mewn ffordd raddol a strwythuredig. Yn ogystal, mae risg bob amser y bydd rhywfaint o wariant annisgwyl neu orwariant oherwydd pwysau mwy cyffredinol ar gyllideb y gwasanaeth, a rhaid i'r cronfeydd wrth gefn hefyd fod yn ddigonol i gwrdd â'r pwysau hyn.

**7.5.** Ar 31 Mawrth 2016, roedd £8.886m yng nghronfeydd cyffredinol y Cyngor ac mae £1m ohono wedi cael ei glustnodi i ariannu gwelliannau mewn prosesau busnes yn y Cyngor, sy'n rhoi cyllideb ddiwygiedig o £7.886m, sy'n cyfateb i 6.4% o gyllideb refeniw net y Cyngor ar gyfer 2016/17, 9.3% os yw'r gyllideb a ddirprwywyd i ysgolion yn cael ei heithrio. Mae lefel y cronfeydd wrth gefn cyffredinol a gedwir yn fater i'r Cyngor benderfynu arno ar argymhelliad y Swyddog Adran 151, fodd bynnag, fel rheol gyffredinol, ystyrir bod 5% o'r gyllideb refeniw net yn lefel dderbyniol. Yn seiliedig ar gyllideb refeniw 2016/17, byddai angen £6.0m yn y cronfeydd wrth gefn cyffredinol. Mae hyn yn cymryd i ystyriaeth y ffaith nad oes gan y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd unrhyw gronfeydd wrth gefn bellach i syrthio'n ôl arnynt ac mae ysgolion cynradd yn dibynnu'n gynyddol ar eu cronfeydd gwasanaeth wrth gefn i falansio eu cyllidebau.

**7.6.** Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor wrthi'n cwblhau'r broses o setlo hawliadau tâl cyfartal a rhagwelir o hyd y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cyfarwyddyd cyfalafu. Fodd bynnag, os na fydd hynny'n digwydd, bydd angen i'r Cyngor ariannu'r gost o'i falansau cyffredinol. Yn ychwanegol at hyn, er nad yw'r rhagamcanion cyfredol ond yn dangos gorwariant o £16k yn y gyllideb refeniw erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2016/17, byddai angen cyllido unrhyw waethygiad yn y sefyllfa hon yn ystod y chwarter olaf o'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol.

**7.7.** Mewn adegau o galedi ariannol, mae cyllidebau'n cael eu lleihau ac nid oes ganddynt y capasiti i ddelio â chynnydd mewn pwysau, yn enwedig yn y gwasanaethau hynny sydd â llai o reolaeth dros y galw ee Gwasanaethau Cymdeithasol. Felly mae dadl bod yr angen am gronfeydd wrth gefn cyffredinol yn fwy oherwydd bod y risg o orwario ar gyllidebau'n cynyddu a bydd y Cyngor angen lefel uwch o adnoddau ariannol er mwyn lleihau'r risg.

**7.8.** Yn fy marn broffesiynol i, byddai'n bosib gostwng lefel y gronfa wrth gefn gyffredinol i £6.0m ac, ar y lefel hon, byddai gan y Cyngor ddigon o arian i warchod ei hun petai unrhyw wariant annisgwyl yn codi. Fodd bynnag, byddwn yn cynghori yn erbyn gwneud hynny rŵan hyd oni fydd mater hawliadau Tâl Cyfartal wedi cael ei ddatrys a'i gyllido a bod y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn yn gliriach. Os oes arian wrth gefn ychwanegol ar gael, nid wyf yn argymell y dylid eu defnyddio i sicrhau cyllideb gytbwys yn unig ond gellid eu defnyddio ar gyfer prosiectau a fyddai'n gostwng costau refeniw yn y tymor hir.

**7.9.** Mae adroddiad llawn ar y Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol a'r Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd yn cael ei gynnwys fel eitem ar wahân ar Raglen y Pwyllgor.

**7.10.** Mae'r gyllideb refeniw ddisymyd ar gyfer 2017/18 yn cynnwys £2.117m o gronfeydd wrth gefn cyffredinol a rhai a glustnodwyd. Mae'r eitemau sydd wedi eu cynnwys dan y pennawd hwn yn cynnwys cronfa wrth gefn gyffredinol o £380k, cyllideb tai fforddiadwy £240k wedi ei hariannu o bremiwm y Dreth Gyngor, cronfa wrth gefn £290k ar gyfer yr ardoll prentisiaethau, cronfa wrth gefn £300k ar gyfer tâl a graddfeydd, cyllid tymor penodol o £665k ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion a'r Gwasanaethau Plant, £150k ar gyfer etholiadau'r Cyngor Sir a chronfa wrth gefn £92k ar gyfer cost newid. Mae cronfeydd wrth gefn yn lliniaru rhywfaint yn erbyn y risg y bydd y Cyngor yn wynebu costau annisgwyl neu gynyddol yn ystod y flwyddyn. Byddai gostwng lefelau'r cyllidebau wrth gefn cyffredinol yn arwain at orfod cyllido costau annisgwyl neu gynyddol o'r balansau cyffredinol.

## 8. CADERNID YR AMCANGYFRIFON

**8.1.** Yn unol ag Adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid gyflwyno adroddiad ar gadernid yr amcangyfrifon cyllidebol a digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn arfaethedig.

**8.2.** Mae amcangyfrifon y gyllideb yn seiliedig ar dybiaethau ynghylch gwariant ac incwm yn y dyfodol ac yn cynnwys elfen o risg yn sgil rhagdybio. Gall effaith y risg hon gael ei lliniaru drwy gynlluniau wrth gefn, cyllidebau wrth gefn a chronfeydd ariannol wrth gefn.

**8.3.** Nid yw cadernid yr amcangyfrifon cyllidebol yn gwestiwn syml o p'un a ydynt yn cael eu cyfrifo yn gywir. Yn ymarferol, mae llawer o gyllidebau wedi'u seilio ar amcangyfrif neu ragolygon, ac efallai y bydd elfen o risg ynghylch a fydd y cynlluniau yn cael eu darparu, neu dargedau yn cael eu cyflawni. Caiff risgiau gwahanol i'r gyllideb eu hystyried yn eu tro isod: -

- **Risg Chwyddiant -** Mae hyn yn golygu'r risg y gallai chwyddiant droi allan i fod yn sylweddol wahanol i'r rhagdybiaeth a wnaed yn y gyllideb. Ar gyfer 2017/18, caniatawyd chwyddiant ar gyfer dyfarniadau cyflog (1%), chwyddiant cyffredinol mewn tâl a phrisiau (1%) ac unrhyw gytundebau contract y mae angen cynyddu chwyddiant ar eu cyfer. Mae lefel chwyddiant yn isel ar hyn o bryd, sef ychydig yn uwch na 1%, ond, yn dilyn y bleidlais i adael yr Undeb Ewropeaidd, mae yna arwydd cryf y bydd chwyddiant yn codi yn ystod 2017/18 er bod ansicrwydd mawr ynghylch lefel y codiad hwnnw. Mae oddeutu £36m o gyllideb y Cyngor ar gyfer cyflenwadau a gwasanaethau lle bydd y prisiau'n codi wrth i chwyddiant godi. Gall cynnydd 1% mewn chwyddiant ychwanegu £360k at gostau'r Cyngor (oddeutu 0.3% o'r gyllideb net). Felly, mae chwyddiant yn risg sy'n esblygu ond gellir ei chyllido drwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn petai'r angen;

- **Risg Cyfraddau Llog –** Mae cyfraddau llog yn effeithio ar gyllideb refeniw un flwyddyn drwy'r llog a enillir – h.y. mae cynnydd yn y gyfradd log yn beth da. Yn unol â Strategaeth Rheoli Trysorlys yr Awdurdod, rhaid buddsoddi ar sail diogelwch a hylifedd y buddsoddiad fel yr ystyriaeth gyntaf a bydd enillion ar y buddsoddiadau'n cael llai o flaenoriaeth, felly, nid yw'r gyllideb yn dibynnu ar enillion uchel yn sgil buddsoddi. Mae cyfraddau llog yn parhau i fod ar eu hisaf erioed ac nid ydynt yn debygol o ddechrau codi cyn 2018, a dim ond yn raddol hyd yn oed wedyn. Felly, ystyrir bod y risg o ran cyfraddau llog yn isel ac, fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae hon yn ddigolledu ar gyfer risg chwyddiant oherwydd os yw un yn cynyddu, yna mae'r llall debygol o gynyddu hefyd;

- **Risgiau Grantiau -** Mae'r rhain yn risgiau sydd ynghlwm wrth y nifer fawr o grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru, Ewrop neu gyrff eraill sy'n cefnogi cyfran dda o wariant y Cyngor. Efallai y bydd rhai o'r rhain yn gostwng yn sylweddol neu'n cael eu torri yn gyfan gwbl; nid oes gennym ddarlun cyflawn o'r rhain i gyd ac ni fydd y darlun hwn ar gael hyd yn oed wrth i'r flwyddyn ariannol gychwyn. Er mai'r ymateb naturiol yw dweud y bydd yn rhaid i'r gwariant sy'n gysylltiedig â'r grant ddod i ben pan ddaw'r grant i ben, mae perygl na fydd hyn bob amser yn bosibl. Efallai na fydd yn bosibl pan fydd telerau'r contract yn golygu na all y gwariant gael ei dorri mor gyflym â'r incwm neu os yw'n ymwneud â chostau diswyddo sydd heb eu hariannu. Efallai na fydd yn bosibl os yw'r gweithgaredd a ariennir yn troi allan i fod mor bwysig i gyflawni Blaenoriaethau'r Cyngor ei hun, fel bod y Cyngor yn penderfynu bod rhaid iddo barhau â'r gwariant. Wrth ymdrechu i liniaru'r risg hon, rhaid sicrhau bod gennym y

wybodaeth orau sydd ar gael ar bob un o'r grantiau, ond ni fedrir diystyru'n gyfan gwbl y bydd newidiadau sylweddol yn digwydd yn ystod y flwyddyn;

- **Risgiau Incwm -** Mae'r gyllideb yn seiliedig ar sicrhau cynnydd cyffredinol o 3% yn y ffioedd, ac mae nifer o wasanaethau wedi rhagdybio codiadau a fydd hyd at 3%. Os bydd newid yn y galw am Wasanaethau Cyngor yn golygu bod lefel y galw'n disgyn, ac nad yw targedau incwm yn cael eu cyflawni, gall hynny arwain at orwario ar gyllidebau net. Bydd angen monitro'r sefyllfa o ran y gyllideb net yn ofalus ac, os oes angen, torri yn ôl ar wariant i gyfateb i'r gostyngiad mewn incwm;

- **Risg Optimwm -** Mae'n debyg mai'r risg fwyaf yn yr amgylchiadau presennol yw bod yr Awdurdod, Aelodau a Swyddogion, wedi bod yn or-optimistaidd o ran yr arbedion fydd yn cael eu cyflawni. Petai'r prosiectau hyn yn rhedeg i drafferthion ac yn methu cyflawni'r arbedion a gymerwyd allan o'r gyllideb, gallai hynny arwain at orwario sylweddol;

- **Y Risg o fod yn rhy Ofalus –** Dyma'r gwrthwyneb i'r risg optimwm: y perygl bod ein cyllidebau wedi cael eu llunio'n yn rhy ofalus ac, o'r herwydd, yn fwy nag sydd ei angen;

- **Risgiau Arbedion -** Mae'r gyllideb refeniw ddisymyd yn cynnwys £2.586m o arbedion refeniw ac, er bod pob cynnig wedi cael ei asesu a swm yr arbediad wedi ei addasu i gymryd i ystyriaeth y dyddiad gweithredu arfaethedig, mae perygl na fydd yr holl gynigion yn cael eu gweithredu erbyn y dyddiad arfaethedig. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer y cynigion sy'n ymwneud â thrawsnewid gwasanaethau'n sylweddol, diswyddo staff, cynhyrchu incwm neu newidiadau i gontractau presennol. Bydd unrhyw oedi o'r dyddiad dechrau arfaethedig yn rhoi pwysau ar y gyllideb refeniw;

- **Risgiau Cyflogau a Graddfeydd –** Yn dilyn cwblhau'r broses arfarnu swyddi, mae pob cyllideb staffio yn seiliedig ar y graddfeydd cyflog newydd. Mae'r holl apeliadau am ailraddio swyddi yn codi o'r broses arfarnu swyddi wedi cael sylw a bydd raid i unrhyw newidiadau i raddfeydd cyflog neu strwythurau staffio cael eu cyllido o gyllidebau presennol y gwasanaethau;

- **Costau Diswyddo Staff –** Mae nifer o wasanaethau wedi ailstrwythuro eu staff ac eisoes wedi caniatáu i nifer o staff cael eu rhyddhau drwy ddiswyddiad gwirfoddol. Er bod nifer o geisiadau'n parhau i gael eu hystyried, mae'r niferoedd wedi gostwng. Caiff costau diswyddo eu cyllido o gronfa wrth gefn ganolog ac mae £300k wedi cael ei roi o'r neilltu yng nghyllideb ddisymyd 2017/18 i gwrdd ag unrhyw gostau diswyddo a gyfyd yn ystod y flwyddyn er mwyn lliniaru'r risg;

- **Premiwm y Dreth Gyngor** – Wrth benderfynu ar sail y Dreth Gyngor, bu'n rhaid asesu nifer yr ail gartrefi a thai gwag a fyddai'n cael eu cynnwys yn y ffigyrau ar gyfer gweithio allan sail y dreth. Er bod gan y Cyngor gofnodiadau o dai a oedd yn cael eu hystyried fel tai gwag, neu rai lle mae'r cyfeiriad bilio yn wahanol i gyfeiriad yr eiddo, mae yn risg na fydd perchenogion eiddo'n gorfod talu'r premiwm am nifer o resymau, gan gynnwys gwerthu neu osod yr eiddo. Gan mai hon fydd blwyddyn gyntaf y premiwm, cafodd sail y dreth ei gosod ar lefel geidwadol o 70% o'r eiddo a nodwyd. Fodd bynnag, mae yna berygl bod nifer yr eiddo a fydd yn gorfod talu'r premiwm wedi eu gor-amcan ac y bydd yr incwm a gesglir yn is na'r hyn y cyllidebwyd ar ei gyfer.

**8.4.** Wedi ystyried yr holl risgiau a nodir uchod a'r camau lliniaru, mae'r Swyddog Adran 151 o'r farn bod y cyllidebau yn gadarn ac yn gyflawnadwy.

## 9. PWYLLGOR SGRIWTINI

**9.1.** Fel y nodwyd yn Nhabl 5, mae'r gyllided net, wedi caniatáu ar gyfer arbedion, yn £125.286m ac, ar ôl caniatáu ar gyfer AEF terfynol, bydd angen i £32.634m ddod o'r Dreth Gyngor. Byddai cynnydd o 3% yn y Dreth Gyngor yn cynhyrchu £33.668m, sydd £1.034m yn uwch na'r gofyniad.

**9.2** Gofynnwyd i'r Pwyllgor Sgriwtini ystyried nifer o gwestiynau penodol a bydd adroddiad ar wahân ar ymateb y Pwyllgor yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith.

## 10. CYLLIDEB ARFAETHEDIG A LEFEL Y DRETH GYNGOR

**10.1.** Ar ôl ystyried y cyllid sydd ar gael a'r cynnydd yn yr AEF ers i'r cynigion cyllidebol cychwynnol gael eu llunio, ar ôl ystyried canlyniadau'r broses ymgynghori ac ymateb y Pwyllgor Sgriwtini, mae'r Pwyllgor Gwaith wedi diwygio ei gynnig terfynol ar gyfer y gyllideb ac mae'n cynnwys y newidiadau canlynol: -

- Bod y gyllideb ddisymud ar gyfer 2017/18 yn £127.872m;
- Bod y newidiadau isod yn cael eu gwneud i'r cynigion o safbwynt arbedion:-

**1.** Bod y ffi mewn perthynas â'r cynllun seddi gweigion ar gludiant ysgol ond yn cael ei chynyddu £10 y flwyddyn.

**2.** Bod prisiau prydau ysgol yn codi gan 10c yn unig fesul pryd fesul diwrnod.Mae balans gweddilliol yr arbediad arfaethedig o £60k yn cael ei gynhyrchu drwy'r arbedion a wnaed yn y gost o ddarparu prydau ysgol.

**3.** Nad yw'r gostyngiad o £35k yn y grant i'r Mudiad Ysgolion Meithrin yn cael ei weithredu tan 2017/18 ond yn parhau i fod yn arbediad posibl ar gyfer 2018/19.

**4.** Bod yr arbediad arfaethedig yn y Gwasanaeth Ieuenctid yn cael ei ostwng i £50k, ond bydd yr arbediad gwirioneddol yn dibynnu ar y penderfyniad terfynol a wneir ynghylch y Gwasanaeth Ieuenctid.

**5.** Bod y gostyngiad yng nghyllideb y Llyfrgelloedd yn cael ei ohirio tan 2018/19, yn dilyn y penderfyniad terfynol ar ddarparu'r gwasanaeth llyfrgell yn y dyfodol.

- Mae hyn yn gostwng cyfanswm yr arbedion a gynigiwyd i £2.444m (mae rhestr lawn ynghlwm fel Atodiad 3).
- Bod yr arbedion o £490k mewn perthynas â chostau cymorthyddion dysgu neu arbedion eraill yn y cyllidebau yn cael eu cyllido o Gronfeydd Wrth Gefn y Cyngor yn 2017/18. Dylai hyn fod yn amodol ar ymrwymiad gan yr ysgolion i gyflawni'r arbediad hwn erbyn 2018/19 pan ddaw'r gostyngiad i'r gyllideb yn weithredol. Bydd disgwyl hefyd i ysgolion, mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Gwasanaeth, i ddatblygu cynllun arbedion cynhwysfawr ar gyfer 2018/19 a'r tu draw i hynny.
- Bod £425k ychwanegol yn cael ei neilltuo i Ofal Cymdeithasol i Oedolion er mwyn cwrdd â'r costau sy'n codi o newidiadau deddfwriaethol a phwysau cost o ran ffioedd cartrefi gofal preswyl. Mae'r swm hwn yn ychwanegol at y dyraniad o £10m ychwanegol a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru tuag at Ofal Cymdeithasol i Oedolion yn Ynys Môn.
- Bod £35k ychwanegol yn cael ei neilltuo i'r Gwasanaethau Plant er mwyn cwrdd â chost y lwfansau sylfaenol i ofalwyr maeth.

- Bod £225k ychwanegol yn cael ei neilltuo i'r Gwasanaeth Addysg i gwrdd â chost gynyddol Lleoliadau All-Sirol, sydd wedi cynyddu yn ystod 2016/17.
- Bod 30% o'r cyllid a gynhyrchir o'r premiwm Dreth Gyngor yn cael ei neilltuo tuag at gynlluniau tai fforddiadwy yn 2017/18. Bydd lefel y cyllid yn cael ei hadolygu wrth i ni gael mwy o sicrwydd ynghylch lefel yr incwm ychwanegol a gesglir mewn gwirionedd. Amcangyfrifir y bydd hyn yn arwain at neilltuo £170k yn ystod y flwyddyn gyntaf.
- Bod £70k yn cael ei neilltuo i gwrdd â'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â chasglu'r premiwm ac i gwrdd â chost gweinyddu'r cynlluniau tai fforddiadwy.
- Bod y gronfa wrth gefn gyffredinol a'r gronfa wrth gefn ar gyfer cyflogau a graddfeydd (a nodwyd ym mharagraff 7.10) yn cael eu gostwng gan £100k yr un, £200k i gyd.
- Bod cynnydd o 2.5% yn y Dreth Gyngor yn 2017/18.
- Bod unrhyw falans gweddilliol sy'n angenrheidiol i sicrhau cyllideb gytbwys yn cael ei ychwanegu'n ôl i'r gronfa wrth gefn gyffredinol.

**10.2.** Mae Tabl 8 isod yn crynhoi'r symudiad yng nghyllideb 2017/18 gan gymryd i ystyried y cynigion sydd wedi eu nodi ym mharagraff 10.1 uchod.

**Tabl 8**

**Gofynion o ran y Gyllideb Arfaethedig ac ariannu yn 2017/18**

| Gofyniad Cyllidebol | £'m | £'m |
|---|---|---|
| Cyllideb Derfynol 2016/17 | | 124.037 |
| Newidiadau yr ymrwymwyd iddynt a chwyddiant | | 4.222 |
| **Cyllideb Ddisymyd ar 9 Tachwedd 2016** | | **128.259** |
| Addasiadau i'r Gyllideb Ddisymyd – gweler Tabl 2 | | (0.387) |
| **Cyllideb Ddigyfnewid ar 14 Chwefror 2017** | | **127.872** |
| Cynigon terfynol gyfer arbedion posibl – gweler Tabl 3 & 4 | | (2.586) |
| **Gofynion Cyllidebol Diwygiedig ar ôl Arbedion** | | **125.286** |
| **Cynigion Cyllidebol Terfynol – paragraff 10.1** | | |
| Arbedion heb eu gweithredu (Cludiant Ysgolion, Llyfrgelloedd, Gwasanaeth Ieuenctid, Mudiad Ysgolion Meithrin) | 0.142 | |
| Gohirio'r Arbedion o ran y Cyllidebau Ysgolion sydd wedi eu Datganoli | 0.490 | |
| Cyllid Ychwanegol – Gwasanaethau Oedolion | 0.425 | |
| Cyllid Ychwanegol – Gwasanaethau Plant | 0.035 | |
| Cyllid Ychwanegol – Addysg All-sirol | 0.225 | |
| Prosiectau Tai Fforddiadwy gan gynnwys Staffio Ychwanegol | 0.240 | |
| Lleihad yn y Gyllideb wrth Gefn Gyffredinol a'r Gyllideb wrth gefn ar gyfer Tâl a Graddfeydd | (0.200) | |
| | | 1.357 |
| **Y Gofyniad Cyllidebol Terfynol a Gynigir** | | **126.643** |
| **Ariennir Gan:** | | |
| Grant Cymorth Refeniw | 69.650 | |
| Trethi Cenedlaethol Annomestig | 23.002 | |
| Cyfanswm AEF | | 92.652 |
| Cronfeydd Wrth Gefn y Cyngor | | 0.490 |
| Y Dreth Gyngor (yn cynnwys Premiwm) | | 33.505 |
| **Cyfanswm Cyllid** | | **126.647** |
| **Balans i'r Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol** | | **0.004** |

## 11. ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

**11.1** Wrth gyflwyno ei wasanaethau, rhaid i'r Cyngor fod yn ymwybodol o'i ddyletswyddau dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 i asesu effaith penderfyniadau ariannol allweddol ar grwpiau gwarchodedig a rhoi sylw dyledus i ganlyniad asesiadau o'r fath.

**11.2.** Fel rhan o'r broses o lunio cyllideb 2017/18, gofynnwyd i wasanaethau gynnal asesiad cychwynnol ar effaith y cynigion hyn ar y grwpiau sydd wedi eu cynnwys yn y Rheoliadau. Cynhelir Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar dempled safonol sy'n sicrhau dull cyson ar draws y Cyngor. Bydd angen i wasanaethau fonitro'n ofalus y cynigion hynny sy'n debygol o gael effaith sylweddol.

## 12. PRIODOLI'R ARBEDION I'R SECTOR YSGOLION

**12.1** Mae'r cynigion ar gyfer arbedion yn cynnwys nifer o gynigion a fydd yn cael effaith ar y dyraniad i'r ysgolion drwy'r gyllideb sydd wedi ei datganoli iddynt. Dyma'r arbedion y bwriedir eu gwneud:-

- Gostwng costau athrawon llanw drwy reoli absenoldeb salwch yn well - £100k;
- Gostwng costau cyflenwadau a gwasanaethau drwy gaffael drwy gontractau corfforaethol - £170k;
- Gostwng y gyllideb lanhau - £116k gydag arbediad ychwanegol o £400k wedi ei ddwyn ymlaen o 2016/17 (cafodd hyn ei gyllido o'r arian wrth gefn yn 2016/17).

**12.2** Mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o £0.786M neu 2%, yn y gyllideb a ddatganolir i'r ysgolion er bod £400k o'r swm hwn yn arbediad a ohiriwyd o 2016/17, o'r herwydd, mae'r arbediad ar gyfer 2017/18 yn £386k, neu 1.1%.

**12.3 Gwneud yr Arbedion yn y Gyllideb**

- **Costau Athrawon Llanw** – Byddai adolygiad o'r costau cyfredol a gweithredu newid i'r cynllun yswiriant salwch, gan olygu na fyddai ysgolion yn derbyn cymhorthdal o'r cynllun am ddiwrnod cyntaf absenoldeb salwch athrawon neu gymorthyddion dysgu, yn cynhyrchu arbedion o £80k yn y sector cynradd gyda'r balans gweddilliol o £20k yn dod o'r sector uwchradd.
- **Arbedion Caffael** – Bydd yr arbedion yn cael eu neilltuo yn seiliedig ar werth y cyllidebau lle bydd yr arbedion yn cael eu gwneud, sef Cynradd £90k, Uwchradd £73k, Arbennig £7k.
- **Costau Glanhau** – Bwriedir gostwng y gyllideb lanhau ar gyfer ysgolion gan £116k, yn ychwanegol at y £400k a oedd wedi ei gynnwys yng nghyllideb y llynedd, ond cyllido hyn am flwyddyn o'r arian wrth gefn. Os bydd y Cyngor yn cytuno i weithredu'r cynnig i ostwng costau yn unol â'r gostyngiad hwn, yna bydd y toriad yn cael ei neilltuo'n unol â'r gostyngiad yn y costau gwirioneddol.

**12.4** Yn seiliedig ar yr uchod, byddai'r arbedion (ac eithrio glanhau) yn cael eu neilltuo:Cynradd £170k, Uwchradd £93k, Arbennig £7k.

## 13. DIWEDDARU'R STRATEGAETH ARIANNOL AR GYFER Y TYMOR CANOL

**13.1.** Roedd y cynigion cyllidebol cychwynnol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 7 Tachwedd 2016 yn seiliedig ar y Strategaeth Ariannol ar gyfer y Tymor Canol a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2016 (gweler Tabl 1). Roedd hon yn awgrymu y byddai cyfanswn yr AEF yn gostwng 0.6% yn 2017/18 ac y byddai cynnydd o 3% yn y Dreth Gyngor.

**13.2.** Yn y setliad gwirioneddol, gwelwyd cynnydd o 0.5% yn yr AEF a chafodd hyn, ynghyd â gostyngiad yn y cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor, effaith sylweddol ar y Strategaeth Ariannol ar gyfer y Tymor Canol. Nid yw'r sefyllfa hon yn unigryw i Ynys Môn ac roedd y rhan fwyaf o Gynghorau yng Nghymru wedi cynllunio ar gyfer toriad sylweddol yn yr AEF ond, mewn gwirionedd, gwelwyd cynnydd mewn termau ariannol yn yr AEF yn achos 15 o'r 22 o Gynghorau.

**13.3.** Mae darogan newidiadau i'r AEF yn y dyfodol yn anodd a bydd llawer yn dibynnu ar berfformiad economi'r DU yn dilyn Brexit. Mae Llywodraeth y DU wedi adolygu ei pholisi ariannol ac nid yw'n darged bellach i glirio diffyg cyllidebol y DU erbyn 2020 ond, os bydd twf economaidd yn is na'r disgwyl, gall hyn arwain at doriadau pellach i gyllideb gyffredinol Llywodraeth Cymru. Bydd y warchodaeth a rydd Llywodraeth Cymru i feysydd gwariant eraill o gymharu â llywodraeth leol hefyd yn cael effaith sylweddol ar lefel setliadau i lywodraeth leol yn y dyfodol.

**13.**4 Mae Tabl 9 yn dangos y senario waethaf gyda thoriadau sylweddol yn yr AEF ar gyfer 2018/19 a 2019/2020 a chwyddiant a dyfarniadau cyflog yn cynyddu'n gyflym (a'r rhagdybiaeth y bydd chwyddiant yn cyrraedd 3% am y tair blynedd a dyfarniadau cyflog yn cynyddu'n raddol dros y cyfnod o 3 blynedd o 1.5% i 2.5%). Mae'r model hwn yn rhagdybio y bydd cynydd o 4% y flwyddyn yn y Dreth Gyngor.

**Tabl 9**

**Strategaeth Ariannol ar gyfer y Tymor Canol 2018/19-2020/21 (Senario Waethaf)**

| | **2018/19 £'m** | **2019/20 £'m** | **2020/21 £'m** |
|---|---|---|---|
| **Cyllideb Refeniw Net D / Y (ar ôl addasu ar gyfer defnydd o arian wrth gefn)** | **126.16** | **125.09** | **124.05** |
| Pwysau Cyllideb a Chwyddiant | 2.30 | 2.51 | 3.38 |
| **Cyllideb ddiwygiedig** | **128.46** | **127.60** | **127.43** |
| Cyllid Allanol Cyfun (AEF) | (90.24) | (87.81) | (87.81) |
| Y Dreth Gyngor | (34.85) | (36.24) | (37.69) |
| **Cyfanswm Cyllid** | **(125.09)** | **(124.05)** | **(125.50)** |
| | | | |
| **Arbedion Angenrheidiol** | **3.37** | **3.55** | **1.93** |

**13.5.** Mae Tabl 10 yn dangos senario mwy optimistaidd lle mae'r gostyngiad yn yr AEF ar gyfer y cyfnod tair blynedd yn llai (1% yn y ddwy flynedd gyntaf a dim gostyngiad yn y drydedd), chwyddiant yn codi i 2% ac yn aros ar y lefel honno am y tair blynedd a dyfarniadau cyflog yn aros ar 1% am y ddwy flynedd gyntaf ac yn codi i 1.5% yn 2020/21. Unwaith eto, tybir y bydd codiad o 4% y flwyddyn yn y Dreth Gyngor.

**Tabl 10**

**Strategaeth Ariannol ar gyfer y Tymor Canol 2018/19 - 2020/21 (Senario Optimistaidd)**

| | **2018/19 £'m** | **2019/20 £'m** | **2020/21 £'m** |
|---|---|---|---|
| **Cyllideb Refeniw Net D / Y (ar ôl addasu ar gyfer defnydd o arian wrth gefn)** | **126.16** | **126.58** | **127.05** |
| Pwysau Cyllideb a Chwyddiant | 1.61 | 1.48 | 2.49 |
| **Cyllideb ddiwygiedig** | **127.77** | **128.06** | **129.54** |
| Cyllid Allanol Cyfun (AEF) | (91.73) | (90.81) | (90.81) |
| Y Dreth Gyngor | (34.85) | (36.24) | (37.69) |
| **Cyfanswm Cyllid** | **(126.58)** | **(127.05)** | **(128.50)** |
| | | | |
| **Arbedion Angenrheidiol** | **1.19** | **1.01** | **1.04** |

**13.6.** Bydd diweddariad ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith fel y daw gwybodaeth ar setliadau yn y dyfodol yn gliriach.

## 14. ARGYMHELLION

**14.1.** Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r cynigion terfynol ar gyfer y gyllideb fel y nodir ym Mharagraff 10 i gyfarfod llawn y Cyngor ar 28 Chwefror 2017.

**Ymateb i Gynigion Cychwynol ar gyfer Cyllideb y Pwyllgor Gwaith – Cwrdd a'r Heriau 2016**

**CYNGOR SIR YNYS MÔN**

**Ionawr 2017**

**Dadansoddwr – Alwyn Williams, Dadansoddwr Perfformiad**

**Awdur – Gethin Morgan, Rheolwr Cynllunio Busnes, Rhaglen a Perfformiad**

**Pennaeth Gwasanaeth – Scott Rowley, Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol**

## *1. Rhagarweiniad*

**1.1.** Ymgynghorodd y Cyngor yn ddiweddar ar gynigion cyllidebol cychwynnol y Pwyllgor Gwaith - 'Cwrdd â'r Heriau' rhwng 11 Tachwedd a 16 Rhagfyr, 2016. Roedd y cyfnod ymgynghori o 5 wythnos yn canolbwyntio ar oddeutu 50 o gynigion.

**1.2.** Allbwn y broses gyllidol blynyddol oedd y cynigion arfaethedig yma. Cawsant eu cyflwyno gan y gwasanaethau yn ystod tymor yr Hydref pan fu iddynt hefyd gael eu herio a'i cytuno i bwrpas ymgynghori gan Aelodau Etholedig pob grwp gwleidyddol y Cyngor.

**1.3.** Rhannwyd y 50 i mewn i 6 thema fel yr amlinellir isod, sef:

- Atal neu Trosglwyddo Gwasanaeth i Eraill
- Cynyddu Incwm
- Lleihad mewn costau di-addysg ysgolion
- Trawsnewid Gwasanaethau neu gwneud newid yn y ffordd o ddarparu
- Ail-strwythuro staff neu dileu swyddi gwag
- Cynigion Effeithlonrwydd cyffredin a toriadau i gyfraniadau

**1.4.** Yn ogystal eleni am y tro cyntaf, ymgynghorwyd ar gynlluniau gwariant mawr y Cyngor dros y 12 mis nesa' yn ogystal a'r bwriad drwy'r cynllun ariannol tymor canol i godi treth y Cyngor o 3% am 2017/18.

**1.5.** Ystyriwyd amrywiaeth helaeth o arbedion lle'r oedd yr her a chytundeb fewnol wedi arwain at gynigion oedd yn amrywio o faterion parthed cynyddu costau prydau ysgol, buddsoddi mewn gwaith atall llifogydd a trawsnewid darpariaethau ieuenctid a llyfrgelloedd y Cyngor. Marchnatwyd y cynigion yma mewn nifer o ffyrdd;

**1.5.1.** Sesiwn briffio i'r wasg lleol
**1.5.2.** Datganiadau ac erthyglau yn y wasg
**1.5.3.** Cyhoeddiad o'r cynigion ar dudalen cartref gwefan y Cyngor Sir oedd hefyd wedi'i alinio gyda fideo pwrpasol yn amlygu'r angen am arbedion
**1.5.4.** Defnydd helaeth o'r cyfryngau cymdeithasol Twitter, Facebook a Youtube i'w hyrwyddo i ystod mwy eang o drigolion
**1.5.5.** E-byst perthnasol yn tynnu sylw a gwahodd trigolion i drafodaethau pwrpasol
**1.5.6.** Amryw gyfweliadau gan yr Arweinydd ar MônFM dros gyfnod yr ymgynghoriad gan gynnwys cyfweliad byw gan bobl ifanc ar y materion o bwys

Roedd pob un o'r sianeli uchod wedi'u hanelu at hysbysu ac ennyn brwdfrydedd dinasyddion a staff i ymgysylltu ac ymateb i'r cynigion cychwynnol.

**1.6.** Gofynnwyd i ddinasyddion, partneriaid a staff ymateb i'r ymgynghoriad drwy wahanol ddulliau gan gynnwys: -

- Dau arolwg ar-lein ar ein gwefan
  - Arolwg ar gyfer pawb
  - Arolwg yn benodol ar gyfer yr ifanc (gweler isod)
- E-bostio neu ysgrifennu atom

**1.7.** Yn ogystal â'r uchod, cynhaliodd y Cyngor:-

- Sesiynau grŵp ffocws ar gyfer pobl o dan 25 oed yn ysgolion uwchradd David Hughes, Llangefni a Bodedern, fforwm ffermwyr ifanc a chlybiau ieuenctid yn Bodedern a Chaergybi
- Arolygon ar-lein a gynllunwyd gyda Medrwn Môn a Llais Ni i bobl o dan 25, pobl hyn a phobl gydag anableddau
- Sesiwn a gynhaliwyd yn y Cyngor ar gyfer nifer o partneriaethau fel yr Heddlu, Gwasanaeth Tan, Iechyd, Cynghorau Tref a Chymuned, cyrff y 3ydd Sector ac asiantaethau arall.
- Fforwm Pobl Hyn a gynhaliwyd yn Neuadd y Dref gyda rhanddeiliaid a phartneriaid y gwasanaseth Oedolion (55 yn bresennol)
- Sesiwn gyda Prifathrawon ac Uwch Reolwyr ysgolion yr Ynys ar y 1af o Ragfyr, 2017 (33 ysgol yn bresennol)
- Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned ar y 24ain o Dachwedd, 2016

**1.8.** Yn wahanol i llynedd ni gynhaliwyd sesiynau galw i mewn, gan fod yr ymateb yn 2016/17 wedi bod yn isel ac roedd Aelodau'r Cyngor yn unfrydol o'r farn nad oedd angen y fath ymgynghoriad eleni.

Ag eithrio pwynt 1.5 roedd yr ymgynghoriad eleni yn dilyn digwyddiadau ymgynghori tebyg a gynhaliwyd dros y blynyddoedd diwethaf.

2. ***<u>Canlyniadau</u>***

**2.1.** Roedd yr ymateb i'r cynigion cyllidebol cychwynol ar gyfer 17/18 dros cyfnod o 5 wythnos yn weddol gadarnhaol. Mae dros 700 o ymatebion (1% o'r boblogaeth) wedi'i dderbyn oddi draws yr amryw sianelau a amlinellwyd uchod gydag ymatebwyr yn ymgysylltu ar draws pob dull.

**2.2.** Y ffordd fwyaf llwyddiannus o gasglu ymatebion eleni oedd yr arolwg ar-lein gyda thua 67% yn ymateb drwy'r sianel yma. Mae hyn yn gynnydd sylweddol dros ein ymateb y llynedd lle gwelwyd y mwyafrif yn ymateb drwy'r grwpiau ffocws a'r sesiynau cysylltiedig. Eleni, dyma'r ail-ddull mwya' poblogaidd gyda'r gweddill yn cysylltu drwy Facebook (FB) a dulliau traddodiadol megis e-byst a llythyrau papur.

**2.3.** Derbyniwyd ymatebion gan gyrff tebyg I gynghorau tref, cyrff llywodraethu ysgolion, pobl hyn ac anabl, yr ifanc, athrawon, a thrigolion eraill na ellid eu grwpio i unrhyw grwp penodol.

**2.4.** Am y tro cyntaf eleni, rydym hefyd wedi medru casglu'r ymatebion a ddaethpwyd ein ffordd fel Cyngor drwy FB. Drwy hyrwyddo'r ymgynghoriad drwy'r cyfrwng FB bu inni gyrraedd oddeutu 44,339 o bobl. (3,849 o bobl drwy posts Cymraeg a 40,490 o bobl drwy'n posts Saesneg).

**2.5.** Bu inni 'bostio'r ymgynghoriad ar y cyfryngau cymdeithasol (neu ei hyrwyddo) 50 o weithiau (25 yn y gymraeg a 25 yn y saesneg) dros y cyfnod dan sylw (5 wythnos) sydd yn golygu fod bob un o'n posts corfforaethol wedi cyrraedd oddeutu 887 o bobl ar gyfartaledd.

**2.6.** Nid yw'r ffaith ein bod wedi cyrraedd cynifer yn cadarnhau eu bod wedi ymweld a'r dudalen ei hun ond maen't heb os yn dangos eu bod yn ymwybodol o'r ymgynghoriad oedd wrth waith.

**2.7.** Mae'r pwynt hyn yn cael ei amlygu yn y niferoedd a ymwelodd a'n safle we corfforaethol gydag unigolion yn ymweld a'r arolwg o wledydd megis –

- **2.7.1.** Unol Daliaethau America
- **2.7.2.** India
- **2.7.3.** Curaco
- **2.7.4.** Sweden
- **2.7.5.** Hong Kong.

Wedi dweud hynny roedd mwyafrif yr ymweliadau i'n gwefan gan unigolion o'r Deyrnas Unedig (dros 96%).

**2.8.** Derbyniwyd 129 o ymatebion drwy FB. Yn wahanol i'r arolwg ar-lein, roedd y trafodaethau drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn aml yn defnyddio'r cyfrwng i gwestiynu gwaith y Cyngor yn gyffredinol a'r 'methiannau' arfaethedig sydd wedi bod yn gysylltiedig a'n darpariaerth gwastraff yn ddiweddar yn ogystal a nodi sylwadau ar yr ymgynghoriad ei hun.

**2.9.** Er hyn, drwyddi draw o'r sianelau i gyd, y prif feysydd ffocws o'r ymatebion oedd fel a ganlyn a gellir eu dychmygu drwy ddefnyddio'r wordle isod ar lun 1:

- **2.9.1.** Codi ffioedd prydau ysgol
- **2.9.2.** Cynyddu costau bws i blant sy'n byw o fewn 2 i 3 milltir o'i hysgol presennol
- **2.9.3.** Datblygu safle parhaol i sipsiwn a theithwyr
- **2.9.4.** Cynnydd arfaethedig mewn treth Cyngor o 3%
- **2.9.5.** Lleihad yng nghostau glanhau ysgolion
- **2.9.6.** Lleihad mewn costau drwy ail-strwythuro a peidio a llenwi swyddi gwag




Llun 1.

**2.10.** Yn gyffredinol, roedd yr ymateb eto eleni yn rhoi ystyriaeth gytbwys o'r dasg anodd sy'n wynebu'r Cyngor gydag amryw o syniadau pellach yn cael ei cynnig yn rhan o'r ymatebion a dderbyniwyd.

**2.11.** Mae gweddill y ddogfen hon yn canolbwyntio ar y meysydd o arbedion a nodwyd yn 1.3 gan dynnu sylw at y canfyddiadau mwyaf cyffredin a nodi rhai awgrymiadau a gynnigir gan drigolion yr Ynys drwy'r ymatebion a dderbynwyd i'r arolwg.

**2.11.1. Rhoi'r Gorau neu Trosglwyddo Gwasanaethau i Eraill**

Roedd gennym 7 cynnig yn gysylltiedig ar maes yma yn amrywio o drosglwyddo rheolaeth ein atyniadau diwylliannol i derfynnu les ein lleoliad hyfforddiant yn Nhy William Jones.
Yn fras roedd yr ymatebion yn cytuno gyda mwyafrif y cynigion a roddwyd ymlaen ond un o'r pryderon mwyaf cyffredin oedd yr angen i'r Cyngor fod yn wyliadwrus iawn wrth drosglwyddo asedau sydd yn ran anatod o'n cynnig i dwristiaid. Roedd yr elfen o dwristiaeth yn cael ei amlygu drosodd a throsodd fel un o'n prif gryfderau fel Ynys ac roedd yr ymateb yn pryderu na fydde trosglwyddiad yn sicrhau eu dyfodol.

Awgrymir gan rai medru cefnogi'r troslwyddiad yn ariannol am gyfnod byr, i helpu sefydlogi'r ddarpariaeth i'r dyfodol.

Nodwyd hefyd bod angen bod yn ofalus os am uwchraddio cyfleusterau cyhoeddus cyn eu trosglwyddo gydag un awgrym yn nodi mai falle'r ffordd orau o'i trosglwyddo yw eu trosglwyddo fel ag y maent gan adael i unrhyw un fydde eisiau eu cymryd drosodd 'as found'. Bydde'r gwariant arfaethedig ar uwchraddio wedyn yn medru cael ei ddefnyddio fel arbediad blynyddol.

**2.11.2. Cynyddu Incwm**

Roedd nifer o'r sylwadau yn gadarnhaol parthed y cynigion (9 ohonynt) oedd yn cael sylw yn y maes yma. Yn wir, roedd yna deimlad y gellid ei grynhoi yn nodi pam nad oeddem yn gwneud hyn yn barod gyda nifer o'r cynigion arfaethedig.
Y ddau gynnig oedd falle yn mynd yn erbyn yr elfen ar ymdeimlad cadarnhaol yma oedd y ddau oedd yn gysylltiedig a chynnydd yng nghostau prydau ysgol a cynyddu costau bws i'r plant hynny sydd yn byw o fewn 2 i 3 milltir o'i hysgol presennol.

Yn wir, roedd gwrthwynebiad amlwg i'r ddau gynnig yma gyda sylwadau yn nodi pryderon am gynaliadwyedd y fath newid oherwydd yr effaith y byddai'n ei gael ar deuluoedd bregus a'r rhai hynny oedd gyda mwy nag un o blant. Nodwyd mewn un ymateb er engraifft y byddai newid o'r fath (cost bws ysgol) yn golygu y byddai'r teulu yn gorfod talu oddeutu £1,000 yn fwy i'r Cyngor yn flynyddol am fynd a'i phlant i'r ysgol.

Roedd amryw un hefyd yn pryderu am y llif traffic sydd am gynyddu o gwmpas ysgolion (yn enwedig y rhai Uwchradd) gan y bydd nifer o ganlyniad i'r fath newid yn cymryd eu plant i'r ysgol eu hunain. Canlyniad y cynnydd hyn mewn ceir, sydd angen ei gysidro yw'r effaith a geir ar ddiogelwch plant o gwmpas ysgolion yr Ynys.

Un pwynt a cynnig a nodwyd sy'n gysylltiedig a'r cynigion yma (symud plant o un ysgol i'r llall mewn tacsi) oedd y ffaith fod angen i'r arlwy addysg ol-16 gael ei adolygu gan nad oedd yr ymateb yn credu bod 5 ysgol uwchradd yn cynnig arlwy 6ed dosbarth o ansawdd yn gynaliadwy o gofio bod Coleg Menai yng nghanol yr Ynys.

Cynnig lle roedd y ddwy ochr I'r stori yn medru cael ei amlygu oedd yr ymgynghoriad gyda'r grwp o bobl hyn parthed gofal cartref. Roedd yna ddealltwriaeth o'r angen i gynyddu'r ffioedd am ofal cartref a tra bod amryw yn derbyn yr argymhelliad yn ddibynol ar y gallu I dalu roedd rhai hefyd yn bryderus. O'r rhai a ymatebodd dim ond 3.8% ohonynt fydda'n ail-feddwl yr angen am ofal cartref petai'r newid yn digwydd. Mae'n bwysig nodi'r o'r ymatebion yma, mai aros yr un peth parthed costau oedd yr opsiwn ffafredig gydag opsiynau o gynnydd blynyddol bychan yn dilyn.

**2.11.3.** **Lleihad mewn costau di-addysg Ysgolion**

Mae'r ymateb i'r cynigion yma (4 ohonynt) yn gyffredinol yn codi pryderon dros effaith y byddai'r arbedion sy'n cael eu cynnig yn ei gael ar safonnau a chyrhaeddiad plant yr Ynys. h.y. un o'r pwyntiau mwya' cyffredin sydd yn dod i'r amlwg yw'r cwestiwn ynglyn a torri'r gyllideb glanhau yn yr ysgolion; os wneir hyn a fydd yr ysgol yn cynyddu yn ei debygolrwydd o heintiau ac o ganlyniad yn gweld absenoldebau salwch nid yn unig plant ond athrawon yn cynyddu o ganlyniad.

Un mesur i liniaru'r pryder uchod sydd yn cael ei gynnig yw'r cyfle i gynnig brechiadau ffliw i nid yn unig athrawon yr Ynys ond hefyd plant fydde o ganlyniad yn atal unrhyw salwch cyson yn ystod y tymhorau gaeafol.

Mae'r ymateb parthed arbedion salwch athrawon yn gweld y ddwy ochr. Rhai yn nodi os yw'r athrawon yn iach yna bydd y gofyn am athrawon llanw yn disgyn a caiff plant yr ysgolion eu haddysg yn rheolaidd gan athrawon llawn amser. Eraill yn nodi os yw'r athrawon yn sal yna cwestiynu beth arall ellid ei wneud.

Gofynnir hefyd drwy'r ymateb I'r maes yma, i'r Cyngor feddwl yn ddwys am yr arbediad sy'n gysylltiedig a chefnogaeth ychwanegol i blant. Noder y pryder, mai ond cynyddu'r galw ar staff rheng flaen (athrawon a cymhorthyddion) fydd hyn yn ei wneud. Y canlyniad fydd, effaith niweidiol ar lefelau salwch staff.

Ar y llaw arall cwestiynir a oes yna ormodedd o gymhorthyddion yn bresennol mewn ysgolion gan mai yn hanesyddol nid dyma oedd y model. Gofynnir oes lle i ddysgu o'r gorffennol?

Un awgrym gan y cyhoedd yw dylsa'r Cyngor drwy'r ysgolion (ac wedi gwirio'r elfen ddiogelu) ofyn os oes cymorth ar gael drwy neiniau a theidiau'r ynys I helpu plant gyda darllen a falle cymorth un i un.

Awgrym pellach sy'n cael ei nodi gan staff ysgol yn yr ymateb yw, os oes lleihad yn y gyllideb ei angen, yna dylsa'r Cyngor edrych ar leihau'r 'gyllideb gyffredinol a ddyrennir i ysgolion gan osgoi toriad trwm mewn un penawd cyllidol'. Bydda hyn wedyn yn arfogi'r Pennaeth neu'r Penaethiaid i benderfynnu sut i wneud y toriad yn eu hysgol hwy.

Nodwyd drwy'r fforwm cyllid ysgolion y dylai'r Cyngor roi arweiniad tair blynedd i ysgolion yr Ynys parthed yr arbedion disgwyliedig, fydd yn eu galluogi i gynllunio'n fwy cadarn i'r dyfodol.

**2.11.4.** **Trawsnewid Gwasanaethau neu gwneud newid yn y ffordd o ddarparu**

Roedd 16 o gynigion cychwynol yn perthyn i'r thema yma ac roeddent yn amrywio o drawsnewid ein darpariaeth ieuenctid I edrych ar opsiynau parthed rhesymoli trefniadau ciniawa mewn cartrefi henoed.

Yn fras, roedd yr ymateb i'r cynigion hyn yn led-cadarnhaol gyda dim ond un o'r cynnigion oedd yn cael ei godi fel pryder gan fwy nag un. Cynnig parthed ein darpariaeth I'r Ieuenctid oedd hwnnw lle roedd amryw un yn pryderu am ei ddyfodol tra bod eraill yn cwestiynu'r newidiadau i ofal cartref gyda'r pryder fod gymaint o newidadau yn y gwasnaeth gofal cymdeithasol yn ormod i'w ofyn o wasanaeth sydd yn gweld cynnydd yn y gofyn.

Yn ychwanegol i'r rhain roedd y mater o allanoli'r casglu o'r meysydd parcio yn cael cryn sylw gyda nifer yn dweud y dylsa'r Cyngor ei allanoli yn ei gyfanrwydd lle bod eraill yn pryderu am yr effaith y gall ei allanoli i gwmni preifat ei gael ar ddefnyddwyr.

Unwaith yn rhagor, roedd barn y bobl hyn a ymgynghorwyd a hwy yn medru deall yr angen am newid yn y ffordd yr oedd Telecare yn cael ei ariannu ac roeddent yn grediniol na fydda cynydd mewn costau yn arwain atynt yn peidio a gofyn am y gwasanaeth. Yn wir, ychydig yn wahanol I'r opsiwn am ofal cartref roedd y mwyafrif (60%) o ymatebwyr yma yn gweld yr angen ac yn cytuno byddai codiad blynyddol rheolaidd (phased implementation) yn well na un codiad mawr eleni.

Roedd amryw un yn falch ac yn gweld budd ehangach o'r cynnig i ddatblygu gwasanaeth arbennigol yng Ngharreglwyd, Caergybi.

**2.11.5. Ail-strwythuro staff neu dileu swyddi gwag**

Roedd amryw o gynigion yma yn amrywio o wasanaeth i wasanaeth.

Cadarnhaol oedd yr ymateb gyda'r ethos o beth oedd yn cael ei roi 'mlaen gyda chydig yn datgan falle nad oedd y Cyngor yn bod yn ddigon uchelgeisiol gyda'r maes yma. Roedd yr ymateb yn cydnabod bod cyfanswm y ffigwr a roddwyd ymlaen fel arbediad ond yn cyfateb i 11 swydd ar gyfartaledd cost o £35,000 yr un allan o oddeutu 3,000 o swyddi oedd yn cael eu cyflogi gan y Cyngor.

Cwestiynwyd yr angen am adolygiad o'r sefyllfa staffio ymhellach gyda'r disgwyliad gan y mwyafrif y gellid gwneud mwy o arbedion o'r maes yma os fydda'r gwaith hynny yn cael ei wneud yn rheolaidd.

Yn ogystal, nodwyd fod angen i'r Cyngor ymrafael ar mater o salwch hefyd gydag un sylwebydd yn nodi ffigyrau a ddefnyddwyd gan y wasg lleol dros gyfnod yr haf.

Un pwynt pellach a nodwyd ynglyn a'r maes yma oedd yr angen i fod yn fwy tryloyw parthed yr arbediad yn ei gyfanrwydd a nodi'r effaith y bydda arbediad o'r fath yn ei gael ar y gwasanaeth a gynigir gan y Cyngor.

Falle bod hyn yn bwynt i'w gadw mewn cof parthed ymgynghoriadau corfforaethol pellach gan y Cyngor Sir.

**2.11.6.** **Cynigion Effeithlonrwydd cyffredin a toriadau i gyfraniadau**

Yn gyffredinol roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn cytuno gyda'r cynigion a roddwyd ymlaen fel rhan o'r maes yma (13 ohonynt). Roedd dau eithriad yn amlygu 'i hunan i'r ymdeimlad cadarnhaol yma –

(i) cyfraniadau i'r ifanc
(ii) gostwng cyllideb y Public Rights Of Way (PROW).

Roedd yr ymateb parthed gostwng cyfraniadau i'r ifanc (Mudiad Ysgolion Meithrin) yn canolbwyntio ar yr effaith dilynol, gydag amryw un yn nodi y bydda cylchoedd yn cau. Canlyniad hyn yn ol yr ymateb (gan gynnwys ymateb y Mudiad ei hun) fydda lleihau'r ddarpariaeth, nid yn unig i blant ond hefyd i rieni fydda wedyn yn lleihau'r cyfleoedd a'r adnoddau sydd yn gosod seiliau cadarn I gychwyn byd addysgol plant.

Roedd yr ymateb parthed gostwng cyllideb PROW yn cwestiynu faint o ostyngiad oedd hyn gyda'r feirniadaeth bod ei gynnig heb rhoi'r pictiwr cyflawn yn ei gwneud yn anodd i bobl ddeall yr oblygiadau.

Roeddent hefyd yn gweld y gostyngiad yn rhywbeth a all effeithio ar dwristiaeth, iechyd, amgylchedd ac addysg.

**2.11.7.** **Cynlluniau Gwariant Sylweddol**

Drwy'r ymgynghoriad am y tro cyntaf eleni bu i'r Cyngor ymgynghori ar ei gynlluniau gwariant sylweddol (neu'r gwariant cyfalaf) sydd yn yr arfaeth ar gyfer 2017/18.

Y gred yw bod hwn yn gam i'r cyfeiriad cywir ac yn dangos i drigolion yr Ynys beth sydd ar y gweill ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod nid yn unig o safbwynt arbedion ond hefyd bellach o safbwynt gwariant ar welliannau i'r dyfodol.
Unwaith yn rhagor, mae'r ymateb i'r cynlluniau yma yn led-gadarnhaol gydag amryw i fan sylwadau yn cael eu pasio ar amryw un.

O'r sylwadau a dderbyniwyd i'r gwrthwyneb y pwynt mwya cyffredin sydd yn cael ei gwestiynu / feirniadu yw'r ffaith bod cynlluniau i wario yn agos am £1miliwn ar safleoedd i sipsiwn a theithwyr. Y gred yw bod hyn yn ddiffygiol yn yr hinsawdd sydd ohoni ac os mai Llywodraeth Cymru sydd yn arwain yna dylsa'r llywodraeth ei ariannu.

**2.12.** Mae'r uchod hefyd yn dangos ac yn datgan ar amryw o adegau y diffyg ymwybyddiaeth sydd yn bodoli o fewn y drafodaeth ehangach ar arbedion a cynlluniau gwariant (cyfalaf) ar beth a pham fod y cynigion yn cael eu cynnig. Falle bod lle i gyfleu hyn yn wahanol i'r dyfodol gan hysbysu'r trigolion pam na ellid defnyddio cyllid cyfalaf i wneud arbedion refeniw. Bydde hwn yn wers i'w dysgu i'r dyfodol.

**2.13.** Fel rhan o'r ymgynghoriad, cafwyd ymateb ffurfiol gan ddau Gyngor Tref –

**2.13.1.** Cyngor Tref Beaumaris a
**2.13.2.** Chyngor Tref Amlwch.

Roedd ymateb Cyngor Tref Beaumaris yn pryderu am effeithiau'r newidiadau a nodwyd ynghynt yn yr adroddiad ac roeddent yn cyd-fynd a'r pryder sydd wedi ei nodi eisoes parthed cynnydd mewn prisiau cinio ysgol / costau bws / lleihad yn y gyllideb glanhau ysgolion ynghyd a'r cynnig arfaethedig o gynyddu'r treth Cyngor o 3%.

**2.14.** Parthed yr ymateb eang a gafwyd yn gysylltiedig ar treth Cyngor roedd y mwyafrif o ymatebwyr yn erbyn unrhyw fath o godiad, er bod rhai yn medru gweld y rhesymeg pam fod y fath godiad yn cael ei wyntyllu fel cynnig ac y byddai'n well ganddynt hwy dalu'r codiad na gweld gwasanaethau yn cael eu torri ymhellach.

**2.15.** Roedd Cyngor Tref Amlwch ar y llaw arall yn tynnu sylw at y ffaith ac yn pryderu nad oedd y cynlluniau cyfalaf presennol yn edrych i adeiladu a chynnig unedau diwydiannol ychwanegol yn y dref a fyddai yn eu tyb hwy yn galluogi busnesau i ehangu yn ogystal a bod yn ffordd o ddenu busnesau newydd i'r ardal, yn enwedig gyda datblygiadau Wylfa Newydd ar y gorwelion. Yr oeddent hefyd o'r farn y dylsa costau teithio aelodau (i Langefni) gael eu cwtogi fel rhan o'r cynigion.

**2.16.** I gloi felly, mae'r ymateb wedi bod yn gynhwysfawr ac ymatebion wedi ei dderbyn drwy nifer o ffyrdd gwahanol. Mae'r ymateb drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn cynyddu ac mae'r gwaith a wnaed gan swyddogion ac aelodau wedi medru sicrhau bod llais yr ifanc / y defnyddiwr / y bobl hyn a grwpiau anodd I'w cyrraedd wedi cael ei glywed fel rhan o'r ymgynghoriad yma.

**2.17.** Mae gwersi wedi ei dysgu ac mae lle inni fod yn datblygu'r rhain ac yn gwella ymhellach I'r dyfodol yn ein ymgynghoriadau rheolaidd.

# ARBEDION I'W GWEITHREDU YN 2017/18 - SAVINGS TO BE IMPLEMENTED IN 2017/18

| Gwasanaeth / Service | Cyllideb / Budget | Gweithred / Action | Categori / Category | Savings to be Implemented / Ardebion i'w weithredu 2017/18 £'000 | |
|---|---|---|---|---|---|
| Addysg Ysgolion / Education Schools | Ysgolion Cynradd ac Uwchradd / Primary and Secondary Schools | Lleihau y costau Cytundeb Glanhau 50% / Reduce the cleaning contract costs by 50% | Lleihad mewn costau ysgol nad ydynt yn costau dysgu / Reduction in non teaching school costs | 116 | Bydd angen gwneud Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb / An Equalities Impact Assessment will need to be done. |
| Addysg Ysgolion / Education Schools | Ysgolion Cynradd / Primary Schools | Arbedion trwy wneud defnydd gwell o gontractau corfforaethol (caffael) e.e. ynni, papur, defnydd swyddfa, dodrefn / Savings from making better use of corporate contracts (procurement) e.g. energy, paper, office supplies, furniture | Ail Dendro neu arbedion Caffael / Re-tendering or procurement savings | 170 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |

| Gwasanaeth / Service | Cyllideb / Budget | Gweithred / Action | Categori / Category | Savings to be Implemented / Ardebion i'w weithredu 2017/18 £'000 | |
|---|---|---|---|---|---|
| Addysg Ysgolion / Education Schools | Staffio - Ysgolion Cynradd ac Uwchradd / Staffing - Primary and Secondary | Lleihau lefel o Salwch - Lleihau Costau athrawon llanw (torri premiwm 10%) / Reduce sickness level - reduce cost of supply teachers (cut the premium 10%) | Lleihad mewn costau ysgol nad ydynt yn costau dysgu / Reduction in non teaching school costs | 100 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |
| Addysg / Education | Ieuenctid / Youth | Trawsnewid Gwasanaeth Ieuenctid / Youth Service Transformation | Trawsnewid Gwasnaeth / Service Transformation | 50 | Bydd angen gwneud Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb / An Equalities Impact Assessment will need to be done. |
| Addysg / Education | Prydau Ysgol/ School Meals | Cynyddu y prisiau at lefel awdurdodau eraill sef o £2.10 y diwrnod i £2.20 / Increase the price to the same level as other authorities i.e. from £2.10 per day to £2.20 | Cynhyrchu Incwm / Income Generation | 60 | Bydd angen gwneud Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb / An Equalities Impact Assessment will need to be done. |
| Addysg / Education | Cynnal | Lleihau cyfraniad at gostau rheoli cwmni Cynnal / Reduce contribution towards the management costs of Cynnal | Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol / General Efficiency Savings | 30 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |

| Gwasanaeth / Service | Cyllideb / Budget | Gweithred / Action | Categori / Category | Savings to be Implemented / Ardebion i'w weithredu 2017/18 £'000 | |
|---|---|---|---|---|---|
| Addysg / Education | CBAC : WJEC | Torri Cyfraniad tuag at y CBAC / Reduce contribution towards WJEC | Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol / General Efficiency Savings | 20 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |
| Addysg / Education | William Mathias | Lleihau costau tuag at gwasanaeth cerdd William Mathias / Reduce costs towards William Mathias music service | Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol / General Efficiency Savings | 7 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |
| Addysg Ysgolion / Education Schools | Ysgolion Cynradd ag Uwchradd / Primary and Secondary Schools | Lleihau costau cymhorthyddion / Reduce Support Assistants' costs | Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol / General Efficiency Savings | 490 | Bydd angen gwneud Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb / An Equalities Impact Assessment will need to be done. |

| Gwasanaeth / Service | Cyllideb / Budget | Gweithred / Action | Categori / Category | Savings to be Implemented / Ardebion i'w weithredu 2017/18 £'000 | |
|---|---|---|---|---|---|
| Adnoddau / Resources | Staffio Cyffrifeg / Accountancy Staff | Yn dilyn ail strwythuro / Following restructure | Arbedion a gynhyrchir drwy ail strwythuro staff / Savings generated through staff restructure | 50 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |
| Adnoddau / Resources | Staffio R & B / Staff R & B | Yn dilyn ail stwythuro / Following restructure | Arbedion a gynhyrchir drwy ail strwythuro staff / Savings generated through staff restructure | 50 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |
| Adnoddau / Resources | Costau Postio / Postage | Stopio creu a postio slip cyflog papur. Staff yn cael mynediad i system electronig (Amdanafi)/ Stop creating and printing paper payslips. Staff to have access to electronic system (My View) | Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol / General Efficiency Savings | 21 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |

| Gwasanaeth / Service | Cyllideb / Budget | Gweithred / Action | Categori / Category | Savings to be Implemented / Ardebion i'w weithredu 2017/18 £'000 | |
|---|---|---|---|---|---|
| Busnes y Cyngor / Council Business | Costau Papur / Paper Costs | Lleihau cyllideb papur trwy ddefnyddio papurau Pwyllgor electronig / Reduce the paper budget as a result of using electronic Committee papers | Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol / General Efficiency Savings | 15 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |
| Busnes y Cyngor / Council Business | Ymchwil Scrwtini / Scrutiny Research | Dileu gyllideb sydd heb ei ddefnyddio / Delete an unused budget | Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol / General Efficiency Savings | 3 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |

| Gwasanaeth / Service | Cyllideb / Budget | Gweithred / Action | Categori / Category | Savings to be Implemented / Ardebion i'w weithredu 2017/18 £'000 | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd / Planning & Public Protection | Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd / Joint Planning Policy Unit | Lleihau y gyllideb / Reduce the budget | Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol / General Efficiency Savings | 30 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd / Planning & Public Protection | Tîm Gweinyddol / Administration Team | Adolygu y strwythyr staffio ar draws y pump swyddogaeth / Review the staffing structure across the five functions | Arbedion a gynhyrchir drwy ail strwythuro staff / Savings generated through staff restructure | 24 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd / Planning & Public Protection | Iechyd Amgylcheddol a Safonau Masnach / Environmental Health and Trading Standards | Adolygu y sefyllfa staffio / Review Staffing position | Arbedion a gynhyrchir drwy ail strwythuro staff / Savings generated through staff restructure | 22 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |

| Gwasanaeth / Service | Cyllideb / Budget | Gweithred / Action | Categori / Category | Savings to be Implemented / Ardebion i'w weithredu 2017/18 £'000 | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynllunio & Gwarchod y Cyhoedd / Planning & Public Protection | Cofrestryddion, Genedigaethau, Marwolaethau, Priodasau / Registrars, Births, Deaths and Marriages | Codi lefel y gyllideb i gyd-fynd gyda'r gwir incwm / Raise the level of the budget to match the actual income | Cynhyrchu Incwm / Income Generation | 20 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd / Planning & Public Protection | Rheoli Pla / Pest Control | Lleihau Costau / Reduce Costs | Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol / General Efficiency Savings | 10 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |
| Diwylliant / Culture | Melin Llynnon Mill | Trosglwyddo Melin Llynnon / Transfer Llynnon Mill | Rhoi'r Gorau neu Trosglwyddo Gwasanaeth / Cessation or Transfer of Service | 40 | Bydd angen gwneud Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb / An Equalities Impact Assessment will need to be done. |
| Dywilliant / Culture | Ynys Lawd / South Stack | Dod â'r cytundeb i ben / Terminate the agreement | Rhoi'r Gorau neu Trosglwyddo Gwasanaeth / Cessation or Transfer of Service | 13 | Bydd angen gwneud Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb / An Equalities Impact Assessment will need to be done. |

| Gwasanaeth / Service | Cyllideb / Budget | Gweithred / Action | Categori / Category | Savings to be Implemented / Ardebion i'w weithredu 2017/18 £'000 | |
|---|---|---|---|---|---|
| Diwylliant / Culture | Carchar a Llys / Gaol & Courthouse | Trosglwyddo yCarchar a'r Llys / Transfer Beaumaris Gaol & Courthouse | Rhoi'r Gorau neu Trosglwyddo Gwasanaeth / Cessation or Transfer of Service | 4 | Bydd angen gwneud Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb / An Equalities Impact Assessment will need to be done. |
| Economaidd. Hamdden a Morwrol / Economic, Leisure & Maritime | Incwm Nofio / Swimming Income | Cynyddu y targedau incwm / Increase Income Targets | Cynhyrchu Incwm / Income Generation | 35 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |
| Economaidd. Hamdden a Morwrol / Economic, Leisure & Maritime | Doc Pysgod Caergybi / Holyhead Fish Dock | Dileu y Gyllideb yn dilyn trosglwyddo'r ased o'r Cyngor yn 2016/ Removal of Budget following the transfer of the asset from the Council in 2016 | Rhoi'r Gorau neu Trosglwyddo Gwasanaeth / Cessation or Transfer of Service | 23 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |

| Gwasanaeth / Service | Cyllideb / Budget | Gweithred / Action | Categori / Category | Savings to be Implemented / Ardebion i'w weithredu 2017/18 £'000 | |
|---|---|---|---|---|---|
| Economaidd. Hamdden a Morwrol / Economic, Leisure & Maritime | Cynyddu Incwm / Arbedion mewn Canolfannau Hamdden / Increase Income Efficiency Savings at Leisure Centres | Lleihau oriau Glanhau yn y 3 canolfan / Reduce Cleaning hours at the 3 Centres | Trawsnewid Gwasnaeth / Service Transformation | 10 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |
| Economaidd. Hamdden a Morwrol / Economic, Leisure & Maritime | Staffio Hamdden / Staffing Leisure | Adolygu y sefyllfa staffio/ Review the staffing position | Arbedion a gynhyrchir drwy ail strwythuro staff / Savings generated through staff restructure | 6 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |
| Economaidd. Hamdden a Morwrol / Economic Leisure & Maritime | Cynyddu Incwm / Arbedion mewn Canolfannau Hamdden / Increase Income Efficiency Savings at Leisure Centres | Allanoli y Caffi yn Amlwch / Outsource the Café at Amlwch | Rhoi'r Gorau neu Trosglwyddo Gwasanaeth / Cessation or Transfer of Service | 5 | Ni fydd newid sylweddol yn y ddarpariaeth, er gall darparwyr newydd fod yn eu lle. / There will be no substantive change to provision although new providers may be in place |

| Gwasanaeth / Service | Cyllideb / Budget | Gweithred / Action | Categori / Category | Savings to be Implemented / Ardebion i'w weithredu 2017/18 £'000 | |
|---|---|---|---|---|---|
| Economaidd. Hamdden a Morwrol / Economic, Leisure & Maritime | Cymorth Cyllidol i weithgareddau Twristiaeth y Haf / Financial Support for Summer Tourism Events | Lleihau y Gyllideb / Reduce the Budget | Lleihad mewn grantiau / Reduction in Grants | 2 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |
| Oedolion / Adults | Henoed - Eraill / Other Elderly | Harmoneiddio ffioedd Teleofal/ Harmonisation of Telecare fees | Trawsnewid Gwasnaeth / Service Transformation | 10 | Bydd angen gwneud Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb / An Equalities Impact Assessment will need to be done. |
| Oedolion / Adults | Gofal preswyl/ Residential care | Datblygu gwasanaethau arbenigol yn Garreglwyd - arbedion o leoliadau allsirol/ Develop specialist services in Garreglwyd - savings from out-of-county placements | Trawsnewid Gwasnaeth / Service Transformation | 20 | Bydd angen gwneud Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb / An Equalities Impact Assessment will need to be done. |
| Oedolion / Adults | Gofal dydd/ Day care | Adolygu trefniadau trafnidiaeth gofal dydd/ Review Day care transportation arrangements | Trawsnewid Gwasnaeth / Service Transformation | 15 | Bydd angen gwneud Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb / An Equalities Impact Assessment will need to be done. |
| Oedolion / Adults | Gofal cartref/ Home care | Cynnydd mewn ffioedd Gofal cartref mewnol/ Increase in internal Home care fees | Cynhyrchu Incwm / Income Generation | 100 | Bydd angen gwneud Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb / An Equalities Impact Assessment will need to be done. |

| Gwasanaeth / Service | Cyllideb / Budget | Gweithred / Action | Categori / Category | Savings to be Implemented / Ardebion i'w weithredu 2017/18 £'000 | |
|---|---|---|---|---|---|
| Oedolion / Adults | Gofal cartref/ Home care | Prosiect Gofalwr Sengl/ Single Carer Project | Trawsnewid Gwasnaeth / Service Transformation | 75 | Bydd angen gwneud Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb / An Equalities Impact Assessment will need to be done. |
| Oedolion / Adults | Gofal cartref/ Home care | Taliadau Uniongyrchol/ Direct Payments | Trawsnewid Gwasnaeth / Service Transformation | 50 | Bydd angen gwneud Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb / An Equalities Impact Assessment will need to be done. |
| Oedolion / Adults | Gofal preswyl a gofal dydd/ Residential care & day care | Arbedion o fewn yr Uned Ddarparu/ Efficiency savings within the Provider Unit | Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol / General Efficiency Savings | 50 | Bydd angen gwneud Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb / An Equalities Impact Assessment will need to be done. |
| Oedolion / Adults | Llety cysgodol/ Sheltered accomodation | Dileu cyllideb sydd yn weddill ar gyfer y gwasanaeth Wardeiniad/ Remove remaining budget for Warden service | Dileu swyddi gwag / Delete vacant posts | 36 | Bydd angen gwneud Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb / An Equalities Impact Assessment will need to be done. |
| Oedolion / Adults | Gofal dydd/ Day care | Adolygu contractau gwasanaethau dydd i glientiaid gydag anableddau dysgu/ Review of day services' contracts for clients with learning disabilities | Trawsnewid Gwasnaeth / Service Transformation | 21 | Bydd angen gwneud Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb / An Equalities Impact Assessment will need to be done. |

| Gwasanaeth / Service | Cyllideb / Budget | Gweithred / Action | Categori / Category | Savings to be Implemented / Ardebion i'w weithredu 2017/18 £'000 | |
|---|---|---|---|---|---|
| Oedolion / Adults | Gofal preswyl a gofal cartref/ Residential care & home care | Model gofal - Penucheldre/ Care model - Penucheldre | Trawsnewid Gwasnaeth / Service Transformation | 2 | Bydd angen gwneud Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb / An Equalities Impact Assessment will need to be done. |
| Oedolion / Adults | Gofal preswyl / Residential care | Lleihau lleoliadau preswyl/ Reduce residential places | Trawsnewid Gwasnaeth / Service Transformation | 150 | Bydd angen gwneud Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb / An Equalities Impact Assessment will need to be done.. |
| Oedolion / Adults | Llety gyda chefnogaeth / Supported Accommodation | Pecynnau cymorth canlyniadau gyda ffocws penodol - byw gyda chefnogaeth/ Outcome focused support packages - supported living | Trawsnewid Gwasnaeth / Service Transformation | | |
| Oedolion / Adults | Arlwyo Cartrefi Preswyl / Catering Residential Care Homes | Asesu opsiynau a'i gwireddu i unai allanoli neu rhesymoli / Assess options and implement to either outsource or rationalise | Trawsnewid Gwasnaeth / Service Transformation | 30 | Ni fydd newid sylweddol yn y ddarpariaeth, er gall darparwyr newydd fod yn eu lle. / There will be no substantive change to provision although new providers may be in place |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo / Highways, Waste & Property | Rent ychwanegol ar gyfer y mân-ddaliadau / Additional Rents from Smallholdings | Increase Income Budget and reduce Repairs and Maintenance Budget | Cynhyrchu Incwm / Income Generation | 150 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |

| Gwasanaeth / Service | Cyllideb / Budget | Gweithred / Action | Categori / Category | Savings to be Implemented / Ardebion i'w weithredu 2017/18 £'000 | |
|---|---|---|---|---|---|
| Priffyrdd Gwastraff ac Eiddo / Highways, Waste & Property | Cyfleusterau Cyhoeddus / Public Conveniences | Allanoli Cyfleusterau Cyhoeddus a lleihau costau rhedeg y rhai sy'n cael eu cadw / Outsourcing Public Conveniences and reduce the running costs of those that are kept | Rhoi'r Gorau neu Trosglwyddo Gwasanaeth / Cessation or Transfer of Service | 26 | Bydd angen gwneud Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb / An Equalities Impact Assessment will need to be done. |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo / Highways, Waste & Property | Staffio Ystadau / Estates Staffing | Adolygu trefniadau staffio / Review staffing arrangements | Arbedion a gynhyrchir drwy ail strwythuro staff / Savings generated through staff restructure | 27 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo / Highways, Waste & Property | Contract Cynnal Ffyrdd / Highway Maintenance Contract | Lleihau'r gyllideb refeniw trwy defnyddio y gyllideb cyfalaf i sicrhau fod cyfanswm y gwariant yn cyrraedd yr isafswm sydd ei angen / Reduce the revenue budget by using the capital budget to ensure that the total expenditure reaches the minimum value required | Ail Dendro neu arbedion Caffael / Re-tendering or procurement savings | 50 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |

| Gwasanaeth / Service | Cyllideb / Budget | Gweithred / Action | Categori / Category | Savings to be Implemented / Ardebion i'w weithredu 2017/18 £'000 | |
|---|---|---|---|---|---|
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo / Highways Waste & Property | Staffio Cynnal a Chadw (Eiddo) / Maintenance Staffing (Property) | Adolygu trefniadau staffio / Review staffing arrangements | Arbedion a gynhyrchir drwy ail strwythuro staff / Savings generated through staff restructure | 35 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo / Highways, Waste & Property | Cynnal a Chadw / Repairs and Maintenance | Apwyntio swyddog i wneud gwaith cynnal a chadw cyffredinol yn hytrach na apwyntio contractwyr allanol / Appoint officer for general Repairs and Maintenance work, rather than to appoint an external contractor | Trawsnewid Gwasnaeth / Service Transformation | 5 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |
| Priffyrdd Gwastraff ac Eiddo / Highways Waste & Property | Trafnidiaeth Cymunedol Môn/ Mon Community Transport | Lleihau y gyllideb 10% / Reduce the budget 10% | Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol / General Efficiency Savings | 12 | Bydd angen gwneud Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb / An Equalities Impact Assessment will need to be done. |

| Gwasanaeth / Service | Cyllideb / Budget | Gweithred / Action | Categori / Category | Savings to be Implemented / Ardebion i'w weithredu 2017/18 £'000 | |
|---|---|---|---|---|---|
| Priffyrdd Gwastraff ac Eiddo / Highways Waste & Property | Glanhau / Cleaning | Adolygu trefniadau glanhau y Pencadlys / Review Headquarters Cleaning arrangements | Trawsnewid Gwasnaeth / Service Transformation | 7 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo / Highways, Waste & Property | Lleihau Costau Dŵr / Reduced Water Charges | Lleihau cyllideb cyfleustodau / Reduction in Utilities budget | Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol / General Efficiency Savings | 6 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |

| Gwasanaeth / Service | Cyllideb / Budget | Gweithred / Action | Categori / Category | Savings to be Implemented / Ardebion i'w weithredu 2017/18 £'000 | |
|---|---|---|---|---|---|
| Priffyrdd Gwastraff ac Eiddo / Highways Waste & Property | Cytundeb Casglu Gwastraff / Waste Collection Contract | Arbedion cyffredinol ar y cytundeb Gwastraff / General saving on Waste Contract | Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol / General Efficiency Savings | 6 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |
| Priffyrdd Gwastraff ac Eiddo / Highways, Waste & Property | Patrôl Croesi ger Ysgolion / School Crossing Patrol | Adolygu Patrôl Croesi ger Ysgolion / Review School Crossing Patrol | Trawsnewid Gwasnaeth / Service Transformation | 5 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo / Highways, Waste & Property | Hawlio Tramwy Cyhoeddus / Public Right of Way | Lleihau Cyllideb Hawliau Tramwy Cyhoeddus / Reduce Public Rights of Way budget | Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol / General Efficiency Savings | 5 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |

| Gwasanaeth / Service | Cyllideb / Budget | Gweithred / Action | Categori / Category | Savings to be Implemented / Ardebion i'w weithredu 2017/18 £'000 | |
|---|---|---|---|---|---|
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo / Highways, Waste & Property | Rheoli Parcio/ Parking Management | Adolygu trefniadau gorfodi parcio / Review Parking Enforcment arrangements | Trawsnewid Gwasnaeth / Service Transformation | 5 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |
| Tai / Housing | Adnewyddiad Sector Breifat/Private Sector Renewal | Incwm drwy ymgymryd â gwaith Tystysgrifau Perfformiad Ynni / Income from undertaking Energy Performance Certificate work | Cynhyrchu Incwm / Income Generation | 19 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |
| Tai / Housing | Adnewyddiad Sector Breifat/ Private Sector Renewal | Ffî am waith y Swyddog Tai Gwag/ Fee for work undertaken by the Empty Homes Officer | Cynhyrchu Incwm / Income Generation | 10 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |

| Gwasanaeth / Service | Cyllideb / Budget | Gweithred / Action | Categori / Category | Savings to be Implemented / Ardebion i'w weithredu 2017/18 £'000 | |
|---|---|---|---|---|---|
| Tai / Housing | Adnewyddiad Sector Breifat/Private Sector Renewal | Incwm o arolygu ail-brynu cyn eiddo'r cyngor/ Income from assessing the repurchase of former Council houses | Cynhyrchu Incwm / Income Generation | 7 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |
| Tai / Housing | Digartrefedd/ Homelessness | Codi'r ffi gweinyddu Rhestr Aros Tai i Gymdeithasau Tai a'r Cyfrif Refeniw Tai / Increased fee for the Housing Register work to Housing Associations and the Housing Revenue Account | Cynhyrchu Incwm / Income Generation | 5 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |
| Trawsnewid / Transformation | Swyddi Gwag / Vacant Posts | Dileu y gyllideb am swyddi gwag tu fewn i'r gwasanaeth / Delete the budget for vacant posts within the service | Dileu swyddi gwag / Delete vacant posts | 50 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |

| Gwasanaeth / Service | Cyllideb / Budget | Gweithred / Action | Categori / Category | Savings to be Implemented / Ardebion i'w weithredu 2017/18 £'000 | |
|---|---|---|---|---|---|
| Trawsnewid / Transformation | Tŷ William Jones | Terfynnu Les Tŷ William Jones / End the Lease of Ty William Jones | Rhoi'r Gorau neu Trosglwyddo Gwasanaeth / Cessation or Transfer of Service | 20 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |
| Trawsnewid / Transformation | Cyfathrebu / Communications | Arbedion costau Cyfryngau / Media Cost Savings | Rhoi'r Gorau neu Trosglwyddo Gwasanaeth / Cessation or Transfer of Service | 2 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |
| Trawsnewid / Transformation | Agenda Lleol 21 / Local Agenda 21 | Dileu y Gyllideb - Dim ei angen bellach / Removal of Budget - No longer required | Dileu cyllidebau sydd heb eu defnyddio / Remove Unused Budgets | 3 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |

| Gwasanaeth / Service | Cyllideb / Budget | Gweithred / Action | Categori / Category | Savings to be Implemented / Ardebion i'w weithredu 2017/18 £'000 | |
|---|---|---|---|---|---|
| Trawsnewid / Transformation | Adnoddau Dynol / Human Resources | Lleihau cyllideb costau teithio / Reduce travel budget | Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol / General Efficiency Savings | 2 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, peryglu cyfle cyfartal neu'n negyddol effeithio ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |
| Trawsnewid / Transformation | Newyddion Môn | Lleihau costau trwy peidio cynhyrchu fersiwn papur / Reduce costs by not producing a paper copy | Rhoi'r Gorau neu Trosglwyddo Gwasanaeth / Cessation or Transfer of Service | 2 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |
| | | | **CYFANSWM / TOTAL** | **2,444** | |

## ARBEDION NODWYD NA FYDDAI'N BOSIB EU GWEITHREDU / SAVINGS IDENTIFIED AS NOT POSSIBLE TO IMPLEMENT



| Gwasanaeth / Service | Cyllideb / Budget | Gweithred / Action | Categori / Category | Arbedion nad yw'n bosib eu gweithredu 2017/18 / Savings not possible to Implement 2017/18 £'000 | |
|---|---|---|---|---|---|
| Addysg Ysgolion / Education Schools | Ysgolion Cynradd a Uwchradd / Primary and Secondary Schools | Lleihau y costau Cytundeb Glanhau 50% / Reduce the cleaning contract costs by 50% | Lleihad mewn costau ysgol nad ydynt yn costau dysgu / Reduction in non teaching school costs | 114 | Yn dilyn adolygiad o'r ddarpariaeth ar ôl y cynnig cychwynnol o'r arbedion yn y gyllideb, nodwyd nad yw'n bosib i leihau'r gorbenion rheoli yn ogystal â gorbenion sefydlog arall i gyflawni'r arbediad gyfan. / A review of the provision following the initial budget saving proposal has identified that it is not possible to reduce the management overheads as well as other fixed overheads to delivery the entire saving |
| Addysg / Education | Cludiant / Transport | Codi pris trafnidiaeth llai na 2 neu 3 milltir i adennill y gost yn llawn sef o £80 y flwyddyn i £465 / Increase the cost of transport for pupils who live within 2 or 3 miles to fully recover the cost i.e. from £80 per annum to £465 | Cynhyrchu Incwm / Income Generation | 13 | Addaswyd i lawr yr amcangyfrif o'r incwm ychwanegol posib y byddai'n cael ei greu gan y cynnydd. / The estimate on the potential additional income that the increase would generate was revised downwards |
| Addysg / Education | Cludiant / Transport | Cludo disgyblion ôl 16 yn ol i'r Ysgol parhaol o'i lleoliad olaf y dydd, yn hytrach nag adref / Transport Post 16 pupils back to their permanent School, rather than to their home | Cynhyrchu Incwm / Income Generation | 48 | Mae'r newid yma eisoes wedi ei gyflwyno, felly, byddai'n gyfrif dwbl./ This change has already been introduced and, therefore, would be a double count. |

| Gwasanaeth / Service | Cyllideb / Budget | Gweithred / Action | Categori / Category | Arbedion nad yw'n bosib eu gweithredu 2017/18 / Savings not possible to Implement 2017/18<br><br>£'000 | |
|---|---|---|---|---|---|
| Diwylliant / Culture | Carchar a Llys / Gaol & Courthouse | Trosglwyddo y Carchar a'r Llys Biwmares / Transfer Beaumaris Gaol & Courthouse | Rhoi'r Gorau neu Trosglwyddo Gwasanaeth / Cessation or Transfer of Service | 2 | Y gyllideb gwirioneddol ar gyfer Carchar a Llys Biwmares oedd £4k, ddim £6k fel nodwyd yn gyntaf./<br>Actual budget was £4k for Beaumaris Gaol & Courthouse not £6k as was first noted. |
| Economaidd. Hamdden a Morwrol / Economic Leisure & Maritime | Doc Pysgod Caergybi / Holyhead Fish Dock | Dileu y Gyllideb yn dilyn trosglwyddo'r ased o'r Cyngor yn 2016 / Removal of Budget following the transfer of the asset from the Council in 2016 | Rhoi'r Gorau neu Trosglwyddo Gwasanaeth / Cessation or Transfer of Service | 5 | Angen cymryd £5k incwm allan o'r arbediad gwreithiol arfaethedig gan ei fod yn perthyn i wasanaeth arall (Eiddo). /<br>£5k income needed to be taken out of the original saving proposal as it belonged to another service. (Property) |
| Oedolion / Adults | Gofal dydd/ Day care | Rhesymoli gwasanaethau dydd - Anableddau Dysgu/ Rationalisation of Day Services - Learning Disability | Trawsnewid Gwasnaeth / Service Transformation | 15 | Y gyllideb yn gorwario ar hyn o bryd, felly, nid yw'n bosib i gynnig arbediad. / Budget is currently overspending, therefore, it is not possible to propose this saving. |
| Priffyrdd Gwastraff ac Eiddo / Highways Waste & Property | Cyfleusterau Cyhoeddus / Public Conveniences | Allanoli Cyfleusterau Cyhoeddus a lleihau costau rhedeg y rhai sy'n cael eu cadw / Outsourcing Public Conveniences and reduce the running costs of those that are kept | Rhoi'r Gorau neu Trosglwyddo Gwasanaeth / Cessation or Transfer of Service | 24 | Yn dilyn gwaith a waned gan yr Adran Priffyrdd, ni fydd hi'n bosib i symud ymlaen gyda Chynlluniau Traeth Coch na Phorthdafarch. / Following work undertaken by the Highways Department, it will not be possible to move ahead with Traeth Coch or Porthdafarch Schemes at this time. |

| Gwasanaeth / Service | Cyllideb / Budget | Gweithred / Action | Categori / Category | Arbedion nad yw'n bosib eu gweithredu 2017/18 / Savings not possible to Implement 2017/18 £'000 | |
|---|---|---|---|---|---|
| Priffyrdd Gwastraff ac Eiddo / Highways Waste & Property | Staffio Ystadau / Estates Staffing | Adolygu trefniadau staffio / Review staffing arrangements | Arbedion a gynhyrchir drwy ail strwythuro staff / Savings generated through staff restructure | 37 | Yn dilyn adolygiad o'r strwythur, dim ond un swydd fydd hi'n bosib i'w dynnu o'r sefydliad. / Following the review of the structure, it will only be possible to remove one post from the establishment. |
| Priffyrdd Gwastraff ac Eiddo / Highways, Waste & Property | Staffio Cynnal a Chadw (Eiddo) / Maintenance Staffing (Property) | Adolygu trefniadau staffio / Review staffing arrangements | Arbedion a gynhyrchir drwy ail strwythuro staff / Savings generated through staff restructure | 15 | Dim ond £35k o'r arbedion effeithlonrwydd gwreiddiol arffaethedig o £50k sy'n bosib, gan fod £15k yn ymwneud â chyllidebau atgyweiriadau a cynnal a chadw sy'n eistedd yng ngwasanaethau arall. / Only £35k of the original proposed efficiency saving of £50k is possible as £15k relates to R & M budgets sitting in other services. |
| Trawsnewid / Transformation | Swyddi Gwag / Vacant Posts | Dileu y gyllideb am swyddi gwag tu fewn i'r gwasanaeth / Delete the budget for vacant posts within the service | Dileu swyddi gwag / Delete vacant posts | 40 | O'r £90k y cynigwyd yn wreiddiol, dim ond £50k y gellir ei gyflawni gan mai ond 1 o'r 2 swydd sydd ar y rhestr sefydliad, swydd tymor sefydlog odd y llall a ariannwyd drwy ffynonellau arall. / Of the £90k that was originally proposed only £50k can be achieved as only 1 of the 2 posts is on the establishment list the other post was a fixed term post funded through other sources. |

| Gwasanaeth / Service | Cyllideb / Budget | Gweithred / Action | Categori / Category | Arbedion nad yw’n bosib eu gweithredu 2017/18 / Savings not possible to Implement 2017/18<br><br>£'000 | |
|---|---|---|---|---|---|
| Trawsnewid / Transformation | Cyfathrebu / Communications | Arbedion costau Cyfryngau / Media Cost Savings | Rhoi'r Gorau neu Trosglwyddo Gwasanaeth / Cessation or Transfer of Service | 1 | Arbediad effeithlonrwydd arfaethedig gwreiddiol odd £3k, fodd bynnag, dim ond £2k oedd y gyllideb.<br>Original efficiency saving proposal was £3k however the budget was only £2k. |
| | | | **CYFANSWM / TOTAL** | **314** | |

**CYNIGION ARBEDION HEB EU CYNNWYS YN Y GYLLIDEB ARFAETHEDIG TERFYNOL**
**SAVINGS PROPOSALS NOT INCLUDED IN THE FINAL BUDGET PROPOSALS**

| Gwasanaeth/ Service | Cyllideb / Budget | Gweithred / Action | Categori/ Category | Arbedion ddim yn cael eu gweithredu 2017/18 / Savings not Implemented 2017/18<br><br>£'000 | |
|---|---|---|---|---|---|
| Addysg / Education | Ieuenctid / Youth | Trawsnewid Gwasanaeth Ieuenctid / Youth Servce Transformation | Trawsnewid Gwasnaeth / Service Transformation | 40 | Gostyngir yr arbedion arfaethedig yng nghyllideb y Gwasanaeth Ieuenctid i £50k, ond bydd yr arbediad gwirioneddol yn ddibynnol ar y penderfyniad terfynol ar y Gwasanaeth Ieuenctid. Bydd amryw o opsisynnau i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried. /<br>The proposed savings in the Youth Service budget is reduced to £50k but the actual saving will be dependent on the final decision on the Youth Service. There will be various options for the Executive to consider. |
| Addysg / Education | Cludiant / Transport | Codi pris trafnidiaeth llai na 2 neu 3 milltir i adennill y gost yn llawn, sef o £80 y flwyddyn i £465 / Increase the cost of transport for pupils who live within 2 or 3 miles to fully recover the cost i.e. from £80 per annum to £465 | Cynhyrchu Incwm / Income Generation | 37 | Dangosodd yr ymgynghoriad cyhoeddus fod cynnydd o £80 i £465 yn cael ei ystyried i fod yn gynnydd afresymol. Bydd cynnydd o 310 y flwyddyn yn lleihau rhywfaint o'r diffyg yn incwm y gyllideb yma./<br>The public consultation showed that an increase from £80 to £465 was considered to be an unreasonable increase. A £10 increase per annum will reduce some of the shortfall in income for this budget |
| Addysg / Education | Blynyddoedd Cynnar / Early Years | Lleihau ein cyfraniadau i'r mudiadau blynyddoedd cynnar / Reduce our contribution towards early years organisations | Lleihad mewn grantiau / Reduction in Grants | 35 | Mae angen cynnal trafodaethau hefo Swfydliadau Blynyddoedd cyn gellir gwneud unrhyw benderfyniad ar hyn. /<br>Negotiations with the Early Years Organisations need to be undertaken before any decision on this can be taken. |

| Gwasanaeth/ Service | Cyllideb / Budget | Gweithred / Action | Categori/ Category | Arbedion ddim yn cael eu gweithredu 2017/18 / Savings not Implemented 2017/18<br><br>£'000 | Gwasanaeth/ Service |
|---|---|---|---|---|---|
| Diwylliant / Culture | Llyfrgelloedd / Libraries | Trawsnewid y Gwasanaeth Llyfrgelloedd / Library Service Transformation | Trawsnewid Gwasnaeth / Service Transformation | 30 | Bydd yr arbedion arfaethedig yng Ngwasanaethau Llyfrgell yn cael eu gohirio am un flwyddyn ariannol i ganiatau cynnal ymgynghoriad llawn ac i aelodau'r Pwyllgor Gwaith gael manylion o'r holl opsiynnau ar gael iddynt. /<br>The proposed savings in the Library Services is to be delayed for one financial year in order to allow full consultation to take place and for the members of the Executive have details of all options available to them. |
| | | | **CYFANSWM / TOTAL** | **142** | |

## CYNIGION ARBEDION HEB EU CYNNWYS YN Y GYLLIDEB ARFAETHEDIG DERFYNOL

| | Cyllideb Ddi-symyd yn dilyn Setliad Dros Dro<br>£ | Addasiad i'r Gyllideb Ddisymud<br>£ | Arbedion<br>£ | Pwysau Cyllidebol<br>£ | Cyllideb Arfaethedig Terfynnol 2017/18<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|
| Addysg a Diwylliant | 49,086,030 | -45,380 | -1,100,000 | 715,000 | 48,655,650 |
| Gwasanaethau Oedolion | 22,759,490 | 185,000 | -559,000 | 425,000 | 22,810,490 |
| Gwasanaethau Plant | 7,611,780 | | 0 | 35,000 | 7,646,780 |
| Gwasanaethau Tai | 862,820 | | -41,000 | 205,000 | 1,026,820 |
| Amgylcheddol a Technegol | 14,102,090 | | -339,000 | | 13,763,090 |
| Cymunedol ac Adfywio Economaidd | 4,187,720 | 1,500 | -187,000 | | 4,002,220 |
| Trawsnewid Corfforaethol | 3,822,980 | | -79,000 | | 3,743,980 |
| Adnoddau (cynnwys Budd-daliadau a roddwyd) | 2,863,630 | 125,000 | -121,000 | 35,000 | 2,902,630 |
| Busnes y Cyngor | 1,525,480 | 10,000 | -18,000 | | 1,517,480 |
| Rheoli Corfforaethol | 760,580 | | | | 760,580 |
| **Cyfanswm Cyllidebau Gwasanaeth** | **107,582,600** | **276,120** | **-2,444,000** | **1,415,000** | **106,829,720** |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | 1,914,530 | | | | 1,914,530 |
| Ad-dalu i CRT | -621,950 | | | | -621,950 |
| Ardollau | 3,322,596 | 12,137 | | | 3,334,733 |
| Cyllido Cyfalaf | 8,854,332 | -705,000 | | | 8,149,332 |
| Rhyddhad Trethi Dewisol | 60,000 | | | | 60,000 |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 5,600,000 | | | | 5,600,000 |
| Cyfanswm Cyllidebau a Ddyranwyd | 126,712,108 | -416,743 | -2,444,000 | 1,415,000 | 125,266,365 |
| Cyllidebau Wrth Gefn a Chyffredinol | 1,547,000 | 30,000 | | -200,000 | 1,377,000 |
| **Cyfanswm Cyllideb 2017/18** | **128,259,108** | **-386,743** | **-2,444,000** | **1,215,000** | **126,643,365** |
| **Ariannwyd gan** | | | | | |
| Grant Cynnal Refeniw | 69,286,000 | 364,000 | | | 69,650,000 |
| Treth Annomestig Cenedlaethol | 23,002,000 | | | | 23,002,000 |
| Y Dreth Gyngor yn cynnwys Premiwm y Dreth Gyngor | 33,072,692 | 432,308 | | | 33,505,000 |
| Cronfeydd Wrth Gefn y Cyngor | | | | 490,000 | 490,000 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **125,360,692** | **796,308** | **0** | **490,000** | **126,647,000** |
| **Balans i'r Gronfa Wrth Gefn Cyffredinol** | | | | | **-3,635** |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **14 CHWEFROR 2017** |
| **PWNC:** | **CYLLIDEB GYFALAF 2017/18** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD H E JONES** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>RHIF FFÔN:<br>E-BOST: | **MARC JONES**<br>01248 752601<br>rmjfi@ynysmon.gov.uk |
| **AELODAU LLEOL:** | **Amherthnasol** |

**Argymhelliad / Argymhellion a Rheswm / Rhesymau**

**1. RHAGLEN GYFALAF 2017/18**

**1.1 Pwrpas**

Rhaid i'r Pwyllgor Gwaith gynnig cyllideb gyfalaf ar gyfer 2017/18 a fydd yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 2017.

Yn yr adroddiad a ganlyn, ceir diweddariad o'r gyllideb gyfalaf ddrafft ar gyfer 2017/18 a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 7 Tachwedd 2016 (mae copi o'r adroddiad ynghlwm fel Atodiad 1).

**2. STRATEGAETH GYFALAF AR GYFER 2017/18**

**2.1** Roedd y cynllun cyfalaf drafft ar gyfer 2017/18 yn seiliedig ar strategaeth gyfalaf diwygiedig a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ar 17 Hydref 2016. Gellir crynhoi'r strategaeth fel a ganlyn:-

- Mae'r cyllid ar gyfer rhaglen gyfalaf 2017/18 wedi ei gyfyngu i werth y grant cyfalaf, lefel y benthyca â chymorth, unrhyw gyllid a ddyrannwyd i gynlluniau yn y gorffennol ac nad oes mwyach ei angen a gwerthu unrhyw dderbyniadau cyfalaf sydd heb eu dyrannu;
- Byddai benthyca digefnogaeth ond yn digwydd petai'r prosiect yn lleihau costau neu'n cynhyrchu incwm i lefel ddigonol i gwrdd â'r costau cyllido cyfalaf ychwanegol. Yr eithriad i hyn yw'r cyllid ar gyfer Rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif;
- Dyrennir swm bob blwyddyn i fuddsoddi mewn TG, Adeiladau'r Cyngor, Cerbydau a Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl;
- Caiff prosiectau a ariennir drwy grantiau eu hychwanegu at raglen gyfalaf 2017/18 unwaith y bydd lefel y cyllid yn hysbys;
- Bydd swm yn cael ei roi o'r neilltu ar gyfer prosiectau buddsoddi i arbed bychan a byddai'r rhain yn cael eu sgorio ar wahân i'r prosiectau newydd mawr;
- Byddai bidiau ar gyfer prosiectau newydd yn cael eu hasesu'n unol â'r matrics sgorio a ddefnyddiwyd yn 2016/17 a blaenoriaeth yn cael ei rhoi i brosiectau a fydd yn cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei amcanion corfforaethol, yn lliniaru risgiau corfforaethol, yn cyflawni arbedion refeniw yn y dyfodol ac sy'n gallu dangos bod prosesau rheoli prosiect digonol wedi cael eu sefydlu.

**3. CANLYNIADAU'R YMGYNGHORI**

Fel rhan o'r broses ymgynghori, gofynnwyd i drigolion Ynys Môn a'r prif gydranddeiliaid eraill wneud sylwadau ar gynnwys y rhaglen gyfalaf. Roedd y prif bryder yn codi o'r ymgynghoriad yn gysylltiedig â chynllun y Cyngor i adeiladu safle parhaol a safle dros dro ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr.

Er gwaethaf y sylwadau a wnaed yn yr ymgynghoriad, mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i ddarparu safleoedd i gwrdd â'r anghenion a nodwyd yn yr Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Ynys Môn a Gwynedd 2016, yn unol â Deddf Tai (Cymru) 2014 ac felly mae'r gwariant a gynlluniwyd yn aros o fewn y rhaglen gyfalaf.

**4. CYNLLUNIAU BENTHYCA DI-GEFNOGAETH POSIB**

Roedd 2 o gynlluniau benthyca di-gefnogaeth posib wedi eu cynnwys yn y rhaglen gyfalaf ddrafft, y naill yn ymwneud ag adeiladu cae pêl-droed 3G yng Nghanolfan Hamdden Plas Arthur a’r llall â phrynu offer ffitrwydd ar gyfer Canolfan Hamdden Caergybi. Mae’r ddau gynllun yn parhau i gael eu datblygu ac ni fydd modd symud ymlaen yn 2017/18. O’r herwydd, maent wedi cael eu tynnu o’r rhaglen gyfalaf ddrafft.

**5. PROSIECTAU BUDDSODDI I ARBED**

O’r 6 bid a gyflwynwyd, roedd 2 gynllun Buddsoddi I Arbed wedi eu cynnwys yn y rhaglen gyfalaf ddrafft. Un o’r cynlluniau a gefnogwyd oedd cynllun i adeiladu gwaith newydd i drin carthffosiaeth ar gyfer toiledau cyhoeddus Traeth Coch. Er bod bwriad i fwrw ymlaen gyda’r cynllun hwn, mae anawsterau wedi codi a all olygu oedi neu a all atal y cynllun rhag mynd yn ei flaen o gwbl. Y bwriad, felly, yw i’r cynllun a sgoriodd uchaf wedyn, sef cynllun lleihau costau ynni yn Ysgol Uwchradd Bodedern, gael ei gadw wrth gefn a’i weithredu oni fydd modd symud ymlaen gyda chynllun Traeth Coch. Amcangyfrifir y bydd y naill gynllun a’r llall yn costio £75k.

**6. ARGYMHELLIAD**

1. Bod y Pwyllgor Gwaith yn argymell y rhaglen gyfalaf isod i’r Cyngor Llawn:-

| | **£’m** |
|---|---|
| Cynlluniau yr ymrwymwyd iddynt ac a ddygwyd ymlaen o 2016/17 | 8.826 |
| Buddsoddi yn ein Hasedau Cyfredol (gan gynnwys Grantiau Cyfleusterau i’r Anabl) | 2.301 |
| Prosiectau Buddsoddi i Arbed | 0.186 |
| Cynnal a Chadw Priffyrdd | 0.761 |
| Cynlluniau Cyfalaf Mawr Newydd | 11.675 |
| Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain | 6.865 |
| **Cyfanswm Cynlluniau Cyfalaf y Gronfa Gyffredinol** | **30.614** |
| Cynlluniau Cyfalaf CRT | 9.889 |
| **Cyfanswm y Gyllideb Gyfalaf Arfaethedig ar gyfer 2017/18** | **40.503** |

Mae gwybodaeth fanwl am y prosiectau sydd wedi eu cynnwys a’r modd y bwriedir eu cyllido ynghlwm yn Atodiad 2.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod ac/neu fynd am yr opsiwn hwn?**

Ystyriwyd nifer o fidiau wrth lunio’r rhaglen gyfalaf ddrafft.

**Pam fod hwn yn benderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith?**

Mae cynnig y gyllideb gyfalaf yn fater sydd wedi ei ddirprwyo i’r Pwyllgor Gwaith.

**CH - A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D - A yw’r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Amherthnasol

| DD - | Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Ystyriwyd y strategaeth gyfalaf a'r rhaglen gyfalaf ddrafft gan yr UDA ym mis Medi 2016 ac fe gefnogwyd y ddwy ddogfen. Cefnogir yn ogystal y rhaglen gyfalaf derfynol. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Amherthnasol – y Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad hwn |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Dim sylwadau penodol ac eithrio'r rheini a wnaed yn ystod trafodaethau yn yr UDA. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | |
| **E -** | **Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | |
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrth-dlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniadau** | |
| 7 | **Eraill** | |

**Atodiadau:**

- Atodiad A – Adroddiad ar y Gyllideb Gyfalaf Ddrafft 2017/18 – Pwyllgor Gwaith 7 Tachwedd 2016
- Atodiad B – Cyllideb Cyfalaf Arfaethedig 2017/18

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch gydag awdur yr adroddiad am wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):**

- Adroddiad ar y Strategaeth Gyfalaf – Pwyllgor Gwaith 19 Medi 2016

**ATODIAD A**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **7 TACHWEDD 2016** |
| **Pwnc:** | **CYLLIDEB GYFALAF DDRAFFT 2017/18** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD H E JONES** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **MARC JONES** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **MARC JONES**<br>01248 752601<br>rmjfi@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith ystyried y rhaglen gyfalaf arfaethedig ar gyfer 2017/18 a phenderfynu ar y cynnig terfynol ar gyfer ei gymeradwyo yn y flwyddyn newydd mewn perthynas â'r eitemau a ganlyn:-

- Cytuno i barhau i gyllido'r cynlluniau y gwnaed ymrwymiad iddynt fel y nodir ym mharagraff 3.2 – Cyfanswm o £8.826m ac, o hwnnw, daw £647k o gyllid craidd y Cyngor;
- Cytuno i gyllido gwariant ar grantiau cyfleusterau i'r anabl, atgyweirio adeiladau cyfredol, asedau TG a cherbydau fel y nodir ym mharagraff 3.3 – Cyfanswm o £2.301m;
- Cymeradwyo cyllido'r ddau brosiect Buddsoddi i Arbed sydd wedi sgorio uchaf fel y nodir ym mharagraff 3.4 - Cyfanswm o £0.186m;
- Cymeradwyo cyllido'r cynlluniau cyfalaf newydd a nodir ym mharagraff 3.6 – Cyfanswm o £11.675m ac, o hwnnw, daw £2.531m o gyllid craidd y Cyngor;
- Cymeradwyo cyllid o £0.76m ar Gynnal a Chadw Priffyrdd yn unol â pharagraff 3.5.

Ystyried a oes angen gwneud gwaith pellach i asesu hyfywedd cyllido'r ddau gynllun y manylir arnynt ym mharagraff 3.7 drwy fenthyciadau di-gefnogaeth.

Cymeradwyo'r rhaglen gyfalaf ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif ar yr amod y bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ar gyllido'r elfen benthyciadau digefnogaeth o'r rhaglen.

Cymeradwyo cynnwys y cynlluniau Cyfrif Refeniw Tai, fel y nodir ym mharagraff 5, yn y rhaglen gyfalaf derfynol - Cyfanswm o £9.889m.

Mae'r adroddiad manwl ar y rhaglen gyfalaf arfaethedig ynghlwm fel Atodiad 1 – 6.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae hwn yn fater sydd wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Mae sylwadau'r UDA wedi cael eu hymgorffori yn yr adroddiad |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Amherthnasol – y Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | I'w gadarnhau |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |
| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

- Atodiad 1 – Adroddiad ar y Rhaglen Gyfalaf Arfaethedig ar gyfer 2017/18
- Atodiad 2 – Manylion y Rhaglen Gyfalaf Arfaethedig ar gyfer 2017/18
- Atodiad 3 – Prosiectau Buddsoddi i Arbed
- Atodiad 4 – Sgorio Prosiectau Cyfalaf Newydd
- Atodiad 5 – Matrics Sgorio ar gyfer Cynllluniau Cyfalaf Newydd
- Atodiad 6 – Crynodeb o'r Cyllid Cyfalaf ar gyfer y Rhaglen Arfaethedig

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

# CYLLIDEB CYFALAF DDRAFFT 2017/18

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1** Yn ei gyfarfod ar 17 Hydref 2016, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith y Strategaeth Gyfalaf mewn perthynas â chyllideb 2017/18. Yn y strategaeth, nodwyd y blaenoriaethau a oedd i'w hymgorffori yn y rhaglen gyfalaf a oedd yn cynnwys: -

- Cynnal ac uwchraddio asedau cyfredol y Cyngor (gan gynnwys asedau TG, cerbydau ac adeiladau presennol);
- Darparu swm ar gyfer grantiau cyfleusterau i'r anabl;
- Cynlluniau y gwnaed ymrwymiad iddynt ac a gychwynnodd yn 2016/17;
- Cynlluniau sy'n tynnu i lawr gyfraniadau grant sylweddol sydd angen ond y cyllid cyfatebol lleiaf gan y Cyngor;
- Prosiectau llai Buddsoddi i Arbed.

**1.2** Penderfynodd y Pwyllgor Gwaith hefyd i asesu cynlluniau Ysgolion y 21ain Ganrif y dyfodol ar wahân i'r brif raglen cyllido cyfalaf.

**1.3** Gwahoddwyd bidiau gan wasanaethau a chawsant eu hasesu yn erbyn y system sgorio gorfforaethol er mwyn blaenoriaethu'r rhai a oedd yn cael eu hargymell i'w cymeradwyo.

## 2. CYLLID AR GAEL

**2.1** Mae'r cyllid craidd sydd ar gael ar gyfer cyllideb gyfalaf cronfa gyffredinol 2017/18 i'w weld yn Nhabl 1 isod:-

**Tabl 1**
**Cyllid Cyfalaf Craidd y Gronfa Gyffredinol**

| **Ffynhonnell Ariannu** | **£ 'm** |
|---|---|
| Grant Cyfalaf Cyffredinol (yn unol â'r Setliad Dros Dro) | 1.340 |
| Benthyca â Chymorth (yn unol â'r Setliad Dros Dro) | 2.203 |
| Derbyniadau cyfalaf | 1.522 |
| 2016/17 Arian na chafodd ei ddefnyddio ac a ddygwyd ymlaen | 0.564 |
| Cyfraniad Refeniw Wrth Gefn heb ei neilltuo | 0.506 |
| **Cyfanswm Cyllid Cyfalaf Craidd y Gronfa Gyffredinol** | **6.135** |

**2.2** Yn ogystal â'r cyllid cyfalaf craidd hwn, bydd y prosiectau yn cael eu hariannu yn rhannol neu'n llawn gan grantiau allanol a dynnir i lawr wrth i'r cynllun fynd yn ei flaen.

**2.3** Mae'r rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn derbyn cyllid o 50% gan Lywodraeth Cymru ar ffurf grantiau a chymorth i fenthyca, gyda'r Cyngor yn cyllido ei 50% ef drwy fenthyciadau digefnogaeth. Bydd amseriad y cyllid yn gysylltiedig â'r cynnydd a wneir ar yr ysgolion newydd sy'n cael eu hadeiladu.

**2.4** Bydd y Cyfrif Refeniw Tai hefyd yn cael ei raglen gyfalaf ei hun, a ariennir yn bennaf o'i adnoddau ei hun a gynhyrchir drwy osod eiddo ac o'r Lwfans a geir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Gwaith Trwsio Mawr.

## 3. RHAGLEN GYFALAF CRONFA GYFFREDINOL 2017/18

**3.1** Yn unol â'r Strategaeth Gyfalaf a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ar 17 Hydref 2016, mae cyllid wedi cael ei ddyrannu yn y lle cyntaf i'r cynlluniau yn ôl trefn eu blaenoriaeth yn y strategaeth. Mae manylion llawn yr holl gynlluniau ynghlwm fel Atodiad 2.

### 3.2 Cynlluniau ymrwymedig

#### 3.2.1 Gweithredu CCIS

Dyrannwyd £75k i'r cynllun hwn yn 2016/17 ac, yn y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2015/16, nodwyd ymrwymiad am £25k pellach yn 2017/18. Mae'r amcangyfrif o gostau cwblhau'r prosiect wedi cynyddu i £65k. Yn ogystal, mae'r Gwasanaeth wedi adnabod costau refeniw na ellir eu hariannu trwy'r rhaglen gyfalaf i weithredu'r prosiect (£76k yn 2017/18 a £50k yn 2018/19). Ar hyn o bryd, nid oes cyllid ar gael i gwrdd â'r costau ychwanegol hyn.

#### 3.2.2 Gorchymyn Prynu Gorfodol

Bydd un eiddo'n cael ei werthu cyn bo hir a bydd hyn yn cynyddu'r arian sydd ar gael yn ôl i £192k, bydd £8k ychwanegol yn cael ei ddyrannu i fynd â'r gronfa yn ôl i £200k.

#### 3.2.3 Porth Ymwelwyr Ynys Cybi

Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi penderfynu yn flaenorol i glustnodi swm cyfalaf bychan (£40k yn 2017/18) fel y gellir tynnu i lawr oddeutu £4m o gyllid allanol (gweler Rhaglen y Pwyllgor Gwaith 18 Gorffennaf, 2016 - Eitem 9).

#### 3.2.4 Lôn Wylfa Newydd

Er mai'r Cyngor fel yr Awdurdod Priffyrdd fydd yn gweithio ar y cynllun, bydd y costau yn cael eu hariannu'n llawn o ffynonellau allanol ac nid oes angen cyfraniad gan y Cyngor.

#### 3.2.5 Ffordd Gyswllt Llangefni

Mae'r cynllun yn cael ei gynllunio dros gyfnod o 3 blynedd, gyda gwerth £3.4m o waith wedi ei gynllunio ar gyfer 2017/18 a £2.9m pellach wedi ei gynllunio ar gyfer 2018/19. Cyfraniad y Cyngor yw 10% o gost y cynllun, sy'n golygu y bydd angen dyrannu £342k yn 2017/18 a £290k pellach yn 2018/19. Bydd cyfanswm cyfraniad y Cyngor dros 3 blynedd y cynllun yn £905k.

### 3.3 Cynnal a Chadw Asedau Presennol

#### 3.3.1 Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl

Mae gofyniad statudol i ddarparu grantiau er mwyn darparu cyfleusterau i'r anabl mewn cartrefi yn y sector preifat, er nad oes awgrym ynghylch lefel y cyllid y mae'n rhaid ei ddyrannu. Cyflwynodd y Gwasanaeth Tai fid am ragor na £800k ond, o ystyried yr ymrwymiadau a'r galwadau eraill ar y cyllid a oedd ar gael, dyrannwyd swm dros dro o £750k.

#### 3.3.2 Gwelliannau i Adeiladau'r Cyngor

Mae swm dros dro o £1m wedi ei glustnodi ac mae'r arian hwn wedi cael ei ddyrannu gan y tîm Gwasanaethau Eiddo fel a ganlyn - £300k ar gyfer mynediad i'r anabl mewn ysgolion, £500k ar gyfer gwaith adnewyddu cyffredinol mewn ysgolion a £200k ar gyfer adnewyddu adeiladau nad ydynt yn rhai ysgol.

**3.3.3 Buddsoddi mewn TG**

Mae swm o £400k wedi cael ei ddyrannu dros dro i - gynnal isadeiledd craidd (£150k), i uwchraddio cyfrifiaduron personol a gliniaduron (£100k) ac i dalu costau trwyddedu (£101k). Bydd y costau hyn yn codi bob blwyddyn. Yn ogystal, mae bid o £50k wedi cael ei chynnwys yn y rhaglen gyfalaf dros dro i ariannu'r gost o symud systemau o hen serfwyr. Bydd angen swm blynyddol llai o £20k yn y dyfodol er mwyn parhau â'r gwaith hwn.

**3.3.4 Cerbydau**

Mae swm blynyddol o £150k wedi'i ddyrannu i adnewyddu cerbydau. Dylid nodi hefyd bod posibilrwydd y bydd cais am gyllid i brynu cerbyd llyfrgell newydd yn cael ei gyflwyno, ond mae hyn yn dibynnu ar ganlyniad yr adolygiad o'r gwasanaethau llyfrgell. Yn ogystal, bydd angen i fflyd y Cyngor o lorïau graeanu gael ei hadnewyddu ar ryw adeg yn y dyfodol, ond mae hyn yn dibynnu ar y defnydd a wneir ohonynt yn ystod y gaeaf yma. Mae cerbyd graeanu newydd yn costio tua £120k.

**3.4 Prosiectau Buddsoddi i Arbed**

**3.4.1** Yn ystod yr haf, gwahoddwyd gwasanaethau i gyflwyno ceisiadau am arian o'r £1m a ryddhawyd o gronfeydd wrth gefn. Derbyniwyd nifer o geisiadau o natur cyfalaf a fyddai'n sicrhau arbedion refeniw yn y dyfodol. Roedd wyth o geisiadau yn y categori hwn, er bod dau bellach wedi derbyn cyllid drwy gyllid Buddsoddi i Arbed Llywodraeth Cymru. Cafodd y 6 cais arall eu hasesu a'u sgorio (gweler Atodiad 3). O ystyried y cyfyngiadau ar gyllid, mae £186k wedi cael ei ddyrannu dros dro i'r ddwy fid gyda'r sgôr uchaf. Bydd y ceisiadau sy'n weddill yn cael eu cario drosodd i 2018/19.

**3.5 Cynnal a Chadw Priffyrdd**

**3.5.1** Yn y blynyddoedd diwethaf, dyrannwyd tua £2m i gynlluniau cyfalaf ar gyfer cynnal a chadw priffyrdd. Dyrannwyd y cyllid i ddechrau drwy Fenter Benthyciadau Llywodraeth Cymru i Lywodraeth Leol a oedd yn rhoi cymorth i awdurdodau lleol gwrdd â'r costau benthyca. Mae'r cynllun hwn wedi dod i ben ac, os bydd y Cyngor yn parhau i ariannu buddsoddiad mewn prosiectau gwaith cynnal a chadw priffyrdd, bydd rhaid iddo wneud hynny naill ai drwy ei gyllid cyfalaf craidd neu drwy fenthyca digefnogaeth. Mae'r Pennaeth Gwasanaeth wedi cyflwyno gwerth £50k o arbedion refeniw, ond bydd angen £761k o gyllid cyfalaf i sicrhau bod isafswm gwerth y contract yn cael ei gyflawni.

**3.5.2** Mae'r Pennaeth Gwasanaeth wedi gofyn am £2.2m o gyllid cyfalaf sydd yn unol â symiau blaenorol a neilltuwyd, a bydd y lefel hon o wariant yn sicrhau bod y rhwydwaith ffyrdd yn cael ei gynnal i'w safon bresennol. O ystyried yr ymrwymiadau a'r ceisiadau eraill am arian cyfalaf, dengys y broses ddyrannu gychwynnol y byddai angen benthyca £1.730m di-gefnogaeth i gwrdd â'r lefel gyllido hon. Mae benthyca digefnogaeth yn arwain at gostau refeniw ychwanegol i'r Cyngor (Tâl Darpariaeth Refeniw Isaf (MRP) a chostau llog). Petai £1.730m yn cael ei fenthyca'n ddigefnogaeth, byddai'r tâl MRP a'r costau llog blynyddol oddeutu £140k, sydd £90k yn uwch na'r arbedion arfaethedig yn y gyllideb refeniw cynnal a chadw.

**3.5.3** Nid yw gostwng y gyllideb refeniw ar gyfer cynnal a chadw priffyrdd a chynyddu gwariant cyfalaf i ddod â'r gwariant cyffredinol yn ôl i o leiaf werth isaf y contract yn gynaliadwy os yw'r gwariant cyfalaf yn cael ei ariannu drwy fenthyca digefnogaeth. Mae costau cyllido cyfalaf benthyciadau digefnogaeth, hyd yn oed os yw hynny ond yn dod â'r gwariant cyffredinol yn ôl at werth isaf y contract, yn fwy na'r arbedion yn y gyllideb refeniw cynnal a chadw a byddai'n rhaid parhau i ariannu'r gost cyllido cyfalaf yn y flwyddyn dilynol bydd y toriad yn y gyllideb refeniw ar gyfer gwaith cynnal a chadw wedi digwydd ond ni fydd unrhyw gyllid cyfalaf ychwanegol ar gael i ddod â'r gwariant cyffredinol yn ôl at isafswm gwerth y contract.

**3.5.4** Felly, ar gyfer 2017/18, cynigir bod y cyllid cyfalaf ar gyfer cynnal a chadw priffyrdd yn cael ei osod ar £761k, gyda £470k yn cael ei ariannu drwy fenthyca â chymorth a £291k yn cael ei ariannu drwy fenthyca digefnogaeth. Bydd hyn yn golygu cynnydd o £22k yn y costau cyllido cyfalaf. Er mwyn ariannu'r gost ychwanegol hon, mae angen gostwng y gyllideb refeniw ar gyfer cynnal a chadw priffyrdd gan £72k, a fydd yn ariannu'r costau cyllido cyfalaf ychwanegol ac yn golygu gostyngiad o £50k yn y gyllideb refeniw cyffredinol a gynigiwyd yn wreiddiol gan y Pennaeth Gwasanaeth.

**3.5.5** Bydd angen gwneud gwaith pellach cyn pennu cyllideb 2018/19 i sicrhau bod modd dod o hyd i ateb cynaliadwy i'r mater hwn, lle bydd digon o arian cyfalaf yn dod o'r cyllid cyfalaf craidd fel y gellir cynnal safon y priffyrdd, bod modd cyflawni isafswm gwerth y contract a sicrhau nad yw'r Cyngor yn mynd i gostau ariannu cyfalaf ychwanegol drwy fenthyca digefnogaeth.

## 3.6 Cynlluniau Cyfalaf Newydd

**3.6.1** Gwahoddwyd gwasanaethau i gyflwyno ceisiadau am gyllid er mwyn ymgymryd â chynlluniau cyfalaf newydd a chafodd y rhain eu hasesu yn erbyn y broses sgorio a ddefnyddiwyd yn flaenorol (gweler Atodiadau 4 a 5). Mae'r cynlluniau canlynol wedi eu cael eu cynnwys dros dro yn y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2017/18:-

- Cartref Gofal Ychwanegol yn ardal Seiriol - £1m – ond, os bydd y cynllun yn cael ei gyflawni drwy'r Cyfrif Refeniw Tai, nodir efallai na fydd angen am gyfraniad o'r Gronfa Gyffredinol tuag at gost y cynllun;
- Isadeiledd Strategol Caergybi a Llangefni - bydd y rhan fwyaf o'r arian yn dod o grantiau allanol gyda'r Cyngor yn cyfrannu £70k fel arian cyfatebol;
- Cartref Garreglwyd – angen £250k o fuddsoddiad fel y gellir datblygu'r cartref preswyl presennol yn gyfleuster gofal dementia arbenigol;
- Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr – bydd cyllid grant ar gael mewn perthynas â'r safle parhaol, ond bydd cost y safleoedd dros dro yn disgyn ar y Cyngor. Mae angen gwaith pellach o ran sicrhau y ceir y grant mwyaf posibl a chostio'r cynigion terfynol;
- Gwaith Lliniaru Llifogydd ym Miwmares a Phentraeth - rhagwelir y bydd cyllid ar gael gan Lywodraeth Cymru i gwrdd â'r rhan fwyaf o'r costau ond bydd angen cyfraniad gan y Cyngor.

**3.7 Cynlluniau Benthyca Digefnogaeth Posibl**

**3.7.1 Cae Pêl-droed 3G yng Nghanolfan Hamdden Plas Arthur**

Mae'r cae cyfredol yn 15 mlwydd oed ac yn agosáu at ddiwedd ei oes ddefnyddiol. Wrth i amser fynd heibio, mae costau atgyweirio a chynnal a chadw yn cynyddu ac, oherwydd y problemau gyda'r arwyneb a draenio, mae sesiynau'n gorfod cael eu canslo yn ystod tywydd gwlyb neu pan fydd hi'n rhewi. Mae hyn yn golygu bod y Ganolfan yn colli incwm. Byddai cyfleuster newydd yn gostwng costau rhedeg ac yn cynyddu lefelau incwm. Bydd angen £150k o fuddsoddiad cyfalaf ar gyfer y cynllun, er mae'n bosibl y bydd rhywfaint o gyllid grant ar gael. Er nad oedd y cynllun yn sgorio'n ddigon uchel yn erbyn bidiau eraill, bwriedir gwneud gwaith pellach ar y cais hwn i benderfynu a fyddai benthyca digefnogaeth yn hyfyw yn ariannol.

**3.7.2 Offer Ffitrwydd newydd ar gyfer Canolfan Hamdden Caergybi**

Mae'r fid yn un i adnewyddu'r hen offer ffitrwydd yng Nghanolfan Hamdden Caergybi i gyd-fynd â'r buddsoddiad sydd wedi'i wneud yng Nghanolfannau Hamdden Amlwch a Phlas Arthur. Bydd y buddsoddiad hwn o gymorth i ddal gafael ar y cwsmeriaid presennol a denu cwsmeriaid newydd a bydd yn cynyddu lefelau incwm. Unwaith eto, nid oedd y cais hwn yn sgorio mor uchel â'r bidiau eraill a dderbyniwyd ond, o ystyried y potensial ar gyfer cynnydd mewn incwm, efallai bod sgôp i ymgymryd â'r cynllun hwn drwy fenthyca digefnogaeth. Cynigir, felly, y dylid gwneud gwaith pellach er mwyn penderfynu a yw'r cynllun hwn yn hyfyw yn ariannol.

**3.8 Cynlluniau na chawsant eu Cefnogi**

**3.8.1** Y cynlluniau canlynol a gyflwynwyd dderbyniodd y sgôr isaf ac nid ydynt wedi cael eu cefnogi ar hyn o bryd oherwydd diffyg cyllid:-

- gwaith adnewyddu ym Mhlas Mona;
- gwaith adnewyddu ym Mhlas Crigyll;
- Gwaith Trîn Carthffosiaeth;
- Sharepoint.

**3.8.2** Cyflwynwyd dwy fid ar gyfer astudiaethau dichonoldeb. Fel arfer, ni fedrir cyfalafu costau Astudiaethau Dichonoldeb oherwydd nid ydynt yn creu ased. Os bydd astudiaeth ddichonoldeb wedyn yn arwain at gynllun cyfalaf sy'n creu ased, yna mae'n bosibl i gyfalafu costau'n ôl-weithredol, os bydd cysylltiad uniongyrchol rhwng y costau a dichonolrwydd yr opsiwn a ddewiswyd.

**4. YSGOLION YR 21 ain GANRIF**

**4.1** Mae'r rhaglen gyfalaf dros dro yn cynnwys prosiectau ar gyfer yr ysgolion ym Mand A. Bydd cyfanswm y gost ar gyfer y cynlluniau hyn dros y 4 blynedd nesaf yn £21.06m a byddai cyfraniad y Cyngor yn £10.5m.

**4.2** Yn 2017/18, mae gwaith gwerth £6.865m wedi cael ei gynllunio a bydd £1.27m yn cael ei ariannu o grantiau gan Lywodraeth Cymru, £1.27m drwy fenthyca â chymorth a £4.326m drwy fenthyciadau digefnogaeth.

**4.3** Fel y penderfynwyd gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 17 Hydref 2016, mae angen gwneud gwaith pellach i asesu fforddiadwyedd y rhaglen.

## 5. Y CYFRIF REFENIW TAI

**5.1** Bwriedir gwneud gwaith gwerth £9.9m dan y Cyfrif Refeniw Tai yn ystod 2017/18 a hynny'n bennaf i ddatblygu 30 o unedau ychwanegol ac i adnewyddu eiddo presennol. Mae arian hefyd wedi cael ei ddyrannu i gwblhau'r gwaith adnewyddu yn Llawr y Dref, i brynu cerbydau newydd a gwella effeithlonrwydd tanwydd yn y depo HMU. Gwnaed cais hefyd ar gyfer prynu offer, ond mae'r gwerth yn is na'r lefel de-minimus a bydd yn cael ei ariannu'n uniongyrchol o gyllidebau refeniw.

**5.2** Mae gwaith yn mynd yn ei flaen i benderfynu a yw'n ddichonol ac yn ariannol ymarferol i wneud y cyfleuster gofal ychwanegol i'r ardal Seiriol drwy'r Cyfrif Refeniw Tai. Nid yw'r cynllun wedi ei gynnwys yn y rhaglen gyfalaf ddrafft ar gyfer 2017/18 ond efallai bydd y Cyngor mewn sefyllfa i gynnwys y cynllun yn y rhaglen gyfalaf terfynol cyn ei gymeradwyo yn Chwefror 2017.

## 6. COSTAU TÂL CYFARTAL

**6.1** Mae'r Cyngor hefyd yn debygol o wynebu costau sylweddol yn ymwneud â thâl cyfartal a bydd yn gwneud cais am Gyfarwyddyd Cyfalafu i ariannu'r costau hyn. Nid yw cost y tâl cyfartal wedi cael ei feintoli ond mae'n debygol o fod yn sylweddol (o leiaf £2.15m) a bydd yn ychwanegol at y prosiectau yn Rhaglen Gyfalaf 2017/18 a nodwyd yn yr adroddiad hwn os bydd ôl-dâl y Tâl Cyfartal yn cael ei dalu yn 2017/18. Efallai y bydd angen ariannu hyn drwy fenthyciadau digefnogaeth os nad oes cyllid cyfalaf arall ar gael.

## 7. CRYNODEB O'R RHAGLEN GYFALAF

**7.1** Cyfanswm y rhaglen gyfalaf arfaethedig ar gyfer 2017/18 (gan gynnwys Ysgolion yr 21ain Ganrif a'r Cyfrif Refeniw Tai) yw £40.865m. Bydd £21.258m (52%) yn cael ei ariannu o ffynonellau cyllid allanol gyda'r gweddill yn cael ei ariannu o ffynonellau'r Cyngor ei hun, sy'n cynnwys £3.472m o fenthyca gyda chymorth a £4.979m o fenthyca digefnogaeth. Bydd y £11.156m sy'n weddill yn cael ei ariannu o'r Grant Cyfalaf Cyffredinol, Derbyniadau Cyfalaf a chronfeydd wrth gefn y Cyngor ei hun. Mae dadansoddiad llawn yn Atodiad 6.

**7.2** Er y gall cynlluniau cyfalaf gael eu nodi fel rhai sy'n cael eu hariannu drwy fenthyca, mae'r Cyngor mewn gwirionedd yn defnyddio ei falansau ariannol gweddilliol ei hun yn gyntaf i ariannu'r gwariant cyfalaf gwirioneddol (benthyca mewnol) ond nid yw hyn yn golygu y bydd yn rhaid i'r Cyngor fenthyca i ariannu'r gost hon ar ryw adeg yn y dyfodol. Y Gofyniad Cyllido Cyfalaf (CFR) yw'r mesur o angen y Cyngor i fenthyca yn y dyfodol. Yn ôl yr adolygiad diwethaf, bydd y CFR yn £131.395m ar 31 Mawrth 2017. Yn ôl y Strategaeth Rheoli Trysorlys cyfredol, terfyn benthyca awdurdodedig y Cyngor yw £170m. Mae'r gofyniad benthyca ychwanegol a nodir yn y rhaglen gyfalaf ddrafft yn cynyddu'r CFR i £135.396m, sydd yn parhau i gadw o fewn y terfyn benthyca awdurdodedig o £170m.

## 8. MATERION I'W PENDERFYNU

**8.1** Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith ystyried y rhaglen gyfalaf arfaethedig ar gyfer 2017/18 a phenderfynu ar y cynnig terfynol i'w gyflwyno ar gyfer ei gymeradwyo yn y flwyddyn newydd mewn perthynas â'r eitemau canlynol: -

- Cytuno i barhau i ariannu'r cynlluniau y gwnaed ymrwymiad iddynt fel y nodir ym mharagraff 3.2 - Cyfanswm £8.826m a bydd £647k yn dod o gyllid craidd y Cyngor;
- Cytuno i ariannu gwariant ar grantiau cyfleusterau i'r anabl, ailwampio adeiladau presennol, asedau TG a cherbydau fel y nodir ym mharagraff 3.3 - Cyfanswm £2.301m;
- Cymeradwyo ariannu'r ddau brosiect Buddsoddi i Arbed sy'n sgorio uchaf fel y nodir ym mharagraff 3.4 - Cyfanswm £0.186m;

- Cymeradwyo ariannu cynlluniau cyfalaf newydd fel y nodir ym mharagraff 3.6 - Cyfanswm £11.675m a bydd £2.531m yn cael ei ariannu o gyllid craidd y Cyngor;
- Cymeradwyo cyllid o £0.76m ar gyfer Cynnal a Chadw Priffyrdd yn unol â pharagraff 3.5.

**8.2** Ystyried a oes angen gwneud rhagor o waith i asesu dichonoldeb ariannu'r ddau gynllun a nodir ym mharagraff 3.7 trwy fenthyca digefnogaeth.

**8.3** Cymeradwyo'r rhaglen gyfalaf ar gyfer Ysgolion y 21ain Ganrif, ar yr amod bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ar gyllido elfen benthyca digefnogaeth y rhaglen.

**8.4** Cymeradwyo cynnwys y cynlluniau Cyfrif Refeniw Tai, fel y nodir ym mharagraff 5, yn y rhaglen gyfalaf derfynol - Cyfanswm £9.889m.

# ATODIAD 2

| Adran | Cynllun Arfaethedig | Disgrifiad byr | Blwyddyn y dechreuodd/ y bydd y prosiect yn dechrau | 2017/18 Cost Blwyddyn 1 (£'000) | 2018/19 Cost Blwyddyn 2 (£'000) | 2019/20 Cost Blwyddyn 3 (£'000) | 2020/21 Cost Blwyddyn 4 (£'000) | 2021/22 Cost Blwyddyn 5 (£'000) | Grant/ cyllid allanol 2017/18 | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - derbyniadau cyfalaf (£'000) | Cyllid net ysgolion 2017/18 21C Benthyca â chymorth (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Benthyca â chymorth (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Grant Cyfalaf Cyffredinol (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Benthyca Digefnogaeth (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Cyfraniad Refeniw Arian wrth gefn heb ei neilltuo (Cyfalaf) (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Tanwariant ers 2016/17 (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Cyfraniad Refeniw (£'000) | Cyllid Allanol ar ôl 2017/18 (£'000) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CYNLLUNIAU YMRWYMEDIG** | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Gwasanaethau Oedolion | Gweithrediad CCIS | Mae hwn yn gais am Gyllid Cyfalaf er mwyn:- **1)** Talu am y gost o fudo data, er mwyn sicrhau bod trosglwyddo data yn llwyddiannus (ac yn cysylltu gyda setiau data GIG).<br><br>**2)** Talu'r gost o ryngwynebu gyda systemau eraill o fewn y Cyngor (Civica ac ati) er mwyn sicrhau'r arbedion gorau posibl o fewn systemau ble bynnag bo hynny'n bosibl drwy lif gwaith. Yn ychwanegol, bydd y prosiect yn cynnwys costau rheoli o £76k yn 2017/18 a £50k yn 2018/19 sy'n gostau refeniw sydd wedi eu heithrio o hyn. Bydd hyn angen ei ariannu o gyllidebau refeniw presennol oni bai y ceir cyllideb refeniw ychwanegol. | 2016/17 | 65 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 65 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Economaidd ac Adfywio | Porth Ymwelwyr Ynys Cybi | Mae Cyngor Sir Ynys Môn mewn partneriaeth â chydranddeiliaid allweddol ar hyn o bryd yn datblygu rhaglen buddsoddi twristiaeth uchelgeisiol er mwyn ceisio "Trawsnewid Ynys Cybi yn lleoliad eiconig sy'n gweddu i'w leoliad strategol fel porth ymwelwyr Rhyngwladol i Gymru a'r DU". Mae'r cynnig wedi'i ddatblygu fel rhan o'r broses gynnig ar gyfer y cynllun Croeso Cymru a arweinir gan yr ERDF sef 'Rhaglen Cyrchfan Ymwelwyr Twristiaeth' yng Nghymru. Nod y prosiect yw cydweithio gyda phrosiectau allweddol eraill yng Nghaergybi sef LILILIA, HLP a THI. | 2017/18 | 1,050 | 1,100 | 1,100 | 750 | 0 | 1,010 | 40 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2,910 |
| Priffyrdd | Lôn Wylfa Newydd | Bydd datblygiad gorsaf bŵer niwclear newydd yn Y Wylfa yn gofyn am nifer o welliannau i'r rhwydwaith priffyrdd ar Ynys Môn. Mae'r Cyngor wedi nodi ei dystiolaeth yn seiliedig ar asesiad o welliannau angenrheidiol i'r priffyrdd o fewn yr SPG. Mae hyn yn cydnabod yr angen am welliannau i'r A5025 a Lôn Nanner. | 2016/17 | 4,097 | 13,885 | 9,567 | 0 | 0 | 4,097 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 23,452 |

| Adran | Cynllun Arfaethedig | Disgrifiad byr | Blwyddyn y dechreuodd/ y bydd y prosiect yn dechrau | 2017/18 Cost Blwyddyn 1 (£'000) | 2018/19 Cost Blwyddyn 2 (£'000) | 2019/20 Cost Blwyddyn 3 (£'000) | 2020/21 Cost Blwyddyn 4 (£'000) | 2021/22 Cost Blwyddyn 5 (£'000) | Grant/ cyllid allanol 2017/18 | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - derbyniadau cyfalaf (£'000) | Cyllid net ysgolion 2017/18 21C Benthyca â chymorth (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Benthyca â chymorth (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Grant Cyfalaf Cyffredinol (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Benthyca Digefnogaeth (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Cyfraniad Refeniw Arian wrth gefn heb ei neilltuo (Cyfalaf) (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Tanwariant ers 2016/17 (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Cyfraniad Refeniw (£'000) | Cyllid Allanol ar ôl 2017/18 (£'000) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CYNLLUNIAU YMRWYMEDIG** | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Priffyrdd | Ffordd Gyswllt Llangefni | Y cynnig yw adeiladu ffordd gyswllt newydd 2.5km i'r De Ddwyrain o Llangefni gyda'r cynllun wedi'i rannu'n bedair adran wahanol. | 2015/16 | 3,414 | 2,938 | 0 | 0 | 0 | 3,072 | 164 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 178 | 0 | 2,644 |
| | | **CYFANSWM CYNLLUNIAU YMRWYMEDIG** | | **8,826** | **18,123** | **10,867** | **950** | **200** | **8,179** | **461** | | **0** | **0** | **0** | **8** | **178** | **0** | **29,806** |
| **DFG AC ASEDAU PRESENNOL** | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Tai | Grant Cyfleusterau Anabl | Mae'r Grant Cyfleusterau'r Anabl yn grant gorfodol o hyd at £36k ac mae'r Cyngor yn derbyn tua 180 ymholiadau y flwyddyn ar gyfer addasiadau amrywiol i gartrefi. Bydd tua 120 o'r rhain yn mynd ymlaen i gael eu cymeradwyo ar gyfer Grant Cyfleusterau'r Anabl. | Blynyddol | 750 | 750 | 750 | 750 | 750 | 0 | 0 | 0 | 0 | 750 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Eiddo | Mynediad i'r Anabl i Addysg | Mae Deddf Cydraddoldeb 2010, sy'n disodli Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd, yn gofyn i'r Awdurdod gyflawni addasiadau rhesymol i eiddo'r Awdurdod tra'n sicrhau mynediad a defnydd effeithiol o adnoddau'r Awdurdod.<br><br>Ail flwyddyn prosiect parhaus yw hwn er mwyn sicrhau bod pob plentyn anabl yn cael mynediad i'r ysgol o'u dewis. Bydd blwyddyn 2 yn canolbwyntio ar ddarparu toiledau i'r anabl yn Ysgol Santes Fair, Caergybi, gorffen gwaith i fynedfa Ysgol Uwchradd David Hughes a dechrau gwaith yn Ysgol Uwchradd Caergybi. | Blynyddol | 300 | 300 | 300 | 300 | 300 | 0 | 0 | 0 | 0 | 300 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Priffyrdd | Cerbydau | Mae'r Cyngor yn gweithredu fflyd o amrywiaeth o gerbydau a pheiriannau sy'n cynnwys bysiau, HGV, ceir a faniau. Mae angen y gronfa hon er mwyn disodli'r cerbydau hynny sydd wedi dod i ddiwedd eu hoes economaidd. Nid yw'r gronfa hon wedi'i defnyddio yn y gorffennol er mwyn prynu cerbydau ar gyfer gwasanaethau lle mae arian wedi'i ddiogelu megis tai ac ysgolion. Bydd y faniau a cheir disel llai yn cael eu disodli gan gerbydau LPG a fydd yn golygu costau rhedeg is a bydd hyn yn cynorthwyo'r pwysau sydd ar y gyllideb refeniw (gan arbed tua £1,000 y cerbyd y flwyddyn). Noder: Mae ansicrwydd ar amser ysgrifennu'r adroddiad am yr adolygiad i wasanaethau llyfrgelloedd. Mae un o'r cerbydau llyfrgell angen ei newid yn y dyfodol agos, felly, efallai y bydd angen cyllid ychwanegol. | Blynyddol | 150 | 150 | 150 | 150 | 150 | 0 | 0 | 0 | 0 | 150 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

| Adran | Cynllun Arfaethedig | Disgrifiad byr | Blwyddyn y dechreuodd/ y bydd y prosiect yn dechrau | 2017/18 Cost Blwyddyn 1 (£'000) | 2018/19 Cost Blwyddyn 2 (£'000) | 2019/20 Cost Blwyddyn 3 (£'000) | 2020/21 Cost Blwyddyn 4 (£'000) | 2021/22 Cost Blwyddyn 5 (£'000) | Grant/ cyllid allanol 2017/18 | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - derbyniadau cyfalaf (£'000) | Cyllid net ysgolion 2017/18 21C Benthyca â chymorth (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Benthyca â chymorth (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Grant Cyfalaf Cyffredinol (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Benthyca Digefnogaeth (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Cyfraniad Refeniw Arian wrth gefn heb ei neilltuo (Cyfalaf) (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Tanwariant ers 2016/17 (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Cyfraniad Refeniw (£'000) | Cyllid Allanol ar ôl 2017/18 (£'000) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CYNLLUNIAU YMRWYMEDIG** | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| TGCh | Isadeiledd Craidd | Parhau â'r broses hon a sicrhau ein bod ni'n dechrau ar raglen disodli 4 blynedd er mwyn osgoi costau uchel o orfod dal i fyny oherwydd diffyg buddsoddiad mewn rhaglen dreigl o welliannau fel sydd angen. Mae technoleg newydd a galw am fwy o le storio a systemau gwydn hefyd yn golygu y bydd angen i ni fuddsoddi mwy yn ein hisadeiledd craidd. Rydym wedi gorfod dal i fyny yn ddiweddar ac wrth i ni wneud hyn bydd angen i ni sicrhau bod gennym y capasiti parhaus fel Cyngor wrth i ni newid i wasanaethau mwy digidol a mwy o ddibyniaeth ar TG ar gyfer darparu gwasanaethau a bod yn hyblyg o ran hyn - er enghraifft Gweithio'n Gallach, Rheoli Dogfennau yn Electronig, AppMon ac ati. | Blynyddol | 150 | 155 | 160 | 165 | 165 | 0 | 0 | 0 | 0 | 48 | 0 | 102 | 0 | 0 | 0 |
| TGCh | Adnewyddu Cyfrifiaduron | Byddai cymeradwyaeth cyllideb cyfalaf o £100k y flwyddyn yn caniatáu ar gyfer 250 o gleientiaid desg i gael cyfrifiaduron newydd, byddai hyn ar sail angen ac yn darparu cyfrifiaduron newydd i bawb o fewn pedair blynedd. Derbynnir pedair blynedd fel yr isafswm ar gyfer adnewyddu o fewn y byd TG a byddai hyn yn cynorthwyo'r Awdurdod i gael y gorau allan o'r nifer o systemau busnes newydd yr ydym wedi'u prynu dros y blynyddoedd diwethaf yn ogystal â datblygiadau y dyfodol fel ERDMS a CRM. | Blynyddol | 100 | 105 | 110 | 115 | 115 | 0 | 78 | 0 | 0 | 0 | 0 | 22 | 0 | 0 | 0 |

| Adran | Cynllun Arfaethedig | Disgrifiad byr | Blwyddyn y dechreuodd/ y bydd y prosiect yn dechrau | 2017/18 Cost Blwyddyn 1 (£'000) | 2018/19 Cost Blwyddyn 2 (£'000) | 2019/20 Cost Blwyddyn 3 (£'000) | 2020/21 Cost Blwyddyn 4 (£'000) | 2021/22 Cost Blwyddyn 5 (£'000) | Grant/ cyllid allanol 2017/18 | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - derbyniadau cyfalaf (£'000) | Cyllid net ysgolion 2017/18 21C Benthyca â chymorth (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Benthyca â chymorth (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Grant Cyfalaf Cyffredinol (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Benthyca Digefnogaeth (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Cyfraniad Refeniw Arian wrth gefn heb ei neilltuo (Cyfalaf) (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Tanwariant ers 2016/17 (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Cyfraniad Refeniw (£'000) | Cyllid Allanol ar ôl 2017/18 (£'000) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CYNLLUNIAU YMRWYMEDIG** | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| TGCh | Mudiad System Etifeddiaeth | Wrth i ni symud ymlaen i ddatblygu a gweithredu technolegau newydd er mwyn cefnogi busnes y Cyngor, mae'n anorfod y byddwn hefyd angen delio gyda data sydd mewn nifer o achosion yn dal yn werthfawr iawn o ran cefnogi'r penderfyniadau y byddwn yn eu gwneud yn y dyfodol, ond hefyd o ran ein dyletswydd i gadw data yn unol â rheoliadau statudol, arferion busnes, gofynion archwilio ac o ganlyniad mae angen i ni gynllunio er mwyn gallu rheoli hyn.<br><br>Fel enghraifft, ond nid yr unig beth, mae gennym ar hyn o bryd etifeddiaeth, data ariannol ar serfwyr hen SUN V440 a fydd allan o gontract cefnogaeth yn ystof y Flwyddyn Ariannol hon. Mae dyletswydd arnom i gadw cofnodion ariannol hyn am o leiaf 7 mlynedd. | Blynyddol | 50 | 20 | 20 | 20 | 20 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 50 | 0 | 0 | 0 |
| TGCh | Trwyddedu Microsoft | Mae'r Cyngor yn defnyddio systemau gweithredu Microsoft (MS) ar y cyfrifiaduron a serfwyr. Mae'r holl ddefnyddwyr CSYM hefyd yn cael eu darparu gyda chopïau o Microsoft Office ar gyfer gwaith swyddfa cyffredinol ac Exchange fel system e-bost. Mae angen trwydded ar bob un o'r elfennau hyn. Y trefniant presennol yw bod CSYM yn tanysgrifio gyda Microsoft am y trwyddedau hyn a hynny fel arfer ar sail 3 + 1 + 1 blwyddyn.<br><br>Daeth un o'r ddau gytundeb MS i ben ddiwedd mis Mawrth 2016 ond, er mwyn cyfuno'r ddau gytundeb fe wnaethom ofyn i Microsoft ymestyn y contract er mwyn cael contract cyffredinol ar gyfer Mawrth 2017. Roedd hefyd angen cynnwys cynnyrch ychwanegol megis Lync a systemau serfwyr SQL ac ati sydd wedi codi pris y cytundeb.<br><br>Mae parhau i ddefnyddio'r cynnyrch MS hyn yn ddibynnol ar gael cytundeb yn ei le. | Blynyddol | 101 | 101 | 101 | 101 | 101 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 101 | 0 | 0 |

| Adran | Cynllun Arfaethedig | Disgrifiad byr | Blwyddyn y dechreuodd/ y bydd y prosiect yn dechrau | 2017/18 Cost Blwyddyn 1 (£'000) | 2018/19 Cost Blwyddyn 2 (£'000) | 2019/20 Cost Blwyddyn 3 (£'000) | 2020/21 Cost Blwyddyn 4 (£'000) | 2021/22 Cost Blwyddyn 5 (£'000) | Grant/ cyllid allanol 2017/18 | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - derbyniadau cyfalaf (£'000) | Cyllid net ysgolion 2017/18 21C Benthyca â chymorth (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Benthyca â chymorth (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Grant Cyfalaf Cyffredinol (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Benthyca Digefnogaeth (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Cyfraniad Refeniw Arian wrth gefn heb ei neilltuo (Cyfalaf) (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Tanwariant ers 2016/17 (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Cyfraniad Refeniw (£'000) | Cyllid Allanol ar ôl 2017/18 (£'000) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CYNLLUNIAU YMRWYMEDIG** | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Eiddo | Ailwampio asedau presennol - ysgolion | Ailwampio asedau presennol megis adeiladau addysg | Blynyddol | 500 | 500 | 500 | 500 | 500 | 0 | 176 | 0 | 0 | 0 | 0 | 324 | 0 | 0 | 0 |
| Eiddo | Ailwampio asedau presennol - nad ydynt yn ysgolion | Ailwampio asedau presennol – nad ydynt yn ysgolion. | Blynyddol | 200 | 200 | 200 | 200 | 200 | 0 | 200 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | | **CYFANSWM DFG AC ASEDAU PRESENNOL** | | **2,301** | **2,281** | **2,291** | **2,301** | **2,301** | **0** | **454** | | **0** | **1,248** | **0** | **498** | **101** | **0** | **0** |
| **PROSIECTAU BUDDSODDI I ARBED** | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Economaidd | Gwella effeithlonrwydd ynni mewn Canolfannau Hamdden | Gosod system ddŵr ac ynni integredig synhwyrol mewn 3 canolfan hamdden, ynysu a lleihau drafftiau yng Nghanolfannau Hamdden Amlwch a Chaergybi a mesurau arbed dŵr. | 2017/18 | **111** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **111** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| Gwastraff | Trin Carthion Traeth Coch | I osod gwaith trin carthion newydd yn Nhraeth Coch a fydd yn gostwng yn sylweddol y costau refeniw a geir drwy wagio'r tanc septig presennol. | 2017/18 | **75** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **75** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| | | **CYFANSWM PROSIECTAU BUDDSODDI I ARBED** | | **186** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **111** | **0** | **75** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| **CYNNAL A CHADW PRIFFYRDD** | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Priffyrdd | Cynnal a Chadw Priffyrdd | Mae gan y Gwasanaeth Priffyrdd ddau brif gontract partneriaeth cynnal a chadw yn eu lle, y ddau sydd ag isafswm lefel gwariant. Golygodd y toriadau refeniw ers 2015/16 y byddai'r Awdurdod yn methu a bodloni'r contractau hyn o ran cyllid refeniw ac y byddai'n darganfod ei hun yn torri amodau contractau gyda'r ddau gontractwr. Byddai buddsoddiad cyfalaf yn galluogi'r Cyngor i aros o fewn amodau'r contractau ac i fod mewn sefyllfa i allu ail dendro contract cynnal a chadw priffyrdd mwy deniadol ar gyfer contractwyr o safon am bris llai ym Mawrth 2017. Mae costau llai wedi'u sicrhau o ganlyniad i'r cyllid hwn ar gyfer y contract tymor palmentydd a fyddai'n parhau i fod yn berthnasol yn 2017/18. | 2017/18 | 761 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 244 | 0 | 291 | 0 | 226 | 0 | 0 |
| | | **CYFANSWM CYNNAL A CHADW PRIFFYRDD** | | **761** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **244** | **0** | **291** | **0** | **226** | **0** | **0** |
| **CYNLLUNIAU NEWYDD A ARIENNIR O GYLLID CYFALAF (gan eithrio BENTHYCA DIGEFNOGAETH)** | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Gwasanaethau Oedolion | Seiriol | Gwneir y cais hwn am gymorth cyfalaf er mwyn cefnogi'n uniongyrchol a galluogi'r weithred blaenoriaeth gorfforaethol o ddatblygu cynllun Gofal Cartref ychwanegol yn Ne'r Ynys i barhau | 2017/18 | 1,000 | 7,150 | 7,150 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 14,300 |

| Adran | Cynllun Arfaethedig | Disgrifiad byr | Blwyddyn y dechreuodd/ y bydd y prosiect yn dechrau | 2017/18 Cost Blwyddyn 1 (£'000) | 2018/19 Cost Blwyddyn 2 (£'000) | 2019/20 Cost Blwyddyn 3 (£'000) | 2020/21 Cost Blwyddyn 4 (£'000) | 2021/22 Cost Blwyddyn 5 (£'000) | Grant/ cyllid allanol 2017/18 | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - derbyniadau cyfalaf (£'000) | Cyllid net ysgolion 2017/18 21C Benthyca â chymorth (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Benthyca â chymorth (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Grant Cyfalaf Cyffredinol (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Benthyca Digefnogaeth (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Cyfraniad Refeniw Arian wrth gefn heb ei neilltuo (Cyfalaf) (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Tanwariant ers 2016/17 (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Cyfraniad Refeniw (£'000) | Cyllid Allanol ar ôl 2017/18 (£'000) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Economaidd ac Adfywio | Isadeiledd Strategol Caergybi | Bydd y prosiect yn cynnwys pecyn integredig o fuddsoddiadau isadeiledd yn cynnwys:<br>• Darparu tua deg eiddo busnes modern o safon uchel ar safle'r hen Borthheli, Penrhos, Caergybi;<br>• Ffioedd proffesiynol. | 2017/18 | 5,001 | 1,806 | 358 | 0 | 0 | 4,966 | | | 35 | | | | | | 2,129 |
| Gwasanaethau Oedolion | Garreglwyd | Mae Cartref Gofal Preswyl Garreglwyd yn gartref preswyl 28 gwely sydd wedi'i leoli yng Nghaergybi, argymhellir y dylid ei ddatblygu er mwyn darparu cyfleusterau dementia arbenigol. Mae adolygiad blynyddol wedi'i ymgymryd ag ef er mwyn adnabod unrhyw faterion adeiladu perthnasol mewn perthynas â'r ddarpariaeth o ofal mewnol. Mae'r rhaglen ailwampio ar gyfer Garreglwyd yn cynnwys:<br><br>Adnoddau cegin newydd yn Uned Seiriol ac ystafell gweithgareddau;<br>7 drws mewnol newydd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda rheoliadau tân;<br>Llawr newydd mewn 25 ystafell wely;<br>Llawr newydd yn y brif ystafell fyw;<br>Llawr newydd yn Uned Seiriol;<br>Llawr newydd yn yr ystafell wydr<br>Cerrig newydd yn yr iard mewnol;<br>System awyru poeth / oer yn yr ystafell wydr;<br>Rhannu rhan o'r brif ystafell fyw er mwyn creu gwell amgylchedd mewnol;<br>Mynediad i'r ystafell wydr o'r brif ystafell fyw;<br>Creu ardal ddiogel i bobl allu mynd allan;<br>Addurno'r sefydliad;<br>Dodrefn a ffitiadau. | 2017/18 | 250 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 250 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

| Adran | Cynllun Arfaethedig | Disgrifiad byr | Blwyddyn y dechreuodd/ y bydd y prosiect yn dechrau | 2017/18 Cost Blwyddyn 1 (£'000) | 2018/19 Cost Blwyddyn 2 (£'000) | 2019/20 Cost Blwyddyn 3 (£'000) | 2020/21 Cost Blwyddyn 4 (£'000) | 2021/22 Cost Blwyddyn 5 (£'000) | Grant/ cyllid allanol 2017/18 | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - derbyniadau cyfalaf (£'000) | Cyllid net ysgolion 2017/18 21C Benthyca â chymorth (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Benthyca â chymorth (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Grant Cyfalaf Cyffredinol (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Benthyca Digefnogaeth (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Cyfraniad Refeniw Arian wrth gefn heb ei neilltuo (Cyfalaf) (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Tanwariant ers 2016/17 (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Cyfraniad Refeniw (£'000) | Cyllid Allanol ar ôl 2017/18 (£'000) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CYNLLUNIAU YMRWYMEDIG** | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Priffyrdd | Lliniaru Llifogydd Biwmares | Yn hanesyddol, mae tref Biwmares wedi dioddef llifogydd. Mae'r cofnodiadau o ddigwyddiadau'n cychwyn yn 1863,gyda digwyddiadau o bwys yn 1915, 1957, 2004, 2007, 2012 a 2015. Mae mwy o dywydd stormus a'r llanw uchel o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd yn golygu fod llifogydd yn digwydd yn amlach a'u bod yn fwy difrifol. Mae'r prosiect eisoes wedi derbyn cymeradwyaeth gyda'r dyluniad yn dechrau yn 2013/14 ac mae eisoes yn destun cyllid gan LIC gyda'r elfennau arfordirol yn cael eu cwblhau ym mis Chwefror 2016. | 2017/18 | 800 | 200 | 0 | 0 | 0 | 680 | 0 | 0 | 120 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 170 |
| Priffyrdd | Lliniaru Llifogydd Pentraeth | Mae Stad Nant y Felin ym Mhentraeth wedi cael ei hadeiladu mewn sawl cam ar ochr bryn. Mewn cyfnodau o law trwm, mae'r cwrs dŵr arferol sy'n rhedeg trwy'r stad wedi ei orlwytho sydd wedi golygu llifogydd mewnol yn nifer o dai'r stad. Mae cyllid cynorthwyol wedi dod drwy grant gan Lywodraeth Cymru er mwyn galluogi cynhyrchu Adroddiad Gwerthuso Prosiect i'r pryderon llifogydd yn Nant y Felin ac mae'r gwaith hwn yn parhau. Mae'r cais yn un sy'n rhagweld cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y rhan olaf a chyllid cyfatebol a fydd angen ar gyfer dylunio ac adeiladu mesurau lliniaru yn Nant y Felin. | 2017/18 | 800 | 200 | 0 | 0 | 0 | 680 | 0 | 0 | 120 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 170 |
| Economaidd ac Adfywio | Isadeiledd Strategol Llangefni | Bydd y prosiect yn cynnwys pecyn integredig o fuddsoddiadau isadeiledd gan gynnwys:<br>Darpariaeth 5 eiddo busnes modern o safon uchel yn yr hen safle Hyfforddiant Môn<br>Ffioedd proffesiynol | 2017/18 | 2,523 | 441 | 0 | 0 | 0 | 2,488 | 0 | 0 | 35 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 406 |
| Tai | Sipsiwn a Theithwyr | Mae'r cais cyfalaf ar gyfer prynu tir ar gyfer ei ddatblygu yn safleoedd Sipsiwn a Theithwyr fel sydd wedi'i adnabod yn yr Asesiad adnabod anghenion llety teithwyr a sipsiwn ar gyfer Ynys Môn. | 2017/18 | 1,301 | 36 | 0 | 0 | 0 | 330 | 496 | 0 | 324 | 92 | 0 | 0 | 59 | | 0 |
| | | **CYFANSWM CYNLLUNIAU NEWYDD** | | **11,675** | **9,833** | **7,508** | **0** | **0** | **9,144** | **496** | **0** | **1,884** | **92** | **0** | **0** | **59** | **0** | **17,175** |

| Adran | Cynllun Arfaethedig | Disgrifiad byr | Blwyddyn y dechreuodd/ y bydd y prosiect yn dechrau | 2017/18 Cost Blwyddyn 1 (£'000) | 2018/19 Cost Blwyddyn 2 (£'000) | 2019/20 Cost Blwyddyn 3 (£'000) | 2020/21 Cost Blwyddyn 4 (£'000) | 2021/22 Cost Blwyddyn 5 (£'000) | Grant/ cyllid allanol 2017/18 | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - derbyniadau cyfalaf (£'000) | Cyllid net ysgolion 2017/18 21C Benthyca â chymorth (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Benthyca â chymorth (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Grant Cyfalaf Cyffredinol (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Benthyca Digefnogaeth (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Cyfraniad Refeniw Arian wrth gefn heb ei neilltuo (Cyfalaf) (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Tanwariant ers 2016/17 (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Cyfraniad Refeniw (£'000) | Cyllid Allanol ar ôl 2017/18 (£'000) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CYNLLUNIAU BENTHYCA DI-GEFNOGAETH** | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Economaidd ac Adfywio | Cae 3G yng Nghanolfan Hamdden Plas Arthur | Bydd y prosiect yn golygu newid yr hen gae pêl-droed pob tywydd yng Nghanolfan Hamdden Plas Arthur sydd wedi dod i ddiwedd ei oes. Bydd hyn yn gwella syniadau negyddol ac yn bodloni disgwyliadau cwsmeriaid gan fod nifer bellach wedi gadael yr adnodd er mwyn hyfforddi ar gae newydd pob tywydd 3G CPD Dinas Bangor. Bydd buddsoddi rŵan yn golygu y bydd gan ein clybiau lleol adnodd a fydd y cyntaf o'i fath ar yr Ynys. Mae Ynys Môn yn un o'r ychydig siroedd heb gae 3G o fewn yr awdurdod, y weledigaeth gan yr FAW yw bod angen cae 3G ar Ynys Môn er mwyn bodloni'r hyn a nodir yn y ddogfen Canllawiau a Gweledigaeth Cae Pob Tywydd Cymru Gyfan. Mae'r buddsoddiad yn siŵr o'n helpu ni i gyrraedd ein targed o 60% o ostyngiad mewn costau gwariant ar hamdden i'r Cyngor. | 2017/18 | 150 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 150 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Economaidd ac Adfywio | Offer Ffitrwydd Canolfan Hamdden Caergybi | Bydd y prosiect yn cynnwys newid a diweddaru'r holl offer ffitrwydd yn ystafell ffitrwydd Canolfan Hamdden Caergybi er mwyn sicrhau bod yr holl gwsmeriaid yn gallu cael profiad ffitrwydd modern (yn cynnwys ystafell ffitrwydd). Bydd hyn yn gwella syniadau negyddol ac yn bodloni gofynion ac anghenion cwsmeriaid. Mae buddsoddiadau yng Nghanolfan Hamdden Amlwch a Phlas Arthur wedi profi'n gadarnhaol gydag incwm a nifer defnyddwyr. Mae Caergybi bellach angen buddsoddiad gan ei fod wedi methu allan ar fuddsoddiadau yn yr ystafell ffitrwydd dros y blynyddoedd gyda'r offer bellach yn colli ei apêl. Mae'r buddsoddiad yn siŵr o'n helpu ni i gyrraedd ein targed o 60% o ostyngiad mewn costau gwariant ar hamdden i'r Cyngor. | 2017/18 | 212 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 212 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | | **CYFANSWM CYNLLUNIAU BENTHYCA DIGEFNOGAETH** | | **362** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **362** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| | | **CYFANSWM CYNLLUNIAU CRONFA CYFFREDINOL** | | **24,111** | **30,237** | **20,666** | **3,251** | **2,501** | **17,323** | **1,522** | **0** | **2,203** | **1,340** | **653** | **506** | **564** | **0** | **46,981** |

| Adran | Cynllun Arfaethedig | Disgrifiad byr | Blwyddyn y dechreuodd/ y bydd y prosiect yn dechrau | 2017/18 Cost Blwyddyn 1 (£'000) | 2018/19 Cost Blwyddyn 2 (£'000) | 2019/20 Cost Blwyddyn 3 (£'000) | 2020/21 Cost Blwyddyn 4 (£'000) | 2021/22 Cost Blwyddyn 5 (£'000) | Grant/ cyllid allanol 2017/18 | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - derbyniadau cyfalaf (£'000) | Cyllid net ysgolion 2017/18 21C Benthyca â chymorth (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Benthyca â chymorth (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Grant Cyfalaf Cyffredinol (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Benthyca Digefnogaeth (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Cyfraniad Refeniw Arian wrth gefn heb ei neilltuo (Cyfalaf) (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Tanwariant ers 2016/17 (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Cyfraniad Refeniw (£'000) | Cyllid Allanol ar ôl 2017/18 (£'000) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CYNLLUNIAU BENTHYCA DI-GEFNOGAETH** | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **YSGOLION YR 21ain GANRIF** | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Addysg | Ysgolion yr 21ain Ganrif - Ysgol Cybi | Ysgol yr 21ain Ganrif newydd yng Nghaergybi | 2014/15 | 502 | 149 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 502 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Addysg | Ysgolion yr 21ain Ganrif - Ysgol Rhyd Y Llan | Ysgol yr 21ain Ganrif newydd yn Llanfaethlu | 2014/15 | 1,545 | 67 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1,545 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Addysg | Ysgolion yr 21ain Ganrif - Ysgol Brynsiencyn | Ailwampio ysgol er mwyn bodloni'r safon Ysgol yr 21ain Ganrif newydd | 2016/17 | 217 | 217 | 10 | 0 | 0 | 54 | 0 | 54 | 0 | 0 | 109 | 0 | 0 | 0 | 114 |
| Addysg | Ysgolion yr 21ain Ganrif - Ysgol Parc Y Bont | Estyniad i Ysgol Parc Y Bont | 2016/17 | 169 | 169 | 8 | 0 | 0 | 42 | 0 | 42 | 0 | 0 | 85 | 0 | 0 | 0 | 88 |
| Addysg | Ysgolion yr 21ain Ganrif - Ysgol Bro Rhosyr | Ysgol yr 21ain Ganrif newydd yn Ne Orllewin Ynys Môn - Bro Aberffraw | 2016/17 | 3,591 | 1,509 | 65 | 0 | 0 | 898 | 0 | 898 | 0 | 0 | 1,795 | 0 | 0 | 0 | 787 |
| Addysg | Ysgolion yr 21ain Ganrif - Ysgol Llangefni | Ysgol yr 21ain Ganrif newydd yn Llangefni | 2017/18 | 675 | 3,777 | 2,851 | 0 | 0 | 234 | 0 | 234 | 0 | 0 | 207 | 0 | 0 | 0 | 3,184 |
| Addysg | Ysgolion yr 21ain Ganrif- Ysgol Seiriol | Ysgol yr 21ain Ganrif newydd - Ysgol Seriol | 2017/18 | 166 | 1,386 | 3,879 | 111 | 0 | 42 | 0 | 41 | 0 | 0 | 83 | 0 | 0 | 0 | 2,688 |
| | | **CYFANSWM YSGOLION YR 21ain GANRIF** | | **6,865** | **7,274** | **6,813** | **111** | **0** | **1,270** | **0** | **1,269** | **0** | **0** | **4,326** | **0** | **0** | **0** | **6,861** |
| **CYNLLUNIAU CRT** | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Tai - CRT | Datblygu Tai Cyngor ychwanegol | Bydd y cais am gyllid cyfalaf 2017/18 ar gyfer ariannu 20 uned gyda llithriant o arian ar gyfer 10 uned a fydd yn caniatáu ar gyfer 30 uned newydd yn ystod 2017/18. | | 2,800 | 2,884 | 2,970 | 3,060 | 3,151 | | 0 | 00 | | | | | | 2,800 | |

| Adran | Cynllun Arfaethedig | Disgrifiad byr | Blwyddyn y dechreuodd/ y bydd y prosiect yn dechrau | 2017/18 Cost Blwyddyn 1 (£'000) | 2018/19 Cost Blwyddyn 2 (£'000) | 2019/20 Cost Blwyddyn 3 (£'000) | 2020/21 Cost Blwyddyn 4 (£'000) | 2021/22 Cost Blwyddyn 5 (£'000) | Grant/ cyllid allanol 2017/18 | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - derbyniadau cyfalaf (£'000) | Cyllid net ysgolion 2017/18 21C Benthyca â chymorth (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Benthyca â chymorth (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Grant Cyfalaf Cyffredinol (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Benthyca Digefnogaeth (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Cyfraniad Refeniw Arian wrth gefn heb ei neilltuo (Cyfalaf) (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Tanwariant ers 2016/17 (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Cyfraniad Refeniw (£'000) | Cyllid Allanol ar ôl 2017/18 (£'000) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CYNLLUNIAU BENTHYCA DI-GEFNOGAETH** | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Tai - CRT | Ailwampio wedi'i gynllunio | Bydd gwaith cynnal a chadw traddodiadol sydd wedi'i gynllunio yn parhau i ffurfio sail y cynlluniau buddsoddi cyfalaf ar gyfer 2017/18 a thu hwnt. Bydd gwelliannau i'r cartref yn yr holl brosiectau yn cynnwys rhoi toeau newydd, gweithredu system rendro wedi'i inswleiddio, drysau a ffenestri newydd lle bo hynny'n briodol, gwaith allanol i gynnwys llwybrau, ffensys a waliau terfyn. Bydd rhai eiddo nad ydynt ar y prif linell nwy hefyd yn elwa o gael systemau Solar PV.<br>Yn ystod 2017/18 bydd ein rhaglen yn cynnwys o leiaf 120 o eiddo a fydd yn elwa o waith cynnal a chadw sydd wedi'i gynllunio. Bydd cynlluniau yn amrywio o ran maint er mwyn rhoi cyfle i fusnesau bach a chanolig geisio am y contractau Tai, Bydd gwelliannau i'r cartref yn gwella moethusrwydd ac ymddangosiad y cartrefi a, ble bo'n briodol, yn eu gwneud yn fwy fforddiadwy i'w gwresogi. | | 6,585 | 4,399 | 4,553 | 0 | 0 | 2,665 | | | | | | | | 3,920 | |
| Tai - CRT | Cerbydau HMU | Er mwyn darparu'r gwasanaeth rhagorol mae'r BMU yn ddibynnol ar fflyd o gerbydau diogel, effeithlon, cost effeithiol ac addas i'r diben sydd hefyd yn bodloni disgwyliadau'r gyrwyr ac yn lleihau effeithiau amgylcheddol. Mae'r HMU eisoes yn gweithredu fflyd o 32 o gerbydau. Maent o faint 'transit' yn gyffredinol. Mae'r cerbydau hyn yn elfen hanfodol o ddarparu ffordd o gludo'r gweithiwr, offer a deunyddiau er mwyn bodloni nod rhagorol y gwasanaeth. Mae'r fflyd wreiddiol bellach wedi ei amnewid heblaw am un pick up a dwy fan LGV. | | 144 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | | | | | | | 144 | |
| Tai - CRT | Adeiladau | Nod y cais hwn yw darparu strwythur tanwydd mwy effeithlon ar gyfer to'r depo a gwella ymddangosiad yr adeilad. | | 110 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | | | | | | | 110 | |

| Adran | Cynllun Arfaethedig | Disgrifiad byr | Blwyddyn y dechreuodd/ y bydd y prosiect yn dechrau | 2017/18 Cost Blwyddyn 1 (£'000) | 2018/19 Cost Blwyddyn 2 (£'000) | 2019/20 Cost Blwyddyn 3 (£'000) | 2020/21 Cost Blwyddyn 4 (£'000) | 2021/22 Cost Blwyddyn 5 (£'000) | Grant/ cyllid allanol 2017/18 | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - derbyniadau cyfalaf (£'000) | Cyllid net ysgolion 2017/18 21C Benthyca â chymorth (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Benthyca â chymorth (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Grant Cyfalaf Cyffredinol (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Benthyca Digefnogaeth (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Cyfraniad Refeniw Arian wrth gefn heb ei neilltuo (Cyfalaf) (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Tanwariant ers 2016/17 (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Cyfraniad Refeniw (£'000) | Cyllid Allanol ar ôl 2017/18 (£'000) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CYNLLUNIAU BENTHYCA DI-GEFNOGAETH** | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Tai - CRT | Ail fodelu Llawr-Y-Dref | Mae achos busnes yn cael ei baratoi ar hyn o bryd ar gyfer ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith gydag argymhelliad ar gyfer ailfodelu a defnydd yn y dyfodol o'r cynllun a fydd yn creu arbedion effeithlonrwydd ar gyfer Cronfa Gyffredinol y Cyngor drwy ostyngiad yn y defnydd o lety brys ac i'r CRT drwy leihau niferoedd y tai gwag. | | 250 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | | | | | | | | 250 | |
| | | | | **9,889** | **7,283** | **7,523** | **3,060** | **3,151** | **2,665** | **0** | | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **7,224** | **0** |
| | | **Cyfanswm y Gronfa Gyffredinol yn cynnwys Ysgolion 21ain Ganrif** | | **30,976** | **37,511** | **27,479** | **3,362** | **2,501** | **18,593** | **1,522** | **1,269** | **2,203** | **1,340** | **4,979** | **506** | **564** | **0** | **53,842** |
| | | **Cyfanswm CRT** | | **9,889** | **7,283** | **7,523** | **3,060** | **3,151** | **2,665** | **0** | | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **7,224** | **0** |
| | | **Cyfanswm Rhaglen Gyfalaf** | | **40,865** | **44,794** | **35,002** | **6,422** | **5,652** | **21,258** | **1,522** | **1,269** | **2,203** | **1,340** | **4,979** | **506** | **564** | **7,224** | **53,842** |
| **CYNLLUNIAU BLAENORIAETH IS - CYLLID ANNIGONOL** | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Gwasanaethau Oedolion | Plas Mona | Mae Cartref Gofal Preswyl Plas Mona yn gartref gofal dementia 28 gwely arbenigol sydd wedi'i leoli ym mhentref Llanfair PG. Mae adolygiad blynyddol wedi'i ymgymryd ag ef er mwyn adnabod unrhyw faterion cysylltiedig â'r adeilad o ran y ddarpariaeth gofal preswyl mewnol. Mae rhaglen ailwampio Plas Mona yn cynnwys:<br>Mynedfa newydd i'r ardal allanol o'r ystafell fwyta<br>Creu ardal allanol hawdd ei defnyddio a diogel yng nghefn yr adeilad<br>Addurno ystafelloedd cymunedol | 2017/18 | 50 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | | | | | | | | | 0 |
| Gwasanaethau Oedolion | Plas Crigyll | Mae Cartref Gofal Preswyl Plas Crigyll yn gartref dementia 25 gwely arbenigol sydd wedi'i leoli ym mhentref Bryngwran. Mae adolygiad blynyddol wedi'i ymgymryd ag ef er mwyn adnabod unrhyw faterion cysylltiedig â'r adeilad o ran y ddarpariaeth gofal preswyl mewnol. Mae rhaglen ailwampio Plas Crigyll yn cynnwys:<br>Ffenestri dwbl ar gyfer yr holl ffenestri presennol<br>25 drws mewnol newydd<br>Adnoddau cegin newydd mewn dwy uned<br>Mynedfa newydd i'r tu allan o'r lolfa gymunedol | 2017/18 | 75 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | | | | | | | | | 0 |

| Adran | Cynllun Arfaethedig | Disgrifiad byr | Blwyddyn y dechreuodd/ y bydd y prosiect yn dechrau | 2017/18 Cost Blwyddyn 1 (£'000) | 2018/19 Cost Blwyddyn 2 (£'000) | 2019/20 Cost Blwyddyn 3 (£'000) | 2020/21 Cost Blwyddyn 4 (£'000) | 2021/22 Cost Blwyddyn 5 (£'000) | Grant/ cyllid allanol 2017/18 | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - derbyniadau cyfalaf (£'000) | Cyllid net ysgolion 2017/18 21C Benthyca â chymorth (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Benthyca â chymorth (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Grant Cyfalaf Cyffredinol (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Benthyca Digefnogaeth (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Cyfraniad Refeniw Arian wrth gefn heb ei neilltuo (Cyfalaf) (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Tanwariant ers 2016/17 (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Cyfraniad Refeniw (£'000) | Cyllid Allanol ar ôl 2017/18 (£'000) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CYNLLUNIAU BENTHYCA DI-GEFNOGAETH** | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Rheoli Gwastraff | Trin Carthffosiaeth Hanfodol | Gosod pecyn gwaith trin carthffosiaeth neu dylid ystyried prynu tir er mwyn gosod tanc septig. Byddai angen cyflogi ymgynghorwyr er mwyn cynnal arolwg mwy manwl a fyddai'n adnabod costau cyllidebol a ragwelir y byddant tua £100k. Yn dilyn hynny, byddai costau blynyddol bach er mwyn cynnal a chadw offer o'r fath/cyflenwad trydan ac ati, fodd bynnag, rhagwelir y gellid trosglwyddo'r rhain i drydydd parti, yn amodol ar gytundeb cyfreithiol rhwng pawb perthnasol. | 2017/18 | 180 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | | | | | | | | | 0 |
| TGCh | Sharepoint EDM | Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddatblygu "gwasanaethau gwell, mwy modern, gwella effeithlonrwydd, lleihau costau tymor hir, gwella cymhelliant ac ymestyn gweithio'n hyblyg."<br><br>Wrth fodloni'r ymrwymiad hwn, mae'r Bwrdd Prosiect Gweithio'n Gallach wedi adnabod byddai gweithredu System Dogfennau Electronig a Rheoli Cofnodion (EDRMS) yn galluogi staff i gael mynediad i ddogfennau ac i weithio arnynt gyda'i gilydd mewn modd hyblyg ac effeithlon. | 2017/18 | 140 | 60 | 0 | 0 | 0 | 0 | | | | | | | | | |
| | | **CYFANSWM CYNLLUNIAU BLAENORIAETH IS** | | **445** | **60** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| **CEISIADAU A GAFWYD NAD YDYNT YN GYMWYS AR GYFER CYLLID CYFALAF** | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Economaidd ac Adfywio | Mynedfa Canolfan Hamdden Plas Arthur | Bydd y prosiect ar gyfer astudiaeth dichonolrwydd rhagbrofion er mwyn gweld i ba raddau y gallai llawr gwaelod Plas Arthur gael ei addasu ar gyfer ffurfio ardal croesawu fodern, addas i'r diben sy'n cynnwys cyfleuster chwarae meddal. Y gyrrwr allweddol yw'r astudiaeth gychwynnol / lluniau a ddarparwyd yn yr adroddiad Amec Foster Wheeler. Mae moderneiddio ein canolfannau hamdden yn allweddol ar gyfer yr uchod. Mae angen creu adnoddau croesawus, addas i'r diben sy'n annog pobl i aros/gwario yn dilyn eu gweithgaredd hamdden. Mae cynlluniau yn y dyfodol i ddarparu 'Parc Chwaraeon Dinesig' ar yr hen barc sgrialu yn Llangefni. Mae'r prosiect yn darparu cyfle i greu derbynfa a chaffi deniadol er mwyn annog ail wariant. | | 30 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | | | | | | | | | |

| Adran | Cynllun Arfaethedig | Disgrifiad byr | Blwyddyn y dechreuodd/ y bydd y prosiect yn dechrau | 2017/18 Cost Blwyddyn 1 (£'000) | 2018/19 Cost Blwyddyn 2 (£'000) | 2019/20 Cost Blwyddyn 3 (£'000) | 2020/21 Cost Blwyddyn 4 (£'000) | 2021/22 Cost Blwyddyn 5 (£'000) | Grant/ cyllid allanol 2017/18 | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - derbyniadau cyfalaf (£'000) | Cyllid net ysgolion 2017/18 21C Benthyca â chymorth (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Benthyca â chymorth (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Grant Cyfalaf Cyffredinol (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Benthyca Digefnogaeth (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Cyfraniad Refeniw Arian wrth gefn heb ei neilltuo (Cyfalaf) (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Tanwariant ers 2016/17 (£'000) | Cyllid Net gan CSYM 2017/18 - Cyfraniad Refeniw (£'000) | Cyllid Allanol ar ôl 2017/18 (£'000) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CYNLLUNIAU BENTHYCA DI-GEFNOGAETH** | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Eiddo | Gwarchodaeth Ynni | Wedi'i ariannu ar y cyd gan Raglen Ynni Doeth Ewrop yr Undeb Ewropeaidd, mae rhaglen Re:fit Cymru yn darparu sefydliadau sector cyhoeddus Cymru â chymorth proffesiynol er mwyn gallu adnabod, datblygu a gweithredu prosiectau. Drwy gael mynediad i gontract perfformiad ynni, mae'r arbedion yn cael eu sicrhau.<br>Mae Re:fit Cymru yn darparu cymorth o ran:<br>Ymgysylltiad chydran ddeiliad er mwyn sicrhau bod sefydliadau'n prynu i mewn<br>Datblygiad strategaeth a phrosiect<br>Caffael a chymorth cyfreithiol<br>Cyngor technegol<br>Mynediad i fframwaith sector cyhoeddus ledled y DU<br>Cymorth yn ystod darpariaeth y prosiect<br>Bydd Re:fit Cymru yn talu 90% o gostau'r gwasanaethau hyn, a gall Lywodraeth Cymru gynnig benthyciad dim llog er mwyn gallu gweithredu'r mesurau effeithlonrwydd ynni.<br>Bydd angen uchafswm o £20k er mwyn cynnal yr astudiaeth dichonolrwydd fel arian cyfatebol er mwyn datblygu prosiectau arbed ynni (o leiaf £500k) a fydd yn darparu arbedion ac yn lleihau gollyngiadau carbon. | | 20 | 0 | 0 | 0 | 0 | | | | | | | | | | |

**ATODIAD 3**

## PROSIECTAU BUDDSODDI I ARBED

| Enw'r Cynllun Buddsoddi i Arbed | Gwasanaeth / Swyddogaeth | Swm sydd ei angen<br>£ | Amcangyfrif o'r Oes Economaidd Ddefnyddiol<br>Nifer Blynyddoedd | Arbediad Blynyddol<br>£ | Cyfradd (Cyfraddau PWLB ar 20/10/16)<br>% | Llog Blynyddol<br>£ | MRP Blynyddol<br>£ | Arbedion Blynyddol ar ôl llog a MRP<br>£ | Cyfnod yr arbedion<br>Nifer Blynyddoedd | Amcangyfrif o gyfanswm yr arbedion (heb log a MRP)<br>£ | Amcangyfrif o gyfanswm yr arbedion (ar ôl llog a MRP)<br>£ | Cyfnod Talu'n Ôl (ac eithrio cyllid cyfalaf)<br>Nifer Blynyddoedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwella effeithlonrwydd ynni mewn Canolfannau Hamdden – system ddŵr integredig | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | 111,000 | 20 | 29,000 | 2.75% | 3,053 | 5,550 | 20,398 | 20 | 580,000 | 407,950 | 3.83 |
| Gosod gyriannau cyflymder amwyriol ar systemau awyriant yn y Cyngor Sir | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 10,000 | 10 | 5,000 | 2.14% | 214 | 1,000 | 3,786 | 10 | 50,000 | 37,860 | 2.00 |
| System dôs cemegol mewn pyllau nofio mewn 3 canolfan hamdden | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | 60,000 | 15 | 12,000 | 2.56% | 1,536 | 4,000 | 6,464 | 15 | 180,000 | 96,960 | 5.00 |
| Goleuadau LED mewn ysgolion uwchradd | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 160,000 | 15 | 32,000 | 2.56% | 4,096 | 10,667 | 17,237 | 15 | 480,000 | 258,560 | 5.00 |
| Gostyngiad mewn costau ynni yn Ysgol Uwchradd Bodedern | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 75,000 | 10 | 17,000 | 2.14% | 1,605 | 7,500 | 7,895 | 10 | 170,000 | 78,950 | 4.41 |
| Gwaith triniaeth newydd ar gyfer Toiledau Cyhoeddus Traeth Coch | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 75,000 | 25 | 26,000 | 2.83% | 2,123 | 3,000 | 20,878 | 25 | 650,000 | 521,938 | 2.88 |
| | | | | | | | | | | | | |
| | | **491,000** | | **121,000** | | **12,626** | **31,717** | **76,657** | | **2,110,000** | **1,402,218** | |

# ATODIAD 4

| | | | | | | Llwythiad | 30 | 20 | 15 | 10 | 20 | 5 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | Meini prawf sgorio (pwyntiau a roddir rhwng 0 a 10) | | | | | | |
| **Adran** | **Cynllun Arfaethedig** | **Disgrifiad Byr** | **Blwyddyn y dechreuodd y prosiect/y bydd yn dechrau** | **2017/18 Cost Blwyddyn 1 (£'000)** | **Blaenoriaeth corfforaethol mae'n fodloni** | **Pa ran o'r flaenoriaeth y mae'n cwrdd** | **Cyfraniad y Prosiect i flaenoriaethau corfforaethol** | **Lefel o risg corfforaethol mae'r prosiect yn liniaru** | **Angen cydymffurfio gyda chyfrifoldebau statudol, iechyd, DDA er mwyn lliniaru'r her** | **Lefel y cyllid ar y cyd / cyfatebol a allai fod ar gael** | **Effaith ffafriol ar y gyllideb refeniw neu'r potensial buddsoddi i arbed** | **Cadernid y Rheolaeth Prosiect** | **Cyfanswm** |
| Gwasanaethau Oedolion | Seiriol | Gwneir y cais hwn am gymorth cyfalaf er mwyn cefnogi'n uniongyrchol a galluogi'r weithred blaenoriaeth gorfforaethol ar ddatblygu cynllun Cartref Gofal Ychwanegol yn Ne'r Ynys i barhau. | 2017/18 | 1,000 | A - Trawsnewid Gofal Cymdeithasol Oedolion | Datblygu a sefydlu, mewn cydweithrediad â phartneriaid, dau gynllun tai gofal ychwanegol yng Ngogledd a Chanol yr Ynys gyda chynlluniau ar gyfer cynlluniau pellach yn y De ar gyfer pobl hŷn nad ydynt yn gallu aros adref. | 300 | 150 | 150 | 100 | 200 | 50 | 950 |
| Economaidd ac Adfywio | Isadeiledd Strategol Caergybi | Bydd y prosiect yn cynnwys pecyn integredig o fuddsoddiadau isadeiledd yn cynnwys:<br>• Darparu tua deg eiddo busnes modern o safon uchel ar safle'r hen Borthheli, Penrhos, Caergybi.<br>• Ffioedd proffesiynol | 2017/18 | 5,001 | B - Adfywio ein Cymunedau a Datblygu'r Economi | | 300 | 140 | 0 | 95 | 160 | 50 | 745 |
| Gwasanaethau Oedolion | Garreglwyd | Mae Cartref Gofal Preswyl Garreglwyd yn gartref preswyl 28 gwely sydd wedi'i leoli yng Nghaergybi, argymhellir y dylid ei ddatblygu er mwyn darparu cyfleusterau dementia arbenigol. Mae adolygiad blynyddol wedi'i ymgymryd ag ef er mwyn adnabod unrhyw faterion adeiladu perthnasol mewn perthynas â'r ddarpariaeth o ofal mewnol. Mae'r rhaglen ailwampio ar gyfer Garreglwyd yn cynnwys:<br>Adnoddau cegin newydd yn Uned Seiriol ac ystafell gweithgareddau<br>7 drws mewnol newydd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda rheoliadau tân<br>Llawr newydd mewn 25 ystafell wely<br>Llawr newydd yn y brif ystafell fyw<br>Llawr newydd yn Uned Seiriol<br>Llawr newydd yn yr ystafell wydr<br>Cerrig newydd yn yr iard mewnol<br>System awyru poeth / oer yn yr ystafell wydrl<br>Rhannu rhan o'r brif ystafell fyw er mwyn creu gwell amgylchedd<br>Mynediad i'r ystafell wydr o'r brif ystafell fyw<br>Creu ardal ddiogel i bobl allu mynd allan<br>Addurno'r sefydliad<br>Dodrefni a ffitiadau | 2017/18 | 250 | A - Trawsnewid Gofal Cymdeithasol Oedolion | Datblygu darpariaeth gwasanaeth ar y cyd a rheolaeth yn enwedig mewn perthynas â dementia, gwasanaethau pobl hŷn yn gyffredinol a chymorth i ofalwyr er mwyn cydlynu gwell darpariaeth o wasnaethau, mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd Iechyd. | 300 | 140 | 150 | 0 | 100 | 50 | 740 |

| Adran | Cynllun Arfaethedig | Disgrifiad Byr | Blwyddyn y dechreuodd y prosiect/y bydd yn dechrau | 2017/18 Cost Blwyddyn 1 (£'000) | Blaenoriaeth corfforaethol mae'n fodloni | Pa ran o'r flaenoriaeth y mae'n cwrdd | Cyfraniad y Prosiect i flaenoriaethau corfforaethol | Lefel o risg corfforaethol mae'r prosiect yn liniaru | Angen cydymffurfio gyda chyfrifoldebau statudol, iechyd, DDA er mwyn lliniaru'r her | Lefel y cyllid ar y cyd / cyfatebol a allai fod ar gael | Effaith ffafriol ar y gyllideb refeniw neu'r potensial buddsoddi i arbed | Cadernid y Rheolaeth Prosiect | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Priffyrdd | Lliniaru Llifogydd Biwmares | Yn hanesyddol, mae tref Biwmares wedi dioddef llifogydd. Mae'r cofnodiadau o ddigwyddiadau'n cychwyn yn 1863,gyda digwyddiadau o bwys yn 1915, 1957, 2004, 2007, 2012 a 2015. Mae mwy o dywydd stormus a'r llanw uchel o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd yn golygu fod llifogydd yn digwydd yn amlach a'u bod yn fwy difrifol. Mae'r prosiect eisoes wedi derbyn cymeradwyaeth gyda'r dyluniad yn dechrau yn 2013/14 ac mae eisoes yn destun cyllid gan LlC gyda'r elfennau arfordirol yn cael eu cwblhau ym mis Chwefror 2016. | 2017/18 | 800 | B - Adfywio ein Cymunedau a Datblygu'r Economi | Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill er mwyn cryfhau'r gystadleuaeth o ran economi'r Ynys a chefnogi cwmniau lleol. | 200 | 200 | 100 | 85 | 100 | 25 | 710 |
| Priffyrdd | Lliniaru Llifogydd Pentraeth | Mae Stad Nant y Felin ym Mhentraeth wedi cael ei hadeiladu mewn sawl cam ar ochr bryn. Mewn cyfnodau o law trwm, mae'r cwrs dŵr arferol sy'n rhedeg trwy'r stad wedi ei orlwytho sydd wedi golygu llifogydd mewnol yn nifer o dai'r stad. Mae cyllid cynorthwyol wedi dod drwy grant gan Lywodraeth Cymru er mwyn galluogi cynhyrchu Adroddiad Gwerthuso Prosiect i'r pryderon llifogydd yn Nant y Felin ac mae'r gwaith hwn yn parhau.<br><br>Mae'r cais yn un sy'n rhagweld cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyllido cyfatebol a fydd angen ar gyfer dylunio ac adeiladu mesurau lliniaru yn Nant y Felin. | 2017/18 | 800 | B - Adfywio ein Cymunedau a Datblygu'r Economi | Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill er mwyn cryfhau'r gystadleuaeth o ran economi'r Ynys a chefnogi cwmniau lleol. | 200 | 200 | 100 | 85 | 100 | 25 | 710 |
| Economaidd ac Adfywio | Isadeiledd Strategol Llangefni | Bydd y prosiect yn cynnwys pecyn integredig o fuddsoddiadau isadeiledd gan gynnwys:<br>Darpariaeth 5 eiddo busnes modern o safon uchel yn yr hen safle Hyfforddiant Môn<br>Ffioedd proffesiynol | 2017/18 | 2,523 | B - Adfywio ein Cymunedau a Datblygu'r Economi | | 300 | 140 | 0 | 95 | 120 | 50 | 705 |
| Economaidd ac Adfywio | Cae 3G yng Nghanolfan Hamdden Plas Arthur | Bydd y prosiect yn golygu newid yr hen gae pêl-droed pob tywydd yng Nghanolfan Hamdden Plas Arthur sydd wedi dod i ddiwedd ei oes. Bydd hyn yn gwella syniadau negyddol ac yn bodloni disgwyliadau cwsmeriaid gan fod nifer bellach wedi gadael yr adnodd er mwyn hyfforddi ar gae newydd pob tywydd 3G CPD Dinas Bangor. Bydd buddsoddi rŵan yn golygu y bydd gan ein clybiau lleol adnodd a fydd y cyntaf o'i fath ar yr Ynys. Mae Ynys Môn yn un o'r ychydig siroedd heb gae 3G o fewn yr Awdurdod, y weledigaeth gan yr FAW yw bod angen cae 3G ar Ynys Môn er mwyn bodloni'r hyn a nodir yn y ddogfenCanllawiau a Gweledigaeth Cae Pob Tywydd Cymru Gyfan. Mae'r buddsoddiad yn siŵr o'n helpu ni i gyrraedd ein targed o 60% o ostyngiad mewn costau gwariant ar hamdden i'r Cyngor. | | 150 | B - Adfywio ein Cymunedau a Datblygu'r Economi | Adfywio Cymunedau Llewyrchus | 200 | 150 | 200 | | 100 | 50 | 700 |

| Adran | Cynllun Arfaethedig | Disgrifiad Byr | Blwyddyn y dechreuodd y prosiect/y bydd yn dechrau | 2017/18 Cost Blwyddyn 1 (£'000) | Blaenoriaeth corfforaethol mae'n fodloni | Pa ran o'r flaenoriaeth y mae'n cwrdd | Cyfraniad y Prosiect i flaenoriaethau corfforaethol | Lefel o risg corfforaethol mae'r prosiect yn liniaru | Angen cydymffurfio gyda chyfrifoldebau statudol, iechyd, DDA er mwyn lliniaru'r her | Lefel y cyllid ar y cyd / cyfatebol a allai fod ar gael | Effaith ffafriol ar y gyllideb refeniw neu'r potensial buddsoddi i arbed | Cadernid y Rheolaeth Prosiect | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Economaidd ac Adfywio | Offer Ffitrwydd Canolfan Hamdden Caergybi | Bydd y prosiect yn cynnwys newid a diweddaru'r holl offer ffitrwydd yn ystafell ffitrwydd Canolfan Hamdden Caergybi er mwyn sicrhau bod yr holl gwsmeriaid yn gallu cael profiad ffitrwydd modern (yn cynnwys ystafell ffitrwydd). Bydd hyn yn gwella syniadau negyddol ac yn bodloni gofynion ac anghenion cwsmeriaid. Mae buddsoddiadau yng Nghanolfan Hamdden Amlwch a Phlas Arthur wedi profi'n gadarnhaol gyda nifer uwch bellach yn defnyddio'r adnodd ac incwm uwch. Mae Caergybi bellach angen buddsoddiad gan ei fod wedi methu allan ar fuddsoddiadau yn yr ystafell ffitrwydd dros y blynyddoedd gyda'r offer bellach yn colli ei apêl. Mae'r buddsoddiad yn siŵr o'n helpu ni i gyrraedd ein targed o 60% o ostyngiad mewn costau gwariant ar hamdden i'r Cyngor. | 2017/18 | 212 | B - Adfywio ein Cymunedau a Datblygu'r Economi | Adfywio Cymunedau Llewyrchus | 200 | 150 | 200 | 0 | 100 | 50 | 700 |
| Tai | Sipsiwn a Theithwyr | Mae'r cais cyfalaf ar gyfer prynu tir ar gyfer ei ddatblygu yn safleoedd Sipsiwn a Theithwyr fel sydd wedi'i adnabod yn yr Asesiad adnabod anghenion llety teithwyr a sipsiwn ar gyfer Ynys Môn. | 2017/18 | 1,301 | D - Cynyddu ein Hopsiynau Tai a Lleihau Tlodi | | 300 | 200 | 150 | 0 | 0 | 35 | 685 |
| Gwasanaethau Oedolion | Plas Mona | Mae Cartref Gofal Preswyl Plas Mona yn gartref gofal dementia 28 gwely arbenigol sydd wedi'i leoli ym mhentref Llanfair PG. Mae adolygiad blynyddol wedi'i ymgymryd ag ef er mwyn adnabod unrhyw faterion cysylltiedig â'r adeilad o ran y ddarpariaeth gofal preswyl mewnol. Mae rhaglen ailwampio Plas Mona yn cynnwys:<br>Mynedfa newydd i'r ardal allanol o'r ystafell fwyta<br>Creu ardal allanol hawdd ei defnyddio a diogel yng nghefn yr adeilad<br>Addurno ystafelloedd gymunedol | 2017/18 | 50 | A - Trawsnewid Gofal Cymdeithasol Oedolion | Datblygu darpariaeth gwasanaeth ar y cyd a rheolaeth yn enwedig mewn perthynas â dementia, gwasanaethau pobl hŷn yn gyffredinol a chymorth i ofalwyr er mwyn cydlynu gwell darpariaeth o wasnaethau, mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd Iechyd. | 100 | 150 | 150 | 0 | 100 | 50 | 550 |
| Gwasanaethau Oedolion | Plas Crigyll | Mae Cartref Gofal Preswyl Plas Crigyll yn gartref dementia 25 gwely arbenigol sydd wedi'i leoli ym mhentref Bryngwran. Mae adolygiad blynyddol wedi'i ymgymryd ag ef er mwyn adnabod unrhyw faterion cysylltiedig â'r adeilad o ran y ddarpariaeth gofal preswyl mewnol. Mae rhaglen ailwampio Plas Crigyll yn cynnwys:<br>Ffenestri dwbl ar gyfer yr holl ffenestri presennol<br>25 drws mewnol newydd<br>Adnoddau cegin newydd mewn dwy uned<br>Mynedfa newyddi i'r tu allan o'r lolfa gymunedol | 2017/18 | 75 | A - Trawsnewid Gofal Cymdeithasol Oedolion | Datblygu darpariaeth gwasanaeth ar y cyd a rheolaeth yn enwedig mewn perthynas â dementia, gwasanaethau pobl hŷn yn gyffredinol a chymorth i ofalwyr er mwyn cydlynu gwell darpariaeth o wasnaethau, mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd Iechyd. | 100 | 150 | 150 | 0 | 100 | 50 | 550 |
| Rheoli Gwastraff | Trin Carthffosiaeth Hanfodol | Gosod pecyn gwaith trin carthffosiaeth neu dylid ystyried prynu tir er mwyn gosod tanc septig. Byddai angen cyflogi ymgynghorwyr er mwyn cynnal arolwg mwy manwl a fyddai'n adnabod costau cyllidebol a ragwelir y byddant tua £100k.<br><br>Yn dilyn hynny, byddai costau bach er mwyn cynnal a chadw blynyddol offer o'r fath/cyflenwad trydan ac ati, fodd bynnag, rhagwelir y gellid trosglwyddo'r rhain i drydydd parti, yn amodol ar gytundeb cyfreithiol newydd rhwng pawb perthnasol. | 2017/18 | 105 | | | 0 | 150 | 200 | 0 | 0 | 50 | 400 |

| Adran | Cynllun Arfaethedig | Disgrifiad Byr | Blwyddyn y dechreuodd y prosiect/y bydd yn dechrau | 2017/18 Cost Blwyddyn 1 (£'000) | Blaenoriaeth corfforaethol mae'n fodloni | Pa ran o'r flaenoriaeth y mae'n cwrdd | Cyfraniad y Prosiect i flaenoriaethau corfforaethol | Lefel o risg corfforaethol mae'r prosiect yn liniaru | Angen cydymffurfio gyda chyfrifoldebau statudol, iechyd, DDA er mwyn lliniaru'r her | Lefel y cyllid ar y cyd / cyfatebol a allai fod ar gael | Effaith ffafriol ar y gyllideb refeniw neu'r potensial buddsoddi i arbed | Cadernid y Rheolaeth Prosiect | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| TGCh | Sharepoint EDM | Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddatblygu "gwasanaethau gwell, mwy modern, gwella effeithlonrwydd, lleihau costau tymor hir, gwella cymhelliant ac ymestyn gweithio'n hyblyg."<br>Wrth fodloni'r ymrwymiad hwn, mae'r Bwrdd Prosiect Gweithio'n Gallach wedi adnabod byddai gweithredu System Dogfennau Electronig a Rheoli Cofnodion (EDRMS) yn galluogi staff i gael mynediad i ddogfennau ac i weithio arnynt gyda'i gilydd mewn modd hyblyg ac effeithlon. | 2017/18 | 140 | Dim | Nid yw'n bodloni Blaenoriaeth Gorfforaethol benodol. | 0 | 100 | 150 | 0 | 0 | 50 | 300 |
| | | | | 12,407 | | | | | | | | | |
| Tai - CRT | Datblygiad Tai Cyngor Ychwanegol | Bydd y cais am gyllid cyfalaf 2017/18 ar gyfer ariannu 20 uned gyda llithriant o arian ar gyfer 10 uned a fydd yn caniatáu ar gyfer 30 uned newydd yn ystod 2017/18. | | 2,800 | D - Cynyddu ein Hopsiynau Tai a Lleihau Tlodi | Cynyddu'r Opsiynau Tai fforddiadwy ledled yr Ynys a dod a thai gwag yn ôl i ddefnydd. | 300 | 200 | 150 | 0 | 0 | 50 | 700 |
| Tai - CRT | Ailwampio wedi'l gynllunio | Bydd gwaith cynnal a chadw allanol traddodiadol sydd wedi'i gynllunio yn parhau i ffurfio sail ein cynlluniau buddsoddi cyfalaf ar gyfer 2017/18 a thu hwnt. Bydd gwelliannau i'r cartref yn yr holl brosiectau yn cynnwys rhoi toeau newydd, gweithredu system rendro wedi'i inswleiddio, drysau a ffenestri newydd lle bo hynny'n briodol, gwaith allanol i gynnwys llwybrau, ffensys a waliau terfyn. Bydd rhai eiddo nad ydynt ar y prif linell nwy hefyd yn elwa o gael systemau Solar PV.<br>Yn ystod 2017/18 bydd ein rhaglen yn cynnwys o leiaf 120 o eiddo a fydd yn elwa o waith cynnal a chadw sydd wedi'i gynllunio. Bydd cynlluniau yn amrywio o ran maint er mwyn rhoi cyfle i fusnesau bach a chanolig geisio am y contractau Tai, Bydd gwelliannau i'r cartref yn gwella moethusrwydd ac ymddangosiad y cartrefi a ble bo'n briodol, yn eu gwneud yn fwy fforddiadwy i'w gwresogi. | | 6,585 | B - Adfywio ein Cymunedau a Datblygu'r Economi<br>D - Cynyddu ein Hopsiynau Tai a Lleihau Tlodi | Cefnogi'r rhai hynny sydd â risg o fod yn ddigartref ac unigolion digartref i ddod o hyd i gartrefi parhaol. | 300 | 200 | 150 | 0 | 0 | 50 | 700 |
| Tai - CRT | Cerbydau BMU | Er mwyn darparu'r gwasanaeth rhagorol mae'r BMU yn ddibynnol ar fflyd o gerbydau diogel, effeithlon, cost effeithiol ac addas i'r diben sydd hefyd yn bodloni disgwyliadau'r gyrwyr ac yn lleihau effeithiau amgylcheddol.<br>Mae'r BMU eisoes yn gweithredu fflyd o 32 o gerbydau. Maent o faint 'transit' yn gyffredinol. Mae'r cerbydau hyn yn elfen hanfodol o ddarparu ffordd o gludo'r gweithiwr, offer a deunyddiau er mwyn bodloni nod y gwasanaeth. Mae'r fflyd wreiddiol bellach wedi ei amnewid heblaw am un pick up a dwy fan LGV. | | 144 | Dim | Nid yw'n bodloni Blaenoriaeth Gorfforaethol benodol ond mae'n hanfodol ar gyfer darpariaeth nifer o wasanaethau. | 300 | 200 | 0 | 0 | 0 | 50 | 550 |
| Tai - CRT | Eiddo | Nod y cais hwn yw darparu strwythur tanwydd mwy effeithlon ar gyfer to'r depo a gwella ymddangosiad yr adeilad. | | 110 | D - Cynyddu ein Hopsiynau Tai a Lleihau Tlodi | Cynyddu'r Opsiynau Tai fforddiadwy ledled yr Ynys a dod a thai gwag yn ôl i ddefnydd. | 300 | 200 | 150 | 0 | 0 | 50 | 700 |
| Tai - CRT | Ail fodelu Llawr-Y-Dref | Mae achos busnes yn cael ei baratoi ar hyn o bryd ar gyfer ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith gydag argymhelliad ar gyfer ailfodelu a defnydd yn y dyfodol o'r cynllun a fydd yn creu arbedion effeithlonrwydd ar gyfer Cronfa Gyffredinol y Cyngor drwy ostyngiad yn y defnydd o lety brys ac i'r CRT drwy leihau niferoedd y tai gwag. | | 250 | D - Cynyddu ein Hopsiynau Tai a Lleihau Tlodi | Cynyddu'r Opsiynau Tai fforddiadwy ledled yr Ynys a dod a thai gwag yn ôl i ddefnydd.Cefnogi'r rhai hynny sydd â risg o fod yn ddigartref ac unigolion digartref I ddod o hyd I gartrefi parhaol. | 300 | 200 | 150 | 0 | 0 | 50 | 700 |
| | | | | 9,889 | | | | | | | | | |

**ATODIAD 5**

**MATRICS SGORIO**

**Prosiectau sy'n cyfrannu at gyflawni prosiectau corfforaethol (Pwysoliad 30%)**

- Rhoddir 300 o bwyntiau os yw'r cynllun yn cwrdd yn llawn ag un neu ragor o'r pwyntiau bwled yn y cynllun corfforaethol.
- Rhoddir sgôr rhwng 1 a 299 os yw'r cynllun yn cwrdd yn rhannol â'r pwyntiau bwled yn y cynllun corfforaethol, gyda'r sgôr yn adlewyrchu difrifoldeb yr effaith. Os yw cynllun yn cwrdd â'r rhan fwyaf o'r blaenoriaethau corfforaethol, dylai sgorio dros 200 o bwyntiau ond os yw cynllun ond yn cwrdd â chyfran fechan o'r blaenoriaethau corfforaethol, yna dylai sgorio llai na 100. Mae'r sgôr yn seiliedig ar ddisgresiwn y sawl sy'n sgorio'r fid.
- Onid yw'r cynllun yn cwrdd ag unrhyw un o'r pwyntiau bwled yn y cynllun corfforaethol, rhoddir sgôr o 0.

**Y Lefel o Risg Gorfforaethol y mae'r cynnig yn ei liniaru (Pwysoliad 20%)**

- Rhoddir 200 o bwyntiau os yw'r cynllun yn lliniaru risg gorfforaethol yn llawn.
- Rhoddir sgôr rhwng 1 a 199 os yw'r cynllun yn lliniaru risg gorfforaethol yn rhannol. Bydd y sgôr yn adlewyrchu difrifoldeb y lliniaru. Os yw cynllun yn lliniaru llawer ar y risg gorfforaethol, dylai sgorio dros 120 o bwyntiau ond os yw ond yn lliniaru rhywfaint ar risg gorfforaethol, yna dylai sgorio llai na 50. Mae'r sgôr yn seiliedig ar ddisgresiwn y sawl sy'n sgorio'r fid.
- Os nad yw'r cynllun yn lliniaru dim ar y risg gorfforaethol, rhoddir sgôr o 0.

**Rheidrwydd i gydymffurfio gyda chyfrifoldebau statudol, iechyd, y Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (DGA) er mwyn lliniaru her (Pwysoliad15%)**

- Rhoddir 150 o bwyntiau os yw'r cynllun yn cydymffurfio'n llawn gyda chyfrifoldebau statudol, iechyd neu DGA.
- Rhoddir sgôr rhwng 1 a 149 os yw'r cynllun yn cydymffurfio'n rhannol gyda chyfrifoldebau statudol, iechyd neu DGA. Bydd y sgôr yn adlewyrchu lefel y gydymffurfiaeth. Os yw'r cynllun yn cydymffurfio i raddau helaeth gyda'r cyfrifoldebau statudol, iechyd neu DGA, dylai sgorio dros 100 o bwyntiau ond os yw ond yn cydymffurfio i lefel isel, dylai sgorio llai na 30. Mae'r sgôr yn seiliedig ar ddisgresiwn y sawl sy'n sgorio'r fid.
- Onid yw'r cynllun yn cydymffurfio gyda chyfrifoldebau statudol, iechyd neu DGA, rhoddir sgôr o 0.

**Lefel y cyllid ar y cyd/cyllid cyfatebol a all fod ar gael (Pwysoliad 10%)**

- Os yw'r cynllun yn derbyn 100% cymorth grant, bydd yn sgorio 100 o bwyntiau. Os yw'r cynllun yn derbyn 50% cymorth grant, bydd yn sgorio 50 o bwyntiau. Os nad yw'r cynllun yn derbyn unrhyw gymorth grant o gwbl, yna ni fydd yn sgorio unrhyw bwyntiau.

**Effaith ffafriol ar y gyllideb refeniw neu botensial buddsoddi i arbed (Pwysoliad 20%)**

- Rhoddir 200 o bwyntiau os bydd y cynllun yn cael effaith fawr ar y gyllideb refeniw neu â photensial mawr o ran buddsoddi i arbed.
- Rhoddir sgôr rhwng 1 a 199 os yw'r cynllun yn cael rhywfaint o effaith ffafriol ar y gyllideb refeniw neu â photensial o ran buddsodd i arbed, gyda'r sgôr yn dibynnu ar yr effaith a gaiff ar y gyllideb refeniw. Dylai effaith hynod ffafriol sgorio dros 120 o bwyntiau a disgwylir y bydd cynllun effaith isel yn sgorio llai na 50 o bwyntiau.
- Onid oes unrhyw effaith ffafriol ar y gyllideb refeniw neu botensial o ran buddsoddi i arbed, rhoddir sgôr o 0.

**Cadernid o ran Rheoli Prosiect (Pwysoliad 5%)**

- Bydd trefniadau rheoli prosiect hollol gadarn yn sgorio 50 o bwyntiau.
- Rhoddir sgôr rhwng 1 a 49 gan ddibynnu ar ba mor gadarn yw'r trefniadau rheoli prosiect a bydd y sgôr yn seiliedig ar ddisgresiwn y sawl sy'n sgorio'r fid.
- Os nad yw'r trefniadau rheoli prosiect yn gadarn o gwbl, rhoddir sgôr o 0.

## ATODIAD 6

**CRYNODEB O'R CYLLID CYFALAF SYDD WEDI'I DDYRANNU**

| Ffynhonnell y Cyllid | Cynlluniau Ymrwymedig £'000 | Asedau Presennol £'000 | Prosiectau Buddsoddi i Arbed £'000 | Cynnal a Chadw Priffyrdd £'000 | Cynlluniau Newydd £'000 | Cynlluniau Benthyca Digefnogaeth £'000 | Cyfanswm Cronfa Gyfalaf Gyffredinol £'000 | Ysgolion 21ain Ganrif £'000 | Cyfrif Refeniw Tai £'000 | Cyfanswm Rhaglen Cyllid Cyfalaf 2017/18 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Grant Gyfalaf Cyffredinol | - | 1,248 | - | - | 92 | - | 1,340 | - | - | **1,340** |
| Benthyca â Chymorth Cyffredinol | - | - | 75 | 244 | 1,884 | - | 2,203 | - | - | **2,203** |
| Derbyniadau Cyfalaf | 461 | 454 | 111 | - | 496 | - | 1,522 | - | - | **1,522** |
| Tanwariant ers 2016/17 Dygwyd Ymlaen | 178 | 101 | - | 226 | 59 | - | 564 | - | - | **564** |
| Cyfraniad refeniw arian wrth gefn na neilltuwyd | 8 | 498 | - | - | - | - | 506 | - | - | **506** |
| Grantiau Allanol | 8,179 | - | - | - | 9,144 | - | 17,323 | - | - | **17,323** |
| Benthyca Di-gefnogaeth | - | - | - | 291 | - | 362 | 653 | - | - | **653** |
| **CYFANSWM CYLLID CYFALAF CRAIDD Y GRONFA CYFFREDINOL** | **8,826** | **2,301** | **186** | **761** | **11,675** | **362** | **24,111** | **-** | **-** | **24,111** |
| Cyllid Grant Ysgolion yr 21ain Ganrif | - | - | - | - | - | - | - | 1,270 | - | **1,270** |
| Benthyca â Chymorth Ysgolion yr 21ain Ganrif | - | - | - | - | - | - | - | 1,269 | - | **1,269** |
| Benthyca Digefnogaeth Ysgolion yr 21ain Ganrif | - | - | - | - | - | - | - | 4,326 | - | **4,326** |
| **CYFANSWM YSGOLION YR 21AIN GANRIF** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **6,865** | **-** | **6,865** |
| Cyfraniad Cyfrif Refeniw Tai | - | - | - | - | - | - | - | - | 7,224 | **7,224** |
| Grantiau Cyfrif Refeniw Tai | - | - | - | - | - | - | - | - | 2,665 | **2,665** |
| **CYFANSWM CYFRIF REFENIW TAI** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **9,889** | **9,889** |
| **CYFANSWM CYLLID** | **8,826** | **2,301** | **186** | **761** | **11,675** | **362** | **24,111** | **6,865** | **9,889** | **40,865** |

**ATODIAD B**

## CYLLIDEB GYFALAF ARFAETHEDIG AR GYFER 2017/18

| | | Cost 2017/18 £'000 | Ymrwymiad i 2020/21 £'000 | ARIENNIR GAN | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Bosib y caiff ei gyllido'n rhannol o grantiau neu gyllid allanol arall | Grant / Cyllid Allanol £'000 | Derbyniadau Cyfalaf £'000 | Benthyca gyda Chefnogaeth – Ysgolion y 21ain Ganrif £'000 | Benthyca gyda Chefnogaeth Gyffredinol £'000 | Grant Cyfalaf Cyffredinol £'000 | Benthyca Di-gefnogaeth £'000 | Cronfeydd Cyfalaf heb eu Defnyddio £'000 | Tanwariant 2016/17 wedi ei ddwyn ymlaen £'000 | Arian Wrth Gefn CRT £'000 |
| Cynlluniau yr ymrwymwyd iddynt | Gweithredu CCIS | 65 | 0 | 0 | 65 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Gorchmynion Prynu Tai drwy Orfodaeth | 200 | Blynyddol | 0 | 192 | 0 | 0 | 0 | 0 | 8 | 0 | 0 |
| | Porth Ymwelwyr Ynys Gybi | 1,050 | 2,950 | 1,010 | 40 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Lôn Wylfa Newydd | 4,097 | 23,452 | 4,097 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Ffordd Gyswllt Llangefni | 3,414 | 2,938 | 3,072 | 164 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 178 | 0 |
| **CYFANSWM Y CYNLLUNIAU YR YMRWYMWYD IDDYNT** | | **8,826** | **29,340** | **8,179** | **461** | **0** | **0** | **0** | **0** | **8** | **178** | **0** |
| GCA ac Asedau Cyfredol | GCA | 750 | Blynyddol | 0 | 0 | 0 | 0 | 750 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Mynediad i'r Anabl – Addysg | 300 | Blynyddol | 0 | 0 | 0 | 0 | 300 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Cerbydau | 150 | Blynyddol | 0 | 0 | 0 | 0 | 150 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Isadeiledd Craidd TG | 150 | Blynyddol | 0 | 0 | 0 | 0 | 48 | 0 | 102 | 0 | 0 |
| | Adnewyddu Cyfrifiaduron TG | 100 | Blynyddol | 0 | 78 | 0 | 0 | 0 | 0 | 22 | 0 | 0 |
| | Symud i System Etifeddiaeth | 50 | 100 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 50 | 0 | 0 |
| | Trwydded Microsoft | 101 | Blynyddol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 101 | 0 |

| | | Cost 2017/18 £'000 | Ymrwymiad i 2020/21 £'000 | ARIENNIR GAN | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Bosib y caiff ei gyllido'n rhannol o grantiau neu gyllid allanol arall | Grant / Cyllid Allanol £'000 | Derbyniadau Cyfalaf £'000 | Benthyca gyda Chefnogaeth – Ysgolion y 21ain Ganrif £'000 | | Grant Cyfalaf Cyffredinol £'000 | Benthyca Di-gefnogaeth £'000 | Cronfeydd Cyfalaf heb eu Defnyddio £'000 | Tanwariant 2016/17 wedi ei ddwyn ymlaen £'000 | Arian Wrth Gefn CRT £'000 |
| | Atgyweirio Ysgolion | 500 | Blynyddol | 0 | 176 | 0 | 0 | 0 | 0 | 324 | 0 | 0 |
| | Atygweirio Adeiladau nad ydynt yn Ysgolion | 200 | Blynyddol | 0 | 200 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM GCA AC ASEDAU CYFREDOL** | | **2,301** | **-** | **0** | **454** | **0** | **0** | **1,248** | **0** | **498** | **101** | **0** |
| Prosiectau Buddsoddi i Arbed | Effeithlonrwydd Ynni mewn Canolfannau Hamdden | 111 | 0 | 0 | 111 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Gwaith Trin Carthffosiaeth Traeth Coch | 75 | 0 | 0 | 0 | 0 | 75 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM PROSIECTAU BUDDSODDI I ARBED** | | **186** | **0** | **0** | **111** | **0** | **75** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| **CYFANSWM CYNNAL A CHADW PRIFFYRDD** | | **761** | **0** | **0** | **0** | **0** | **244** | **0** | **291** | **0** | **226** | **0** |
| Cynlluniau Mawr Newydd | Gofal Ychwanegol Seiriol | 1,000 | 14,300 | 0 | 0 | 0 | 1,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Isadeiledd Strategol Caergybi | 5,001 | 2,164 | 4,966 | 0 | 0 | 35 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Cartref Gofal Preswyl Garreglwyd | 250 | 0 | 0 | 0 | 0 | 250 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Lliniaru Llifogydd ym Miwmares | 800 | 200 | 680 | 0 | 0 | 120 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Lliniaru Llifogydd ym Mhentraeth | 800 | 200 | 680 | 0 | 0 | 120 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Isadeiledd Strategol Llangefni | 2,523 | 441 | 2,488 | 0 | 0 | 35 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr | 1,301 | 36 | 330 | 496 | 0 | 324 | 92 | 0 | 0 | 59 | 0 |
| **CYFANSWM CYNLLUNIAU MAWR** | | **11,675** | **17,341** | **9,144** | **496** | **0** | **1,884** | **92** | **0** | **0** | **59** | **0** |

| | | Cost 2017/18 £’000 | Ymrwymiad i 2020/21 £’000 | ARIENNIR GAN | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Bosib y caiff ei gyllido’n rhannol o grantiau neu gyllid allanol arall | Grant / Cyllid Allanol £’000 | Derbyniadau Cyfalaf £’000 | Benthyca gyda Chefnogaeth – Ysgolion y 21ain Ganrif £’000 | | Grant Cyfalaf Cyffredinol £’000 | Benthyca Di-gefnogaeth £’000 | Cronfeydd Cyfalaf heb eu Defnyddio £’000 | Tanwariant 2016/17 wedi ei ddwyn ymlaen £’000 | Arian Wrth Gefn CRT £’000 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif | Ysgol Cybi | 502 | 149 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 502 | 0 | 0 | 0 |
| | Ysgol Rhyd y Llan | 1,545 | 67 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1,545 | 0 | 0 | 0 |
| | Ysgol Brynsiencyn | 217 | 227 | 54 | 0 | 54 | 0 | 0 | 109 | 0 | 0 | 0 |
| | Ysgol Parc y Bont | 169 | 177 | 42 | 0 | 42 | 0 | 0 | 85 | 0 | 0 | 0 |
| | Ysgol Bro Rhosyr | 3,591 | 1,574 | 898 | 0 | 898 | 0 | 0 | 1,795 | 0 | 0 | 0 |
| | Ysgolion Ardal Llangefni | 675 | 6,628 | 234 | 0 | 234 | 0 | 0 | 207 | 0 | 0 | 0 |
| | Ysgol Seiriol | 166 | 5,376 | 42 | 0 | 41 | 0 | 0 | 83 | 0 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM YSGOLION YR 21ain GANRIF** | | **6,865** | **14,198** | **1,270** | **0** | **1,269** | **0** | **0** | **4,326** | **0** | **0** | **0** |
| | | | | | | | | | | | | |
| **CYFANSWM Y GRONFA GYFFREDINOL** | | **30,614** | | **18,593** | **1,522** | **1,269** | **2,203** | **1,340** | **4,617** | **506** | **564** | **0** |
| | | | | | | | | | | | | |
| Cynlluniau CRT | Tai Cyngor Ychwanegol | 2,800 | 12,065 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2,800 |
| | Cynlluniau i Adnewyddu Eiddo Cyfredol | 6,585 | 8,952 | 2,665 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3.920 |
| | Cerbydau Newydd | 144 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 144 |
| | Gwaith Gwella yn y Depo | 110 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 110 |
| | Llawr y Dref | 250 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 250 |
| **ANSWM CYNLLUNIAU CRT** | | **9,889** | **21,017** | **2,665** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **7,224** |
| | | | | | | | | | | | | |
| **ANSWM RHAGLEN GYFALAF 2017/18** | | **40,503** | | **21,258** | **1,522** | **1,269** | **2,203** | **1,340** | **4,617** | **506** | **564** | **7,224** |
| | | | | | | | | | | | | |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **14 CHWEFROR 2017** |
| **Pwnc:** | **POLISI AR GYMORTH DEWISOL TUAG AT DRETHI BUSNES – ELUSENNAU A SEFYDLIADAU DIELW** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD HYWEL EIFION JONES – AELOD PORTFFOLIO (CYLLID)** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **MARC JONES – PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **GERAINT H. JONES – RHEOLWR Y GWASANAETH REFENIW A BUDD-DALIADAU**<br>01248 752651<br>ghjfi@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | **DIM YN BERTHNASOL** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**ARGYMHELLION**

- Bod y Pwyllgor Gwaith yn mabwysiadu'r Polisi cyfredol ar Gymorth Dewisol tuag at Drethi Busnes – Elusennau a Sefydliadau Dielw fel y manylir arno yn Atodiad A ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18 yn unig a'i fod yn rhoi cyfarwyddyd i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 i sicrhau bod y gweithdrefnau gweinyddol cyn 31 Mawrth 2017 yn rhoi gwybod i'r elusennau a'r sefydliadau dielw perthnasol y bydd y polisi mewn grym ar gyfer 2017/18 yn unig ac y bydd yn dod i ben ar 31 Mawrth 2018.
- Bod y Pwyllgor Gwaith yn cytuno i ohirio'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y polisi yn ystod 2016/17 ac i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith parthed datblygiad y polisi yma i'r dyfodol, ar ôl cymryd i ystyriaeth adolygiad Llywodraeth Cymru o'i gynllun rhyddhad i fusnesau bach ac effaith yr ail brisiad ar gost y polisi presennol, adeg 2017/18.

**CEFNDIR**

Mae'n rhaid i eiddo annomestig (ar wahân i rai eithriadau, megis amaeth, addoldai, adeiladau a ddefnyddir gan bobl anabl ac ati) dalu trethi annomestig. Yr enw cyffredin ar y trethi hyn yw trethi busnes er nad yw pawb sy'n eu talu yn fusnesau yn yr ystyr gyffredin. Yn wir, mae'r system o gymorthdaliadau wedi'i dylunio'n rhannol i liniaru baich trethiant ar ddeiliaid ar wahân i fusnesau.

Mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol yng Nghymru roi cymorth trethi mandadol yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1998 (DCLlL88), fel y cafodd ei diwygio gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.

Dan DCLlL88, gall Awdurdodau Lleol hefyd roi cymorth dewisol neu ryddhad o'r trethi o hyd at 100% o'r trethi sy'n daladwy. Mae hyn yn berthnasol i eiddo a ddefnyddir gan:-

- Elusennau ("ychwanegiad o 20%" yn ogystal â'r cymorth mandadol o 80%);
- Sefydliadau dielw eraill.

Mae costau caniatáu cymorth dewisol tuag at drethi busnes yn cael eu hysgwyddo'n rhannol gan y Gronfa Genedlaethol ar gyfer Trethi Annomestig (h.y. Llywodraeth Cymru) a chan drethdalwyr lleol.

Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo 90% o'r gost mewn perthynas â sefydliadau dielw. Mae hynny'n golygu bod pob £1 sy'n cael ei wario gan y Cyngor yn prynu cymorth o £10 i'r trethdalwr.

Fodd bynnag, yn achos yr "ychwanegiad 20%", mae Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo 25% o'r gost. Mae hynny'n golygu bod pob £7.50 a warir gan y Cyngor yn prynu cymorth sy'n werth £10 i'r trethdalwr.

**PENDERFYNIAD Y PWYLLGOR GWAITH CHWEFROR 2016**

Ym mis Chwefror 2016, ymestynnodd y Pwyllgor Gwaith ei Bolisi ar Gymorth Dewisol tuag at Drethi Busnes - Elusennau a Sefydliadau Dielw am gyfnod o flwyddyn yn unig ac fe wnaeth awdurdodi'r Deilydd Portffolio (Cyllid) a'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 i ymgymerid ag ymgynghoriad cyhoeddus yn seiliedig ar y materion a godwyd yn adolygiad a orffennwyd yn Nhachwedd 2015 ag i hefyd edrych i mewn i'r posibilrwydd a allai rhyddhad o'r dreth fusnes gael ei gyflawni ar gost lai i'r Awdurdod ar ran elusennau a sefydliadau dielw.

Mae'n deg i adrodd i'r Pwyllgor Gwaith nad oes ymgynghoriad ffurfiol o'r fath wedi cael ei ymgymerid fel dymunodd y Pwyllgor Gwaith nôl yn Chwefror 2016. Mae nifer o resymau wedi codi tros y flwyddyn ym marn y Deilydd Portffolio (Cyllid) a'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Rhan 151 i ohirio'r ymgynghoriad tan ar ôl apwyntio Cyngor newydd yn Mai 2017 a hefyd gweld yn union beth fydd effaith yr ail-brisio a pholisïau newydd Llywodraeth Cymru parthed trethi busnes. O ganlyniad argymhellir mabwysiadu'r polisi cyfredol fel y mae am flwyddyn eto. Dyma'r rhesymau y dylid gohirio'r ymgynghoriad -

- Ar 29 Medi 2016 cyhoeddwyd y Rhestr Brisio Newydd 2017 gan yr Asiant Brisio mewn drafft o ganlyniad i'r ailbrisiad ardrethi busnes yn seiliedig ar werthoedd prisio blaenorol Ebrill 2015. Bydd y rhestr drafft yma yn cael ei diweddaru'n wythnosol tan gyhoeddiad yr un terfynol ar 1 Ebrill 2017. O ganlyniad i'r ail brisio mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi dau gynllun i leddfu effaith yr ail brisiad ar fusnesau. Yn gyntaf, cyhoeddwyd yn Medi 2016 byddai cynllun rhyddhad trosiannol i fusnesau penodedig (y rhain oedd yn cael eu hystyried yn fusnesau bach tan ddeddfwriaeth cynt) yn cael ei gyflwyno i fusnesau lle mae eu hardrethi busnes wedi codi yn sylweddol (ni fydd hwn felly, yn berthnasol i elusennau a sefydliadau dielw). Mae'r cynllun yma yn rhedeg am dair blynedd o 1 Ebrill 2017 tan 30 Mawrth 2020. Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar y cynllun yma ac mae'r rheolau newydd wedi dod i rym ar 31 Rhagfyr 2016; ac yn ail, cyhoeddwyd hefyd, yn Rhagfyr 2016, cymorth ariannol ychwanegol i helpu, siopau, tafarnau a bwytai'r stryd fawr â'u hardrethi busnes (mae'n annhebygol y bydd elusennau a sefydliadau dielw yn elwa allan o'r ail gynllun hefyd). Nid yw'r cynllun terfynol wedi cael ei gyhoeddi;
- Atgoffir y Pwyllgor Gwaith bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ymestyn un polisi allweddol ar gymorth tuag at drethi busnes flwyddyn ar ôl blwyddyn, yn seiliedig ar gyhoeddiadau ariannol gan Ganghellor y Trysorlys yn natganiad yr Hydref bob blwyddyn, sef y Cynllun Mandadol Estynedig i roi Cymorth Trethi i Fusnesau Bach (nid yw'r cynllun yma yn berthnasol i elusennau a sefydliadau dielw ac mae'r cynllun mandadol hwn yn barod wedi cael ei ymestyn yn flynyddol am y 6 mlynedd diwethaf). Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd hwn eto yn gymwys yn 2017/18 **OND** bydd adolygiad eang o'r polisi yn cael ei wneud adeg 2017/18 gan Lywodraeth Cymru efo'r bwriad o greu cynllun rhyddhad **PARHAOL** y dreth fusnes i fusnesau bach ag un fydd wedi cael ei dargedu yn well at fusnesau bach. Rhaid dweud, bydd y cynllun rhyddhad trosiannol, y rhyddhad ychwanegol i fusnesau yn y stryd fawr megis siopau, tafarnau a bwytai a'r cadarnhad yma bod y cynllun estynedig i fusnesau bach yn bodoli yn 2017/18 yn cymhlethu dealltwriaeth busnesau o'r cynlluniau yma, yn peri problemau i'r cwmnïau meddalwedd i greu'r feddalwedd i filio yn gywir ac yn cymhlethu gweinyddiaeth cyffredinol y dreth fusnes, o ganlyniad;
- Ansicrwydd amserlen bilio am y dreth fusnes am 2017/18. Rydym yn gobeithio bydd y cwmnïau meddalwedd yn medru addasu'r meddalwedd i filio yn brydlon, ond mae yna risg na wnaeth hyn ddigwydd. Rhaid hefyd gwneud yn siŵr bod y feddalwedd rydym yn ei dderbyn yn creu biliau cywir. Gan y bod nifer fawr o fusnesau ar yr Ynys yn elwa o'r rhyddhad i fusnesau bach, os anfonir biliau allan mewn da bryd cyn sicrhau bod y meddalwedd newydd yn cymryd ystyriaeth gywir o'r rheolau newydd mae yna botensial o ail filio eang i fusnesau. Mae'r sefyllfa yma yn cael ei adolygu yn gyson;
- Roedd yr olygiad nôl yn Mis Tachwedd 2015 yn gadarnhaol iawn o'r polisi presennol i elusennau a sefydliadau dielw. Atgoffaf y Pwyllgor Gwaith o'i ganlyniadau -

**a)** Mae'r polisi cyfredol ar gymorth dewisol tuag at drethi busnes i elusennau a sefydliadau dielw wedi bod yn llwyddiant yn yr ystyr nad oes bron unrhyw geisiadau wedi dod i law nad ydynt wedi'u cynnwys yn y polisi. Fe'i mabwysiadwyd gyntaf ym mis Ebrill 2003 fel polisi yr oedd modd ei adnewyddu bob 5 mlynedd ac fe'i estynnwyd (ar ôl ei ddiwygio) am 5 mlynedd yn rhagor o fis Ebrill 2008 ac yn flynyddol am bob blwyddyn ganlynol wedi hynny. Mae'r polisi wedi cyflawni ei nod gwreiddiol pan gafodd ei fabwysiadu, sef cysondeb yn y dehongliad a'r gallu i'w weinyddu'n rhwydd. Nid oes dim un cais unigol wedi cael ei ystyried yn unigol gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 o dan Gategori G y polisi o ganlyniad i'r hyblygrwydd sydd yng Nghategorïau E(1) i F(2);

**b)** Caiff cymorth dewisol ychwanegol tuag at drethi busnes ei ddarparu i elusennau a sefydliadau dielw a chanddynt amcanion sy'n debyg i amcanion corfforaethol yr Awdurdod; **Mae'r Cyngor yn adolygu ei amcanion corfforaethol.**

**c)** Fodd bynnag, roedd y materion canlynol wedi cael eu codi ynglŷn â'r modd y mae'r polisi cyfredol ar gymorth dewisol tuag at drethi busnes i elusennau a sefydliadau dielw yn cael ei weithredu:-

- A ddylai'r Awdurdod barhau i adnewyddu ei bolisi yn flynyddol ynteu a ddylai benderfynu ar bolisi am gyfnod sefydlog o ddim mwy na 2, 3, 4 neu 5 mlynedd? A ddylid adolygu'r polisi yn unol â'r cyfnod y mae Cynllun Corfforaethol yr Awdurdod yn berthnasol iddo neu ar y dyddiad ailbrisiad trethiannol nesaf? **Rydym yn cydnabod bod hwn yn dal i fod yn gwestiwn dilys.**

- Ar gyfer siopau elusen sydd â gwerth trethiannol o £12,000 neu lai, oherwydd bod Cymorth Trethi i Fusnesau Bach yn cael i roi i fusnesau masnachol trwy'r Cynllun Estynedig, gellid dadlau'n awr mai prin iawn yw'r fantais ariannol, os o gwbl, i siopau elusen sy'n cael y cymorth trethi busnes mandadol o 80%. Mae'r Awdurdod o'r farn ar hyn o bryd, wrth i siopau Elusen ddod i edrych fwy a mwy fel siopau "Stryd Fawr" gan gystadlu'n uniongyrchol â manwerthwyr masnachol, y byddai rhoi'r cymorth dewisol "ychwanegol" i elusennau yn rhoi mantais ariannol annheg iddynt dros fusnesau lleol. **Mae Llywodraeth Cymru adeg 2017/18 yn mynd i ymgynghori ar gynllun rhyddhad parhaol i fusnesau bach sy'n targedi'r rhyddhad yn well. Gwell byddai aros i weld canlyniad yr ymgynghoriad yma;**

- Mae gan yr Awdurdod gyllideb gyfredol o £60k i gwrdd â chost y cynllun. Ar gyfer 2016/17 disgwylir i'r cynllun gostio £56,900. Mae hyn yn darparu £188,972 o gymorth dewisol tuag at drethi busnes i elusennau a sefydliadau dielw yn 2016/7. Mae Llywodraeth Cymru yn cwrdd â'r gwahaniaeth yn y gost. Yn 2016/17 rhoddir £633,850 o gymorth mandadol pellach i'r sefydliadau hyn hefyd, ac mae Llywodraeth Cymru yn cwrdd â'r gost lawn o'r Gronfa Trethi Busnes Ganolog. A ddylai'r Awdurdod, o dan amgylchiadau ariannol anodd, gynyddu ei gyllideb i roi mwy o gymorth i siopau elusen neu a ddylai ystyried cyfyngu faint o gymorth dewisol a roddir i 90% nid 100%, a chyfyngu'r cymorth "ychwanegol" i 10% yn lle 20%? A ddylai sefydliadau sydd â swyddogaethau sy'n cyd-fynd yn agos ag amcanion corfforaethol yr Awdurdod gael eu gwarchod? A ddylai'r Awdurdod, wrth gofio am gost gynyddol y rhaglen hon, ystyried cymorth amgen megis cymorth caledi, i rai categorïau penodol h.y. y cymorth "ychwanegol" 20%? Mae 75% o gost y cymorth caledi'n cael ei ysgwyddo gan y Gronfa Trethi Busnes Ganolog - gallai hyn arwain at y Pwyllgor Gwaith i fabwysiadu polisi cymorth caledi ffurfiol yn hytrach na'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd, sef bod y Swyddog Adran 151 yn delio â phob achos yn unigol. **Gwell gweld effaith yr ail-brisio ar wariant adeg 2017/18 cyn ystyried y rhan yma o'r canlyniadau.**

- Nid yw'r meini prawf ymgeisio wedi newid ers daeth y polisi i rym. A ddylid adolygu'r rhain yn awr gan roi mwy o bwysigrwydd i rai dros eraill, neu hyd yn oed gael gwared ar rai meini prawf? **Rydym yn cydnabod bod hwn yn dal i fod yn gwestiwn dilys.**

| B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Mae’r polisi cymorth cyfredol wedi bod yn llwyddiant yn yr ystyr nad oes bron unrhyw geisiadau wedi dod i law nad ydynt wedi’u cynnwys yn y polisi. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad sylweddol yn nifer y ceisiadau sy’n cael eu hystyried yn unigol.<br><br>Byddai peidio ag ymestyn y polisi dewisol cyfredol i roi cymorth trethi busnes i Elusennau a sefydliadau dielw yn golygu y byddai’n rhaid i’r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 ddelio gyda phob cais yn unigol gan roi ystyriaeth i ganllawiau gan Lywodraeth Cymru a pholisïau/canllawiau’r Pwyllgor Gwaith. (Gweler Cyfansoddiad y Cyngor – Cynllun Dirprwyo i Swyddogion penodol (Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a’r ddyletswydd benodol y manylir arni dan 3.5.3.5.19).<br><br>Os yw’r Pwyllgor Gwaith o’r farn y dylid ymgynghori fel ei dymuniad nôl Chwefror 2016 byddai rhaid gohirio’r penderfyniad ar bolisi newydd tan Fawrth 2017 ar ôl i’r ymgynghoriad orffen. Os methir gwneud penderfyniad yn Mis Mawrth byddai rhaid, fel soniwyd uchod i’r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 delio gyda phob cais yn unigol. |
| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith?** |
| Mae penderfyniadau i roi rhyddhad o’r Dreth Fusnes i elusennau a sefydliadau dielw wedi cael ei ddirprwyo i’r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Rhan 151. Gofynnir i’r Pwyllgor Gwaith greu canllawiau a pholisi i’r swyddog yma gyfeirio at i sicrhau cysondeb a thegwch o ran y penderfyniadau. |
| **CH – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
| Mae’r polisi hwn yn cyfrannu at nodau corfforaethol yr Awdurdod – sef adfywio ein cymunedau a datblygu’r economi a thrawsnewid gwasanaethau hamdden yn bennaf. |
| **D – A yw’r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
| Mae £60k wedi ei glustnodi o fewn y gyllideb am 2017/18. Mae yna ansicrwydd a fydd y gyllideb yma yn ddigonol o ganlyniad i effaith yr ailbrisiad a’r cynnydd yn y lluosydd drafft (sydd yn uwch na’r chwyddiant). Bwriad niwtral yw effaith ail brisiad bod tro ar y lefel incwm a gesglir o drethi fusnes yn genedlaethol, a gan y bod cwymp o 3% yng Nghymru o ran gwerthoedd ardrethi ar y rhestrau lleol rhwng 2010 a 2017 (er bod cynnydd o 26% yn y rhestr genedlaethol yng Nghymru am yr un adeg yn helpu at hyn) mae’r cynnydd yn y lluosydd yn gwneud i fyny'r gwymp yma - ond gellir cael amrywiaeth lleol rhwng ardaloedd a mathau o eiddo a busnesau.<br><br>Ar Ynys Môn, mae gwerth ardrethol y rhestr leol wedi syrthio -1.0% rhwng rhestr 2010 a rhestr 2017. Mae yna amrywiaeth tros y gwahanol sectorau -<br><br>• Manwerthu - 1.8%<br>• Diwydiannol -15.7%<br>• Swyddfeydd + 2.1%<br>• Eraill + 6.8%<br><br>Wrth fabwysiadu’r polisi rhyddhad dewisol i elusennau a sefydliadau dielw ar gyfer 2017/18 byddai’r gost bron yn £58k (yn seiliedig ar lefelau ardrethi busnes Rhestr 2017 gan ychwanegu cynnydd yn y lluosydd o 2.7% - sy’n agos iawn i’r gyllideb bresennol o £60k) . Serch hynny bydd y gost yn 2017/18 yn dibynnu ar y niferoedd o apeliadau llwyddiannus yn erbyn y gwerthoedd hardrethi and hefyd ôl-ddyddio addasiadau i’r blynyddoedd cynt.<br><br>Dros y 4 blynedd diwethaf, ar gyfer Elusennau a sefydliadau dielw ar yr Ynys, bu’r gost i Lywodraeth Cymru a’r Cyngor fel a ganlyn:- |

| Blwyddyn | Disgrifiad | £* | Cost y Gronfa % | Cost y Gronfa £ | Cost CSYM % | Cost CSYM £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2013/2014** | Mandadol | 582,988 | 100 | 582,988 | 0 | 0 |
| | "Ychwanegiad" Dewisol | 58,096 | 25 | 14,524 | 75 | 43,572 |
| | Dewisol Dielw | 117,349 | 90 | 105,614 | 10 | 11,175 |
| | **CYFANSWM** | **757,873** | **-** | **703,126** | **-** | **54,747** |
| **2014/2015** | Mandadol | 544,991 | 100 | 544,991 | 0 | 0 |
| | "Ychwanegiad" Dewisol | 59,301 | 25 | 14,825 | 75 | 44,476 |
| | Dewisol Dielw | 119,811 | 90 | 107,830 | 10 | 11,981 |
| | **CYFANSWM** | **724,103** | **-** | **667,646** | **-** | **56,457** |
| **2015/2016** | Mandadol | 548,065 | 100 | 548,065 | 0 | 0 |
| | "Ychwanegiad" Dewisol | 60,923 | 25 | 15,231 | 75 | 45,692 |
| | Dewisol Dielw | 111,509 | 90 | 100,358 | 10 | 11,151 |
| | **CYFANSWM** | **720,497** | - | **663,654** | - | **56,843** |
| **2016/2017** | Mandadol | 633,854 | 100 | 633,854 | 0 | 0 |
| | "Ychwanegiad" Dewisol | 58,464 | 25 | 14,616 | 75 | 43,848 |
| | Dewisol Dielw | 130,508 | 90 | 117,457 | 10 | 13,051 |
| | **CYFANSWM** | **822,826** | - | **765,927** | - | **56,899** |

* Mae'r costau hyn yn cynnwys addasiadau ar gyfer blynyddoedd blaenorol. Ar gyfer Atodiad A nid yw'r costau ond yn cyfeirio at 2016/17.

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Awdur yr adroddiad |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

Atodiad A – Polisi Cymorth tuag at Drethi Busnes ar gyfer Elusennau a Sefydliadau Dielw.

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

Penderfyniad gan Bwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn, 8 Chwefror 2016.

Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Symiau a Godir)(Cymru) 2016 Rhif 1247

**ATODIAD A**

| Categori | Disgrifiad | Mandadol | Dewisol | Cyfanswm | Cost i'r Cyngor | Rhif |
|---|---|---|---|---|---|---|
| A (1) | Neuaddau Pentref, Canolfannau Cymunedol, Sefydliadau Coffadwrol, Clybiau Hen Bobl, Cymdeithasau Sgowtiaid a Geidiaid, Cadlanciau'r Môr, Hosbis, Cylchau Chwarae | 80% **£96,409** | 20% **£24,102** | 100% **£120,511** | **£18,076** | **58** |
| A (2) | Diogelwch arforol | 80% **£31,376** | 20% **£7,844** | 100% **£39,220** | **£5,883** | **6** |
| B (1) | Clybiau adloniant, Theatrau, Ystafelloedd Bandiau ac Amgueddfeydd - (elusen gofrestredig) | 80% **£18,795** | 20% **£4,699** | 100% **£23,494** | **£3,524** | **8** |
| B (2) | Clybiau adloniant, Theatrau, Ystafelloedd Bandiau ac Amgueddfeydd h- (heb fod yn elusen gofrestredig) | 0% **£0** | 100% **£94,828** | 100% **£94,828** | **£9,482** | **30** |
| C (1) | Sefydlai Addysgol statudol neu ar agor i bawb | 80% **£4,957** | 20% **£1,239** | 100% **£6,196** | **£929** | **1** |
| C (2) | Sefydlai Addysgol | 80% **£287,007** | 0% **£0** | 80% **£287,007** | **£0** | **11** |
| CH | Siopau Elusennol | 80% **£55,568** | 0% **£0** | 80% **£55,568** | **£0** | **19** |
| D | Sefydliadau Adfywio, Cyflogi, Ailsefydlu | 80% **£4,658** | 20% **£1,165** | 100% **£5,823** | **£874** | **1** |
| DD | Cydraddoldeb hiliol a lleiafrif ethnig | 80% **£0** | 20% **£0** | 100% **£0** | **£0** | **0** |
| E (1) | Elusen gofrestredig neu at bwrpas elusennol lle mae eu hamcanion, efo gwerthoedd cyffredin sylweddol ag amcanion y Cyngor ac sy'n gwasanaethu trigolion yr Ynys | 80% **£65,649** | 20% **£16,412** | 100% **£82,061** | **£12,309** | **6** |
| E (2) | Heb fod yn elusen gofrestredig lle mae eu hamcanion efo gwerthoedd cyffredin sylweddol ag amcanion y Cyngor ac sy'n gwasanaethu trigolion yr Ynys | 0% **£0** | 100% **£13,243** | 100% **£13,243** | **£1,324** | **5** |
| F (1) | Elusen gofrestredig neu at bwrpas elusennol lle mae eu hamcanion yn cael ei gynorthwyo gan y Cyngor ond, naill a'i nad oes gwerthoedd cyffredin sylweddol efo amcanion y Cyngor neu nad ydynt yn sylweddol yn gwasanaethu'r Ynys. | 80% **£0** | 0% **£0** | 100% **£0** | **£0** | **0** |
| F (2) | Heb fod yn elusen gofrestredig lle mae eu hamcanion yn cael ei gynorthwyo gan y Cyngor ond, naill a'i nad oes gwerthoedd cyffredin sylweddol efo amcanion y Cyngor neu nad ydynt yn sylweddol yn gwasanaethu'r Ynys. | 0% **£0** | 80% **£908** | 100% **£908** | **£91** | 1 |
| FF | Meysydd Sioe Amaethyddol | 80% **£15,552** | 20% **£3,888** | 100% **£19,440** | **£2,916** | **1** |
| G | Dim un o'r categorïau uchod. | Various **£0** | Various **£0** | Various **£0** | **£0** | **0** |
| | **Cyfanswm – 2016/17** | **£579,971** | **£168,328** | **£748,299** | **£55,408** | **147** |
| | **Cost pob Band D – 2016/17** | | | | **£1.83** | |

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **14 Chwefror 2017** |
| **Pwnc:** | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng Ieuan Williams** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**<br>**01248 752108**<br>**JHuwJones@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

| **A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau** |
|---|
| Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaenraglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.<br><br>Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:<br><br>gadarnhau'r blaenraglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Mawrth – Hydref 2017;**<br><br>Adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor a chadarnhau'r angen i'r Pwyllgorau Sgriwtini ddatblygu eu rhaglenni gwaith i gefnogi rhaglen waith y Pwyllgor Gwaith;<br><br>Nodi bod blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith. |

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| - |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydyw. |

| **DD – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Amherthnasol. |

| **E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Mae blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen).<br><br>Fe'i chylchredir yn rheolaidd hefyd i Gyfarwyddwr Corfforaethol a Phenaethiaid Gwasanaeth er mwyn ei diweddaru. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| **5** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **6** | **Eiddo** | |
| **7** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **8** | **Sgriwtini** | Bydd Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith yn llywio rhaglenni gwaith y Pwyllgorau Sgriwtini. |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol. |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Amherthnasol. |

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

| F – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | Economaidd | |
| 2 | Gwrthdlodi | |
| 3 | Trosedd ac Anhrefn | |
| 4 | Amgylcheddol | |
| 5 | Cydraddoldebau | |
| 6 | Cytundebau Canlyniad | |
| 7 | Arall | |

| FF - Atodiadau: |
|---|
| Blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith: Mawrth – Hydref 2017. |

| G - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| |

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

**BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**
Cyfnod: Mawrth – Hydref 2017

Diweddarwyd: 2 Chwefror 2017

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mae blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaenraglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.

Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaenraglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys.



Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Amlinellir blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod **Mawrth – Hydref 2017** ar y tudalennau dilynol.

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Mawrth – Hydref 2017

Diweddarwyd: 2 Chwefror 2017

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Mawrth 2017** | | | | | | |
| 1 | **Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2015/16**<br><br>Cymeradwyo'r adroddiad. | Deilydd Portffolio Gwasnaethau Cymdeithasol a Thai | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Aled Morris Jones | | Penderfyniad dirprwyiedig<br><br>Mawrth 2017 | |
| | | | | | | | |
| 2 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Ieuan Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Mawrth 2017 | |
| 3 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch3, 2016/17 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Scott Rowley<br>Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol<br><br>Cyng Alwyn Rowlands | 13 Mawrth 2017 | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Mawrth 2017 | |
| 4 | **Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2016/17 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Hywel Eifion Jones | 13 Mawrth 2017 | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Mawrth 2017 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Mawrth – Hydref 2017

Diweddarwyd: 2 Chwefror 2017

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | **Polisi Rhyddhad Dewisol rhag Taliadau Tai 2017/18**<br><br>Adroddiad ar weithredu'r polisi yn 2016/17 ac unrhyw newidiadau i'w hargymell – pennu polisi. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan y Pwyllgor Gwaith er mwyn manylu'r gefnogaeth ychwanegol at gostau tai i rai hawlwyr budd-dal. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adain 151<br><br>Cyng Hywel Eifion Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Mawrth 2017 | |
| 6 | **Asesiad Llesiant – Bwrdd Gwasanaethau Lleol**<br><br>Cymeradwyo'r asesiad llesiant. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan y Pwyllgor Gwaith. | Prif Weithredwr | Dr Gwynne Jones<br>Prif Weithredwr<br><br>Cyng Ieuan Williams | 24 Ionawr 2017 | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Chwefror 2017 | |
| 7 | **Bwrdd Uchwelgais Gogledd Cymru** | | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Dylan Williams<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Ieuan Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Mawrth 2017 | |
| 8 | **Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn** | | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Dylan Williams<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Ieuan Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Mawrth 2017 | |
| 9 | **Bid Twf Rhanbarthol Gogledd Cymru – Llywodraethiant** | | Prif Weithredwr | Dr Gwynne Jones<br>Prif Weithredwr<br><br>Cyng Ieuan Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Mawrth 2017 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH
Cyfnod: Mawrth – Hydref 2017

Diweddarwyd: 2 Chwefror 2017

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 10 | **Arolwg AGGCC o Wasanaethau Plant yn Ynys Môn** | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith gan fod yr arolwg wedi edrych ar y modd y mae nifer o wasanaethau yn darparu gofal a chefnogaeth i blant, pobl ifanc a'u gofalwyr. | Gwasanaethau Plant | Llyr Bryn Roberts<br>Pennaeth Interim – Gwasanaethau Plant<br><br>Cyng Aled Morris Jones | 13 Mawrth 2017 | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Mawrth 2017 | |
| 11 | **Trawsnewid y Gwasanaeth Diwylliant – Asedau Treftadaeth** | Gofynnir am gytundeb y Pwyllgor Gwaith i'r argymhellion a gynigir gan y Bwrdd Trawsnewid Diwylliant. | Dysgu | Delyth Molyneux<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng Kenneth P Hughes | 16 Chwefror 2017 | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Mawrth 2017 | |
| 12 | **Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020**<br><br>Cymeradwyo'r Cynllun. | | Dysgu | Delyth Molyneux<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng Kenneth P Hughes | | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Mawrth 2017 | |
| 13 | **Cynllun Busnes a Chyllideb Ddrafft y Cyfrif Refeniw Tai 2017-2018**<br><br>Cymeradwyaeth. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith ar y Cynllun Busnes a'r cyllidebau cyfalaf a refeniw cyn eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru. | Tai | Shan Lloyd Williams<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Aled Morris Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Mawrth 2017 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

Tudalen 221

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Mawrth – Hydref 2017

Diweddarwyd: 2 Chwefror 2017

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 14 | **Strategaeth Interim Digartrefedd**<br><br>Cymeradwyo strategaeth interim Digartrefedd, sy'n ddogfen statudol. | | Tai | Shan Lloyd Williams<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Aled Morris Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Mawrth 2017 | |
| 15 | **Strategaeth Ynni** | | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Dewi Williams<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo<br><br>Cyng John Arwel Roberts | | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Mawrth 2017 | |
| 16 | **Polisi Archwilio Priffyrdd** | | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Dewi Williams<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo<br><br>Cyng John Arwel Roberts | | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Mawrth 2017 | |
| 17 | **Camau Gorfodaeth mewn perthynas â Sbwriel a Baw Ci** | | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo / Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Dewi Williams<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo /<br>Dylan Williams<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng John Arwel Roberts<br>Cyng Richard Dew | | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Mawrth 2017 | |

**  Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Mawrth – Hydref 2017

Diweddarwyd: 2 Chwefror 2017

Tudalen 223

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Ebrill 2017** | | | | | | |
| 18 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Ieuan Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>24 Ebrill 2017 | |
| 19 | **Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant**<br><br>Cymeradwyaeth. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn cyn cyflwyno'r Asesiad i Lywodraeth Cymru. | Dysgu | Delyth Molyneux<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng Kenneth P Hughes | | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Mawrth 2017 | |
| | **Mehefin 2017** | | | | | | |
| 20 | **Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2016/17**<br><br>Cymeradwyo'r adroddiad. | Deilydd Portffolio sydd â chyfrifoldeb am yr iaith. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Deilydd portffolio perthnasol | I'w gadarnhau | Penderfyniad dirpwyiedig<br><br>Mehefin 2017 | |
| | | | | | | | |
| 21 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Deilydd portffolio perthnasol | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2017 | |

**  Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Mawrth – Hydref 2017

Diweddarwyd: 2 Chwefror 2017

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 22 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch4, 2016/17 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Scott Rowley<br>Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol<br><br>Deilydd portffolio perthnasol | I'w gytuno | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2017 | |
| 23 | **Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2016/17 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Deilydd portffolio perthnasol | I'w gytuno | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2017 | |
| | | | | **Gorffennaf 2017** | | | |
| 24 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Deilydd portffolio perthnasol | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Gorffennaf 2017 | |
| | | | | **Medi 2017** | | | |
| 25 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Deilydd portffolio perthnasol | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Medi 2017 | |

*  *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Mawrth – Hydref 2017

Diweddarwyd: 2 Chwefror 2017

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 26 | **Adroddiad Perfformiad Blynyddol (Cynllun Gwella) 2016/17**<br><br>Cymeradwyaeth ac argymhelliad i'r Cyngor llawn. | Rhan o Fframwaith Polisi'r Cyngor – mae angen penderfyniad cyfunol er mwyn gwneud argymhelliad i'r Cyngor llawn. | Trawsnewid Corfforaethol | Scott Rowley<br>Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol<br><br>Deilydd portffolio perthnasol | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Medi 2017 | Medi 2017 |
| 27 | **Cynllun Corfforaethol 2017 – 2022**<br><br>Cymeradwyaeth ac argymhelliad i'r Cyngor llawn. | Rhan o Fframwaith Polisi'r Cyngor – mae angen penderfyniad cyfunol er mwyn gwneud argymhelliad i'r Cyngor llawn. | Trawsnewid Corfforaethol | Scott Rowley<br>Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol<br><br>Deilydd portffolio perthnasol | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Medi 2017 | Medi 2017 |
| 28 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch1, 2017/18 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Scott Rowley<br>Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol<br><br>Deilydd portffolio perthnasol | I'w gytuno | Pwyllgor Gwaith<br><br>Medi 2017 | |
| 29 | **Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2017/18 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Deilydd portffolio perthnasol | I'w gytuno | Pwyllgor Gwaith<br><br>Medi 2017 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

Tudalen 225

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Mawrth – Hydref 2017

Diweddarwyd: 2 Chwefror 2017

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Hydref 2017** | | | | | | |
| 30 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Deilydd portffolio perthnasol | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Hydref 2017 | |

Tudalen 226

*Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor** |
| Dyddiad: | **14 Chwefror 2017 a 28 Chwefror 2017** |
| Pwnc: | **Newid i'r Cyfansoddiad – Tymor y Cyngor / Arweinydd** |
| Aelod(au) Portffolio: | **Alwyn Rowlands** |
| Pennaeth Gwasanaeth: | **Lynn Ball** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Lynn Ball**<br>**01248 752586**<br>**lbxcs@ynysmon.gov.uk** |
| Aelodau Lleol: | **Perthnasol i bawb** |

**A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau**

**Argymhellion**

Rhoi'r awdurdod i'r Swyddog Monitro wneud y newidiadau a ganlyn i Gyfansoddiad y Cyngor a'u cyhoeddi:

1. Bydd Paragraff 2.2.2 bellach yn darllen "Cynhelir etholiad rheolaidd Cynghorwyr ar ddyddiad ac ar gyfnodau i'w penderfynu arnynt gan Weinidogion Cymru ~~y dydd Iau cyntaf ym mis Mai bob pedair blynedd yn dechrau yn 2004~~. Bydd tymor Cynghorwyr yn eu swydd yn dechrau ar y pedwerydd diwrnod ar ôl cael eu hethol a bydd yn diweddu ar y pedwerydd diwrnod ar ôl dyddiad yr etholiad rheolaidd canlynol."
2. Bydd Paragraff 2.7.3.1 bellach yn darllen "Bydd tymor yr Arweinydd yn ei swydd yn parhau am dymor y Cyngor, yn amodol ar baragraff 2.7.3.3. isod ~~Fel arfer, bydd tymor swydd yr Arweinydd am gyfnod o 4 blynedd~~."
3. Unrhyw ddiwygiadau sy'n dilyn ac sy'n berthnasol i 1 a 2 uchod gan gynnwys y rhai hynny sy'n codi o Fesur Llywodraeth Cymru neu weithredu pwerau Gweinidog Cymru dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

**Rhesymau**

Dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, mae etholiadau Cynghorau yng Nghymru yn cael eu cynnal ar hyn o bryd ar y dydd Iau cyntaf ym mis Mai, bob pedair blynedd.

Felly, dylai'r etholiad lleol nesaf, ar ôl Mai 2017, gael ei gynnal ym Mai 2021.

Fodd bynnag, y bwriad yn awr yw i'r Aelodau hynny a etholir ym mis Mai 2017 fod yn eu swyddi hyd fis Mai 2022, sy'n dymor o bum mlynedd. Bwriedir i'r tymor pum mlynedd hwn ddod yn 'norm' mewn cynghorau lleol yr un modd â'r drefn sydd bellach wedi ei sefydlu ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Disgwylir y bydd y bwriad hwn yn cael ei weithredu pan ddaw Mesur Cymru i rym neu, fel arall, drwy ddibynnu ar bwerau dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

Waeth ba fecanwaith deddfwriaethol a ddefnyddir, bydd dau ganlyniad i'r Cyngor hwn:-

1. Mae paragraff 2.2.2 y Cyfansoddiad yn cyfeirio at dymor o bedair blynedd ac mae'n adlewyrchu'r sefyllfa gyfreithiol fel y mae ar hyn o bryd. Sut bynnag, bydd unrhyw benderfyniad a wnaiff Llywodraeth Cymru fel arall yn disodli'r ddarpariaeth sydd yn cyfansoddiad.

   Dan yr amgylchiadau, nid yw'r newid a awgrymir i baragraff 2.2.2 uchod, ynddo'i hun, yn flaenoriaeth. Fodd bynnag, mae'n bosib y bydd canlyniad mwy arwyddocaol i'r hyn a ddisgrifir ym mharagraff 2 isod.

2. Dywed Paragraff 2.7.3 y Cyfansoddiad:-

   "Bydd yr Arweinydd yn Gynghorydd a etholwyd i swydd Arweinydd gan y Cyngor yn ei Gyfarfod Blynyddol cyntaf ar ôl yr etholiadau llywodraeth leol cyffredinol"

   Yna, aiff Paragraff 2.7.3.1 yn ei flaen i ddweud: "fel arfer, bydd tymor swydd yr Arweinydd am gyfnod o bedair blynedd".

   Mater lleol i'r Cyngor hwn yw penderfynu ar hyd tymor swydd yr Arweinydd. Cyfeirir yr Aelodau at Adroddiad y Comisiynwyr a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 10 Mai 2012. Ym mharagraffau 9 a 10 yr adroddiad hwnnw, disgrifir rhesymau'r Comisiynwyr dros awgrymu i'r Cyngor y dylai tymor swydd yr Arweinydd adlewyrchu tymor y Cyngor yn hytrach na dilyn y trefniant blaenorol ble yr oedd arweinydd yn cael ei ethol bob dwy flynedd.

   Mae'n amlwg, pan fydd Arweinydd yn cael ei benodi gan y Cyngor hwn ym mis Mai 2017, oherwydd geiriad cyfredol y Cyfansoddiad, na fyddai ymestyn tymor y Cyngor (yn dilyn penderfyniad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru) yn cael effaith ar hyd tymor swydd yr Arweinydd ac o'r herwydd, byddai'r Cyngor yn wynebu etholiad arall ar gyfer yr arweinyddiaeth ym mis Mai 2021; blwyddyn cyn yr etholiad llywodraeth leol nesaf.

   Er mai penderfyniad gwleidyddol lleol yw hwn, efallai na fydd aelodau'n dymuno wynebu'r ansicrwydd o etholiad ar gyfer yr arweinyddiaeth yn ystod blwyddyn olaf tymor nesaf y Cyngor.

   O'r herwydd, mae'n briodol dwyn hyn at sylw'r aelodau cyn Mai 2017 fel y gall y Cyngor

| |
|---|
| benderfynu a yw'n dymuno rhoi sylw i'r mater hwn rŵan ai peidio. |
| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
| Peidio â chymryd unrhyw gamau pellach hyd oni fydd Llywodraeth Cymru wedi gweithredu ei benderfyniad yn ffurfiol.<br><br>Ni fyddai hyn ag unrhyw oblygiadau ymarferol i'r Cyngor o ran y newidiadau i baragraff 2.2.2, oherwydd byddai penderfyniad Cynulliad Cymru yn disodli'r Cyfansoddiad.<br><br>Fodd bynnag, byddai peidio â gwneud newidiadau i baragraff 2.7.3.1 â goblygiadau i'r Cyngor oherwydd mater o ddewis lleol yw hwn ac efallai y byddai'n well gan yr Aelodau gael y sefydlogrwydd o benderfynu ar y mater yn awr cyn ethol Arweinydd newydd ym Mai 2017. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Nid yw'n benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith. Penderfyniad i'r Cyngor ydyw ond oherwydd y gall olygu newidiadau i'r Cyfansoddiad, gwahoddir y Pwyllgor Gwaith i fynegi barn; petai'n dymuno gwneud hynny cyn i'r mater fynd gerbron y Cyngor. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Efallai y bydd y mater hwn yn arwain at newid y Cyfansoddiad ac mae'r hawl honno wedi ei neilltuo i'r Cyngor. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Dim yn berthnasol. |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Disgwyl ymateb |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Disgwyl ymateb |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Awdur yr Adroddiad |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Amherthnasol |

| | | |
|---|---|---|
| **5** | **Eiddo** | Amherthnasol |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | Amherthnasol |
| **7** | **Caffael** | Amherthnasol |
| **8** | **Sgriwtini** | Amherthnasol |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Arweinyddion Grwpiau 26/1/2017 |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Dim |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| 1. Adroddiad i'r Bwrdd Comisiynwyr ar 30 Ebrill 2012 ac i'r Cyngor Sir ar 10 Mai 2012<br>2. Cofnodion y Cyngor Sir dyddiedig 10 Mai 2012<br>3. Erthygl 7 – 2.7 y Cyfansoddiad |

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **14/02/17** |
| **Pwnc:** | **Asesiad Anghenion Poblogaeth** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cynghorydd Aled Morris Jones** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Alwyn Jones, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Llyr Bryn Roberts, Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Plant** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Margaret Peters, Rheolwraig Integreiddio ag Ymgysylltu**<br>**01248 751 812**<br>**MargaretPeters@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yr holl Aelodau** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Bod y Pwyllgor Gwaith yn argymell i'r Cyngor Llawn:

(a) Bod yr adroddiad llawn yn cael ei gymeradwyo;
(b) Diwygio Adran 3.2 y Cyfansoddiad i gynnwys cymeradwyo Asesiad Anghenion Poblogaeth dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014) fel swyddogaeth y mae'n rhaid i'r Cyngor Llawn ei chyflawni.
(c) Rhoi'r awdurdod i Bennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro'r Cyngor wneud y newidiadau angenrheidiol i'r materion sydd wedi eu neilltuo fel swyddogaethau y mae'n rhaid i'r cyngor llawn eu cymeradwyo yn y Cyfansoddiad ynghyd ag unrhyw newidiadau y mae'n rhaid eu gwneud o ganlyniad i adlewyrchu hynny.

Bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo i'r adran ddechrau gweithio ar y cynlluniau ardal drwy'r bwrdd partneriaeth rhanbarthol.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Yn unol a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014) mae angen i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd asesu ar y cyd anghenion gofal y boblogaeth ar hyn o bryd ac ar gyfer y dyfodol, anghenion gofalwyr a'r

| |
|---|
| gwasanaethau sydd eu hangen er mwyn bodloni’r gofynion hynny. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae’n rhaid cynhyrchu un adroddiad ar gyfer Rhanbarth Gogledd Cymru ac mae’n rhaid ei gymeradwyo gan Fwrdd y Bwrdd Iechyd Lleol ac yn achos yr awdurdod lleol, bydd angen i’r Cyngor Llawn ei gymeradwyo wedi iddo gael ei gyflwyno gan y Pwyllgor Gwaith. Dylid ei gyhoeddi ar 1 Ebrill 2017, yn Gymraeg a Saesneg, ar wefan pob awdurdod lleol a bwrdd iechyd a dylid anfon copi at Weinidogion Cymru. |

| **CH – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014) mae angen i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd asesu ar y cyd anghenion gofal y boblogaeth ar hyn o bryd ac ar gyfer y dyfodol, anghenion gofalwyr a’r gwasanaethau sydd eu hangen er mwyn bodloni’r gofynion hynny.<br><br>Mae’n rhaid cynhyrchu un adroddiad ar gyfer Rhanbarth Gogledd Cymru ac mae’n rhaid ei gymeradwyo gan Fwrdd y Bwrdd Iechyd Lleol ac yn achos pob Awdurdod Lleol, bydd angen i’r Cyngor Llawn ei gymeradwyo wedi iddo gael ei gyflwyno gan y Pwyllgor Gwaith ym mhob Awdurdod Lleol. Dylid ei gyhoeddi ar 1 Ebrill 2017, yn Gymraeg a Saesneg, ar wefan pob awdurdod lleol a bwrdd iechyd a dylid anfon copi at Weinidogion Cymru. |

| **D – A yw’r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ddim yn berthnasol |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Cymeradwyaeth wedi ei dderbyn gan yr UDA ar 28/11/16 |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Cymeradwyaeth wedi ei dderbyn gan yr UDA ar 28/11/16 |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Cymeradwyaeth wedi ei dderbyn gan yr UDA ar 28/11/16 |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Ddim yn berthnasol |
| **5** | **Eiddo** | Ddim yn berthnasol |

| | | |
|---|---|---|
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | Ddim yn berthnasol |
| **7** | **Sgriwtini** | Yn ei gyfarfod ar 24 Ionawr, 2017 penderfynodd y cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio argymell i'r Pwyllgor Gwaith fel a ganlyn: -<br><br>• Bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r adroddiad llawn ac yn ei gyflwyno wedyn i'r Cyngor Sir i'w gadarnhau;<br>• Bod yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn dechrau gweithio ar y Cynllun Ardal drwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol;<br>• Ei fod yn nodi pryderon y Pwyllgor mewn perthynas â lefel y cyllid sydd ar gael ar gyfer gweithredu'r Cynllun Ardal (a fydd yn dilyn ymlaen o Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru) ac na ddylai unrhyw gostau ychwanegol ddisgyn ar grwpiau yr effeithir arnynt.<br><br>Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn cyflwyno dyfyniad o'r cofnodion drafft i'r Pwyllgor Gwaith ar 14 Chwefror, 2017. (Bydd copi o'r cofnodion drafft ar gael i'r Pwyllgor Gwaith ar neu cyn 14 Chwefror 2017). |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Ddim yn berthnasol |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | Mae Asesiad Effaith Cydraddoldeb llawn wedi ei gwblhau yn rhanbarthol. |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| |

| |
|---|
| |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Atodiad 1 Cefndir a disgrifiad byr o'r Asesiad Anghenion Poblogaeth<br>Atodiad 2 Crynodeb o'r Asesiad Anghenion Poblogaeth<br>Atodiad 3 Adroddiad llawn Asesiad Anghenion Poblogaeth |

# Asesiad Anghenion Poblogaeth

## Cefndir

Mae'r Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru yn nodi anghenion gofal y boblogaeth ar hyn o bryd ac ar gyfer y dyfodol, anghenion gofalwyr a'r gwasanaethau sydd eu hangen er mwyn bodloni'r gofynion hynny. Mae'n brosiect ar y cyd rhwng y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betswi Cadwaladr (BIPBC) ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae'n rhaid cynhyrchu un adroddiad ar gyfer Rhanbarth Gogledd Cymru ac mae'n rhaid ei gymeradwyo gan Fwrdd y Bwrdd Iechyd Lleol a Chyngor llawn pob Awdurdod Lleol. Dylid ei gyhoeddi ar 1 Ebrill 2017, yn Gymraeg a Saesneg, ar wefan pob awdurdod lleol a bwrdd iechyd a dylid anfon copi at Weinidogion Cymru.

Yn unol ag Adran 14 **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru (2014)** mae angen i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd asesu ar y cyd:

a) I ba raddau y mae pobl mewn ardal awdurdod lleol sydd angen gofal a chymorth.
b) I ba raddau y mae gofalwyr yn ardal yr awdurdod lleol sydd angen cefnogaeth.
c) I ba raddau mae pobl o fewn ardal yr awdurdod lleol nad yw eu hanghenion gofal a chefnogaeth yn cael eu bodloni.
d) Yr amrywiaeth a'r lefel o wasanaethau sydd eu hangen er mwyn bodloni anghenion gofal a chefnogaeth y bobl yn ardal yr awdurdod lleol.
e) Yr amrywiaeth a'r lefel o wasanaethau sydd eu hangen er mwyn cyflawni'r dibenion yn Adran 15(2) (gwasanaethau ataliol) yn ardal yr awdurdod lleol.
f) Y gweithrediadau sydd eu hangen er mwyn darparu'r amrywiaeth a'r lefel o wasanaethau a gaiff eu hadnabod yn unol â pharagraffau (d) ac (e) drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol gynhyrchu un Asesiad Anghenion Poblogaeth fesul cylch etholiadol llywodraeth leol.Y cyfarwyddyd ydi bod angen adolygu'r asesiad ar ol dwy flynedd, a mae'r 'toolkit' asesiad poblogaeth yn nodi fod angen ei adolygu yn fwy rheolaidd.

## Cwmpas a strwythur yr adroddiad

Arweinir yr adroddiad asesiad poblogaeth gan ymgysylltiad, bydd yn defnyddio'r adborth gan staff, sefydliadau partner, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd er mwyn adnabod anghenion gofal a chefnogaeth. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys mewn strategaethau comisiynu ac asesiadau anghenion presennol. Mae tystiolaeth wedi'i chasglu drwy ddadansoddi data, adolygu gwybodaeth gefndirol, adolygiadau gwasanaeth a gwaith ymgysylltu ychwanegol.

Rhennir yr adroddiad yn **benodau** yn seiliedig ar y thema canlynol fel y nodir yn yr arweiniad gan Lywodraeth Cymru.

| | |
|---|---|
| **Plant a phobl ifanc** | **Pobl hŷn** |
| **Iechyd, anableddau corfforol a nam ar y synhwyrau** | **Trais yn erbyn merched, trais domestig a thrais rhywiol** |
| **Iechyd Meddwl** | **Gofalwyr** |
| **Anableddau Dysgu ac Awtistiaeth** | **Yr Ystad Ddiogel** |
| **Cyn-filwyr** | **Digartrefedd** |
| *Am wybodaeth ar gamddefnyddio sylweddau, gweler Asesiad Anghenion Camddefnyddio Sylweddau'r Bwrdd Cynllunio Ardal.* | |
| **Mae pob pennod yn cynnwys gwybodaeth am:**<br>• Faint o bobl yr ydym yn siarad amdanynt, eu profiadau a sut mae hyn yn cymharu ag ardaloedd eraill.<br>• Sut mae pethau'n debygol o newid yn y dyfodol.<br>• Beth mae pobl yn ddweud wrthym am eu hanghenion gofal a/neu gefnogaeth.<br>• Yr angen am ddarpariaeth iaith Gymraeg er mwyn cefnogi'r boblogaeth a bodloni egwyddorion *Mwy na geiriau.* | |

Mae'r adroddiad hefyd yn bwriadu cefnogi **integreiddiad gwasanaethau**. Blaenoriaethau presennol Llywodraeth Cymru ar gyfer integreiddio yw:

- Pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau tymor hir, yn cynnwys dementia.
- Pobl ag anableddau dysgu.
- Gofalwyr, yn cynnwys gofalwyr ifanc.
- Gwasanaethau Cefnogi Teuluoedd Integredig.
- Plant ag anghenion cymhleth oherwydd anabledd neu salwch.

Mae'r angen i gynhyrchu adroddiad hygyrch, rhanbarthol o fewn amserlen gyfyngedig yn cyfyngu'r hyn y gellir ei gynnwys. Nid yw'r adroddiad yn disgrifio gwasanaethau presennol a'r galw presennol mewn unrhyw fanylder, er ei fod yn nodi'n fras pa wasanaethau a ddarperir ym mhob thema. Nid yw'n nodi faint a ddarperir na'n ceisio mapio'r holl ddarpariaeth a gynigir gan yr Awdurdod Lleol na'r trydydd sector. Does dim dadansoddiad manwl o ddangosyddion perfformiad y tu allan i'r hyn a oedd wedi'i gynnwys yn y catalog data cenedlaethol, na dadansoddiad o gyllidebau neu'r gwir wariant ar wasanaethau.  Mae'r mathau hyn o ddata yn dyddio cyn gynted ag y byddant yn cael eu cyhoeddi ac maent ar gael mewn mannau eraill. Fodd bynnag, ble'n bosibl ac yn briodol, defnyddir peth o'r data hwn i hysbysu'r canfyddiadau cyffredinol.

Bydd yr adroddiad yn darparu sylfaen o dystiolaeth ar gyfer gwasanaethau a strategaethau ac yn tanategu integreiddiad gwasanaethau a threfniadau cefnogi partneriaeth yn y dyfodol. Fe ddylai fod yn arf defnyddiol ar gyfer cynllunwyr a chomisiynwyr o fewn awdurdodau lleol a'r sector iechyd. Golyga hyn fod yn rhaid i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gynhyrchu **Cynllun Ardal**. Diben y cynllun ardal yw darparu disgrifiad o'r amrywiaeth a'r lefel o wasanaethau arfaethedig i'w darparu, neu eu trefnu, er mwyn ymateb i'r anghenion gofal a chymorth a gofynion cymorth gofalwyr fel y nodir yn yr adroddiad asesiad poblogaeth ar y cyd. Fodd bynnag, mae'n debyg y bydd dal angen am strategaethau comisiynu a datganiadau sefyllfa'r farchnad er mwyn gosod y weledigaeth leol a'r cynllun ar gyfer gwasanaethau mewn ardal a'r cymorth sydd ar gael i ddarparwyr.

Mae'r **arweiniad drafft ar y cynllun ardal** yn nodi bod yn rhaid i ni gynnwys y gwasanaethau penodol a gynllunnir mewn ymateb i bob thema graidd a nodir yn yr asesiad poblogaeth gan gynnwys:

- y camau y bydd partneriaid yn eu cymryd mewn perthynas â'r meysydd blaenoriaeth o integreiddio ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol;
- yr achosion a'r manylion o gronfeydd a gyfunir i gael eu sefydlu mewn ymateb i'r asesiad poblogaeth;
- sut bydd gwasanaethau'n cael eu caffael neu sut y trefnir i'w darparu, gan gynnwys drwy fodelau darpariaeth amgen;
- manylion y gwasanaethau ataliol a ddarperir neu a drefnir;
- camau sy'n cael eu cymryd mewn perthynas â'r ddarpariaeth o wasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth; a
- camau sydd angen eu cymryd er mwyn darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

***Rhaid cyhoeddi'r cynlluniau ardal gyntaf erbyn 1 Ebrill 2018.***

Bydd canlyniadau'r adroddiad hwn hefyd yn hysbysu'r asesiadau lles ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## Ymgynghoriad ac ymgysylltiad

Roedd yr asesiad poblogaeth wedi'i 'arwain drwy ymgysylltiad' ac fe wnaethom ddefnyddio'r hyn yr oedd pobl yn ei ddweud wrthym am anghenion gofal a chefnogaeth er mwyn llunio ein cwestiynau ymchwil. Yna, fe wnaethom gasglu data gan nifer o wahanol ffynonellau er mwyn ateb y cwestiynau a herio canlyniadau cychwynnol. Mae gan gynghorau lleol yng Ngogledd Cymru bolisi ymgysylltiad dinasyddion rhanbarthol (Cyngor Ynys Môn et al., 2016). Mae hyn yn seiliedig ar yr egwyddorion cenedlaethol ar gyfer ymgysylltiad cyhoeddus yng Nghymru ac egwyddorion cyd-gynhyrchu a hysbysodd ein cynllun ymgynghori.

Cynlluniwyd yr ymgysylltiad asesiad poblogaeth gan grŵp o staff o bob cyngor lleol, y bwrdd iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Fe wnaethant ddechrau drwy restru'r gwahanol grwpiau o bobl a allai gael eu heffeithio arnynt gan yr asesiad poblogaeth a chynllunio sut y byddent yn eu cynnwys. Adolygwyd y rhestr hanner ffordd drwy'r prosiect gyda chyfleoedd ychwanegol i gyfrannu er mwyn llenwi'r bylchau. Mae mwy o wybodaeth ar gael drwy'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb Rhanbarthol.

**Roedd y cynllun ymgysylltu yn cynnwys:**

Holiadur ar gyfer sefydliadau a oedd yn gofyn am eu safbwyntiau ac unrhyw dystiolaeth gefnogol oedd ganddynt megis mesurau perfformiad neu adroddiadau ymgynghori.

- Grwpiau trafod gyda defnyddwyr gwasanaeth a gefnogwyd gan arweiniad hwylusydd. Dosbarthodd rhai siroedd holiaduron i bobl eu llenwi eu hunain hefyd.
- Holiadur i'r cyhoedd ar gael ar wefan y Panel Dinasyddion ynghyd â chyfweliadau gydag aelodau'r Panel Dinasyddion.
- Gweithdai gyda staff a chynghorwyr a drefnwyd gan bob cyngor lleol.
- Adolygiad o ymchwil ac ymgynghori perthnasol gan gynnwys deddfwriaeth, strategaethau, cynlluniau comisiynu, asesiadau anghenion ac adroddiadau ymgynghori.

**Asesiad poblogaeth mewn ffigyrau**

- Fe wnaethom adolygu dros 100 o bolisïau, strategaethau a chynlluniau gan y chwe chyngor lleol a'r bwrdd iechyd.
- Cawsom 128 o ymatebion gan sefydliadau i'n harolwg am angen pobl am ofal a chefnogaeth.
- Fe wnaethom ddefnyddio'r canfyddiadau o dros 300 o adroddiadau ymgynghori ac ymchwil.
- Cynhaliodd ein partneriaid a ninnau dros 15 o ddigwyddiadau a chafodd tri gwahanol holiadur eu cylchredeg ac fe wnaethant gyrraedd tua 260 o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau.
- Cynhaliodd y Panel Dinasyddion gyfweliadau â 34 aelod o'r cyhoedd.
- Trefnodd y cynghorau lleol tua 20 o weithdai ar gyfer staff a chynghorwyr.

Yn **Ynys Môn** roedd gennym 3 holiadur ar gael a oedd yn trafod anghenion gofal a chefnogaeth:

1. Ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth (yn cynnwys plant a phobl ifanc)
2. Ar gyfer darparwyr gwasanaeth
3. Ar gyfer y rhai nad ydynt yn defnyddio'r gwasanaeth

*Derbyniwyd dros 230 o ymatebion. Mynychodd y Rheolwr Integreiddiad ac Ymgysylltu y digwyddiadau / cyfarfodydd canlynol er mwyn rhannu gwybodaeth ac annog mynychwyr i lenwi'r holiaduron:*

- *Fforwm Pobl Hŷn*
- *Fforwm Tai Gwarchod*
- *Cyfarfod cynllunio Gweithlu Gwasanaethau oedolion gydag arweinwyr tîm a staff*
- *Cyfarfod gyda rheolwyr Gwasanaethau Plant*
- *Cyfarfod Rhwydwaith Trydydd Sector*
- *2 sesiwn galw heibio yng Nghanolfan Ebeneser*

**Mae'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod yr ymarfer ymgysylltu hwn wedi'i chrynhoi ar gyfer anghenion gofal a chefnogaeth pobl Ynys Môn a bydd yn hysbysu cynlluniau comisiynu lleol / datganiadau sefyllfa'r farchnad yn y dyfodol.**

CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES** SOCIAL CARE AND WELL-BEING SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

# Asesiad o Boblogaeth Gogledd Cymru

# Adroddiad Cryno

## Drafft 0.2

## 24 Tachwedd 2016

Drafft

**Nodiadau ar adroddiad yr asesiad poblogaeth**

Dyma'r adroddiad drafft terfynol, a luniwyd i'w drafod a'i gymeradwyo gan y chwe chyngor yng Ngogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar 1 Ebrill 2017, a hynny ar wefan pob cyngor a gwefan y Bwrdd Iechyd. Cyn ei gyhoeddi, bydd newidiadau'n cael eu gwneud, a bydd yr wybodaeth ganlynol yn cael ei hychwanegu.

- Gwybodaeth am sut i wneud cais am gopi o'r ddogfen mewn fformatau eraill.
- Fersiwn i blant a phobl ifanc, ynghyd â fersiwn hawdd ei deall o'r adroddiad.
- Bydd cyfeiriad gwefan ar gyfer lawrlwytho'r ddogfen yn cael ei ychwanegu, ynghyd â hyperddolenni rhwng y penodau, er mwyn hwyluso'r llywio.
- Gwybodaeth am sut i gyrchu'r adroddiad Cymraeg o'r fersiwn Saesneg, ac i'r gwrthwyneb.
- Atodiadau ychwanegol, gan gynnwys adroddiadau sy'n deillio o'r ymgynghoriad a'r gwaith ymgysylltu. Mae negeseuon allweddol eisoes wedi'u cynnwys ym mhob pennod, ac mae'r cyflwyniad yn rhoi crynodeb o'r dulliau a ddefnyddiwyd.

Trwy gydol yr adroddiad hwn, mae adrannau wedi'u huwcholeuo'n las, lle bydd angen i ddolenni i'r atodiadau gael eu hychwanegu cyn iddo gael ei gyhoeddi.

Draft

Draft

# 1 Cyflwyniad

## Ynglŷn â'r adroddiad

Mae'r adroddiad hwn yn asesu anghenion gofal a chymorth y boblogaeth yng Ngogledd Cymru, gan gynnwys anghenion cymorth gofalwyr. Fe'i lluniwyd gan y chwe chyngor yng Ngogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), gyda chefnogaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru, er mwyn bodloni gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf).

Nod yr adroddiad yw gwella ein dealltwriaeth o'n poblogaeth, ynghyd â sut y gallai newid dros y blynyddoedd sydd i ddod, er mwyn ein helpu i ddarparu gwell gwasanaethau cyhoeddus yng Ngogledd Cymru. Er mwyn paratoi'r adroddiad, aethom ati i edrych ar ystadegau, i siarad â chymunedau, ac i ddefnyddio amrywiaeth eang o wybodaeth a oedd wedi'i chasglu gan gynghorau lleol, gwasanaethau iechyd, elusennau, a sefydliadau eraill sy'n darparu gwasanaethau.

Bydd yr adroddiad yn cael ei ddefnyddio i lywio'r cynllun ardal, y mae'n rhaid iddo gael ei baratoi ar y cyd rhwng y bwrdd iechyd â'r cynghorau lleol, a hynny dan oruchwyliaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Yn ôl y canllawiau drafft ar y cynllun ardal, mae'n rhaid i ni gynnwys y gwasanaethau penodol sydd wedi'u cynllunio mewn ymateb i bob thema graidd sydd wedi'i nodi yn yr asesiad poblogaeth. Rhaid i gynllun ardal cyntaf Gogledd Cymru gael ei gyhoeddi erbyn 1 Ebrill 2018 (Llywodraeth Cymru, 2016d).

## Dulliau ymchwil

Roedd yr asesiad poblogaeth yn seiliedig ar 'ymgysylltu'. Mae hyn yn golygu ein bod wedi defnyddio'r hyn yr oedd pobl yn ei ddweud wrthym am anghenion gofal a chymorth, i lunio ein cwestiynau ymchwil. Yna, aethom ati i gasglu data o nifer o ffynonellau gwahanol, er mwyn ateb y cwestiynau a herio ein canfyddiadau cychwynnol.

**Asesiad poblogaeth mewn ffigurau**

- Aethom ati i adolygu dros 100 o bolisïau, strategaethau a chynlluniau presennol ar draws y chwe chyngor lleol a'r bwrdd iechyd.
- Cawsom 133 o ymatebion gan sefydliadau i'n harolwg ynghylch angen pobl am ofal a chymorth.
- Aethom ati i ddefnyddio canfyddiadau dros 300 o ymgyngoriadau ac adroddiadau ymchwil.
- Ar y cyd â'n partneriaid, bu i ni gynnal 16 o ddigwyddiadau a dosbarthu tri holiadur, a gyrhaeddodd dros 260 o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau.
- Cynhaliodd y Panel Dinasyddion gyfweliadau â 34 o aelodau o'r cyhoedd.

- Trefnodd cynghorau lleol tua 20 o weithdai ar gyfer staff a chynghorwyr.

## Ymgynghori ac ymgysylltu

**Dulliau ymgynghori ac ymgysylltu**

Mae gan gynghorau lleol yng Ngogledd Cymru bolisi rhanbarthol ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion (Cyngor Sir Ynys Môn *et al.*, 2016). Mae'r polisi hwn yn seiliedig ar yr egwyddorion cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghymru, ynghyd ag egwyddorion cydgynhyrchu, a lywiodd ein cynllun ymgynghori. Cynlluniwyd proses ymgysylltu'r asesiad poblogaeth gan grŵp o staff o bob cyngor lleol, y bwrdd iechyd, ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Aethant ati i restru'r gwahanol grwpiau o bobl y gallai'r asesiad poblogaeth effeithio arnynt, ac i gynllunio sut y byddent yn eu cynnwys. Adolygwyd y rhestr hon hanner ffordd trwy'r prosiect, a chynlluniwyd cyfleoedd ychwanegol i lenwi'r bylchau. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Roedd y cynllun ymgysylltu yn cynnwys:

- Holiadur ar gyfer sefydliadau, a oedd yn gofyn am eu barn ac am unrhyw dystiolaeth ategol a oedd ganddynt, er enghraifft mesurau perfformiad neu adroddiadau ymgynghori.
- Grwpiau trafod â defnyddwyr gwasanaethau, wedi'u cefnogi gan ganllaw i hwyluswyr. Roedd rhai siroedd hefyd wedi dosbarthu holiaduron hunanlenwi.
- Holiadur ar gyfer y cyhoedd (pobl nad ydynt yn defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth) ar wefan y Panel Dinasyddion, ynghyd â chyfweliadau ag aelodau'r Panel Dinasyddion. Roedd un sir hefyd wedi dosbarthu holiadur ychwanegol i bobl nad ydynt yn defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth.
- Gweithdai â staff a chynghorwyr, wedi'u trefnu gan bob cyngor lleol.
- Adolygiad o waith ymchwil ac ymgynghori perthnasol, gan gynnwys ynghylch deddfwriaeth, strategaethau, cynlluniau comisiynu, asesiadau anghenion, ac adroddiadau ymgynghori.

Rhoddwyd cyhoeddusrwydd eang i'r ymgynghoriad, a hynny trwy'r cynghorau gwirfoddol sirol yng Ngogledd Cymru ac amrywiol rwydweithiau rhanbarthol eraill. Hyrwyddodd y cynghorau lleol a'r bwrdd iechyd yr ymgynghoriad trwy eu gwefannau, ynghyd â'u tudalennau Facebook a Twitter. Anfonwyd datganiadau i'r wasg at bapur newydd y Leader, Wrexham.com, y Daily Post, BBC Cymru, yn ogystal â gorsafoedd radio Capital a Heart. Cysylltwyd â grwpiau penodol, gan gynnwys pobl â nodweddion wedi'u diogelu, trwy grwpiau a rhwydweithiau a oedd yn bodoli eisoes (gweler yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb). Lluniwyd cylchlythyr chwarterol, a oedd yn cynnwys diweddariadau am y prosiect ar gyfer staff a sefydliadau partner, ac a fu hefyd yn fodd i nodi grwpiau i gysylltu â nhw am y gwaith ymgynghori ac ymgysylltu. Mae yna bobl o hyd nad oeddem wedi llwyddo i



Draft

gysylltu â nhw o fewn yr amserlen, a'r rheiny fydd yn cael blaenoriaeth yng ngham nesaf y prosiect.

Ochr yn ochr â'r asesiad poblogaeth hwn, roedd gwaith yn mynd rhagddo i gynhyrchu asesiadau llesiant ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae yna bedwar Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngogledd Cymru a oedd yn paratoi ar gyfer hyn. Lle bo modd, roedd unrhyw waith ymgysylltu yn cael ei gynllunio i ddiwallu anghenion y ddau asesiad. Mewn rhai ardaloedd, roedd hyn yn golygu anfon holiaduron ar y cyd, tra bo gweithdai a grwpiau trafod ar y cyd yn cael eu cynnal mewn ardaloedd eraill.

## Gwasanaethau ataliol

Yn 2015, cynhaliwyd prosiect yng Ngogledd Cymru i edrych ar wasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar, yn barod ar gyfer y Ddeddf, a hynny gyda chefnogaeth Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gogledd Cymru (NWSCWIC). Y nod oedd datblygu fframwaith o ymyraethau targededig; cyfrannu at yr asesiad poblogaeth; darparu llinell sylfaen ar gyfer gwaith comisiynu a chaffael integredig; a chefnogi trothwyon cymhwystra cyson. Aeth y grŵp ati i asesu tystiolaeth ac asesiadau anghenion lleol, er mwyn nodi'r prif achosion neu'r ffactorau sbarduno sy'n gwneud i bobl gysylltu â gwasanaethau ac sydd, mewn llawer o achosion, yn arwain at bobl yn cael gwasanaethau gofal a chymorth a reolir. Roeddent hefyd wedi edrych ar ymyraethau a allai fynd i'r afael â ffactorau sbarduno, ac wedi'u cysylltu â chanlyniadau llesiant y Ddeddf. Yna, aeth y grŵp ati i ddatblygu offeryn asesu risg, er mwyn ystyried y risgiau o ran hygyrchedd, cyllid a threfniadaeth a oedd yn gysylltiedig ag argaeledd pob ymyrraeth ym mhob sir. Defnyddiwyd yr wybodaeth hon i greu blaenoriaethau ar gyfer gwaith yn y dyfodol.

Hefyd, yn rhan o'r asesiad poblogaeth, aeth Gwasanaeth Tystiolaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru ati i chwilio trwy lenyddiaeth, er mwyn nodi'r sail dystiolaeth ar gyfer yr ymyraethau a ddisgrifiwyd.

Mae'r gwaith hwn yn llywio rhan o asesiad poblogaeth cyffredinol Gogledd Cymru, ac mae ar gael yma: sail dystiolaeth.

### Eiriolaeth

‘Ystyr eiriolaeth yw cymryd camau i helpu pobl i ddweud beth y mae arnynt ei eisiau, i sicrhau eu hawliau, i gynrychioli eu buddiannau, ac i gael y gwasanaethau y mae eu hangen arnynt.

Mae eiriolwyr a chynlluniau eiriolaeth yn gweithio mewn partneriaeth â'r bobl y maent yn eu cefnogi, ac yn ochri â nhw. Mae eiriolaeth yn hybu cynhwysiant cymdeithasol, cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol (Action for Advocacy, 2002)’

Mae Eiriolaeth yn rhan o'r portffolio o wasanaethau ataliol sydd ar gael, a chafodd ei gynnwys yn yr ymarfer asesu risg ar gyfer gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar. Hefyd, comisiynodd NWSCWIC waith ymchwil i lais a rheolaeth y dinesydd yng

Ngogledd Cymru (Wavehill, 2016). Mae'r ymchwil hon yn cynnwys crynodeb o'r gwasanaethau eirioli annibynnol ledled Gogledd Cymru ar gyfer plant, pobl ifanc, ac oedolion, ac mae'n rhan o'r asesiad poblogaeth.

Yng ngham nesaf y prosiect, sef paratoi cynlluniau a strategaethau mewn ymateb i'r asesiad poblogaeth, mae angen i ni edrych ar drefniadau comisiynu'r cynghorau a'r bwrdd iechyd lleol ar gyfer gwasanaethau eirioli, er mwyn cydnabod unrhyw orgyffwrdd posibl yn y trefniadau, ac ymateb iddo. Bydd hyn yn cynnwys gweithio'n agos gyda Rhaglen Golden Thread Age Cymru, a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r rhaglen hon yn anelu at wella llesiant unigolion trwy eiriolaeth, ac at roi llais cryfach iddynt; gwella'r ddealltwriaeth o eiriolaeth; a gweithio gyda chynghorau lleol a darparwyr gwasanaethau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a chomisiynu gwasanaethau.

# Llywodraethu

## Llywodraethu prosiectau

Sefydlodd Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gogledd Cymru grŵp llywio rhanbarthol i arwain gwaith yr asesiad poblogaeth, gyda grwpiau technegol, ymgysylltu, a thema yn arwain ar dasgau penodol. Cadeiriwyd y grŵp llywio gan Jenny Williams, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, ac Andrew Jones, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC). Roedd pob grŵp yn cynnwys aelodau o bob cyngor lleol yng Ngogledd Cymru, ynghyd ag aelodau o BIPBC, ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cafodd adroddiad interim ar gynllun y prosiect ei gynhyrchu ym mis Gorffennaf, ynghyd ag adroddiadau amlygu, a gafodd eu rhannu â byrddau rhanbarthol trwy Partnership Friday, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a chynghorau lleol. Cafodd cylchlythyrau prosiect eu cynhyrchu bob chwarter (ym misoedd Mawrth, Mehefin a Medi 2016), a'u dosbarthu'n eang trwy gynrychiolwyr o'r bwrdd iechyd a phob cyngor.

# Trosolwg ar boblogaeth Gogledd Cymru

Mae gan Ogledd Cymru boblogaeth breswyl o oddeutu 690,000 o bobl, a hynny dros ardal o oddeutu 2,500 milltir sgwâr. Gwynedd, yn y gorllewin, yw'r ardal sydd â'r dwysedd poblogaeth isaf, gyda 49 o bobl fesul cilometr sgwâr, a Sir y Fflint, yn y dwyrain, yw'r ardal sydd â'r dwysedd poblogaeth uchaf, gyda 350 o bobl fesul cilometr sgwâr.

Disgwylir i boblogaeth Gogledd Cymru gynyddu i 720,000 erbyn 2039. Gellir priodoli poblogaeth gynyddol Gogledd Cymru i gyfradd genedigaethau sy'n cynyddu a chyfradd marwolaethau sy'n gostwng, sydd wedi arwain at ddisgwyliad oes estynedig (Llywodraeth Cymru, 2016a).

Draft

Disgwylir i boblogaeth y rhan fwyaf o gynghorau lleol yng Nghymru gynyddu rhwng 2014 a 2039. Disgwylir mai Wrecsam fydd yn gweld y cynnydd ail fwyaf yng Nghymru (10%); disgwylir i boblogaethau Gwynedd a Wrecsam gynyddu'n raddol; disgwylir i boblogaeth Ynys Môn ostwng yn raddol; a disgwylir i boblogaethau Conwy, Sir Ddinbych a Sir y Fflint gynyddu, cyn gostwng, ond gan barhau'n uwch yn 2039 nag yr oeddent yn 2014.

### Y Gymraeg

Yng Ngogledd Cymru, Gwynedd sydd â'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg, sef 65%, er y gall y gyfran hon fod yn uwch mewn rhai ardaloedd o'r sir. Mewn rhannau eraill o Ogledd Cymru, mae 57% o breswylwyr Ynys Môn yn siarad Cymraeg, 27% yng Nghonwy, a 25% yn Sir Ddinbych. Mae cyfran y siaradwyr Cymraeg yn Sir y Fflint (13.2%) a Sir Ddinbych (12.9%) yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Mae'r holl ardaloedd cynghorau lleol yng Ngogledd Cymru wedi gweld gostyngiad yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg rhwng Cyfrifiad 2001 a 2011, gyda'r gostyngiad mwyaf yng Ngwynedd (-3.6%). Mae ychydig dros hanner (53%) y siaradwyr Cymraeg yng Ngogledd Cymru yn rhugl yn yr iaith, ac mae 63% yn siarad Cymraeg yn ddyddiol; yng Ngwynedd, mae 78% o'r preswylwyr sy'n siarad Cymraeg yn rhugl, ac mae 85% yn siarad Cymraeg bob dydd.

### Tlodi ac amddifadedd

Yng Ngogledd Cymru, mae 12% o'r boblogaeth yn byw yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, o gymharu ag 19% ledled Cymru; fodd bynnag, mae hyn yn celu'r pocedi sylweddol o amddifadedd ar draws y rhanbarth, y mae rhai ohonynt ymhlith y lefelau uchaf o amddifadedd yng Nghymru. Gorllewin y Rhyl 2 (Sir Ddinbych) a Queensway 1 (Wrecsam) yw'r ail a'r drydedd ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru, yn y drefn honno. Mae tair ardal arall yn y Rhyl (Gorllewin y Rhyl 1, Gorllewin y Rhyl 3, a De y Rhyl), o blith yr 20 ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2014).

## Cyfyngiadau, gwersi a ddysgwyd, a'r camau nesaf

Mae paratoi un asesiad poblogaeth hygyrch ar draws chwe sir ac un bwrdd iechyd o fewn yr amserlenni a osodwyd, wedi bod yn broses heriol. Mae llawer iawn wedi cael ei gyflawni o fewn yr amserlenni, a hynny'n ddiolch i ymdrechion: tîm y prosiect; grŵp llywio'r prosiect, y grŵp technegol, a'r grŵp ymgysylltu; sefydliadau partner a gyfrannodd wybodaeth a chanllawiau; aelodau o staff, aelodau etholedig, defnyddwyr gwasanaethau ac aelodau o'r cyhoedd, a gymerodd ran yn y gwaith ymgysylltu; y grwpiau a ysgrifennodd y penodau; a'r llu o bobl a fu wrthi'n adolygu ac yn gwneud sylwadau ar ddrafftiau cynnar o bob pennod.

Serch hynny, rydym wedi dysgu llawer o'r broses, ac mae llawer o waith i'w wneud o hyd. Dylai'r asesiad poblogaeth gael ei ystyried yn ddechrau proses, yn hytrach nag



Draft

yn gynnyrch gorffenedig. Lle y mae cyfyngiadau wedi'u nodi yn yr adroddiad, gellir mynd i'r afael â'r rhain mewn gwaith ar y cynllun ardal, ac yn yr adolygiad o'r asesiad poblogaeth. Mae'r canllawiau'n nodi bod angen i'r asesiad gael ei adolygu ymhen dwy flynedd, o leiaf, tra bo'r pecyn cymorth yn argymell y dylai gael ei adolygu'n amlach.

Mae rhai o'r materion a nodwyd yn ystod y broses, y mae angen mynd i'r afael â nhw, wedi'u rhestru isod.

- Bydd yr adroddiad yn darparu sail dystiolaeth ar gyfer gwasanaethau a strategaethau, ac yn ategu'r gwaith o integreiddio gwasanaethau a chefnogi trefniadau partneriaeth. Dylai fod yn offeryn defnyddiol i gynllunwyr a chomisiynwyr mewn awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd. Fodd bynnag, mae angen strategaethau comisiynu a datganiadau o sefyllfa'r farchnad, er mwyn nodi'r cynllun a'r weledigaeth leol ar gyfer gwasanaethau mewn ardal, ynghyd â'r cymorth sydd ar gael ar gyfer darparwyr.
- Mae'r adroddiad yn cynnwys crynodeb o'r gwasanaethau sydd ar gael ar hyn o bryd, ond nid yw'n eu disgrifio'n fanwl nac yn ceisio mapio'r holl ddarpariaeth leol. Oherwydd cymhlethdod y dasg hon, efallai y byddai'n well blaenoriaethu meysydd ar gyfer y math hwn o adolygiad.
- Mae'r adroddiad yn cynnwys peth gwybodaeth mesur perfformiad gwasanaeth lefel uchel, ond nid yw'n cynnwys dadansoddiad manwl o ddangosyddion perfformiad y tu hwnt i'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn y catalog o ddata cenedlaethol neu'r dadansoddiad o gyllidebau neu wariant gwirioneddol gwasanaeth.
- Mae yna grwpiau nad oeddem wedi gallu eu cynnwys yn y gwaith ymgynghori ac ymgysylltu, a'r rhain a ddylai gael blaenoriaeth mewn gwaith yn y dyfodol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y cynllun ymgysylltu a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [add link].
- Mae angen i'r adroddiad gael cyhoeddusrwydd eang, er mwyn adeiladu ar y cysylltiadau a wnaed hyd yma a chyrraedd pobl nad ydynt wedi cael cyfle i fod yn rhan o gam cyntaf y prosiect.
- Cysylltu'r asesiad poblogaeth a'r asesiadau llesiant a gynhyrchwyd gan y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r asesiad poblogaeth yn cynnwys anghenion gofal a chymorth pobl, tra bo'r asesiad llesiant yn ymdrin â ffyniant, iechyd, cydnerthedd, cydraddoldeb, diwylliant bywiog, cyfrifoldeb byd-eang, a chymunedau cydlynus. Mae'r asesiadau wedi cael eu cynnal ochr yn ochr â'i gilydd, ac mae'r swyddogion sydd wedi bod yn rhan o'r ddau ohonynt wedi cydweithio ar elfennau o'r prosiectau. Serch hynny, bydd mwy o gysylltiadau yn dod i'r amlwg wrth iddynt gael eu cyhoeddi.

- Mae yna bobl sydd ag anghenion gofal a chymorth y mae eu hanghenion penodol y tu hwnt i'r themâu yr ymdrinnir â nhw ym mhenodau'r adroddiad. Mae angen gwneud rhagor o waith i nodi eu hanghenion, ynghyd â'r bobl sydd ag anghenion lluosog neu gymhleth.

Yn ogystal â'r uchod, mae materion penodol wedi'u nodi ar ddiwedd pob pennod, er mwyn gwneud gwaith pellach yn y dyfodol.

Mae gwersi hefyd wedi'u dysgu am y broses, sydd wedi'u cofnodi, a byddant yn cael eu defnyddio i lywio'r gwaith ar y cynllun ardal a'r adolygiad o'r asesiad poblogaeth.

## Rhagor o wybodaeth

Roedd llawer mwy o wybodaeth wedi cael ei chasglu i lywio'r adroddiad hwn nag y bu modd ei chynnwys. Mae gwybodaeth gefndir ychwanegol ar gael ar gais [add link to contact details on website]:

Draft

# 2 Plant a Phobl Ifanc

**Y prif ganfyddiadau**

- Mae tua 124,000 o blant 0-15 oed yng Ngogledd Cymru. Ni welwyd fawr o newid yn nifer y plant a phobl ifanc yn y pum mlynedd diwethaf, ac mae'r tuedd hwn yn debygol o barhau am y 25 mlynedd nesaf.
- Mae'r mwyafrif o blant a phobl ifanc yng Ngogledd Cymru yn iach ac yn fodlon eu byd, ond mae angen gwneud mwy i: daclo pwysau geni isel; lleihau cyfradd marwolaethau babanod; gwella cyfraddau bwydo ar y fron a chyfraddau imiwneiddio; lleihau gordewdra mewn plant, a lleihau smygu ac yfed alcohol.
- Bu gostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau i'r gwasanaethau plant, ond ni wyddys eto sut y bydd nifer yr atgyfeiriadau yn newid mewn ymateb i ehangu cymhwystra o dan y Ddeddf newydd.
- Caiff y mwyafrif o atgyfeiriadau i'r gwasanaethau plant eu gwneud gan yr heddlu, neu gan adran gwasanaethau cymdeithasol y cynghorau eu hunain, a'r prif resymau dros atgyfeirio yw camdriniaeth neu esgeulustod.
- Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, gwelwyd cynnydd o 9% yn nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant ac yn nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Ngogledd Cymru.
- Mae yna bryder cynyddol ynghylch secstio a bwlio ar-lein.
- Mae nifer mawr o blant o'r tu allan i'r rhanbarth yn derbyn gofal yng Ngogledd Cymru, a bu'r nifer hwn yn cynyddu. Mae hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau lleol megis iechyd, addysg, yr heddlu a'r gwasanaethau cefnogi.
- Mae'r galwadau ar y gwasanaeth maethu yn newid yn sgil y cynnydd mewn maethu gan berthnasau/person cysylltiedig.
- Wrecsam sydd â'r nifer mwyaf o droseddwyr ifanc, yn ogystal â'r gyfradd troseddu uchaf yn y rhanbarth. Mae pob awdurdod lleol, ac eithrio Ynys Môn, wedi gweld gostyngiad yn nifer y troseddwyr ifanc dros y tair blynedd diwethaf.
- Mae nifer y plant a phobl ifanc sy'n dioddef troseddau yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn. Gall hyn fod oherwydd nifer o resymau sy'n cynnwys: cynnydd yn y gallu/parodrwydd i riportio troseddau; cynnydd yn nifer y troseddau a gyflawnir, neu gynnydd o ran mathau penodol o droseddau, er enghraifft seiberdroseddu.
- Mae nifer y plant anabl wedi cynyddu yn ystod y pum mlynedd diwethaf.
- Roedd iechyd meddwl ac iechyd emosiynol plant yn bryder a godwyd yn gyson. Roedd hyn yn cynnwys cynnydd o ran hunan-niweidio ac anhwylderau bwyta, yn ogystal â phroblemau ymlyniad.
- Mae angen i'r holl wasanaethau cyffredinol ddefnyddio dull gweithredu integredig o ran iechyd a lles plant a'u teuluoedd er mwyn atal cynifer o broblemau â phosibl, ac er mwyn hyrwyddo gwytnwch mor gynnar â phosibl. Gall tystiolaeth

Draft

newydd am effeithiau lluosol Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod gyfeirio rhagor o ymwybyddiaeth a chefnogaeth tuag at atal y profiadau hyn a lleihau eu heffaith.

- Mae angen darparu cefnogaeth rhianta i dorri cylchoedd rhianta amhriodol a chodi hyder rhieni yn eu sgiliau i fagu eu plant mewn amgylchedd cefnogol a chadarnhaol.
- Mae'r gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth a ddarperir gan y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yn rhan bwysig o'r gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar.
- Nodwyd bod dros 1,000 o ofalwyr ifanc yng Ngogledd Cymru, a bod y nifer hwn wedi cynyddu yn y blynyddoedd diweddar. Mae yna angen cynyddol am gefnogaeth un i un ar gyfer gofalwyr ifanc, ynghyd â chefnogaeth i ofalwyr ifanc dan 8 oed.

## Yr argymhellion a'r camau nesaf

Gan fod yr amserlen yn dynn, ac oherwydd yr amrywiaeth eang o anghenion a drafodwyd yn y bennod hon, dylai'r camau nesaf ganolbwyntio ar glustnodi'r wybodaeth bellach y mae ei hangen yn y meysydd â blaenoriaeth. Dylai hynny gynnwys ymgynghori ac ymgysylltu ychwanegol i gytuno ar yr argymhellion fel rhan o'r cynllun ardal. Dylai gwaith yn y dyfodol fod yn seiliedig ar CCUHP, a dylai gynnwys hawl plant i chwarae.

- Eiriolaeth: mae angen rhoi gwrandawiad i lais pob plentyn a pherson ifanc mewn prosesau gwneud penderfyniadau. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant ar y gofrestr amddiffyn plant. Cafodd rhywfaint o wybodaeth ei chynnwys yn y rhagarweiniad i'r adroddiad, ond mae angen rhagor o wybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael, a pha mor effeithiol ydynt.
- Mae rhagor o waith i'w wneud i gyflwyno'r dyletswyddau newydd o dan y Ddeddf, ac mae prosiectau rhanbarthol ar waith i gefnogi'r gwaith hwn, yn cynnwys asesiadau a gwybodaeth, cyngor a chymorth.
- Bu pryderon trwy gydol y gwaith o lunio'r bennod hon ynghylch ansawdd y gwaith cofnodi data. Mae angen safoni'r dulliau cofnodi ar gyfer data plant mewn angen (a beth bynnag fydd yn dod yn lle hynny) ynghyd â meini prawf cymhwystra a throthwyon.
- Mae angen rhagor o wybodaeth am fasnachu mewn plant a chamfanteisio'n rhywiol ar blant er mwyn llywio'r asesiad poblogaeth.
- Mae angen rhagor o wybodaeth am y cynnydd yn anghenion cymhleth plant anabl, a phontio o'r gwasanaethau plant i'r gwasanaethau oedolion.



Draft

- Darganfod mwy am y pryderon a godwyd bod plant cynyddol iau yn cael eu hatgyfeirio i CAMHS, yn ogystal ag anghenion y plant sy'n derbyn gofal ac sy'n cael eu hatgyfeirio i CAMHS.
- Gwybodaeth am ddefnyddio dulliau adferol wrth weithio â theuluoedd, yn cynnwys cysylltiadau pob dydd, cyfarfodydd â defnyddwyr gwasanaethau, cylchoedd anffurfiol, cyfryngu a chynadleddau ffurfiol ar gyfer grwpiau.
- Mae enghreifftiau da o ddarparu gwasanaethau ym mhob sir, er enghraifft y prosiect 'ymyl gofal', gwasanaethau therapiwtig mewnol, a chydweithredu â'r gwasanaethau cymdeithasol a CAMHS. Caiff gwybodaeth am y gwasanaethau hyn ei rhannu'n anffurfiol rhwng y siroedd eisoes, ond bydd angen i waith ar yr asesiad poblogaeth yn y dyfodol roi sylw pellach i'r mater hwn.

Drafft

# 3 Pobl Hŷn

## Trosolwg ar y boblogaeth

Roedd tua 150,000 o bobl 65 oed a hŷn yng Ngogledd Cymru yn 2015. Mae'r amcanestyniadau poblogaeth yn awgrymu y gallai'r ffigur hwn godi i 210,000 erbyn 2039 os bydd y gyfran o bobl 65 oed a hŷn yn parhau i gynyddu.

Rhagwelir y bydd y gyfran o bobl hŷn yn y boblogaeth yn parhau i gynyddu. Ar yr un pryd, disgwylir y bydd y gweithlu sydd ar gael, sef y gyfran o bobl 16-64 oed, yn parhau i leihau. Mae'r newid hwn yn strwythur y boblogaeth yn cynnig cyfleoedd a heriau o ran darparu gwasanaethau gofal a chymorth.

Gwelir bod y newid yn strwythur y boblogaeth yn dilyn patrwm tebyg ym mhob sir yng Ngogledd Cymru, er y disgwylir mai Conwy, Ynys Môn a Sir Ddinbych fydd y siroedd â'r gyfran fwyaf o bobl 65 oed a hŷn.

Mae ymchwil yn awgrymu y gall byw â chyflwr hirdymor fod yn ffactor cryfach nag oed o ran rhagweld anghenion am ofal a chymorth (Y Sefydliad Gofal Cyhoeddus (IPC), 2016). Gweler y bennod iechyd, anableddau corfforol a namau ar y synhwyrau i gael rhagor o wybodaeth.

## Unigrwydd ac arwahanrwydd

Lleihau unigrwydd ac arwahanrwydd yw un o'r prif heriau a nodwyd yn ein gwaith ymgynghori ac ymgysylltu. Byddai taclo'r flaenoriaeth hon yn llwyddiannus yn cynnig llawer o fuddion o ran iechyd a llesiant pobl, ac yn lleihau'r angen am ddefnyddio gwasanaethau statudol.

Mae rhagor o wybodaeth am gynlluniau i ddatblygu gwasanaethau a chymorth i fynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd ar gael yng Nghynlluniau Heneiddio'n Dda pob cyngor, sydd ar gael yma: http://www.ageingwellinwales.com/wl/localplans. Mae'n debygol y bydd y cynlluniau llesiant a lunnir gan y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi sylw i'r mater hwn hefyd.

I gael gwybodaeth am y gwasanaethau yn eich ardal, ewch i wefan Dewis Cymru https://www.dewis.cymru/

## Cymorth i fyw gartref

Mae parhau i fyw yn eu cartref eu hunain yn flaenoriaeth i lawer o bobl hŷn, ac mae'n rhan bwysig o gynnal eu hannibyniaeth. Mae'r galw am wasanaethau yn debygol o gynyddu wrth i nifer y bobl 65 oed a hŷn gynyddu. Ymddengys hefyd fod galw cynyddol am gymorth mwy cymhleth a mwy o oriau gofal bob wythnos.



Draft

Mae'r gwasanaethau presennol yn darparu cymorth o ansawdd uchel, sy'n helpu i gynnal annibyniaeth pobl, ac mae llawer o bobl yn dweud eu bod yn hapus â'r gofal a gânt. Mae'n anodd recriwtio a chadw gweithwyr gofal, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, gofalwyr gwrywaidd a siaradwyr Cymraeg. Mae angen gwella ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael, a helpu darparwyr i ddiwallu anghenion dwys ac arbenigol, ac i ddarparu gwasanaeth hyblyg.

Yr heriau sy'n wynebu comisiynwyr a darparwyr yw parhau i ddarparu cymorth hyblyg er mwyn galluogi pobl: i fod yn annibynnol; i gynnig eu hatebion eu hunain gan ddefnyddio'u hasedau personol, teulu, ffrindiau, y gymuned a'r trydydd sector; i gynllunio ar gyfer anghenion gofal yn y dyfodol; i gyflawni eu hamcanion personol a llesiant.

## Dementia

Amcangyfrifir bod 11,000 o bobl yn byw â dementia yng Ngogledd Cymru. Disgwylir i'r nifer hwn gynyddu, ond mae'n bosibl y bydd y cynnydd yn llai na'r hyn a dybiwyd yn wreiddiol oherwydd gwelliannau iechyd. Mae dementia yn cael effaith sylweddol ar unigolion, ac yn rhoi pwysau mawr ar y gwasanaethau statudol, y trydydd sector a'r perthnasau a'r ffrindiau sy'n eu cefnogi. Er gwaethaf yr heriau a ddaw yn sgil dementia, gellir cefnogi pobl i fyw yn dda neu i fyw yn well, o leiaf, nag yr oeddent wedi meddwl, a'r her i ni yw darparu'r gefnogaeth honno.

Mae'r gwasanaethau presennol yn darparu amrywiaeth eang o gymorth sy'n diwallu anghenion llawer o bobl.

**Meysydd ar gyfer gwella ac argymhellion**

1. Darparu rhagor o wybodaeth a chymorth yn dilyn diagnosis.
2. Hyfforddiant ychwanegol i weithwyr gofal ynghylch gweithio gyda phobl sydd â dementia.
3. Datblygu gwasanaethau ychwanegol sy'n diwallu anghenion unigol, yn enwedig ar gyfer pobl iau â dementia, a gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.
4. Sicrhau bod digon o ddarpariaeth nyrsio o ran iechyd meddwl henoed a gofal preswyl i'r henoed bregus eu meddwl (EMI).
5. Gwella'r cydweithio rhwng gwasanaethau.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Natganiad Sefyllfa'r Farchnad Ddementia yng Ngogledd Cymru, a gellir gweld gwybodaeth am y datblygiadau penodol ym mhob sir yn y Cynlluniau Heneiddio'n Well sydd ar gael yma: http://www.ageingwellinwales.com/wl/localplans

Draft

## Cartrefi gofal

**Y prif faterion i'w datblygu yn y dyfodol yng Ngogledd Cymru:**

- Bydd angen i ni fod yn glir ynghylch faint yn rhagor o bobl yr hoffem eu cefnogi mewn llety gofal ychwanegol yn y dyfodol, a ph'un a fydd y gwasanaethau nyrsio cymunedol yn gallu darparu ar gyfer anghenion iechyd/gofal nyrsio pobl ai peidio.
- Rhagwelir y bydd angen rhagor o leoliadau cartrefi nyrsio yn y dyfodol, yn enwedig i gefnogi pobl â chyflyrau iechyd meddwl a dementia. Bydd gofyn am gynlluniau ar y cyd i ddatblygu'r gweithlu er mwyn hyfforddi, recriwtio a datblygu rheolwyr nyrsio, gweithwyr cymorth a gweithwyr gofal i ddiwallu anghenion pobl o ran gofal iechyd.
- Mae'r Cynghorau a'r Bwrdd Iechyd yn cydweithio i weld sut y gellir diwallu anghenion gofal iechyd pobl mewn cartrefi preswyl a/neu gynlluniau gofal ychwanegol trwy ddefnyddio staff therapi/nyrsio cymunedol, er enghraifft therapyddion galwedigaethol a ffisiotherapyddion, i leihau nifer y bobl sy'n gorfod symud i gartref gofal.
- Mae angen rhagor o ddarpariaeth gofal a chymorth yn Gymraeg mewn cartrefi gofal. Bydd hyn yn cael ei gryfhau trwy gytundebau contract yn y dyfodol.
- Mae angen i gomisiynwyr adolygu a newid y Cytundeb Cyn Lleoli (y contract) ar gyfer cartrefi gofal i adlewyrchu'r safonau newydd a'r gofynion rheoleiddiol a ragwelir, a hynny erbyn mis Ebrill 2018. Bydd hyn yn cynnwys datblygu manylebau (gan gynnwys gofynion cymwyseddau'r gweithlu) ar gyfer yr holl ofynion yn y dyfodol, yn cynnwys cymorth ar gyfer pobl â dementia, gofal canolraddol, er enghraifft cymorth cam i fyny neu gam i lawr (sy'n cynnwys manylion yr ymyraethau adsefydlu neu'r gofynion cymorth i'w darparu gan staff y cartref gofal), a gwasanaethau 'rhyddhau cyn asesu'.
- Yn gyffredinol, mae adolygiadau o ansawdd a diogelwch mewn cartrefi gofal yn ardal Gogledd Cymru yn awgrymu bod angen y canlynol ar rai cartrefi gofal:
  - Gwella arweinyddiaeth rheolwyr, yn cynnwys arweinyddiaeth glinigol mewn cartrefi nyrsio.
  - Datblygu'r adeilad er mwyn darparu'n well ar gyfer anghenion tra chymhleth unigolion (yn cynnwys amhariadau o ran symudedd, a dryswch/dementia).

**Mae gofyn bod y datblygiadau lleol ar Ynys Môn yn cynnwys:**

- Archwilio'r dewisiadau o ran defnyddio cartrefi gofal y cyngor lleol yn y ffordd fwyaf effeithiol, yn cynnwys gofal canolraddol a diwallu anghenion mwy cymhleth, ar y cyd â staff iechyd.
- Cynyddu'r ddarpariaeth Tai Gofal Ychwanegol fel dewis arall yn lle gofal preswyl; fel hyn, rhagwelir y bydd y galw am ddarpariaeth breswyl yn gostwng, yn unol â'r patrymau diweddar. Bydd hwn yn newid graddol, yn ôl pob tebyg.

Draft

- Cynyddu capasiti'r ddarpariaeth breswyl EMI (i gyd-fynd â'r cynnydd yn nifer y bobl sy'n byw â dementia). Bydd hwn eto yn newid graddol.
- Bydd gofyn am gynnydd cyflym mewn nyrsio EMI yn y byrdymor a'r tymor canolig gan fod y ddarpariaeth bresennol yn llawer llai na'r galw.
- Gwella adnoddau iechyd cymunedol i gefnogi pobl ag anghenion nyrsio yn eu cartrefi. Mae hyn yn cael effaith ar y galw am leoliadau Nyrsio Cyffredinol, a disgwylir i'r galw hwn barhau.
- Sicrhau bod y llety a ddarperir mewn cartrefi gofal yn awr ac yn y dyfodol yn cydymffurfio â'r safonau cyfredol.

**Mae gofyn bod y datblygiadau lleol yng Ngwynedd yn cynnwys:**

- Cefnogi pobl i barhau i fyw gartref yn eu cymunedau cyhyd â phosibl, a lleihau'r angen am leoliadau preswyl traddodiadol yw'r weledigaeth. Bydd gofyn bod mwy o lety ar gyfer Pobl Hŷn yn gyffredinol, a rhagwelir y bydd y galw mwyaf am dai gwarchod a thai gofal ychwanegol, lle y gwelir y bylchau mwyaf hefyd.
- Yn ôl y datganiad o sefyllfa'r farchnad leol yng Ngwynedd, nid oes darpariaeth o ran cartrefi gofal mewn ardaloedd allweddol yn y sir lle mae'r boblogaeth 65 oed a hŷn yn neilltuol o uchel. Mae'r ardaloedd hyn yn cynnwys Abermaw, Llanbedr, Dyffryn Ardudwy, Aberdyfi/Bryncrug/Llanfihangel a Harlech. Yn ogystal, dengys y dadansoddiad o anghenion fod gan gymuned Llanbedr boblogaeth sy'n heneiddio'n sylweddol, ond nad oes yna gartref gofal lleol.
- Yn y byrdymor, mae Gwynedd yn bwriadu lleihau nifer y lleoliadau gofal preswyl hirdymor, traddodiadol, a chynyddu'r ddarpariaeth gofal preswyl i bobl â dementia. Byddai Gwynedd hefyd yn hoffi cynyddu'r cyfleoedd i bobl gael cyfnodau ysbaid estynedig, a chynnig cyfleoedd gofal ysbaid hyblyg sy'n diwallu anghenion gofalwyr.
- Yn yr hirdymor, os bydd nifer y lleoliadau yn parhau fel y mae, mae Gwynedd yn rhagweld, erbyn 2030, y bydd gofyn darparu llety a chymorth ychwanegol ar gyfer 631 o bobl y bydd arnynt angen gofal preswyl, a 600 o bobl y bydd arnynt angen gofal nyrsio.

**Mae gofyn bod y datblygiadau lleol yng Nghonwy yn cynnwys:**

- Parhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau ardal integredig a chartrefi gofal o ansawdd da, a hynny â'r nod o greu Sector Cartrefi Gofal sefydlog a chynaliadwy yng Nghonwy, gan wella profiadau preswylwyr ac osgoi ymweliadau amhriodol ag Unedau Damweiniau ac Achosion Brys a/neu dderbyniadau i'r ysbyty.

**Mae gofyn bod y datblygiadau lleol yn Sir Ddinbych yn cynnwys:**

- Cynyddu'r ddarpariaeth Tai Gofal Ychwanegol fel dewis arall yn lle gofal preswyl (oni bai fod angen gofal nyrsio neu ofal iechyd meddwl arbenigol).



Draft

- Rhesymoli nifer y gwelyau preswyl, lle mae'n ymddangos bod gormod o ddarpariaeth yn y byrdymor i'r tymor canolig. Fodd bynnag, os yw'r rhagolygon o ran y cynnydd yn nifer y bobl â dementia yn gywir, bydd angen mwy o welyau Nyrsio Iechyd Meddwl Henoed (EMH) yn Sir Ddinbych. Mae'n bosibl na fydd yna ddigon o welyau preswyl EMH. Mae'r dadansoddiad a wnaed ym mis Chwefror 2016 yn awgrymu bod digon o welyau mewn cartrefi gofal, ac eithrio gwelyau Nyrsio EMH, i ateb y galw yn y rhan fwyaf o ardaloedd, a bod gormod o gapasiti mewn ardaloedd penodol.

**Mae gofyn bod y datblygiadau lleol yn Sir y Fflint yn cynnwys:**

- Cynnal darpariaeth cartrefi gofal y cyngor lleol, ac ymchwilio i ddatblygu canolfan gofal canolraddol i ganolbwyntio ar waith ataliol ac ymyrraeth gynnar.
- Cynnydd (ar sail yr angen a ragwelir yn sgil newidiadau demograffig) o 178 o leoliadau ychwanegol mewn cartrefi gofal erbyn 2020: 67 o leoliadau preswyl; 52 o leoliadau preswyl EMH; 51 o leoliadau nyrsio, ac 8 lleoliad nyrsio EMH.

**Mae gofyn bod y datblygiadau lleol yn Wrecsam yn cynnwys:**

- Datblygu Gofal Ychwanegol sy'n cynnig deiliadaeth gymysg ar gyfer byw'n annibynnol (Dementia, Anabledd, Anawsterau Dysgu), yn cynnwys darpariaeth arbenigol (Gofal Ychwanegol) ar gyfer oedolion iau ag anableddau er mwyn gostwng nifer y lleoliadau y tu allan i'r sir. Mae diddordeb hefyd mewn datblygu Gofal Canolraddol gan ddefnyddio cyfleusterau Gofal Ychwanegol a datblygu gwelyau cam i fyny a cham i lawr.
- Cynlluniau i leihau nifer y lleoedd preswyl cyffredinol, ac i gynyddu lleoedd nyrsio cyffredinol ac EMI yn Wrecsam. Yn ddelfrydol, byddai gan y cartrefi gofrestriad deuol.

Draft

# 4 Iechyd, Anableddau Corfforol a Nam ar y Synhwyrau

**Y prif negeseuon**

Er bod pob un o'r chwe chyngor lleol a'r bwrdd iechyd wedi ymrwymo i weithio i'r model cymdeithasol o anabledd, mae llawer mwy o waith i'w wneud er mwyn sicrhau bod y ffordd yr ydym yn gweithio yn adlewyrchu'r model hwn yn llawn.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn atgyfnerthu'r angen i feddwl am agweddau ehangach ar lesiant ym mywyd bob dydd unigolyn, a gallu'r unigolyn i gymryd rhan lawn mewn cymdeithas.

Bydd canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn yn ein helpu i fynd i'r afael â'r agweddau ehangach yn well. Bydd angen i ni weithio mewn partneriaeth â phobl, eu teuluoedd, y trydydd sector a darparwyr annibynnol, yn ogystal â gwasanaethau cyhoeddus eraill, i gyflawni hyn.

Mae nifer y bobl sy'n byw â chyflwr hirdymor, yn ogystal â nifer y bobl sy'n byw yn hirach ag anabledd neu nam ar y synhwyrau, yn cynyddu wrth i'n poblogaeth fyw'n hirach ac wrth i nifer y bobl hŷn gynyddu.

Bydd angen i ni adolygu ein blaenoriaethau sefydliadol a'n cynlluniau comisiynu i sicrhau ein bod yn adnabod gwell ffyrdd o gefnogi cyfranogiad a chynhwysiant, ac o alluogi pobl i gynnal eu hannibyniaeth.

Mae angen i ni ganolbwyntio mwy ar ymyrraeth gynnar ac atal salwch – gan gymryd y camau gweithredu y mae'r dystiolaeth yn dweud wrthym fydd yn helpu pobl i aros yn fwy iach ac yn fwy annibynnol yn hirach.

Bydd angen i ni adolygu'r gwasanaethau mwy arbenigol yr ydym yn eu darparu i sicrhau bod pobl yn gallu cael y gefnogaeth y mae ei hangen arnynt, a hynny ar yr adeg gywir.

**Bylchau yn y gwasanaeth/gefnogaeth**

Mae cefnogaeth i bobl fyw bywydau mwy iach a chynnal annibyniaeth yn cael ei nodi fel un o'r elfennau allweddol. Mae angen i bob sefydliad roi mwy o bwyslais ar hyn.

Mae rôl y trydydd sector a'r sector annibynnol yn cael ei nodi fel un bwysig o ran darparu rhwydweithiau cefnogaeth ehangach i bobl. Mae angen i sefydliadau fod yn ymwybodol o allu'r sectorau hyn i ymestyn y gefnogaeth y maent yn ei chynnig.

Mae rhai gwasanaethau yn brin mewn ardaloedd gwahanol; nodwyd bod yna ddiffygion yn y ddarpariaeth mewn ardaloedd gwledig.



Draft

Mae llawer o'r gwasanaethau yn y sector cyhoeddus o dan bwysau ac, er bod gwasanaethau ar gael, efallai y bydd yna restr aros, neu anhawster o ran cael mynediad prydlon at wasanaethau.

Mae yna rwystrau i grwpiau penodol y mae angen mynd i'r afael â hwy – wrth geisio gwybodaeth, cael mynediad at wasanaethau, neu geisio cynnal annibyniaeth, gyda chefnogaeth yn ôl yr angen.

**Ein hymateb**

Byddwn yn ceisio cydweithio wrth gynllunio a gweithredu rhaglenni gwella iechyd effeithiol, gyda chefnogaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Byddwn yn anelu at roi ymrwymiad strategol ar lefel uwch i weithredu ac ymgorffori dull cynaliadwy i roi'r rhaglen Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif (MECC) ar waith yng Ngogledd Cymru, gan ddarparu diwylliant sy'n annog ac yn hybu atal salwch a gwella iechyd.

Byddwn yn ymchwilio i'r opsiwn o ddefnyddio rhagnodi cymdeithasol fel llwybr i gleifion ar gyfer practisau gofal sylfaenol yng Ngogledd Cymru i gryfhau'r cysylltiadau rhwng darparwyr gofal iechyd a gwasanaethau cymunedol, gwirfoddol ac awdurdodau lleol a allai wella iechyd a llesiant.

Byddwn yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar asedau, gan nodi'r hyn sy'n bwysig i bobl, a'u cefnogi i gymryd rheolaeth dros eu bywydau. Byddwn yn gweithio gyda phobl a'r cymunedau lle maent yn byw i adeiladu ar yr adnoddau sydd ar gael, ac i gefnogi pobl i gysylltu.

Byddwn yn ceisio cryfhau ymhellach y model cymdeithasol o anabledd ym mhob peth a wnawn, gan geisio sicrhau bod ein cefnogaeth a'n gwasanaethau yn hwyluso cyfranogiad ac yn parchu dymuniadau ac anghenion unigol, a'u bod yn gynhwysol.

Byddwn yn adolygu'r angen i'n gwasanaethau mwy arbenigol ddarparu gofal yn nes at adref, lle bo modd.

Draft

# 5 Anabledd dysgu

## Y prif ganfyddiadau

- **Demograffeg:** Mae nifer y bobl ag anabledd dysgu y mae angen cefnogaeth arnynt yn cynyddu, ac mae pobl ag anabledd dysgu yn byw'n hirach. Mae'r tueddiadau demograffig hyn y debygol o barhau. Mae nifer cynyddol y bobl sydd ag anabledd dysgu a dementia yn cynnig heriau sylweddol i'r gwasanaethau gofal, ac i'r staff sy'n gweithio yn y gwasanaethau hynny, i ddarparu'r math iawn o gymorth.
- **Anghenion iechyd:** Mae pobl ag anabledd dysgu yn tueddu i gael iechyd gwaeth, mae mwy o angen gofal iechyd arnynt, ac maent mewn mwy o berygl o farw'n gynnar o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol.
- **Pobl ifanc ag anghenion cymhleth:** Bydd angen i wasanaethau addasu i sicrhau eu bod yn gallu diwallu anghenion pobl ifanc ag anghenion cymhleth, wrth iddynt symud i wasanaethau oedolion.
- **Agweddau a disgwyliadau:** Mae'r rhan fwyaf o unigolion am gael lefel uwch o annibyniaeth a bod yn rhan allweddol o'u cymuned, neu maent yn disgwyl hynny. Gall hyn gynnwys rhieni hŷn nad ydynt erioed wedi gofyn am gymorth, neu ofalwyr sy'n darganfod nad yw'r cymorth yr oeddent yn ei ddisgwyl yn cael ei ddarparu bellach, neu ei fod yn cael ei ddarparu mewn ffordd wahanol.
- **Pontio rhwng gwasanaethau plant ac oedolion:** Mae hyn yn gweithio'n dda ar y cyfan, a bydd y gwasanaethau cymdeithasol yn canolbwyntio fwyfwy ar ddull integredig a fydd yn helpu gyda'r broses bontio.
- **Cyllid:** Mae lefel y gwariant ar wasanaethau anabledd dysgu wedi bod yn codi, ond erbyn hyn rydym yn wynebu cefnogi mwy o bobl gyda llai o arian.
- **Deddfwriaeth:** Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn newid y ffordd yr ydym yn gweithio, gan gynnwys y ffordd yr ydym yn canfod yr hyn sy'n bwysig i bobl, a'r ffordd y mae pobl yn cael eu cefnogi.
- **Darpariaeth gyfredol:** Ar hyn o bryd, mae cymorth yn cael ei ddarparu, yn gyffredinol, gan aelodau o'r teulu agos a/neu staff gofal hirdymor cyflogedig.

## Argymhellion

1. Cefnogi gofalwyr hŷn, a sicrhau eu bod yn cael y cymorth a'r gwasanaethau ysbaid y mae eu hangen arnynt. Dylai hyn gynnwys gwasanaethau ‘cynllunio ymlaen llaw’ ar gyfer teuluoedd, sy'n cynnwys gwaith i nodi gofalwyr cudd, ac i asesu eu hanghenion o ran cymorth.
2. Iechyd a gwasanaethau cymdeithasol i weithio'n well gyda'i gilydd, gan sicrhau bod digon o gefnogaeth ar gael ar gyfer materion iechyd pobl hŷn ag anabledd dysgu, yn cynnwys pobl â dementia.



Draft

3. Parhau i gefnogi pobl ag anabledd dysgu i gael mynediad at ofal iechyd trwy'r Gwasanaethau Cyswllt Iechyd ar gyfer Anabledd Dysgu, a hynny trwy ddatblygu gwybodaeth hygyrch i bobl ag anabledd dysgu er mwyn gwella dulliau cyfathrebu, a chefnogi darparwyr gofal iechyd i adnabod yn well bobl ag anabledd dysgu er mwyn iddynt wneud 'addasiadau rhesymol' i'w gofal. Hybu mynediad at wasanaethau hyrwyddo iechyd a thriniaeth gynnar.
4. Darparu modelau cymorth cynaliadwy ar y cyd rhwng iechyd a gofal cymdeithasol i ddiwallu anghenion unigolion ag anghenion cymhleth. Dylai hyn gynnwys mynd i'r afael ag angen sydd heb ei ddiwallu am leoliadau nyrsio o'r raddfa flaenaf, wedi'u hariannu ar y cyd, ar gyfer oedolion ag anabledd dysgu difrifol sydd ag anghenion yn ymwneud ag iechyd.
5. Staff cymorth i reoli disgwyliadau sy'n newid o ran cymorth ar gyfer pobl ag anabledd dysgu, yn cynnwys y newidiadau sy'n ofynnol gan y ddeddf newydd.
6. Recriwtio mwy o staff cymorth sy'n siarad Cymraeg.
7. Darparu mwy o gymorth ar gyfer pobl o ran cadw'n ddiogel wrth ddefnyddio'r Rhyngrwyd.
8. Annog mwy o gymorth anffurfiol, di-dâl, i leihau'r ddibyniaeth ar gymorth ffurfiol cyflogedig. Byddai hyn yn helpu i hwyluso cyfeillgarwch a bywydau cymdeithasol ehangach ar gyfer pobl ag anabledd dysgu, y tu hwnt i ofalwyr cyflogedig.
9. Recriwtio mwy i'r cynllun Cysylltu Bywydau/Lleoli Oedolion.
10. Datblygu'r ddarpariaeth o dechnoleg gynorthwyol ar gyfer pobl ag anabledd dysgu.
11. Parhau i archwilio a datblygu opsiynau o ran tai er mwyn diwallu anghenion pobl ag anabledd dysgu, a hynny mewn partneriaeth â sefydliadau eraill.

## Agenda datblygu data

- Sicrhau bod yna ddealltwriaeth gyffredin a chysondeb ledled y chwe sir yng Ngogledd Cymru o ran y ffordd y caiff data eu cofnodi a'u dadansoddi.
- Gwneud mwy o waith dadansoddi i gefnogi gwasanaethau oedolion er mwyn cynllunio ar gyfer anghenion pobl ifanc ag anghenion cymhleth.

Draft

# 6 Iechyd meddwl

## Y prif negeseuon

- Mae pobl yng Ngogledd Cymru yn adrodd am iechyd meddwl sydd ychydig yn well nag yng Nghymru gyfan
- Mae nifer y bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl yn debygol o gynyddu
- Y mathau o salwch meddwl mwyaf cyffredin a gofnodwyd yw gorbryder ac iselder
- Mae ymchwil yn awgrymu na fydd nifer fawr o bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl yn ceisio cymorth
- Mae nifer y derbyniadau i gyfleusterau iechyd meddwl yn lleihau
- Mae nifer y bobl sydd ag anghenion mwy cymhleth yn cynyddu
- Mae pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl yn fwy tebygol o fod ag iechyd corfforol gwael

Mae nifer y cleifion sy'n ceisio mynediad i'r ysbyty wedi cynyddu ledled y rhanbarth. Mae adborth gan staff yn awgrymu y gall y nifer cyfyngedig o dderbyniadau fod o achos pwysau ar welyau – mae Oedi wrth Drosglwyddo Gofal (DTOC) a diffyg lleoliadau priodol, lle bo angen, yn dylanwadu ar hyn. Mae hyn wedi arwain at ddefnyddio gwelyau acíwt y tu allan i Ogledd Cymru, sydd yn bell o fod yn ddelfrydol ar gyfer cleifion, eu gofalwyr a'u teuluoedd.

Mae egwyddorion cyffredin a rennir gan y cynghorau lleol a'r bwrdd iechyd yn cynnwys cyfranogiad defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr; eiriolaeth gymunedol; cymorth i ofalwyr, a rôl cyfleoedd dysgu a gweithio yn ystod y cyfnod adfer; cydweithio rhwng asiantaethau.

Mae angen cael llwybr clir o'r gwasanaethau acíwt i wasanaethau yn y gymuned. Dylai fod mwy o waith o ran yr agenda ataliol er mwyn atal anghenion rhag gwaethygu ac arwain at fynd i'r ysbyty, ac er mwyn lleihau'r galw ar wasanaethau cyhoeddus eraill. Mae enghreifftiau yn cynnwys cymorth cartref a gwasanaethau cofleidiol, yn ogystal ag ymyraethau a pholisïau i gefnogi rhieni a phlant ifanc, newidiadau i ffordd o fyw, gwella gweithleoedd, darparu cymorth cymdeithasol a gwelliannau amgylcheddol sy'n cefnogi cymunedau (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2016). Gallai cydweithio â'r trydydd sector a mentrau cymdeithasol ddarparu hyn.

Mae'n rhaid i gynghorau lleol ac iechyd reoli'r cynnydd yn y galw am wasanaethau yn wyneb cyllidebau sy'n lleihau.

## Bylchau yn y gwasanaeth/cymorth

- Yn yr ymgynghoriad, nodwyd yn gyson fod yna fwlch o ran cymorth i bobl ag anhwylder sbectrwm awtistig.
- Mae yna fwlch o ran cyfleoedd cyfeillio (rhaid iddynt rymuso, nid annog dibyniaeth) i gefnogi pobl i gael mynediad at weithgareddau cymdeithasol sy'n bodoli.

- Nodwyd tlodi a diwygio lles fel risgiau i ddefnyddwyr gwasanaethau, gan y gall yr ymgyrch i gael pobl yn ôl i waith achosi straen ychwanegol i bobl sy'n agored i niwed. Gall hyn fod yn arbennig o anodd i bobl iau â phryderon budd-daliadau tai.
- Mae angen cyflenwad digonol o lety i gefnogi pobl i symud o ofal preswyl i adnoddau cymunedol.
- Rhaid i ni ddatblygu iechyd meddwl cyhoeddus yng Ngogledd Cymru a hybu llesiant meddyliol i atal afiechyd meddwl. Dylai iechyd meddwl cyhoeddus fod yn rhan o strategaeth iechyd meddwl Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

## Agenda datblygu data/awgrymiadau ar gyfer ymchwil yn y dyfodol

- Anghenion pobl agored i niwed heb ddiagnosis, ac arfer gorau o ran darparu cymorth
- Ymchwilio i bryderon a godwyd ynghylch diffyg darpariaeth Gymraeg mewn gwasanaethau iechyd meddwl
- Cael gwybod mwy am y rhesymau dros y nifer gostyngol o dderbyniadau i gyfleusterau iechyd meddwl.

## Ein hymateb

Cam nesaf y prosiect fydd trafod yr wybodaeth yn yr adroddiadau hyn a chytuno ar ddull o fynd i'r afael â'r materion a godwyd. Gallai hyn gynnwys gwneud gwaith ymchwil pellach mewn ardal, neu gamau gweithredu lleol neu ranbarthol.

Draft

# 7 Gofalwyr

Mae gofalwyr yn chwarae rôl hanfodol wrth ddarparu gofal a chymorth, ac yn darparu gwasanaeth ataliol eu hunain. Amcangyfrifir bod gofalwyr yn darparu rhwng 70% a 95% o ofal, gan arbed £7.72 biliwn bob blwyddyn yng Nghymru (Yeandle a Buckner, 2015; Llywodraeth Cymru, 2016c). Mae pob sefyllfa ofalu yn unigryw.

## Y prif ganfyddiadau

- Mae nifer y gofalwyr yng Ngogledd Cymru yn cynyddu, yn enwedig yng ngogledd-orllewin Cymru.
- Pobl 50 i 64 oed sy'n fwyaf tebygol o fod yn darparu gofal di-dâl.
- Mae hanner yr holl ofalwyr yng Ngogledd Cymru mewn cyflogaeth: ar gyfer gofalwyr mewn cyflogaeth, mae cymorth eu cyflogwr a chydweithwyr yn hanfodol i'w helpu i barhau yn eu rôl ofalu.
- Mae'r cynnydd yn yr angen am ofal cymdeithasol, a nodwyd ym mhenodau eraill yr adroddiad asesu poblogaeth, yn debygol o arwain at fwy o bobl yn darparu gofal di-dâl ac yn darparu gofal am gyfnod hwy.
- Nodwyd bod dros 1,000 o ofalwyr ifanc yng Ngogledd Cymru, a bod y nifer hwn wedi cynyddu yn y blynyddoedd diweddar.

## Bylchau yn y gefnogaeth ac argymhellion

Mae yna her i wasanaethau yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, gyda gwasanaethau yn cael eu torri ar gyfer gofalwyr ac ar gyfer y bobl y maent yn gofalu amdanynt. Mae llawer o'r cymorth i ofalwyr, yn enwedig gan y trydydd sector, yn dibynnu ar gyllid byrdymor, ac mae yna risgiau o ran cynaliadwyedd y cymorth hwn.

Ceir adborth bod darpariaeth gofal ysbaid/ysbaid byr yn lleihau, yn ogystal â materion sy'n ymwneud â pha mor bell ymlaen llaw y mae angen iddo gael ei gynllunio, sy'n golygu ei bod yn anodd i ofalwyr wneud cynlluniau munud olaf. Mae'n rhaid i ni ailfeddwl sut yr ydym yn darparu gwasanaethau i gyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer gofalwyr a'r unigolyn y gofelir amdano yn yr hinsawdd hon.

Mae cymorth mewn ysbytai acíwt yn anghyson – mae swyddog cymorth gofalwyr ar gael yn rhanbarthau'r Gorllewin a'r Dwyrain yng Ngogledd Cymru a gynhelir gan y trydydd sector, ond nid oes unrhyw ddarpariaeth yn yr ardal ganolog. Yn yr ardal hon, ac mewn ardaloedd eraill, mae angen ystyried sut i ddarparu mwy o gysondeb ar draws y rhanbarth.

Mae yna angen cynyddol am gefnogaeth un i un ar gyfer gofalwyr ifanc, ynghyd â chefnogaeth i ofalwyr ifanc dan 8 oed.

Draft

Yn ogystal â’r enghreifftiau uchod, amlygodd yr ymgynghoriad yr angen am well cymorth i ofalwyr trwy ddiwallu anghenion yr unigolyn y gofelir amdano yn well, yn ogystal â darparu cymorth penodol ar gyfer gofalwyr. Amlygodd fylchau o ran cludiant, gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig, ymwybyddiaeth staff gofal sylfaenol, gwasanaethau cwnsela ar gyfer gofalwyr a chymorth i’r rheiny sy’n gofalu am unigolion sy’n camddefnyddio sylweddau. Amlygodd yr adolygiad o wasanaethau fod darpariaeth ar gael yng Ngogledd Cymru i ddiwallu llawer o'r anghenion hyn, er nad yw'r ddarpariaeth hon yn gyson ledled y rhanbarth.

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi cytuno i benodi swydd ranbarthol i fapio’r ystod lawn o wasanaethau sydd ar gael i ofalwyr yng Ngogledd Cymru. Mae'r ymarfer cwmpasu yn debygol o nodi bylchau ac anghysonderau eraill ar draws Gogledd Cymru, ac o amlygu blaenoriaethau ar gyfer gweithio ar y cyd. Mae grŵp gweithredol gofalwyr rhanbarthol yn bodoli, a fydd yn edrych ar gyfleoedd i weithio’n rhanbarthol, sy’n deillio o'r asesiad poblogaeth hwn.

## Y camau nesaf ar gyfer yr asesiad poblogaeth a’r cynllun ardal

- Cael gwybodaeth am effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i ofalwyr, gwella’r gwaith o werthuso prosiectau, ac edrych ar yr hyn y gellir ei ailadrodd ledled y rhanbarth i ddarparu cymorth mwy cyson, hyd yn oed o ystyried amrywiadau lleol.
- Ystyried sut yr ydym yn nodi canlyniadau a systemau i nodi angen heb ei ddiwallu, er enghraifft, mae Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ddinbych yn treialu defnyddio sgyrsiau 'yr hyn sy'n bwysig' gyda gofalwyr.
- Mapio gwasanaethau gofalwyr ledled Gogledd Cymru, gan gynnwys argaeledd y ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Rhannu’r canfyddiadau o'r asesiad poblogaeth a’r cynllun ardal â Llywodraeth Cymru i lywio datblygiad Strategaeth Cymru Gyfan ar gyfer Gofalwyr.

Draft

# 8 Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

## Y prif negeseuon

- Ni roddir gwybod i'r heddlu am bob achos o drais a cham-drin domestig a rhywiol, ond mae nifer yr adroddiadau yn y cynyddu
- Mae trais a cham-drin domestig a rhywiol yn effeithio ar fenywod a dynion, ond mae menywod yn fwy tebygol o'u dioddef.
- Mae achosion o orfodi a rheoli 'nawr yn cael eu cofnodi yng Ngogledd Cymru ers cyflwyno'r drosedd yn Rhagfyr 2015
- Mae cam-drin domestig yn costio £66 miliwn y flwyddyn i wasanaethau cyhoeddus yng Ngogledd Cymru o ran gofal iechyd, cyfiawnder troseddol, y gwasanaethau cymdeithasol, tai a llochesau, costau cyfreithiol, a cholli allbwn economaidd.

## Y bylchau mewn gwasanaethau a'r cymorth sydd ar gael

Mae'r asesiad poblogaeth yn awgrymu y dylid ystyried rhoi sylw i'r canlynol yn y dyfodol:

- Datblygu cysylltiadau cryfach o ran strategaeth ac ymarfer rhwng cam-drin domestig a diogelu oedolion.
- Effaith torri cyllidebau ar allu darparwyr gwasanaethau arbenigol i ateb y galw ac i ddiwallu'r angen am wasanaethau.
- Y cymorth y mae ei angen ar blant a phobl ifanc sy'n dystion i drais a cham-drin domestig.
- Sicrhau bod digon o ddewisiadau o ran cartrefu dioddefwyr trais a cham-drin domestig sydd ag anghenion gofal a chymorth ychwanegol sy'n gofyn bod staff ar gael ddydd a nos.
- Casglu rhagor o wybodaeth am yr angen am gymorth arbenigol, megis cymorth hyblyg, ar gyfer pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yng Ngogledd Cymru.

## Y blaenoriaethau cenedlaethol

Mae Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2016-2021 (Llywodraeth Cymru, 2016b) wedi cael ei gyhoeddi, ac mae'n cynnwys y 10 prif argymhelliad (gweler adran 8.3) ynghyd â'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol (gweler adran 8.1).

Draft

Nodir yr amcanion canlynol yng Nghynllun Blynyddol y Cynghorydd Cenedlaethol (Bowen-Davies, 2016):

1. Cynghori ar weithrediad strategol y ddeddfwriaeth a'i gefnogi
2. Datblygu dull gweithredu strategol, cydlynol ac integredig o ran materion polisi a phenderfyniadau ynghylch darparu gwasanaethau
3. Datblygu argymhellion ymarferol i wella effaith ac effeithiolrwydd y gwasanaeth a ddarperir gan y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol
4. Darparu llwyfan strategol ar gyfer rhannu addysg ac ymchwil
5. Galluogi cyfathrebu effeithiol a chynhwysol â goroeswyr, rhanddeiliaid a'r cyhoedd.

## Y camau nesaf

Mae'n rhaid i gynghorau lleol a'r bwrdd iechyd baratoi a chyhoeddi strategaeth o dan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2014 erbyn 1 Ebrill 2018. Defnyddir yr asesiad poblogaeth i lywio'r strategaeth hon.

Gwelsom hefyd fod angen i ni gynnwys rhagor o wybodaeth am drais rhywiol, camfanteisio'n rhywiol ar blant, masnachu pobl, a chaethwasiaeth fodern pan fyddwn yn adolygu'r asesiad poblogaeth. Cofiwch gysylltu â ni os bydd gennych unrhyw dystiolaeth yr hoffech ei chyflwyno [add link].

Draft

# 9 Sefydliadau Diogel

Mae'r ddeddf newydd yn arwydd o newid hanesyddol yng nghyfrifoldebau gofal cymdeithasol llywodraeth leol ar gyfer dynion, merched a phlant a gedwir mewn sefydliadau diogel, ac wrth iddynt gael eu rhyddhau i'r gymuned. Yn flaenorol, roedd y cyfrifoldebau ar gyfer diwallu anghenion gofal cymdeithasol y rheiny mewn sefydliadau diogel yn aneglur, ac arweiniodd hyn at ddryswch rhwng awdurdodau lleol, carchardai, gwasanaethau prawf a sefydliadau eraill.

Mae'r Ddeddf yn egluro cyfrifoldebau ac yn sicrhau bod gan y rheiny a gedwir mewn sefydliadau diogel hawl i gael darpariaeth gyfatebol i bobl yn y gymuned, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol weithio mewn partneriaeth â Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr a'r gwasanaethau iechyd. Mae'n cynnig cyfleoedd i weithredu llwybrau gofal integredig ac i ddarparu gwasanaethau ar y cyd ar gyfer anghenion iechyd a gofal cymdeithasol y rhai mewn sefydliadau diogel.

O ystyried efallai y bydd gan garcharorion anghenion iechyd a gofal a chymorth cymhleth, yn aml, a'u bod yn gyffredinol yn dioddef iechyd corfforol a meddwl gwaeth, mae hyn yn ddatblygiad arwyddocaol.

Mae ffocws ar iechyd a lles hefyd yn cyfrannu at ganolbwyntio o'r newydd ar adsefydlu, ailsefydlu a lleihau aildroseddu.

Ceir tystiolaeth o hyn yn y gwaith cynllunio ar gyfer Carchar y Berwyn, a fydd yn agor yng Ngogledd Cymru ym mis Chwefror 2017. Mae Carchar y Berwyn yn modelu dulliau newydd, a bydd ei ddiwylliant yn cael ei lywio gan ffocws ar adsefydlu. Mae'r ethos yn ymroddedig i ddarparu amgylchedd diogel, gweddus a chyfiawn, lle bydd dynion yn cael eu hannog a'u cynorthwyo i baratoi ar gyfer dechrau newydd mewn bywyd. Mae pwysigrwydd y Gymraeg wrth adsefydlu troseddwyr o Gymru yn cael ei gydnabod, fel y mae rôl allweddol partneriaid cydgomisiynu.

Mae hyn yn rhoi'r boblogaeth categori C sy'n oedolion gwrywaidd mewn sefyllfa dda. Bydd yn helpu i gryfhau cysylltiadau rhwng cynghorau lleol yng Ngogledd Cymru a'r carchar, a bydd yn cefnogi ailsefydlu effeithiol. Fodd bynnag, bydd menywod a throseddwyr ifanc yn parhau i gael eu cadw y tu allan i'r rhanbarth, yn ogystal â dynion o gategorïau eraill, a'r rheiny na ellir rheoli eu hanghenion iechyd a gofal cymdeithasol yn ddiogel yng Ngharchar y Berwyn.

Mae angen gwell dealltwriaeth o anghenion y grwpiau hyn ac, wrth iddynt gael eu rhyddhau, bydd y ddyletswydd ar gyfer oedolion yn symud i'r cyngor lleol y maent yn ailsefydlu ynddo, fel rhan o'r gofyniad am barhad gofal dan y Ddeddf; mae hyn yn cynnwys gwasanaethau megis tai. Mae hyn yn rhoi cyfle unigryw i ddatblygu model ar gyfer creu cysylltiadau â charchardai y tu allan i Ogledd Cymru, gan gynnwys y rheiny sy'n dal menywod o Ogledd Cymru.

## Argymhellion

- Ymgynghori pellach â rhanddeiliaid, gan gynnwys defnyddwyr gwasanaethau.
- Cynnal asesiad anghenion iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer Carchar y Berwyn ar ôl i'r carchar ddod yn weithredol, a hynny mewn partneriaeth rhwng BIPBC a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.
- Y data ar anghenion gofal cymdeithasol y boblogaeth Categori C a'r boblogaeth remánd i gael eu coladu pan fydd Carchar y Berwyn yn weithredol.
- Rhoi protocolau ar waith gyda phartneriaid yn manylu ar y math o wybodaeth y gellir ei rhannu.
- Ymgysylltu â'r Llysoedd i ddatblygu protocolau ar gyfer remandio pobl anabl, er mwyn sicrhau bod amgylchiadau eu remánd yn gallu diwallu eu hanghenion penodol pan fyddant yn mynd i'r ddalfa.
- Datblygu gwaith partneriaeth â'r carchardai yn Ne Cymru er mwyn rhannu dysg.
- Gwell dealltwriaeth o anghenion gofal cymdeithasol menywod ac ieuenctid, yn ogystal â'r ystyriaethau penodol iawn sydd ynghlwm wrth y grwpiau hyn.
- Datblygu gwasanaethau iechyd a llesiant o ansawdd da ar gyfer y carcharorion.
- Plant a theuluoedd – cymorth ar gyfer y dull rhanbarthol o ddatblygu model plant a theuluoedd, ynghyd â chysylltiadau â'r gwaith hwn.
- Digartrefedd: yr angen am gael systemau prydlon ar waith er mwyn ymgysylltu â'r rheiny sy'n gadael sefydliadau diogel ar y cyfle cyntaf posibl; bydd hyn yn golygu y gellir rhoi'r ymyrraeth gywir ar waith, a gwneud atgyfeiriadau i'r cyngor priodol.
- Mae angen i'r gwaith o drosglwyddo gofal ar ôl i garcharorion gael eu rhyddhau 'trwy-y-giât' gael ei ymgorffori yn y gymuned, gan ddarparu parhad gofal i sicrhau bod y gwelliant mewn iechyd a gafwyd pan oedd yr unigolyn yn y carchar yn cael ei gynnal ar ôl iddo gael ei ryddhau.

Draft

# 10 Cyn-filwyr

Diffinnir cyn-filwr fel unigolyn sydd wedi gwasanaethu am o leiaf ddiwrnod yn Lluoedd Ei Mawrhydi. Mae hyn yn cynnwys pobl sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Wrth Gefn/Cynorthwyol. Yn ôl yr amcangyfrifon, roedd tua 51,000 o gyn-filwyr yn byw yng Ngogledd Cymru yn 2014.

## Gwybodaeth ac ymchwil

Mae angen gwella'r wybodaeth ddemograffig a llesiant sydd ar gael am gyn-filwyr, y dulliau o gipio'r wybodaeth am eu defnydd o wasanaethau cam-drin domestig, a'r wybodaeth a ddarperir i gyn-filwyr am y gwasanaethau sydd ar gael. Mae'r argymhellion fel a ganlyn:

- Dylai Fforwm Lluoedd Arfog Gogledd Cymru (NWAFF) gefnogi ymgyrch "Count Them In" y Lleng Brydeinig Filwrol
- Dylai NWAFF ystyried comisiynu astudiaeth o broffil iaith cyn-filwyr yng Ngogledd Cymru
- Dylai pob darparwr gwasanaethau wella'r ffordd y mae'n adnabod cyn-filwyr, yn ogystal â'r data ar eu defnydd o wasanaethau (yn enwedig gofal sylfaenol a gofal eilaidd y GIG, a gwasanaethau awdurdodau lleol)
- Dylai NWAFF ystyried datblygu "dangosfwrdd o ddata cyn-filwyr" sy'n tynnu ynghyd ddata am gyn-filwyr
- Dylai pob darparwr gwasanaethau wella'r wybodaeth a ddarperir i gyn-filwyr am y gwasanaethau sydd ar gael iddynt, a hynny trwy eu cyfeirio'n well at wasanaethau, rhoi gwell cyhoeddusrwydd iddynt trwy ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, a chefnogi datblygiad gwefan newydd y Weinyddiaeth Amddiffyn, "Porth y Cyn-filwyr"
- Dylai NWAFF ystyried comisiynu ymchwil mewn meysydd megis ymddygiad ffordd o fyw cyn-filwyr, a sut y mae cyn-filwyr yn rhyngweithio â materion sy'n ymwneud â cham-drin domestig.

## Cynllunio gwasanaethau

Dylai cyn-filwyr gael eu hystyried yn grŵp â blaenoriaeth o fewn trefniadau cynllunio rheolaidd. Mae'r argymhellion fel a ganlyn:

- Dylai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) ystyried anghenion cyn-filwyr wrth ddatblygu eu Cynlluniau Llesiant
- Dylai cynghorau lleol ystyried anghenion cyn-filwyr, fel grŵp agored i niwed, yn eu cynlluniau corfforaethol ac wrth bennu eu blaenoriaethau corfforaethol

Draft

- Dylai BIPBC ystyried anghenion cyn-filwyr wrth ddatblygu ei Gynllun Gweithredu Blynyddol a'i Gynllun Tymor Canolig Integredig
- Wrth iddo ddatblygu ei Strategaeth Iechyd Meddwl, dylai BIPBC ystyried anghenion cyn-filwyr sy'n methu cael mynediad i'r gwasanaeth a ddarperir gan GIG Cymru i Gyn-filwyr (e.e. anghenion nad ydynt yn gysylltiedig â'u gwasanaeth milwrol). Bydd hyn yn cynnwys cydnabod effaith negyddol bosibl stigma ar barodrwydd a gallu cyn-filwyr i ofyn am gymorth â chyflyrau iechyd meddwl. Dylid datblygu iechyd meddwl cyhoeddus yn rhan o'r strategaeth hon gan hybu llesiant emosiynol a dewisiadau eraill heblaw lleoliadau ysbyty
- Dylid adolygu'r gwasanaethau gwella iechyd y mae awdurdodau lleol yn eu darparu i gyn-filwyr, a'u cryfhau lle bo angen
- Dylai'r holl ddarparwyr gwasanaethau gefnogi'r gwaith o ddatblygu Gwasanaethau Iechyd a Llesiant ar gyfer cyn-filwyr yng Ngharchar y Berwyn.

## Darparu gwasanaethau

Mae gan wasanaethau gyfrifoldeb i gyflawni'r ymrwymiadau a bennwyd yng Nghyfamod y Lluoedd Arfog. Mae'r argymhellion fel a ganlyn:

- Dylai pob darparwr gwasanaethau fod yn ymwybodol o'i ymrwymiadau a'i gyfrifoldebau o dan Gyfamod y Lluoedd Arfog. Mae hyn yn cynnwys blaenoriaeth o ran mynediad at driniaeth gan y GIG ar gyfer cyflyrau sy'n gysylltiedig â gwasanaeth milwrol cyn-filwyr, ynghyd â blaenoriaeth o ran mynediad i dai cymdeithasol.
- Dylai pob darparwr gwasanaethau ddarparu gwasanaethau a chymorth effeithiol mewn modd cydlynol, er mwyn cyflawni'r deilliannau angenrheidiol ar gyfer cyn-filwyr, a rhoi sylw i anghenion sydd heb eu diwallu. Dylai'r grwpiau â blaenoriaeth gynnwys y rhai hynaf a mwyaf bregus y mae ganddynt anghenion clir o ran cymorth (corfforol ac emosiynol) i fyw yn annibynnol ac i osgoi arwahanrwydd cymdeithasol; cyn-filwyr 16-54 oed sydd â phroblemau iechyd sy'n gysylltiedig â'u gwasanaeth milwrol, a'r cyn-filwyr ieuengaf a adawodd y lluoedd yn fwyaf diweddar.
- Dylai pob darparwr gwasanaethau gydweithio i ddatblygu modelau o lwybrau gofal i gyn-filwyr yn seiliedig ar glustnodi cynnar, ymyrraeth gynnar ac ymateb i anghenion ar sail tystiolaeth, gan isrannu rolau yn glir.
- Dylai pob darparwr gwasanaethau gydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â diwylliant y Lluoedd Arfog, a'u deall. Mae'n bwysig bod pob aelod o staff yn cael hyfforddiant priodol, a'u bod yn gofalu gofyn a yw eu cleientiaid yn gyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog. Dylid ystyried cyflwyno system i achredu staff, penodi rhagor o bencampwyr cyn-filwyr, a chynllun ar gyfer gwasanaethau sy'n "gyfeillgar i gyn-filwyr".

Draft

- Dylai pob darparwr gwasanaethau fanteisio ar bob cyfle i gyfeirio cyn-filwyr at gymorth. Gallai lleoliadau rheng flaen penodol gynnwys Adrannau Achosion Brys, dalfeydd yr heddlu a Phwyntiau Cyswllt Sengl/Timau Mynediad at Dai yn y cynghorau lleol.
- Gan fod llawer o sefydliadau trydydd sector yn cael eu sefydlu i weithio gyda chyn-filwyr, argymhellir y dylid ystyried creu safon ansawdd a fyddai'n cynnig sicrwydd i gyn-filwyr, eu teuluoedd, a chyrff sector cyhoeddus, fod y mudiadau y maent yn delio â nhw yn rhai o ansawdd da a chanddynt drefniadau llywodraethu da.
- Dylai contractwyr Gofal Sylfaenol roi blaenoriaeth i gofrestru cyn-filwyr. Dylai meddygon teulu ofyn i'r Gwasanaeth Meddygol Amddiffyn (DMS) ddarparu cofnodion meddygol llawn er mwyn iddynt gael darlun cyflawn o hanes meddygol cyn-filwyr. Dylid hyrwyddo'r cyhoeddiad ar y cyd gan Goleg Brenhinol y Meddygon Teulu, y Lleng Brydeinig Frenhinol a Combat Stress i'r holl ddarparwyr iechyd lleol.
- Dylai pob darparwr gwasanaethau flaenoriaethu cymorth iechyd meddwl i gyn-filwyr, gan gynnwys cymorth â phroblemau sy'n gysylltiedig ag alcohol. Dylai'r gwaith hwn gynnwys cyfeirio pobl yn well at y cymorth sydd ar gael trwy GIG Cymru i Gyn-filwyr, gwasanaethau iechyd meddwl BIPBC a'r trydydd sector. Dylai'r Grŵp Atal Hunanladdiad yng Ngogledd Cymru roi ystyriaeth benodol i anghenion cyn-filwyr.
- Dylai cynghorau lleol adolygu'r gwasanaethau gwella iechyd a ddarperir i gyn-filwyr, a'u gwella lle bo angen.
- Dylai cynghorau lleol a BIPBC ystyried sut y gallant gefnogi cyn-filwyr ar eu llwybr i gyflogaeth trwy'r cyfleoedd gwirfoddoli a ddatblygir yn eu sefydliadau.
- Dylai pob darparwr gwasanaethau roi ystyriaeth benodol i anghenion gofalwyr sy'n gyn-filwyr, a rhoi sylw i unrhyw anghenion sydd heb eu diwallu.

Draft

# 11 Digartrefedd

Mae'n ymddangos bod y newidiadau a gyflwynwyd yn Neddf Tai (Cymru) 2014 yn cael effaith gadarnhaol, gyda'r pwyslais ar ymyrraeth gynharach ac atal digartrefedd yn darparu canlyniadau gwell ar gyfer unigolion. Fodd bynnag, mae heriau sylweddol yn parhau. Mae'n bosibl y bydd cynnydd yn cael ei lesteirio os bydd y cyllid trosiannol a ddyrannwyd yn cael ei dynnu.

Gall newidiadau o fewn gwasanaethau eraill gael effaith ar ddigartrefedd, a gall pobl ddigartref gael effaith ar wasanaethau eraill. Disgwylir i ddiwygio lles, ac yn arbennig newidiadau i Fudd-dal Tai a chyflwyno Credyd Cynhwysol, gynyddu'r galw ar rai gwasanaethau, yn enwedig gan rai grwpiau, er enghraifft pobl ifanc, ac y bydd hyn yn creu heriau newydd. Rhaid i ni ganolbwyntio ar nodi ffyrdd o sicrhau'r gwerth mwyaf, gan gyfuno ymdrech ac adnoddau a chanolbwyntio ar ddull ataliol o fynd i'r afael â digartrefedd, a all helpu i ddarparu canlyniadau cadarnhaol i bobl agored i niwed, a gobeithio osgoi'r angen am ymyraethau mwy dwys a chostus.

Drafft

## Y prif negeseuon

**Newidiadau i'r budd-daliadau lles** – Nid yw effaith y newidiadau arfaethedig i'r budd-daliadau lles, yn enwedig y rhai a neilltuwyd tuag at gostau sy'n gysylltiedig â thai, wedi ei nodi eto. Disgwylir y bydd rhai unigolion a grwpiau yn profi gostyngiadau sylweddol yn y cyllid ar gyfer cymorth tuag at dai, a bydd yn dod yn fwy anodd sicrhau opsiynau llety priodol ac addas ar y lefelau is hyn. Mae yna gydberthyniad eithaf agos rhwng rhai o'r grwpiau yr effeithir arnynt yn y modd mwyaf andwyol a grwpiau y mae'n hysbys ar hyn o bryd eu bod yn fwy bregus ac agored i ddod yn ddigartref. Mae yna bryderon hefyd y bydd cyflwyno Credyd Cynhwysol – sy'n cyfuno taliadau'r holl fudd-daliadau, ac nad yw'n caniatáu i'r elfen rent gael ei throsglwyddo yn awtomatig i'r landlord – yn arwain at broblemau. Mae ymchwil o ardaloedd sydd wedi cyflwyno Credyd Cynhwysol yn adrodd am lefel uwch o ôl-ddyledion a allai, dros gyfnod o amser, fod yn broblematig gan effeithio ar gynaliadwyedd tenantiaethau.

**Comisiynu rhanbarthol** – Er mai'r nod fydd darparu'r mwyafrif helaeth o wasanaethau digartrefedd mor agos â phosibl at gymuned wreiddiol yr unigolyn a, lle bo hynny'n bosibl, o fewn ffiniau cynghorau lleol, bydd angen cynllunio a darparu rhai gwasanaethau digartrefedd yn rhanbarthol. Lle nad yw'n bosibl nac yn gosteffeithiol ymateb i anghenion yn lleol, byddwn yn defnyddio partneriaethau strategol hirdymor, er enghraifft y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol a grwpiau cynllunio lleol, i ystyried anghenion a blaenoriaethau o ran tai ledled ardaloedd y cynghorau lleol.

**Lleoliadau y tu allan i'r ardal –** Mae'r rhan fwyaf o bobl agored i niwed sy'n ceisio cymorth yn tueddu i fod yn sefydlog o ran lleoliad, gan aros o fewn eu hardal yn hytrach na symud o un ardal i'r llall. Fodd bynnag, mae rhywfaint o symud ar draws ffiniau yn digwydd, ac weithiau bydd angen cefnogi unigolion a hwyluso'r broses adsefydlu. Mae deddfwriaeth ac arfer gorau yn awgrymu y dylai lleoliadau y tu allan

i'r sir fod yn bethau eithriadol, ac yn seiliedig ar ystyriaethau megis diogelwch personol a chyhoeddus. Lle bydd achosion o'r fath yn codi, mae angen trafod cydweithredu trawsffiniol yn ogystal â chynnal rhwydweithiau cefnogaeth presennol defnyddwyr gwasanaethau, a hynny ar y cam cynharaf posibl.

**Rhannu cyfrifoldeb** – Bydd gan Gymdeithasau Tai a darparwyr cymorth yn y trydydd sector sydd â phrofiad o gyflwyno gwasanaethau i grwpiau agored i niwed penodol, rôl bwysig o ran cynorthwyo ymdrechion sefydliadau statudol. Bydd yna angen parhaus i ddarparu gwasanaethau cymorth sy'n ategu'r sector statudol, gan ein bod yn rhagweld cynnydd cyson yn y boblogaeth hyd at 2020.

## Bylchau yn y gwasanaeth/gefnogaeth

- Diffyg llety i bobl sengl
- Darpariaeth gyfyngedig mewn hosteli
- Prinder darpariaeth arbenigol ar gyfer unigolion sydd â chyflyrau meddygol parhaus
- Bylchau yn y gwasanaethau cefnogi

Drafft

# 12 Anhwylder y Sbectrwm Awtistiaeth

Mae plant ac oedolion ag Anhwylder y Sbectrwm Awtistiaeth(ASA) yn adrodd ar anghenion heb eu diwallu mewn perthynas â:

- chymorth ymddygiadol/emosiynol;
- materion sy'n ymwneud yn benodol ag ASA a sgiliau bywyd; a
- mynediad at wasanaethau cymdeithasol a hamdden, a chyfle yn y gymuned.

Efallai y bydd gan blant ac oedolion ag ASA anabledd dysgu neu anabledd dysgu ysgafn, neu beidio. Efallai y bydd gan blant ac oedolion ag ASA anawsterau iechyd meddwl cymedrol, neu efallai y byddant yn datblygu anawsterau iechyd meddwl cymedrol os na fydd cymorth ar gael iddynt yn gynnar iawn.

Mae gwasanaeth Awtistiaeth cenedlaethol yn cael ei ddatblygu, a ariennir o Gyllid Gofal Canolraddol Llywodraeth Cymru, a bydd y gwasanaeth yn datblygu yng Ngogledd Cymru yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf, a hynny yn rhan o raglen gyflwyno tair blynedd. Bydd y gwasanaeth hwn yn cael ei adeiladu ar arfer gorau ac ymchwil, a bydd ar gael ar gyfer pob oedran.

Hefyd, mae'n bwysig bod y cymorth sydd ar gael ar hyn o bryd yng Ngogledd Cymru trwy amrediad o sefydliadau trydydd sector sy'n gweithredu yn yr ardal, yn parhau, a'u bod yn ategu'r gwasanaeth cenedlaethol. Dylid hysbysebu argaeledd gwasanaethau cymorth o'r fath yn eang, fel y gall y rheiny y mae angen cymorth arnynt gael mynediad atynt.

Mae yna fylchau o ran codi ymwybyddiaeth ynghylch ASA ar gyfer y cyhoedd, cyflogwyr, staff a meysydd eraill o'r gwasanaethau cyhoeddus, er enghraifft canolfannau hamdden a chludiant cyhoeddus.

Er bod yna amrediad cynhwysfawr o wybodaeth ar y we, nid oes modd gwybod pa un a yw pobl yn defnyddio hyn ai peidio – mae angen codi ymwybyddiaeth o argaeledd gwasanaethau a chymorth ar wefannau tebyg i DEWIS.

Mae angen hyfforddiant i wella'r ddealltwriaeth o effeithiau a goblygiadau ASA, yn enwedig mewn perthynas â rheoli ymddygiad a strategaethau ymdopi, ac mae angen i hyn ddigwydd ledled y sectorau, ac yn arbennig yn y gwasanaethau addysg. Nodir hefyd fod angen hyfforddi'r gwasanaeth heddlu i adnabod a oes gan unigolyn ASA. Yn ddelfrydol, dylai'r hyfforddiant hwn gael ei ddatblygu ar y cyd ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, ac mae'n cynnwys y canlynol yn benodol:

- rheoli diddordebau arbennig,
- y cyfnod pontio o fod yn blentyn i fod yn oedolyn,
- tai a byw yn y gymuned,

Draft

- cyflogaeth a hyfforddiant,
- cefnogaeth ar ôl diagnosis ar gyfer partneriaid ac aelodau o'r teulu,
- arunigedd cymdeithasol, datblygu sgiliau cymdeithasol a chynnal perthnasoedd,
- cadw'n ddiogel/ymyraethau gwrth-fictimeiddio,
- awtistiaeth mewn benywod,
- dynion ac awtistiaeth,
- cadw'n iach a rheoli gorbryder,
- ymddygiad heriol a rheoli dicter.

Yn olaf, bydd yna lwybr niwrolegol datblygiadol newydd, sef gwasanaeth a fydd ar gael i blant a phobl ifanc nad ydynt yn ffitio i'r llwybrau CALDS/CAMHS ar gyfer diagnosis a chymorth, a sefydlir yn gynnar yn 2017 yng Nghonwy/Sir Ddinbych – os bydd hyn yn llwyddiannus, dylai fod ar gael ledled Gogledd Cymru.

Draft

# 13 Cyfeiriadau

Bowen-Davies, R. (2016) 'National Adviser for tackling Violence against Women, other forms of Gender based Violence, Domestic Abuse and Sexual Violence (1 April 2016 to 31 March 2017)'.

Y Sefydliad Gofal Cyhoeddus (IPC) (2016) 'Leading your social care financial strategy - the next steps'.

Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, CYngor Sir y Fflint a Chyngor Wrecsam. (2016) 'Polisi Rhanbarthol Gogledd Cymru ar gyfer Ymgysylltu â Dinasyddion'.

Iechyd Cyhoeddus Cymru (2016) 'Gwneud gwahaniaeth: Buddsoddi mewn iechyd a llesiant cynaliadwy i bobl Cymru'.

Wavehill (2016) 'Research into Citizen Voice and Control in North Wales'. Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal a Llesiant Gogledd Cymru.

Llywodraeth Cymru (2014) 'Welsh Index of Multiple Deprivation'. Ar gael yn: https://statswales.gov.wales/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Welsh-Index-of-Multiple-Deprivation/WIMD-2014/wimd2014.

Llywodraeth Cymru (2016a) 'Amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol Cymru (sail-2014): Prif amcanestyniad'. Ar gael yn: http://gov.wales/docs/statistics/2016/160929-local-authority-population-projections-2014-based-cy.pdf (Cyrchwyd: 17 Hydref 2016).

Llywodraeth Cymru (2016b) 'Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (2016-2021)'.

Llywodraeth Cymru (2016c) *Datganiad i'r wasg: £2m i gefnogi gofalwyr yng Nghymru*. Ar gael yn: http://gov.wales/newsroom/health-and-social-services/2016/carers/?skip=1&lang=cy.

Llywodraeth Cymru (2016d) 'Canllawiau Statudol i Gefnogi Gweithredu Rheoliadau Cytundebau Partneriaeth (Diwygio)(Cymru) 2016 a'r Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Ardal) (Cymru) 2016 DRAFFT'.

Yeandle, S. a Buckner, L. (2015) 'Valuing Carers'. Carers UK. Ar gael yn: http://www.carersuk.org/for-professionals/policy/policy-library/valuing-carers-2015.

Drafft

CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES** SOCIAL CARE AND WELL-BEING SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

# Asesiad o Boblogaeth Gogledd Cymru

## Drafft 0.1

## 24 Tachwedd 2016

Drafft

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Cyflwyniad

## Cynnwys

Cyflwyniad ....... 2

1.1 Ynglŷn â'r adroddiad ....... 4

Cynllun ardal ....... 5

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ....... 5

Beth yr ydym yn ei olygu wrth asesiad poblogaeth ac asesiad anghenion? ....... 6

1.2 Dulliau ymchwil ....... 7

Ymgynghori ac ymgysylltu ....... 7

1.3 Gwasanaethau ataliol ....... 9

Eiriolaeth ....... 9

1.4 Llywodraethu ....... 10

Llywodraethu prosiectau ....... 10

Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol Gogledd Cymru ....... 10

1.5 Trosolwg ar boblogaeth Gogledd Cymru ....... 11

Y Gymraeg ....... 12

Tlodi ac amddifadedd ....... 14

Iechyd ....... 15

1.6 Cyfyngiadau, gwersi a ddysgwyd, a'r camau nesaf ....... 16

1.7 Rhagor o wybodaeth ....... 16

Cyfeiriadau ....... 20

Draft

## Nodiadau ar adroddiad yr asesiad poblogaeth

Dyma'r adroddiad drafft terfynol, a luniwyd i'w drafod a'i gymeradwyo gan y chwe chyngor yng Ngogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar 1 Ebrill 2017, a hynny ar wefan pob cyngor a gwefan y Bwrdd Iechyd. Cyn ei gyhoeddi, bydd newidiadau'n cael eu gwneud, a bydd yr wybodaeth ganlynol yn cael ei hychwanegu.

- Gwybodaeth am sut i wneud cais am gopi o'r ddogfen mewn fformatau eraill.
- Fersiwn i blant a phobl ifanc, ynghyd â fersiwn hawdd ei deall o'r adroddiad.
- Bydd cyfeiriad gwefan ar gyfer lawrlwytho'r ddogfen yn cael ei ychwanegu, ynghyd â hyperddolenni rhwng y penodau, er mwyn hwyluso'r llywio.
- Gwybodaeth am sut i gyrchu'r adroddiad Cymraeg o'r fersiwn Saesneg, ac i'r gwrthwyneb.
- Atodiadau ychwanegol, gan gynnwys adroddiadau sy'n deillio o'r ymgynghoriad a'r gwaith ymgysylltu. Mae negeseuon allweddol eisoes wedi'u cynnwys ym mhob pennod, ac mae'r cyflwyniad yn rhoi crynodeb o'r dulliau a ddefnyddiwyd.

Trwy gydol yr adroddiad hwn, mae adrannau wedi'u huwcholeuo'n las, lle bydd angen i ddolenni i'r atodiadau gael eu hychwanegu cyn iddo gael ei gyhoeddi.

Draft

## 1.1 Ynglŷn â'r adroddiad

Mae'r adroddiad hwn yn asesu anghenion gofal a chymorth y boblogaeth yng Ngogledd Cymru, gan gynnwys anghenion cymorth gofalwyr. Fe'i lluniwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r chwe chyngor yng Ngogledd Cymru, gyda chefnogaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru, er mwyn bodloni gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf).

Nod yr adroddiad yw gwella ein dealltwriaeth o'n poblogaeth, ynghyd â sut y gallai newid dros y blynyddoedd sydd i ddod, er mwyn ein helpu i ddarparu gwell gwasanaethau cyhoeddus yng Ngogledd Cymru. Er mwyn paratoi'r adroddiad, aethom ati i edrych ar ystadegau, i siarad â chymunedau, ac i ddefnyddio amrywiaeth eang o wybodaeth a oedd wedi'i chasglu gan gynghorau lleol, gwasanaethau iechyd, elusennau, a sefydliadau eraill sy'n darparu gwasanaethau.

Mae'r adroddiad wedi'i rannu'n benodau, sy'n seiliedig ar y themâu canlynol a nodir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru.

- Plant a phobl ifanc
- Pobl hŷn
- Iechyd, anableddau corfforol a nam ar y synhwyrau:
- Anabledd dysgu ac awtistiaeth
- Iechyd Meddwl
- Gofalwyr
- Trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol
- Sefydliadau diogel
- Cyn-filwyr
- Digartrefedd

I gael gwybodaeth am gamddefnyddio sylweddau, gweler Asesiad Anghenion Camddefnyddio Sylweddau y Bwrdd Cynllunio Ardal.

Mae pob pennod yn cynnwys gwybodaeth am:

- Faint o bobl sydd dan sylw, eu profiadau, a sut y mae hyn yn cymharu ag ardaloedd eraill.
- Sut y mae pethau'n debygol o newid yn y dyfodol.
- Beth y mae pobl yn ei ddweud wrthym am eu hangen am gymorth.

Draft

- Beth y mae sefydliadau yn ei ddweud wrthym am yr angen am gymorth.

Mae'r adroddiad hefyd yn ceisio helpu i integreiddio gwasanaethau (cydweithio rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol). Dyma flaenoriaethau presennol Llywodraeth Cymru o ran integreiddio:

- Pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, gan gynnwys dementia.
- Pobl ag anabledd dysgu.
- Gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc.
- Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd.
- Plant ag anghenion cymhleth oherwydd anabledd neu salwch.

## Cynllun ardal

Bydd yr adroddiad yn cael ei ddefnyddio i lywio'r cynllun ardal, y mae'n rhaid iddo gael ei baratoi ar y cyd rhwng y bwrdd iechyd â'r cynghorau lleol, a hynny dan oruchwyliaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Yn ôl y canllawiau drafft ar y cynllun ardal, mae'n rhaid i ni gynnwys y gwasanaethau penodol sydd wedi'u cynllunio mewn ymateb i bob thema graidd sydd wedi'i nodi yn yr asesiad poblogaeth, gan gynnwys:

- y camau y bydd partneriaid yn eu cymryd mewn perthynas â'r meysydd integreiddio â blaenoriaeth ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol;
- manylion cronfeydd cyfunol i'w sefydlu mewn ymateb i'r asesiad poblogaeth;
- sut y bydd gwasanaethau'n cael eu caffael neu eu trefnu i'w darparu, gan gynnwys trwy fodelau darparu amgen;
- manylion am y gwasanaethau ataliol a fydd yn cael eu darparu neu eu trefnu;
- y camau sy'n cael eu cymryd mewn perthynas â darparu gwybodaeth, cyngor a gwasanaethau cymorth; ac
- y camau sy'n ofynnol i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Rhaid i gynllun ardal cyntaf Gogledd Cymru gael ei gyhoeddi erbyn 1 Ebrill 2018 (Llywodraeth Cymru, 2016c).

## Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae byrddau iechyd a chynghorau lleol yng Nghymru wedi cynhyrchu asesiadau poblogaeth dan gyfraith newydd a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2016, sef Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf).

Dyma'r gyfraith newydd ar gyfer gwella llesiant pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth, yn ogystal â gofalwyr y mae arnynt angen cymorth. Mae'r Ddeddf yn

Draft

newid y ffordd y mae anghenion pobl yn cael eu hasesu, a'r ffordd y mae gwasanaethau yn cael eu darparu – bydd gan bobl fwy o lais o ran y gofal a'r cymorth y maent yn ei gael. Mae'r gyfraith newydd hefyd yn hyrwyddo amrywiaeth o gymorth sydd ar gael yn y gymuned, er mwyn lleihau'r angen am gymorth ffurfiol, wedi'i gynllunio. Mae pob pennod yn cynnwys gwybodaeth am y prif newidiadau sy'n debygol o gael effaith ar y grŵp hwn o'r boblogaeth.

Roedd yr asesiad poblogaeth yn seiliedig ar ganllawiau Llywodraeth Cymru [add link] a'r pecyn cymorth a luniwyd gan Asiantaeth Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol (SSIA) [add link]. Cafwyd cyngor a chymorth ychwanegol trwy'r rhwydwaith arweinwyr asesiadau poblogaeth cenedlaethol, sy'n cael ei gydgysylltu gan SSIA.

## Beth yr ydym yn ei olygu wrth asesiad poblogaeth ac asesiad anghenion?

Rydym am ddeall anghenion gofal a chymorth pawb sy'n byw yng Ngogledd Cymru (y boblogaeth), er mwyn i ni allu cynllunio gwasanaethau'n effeithiol i ddiwallu'r anghenion hynny. Gall penderfynu beth y mae ei angen fod yn seiliedig ar yr hyn y mae pobl yn ei deimlo neu'n ei ddweud y mae arnynt ei angen, yr hyn y mae asesiadau proffesiynol yn ei ddweud y mae arnynt ei angen, neu trwy gymharu gwahanol grwpiau â'i gilydd (Bradshaw, 1972). Diffiniad arall o angen yw lle y byddai'r boblogaeth yn cael budd o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae gwahaniaeth rhwng angen, galw a chyflenwad, er bod pob un ohonynt yn gorgyffwrdd. Galw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yw'r gwasanaethau y mae pobl yn gofyn amdanynt. Gall hyn newid yn seiliedig ar ymddygiad pobl (sy'n cael ei ddylanwadu gan oedran, rhyw, addysg, dosbarth economaidd-gymdeithasol); gwybodaeth am wasanaethau; a dylanwad y cyfryngau. Mae galw hefyd yn cael ei ddylanwadu gan y cyflenwad o wasanaethau, sy'n newid yn seiliedig ar ganllawiau a thystiolaeth o effeithiolrwydd clinigol a chosteffeithiolrwydd. Mae'r galw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cynyddu gyda chyflenwad neu hygyrchedd, felly, yn aml, nid yw'n adlewyrchu'r angen am wasanaethau.

Mae asesiad anghenion yn ffordd o adolygu'r materion iechyd a gofal cymdeithasol mewn poblogaeth. Gall hyn helpu i gytuno ar flaenoriaethau a'r modd y mae adnoddau'n cael eu dyrannu, er mwyn gwella iechyd a gofal cymdeithasol, a lleihau anghydraddoldebau. Rhaid i asesiad anghenion gydbwyso'r clinigol, y moesegol a'r economaidd – yr hyn y dylid ei wneud, yr hyn y gellir ei wneud, a'r hyn y gellir ei fforddio.

Dyma wahanol ffyrdd o gynnal asesiad anghenion:

- Epidemiolegol: yr hyn yr ydym yn ei wybod am y boblogaeth, y gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd, ynghyd ag effeithiolrwydd a chosteffeithiolrwydd ymyraethau a gwasanaethau.

- Cymharol: cymharu gwasanaethau rhwng gwahanol boblogaethau, er y gall fod rhesymau eraill dros wahaniaethau, y tu hwnt i wahaniaeth o ran angen.

- Corfforaethol: yr hyn y mae pobl yn dweud wrthym y mae ei angen, gan gynnwys ymgysylltu â staff, defnyddwyr gwasanaethau, a'r gymuned (Stevens *et al.*).

Wrth lunio'r adroddiad hwn, ceisiom ddefnyddio cynifer o ddulliau gweithredu gwahanol â phosibl er mwyn canfod pa gymorth y mae ei angen, a sicrhau cydbwysedd. Rydym hefyd wedi ceisio canolbwyntio ar asedau, yn ogystal ag ar anghenion, gan gynnwys cryfderau unigol ac asedau cymunedol lleol.

## 1.2 Dulliau ymchwil

Roedd yr asesiad poblogaeth yn seiliedig ar 'ymgysylltu'. Mae hyn yn golygu ein bod wedi defnyddio'r hyn yr oedd pobl yn ei ddweud wrthym am anghenion gofal a chymorth, i lunio ein cwestiynau ymchwil. Yna, aethom ati i gasglu data o nifer o ffynonellau gwahanol, er mwyn ateb y cwestiynau a herio ein canfyddiadau cychwynnol.

**Asesiad poblogaeth mewn ffigurau**

- Aethom ati i adolygu dros 100 o bolisïau, strategaethau a chynlluniau presennol ar draws y chwe chyngor lleol a'r bwrdd iechyd.
- Cawsom 133 o ymatebion gan sefydliadau i'n harolwg ynghylch angen pobl am ofal a chymorth.
- Aethom ati i ddefnyddio canfyddiadau dros 300 o ymgyngoriadau ac adroddiadau ymchwil.
- Ar y cyd â'n partneriaid, bu i ni gynnal 16 o ddigwyddiadau a dosbarthu tri holiadur, a gyrhaeddodd dros 260 o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau.
- Cynhaliodd y Panel Dinasyddion gyfweliadau â 34 o aelodau o'r cyhoedd.
- Trefnodd cynghorau lleol tua 20 o weithdai ar gyfer staff a chynghorwyr.

### Ymgynghori ac ymgysylltu

**Dulliau ymgynghori ac ymgysylltu**

Mae gan gynghorau lleol yng Ngogledd Cymru bolisi rhanbarthol ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion (Cyngor Sir Ynys Môn *et al.*, 2016). Mae'r polisi hwn yn seiliedig ar yr egwyddorion cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yng

Draft

Nghymru, ynghyd ag egwyddorion cydgynhyrchu, a lywiodd ein cynllun ymgynghori. Cynlluniwyd proses ymgysylltu'r asesiad poblogaeth gan grŵp o staff o bob cyngor lleol, y bwrdd iechyd, ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Aethant ati i restru'r gwahanol grwpiau o bobl y gallai'r asesiad poblogaeth effeithio arnynt, ac i gynllunio sut y byddent yn eu cynnwys. Adolygwyd y rhestr hon hanner ffordd trwy'r prosiect, a chynlluniwyd cyfleoedd ychwanegol i lenwi'r bylchau. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Roedd y cynllun ymgysylltu yn cynnwys:

- Holiadur ar gyfer sefydliadau, a oedd yn gofyn am eu barn ac am unrhyw dystiolaeth ategol a oedd ganddynt, er enghraifft mesurau perfformiad neu adroddiadau ymgynghori.
- Grwpiau trafod â defnyddwyr gwasanaethau, wedi'u cefnogi gan ganllaw i hwyluswyr. Roedd rhai siroedd hefyd wedi dosbarthu holiaduron hunanlenwi.
- Holiadur ar gyfer y cyhoedd (pobl nad ydynt yn defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth) ar wefan y Panel Dinasyddion, ynghyd â chyfweliadau ag aelodau'r Panel Dinasyddion. Roedd un sir hefyd wedi dosbarthu holiadur ychwanegol i bobl nad ydynt yn defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth.
- Gweithdai â staff a chynghorwyr, wedi'u trefnu gan bob cyngor lleol.
- Adolygiad o waith ymchwil ac ymgynghori perthnasol, gan gynnwys ynghylch deddfwriaeth, strategaethau, cynlluniau comisiynu, asesiadau anghenion, ac adroddiadau ymgynghori.

Rhoddwyd cyhoeddusrwydd eang i'r ymgynghoriad, a hynny trwy'r cynghorau gwirfoddol sirol yng Ngogledd Cymru ac amrywiol rwydweithiau rhanbarthol eraill. Hyrwyddodd y cynghorau lleol a'r bwrdd iechyd yr ymgynghoriad trwy eu gwefannau, ynghyd â'u tudalennau Facebook a Twitter. Anfonwyd datganiadau i'r wasg at bapur newydd y Leader, Wrexham.com, y Daily Post, BBC Cymru, yn ogystal â gorsafoedd radio Capital a Heart. Cysylltwyd â grwpiau penodol, gan gynnwys pobl â nodweddion wedi'u diogelu, trwy grwpiau a rhwydweithiau a oedd yn bodoli eisoes (gweler yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb). Lluniwyd cylchlythyr chwarterol, a oedd yn cynnwys diweddariadau am y prosiect ar gyfer staff a sefydliadau partner, ac a fu hefyd yn fodd i nodi grwpiau i gysylltu â nhw am y gwaith ymgynghori ac ymgysylltu. Mae yna bobl o hyd nad oeddem wedi llwyddo i gysylltu â nhw o fewn yr amserlen, a'r rheiny fydd yn cael blaenoriaeth yng ngham nesaf y prosiect.

Ochr yn ochr â'r asesiad poblogaeth hwn, roedd gwaith yn mynd rhagddo i gynhyrchu asesiadau llesiant ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae yna bedwar Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngogledd Cymru a oedd yn paratoi ar gyfer hyn. Lle bo modd, roedd unrhyw waith ymgysylltu yn cael ei gynllunio i ddiwallu anghenion y ddau asesiad.

Draft

Mewn rhai ardaloedd, roedd hyn yn golygu anfon holiaduron ar y cyd, tra bo gweithdai a grwpiau trafod ar y cyd yn cael eu cynnal mewn ardaloedd eraill.

## 1.3 Gwasanaethau ataliol

Yn 2015, cynhaliwyd prosiect yng Ngogledd Cymru i edrych ar wasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar, yn barod ar gyfer y Ddeddf, a hynny gyda chefnogaeth Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gogledd Cymru (NWSCWIC). Y nod oedd datblygu fframwaith o ymyraethau targededig; cyfrannu at yr asesiad poblogaeth; darparu llinell sylfaen ar gyfer gwaith comisiynu a chaffael integredig; a chefnogi trothwyon cymhwystra cyson. Aeth y grŵp ati i asesu tystiolaeth ac asesiadau anghenion lleol, er mwyn nodi'r prif achosion neu'r ffactorau sbarduno sy'n gwneud i bobl gysylltu â gwasanaethau ac sydd, mewn llawer o achosion, yn arwain at bobl yn cael gwasanaethau gofal a chymorth a reolir. Roeddent hefyd wedi edrych ar ymyraethau a allai fynd i'r afael â ffactorau sbarduno, ac wedi'u cysylltu â chanlyniadau llesiant y Ddeddf. Yna, aeth y grŵp ati i ddatblygu offeryn asesu risg, er mwyn ystyried y risgiau o ran hygyrchedd, cyllid a threfniadaeth a oedd yn gysylltiedig ag argaeledd pob ymyrraeth ym mhob sir. Defnyddiwyd yr wybodaeth hon i greu blaenoriaethau ar gyfer gwaith yn y dyfodol.

Hefyd, yn rhan o'r asesiad poblogaeth, aeth Gwasanaeth Tystiolaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru ati i chwilio trwy lenyddiaeth, er mwyn nodi'r sail dystiolaeth ar gyfer yr ymyraethau a ddisgrifiwyd.

Mae'r gwaith hwn yn llywio rhan o asesiad poblogaeth cyffredinol Gogledd Cymru, ac mae ar gael yma: sail dystiolaeth.

### Eiriolaeth

'Ystyr eiriolaeth yw cymryd camau i helpu pobl i ddweud beth y mae arnynt ei eisiau, i sicrhau eu hawliau, i gynrychioli eu buddiannau, ac i gael y gwasanaethau y mae eu hangen arnynt.

Mae eiriolwyr a chynlluniau eiriolaeth yn gweithio mewn partneriaeth â'r bobl y maent yn eu cefnogi, ac yn ochri â nhw. Mae eiriolaeth yn hybu cynhwysiant cymdeithasol, cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol (Action for Advocacy, 2002)'

Mae Eiriolaeth yn rhan o'r portffolio o wasanaethau ataliol sydd ar gael, a chafodd ei gynnwys yn yr ymarfer asesu risg ar gyfer gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar. Hefyd, comisiynodd NWSCWIC waith ymchwil i lais a rheolaeth y dinesydd yng Ngogledd Cymru (Wavehill, 2016). Mae'r ymchwil hon yn cynnwys crynodeb o'r gwasanaethau eirioli annibynnol ledled Gogledd Cymru ar gyfer plant, pobl ifanc, ac oedolion, ac mae'n rhan o'r asesiad poblogaeth.

Yng ngham nesaf y prosiect, sef paratoi cynlluniau a strategaethau mewn ymateb i'r asesiad poblogaeth, mae angen i ni edrych ar drefniadau comisiynu'r

cynghorau a'r bwrdd iechyd lleol ar gyfer gwasanaethau eirioli, er mwyn cydnabod unrhyw orgyffwrdd posibl yn y trefniadau, ac ymateb iddo. Bydd hyn yn cynnwys gweithio'n agos gyda Rhaglen Golden Thread Age Cymru, a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r rhaglen hon yn anelu at wella llesiant unigolion trwy eiriolaeth, ac at roi llais cryfach iddynt; gwella'r ddealltwriaeth o eiriolaeth; a gweithio gyda chynghorau lleol a darparwyr gwasanaethau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a chomisiynu gwasanaethau.

## 1.4 Llywodraethu

### Llywodraethu prosiectau

Sefydlodd Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gogledd Cymru grŵp llywio rhanbarthol i arwain gwaith yr asesiad poblogaeth, gyda grwpiau technegol, ymgysylltu, a thema yn arwain ar dasgau penodol. Cadeiriwyd y grŵp llywio gan Jenny Williams, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, ac Andrew Jones, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC). Roedd pob grŵp yn cynnwys aelodau o bob cyngor lleol yng Ngogledd Cymru, ynghyd ag aelodau o BIPBC, ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae strwythur llywodraethu wedi'i atodi yn atodiad 1.

Cafodd adroddiad interim ar gynllun y prosiect ei gynhyrchu ym mis Gorffennaf, ynghyd ag adroddiadau amlygu, a gafodd eu rhannu â byrddau rhanbarthol trwy Partnership Friday, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a chynghorau lleol. Cafodd cylchlythyrau prosiect eu cynhyrchu bob chwarter (ym misoedd Mawrth, Mehefin a Medi 2016), a'u dosbarthu'n eang trwy gynrychiolwyr o'r bwrdd iechyd a phob cyngor.

### Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol Gogledd Cymru

Mae gan y bwrdd iechyd a chynghorau lleol yng Ngogledd Cymru gyfrifoldeb i sicrhau bod ganddynt drefniadau ar waith i alluogi gwasanaethau i gael eu cynllunio'n strategol, eu darparu, a'u prynu'n effeithiol, er mwyn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol. Mae angen i'r gweithgarwch cynllunio hwn ystyried Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, a Deddf Rheoleiddio Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

Er mwyn gwneud hyn, mae gan Ogledd Cymru Fwrdd Comisiynu Rhanbarthol, sy'n cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol o un o'r cynghorau, ynghyd â Chyfarwyddwr Ardal o BIPBC.

Mae'r Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol yn adrodd i'r Bwrdd Partneriaeth, sydd â'r pwerau a'r cyfrifoldebau a ddiffinnir yn Rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Draft

Mae'r Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol yn goruchwylio datblygiadau strategol o ran iechyd a gofal cymdeithasol ar draws gwasanaethau oedolion a phlant, gan sicrhau bod gwasanaethau yn seiliedig ar arfer gorau, a'u bod yn gynaliadwy ac yn darparu gwerth am arian.

Mae'n ofynnol i gynghorau lleol a byrddau iechyd weithio gyda dinasyddion, gwasanaethau trydydd sector, a darparwyr gwasanaethau eraill, i ddatblygu cynlluniau lleol mewn ymateb i'r asesiad o anghenion y boblogaeth. Gall y rhain gynnwys:

- Datganiad o Sefyllfa'r Farchnad: nod y ddogfen hon yw rhoi datganiad clir am y strategaeth a'r modd y mae gwasanaethau'n cael eu datblygu mewn ardal benodol; dylai hyn ddarparu gwybodaeth i'r 'farchnad' (darparwyr gwasanaethau) i'w helpu i wneud penderfyniadau busnes da.
- Strategaeth/Cynllun Comisiynu: mae'n ystyried pa wasanaethau sydd ar waith yn barod, a pha mor dda y maent yn ymateb i'r hyn y mae ar bobl ei angen 'nawr, ac yn y dyfodol, yn ogystal â'r hyn y mae polisi a/neu ddeddfwriaeth yn ei ddweud. Dylai'r cynllun neu strategaeth wedyn fanylu ar sut y bydd yr awdurdodau comisiynu (y cynghorau a/neu'r bwrdd iechyd) yn defnyddio eu hadnoddau (gan gynnwys arian, pobl, ac adeiladau) i ddiwallu'r anghenion hynny orau. Gall hyn olygu rhoi'r gorau i ddarparu gwasanaethau nad ydynt yn darparu tystiolaeth eu bod yn diwallu anghenion neu'n darparu gwerth am arian, a manylu ar ffyrdd eraill o ddiwallu'r anghenion hynny yn y dyfodol.

## 1.5 Trosolwg ar boblogaeth Gogledd Cymru

Mae gan Ogledd Cymru boblogaeth breswyl o oddeutu 690,000 o bobl, a hynny dros ardal o oddeutu 2,500 milltir sgwâr. Gwynedd, yn y gorllewin, yw'r ardal sydd â'r dwysedd poblogaeth isaf, gyda 49 o bobl fesul cilometr sgwâr, a Sir y Fflint, yn y dwyrain, yw'r ardal sydd â'r dwysedd poblogaeth uchaf, gyda 350 o bobl fesul cilometr sgwâr.

Disgwylir i boblogaeth Gogledd Cymru gynyddu i 720,000 erbyn 2039. Gellir priodoli poblogaeth gynyddol Gogledd Cymru i gyfradd genedigaethau sy'n cynyddu a chyfradd marwolaethau sy'n gostwng, sydd wedi arwain at ddisgwyliad oes estynedig (Llywodraeth Cymru, 2016a).

Disgwylir i boblogaeth y rhan fwyaf o gynghorau lleol yng Nghymru gynyddu rhwng 2014 a 2039. Disgwylir mai Wrecsam fydd yn gweld y cynnydd ail fwyaf yng Nghymru (10%); disgwylir i boblogaethau Gwynedd a Wrecsam gynyddu'n raddol; disgwylir i boblogaeth Ynys Môn ostwng yn raddol; a disgwylir i boblogaethau Conwy, Sir Ddinbych a Sir y Fflint gynyddu, cyn gostwng, ond gan barhau'n uwch yn 2039 nag yr oeddent yn 2014.



Draft

**Ynys Môn**

Mae'r gostyngiad o 2.6% ym mhoblogaeth Ynys Môn (bron 2,000 o bobl) yn ganlyniad i newidiadau naturiol. Er y bydd yna lai o blant a phobl ifanc, disgwylir i nifer y bobl 75 oed a hŷn gynyddu tua 5,500.

**Gwynedd**

Rhwng 2014 a 2039, disgwylir i boblogaeth Gwynedd dyfu 8.4% (ychydig dros 10,000 o bobl). Disgwylir i'r cyfan bron o'r cynnydd fod yn y boblogaeth 75 oed a hŷn, a disgwylir i'r boblogaeth 85 oed a hŷn gynyddu 122% (4,700 o bobl). Bydd tua 75% o'r cynnydd a ragwelir yn ganlyniad i ymfudo net (7,800).

**Conwy**

Disgwylir i boblogaeth Conwy gynyddu 1.7% (bron 2,000 o bobl) rhwng 2014 a 2039. Disgwylir i boblogaeth iau y sir ostwng, ac i'r boblogaeth 75 oed a hŷn gynyddu tua 10,000. Bydd ymfudo net yn cyfrif am gynnydd o 12,600 yn y boblogaeth, a hynny wedi'i lywio gan ymfudo mewnol;  bydd newidiadau naturiol i lawr 4,100.

**Sir Ddinbych**

Disgwylir i boblogaeth Sir Ddinbych gynyddu 2.7% (tua 2,500 o bobl) rhwng 2014 a 2039. Disgwylir i'r boblogaeth 75 oed a hŷn gynyddu 7,500, ond, ar yr un pryd, disgwylir i'r boblogaeth 18-74 oed ostwng 4,800. Bydd ymfudo net yn cyfrif am gynnydd o 6,600 yn y boblogaeth, a hynny wedi'i lywio gan ymfudo mewnol; bydd newidiadau naturiol i lawr 4,100.

**Sir y Fflint**

Disgwylir i boblogaeth Sir y Fflint gynyddu 1.3% (tua 2,100 o bobl). Disgwylir i niferoedd y menywod dan 59 oed a'r dynion dan 64 oed ostwng; disgwylir i'r boblogaeth 75 oed a hŷn gynyddu 13,500. Bydd ymfudo net yn cyfrif am ostyngiad o 1,000 yn y boblogaeth rhwng 2014 a 2039 (wedi'i lywio gan ymfudo mewnol); bydd newidiadau naturiol yn cyfrif am gynnydd pellach o 3,000.

**Wrecsam**

Rhwng 2014 a 2039, disgwylir i boblogaeth Wrecsam gynyddu 9.7% (tua 13,3000 o bobl). Disgwylir i niferoedd yr aelodau ieuengaf o'r boblogaeth, 0-4 oed a 5-10 oed, ostwng, gyda'r cynnydd mwyaf yn y grwpiau oedran hŷn.  Bydd ymfudo net yn cyfrif am gynnydd o 8,600 yn y boblogaeth, a fydd yn cael ei lywio gan ymfudo rhyngwladol; bydd newidiadau naturiol yn cyfrif am gynnydd pellach o 4,700.

## Y Gymraeg

‘Un o egwyddorion allweddol *Mwy na geiriau...* yw’r Cynnig Rhagweithiol. Ystyr Cynnig Rhagweithiol yn syml yw darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano.



Draft

Mae'n golygu creu newid mewn diwylliant, sy'n cymryd y cyfrifoldeb oddi ar yr unigolyn ac yn ei osod ar ddarparwyr gwasanaethau, a heb gymryd yn ganiataol fod yr holl siaradwyr Cymraeg yn siarad Saesneg beth bynnag.' (Welsh Government, 2016b)

Mae pob pennod o'r adroddiad yn cynnwys adran ar yr angen am ddarpariaeth Gymraeg i gefnogi'r boblogaeth ac i gyflawni egwyddorion *Mwy na geiriau.* Yn benodol, dyma'r grwpiau lle mae'r Gymraeg yn elfen fwy allweddol neu sylfaenol byth o'r gwasanaethau a ddarperir:

- plant a phobl ifanc;
- pobl hŷn;
- pobl ag anabledd dysgu;
- pobl â phroblemau iechyd meddwl;
- pobl â dementia
- pobl sydd wedi cael strôc; a
- phobl y mae arnynt angen cymorth gan wasanaethau therapi lleferydd ac iaith.

Yng Ngogledd Cymru, Gwynedd sydd â'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg, sef 65%, er y gall y gyfran hon fod yn uwch mewn rhai ardaloedd o'r sir. Mewn rhannau eraill o Ogledd Cymru, mae 57% o breswylwyr Ynys Môn yn siarad Cymraeg, 27% yng Nghonwy, a 25% yn Sir Ddinbych. Mae cyfran y siaradwyr Cymraeg yn Sir y Fflint (13.2%) a Sir Ddinbych (12.9%) yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Mae'r holl ardaloedd cynghorau lleol yng Ngogledd Cymru wedi gweld gostyngiad yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg rhwng Cyfrifiad 2001 a 2011, gyda'r gostyngiad mwyaf yng Ngwynedd (-3.6%). Mae ychydig dros hanner (53%) y siaradwyr Cymraeg yng Ngogledd Cymru yn rhugl yn yr iaith, ac mae 63% yn siarad Cymraeg yn ddyddiol; yng Ngwynedd, mae 78% o'r preswylwyr sy'n siarad Cymraeg yn rhugl, ac mae 85% yn siarad Cymraeg bob dydd.

Mae lefel y siaradwyr Cymraeg, yn arbennig yng ngogledd-orllewin y rhanbarth, yn dylanwadu ar nifer y bobl sy'n dewis cael gwasanaethau yn Gymraeg. Yng Ngwynedd, mae 37% o bobl yn ceisio defnyddio'r Gymraeg bob amser wrth gysylltu â gwasanaethau cyhoeddus. Ym maes gofal sylfaenol, mae 1.8 meddyg teulu fesul 100,000 o'r boblogaeth yng Ngogledd Cymru yn gallu siarad Cymraeg; ar lefel cynghorau lleol, Gwynedd sydd â'r raddfa uchaf, sef 4 meddyg teulu fesul 100,000 o'r boblogaeth, sy'n gallu siarad Cymraeg, a Sir y Fflint sydd â'r raddfa isaf, sef 0.5 fesul 100,000 o'r boblogaeth. Ymhlith y gweithwyr iechyd proffesiynol eraill yng Ngogledd Cymru, therapyddion lleferydd ac iaith sy'n cyfrif am y gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg (46%), yna parafeddygon (44%); mae ychydig dros 30% o'r nyrsys sy'n gweithio yn y rhanbarth yn gallu siarad Cymraeg (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2016c). Ledled Gogledd Cymru, mae gan 81% o fusnesau staff sydd â sgiliau Cymraeg, ac mae 45% o'r cyflogeion yng Ngwynedd, a 31% o'r cyflogeion yn Ynys Môn, bob

Draft

amser yn siarad Cymraeg â'u cydweithwyr Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, 2016).

## Tlodi ac amddifadedd

Yng Ngogledd Cymru, mae 12% o'r boblogaeth yn byw yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, o gymharu ag 19% ledled Cymru; fodd bynnag, mae hyn yn celu'r pocedi sylweddol o amddifadedd ar draws y rhanbarth, y mae rhai ohonynt ymhlith y lefelau uchaf o amddifadedd yng Nghymru. Gorllewin y Rhyl 2 (Sir Ddinbych) a Queensway 1 (Wrecsam) yw'r ail a'r drydedd ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru, yn y drefn honno. Mae tair ardal arall yn y Rhyl (Gorllewin y Rhyl 1, Gorllewin y Rhyl 3, a De y Rhyl), o blith yr 20 ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2014).

Ar gyfartaledd, mae pobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn byw bywydau byrrach na'r rheiny sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig. Gwynedd sydd â'r bwlch anghydraddoldeb lleiaf yng Nghymru gyfan o ran dynion (3.4 mlynedd); Sir Ddinbych sydd â'r pedwerydd bwlch mwyaf yng Nghymru (11 mlynedd). Mae hyn yn awgrymu bod dynion yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig o Sir Ddinbych yn byw, ar gyfartaledd, 11 mlynedd yn llai na'r rheiny yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig yn yr un sir. Mae'r gwahaniaeth ar gyfer menywod hefyd ar ei fwyaf yn Sir Ddinbych, lle mae menywod yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig o'r sir yn byw, ar gyfartaledd, 8.4 mlynedd yn llai na'r rheiny yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig o Sir Ddinbych (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2016b).

Mae canlyniadau addysgol yn cael effaith ar incwm a safonau byw, sydd, yn eu tro, yn effeithio ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl. Ledled Gogledd Cymru, mae canran y preswylwyr rhwng 16 a 74 oed nad oes ganddynt unrhyw gymwysterau academaidd neu broffesiynol, yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (25.9%), ac eithrio Wrecsam (26.7%). Mae cryn amrywiaeth ar lefel leol o fewn y siroedd (Y Swyddfa Ystadegau Gwaldol, 2011).

Mae diweithdra'n gysylltiedig â phroblemau ariannol, gofid, pryder, iselder, ac ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag iechyd gwael. Mae ychydig dros 5% o'r preswylwyr o oedran gweithio yng Nghymru yn ddi-waith yn yr hirdymor, neu nid ydynt erioed wedi gweithio. Ledled Gogledd Cymru, mae pob un o'r cynghorau lleol islaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru; fodd bynnag, mae cryn amrywiaeth o hyd o fewn y siroedd (Y Swyddfa Ystadegau Gwaldol, 2011).

Mae tai yn cael effaith bwysig ar iechyd, addysg, gwaith, a'r cymunedau lle'r ydym yn byw. Ledled Cymru, roedd 77% o'r bobl sy'n byw mewn tai perchen-feddianwyr yn fodlon iawn ar eu llety, o gymharu â 52% o'r bobl sy'n byw mewn llety rhent preifat, a 48% o'r bobl sy'n byw mewn tai cymdeithasol (Llywodraeth Cymru, 2015a).

Mae mwyafrif y bobl yng Nghymru yn dweud bod ganddynt ddigon o arian i wresogi eu cartref; fodd bynnag, mae yna wahaniaeth ar draws y math o ddeiliadaeth, gyda 96% o'r bobl sy'n byw mewn tai perchen-feddianwyr yn ennill digon o arian i wresogi eu cartref, o gymharu ag 89% o'r tenantiaid mewn tai rhent preifat, ac 87% o'r rheiny mewn tai cymdeithasol (Llywodraeth Cymru, 2015a).

Mae cynnydd mawr wedi bod yn nifer y bobl syn ddigartref yng Nghymru, gyda chynnydd o 16 i 25% rhwng 2007 a 2012. Yng Nghymru, mae hyn wedyn yn cynrychioli cyfartaledd o 39 o aelwydydd y derbynnir eu bod yn ddigartref fesul 10,000 o aelwydydd (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2016a).

Mae amgylchedd diogel, heb droseddu, yn cyfrannu'n sylweddol at gydlyniant cymunedol ac ymdeimlad pobl o les. Gall pryder ynghylch troseddu effeithio ar iechyd meddwl pobl. Mae cysylltiad cryf rhwng cymdogaethau difreintiedig sydd ag eiddo gwag, tai heb eu cynnal, graffiti, ac arwyddion gweladwy o weithgarwch troseddol, ac ofn troseddu, ac mae hyn yn gysylltiedig ag iechyd a lles hunanganfyddedig gwael. Ledled Gogledd Cymru, mae bron 81% o'r preswylwyr yn teimlo'n ddiogel ar ôl iddi nosi, sydd yr un fath â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Mae lefelau cynghorau lleol yn amrywio o 74% yn Wrecsam i 89% yng Ngwynedd. Yng Ngogledd Cymru, mae 74% o'r preswylwyr yn fodlon ar yr ardal leol, sydd ychydig uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef 71%. Mae lefelau boddhad cynghorau lleol yn amrywio o 70% yn Wrecsam i 77% yn Ynys Môn (Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2015).

## Iechyd

Gall cyflyrau cronig gael effaith sylweddol ar unigolion, teuluoedd, a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Ynys Môn sydd â'r ganran uchaf o gleifion sydd wedi'u cofrestru'n bobl â chyflwr cronig (39%), a Gwynedd sydd â'r ganran isaf (33%). Pwysedd gwaed uchel yw'r cyflwr sydd gan y nifer mwyaf o gleifion ar y gofrestr ( Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2016).

Clefyd y galon, canserau a chlefyd anadlol yw tri phrif achos marwolaeth a marw cyn pryd yng Ngogledd Cymru, ac maent yn rhannu ffactorau risg cyffredin – tybaco, alcohol, anweithgarwch corfforol, a deiet afiach. Mae yna gysylltiad cryf rhwng ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag iechyd, ac amddifadedd, ac mae amrywiadau i'w gweld ledled Gogledd Cymru.

Mae cyfraddau smygu yn amrywio'n sylweddol fesul ardal, yn unol â lefelau amddifadedd ac yn ôl graddiant economaidd-gymdeithasol. Mae 22% o'r oedolion yng Ngogledd Cymru yn dweud eu bod yn smygu, o gymharu ag 20% ledled Cymru. Ynys Môn a Sir Ddinbych sydd â'r amlder smygu uchaf, sef 24% (Llywodraeth Cymru, 2015b).

Draft

Mae dros hanner y boblogaeth yng Ngogledd Cymru (58%) yn dweud eu bod dros bwysau neu'n ordew, sydd ychydig islaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef 59%. Ledled Gogledd Cymru, Gwynedd sydd â'r ganran isaf o oedolion sydd dros bwysau ac yn ordew, sef 53%, a Sir Ddinbych sydd â'r ganran uchaf, sef 61% (Llywodraeth Cymru, 2015b).

Mae nifer y plant sydd dros bwysau neu'n ordew hefyd wedi cynyddu'n ddramatig, ac mae hyn yn ffactor arwyddocaol sy'n achosi salwch cronig yn ystod plentyndod. Mae ychydig yn llai na 28% o'r plant rhwng pedwar a phump oed yng Ngogledd Cymru dros bwysau, o gymharu ag ychydig dros 26% ledled Cymru. Ynys Môn sydd â'r ganran uchaf o blant pedwar a phump oed sydd dros bwysau yng Nghymru, sef 32% (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2014/15).

## 1.6 Cyfyngiadau, gwersi a ddysgwyd, a'r camau nesaf

Mae paratoi un asesiad poblogaeth hygyrch ar draws chwe sir ac un bwrdd iechyd o fewn yr amserlenni a osodwyd, wedi bod yn broses heriol. Mae llawer iawn wedi cael ei gyflawni o fewn yr amserlenni, a hynny'n ddiolch i ymdrechion: tîm y prosiect; grŵp llywio'r prosiect, y grŵp technegol, a'r grŵp ymgysylltu; sefydliadau partner a gyfrannodd wybodaeth a chanllawiau; aelodau o staff, aelodau etholedig, defnyddwyr gwasanaethau ac aelodau o'r cyhoedd, a gymerodd ran yn y gwaith ymgysylltu; y grwpiau a ysgrifennodd y penodau; a'r llu o bobl a fu wrthi'n adolygu ac yn gwneud sylwadau ar ddrafftiau cynnar o bob pennod.

Serch hynny, rydym wedi dysgu llawer o'r broses, ac mae llawer o waith i'w wneud o hyd. Dylai'r asesiad poblogaeth gael ei ystyried yn ddechrau proses, yn hytrach nag yn gynnyrch gorffenedig. Lle y mae cyfyngiadau wedi'u nodi yn yr adroddiad, gellir mynd i'r afael â'r rhain mewn gwaith ar y cynllun ardal, ac yn yr adolygiad o'r asesiad poblogaeth. Mae'r canllawiau'n nodi bod angen i'r asesiad gael ei adolygu ymhen dwy flynedd, o leiaf, tra bo'r pecyn cymorth yn argymell y dylai gael ei adolygu'n amlach.

Mae rhai o'r materion a nodwyd yn ystod y broses, y mae angen mynd i'r afael â nhw, wedi'u rhestru isod.

- Bydd yr adroddiad yn darparu sail dystiolaeth ar gyfer gwasanaethau a strategaethau, ac yn ategu'r gwaith o integreiddio gwasanaethau a chefnogi trefniadau partneriaeth. Dylai fod yn offeryn defnyddiol i gynllunwyr a chomisiynwyr mewn awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd. Fodd bynnag, mae angen strategaethau comisiynu a datganiadau o sefyllfa'r farchnad, er mwyn nodi'r cynllun a'r weledigaeth leol ar gyfer gwasanaethau mewn ardal, ynghyd â'r cymorth sydd ar gael ar gyfer darparwyr.
- Mae'r adroddiad yn cynnwys crynodeb o'r gwasanaethau sydd ar gael ar hyn o bryd, ond nid yw'n eu disgrifio'n fanwl nac yn ceisio mapio'r holl ddarpariaeth

Draft

leol. Oherwydd cymhlethdod y dasg hon, efallai y byddai'n well blaenoriaethu meysydd ar gyfer y math hwn o adolygiad.

- Mae'r adroddiad yn cynnwys peth gwybodaeth mesur perfformiad gwasanaeth lefel uchel, ond nid yw'n cynnwys dadansoddiad manwl o ddangosyddion perfformiad y tu hwnt i'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn y catalog o ddata cenedlaethol neu'r dadansoddiad o gyllidebau neu wariant gwirioneddol gwasanaeth.
- Mae yna grwpiau nad oeddem wedi gallu eu cynnwys yn y gwaith ymgynghori ac ymgysylltu, a'r rhain a ddylai gael blaenoriaeth mewn gwaith yn y dyfodol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y cynllun ymgysylltu a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [add link].
- Mae angen i'r adroddiad gael cyhoeddusrwydd eang, er mwyn adeiladu ar y cysylltiadau a wnaed hyd yma a chyrraedd pobl nad ydynt wedi cael cyfle i fod yn rhan o gam cyntaf y prosiect.
- Cysylltu'r asesiad poblogaeth a'r asesiadau llesiant a gynhyrchwyd gan y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r asesiad poblogaeth yn cynnwys anghenion gofal a chymorth pobl, tra bo'r asesiad llesiant yn ymdrin â ffyniant, iechyd, cydnerthedd, cydraddoldeb, diwylliant bywiog, cyfrifoldeb byd-eang, a chymunedau cydlynus. Mae'r asesiadau wedi cael eu cynnal ochr yn ochr â'i gilydd, ac mae'r swyddogion sydd wedi bod yn rhan o'r ddau ohonynt wedi cydweithio ar elfennau o'r prosiectau. Serch hynny, bydd mwy o gysylltiadau yn dod i'r amlwg wrth iddynt gael eu cyhoeddi.
- Mae yna bobl sydd ag anghenion gofal a chymorth y mae eu hanghenion penodol y tu hwnt i'r themâu yr ymdrinnir â nhw ym mhenodau'r adroddiad. Mae angen gwneud rhagor o waith i nodi eu hanghenion, ynghyd â'r bobl sydd ag anghenion lluosog neu gymhleth.

Yn ogystal â'r uchod, mae materion penodol wedi'u nodi ar ddiwedd pob pennod, er mwyn gwneud gwaith pellach yn y dyfodol.

Mae gwersi hefyd wedi'u dysgu am y broses, sydd wedi'u cofnodi, a byddant yn cael eu defnyddio i lywio'r gwaith ar y cynllun ardal a'r adolygiad o'r asesiad poblogaeth.

## 1.7 Rhagor o wybodaeth

Roedd llawer mwy o wybodaeth wedi cael ei chasglu i lywio'r adroddiad hwn nag y bu modd ei chynnwys. Mae'r wybodaeth gefndir ganlynol ar gael ar gais [add link to contact details on website]:

Draft

- Catalog data, sy'n rhestru dros 300 o wahanol ddangosyddion poblogaeth a mesurau perfformiad a argymhellir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer yr asesiad poblogaeth.
- Data wedi'u lawrlwytho o'r catalog data ar gyfer pob un o'r chwe sir yng Ngogledd Cymru. Noder bod y data hwn hefyd ar gael o wefannau, gan gynnwys StatsCymru, Daffodil Cymru, a NOMIS, lle y gallent fod wedi cael eu diweddaru ers iddynt gael eu lawrlwytho ar gyfer yr asesiad poblogaeth. Mae ffynhonnell wreiddiol y data wedi'i rhestru ar y catalog data. Mae maint y ffeil gyfan yn rhy fawr i'w hanfon trwy e-bost, felly nodwch y data y mae gennych ddiddordeb ynddynt.
- Mynediad at y llyfrgell gyfeiriadau a ddefnyddiwyd ar gyfer yr asesiad poblogaeth, sydd wedi'i storio yn Endnote ar-lein, neu gopi o'r rhestr lawn o gyfeiriadau neu benodau unigol mewn fformat testun cyfoethog.

Draft

## Atodiad 1: Strwythur Llywodraethu Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru




Draft

### Strwythur rheoli'r prosiect



# Cyfeiriadau


Bradshaw, J. (1972) 'A taxonomy of social need', yn McLachlan, G. (gol.) *Problems and progress in medical care*. Seventh series NPHT/Gwasg y Brifysgol Agored.

Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, a Chyngor Sir Wrecsam (2016) 'Polisi Ymgysylltu â Dinasyddion Rhanbarthol Gogledd Cymru'.

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (2016) 'Regional skills and employment plan' *Appendix 2: Welsh Language*.

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2011) 'Data'r cyfrifiad'. Ar gael yn: https://www.nomisweb.co.uk/census/2011/data_finder (Cyrchwyd: 2 Tachwedd 2016).

Iechyd Cyhoeddus Cymru (2014/15) 'Rhaglen Mesur Plant Cymru'. Ar gael yn: http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/67941.

Iechyd Cyhoeddus Cymru (2016a) 'Final report of the health care needs assessment and health profile: homeless people' Ar ran Cynllun Gweithredu ar Iechyd Grwpiau Digartref ac Agored i Niwed Gogledd Cymru/ BIPBC.

Iechyd Cyhoeddus Cymru (2016b) 'Meser anghydraddoldebau 2016'. Ar gael yn: http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/922/tudalen/87264 (Cyrchwyd: 08 Awst 2016).

Iechyd Cyhoeddus Cymru (2016c) 'Proffil o iechyd poblogaeth Gogledd Cymru, i gefnogi asesiad anghenion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac asesiad llesiant ar gyfer Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol' Tîm Iechyd y Cyhoedd Gogledd Cymru.

Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru (2015) 'Offeryd Adrodd ar Asedau Iechyd'. Iechyd Cyhoeddus Cymru. Ar gael yn: http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/922/tudalen/79375.

Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru (2016) 'General Practice Population Profiles'. Iechyd Cyhoeddus Cymru. Ar gael yn: http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/922/tudalen/87863.

Stevens, A., Raferty, J. a Mant, J. 'An introduction to HCNA'. Ar gael yn: http://www.hcna.bham.ac.uk/introduction.shtml (Cyrchwyd: 23/05/2016).

Wavehill (2016) 'Research into Citizen Voice and Control in North Wales'. Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gogledd Cymru.

Llywodraeth Cymru (2014) 'Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru'. Ar gael yn: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Welsh-Index-of-Multiple-Deprivation/WIMD-2014/wimd2014.

Llywodraeth Cymru (2015a) 'Arolwg Cenedlaetol Cymru 2014-15'. Ar gael yn: http://gov.wales/docs/statistics/2016/160608-national-survey-wales-2014-15-accommodation-energy-saving-measures-en.pdf.


Draft

Llywodraeth Cymru (2015b) *Arolwg Iechyd Cymru*. Ar gael yn: http://gov.wales/statistics-and-research/welsh-health-survey/?skip=1&lang=cy.

Llywodraeth Cymru (2016a) 'Local authority population projections for Wales (2014-based): Principal projection'. Ar gael yn: http://gov.wales/docs/statistics/2016/160929-local-authority-population-projections-2014-based-en.pdf (Cyrchwyd: 17 Hydref 2016).

Llywodraeth Cymru (2016b) 'Mwy na geiriau' *Fframwaith Strategol olynol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyfd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol 2016-2019*. Ar gael yn: http://gov.wales/topics/health/publications/health/guidance/words/?lang=cy (Cyrchwyd: 26 Gorffenna 2016).

Llywodraeth Cymru(2016c) 'Canllawiau Statudol i gefnogi gweithredu Rheoliadau Cytundebau Partneriaeth (Diwygio) (Cymru) 2016 a Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Ardal) (Cymru) 2016 DRAFFT'.

Drafft

# 2 Plant a Phobl Ifanc

## Cynnwys

2 Plant a Phobl Ifanc ........................................................................ 1

2.0 Ynglŷn â'r bennod hon ........................................................................ 4

Sut y bydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('y Ddeddf') yn newid pethau? ........................................................................ 5

2.1 Trosolwg ar y boblogaeth ........................................................................ 11

Diffiniadau ........................................................................ 11

Beth yr ydym yn ei wybod am y boblogaeth? ........................................................................ 11

Iechyd plant a phobl ifanc yng Ngogledd Cymru ........................................................................ 12

2.2 Plant a phobl ifanc y mae arnynt angen gofal a chymorth ........................................................................ 14

Diffiniad ........................................................................ 14

Beth yr ydym yn ei wybod am y boblogaeth? ........................................................................ 15

Ffoaduriaid a cheiswyr lloches ........................................................................ 19

2.3 Plant sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ........................................................................ 21

Beth yr ydym yn ei wybod am y boblogaeth? ........................................................................ 21

Beth y mae pobl yn ei ddweud wrthym? ........................................................................ 22

Rhagor o wybodaeth ........................................................................ 23

2.4 Plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ........................................................................ 24

Beth yr ydym yn ei wybod am y boblogaeth? ........................................................................ 24

Mabwysiadu ........................................................................ 27

Beth y mae pobl yn ei ddweud wrthym? ........................................................................ 28

2.5 Plant sy'n ymwneud â throseddu, sy'n ymddwyn yn wrthgymdeithasol ac sy'n dioddef troseddau ........................................................................ 31

Y boblogaeth ........................................................................ 31

Troseddwyr ........................................................................ 31

2.6 Plant anabl ........................................................................ 35

Diffiniad ....................................................................................................35

Diogelu ......................................................................................................35

Beth yr ydym yn ei wybod am y boblogaeth? ...................................................35

Beth y mae pobl yn ei ddweud wrthym? ...........................................................37

Adolygiad o'r gwasanaethau a ddarperir ............................................................39

2.7 Iechyd meddwl plant a phobl ifanc ............................................................41

Beth yw ystyr y term iechyd meddwl?................................................................41

Beth yr ydym yn ei wybod am y boblogaeth? ...................................................41

Adolygiad o'r gwasanaethau.............................................................................46

2.8 Ymyrraeth gynnar, atal a rhianta ...............................................................49

Rhagarweiniad..................................................................................................49

Beth yw ystyr atal ac ymyrraeth gynnar?............................................................50

Beth yw ystyr rhianta a chefnogaeth i rieni? .......................................................51

Pam yr ydym yn rhoi cefnogaeth i rieni?.............................................................52

Beth yr ydym y ei wybod am y boblogaeth? .......................................................53

Y gwasanaethau sydd ar gael ...........................................................................56

2.9 Gofalwyr ifanc............................................. **Error! Bookmark not defined.**

Diffiniadau ......................................................... **Error! Bookmark not defined.**

Beth yr ydym yn ei wybod am y boblogaeth? ....... **Error! Bookmark not defined.**

Adolygiad o'r gwasanaethau a ddarperir ............. **Error! Bookmark not defined.**

Beth y mae gofalwyr ifanc wedi ei ddweud wrthym? ...........**Error! Bookmark not defined.**

Adolygiad o'r gwasanaethau a ddarperir ............. **Error! Bookmark not defined.**

2.10 Plant a phobl ifanc heb anghenion gofal a chymorth .............................58

2.11 Casgliad ac argymhellion ........................................................................59



Draft

Yr argymhellion a'r camau nesaf ..... 60

Cydraddoldeb a hawliau dynol ..... 61

Cyfeiriadau ..... 62

Drafft

# 2.0 Ynglŷn â'r bennod hon

Mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar anghenion gofal a chymorth plant a phobl ifanc. Trefnwyd y bennod yn unol â'r themâu canlynol:

**2.1 Trosolwg ar y boblogaeth**

**2.2. Plant a phobl ifanc y mae arnynt angen gofal a chymorth: 'plentyn mewn angen' gynt, gan gynnwys ffoaduriaid a cheiswyr lloches**

**2.3 Plant a phobl ifanc sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant**

**2.4 Plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal (gan gynnwys maethu, mabwysiadu, ymadawyr gofal, a phlant sydd mewn cartrefi plant ac a leolwyd gan awdurdodau lleol eraill)**

**2.5 Plant sy'n ymwneud â throseddu, sy'n ymddwyn yn wrthgymdeithasol ac sy'n dioddef troseddau**

**2.6 Plant anabl**

**2.7 Iechyd meddwl plant a phobl ifanc**

**2.8 Ymyrryd yn gynnar ac atal**

Mae rhagor o wybodaeth am anghenion plant a phobl ifanc i'w gael mewn penodau eraill o'r adroddiad.

- Iechyd, anableddau corfforol a nam ar y synhwyrau [Add link]
- Anabledd dysgu ac awtistiaeth [Add link]
- Gofalwyr [Add link]
- Iechyd meddwl [Add link]
- Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol [Add link]
- Sefydliadau Diogel [Add link]
- Cyn-filwyr [Add link]
- Digartrefedd [Add link]

Gellir dod o hyd i wybodaeth benodol am y canlynol:

- Pontio: mae gwybodaeth wedi'i chynnwys yn yr holl benodau perthnasol eraill
- Gofalwyr ifanc: mae gwybodaeth wedi'i chynnwys yn y bennod ar ofalwyr
- Tlodi plant: mae cysylltiad rhwng tlodi plant a'r anghenion am ofal a chymorth y rhoddir sylw iddynt yn y bennod hon. Mae hwn yn fater y mae angen mynd i'r afael ag ef yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. I gael



Draft

rhagor o wybodaeth, gweler yr asesiad rhanbarthol o anghenion teuluoedd diamddiffyn a gafodd ei lunio ar gyfer Rhaglenni Teuluoedd yn Gyntaf Gogledd Cymru, ynghyd â'r Asesiadau Llesiant sy'n cael eu llunio gan y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus [add links]

- Pobl ifanc mewn sefydliadau diogel: gwybodaeth wedi'i chynnwys yn y bennod ar sefydliadau diogel

## Sut y bydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('y Ddeddf') yn newid pethau?

Mae egwyddorion y Ddeddf fel a ganlyn:

- Pobl: rhoi'r unigolyn yn y canol drwy roi llais cryfach iddo a mwy o reolaeth dros y gwasanaethau y mae'n eu derbyn.
- Llesiant: cefnogi pobl i sicrhau eu llesiant eu hunain gan adeiladu ar amgylchiadau, gallu, rhwydweithiau a chymunedau.
- Ymyrraeth gynnar: mwy o wasanaethau ataliol, yn cefnogi pobl cyn i'w hanghenion droi'n argyfyngus.
- Cydweithio: mwy o weithio mewn partneriaeth rhwng yr holl bartïon dan sylw.

Mae dyletswydd hollgyffredinol yn y Ddeddf i hyrwyddo llesiant. Mae'r diffiniad o 'lesiant' yn cynnwys: iechyd corfforol ac iechyd meddwl a llesiant emosiynol; amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod; addysg, hyfforddiant a gweithgareddau hamdden; perthnasoedd teuluol a phersonol; cyfraniad a wneir at y gymuned leol; sicrhau hawliau a hawlogaethau; llesiant cymdeithasol ac economaidd (gan gynnwys peidio â byw mewn tlodi); a byw mewn llety preswyl addas.

### Newid y cysyniad 'plentyn mewn angen'

Nid yw'r cysyniad 'plentyn mewn angen' a welir yn Neddf Plant 1989 yn cael ei ailadrodd yn y ddeddf newydd (Llywodraeth Cymru, 2016). Mae'r Ddeddf yn cyfeirio at blant a phobl ifanc y mae arnynt angen gofal a chymorth, sef angen a ddiffinnir ar sail y gallu i wireddu'r canlyniadau llesiant, a amlinellir yn y Ddeddf, ynghylch addysg, iechyd ac ati.

Draft

**Asesiadau a phrosesau**

*Cynllunio ac adolygu gofal a chymorth (Cyngor Gofal Cymru, 2015a)*




O dan y ddeddf newydd, bydd gan bob plentyn y mae arno angen gofal a chymorth gynllun gofal a chymorth, a bydd y cynllun yn disodli’r cynllun plant mewn angen, y cynllun amddiffyn plant a’r cynllun plant sy’n derbyn gofal. Mae cynghorau lleol wrthi’n symud i’r system hon ar hyn o bryd.

Os ceir atgyfeiriad ynghylch plentyn y mae arno angen gwasanaeth, yna asesir y plentyn. Os oes angen gwasanaeth gofal cymdeithasol ar y plentyn, bydd yn cael cynllun gofal a chymorth. Os bydd yr achos yn datblygu, maes o law, yn un Amddiffyn Plant, cedwir y cynllun gofal a chymorth ond bydd y cynnwys yn newid er mwyn canolbwyntio ar amddiffyn y plentyn. Bydd y broses gymhwystra’n ystyried y teulu cyfan, a dim ond pan nad yw’r teulu’n gallu diwallu anghenion y plentyn a gwireddu’r canlyniadau a amlinellir yn y Ddeddf, ynghylch addysg, iechyd ac ati, y bydd y gwasanaethau plant yn darparu cefnogaeth.

Bydd sylw’n cael ei roi i sgyrsiau am ‘yr hyn sy’n bwysig’, asesiad di-dor a chymesur o’r anghenion lleiaf i’r anghenion mwyaf, sylw mwy cyffredinol i wybodaeth, cyngor a chynhorthwy, a dull yn seiliedig ar gryfderau.

Draft

**Amddiffyn Plant**

*Llwybr Plant (Cyngor Gofal Cymru, 2015b)*




Mae diffiniad newydd o 'blentyn sy'n wynebu risg'

'Plentyn sy'n wynebu risg yw plentyn sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed, a[c] y mae arno anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw un neu rai o'r anghenion hynny ai peidio).'

Mae ar holl bartneriaid perthnasol cyngor lleol ddyletswydd newydd i hysbysu am blentyn sy'n wynebu risg. Mae dyletswydd ar gyngor lleol i wneud ymholiadau (sy'n gysylltiedig ag adran 47 o'r Ddeddf Plant) os hysbysir yr awdurdod y gall plentyn fod yn wynebu risg, ac i gymryd camau i sicrhau bod y plentyn yn ddiogel.

Mae newid yn y broses asesu hefyd. Gynt, roedd dau asesiad: asesiad cychwynnol (a gâi ei gwblhau a'i gau) ac yna asesiad pellach os oedd angen. O dan y Ddeddf, cael un asesiad trosglwyddadwy a chynhwysfawr yw'r nod. Mae cynghorau lleol yng Ngogledd Cymru yn gweithio ar dempled i'r rhanbarth. Gall achos eto gael ei gau ar ôl asesiad cychwynnol os na chlustnodir anghenion ond, os oes angen cefnogaeth, bydd yr asesiad yn parhau.

**Ymyrryd yn gynnar ac atal**

Mae'r Ddeddf yn annog canolbwyntio ar atal ac ar ymyrraeth gynnar.

**Gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy**

Mae gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy'n un o elfennau pwysig y ddeddf newydd.

Draft

Mae'r Cod Ymarfer [add reference] yn nodi:

'Dylai'r gwasanaeth [Gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy] gael ei ystyried fel gwasanaeth ataliol ynddo'i hun trwy ei ddarpariaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy amserol o safon uchel.

Dylid gwneud pob ymdrech i leihau dyblygu a sicrhau bod y wybodaeth a'r cyngor yn cael eu cynnig gan y staff mwyaf priodol a medrus. **Rhaid** i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn ystyried pa wasanaethau gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy eraill sydd ar gael wrth gynllunio a datblygu eu gwasanaeth. Ni ddylai gwasanaethau gwybodaeth a chyngor eraill gael eu dyblygu a dylent naill ai gael eu hintegreiddio gyda'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy neu fod yn gwbl hygyrch trwy'r gwasanaeth. **Rhaid** i awdurdodau lleol, mewn partneriaeth â'u partneriaid rhanbarthol, sicrhau bod y gwasanaethau cyngor a'r llinellau cymorth sydd ar gael, megis MEIC a'r gwasanaeth gwybodaeth i deuluoedd, yn gysylltiedig ac yn cael eu defnyddio'n effeithiol i ddatblygu gwasanaethau dibynadwy i bawb.'

Mae Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd eisoes yn cyfrannu i'r ddyletswydd hon yn sgil rhan o'u swyddogaethau a amlinellir yn Adran 27 (Dyletswydd Gwybodaeth) o Ddeddf Gofal Plant (2006), gan ddarparu gwasanaeth Gwybodaeth Cyngor a Chynhorthwy i rieni ac i weithwyr proffesiynol. Mae Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd Gogledd Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â Rheolwr Gwasanaethau Paediatreg ac i'r Newydd-anedig Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddarparu gwybodaeth allgymorth i deuluoedd yn y tair uned i'r newydd-anedig, gan gynorthwyo rhieni newydd i ddod o hyd i wasanaethau a chefnogaeth sy'n berthnasol i'w sefyllfa.

Gall teuluoedd a gweithwyr proffesiynol fod dan yr argraff fod prinder gwybodaeth a gwasanaethau yn eu hardal leol. Dylai Gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy allu anelu at helpu ymholwyr i ddod o hyd i wybodaeth a gwasanaethau sy'n berthnasol i anghenion unigol teuluoedd.

Gall canolbwyntio ar gefnogaeth gynnar a gwasanaethau ataliol olygu y diwellir anghenion teulu trwy helpu i gyrchu gwasanaethau cyffredinol megis lleoliad gofal plant, gweithgaredd hamdden neu weithgaredd cymdeithasol. Bydd gan y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd gronfa ddata gynhwysfawr a ddiweddерir yn rheolaidd, yn ogystal â staff medrus a all helpu i glustnodi anghenion gwybodaeth a chefnogaeth y teulu.

Mae prosiect rhanbarthol ar waith sy'n edrych ar fodelau ledled Gogledd Cymru gan gynnwys sut i fonitro pa mor effeithiol yw'r gefnogaeth.

**Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd**

Mae Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd eisoes yn cyfrannu i'r ddyletswydd Gwybodaeth, Cymorth a Chynhorthwy yn y Ddeddf yn sgil rhan o'u swyddogaethau a amlinellir yn Adran 27 (Dyletswydd Gwybodaeth) o Ddeddf Gofal Plant (2006), gan ddarparu gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy i rieni ac i weithwyr proffesiynol.

Draft

Dylai gwybodaeth gan Wasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd gael ei defnyddio wrth lunio'r asesiad poblogaeth. Rhoddodd rhai Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd wybodaeth wrth ymateb i'r arolwg o sefydliadau a gafodd ei ddosbarthu, ond argymhellir defnyddio dull mwy systematig yn y dyfodol.

**Plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ac sy'n cael eu lletya ac ymadawyr gofal**

Mae Rhan 6 o'r Ddeddf yn ymwneud yn benodol â phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ac sy'n cael eu lletya ac ymadawyr gofal. Mae'n disodli'r rhan fwyaf o Ran III o Ddeddf Plant 1989 (Cyngor Gofal Cymru, 2015a). Mae'n ceisio gostwng yr angen am ymyrraeth ffurfiol [ym mywydau plant a phobl ifanc], ac atgyfnerthu gallu teuluoedd i ofalu am eu plant pryd bynnag y mae'n ddiogel i wneud hynny. Os bydd angen gofalu am blentyn, [mae'r Ddeddf] yn ceisio sicrhau mwy o sefydlogrwydd i blant drwy ehangu'r dewis o leoliadau lleol, eu cynorthwyo i barhau i gynnal perthnasau pwysig a bywyd ysgol a dod o hyd i'r ateb parhaol cywir yn gynt.

Diogelu a hyrwyddo llesiant y plentyn yw prif ddyletswydd y Ddeddf mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal (adran 78).

**Pan fydda i'n barod**

Mae'r Ddeddf yn creu dyletswydd newydd ar gynghorau lleol tuag at bobl ifanc mewn gofal maeth sydd, wedi iddynt gyrraedd eu 18 oed, yn dymuno parhau i fyw gyda'u rhieni maeth, sef dyletswydd 'Pan fydda i'n barod'. Daeth y ddyletswydd newydd i rym ar 1 Ebrill 2016. Cydweithiodd chwe chyngor Gogledd Cymru i ddatblygu'r polisïau, y dulliau cyfathrebu a'r deunyddiau hyfforddi newydd i weithredu'r cynllun. Mae yna brosiect rhanbarthol hefyd i wella'r gwaith o recriwtio gofalwyr maeth er mwyn helpu i liniaru effaith y cynllun newydd ar nifer y lleoliadau maeth sydd ar gael.

**Plant anabl**

O dan Ddeddf Plant 1989, roedd plant anabl yn cael eu categoreiddio yn 'blant mewn angen'. Roedd ganddynt felly hawlogaeth i wasanaethau o dan Ddeddf 1989, ond hefyd i wasanaethau ychwanegol oherwydd anabledd, a hynny o dan baragraff 6 yn rhan 1 o atodlen 2 o'r Ddeddf. Yn ôl disgresiwn y darperid gwasanaethau adran 17. Mae hyn wedi newid o dan y ddeddf newydd, a bydd plant anabl a'u gofalwyr y mae arnynt angen gofal a chymorth yn cael eu hasesu o dan Ran 3.

Yn ogystal â'r ddeddf newydd, bydd Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg 2015, y disgwylir iddo gael ei gyflwyno'r mis Rhagfyr hwn, sef



Draft

2016, yn diwygio’r ffordd y bydd y sectorau addysg ac iechyd yn darparu ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Bydd y bil yn diwygio’r system bresennol, nad ydyw bob amser yn cynorthwyo plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol i wireddu eu llwyr botensial. Mae’r bil yn cyflwyno cysyniad ehangach ‘Anghenion Dysgu Ychwanegol’ (ADY), sy’n ceisio symud i ffwrdd oddi wrth ddibyniaeth ar ddatganiadau Anghenion Addysgol Arbennig, ac yn rhoi sylfaen gyfreithiol iddo.

**Hawliau Plant**

Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn (CCUHP) yn sail i lunio polisïau ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae 54 o erthyglau yn y Confensiwn. Mae Erthyglau 1 i 42 yn nodi sut y dylid trin plant, a gellir grwpio’r erthyglau’n fras yn rhai sy’n ymwneud â chyfranogi, amddiffyn a darpariaeth. Mae Erthyglau 43 i 45 yn ymwneud â sut y dylai oedolion a llywodraethau gydweithio i sicrhau bod pob plentyn yn gallu arfer ei hawliau (Llywodraeth Cymru, 2015).

**Dyletsywdd i ddarparu cyfleoedd chwarae digonol**

Mae chwarae yn rhan hanfodol o blentyndod iach, ac mae gan bob plenty hawl i allu chwarae. Mae hyn wedi’i ymgorffori yn erthygl 31 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn (CCUHP), ac wedi’i ddiffinio ymhellach o fewn Sylw Cyffredinol 17. Mae pob cyngor lleol yng Ngogledd Cymru wedi cynhyrchu asesiad cyfleoedd chwarae digonol yn rhan o’u dyletswydd i ddarparu cyfleoedd chwarae digonol. Mae’r rhain i’w gweld yn y llyfrgell dogfennau a goladwyd i lywio’r asesiad poblogaeth.

**Asesiadau digonolrwydd gofal plant**

Mae Deddf Gofal Plant 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau lleol yng Nghymru: gynnal asesiadau digonolrwydd gofal plant; sicrhau bod digon o ofal plant ar gael; ac i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i rieni, darpar rieni a’r rheiny sydd â chyfrifoldeb rhiant neu ofal am blentyn, mewn perthynas â gofal plant. Mae asesiadau digonolrwydd gofal plant Gogledd Cymru i’w gweld yn y llyfrgell dogfennau a goladwyd i lywio’r asesiad poblogaeth.

**Rhagor o wybodaeth**

Gweler atodiad 1 i gael rhagor o fanylion am y ddeddf newydd.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i hyb gwybodaeth a dysgu Cyngor Gofal Cymru.

Draft

## 2.1 Trosolwg ar y boblogaeth

### Diffiniadau

Mae’r bennod ar blant a phobl ifanc yn ymdrin â’r rhai 0 i 18 oed, yn ogystal â’r rheiny sy’n gymwys i dderbyn gwasanaethau tan eu bod yn 25 oed, gan gynnwys plant anabl ac ymadawyr gofal.

### Beth yr ydym yn ei wybod am y boblogaeth?

Yn 2015, roedd oddeutu 124,000 o blant 0 i 15 oed yng Ngogledd Cymru (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2016). Bach iawn o newid fu yn nifer y plant rhwng 2011 a 2015 ledled Gogledd Cymru nac ychwaith ym mhob sir, fel y dengys Tabl 2.1. Mae’r duedd hon yn debygol o barhau dros y 25 mlynedd nesaf, fel y dengys Ffigur 2.1, gyda chynnydd o oddeutu 1% (280 o blant) i gyd.

Mae yna fân wahaniaethau rhwng y siroedd. Rhagwelir y bydd poblogaeth plant 15 oed neu iau Sir Ddinbych yn aros yr un fath erbyn 2039, tra bydd Ynys Môn, Conwy a Sir y Fflint yn gweld gostyngiad o oddeutu 6%. Gwynedd yw’r unig sir lle rhagwelir cynnydd yn nifer y plant, sef cynnydd o oddeutu 9% (1,800 o blant).

**Tabl 2.1** Nifer y plant 0 i 15 oed

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 12,000 | 12,000 | 12,000 | 12,000 | 12,000 |
| Gwynedd | 21,000 | 21,000 | 21,000 | 21,000 | 21,000 |
| Conwy | 19,000 | 19,000 | 19,000 | 19,000 | 19,000 |
| Sir Ddinbych | 17,000 | 17,000 | 17,000 | 17,000 | 17,000 |
| Sir y Fflint | 29,000 | 28,000 | 28,000 | 28,000 | 28,000 |
| Wrecsam | 26,000 | 26,000 | 26,000 | 26,000 | 26,000 |
| Gogledd Cymru | 123,000 | 124,000 | 124,000 | 124,000 | 124,000 |

*Mae’r niferoedd wedi’u talgrynnu felly efallai na fyddant yn cyfansymio.*
Ffynhonnell: Amcangyfrifon Canol Blwyddyn Llywodraeth Cymru, StatsCymru

Draft

**Ffigur 2.1** Amcanestyniadau poblogaeth, plant 15 oed neu iau (ar sail 2014)




## Iechyd plant a phobl ifanc yng Ngogledd Cymru

- Mae'r mwyafrif o blant a phobl ifanc yn iach ac yn fodlon ar eu byd.
- Mae oddeutu 5% o fabanod yng Ngogledd Cymru yn fabanod pwysau geni isel (o dan 2,500 g) sy'n golygu eu bod yn wynebu risg o gael problemau iechyd yn ystod eu plentyndod a thrwy gydol eu hoes. Mae'r hyn a all, o bosibl, fod yn achosi'r problemau yn cynnwys smygu, deiet gwael, gordewdra, beichiogrwydd yn ystod yr arddegau, a heintiau rhywiol.
- Ledled Cymru, Gogledd Cymru sydd â'r gyfradd uchaf ond un o farwolaethau babanod (marwolaethau o blith y rhai sy'n iau na blwydd oed), ac mae'r gyfradd honno fymryn yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae'r ystod cyfraddau marwolaethau babanod yn amrywio o gyfradd o 4.1 fesul 1,000 o enedigaethau byw yn Wrecsam i gyfradd o 5.4 fesul 1,000 o enedigaethau byw yng Nghonwy. Mae'r cyfraddau marwolaethau babanod newydd-anedig (marwolaethau o blith y rhai sy'n iau na 28 niwrnod) yn amrywio o gyfradd o 2.9 fesul 1,000 o enedigaethau byw yn Wrecsam i gyfradd o 3.8 fesul 1,000 o enedigaethau byw yn Ynys Môn a Chonwy.
- Dim ond 58% o fabanod newydd-anedig a fwydir ar y fron, sef ymyrraeth ac iddi fuddion helaeth o ran iechyd, gan gynnwys atal gordewdra ac atal heintiau anadlol.
- Nid yw pob plentyn 4 blwydd oed yng Ngogledd Cymru wedi cael yr imiwneiddiadau arferol y dylai'r rhai o'r oed hwn fod wedi eu cael, gan olygu bod eto lawer o blant hŷn a allai gael clefydau – megis y frech goch – y byddai brechu yn eu hatal. Yn ddiweddar bu gostyngiad yn y cyfraddau imiwneiddio ledled y wlad.
- Mae chwarter y plant 4-5 oed yng Ngogledd Cymru dros bwysau neu'n ordew: mae hyn yn arwyddocaol o ran achosi salwch cronig yn ystod

Draft

plentyndod, gydag effeithiau aruthrol posibl ar iechyd a llesiant yn y dyfodol. Ymysg yr ymyraethau ataliol, bydd bwydo ar y fron, gohirio diddyfnu, sicrhau sgiliau coginio, gweithgarwch corfforol a digon o gwsg.

- Mae mwy na chwarter y rhai 16 i 24 oed yn smygu. O blith y rhai 11 i 16 oed yng Ngogledd Cymru, mae 3% o fechgyn a 4% o ferched yn smygu.
- Mae 43% o'r rhai 16 i 24 oed wedi, ar o leiaf un diwrnod yr wythnos, yfed mwy na'r hyn y mae'r canllawiau'n ei argymell. O blith y rhai 11 i 16 oed, mae 17% o fechgyn a 14% o ferched yn yfed alcohol o leiaf unwaith yr wythnos (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2016c).

Draft

## 2.2 Plant a phobl ifanc y mae arnynt angen gofal a chymorth

### Diffiniad

O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae'r meini prawf cymhwystra ar gyfer plant y mae arnynt anghenion gofal a chymorth fel a ganlyn:

Mae angen plentyn … yn bodloni'r meini prawf cymhwystra os yw –

(a) naill ai –

- (i) yr angen yn codi o afiechyd corfforol neu feddyliol y plentyn, ei oedran, ei anabledd, ei ddibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau, neu amgylchiadau tebyg eraill; neu fod
- (ii) yr angen yn un sy'n debyg, os na chaiff ei ddiwallu, o gael effaith andwyol ar ddatblygiad y plentyn;

(b) yr angen yn ymwneud ag un neu fwy o'r canlynol –

- (i) gallu i gyflawni arferion hunanofal neu arferion domestig;
- (ii) gallu i gyfathrebu;
- (iii) amddiffyn rhag camdriniaeth neu esgeulustod;
- (iv) ymglymiad mewn gwaith, addysg, dysgu neu mewn gweithgareddau hamdden;
- (v) cynnal neu ddatblygu perthnasoedd teuluol neu rai personol eraill o bwys;
- (vi) datblygu a chynnal perthnasoedd cymdeithasol ac ymglymiad yn y gymuned; neu
- (vii) cyflawni nodau datblygu;

(c) yr angen yn un nad yw'r plentyn, rhieni'r plentyn na phersonau eraill mewn rôl rhiant yn gallu ei ddiwallu, naill ai –

- (i) ar eu pen eu hunain neu gyda'i gilydd,
- (ii) gyda gofal a chymorth eraill sy'n fodlon darparu'r gofal a'r cymorth hwnnw, neu
- (iii) gyda chymorth gwasanaethau yn y gymuned y mae gan y plentyn, y rhieni neu bersonau eraill mewn rôl rhiant fynediad iddynt; a

Draft

(d) y plentyn yn annhebyg o sicrhau un neu fwy o'i ganlyniadau personol oni bai –

(i) bod yr awdurdod lleol yn darparu neu yn trefnu gofal a chymorth i ddiwallu'r angen; neu

(ii) bod yr awdurdod lleol yn galluogi'r angen i gael ei ddiwallu trwy wneud taliadau uniongyrchol. (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2015).

Mae hyn yn newid y diffiniad blaenorol a'r cysyniad 'plentyn mewn angen'. Gan nad oes data ar gael hyd yn hyn sy'n defnyddio'r diffiniad newydd, rydym wedi defnyddio data am 'blant mewn angen' yn ddirprwy, at ddibenion yr asesiad poblogaeth hwn.

## Beth yr ydym yn ei wybod am y boblogaeth?

Er na fu fawr o newid yn nifer y plant yng Ngogledd Cymru ar y cyfan, darlun mwy cymysg a geir o ran nifer yr atgyfeiriadau a wnaed at wasanaethau plant. Yng Ngogledd Cymru, ar y cyfan gostyngodd nifer yr atgyfeiriadau, o 10,000 yn 2011-12 i 8,000 yn 2015-16. Roedd cryn amrywio o flwyddyn i flwyddyn o fewn y siroedd a rhyngddynt hefyd, fel y dengys Tabl 2.2 isod.

**Tabl 2.2** Nifer yr atgyfeiriadau a wnaed at wasanaethau plant yn ystod y flwyddyn

| | 2011–12 | 2012–13 | 2013–14 | 2014–15 | 2015–16 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 1,388 | 1,111 | 1,463 | 1,596 | 1,317 |
| Gwynedd | 2,064 | 1,656 | 1,476 | 1,435 | 1,471 |
| BS Conwy | 682 | 686 | 868 | 723 | 519 |
| Sir Ddinbych | 853 | 799 | 773 | 670 | 625 |
| Sir y Fflint | 821 | 709 | 1,220 | 1,825 | 2,492 |
| Wrecsam | 4,213 | 3,076 | 3,272 | 3,567 | 1,866 |
| Gogledd Cymru | 10,021 | 8,037 | 9,072 | 9,816 | 8,290 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, StatsCymru

Mae nifer yr atgyfeiriadau'n adlewyrchu'r galw sydd ar wasanaethau plant. Fodd bynnag, nid yw o reidrwydd yn amlygu newid yn yr angen am ofal a chymorth. Mae ymwybyddiaeth staff, agweddau tuag at risg a hysbysu, yn ogystal â mentrau sy'n ceisio ymyrryd yn gynharach â theuluoedd i atal yr angen am atgyfeirio at wasanaethau plant, yn effeithio ar nifer yr atgyfeiriadau. Mae adborth staff yn awgrymu y gall fod niferoedd mawr o atgyfeiriadau lle nad oes angen camau pellach. Yn 2014-15, yn achos oddeutu 43% o atgyfeiriadau nid aethpwyd ati i glustnodi asesiad cychwynnol.

Ni allwn ddweud ar hyn o bryd sut y gall atgyfeiriadau newid ar ôl i'r ddeddf newydd ehangu'r cymhwystra ar gyfer asesiad.



Draft

Mae Ffigur 2.2 yn dangos cyfran y plant mewn angen sy'n derbyn gofal, y plant a ddaw o dan amddiffyn plant, a'r plant eraill sydd mewn angen, sy'n cynnwys plant anabl.

**Ffigur 2.2** Cyfran y plant mewn angen sydd â statws Plant sy'n Derbyn Gofal, Gogledd Cymru, 2015




Ffynhonnell: StatsCymru

Draft

Yn 2015, roedd oddeutu 3,300 o blant mewn angen ar draws Gogledd Cymru. Mae hyn yn 200 o blant mewn angen fesul 10,000 o blant yn y boblogaeth, sy'n nifer fymryn yn is na chyfradd Cymru gyfan, sef 260 o blant mewn angen fesul 10,000 o blant yn y boblogaeth. Dengys Tabl 2.4 fod y niferoedd yn amrywio ar draws Gogledd Cymru a thros gyfnod, heb duedd glir.

**Tabl 2.3** Nifer y plant mewn angen, Gogledd Cymru, 2011–2015

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | Y gyfradd fesul 10,000 2015 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 330 | 380 | 330 | 300 | 260 | 170 |
| Gwynedd | 650 | 670 | 720 | 760 | 730 | 240 |
| Conwy | 580 | 540 | 630 | 720 | 690 | 260 |
| Sir Ddinbych | 570 | 610 | 390 | 380 | 390 | 170 |
| Sir y Fflint | 490 | 430 | 450 | 600 | 500 | 130 |
| Wrecsam | 960 | 650 | 850 | 760 | 700 | 210 |
| Gogledd Cymru | 3,600 | 3,300 | 3,400 | 3,500 | 3,300 | 260 |

*Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu felly efallai na fyddant yn cyfansymio.*
Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, StatsCymru

Roedd pob cyngor lleol yn defnyddio'r un diffiniad o 'blentyn mewn angen' o Ddeddf Plant 1989, er y gall y modd y dehonglir y diffiniad hwn ac y cofnodir achosion amrywio mewn gwirionedd, a all egluro rhai o'r gwahaniaethau uchod. Er enghraifft, newid prosesau yn hytrach na newid yn yr angen neu'r galw am wasanaethau oedd i gyfrif am y gostyngiad yn niferoedd yr achosion o ran Wrecsam rhwng 2013 a 2014. Mae cofnodi data ar gyfer y cyfrifiad Plant mewn Angen wedi bod yn broses anodd ei hawtomeiddio, sy'n rhannol egluro'r gwahaniaethau o flwyddyn i flwyddyn a rhwng siroedd. Efallai hefyd y bydd yna wahaniaethau rhwng y siroedd o ran strwythurau gwasanaethau, a gall hyn effeithio ar y ffigurau. Er enghraifft, gall teulu sydd ag anghenion penodol gael cefnogaeth gan y gwasanaethau plant mewn un sir, ond mewn sir arall, cânt gefnogaeth gan dîm sy'n ceisio ymyrryd yn gynharach, megis y Tîm o Amgylch y Teulu. Felly, yn yr asesiad hwn, defnyddiwyd y data i roi darlun cyffredinol o Ogledd Cymru yn hytrach nag i gymharu'r siroedd. Fodd bynnag, mae'r wybodaeth hon ar gael, a hynny ar wefan StatsCymru https://statscymru.llyw.cymru/Catalog. Ceir rhagor o wybodaeth yn adrannau 2.3 a 2.4 am blant sy'n derbyn gofal a phlant y mae angen eu hamddiffyn.

Dengys Tabl 2.1 nifer y plant mewn angen yn ôl grwpiau oedran ledled Gogledd Cymru. Mae'r grwpio yn ôl oedran o gymorth i ddangos faint o wasanaethau addas i'r oedran y mae eu hangen, er y dylid nodi wrth eu cymharu'n uniongyrchol fod maint y grwpiau'n amrywio, er enghraifft, mae 10-15 oed yn cynnwys chwe blynedd ac mae 16-17 oed yn cynnwys dwy flynedd. Ar gyfartaledd, mae mwy o'r rhai 16-17 oed nag unrhyw grŵp oedran arall.

**Tabl 2.4** Nifer y plant mewn angen, yn ôl oedran, Gogledd Cymru 2015

| | O dan 1 | 1-4 oed | 5-9 oed | 10-15 oed | 16-17 oed | 18+ oed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 15 | 50 | 80 | 70 | 30 | 15 |
| Gwynedd | 30 | 120 | 190 | 230 | 85 | 70 |
| Conwy | 20 | 100 | 155 | 220 | 75 | 120 |
| Sir Ddinbych | 30 | 105 | 90 | 115 | 35 | 0 |
| Sir y Fflint | 25 | 110 | 125 | 140 | 55 | 50 |
| Wrecsam | 30 | 155 | 195 | 225 | 75 | 0 |
| Gogledd Cymru | 150 | 640 | 835 | 1000 | 355 | 255 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, StatsCymru

Gall y prif broblemau sy'n effeithio ar bob grŵp oedran amrywio, er enghraifft, i'r rhai 0-5 oed efallai mai esgeulustod fydd y broblem ond, yn achos y rhai yn eu harddegau, gall problemau ymddygiad fod yn symptom o broblemau sylfaenol gartref. Gellid cynnwys rhagor o wybodaeth am hyn mewn asesiadau poblogaeth yn y dyfodol. Efallai y byddai'n bosibl defnyddio hyn yn llinell sylfaen

i fonitro effaith Gwasanaethau Ymyrryd yn Gynt ac Atal ar ostwng niferoedd y plant y mae arnynt angen gofal a chymorth gan wasanaethau plant.

Dengys Tabl 2.5 y daeth y nifer mwyaf o atgyfeiriadau oddi wrth yr heddlu ac oddi mewn adrannau gwasanaethau cymdeithasol y cynghorau eu hunain, sef canran o 21% yr un yn 2015. Yn dynn ar eu sodlau, roedd adrannau eraill y cyngor (gan gynnwys cynghorau lleol eraill) a wnaeth 18% o atgyfeiriadau, ac iechyd sylfaenol neu gymunedol a wnaeth 15% o atgyfeiriadau.

**Tabl 2.5** Atgyfeiriadau yn ôl asiantaeth, Gogledd Cymru, 2015

| | Nifer yr atgyfeiriadau | Canran |
|---|---|---|
| Yr Heddlu | 690 | 21 |
| Adran Gwasanaethau Cymdeithasol (y cyngor ei hun) | 690 | 21 |
| Adran o'r Cyngor (y cyngor ei hun neu gyngor arall) | 580 | 18 |
| Iechyd sylfaenol/cymunedol | 500 | 15 |
| Asiantaeth arall | 290 | 9 |
| Teulu, ffrind neu gymydog | 250 | 8 |
| Iechyd eilaidd | 110 | 3 |
| Unigolyn arall | 80 | 2 |
| Darparwr annibynnol | 50 | 1 |
| Llywodraeth ganolog | 20 | 0 |
| Tai | 10 | 0 |
| Hunan-atgyfeirio | 10 | 0 |
| Cyfanswm | 3,300 | 100 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, StatsCymru

Mae Tabl 2.6 yn rhestru'r rhesymau dros atgyfeiriadau a wnaed at wasanaethau plant. Camdriniaeth neu esgeulustod oedd y rheswm dros hanner yr atgyfeiriadau a wnaed at wasanaethau plant. Y rhesymau mwyaf cyffredin wedi hynny oedd salwch neu anabledd y plentyn (21%), camweithredu teuluol (15%) neu deulu dan straen acíwt (9%). Gellir atgyfeirio teuluoedd am fwy nag un rheswm, felly mae'r rhestr hon yn amlygu'r prif reswm a gofnodwyd.

I atgyfeirio, defnyddia'r heddlu Ffurflen CID 16 y mae swyddogion yn ei llenwi ar ôl mynd i ddigwyddiadau sy'n ymwneud â cham-drin domestig, â cham-drin plant ac ag oedolion agored i niwed. Atgyfeiriadau cam-drin domestig yw'r gyfran fwyaf o'r rhain, a gallant amrywio o ran eu difrifoldeb.

Draft

**Tabl 2.6** Y rhesymau dros atgyfeirio, Gogledd Cymru, 2015

| | Nifer yr atgyfeiriadau | Canran yr atgyfeiriadau |
|---|---|---|
| Camdriniaeth neu esgeulustod | 1,600 | 49 |
| Salwch neu anabledd y plentyn | 670 | 21 |
| Camweithredu teuluol | 490 | 15 |
| Teulu dan straen acíwt | 280 | 9 |
| Salwch neu anabledd rhiant | 110 | 3 |
| Rhianta absennol | 60 | 2 |
| Ymddygiad nad yw'n gymdeithasol dderbyniol | 60 | 2 |
| Tarfu ar fabwysiadu | 10 | 0 |
| Incwm isel | 0 | 0 |
| Cyfanswm | 3,300 | 100 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, StatsCymru

**Crynodeb o ddata'r cyfrifiad Plant mewn Angen**

Ar y cyfan, yng Ngogledd Cymru, mae canran y plant mewn angen sy'n dod o gefndiroedd Du, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig (BAME) yn 2%, sydd fymryn yn is na chanran plant BAME yn y boblogaeth gyfan, sef 4%.

Yng nghyfrifiad Plant mewn Angen 2015, cofnodwyd bod afiechyd meddwl gan oddeutu 11% o blant mewn angen.

Mae cyfrifiad Plant mewn Angen yn coladu llawer mwy o wybodaeth fanwl, ond oherwydd y niferoedd bach a'r anghysonderau wrth goladu, dim ond gwybodaeth gryno yr ydym wedi'i chynnwys yma. Mae'r data cyflawn ar gael, a hynny ar wefan https://statscymru.llyw.cymru/Catalog.

## Ffoaduriaid a cheiswyr lloches

Ceisiwyd cael gwybodaeth am nifer y plant a phobl ifanc mewn teuluoedd ffoaduriaid a cheiswyr lloches ond, hyd yn hyn, ni chafwyd yr wybodaeth hon, ac nid oes gwybodaeth bendant. Bydd angen cynnwys yr wybodaeth hon a'i dadansoddi yn y dyfodol i sicrhau bod yna ddealltwriaeth glir o anghenion y garfan hon o blant a phobl ifanc o fewn pob awdurdod lleol a ledled y rhanbarth yn gyffredinol.

Wrecsam yw'r unig ganolfan wasgaru yng Ngogledd Cymru i geiswyr lloches ond, ar hyn o bryd, mae pob ardal yn mynd trwy'r broses o dderbyn teuluoedd sy'n ffoaduriaid o Syria. Mae 56 o blant sy'n ceisio lloches yn mynd i feithrinfa neu i'r ysgol yn Wrecsam ar hyn o bryd, gan gynnwys plant sy'n rhan o'r



Draft

Rhaglen ar gyfer Ffoaduriaid o Syria ac sy'n byw yn Wrecsam. Ar ôl i deuluoedd gael cadarnhad ynghylch eu statws ceiswyr lloches, maent yn dod yn ffoaduriaid ac nid oes rhaid iddynt aros yn Wrecsam mwyach. Bryd hwn, gallant symud i le bynnag y maent yn dymuno ym Mhrydain.

Byddai ystadegau ac adborth ynghylch y grwpiau hyn a'u hanghenion cefnogaeth yn ddefnyddiol er mwyn pennu faint o wasanaeth y mae angen ei ddarparu i ddiwallu anghenion y teuluoedd a'r unigolion hyn yn llwyddiannus.

Drafft

## 2.3 Plant sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant

### Beth yr ydym yn ei wybod am y boblogaeth?

Yn 2015, roedd 570 o blant ar y gofrestr amddiffyn plant yng Ngogledd Cymru. Er bod y niferoedd yn amrywio o un flwyddyn i'r llall, ar y cyfan bu cynnydd o 9% (sef 35 o blant) er 2011. Mae'r darlun yn fwy cymysg o fewn y siroedd. Oherwydd y niferoedd bach sydd dan sylw, nid oes modd gweld tueddiadau clir oherwydd, er enghraifft, gall y ffaith fod un teulu'n symud i/o ardal achosi newid dramatig o un flwyddyn i'r llall.

**Tabl 2.7** Nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, 31 Mawrth, Gogledd Cymru

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | Y gyfradd fesul 10,000 2015 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 25 | 60 | 75 | 65 | 40 | 44 |
| Gwynedd | 50 | 35 | 55 | 60 | 65 | 35 |
| Conwy | 40 | 45 | 60 | 70 | 65 | 45 |
| Sir Ddinbych | 60 | 70 | 65 | 55 | 55 | 40 |
| Sir y Fflint | 80 | 75 | 45 | 100 | 35 | 23 |
| Wrecsam | 120 | 45 | 125 | 110 | 150 | 58 |
| Gogledd Cymru | 375 | 330 | 425 | 460 | 410 | |

*Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf i osgoi datgelu*
Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, StatsCymru

Dengys Tabl 2.8 nifer y plant sydd ar y gofrestr amddiffyn plant, yn ôl grwpiau oedran, ledled Gogledd Cymru. Mae'r grwpiau oedran o gymorth i ddangos faint o wasanaethau addas i'r oedran y mae eu hangen, er y dylid nodi wrth eu cymharu'n uniongyrchol eu bod yn grwpiau gwahanol faint, er enghraifft, mae 10-15 oed yn cynnwys chwe blynedd tra bo 16-17 oed yn cynnwys dwy flynedd.

Draft

**Tabl 2.8** Nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, yn ôl oedran, Gogledd Cymru 2015

| | O dan 1 | 1-4 oed | 5-9 oed | 10-15 oed | 16-17 oed |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | | 15 | 10 | 10 | |
| Gwynedd | 5 | 20 | 20 | 10 | 5 |
| Conwy | | 15 | 20 | 30 | |
| Sir Ddinbych | 5 | 15 | 20 | 10 | |
| Sir y Fflint | | 10 | 10 | 10 | |
| Wrecsam | 10 | 50 | 55 | 35 | |
| Gogledd Cymru | 20 | 125 | 135 | 105 | 5 |

*Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf i osgoi datgelu*
Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, StatsCymru

## Beth y mae pobl yn ei ddweud wrthym?

### Diogelu

Rhoddodd Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru yr adborth canlynol.

Mae diogelu plant yn golygu eu hamddiffyn rhag camdriniaeth (yn ei ystyr ehangach h.y. '*maltreatment*') ac atal amharu ar eu hiechyd a'u datblygiad, a sicrhau eu bod yn cael eu magu mewn amgylchedd diogel. Mae adroddiad '*Pa mor ddiogel yw ein plant ni*?' gan yr NSPCC yn rhoi trosolwg ar y Tirlun Amddiffyn Plant ledled y Deyrnas Unedig.

- Rhwng 2010/11 a 2014/15 gwelodd Cymru 48% o gynnydd yn y Troseddau Rhywiol a Gyflawnwyd yn erbyn Plant dan 18 oed ac a Gofnodwyd gan yr Heddlu (76% o gynnydd ar draws y Deyrnas Unedig)
- Rhwng 2010/11 a 2014/15 yng Nghymru, bu 19% o gynnydd yn nifer y plant yr oedd cynlluniau amddiffyn plant wedi'u llunio ar eu cyfer (24%) ledled y Deyrnas Unedig
- Rhwng 2010/11 a 2014/15 gwelodd Cymru 48% o gynnydd yn y Troseddau Creulondeb ac Esgeulustod a gafodd eu cofnodi gan yr heddlu (26% o gynnydd ledled y Deyrnas Unedig)

Mae defnyddio technoleg er mwyn dylanwadu'n ddiegwyddor ar blentyn, camfanteisio arno, ei gymell trwy rym, neu ei fygylu, i gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol yn thema sy'n dod i'r amlwg i'r holl staff sy'n gweithio ym maes diogelu plant. Yn ystod yr wythnos Camfanteisio Rhywiol ar Blant a gafodd ei chynnal ym mis Mawrth 2016, dywedodd pobl ifanc wrthym fod secstio a bwlio ar-lein yn peri pryder iddynt hwy a'u ffrindiau (Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru).

Mae pob sir yn dal i lynu wrth Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan.

Draft

## Rhagor o wybodaeth

Yn y bennod *Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol* [add link] ceir rhagor o wybodaeth am y fasnach blant/bobl ac am gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Rydym wedi clustnodi bod angen inni gynnwys rhagor o wybodaeth am y meysydd hyn pan adolygir yr asesiad poblogaeth.

Draft

# 2.4 Plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal

## Beth yr ydym yn ei wybod am y boblogaeth?

### Mae nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal yng Ngogledd Cymru yn codi

Yn 2015, roedd 1,000 o blant a phobl ifanc lleol yn derbyn gofal gan gynghorau Gogledd Cymru. O blith y 1,000 o blant a phobl ifanc hyn, roedd 54% yn fechgyn a 46% yn ferched, tuedd sy'n cyd-fynd â'r darlun cenedlaethol ar draws Cymru gyfan. Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Ngogledd Cymru wedi codi yn ystod y 5 mlynedd diwethaf, sef 9% o gynnydd o'i gymharu â'r nifer ym mis Mawrth 2011. Ym mis Mawrth 2015, roedd ychydig dros 70% o'r plant hyn mewn lleoliadau maeth.

**Ffigur 2.3** Nifer y plant a oedd yn derbyn gofal, yn ôl awdurdod lleol, 2011–2015




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, StatsCymru

**Tabl 2.9** Nifer y plant a oedd yn derbyn gofal, yn ôl awdurdod lleol, 2011–2015

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 80 | 90 | 80 | 75 | 90 |
| Gwynedd | 175 | 195 | 200 | 185 | 195 |
| Conwy | 165 | 180 | 165 | 165 | 160 |
| Sir Ddinbych | 175 | 160 | 160 | 160 | 160 |
| Sir y Fflint | 160 | 170 | 195 | 210 | 220 |
| Wrecsam | 155 | 175 | 195 | 210 | 175 |
| Gogledd Cymru | 910 | 970 | 995 | 1005 | 1000 |
| Cymru | 5,410 | 5,720 | 5,765 | 5,745 | 5,615 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, StatsCymru

Gwelwyd cynnydd ym mhob cyngor yng Ngogledd Cymru yn ystod y cyfnod hwn. Yng ngrŵp oedran y plant 5-9 oed y gwelwyd y cynnydd mwyaf yn y pum mlynedd diwethaf.

Yng Ngogledd Cymru, fesul 10,000 o'r boblogaeth, mae nifer y plant sy'n derbyn gofal yn is na'r nifer yng ngweddill Cymru, ond mae amrywiadau sylweddol ar draws y rhanbarth, o 59 yn Wrecsam i 82 yng Ngwynedd.

O ran oedran y plant a'r bobl ifanc hyn, ymddengys bod y duedd yn weddol debyg dros y tair blynedd diwethaf, gyda'r canrannau'n codi ynghyd ag oedran y plant, a'r gyfran fwyaf o blant sy'n derbyn gofal yn blant 10-15 oed. Dylid nodi wrth gymharu'r grwpiau oedran yn uniongyrchol eu bod o wahanol faint. Er enghraifft, mae 10-15 oed yn cynnwys chwe blynedd, tra bo 16-17 yn cynnwys dwy flynedd. Gan fod y grŵp oedran hwn yn cynnwys cyfnodau pontio allweddol i'r plant hyn, o ran iechyd, addysg, datblygiad cymdeithasol ac emosiynol, mae angen darparu amrywiaeth mawr o wasanaethau a gwasanaethau cefnogi i gynorthwyo'r boblogaeth hon.

Draft

**Tabl 2.10** Y canrannau Plant sy'n Derbyn Gofal, yn ôl ystod oedran, ar gyfer Gogledd Cymru




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, StatsCymru

### Y profiad 'Derbyn Gofal'

Roedd yr arolwg o sefydliadau, a gafodd ei gynnal ar gyfer yr asesiad poblogaeth, yn amlygu'n glir yr effaith y gall bod yn blentyn sy'n derbyn gofal ei chael ar iechyd, perthnasoedd personol a chyrhaeddiad addysgol plentyn. Yn ogystal, pan fyddant yn ymadael â gofal, bydd llawer o bobl ifanc yn cael canlyniadau gwaeth, gan gynnwys o ran tlodi, tai a chyflogaeth (Plant yng Nghymru, 2016).

Mae'n anodd cymharu profiadau'r siroedd gwahanol gan fod y niferoedd dan sylw yn fach, felly mae'r data'n dueddol o amrywio o un flwyddyn i'r llall, yn dibynnu ar y plant a'r teuluoedd penodol sydd wedi'u cynnwys yn y ffigurau ar y pryd hwnnw. O ran profiadau lleoli, mae'r darlun yn amrywio. O ran sefydlogrwydd y lleoliadau, mae'r darlun yn gymysg; gwellodd sefydlogrwydd lleoliadau Wrecsam, ond bu llai o sefydlogrwydd yng Nghonwy yn 2015, tra ymddengys bod y cynghorau lleol eraill yn weddol gyson er bod y niferoedd dan sylw'n fach. O ran sefydlogrwydd lleoliadau addysg (newidiadau nad achosir gan drefniadau pontio), ac eithrio yn Sir Ddinbych ac yn Sir y Fflint ymddengys bod y darlun yn dangos y bu lleoliadau addysg yn fwy sefydlog yn 2015 nag yn 2014. O ran cyflawniad addysgol, plant yng Ngwynedd ac yn Sir Ddinbych sy'n cyflawni'r mwyaf, gyda Sir Ddinbych yn dangos cynnydd yn y lefelau cyflawni rhwng 2013/14 a 2014/15, tra bo plant yng Nghonwy, i'r gwrthwyneb, wedi cyflawni llai yn ystod yr un cyfnod.

Draft

**Plant sy'n Derbyn Gofal ac a ddaw o gynghorau lleol y tu hwnt i Ogledd Cymru**

Yn ogystal â'r plant lleol hynny sy'n derbyn gofal, mae gan Ogledd Cymru nifer mawr o blant o'r tu allan i'r rhanbarth sy'n derbyn gofal yn lleol, ac mae'r nifer hwn yn codi, fel y dengys Ffigur 2.4.

**Ffigur 2.4** Nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal ac a ddaw o'r tu hwnt i'r sir ac a leolir mewn awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru




Ffynhonnell: Data awdurdodau lleol

Mae'r plant hyn yn cyfateb i 40% yn ychwanegol ar draws Gogledd Cymru yn 2015, ac maent yn cynnwys lleoliadau gofal maeth a lleoliadau mewn unedau preswyl. Er yr ariennir y lleoliadau hyn yn allanol, mae'r niferoedd hyn o blant yn alw ychwanegol ar wasanaethau lleol megis iechyd, addysg, yr heddlu a gwasanaethau cefnogi, sydd oll yn cael eu hariannu'n lleol. Er enghraifft, mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn Wrecsam yn amcangyfrif bod 25% o'i waith yn ymwneud â Phobl Ifanc sy'n Derbyn Gofal a gafodd eu lleoli yn Wrecsam gan awdurdodau lleol eraill. Mae hyn i gyfrif yn rhannol am ffigurau uchel troseddu ymhlith ieuenctid yn Wrecsam.

Hefyd, os bydd y plant hyn, wrth iddynt ymadael â'r system ofal, yn penderfynu ymgartrefu yn yr ardal leol, gall hyn roi pwysau ar adrannau tai, sydd o dan bwysau eisoes.

## Mabwysiadu

Ar gyfartaledd, mae gwasanaethau mabwysiadu'n gweithio gyda 15% i 19% o blant sy'n derbyn gofal (Y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, 2016b). Mae hyd at 25% o blant a leolir i'w mabwysiadu'n barhaol yn cael, yn ystod eu plentyndod, brofiadau sy'n galw am gefnogaeth arbenigol neu wedi'i dargedu (Y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, 2016b).

Datblygwyd y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn sgil Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae i'r Gwasanaeth dair haen, sy'n darparu gwasanaethau'n genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol. Mae'r Gwasanaeth wedi llunio fframwaith cefnogaeth mabwysiadu sydd â'r nod o'i gwneud yn haws i'r rhai sy'n mabwysiadu, ac i blant a phobl ifanc, gael cefnogaeth pan fydd arnynt ei angen (Y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, 2016a). Yn rhan o weithredu'r fframwaith, bydd yr angen, y galw, y gwasanaethau a'r adnoddau yn cael eu mapio.

Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn bartneriaeth rhwng Timau Mabwysiadu'r cynghorau lleol yn Ynys Môn, yng Ngwynedd, yng Nghonwy, yn Sir Ddinbych, yn Sir y Fflint ac yn Wrecsam, ac fe'i cydlynir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Gwneud y broses fabwysiadu'n fwy effeithlon ac effeithiol yw nod y gwasanaeth, a hynny trwy ehangu'r rhestr mabwysiadwyr plant yng Ngogledd Cymru (Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru, 2016).

## Beth y mae pobl yn ei ddweud wrthym?

**Pobl ifanc sy'n derbyn gofal ac ymadawyr gofal**

Dyma a ganfu'r gweithdai a gynhaliwyd, gyda phobl ifanc sy'n derbyn gofal ac ymadawyr gofal, ar gyfer yr asesiad poblogaeth:

- Y canlynol yw'r pethau sy'n bwysig iddynt: ffrindiau, bod yn weithgar/egnïol, bod yn iach, teulu, hobïau a diddordebau, teimlo eu bod yn cael eu cynnwys, y ffôn/WiFi.
- Y canlynol yw'r pethau y maent yn ei chael yn anodd eu gwneud: cymell, cael swydd, cadw'n iach, cymdeithasu, teimlo'n hyderus, teimlo eu bod yn perthyn/cael eu derbyn gan eraill, bod yn annibynnol, siarad am yr hyn y mae arnynt ei eisiau mewn bywyd, heriau'n gysylltiedig ag anabledd.
- Roeddent yn teimlo y byddai pethau'n well iddynt o gael: rhagor o arian; swydd; iechyd meddwl a/neu gorfforol gwell; cysgu'n well; siarad yn well am eu teimladau; rhoi'r gorau i ffyrdd o ymddwyn sy'n dda i ddim; cefnogaeth i gymdeithasu; addysg dda; bod yn ddiogel a theimlo bod eraill yn eu caru.
- Ar hyn o bryd roeddent yn cael cefnogaeth gan: weithwyr proffesiynol (gweithiwr cymdeithasol, ymgynghorydd personol, gofalwyr maeth, gweithwyr ieuenctid, cwnselwyr, gweithwyr cymorth mewn ysgolion), teulu, ffrindiau a grwpiau. Roedd ganddynt farn gymysg ynghylch pa mor dda yr oedd yn gweithio – yn dda iawn i rai, ddim yn dda i eraill. Cymysg oedd eu barn hefyd ynghylch faint o gymorth y gallai ffrindiau a theulu, y gymuned leol a'r trydydd sector neu wasanaethau cyhoeddus fod. Dywedodd rhai y gallai elusennau ddarparu cefnogaeth, helpu teuluoedd i ddod at ei gilydd

Draft

unwaith eto, a helpu i gael swyddi. Dywedodd eraill y gallai'r sector cyhoeddus fod yn fwy hygyrch, o gymorth a darparu rhagor o wybodaeth.

**Ymadawyr gofal/pobl ifanc ddigartref**

Canfu gweithdy i ymadawyr gofal a phobl ifanc ddigartref, a gafodd ei gynnal ar gyfer yr asesiad poblogaeth, fod rhai yn fodlon ar y gefnogaeth yr oeddent yn ei gael. Pwysleisiodd eraill mai eu hanghenion oedd: cyfathrebu gwell rhwng y staff (roedd negeseuon cymysg yn cael eu rhoi i bobl ifanc), yr angen am gefnogaeth o ran darllen ac ysgrifennu, peidio â mynd i helynt, arian, cyflogaeth, rheoli dicter, amgylchiadau byw, cyffuriau, cynnal a chadw llety'n well, cefnogaeth i ymdrin ag Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD). Nid oedd gan y bobl ifanc hyn berthnasoedd da â'u teulu, a phan ofynnwyd iddynt sut y gallai ffrindiau, teulu a'r gymuned leol eu cynorthwyo, bu iddynt grybwyll y canlynol: MIND, Barnardo's, CAIS, Nacro, Nant y Glyn, yr eglwys, CAMHS (Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed), HOST ac asiantaeth North Wales Training.

**Darparwyr annibynnol**

Cafwyd adborth gan Rwydwaith 'Plant sy'n Derbyn Gofal' Fforwm Gofal Cymru (fforwm y darparwyr gofal) ynghylch yr anawsterau o ran ymyrryd yn gynnar, cynllunio'n effeithiol a pharu anghenion plant a phobl ifanc â'r adnodd mwyaf priodol. Mae hyn yn cynnwys cynllunio'r broses bontio o ofal preswyl i leoliadau 'Pan fydda i'n barod' neu i leoliadau allan o'r ddalfa.

Roedd yr awgrymiadau ar gyfer gwella yn cynnwys ystyried cael mwy o staff gwasanaethau cymdeithasol ar gael ar benwythnosau (neu ddiwallu'r angen am gefnogaeth frys), a gweithio gyda darparwyr annibynnol yn fwy effeithiol yn bartneriaid er mwyn dod o hyd i atebion i berson ifanc. Er mwyn cynllunio busnes, byddai'n dda o beth ymgysylltu â darparwyr ynghylch y cynlluniau ar gyfer y 5-10 mlynedd nesaf gan y gall darparwyr, a bwrw bod digon o rybudd, ddatblygu'r gwasanaethau y mae eu hangen i ddiwallu'r angen fydd yn y dyfodol.

**Sefydlogrwydd lleoliadau**

Sefydlogrwydd yw un o'r ffactorau mwyaf arwyddocaol sy'n gysylltiedig â llesiant plant mewn gofal a'u canlyniadau. (Hannon, C., Bazalgette, L., Wood, C., (2010). In Loco Parentis. DEMOS). Mae i sefydlogrwydd lleoliadau gydberthyniad cryf â chyrhaeddiad addysgol a llesiant emosiynol.

Yn y flwyddyn ddiweddaraf, mae 9% o'r plant sy'n derbyn gofal wedi cael tri lleoliad neu ragor yn y 12 mis blaenorol, ac mae 13% o'r plant wedi newid ysgol

Drafft

unwaith neu ragor yn ystod cyfnod derbyn gofal, ac nid trefniadau pontio oedd i gyfrif am hyn.

**Maethu**

Roedd ymgysylltu â'r staff wedi tynnu sylw at y ffaith mai'r canlynol oedd y prif bwysau yr oedd gwasanaethau maethu'n eu hwynebu yng Ngogledd Cymru:

- Gwaith atal ychwanegol er mwyn helpu i atal plant rhag cael eu derbyn i ofal.
- Recriwtio gofalwyr maeth i leihau nifer y lleoliadau y tu allan i'r sir
- Hyfforddiant a chefnogaeth arbenigol ychwanegol i ofalwyr maeth
- Y galw ychwanegol a gâi ei roi ar y gwasanaeth oherwydd gofal gan berthnasau neu bobl gysylltiedig.

Mae cynghorau Gogledd Cymru yn cydweithio'n agos ar nifer o brosiectau maethu rhanbarthol i fynd i'r afael â'r materion hyn.

**Maethu gan berthynas/bobl gysylltiedig**

> 'Ystyr 'gofal gan berthynas' yw bod perthnasau neu ffrindiau yn gofalu am blant na allant fyw gyda'u rhieni … Weithiau, gelwir y math hwn o ofal yn ofal teulu a ffrindiau oherwydd ei fod yn ddisgrifiad mwy cywir o'r hyn ydyw, ac weithiau gelwir gofalwyr maeth sy'n berthnasau [ffrindiau] yn bobl gysylltiedig … Mae maethu gan berthynas … yn drefniant  lle mae'r awdurdod lleol yn gyfrifol yn gyfreithiol am blentyn ac yn lleoli'r plentyn gydag aelod o'r teulu neu gyda ffrind sy'n ofalwr maeth i'r plentyn hwnnw.' (CoramBAAF, 2016).

Cyfrifoldeb cynghorau yw ceisio lleoli Plentyn sy'n Derbyn Gofal gyda theulu neu ffrindiau cyn yr ystyrir unrhyw fath arall o leoliad. Mae'r pwyslais cynyddol ar ofalwyr sy'n berthnasau (teulu a ffrindiau) yn newid y galw sydd ar wasanaethau maethu. Mae papur cenedlaethol a luniwyd wedi tynnu sylw at y gwahaniaethau yn natur maethu gan berthnasau (teulu a ffrindiau), at y materion presennol sy'n effeithio ar arfer yn y maes, ac at wahaniaethau o ran asesu a chynorthwyo gofalwyr maeth prif ffrwd (Y Fframwaith Maethu Cenedlaethol, 2016). Mae cynghorau lleol yng Ngogledd Cymru yn cydweithio i geisio mynd i'r afael â'r materion hyn, er enghraifft, trwy ddatblygu un ffurflen asesu i ofalwyr sy'n berthnasau (teulu a ffrindiau). Mae gwaith ar y gweill yn genedlaethol hefyd o dan y Fframwaith Maethu Cenedlaethol.

Draft

## 2.5 Plant sy'n ymwneud â throseddu, sy'n ymddwyn yn wrthgymdeithasol ac sy'n dioddef troseddau

### Y boblogaeth

Mae dwy elfen i'w hystyried o ran ymwneud plant a phobl ifanc â throseddu, sef y plant sy'n troseddu a'r rheini sy'n dioddef trosedd. Mae'r naill elfen a'r llall yn golygu bod gofyn am amrywiaeth o wasanaethau a chefnogaeth, a dylai ystyriaeth gael ei rhoi iddynt yn yr adroddiad hwn.

### Troseddwyr

Dros y tair blynedd diwethaf, Wrecsam sydd wedi bod â'r nifer mwyaf o droseddwyr ifanc ar draws Gogledd Cymru, ond sydd hefyd wedi bod â'r gyfradd droseddu fwyaf ar draws y rhanbarth. Ac eithrio Ynys Môn, mae pob awdurdod lleol wedi gweld gostyngiad yn nifer y troseddwyr ifanc dros y tair blynedd diwethaf.

**Ffigur 2.5** Nifer y troseddwyr ifanc o dan 18 oed




Ffynhonnell: ?

Mae nifer y troseddwyr ifanc, o'i ystyried yn ganran o'r holl droseddwyr, wedi gostwng yn ystod y tair blynedd diwethaf, ac eithrio yng nghynghorau Ynys Môn a Wrecsam, lle mae'r gyfran wedi codi. Wrecsam sydd â'r gyfran fwyaf o droseddwyr dan 18 oed, sy'n cyfateb i 12.1% yn 2015/16, ac yn dynn ar ei sodlau mae Ynys Môn, lle mae 10.9% o'r troseddwyr dan 18 oed.

**Ffigur 2.6** Y ganran o'r holl droseddwyr sydd dan 18 oed




**Dioddefwyr troseddau**

Yn ddieithriad, mae nifer y plant a phobl ifanc y cofnodwyd y bu iddynt ddioddef trosedd wedi codi'n gyson o flwyddyn i flwyddyn ar draws holl awdurdodau lleol Gogledd Cymru. Gallai hyn fod o ganlyniad i nifer o resymau, gan gynnwys cynnydd yn y gallu/parodrwydd i roi gwybod am droseddau; cynnydd yn nifer y troseddau a gyflawnwyd, neu gynnydd mewn mathau penodol o droseddau megis seiberdroseddu.

**Ffigur 2.7** Nifer y rhai yng Ngogledd Cymru sy'n dioddef troseddau ac sy'n 17 oed neu'n iau




Yr un fath ag yn achos nifer y troseddwyr ifanc, yng Ngogledd Cymru, Wrecsam sydd â'r nifer mwyaf o bobl ifanc sy'n dioddef troseddau. Er hynny, o ran cyfran gyffredinol o'r holl ddioddefwyr troseddau, Wrecsam sydd â'r ganran isaf o ddioddefwyr ifanc, oherwydd y gyfradd droseddu gyffredinol uchel yn Wrecsam.

**Ffigur 2.8** Y ganran o’r holl ddioddefwyr sy’n 17 oed neu’n iau




## Cyfiawnder adferol

Mae nifer o wasanaethau ac amrywiaeth o ddarpariaeth yn cynorthwyo pobl ifanc sydd naill ai’n droseddwyr neu’n ddioddefwyr troseddau. O ran cyfiawnder adferol ledled Gogledd Cymru, mae nifer y gorchmynion Llys a gyhoeddwyd yn amrywio ar draws yr awdurdodau lleol; Wrecsam sydd â’r nifer mwyaf a gyhoeddwyd, a hynny o gryn dipyn. Cyfathrebu rhwng y rhai a niweidiwyd gan drosedd a’r rhai a oedd yn gyfrifol amdani yw cyfiawnder adferol, a hynny er mwyn dod o hyd i ffordd gadarnhaol ymlaen.

**Ffigur 2.9** Cyfiawnder adferol, nifer y gorchmynion a gyhoeddwyd yng Ngogledd Cymru




## Gwaith ailsefydlu

Mae gwybodaeth a geir yn Adroddiad Llamau (2014) yn manylu ar y gwasanaethau ailsefydlu sydd yng Ngogledd Cymru ar gyfer pobl ifanc sydd

wedi bod yn y ddalfa. Mae’r casgliadau sydd yn yr adroddiad yn tynnu sylw at y meysydd lle ceir arferion da, yn ôl rhanbarth, ynghyd â’r meysydd i’w gwella. Bydd yr argymhellion a’r camau gweithredu’n cael eu rhoi ar waith, a hynny yn rhan o waith Prosiect Cydgysylltydd Broceriaid Ailsefydlu Gogledd Cymru, gan roi sylw penodol i’r canlynol:

- Egwyddorion ac arferion cyffredinol ailsefydlu
- Llety
- Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth
- Iechyd a Llesiant
- Defnyddio Sylweddau
- Teuluoedd
- Cyllid, Budd-daliadau a Dyled
- Rheoli Achosion a phontio
- Canlyniadau.

Draft

## 2.6 Plant anabl

### Diffiniad

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn diffinio anabledd fel a ganlyn: nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith niweidiol sylweddol a hirdymor ar eich gallu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.

Mae Deddf Addysg 1996 yn datgan bod gan blant Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) os oes ganddynt anhawster dysgu sy'n galw am wneud darpariaeth addysgol arbennig ar eu cyfer.

Agweddau eraill ar anabledd a fyddai hefyd yn cael eu cynnwys o dan ddiffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb fyddai: plant sydd â salwch hirdymor cyfyngol, ag anableddau corfforol, ag anabledd dysgu, neu â phroblemau iechyd meddwl, a phlant â phroblemau niwroddatblygiadol (gan gynnwys plant â Chyflyrau'r Sbectrwm Awtistiaeth, ac nad oes ganddynt anabledd dysgu, a phlant â chyflyrau cronig (diabetes, epilepsi, asthma ac ati). Gall fod angen cefnogaeth hefyd ar blant sydd ag ymddygiad heriol ac sydd ag anhwylderau ymlyniad, ond efallai na fydd y gwasanaethau'n eu clustnodi nac yn nodi eu bod yn 'anabl'.

### Diogelu

"Mae'r dystiolaeth o'r DU sydd ar gael ar raddfa cam-drin plant anabl yn awgrymu bod plant anabl mewn perygl cynyddol o gael eu cam-drin, ac ymddengys bod presenoldeb anableddau lluosog yn cynyddu'r perygl o gam-drin ac esgeulustod." [1]

Yn aml, o ganlyniad i'w hanabledd, bydd plant anabl yn fwy agored i gamdriniaeth ac esgeulustod mewn ffyrdd nad yw'n wir yn achos plant eraill, a gall arwyddion cynnar o gamdriniaeth neu esgeulustod fod yn fwy cymhleth nag yn achos plant nad ydynt yn anabl.

### Beth yr ydym yn ei wybod am y boblogaeth?

Mae nifer y plant anabl yng Ngogledd Cymru wedi codi fesul tipyn dros y pum mlynedd diwethaf. Mae ffigurau Tabl 2.11 yn awgrymu bod cynghorau lleol yn gwybod, ar hyn o bryd, am oddeutu 5,000 o blant yng Ngogledd Cymru y mae ganddynt anabledd sy'n cael effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar eu gallu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.

[1] Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant, 2006



Draft

**Tabl 2.11** Y penawdau ystadegol am blant ag anghenion ychwanegol yng Ngogledd Cymru

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|---|
| Y rhai sydd dan 16 oed ac sy'n derbyn y Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) (Tachwedd) | 4,110 | 4,210 | 4,450 | 4,665 | 5,010 |
| Plant sydd dan 17 oed ac sydd ag anabledd corfforol/synhwyraidd (Hydref) | 4,720 | 4,508 | 4,324 | 4,411 | 4,549 |
| Plant mewn Angen sy'n anabl (Mawrth) | 790 | 800 | 735 | 785 | 760 |
| Plant sydd â Datganiad AAA (Gorffennaf) | 20,121 | 20,436 | 20,855 | 21,757 | 21,546 |

Hefyd, mae Gogledd Cymru wedi gweld cynnydd yn nifer y disgyblion y rhoddwyd datganiad Anghenion Addysgol Arbennig iddynt, sef anhawster dysgu sy'n ei gwneud yn ofynnol cynnig darpariaeth addysgol arbennig i'w cynorthwyo yn yr ysgol. Er hynny, ni fydd pob plentyn/person ifanc sydd â Datganiad Anghenion Addysgol yn anabl nac yn ystyried ei hun yn anabl.

Mae'r tueddiadau hyn i'w priodoli i'r cynnydd cenedlaethol yn nifer y plant anabl, sef cynnydd y credir y daw yn sgil cynnydd yn y cyfraddau goroesi, genedigaethau lluosog a mamau hŷn. Wrth i'w plant fynd yn hŷn ac yn fwy o faint, bydd yna effaith gynyddol ar rieni a gofalwyr o ran codi a chario, rheoli ymddygiad, a diogelwch, a gall hyn roi pwysau ychwanegol ar wytnwch rhieni a'u gallu i ofalu am eu plant.

Mae nifer y Plant mewn Angen sy'n anabl ac a gynorthwyir gan wasanaethau cymdeithasol wedi amrywio yn ystod y pum mlynedd diwethaf, ac mae gwahaniaethau amlwg rhwng cynghorau lleol, a allai fod oherwydd gwahaniaethau yn y prosesau cofnodi neu'r modd y gweithredir trothwyon cymhwystra (Cyfrifiad 'Plant mewn Angen').

**Tabl 2.12** Nifer y Plant mewn Angen sy'n anabl, 2011 to 2015

| | **2011** | **2012** | **2013** | **2014** | **2015** |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 95 | 95 | 85 | 65 | 70 |
| Gwynedd | 210 | 225 | 220 | 240 | 260 |
| Conwy | 125 | 130 | 150 | 140 | 140 |
| Sir Ddinbych | 115 | 200 | 60 | 70 | 55 |
| Sir y Fflint | 175 | 90 | 120 | 190 | 155 |
| Wrecsam | 70 | 60 | 100 | 80 | 80 |
| Gogledd Cymru | 790 | 800 | 735 | 785 | 760 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, StatsCymru

Draft

**Tabl 2.13** Canran y Plant mewn Angen sy'n anabl, 2011 to 2015

| | 2011 (%) | 2012 (%) | 2013 (%) | 2014 (%) | 2015 (%) |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 29 | 26 | 26 | 22 | 27 |
| Gwynedd | 33 | 34 | 31 | 32 | 36 |
| Conwy | 21 | 25 | 24 | 20 | 20 |
| Sir Ddinbych | 20 | 33 | 16 | 19 | 15 |
| Sir y Fflint | 36 | 22 | 27 | 32 | 31 |
| Wrecsam | 8 | 9 | 12 | 11 | 11 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, StatsCymru

Draft

**Tlodi mewn teuluoedd plant anabl**

Canfu ymchwil a wnaed gan Gymdeithas y Plant yn 2011 fod plant anabl sy'n byw yn y Deyrnas Unedig yn fwy tebygol, ar gyfartaledd, o fyw mewn tlodi. Plant anabl ydynt sy'n byw mewn teuluoedd incwm isel nad oes ganddynt mo'r adnoddau y mae arnynt eu hangen i gymryd rhan yn y mathau o weithgareddau cymdeithasol arferol y mae plant eraill yn eu cymryd yn ganiataol.

Mae teuluoedd plant anabl yng Nghymru yn wynebu pwysau newydd ar eu hincwm, oherwydd newidiadau a wnaed i'r system fudd-daliadau, sef newidiadau a gyflwynwyd yn sgil diwygiadau lles gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae rhai o swyddogion Cyngor ar Bopeth wedi dweud eu bod, dros y tair blynedd diwethaf, wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl y mae'r Lwfans Byw i'r Anabl a roddir i blant yn arian y dibynnant arno i fod yn rhan o incwm yr aelwyd, yn hytrach nag i ddarparu'r gefnogaeth ychwanegol y mae ar blentyn anabl ei angen. Mae perygl i blant anabl sy'n byw mewn tlodi fod yn fwy difreintiedig os defnyddir eu Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfer bwyd, gwres neu rent.

Canfu ymchwil a wnaed gan y Consortiwm Budd-daliadau Anabledd fod mwy a mwy o bobl anabl yng Nghymru yn gofyn i fanciau bwyd am gymorth er mwyn bwydo eu teuluoedd, ers i doriadau i fudd-daliadau gan y llywodraeth gael eu gweithredu. O blith y bobl y mae'r newidiadau a wnaed i'r budd-daliadau'n effeithio arnynt, roedd 12% wedi defnyddio banciau bwyd, ac mewn teuluoedd yr oedd y newidiadau a wnaed i'r dreth ystafell wely a'r dreth gyngor yn effeithio arnynt, roedd y ffigur hwn yn codi i 15%.

## Beth y mae pobl yn ei ddweud wrthym?

Roedd adborth o'r sesiynau ymgysylltu â rhieni yn tynnu sylw at y themâu cyffredin canlynol:

- Ystyrid bod yr amser a gymerid i gynnal asesiadau, a'r oedi cyn cael cefnogaeth, yn rhy hir. Roedd angen "gweithredu'n gynt pan ofynnir am

help”. Soniwyd bod cefnogaeth wrth aros am asesiadau neu am gadarnhad o ddiagnosis yn bwysig hefyd.

- Pryder am brinder cymorth i ofalu am eu plentyn/plant, yn enwedig i’r rheini sy’n ofalwyr llawn-amser ac yn rhieni sengl, os ydynt yn sâl ac yn ystod gwyliau’r ysgol.
- Roeddent yn teimlo bod angen rhagor o gefnogaeth arnynt er mwyn cynnal eu llesiant emosiynol eu hunain – gan gynnwys cymorth ychwanegol, ysbaid/ysbaid byr, dysgu am ragor o strategaethau ymdopi; gwarchodwyr plant, a chefnogaeth llesiant emosiynol. Roedd hyn yn bryder wrth geisio cael cydbwysedd rhwng gweithio a gofalu am blentyn anabl, ac awgrymwyd ei bod yn bwysig cael gweithwyr proffesiynol sy’n gwrando. Roedd yr effaith gorfforol ac emosiynol yr oedd problemau rheoli ymddygiad yn ei chael ar rieni yn sylweddol hefyd. Gan gynnwys: tymer, anawsterau cyfathrebu a phryderon am ddiogelwch.
- Effaith arwahanrwydd cymdeithasol a chefnogaeth i fynd allan o’r cartref, yn achos y plant a’r rhieni. Gan gynnwys taliadau uniongyrchol ar gyfer teithiau pleser i’r teulu, yr angen am ofal dydd neu Glybiau ar ôl Ysgol addas.
- Dywedodd rhieni y byddai’n haws iddynt ymdopi pe bai gan y gymuned ehangach well dealltwriaeth o anableddau, a phe bai pobl yn fwy parod i dderbyn anableddau nad oeddech yn gallu eu gweld.
- Cyfleusterau gwell i deuluoedd plant anabl.
- Rhagor o gefnogaeth gan y sector gwirfoddol ac elusennau.
- Problemau o ran rheoli pryder eu plant yn gyhoeddus neu pan nad oeddent dan eu gofal.

Roedd yr adborth o’r sesiynau ymgysylltu â phlant wedi tynnu sylw at y themâu cyffredin canlynol:

- Siaradodd y plant am yr anawsterau a gaent o ran cwrdd â ffrindiau y tu allan i oriau ysgol. Pan ydych yn iau, mae cynlluniau chwarae ar gael i’r rhai ag anghenion arbennig; nid yw’r cynlluniau’n addas pan ydych yn hŷn. Dywedodd y plant yr hoffent gael clwb lle gallent gwrdd â’u ffrindiau.
- Dywedodd rhai o’r plant eu bod yn ei chael yn anodd bod mewn amgylcheddau swnllyd, megis mynd i siopau mawr, pyllau nofio neu ganolfannau chwaraeon.
- Byddai rhai plant yn hoffi mynd allan ar eu pen eu hunain, ond roedd rhieni’n poeni y byddai plant eraill yn eu bwlio neu’n cymryd mantais ohonynt.
- Dywedodd y plant pa mor anodd ydoedd iddynt wneud penderfyniadau.

Draft

- Dywedodd un plentyn ei fod yn cael trafferth mynd o gwmpas, yn enwedig mynd i lawr allt, oherwydd nad oedd yn gallu symud yn hwylus. Roedd hyn yn amharu ar ei weithgareddau cymdeithasol a hamdden.
- Dywedodd y plant eu bod yn dibynnu ar eu rhieni i roi help llaw iddynt â'r pethau oedd yn anodd iddynt eu gwneud, ac roedd gan un plentyn weithiwr cymdeithasol a oedd yn mynd ag ef allan.
- Byddai'r plant yn hoffi cael mwy o amrywiaeth o weithgareddau i'w gwneud y tu allan i'r ysgol, megis gweithdai celf, gweithgareddau awyr agored, teithiau i barciau gweithgareddau a rhywle lle gellid cael hwyl, cwrdd â ffrindiau, beicio, a chymryd rhan mewn gweithgareddau cerdd a dawnsio.
- Dywedodd yr athrawon yr hoffent gael rhagor o wybodaeth am yr hyn sydd ar gael i blant 'nawr bod rhai o'r cynlluniau chwarae wedi dod i ben.

Roedd adborth gan y staff yn pwysleisio pa mor gymhleth a chyd-ddibynnol yr oedd y problemau yr oedd plant a phobl ifanc anabl a'u teuluoedd yn eu hwynebu, gan gynnwys anawsterau wrth symud o'r gwasanaethau plant i'r gwasanaethau oedolion. Hefyd, tynnodd y staff sylw at gynnydd yn nifer y plant anabl sydd ag anghenion cymhleth iawn. Roedd angen cynnwys rhagor o wybodaeth yn adolygiad yr asesiad poblogaeth.

## Adolygiad o'r gwasanaethau a ddarperir

Mae'r gwasanaethau sydd ar gael i blant anabl a'u teuluoedd, trwy gynghorau lleol, yn dilyn asesiad o anghenion, yn cynnwys:

- Cefnogaeth emosiynol a chwnsela
- Cyngor a gwybodaeth
- Cymorth ariannol
- Gofal ysbaid byr, gan gynnwys gofalwyr maeth i ofalu am blant am gyfnodau byr, yn ogystal â chynlluniau chwarae a gweithgareddau i blant ac i bobl ifanc
- Gofal yn y cartref
- Therapi galwedigaethol
- Offer ac addasiadau
- Taliadau uniongyrchol.

Mae amrywiaeth eang o wasanaethau ar gael hefyd gan y trydydd sector a grwpiau cymunedol. Mae Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd ar gael i helpu i wneud pobl yn fwy ymwybodol o wybodaeth a gwasanaethau a all fod o gymorth i'r teuluoedd hyn. Y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd a ddylai



Draft

fod yn gyswllt cyntaf i gael gwybodaeth am wasanaethau a chefnogaeth i blant anabl, ac mae hyn yn cynnwys y gwasanaethau cyffredinol, gweithgareddau hamdden, clybiau gwyliau, gofal plant, chwaraeon, ac ati.

Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn cynnwys elfen anabledd, y disgwylir iddi barhau pan adolygir canllawiau'r rhaglen yn 2017. Mae'r gwasanaethau a ddarperir yn amrywio o sir i sir ond yn cynnwys cefnogaeth ynghylch budd-daliadau, cyngor a gwasanaethau gofal plant.

Drafft

## 2.7 Iechyd meddwl plant a phobl ifanc

### Beth yw ystyr y term iechyd meddwl?

Mae Sefydliad Iechyd y Byd (2014) yn diffinio iechyd meddwl fel:

> "cyflwr llesiant pan fydd pob unigolyn yn gwireddu'i botensial, yn gallu dygymod â straen arferol bywyd, yn gallu gweithio'n gynhyrchiol a buddiol, ac yn gallu cyfrannu i'w gymuned"

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru (2016a) yn defnyddio'r term llesiant meddwl ar gyfer y diffiniad uchod; problemau iechyd meddwl i olygu profiadau sy'n ymyrryd â gweithrediad o ddydd i ddydd; a salwch meddwl i ddisgrifio problemau iechyd meddwl difrifol a pharhaus sy'n gofyn am driniaeth gan wasanaethau iechyd meddwl arbenigol.

### Beth yr ydym yn ei wybod am y boblogaeth?

Roedd iechyd meddwl plant yn bryder a godwyd yn gyson yn ystod y broses ymgynghori ac ymgysylltu ar gyfer yr asesiad poblogaeth, yn enwedig hunan-niweidio, iselder a phroblemau rheoli dicter. Gall profiadau bore oes effeithio ar iechyd meddwl a datblygiad cymdeithasol plant a phobl ifanc yn yr hirdymor (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2016b).

Yn gyffredinol, mae tua 80% o bobl ifanc yng Nghymru yn dweud eu bod yn fodlon iawn eu byd (Sefydliad Iechyd y Byd, 2016). Fodd bynnag, mewn arolwg o bobl ifanc 15 oed mewn 42 o wledydd gwahanol, roedd Cymru yn safle 39 o ran y mesur hwn, uwchben Lloegr, Gwlad Pwyl a Chyn-Weriniaeth Iwgoslafaidd Macedonia (Sefydliad Iechyd y Byd, 2016).

Mae'r gyfran o blant a phobl ifanc yng Nghymru sy'n dweud eu bod yn teimlo'n isel fwy nag unwaith yr wythnos yn amrywio o 7% o fechgyn 11 mlwydd oed i 15% o fechgyn 15 mlwydd oed, ac o 11% o ferched 11 mlwydd oed i 32% o ferched 15 mlwydd oed. Ym mhob grŵp oedran, roedd mwy o ferched na bechgyn yn dweud eu bod yn teimlo'n isel fwy nag unwaith yr wythnos, ac roedd y gyfran yn cynyddu ymhlith ymatebwyr hŷn. Wrth gymharu 2009 a 2014, gwelwyd cynnydd o ran adroddiadau ar deimlo'n isel ymhlith bechgyn 15 oed ac ymhlith merched ym mhob grŵp oedran, fel y gwelir yn Tabl 2.142.

Draft

**Tabl 2.14** Canran y plant a phobl ifanc yng Nghymru sy'n teimlo'n isel fwy nag unwaith yr wythnos, 2009 a 2014




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2015

Dengys rhagfynegiadau Daffodil y bydd nifer y plant ag anghenion iechyd meddwl yn aros o gwmpas 8,000 rhwng 2015 a 2035, gan godi i uchafbwynt o 8,400 yn 2025. Mae hyn oherwydd y dull a ddefnyddir, sef cymhwyso cyfradd y plant ag anghenion iechyd meddwl i amcanestyniadau poblogaeth nad ydynt yn dangos newid yn nifer y plant a phobl ifanc erbyn 2035.

Dengys Tabl 2.15.15 ffactorau risg a ffactorau amddiffyn iechyd plant a'r glasoed o ran eu hunain, eu teulu, eu hysgol a'u cymuned. Dylai strategaethau i hybu iechyd meddwl a llesiant plant ganolbwyntio ar gryfhau'r ffactorau amddiffyn a lleihau cysylltiad plant â'r ffactorau risg, lle bynnag y bo modd.

**Tabl 2.15** Ffactorau risg a ffactorau amddiffyn iechyd meddwl plant a'r glasoed (Yr Adran Addysg, 2016)

| | **Ffactorau risg** | **Ffactorau amddiffyn** |
|---|---|---|
| Yn y plentyn [2][3] | • Dylanwadau genetig<br>• IQ isel ac anabledd dysgu<br>• Oedi penodol o ran datblygiad neu niwro-amrywiaeth<br>• Anawsterau cyfathrebu<br>• Natur anodd<br>• Salwch corfforol | • Bod yn ferch (yn y plant ieuengaf)<br>• Ymlyniad cadarn<br>• Natur radlon mewn babandod<br>• Sgiliau cyfathrebu a chymdeithasu da<br>• Bod yn un sy'n cynllunio ac yn credu mewn rheolaeth<br>• Hiwmor |

Draft

[2] Rutter, M. (1985) Resilience in the face of adversity. Protective factors and resistance to psychiatric disorder. British Journal of Psychiatry. Cyfrol. 147, tt. 598-611
[3] http://www.youngminds.org.uk/assets/0000/1383/Risk_factors_handout_Looked_After_Toolkit.pdf

| | Ffactorau risg | Ffactorau amddiffyn |
|---|---|---|
| | • Methiant academaidd<br>• Hunan-barch isel | • Sgiliau datrys problemau<br>• Profiad o lwyddiant a chyflawniad<br>• Ffydd neu ysbrydolrwydd<br>• Y gallu i fyfyrio |
| Yn y teulu [4, 4] | • Gwrthdaro agored rhwng rhieni, yn cynnwys trais domestig<br>• Chwalu teulu (yn cynnwys rhoi plant mewn gofal neu i'w mabwysiadu)<br>• Disgyblaeth anghyson neu aneglur<br>• Perthnasoedd gelyniaethus, ymwrthodol<br>• Methu addasu i anghenion newidiol plentyn<br>• Cam-drin corfforol, rhywiol, emosiynol neu esgeulustod<br>• Rhiant â salwch seiciatrig<br>• Rhiant sy'n troseddu, sy'n gaeth i alcohol neu sy'n dioddef anhwylder personoliaeth<br>• Marwolaeth a cholled – yn cynnwys colli cyfeillgarwch | • Perthynas dda rhwng o leiaf un o'r rhieni a'r plentyn (neu un oedolyn cefnogol)<br>• Hoffter<br>• Disgyblaeth glir a chyson<br>• Cefnogaeth ag addysg<br>• Perthynas gefnogol hirdymor neu ddiffyg anghytgord difrifol |
| Yn yr ysgol | • Bwlio<br>• Gwahaniaethu<br>• Cyfeillgarwch yn methu neu ddiffyg cyfeillgarwch cadarnhaol<br>• Cyfoedion sy'n ddylanwad drwg<br>• Pwysau gan gyfoedion<br>• Perthynas wael rhwng y disgybl a'r athro/athrawes | • Polisïau clir ar ymddygiad a bwlio<br>• Polisi 'drws agored' i blant sydd am drafod problemau<br>• Dull gweithredu ysgol gyfan i hyrwyddo iechyd meddwl da<br>• Rheolaeth gadarnhaol yn yr ystafell ddosbarth<br>• Ymdeimlad o berthyn<br>• Cyfoedion sy'n ddylanwad da |
| Yn y gymuned [4,5] | • Anfantais sosio-economaidd<br>• Digartrefedd<br>• Trychineb, damwain, rhyfel neu ddigwyddiadau ysgubol eraill<br>• Gwahaniaethu<br>• Digwyddiadau bywyd arwyddocaol eraill | • Rhwydwaith cefnogol ehangach<br>• Tai da<br>• Safon byw uchel<br>• Ysgol â morâl uchel, polisïau cadarnhaol o ran ymddygiad, agweddau ac atal bwlio<br>• Cyfle i chwarae rôl gymdeithasol werthfawr<br>• Amrywiaeth o weithgareddau hamdden/chwaraeon |

I gael rhagor o wybodaeth am yr effaith negyddol y mae profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn ei chael ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl unigolion, gweler yr adroddiad a luniwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (2015)

Draft

[4] http://www.youngminds.org.uk/assets/0000/1399/Resilience_handout.pdf

Awgrymai'r broses ymgynghori ac ymgysylltu ar gyfer yr asesiad poblogaeth fod y plant a atgyfeirir at CAHMS yn iau ac yn iau, a thynnwyd sylw at bryderon penodol ynghylch plant sy'n derbyn gofal, a'r nifer mawr ohonynt sy'n cael eu hatgyfeirio at CAMHS.

**Hunan-niwed**

Yn ystod y broses ymgynghori a'r ymgysylltu, nodwyd bod hunan-niweidio yn angen sy'n cynyddu. Dengys Ffigur 2.10 fod nifer yr asesiadau risg o ran hunan-niweidio a gynhaliwyd yng Ngogledd Cymru wedi dyblu rhwng 2012 a 2016. Data ar y rhai a ymwelodd ag unedau Damweiniau ac Achosion Brys yn unig yw'r rhain, felly mae'n bosibl fod yr angen yn y gymuned yn fwy fyth. Gallai arhosiad yn yr ysbyty i blant a phobl ifanc sydd wedi hunan-niweidio gostio tua £200 i £870 am bob un a dderbynnir (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2016b). Nid yw hyn yn cynnwys costau derbyn i unedau therapi dwys neu ddibyniaeth uchel, a all fod yn angenrheidiol mewn nifer bach o achosion. Mae llwybr hunan-niweidio ar waith rhwng iechyd ac addysg.

**Ffigur 2.10** Nifer yr asesiadau risg o ran unan-niweidio yng Ngogledd Cymru, 2012-2016




Ffynhonnell: Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)

**Anhwylderau bwyta**

Mae anhwylderau bwyta ymhlith y problemau iechyd meddwl sy'n achosi'r pryder mwyaf i deuluoedd. Adolygwyd y Fframwaith Anhwylderau Bwyta ar gyfer Cymru yn ddiweddar, a gwnaed argymhellion i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn berthnasol i'r sefyllfa bresennol. Mae Tabl 2.16 yn rhoi amcangyfrif o'r

niferoedd ag anhwylderau bwyta yng Ngogledd Cymru, ac mae’r gyfran o fechgyn a merched i’w gweld yn Ffigur 2.11. Dengys y data cenedlaethol gynnydd o 8% yn genedlaethol yn nifer y derbyniadau i’r ysbyty oherwydd anhwylderau bwyta rhwng 2013 a 2014 (NHS Digital, 2014).

**Tabl 2.16** Amcangyfrif o nifer y plant ag anhwylderau bwyta, 2014

| | 5 i 10 oed | 11 i 16 oed | Cyfanswm (5 i 16 oed) |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 15 | 15 | 25 |
| Gwynedd | 25 | 30 | 45 |
| Conwy | 20 | 30 | 45 |
| Sir Ddinbych | 20 | 25 | 40 |
| Sir y Fflint | 35 | 40 | 65 |
| Wrecsam | 30 | 35 | 55 |
| Cyfanswm | 120 | 140 | 235 |

*Mae’r niferoedd wedi’u talgrynnu felly efallai na fyddant yn cyfansymio*
Ffynhonnell: Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Ffigur 2.11** Amcangyfrif o nifer y bechgyn a’r merched ag anhwylderau bwyta, Gogledd Cymru




*Mae’r niferoedd wedi’u talgrynnu felly efallai na fyddant yn cyfansymio*
Ffynhonnell: Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, gweler yr asesiad anghenion iechyd meddwl plant a’r glasoed gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (2016a), a ysgrifennwyd i lywio Rhaglen Gyda’n Gilydd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc.

### Ymlyniad

‘Gall amgylchedd plant yn dilyn eu genedigaeth effeithio ar eu datblygiad, er enghraifft trawma datblygiadol a achosir gan gamdriniaeth neu esgeulustod, neu’r ddau. Oni chânt ysgogiad a

gofal priodol, bydd hyn yn effeithio ar dwf a datblygiad rhannau penodol o'u hymennydd gan arwain at ddiffyg datblygiad emosiynol. Yn aml, cyfeirir at hyn fel *anawsterau ymlyniad* neu *anhwylderau ymlyniad*. (NHS Choices, 2016).

Yn nodweddiadol, bydd plant sy'n cael cychwyn gwael mewn bywyd, yn enwedig os ydynt hefyd wedi cael eu gadael, neu wedi dioddef esgeulustod a/neu gamdriniaeth, yn cael trafferth ag ymlyniad, ac maent  tueddu i gael problemau ymddygiad sy'n golygu eu bod yn neilltuol o anodd eu magu. Yn aml, lleoliadau maeth hirdymor neu fabwysiadu yw hanes y plant hyn.

Dywed staff fod problemau ymlyniad gan blant yn cael eu nodi'n gynyddol fel un o achosion methiant lleoliadau (yn cynnwys mabwysiadu a Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig). Mae CAMHS yn darparu rhywfaint o gefnogaeth i ofalwyr maeth a rhieni mabwysiadol, a darperir hyfforddiant gan gynghorau lleol.

Nid oes ystadegau ar gael ynghylch nifer y plant ag anhwylderau ymlyniad, naill ai o ran y boblogaeth plant a phobl ifanc yn gyfan, neu o ran y plant sy'n derbyn gofal. Fodd bynnag, roedd yr adborth gan staff yn dweud bod hwn yn angen pwysig, ac yn argymell datblygu dull gweithredu cydlynol rhwng y gwasanaeth iechyd a'r gwasanaethu cymdeithasol i roi sylw i'r anghenion ac i ehangu'r hyfforddiant ar ymlyniad.

## Adolygiad o'r gwasanaethau

Nododd Iechyd Cyhoeddus Cymru (2016a) nifer o ymyraethau y mae tystiolaeth eu bod yn effeithiol o ran gwella llesiant meddyliol.

- Ymdrin ag effaith penderfynyddion iechyd ehangach, er enghraifft anghydraddoldeb a thai gwael, a lleihau'r tebygolrwydd y bydd plant yn cael profiadau niweidiol, megis cysylltiad â thrais a defnyddio cyffuriau.
- Asesiad risg cyffredinol ychydig cyn ac ar ôl geni, wedi'i ddilyn gan ymyraethau targededig i'r rhai y gwelwyd eu bod yn wynebu'r risg fwyaf.
- Cefnogaeth gyffredinol i rieni a chefnogaeth wedi'i thargedu.
- Mynediad at gyfleoedd addysgol yn y blynyddoedd cynnar.
- Rhaglenni wedi'u darparu mewn ysgolion y mae tystiolaeth eu bod yn gwella llesiant cymdeithasol ac emosiynol, hunanhyder a hunanreolaethyn ogystal â lleihau problemau ymddygiad, trais a bwlio.

Mae'r adolygiad yn cynnwys argymhellion o ran y Rhaglen Gyda'n Gilydd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc, yn seiliedig ar yr ymyraethau a restrir.

Y canlynol yw dull gweithredu'r gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS) yng Ngogledd Cymru:

Draft

- Ymyrraeth gynnar, gwaith atal ac iechyd meddwl sylfaenol: hybu iechyd meddwl da, meithrin gwytnwch a lleihau stigma trwy weithio gyda phartneriaid, yn enwedig ym maes addysg. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo'r 'pum ffordd at lesiant', Cynllun Presgripsiwn Llyfrau Gogledd Cymru a'r cynllun cenedlaethol Llyfrau Llesol; sicrhau sgyrsiau cynnar rhwng gweithwyr proffesiynol; ymyraethau targededig i atal gorbryder, wedi'u darparu mewn partneriaeth trwy gyfres ymyraethau 'Ffrindiau am Oes'; datblygu llwybr a phrotocol hunan-niweidio; cynnig gofal yn newis iaith defnyddwyr y gwasanaeth.
- Gwasanaethau ymyrraeth ar sail atgyfeiriadau: ad-drefnu gwasanaethau fel bod plant a phobl ifanc y mae arnynt angen asesiad iechyd meddwl arferol yn cael eu hapwyntiad cyntaf cyn pen 28 diwrnod, a bod y rheiny y mae arnynt angen asesiad iechyd meddwl brys yn cael eu gweld cyn pen 48 awr.
- Cynlluniau i ad-drefnu a datblygu gwasanaethau ar gyfer: Anhwylderau Sbectrwm Awtistiaeth (ASA) ac Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD), fel bod gwasanaethau pediatreg cymunedol wrth wraidd y gwasanaeth hwn; anhwylderau bwyta; ymyrraeth gynnar ar gyfer seicosis; y blynyddoedd cynnar; pediatreg ac iechyd meddwl; a gwasanaethau haen 4.

Cefnogir y dull gweithredu hwn gan fuddsoddiad ychwanegol o £1.6 miliwn gan Lywodraeth Cymru yn CAMHS yng Ngogledd Cymru (Gore-Rees, 2015).

Ym mis Mawrth 2016, cynhaliwyd 22% o asesiadau iechyd meddwl arferol cyn pen 28 diwrnod, a dechreuodd 26% gael ymyraethau therapiwtig cyn pen 28 diwrnod. Y targed ar gyfer y ddau oedd 80% (BIPBC, 2016). Dengys Tabl 2.17 fod y rhestr aros ar gyfer asesiadau iechyd meddwl wedi gostwng o 200 i 82 erbyn mis Awst 201, a bod yr arhosiad hiraf wedi gostwng o 32 i 21 o wythnosau. Mae'r niferoedd ar y rhestr aros ASA ac ADHD wedi cynyddu yn ystod yr un cyfnod. Roedd ymatebion i'r holiadur sefydliadau yn nodi bod rhestrau aros CAMHS yn broblem, ond mae'n bosibl nad oedd pobl wedi cael profiad o'r gwasanaeth ers y gwelliannau [add link]. Hefyd, bydd dal angen cefnogaeth gyffredinol a chefnogaeth wedi'i thargedu ar blant nad ydynt yn cyrraedd trothwyon CAMHS.

**Tabl 2.17** Rhestrau Aros 2016-17, BIPBC

| | Asesiad Iechyd Meddwl | | Niwro | | ASA | | ADHD | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer ar y rhestr aros | Arhosiad hiraf (wythnosau) | Nifer ar y rhestr aros | Arhosiad hiraf (wythnosau) | Nifer ar y rhestr aros | Arhosiad hiraf (wythnosau) | Nifer ar y rhestr aros | Arhosiad hiraf (wythnosau) |
| Ebrill 16 | 222 | 32 | 181 | 35 | 122 | 62 | 107 | 61 |
| Mai 16 | 208 | 28 | 175 | 35 | 130 | 66 | 114 | 65 |
| Meh. 16 | 178 | 24 | 171 | 33 | 151 | 71 | 119 | 71 |
| Gorff. 16 | 148 | 21 | 168 | 33 | 155 | 75 | 122 | 75 |
| Awst 16 | 82 | 21 | 162 | 34 | 161 | 80 | 133 | 80 |

Ffynhonnell: BIPBC

Yn ychwanegol at y gwasanaethau a ddisgrifiwyd uchod, mae pob cyngor yn comisiynu gwasanaethau i hybu amrywiol fathau o wytnwch teuluol, ac yn darparu gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion. Hefyd, mae'r trydydd sector yn darparu ystod amrywiol o gefnogaeth ar gyfer plant a phobl ifanc i hybu iechyd a llesiant meddyliol ac emosiynol.

Mae gan wasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth, gan gynnwys y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd (GGD), rôl i gydlynu'r gwasanaethau hyn. Mae Dewis Cymru hefyd ar gael fel cyfeiriadur gwasanaethau ar-lein. Er enghraifft, mae Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam yn gweithio mewn partneriaeth i gefnogi teuluoedd sy'n aros am driniaeth neu ddiagnosis gan CAHMS.

Mae angen rheolaeth ofalus wrth bontio o CAMHS i'r gwasanaethau iechyd meddwl oedolion er mwyn cynnal cysylltiadau a rheoli profiadau gwahanol o wasanaethau. Mae angen i wasanaethau gysylltu yn gynharach er mwyn i bobl ifanc a'u teuluoedd gael gwybodaeth am y gwasanaethau oedolion a bod yn ymwybodol ohonynt.

Draft

## 2.8 Ymyrraeth gynnar, atal a rhianta

### Rhagarweiniad

Gosodir y sylfeini ar gyfer pob agwedd ar ddatblygiad dynol cyn genedigaeth ac yn ystod plentyndod cynnar (0 i bum mlwydd) (Jones *et al.*, 2016). Mae yna ddadl economaidd gref fod ymyraethau cynnar yn ad-dalu eu costau lawer gwaith drosodd.

Mae plant sy'n cael eu cam-drin yn gorfforol neu'n rhywiol, neu sy'n cael eu magu ar aelwydydd lle mae cam-drin domestig, alcohol neu gyffuriau yn digwydd, yn fwy tebygol o fabwysiadu ymddygiad gwrth-gymdeithasol a niweidiol i iechyd pan fyddant yn oedolion. Dengys canlyniadau'r astudiaeth gyntaf o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE) yng Nghymru fod dioddef pedwar neu ragor o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn cynyddu, bedair gwaith, y siawns o yfed i raddau sy'n gyfystyr â risg uchel pan fydd rhywun yn oedolyn, yn cynyddu'r risg o smygu chwe gwaith, ac yn cynyddu'r risg o fod yn gysylltiedig â thrais yn y flwyddyn ddiwethaf oddeutu 14 gwaith (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2015). Mae un o bob saith oedolyn 18-69 mlwydd oed yng Nghymru wedi dioddef pedwar neu ragor o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, ac mae ychydig llai na hanner ohonynt wedi dioddef o leiaf un profiad o'r fath.

Y profiadau mwyaf cyffredin y mae plant yng Nghymru'n eu dioddef yw cam-drin llafar (23%), cael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni (20%), a cham-drin corfforol (17%). Mae profiadau niweidiol eraill sy'n digwydd yn aml yn cynnwys dod i gysylltiad â thrais domestig (16%), salwch meddwl (14%), cam-drin alcohol (14%), cam-drin rhywiol (10%), defnyddio cyffuriau (5%) a charcharu (5%).

Mae pedwar deg un y cant (41%) o oedolion yng Nghymru a ddioddefodd bedwar neu ragor o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod bellach yn byw â llesiant meddyliol isel. Mae hyn yn cymharu ag 14% o unigolion na chafodd Brofiad Niweidiol yn ystod eu plentyndod. Mae oedolion a gafodd bedwar Profiad Niweidiol neu ragor yn ystod eu plentyndod bedair gwaith yn fwy tebygol o ddatblygu diabetes Math 2, deirgwaith yn fwy tebygol o ddatblygu clefyd y galon a theirgwaith yn fwy tebygol o ddatblygu clefyd anadlol, o gymharu ag oedolion na chafodd Brofiad Niweidiol yn ystod Plentyndod.

Mae hyn yn dangos pwysigrwydd canolbwyntio ar y blynyddoedd cynnar, a lleihau nifer y plant sy'n byw mewn teuluoedd lle ceir cam-drin domestig, problemau iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau neu fathau eraill ar gamdriniaeth neu esgeulustod. Darparu amgylcheddau diogel a chefnogol i bob plentyn yng Nghymru yw'r ffordd orau i fagu oedolion iachach a hapusach.



Draft

Gall y gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar fod yn bresennol ar draws y sbectrwm anghenion (gweler Ffigur 2.12). Mae'r gwasanaethau cyffredinol yn fwy tebygol o geisio atal rhywbeth rhag digwydd yn y lle cyntaf, tra gall y gwasanaethau ar gyfer yr anghenion uwch geisio atal plentyn rhag gorfod derbyn gofal. Byddai'r gwaith gyda theuluoedd ar y lefel ganol yn ceisio atal problemau rhag gwaethygu i'r graddau lle bydd angen ymyraethau statudol dwysach.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu Llywodraeth Cymru'n gweithredu cynlluniau yn unol â'r agenda tlodi plant, er enghraifft Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Chymunedau yn Gyntaf. Tra bu Dechrau'n Deg a Chymunedau yn Gyntaf yn canolbwyntio mwy ar ardaloedd difreintiedig gyda chyfyngiadau eraill, e.e. oedran yn achos Dechrau'n Deg, bu Teuluoedd yn Gyntaf ar agor i unrhyw deulu yr oedd angen cefnogaeth cynnar arnynt i atal cyfeirio'u hanghenion at y gwasanaethau statudol.

Mae Dechrau'n Deg yn cefnogi plant 0-4 oed sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig. Mae'n helpu plant i fod yn barod i'r ysgol trwy gefnogi rhieni â gwasanaeth dwys gan ymwelwyr iechyd, darpariaeth gofal plant a rhaglenni magu plant. Yn 2015/16, roedd dros 7,000 o blant wedi cael budd o wasanaethau Dechrau'n Deg ledled Gogledd Cymru.

Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn cefnogi plant a theuluoedd gan ddefnyddio dull gweithredu Tîm o amgylch y Teulu (TAF) i gefnogi teuluoedd trwy ganolbwyntio ar eu cryfderau. Yn 2015/16, y prif atgyfeirwyr i'r gwasanaethau TAF yng Ngogledd Cymru oedd ymwelwyr iechyd ac ysgolion.

## Beth yw ystyr atal ac ymyrraeth gynnar?

Gall diffiniad atal ac ymyrraeth gynnar gynnwys y canlynol:

- Mynediad cyffredinol at wybodaeth a chyngor ynghyd â 'gwasanaethau cyffredinol' megis addysg, cludiant, cyfleusterau hamdden neu ymarfer corff, ac ati.
- Ymyraethau sengl ac ymyraethau amlasiantaethol targededig, sy'n cyfrannu at atal yr angen am ofal a chymorth wedi'u rheoli, neu'n arafu datblygiad yr angen hwnnw, neu'n helpu pobl i ddibynnu llai ar y gofal a'r gefnogaeth honno.

Mae Ffigur 2.12 yn darlunio gwaith atal fel sbectrwm o anghenion. Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar ymyraethau sengl ac amlasiantaethol targededig ar lefel 2.

Draft

**Ffigur 2.12** Model dangosfwrdd y Sefydliad Gofal Cyhoeddus, gwaith atal ar bedair lefel Edit diagram to correct spelling of escalate and add Welsh text




| | |
|---|---|
| Escalating needs | Yr angen yn cynyddu |
| UNIVERSAL SERVICES | GWASANAETHAU CYFFREDINOL |
| LEVEL 1 | LEFEL 1 |
| Universal Services | Gwasanaethau Cyffredinol |
| TARGETED SUPPORT | CEFNOGAETH WEDI'I DARGEDU |
| LEVEL 2 | LEFEL 2 |
| Single agency | Asiantaeth sengl |
| Multi agency | Amlasiantaeth |
| Team around the Family | Tîm o Amgylch y Teulu |
| JAFF | |
| LEVEL 3 | LEFEL 3 |
| Complex difficulties | Anawsterau cymhleth |
| LEVEL 4 | LEFEL 4 |
| Significant risk | Risg sylweddol |
| De-escalating need | Yr angen yn lleihau |

## Beth yw ystyr rhianta a chefnogaeth i rieni?

Yn yr adroddiad hwn, mae'r term **rhiant** yn cynnwys: mamau, tadau, gofalwyr maeth, rhieni mabwysiadol, llys-rieni a neiniau a theidiau.

Diffinnir **rhianta** fel a ganlyn:

> Gweithgaredd a gyflawnir gan y rhai sy'n magu plant yw rhianta, ac mae'r rhain yn cynnwys mamau, tadau, gofalwyr maeth, rhieni mabwysiadol, llys-rieni (Llywodraeth Cymru 2014)

Diffinnir cefnogaeth rhianta fel: Darpariaeth gwasanaethau a chefnogaeth sydd â'r nod o gynyddu sgiliau rhianta; gwella'r berthynas rhwng rhieni a phlant; gwella dealltwriaeth, agweddau ac ymddygiad rhieni; a chynyddu hyder rhieni er mwyn hybu lles cymdeithasol, corfforol ac emosiynol plant.

## Pam yr ydym yn rhoi cefnogaeth i rieni?

> 'Diben craidd cefnogaeth rhianta yw **gweithio gyda** rhieni i leihau risgiau; cryfhau gallu rhianta; datblygu a meithrin gwytnwch a chynnal newidiadau cadarnhaol.' (Llywodraeth Cymru 2014)

Mae rhianta hefyd yn ffactor allweddol yn natblygiad ymddygiadol ac iechyd meddwl plant. Mae plant sy'n byw trwy Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE), er enghraifft trais, esgeulustod neu fyw gydag unigolion sy'n cam-drin sylweddau, yn wynebu mwy o risg y byddant yn datblygu afiechyd cyn pryd ac ymddygiad sy'n niweidiol i iechyd (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2015).

Fel arfer, rydym ni'n dysgu sgiliau rhianta o'r profiadau a gawn yn ystod ein plentyndod. Pan na fydd y profiadau hyn yn cynnwys rhai o elfennau craidd magu plant mewn amgylchedd diogel a chefnogol, gall hyn gael effaith niweidiol ar y plentyn wrth iddo/iddi dyfu ac felly bydd y cylch rhianta amhriodol yn parhau.

Mae angen darparu cefnogaeth rhianta i dorri cylchoedd rhianta amhriodol, ac i feithrin hyder rhieni yn eu sgiliau i fagu eu plant mewn amgylchedd cadarnhaol a chefnogol.

I ateb anghenion amrywiol rhieni a phlant, mae angen darparu cefnogaeth rhianta wedi'i deilwra, sy'n seiliedig ar anghenion rhieni mewn ardal neu leoliad penodol.

Mae cynghorau lleol ledled Cymru yn darparu amrywiaeth o gefnogaeth rhianta trwy amrywiaeth eang o ddarpariaeth. Darperir cefnogaeth naill ai trwy raglenni seiliedig ar dystiolaeth neu drwy gefnogaeth benodol a ddarperir i grwpiau neu i unigolion.

Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi adnoddau er mwyn datblygu dogfennau a chynlluniau allweddol ynghylch rhianta.

Datblygwyd canllawiau Rhianta yng Nghymru yn unol â'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer gweithio gyda rhieni. Mae'n darparu trosolwg a chanllawiau cynhwysfawr ar ddarparu cefnogaeth rhianta ledled Cymru. Nodir mai diben pennaf y canllawiau yw cynorthwyo darparwyr cefnogaeth rhianta i wneud penderfyniadau ynghylch y canlynol:

- Y math(au) o gefnogaeth rhianta a ddarperir;



Draft

- Sut i'w ddarparu;
- Dulliau o gefnogi rhieni ac ymgysylltu â nhw;
- Datblygu'r gweithlu;
- Y broses asesu, cyfeirio ac atgyfeirio; a
- Gwerthuso a monitro.

Ar ben hynny, lansiodd Llywodraeth Cymru wefan 'Magu Plant. Rhowch amser iddo' yn 2015, sy'n hyrwyddo rhianta cadarnhaol ac sy'n cynnig cyngor a chefnogaeth rhianta sydd ar gael yn hwylus i bawb.

## Beth yr ydym y ei wybod am y boblogaeth?

Mae tua 124,000 o blant 0-15 oed yng Ngogledd Cymru, ac mae tua 39,000 o'r rhain yn 0-4 oed. Ni fydd angen cefnogaeth ar bob teulu sydd â phlant.

I baratoi ar gyfer cyflwyno'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn 2012, cynhaliodd pob un o gynghorau Gogledd Cymru ymarferiad mapio teuluoedd agored i niwed (Cordis Bright, 2012; Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, 2013). Sail yr ymarferiad oedd gofyn i ymarferwyr feddwl am y teuluoedd yr oedd ganddynt gysylltiad â nhw, a nodi i ba raddau yr oeddent yn cytuno â'r cwestiynau canlynol, oedd yn seiliedig ar ymchwil Think Family (Y Tasglu Allgáu Cymdeithasol, 2007). Defnyddiodd Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ddull gwahanol ond â chanlyniadau tebyg, a defnyddir y ffigurau cymaradwy yma.

1. Nid yw'r un o'r rhieni sy'n byw gyda'r teulu yn gweithio
2. Mae'r teulu'n byw mewn cartref dros dro, gorlawn neu o ansawdd gwael
3. Nid oes gan yr un o'r rhieni gymwysterau academaidd
4. Mae'r fam yn dioddef problem iechyd meddwl
5. Mae gan o leiaf un rhiant salwch hirdymor, anabledd neu lesgedd sy'n cyfyngu ar ei weithgareddau dyddiol
6. Mae incwm y teulu yn isel (llai na £287 yr wythnos)
7. Ni all y teulu fforddio rhai bwydydd neu eitemau o ddillad
8. Mae tystiolaeth fod trais domestig ar yr aelwyd
9. Mae tystiolaeth fod cam-drin sylweddau yn digwydd ar yr aelwyd

Cafodd tua 8,000 o deuluoedd eu cynnwys yn yr ymarferiad mapio ledled Gogledd Cymru. Gwelwyd bod perthynas gref rhwng y dangosyddion a diamddiffynedd/anghenion cymhleth, oedd yn awgrymu y gellid defnyddio'r dangosyddion i glustnodi teuluoedd y mae risg y bydd eu problemau'n gwaethygu, ac i gefnogi ymyrraeth gynnar. Roedd cysylltiadau arbennig o gryf rhwng diamddiffynedd a methu fforddio rhai bwydydd neu eitemau o ddillad (neu o gael budd-dal seiliedig ar incwm yn ôl yr ymchwil gan Gyngor Bwrdeistref Conwy), yn ogystal â thystiolaeth o gamddefnyddio sylweddau.



Draft

Er bod crynodiadau o angen mewn rhai ardaloedd penodol, dangosodd yr ymchwil, ar y cyfan, fod diamddiffynedd yn effeithio ar deuluoedd penodol yn hytrach nag ardaloedd penodol. Awgryma hyn na fyddai ymyraethau sy'n targedu ardaloedd penodol yn ddigon, ynddynt eu hunain, i fynd i'r afael â'r materion sy'n wynebu pob teulu agored i niwed.

Roedd ymchwil Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (2013) yn cynnwys cyfweliadau manwl â theuluoedd a dynnodd sylw at y materion canlynol:

- Materion yn ymwneud â thai, iechyd meddwl ac iechyd emosiynol, presenoldeb yn yr ysgol ac ymgysylltu ag addysg, uchelgais, profiadau â'r gwasanaethau cymdeithasol, sgiliau a chefnogaeth rhianta, cam-drin domestig, arian a chyllid, cyflogaeth, camddefnyddio cyffuriau ac alcohol.
- Anghenion neilltuol teuluoedd â phlant anabl.
- Pwysigrwydd rhannu gwybodaeth a chyfathrebu rhwng gwasanaethau ac asiantaethau, yn ogystal â'r berthynas bwysig rhwng y teuluoedd a'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda nhw.
- Yr argyfyngau neu'r pwyntiau sbardun sy'n newid sefyllfa, yn cynnwys: ymwahanu ac ysgaru, profedigaeth, cam-drin domestig, colli swydd, colli cartref, newid sefyllfa ysgol neu gael diagnosis.

Mae data ychwanegol am yr angen am waith atal, ymyrraeth gynnar a thlodi plant ar gael yn y Dadansoddiad o Anghenion Teuluoedd Agored i Niwed yn atodiad x

**Rhieni yn eu harddegau**

Gall nifer o ffactorau effeithio ar allu rhieni yn eu harddegau i rianta. Mae'r rhain yn cynnwys anghydfod yn y teulu neu gyda phartner, allgáu cymdeithasol, hunanhyder a hunan-barch isel. Gall y ffactorau hyn effeithio ar lesiant meddyliol y person ifanc. Bydd bod yn rhiant yn yr arddegau yn cael effaith amlwg ar y fam a'r tad fel ei gilydd, ac er y bydd y fam yn iau nag 20 oed, bydd llawer o'r tadau rhwng 20 a 24 blwydd oed.

Mae cyfraddau beichiogi yn yr arddegau yn gostwng, a bu gostyngiad cyson ledled Cymru a Lloegr ers 1998. Awgrymir bod dulliau atal cenhedlu tra effeithiol a hirdymor, ynghyd â newidiadau ym mhatrymau ymddygiad pobl ifanc, lle bydd rhai yn mynd allan yn llai aml, yn rhai o'r rhesymau am hyn. Mae beichiogrwydd yn yr arddegau yn ffactor risg sy'n cyfrannu at bwysau geni isel a llawer o ganlyniadau gwael eraill i'r fam ac i'r baban o ran eu hiechyd hirdymor a materion sosio-economaidd. Terfynir un o bob pedwar beichiogrwydd, ac mae hyn yn codi i un o bob dau feichiogrwydd yn yr arddegau, sy'n dangos bod yna angen heb ei ddiwallu i wasanaethau addysgu a helpu i atal beichiogrwydd digroeso.



Draft

Mae plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn wynebu risg lawer uwch o feichiogi'n gynnar, a gallant fethu sesiynau addysg allweddol yn yr ysgol ynghylch sut i amddiffyn eu hunain.

**Ffigur 2.13** Beichiogi fesul pob mil o fenywod 15-17 oed, Cymru a Lloegr, 1998 i 2014




Yn y rhan fwyaf o ardaloedd ar draws Gogledd Cymru, bu nifer y genedigaethau yn yr arddegau yn gostwng, fel y gwelir yn y tabl isod:

**Tabl 2.18** Genedigaethau dan 20 oed 2010 i 2014

| | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 65 | 54 | 49 | 51 | 36 |
| Gwynedd | 110 | 51 | 93 | 67 | 58 |
| Conwy | 112 | 81 | 83 | 76 | 48 |
| Sir Ddinbych | 89 | 79 | 77 | 69 | 78 |
| Sir y Fflint | 120 | 87 | 125 | 88 | 81 |
| Wrecsam | 140 | 105 | 100 | 82 | 79 |
| Gogledd Cymru | 636 | 457 | 527 | 433 | 380 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, StatsCymru

### Rhieni'n ymwahanu

Gwelwyd bod rhieni'n ymwahanu yn ffactor sy'n cynyddu'r risg y bydd plant yn dioddef canlyniadau gwael. Gellir cymryd camau i amddiffyn plant rhag y canlyniadau negyddol hyn trwy feithrin perthynas dda ag un o'r rhieni, a thrwy rwydwaith eang o gefnogaeth cymdeithasol (Llywodraeth Cymru, 2014).

Mae'r gyfradd ysgaru wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf, ond gall hyn fod yn ganlyniad i fwy o barau'n cyd-fyw, sy'n effeithio ar y niferoedd sy'n ysgaru.

P'un a fydd rhieni'n byw gyda'i gilydd neu ar wahân, gall eu perthynas gael effaith ar ganlyniadau eu plant, fel y nodir yn adroddiad y Sefydliad Ymyrraeth Gynnar (Harold *et al.*, 2016).

## Y gwasanaethau sydd ar gael

Darperir gwahanol fathau o gefnogaeth rhianta ar draws Gogledd Cymru. Bydd rhai'n cael cefnogaeth gyffredinol yn y cartref neu mewn grwpiau, a bydd eraill yn ymwneud â rhaglenni seiliedig ar dystiolaeth. Y brif raglen a ddarperir yng Ngogledd Cymru yw'r Blynyddoedd Rhyfeddol, sydd â sylfaen dystiolaeth gref. Mae rhaglenni eraill yn cynnwys: FAST (Teuluoedd ac Ysgolion Gyda'i Gilydd) a rhaglen STEPS.

Mae Dechrau'n Deg yn darparu cyrsiau rhianta i deuluoedd sy'n byw yn yr ardaloedd codau post perthnasol. Dengys Tabl 2.19 faint o leoedd oedd ar gael yn y tair blynedd diwethaf, ynghyd â'r ganran o leoedd a gafodd eu llenwi.

**Tabl 2.19** Cyrsiau rhianta strwythuredig, ffurfiol Dechrau'n Deg a gynigiwyd gan awdurdodau lleol, 2013-14 i 2015-16

| | 2013-14 | | 2014-15 | | 2015-16 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Awdurdod Lleol** | **Nifer y lleoedd** | **% y lleoedd** | **Nifer y lleoedd** | **% y lleoedd** | **Nifer y lleoedd** | **% y lleoedd** |
| Ynys Môn | 53 | 74% | 57 | 74% | 91 | 62% |
| Gwynedd | 125 | 69% | 199 | 60% | 205 | 72% |
| Conwy | 69 | 78% | 164 | 70% | 262 | 63% |
| Sir Ddinbych | 74 | 46% | 117 | 73% | 108 | 60% |
| Sir y Fflint | 223 | 78% | 252 | 82% | 229 | 68% |
| Wrecsam | 106 | 82% | 96 | 65% | 222 | 45% |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Mae'r ddarpariaeth Teuluoedd yn Gyntaf ledled Gogledd Cymru yn cynnwys comisiynu rhaglenni rhianta seiliedig ar dystiolaeth, ynghyd â chefnogaeth rhianta, a hynny yn rhan o'r gefnogaeth a gynigir i deuluoedd mewn rhaglen ymyrraeth gynnar.

Er bod cefnogaeth rhianta yn cael ei ddarparu, yn y rhan fwyaf o achosion bydd gan deuluoedd faterion eraill y mae angen rhoi sylw iddynt cyn y gallant ymgysylltu'n effeithiol mewn rhaglen seiliedig ar dystiolaeth. I fod yn effeithiol,



drafft

dylai rhaglenni rhianta gael eu cynnig fel rhan o becyn o gefnogaeth, yn hytrach nag fel ymyrraeth annibynnol.

Roedd yr adborth o'r broses ymgynghori ac ymgysylltu yn nodi bod llawer o wasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar, megis y Tîm o amgylch y Teulu, yn cael eu gwerthfawrogi gan y staff a'r bobl a oedd yn eu defnyddio, er bod mwy o waith i'w wneud o hyd. Nodwyd bod diffyg adnoddau i fuddsoddi mewn gwaith atal ac ymyrraeth gynnar yn her. Hefyd, nodwyd bod angen buddsoddi mwy mewn addysgu rhieni i chwilio am gefnogaeth yn y gymuned.

Drafft

## 2.9 Plant a phobl ifanc heb anghenion gofal a chymorth

Oherwydd y cyfyngiadau ar amser, mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar grwpiau penodol o blant a phobl ifanc ag anghenion gofal a chymorth. Roedd y broses ymgynghori ac ymgysylltu ar gyfer yr asesiad poblogaeth yn cynnwys plant heb anghenion gofal a chymorth hefyd. Codwyd y materion canlynol hefyd, a all effeithio ar y grwpiau o blant a phobl ifanc sy'n cael sylw yn y bennod hon.

- Mynediad at hamdden ac adloniant, yn enwedig ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd gwledig lle mae llai o wasanaethau, a'r rheiny'n tueddu i gostio mwy oherwydd y pellter y mae'n rhaid ei deithio yn ôl ac ymlaen o'r ardaloedd hyn.
- Mynediad at gyfleoedd chwarae.
- Mynediad at gludiant fforddiadwy, yn enwedig ar gyfer plant a phobl ifanc mewn ardaloedd gwledig.
- Dywedodd Urdd Gobaith Cymru nad yw cefnogaeth a fforymau sirol yn Gymraeg yn gweithio cystal ar gyfer pobl ifanc 16 i 18 oed.
- Cefnogaeth â phroblemau ariannol: benthyciadau myfyrwyr, talu biliau, budd-daliadau, a gwybod at bwy y gellir troi i drafod problemau ariannol
- Cael rhywun sy'n barod i wrando pe bai rhywbeth yn digwydd a bod arnynt angen cefnogaeth, a gwybod ble mae cefnogaeth ar gael.
- Hawliau lles: gall fod yn anodd cael y budd-daliadau iawn i helpu pobl i gadw'u hannibyniaeth neu i fyw'n annibynnol. Mae problemau'n cynnwys oedi sylweddol cyn cael budd-dal yn dilyn yr hawliad cychwynnol, a chynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau i Gronfa Cymorth Dewisol (Cymru) i hawlio 'Taliad Cymorth mewn Argyfwng'. Grant dewisol yw hwn sy'n cynnig taliadau bach i deuluoedd ar gyfer anghenion brys a byrdymor, er enghraifft nwy neu drydan a bwyd. Ar ben hynny, mae llawer mwy o bobl yn cael eu hatgyfeirio at fanciau bwyd lleol – eto o ganlyniad i oedi cyn talu budd-dal.

Draft

## 2.10 Casgliad ac argymhellion

**Y prif ganfyddiadau**

- Mae tua 124,000 o blant 0-15 oed yng Ngogledd Cymru. Ni welwyd fawr o newid yn nifer y plant a phobl ifanc yn y pum mlynedd diwethaf, ac mae'r tuedd hwn yn debygol o barhau am y 25 mlynedd nesaf.
- Mae'r mwyafrif o blant a phobl ifanc yng Ngogledd Cymru yn iach ac yn fodlon eu byd, ond mae angen gwneud mwy i: daclo pwysau geni isel; lleihau cyfradd marwolaethau babanod; gwella cyfraddau bwydo ar y fron a chyfraddau imiwneiddio; lleihau gordewdra mewn plant, a lleihau smygu ac yfed alcohol.
- Bu gostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau at y gwasanaethau plant, ond ni wyddys eto sut y bydd nifer yr atgyfeiriadau yn newid mewn ymateb i ehangu cymhwystra o dan y Ddeddf newydd.
- Caiff y mwyafrif o atgyfeiriadau at y gwasanaethau plant eu gwneud gan yr heddlu, neu gan adran gwasanaethau cymdeithasol y cynghorau eu hunain, a'r prif resymau dros atgyfeirio yw camdriniaeth neu esgeulustod.
- Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, gwelwyd cynnydd o 9% yn nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant ac yn nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Ngogledd Cymru.
- Mae yna bryder cynyddol ynghylch secstio a bwlio ar-lein.
- Mae nifer mawr o blant o'r tu allan i'r rhanbarth yn derbyn gofal yng Ngogledd Cymru, a bu'r nifer hwn yn cynyddu. Mae hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau lleol megis iechyd, addysg, yr heddlu a'r gwasanaethau cefnogi.
- Mae'r galwadau ar y gwasanaeth maethu yn newid yn sgil y cynnydd mewn maethu gan berthnasau/person cysylltiedig.
- Wrecsam sydd â'r nifer fwyaf o droseddwyr ifanc, yno gystal â'r gyfradd troseddu uchaf yn y rhanbarth. Mae pob awdurdod lleol, ac eithrio Ynys Môn, wedi gweld gostyngiad yn nifer y troseddwyr ifanc dros y tair blynedd diwethaf.
- Mae nifer y plant a phobl ifanc sy'n dioddef troseddau yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn. Gall hyn fod oherwydd nifer o resymau sy'n cynnwys: cynnydd yn y gallu/parodrwydd i riportio troseddau; cynnydd yn nifer y troseddau a gyflawnir, neu gynnydd o ran mathau penodol o droseddau, er enghraifft seiberdroseddu.
- Mae nifer y plant anabl wedi cynyddu yn ystod y pum mlynedd diwethaf.



Draft

- Roedd iechyd meddwl ac iechyd emosiynol plant yn bryder a godwyd yn gyson. Roedd hyn yn cynnwys cynnydd o ran hunan-niweidio ac anhwylderau bwyta, yn ogystal â phroblemau ymlyniad.

- Mae angen i'r holl wasanaethau cyffredinol ddefnyddio dull gweithredu integredig o ran iechyd a lles plant a'u teuluoedd er mwyn atal cynifer o broblemau â phosibl, ac er mwyn hyrwyddo gwytnwch mor gynnar â phosibl. Gall yn ystod Plentyndod gyfeirio rhagor o ymwybyddiaeth a chefnogaeth tuag at atal y profiadau hyn a lleihau eu heffaith.

- Mae angen darparu cefnogaeth rhianta i dorri cylchoedd rhianta amhriodol a chodi hyder rhieni yn eu sgiliau i fagu eu plant mewn amgylchedd cefnogol a chadarnhaol.
- Mae'r gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth a ddarperir gan y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yn rhan bwysig o'r gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar.

## Yr argymhellion a'r camau nesaf

Gan fod yr amserlen yn dynn, ac oherwydd yr amrywiaeth eang o anghenion a drafodwyd yn y bennod hon, dylai'r camau nesaf ganolbwyntio ar glustnodi'r wybodaeth bellach y mae ei hangen yn y meysydd â blaenoriaeth. Dylai hynny gynnwys ymgynghori ac ymgysylltu ychwanegol i gytuno ar yr argymhellion fel rhan o'r cynllun ardal. Dylai gwaith yn y dyfodol fod yn seiliedig ar CCUHP, a dylai gynnwys hawl plant i chwarae.

- Eiriolaeth: mae angen rhoi gwrandawiad i lais pob plentyn a pherson ifanc mewn prosesau gwneud penderfyniadau. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant ar y gofrestr amddiffyn plant. Cafodd rhywfaint o wybodaeth ei chynnwys yn y rhagarweiniad i'r adroddiad, ond mae angen rhagor o wybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael, a pha mor effeithiol ydynt.
- Mae rhagor o waith i'w wneud i gyflwyno'r dyletswyddau newydd o dan y Ddeddf, ac mae prosiectau rhanbarthol ar waith i gefnogi'r gwaith hwn, yn cynnwys asesiadau a gwybodaeth, cyngor a chymorth.
- Bu pryderon trwy gydol y gwaith o lunio'r bennod hon ynghylch ansawdd y gwaith cofnodi data. Mae angen safoni'r dulliau cofnodi ar gyfer data plant mewn angen (a beth bynnag fydd yn dod yn lle hynny) ynghyd â meini prawf cymhwystra a throthwyon.
- Mae angen rhagor o wybodaeth am fasnachu mewn plant a chamfanteisio'n rhywiol ar blant er mwyn llywio'r asesiad poblogaeth.

Draft

- Mae angen rhagor o wybodaeth am y cynnydd yn anghenion cymhleth plant anabl, a phontio o'r gwasanaethau plant i'r gwasanaethau oedolion.
- Darganfod mwy am y pryderon a godwyd bod plant cynyddol iau yn cael eu hatgyfeirio at CAMHS, yn ogystal ag anghenion y plant sy'n derbyn gofal ac sy'n cael eu hatgyfeirio at CAMHS.
- Gwybodaeth am ddefnyddio dulliau adferol wrth weithio â theuluoedd, yn cynnwys cysylltiadau pob dydd, cyfarfodydd â defnyddwyr gwasanaethau, cylchoedd anffurfiol, cyfryngu a chynadleddau ffurfiol ar gyfer grwpiau.
- Mae enghreifftiau da o ddarparu gwasanaethau ym mhob sir, er enghraifft y prosiect 'ymyl gofal', gwasanaethau therapiwtig mewnol, a chydweithredu â'r gwasanaethau cymdeithasol a CAMHS. Caiff gwybodaeth am y gwasanaethau hyn ei rhannu'n anffurfiol rhwng y siroedd eisoes, ond bydd angen i waith ar yr asesiad poblogaeth yn y dyfodol roi sylw pellach i'r mater hwn.

## Cydraddoldeb a hawliau dynol

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys anghenion penodol plant a phobl ifanc a phlant anabl. Mae'n tynnu sylw hefyd at bwysigrwydd hawliau plant. Roedd rhywfaint o wybodaeth ar gael am bobl ifanc Dduon, Asiaidd a'r Lleiafrifoedd Ethnig, ond gellid nodi rhagor. Nodwyd bod yna ddiffyg gwybodaeth am ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Cafwyd ymgynghoriad hefyd ynghylch anghenion pobl ifanc sy'n sipsiwn a theithwyr. Gweler yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i gael rhagor o wybodaeth.

Mae'n bosibl na fydd materion sy'n effeithio ar bobl â nodweddion a ddiogelir yn cael eu codi yn yr asesiad hwn, a gellid rhoi sylw iddynt wrth adolygu'r asesiad poblogaeth yn y dyfodol, wrth ddatblygu'r cynllun ardal, neu yn y gwasanaethau a gaiff eu datblygu neu eu newid mewn ymateb i'r cynllun ardal.

Mae'n rhaid i'r gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc ddefnyddio dull gweithredu plentyn ganolog ac sy'n hoelio'r sylw ar y teulu, gan roi ystyriaeth i anghenion gwahanol pobl â nodweddion a ddiogelir. Bydd y dull gweithredu hwn yn parhau wrth i gynlluniau gweithredu ddatblygu yn y dyfodol, a bydd yn allweddol o ran datblygu gwasanaethau.

Byddem yn croesawu unrhyw dystiolaeth benodol bellach a all helpu i lywio'r asesiad terfynol.

Draft

# Cyfeiriadau

BIPBC (2016) 'CAMHS Action Plan to achieve Mental Health Measure compliance'.

Cyngor Gofal Cymru (2015a) *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasoll a Llesiant (Cymru) Crynodeb: Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n cael eu Lletya*. Ar gael yn: http://www.ccwales.org.uk/learning-resources-1/?search=looked-after-and-accommodated-children-level-a-materials.

Cyngor Gofal Cymru (2015b) 'Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) Crynodeb: Diogelu'. Ar gael yn: http://www.cgcymru.org.uk/adnoddau-dysgu-1/y-ddeddf/diogelu/.

Plant yng Nghymru (2016) *Plant sy'n Derbyn Gofal*. Ar gael yn: http://www.plantyngnghymru.org.uk/ein-gwaith/plant-syn-derbyn-gofal/

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (2013) *Ymchwil Teuluoedd yn Gyntaf*. Ar gael yn: http://www.conwy.gov.uk/doc.asp?doc=31283&cat=10032&Language=2

CoramBAAF (2016) *Special guardianship, kinship care and private fostering*. Ar gael yn: http://corambaaf.org.uk/info/kinship-care-and-special-guardianship.

Cordis Bright (2012) 'North Wales local authorities: Mapping of vulnerable families - summary report'.

Yr Adran Addysg (2016) 'Mental health and behaviour in schools: Departmental advice for school staff'. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/508847/Mental_Health_and_Behaviour_-_advice_for_Schools_160316.pdf.

Gore-Rees, P. (2015) 'CAHMS in North Wales 2015 to 2016', Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Harold, G., Acquah, D., Sellers, R. a Chowdry, H. (2016) *What works to enhance inter-parental relationships and improve outcomes for children*. Sefydliad Ymyrraeth Gynnar, Prifysgol Sussex. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www.eif.org.uk/publication/what-works-to-enhance-inter-parental-relationships-and-improve-outcomes-for-children-3/.

Jones, C., Andrew, R. ac Atenstaedt, R. (2016) 'Population Health Profile of North Wales, to support needs assessment for Social Services and Wellbeing Act and wellbeing assessment for Future Generations Act'. Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol (2016a) 'Framework for adoption support'.

Y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol (2016b) 'Population needs assessment and adoption support services (Letter to implementation managers)'.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2015) 'Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwysedd) (Cymru)'. Ar gael yn: http://www.assembly.wales/laid%20documents/sub-ld10198/sub-ld10198-e.pdf.



Draft

Y Fframwaith Maethu Cenedlaethol (2016) 'Kinship Care: First thoughts and initial scoping paper'.

NHS Choices (2016) *Adopting a child: your child's health*. Ar gael yn: http://www.nhs.uk/Livewell/adoption-and-fostering/Pages/adopted-children-medical-and-health-needs.aspx.

NHS Digital (2014) *Eating disorders: Hospital admissions up by 8 per cent in a year* [datganiad i'r wasg]. Ar gael yn: http://content.digital.nhs.uk/article/3880/Eating-disorders-Hospital-admissions-up-by-8-per-cent-in-a-year.

Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru (2016) *Amdanom ni*. Ar gael yn: http://www.northwalesadoption.gov.uk/wordpress/en/about-adoption/about-us/.

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2016) 'Amcangyfrifon canol blwyddyn'. Ar gael yn: http://www.ons.gov.uk/ons/guide-method/method-quality/quality/quality-information/population/index.html Ar gael yn: http://www.ons.gov.uk/ons/rel/pop-estimate/population-estimates-for-england-and-wales/mid-2002-to-mid-2010-revised--subnational-/index.html.

Iechyd Cyhoeddus Cymru (2015) 'Astudiaeth Profiadau Niweidiol Mewn Plentyndod (ACE) Cymru: Profiadau Niweidiol Mewn Plentyndod a'u heffaith ar ymddygiad sy'n niwedidio iechyd ymysg oedolion Cymru'.

Iechyd Cyhoeddus Cymru (2016a) 'Asesiad o Anghenion Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed' *Gyda'n gilydd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc*.

Iechyd Cyhoeddus Cymru (2016b) 'Gwneud gwahaniaeth: Buddsoddi mewn iechyd a llesiant cynaliadwy i bobl Cymru' .

Iechyd Cyhoeddus Cymru (2016c) 'Population health profile of North Wales, to support needs assessment for Social Services and Wellbeing Act and wellbeing assessment for Future Generations Act' Tîm Iechyd Cyhoeddus Gogledd Cymru.

Y Tasglu Allgáu Cymdeithasol (2007) 'Reaching Out: Think Family'. Swyddfa'r Cabinet. Ar gael yn: http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20080101,4410827/http://cabinetoffice.gov.uk/upload/assets/www.cabinetoffice.gov.uk/social_exclusion_task_force/think_families/think_families.pdf.

Llywodraeth Cymru (2015) *Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)*. Ar gael yn: http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/rights/uncrc/?lang=en.

Llywodraeth Cymru (2016) 'Tabl Trawsleoli Deddf Plant 1989'. Ar gael yn: http://www.cgcymru.org.uk/y-ddeddf/.

Sefydliad Iechyd y Byd, W. (2014) *Mental health: a state of well-being*. Ar gael yn: http://www.who.int/features/factfiles/mental_health/en/.

Sefydliad Iechyd y Byd (2016) 'Growing up unequal: gender and socioeconomic differences in young people's health and well-being' *Health behaviour in school-aged*

*children (HBSC) study: international report from the 2013/14 survey*. Ar gael yn: http://www.euro.who.int/__data/assets/pdf_file/0003/303438/HSBC-No7-Growing-up-unequal-full-report.pdf (Cyrchwyd: 27 Hydref 2016).

Draft

# 3 Pobl Hŷn

## Cynnwys

3 Pobl hŷn ....................1
3.0 Ynglŷn â'r bennod hon ....................3
Diffiniadau ....................3
Polisi a deddfwriaeth ....................3
Diogelu ....................4
3.1 Trosolwg ar y boblogaeth ....................5
3.2 Unigrwydd ac arwahanrwydd ....................7
Rhagarweiniad....................7
Beth yr ydym yn ei wybod am y boblogaeth? ....................7
Beth y mae pobl yn ei ddweud wrthym? ....................10
Adolygiad o'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd ....................11
Casgliadau....................11
3.3 Cymorth i fyw gartref ....................12
Rhagarweiniad....................12
Beth yr ydym yn ei wybod am y boblogaeth? ....................12
Beth y mae pobl yn ei ddweud wrthym? ....................18
Adolygiad o'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd ....................20
Casgliadau....................22
3.4 Dementia....................24
Rhagarweiniad....................24
Beth yr ydym yn ei wybod am y boblogaeth? ....................24
Beth y mae pobl yn ei ddweud wrthym? ....................25
Adolygiad o'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd ....................26
Casgliad ac argymhellion ....................27
3.5 Cartrefi gofal....................29
Beth yr ydym yn ei wybod am y boblogaeth? ....................29

Draft

Beth y mae pobl yn ei ddweud wrthym? ............................................................30
Adolygiad o’r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd ......................................31
Casgliad ac argymhellion ..........................................................................36
3.6 Cydraddoldeb a hawliau dynol ...................................................39
Cyfeiriadau ..................................................................................................40

Drafft

# 3.0 Ynglŷn â'r bennod hon

Mae'r bennod hon yn cynnwys anghenion poblogaeth y bobl hŷn. Fe'i trefnir gan ddefnyddio'r themâu canlynol, a amlygwyd yn y gwaith ymgysylltu:

**3.1 Trosolwg ar y boblogaeth**

**3.2 Unigrwydd ac arwahanrwydd**

**3.3 Cymorth i fyw gartref**

**3.4 Dementia**

**3.5 Cartrefi gofal**

Ceir gwybodaeth ychwanegol am anghenion pobl hŷn yn y penodau canlynol:

- Iechyd, anableddau corfforol a namau ar y synhwyrau [add link]
- Anawsterau dysgu ac awtistiaeth [add link]
- Iechyd meddwl: yn cynnwys gwybodaeth am ddementia cynnar [add link]
- Gofalwyr [add link]
- Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol [add link]
- Sefydliadau diogel [add link]
- Cyn-filwyr [add link]
- Digartrefedd [add link]

## Diffiniadau

Nid oes diffiniad cytunedig o berson hŷn. Pennir yr ystod oed yn ôl y cyd-destun, er enghraifft: wrth ystyried materion cyflogaeth neu gynlluniau ymddeol, mae'n cwmpasu pobl dros 50 oed; yn llawer o ystadegau'r llywodraeth, mae'n cwmpasu pobl dros 65 oed; wrth ystyried y tebygolrwydd cynyddol y bydd yna anghenion cymorth a gofal, mae'n cwmpasu pobl dros 75 neu 85 oed.

## Polisi a deddfwriaeth

Partneriaeth sy'n cynnwys asiantaethau'r llywodraeth a sefydliadau trydydd sector, wedi'i chynnal a'i chadeirio gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2016) yw **Heneiddio'n Dda yng Nghymru**. Mae pob cyngor lleol yng Ngogledd Cymru wedi datblygu cynllun ar gyfer y gwaith y bydd yn ei wneud yng nghyswllt y blaenoriaethau:

- Gwneud Cymru'n genedl o gymunedau sy'n gyfeillgar i oed.
- Gwneud Cymru'n genedl o gymunedau sy'n cefnogi dementia.
- Lleihau nifer y codymau.
- Lleihau unigrwydd ac arwahanrwydd digroeso.

Draft

- Cynyddu cyfleoedd dysgu a chyflogaeth.

Mae'r rhaglen hon yn arf allweddol o ran cyflawni'r **Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru 2013-23** (Welsh Government, 2013).

Nod yr asesiad poblogaeth yw cefnogi'r gwaith o integreiddio gwasanaethau. Un o flaenoriaethau presennol Llywodraeth Cymru ar gyfer integreiddio yw pobl hŷn sydd ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, gan gynnwys dementia.

Gweler atodiad x i gael rhagor o wybodaeth am Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## Diogelu

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio oedolyn sy'n wynebu risg fel rhywun sy'n cael, neu'n sy'n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso, ac y mae angen gofal a chymorth arno (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw un neu rai o'r anghenion hynny ai peidio), ac nad yw'n gallu amddiffyn ei hun rhag cael, neu rhag y risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso, o ganlyniad i'r anghenion hynny.

Gall camdriniaeth gynnwys cam-drin corfforol, ariannol, emosiynol neu seicolegol, rhywiol a sefydliadol, ac esgeulustod. Gall ddigwydd yng nghartref yr unigolyn, mewn cartrefi gofal, ysbytai, gofal dydd a lleoliadau preswyl eraill (Age Cymru, 2016). Pennwyd argymhellion penodol i wella ansawdd y gofal a ddarperir i bobl hŷn fregus mewn cartrefi gofal nyrsio a phreswyl mewn adolygiad yn dilyn ymchwiliad Operation Jasmine (Flynn, 2015).

Darganfu Age UK fod mwy na hanner y bobl 65 oed a hŷn yn credu iddynt gael eu targedu gan dwyllwyr (Age UK, 2015). Roedd un o bob 12 wedi ymateb i sgam, a dywedodd 70% o'r bobl hynny iddynt golli arian personol. Gall unrhyw un gael ei rwydo gan sgamiau, ond mae'n bosibl y targedir pobl hŷn yn benodol oherwydd y tybir bod ganddynt fwy o arian na phobl iau, a gallant wynebu mwy o risg oherwydd amgylchiadau personol, er enghraifft arwahanrwydd cymdeithasol, namau gwybyddol, profedigaeth a phwysau ariannol. Gallant hefyd fod yn agored i fathau penodol o sgamiau, er enghraifft twyll ar y trothwy, meddiannu cardiau a chyfrifon banc, sgamiau pensiwn, a buddsoddiadau ffug.

Sefydlwyd Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i wneud y canlynol:

- Diogelu oedolion yn ei ardal y mae angen gofal a chymorth arnynt (p'un a yw'r cyngor lleol yn diwallu unrhyw un neu rai o'r anghenion hynny ai peidio), ac sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael, eu cam-drin neu eu hesgeuluso;
- Atal oedolion yn ei ardal rhag wynebu risg o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso (North Wales Safeguarding Board, 2016).

Draft

## 3.1 Trosolwg ar y boblogaeth

Roedd tua 150,000 o bobl 65 oed a hŷn yng Ngogledd Cymru yn 2015. Mae'r amcanestyniadau poblogaeth yn awgrymu y gallai'r ffigur hwn godi i 210,000 erbyn 2039 os bydd y gyfran o bobl 65 oed a hŷn yn parhau i gynyddu, fel y dangosir yn Tabl 3.1 isod.

**Tabl 3.1** Nifer y bobl 65 oed a hŷn, amcanestyniadau poblogaeth 2014 i 2039

| | 2014 | 2019 | 2024 | 2029 | 2034 | 2039 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 17,000 | 18,000 | 20,000 | 21,000 | 22,000 | 23,000 |
| Gwynedd | 27,000 | 29,000 | 31,000 | 33,000 | 35,000 | 35,000 |
| Conwy | 30,000 | 33,000 | 35,000 | 38,000 | 41,000 | 42,000 |
| Sir Ddinbych | 22,000 | 23,000 | 25,000 | 27,000 | 29,000 | 30,000 |
| Sir y Fflint | 30,000 | 34,000 | 37,000 | 40,000 | 44,000 | 46,000 |
| Wrecsam | 25,000 | 28,000 | 30,000 | 33,000 | 36,000 | 39,000 |
| Gogledd Cymru | 150,000 | 170,000 | 180,000 | 190,000 | 210,000 | 210,000 |

*Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu felly efallai na fyddant yn cyfansymio*

Ffynhonnell: amcanestyniadau poblogaeth seiliedig ar 2014, Llywodraeth Cymru

Dengys Ffigur 3.1 sut y bu i strwythur y boblogaeth newid rhwng 2005 a 2015. Rhagwelir y bydd y gyfran o bobl hŷn yn y boblogaeth yn parhau i gynyddu, fel y dangosir yn Ffigur 3.2 a Ffigur 3.3. Ar yr un pryd, disgwylir y bydd y gweithlu sydd ar gael, sef y gyfran o bobl 16-64 oed, yn parhau i leihau. Mae'r newid hwn yn strwythur y boblogaeth yn cynnig cyfleoedd a heriau o ran darparu gwasanaethau gofal a chymorth.

**Ffigur 3.1** Canrannau'r boblogaeth yn ôl oed a rhyw, Gogledd Cymru, 2005 a 2015




Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth hanner blwyddyn, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

**Ffigur 3.2** Rhagwelir y bydd canran y bobl dros 65 oed yn cynyddu, ac y bydd canran y bobl 16-64 oed yn gostwng yng Ngogledd Cymru, 2014 i 2039




Ffynhonnell: amcanestyniadau poblogaeth seiliedig ar 2014, Llywodraeth Cymru

Gwelir bod y newid yn strwythur y boblogaeth yn dilyn patrwm tebyg ym mhob sir yng Ngogledd Cymru, er y disgwylir mai Conwy, Ynys Môn a Sir Ddinbych fydd y siroedd â'r gyfran fwyaf o bobl 65 oed a hŷn, fel y dangosir yn Ffigur 3.3 isod.

**Ffigur 3.3** Amcanestyniad o ganran y boblogaeth 65 oed a hŷn yn 2039 yng Ngogledd Cymru




Ffynhonnell: amcanestyniadau poblogaeth seiliedig ar 2014, Llywodraeth Cymru

Mae ymchwil yn awgrymu y gall byw â chyflwr hirdymor fod yn ffactor cryfach nag oed o ran rhagweld anghenion am ofal a chymorth(Institute of Public Care (IPC), 2016). Gweler y bennod iechyd, anableddau corfforol a namau ar y synhwyrau i gael rhagor o wybodaeth.

## 3.2 Unigrwydd ac arwahanrwydd

### Rhagarweiniad

‘Gellir diffinio unigrwydd fel teimladau goddrychol, digroeso o ddiffyg neu golli cwmnïaeth. Mae’n digwydd pan na fydd nifer ac ansawdd y perthnasoedd cymdeithasol sydd gennym yn cyfateb i’r hyn yr hoffem ei gael’ (Perlman and Peplau, 1981).

Mae yna fathau gwahanol o unigrwydd: unigrwydd *emosiynol* ac unigrwydd *cymdeithasol*. Unigrwydd emosiynol yw’r teimlad o golli cwmnïaeth unigolyn penodol; ffrind gorau, brawd neu chwaer, neu gymar yn aml iawn. Mae unigrwydd cymdeithasol yn deillio o ddiffyg rhwydweithiau cymdeithasol neu gylch ehangach o ffrindiau. Gall unigrwydd fod yn deimlad sy’n mynd ac yn dod, a gall unigolion ddioddef unigrwydd ar adegau penodol o’r flwyddyn, er enghraifft ar adeg y Nadolig. Gall unigrwydd fod yn gyflwr cronig, lle gall unigolyn deimlo’n unig y rhan fwyaf o’r amser. Mae teimlo’n unig yn oddrychol; mae pobl yn unig os byddant yn teimlo’n unig.

Mae lleihau unigrwydd ac arwahanrwydd yn un o’r prif heriau a nodwyd yn ein gwaith ymgynghori ac ymgysylltu, ac mae’n flaenoriaeth i’r Rhaglen Heneiddio’n Dda yng Nghymru sydd gan Lywodraeth Cymru. Mae cael rhwydweithiau cymdeithasol cryf o deulu a ffrindiau, ynghyd â theimlad o berthyn i’r gymuned leol, yn bwysig er mwyn lleihau unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol ymhlith pobl sydd ag anghenion gofal a chymorth, yn ogystal â gofalwyr y mae angen cymorth arnynt.

Gall unigrwydd gael effaith ddifrifol ar iechyd a llesiant unigolion, ac mae pobl hŷn yn aml yn wynebu mwy o risg o ddioddef unigrwydd ac allgáu cymdeithasol. Cyfeiriwyd at unigrwydd fel y ‘llofrudd tawel’.

### Beth yr ydym yn ei wybod am y boblogaeth?

Mae’n anodd pennu faint o oedolion yng Ngogledd Cymru sy’n ystyried eu bod yn ‘unig’ neu wedi eu hallgáu yn gymdeithasol. Gall unigrwydd effeithio ar bawb, ni waeth beth yw eu hoed. Fodd bynnag, wrth i ni heneiddio, mae’r ffactorau risg sy’n gallu arwain at deimladau o unigrwydd yn cynyddu ac yn cronni. Mae’r ffactorau hyn yn cynnwys:

Drafft

| **Personol** | **Y gymdeithas ehangach** |
|---|---|
| Iechyd gwael | Diffyg cludiant cyhoeddus |
| Nam ar y synhwyrau | Yr amgylchedd ffisegol, er enghraifft, diffyg toiledau cyhoeddus |
| Anawsterau symud | Tai |
| Incwm isel | Pryderon ynghylch troseddau |
| Profedigaeth | Demograffeg |
| Ymddeoliad | Datblygiadau technolegol |
| Cyfrifoldebau gofalu | Trosiant uchel yn y boblogaeth |
| Newidiadau eraill (e.e. rhoi'r gorau i yrru) | |

Ffynhonnell: (Campaign to End Loneliness, 2016)

Mae'r ymchwil hefyd yn dangos y canlynol:

- Mae dynion, pobl sy'n byw ar eu pen eu hunain, pobl sydd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar, a'r rhan fwyaf o bobl oedrannus yn ein cymunedau, yn wynebu mwy o unigrwydd ac arwahanrwydd (Victor, 2015).
- Gall anabledd neu salwch sbarduno unigrwydd, gan eu bod yn newid y ffordd y mae pobl yn cysylltu â'u rhwydweithiau cymdeithasol (Women's Royal Voluntary Service, 2012b; Cognitive Function and Ageing Studies, 2016)
- Mae pobl 50 oed a hŷn yn cymdeithasu llai oherwydd y sefyllfa economaidd. Mae tua thraean (32%) y bobl 50 oed a hŷn a chwarter y bobl 65 oed a hŷn yn cymdeithasu llai (Consumer Focus Wales, 2010).
- Mae nifer fawr o ddynion wedi dioddef unigrwydd ar ôl colli cymar (62%) neu golli ffrindiau o'r un oed â nhw (54%). Roedd dynion hefyd yn llai tebygol o drafod eu teimladau â'u teulu neu ffrindiau (11% o ddynion a 24% o fenywod). Mewn arolwg arall gan WRVS, gwelwyd bod dynion yn llai tebygol o gadw mewn cysylltiad dros y ffôn â'u teulu neu berthnasau sy'n byw i ffwrdd (71% o fenywod o gymharu â 29% o ddynion) (Women's Royal Voluntary Service, 2012a)
- Mae mwy o risg y bydd pobl sy'n cael gofal a chymorth yn dioddef arwahanrwydd cymdeithasol (Welsh Government, 2016).

Datblygodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) (2015) ddull i ragfynegi nifer yr achosion o unigrwydd ymysg pobl 65 oed a hŷn yng Nghymru a Lloegr. Mae'r gwaith yn ystyried y newidynnau canlynol:

- Oed;
- Statws priodasol;
- A ydy'r unigolyn yn byw ar ei ben ei hun neu beidio;
- Cyflwr iechyd.

Draft

Defnyddiodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol y ffigurau a gyhoeddwyd gan Age UK yng nghyswllt data Cyfrifiad 2011 i ragfynegi’r risg y bydd pobl hŷn yn dioddef unigrwydd. Ni chafodd unigrwydd ei fesur yn uniongyrchol, ac felly ni all y data ond awgrymu ardaloedd lle gall pobl hŷn wynebu mwy o risg o unigrwydd nag eraill. Hefyd, er bod ardal Gogledd Cymru wedi’i rhannu’n bum grŵp, sy’n amrywio o’r risg fwyaf i’r risg leiaf, ni ddylid tybio bod yna wahaniaethau mawr rhwng ardaloedd mewn grwpiau cyfagos, oherwydd, yn ymarferol, gall eu gwerthoedd fod yn eithaf tebyg. Gan gadw’r ffactorau hyn mewn cof, dylid cymryd gofal wrth ddehongli’r map isod.

**Rhagfynegiad o’r risg o unigrwydd ymhlith preswylwyr arferol, 65 oed a hŷn, sy’n byw mewn aelwydydd, BIP Betsi Cadwaladr, Cyfrifiad 2011**
Ardal Gynnyrch Ehangach Ganol (MSOA)




**Mae unigrwydd yn cael effaith sylweddol ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl**

*Unigrwydd ac iechyd corfforol:*

- Dengys ymchwil fod effaith unigrwydd ar gyfraddau marwolaethau yn cyfateb i ysmygu 15 sigarét y dydd (Holt-Lunstad and Layton, 2010).
- Mae unigrwydd yn cynyddu’r risg o ddioddef pwysau gwaed uchel (Hawkley *et al.*, 2010).
- Mae unigolion hefyd yn wynebu risg o ddirywiad corfforol (Lund *et al.*, 2010).

*Unigrwydd ac iechyd meddwl:*

- Mae unigolion yn wynebu mwy o risg o ddirywiad gwybyddol o ganlyniad i unigrwydd (James *et al.*, 2011).

- Daeth un astudiaeth i'r casgliad fod pobl unig 64% yn fwy tebygol o ddatblygu dementia clinigol (Holwerda *et al.*, 2012).
- Mae pobl unig yn fwy tebygol o ddioddef iselder (Green *et al.*, 1992; Cacioppo *et al.*, 2006).
- Mae unigrwydd a diffyg rhwydweithiau cymdeithasol yn ffactorau ar gyfer rhagweld hunanladdiad ymhlith grwpiau oedran hŷn (O'Connell *et al.*, 2004).

*Cynnal annibyniaeth:*

Mae ymchwil academaidd yn pwysleisio pwysigrwydd atal neu liniaru unigrwydd er mwyn i bobl hŷn barhau i fod mor annibynnol â phosibl. O ran effaith unigrwydd ar wasanaethau cyhoeddus, mae unigolion unig yn fwy tebygol o:

- ymweld â'u meddyg teulu, cymryd mwy o feddyginiaeth, wynebu mwy o risg o godymau ac wynebu mwy o risg y bydd angen gofal hirdymor arnynt (Cohen, 2006).
- cael gofal preswyl neu ofal nyrsio yn gynnar (Russell *et al.*, 1997).
- defnyddio'r unedau damweiniau ac achosion brys am resymau nad ydynt yn gysylltiedig â salwch cronig (Geller *et al.*, 1999) (Geller, Janson, McGovern a Valdini, 1999).
- Yn ôl WRVS, mae unigolion unig yn llai tebygol o ddefnyddio gwasanaethau ataliol (y gwasanaethau iechyd yn benodol) (Women's Royal Voluntary Service, 2012a).

## Beth y mae pobl yn ei ddweud wrthym?

Yn aml, bydd colli gwaith, annibyniaeth economaidd, symudedd a hunan-barch ac weithiau, dros amser, methiant perthnasoedd a'r uned deuluol yn chwalu, yn dwysáu realiti unigrwydd, arwahanrwydd a theimlo'n ddiwerth ac agored i niwed, yn enwedig i bobl sydd wedi dechrau dioddef amhariadau corfforol neu synhwyraidd yn ddiweddar.

Mae pobl hŷn yn aml yn unig neu'n teimlo'n agored i niwed, ac maent yn gwerthfawrogi meithrin perthynas â'r bobl sy'n eu cefnogi, er nad ydynt yn hoff o newidiadau sy'n cael eu gorfodi arnynt, neu o gael llawer o bobl wahanol yn dod i'r tŷ. Dywedodd un darparwr gofal cartref fod mwy na hanner y bobl maent yn eu cefnogi prin yn gweld aelodau o'u teulu. Mae unigrwydd yn aml yn ffactor pan fydd pobl yn ystyried symud i gartref gofal – felly mae mudiadau gwirfoddol a chynlluniau cymdogion da yn bwysig i helpu pobl i deimlo'n werthfawr ac mewn cysylltiad.

Y pryderon mwyaf cyffredin a godwyd gan ymatebwyr ar y Panel Dinasyddion oedd cynnal annibyniaeth, a gweithgareddau cymdeithasol a hamdden. Roedd cael mynediad at wasanaethau yn bryder arall, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Mae pobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig yn llai tebygol o allu manteisio ar fudiadau gwirfoddol/cymunedol a gwasanaethau eraill, er enghraifft cludiant cyhoeddus, a gall hyn gynyddu'r risg o unigrwydd, arwahanrwydd a



Draft

llesiant gwael. Ar ben hynny, ni all llawer o bobl â phroblemau symudedd ddefnyddio cludiant cyhoeddus.

## Adolygiad o'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd

Mae amryw o wasanaethau ar gael ledled Gogledd Cymru i fynd i'r afael ag unigrwydd, a rhennir y rhain, yn fras, i dair haen:

1. Gofal cymdeithasol ac iechyd: gofal ffurfiol, yn cynnwys canolfannau dydd, gofal dydd arbenigol i rai â dementia, a lleoliadau dydd mewn cartrefi preswyl.
2. Gwasanaethau cymunedol/gwirfoddol wedi'u comisiynu a'u hariannu trwy grantiau, yn cynnwys:
    a) Cymorth sy'n gysylltiedig â thai (wedi'i ariannu gan Raglen Cefnogi Pobl) sydd â'r nod o ddarparu'r cymorth y mae ei angen ar bobl i fyw yn eu cartrefi eu hunain, mewn hosteli, tai gwarchod neu dai arbenigol eraill. Darparu cymorth mor fuan â phosibl er mwyn lleihau'r galwadau ar wasanaethau eraill, er enghraifft iechyd a gofal cymdeithasol; ategu unrhyw ofal personol neu feddygol, a hyrwyddo cydraddoldeb a lleihau anghydraddoldebau.
    b) Cynlluniau Cyfeillio; Caffi Strôc; Caffi Dementia; Clybiau Cinio; Clybiau i Rai dros 50; Canolfannau Heneiddio'n Dda; Canolfan Byw yn Dda.
3. Gweithgareddau a chyfleoedd i gymdeithasu yn y gymuned, er enghraifft Merched y Wawr, neu gynlluniau sy'n annog pobl i wneud gweithgareddau egnïol, megis grwpiau cerdded neu raglen Coed Actif Cymru.

## Casgliadau

Lleihau unigrwydd ac arwahanrwydd yw un o'r prif heriau a nodwyd yn ein gwaith ymgynghori ac ymgysylltu. Byddai taclo'r flaenoriaeth hon yn llwyddiannus yn cynnig llawer o fuddion o ran iechyd a llesiant pobl, ac yn lleihau'r angen am ddefnyddio gwasanaethau statudol.

Mae rhagor o wybodaeth am gynlluniau i ddatblygu gwasanaethau a chymorth i fynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd ar gael yng Nghynlluniau Heneiddio'n Dda pob cyngor, sydd ar gael yma: http://www.ageingwellinwales.com/wl/localplans. Mae'n debygol y bydd y cynlluniau llesiant a lunnir gan y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi sylw i'r mater hwn hefyd.

I gael gwybodaeth am y gwasanaethau yn eich ardal, ewch i wefan Dewis Cymru https://www.dewis.cymru/

Draft

## 3.3 Cymorth i fyw gartref

### Rhagarweiniad

Mae parhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain yn flaenoriaeth i lawer o bobl hŷn, ac yn rhan bwysig o gynnal eu hannibyniaeth. Mewn ymchwil â phobl hŷn, diffiniwyd annibyniaeth fel a ganlyn:

- Peidio â gorfod dibynnu (gormod) ar eraill;
- Gallu mynd a dod fel y mynnoch;
- Gallu symud o gwmpas a chynnal a chadw eich cartref;
- Osgoi mynd i gartref gofal (Blood *et al.*, 2015).

### Beth yr ydym yn ei wybod am y boblogaeth?

Mae demograffeg, cyfansoddiad aelwydydd, amgylchiadau cymdeithasol, a chyflyrau iechyd yn effeithio ar y galw am gymorth i gadw annibyniaeth.

#### Mae nifer y bobl 65 oed a hŷn yn cynyddu

Mae'n fwy tebygol y bydd angen gwasanaethau ar bobl 65 oed a hŷn. Bu cynnydd o 22% yn nifer y bobl dros 65 oed yng Ngogledd Cymru rhwng 2005 a 2015, fel y dangosir yn Tabl 3.2. Yn yr un cyfnod, mae nifer y bobl 85 oed a hŷn wedi cynyddu 25%, fel y dangosir yn Tabl 3.3. Mae hyn yn bennaf oherwydd newidiadau demograffig, megis cenhedlaeth 'Babanod y Ffyniant' yn heneiddio, ac ymestyn disgwyliad oes. Ar ben hynny, mae arfordir ac ardaloedd gwledig Gogledd Cymru yn fannau poblogaidd i bobl sy'n symud ar ôl ymddeol. Er enghraifft, gwelwyd yn y cyfrifiad cartrefi gofal fod nifer mawr o bobl o'r tu allan i'r sir sy'n talu am eu gofal yn dewis symud i gartrefi gofal yn yr ardal. Mae'r ymgynghoriad â staff yn awgrymu y gall pobl sydd wedi symud i ffwrdd oddi wrth eu teulu a rhwydweithiau cymdeithasol eraill fod yn fwy dibynnol ar y gwasanaethau cymdeithasol.

**Tabl 3.2** Nifer y bobl 65 oed a hŷn, Gogledd Cymru, 2005 a 2015

| | 2005 | 2015 | % y cynnydd |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 14,000 | 17,000 | 25 |
| Gwynedd | 23,000 | 27,000 | 19 |
| Conwy | 26,000 | 31,000 | 18 |
| Sir Ddinbych | 19,000 | 22,000 | 16 |
| Sir y Fflint | 24,000 | 31,000 | 31 |
| Wrecsam | 21,000 | 26,000 | 23 |
| Gogledd Cymru | 127,000 | 154,000 | 22 |

*Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu felly efallai na fyddant yn cyfansymio*

Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol



Draft

**Tabl 3.3** Nifer y bobl 85 oed a hŷn, Gogledd Cymru, 2005 a 2015

| | 2005 | 2015 | % y cynnydd |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 1,700 | 2,200 | 28 |
| Gwynedd | 2,800 | 3,900 | 38 |
| Conwy | 3,500 | 4,700 | 33 |
| Sir Ddinbych | 2,700 | 2,600 | -1 |
| Sir y Fflint | 2,600 | 3,400 | 29 |
| Wrecsam | 2,600 | 3,100 | 19 |
| Gogledd Cymru | 16,000 | 20,000 | 25 |

*Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu felly efallai na fyddant yn cyfansymio*
Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

**Bydd nifer y bobl 65 oed a hŷn sy'n derbyn gwasanaethau yn parhau i gynyddu**

Disgwylir y bydd nifer y bobl 65 oed a hŷn sy'n derbyn gwasanaethau yn y gymuned yng Ngogledd Cymru yn codi o 7,800 yn 2015 i 13,300 yn 2035, fel y dangosir yn Ffigur 3.4. Ar yr un pryd, bydd nifer y bobl 16-64 oed, sef y gweithlu sydd ar gael, yn lleihau.

**Ffigur 3.4** Nifer y bobl 65 oed a hŷn y rhagwelir y byddant yn cael cymorth cymunedol




Ffynhonnell: Daffodil

**Mae disgwyliad oes a disgwyliad oes iach yn cynyddu, ond mae bwlch rhwng y ddau**

Y disgwyliad oes am y cyfnod 2010-14 oedd 79 o flynyddoedd ar gyfer dynion ac 84 o flynyddoedd ar gyfer menywod, a'r disgwyliad oes iach oedd 68 o flynyddoedd ar gyfer dynion a 71 o flynyddoedd ar gyfer menywod. Er bod y disgwyliad oes iach wedi cynyddu dros amser, pan fydd y boblogaeth hynaf yn dechrau datblygu anghenion gofal a chymorth, bydd yr anghenion hynny'n fwy dwys a chymhleth wrth i bobl fyw'n hirach.

**Mae llawer o bobl hŷn yn darparu gofal di-dâl i ffrindiau a pherthnasau**

Yng Ngogledd Cymru, mae tua 14% o bobl 65 oed a hŷn yn darparu gofal di-dâl, ac mae gan tua 65% o ofalwyr hŷn (60-94 oed) anabledd neu broblemau iechyd hirdymor (Office for National Statistics, 2011; Carers Trust, 2016). Dywed y rhan fwyaf o ofalwyr hŷn fod eu statws gofalwr yn cael effaith negyddol ar eu llesiant meddyliol ac emosiynol, a dywed traean ohonynt eu bod wedi canslo triniaeth neu lawdriniaeth i'w hunain oherwydd eu cyfrifoldebau gofalu (Carers Trust, 2016).

Gwyddom fod llawer o bobl hŷn â chyflyrau iechyd hirdymor yn gofalu am aelod o'r teulu, ffrind neu gymydog, a'u bod yn gwneud cyfraniad sylweddol i economi Gogledd Cymru; byddai costau cyfatebol gofal a chymorth a reolir yn llawer iawn mwy na'r cyllidebau gofal cymdeithasol sydd ar gael.

Rhan allweddol o weithrediad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yw'r hawliau ychwanegol y mae'n eu rhoi i ofalwyr. O dan y ddeddfwriaeth flaenorol, roedd hawl gan ofalwyr a ddarparai ofal sylweddol gael asesiad o'u hanghenion, ond mae'r ddeddf newydd yn dileu'r cyfeiriad at ddarparu gofal sylweddol a hefyd yn rhoi'r hawl i ofalwyr gael cynllun cymorth, p'un a oes gan yr unigolyn y gofelir amdano gynllun cymorth ai peidio.

Gweler y bennod Gofalwyr am ragor o wybodaeth [add link].

**Bydd mwy o bobl 65 oed a hŷn yn byw ar eu pen eu hunain**

Gall cyfansoddiad aelwydydd hefyd effeithio ar y galw am wasanaethau i gefnogi annibyniaeth. Dengys data o gyfrifiad 2011 fod 44,000 o bobl 65 oed a hŷn yn byw ar eu pen eu hunain, sy'n 59% o'r holl aelwydydd 65 oed a hŷn. Mewn ymchwil gan Gyngor Gwynedd, gwelwyd perthynas gref rhwng nifer y bobl 65 oed a hŷn oedd yn byw ar eu pen eu hunain a nifer y cleientiaid sy'n cael pecynnau gofal cartref mewn ardal.

**Mae pobl sy'n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig yn debygol o brofi iechyd gwaelach**

Ar gyfartaledd, mae bywydau pobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn fyrrach na bywydau'r rheiny sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig. Yng Ngogledd Cymru, mae saith mlynedd o wahaniaeth mewn disgwyliad oes rhwng



Draft

yr ardaloedd lleiaf a mwyaf difreintiedig (Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2014). Gall iechyd gwael arwain at anghenion gofal a chymorth dros gyfnod hir o amser.

**Mae llai o oedolion 65 oed a hŷn yn derbyn gwasanaethau gan gynghorau lleol yng Ngogledd Cymru, ond mae disgwyl i'r nifer gynyddu**

Mae cynghorau lleol yn darparu neu'n trefnu gwasanaethau cymdeithasol, er enghraifft gofal cartref, ar gyfer pobl hŷn y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Yng Ngogledd Cymru, bu cynnydd o 18,000 yn nifer y bobl 65 oed a hŷn rhwng 2010 a 2015, ond mae nifer y bobl yn y grŵp oedran hwnnw sy'n derbyn gwasanaethau wedi disgyn tua 1,000, fel dangosir yn Tabl 3.4 isod. Mae'n debygol y bydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn effeithio ar y niferoedd sy'n gymwys i dderbyn gwasanaethau yn y dyfodol.

**Tabl 3.4** Nifer y bobl 65 oed a hŷn sy'n derbyn gwasanaethau, Gogledd Cymru, 2010 i 2015

| | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 1,600 | 1,700 | 1,400 | 1,300 | 1,200 |
| Gwynedd | 2,100 | 1,800 | 1,800 | 1,900 | 1,800 |
| Conwy | 2,000 | 2,000 | 2,200 | 2,400 | 2,200 |
| Sir Ddinbych | 1,900 | 1,900 | 1,500 | 1,500 | 1,300 |
| Sir y Fflint | 2,500 | 2,100 | 2,200 | 2,300 | 2,000 |
| Wrecsam | 2,100 | 2,200 | 2,200 | 2,200 | 2,000 |
| Gogledd Cymru | 12,000 | 12,000 | 11,000 | 12,000 | 11,000 |

*Talgrynnwyd y niferoedd, felly efallai na fyddant yn symio*
Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Mae'r gyfradd fesul 1,000 o henoed 65 oed a hŷn sy'n cael cymorth yn y gymuned yn is na chyfartaledd Cymru ym mhob un o'r chwe sir yng Ngogledd Cymru. Mae cyfradd uwch o bobl hŷn yn cael cymorth yn y gymuned yn Wrecsam a Sir y Fflint o gymharu â'r pedair sir arall (Office for National Statistics, 2011).

Fel y dengys Ffigur 3.1, gwelwyd y cynnydd mwyaf yn nifer y bobl 65 oed a hŷn dros y 5 mlynedd diwethaf yn y grŵp oedran 65 i 70 oed. Mae'n llai tebygol y bydd angen gwasanaethau gofal a chymorth ar y grŵp hwn nag ar grwpiau eraill. Gall fod rhesymau eraill hefyd, er enghraifft:

- Mwy o waith cyfeirio at wasanaethau yn y gymuned. Er enghraifft at siopau sy'n gwerthu cymhorthion symudedd bach ac isel eu cost, er enghraifft canllawiau cydio neu gymhorthion cerdded.
- Llwyddiant gofal canolraddol ac ailalluogi sy'n cefnogi pobl i adennill eu hannibyniaeth yn dilyn argyfwng iechyd, er enghraifft codwm neu strôc. Ledled Cymru, gwelir bod angen llai o gymorth (neu ddim cymorth) i fyw'n

Draft

annibynnol ar 71% o bobl sy'n derbyn gwasanaeth ailalluogi, o ganlyniad i'r gwasanaeth hwnnw. Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau yn canolbwyntio ar ailalluogi corfforol neu weithredol megis tasgau byw bob dydd, yn cynnwys gofal personol o ganlyniad i dorri asgwrn neu strôc, er enghraifft. Mae gwasanaethau i ailalluogi pobl â dementia/dryswch neu sydd wedi colli eu cof, wedi datblygu i raddau llai (Wentworth, 2014).

- Polisïau codi tâl ar sail profion modd (ar gyfer gwasanaethau a fu ar gael yn rhad ac am ddim neu am dâl bychan iawn yn y gorffennol), law yn llaw â gostyngiad yng nghyfran y bobl 65 oed a hŷn sy'n byw mewn tlodi (Joseph Rowntree Foundation, 2014).
- Dim ond 28% o bobl Cymru sydd â'u hincwm yn rhy isel i gyfrannu at gost eu gofal cartref (AGGCC 2016). Rhagwelir bod gan 30% o bobl ddigon o gyfalaf i ariannu eu gofal yn gyfan gwbl o ran gofal cartref a chartrefi gofal (AGGCC 2016 a Chydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gogledd Cymru, 2016).
- Newidiadau o ran cymhwystra i dderbyn gwasanaethau.
- Angen heb ei ddiwallu, efallai oherwydd diffyg capasiti yn y gwasanaeth, neu anghenion heb eu nodi.

**Gwasanaethau cymorth tai a 'Rhaglen Cefnogi Pobl'**

Mae gwasanaethau Cefnogi Pobl yn bwysig o ran cefnogi pobl hŷn i aros yn eu cartrefi. Yn dilyn adolygiad annibynnol o'r gwasanaethau cymorth tai hyn yng Nghymru a gyllidir gan grant Llywodraeth Cymru (Aylward *et al.*, 2010), gwnaed llawer i gynnig mynediad ehangach i bobl hŷn at y gwasanaethau pwysig hyn. Er enghraifft, ehangwyd rôl draddodiadol y 'warden tai gwarchod' i gwmpasu pob deiliadaeth, sy'n golygu bod hyn ar gael i berchenogion tai, tenantiaid landlordiaid preifat, yn ogystal â thenantiaid tai cymdeithasol.

Caiff llawer o'r gwasanaethau hyn eu halinio â gwasanaethau therapi galwedigaethol/ailalluogi a thechnoleg gynorthwyol, gan gynnwys larymau cymunedol, er mwyn cynnig gwasanaeth cyson, syml i bobl ag anghenion bach a mawr.

**Gwasanaethau gofal cartref**

Mewn arolwg gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) o bobl sy'n cael gofal cartref yng Nghymru, roedd 83% yn 65 oed a hŷn a 43% yn 85 oed a hŷn (Care and Social Services Inspectorate for Wales, 2016).

Er bod nifer cyffredinol y bobl sy'n derbyn gwasanaethau wedi gostwng, o bosibl, mae'r cymorth cyfartalog a geir bob wythnos yn cynyddu.

Mae'r tabl canlynol yn nodi nifer cyfartalog yr oriau o ofal cartref a ddarparwyd i bobl 65 oed a hŷn yn 2014/15.

Draft

**Tabl 3.5** Nifer y bobl 65 oed a hŷn sy'n cael gofal cartref, a'r oriau gofal cartref a ddarparwyd yng Ngogledd Cymru, 2014/15

| | Nifer y bobl 65+ sy'n cael gofal | Oriau gofal a ddarparwyd bob wythnos | Oriau cyfartalog bob wythnos |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 340 | 3,900 | 11 |
| Gwynedd | 880 | 8,700 | 10 |
| Conwy | 1,000 | 8,700 | 8 |
| Sir Ddinbych | 420 | 3,300 | 8 |
| Sir y Fflint | 700 | 7,200 | 10 |
| Wrecsam | 730 | 8,400 | 11 |

*Talgrynnwyd y niferoedd*
Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, StatsCymru

Ar gyfartaledd, roedd pobl yn cael ychydig dros 9 awr o gymorth yr wythnos, a chynyddodd hyn i fwy na 12.5 awr o gymorth yr wythnos yn 2015/16.

**Mae nifer y bobl a dderbynnir i'r ysbyty yn dilyn codwm yn debygol o gynyddu**

Mae codymau yn risg sylweddol i bobl hŷn, ac mae'r anafiadau a achosir gan godymau, megis torri clun, yn bryder penodol. Yn dilyn codwm, mae mwy o angen gwasanaethau sy'n helpu pobl hŷn i adennill eu hannibyniaeth a meithrin y sgiliau a'r hyder a gollwyd, yn enwedig ar ôl treulio cyfnod yn yr ysbyty. Gall colli hyder, sgiliau ac annibyniaeth gyfrannu at unigrwydd ac arwahanrwydd (gweler 3.2).

Dengys Ffigur 3.5 sut y mae nifer y bobl a dderbynnir i'r ysbyty yn dilyn codymau yn debygol o gynyddu. Mae atal codymau yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ac i gynghorau lleol. I gael rhagor o wybodaeth, gweler Cynllun Heneiddio'n Well pob cyngor.

Draft

**Ffigur 3.5** Nifer y bobl 65 oed a hŷn y rhagwelir y byddant yn cael eu derbyn i’r ysbyty oherwydd codwm




Ffynhonnell: Daffodil

## Beth y mae pobl yn ei ddweud wrthym?

Nododd y bobl a ymgysylltodd â’r Panel Dinasyddion bryder gwirioneddol ynghylch sut y byddent yn addasu eu cartref i ddiwallu anghenion newidiol yn gysylltiedig â heneiddio neu salwch, yn ogystal ag ofn y byddai’n rhaid iddynt symud pe na allent addasu eu cartref presennol. Pwysleisiodd rhai o’r ymatebwyr bwysigrwydd gofal (canolraddol) a chymorth i osgoi treulio cyfnodau hir yn yr ysbyty, a chael staff gofal y gallech ddatblygu perthynas gadarnhaol â nhw.

Roedd parhau i gymdeithasu a chymryd rhan yn y gymuned hefyd yn bwysig i lawer o’r ymatebwyr, ac roedd mynd i’r eglwys a chlybiau rygbi, ynghyd ag ymweld â phlant ac aelodau eraill o’r teulu, ymhlith yr enghreifftiau a gynigiwyd. Mae angen goresgyn problemau logistaidd sylfaenol, er enghraifft, os nad ydynt bellach yn gallu gyrru neu reoli eu bywydau oherwydd anabledd. Gall cludiant fod yn broblem, yn enwedig os oes yna anghenion arbennig (er enghraifft, defnyddio cadair olwyn). Mae rhai pobl hŷn, yn enwedig y rheiny sy’n wynebu rhai cyfyngiadau corfforol, yn teimlo’n rhwystredig pan fydd eraill yn tybio na allant wneud pethau.

Dywedodd pobl fod eu profiad o ofal cartref yn amrywiol iawn – o gymorth â gofal a hylendid personol, symud a gosod, paratoi bwyd a chymorth i fwyta, i gymorth o ran gwisgo neu fynd i’r gwely. Dywedodd llawer o bobl fod y gofal a’r cymorth hwn yn eu helpu i wneud pethau pan oedd arnynt eisiau, ond dywedodd llawer nad felly yr oedd hi. Y prif reswm am hyn oedd y rheidrwydd i

gyd-fynd â threfniadau/rotâu y darparwyr gofal, neu i ddarparu dim ond y cymorth a nodwyd mewn cynllun gofal cyfyngedig a ganolbwyntiai ar dasgau byw pob dydd, yn hytrach nag ar ansawdd bywyd.

Dywedodd y mwyafrif o bobl fod gweithwyr gofal yn eu trin ag urddas, cwrteisi a pharch. Roedd y sylwadau'n cynnwys – 'fel ffrindiau yn dod i'r tŷ'; 'neis iawn fel arfer'. Fodd bynnag, soniodd y bobl oedd yn llai bodlon ar eu gwasanaethau am 'ofalwyr heb eu hyfforddi, mae rhai yn anghwrtais, mae rhai yn swta, dydyn nhw ddim yn gwrando'. Yn anffodus, teimlai un unigolyn fod yna fygythiad y byddai'n colli'r gofal a chymorth pe bai'n cwyno neu'n codi pryderon.

O ran gofal cartref:

- Mae pobl yn poeni a fyddant yn gallu cael gofal a chymorth byrdymor yn eu cartref yn dilyn llawdriniaeth, a dywedant fod llawer o'r cyfrifoldeb yn cael ei ysgwyddo gan ofalwyr sy'n berthnasau. Fodd bynnag, dywedodd tua hanner y rhai a ymgysylltodd â'r Panel Dinasyddion nad oedd ganddynt unrhyw un i'w cefnogi. I rai, y rheswm am hyn oedd bod gan eu partner neu aelod arall o'r teulu ei anghenion gofal a chymorth ei hun. Dywedodd rhai eu bod yn sengl, eu bod heb blant, bod y plant wedi symud i ffwrdd, eu bod wedi symud i ffwrdd oddi wrth y teulu, neu eu bod yn byw ar wahân i'w partner. Dywedodd ychydig o bobl mai nhw oedd 'yr olaf o'r teulu' ac roedd ambell un yn bryderus, heb eisiau 'bod yn faich' ar y teulu na gofyn am becyn gofal cymdeithasol. Rhoddwyd gwybod am broblemau o ran cael cymorth, cyngor a chefnogaeth neu ofal mewn argyfwng, gan gynnwys mynediad at offer.
- O ran yr anghenion anoddaf i'w diwallu, roedd pobl yn poeni'n bennaf am gadw eu hannibyniaeth neu am gael cymorth â'u bywyd dyddiol. Cyfeiriodd pobl at hylendid, cynnal a chadw'r cartref, siopa, cynnau tân glo, coginio, glanhau, a pharhau i allu symud. Hefyd, roedd llawer o bobl wedi sôn am anawsterau yn gysylltiedig ag arwahanrwydd cymdeithasol ac unigedd.
- Mae cefnogi pobl i gymryd eu meddyginiaeth yn dilyn llawdriniaeth, neu i drin cyflwr cronig, yn bwysig iawn.
- Roedd ansawdd gofal yn amlwg yn yr atebion, ac roedd cael gofal gan rywun sy'n siarad yr un iaith â chi yn arbennig o bwysig i bobl â dementia.
- Ystyrir bod grymuso pobl i fod yn annibynnol yn hanfodol bwysig ar gyfer iechyd meddwl da a llesiant cyffredinol. Fodd bynnag, mae rhai pobl hŷn yn hapus i fod yn ddibynnol ar eraill am gymorth â gweithgareddau byw o ddydd i ddydd, a gall y rhain ddigio pan gynigir gwasanaethau galluogi iddynt.

Roedd y syniadau ar gyfer gwella gofal cartref yn cynnwys:

- Gweithwyr i gael mwy o amser i wella llesiant, sylwi mwy ar anghenion, a deall anghenion neu ddymuniadau pobl yn well.

Draft

- Cynlluniau gofal sydd hefyd yn rhoi ystyriaeth i anghenion gofalwyr sy'n berthnasau.
- Gweithwyr â mwy o brofiadau gofal iechyd neu ofal ysbyty.
- Cael gwybod os na all gweithwyr ymweld ar amser.
- Cadw at yr amserau a gytunwyd pan fydd y cymorth yn gysylltiedig â meddyginiaeth.
- Sicrhau bod gan weithwyr sgiliau bywyd sylfaenol, megis coginio, defnyddio peiriannau cartref cyffredin (poptai microdon, peiriannau golchi dillad).
- Darparu gweithwyr sy'n siarad Cymraeg.

Rhoddwyd gwybod bod gwasanaeth offthalmoleg Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn annigonol i ateb y galw, gan arwain at oedi hir, yn enwedig ar gyfer llawdriniaeth cataractau a phigiadau i'r llygad. Gall oedi cyn cael triniaeth gael effaith corfforol ac emosiynol negyddol ar fywydau pobl.

Mae pob sefydliad sector cyhoeddus (boed yn statudol, yn breifat neu'n elusennol) yn wynebu heriau ariannol a all effeithio ar ei allu i gynnig gwasanaethau hyblyg; fodd bynnag, gall mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth da ac amserol helpu pobl i adeiladu ar eu hasedau (ariannol, cymdeithasol a chorfforol), ac i wneud y defnydd gorau o gyfleusterau a gwasanaethau yn eu cymuned. Mae'r dull gweithredu hwn yn osgoi neu'n lleihau galwadau diangen ar wasanaethau, ac yn hybu annibyniaeth pobl. Deall yr hyn sy'n bwysig i bobl a'u galluogi i'w gyflawni fydd rôl allweddol y gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol. Bydd defnyddio a datblygu cryfderau a pherthnasoedd pobl yn tynnu baich diangen oddi ar wasanaethau a ariennir gan y wladwriaeth boed, y rheiny'n wasanaethau gan y cynghorau neu'r GIG.

## Adolygiad o'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd

Ar hyn o bryd, darperir amrywiaeth o wasanaethau cymunedol i gefnogi pobl i barhau i fyw gartref. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys: cyfleoedd ysbaid mewn cartrefi preswyl; cymorth â gofal personol a pharatoi bwyd; technoleg gynorthwyol; lleoliadau gofal dydd a chludiant; goruchwyliaeth; a gwasanaethau addasu i sicrhau bod tai yn addas ac yn diwallu anghenion.

Mae pob cyngor lleol yng Ngogledd Cymru yn gweithio gyda'r bwrdd iechyd i ddatblygu gwasanaethau gofal cartref sy'n canolbwyntio ar ansawdd bywyd pobl (a'r hyn sy'n bwysig iddynt), ac i ddarparu telerau ac amodau gwaith da ar gyfer staff gofal.

**Beth sy'n gweithio'n dda?**

- Cynnal annibyniaeth a chefnogi pobl i fyw mor annibynnol â phosibl yn eu cartrefi. Mae cymorth ailalluogi yn helpu pobl i adennill eu sgiliau a'u hannibyniaeth.

Draft

- Ansawdd y ddarpariaeth – mae llawer o weithwyr gofal yn darparu gofal da ac yn mynd gam ymhellach. Mae'r cymorth yn llwyddiant mawr, ac mae defnyddwyr y gwasanaeth yn hapus ac wedi creu perthnasoedd da.
- Rhoi'r unigolyn yng nghalon y gwasanaeth – mae yna enghreifftiau da o ddarparwyr sy'n dod yn ffrindiau â'u cleientiaid, ac sy'n darparu'r gofal mwyaf addas i ddiwallu anghenion y defnyddwyr. Mae hyn yn arwain at becynnau llwyddiannus iawn.
- Mae gwasanaethau goruchwylio yn werthfawr iawn i ofalwyr ac yn helpu pobl i aros yn y gymuned. Pe na fyddai'r cymorth hwn ar gael, byddai angen pecynnau gofal mwy dwys ar unigolion.
- Gall offer ac addasiadau helpu i gynnal annibyniaeth pobl heb yr angen am becyn gofal ffurfiol. Gwelir cydweithredu da rhwng yr adrannau gwahanol yn y cynghorau, er enghraifft yr adrannau grantiau a diogelwch cartref.
- Mae technoleg gynorthwyol yn wasanaeth pwysig sy'n helpu pobl i aros yn hirach yn eu cartref, er enghraifft, pobl sy'n wynebu risg o syrthio. Mae'r dechnoleg yn datblygu i gynnig dewisiadau mwy soffistigedig i ddiwallu anghenion gofal a chymorth.

**Beth y gellid ei wella?**

- Y gweithlu – mae prinder gweithwyr, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac o ganlyniad i'r nifer mawr o staff sy'n gadael. Mae hyn yn effeithio ar y berthynas rhwng y gweithiwr gofal a'r cleient (yn enwedig pobl sy'n byw â dementia). Mae hyn, yn ei dro, yn effeithio ar lwyddiant y cymorth. Hefyd, mae recriwtio dynion a siaradwyr Cymraeg i fod yn weithwyr gofal yn her. Gall fod yn anodd ymateb ar frys i anghenion mewn rhai ardaloedd oherwydd y diffyg capasiti hwn. Mae angen codi statws gweithwyr gofal, a gwella eu hamodau gwaith, i leihau'r nifer sy'n gadael, ac mae angen gwobrwyo'r gweithlu am eu sgiliau.
- Gwella ymwybyddiaeth a chyfathrebu ynghylch y gwasanaethau sydd ar gael.
- Annog darparwyr i weithio fel consortiwm er mwyn helpu i ddiwallu anghenion dwys.
- Gall amseriad ymweliadau gofal cartref fod yn broblem, ac mae'n anodd i ddarparwyr fod yn hyblyg. Mae diwallu anghenion pobl yn unol â'u dymuniadau yn her.
- Cymorth ar gyfer pobl ag ymddygiad heriol, yn cynnwys gwell hyfforddiant ar gyfer gweithwyr gofal i ddiwallu anghenion a chefnogi pobl sydd heb deulu o'u cwmpas, a phobl o grwpiau lleiafrifol, er enghraifft Pwyliaid, Tsieineaid, Indiaid a phobl o Sri Lanka. Er bod y niferoedd hyn yn fach iawn, mae nifer yr achosion yn cynyddu'n raddol dros amser.
- Mae archebu offer arbenigol yn gallu bod yn anodd mewn rhai ardaloedd.



Draft

**Yr heriau sy'n wynebu comisiynwyr a darparwyr**

- Cynnal annibyniaeth a chryfhau gwytnwch oedolion agored i niwed a phobl hŷn cyhyd â phosibl, fel na fydd unigolion yn ddibynnol ar y gwasanaethau statudol. Mae angen i ni ddeall a dysgu mwy am y ffactorau sy'n cyfrannu at annibyniaeth pobl.
- Sicrhau bod pobl yn cynnig eu hatebion eu hunain i unrhyw rwystrau, gan ddefnyddio'u hasedau personol, teulu, ffrindiau, y gymuned a'r trydydd sector.
- Newid agweddau pobl at heneiddio, yn ogystal â'u disgwyliadau o ran y gwasanaethau statudol. Annog pobl hŷn i ystyried y math o gymorth, strwythurau ac addasiadau y bydd angen eu gwneud i'w cartrefi wrth iddynt heneiddio. Yn ystod y gwaith ymgysylltu lleol, gwelwyd bod pobl yn amharod iawn i baratoi ar gyfer dirywiad yn eu hiechyd, a bod rhai mewn cymunedau gwledig yn aml yn amharod iawn i ofyn am gymorth a chefnogaeth. Yn aml, bydd hyn yn arwain at golli cyfleoedd i gynnig cymorth ataliol a allai atal anghenion pobl rhag cynyddu a dod yn argyfwng.
- Darparu mwy o hyblygrwydd pan fydd angen cymorth ar unigolion gan y gwasanaethau statudol.
- Gweithio i gyflawni canlyniadau personol a llesiant pob unigolyn sy'n cael gofal a chymorth, yn ogystal â chynnal eu hannibyniaeth. Bydd hyn yn cynnwys comisiynu gofal cartref ar sail canlyniadau personol, ynghyd â gweithio gydag unigolion i gytuno ar y math o gymorth y mae ei angen i gyflawni eu hamcanion personol.
- Cydweithio â'r gwasanaethau iechyd i glustnodi cymorth yn y cartref i bobl hŷn yn dilyn digwyddiadau arwyddocaol megis codymau. Datblygwyd enghraifft o'r math hwn o gymorth ar Ynys Môn rhwng y gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaethau iechyd dan fantell prosiect 'Night Owls'.

## Casgliadau

Mae parhau i fyw yn eu cartref eu hunain yn flaenoriaeth i lawer o bobl hŷn, ac mae'n rhan bwysig o gynnal eu hannibyniaeth. Mae'r galw am wasanaethau yn debygol o gynyddu wrth i nifer y bobl 65 oed a hŷn gynyddu. Ymddengys hefyd fod galw cynyddol am gymorth mwy cymhleth a mwy o oriau gofal bob wythnos.

Mae'r gwasanaethau presennol yn darparu cymorth o ansawdd uchel, sy'n helpu i gynnal annibyniaeth pobl, ac mae llawer o bobl yn dweud eu bod yn hapus â'r gofal a gânt. Mae'n anodd recriwtio a chadw gweithwyr gofal, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, gofalwyr gwrywaidd a siaradwyr Cymraeg. Mae angen gwella ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael, a helpu darparwyr i ddiwallu anghenion dwys ac arbenigol, ac i ddarparu gwasanaeth hyblyg.

Draft

Yr heriau sy’n wynebu comisiynwyr a darparwyr yw parhau i ddarparu cymorth hyblyg er mwyn galluogi pobl: i fod yn annibynnol; i gynnig eu hatebion eu hunain gan ddefnyddio’u hasedau personol, teulu, ffrindiau, y gymuned a’r trydydd sector; i gynllunio ar gyfer anghenion gofal yn y dyfodol; i gyflawni eu hamcanion personol a llesiant.

Drafft

# 3.4 Dementia

## Rhagarweiniad

‘Mae dementia yn salwch dinistriol, sy’n fwy na cholli’r cof yn unig. Mae’n glefyd dirywiol ar yr ymennydd, sy’n cyfyngu ar fywyd ac sy’n effeithio ar bob rhan o allu corfforol, gwybyddol, emosiynol a chymdeithasol unigolyn.’ (Welsh Government, 2016)

Nid oes gwellhad, er bod yna driniaethau sy’n gallu arafu rhai mathau o’r clefyd, mewn rhai achosion. Caiff dementia effaith sylweddol ar unigolion, ac mae’n rhoi pwysau aruthrol ar y gwasanaethau statudol, y trydydd sector a pherthnasau a ffrindiau sy’n cefnogi unigolion sy’n byw â dementia. Er gwaethaf yr heriau sy’n gysylltiedig â dementia, gellir cefnogi pobl i fyw yn dda neu’n well, o leiaf, nag yr oeddent wedi meddwl, a’r her i ni yw darparu’r gefnogaeth honno.

Rhoddir sylw i ddementia mewn strategaethau cenedlaethol, ac mae’n un o themâu Rhaglen Heneiddio’n Dda. Un o nodau’r rhaglen yw “gwneud Cymru’n genedl sy’n cefnogi dementia trwy adeiladu a hyrwyddo cymunedau sy’n cefnogi pobl â dementia.”

## Beth yr ydym yn ei wybod am y boblogaeth?

Yn ôl yr amcangyfrifon, mae mwy na 45,000 o bobl yng Nghymru yn byw â dementia, a disgwylir i’r ffigur hwn gynyddu i fwy na 55,000 erbyn 2021 (Alzheimer's Society, 2015). Pobl hŷn yw’r mwyafrif helaeth o bobl sy’n byw â dementia, ac mae achosion o ddementia cynnar (ymhlith pobl o dan 65 oed) yn gymharol brin. Fodd bynnag, yn ôl ein gwaith ymgysylltu lleol, mae nifer yr achosion ymhlith oedolion iau yn cynyddu o dipyn i beth (gweler y penodau ar iechyd meddwl ac anabledd dysgu).

Rhwng 2011 a 2021, disgwylir y bydd nifer y bobl sy’n dioddef dementia yng Nghymru yn cynyddu 31% a hyd at 44% mewn rhai ardaloedd gwledig (Welsh Government, 2011). Erbyn 2055, rhagwelir y bydd mwy na 100,000 o bobl yng Nghymru yn byw â dementia. O’r cyfanswm o 45,000 o bobl yng Nghymru sy’n byw â dementia, amcangyfrifir bod tua dwy ran o dair ohonynt yn byw yn y gymuned, a bod y traean sy’n weddill yn byw mewn cartrefi gofal neu gartrefi preswyl (Alzheimer's Society, 2007).

Mae rhwng 4,600 ac 11,000 o bobl yn byw â dementia yng Ngogledd Cymru. Seiliwyd yr amcangyfrif is ar nifer y bobl sydd ar y gofrestr ddementia; dim ond cleifion â diagnosis o ddementia ac a gafodd adolygiad gofal wyneb yn wyneb yn ystod y 15 mis blaenorol sydd ar y gofrestr hon (Y Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau, 2014). Mae’r amcangyfrif uwch yn ganlyniad i gymhwyso amcangyfrif o nifer yr achosion i’r amcanestyniadau poblogaeth gan Lywodraeth Cymru sy’n seiliedig ar 2011 (Alzheimer's Society, 2007; Institute of Public

Draft

Care, 2015). Nid oes gennym wybodaeth am faint o bobl sy'n byw â dementia ac sy'n cael cymorth gan gynghorau lleol.

Wrth i bobl fyw'n hirach, mae'n debygol y bydd nifer yr achosion o ddementia yn cynyddu. Dengys Ffigur 3.6 y cynnydd a ragwelir yn nifer y bobl hŷn â dementia yng Ngogledd Cymru, sef cynnydd o 72% rhwng 2015 a 2035. Fodd bynnag, mae astudiaeth ddiweddar yn awgrymu na welwyd y cynnydd syfrdanol a ragwelwyd mewn achosion o ddementia (Matthews *et al.*, 2016). Efallai bod hyn yn ganlyniad i welliant o ran iechyd, yn enwedig ar gyfer dynion, er enghraifft, llai o ddynion yn smygu, llai o halen mewn bwyd, a mwy o ymarfer corff. Fodd bynnag, mae ymchwilwyr yn rhybuddio y gallai achosion cynyddol o ordewdra a diabetes wyrdroi'r tuedd hwn yn y dyfodol.

**Ffigur 3.6** Rhagolygon o ran nifer y bobl 65 oed a hŷn â dementia




Ffynhonnell: Daffodil

## Beth y mae pobl yn ei ddweud wrthym?

Mae pobl yng Ngogledd Cymru yn poeni ynghylch diffyg gwybodaeth a chymorth yn dilyn diagnosis o ddementia, gan gynnwys diffyg hawl i fudd-dal. Dywed rhai y teimlant fod yna niferoedd cudd o bobl sy'n byw â dementia, yn ogystal â gofalwyr nad ydynt yn cael mynediad at wasanaethau, yn enwedig o ran pobl dan 65 oed nad ydynt, o bosibl, yn cael mynediad at ofal preswyl neu ofal ysbaid priodol. Nid oes ar bobl yn eu pedwardegau a'u pumdegau eisiau derbyn gwasanaethau ochr yn ochr â phobl yn eu hwythdegau.

Mae cefnogi pobl i barhau i ofalu amdanynt eu hunain, lle bo hynny'n bosibl, tra byddant yn yr ysbyty, ac i gael eu rhyddhau cyn gynted ag y byddant yn ddigon da (gyda'r gofal neu'r cymorth iawn gartref) yn bwysig iawn, gan fod ar bobl hŷn

ofn mynd i'r ysbyty. Mae hyn yn arbennig o bwysig i bobl â dementia. Mae'r gofal a'r cymorth iawn yn canolbwyntio nid yn unig ar dasgau 'gweithredol' neu dasgau byw pob dydd, ond hefyd ar yr hyn sy'n bwysig i bobl ac, yn aml, bydd y cymorth hwn (gadael y tŷ, cynnal cysylltiadau cymdeithasol) yn syrthio i ffrindiau, perthnasau a chymdogion, neu bydd yn angen heb ei ddiwallu os na chaiff ei gofnodi gan aseswyr iechyd a gofal cymdeithasol.

## Adolygiad o'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd

Gall byw â dementia gael effaith emosiynol, gymdeithasol, seicolegol ac ymarferol enfawr ar unigolyn. Mae'r gwasanaethau gofal a chymorth sydd ar gael i gefnogi pobl â dementia yng Ngogledd Cymru yn cynnwys y canlynol:

- Asesiadau arbenigol.
- Cymorth i gynnal annibyniaeth a byw yn y gymuned, er enghraifft, cymorth â thasgau dyddiol a gofal personol.
- Goruchwyliaeth yn ystod y dydd neu dros nos.
- Cyfleoedd i ofalwyr gael egwyl neu ysbaid. Mae amrywiaeth o gyfleoedd ar gael, yn cynnwys: cyfle i'r gofalwr a'r unigolyn â dementia fynd allan gyda'i gilydd i gaffi dementia neu ar daith diwrnod; rhoi cyfle i'r gofalwr gael ysbaid o'r cartref am ychydig o oriau; neu ddarparu cymorth i bobl â dementia mewn cartref gofal am ychydig o ddyddiau, neu am wythnos neu ragor.
- Cymorth i ofalwyr i'w cefnogi i barhau i ofalu.
- Cymorth sy'n hyrwyddo llesiant unigolion sy'n byw â dementia, yn cynnwys cymorth i barhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau neu gyfleoedd yn eu cymunedau.
- Pan fydd anghenion yn ddwys iawn, mae angen lleoliadau preswyl a lleoliadau nyrsio arbenigol.
- Gweithwyr cymorth dementia.
- Digwyddiadau Cymunedau Cyfeillgar i Ddementia.
- Cymorth a ddarperir gan y Gymdeithas Alzheimer's.
- Nyrsys Seiciatrig Cymunedol.

Mewn rhai ardaloedd, cydlynir y gwasanaethau hyn gan grwpiau strategol ar gyfer dementia.

**Beth sy'n gweithio'n dda?**

- Unedau dros dro mewn cartrefi gofal sy'n caniatáu i wasanaethau asesu problemau cychwynnol â'r cof, yn ogystal â gallu'r unigolion i ddygymod gartref ar ei ben ei hun.
- Cyfleoedd gofal dydd arbenigol a ddarperir ar y cyd â'r gwasanaeth iechyd. Mae'r rhain yn gyfle i ofalwyr gael ysbaid, ac maent yn cynnig canlyniadau llesiant i'r sawl sy'n byw â dementia, trwy ddarparu cyswllt â'r byd a sicrhau

Draft

lefel o ddiogelwch. Yn ogystal, mae'r ddarpariaeth yn gyfle i gynnal asesiad pellach a, thrwy hynny, yn helpu'r unigolyn sy'n byw â dementia i aros yn y gymuned am gyfnod hirach.

- Darpariaeth megis Dementia Go.
- Cynlluniau cyfeillio a gwasanaethau ysbaid sy'n ymateb i anghenion unigolion, yn enwedig pan ddarparwyd y rhain yn y cartref neu'n agos ato.
- Mae cymorth gofal cartref llwyddiannus yn cefnogi pobl ag anghenion dwys iawn yn y gymuned, yn hytrach nag mewn lleoliadau preswyl neu nyrsio arbenigol.

**Yr heriau sy'n wynebu comisiynwyr a darparwyr**

- Cynnal gwaith adnabod ac asesu cynnar a diagnosis amserol, a darparu gwybodaeth a chymorth da yn dilyn diagnosis.
- Darparu mwy o gymorth i bobl ifanc â dementia, yn cynnwys cynlluniau cyfeillio.
- Yr angen am fwy o ddarpariaeth nyrsio iechyd meddwl henoed, a gofal preswyl i'r henoed bregus eu meddwl (EMI).
- Y Gymraeg – sicrhau bod digon o ddarpariaeth ac asesu arbenigol ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Nodwyd y pryder hwn hefyd mewn ymchwil genedlaethol gan y Comisiynydd Pobl Hŷn yn ei hadroddiad "Dementia: Mwy na dim ond colli'r cof".
- Gallu'r farchnad cartrefi gofal i fodloni anghenion Gofal Iechyd Parhaus, wrth i anghenion unigolion ddwysáu.
- Darpariaeth gofal dydd arbenigol i gefnogi unigolion ag anghenion cymysg (yn aml, anghenion dementia ac anghenion corfforol dwys). Mae arbrawf i ddarparu cymorth 1:1 ac 1:3 ar waith yn Sir Ddinbych i ddiwallu anghenion unigolion.
- Cefnogi pobl ag ymddygiad heriol, a chynnal cymorth gofal cartref a lleoliadau nyrsio EMI.
- Darparu gwasanaethau hyblyg sy'n apelio at ddiddordebau pobl sy'n byw â dementia a'r bobl sy'n gofalu amdanynt, a'u helpu i gyflawni eu canlyniadau personol a llesiant. Mae angen i'r cymorth hwn roi sylw i rwystrau o ran cludiant ac osgoi stigma.
- Gwella'r cydweithredu rhwng gwasanaethau statudol i ddileu anawsterau a rhwystrau diangen ar gyfer pobl sy'n byw â dementia, yn ogystal â'r bobl sy'n gofalu amdanynt.

## Casgliad ac argymhellion

Amcangyfrifir bod 11,000 o bobl yn byw â dementia yng Ngogledd Cymru. Disgwylir i'r nifer hwn gynyddu, ond mae'n bosibl y bydd y cynnydd yn llai na'r

Draft

hyn a dybiwyd yn wreiddiol oherwydd gwelliannau iechyd. Mae dementia yn cael effaith sylweddol ar unigolion, ac yn rhoi pwysau mawr ar y gwasanaethau statudol, y trydydd sector a'r perthnasau a'r ffrindiau sy'n eu cefnogi. Er gwaethaf yr heriau a ddaw yn sgil dementia, gellir cefnogi pobl i fyw yn dda neu i fyw yn well, o leiaf, nag yr oeddent wedi meddwl, a'r her i ni yw darparu'r gefnogaeth honno.

Mae'r gwasanaethau presennol yn darparu amrywiaeth eang o gymorth sy'n diwallu anghenion llawer o bobl.

**Meysydd ar gyfer gwella ac argymhellion**

1. Darparu rhagor o wybodaeth a chymorth yn dilyn diagnosis.
2. Hyfforddiant ychwanegol i weithwyr gofal ynghylch gweithio gyda phobl sydd â dementia.
3. Datblygu gwasanaethau ychwanegol sy'n diwallu anghenion unigol, yn enwedig ar gyfer pobl iau â dementia, a gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.
4. Sicrhau bod digon o ddarpariaeth nyrsio o ran iechyd meddwl henoed a gofal preswyl i'r henoed bregus eu meddwl (EMI).
5. Gwella'r cydweithio rhwng gwasanaethau.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Natganiad Sefyllfa'r Farchnad Ddementia yng Ngogledd Cymru, a gellir gweld gwybodaeth am y datblygiadau penodol ym mhob sir yn y Cynlluniau Heneiddio'n Well sydd ar gael yma: http://www.ageingwellinwales.com/wl/localplans

Draft

## 3.5 Cartrefi gofal

### Beth yr ydym yn ei wybod am y boblogaeth?

Disgwylir y bydd nifer y bobl 65 oed a hŷn sy'n derbyn gwasanaethau preswyl yn dyblu bron erbyn 2035, fel y dangosir yn Ffigur 3.7. Fodd bynnag, bu gostyngiad dros amser yn nifer y bobl sy'n cael cymorth y gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd i symud i gartrefi gofal, wrth i'r cymorth i fyw gartref wella, ac oherwydd bod gan fwy o bobl yr arian i'w galluogi i benderfynu symud i gartref gofal heb gyllid statudol. Gan fod pobl yn cael gwell cymorth i fyw gartref, maent yn hŷn pan fyddant yn symud i gartref gofal. Oherwydd hyn, mae'r cyfnod y mae pobl yn ei dreulio mewn cartrefi gofal ('hyd yr arhosiad') yn lleihau (ym Mai 2016, roedd y cyfnod hwn yn 25 mis, ar gyfartaledd), ond mae anghenion pobl sy'n byw mewn cartrefi gofal yn mynd yn fwyfwy cymhleth.

Mae pobl sy'n byw â dementia yn tueddu i symud i gartref gofal pan fyddant ychydig yn iau (81 oed) na phobl heb ddementia (sy'n 83 oed ar gyfartaledd). Ar gyfartaledd, mae arhosiad pobl â dementia mewn cartref gofal yn fyrrach i bob golwg – pedwar mis yn fyrrach mewn cartrefi gofal preswyl, a mis yn fyrrach mewn cartrefi nyrsio. Yng Ngogledd Cymru, mae oedran cyfartalog y bobl â dementia sy'n byw mewn cartrefi gofal preswyl yn 84 oed ac mae'n 82 oed mewn cartrefi nyrsio.

Ystyr hyn yw y bydd arnom angen llai o leoliadau cartrefi gofal cyffredinol dros y blynyddoedd nesaf yng Ngogledd Cymru, yn ôl pob tebyg. Bydd angen llai o leoliadau preswyl yn gyffredinol, ond bydd angen mwy o wasanaethau ar gyfer pobl â dementia a phobl ag anghenion nyrsio. Bydd yr union ofynion – o ran cael mwy o fathau penodol o ystafelloedd cartref gofal neu lai ohonynt – yn wahanol ym mhob sir. Er enghraifft, mae gormod o leoedd preswyl yng ngogledd Sir Ddinbych (ardaloedd y Rhyl a Phrestatyn), ond mae prinder lle yn y de, er enghraifft yng Nghorwen.

Draft

**Ffigur 3.7** Nifer y bobl 65 oed a hŷn y rhagwelir y byddant yn derbyn gwasanaethau preswyl




Ffynhonnell: Daffodil

## Beth y mae pobl yn ei ddweud wrthym?

Ychydig iawn o'r bobl a ymgysylltodd â'r panel dinasyddion oedd wedi sôn am gartrefi gofal wrth ragweld sut y byddent yn diwallu eu hanghenion gofal yn y dyfodol. Mae hyn yn cyd-fynd â'r ddealltwriaeth fod y rhan fwyaf o bobl yn dymuno cael gofal a chymorth yn eu cartref (os yw hynny'n bosibl), ac nad ydynt am symud oddi yno os a phan fydd eu hiechyd yn dirywio.

Roedd nifer o sefydliadau yn pryderu am ddiffyg dewis a phrinder cyffredinol o ran llety addas ar gyfer pobl hŷn, boed y rheiny'n gartrefi gofal, yn dai gofal ychwanegol, neu'n gydberchenogaeth ar lety hygyrch.

Mae diffyg llety amgen â chymorth yn golygu bod mwy o bobl yn debygol o orfod symud i gartrefi gofal yn eu blynyddoedd olaf, pan fydd eu hiechyd wedi dirywio, ac mae'r gostyngiad yn nifer y cartrefi gofal a chartrefi preswyl, ynghyd â recriwtio a cholli staff gofal, yn bryder i bobl yng Ngogledd Cymru.

Dywed y cartrefi gofal eu hunain ei bod yn anodd iddynt helpu pobl i fod yn rhan o'r gymuned ehangach, rhoi mwy o lais i breswylwyr ynghylch penderfyniadau, a gwella symudedd/ymarfer corff y preswylwyr.

Draft

## Adolygiad o'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd

Yn gyffredinol yng Ngogledd Cymru, mae cartrefi cynghorau lleol yn cynnig 11% o'r lleoliadau cofrestredig. Y sector annibynnol/preifat sy'n rhedeg 89% o'r ddarpariaeth, er bod hyn yn amrywio o un sir i'r llall, a Gwynedd sydd â'r ganran uchaf o ddarpariaeth cyngor lleol.

Roedd y ddarpariaeth o leoliadau mewn cartrefi gofal fel a ganlyn ym mis Mai 2016:

**Tabl 3.6** Gwelyau cofrestredig yn ôl sector

| | Cyngor lleol | Gwirfoddol/trydydd sector | Sector Annibynnol/ Preifat | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 162 | 0 | 452 | 614 |
| Gwynedd | 318 | 0 | 769 | 1,087 |
| Conwy | 27 | 0 | 1,288 | 1,315 |
| Sir Ddinbych | 77 | 31 | 996 | 1,104 |
| Sir y Fflint | 92 | 0 | 721 | 813 |
| Wrecsam | 0 | 0 | 1,222 | 1,222 |
| Gogledd Cymru | 676 | 31 | 5,448 | 6,155 |

Ffynhonnell: Cyfrifiad Cartrefi Gofal 2016

Deellir bod y dadansoddiad o'r lleoliadau oedd ar gael yn ôl categori gofal ym mis Mai 2016 fel a ganlyn:

**Tabl 3.7** Gwelyau cofrestredig fesul sir yng Ngogledd Cymru, 2016

| | Preswyl | Iechyd meddwl preswyl | Nyrsio cyffredinol | Nyrsio iechyd meddwl | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 344 | 90 | 124 | 56 | 614 |
| Gwynedd | 425 | 116 | 408 | 138 | 1,087 |
| Conwy | 532 | 214 | 375 | 194 | 1,315 |
| Sir Ddinbych | 576 | 208 | 171 | 149 | 1,104 |
| Sir y Fflint | 309 | 227 | 233 | 44 | 813 |
| Wrecsam | 466 | 339 | 244 | 133 | 1,222 |
| Gogledd Cymru | 2,652 | 1,194 | 1,555 | 714 | 6,155 |
| Gogledd Cymru (%) | 43 | 20 | 25 | 12 | 100 |

Ffynhonnell: Cyfrifiad Cartrefi Gofal 2016

Gwelir yn ein cyfrifiad lleoliadau cartrefi gofal ym mis ai 2016 fod tua 40 (cyfanswm) o leoedd cartrefi gofal ar gael ar gyfartaledd ar draws Gogledd

Draft

Cymru am bob 1,000 o'r boblogaeth 65 oed a hŷn; mae'r rhain wedi'u rhannu'n 25 lle preswyl a 15 lle nyrsio am bob 1,000 o'r boblogaeth 65 oed a hŷn.

**Tabl 3.8** Nifer y gwelyau cofrestredig, am bob 100 o bobl 65 oed a hŷn

| | Lleoedd preswyl | Lleoedd nyrsio | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 2.5 | 1.0 | 3.5 |
| Gwynedd | 2.0 | 2.0 | 4.0 |
| Conwy | 2.4 | 1.9 | 4.3 |
| Sir Ddinbych | 3.5 | 1.5 | 5.0 |
| Sir y Fflint | 1.7 | 0.9 | 2.6 |
| Wrecsam | 3.0 | 1.4 | 4.7 |
| Gogledd Cymru | 2.5 | 1.5 | 4.0 |

Ffynhonnell: Cyfrifiad cartrefi gofal 2016, amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2015

Roedd lleoedd gwag mewn o leiaf 115 o'r 208 o gartrefi gofal ar adeg y cyfrifiad (nid oedd pob cartref yng Nghonwy a Wrecsam wedi darparu gwybodaeth). Roedd hyn yn cynnwys 17 o'r 24 o gartrefi cynghorau lleol (71%), a 97 o'r cartrefi gofal yn y sector annibynnol (53%). Roedd yna 430 o leoedd gwag (71 ohonynt yng nghartrefi gofal y cynghorau lleol), a dywedodd 20 o gartrefi fod mwy nag 20% o'u gwelyau cofrestredig yn wag.

Mae'r data ynghylch y lleoedd (gwag) sydd ar gael yn ôl categori gofal yn awgrymu bod bron hanner y lleoedd gwag mewn cartrefi gofal preswyl. Gall hyn fod oherwydd bod pobl yn dewis aros yn eu cartrefi gyda gofal cartref cyhyd â phosibl, a/neu hyd nes bod ganddynt anghenion iechyd corfforol neu feddyliol sylweddol na ellir darparu ar eu cyfer gartref.

Gwyddid bod o leiaf 4,864 o bobl yn preswylio yn y 6,155 o leoedd cartrefi gofal; ar hyn o bryd, mae comisiynwyr Gogledd Cymru (y cynghorau lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr) yn prynu tua 69% o'r lleoliadau sydd ar gael, a deellir bod preswylwyr yn prynu 29% o'r lleoliadau gan ddefnyddio'u harian eu hunain, a bod comisiynwyr eraill yn prynu 2% o'r holl leoedd.

Cynhaliodd Sefydliad Gofal Cyhoeddus Prifysgol Oxford Brookes (IPC) adolygiad o'r farchnad cartrefi gofal ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru ar ran y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru. Gwelodd yr adolygiad hwn fod y mwyafrif (65%) o gartrefi gofal yng Ngogledd Cymru nad oeddent yn eiddo i gynghorau, yn gartrefi sengl o ran eu perchnogaeth a'u gweithrediad. Roedd 26% o gartrefi yn perthyn i grwpiau bach (tri chartref neu lai), ac roedd 9% yn perthyn i grwpiau mwy oedd â phedwar neu ragor o gartrefi. Mae Conwy yn un o dri chyngor yng Nghymru lle darperir dwy ran o dair neu ragor o'r cartrefi a'r gwelyau yn yr ardal gan ddarparwyr sengl. Mae Conwy a Sir Ddinbych ymhlith tri Awdurdod Lleol yng Nghymru lle darperir 10 neu ragor o gartrefi yn eu hardal



Drafft

gan grwpiau llai. Grŵp Gofal Cymru, Barchester Healthcare Homes Ltd, Pendine Park Care Organisation a Leighton Healthcare (No11) Ltd yw'r grwpiau mwy sy'n darparu cartrefi yng Ngogledd Cymru. Pendine Park Care Organisation sy'n darparu'r nifer mwyaf o leoliadau yng Ngogledd Cymru.

Nid yw'r pedwar darparwr cartrefi gofal mwyaf yng Nghymru – HC-ONE Ltd, BUPA Care Homes (Partnerships) Ltd, Hafod Care Association Ltd a Hallmarks – yn gweithredu yng Ngogledd Cymru; ac efallai bod cyfle yma i lunio partneriaethau yn y dyfodol.

Darparodd yr arolwg hwn fanylion hefyd ynghylch nifer cymedrig y gwelyau fesul cartref ym mhob sir, sy'n dangos bod maint cyfartalog cartrefi yn amrywio ledled Gogledd Cymru:

**Tabl 3.9** Nifer y gwelyau cofrestredig, fesul pob 100 o bobl 65 oed a hŷn

| | Nifer y cartrefi | Nifer y gwelyau | Nifer cyfartalog y gwelyau ym mhob cartref |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 23 | 611 | 27 |
| Gwynedd | 38 | 1,096 | 29 |
| CB Conwy | 55 | 1,297 | 24 |
| Sir Ddinbych | 40 | 1,125 | 28 |
| Sir y Fflint | 28 | 881 | 31 |
| Wrecsam | 31 | 1,229 | 40 |
| Gogledd Cymru | 23 | 611 | 27 |

Ffynhonnell: http://ppiw.org.uk/ppiw-report-publication-the-care-home-market-in-wales-mapping-the-sector/

## Dewis

Mae'r Tai Gofal Ychwanegol a ddatblygir yn cynnig dewisiadau heblaw gofal preswyl i rai pobl yng Ngogledd Cymru; gyda rhai unedau gofal ychwanegol yn darparu'n benodol ar gyfer pobl â dementia. Roedd 252 o bobl yn byw mewn llety gofal ychwanegol yng Ngogledd Cymru yn 2015.

Datblygwyd yr holl gynlluniau gofal ychwanegol yng Ngogledd Cymru i gydymffurfio â'r safonau cartref am oes – gan gynnig cyfleusterau hygyrch fel cawodydd â mynediad gwastad, baddonau codi a gostwng â theclyn codi wedi'i osod yn y nenfwd, a lle i gadw cadair olwyn neu sgwter symudedd. Mae meini prawf cymhwystra y cynlluniau hyn yn ei gwneud yn ofynnol bod gan ddarpar denantiaid anghenion o ran tai a/neu anghenion gofal cymdeithasol cymwys. Mae'r cynlluniau ar gael i bobl o 55 oed ymlaen, datblygir y meini prawf yn lleol, ac mae rhai yn cynnig llety ar gyfer pobl 60 neu 65 oed a hŷn.

Draft

Datblygir y polisïau dyrannu ar gyfer pob cynllun yn lleol. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ceisio cael cymuned gytbwys o bobl ar draws y continwwm anghenion isel, cymedrol ac uchel.

Er y bydd y rhan fwyaf o bobl yn dymuno aros cyhyd â phosibl yn eu cartrefi (yn cynnwys gofal ychwanegol), ni ragwelir y bydd y pwysau presennol ar y gweithlu gofal cartref yn gostwng yn sylweddol yn y tymor canolig. Bydd ychydig mwy o dai gofal ychwanegol yn cael eu datblygu yng Ngogledd Cymru, ond ni fydd hyn yn gallu bodloni'r cynnydd a ragwelir yn y galw am lety a gofal pob awr o bob dydd yn y dyfodol. Felly, byddem yn disgwyl gweld cynnydd yn y galw am leoliadau cartrefi gofal wrth i nifer y bobl 65 oed a hŷn a nifer y bobl 85 oed a hŷn yn benodol, gynyddu.

Tra bydd angen llai o leoliadau preswyl arnom yn gyffredinol yng Ngogledd Cymru, yn ogystal â mwy o wasanaethau ar gyfer pobl â dementia ac anghenion gofal nyrsio, bydd y gofynion penodol – o ran cael mwy o fathau penodol o leoedd cartref gofal neu lai ohonynt – yn amrywio o'r naill sir a chymuned i'r llall. Er enghraifft, mae yna ormod o leoedd preswyl yng Ngogledd Sir Ddinbych (ardaloedd y Rhyl a Phrestatyn), ond mae prinder lleoedd yn ne'r sir, er enghraifft, Corwen. Rydym yn datblygu datganiad o sefyllfa'r farchnad a fydd yn manylu ar ein hymrwymiadau o ran buddsoddi mewn cartrefi gofal a'u cefnogi yn y dyfodol.

Yn ystod y pedair blynedd diwethaf (2012-2016), mae Gogledd Cymru wedi colli bron 400 o leoedd cartrefi nyrsio, sy'n bryder gwirioneddol (er y gwelwyd adeiladu rhai cartrefi newydd a chofrestru rhai cartrefi nyrsio newydd). Gall hyn fod oherwydd cau cartrefi, neu oherwydd newid gwasanaethau cartrefi er mwyn darparu gofal preswyl yn unig am fod recriwtio nyrsys yn rhy anodd, neu am fod darparu gofal nyrsio am y ffioedd a delir gan gomisiynwyr statudol yn anghynaliadwy o safbwynt ariannol. Er mai ychydig o bobl sydd wedi gorfod symud i ardal arall oherwydd y diffyg dewis presennol, gallai'r nifer gynyddu os bydd llawer mwy o gartrefi nyrsio yn cau neu'n dadgofrestru.

Mae tua 29% o'r bobl sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Ngogledd Cymru yn talu am eu gofal eu hunain, naill ai'n rhannol neu'n gyfan gwbl (roedd o leiaf 1,390 yn talu am eu gofal ym mis Mai 2016), gyda'r bwrdd iechyd yn cyfrannu gofal nyrsio ar gyfer dros 300 o'r rhain. Yn aml, bydd pobl sy'n talu am eu lle yn talu mwy na'r gwasanaethau iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol. Felly, gallai pobl sy'n talu eu costau eu hunain fod yn fwy atyniadol i berchenogion cartrefi.

Dywedodd perchenogion cartrefi gofal wrthym eu bod yn gweld cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n gallu talu am eu gofal eu hunain. Gall hyn gael effaith ar y dewis o gartrefi gofal sydd ar gael i bobl sy'n cael arian gan y wladwriaeth.

Mae'n amlwg bod llawer o bobl yn ystyried bod symud i gartref gofal yng Ngogledd Cymru yn ddewis cadarnhaol. Ym mis Mai 2016, gwelsom fod o leiaf

319 o bobl o'r tu allan i'r rhanbarth wedi symud i gartrefi gofal yng Ngogledd Cymru; roedd 192 o'r rhain yn talu am eu lle.

Er bod cael dewis o lety a chymorth (boed yn llety gofal ychwanegol neu'n gartref gofal) yn bwysig iawn i bobl hŷn, ni all darparwyr llety na chomisiynwyr fforddio ariannu'r nifer sylweddol o leoedd gwag a fyddai'n sicrhau dewis helaeth yn yr ardal. Os disgwylir bod y galw'n gostwng yn y byrdymor a'r tymor canolig, gallem weld rhagor o gartrefi'n cau yng Ngogledd Cymru, a gallai hyn arwain at ddiffyg capasiti yn yr hirdymor pan fydd mwy o alw, o bosibl.

Nid yw'n glir beth fydd effaith y ddarpariaeth tai gofal ychwanegol ar y galw am ofal preswyl. Datblygwyd pecyn gan y Rhwydwaith Dysgu a Gwybodaeth o ran Tai i helpu comisiynwyr a chynllunwyr i ragweld y galw am fathau gwahanol o lety â chymorth. Mae'r offeryn SHOP@ yn rhagweld y bydd gormod o leoedd gofal preswyl yn Sir Ddinbych a gormod o Dai Gwarchod yn Sir y Fflint, ac y bydd prinder o ran lleoliadau gofal mewn mathau eraill o dai/llety:

**Tabl 3.10** Prinder lleoedd erbyn 2030

| | Cartrefi gofal preswyl | Cartrefi gofal nyrsio | Tai gwarchod | Tai â gofal |
|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 28 | 350 | 392 | 356 |
| Gwynedd | 91 | 166 | 752 | 412 |
| Conwy | 130 | 275 | 170 | 370 |
| Sir Ddinbych | -204 | 359 | 467 | 384 |
| Sir y Fflint | 326 | 686 | -352 | 657 |
| Wrecsam | 21 | 317 | 756 | 594 |
| Gogledd Cymru | 392 | 2,154 | 2,185 | 2,774 |

Ffynhonnell: Offeryn SHOP@

Darperir dadansoddiad pellach yn y tablau isod:

**Tabl 3.11** Cyfanswm nifer y gwelyau/lleoliadau y mae eu hangen

| | Cartrefi gofal preswyl | Cartrefi gofal nyrsio | Tai gwarchod | Tai â chymorth |
|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 441 | 177 | 604 | 54 |
| Gwynedd | 600 | 612 | 717 | 193 |
| Conwy | 708 | 668 | 1611 | 363 |
| Sir Ddinbych | 802 | 313 | 803 | 139 |
| Sir y Fflint | 554 | 304 | 2223 | 113 |
| Wrecsam | 720 | 516 | 818 | 54 |
| Gogledd Cymru | 441 | 177 | 604 | 54 |

Ffynhonnell: Offeryn SHOP@

Draft

**Tabl 3.12** Nifer yr achosion (fesul 1,000 dros 75 oed)

| | Cartrefi gofal preswyl | Cartrefi gofal nyrsio | Tai gwarchod | Tai â gofal |
|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 62.1 | 24.9 | 85.1 | 7.6 |
| Gwynedd | 49.6 | 50.6 | 59.3 | 16.0 |
| Conwy | 49.9 | 47.0 | 113.5 | 25.6 |
| Sir Ddinbych | 88.1 | 34.4 | 88.2 | 15.3 |
| Sir y Fflint | 47.8 | 26.2 | 191.6 | 9.7 |
| Wrecsam | 69.2 | 49.6 | 78.7 | 5.2 |
| Gogledd Cymru | 44.5 | 41.0 | 92.7 | 9.0 |

Ffynhonnell: Offeryn SHOP@

## Casgliad ac argymhellion

**Y prif faterion i'w datblygu yn y dyfodol yng Ngogledd Cymru:**

- Bydd angen i ni fod yn glir ynghylch faint yn rhagor o bobl yr hoffem eu cefnogi mewn llety gofal ychwanegol yn y dyfodol, a ph'un a fydd y gwasanaethau nyrsio cymunedol yn gallu darparu ar gyfer anghenion iechyd/gofal nyrsio pobl ai peidio.
- Rhagwelir y bydd angen rhagor o leoliadau cartrefi nyrsio yn y dyfodol, yn enwedig i gefnogi pobl â chyflyrau iechyd meddwl a dementia. Bydd gofyn am gynlluniau ar y cyd i ddatblygu'r gweithlu er mwyn hyfforddi, recriwtio a datblygu rheolwyr nyrsio, gweithwyr cymorth a gweithwyr gofal i ddiwallu anghenion pobl o ran gofal iechyd.
- Mae'r Cynghorau a'r Bwrdd Iechyd yn cydweithio i weld sut y gellir diwallu anghenion gofal iechyd pobl mewn cartrefi preswyl a/neu gynlluniau gofal ychwanegol trwy ddefnyddio staff therapi/nyrsio cymunedol, er enghraifft therapyddion galwedigaethol a ffisiotherapyddion, i leihau nifer y bobl sy'n gorfod symud i gartref gofal.
- Mae angen rhagor o ddarpariaeth gofal a chymorth yn Gymraeg mewn cartrefi gofal. Bydd hyn yn cael ei gryfhau trwy gytundebau contract yn y dyfodol.
- Mae angen i gomisiynwyr adolygu a newid y Cytundeb Cyn Lleoli (y contract) ar gyfer cartrefi gofal i adlewyrchu'r safonau newydd a'r gofynion rheoleiddiol a ragwelir, a hynny erbyn mis Ebrill 2018. Bydd hyn yn cynnwys datblygu manylebau (gan gynnwys gofynion cymwyseddau'r gweithlu) ar gyfer yr holl ofynion yn y dyfodol, yn cynnwys cymorth ar gyfer pobl â dementia, gofal canolraddol, er enghraifft cymorth cam i fyny neu gam i lawr (sy'n cynnwys manylion yr ymyraethau adsefydlu neu'r gofynion cymorth i'w darparu gan staff y cartref gofal), a gwasanaethau 'rhyddhau cyn asesu'.

Draft

- Yn gyffredinol, mae adolygiadau o ansawdd a diogelwch mewn cartrefi gofal yn ardal Gogledd Cymru yn awgrymu bod angen y canlynol ar rai cartrefi gofal:
  - Gwella arweinyddiaeth rheolwyr, yn cynnwys arweinyddiaeth glinigol mewn cartrefi nyrsio.
  - Datblygu'r adeilad er mwyn darparu'n well ar gyfer anghenion tra chymhleth unigolion (yn cynnwys amhariadau o ran symudedd, a dryswch/dementia).

**Mae gofyn bod y datblygiadau lleol ar Ynys Môn yn cynnwys:**

- Archwilio'r dewisiadau o ran defnyddio cartrefi gofal y cyngor lleol yn y ffordd fwyaf effeithiol, yn cynnwys gofal canolraddol a diwallu anghenion mwy cymhleth, ar y cyd â staff iechyd.
- Cynyddu'r ddarpariaeth Tai Gofal Ychwanegol fel dewis arall yn lle gofal preswyl; fel hyn, rhagwelir y bydd y galw am ddarpariaeth breswyl yn gostwng, yn unol â'r patrymau diweddar. Bydd hwn yn newid graddol, yn ôl pob tebyg.
- Cynyddu capasiti'r ddarpariaeth breswyl EMI (i gyd-fynd â'r cynnydd yn nifer y bobl sy'n byw â dementia). Bydd hwn eto yn newid graddol.
- Bydd gofyn am gynnydd cyflym mewn nyrsio EMI yn y byrdymor a'r tymor canolig gan fod y ddarpariaeth bresennol yn llawer llai na'r galw.
- Gwella adnoddau iechyd cymunedol i gefnogi pobl ag anghenion nyrsio yn eu cartrefi. Mae hyn yn cael effaith ar y galw am leoliadau Nyrsio Cyffredinol, a disgwylir i'r galw hwn barhau.
- Sicrhau bod y llety a ddarperir mewn cartrefi gofal yn awr ac yn y dyfodol yn cydymffurfio â'r safonau cyfredol.

**Mae gofyn bod y datblygiadau lleol yng Ngwynedd yn cynnwys:**

- Cefnogi pobl i barhau i fyw gartref yn eu cymunedau cyhyd â phosibl, a lleihau'r angen am leoliadau preswyl traddodiadol yw'r weledigaeth. Bydd gofyn bod mwy o lety ar gyfer Pobl Hŷn yn gyffredinol, a rhagwelir y bydd y galw mwyaf am dai gwarchod a thai gofal ychwanegol, lle y gwelir y bylchau mwyaf hefyd.
- Yn ôl y datganiad o sefyllfa'r farchnad leol yng Ngwynedd, nid oes darpariaeth o ran cartrefi gofal mewn ardaloedd allweddol yn y sir lle mae'r boblogaeth 65 oed a hŷn yn neilltuol o uchel. Mae'r ardaloedd hyn yn cynnwys Abermaw, Llanbedr, Dyffryn Ardudwy, Aberdyfi/Bryncrug/ Llanfihangel a Harlech. Yn ogystal, dengys y dadansoddiad o anghenion fod gan gymuned Llanbedr boblogaeth sy'n heneiddio'n sylweddol, ond nad oes yna gartref gofal lleol.
- Yn y byrdymor, mae Gwynedd yn bwriadu lleihau nifer y lleoliadau gofal preswyl hirdymor, traddodiadol, a chynyddu'r ddarpariaeth gofal preswyl i bobl â dementia. Byddai Gwynedd hefyd yn hoffi cynyddu'r cyfleoedd i bobl

Drafft

gael cyfnodau ysbaid estynedig, a chynnig cyfleoedd gofal ysbaid hyblyg sy’n diwallu anghenion gofalwyr.

- Yn yr hirdymor, os bydd nifer y lleoliadau yn parhau fel y mae, mae Gwynedd yn rhagweld, erbyn 2030, y bydd gofyn darparu llety a chymorth ychwanegol ar gyfer 631 o bobl y bydd arnynt angen gofal preswyl, a 600 o bobl y bydd arnynt angen gofal nyrsio.

**Mae gofyn bod y datblygiadau lleol yng Nghonwy yn cynnwys:**

- Parhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau ardal integredig a chartrefi gofal o ansawdd da, a hynny â’r nod o greu Sector Cartrefi Gofal sefydlog a chynaliadwy yng Nghonwy, gan wella profiadau preswylwyr ac osgoi ymweliadau amhriodol ag Unedau Damweiniau ac Achosion Brys a/neu dderbyniadau i’r ysbyty.

**Mae gofyn bod y datblygiadau lleol yn Sir Ddinbych yn cynnwys:**

- Cynyddu’r ddarpariaeth Tai Gofal Ychwanegol fel dewis arall yn lle gofal preswyl (oni bai fod angen gofal nyrsio neu ofal iechyd meddwl arbenigol).
- Rhesymoli nifer y gwelyau preswyl, lle mae’n ymddangos bod gormod o ddarpariaeth yn y byrdymor i’r tymor canolig. Fodd bynnag, os yw’r rhagolygon o ran y cynnydd yn nifer y bobl â dementia yn gywir, bydd angen mwy o welyau Nyrsio Iechyd Meddwl Henoed (EMH) yn Sir Ddinbych. Mae’n bosibl na fydd yna ddigon o welyau preswyl EMH. Mae’r dadansoddiad a wnaed ym mis Chwefror 2016 yn awgrymu bod digon o welyau mewn cartrefi gofal, ac eithrio gwelyau Nyrsio EMH, i ateb y galw yn y rhan fwyaf o ardaloedd, a bod gormod o gapasiti mewn ardaloedd penodol.

**Mae gofyn bod y datblygiadau lleol yn Sir y Fflint yn cynnwys:**

- Cynnal darpariaeth cartrefi gofal y cyngor lleol, ac ymchwilio i ddatblygu canolfan gofal canolraddol i ganolbwyntio ar waith ataliol ac ymyrraeth gynnar.
- Cynnydd (ar sail yr angen a ragwelir yn sgil newidiadau demograffig) o 178 o leoliadau ychwanegol mewn cartrefi gofal erbyn 2020: 67 o leoliadau preswyl; 52 o leoliadau preswyl EMH; 51 o leoliadau nyrsio, ac 8 lleoliad nyrsio EMH.

**Mae gofyn bod y datblygiadau lleol yn Wrecsam yn cynnwys:**

- Datblygu Gofal Ychwanegol sy’n cynnig deiliadaeth cymysg ar gyfer byw’n annibynnol (Dementia, Anabledd, Anawsterau Dysgu), yn cynnwys darpariaeth arbenigol (Gofal Ychwanegol) ar gyfer oedolion iau ag anableddau er mwyn gostwng nifer y lleoliadau y tu allan i’r sir. Mae diddordeb hefyd mewn datblygu Gofal Canolraddol gan ddefnyddio cyfleusterau Gofal Ychwanegol a datblygu gwelyau cam i fyny a cham i lawr.
- Cynlluniau i leihau nifer y lleoedd preswyl cyffredinol, ac i gynyddu lleoedd nyrsio cyffredinol ac EMI yn Wrecsam. Yn ddelfrydol, byddai gan y cartrefi gofrestriad deuol.



Draft

## 3.6 Cydraddoldeb a hawliau dynol

Mae’r bennod hon yn cynnwys trosolwg ar anghenon gofal a chymorth pobl hŷn yng Ngogledd Cymru. Mae’n tynnu sylw at anghenion gofalwyr hŷn, a bod mwy o risg y bydd dynion a phobl anabl yn dioddef unigrwydd. Roedd yr yn Ddeurywiol, neu’n Drawsrywiol (LGBT), y gellid rhoi mynd i’r afael â nhw trwy wella hyfforddiant ac ymwybyddiaeth y gweithlu.

Roedd yr adolygiad o’r llenyddiaeth ar gyfer yr Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb yn amlygu materion ychwanegol i’w hystyried, gan gynnwys y canlynol:

- Canfyddiadau Prosiect MEEA (Minority Ethnic Elders Advocacy). Dangosodd ymchwil genedlaethol fod pobl hŷn o leiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o ddioddef camwahaniaethu o ran cael mynediad at wasanaethau neu at gyflogaeth. Mater pwysig arall yw arwahanrwydd, sy’n cael effaith ar iechyd meddwl a llesiant. Ceisiai’r prosiect rymuso pobl hŷn o’r lleiafrifoedd ethnig i gymryd rheolaeth ar eu bywyd, lleihau unigrwydd, gwella llesiant, a chynyddu eu hunanhyder a’u hunan-barch. Hefyd, ceisiodd y prosiect ddylanwadu ar sefydliadau statudol a gwirfoddol i ddarparu gwell gwasanaethau i bobl hŷn o’r lleiafrifoedd ethnig yng Ngogledd Cymru. Nodwyd nifer o rwystrau, gan gynnwys mynediad at wasanaethau gofal sylfaenol, a chynyddu’r cymorth cyfieithu a chyfieithu ar y pryd.
- Adolygiad o Gynlluniau Cydraddoldeb Strategol ar draws y sector cyhoeddus yng Ngogledd Cymru. Ymhlith y materion a godwyd yr oedd seiberdroseddu, diogelwch personol a throseddau casineb, ymwybyddiaeth o ddementia â ffocws arbennig ar bobl hŷn drawsrywiol, a gofal a chymorth ar gyfer pobl hŷn LGBT.

Efallai y bydd yna faterion eraill sy’n effeithio ar bobl â’r nodweddion a ddiogelir na chawsant eu codi yn yr asesiad hwn, ac y gellid rhoi sylw iddynt wrth adolygu’r asesiad poblogaeth yn y dyfodol, wrth ddatblygu’r cynllun ardal, neu yn y gwasanaethau a gânt eu datblygu neu eu newid mewn ymateb i’r cynllun. Byddem yn croesawu unrhyw dystiolaeth benodol bellach a all helpu i lywio’r asesiad terfynol.

Mae angen i’r gwasanaethau a ddatblygir ar gyfer pobl hŷn ddefnyddio dulliau gweithredu sy’n canolbwyntio ar unigolion, gan roi ystyriaeth i anghenion gwahanol pobl â nodweddion a ddiogelir. Mae’n rhaid iddynt roi ystyriaeth i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn, yn ogystal â’r Datganiad o Hawliau Pobl Hŷn yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru.

Draft

# Cyfeiriadau


Age Cymru (2016) *Safeguarding Programme*. Available at: http://www.ageuk.org.uk/cymru/policy/age-cymru-safeguarding-programme-1/.

Age UK (2015) 'Only the tip of the iceberg: Fraud against older people' *Evidence review*. Available at: http://www.ageuk.org.uk/Documents/EN-GB/Press%20releases/Age%20UK%20Only%20the%20tip%20of%20the%20iceberg%20April%202015.pdf?dtrk=true (Accessed: 17 November 2016).

Alzheimer's Society (2007) 'Dementia UK'. London: Alzheimer's Society.

Alzheimer's Society (2015) 'Diagnose or disempower? Receiving a diagnosis of dementia in Wales'.

Aylward, M., Bailey, K., Phillips, C., Cox, K. and Higgins, E. (2010) 'The Supporting People Programme in Wales: Final report on a review commissioned by Jocelyn Davies AM, Deputy Minister for Housing and Regeneration, Welsh Assembly Government'. Available at: http://gov.wales/docs/desh/publications/101124housingsupportpeoplefinalen.pdf.

Blood, I., Copeman, I. and Pannell, J. (2015) 'The anatomy of resilience: helps and hindrances as we age'. Social Services Improvement Agency, SSIA. Available at: http://www.ssiacymru.org.uk/8885 (Accessed: 16 May 2016).

Cacioppo, J., Hughes, ME, Waite, L., Hawkley, L. and Thisted, R. (2006) 'Loneliness as a specific risk factor for depressive symptoms: cross-sectional and longitudinal analyses', *Psychology and Aging*, 21(1), pp. 140-51.

Campaign to End Loneliness (2016) *About loneliness*. Available at: http://www.campaigntoendloneliness.org/about-loneliness/.

Care and Social Services Inspectorate for Wales (2016) 'Above and Beyond: National review of domiciliary care in Wales'. CSSIW. Available at: http://cssiw.org.uk/docs/cssiw/report/161027aboveandbeyonden.pdf (Accessed: 28 October 2016).

Carers Trust (2016) 'Key facts about carers and the people they care for'. Available at: https://carers.org/key-facts-about-carers-and-people-they-care (Accessed: 2 November 2016).

Cognitive Function and Ageing Studies, C. W. (2016) 'Data analysis'.

Cohen, G. D. (2006) 'The impact of

professionally conducted cultural programs on the physical health, mental

health, and social functioning of older adults', *The Gerontologist*, 46(6).

Consumer Focus Wales (2010) 'Post Office Closures: Impact of the Network Change Programme'. Available at: http://www.ilcuk.org.uk/images/uploads/publication-pdfs/ILCUK_Age_UK_Ensuring_Communities_offer_what_older_people_want_briefing.pdf.


Draft

Flynn, M. (2015) 'In search of accountability: a review of the neglect of older people living in care homes investigated as Operation Jasmine'. Available at: http://gov.wales/docs/dhss/publications/150714ojreporten.pdf (Accessed: 17 November 2016).

Geller, J., Janson, P., McGovern, E. and Valdini, A. (1999) 'Loneliness as a Predictor of Hospital Emergency Department Use', *Journal of Family Practice*, 48, pp. 801-804.

Green, B. H., Copeland, R, J., Dewey, M. E., Shamra, V., Saunders, P. A., Davidson, I. A., Sullivan, C., McWilliam and C (1992) 'Risk factors for

depression in elderly people: A prospective study', *Acta Psychiatr Scand*, 86(3), pp. 213–7.

Hawkley, L., Thisted, RA, Masi, C. and Cacioppo, J. (2010) 'Loneliness predicts increased blood pressure: 5-year cross-lagged analyses in middle-aged and older adults', *Psychology and Ageing*, 25(1), pp. 132-41.

Holt-Lunstad, J. and Layton, J. (2010) 'Social relationships and mortality risk: a meta analytic review', *PLoS Medicine*, 7(7).

Holwerda, T., J., Deeg, D., Beekman, A., van Tilburg, T. G., Stek, M. L., Jonker, C. and Schoevers, R. (2012) 'Research paper: Feelings of loneliness, but not social isolation, predict

dementia onset: results from the Amsterdam Study of the Elderly (AMSTEL)', *Journal of Neurology, Neurosurgery and Psychiatry*, 21(1), pp. 140-51.

Institute of Public Care (2015) *Daffodil: Projecting the need for care services in Wales*. Available at: **http://www.daffodilcymru.org.uk/** (Accessed: 27/01/2016).

Institute of Public Care (IPC) (2016) 'Leading your social care financial strategy - the next steps'.

James, B., Wilson, R., Barnes, L. and Bennett, D. (2011) 'Late-life social activity and cognitive decline in old age', *Journal of the International Neuropsychological Society*, 17(6), pp. 998-1005.

Joseph Rowntree Foundation (2014) *Pensioner poverty rate over time*. Available at: http://www.jrf.org.uk/data/pensioner-poverty-rate-over-time.

Lund, R., Nilsson, C. and Avlund, K. (2010) 'Can the higher risk of disability onset among older people who live alone be alleviated by strong social relations? A longitudinal study of non-disabled men and women', *Age and Ageing*, 39(3), pp. 319-26.

Matthews, F. E., Stephan, B. C. M., L. Robinson, L., Jagger, C., Barnes, L. E., Arthur, A. and Brayne, C. (2016) 'A two decade dementia incidence comparison from the Cognitive Function and Ageing Studies I and II', *Nature Communications, Published online: 19 April 2016;* | *doi:10.1038/ncomms11398*.

North Wales Safeguarding Board (2016) *Introduction to the North Wales Safeguarding Adults Board*. Available at:

http://www.northwalessafeguardingboard.wales/introduction-to-the-north-wales-safeguarding-adults-board/.

Office for National Statistics (2011) 'Census data'. Available at: https://www.nomisweb.co.uk/census/2011/data_finder (Accessed: 2 November 2016).

Office for National Statistics (2015) *CT0467_2011 Census - Log odds of loneliness for those aged 65 and over - Local Authorities to Output Areas England and Wales*. Available at: http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20160105160709/http:/www.ons.gov.uk/ons/about-ons/business-transparency/freedom-of-information/what-can-i-request/published-ad-hoc-data/census/demography/index.html.

Older People's Commissioner for Wales (2016) *Ageing Well in Wales*. Available at: http://www.ageingwellinwales.com/en/about-us.

O'Connell, H., Chin, A., Cunnigham, C. and Lawlor, B. (2004) 'Recent developments: Suicide in older people', *British Medical Journal*, 29, pp. 895–9.

Perlman, D. and Peplau, L. A. (1981) 'Towards a social psychology of loneliness', in Duck, S. and Gilmour, R. (eds.) *Personal relationships in disorder*. London: Academic press.

Russell, D., Cutrona, CE, de la Mora, A. and Wallace, R. (1997) 'Loneliness and nursing home admission among rural older adults', *Psychology and Aging*, 12(4), pp. 574-89.

Victor, C. (2015) 'A Preliminary Analysis of the Prevalence of Loneliness among Older Indian Migrants to England and Wales', *International Journal of Contemporary Sociology*, 52(1), pp. 77-92.

Welsh Government (2011) 'National Dementia Vision for Wales'.

Welsh Government (2013) 'The Strategy for Older People in Wales 2013-2023'. Available at: http://gov.wales/topics/health/publications/socialcare/strategies/older/?lang=en.

Welsh Government (2016) 'Dementia: More than just memory loss'.

Wentworth, S. (2014) 'Reablement services in Wales'. Social Services Improvement Agency. Available at: http://ssiacymru.org.uk/home.php?page_id=8765 Available at: http://www.ssiacymru.org.uk/resource/reablement-services-in-wales--sheila-wentworth.pptx.

Women's Royal Voluntary Service (2012a) 'Loneliness amongst older people and the impact of family connections'. Available at: http://www.royalvoluntaryservice.org.uk/Uploads/Documents/How_we_help/loneliness-amongst-olderpeople-and-the-impact-of-family-connections.

Women's Royal Voluntary Service (2012b) 'Loneliness rife among older men'. Available at: http://www.royalvoluntaryservice.org.uk/news-and-events/news/loneliness-rife-among-older-men.

Draft

# 4 Iechyd, Anableddau Corfforol a Nam ar y Synhwyrau

## Cynnwys

4 Iechyd, Anableddau Corfforol a Nam ar y Synhwyrau ....................................... 1
4.1 Ynglŷn â’r bennod hon ....................................... 2
Diffiniadau ....................................... 2
Polisi a Deddfwriaeth ....................................... 3
4.2 Y ffeithiau/beth yr ydym yn ei wybod am y boblogaeth? ....................................... 5
Statws iechyd cyffredinol ....................................... 5
Ffordd o Fyw ....................................... 7
Cyflyrau cronig ....................................... 8
Anabledd corfforol ....................................... 10
4.3 Beth y mae pobl yn ei ddweud wrthym? ....................................... 17
Adborth o ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau ....................................... 17
Adborth gan y cyhoedd yn gyffredinol, gan gynnwys y panel dinasyddion ....................................... 18
Adborth gan sefydliadau ....................................... 19
4.4 Adolygiad o’r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd ....................................... 21
4.5 Casgliad ac Argymhellion ....................................... 30
Cyfeiriadau ....................................... 33

Draft

## 4.1 Ynglŷn â'r bennod hon

Mae'r bennod hon yn cynnwys gwybodaeth am anghenion y boblogaeth sy'n ymwneud ag iechyd cyffredinol, ffordd o fyw, cyflyrau hirdymor, anabledd corfforol a nam ar y synhwyrau.

Bydd yna faterion sy'n ymwneud ag iechyd a llesiant ym mhob un o'r penodau, a dylai'r rheiny sydd â diddordeb mewn grŵp penodol gyfeirio at y bennod berthnasol isod.

- Plant a phobl ifanc [add link]
- Pobl hŷn [add link]
- Anabledd dysgu ac awtistiaeth [add link]
- Iechyd meddwl: gan gynnwys gwybodaeth am ddementia cynnar [add link]
- Gofalwyr [add link]
- Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol [add link]
- Sefydliadau diogel [add link]
- Cyn-filwyr [add link]
- Digartrefedd [add link]

### Diffiniadau

Mae Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) yn diffinio *iechyd* fel:

> 'cyflwr o lesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol cyflawn, ac nid absenoldeb afiechyd neu lesgedd yn unig' [add reference] .

Mae'n disgrifio *anabledd* fel:

> 'term ymbarél sy'n cwmpasu namau, cyfyngiadau ar weithgarwch, a chyfyngiadau ar gyfranogiad. Mae nam yn broblem o ran gweithrediad neu strwythur corfforol; mae cyfyngiad gweithgarwch yn anhawster a wynebir gan unigolyn wrth weithredu tasg neu weithred; tra bod cyfyngiad ar gyfranogiad yn broblem a brofir gan unigolyn wrth iddo gymryd rhan mewn sefyllfaoedd bywyd. Mae hyn yn golygu nad problem iechyd yn unig yw anabledd yn. Mae'n ymwneud â'r rhyngweithio rhwng nodweddion corff unigolyn a nodweddion y gymdeithas y mae ef neu hi yn byw ynddi. Mae goresgyn yr anawsterau a wynebir gan bobl ag anableddau yn gofyn am ymyraethau i ddileu rhwystrau amgylcheddol a chymdeithasol' [add reference] .

Mae'r diffiniad o anabledd yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn helpu i lunio'r diffiniad ymhellach. Mae hwn yn cyfeirio at anabledd fel nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith 'sylweddol' a 'hirdymor' ar y gallu i wneud gweithgareddau arferol bob dydd.



Draft

## Polisi a Deddfwriaeth

Yn hanesyddol, bu llawer o ddibyniaeth ar fodel meddygol o anabledd, lle mae'r anhawster y mae pobl anabl yn ei gael o ran ymuno yn y gymdeithas yn cael ei ystyried yn ganlyniad uniongyrchol meddu ar amhariad.

Mae'r holl sefydliadau sy'n cyfrannu at yr asesiad poblogaeth hwn yn awr yn mabwysiadu'r **model cymdeithasol o anabledd**. Mae profiadau byw pobl anabl wedi dangos bod y rhan fwyaf o'r problemau a wynebir yn cael eu hachosi gan y ffordd y mae cymdeithas wedi'i threfnu – nid gan nam neu nodwedd o gorff rhywun.

Mae'r model Diwylliannol o fyddardod yn cydnabod safbwynt cymuned Iaith Arwyddion Prydain, yn ogystal â'r rôl ganolog sydd gan iaith arwyddion yn y gymuned Fyddar. Mae'r gymuned Fyddar yn cael ei hystyried yn ddiwylliant ar wahân i'r "byd sy'n clywed". Mae'r gymuned Fyddar – pobl sy'n defnyddio BSL fel eu hiaith gyntaf – yn profi rhwystrau iaith a diwylliannol sy'n achosi anfantais.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn atgyfnerthu'r angen i feddwl am agweddau ehangach ar lesiant ym mywyd bob dydd unigolyn, a gallu'r unigolyn i gymryd rhan lawn mewn cymdeithas. Mae ystyr llesiant i ddibenion y ddeddf yn cael ei nodi yn adran 2, ac mae'n cynnwys diffiniad eang o lesiant, sy'n cynnwys iechyd corfforol ac iechyd meddwl a llesiant emosiynol; amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod; addysg, hyfforddiant a gweithgareddau hamdden; perthnasoedd teuluol a phersonol; cyfraniad a wneir at y gymuned; sicrhau hawliau a hawlogaethau; llesiant cymdeithasol ac economaidd; a byw mewn llety preswyl addas. Mae llesiant hefyd yn cael ei ddiffinio fel rheolaeth dros fywyd o ddydd i ddydd, a chymryd rhan mewn gwaith.

### Diogelu

Mae amddiffyniad rhag camdriniaeth ac esgeulustod yn cael ei nodi yn un o'r agweddau allweddol ar lesiant a ddisgrifir uchod. *Gallai* pobl ag anghenion iechyd hirdymor, anabledd corfforol neu nam ar y synhwyrau ddod o fewn y diffiniad o *oedolyn mewn perygl*. Gallai pobl sydd ag anawsterau cyfathrebu o ganlyniad i anawsterau clyw, gweld neu leferydd fod mewn perygl penodol, ac efallai na fyddant yn gallu datgelu ar lafar.[1] Fodd bynnag, ni ddylem gymryd yn ganiataol bod yr holl oedolion sydd ag anabledd corfforol neu nam ar y synhwyrau yn agored i niwed, ond dylem fod yn ymwybodol o ffactorau risg uwch posibl.

[1] Ffactorau Rhagdueddiadol a allai arwain at gamdriniaeth, Polisi a Gweithdrefnau Cymru ar gyfer Diogelu Oedolion Agored i Niwed rhag Camdriniaeth, 2013

Draft

**Trosedd casineb anabledd**

Ym mis Ebrill 2005 newidiodd y gyfraith i gydnabod difrifoldeb troseddau casineb. Mae hyn yn cyfeirio at unrhyw drosedd a ysgogir gan elyniaeth neu ragfarn yn seiliedig ar anabledd y dioddefwr (neu ei anabledd tybiedig). Gall hyn amrywio o gam-drin geiriol a bwlio i ymosodiad corfforol.

Credir mai ychydig yn unig o droseddau casineb anabledd y rhoddir gwybod amdanynt – nid yw llawer o bobl yn gwybod â phwy i siarad, neu sut i roi gwybod am ddigwyddiadau. Rydym am rymuso pobl anabl i fynd i'r afael â throseddau casineb anabledd. Mae angen i'n sefydliadau weithio gyda'i gilydd i helpu i greu diwylliant lle nad yw troseddau casineb, a digwyddiadau eraill efallai nad ydynt yn rhai troseddol, yn cael eu goddef, a lle y rhoddir gwybod amdanynt pan fyddant yn digwydd.

Draft

# 4.2 Y ffeithiau/beth yr ydym yn ei wybod am y boblogaeth?

## Statws iechyd cyffredinol

At ei gilydd, mae poblogaeth Gogledd Cymru yn cymharu'n dda â Chymru o ran statws iechyd cyffredinol a phobl sydd wedi'u cyfyngu gan gyflwr iechyd neu nam (Jones, Andrew ac Atenstaedt, 2016). Mae cyfran is o oedolion yng Ngogledd Cymru yn dweud eu bod yn cael eu trin ar hyn o bryd ar gyfer unrhyw salwch, ac mae cyfran is yn dweud bod statws eu hiechyd cyffredinol yn weddol neu'n wael, o gymharu â chyfartaledd Cymru.

**Tabl 4.1** Canran yr oedolion (16 oed a hŷn) sydd wedi'u cyfyngu gan broblem iechyd/anabledd yng Ngogledd Cymru 2013 a 2014

| | Yn cael eu trin am salwch ar hyn o bryd | Cyfyngedig iawn | Cyfyngedig i ryw raddau | Statws iechyd cyffredinol: gweddol neu wael |
|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 47 | 13 | 30 | 15 |
| Gwynedd | 47 | 13 | 30 | 15 |
| Conwy | 46 | 13 | 32 | 16 |
| Sir Ddinbych | 49 | 14 | 32 | 17 |
| Sir y Fflint | 47 | 12 | 31 | 14 |
| Wrexham | 52 | 14 | 31 | 17 |
| Gogledd Cymru | 48 | 13 | 31 | 16 |
| Cymru | 50 | 16 | 33 | 20 |

Ffynhonnell: Arolwg Iechyd Cymru

**Ffigur 4.1** Canran yr oedolion (16 oed a hŷn) sy'n adrodd bod statws eu hiechyd yn weddol-gwael, 2003-2014




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Arolwg Iechyd Cymru

**Ffigur 4.2** Canran yr oedolion sy’n adrodd bod statws eu hiechyd yn weddol neu'n wael, Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac awdurdodau unedol, 2003/04 a 2004/05 i 2013 a 2014

| - | 2003/04 2004/05 | 2004/05 2005/06 | 2005/06 2007 | 2007 2008 | 2008 2009 | 2009 2010 | 2010 2011 | 2011 2012 | 2012 2013 | 2013 2014 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 17 | 16 | 17 | 18 | 19 | 18 | 16 | 15 | 16 | 15 |
| Gwynedd | 17 | 18 | 17 | 16 | 18 | 18 | 16 | 17 | 16 | 15 |
| Conwy | 18 | 16 | 16 | 18 | 16 | 15 | 17 | 20 | 19 | 16 |
| Sir Ddinbych | 18 | 18 | 20 | 19 | 19 | 19 | 18 | 17 | 17 | 17 |
| Sir y Fflint | 18 | 19 | 19 | 17 | 17 | 16 | 19 | 20 | 16 | 14 |
| Wrexham | 22 | 20 | 21 | 20 | 19 | 19 | 18 | 18 | 18 | 17 |
| Gogledd Cymru | 19 | 18 | 18 | 18 | 18 | 17 | 17 | 18 | 17 | 16 |
| Cymru | 22 | 22 | 22 | 21 | 21 | 21 | 21 | 21 | 20 | 20 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Arolwg Iechyd Cymru

Mae data asedau iechyd o Gyfrifiad 2011 yn rhoi syniad o ba mor dda yw iechyd pobl ledled Gogledd Cymru.

Mae Tabl 4.2 yn dangos bod tua 80% o bobl yng Ngogledd Cymru yn adrodd bod eu hiechyd yn dda, ac nad yw eu gweithgareddau o ddydd i ddydd wedi’u cyfyngu (Jones, Andrew ac Atenstaedt, 2016). Yng Ngwynedd y mae'r gyfran uchaf o bobl sy'n adrodd bod eu hiechyd yn dda, ac nad ydynt yn cael eu cyfyngu gan iechyd gwael.

**Tabl 4.2** Dangosyddion asedau iechyd, canran oed safonedig 2011

| | Gweithgareddau o ddydd i ddydd heb eu cyfyngu (canran oed safonedig) | | Iechyd da (canran oed safonedig) | |
|---|---|---|---|---|
| | *%* | *(95% CI)* | *%* | *(95% CI)* |
| Ynys Môn | 78.9 | (78.2 - 79.6) | 80.2 | (79.6 - 80.9) |
| Gwynedd | 80.2 | (79.7 - 80.7) | 81.5 | (81.0 - 82.0) |
| Conwy | 79.1 | (78.6 - 79.7) | 80.2 | (79.6 - 80.7) |
| Sir Ddinbych | 77.9 | (77.3 - 78.5) | 78.9 | (78.4 - 79.5) |
| Sir y Fflint | 79.8 | (79.3 - 80.2) | 80.4 | (79.9 - 80.8) |
| Wrecsam | 78.1 | (77.6 - 78.6) | 78.6 | (78.1 - 79.0) |
| Gogledd Cymru | 79.1 | (78.9 - 79.3) | 80.0 | (79.8 - 80.2) |
| Cymru | 76.9 | (76.8 - 77.0) | 77.2 | (77.1 - 77.3) |

Ffynhonnell data: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol; Cyfrifiad 2011

Fodd bynnag, mae'r cyfraddau cyffredinol yn cuddio gwahaniaethau o ran iechyd ledled y rhanbarth. Mae rhai ardaloedd o'n poblogaeth yn profi lefelau uwch o amddifadedd ac iechyd gwaeth; ac mae rhai grwpiau yn y boblogaeth yn tueddu i brofi iechyd gwaeth, neu’n profi mwy o rwystrau o ran cael mynediad at ofal iechyd a chymorth.

## Ffordd o Fyw

### Tybaco

Mae smygu yn un o brif achosion marw cyn pryd, a bydd un o bob dau smygwr hirdymor yn marw o glefydau sy'n gysylltiedig â smygu. Pryder arbennig yng Ngogledd Cymru yw smygu yn ystod beichiogrwydd, cyfraddau smygu ymhlith pobl ifanc (yn enwedig merched yn eu harddegau) a chyfraddau uchel iawn o smygu ymhlith pobl sydd wedi cael diagnosis o salwch meddwl (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, 2015).

Yng Ngogledd Cymru, mae 22% o oedolion 16 oed a hŷn yn dweud eu bod yn smygu, o gymharu â 20% ledled Cymru. Yn Ynys Môn a Sir Ddinbych y mae’r nifer uchaf o bobl sy'n ysmygu, sef 24%, yna Conwy a Wrecsam, 22%, a Gwynedd, 21%; Sir y Fflint sydd â’r nifer isaf o smygwyr, sef 20%. Mae cyfraddau smygu yn amrywio'n sylweddol yn ôl ardal, gyda lefelau uwch o smygu yn ardaloedd mwy difreintiedig Gogledd Cymru (Llywodraeth Cymru, 2016).

Mae mynychder smygu yn arbennig o uchel ymysg rhai grwpiau, yn cynnwys pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol; y rheiny sydd â phroblemau iechyd meddwl; pobl yn y carchar; a'r rheiny sy'n ddigartref (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2016a).

### Gorbwysedd a gordewdra

Mae gordewdra yn ffactor cyfrannol o bwys ar gyfer marw cyn pryd, a gall arwain at gyflyrau meddygol cronig a difrifol, gan gynnwys clefyd coronaidd y galon, diabetes, strôc, pwysedd gwaed uchel, osteoarthritis, cymhlethdodau yn ystod beichiogrwydd, a rhai mathau o ganser. Gall pobl sy'n ordew hefyd brofi problemau iechyd meddwl, bwlio, neu wahaniaethu yn y gweithle (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2016a).

Mae gorbwysedd a gordewdra yn gysylltiedig ag anfantais gymdeithasol, gyda lefelau uwch yn y poblogaethau mwyaf difreintiedig.

Yng Ngogledd Cymru, mae dros hanner y boblogaeth sy'n oedolion dros bwysau neu’n ordew. Rhwng 2003/04 a 2014/15, cynyddodd canran yr oedolion 16 oed a hŷn a nododd eu bod dros bwysau neu’n ordew yng Ngogledd Cymru o 53% i 58%. Mae hyn ychydig yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef 59%. Ledled y rhanbarth, Sir Ddinbych sydd â'r gyfran uchaf o oedolion sydd dros bwysau neu’n ordew, sef 61%, wedi'i ddilyn gan Sir y Fflint, 60%. Mae 58% o oedolion yn Ynys Môn a Wrecsam dros bwysau neu’n ordew, a 57% yng Nghonwy. Yng Ngwynedd y mae’r ganran isaf o oedolion sydd dros bwysau neu’n ordew, sef 53% (Llywodraeth Cymru, 2016).

Draft

### Gweithgarwch corfforol

Gall pobl sydd â ffordd o fyw corfforol egnïol wella eu llesiant corfforol a meddyliol yn sylweddol, helpu i atal a rheoli llawer o gyflyrau, er enghraifft clefyd coronaidd y galon, rhai mathau o ganser, a diabetes, a lleihau eu risg o farw cyn pryd (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2016).

Yng Ngogledd Cymru, dywedodd 34% o oedolion iddynt fod yn gorfforol egnïol ar bum diwrnod neu ragor yn yr wythnos ddiwethaf. Mae hyn ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 31%. Ledled y rhanbarth, dywedodd 38% o oedolion yn Ynys Môn a 37% yng Ngwynedd eu bod yn gorfforol egnïol, o gymharu â 35% yn Sir Ddinbych a 33% yng Nghonwy, Sir y Fflint a Wrecsam (Llywodraeth Cymru, 2016).

### Alcohol

Mae alcohol yn ffactor cyfrannol o bwys ar gyfer marw cyn pryd, ac mae'n achosi 5% o'r holl farwolaethau yng Nghymru yn uniongyrchol (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, 2015). Mae yfed alcohol yn gysylltiedig â llawer o broblemau iechyd cronig, gan gynnwys: afiechyd meddwl; cyflyrau'r afu, a chyflyrau niwrolegol, gastroberfeddol a chardiofasgwlaidd; a sawl math o ganser. Mae hefyd yn gysylltiedig ag anafiadau a gwenwyno, yn ogystal â phroblemau cymdeithasol, yn cynnwys troseddu a thrais domestig (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2016a).

Mae alcohol hefyd yn effeithio fwyaf ar y tlotaf, gyda marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn llawer uwch nag yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig.

Er bod yfed alcohol yn gostwng yn raddol, dywedodd dros 40% o oedolion yng Ngogledd Cymru iddynt yfed mwy na'r canllawiau ar o leiaf un diwrnod yn yr wythnos ddiwethaf. Yn Sir y Fflint y mae'r gyfran uchaf o oedolion 16 oed a hŷn a ddywedodd iddynt yfed mwy na'r canllawiau ar o leiaf un diwrnod yn yr wythnos ddiwethaf, sef 42%, wedi'i ddilyn gan Sir Ddinbych, 41%, Mae hyn ychydig yn uwch na'r cyfartaleddau ar gyfer Gogledd Cymru a Chymru, (40%). Yng Ngwynedd, mae 40% o oedolion yn dweud iddynt yfed mwy na'r canllawiau a argymhellir, ac Ynys Môn, Conwy a Wrecsam sydd â'r cyfrannau isaf ledled y rhanbarth, sef 38% (Llywodraeth Cymru, 2016).

## Cyflyrau cronig

Mae cyflyrau cronig yn gyffredinol yn rhai na ellir eu gwella, dim ond eu rheoli; gallant gael effaith sylweddol ar unigolion, teuluoedd a'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol (Jones, Andrew ac Atenstaedt, 2016).

Amcangyfrifir bod oddeutu traean o oedolion yng Nghymru ar hyn o bryd yn byw ag o leiaf un cyflwr cronig. Mae tystiolaeth o gofrestrau practisau meddygon teulu yng Ngogledd Cymru yn cadarnhau ffigur ychydig yn uwch na hyn.

Draft

Mae Tabl 4.3 yn dangos nifer y cleifion ym mhractisau meddygon teulu, ynghyd â’r ganran, sydd wedi’u cofrestru fel rhai â chyflwr cronig (Jones, Andrew ac Atenstaedt, 2016). Yn Ynys Môn y mae’r ganran uchaf o gleifion sydd wedi’u cofrestru fel rhai â chyflwr cronig (39%), ac yng Ngwynedd y mae’r ganran isaf (33%). Gorbwysedd yw'r cyflwr y mae'r nifer uchaf o gleifion wedi’i gofrestru ar ei gyfer.

**Tabl 4.3** Nifer y cleifion ym mhractisau meddygon teulu, ynghyd â’r ganran, sydd wedi’u cofrestru fel rhai â chyflwr cronig, 2012

| | Anglesey | | Gwynedd | | Conwy | | Denbighshire | | Flintshire | | Wrexham | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *Number* | *%* | *Number* | *%* | *Number* | *%* | *Number* | *%* | *Number* | *%* | *Number* | *%* |
| Gorbwysedd | 10,910 | 16 | 18,560 | 15 | 19,320 | 17 | 16,330 | 16 | 22,970 | 15 | 23,050 | 16 |
| Asthma | 4,950 | 7 | 8,220 | 7 | 7,390 | 6 | 6,410 | 6 | 9,920 | 7 | 9,970 | 7 |
| Diabetes | 3,490 | 5 | 5,470 | 4 | 5,460 | 5 | 4,910 | 5 | 5,890 | 4 | 5,790 | 4 |
| Clefyd y Galon | 3,050 | 5 | 4,660 | 4 | 2,670 | 2 | 3,150 | 3 | 3,120 | 2 | 3,400 | 2 |
| Clefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint | 1,780 | 3 | 2,660 | 2 | 5,980 | 5 | 5,460 | 5 | 7,390 | 5 | 6,900 | 5 |
| Epilepsy | 450 | 1 | 870 | 1 | 890 | 1 | 800 | 1 | 900 | 1 | 1,080 | 1 |
| Iechyd yn methu | 800 | 1 | 1,220 | 1 | 1,220 | 1 | 1,040 | 1 | 1,210 | 1 | 1,290 | 1 |
| Cyfanswm | 25,460 | 39 | 41,660 | 33 | 42,900 | 37 | 38,100 | 38 | 51,400 | 35 | 51,480 | 36 |

Ffynhonnell: Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru

Er bod y rhain yn gyflyrau cyffredin, mae yna lawer o gyflyrau hirdymor eraill a all gael effaith sylweddol ar allu unigolyn i gymryd rhan lawn mewn cymdeithas, yn ogystal ag ar ei lesiant cyffredinol. Mae'r rhain yn cynnwys cyflyrau niwrolegol, canser, ac effaith clefydau megis strôc. Mae data manylach ar gyflyrau penodol ar gael gan gynghorau lleol neu'r bwrdd iechyd. Fodd bynnag, i ddibenion y bennod hon, rydym wedi canolbwyntio ar grynodeb o'r materion cyffredinol sy'n effeithio ar lesiant. Yr hyn y dylid ei ystyried yw’r hyn sy'n bwysig i'r unigolyn.

Rhagwelir y bydd nifer y bobl sy'n byw â salwch hirdymor cyfyngol yn cynyddu bron 22% dros y cyfnod o 20 mlynedd hyd at 2035. Dangosir hyn yn Ffigur 4.3. Bydd llawer o'r cynnydd yn deillio o bobl yn byw i oedran hŷn.

Draft

**Ffigur 4.3** Nifer y bobl 18 oed a hŷn y rhagwelir y bydd ganddynt salwch hirdymor cyfyngol




Ffynhonnell: Daffodil (Nifer yr achosion wedi'i gymryd o Arolwg Iechyd Cymru 2012, tabl 3.11 Oedolion sy'n adrodd am salwch, neu am broblem iechyd/anabledd sy'n cyfyngu arnynt; sylfaen poblogaeth o amcanestyniadau LlC yn seiliedig ar boblogaeth 2011)

## Anabledd corfforol

Mae peth gwybodaeth ynghylch namau corfforol neu synhwyraidd (ond heb gynnwys nam ar y golwg) yn cael ei chadw ar gofrestrau cynghorau lleol, fel y dangosir yn Ffigur 4.4. Mae'r amrywiaeth eang yn y niferoedd yn awgrymu bod y data yn anghyflawn.

**Ffigur 4.4** Pobl ag anabledd corfforol/synhwyraidd heb nam ar eu golwg




Ffynhonnell: Cofrestr awdurdodau lleol o bobl ag anableddau corfforol neu synhwyraidd – casglu data (SSDA900), Llywodraeth Cymru

## Colli golwg, dallineb a cholli golwg yn rhannol

Nam ar y golwg yw pan fydd unigolyn wedi colli ei olwg, ac ni ellir ei gywiro trwy ddefnyddio sbectol neu lensys cyffwrdd (Jones ac Atenstaedt, 2015). Mae amcangyfrifon y Model Epidemiolegol Cenedlaethol ar Iechyd Llygaid (NEHEM), gan ddefnyddio data poblogaeth cyfrifiad 2011, i'w gweld yn Nhabl 4.4. Mae hyn yn dangos bod nifer yr achosion amcangyfrifedig o bob nam ar y golwg a golwg gwan yn y boblogaeth 50 oed a hŷn ychydig yn uwch yn y Gogledd na'r amcangyfrifon ar gyfer Cymru gyfan; roedd nifer yr achosion amcangyfrifedig o nam difrifol ar y golwg yr un fath yng Ngogledd Cymru a Chymru gyfan.

**Tabl 4.4** Nifer yr achosion o nam ar y golwg, pobl 50 oed a hŷn, 2011

| | **Nam ar y golwyg** | | **Golwg isel** | | **Nam difrifol ar y golwg** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ***%*** | ***Count*** | | ***Nifer*** | ***%*** | ***Nifer*** | ***%*** |
| Ynys Môn | 1,320 | 4.3 | 1,120 | 3.7 | 200 | 0.6 |
| Gwynedd | 2,190 | 4.5 | 1,860 | 3.8 | 330 | 0.7 |
| Conwy | 2,540 | 4.8 | 2,150 | 4.1 | 390 | 0.7 |
| Sir Ddinbych | 1,660 | 4.3 | 1,420 | 3.6 | 250 | 0.6 |
| Sir y Fflint | 2,180 | 3.8 | 1,870 | 3.2 | 320 | 0.6 |
| Wrecsam | 1,930 | 4.0 | 1,650 | 3.4 | 290 | 0.6 |
| Gogledd Cymru | 11,830 | 4.3 | 10,070 | 3.6 | 1,780 | 0.6 |
| Cymru | 48,110 | 4.1 | 40,960 | 3.5 | 7,190 | 0.6 |

Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn defnyddio NEHEM
*Cyfrifiadau wedi'u talgrynnu i'r 10 person agosaf

Gellir amcangyfrif nifer y bobl sydd â nam ar eu golwg neu nam difrifol ar eu golwg o'r cofrestrau a gedwir gan y gwasanaethau cymdeithasol (mae siartiau tueddiadau i'w gweld yn Ffigur 4.5 a Ffigur 4.6, yn y drefn honno). Mae'r ddau siart yn dangos y gyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth. Fodd bynnag, mae'r ffigurau hyn yn debygol o fod yn danamcangyfrifon gan eu bod yn dibynnu ar hunangyfeirio.

**Ffigur 4.5** Nifer y bobl â nam ar eu golwg




Ffynhonnell: Cofrestr awdurdodau lleol o bobl ag anableddau corfforol neu synhwyraidd – casglu data (SSDA900), Llywodraeth Cymru

**Ffigur 4.6** Pobl 18 i 64 oed â nam difrifol ar eu golwg, cyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth




Ffynhonnell: Cofrestr awdurdodau lleol o bobl ag anableddau corfforol neu synhwyraidd – casglu data (SSDA900), Llywodraeth Cymru

Mae nifer y bobl sydd newydd gael eu hardystio yn rhai â nam difrifol ar eu golwg a nam ar eu golwg hefyd yn ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth. Mae hyn yn ein helpu i ddeall mynychder colli golwg.

Mae cyfanswm nifer y namau ar y golwg sydd newydd eu hardystio (CVI), yn ogystal â'r cyfraddau fesul 100,000 o'r boblogaeth, i'w gweld yn Nhabl 4.5 isod.

Cafodd 267 CVI eu cyhoeddi yn 2014/15. Mae hyn yn ostyngiad ar y flwyddyn flaenorol (cyhoeddwyd 324 yn 2013/14.)

Fodd bynnag, rhagamcanir y bydd canran y bobl sy'n byw gyda cholli golwg, o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol, yn cynyddu o tua 3.73% yn 2016 i 4.92% erbyn 2030.[2]

**Tabl 4.5** Nifer y bobl sydd newydd eu hardystio yn rhai â Nam Difrifol ar eu Golwg a Nam ar eu Golwg yn ôl grŵp oedran, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, 2014-15

| | Cyfanswm nifer y Tystysgrifau Nam ar y golwg (CVI) | Cyfradd y CVIs oherwydd dirywiad macwlaidd sy'n gysylltiedig ag oedran yn y rhai dros 65 oed fesul 100,000 o'r boblogaeth | Cyfradd y CVIs oherwydd glawcoma yn y rhai dros 40 oed fesul 100,000 o'r boblogaeth | Cyfradd y CVIs oherwydd clefyd llygaid diabetig yn y rhai dros 12 oed fesul 100,000 o'r boblogaeth |
|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 27 | 98 | 12 | 2 |
| Gwynedd | 47 | 98 | 12 | 2 |
| Conwy | 45 | 98 | 12 | 2 |
| Sir Ddinbych | 36 | 98 | 12 | 2 |
| Sir y Fflint | 59 | 98 | 12 | 2 |
| Wrecsam | 53 | 98 | 12 | 2 |

Ffynhonnell: Offeryn Data Colli Golwg RNIB

- Cyhoeddwyd 149 CVI oherwydd dirywiad macwlaidd sy'n gysylltiedig ag oedran i'r rhai 65 oed a hŷn.
- Cyhoeddwyd 45 CVI oherwydd glawcoma i'r rhai 40 oed a hŷn.
- Cyhoeddwyd 15 CVI oherwydd clefyd llygaid diabetig i'r rhai 12 oed a hŷn.

### Dallineb-byddardod

Mae'r term dallineb-byddardod yn cwmpasu ystod eang o gyflyrau a sefyllfaoedd gwahanol. I ddibenion yr asesiad hwn, rydym yn defnyddio'r term hwn i olygu pobl â 'nam ar eu golwg a'u clyw sydd, gyda'i gilydd, yn cael effaith sylweddol ar eu bywyd bob dydd'.

Caiff dallineb-byddardod ei adnabod hefyd fel colli synhwyrau deuol, neu Nam Amlsynhwyraidd. Mae pobl sy'n fyddar-ddall yn cynnwys y rheiny sydd yn fyddar-ddall yn gynhenid, a'r rheiny sydd wedi colli synhwyrau. Fodd bynnag, yr achos mwyaf cyffredin yw henaint.

Gall dallineb-byddardod achosi problemau o ran cyfathrebu, mynediad at wybodaeth, a symudedd. Mae ymyrraeth gynnar a chefnogaeth yn cynnig y cyfle gorau o wella llesiant unigolyn.[3]

[2]StatsCymru (2013). Amcanestyniadau poblogaeth yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn, amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol seiliedig ar 2011 ar gyfer Cymru. Llywodraeth Cymru.

Draft

Mae amcangyfrifon o nifer y bobl sydd â namau ar y eu golwg a'u clyw ill dau yn awgrymu y bydd tua 1% o boblogaeth Gogledd Cymru yn ddall ac yn fyddar erbyn 2030. Mae cyfran y bobl ddall a byddar yn cynyddu'n sylweddol gydag oedran.

**Anghydraddoldebau iechyd**

Mae ymchwil ddiweddar wedi atgyfnerthu tystiolaeth gynharach o'r cysylltiad rhwng amddifadedd economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau iechyd. Gwyddom, er enghraifft, fod yna wahaniaethau sylweddol rhwng grwpiau economaidd-gymdeithasol gwahanol o ran disgwyliad oes ac o ran mynychder salwch hirdymor cyfyngol, anabledd ac iechyd gwael.[4]

Mae pobl sy'n byw yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yn dioddef mwy o flynyddoedd o iechyd gwael, ac maent yn fwy tebygol o fod â ffyrdd o fyw ac ymddygiad afiach na phobl yn y cymunedau lleiaf difreintiedig. O ganlyniad, mae'r cymunedau mwyaf difreintiedig yn dioddef lefelau uwch o anabledd, salwch, colli blynyddoedd o fywyd, colledion cynhyrchiant, a mwy o ddibyniaeth ar les (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2016).

Mae grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig yn aml mewn mwy o berygl o gyflyrau megis glawcoma, ac efallai na fyddant yn cael negeseuon iechyd oherwydd rhwystrau ieithyddol neu ddiwylliannol.

**Llesiant meddyliol ac emosiynol**

Mae pobl hŷn sydd wedi colli eu golwg bron deirgwaith yn fwy tebygol o brofi iselder na phobl sy'n gweld yn dda, a dywed y British Medical Journal fod colli golwg yn un o'r tri achos mwyaf cyffredin o hunanladdiad ymhlith pobl hŷn.[5]

Mae bron hanner y bobl ddall a rhannol ddall yn teimlo'n "gymedrol" neu "yn llwyr" ynysig mewn perthynas â phobl a phethau o'u cwmpas.[6]

Mae iselder mewn oedolion â phroblem iechyd corfforol cronig yn cael ei gydnabod yn dda, ac mae yna gryn dipyn o dystiolaeth ynghylch gofal a chymorth effeithiol. Yn ogystal â rheolaeth a thriniaeth, mae'r dystiolaeth yn cefnogi effaith gadarnhaol darparu gwybodaeth, gweithgareddau corfforol grŵp, a rhaglenni cefnogi.[7]

[3] Practical guide to implementing the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 for deafblind people, Sense
[4] Proffil Amddifadedd Gogledd Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, (date)
[5] Burden of illness and suicide in elderly people: Case-control study, Margda Waern, E Rubenowitz, B Runeson, I Skoog, K Wilhelmson a P Allebeck, BMJ, Mehefin 2002
[6] Impairments in the UK, The Centre for Disability Research (CeDR) Pey, Nzegwu a Dooley, Functionality and the needs of blind and partially sighted adults in the UK: an interim report, Guide Dogs, 2006
[7] Depression in adults with a chronic physical health problem: Evidence Update Mawrth 2012, NICE



Draft

**Gofal Iechyd Hygyrch**

Ym mis Mai 2013, ysgrifennodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at bob bwrdd iechyd yn cyflwyno Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Cyfathrebu Hygyrch a Gwybodaeth i Bobl â Nam ar y Synhwyrau. Diben y safonau yw sicrhau bod anghenion cyfathrebu a gwybodaeth pobl sydd â nam ar y synhwyrau yn cael eu diwallu pan fyddant yn defnyddio gwasanaethau gofal iechyd. Mae cyfathrebu effeithiol a phriodol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo urddas a pharch. Mae'r dystiolaeth hefyd yn dangos bod cyfathrebu aneffeithiol yn fater diogelwch cleifion, a’i fod yn gallu arwain at ganlyniadau iechyd gwaeth. Mae'r safonau wedi llywio amcanion y bwrdd iechyd o fewn Cynllun Strategol Cydraddoldeb a Hawliau Dynol[8].

**Anghenion tai a digartrefedd**

Mae gan bobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig lefelau uwch o namau ar eu clyw a’u golwg, a hefyd problemau iechyd hirdymor, yn benodol cyflyrau anadlol cronig, clefyd cardiofasgwlaidd ac arthritis.[9] Efallai bod pobl yn yr ardaloedd hyn hefyd yn byw mewn amodau gwael.

Mae tai yn cael effaith bwysig ar iechyd, addysg, gwaith, a'r cymunedau yr ydym yn byw ynddynt. Mae tai o ansawdd gwael, gan gynnwys materion megis llwydni, cynhesrwydd ac effeithlonrwydd ynni gwael, plâu, mwg ail-law, gorlenwi, sŵn, diffyg mannau gwyrdd a thocsinau, yn gysylltiedig â salwch corfforol a meddyliol, yn ogystal â chostau i'r unigolyn, y gymdeithas a'r GIG yn nhermau costau uwch o ran troseddu, diweithdra a thriniaeth gysylltiedig (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2015). Mae problemau iechyd sy'n gysylltiedig â'r materion hyn yn cynnwys problemau anadlu, iselder, gorbryder, cyflyrau niwrolegol, gwybyddol, datblygiadol, cardiofasgwlaidd ac ymddygiadol, canserau, gwenwyno a marwolaeth (Iechyd Cyhoeddus Cymru 2016a).

Mae ymdrin â pheryglon megis grisiau anniogel, peryglon trydanol, lleithder a llwydni, oerfel gormodol a gorlenwi, yn costio tua £67 miliwn y flwyddyn i'r GIG yng Nghymru (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2015). Amcangyfrifwyd bod y gost ehangach i gymdeithas, er enghraifft cyrhaeddiad addysgol gwael a llai o gyfleoedd mewn bywyd, yn £168 miliwn y flwyddyn. Amcangyfrifwyd y gallai cyfanswm y costau i gymdeithas gael eu hadennill mewn naw mlynedd pe byddai buddsoddiad yn cael ei wneud i fynd i'r afael â'r problemau hyn (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2016).

Gall addasiadau i dai helpu i gynnal neu adennill annibyniaeth ar gyfer pobl ag anabledd corfforol neu nam ar y synhwyrau. Mae yna ystod o fentrau a all

[8] Tegwch, Hawliau a Chyfrifoldebau: Cynllun Strategol Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr 2016 - 2020
[9] Iechyd Cyhoeddus Cymru - amddifadedd ac anghydraddoldebau

Draft

gynorthwyo gydag addasiadau tai, rhai a ddarperir trwy gynghorau lleol a rhai trwy asiantaethau cefnogi'r trydydd sector.

Gall cynlluniau tai gofal ychwanegol roi cydbwysedd rhwng byw yng nghartref yr unigolyn ei hun, a chael gofal a chymorth pwrpasol ar y safle yn ôl yr angen. Mae gofal preswyl a gofal nyrsio yn darparu llety gyda staff hyfforddedig wrth law ddydd a nos i ofalu am anghenion yr unigolyn.

**Gofynion dylunio a chynllunio cynhwysol**

Mae dylunio cynhwysol yn anelu at gael gwared ar y rhwystrau sy'n creu ymdrech ormodol a gwahaniad. Mae'n galluogi pawb i gymryd rhan yn gyfartal, yn hyderus ac yn annibynnol mewn gweithgareddau bob dydd. Mae dylunio cynhwysol yn gyfrifoldeb i bawb. Mae hon yn ystyriaeth bwysig wrth ddatblygu neu ail-ddylunio cyfleusterau a gwasanaethau.

Dylai bodloni anghenion mynediad fod yn rhan annatod o'r hyn yr ydym yn ei wneud bob dydd. Dylem ddefnyddio ein creadigrwydd a'n meddwl ochrol i ddod o hyd i atebion arloesol ac unigol, wedi'u dylunio ar gyfer pobl go iawn. Trwy ddylunio a rheoli ein hamgylchedd yn gynhwysol, gellir lleihau anawsterau a brofir gan lawer – gan gynnwys pobl ag anabledd neu nam ar y synhwyrau, ond hefyd pobl hŷn a theuluoedd â phlant bach. Bydd pawb yn elwa.

Mae'r Cyngor Dylunio yn nodi pum egwyddor allweddol ar gyfer dylunio cynhwysol y dylid eu cadw mewn cof, ac a all helpu i gyflawni amgylchedd sy'n addas i bawb[10]. Maent yn cynnwys rhoi pobl wrth wraidd y broses ddylunio; cydnabod amrywiaeth a gwahaniaeth; cynnig dewis; darparu ar gyfer hyblygrwydd o ran defnydd; darparu adeiladau ac amgylcheddau sy'n hwylus a phleserus i bawb eu defnyddio. Dylai'r ymrwymiad i oresgyn rhwystrau i gyfranogiad gynnwys defnyddio'r egwyddorion hyn wrth gynllunio a datblygu gwasanaethau, ac wrth eu comisiynu gan eraill.

[10] The principles of inclusive design. (They include you.), Design Council, 2006

## 4.3 Beth y mae pobl yn ei ddweud wrthym?

### Adborth o ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau

Roedd adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau yn ymwneud â dwy brif thema – heriau ac anghenion heb eu diwallu neu fylchau yn y ddarpariaeth.

**Heriau**

- Mae yna ddiffyg ymwybyddiaeth o faterion diogelwch a mynediad ar gyfer pobl mewn trefi a chymunedau lleol (er enghraifft, gall fod yn beryglus pan fydd pobl yn parcio ar balmentydd.)
- Mae'n ymddangos o hyd bod yna ddiffyg dealltwriaeth a rhagfarn tuag at bobl ag anableddau
- Pryderon y bydd gwasanaethau yn cael eu colli oherwydd toriadau; pan fydd gennych anabledd fel bod yn fyddar, mae'n anabledd gydol oes, ac mae angen cefnogaeth gydol oes. Os bydd gwasanaeth yn dod i ben, lle bydd pobl yn cael cefnogaeth?

**Anghenion heb eu diwallu neu fylchau yn y ddarpariaeth**

- Mae cludiant yn anodd i bobl ag anableddau, yn enwedig os ydych yn defnyddio cludiant cyhoeddus. Yn aml iawn, nid yw pobl sy'n gweithio ar gludiant cyhoeddus yn deall eich anabledd ac, o ganlyniad, nid ydynt yn gymwynasgar nac yn gwybod sut i gynnig cefnogaeth.

  'Er enghraifft, rwy'n credu y dylai pawb sy'n gweithio mewn cludiant cyhoeddus gael hyfforddiant ymwybyddiaeth anabledd, a meddu ar sgiliau iaith arwyddion sylfaenol'

- Nid oes digon o ymwybyddiaeth ar draws adrannau'r cyngor mewn gwasanaethau trafnidiaeth, priffyrdd, hamdden a'r amgylchedd. Teimlwyd yn aml iawn eu bod yn datblygu pethau heb feddwl am bobl ag anableddau ac, o ganlyniad, mae hyn yn golygu bod adeiladau yn aml yn anhygyrch, nad oes cyrbau is ar balmentydd, ac nad yw pobl sy'n fyddar neu'n ddall yn cael darpariaeth i gyfathrebu neu ddefnyddio'r gwasanaeth.
- Mae angen i bobl gael eu cynnwys mwy, ac mae angen gwrando mwy arnynt.

  'Mae gen i syniad am sut i gynorthwyo'r cyngor o ran cydnabod ceudyllau peryglus i bobl anabl, a phetawn yn cael cyfle i siarad â rhywun o'r adran gywir gallwn helpu, ond dydw i ddim yn credu bod sgiliau pobl yn cael eu defnyddio ddigon i helpu i ddatrys materion lleol yr awdurdod.'

- Mae meini prawf yn mynd yn dynnach, ac mae'n fwy anodd cael gwasanaeth.
- Os nad ydych yn bodloni'r meini prawf ar gyfer gwasanaethau, mae'n anodd fforddio eu prynu drosoch eich hun; mae pethau yn ddrud, er enghraifft offer a gwasanaethau arbenigol.

Draft

- Nid oes unrhyw gartrefi gofal arbenigol ar gyfer pobl fyddar nac, weithiau, hyd yn oed gartrefi sydd â staff sydd wedi cael hyfforddiant iaith arwyddion, felly ni all pobl fyddar sydd yno gyfathrebu'n briodol.
- Gall amserau aros i gael cefnogaeth neu i gyflawni pethau fod yn rhy hir.

Roedd materion ychwanegol a godwyd yn cynnwys y canlynol:

- Mae'n bwysig bod cymunedau a phobl yn cael eu cysylltu yn fwy â gwasanaethau, fel y gellir gofyn iddynt am eu barn.
- Nid yw pobl ag anableddau bob amser yn teimlo'n ddiogel mewn cymunedau ac, yn aml, mae hynny oherwydd nad yw pobl eraill yn deall yr heriau y maent yn eu hwynebu. Mae angen codi ymwybyddiaeth o’r materion syml, fel y gall unigolion ystyried pobl ag anableddau yn yr hyn y maent yn ei wneud.

## Adborth gan y cyhoedd yn gyffredinol, gan gynnwys y panel dinasyddion

**Pryderon ynghylch cynnal eich ffordd o fyw**

- Y pryder mwyaf cyffredin oedd cynnal annibyniaeth, a gweithgareddau cymdeithasol a hamdden.
- Cael mynediad at wasanaethau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig – dywedodd un ymatebydd: ‘Rwy'n aml yn meddwl sut y byddaf yn ymdopi pan na fyddaf yn gallu gyrru mwyach’.
- Pryderon ynghylch arian a chyllid, sy’n aml yn gysylltiedig â’r gallu i barhau mewn cyflogaeth ac addysg – yn enwedig ymhlith pobl a oedd wedi symud i'r DU i weithio neu bobl yr oedd ganddynt swyddi corfforol anodd.
- Roedd nifer o bobl yn poeni ynghylch sut y byddent yn cael mynediad at gefnogaeth mewn argyfwng, pe byddent yn byw ar eu pen eu hunain.

**Beth fyddai’n bwysig i chi?**

- Roedd cynnal annibyniaeth yn bwysig i lawer o ymatebwyr, gan gynnwys coginio, gwaith tŷ a mynd allan.
- Roedd cynnal cyfranogiad cymdeithasol a chymunedol yn bwysig hefyd, gyda grwpiau cymdeithasol a chlybiau a chyda theulu.
- Gofal a chymorth i osgoi arosiadau hir yn yr ysbyty.

***Beth yn eich barn chi allai eich cefnogi?***

- Dywedodd tua hanner yr ymatebwyr nad oedd ganddynt unrhyw un i'w cefnogi – yn achos rhai, roedd hyn oherwydd bod gan eu partner neu aelod arall o'r teulu eu hanghenion gofal a chymorth eu hunain.



Draft

- Dywedodd eraill y byddai eu partner neu deulu yn eu cefnogi – er bod y rhan fwyaf o bobl yn cyfeirio at gyfyngiadau ar faint o gymorth y gallent ei ddisgwyl neu yr oeddent am ofyn amdano.
- Cyfeiriodd llawer o bobl at gefnogaeth gan staff gofal cymdeithasol neu ofal iechyd.
- Soniodd nifer llai o bobl am ffrindiau, ond gyda phryderon tebyg ynghylch faint o gefnogaeth y byddent yn gofyn amdano.
- Soniodd ychydig o bobl am y gymuned leol neu wirfoddolwyr.

***Pa anghenion cymorth yn eich barn chi fyddai'n fwy anodd eu diwallu?***

- Roedd yr anghenion a grybwyllwyd amlaf yn ymwneud ag annibyniaeth neu help gyda bywyd bob dydd.
- Soniodd llawer hefyd am anhawster atal unigedd cymdeithasol ac unigrwydd ac, i rai, roedd hyn yn gysylltiedig ag iechyd a llesiant meddyliol ac emosiynol.

## Adborth gan sefydliadau

Yn aml, mae colli cyflogaeth, annibyniaeth economaidd, symudedd a hunan-barch, ac weithiau, dros gyfnod o amser, tor-perthynas a chwalu'r uned deuluol, yn dwysáu realiti unigrwydd, unigedd a theimladau o fod yn ddi-werth ac yn fregus, yn enwedig ar gyfer unigolion sydd wedi cael diagnosis yn ddiweddar.

Mae cefnogi pobl i fyw gyda salwch ac anabledd yn eu cartrefi eu hunain yn bwysig iawn. Mae rhai o'r darparwyr gwasanaethau a gomisiynwyd yn ei chael yn her oherwydd y diffyg amser a ddyrennir ar gyfer darparu gwasanaethau yn y cartref. Mae yna her hefyd o ran sut i gefnogi pobl ar yr adeg y mae arnynt eisiau cefnogaeth, ac mor aml ag y mae eisiau'r gefnogaeth honno arnynt. Y broblem, yn amlach na pheidio, yw diffyg cyllid.

Codwyd darparu gofal byrdymor yn dilyn triniaeth lawfeddygol yn fater o bryder. Adroddwyd am broblemau o ran cael mynediad at help, cyngor a chefnogaeth neu ofal mewn cyfnod o argyfwng, gan gynnwys mynediad at offer. Mae cefnogi pobl i reoli meddyginiaeth ar ôl llawdriniaeth, neu i drin cyflwr cronig, yn bwysig iawn. Mae angen goresgyn materion logistaidd sylfaenol, er enghraifft pan na fydd pobl yn gallu gyrru mwyach, neu reoli eu bywydau oherwydd eu hanabledd. Gall cludiant fod yn broblem, yn enwedig os oes yna anghenion arbennig, megis cadeiriau olwyn.

Mae rhai sefydliadau yn cael y prosesau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn rhy gymhleth, ac mae hyn yn creu rhwystrau hyd yn oed lle mae'r atebion yn rhai syml.

Mynegwyd pryderon ei bod yn ymddangos nad oes yna gyfleoedd gwasanaeth digonol i ddiwallu'r angen cyfredol mewn rhai meysydd triniaeth, sy'n golygu



Draft

efallai na fyddwn yn llwyddo i weld pobl yn brydlon. Mynediad at ymyraethau a chefnogaeth amserol yw'r hyn sy’n aml yn gweithio orau. Gallai oedi o ran cael mynediad at ofal effeithio’n negyddol ar fywydau cleifion, yn gorfforol ac yn emosiynol.

Adroddwyd mai ychydig iawn o gefnogaeth uniongyrchol sydd wedi bod ar gael gan GIG Cymru, yn hanesyddol, ar gyfer pobl sydd â chyflwr niwrolegol hirdymor, a bod hynny o gefnogaeth sydd ar gael mewn gwirionedd yn lleihau. Mae diffyg cyfeirio priodol i gefnogaeth barhaus gan weithwyr iechyd proffesiynol wedi golygu bod pobl wedi gorfod dod o hyd i'w ffordd eu hunain o ymdopi â'u cyflwr. I lawer, mae hyn yn her.

Roedd yna bryderon nad yw cyllid gofal iechyd prif ffrwd yn cynrychioli gwir gost gwasanaethau iechyd. Teimlwyd bod ymgysylltiad ystyrlon â'r bwrdd iechyd yn ddiffygiol.

Nododd Fair Treatment for the Women of Wales nifer o faterion yr oedd eu haelodau wedi’u nodi, ac yr oeddent yn gallu darparu rhywfaint o gefnogaeth gyda hwy, yn cynnwys:

- Peidio â chael eu cymryd o ddifrif gan glinigwyr, a phoen corfforol heb gael ei drin yn ddigonol, neu anhawster o ran cael mynediad at gefnogaeth arbenigol, er enghraifft, mae menywod yn wynebu oedi o 8 mlynedd (ar gyfartaledd) ar gyfer diagnosis o endometriosis. Efallai na fydd symptomau chwaith yn cael eu cymryd o ddifrif yn yr ysgol neu yn y gwaith.
- Diffyg cefnogaeth gyda materion ffrwythlondeb; mae cael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl yng Ngogledd Cymru yn anodd, gydag amserau aros yn rhy hir. Gall dod o hyd i ffynonellau eraill o gefnogaeth fod yn heriol, ac nid yw llawer o ferched yn gwybod at bwy i droi.
- Diffyg gwybodaeth ddiweddar a chefnogaeth gan wasanaethau iechyd – mae angen gwell cyfeirio gan feddygon teulu ac ysbytai, er enghraifft, i helpu gyda heriau cyfnod diwedd y mislif
- Heriau o ran cynnal ffordd o fyw, a theimlo eu bod wedi’u cynnwys – perthnasoedd â theulu a ffrindiau, unigedd cymdeithasol, diffyg arian, cefnogaeth ymarferol.

Draft

## 4.4 Adolygiad o’r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd

Mae ystod eang o wasanaethau gofal a chymorth ar waith ledled Gogledd Cymru i gefnogi pobl ag anghenion iechyd hirdymor, anabledd corfforol neu nam ar y synhwyrau. Ym mhob maes, mae modelau gwasanaeth presennol ac yn y dyfodol yn canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar, atal salwch ac ail-alluogi; cefnogi pobl i aros yn annibynnol; a sicrhau bod pobl yn cael eu cadw’n ddiogel.

Mae’r blaenoriaethau yn cynnwys:

- Galluogi pobl i wneud y defnydd gorau o rwydweithiau cefnogaeth anffurfiol
- Datblygu ymhellach y defnydd o deleofal a thechnoleg arall
- Cefnogi pobl i gael lefel uwch o breifatrwydd ac annibyniaeth
- Mynd ati i alluogi pobl i gael mwy o bresenoldeb cymunedol (datblygu mentrau cymunedol megis banciau amser a mentrau cymdeithasol, o bosibl)
- Cymryd camau gweithredol i annog cynnydd a hyrwyddo annibyniaeth
- Cefnogi pobl i gymryd mwy o reolaeth dros eu cefnogaeth
- Canolbwyntio ar ganlyniadau a llesiant

**Atal salwch a hunanreolaeth**

Dylai pobl gael eu hannog a'u galluogi i edrych ar ôl eu hiechyd a'u llesiant eu hunain. Ni allwn gymryd yn ganiataol bod gan bawb yr adnoddau neu’r asedau personol i fod yn hyderus ac yn wybodus wrth wneud hynny.

Mae Maniffesto’r Fforwm Hunanofal [11] yn disgrifio "pedwar piler o ymgysylltu" a all helpu pobl i gael yr offer a'r adnoddau y mae eu hangen arnynt i fod yn hyderus wrth edrych ar ôl eu hunain:

- Dysgu gydol oes: darparu addysg ac adnoddau personol ar bob cam o fywyd i annog hunanofal a grymuso
- Grymuso: hyrwyddo'r defnydd o wasanaethau iechyd a gofal fel ffordd o gefnogi penderfyniadau personol a phenderfyniadau’n ymwneud â gofal cartref, gan bylu’r ffin rhwng y claf a’r gweithiwr proffesiynol
- Gwybodaeth: darparu gwybodaeth ddibynadwy, gyson, sy’n seiliedig ar dystiolaeth, lle bo hynny'n bosibl, er mwyn cefnogi gwneud penderfyniadau yn hyderus
- Ymgyrchoedd lleol a chenedlaethol: defnyddio ymgyrchoedd cenedlaethol a lleol i ganolbwyntio ar raglen dreigl o addysg gyda negeseuon cyson

Mae rhoi'r wybodaeth a'r offer i bobl i wneud dewisiadau ffordd o fyw cadarnhaol ac i ofalu amdanyn eu hunain yn gam hanfodol i helpu i gynnal

[11] Mae cyfeiriad yn y ddogfen RPS ar gyfer y Fforwm Hunanofal

Draft

iechyd da ac atal salwch. Mae hyn hefyd yn atgyfnerthu'r ffactorau amddiffynnol ar gyfer llesiant, sy'n cynnwys teimlo bod gennych reolaeth dros sefyllfa.

Mae diogelu pobl rhag tybaco, rhybuddio pobl am beryglon tybaco, gorfodi gwaharddiadau ar hysbysebu tybaco, a chodi trethi ar dybaco, oll yn ymyraethau costeffeithiol iawn ar gyfer lleihau mynychder smygu (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2016).

Mae tystiolaeth yn dangos bod lleihau faint o halen sy'n cael ei fwyta, hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o ddeiet, cyfyngu marchnata bwyd a diodydd i blant ,a rheoli trethi bwyd a chymorthdaliadau yn gosteffeithiol iawn o ran hyrwyddo deiet iach ac atal gordewdra (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2016).

Mae'r 'bargeinion gorau' i gynyddu gweithgarwch corfforol yn cynnwys ymgyrchoedd yn y cyfryngau torfol, cefnogi teithio llesol, ymyrraeth fer ar gyfer gweithgarwch corfforol mewn gofal sylfaenol, a hybu gweithgarwch corfforol yn y gweithle, mewn ysgolion ac mewn cymunedau (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2016).

Dengys tystiolaeth fod cyngor cryno ar alcohol mewn gofal sylfaenol yn gosteffeithiol; mae pob £1 a warir ar gyfweliadau ysgogol a rhwydweithiau cefnogi ar gyfer dibyniaeth ar alcohol yn dychwelyd £5 i'r sector cyhoeddus. Hefyd, byddai cyflwyno pris uned isaf o 50 ceiniog am bob uned o alcohol yn arbed 53 o farwolaethau a 1,400 o dderbyniadau i'r ysbyty bob blwyddyn yng Nghymru, gyda'r effaith fwyaf yn y cymunedau mwyaf difreintiedig ac ymhlith yr yfwyr trymaf (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2016).

Mynd i'r afael ag achosion anghydraddoldebau cymdeithasol ac economaidd sy'n llywio anghydraddoldebau iechyd sy'n debygol o fod fwyaf effeithiol. Gallai hyn gynnwys ymyraethau i sicrhau cyflog byw, lleihau diweithdra, gwella'r amgylchedd ffisegol a darparu gwasanaethau cyffredinol (sy'n hygyrch i bawb), gan fuddsoddi yn ychwanegol, ar yr un pryd, i gefnogi grwpiau sy'n agored i niwed.

Mae atal afiechyd ledled y boblogaeth yn gyffredinol yn fwy effeithiol na chanolbwyntio ar ymyraethau clinigol o ran lleihau anghydraddoldebau iechyd (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2016a)

Gallai buddsoddi mewn inswleiddio a gwresogi er mwyn mynd i'r afael â thai oer a llaith ddychwelyd arbedion o bron £35 miliwn ar gyfer y GIG yng Nghymru.

Gallai trin arian cyhoeddus fel mater iechyd cyhoeddus liniaru mesurau caledi, megis monitro effaith yr holl ddiwygiadau economaidd a llesiant ar y gwasanaethau cyhoeddus ac ar iechyd y cyhoedd (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2016a). Gellid gwneud hyn trwy ddefnyddio Asesiad Effaith ar Iechyd.

Drafft

### Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif

Mae Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif (MECC) yn ddull o newid ymddygiad sy'n defnyddio rhyngweithiadau o ddydd i ddydd rhwng sefydliadau a staff a phobl, i gefnogi'r bobl hynny i wneud newidiadau cadarnhaol i'w hiechyd a'u llesiant. Mae MECC yn golygu y gall gwybodaeth gyson a chryno am ffordd o fyw iach gael ei throsglwyddo mewn modd bachog, ac mae'n galluogi unigolion i gymryd rhan mewn sgyrsiau ymyrraeth fer ystyrlon am eu hiechyd a'u llesiant.

Mae ffactorau ffordd o fyw, er enghraifft smygu, alcohol, deiet a gweithgarwch corfforol, ymhlith y pethau sy'n cyfrannu fwyaf at iechyd gwael, ac yn rhai o brif achosion llawer o farwolaethau ac afiechydon y gellid eu hatal, er enghraifft clefyd y galon, strôc, diabetes math 2, a rhai mathau o ganser. Mae tystiolaeth yn awgrymu y gallai mabwysiadu dull MECC ar draws iechyd a gofal, o bosibl, gael effaith sylweddol ar iechyd ein poblogaeth.

*Ar gyfer sefydliadau,* mae MECC yn golygu rhoi i'w staff yr arweinyddiaeth, yr amgylchedd, yr hyfforddiant a'r wybodaeth y mae eu hangen arnynt i gyflawni'r dull MECC.

*Ar gyfer staff,* mae MECC yn golygu y gallu a'r hyder i gyflwyno negeseuon ffordd o fyw iach, er mwyn annog pobl i newid eu hymddygiad, ac i'w cyfeirio at wasanaethau lleol a all eu cefnogi.

*Ar gyfer unigolion,* mae MECC yn golygu ceisio cefnogaeth a chymryd camau i wella eu ffordd o fyw eu hunain trwy ddewis ffordd o fyw iach a gofalu am eu hiechyd a'u llesiant.

### Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn dod â dyletswyddau newydd i'r cynghorau lleol a'r bwrdd iechyd weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yn cael eu darparu.

Yng Ngogledd Cymru, mae'r chwe chyngor a'r bwrdd iechyd wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu Un Pwynt Mynediad ym mhob sir er mwyn darparu pwynt cyswllt ar gyfer pobl a darparwyr gwasanaethau.

Mae'r sefydliadau partner hefyd wedi cyfrannu at ddatblygu gwefan Dewis Cymru (www.dewis.cymru.) Dewis Cymru yw'r wefan i'w defnyddio ar gyfer pobl y mae arnynt eisiau gwybodaeth neu gyngor ynghylch llesiant – neu y mae arnynt eisiau gwybod sut i helpu rhywun arall.

Mae'r wybodaeth yn cwmpasu llesiant yn gyffredinol, nid iechyd yn unig, ond mae'n cynnwys pethau fel ble mae pobl yn byw, pa mor ddiogel a sicr y maent yn ei deimlo, mynd allan, a chadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau. Mae pawb yn wahanol, ac mae llesiant yn golygu pethau gwahanol i bobl wahanol.

Nod Dewis Cymru yw helpu pobl i gael gwybod mwy am yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw.

**Rhagnodi cymdeithasol**

Mae rhagnodi cymdeithasol yn fodd o alluogi gwasanaethau gofal sylfaenol i atgyfeirio cleifion sydd ag anghenion cymdeithasol, emosiynol neu ymarferol i ystod o wasanaethau anghlinigol lleol, a ddarperir yn aml gan y sector gwirfoddol a chymunedol.

Canfu adolygiad o dystiolaeth mai atgyfeiriadau addas i fentrau rhagnodi cymdeithasol yw grwpiau agored i niwed a grwpiau mewn perygl, er enghraifft: pobl ag iselder neu orbryder ysgafn i gymedrol; rhieni sengl ar incwm isel; pobl hŷn sydd wedi cael profedigaeth yn ddiweddar; pobl â chyflyrau hirdymor, a'r rheiny sy'n mynychu gofal sylfaenol ac eilaidd yn rheolaidd (Kinsella, 2015). Mae rhagnodi cymdeithasol wedi cael ei ddisgrifio fel rhywbeth sydd â'r potensial i wella iechyd meddwl, lleihau'r galw ar wasanaethau statudol, gwella llesiant a gwytnwch cymunedol, a lleihau allgáu cymdeithasol.

Mae gan ragnodi cymdeithasol y potensial i ddod yn gwbl integredig fel llwybr i gleifion ar gyfer practisau gofal sylfaenol, ac i gryfhau'r cysylltiadau rhwng darparwyr gofal iechyd a gwasanaethau cymunedol, gwirfoddol a lleol a allai hybu iechyd a llesiant. Mae'r rhain yn cynnwys hamdden, lles, addysg, diwylliant, cyflogaeth a'r amgylchedd. Yn ôl Kinsella (2015), mae'r dystiolaeth ynghylch effaith rhagnodi cymdeithasol ar hyn o bryd yn gyfyngedig ac yn anghyson. Mae rhai mentrau wedi dangos canlyniadau gwell i gleifion, yn ogystal â'r potensial i arbed costau (yn yr hirdymor), ond ychydig yn unig fu'n destun dadansoddiad economaidd neu werthusiad trylwyr. Am y rheswm hwn, mae Kinsella (2015) yn argymell y dylai unrhyw fentrau rhagnodi cymdeithasol newydd anelu at ychwanegu at y sylfaen dystiolaeth gyfredol, a chynnal gwerthusiad tryloyw a thrylwyr. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael â chwestiynau ynghylch pryd mae'r cynllun yn gweithio, i bwy mae'n gweithio, a pha mor dda mae'n gweithio? Pa effaith mae'n ei chael? Faint mae'n ei gostio? A yw'n gosteffeithiol?

**Gofal cartref**

Mae gofal cartref ail-alluogi byrdymor yn cael ei ddarparu i gefnogi defnyddwyr gwasanaethau newydd, neu'r bobl hynny y mae angen cefnogaeth ail-alluogi gweithgar arnynt. Dylai gofal cartref hirdymor ganolbwyntio ar ganlyniadau, gan ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn. Mewn rhai ardaloedd gwledig, mae yna heriau i ddarparu gofal cartref oherwydd y lefelau isel o alw, sydd ar wasgar. Gweler y bennod ar bobl hŷn i gael rhagor o wybodaeth [add link].

Gall pobl gael eu cefnogi i ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol i brynu eu cefnogaeth eu hunain, gan roi iddynt fwy o ddewis a rheolaeth.

Drafft

## Gwasanaethau dydd

Yn y gorffennol, mae gwasanaethau dydd wedi bod braidd yn draddodiadol ac yn gyfyngedig o ran yr amrywiaeth o weithgareddau sydd ar gael. Y model gwasanaeth dymunol yw darparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion asesedig pobl, ac sy'n eu helpu i gyflawni eu nodau. Gellir darparu cefnogaeth bersonol yn y gymuned, gan gynnig ystod eang o weithgareddau fforddiadwy a hygyrch yn agos at gartrefi pobl, i ddiwallu anghenion unigolion yn well.

## Gwasanaethau Therapi Galwedigaethol

Mae therapi galwedigaethol yn hyrwyddo annibyniaeth trwy asesu angen, a thrwy roi cyngor ar ddarparu cyfarpar arbenigol ac addasiadau. Gall therapi galwedigaethol hefyd gynorthwyo gofalwyr i barhau i ofalu yn ddiogel, er enghraifft trwy roi cyngor neu ddarparu offer neu addasiadau.

## Teleofal a thechnoleg gynorthwyol

Mae technoleg yn rhoi cyfle i greu cymdeithas rhyng-gysylltiedig – ac, o ran gofal a chymorth, cymdeithas lle y gallai cynllunio, rheoli a darparu gofal gael eu hintegreiddio'n llawn.

Mae Teleofal yn wasanaeth a all helpu i leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â byw'n annibynnol, a hynny trwy ddefnyddio dyfeisiau diwifr wedi'u cysylltu rhwng cartref yr unigolyn a chanolfan monitro ac ymateb. Gellir defnyddio synwyryddion i fonitro amgylchedd y cartref ac i alluogi'r unigolyn i alw am gymorth mewn argyfwng.

Mae yna gyfleoedd ar gyfer defnyddio technoleg i gefnogi iechyd a gofal iechyd trwy deleiechyd a thelefeddygaeth. Mae teleiechyd yn golygu y gall cyflyrau iechyd (er enghraifft gorbwysedd) gael eu monitro o bell, a gall telefeddygaeth gefnogi ymgynghori a diagnosis o bell, fel na fydd rhaid i'r claf deithio i apwyntiadau.

Efallai na fydd cyflwyno offer ynddo'i hun yn ddigon. Mae'r Sefydliad Llywodraethu Da yn nodi bod "llwyddiant yn dibynnu ar newid sut y mae'r cyhoedd yn meddwl am eu [hiechyd a gofal iechyd]". Mae'n dweud ymhellach "ar gyfer pob llwybr gofal lleol, ac i gefnogi cleifion â salwch cronig ymhellach, mae angen ailgynllunio'n llwyr er mwyn i dechnoleg newydd sicrhau'r budd y mae'n ei addo"[12].

## Gofal ysbaid ac ysbaid byrdymor

Gall gofal ysbaid ac ysbaid byrdymor roi cefnogaeth i ofalwyr, yn ogystal â seibiannau oddi wrth eu rôl ofalu. Gall hyn helpu i gynnal byw'n annibynnol ar gyfer unigolyn â chyflyrau hirdymor, anabledd neu nam ar y synhwyrau. Mae ffyrdd arloesol o ddarparu cefnogaeth yn cael eu defnyddio mwyfwy, er

[12] Sefydliad Llywodraethu Da – o'r ddolen http://www.good-governance.org.uk/ ar 27 Gorffennaf 2015

enghraifft cymryd rhan mewn grwpiau lleol ar gyfer gweithgareddau yn ystod y dydd. Gellir cael gwasanaethau ysbaid mwy traddodiadol mewn lleoliad preswyl, neu wasanaethau eistedd ar gyfer yr unigolyn y gofelir amdano, i roi ysbaid i ofalwyr o'r rôl ofalu. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y bennod ar ofalwyr [add link]

**Gofal preswyl a nyrsio**

Mae nifer y bobl sy'n cael eu cefnogi gan wasanaethau iechyd a chymdeithasol i symud i gartrefi gofal wedi bod yn lleihau dros amser, wrth i gefnogaeth i fyw gartref wella, ac wrth i fwy o bobl gael yr arian i wneud penderfyniadau i symud i gartrefi gofal heb gyllid statudol. Wrth i bobl gael eu cefnogi'n well i fyw gartref, maent yn symud i gartrefi gofal yn hwyrach, felly mae'r cyfnod y mae pobl yn byw mewn cartrefi gofal ('hyd yr arhosiad') yn lleihau (ym mis Mai 2016, roedd hyd arhosiad, ar gyfartaledd, yn 25 mis), ond mae anghenion pobl sy'n byw mewn cartrefi gofal yn gynyddol gymhleth. Gweler y bennod ar bobl hŷn am ragor o wybodaeth [add link].

Ar gyfer oedolion ag anghenion hirdymor, anabledd corfforol neu nam ar y synhwyrau, y rheiny sydd ag anghenion mwy cymhleth, ac felly y mae arnynt angen cefnogaeth fwy arbenigol, y bydd angen gofal preswyl neu nyrsio arnynt. Mae yna brinder yn y ddarpariaeth bresennol o ran gofal preswyl a nyrsio arbenigol mewn rhai ardaloedd yng Ngogledd Cymru. Gallai hyn arwain at leoli rhai pobl y tu allan i'w hardal gartref ac, o bosibl, y tu allan i Ogledd Cymru ar gyfer gofal arbenigol iawn. Gall hyn gael effaith andwyol ar eu gofalwyr, eu teuluoedd a'u ffrindiau o ran gorfod teithio ymhellach. Bydd angen datblygu dulliau ar y cyd i ddatblygu'r farchnad a chomisiynu gwasanaethau penodol.

**Tai gofal ychwanegol**

Mae datblygu Tai Gofal Ychwanegol wedi darparu dewisiadau amgen i ofal preswyl ar gyfer rhai pobl yn y Gogledd; gyda rhai unedau sy'n darparu'n benodol ar gyfer pobl â dementia mewn Gofal Ychwanegol. Roedd 252 o bobl yn byw mewn gofal ychwanegol yng Ngogledd Cymru yn 2015.

Datblygwyd yr holl gynlluniau gofal ychwanegol yng Ngogledd Cymru i gydymffurfio â'r safonau cartref am oes – gan gynnig cyfleusterau hygyrch fel cawodydd â mynediad gwastad, baddonau codi a gostwng â theclyn codi wedi'i osod yn y nenfwd, a lle i gadw cadair olwyn neu sgwter symudedd. Mae meini prawf cymhwystra y cynlluniau hyn yn ei gwneud yn ofynnol bod gan ddarpar denantiaid anghenion o ran tai a/neu anghenion gofal cymdeithasol cymwys. Mae'r cynlluniau ar gael i bobl o 55 oed ymlaen, a datblygir y meini prawf yn lleol. Mae rhai yn cynnig llety ar gyfer pobl 60 neu 65 oed a hŷn.

Draft

**Gwasanaethau gofal iechyd a chymorth cyffredinol**

Mae gofal yn nes at adref ychydig yn dameidiog, ac fe'i darperir yn aml gan dimau bach. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod amrywiaeth yn yr ansawdd a'r canlyniadau, a dylai'r ddarpariaeth allu cyflawni yn fwy cyson ar gyfer y boblogaeth gyfan.

Mae yna ystod eang o lenyddiaeth ar fodelau gwahanol yn y gwasanaethau sylfaenol a chymunedol fydd yn cael eu hadolygu ymhellach, ynghyd ag enghreifftiau o ardaloedd eraill a gwledydd eraill, i ddysgu am yr hyn sy'n gweithio'n dda, a sut y gellid ei gymhwyso yng Ngogledd Cymru. Byddwn yn ceisio cefnogaeth a chyngor allanol arbenigol wrth wneud hynny yng nghamau nesaf datblygu'r strategaeth Gofal Nes at Adref.

Mae adolygiad o'r dystiolaeth, a gynhaliwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn nodi modelau gofal sylfaenol mewn gwledydd eraill, i helpu i ddeall beth fyddai gofal sylfaenol ardderchog o fewn system iechyd a gofal cymdeithasol integredig holistig ("Gofal Sylfaenol Yng Nghymru: adolygiad cyflym o fodelau a pholisi", Iechyd Cyhoeddus Cymru, Gorffennaf 2014). Canfu'r adolygiad hwn dystiolaeth mewn perthynas â strwythuro (sut yr ydym yn rhedeg y system), proses (sut yr ydym yn darparu'r gwasanaeth) a chanlyniadau (iechyd a llesiant, profiad y dinesydd, a gwerth am arian). Mae'r negeseuon cyffredinol yn cynnwys y canlynol:

- Mae hwn yn gyfnod allweddol i systemau gofal iechyd yn fyd-eang: mae'r argyfwng ariannol wedi symbylu gwaith craffu ar y gwerth yr ydym yn ei gael o'n buddsoddiad mewn systemau gofal iechyd, ac mae consenswS yn dod i'r amlwg nad yw'r modelau presennol yn gynaliadwy yn ariannol, neu fel arall.
- Mae yna hefyd gonsensws yn dod i'r amlwg mai newid i ofal sylfaenol a dulliau sy'n seiliedig ar y boblogaeth yw'r ffordd ymlaen i wella iechyd, ac i leihau anghydraddoldebau ymhlith canlyniadau iechyd. Mae Cymru mewn sefyllfa dda i adeiladu ar y datblygiadau hyd yn hyn o gwmpas clystyrau o feddygon teulu a gwasanaethau cymunedol ehangach o fewn byrddau iechyd integredig.
- Dylai timau gofal sylfaenol gynnwys ystod ehangach o aelodau, gyda mwy o integreiddio â gofal eilaidd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys llywio a chydlynu ystod ehangach o wasanaethau.
- Dylai canlyniadau clir fod yn ganolbwynt unrhyw fodel neu bolisi newydd, gan ddefnyddio fframwaith ar gyfer gofal sylfaenol o ansawdd tebyg i'r un a ddatblygwyd gan Kringos *et al*.
- Y modelau o ddarpariaeth a nodweddir gan egwyddorion Gofal Sylfaenol sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned ac ymgysylltu â dinasyddion yw'r modelau sy'n debygol o fod y mwyaf addas i'w trosglwyddadwy i gyd-destun Cymru, fel y mae dulliau wedi'u teilwra i fynd i'r afael â'r Ddeddf Gofal Gwrthgyfartal ac i gyd-gynhyrchu iechyd.

Draft

Mae'r **Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaeth Gofal Sylfaenol i Gymru (2015)** yn honni y dylai pobl gael y rhan fwyaf o'r cyngor, yr archwiliadau, y diagnosis, y driniaeth a'r gofal mewn ffyrdd hyblyg ac mewn cyfleusterau hyblyg, wedi'u cyflwyno gan amrywiaeth o weithwyr proffesiynol, ac eraill, yn eu cartref neu'n agos i'w cartref, gan wneud defnydd effeithiol o dechnoleg fodern. Dylai'r gofal fod yn ymatebol ac yn gymesur ag anghenion ac amgylchiadau pob unigolyn, a dylid cytuno gyda nhw trwy gynllun gofal.

Mae adolygiad diweddar o'r dystiolaeth ar **symud gwasanaeth i'r gymuned**[13] wedi awgrymu y dylai mentrau i wella gofal yn y gymuned ddatblygu o'r gwaelod i fyny, ac nad oes yr un model perchenogaeth penodol yn well na'r lleill, er y gall sefyllfa dameidiog o ran darparwyr olygu bod darparu gwasanaethau yn fwy anodd. Mae gweithio'n dda mewn tîm amlddisgyblaethol yn dibynnu'n llwyr ar gyfathrebu. Gallai alinio'r poblogaethau a gwmpesir gan wasanaethau gwahanol helpu (mae hyn eisoes yn wir yng Ngogledd Cymru). Mae hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod diffyg gwybodaeth am ddarparwyr gwasanaethau cymunedol yn y DU yn ei gwneud yn anodd iawn casglu tystiolaeth am gost, cymysgedd y gweithlu y mae ei angen, neu gosteffeithiolrwydd.

Gall arbenigwyr, sydd yn draddodiadol wedi'u lleoli mewn ysbytai, chwarae mwy o ran wrth gefnogi gwasanaethau gofal sylfaenol i ofalu am bobl yn agos at eu cartrefi, a rhannu atebolrwydd ar gyfer gwella iechyd y boblogaeth. Bydd staff yn yr ysbyty yn darparu cefnogaeth llawer mwy arbenigol ar gyfer gofal sylfaenol dros y ffôn, trwy e-bost, a thrwy gyfrwng adolygiadau rhithwir, galwadau fideo, a thechnoleg delefeddygaeth, yn ogystal â mewn clinigau lleol. Bydd byrddau iechyd hefyd yn cytuno gyda Gwasanaeth Ambiwlans Cymru sut y gall parafeddygon helpu i ddarparu mwy o ofal yn y cartref ac yn y gymuned.

Mae'r **Strategaeth Adnewyddu Ysbytai Cymunedol a ysgrifennwyd gan Lywodraeth yr Alban (2012)** yn dangos tystiolaeth bod ysbytai cymunedol yn darparu gwasanaethau clinigol effeithiol sy'n gwella'r canlyniadau i gleifion, ac sy'n cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau yn nes at adref. Y brif her ar gyfer GIG yr Alban oedd sicrhau bod ysbytai cymunedol wedi'u halinio a'u cysylltu'n llawn â'r gwaith o ddarparu gwasanaethau yn ehangach o fewn ardaloedd Byrddau'r GIG. Er mwyn gwneud defnydd llawn o'r adnoddau gwerthfawr hyn, mae'n hanfodol bod ysbytai cymunedol mor effeithiol ag y bo modd o ran darparu llwybrau gofal, a bod ganddynt gysylltiadau clir â'r ystod eang o wasanaethau a ddarperir gan y GIG a'i Bartneriaid, yn enwedig ysbytai acíwt, cartrefi gofal a gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Gwyddom fod tua thraean o oedolion yn dweud eu bod yn ei chael yn anodd gwneud apwyntiad cyfleus gyda meddyg teulu. Caiff hyn ei adlewyrchu yn yr adborth o'r ymarferion gwrando y cyfeiriwyd atynt yn gynharach yn y ddogfen.

[13] Moving services out of hospital: joining up general practice and community services? Policy Research Unit in Commissioning and the Healthcare System 2014

Draft

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud nifer o ymrwymiadau i wella mynediad at wasanaeth gofal sylfaenol gyda'r hwyr ac ar fore Sadwrn i bobl sy'n gweithio. Does dim angen i bawb sy'n ceisio apwyntiad ym mhractis eu meddyg teulu gael eu gweld gan feddyg teulu. Gallai eu hanghenion iechyd a llesiant gael eu diwallu'n briodol trwy weld gweithiwr iechyd proffesiynol arall, er enghraifft nyrs, fferyllydd, neu optometrydd. Mae addysgu'r cyhoedd ynghylch pryd a sut i gael y gofal iawn, gan yr unigolyn iawn, ar yr adeg iawn, yn swyddogaeth bwysig ar gyfer clystyrau gofal sylfaenol, byrddau iechyd a Llywodraeth Cymru wrth i'r cynllun hwn gael ei weithredu.

Mae **mynediad hyblyg** yn cyfeirio at amrediad o ffyrdd gwahanol o gael gofal gan y gweithiwr proffesiynol cywir; gallai hyn fod wyneb yn wyneb yn y feddygfa neu'r clinig; dros y ffôn; ar-lein; trwy fonitro gofal o bell gan ddefnyddio teleiechyd ac offer teleofal, neu ddefnyddio telefeddygaeth i gael mynediad at gyngor arbenigol gan eraill, megis gweithwyr proffesiynol yn yr ysbyty; gwneud apwyntiadau; archebu presgripsiynau amlroddadwy, a chael mynediad at gofnodion iechyd meddygon teulu ar-lein.

Bydd mwy o bobl yn cael eu hannog i ddefnyddio 'Fy Iechyd Ar-lein', sy'n galluogi pobl i drefnu apwyntiadau meddygon teulu ac archebu presgripsiynau amlroddadwy. Bydd y gwasanaeth hwn yn cael ei ddatblygu ymhellach i gynnwys mynediad ar-lein i bobl at eu cofnodion iechyd, a ddelir gan eu meddyg teulu, gyda'r wybodaeth glinigol o'u hapwyntiadau neu dderbyniadau i'r ysbyty, gan gynnwys cyngor a gwybodaeth rhyddhau.

Mae **cyfleusterau hyblyg** yn golygu defnyddio asedau pob cymuned i ddarparu ystod lawer ehangach o ofal gan weithwyr proffesiynol gwahanol. Yn ogystal â chynnig mwy o wasanaethau mewn meddygfeydd, fferyllfeydd cymunedol, deintyddfeydd a phractisau optometreg, rydym am weld llawer mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o gyfleusterau cymunedol lleol tebyg i ganolfannau hamdden, canolfannau cymunedol, archfarchnadoedd, y stryd fawr, a chanolfannau siopa, a byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i nodi cyfleoedd i wneud hynny.

Dylai gofalwyr, gan gynnwys pobl sy'n gweithio mewn cartrefi gofal, deimlo'n wybodus a theimlo eu bod yn cael cefnogaeth o ran diwallu anghenion eu preswylwyr, ac i osgoi derbyniadau brys amhriodol i'r ysbyty. Bydd cysylltiadau cryfach â gofal sylfaenol, yn ogystal â'r gwasanaeth ffôn 111 newydd i gael gafael ar wybodaeth, cyngor a chymorth a mynediad at ofal sylfaenol, yn cefnogi hyn.

Yn sail i bob dull o ddatblygu modelau newydd ar gyfer gwasanaethau sylfaenol a chymunedol, rhaid cael mwy o integreiddio ar draws systemau, gyda thimau gofal iechyd yn gweithio gyda chynghorau lleol, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol, y trydydd sector, y sector annibynnol a sefydliadau statudol eraill. Mae yna gorff cynyddol o dystiolaeth sy'n ymwneud ag integreiddio gwasanaethau yn effeithiol, y mae angen adeiladu arno wrth ddatblygu cynlluniau gweithredu yn y dyfodol.

Drafft

## 4.5 Casgliad ac Argymhellion

**Y prif negeseuon**

Er bod pob un o'r chwe chyngor lleol a'r bwrdd iechyd wedi ymrwymo i weithio i'r model cymdeithasol o anabledd, mae llawer mwy o waith i'w wneud er mwyn sicrhau bod y ffordd yr ydym yn gweithio yn adlewyrchu'r model hwn yn llawn.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn atgyfnerthu'r angen i feddwl am agweddau ehangach ar lesiant ym mywyd bob dydd unigolyn, a gallu'r unigolyn i gymryd rhan lawn mewn cymdeithas.

Bydd canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn yn ein helpu i fynd i'r afael â'r agweddau ehangach yn well. Bydd angen i ni weithio mewn partneriaeth â phobl, eu teuluoedd, y trydydd sector a darparwyr annibynnol, yn ogystal â gwasanaethau cyhoeddus eraill, i gyflawni hyn.

Mae nifer y bobl sy'n byw â chyflwr hirdymor, yn ogystal â nifer y bobl sy'n byw yn hirach ag anabledd neu nam ar y synhwyrau, yn cynyddu wrth i'n poblogaeth fyw'n hirach ac wrth i nifer y bobl hŷn gynyddu.

Bydd angen i ni adolygu ein blaenoriaethau sefydliadol a'n cynlluniau comisiynu i sicrhau ein bod yn adnabod gwell ffyrdd o gefnogi cyfranogiad a chynhwysiant, ac o alluogi pobl i gynnal eu hannibyniaeth.

Mae angen i ni ganolbwyntio mwy ar ymyrraeth gynnar ac atal salwch – gan gymryd y camau gweithredu y mae'r dystiolaeth yn dweud wrthym fydd yn helpu pobl i aros yn fwy iach ac yn fwy annibynnol yn hirach.

Bydd angen i ni adolygu'r gwasanaethau mwy arbenigol yr ydym yn eu darparu i sicrhau bod pobl yn gallu cael y gefnogaeth y mae ei angen arnynt, a hynny ar yr adeg gywir.

**Bylchau yn y gwasanaeth/gefnogaeth**

Mae cefnogaeth i bobl fyw bywydau mwy iach a chynnal annibyniaeth yn cael ei nodi fel un o'r elfennau allweddol. Mae angen i bob sefydliad roi mwy o bwyslais ar hyn.

Mae rôl y trydydd sector a'r sector annibynnol yn cael ei nodi fel un bwysig o ran darparu rhwydweithiau cefnogaeth ehangach i bobl. Mae angen i sefydliadau fod yn ymwybodol o allu'r sectorau hyn i ymestyn y gefnogaeth y maent yn ei chynnig.

Mae rhai gwasanaethau yn brin mewn ardaloedd gwahanol; nodwyd bod diffygion yn y ddarpariaeth mewn ardaloedd gwledig.

Draft

Mae llawer o'r gwasanaethau yn y sector cyhoeddus o dan bwysau ac, er bod gwasanaethau ar gael, efallai y bydd yna restr aros, neu anhawster o ran cael mynediad prydlon at wasanaethau.

Mae yna rwystrau i grwpiau penodol y mae angen mynd i'r afael â hwy – wrth geisio gwybodaeth, cael mynediad at wasanaethau, neu geisio cynnal annibyniaeth, gyda chefnogaeth yn ôl yr angen.

**Ein hymateb**

Byddwn yn ceisio cydweithio wrth gynllunio a gweithredu rhaglenni gwella iechyd effeithiol, gyda chefnogaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Byddwn yn anelu at roi ymrwymiad strategol ar lefel uwch i weithredu ac ymgorffori dull cynaliadwy i roi'r rhaglen Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif (MECC) ar waith yng Ngogledd Cymru, gan ddarparu diwylliant sy'n annog ac yn hybu atal salwch a gwella iechyd.

Byddwn yn ymchwilio i'r opsiwn o ddefnyddio rhagnodi cymdeithasol fel llwybr i gleifion ar gyfer practisau gofal sylfaenol yng Ngogledd Cymru i gryfhau'r cysylltiadau rhwng darparwyr gofal iechyd a gwasanaethau cymunedol, gwirfoddol ac awdurdodau lleol a allai wella iechyd a llesiant.

Byddwn yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar asedau, gan nodi'r hyn sy'n bwysig i bobl, a'u cefnogi i gymryd rheolaeth dros eu bywydau. Byddwn yn gweithio gyda phobl a'r cymunedau lle maent yn byw i adeiladu ar yr adnoddau sydd ar gael, ac i gefnogi pobl i gysylltu.

Byddwn yn ceisio cryfhau ymhellach y model cymdeithasol o anabledd ym mhob peth a wnawn, gan geisio sicrhau bod ein cefnogaeth a'n gwasanaethau yn hwyluso cyfranogiad ac yn parchu dymuniadau ac anghenion unigol, a'u bod yn gynhwysol.

Byddwn yn adolygu'r angen i'n gwasanaethau mwy arbenigol ddarparu gofal yn nes at adref, lle bo modd.

**Cydraddoldeb a hawliau dynol**

Mae'r bennod hon yn codi nifer o faterion mewn perthynas ag anghenion a allai effeithio'n anghymesur ar bobl o grwpiau sydd ar y cyrion. Mae'r rhain yn cynnwys llawer sy'n rhannu nodweddion a ddiogelir.

Mae'r ffactorau craidd sy'n dylanwadu ar lesiant yn cynnwys hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol. Mae'n hysbys fod grwpiau sy'n rhannu nodweddion a ddiogelir yn fwy tebygol o gael eu hallgau yn gymdeithasol, a bydd angen i hyn gael ei gynnwys yn yr asesiadau ar gyfer unigolion.

Draft

Efallai y bydd yna faterion eraill sy'n effeithio ar grwpiau o bobl sy'n rhannu nodweddion a ddiogelir na chawsant eu nodi yn yr asesiad hwn. Byddem yn croesawu unrhyw dystiolaeth benodol bellach a allai helpu i lywio'r asesiad terfynol. Gellid rhoi sylw i hyn mewn wrth adolygu’r asesiad poblogaeth yn y dyfodol, wrth ddatblygu’r cynllun ardal a fydd yn dilyn yr asesiad hwn, neu yn y gwasanaethau fydd yn cael eu newid neu eu datblygu mewn ymateb i'r cynllun.

Rhaid i wasanaethau i bobl ag angen iechyd hirdymor, anabledd corfforol neu nam ar y synhwyrau, ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n rhoi ystyriaeth i anghenion gwahanol y bobl hynny sydd â nodweddion a ddiogelir.

Drafft

# Cyfeiriadau


Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (2015). Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd *Gogledd Cymru Iachach, Hapusach a Thecach*. Ar gael ar-lein: [cyrchwyd 03.03.2016]

Jones C ac Atenstaedt (2015). *Eye Health in Betsi Cadwaladr University Health Board (BCUHB).* Iechyd Cyhoeddus Cymru

Jones C, Andrew R ac Atenstaedt R (2016). *Population Health Profile of North Wales, to support needs assessment for Social Services & Wellbeing Act and wellbeing assessment for Future Generations Act.* Iechyd Cyhoeddus Cymru

Kinsella S (2015). *Social Prescribing: a Review of the Evidence*. Tîm Gwybodaeth Cyngor y Wirral ar gyfer Busnes ac Iechyd Cyhoeddus.

Iechyd Cyhoeddus Cymru (2015) *The case for prevention: Housing*. Caerdydd: Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

Iechyd Cyhoeddus Cymru (2016a). Making a Difference: Investing in Sustainable Health and Well being for the People of Wales. Supporting Evidence 2016. Caerdydd: Iechyd Cyhoeddus Cymru

Iechyd Cyhoeddus Cymru (2016b). Measuring Inequalities 2016. Caerdydd: Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

Llywodraeth Cymru (2015) Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014, o StatsCymru

Llywodraeth Cymru (2016) Arolwg Iechyd Cymru, 2015


Draft

# Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru
## Pennod 5 Anabledd dysgu

### Cynnwys

5.1 Ynglŷn â'r bennod hon ....3

Beth yw ystyr y term *anabledd dysgu*? ....3

Beth yw ystyr y term *awtistiaeth*? ....3

Polisi a deddfwriaeth ....3

5.2 Beth yr ydym yn ei wybod am y boblogaeth? ....4

Tueddiadau yn y dyfodol ....6

Proffil y Gymraeg ....10

Pontio rhwng gwasanaethau plant ac oedolion ....10

Gwahaniaethau rhwng cymunedau yng Ngogledd Cymru ....10

Diogelu ....11

5.3 Beth y mae pobl yn ei ddweud wrthym? ....12

Adborth gan sefydliadau partner ....14

Adborth gan staff ....14

Ymgynghoriad cenedlaethol (AGGCC, 2016) ....14

5.4 Pa gymorth sydd ar gael ar hyn o bryd? ....15

Tai â chymorth: mae hyn yn cynnwys lleoli mewn Cartrefi Gofal, Byw yn y Gymuned a Lleoli Oedolion ....16

Cyfleoedd dydd ....20

Gwasanaethau ysbaid ....21

Gwasanaethau cymorth – cyfleoedd o ran cymdeithasu a hamdden ....21

Cymorth Gweithredol ....21

Gwasanaethau eraill a ffynonellau cymorth ....22

5.5 Casgliad ac argymhellion ....22

Y prif ganfyddiadau ....22

Argymhellion ....23

Draft

Agenda datblygu data....24

Cydraddoldeb a hawliau dynol....24

Atodiad 1: Trosolwg ar Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ....25

Atodiad 2: Sut y mae canllawiau cenedlaethol wedi llywio gwasanaethau anabledd dysgu ....27

Cyfeiriadau ....28

Drafft

## 5.1 Ynglŷn â'r bennod hon

Mae'r bennod hon yn cynnwys anghenion poblogaeth oedolion ag anabledd dysgu ac oedolion ag awtistiaeth sydd hefyd ag anabledd dysgu. Mae gwybodaeth am blant a phobl ifanc ag anabledd dysgu, am oedolion ag awtistiaeth nad oes ganddynt hefyd anabledd dysgu, ac am y rheiny sy'n gofalu am bobl ag anabledd dysgu/awtistiaeth, i'w gweld yn y penodau:

- Plant a phobl ifanc [add link]
- Gofalwyr [add link]
- Awtistiaeth [add link]

### Beth yw ystyr y term *anabledd dysgu*?

a) Defnyddir y term *anabledd dysgu* i ddisgrifio unigolyn:

   - y mae ei allu i ddeall gwybodaeth newydd neu gymhleth, neu i ddysgu sgiliau newydd, wedi'i leihau yn sylweddol (nam ar ei ddeallusrwydd); a/neu
   - y mae ei allu i ymdopi ar ei ben ei hun wedi'i leihau (nam ar ei allu i addasu ei weithredoedd);

   ers cyn iddo droi'n oedolyn, ac y mae hyn yn effeithio'n barhaus ar ei ddatblygiad (Yr Adran Iechyd, 2001).

b) Defnyddir y term *anhawster dysgu* ym maes addysg, a hynny fel term ehangach sy'n cynnwys unigolion ag anawsterau dysgu penodol, er enghraifft dyslecsia (Emerson a Heslop, 2010).

### Beth yw ystyr y term *awtistiaeth*?

Defnyddir y term *awtistiaeth* i ddisgrifio cyflwr datblygiadol gydol oes sy'n effeithio ar sut y mae unigolyn yn cyfathrebu â phobl eraill, a sut y mae'n ymwneud â hwy. Mae awtistiaeth hefyd yn effeithio ar sut y mae unigolyn yn gwneud synnwyr o'r byd o'i gwmpas. Mae'n gyflwr sbectrwm, sy'n golygu y bydd y cyflwr yn effeithio ar bawb sydd ag awtistiaeth mewn ffordd wahanol, er bod pob un ohonynt yn rhannu anawsterau penodol. Bydd gan tua 50% o unigolion ag awtistiaeth anabledd dysgu hefyd.

### Polisi a deddfwriaeth

Mae cynghorau lleol yn trefnu ac yn darparu cefnogaeth i oedolion ag anabledd dysgu, yn seiliedig ar Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – gweler atodiad x i weld rhagor o fanylion am y ddeddf newydd. Mae rhai gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu darparu mewn partneriaeth â gwasanaethau eraill, yn cynnwys tai, iechyd ac addysg.

Draft

Yn hanesyddol, roedd cynghorau lleol ar hyd a lled Cymru yn darparu neu'n trefnu gofal a chymorth yn unol ag amrediad o ddyletswyddau a chanllawiau statudol a oedd yn uniongyrchol gysylltiedig ag oedolion ag anabledd dysgu. Mae hyn wedi llywio'r ffordd y mae'r gwasanaethau hyn wedi datblygu yng Nghymru – gweler atodiad x am ragor o fanylion.

## 5.2 Beth yr ydym yn ei wybod am y boblogaeth?

Yn 2014-15, roedd cyfanswm nifer y bobl ag anabledd dysgu a oedd yn hysbys i'r gwasanaethau cyhoeddus yng Ngogledd Cymru yn 2,700, fel y dangosir yn Tabl 5.1 isod. Mae'r ffigur hwn yn seiliedig ar y cofrestrau anabledd dysgu a gedwir gan gynghorau lleol, sydd yn cynnwys dim ond y rheiny sy'n hysbys i'r gwasanaethau ac sy'n dymuno bod ar y gofrestr. Mae'n bosibl bod nifer gwirioneddol yr unigolion sydd ag anabledd dysgu yn uwch.

**Tabl 5.1** Nifer yr oedolion ar y gofrestr anabledd dysgu yng Ngogledd Cymru

| | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 290 | 293 | 303 |
| Gwynedd | 535 | 578 | 576 |
| Conwy | 450 | 455 | 463 |
| Sir Ddinbych | 389 | 413 | 409 |
| Sir y Fflint | 463 | 447 | 480 |
| Wrecsam | 500 | 490 | 470 |
| Gogledd Cymru | 2,627 | 2,676 | 2,701 |

Ffynhonnell: Data cynghorau lleol

Yn 2015, roedd tua 1,900 o oedolion rhwng 18 a 64 oed yn cael gwasanaethau anabledd dysgu gan gynghorau lleol yng Ngogledd Cymru (Llywodraeth Cymru, 2015). Amcangyfrifir bod cyfanswm nifer y bobl ag anabledd dysgu yn 2% o'r boblogaeth; mae hyn, yn fras, yn 6,100 o bobl rhwng 18 a 64 oed, sy'n byw mewn cymunedau ar hyd a lled Gogledd Cymru (Y Sefydliad Gofal Cyhoeddus, 2015). Bydd nifer o'r bobl hyn yn cael cefnogaeth gan deulu a ffrindiau, ac ni fyddant yn cael cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol.

Bu cynnydd cyffredinol o ran nifer y bobl sy'n cael gwasanaethau ledled Gogledd Cymru yn ystod y pum mlynedd diwethaf, fel y dangosir yn Tabl 5.2. Mae yna ychydig o amrywiaeth yn y data o flwyddyn i flwyddyn oherwydd y nifer bach o unigolion, y gwahaniaethau yn y meini prawf cymhwystra, a newidiadau i'r ffordd y mae'r niferoedd yn cael eu cyfrif, yn ogystal ag achosion a ddaeth i ben. Blaenoriaeth ar gyfer gwaith yn y dyfodol fydd sicrhau bod yna ddealltwriaeth a chysondeb cyffredin ledled y chwe sir yng Ngogledd Cymru o ran y ffordd y mae'r data yn cael eu cofnodi a'u dadansoddi.

Draft

**Tabl 5.2** Nifer yr oedolion rhwng 18 a 64 oed sy'n cael gwasanaethau anabledd dysgu yng Ngogledd Cymru rhwng 2010-11 a 2014-15.

| | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 200 | 150 | 170 | 180 | 180 |
| Gwynedd | 230 | 240 | 270 | 200 | 330 |
| Conwy | 340 | 380 | 410 | 420 | 400 |
| Sir Ddinbych | 240 | 260 | 280 | 290 | 300 |
| Sir y Fflint | 430 | 380 | 410 | 410 | 440 |
| Wrecsam | 290 | 280 | 280 | 290 | 280 |
| Gogledd Cymru | 1,700 | 1,700 | 1,800 | 1,800 | 1,900 |

*Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu felly efallai na fyddant yn cyfansymio*
Ffynhonnell: Oedolion sy'n cael gwasanaethau ar 31 Mawrth, ac amrediad o wasanaethau yn ystod y flwyddyn, Llywodraeth Cymru

Mae Ffigur 5.1 yn dangos y gwahaniaeth yng nghyfradd yr oedolion ag anabledd dysgu sy'n cael gwasanaethau yng Ngogledd Cymru. Mae esboniadau posibl am y gwahaniaethau rhwng y siroedd yn cynnwys gwahaniaethau rhwng y meini prawf cymhwystra ar gyfer gwasanaethau neu ddulliau cofnodi, er enghraifft mae rhai cynghorau yn nodi pobl sy'n mynychu grwpiau cymdeithasol fel rhai sy'n cael gwasanaeth, tra bo cynghorau eraill yn hepgor y bobl hynny oni bai fod y grŵp cymdeithasol yn rhan o becyn gofal mwy. Gall rhesymau eraill gynnwys y ffaith fod yna fwy o bobl ag anabledd dysgu yn byw yn yr ardaloedd hynny. Efallai bod nifer bach ohonynt yn bobl a gafodd eu hadsefydlu yn yr ardal yn dilyn cau lleoedd mewn ysbytai neu gartrefi gofal, neu oherwydd bod darpariaeth benodol ar gael, er enghraifft ysgolion arbenigol.

Mae cyfanswm nifer y bobl rhwng 18 a 64 oed yng Ngogledd Cymru sydd ag anabledd dysgu yn 480 fesul 100,000 o bobl. Mae hyn yn debyg i'r ffigur ar gyfer Cymru gyfan, sef 460 o bobl fesul 100,000 o bobl (Llywodraeth Cymru, 2015).

Draft

**Ffigur 5.1** Cyfradd yr oedolion rhwng 18 a 64 oed ag anabledd dysgu sy'n cael gwasanaethau fesul 10,000 o'r boblogaeth




Ffynhonnell: Oedolion sy'n cael gwasanaethau yn ôl cyngor lleol, categori'r cleient a grŵp oedran, Llywodraeth Cymru

## Tueddiadau yn y dyfodol

Mae amcanestyniadau cyfredol yn amcangyfrif y bydd cyfanswm nifer y bobl ag anabledd dysgu y bydd angen cefnogaeth arnynt yn cynyddu 2% bob blwyddyn hyd at 2020, ac yna yn sefydlogi (Cymdeithas Llywodraeth Leol, 2007)[1]. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cynnwys gofyniad i'r cynghorau lleol amnewid meini prawf cymhwystra cyfredol ar gyfer gwasanaethau am asesiad cyfrannol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac ar 'yr hyn sy'n bwysig' iddo. Gall hyn gynyddu'r galw am wasanaethau. Ar hyn o bryd, mae'n rhy gynnar i ragweld yn gywir nifer yr unigolion ag anghenion gofal a chymorth a fydd yn gymwys i gael cymorth statudol yn y dyfodol.

### Pobl hŷn ag anabledd dysgu

Yn 2015, roedd yna 250 o bobl 65 oed a hŷn yng Ngogledd Cymru a oedd yn cael gwasanaeth anabledd dysgu (Y Sefydliad Gofal Cymdeithasol, 2015; Llywodraeth Cymru, 2015).

Mae tueddiadau cyfredol yng Ngogledd Cymru yn dangos cynnydd yn nifer y bobl 65 oed a hŷn sy'n cael gwasanaeth anabledd dysgu, fel y dangosir yn Ffigur 5.2. Mae Tabl 5.3 yn dangos bod yna fwy o amrywiaeth o flwyddyn i flwyddyn ym mhob sir. Er enghraifft, bu cynnydd bach yng Nghonwy yn ystod y

Draft

[1] Mae dull arall yn amcangyfrif y gallai'r cynnydd fod rhwng 1% ac 8% y flwyddyn hyd at 2026, yn dibynnu pa un a fydd y gwasanaethau'n cael eu darparu ar gyfer y rheiny sydd ag anghenion critigol neu sylweddol yn unig, neu a fyddant ar gael yn fwy eang. Emerson, E. a Hatton, C. Adroddiad ymchwil CeDR 2008:6 (2008) 'Estimating future need for adult social care services for people with learning disabilities in England'. Caerhirfryn: Centre for Disability Research. Ar gael yn: http://eprints.lancs.ac.uk/21049/1/CeDR_2008-6_Estimating_Future_Needs_for_Adult_Social_Care_Services_for_People_with_Learning_Disabilities_in_England.pdf. Gallai hyn olygu y bydd angen gwasanaethau ar 470 i 2,600 yn rhagor o bobl yng Ngogledd Cymru erbyn 2026.

pum mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, gan fod y niferoedd dan sylw mor fach, nid yw'n bosibl llunio casgliadau o hyn ynghylch tueddiadau yn y dyfodol.

**Ffigur 5.2** Mae yna nifer cynyddol o bobl 65 oed a hŷn sy'n cael gwasanaeth anabledd dysgu yng Ngogledd Cymru




Ffynhonnell: Oedolion sy'n cael gwasanaethau ar 31 Mawrth, ac amrediad o wasanaethau yn ystod y flwyddyn, Llywodraeth Cymru

**Tabl 5.3** Nifer yr oedolion 65 oed a hŷn sy'n cael gwasanaeth anabledd dysgu yng Ngogledd Cymru rhwng 2010-11 a 2014-15.

| | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 7 | 9 | 13 | 24 | 27 |
| Gwynedd | 35 | 34 | 38 | 39 | 49 |
| BS Conwy | 53 | 59 | 57 | 56 | 46 |
| Sir Ddinbych | 38 | 45 | 46 | 46 | 50 |
| Sir y Fflint | 33 | 26 | 32 | 46 | 39 |
| Wrecsam | 30 | 28 | 25 | 28 | 34 |
| Gogledd Cymru | 196 | 201 | 211 | 239 | 245 |

Ffynhonnell: Oedolion sy'n cael gwasanaethau ar 31 Mawrth, ac amrediad o wasanaethau yn ystod y flwyddyn, Llywodraeth Cymru

Mae pobl ag anabledd dysgu yn byw yn hirach. Mae hyn yn rhywbeth i'w ddathlu o achos llwyddiant gwelliannau o ran iechyd a gofal cymdeithasol. Er enghraifft, bu'r newid yn y disgwyliad oes ar gyfer unigolion â Syndrom Down yn un dramatig ers yr 1930au, gan godi o 10 oed i tua 50 oed dros gyfnod o 70 mlynedd (A.J. Holland, 2000). Mae tystiolaeth yn awgrymu mai pobl hŷn yw un o'r grwpiau sy'n tyfu gyflymaf o ran y boblogaeth sydd ag anabledd dysgu (Emerson a Hatton, 2011).

Mae gan bobl hŷn ag anabledd dysgu anghenion ac ymddygiadau mwyfwy cymhleth wrth iddynt heneiddio, sy'n cynnig heriau sylweddol i'r gwasanaethau gofal, ac i'r staff sy'n gweithio yn y gwasanaethau, i ddarparu'r math cywir o gefnogaeth. Mae hyn yn cynnwys gweithio ar y cyd o ran taliadau, a datrys anghydfodau yn gyflymach (AGGCC, 2016). Mae angen cynllunio a chynnig

Draft

gwasanaethau mewn modd creadigol ac arloesol i sicrhau llesiant pobl hŷn ag anabledd dysgu.

Mae yna hefyd nifer cynyddol o ofalwyr hŷn (yn cynnwys rhieni a theulu), sy'n darparu gofal a chymorth ar gyfer pobl ag anabledd dysgu. Yn y dyfodol, efallai y bydd yna gynnydd yn y ceisiadau am gymorth gan ofalwyr hŷn na allant barhau yn eu rôl ofalu. Efallai bod y cynnydd yn yr angen oherwydd newidiadau demograffig yn fwy amlwg mewn ardaloedd gwledig, fel y dangosir ym mhatrwm yr ymyraethau brys/argyfwng yn Sir Ddinbych. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau lleol gynnig asesiad i ofalwyr am gefnogaeth i'r rheiny y maent yn gofalu amdanynt. Mae'n bwysig ystyried y canlyniadau a gyflawnir ar gyfer y gofalwyr ochr yn ochr â'r unigolyn y gofelir amdano, a chefnogi gofalwyr i gynllunio ar gyfer y dyfodol. Gweler y bennod Gofalwyr am ragor o wybodaeth.

Mae pobl ag anabledd dysgu mewn mwy o berygl o ddatblygu dementia wrth iddynt heneiddio (Ward, 2012). Amcangyfrifir bod nifer yr achosion o ddementia ymhlith pobl ag anabledd dysgu yn 13% o bobl dros 50 oed, ac yn 22% o bobl dros 65 oed o gymharu â 6% ym mhoblogaeth y bobl hŷn yn gyffredinol (Kerr, 2007). Dywed y Gwasanaeth Cyswllt Iechyd ar gyfer Anabledd dysgu yng Ngogledd Cymru fod pobl ag anabledd dysgu bedair gwaith yn fwy tebygol o gael dementia cynnar. Mae pobl â Syndrom Down yn arbennig mewn perygl, a gallant ddatblygu dementia 30-40 o flynyddoedd yn gynharach na'r boblogaeth gyffredinol, gyda chyfraddau o 40% pan fyddant tua 50 oed (Holland ac eraill, 1998).

Mae'r nifer cynyddol o bobl ag anabledd dysgu a dementia yn cynnig heriau sylweddol i'r gwasanaethau gofal, ac i'r staff sy'n gweithio yn y gwasanaethau hynny, i ddarparu'r math iawn o gefnogaeth.

**Anghenion iechyd pobl ag anabledd dysgu**

Mae pobl ag anabledd dysgu yn tueddu i fod ag iechyd gwaeth, mae mwy o angen gofal iechyd arnynt, ac maent mewn mwy o berygl o farw'n gynnar o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol (Mencap, 2012). Er enghraifft:

- Mae unigolyn ag anabledd dysgu 50 i 58 gwaith yn fwy tebygol o farw cyn cyrraedd 50 oed, a phedair gwaith yn fwy tebygol o farw o achosion y gellid bod wedi'u hatal, o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol.
- Mae pobl ag anabledd dysgu yn tueddu i fod yn llai gweithgar yn gorfforol, ac maent yn fwy tebygol o fod dros bwysau ac yn ordew na'r boblogaeth gyffredinol (Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Lerpwl, 2013).
- Mae rhwng 40 a 60% o bobl ag anabledd dysgu yn dioddef iechyd meddwl gwael heb ddiagnosis.
- Mae gan bobl ag anabledd dysgu gyfraddau uwch o ganserau gastroberfeddol a cerfigol.



Draft

- Mae gan tua 80% o bobl â Syndrom Down iechyd y geg gwael.
- Mae gan tua thraean o bobl ag anabledd dysgu epilepsi (o leiaf 20 gwaith yn fwy na'r boblogaeth gyffredinol), ac mae gan fwy ohonynt epilepsi y mae'n anodd ei reoli.
- Mae pobl ag anabledd dysgu yn llai tebygol o gael gofal lliniarol (Michael, 2008).
- Mae pobl ag anabledd dysgu yn fwy tebygol o gael eu derbyn i'r ysbyty fel achos brys, o gymharu â'r rheiny heb anabledd dysgu (Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Lerpwl, 2013). Efallai bod hyn oherwydd problemau o ran cael mynediad at ofal a diffyg cynllunio o flaen llaw.

Mae pobl ag anabledd dysgu yn aml yn cael profiadau gwaeth o'r gwasanaethau iechyd oherwydd problemau o ran cyfathrebu. Er enghraifft, gall hyn arwain at weithwyr iechyd proffesiynol yn taflu diagnosis i'r cysgod, gan briodoli symptomau ymddygiad yr unigolyn i'w anabledd dysgu yn hytrach nag i salwch. Gall hyn fod yn broblem benodol pan nad yw'r anghenion am gefnogaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu diwallu (MENCAP, 2007; Llywodraeth Cymru, 2016). Mae cynghorau lleol ac iechyd yn mynd i'r afael â'r materion hyn trwy ddatblygu gwybodaeth hygyrch i bobl ag anabledd dysgu i wella cyfathrebu, gan gynnwys pasbortau ysbyty a system goleuadau traffig.

Yn aml, nid oes gan bobl ag anabledd dysgu gystal mynediad at ddeunydd hybu iechyd a gwasanaethau triniaeth gynnar; er enghraifft gwasanaethau sgrinio am ganser, adolygiadau diabetes blynyddol, cyngor ar ryw a pherthnasoedd, a chymorth o ran atal cenhedlu (Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Lerpwl, 2013). Mae'r Gwasanaeth Cyswllt Iechyd ar gyfer Anabledd dysgu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn gweithio ar hyd a lled Gogledd Cymru i godi ymwybyddiaeth a lleihau anghydraddoldebau. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys hyrwyddo archwiliadau iechyd blynyddol a chynlluniau gweithredu iechyd i gefnogi pobl i fod yn gyfrifol am eu hanghenion iechyd eu hunain, ac i ddweud sut y maent yn dymuno i'r anghenion hyn gael eu diwallu.

### Pobl ifanc ag anghenion cymhleth

Mae datblygiadau meddygol wedi cael effaith gadarnhaol, gyda mwy o bobl ifanc ag anghenion cymhleth iawn yn goroesi i fod yn oedolion (Emerson a Hatton, 2008). Bydd rhaid i wasanaethau addasu i sicrhau eu bod yn gallu diwallu anghenion y bobl ifanc hyn wrth iddynt symud i'r gwasanaethau oedolion.

Gweler y bennod Plant a phobl ifanc am ragor o wybodaeth.

### Tueddiadau eraill yn y dyfodol

Mae yna hefyd newidiadau o ran disgwyliadau teuluoedd ynghylch hawliau pobl ag anabledd dysgu i fywyd annibynnol (Emerson a Hatton, 2008). Mae'r Ddeddf newydd yn cefnogi annibyniaeth pobl, ond mae'n rhoi mwy o bwyslais ar rôl y

teulu, ffrindiau a'r gymuned leol o ran darparu cymorth, yn hytrach na'r gwasanaethau cymdeithasol. Bydd rhaid i gynghorau lleol egluro'r newidiadau hyn yn glir neu 'mae yna berygl y bydd yr un set o amgylchiadau ar gyfer unigolyn ag anabledd dysgu yn cael ei hystyried mewn moddau gwahanol iawn, gyda'r awdurdod lleol yn ei hystyried yn enghraifft gadarnhaol o wasanaethau cymdeithasol cynaliadwy, a gynhyrchir ar y cyd, a'r unigolyn ei hun yn ei hystyried yn gyfyng-gyngor dryslyd ac ynysol' (AGGCC, 2016).

## Proffil y Gymraeg

Mae yna amrywiaeth ledled Gogledd Cymru o ran cyfran y bobl y mae'r Gymraeg yn iaith a ffefrir ganddynt. Mae hyn yn golygu bod yna anghenion amrywiol ledled Gogledd Cymru o ran staff cymorth sy'n siarad Cymraeg ac sy'n gallu cefnogi iaith ac anghenion diwylliannol siaradwyr Cymraeg ag anabledd dysgu. Mae'r angen yn tueddu i gael ei ddiwallu'n well mewn ardaloedd lle mae mwy o bobl yn siarad Cymraeg, er enghraifft Gwynedd, nag mewn ardaloedd tebyg i Sir Ddinbych a Chonwy, lle mae recriwtio staff cymorth sy'n siarad Cymraeg wedi bod yn dasg anodd (AGGCC, 2016). Gweler Proffil y Gymraeg am ragor o wybodaeth.

## Pontio rhwng gwasanaethau plant ac oedolion

Ar y cyfan, mae cefnogaeth ar gyfer pobl ifanc ag anabledd dysgu wrth iddynt ddod yn oedolion yn gweithio'n dda (AGGCC, 2016). Nododd un sefydliad y broblem nad oedd pob cyngor lleol yn darparu gweithiwr cymdeithasol neu dîm pontio i gydgysylltu a rheoli materion yn ystod cyfnodau pontio plant â Syndrom Down (Cyngor Sir Ynys Môn *et al.*, 2016).

Mae'r cynghorau lleol yng Ngogledd Cymru yn adolygu polisïau ac ymarfer i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'u dyletswyddau i wella canlyniadau, iechyd a llesiant a nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Disgwylir i gynghorau weithio mewn partneriaeth ag iechyd a sefydliadau trydydd sector a'r sector cymunedol i ddatblygu ystod o wasanaethau ataliol i gefnogi annibyniaeth. Mae'r pwyslais ar ddarparu cefnogaeth cydgysylltiedig, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n gweithio gydag ef i reoli ei anghenion ei hun, yn hytrach na gwneud penderfyniadau ar ei ran, ac ar ddatblygu mwy o gefnogaeth a ddarperir gan y gymuned, yn y gymuned.

## Gwahaniaethau rhwng cymunedau yng Ngogledd Cymru

Gall yr angen am gefnogaeth ffurfiol gan y gwasanaethau cymdeithasol amrywio o ganlyniad i brofiadau a disgwyliadau amrywiol unigolion, teuluoedd a chymunedau yng Ngogledd Cymru. Mae yna wahaniaethau rhwng cymunedau o ran y graddau y mae pobl wedi cysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol am gefnogaeth, gyda rhai ardaloedd yn nodi bod rhai teuluoedd yn amharod i gael cefnogaeth nes bo'r sefyllfa yn troi'n argyfwng. Dywed rhai siroedd fod hyn yn fwy cyffredin mewn ardaloedd gwledig. Er enghraifft, mae taenlen cofnodion



Draft

achos ac anghenion tai Sir Ddinbych yn dangos tystiolaeth o deuluoedd nad oes arnynt eisiau trafod anghenion o ran tai yn y dyfodol. Gall hyn arwain at debygolrwydd uwch o orfod cynnig lleoliadau argyfwng. Roedd siroedd eraill yn adrodd ar ganfyddiadau tebyg.

## Diogelu

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio bod oedolyn mewn perygl: os yw'n cael ei gam-drin, neu os yw mewn perygl o gael ei gam-drin; os oes ganddo anghenion gofal a chymorth (pa un a yw'r awdurdod yn diwallu'r anghenion hynny ai peidio) ac, o ganlyniad i'r anghenion hynny, nid yw'n gallu ei amddiffyn ei hun rhag cael ei gam-drin neu ei esgeuluso, neu rhag y perygl.

Wrth ddiogelu oedolion mewn perygl, dylai cynghorau lleol ofalu bod unigolion yn teimlo eu bod yn bartner cyfartal yn eu perthynas â gweithwyr proffesiynol, a dylent fod yn agored i unrhyw unigolyn sy'n dymuno gwahodd rhywun o'i ddewis i'w gefnogi i gymryd rhan lawn ac i fynegi ei farn, ei ddymuniadau neu ei deimladau. Gyda'r ddeddfwriaeth newydd hon ar waith, darperir cyfle newydd i gynghorau lleol a phartneriaid adolygu ein dulliau ledled y rhanbarth, rhoi ein dysg ar waith, a chanolbwyntio ar sicrhau bod yr oedolyn mewn perygl bob amser wrth galon ein gwaith i'w gefnogi.

Yn y flwyddyn 2015/16, roedd yna 4,000 o gyfeiriadau ar gyfer oedolion mewn perygl yng Nghymru. O'r rhain, roedd 15% o'r cyfeiriadau ar gyfer oedolion rhwng 18 a 65 oed ag anabledd dysgu, ac roedd 1% o'r cyfeiriadau ar gyfer oedolion 65 oed a hŷn ag anabledd dysgu.

Mae'n bosibl y bydd yna ddryswch rhwng materion diogelu ac ymarfer gwael staff y mae ar ddarparwyr gofal angen mynd i'r afael ag ef. Rhaid i gyfeiriadau nad ydynt yn bodloni'r trothwy diogelu gael eu sgrinio gan dimau'r oedolion mewn perygl sy'n gwneud ymholiadau ac sy'n pennu'r camau nesaf. Mae hyfforddiant ar gyfer darparwyr yn cael ei ystyried yn faes i'w wella.

Mae oedolion ag anabledd dysgu yn agored i gael eu cam-drin a'u hecsbloetio, a gall hyn ddigwydd mewn lleoliadau yn y gymuned ac mewn lleoliadau preswyl (NICE, 2015). Yn 2014/15, cofnodwyd 2,500 o achosion o droseddau casineb ar sail anabledd, a oedd yn gynnydd o 22% ers y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, efallai bod rhai o'r rhain oherwydd gwelliannau o ran cofnodi gan yr heddlu, yn hytrach na chynnydd yn nifer y troseddau (Y Swyddfa Gartref, 2015). Mae data o Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (CSEW) yn amcangyfrif bod yna 70,000 o droseddau casineb y flwyddyn, yn fras, a ysgogir gan anabledd (Y Swyddfa Gartref, 2015). Mae angen bod yn fwy ymwybodol o droseddau casineb ar sail anabledd a'r gweithdrefnau, gan ddatblygu gwell perthnasoedd a dealltwriaeth ledled y rhanbarth. Mae angen i ni weithio gyda'n gilydd i ddatblygu diwylliant lle mae pobl yn herio gwahaniaethu a throseddau casineb, a lle mae pobl ag anabledd dysgu yn teimlo eu bod yn gallu lleisio eu barn.



Draft

Mater newydd a nodir gan staff yw'r angen cynyddol i ddarparu mwy o gefnogaeth i bobl o ran defnyddio'r Rhyngrwyd (yn cynnwys y cyfryngau cymdeithasol a chwilio am gariad ar y Rhyngrwyd) oherwydd pryderon o ran diogelu. Pryder arall yw y gall penderfyniadau i ddiogelu oedolion ag anabledd dysgu beri iddynt fod yn llai diogel os gwneir y penderfyniadau i amddiffyn y sawl sy'n gwneud y penderfyniad, ac i'w hatal rhag cael mynediad at bethau sy'n gwella eu llesiant, er enghraifft technoleg (Gofal yn y Gymuned, 2015).

Mae yna bryderon hefyd ynghylch cam-drin domestig, a diwallu anghenion pobl o wahanol gefndiroedd diwylliannol a chrefyddol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ym mhennod x Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Trafodir y materion hyn yn fwy manwl yn adran 5.3 ‘Beth y mae pobl yn ei ddweud wrthym?’.

Yn gyffredinol, mae lefel y gwariant ar wasanaethau anabledd dysgu wedi bod y cynyddu, ond erbyn hyn rydym yn wynebu cefnogi mwy o bobl gyda llai o arian o ganlyniad i ostyngiad mewn setliadau cynghorau lleol, cau'r Gronfa Byw'n Annibynnol (ILF), a chyfyngiadau cyllido o ran Cefnogi Pobl.

## 5.3 Beth y mae pobl yn ei ddweud wrthym?

Mae'r Bartneriaeth Anabledd dysgu Ranbarthol yn canolbwyntio ar symud ymlaen â gwell gwasanaethau, yn seiliedig ar gyd-ddealltwriaeth ledled y chwe chyngor lleol ac iechyd. Mae strategaeth cyfranogiad a fframwaith canlyniadau rhanbarthol wedi cael eu datblygu i sicrhau bod “y bartneriaeth yn effeithiol ac yn canolbwyntio ar ddinasyddion, a'i bod yn diwallu anghenion pobl ag anabledd dysgu a'u teuluoedd”. (Cadeiryddion, Partneriaeth Anabledd dysgu Ranbarthol, Partneriaeth Anabledd dysgu Gogledd Cymru, Y Strategaeth Cyfranogiad)

Mae cyfranogi o ran anabledd dysgu yn cael ei gydgysylltu ledled y chwe chyngor gan Swyddog Cyfranogiad Rhanbarthol. Mae gan bob sir ei fforwm/rhwydwaith cyfranogiad lleol wedi'i gefnogi gan eiriolaeth. Mae'r cydgysylltydd yn cefnogi'r fforymau lleol i gymryd rhan, cynllunio digwyddiadau, a dod ynghyd i ddylanwadu ar y gwasanaethau anabledd dysgu ar hyd a lled Gogledd Cymru. Mae'r grŵp rhanbarthol wedi penderfynu gweithio ar y pynciau isod (Partneriaeth Anabledd dysgu Gogledd Cymru, 2015)

1. **Hamdden.** Roedd y digwyddiad a drefnwyd yn amlygu'r ffaith bod pobl ag anabledd dysgu yn aml yn ei chael yn anodd mynd i ddigwyddiadau cymdeithasol gyda'r nos, neu fod yn rhaid iddynt adael yn gynnar oherwydd newidiadau staff neu oherwydd problemau o ran cludiant. Mae staff a oedd yn bresennol o'r rhanbarth yn gweithio ar syniadau i alluogi pobl i ‘aros i fyny'n hwyr’. Gall hyn olygu bod cynghorau lleol yn ailysgrifennu contractau â darparwyr. Penderfynodd y grŵp cyfranogiad hyrwyddo ‘Grŵp

cyfeillgarwch' sy'n cael ei redeg yng Nghonwy ar hyn o bryd gan unigolyn ag anabledd dysgu, i'w ailadrodd ledled y siroedd.

2. **Lle mae pobl yn byw.** Ar y cyfan, mae pobl ag anabledd dysgu yng Ngogledd Cymru yn hapus â lle maent yn byw. Mae'r problemau y maent yn dod ar eu traws yn tueddu i ymwneud â'r ffordd y mae cefnogaeth yn cael ei ddarparu, yn enwedig pan nad yw'n hyblyg. Er enghraifft, dywedodd un unigolyn bod yn rhaid iddi roi rhybudd o 24 awr cyn y gallai gael gafael ar arian. Oherwydd hyn, methodd brynu ffrog a welodd yn y farchnad. Er mwyn helpu gyda hyn, mae'r grŵp wedi ysgrifennu llyfr o'r enw 'Sut i'm helpu i', y gall pobl ag anabledd dysgu ei gadw er mwyn mynegi eu barn, ac i helpu staff cymorth i ddeall sut y byddai'n well ganddynt gael eu cefnogi.




3. **Iechyd.** Mae yna nifer o fentrau yng Ngogledd Cymru i helpu i wella iechyd pobl ag anabledd dysgu. Yn ei ddigwyddiad nesaf, bydd y grŵp yn gweithio ar ba mor dda y mae pobl yn ymwybodol o'r mentrau hyn, a sut i gynyddu nifer y bobl sy'n manteisio arnynt. Mae'r rhain yn cynnwys:
    - Archwiliadau iechyd blynyddol.
    - Nyrs anabledd dysgu wedi'i lleoli yn yr ysbyty, a all helpu pobl ag anabledd dysgu i gyfathrebu ac i lenwi'r asesiad goleuadau traffig.
    - Taflenni iechyd cyhoeddus sy'n hawdd eu darllen ac sy'n ymwneud ag archwiliadau iechyd.
    - Cyfleoedd i wneud ymarferion corfforol ac i fwyta'n iach.

Mae'r grŵp hefyd yn ystyried ansawdd gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer pobl ag anabledd dysgu.

Mae materion eraill a nodwyd gan y grŵp yn cynnwys cyflogaeth a thâl am gyflogaeth; cadw'n ddiogel tra byddant yn mynd o gwmpas neu'n defnyddio'r Rhyngrwyd; a throseddau casineb. Mae grŵp a oedd yn anelu at leihau stigma wedi cynhyrchu poster a fideo sy'n annog pobl i ddweud wrth yr heddlu am ddigwyddiadau o droseddau casineb ar sail anabledd (Cyswllt Conwy, 2014).

Amlygwyd yr angen am swyddi â chyflog gan grwpiau trafod a gynhaliwyd i lywio'r asesiad poblogaeth, a hynny er mwyn rhoi ymdeimlad o hunan-werth ac i gydnabod cyfraniad gwerthfawr unigolion i'r gymdeithas. Dywedodd pobl ag anabledd dysgu hefyd y byddent yn hoffi cael mwy o gyfleoedd i ymuno'n gymdeithasol â grwpiau o bob rhan o'r gymdeithas, nid dim ond y rhai a drefnir ar gyfer pobl ag anabledd dysgu. Thema arall oedd yr angen i gael cludiant da er mwyn cael mynediad at wasanaethau (problem benodol mewn ardaloedd gwledig), a mynegodd nifer o bobl awydd i ddysgu gyrru.

Draft

Canfu adolygiad o gynlluniau person ganolog yn Sir Ddinbych fod pobl ag anabledd dysgu yn dweud mai'r pethau a oedd yn gweithio'n dda oedd eu cartrefi (y bobl y maent yn byw gyda hwy, a'r hyn y maent yn ei wneud gartref) a hamdden (mynd allan, a bod yn rhan o'u cymuned). Ymhlith y pethau newydd a gafodd eu crybwyll ac a oedd yn gweithio'n dda oedd cael mynediad at dechnoleg, er enghraifft Wi-Fi a gliniadur, a meddyginiaeth wedi'i reoli'n dda. Ar y llaw arall, roedd y pethau nad oeddent yn gweithio'n dda yn cynnwys symudedd ac iechyd (yn enwedig heneiddio, symud o gwmpas, neu effeithiau cynyddol problemau iechyd cronig), ac ymdopi â phryderon a rheoli ymddygiadau. Ymhlith y pethau newydd a gafodd eu crybwyll yr oedd problemau'n ymwneud â'r amgylchedd tai (yn aml, pethau bychain oedd y rhain, ond roeddent yn cael effaith fawr), cyfeillgarwch, perthnasoedd ac unigrwydd (dywedodd pobl eu bod yn dymuno cael mwy o ffrindiau) (Cyngor Sir Ddinbych, 2016).

## Adborth gan sefydliadau partner

Amlygodd holiadur a ddosbarthwyd ar gyfer yr asesiad poblogaeth fod pobl am gael eu trin yn gyfartal â gweddill y boblogaeth; roedd angen help arnynt i deimlo'n rhan o'r gymuned ac i'w mynegi eu hunain (Cyngor Sir Ynys Môn *et al.*, 2016). Yn arbennig, mae sefydliadau yn teimlo nad oes yna ddigon o gefnogaeth neu gyfleoedd i bobl ag anabledd dysgu weithio, ac nad oes yna ddigon o gefnogaeth neu gyfleoedd iddynt ddatblygu perthnasoedd newydd.

Nodwyd ganddynt hefyd ddiffyg cymorth lefel isel hirdymor ar gyfer pobl ag anabledd dysgu nad ydynt yn cyrraedd y trothwy ar gyfer diagnosis o anabledd dysgu, ac na fyddant fyth yn gallu cynnal tenantiaeth dai yn annibynnol.

## Adborth gan staff

Cynhaliwyd ymgyngoriadau â staff i lywio'r asesiad poblogaeth, ac mae'r materion a godwyd yn cael eu hadlewyrchu trwy gydol y bennod hon. Am ragor o wybodaeth, gweler yr adroddiad ar y broses ymgysylltu â staff [add link].

## Ymgynghoriad cenedlaethol (AGGCC, 2016)

Pan ofynnwyd iddynt am eu hanghenion, siaradodd y rhan fwyaf o bobl am eu perthynas â'u rheolwr gofal a staff eraill. Roedd y pryderon yn ymwneud yn bennaf â dibynadwyedd (cyrraedd yn brydlon); teyrngarwch (gwneud yr hyn a addawyd); ac argaeledd (cael rheolwr gofal yn y lle cyntaf).

Roedd y canfyddiadau o ran darparu gofal a chymorth effeithiol fel a ganlyn:

- Mae angen i ni wella ansawdd yr wybodaeth am yr help a all fod ar gael. Pryderon ynghylch fformat yr wybodaeth – er enghraifft, gormod o eiriau, maint ffont rhy fach, a dim digon o luniau.
- Pryderon ynghylch teimlo'n fregus ac mewn perygl yn y gymuned. Dywedodd pobl:

Draft

> ‘Dwi'n poeni pan fydda i yn adeiladau'r cyngor – mae pobl yn chwerthin, a dwi'n gadael’
>
> ‘Roedd pobl yn y gymuned yn galw enwau arna i a'm teulu’
>
> ‘Weithiau mae'r cyrbiau'n rhy uchel i nghadair olwyn, a dydy'r llwybrau ddim yn ddigon llydan, felly dwi'n poeni y bydda i'n disgyn i'r ffordd, neu os ydw i'n mynd i'r ffordd dwi'n poeni y bydda i'n cael fy nharo’.

Nodwyd hefyd dri mater trawsbynciol:

1. Mae ansawdd a dibynadwyedd y berthynas â staff (yn cynnwys rheolwyr gofal) yn hanfodol i gyflawni canlyniadau cadarnhaol ar gyfer nifer o bobl ag anabledd dysgu.

2. Dylai'r berthynas ‘helpu’ ganolbwyntio ar hyrwyddo a chefnogi hawliau pobl ag anabledd dysgu, gan gynnwys eu hawl i fynegi ac arfer eu dewis.

3. Dylai'r mynegiant o ddewis gael ei danategu gan broses gadarn o asesu risg a rheoli risg, er mwyn i bobl deimlo mor ddiogel â phosibl wrth iddynt afael mewn cyfleoedd newydd.

## 5.4 Pa gymorth sydd ar gael ar hyn o bryd?

Yn aml, mae angen cymorth ar bobl ag anabledd dysgu gyda sawl agwedd ar eu bywydau, yn cynnwys:

- lle maent yn byw (er enghraifft, gofal preswyl neu dai â chymorth);
- beth y maent yn ei wneud yn ystod y dydd (cyflogaeth/profiad gwaith);
- eu bywydau cymdeithasol;
- cael egwyl (seibiant).

Gallant gael y cymorth hwn gan eu ffrindiau a'u teuluoedd neu eu cymuned leol, yn ogystal â chan gynghorau lleol, gwasanaethau iechyd a/neu y trydydd sector.

Mae cynghorau lleol ledled Gogledd Cymru yn parhau i symud i ffwrdd oddi wrth ddarparu cartrefi gofal tuag at fyw yn y gymuned a modelau eraill o dai â chymorth. Mae'r Ddeddf newydd wedi cynyddu'r pwyslais ar gymorth, sy'n annog cynnydd ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau wrth gaffael cymorth ar gyfer pobl.

Canfuwyd y canlynol gan yr Arolygiad Cenedlaethol o Ofal a Chymorth ar gyfer pobl ag anabledd dysgu (AGGCC, 2016):

> ‘Mae ansawdd y gofal a chymorth ar gyfer nifer o bobl ag anabledd dysgu yng Nghymru yn dibynnu'n fawr ar effeithiolrwydd y gwasanaethau cymdeithasol llinell flaen a'r staff iechyd sy'n eu cefnogi. I'r rheiny sydd â gofalwyr teuluol, dycnwch a phendantrwydd eu perthnasau sydd hefyd yn aml yn hanfodol i'r canlyniadau y maent yn eu cyflawni. Yn gyffredinol, mae'r gwasanaethau cymdeithasol a staff iechyd yn gweithio'n dda gyda'i

Draft

> gilydd ar lefel unigol ac ar lefel tîm. Fodd bynnag, mae angen i arweinwyr ar bob lefel wneud llawer mwy i gefnogi eu staff, trwy weithio mewn partneriaeth â phobl ag anabledd dysgu a gofalwyr teuluol i lywio gofal a chymorth ar gyfer y dyfodol.
>
> Mae yna enghreifftiau lle mae'r gwasanaethu cymdeithasol ac iechyd yn meddwl ac yn cynllunio ar y cyd ar gyfer yr hirdymor, ac yn siarad â phobl am eu syniadau a'u cynlluniau, ac yn gwrando arnynt. Fodd bynnag, mae yna ormod o achosion lle nad yw hyn yn digwydd yn effeithiol ar ran pobl ag anabledd dysgu.’

Mae'r adroddiad yn cynnwys 13 o argymhellion ar gyfer ymarferwyr, arweinwyr a'r rheiny sy'n llunio polisïau. Mae'r tri argymhelliad cyntaf, y mae'r asesiad poblogaeth hwn yn mynd i'r afael â hwy, yn ymwneud â deall yr angen.

Mae argymhellion pedwar i naw yn ymwneud â darparu gofal a chymorth effeithiol, gan gynnwys: adolygu trefniadau sicrhau ansawdd; rhannu arfer gorau; egluro trefniadau diogelu oedolion; cryfhau gwaith cyswllt iechyd; darparu offer; ac ystyried y Broses Gofal Iechyd Parhaus i weld a ellir gwneud gwelliannau.

Mae argymhellion 10 i 13 yn ymwneud ag arwain mewn partneriaeth â phobl.

## Tai â chymorth: mae hyn yn cynnwys lleoli mewn Cartrefi Gofal, Byw yn y Gymuned a Lleoli Oedolion

Fel y dangosir yn Ffigur 5.3 mae'r mwyafrif o bobl ag anabledd dysgu yng Ngogledd Cymru yn byw gyda'u rhieni (mae'r patrwm hwn yn wahanol i'r boblogaeth gyffredinol). Tai â chymorth arbenigol yw'r trefniant byw mwyaf cyffredin nesaf, ac mae'n cynnwys byw yn y gymuned a lleoli oedolion. Mae'r gyfran leiaf o bobl ag anabledd dysgu yn byw mewn gofal preswyl a gofal mewn sefydliad, sy'n adlewyrchu faint o gymorth sy'n cael ei roi i gefnogi pobl i aros yn eu cartrefi. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, datblygwyd nifer o gynlluniau 'wedi'u teilwra', ar hyd a lled y rhanbarth, ar gyfer byw yn y gymuned, a hynny yn fodd i helpu pobl i symud allan o Gartrefi Gofal.

Draft

**Ffigur 5.3** Mae'r mwyafrif o bobl ag anabledd dysgu sydd dros 16 oed yng Ngogledd Cymru yn byw mewn lleoliadau yn y gymuned gyda'u rhieni/teulu (a)




Ffynhonnell: Oedolion sy'n cael gwasanaethau ar 31 Mawrth, ac amrediad o wasanaethau yn ystod y flwyddyn, Llywodraeth Cymru

Mae'r categori 'Arall' yn cynnwys lleoliadau iechyd a lleoliadau meithrin

Bu symudiad tuag at drefniadau byw â chymorth oddi wrth gartrefi gofal. Gellir dangos hyn trwy nifer y Cynlluniau Byw yn y Gymuned a ddatblygwyd ym mhob ardal cyngor lleol yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

- Ynys Môn: Cynnydd o 7 uned: 2 uned un person, yn ogystal â chynyddu uned amlberson o 3 i 4. Roedd yna gynnydd o 4 o ran lleoli oedolion.
- Gwynedd: 2 yn y flwyddyn ddiwethaf, yn cynnwys 1 prosiect adeilad newydd, a datblygwyd 1-2 y flwyddyn, yn fras, yn ystod y pum mlynedd diwethaf.
- Conwy: 5 cynllun newydd (yn ogystal â 2 a gyrchwyd gan y teuluoedd gyda chymorth a ddarparwyd trwy Daliad Uniongyrchol)
- Sir Ddinbych: datblygwyd 8 cynllun newydd
- Sir y Fflint: Rhoddwyd 5 Cynllun Byw yn y Gymuned ar waith yn ystod y 5 mlynedd diwethaf.
- Wrecsam: datblygwyd 12 eiddo newydd/wedi'i ailfodelu, mae 1 yn cael ei adeiladu, ac mae tir yn cael ei gyrchu ar hyn o bryd ar gyfer 1 prosiect

**Anghenion o ran tai yn y dyfodol**

Ers yr 1980au, mae pob cyngor lleol ledled Gogledd Cymru wedi datblygu model o dai â chymorth a rennir, o'r enw byw yn y gymuned. I'r mwyafrif, ystyrir hyn yn fwy priodol na lleoliadau hirdymor mewn cartrefi gofal, gan ei fod yn golygu bod pobl yn denantiaid yn eu rhinwedd eu hunain, a bod ganddynt lawer mwy o reolaeth dros eu patrymau byw beunyddiol. Mae'n galluogi pobl i fyw mewn tŷ cyffredin yn rhan o'u cymuned.

Mae'r Ddeddf newydd yn pwysleisio'r angen i fod yn rhan o'r gymuned. Er bod y model hwn o dai a rennir wedi gweithio'n dda ar y cyfan, mae yna hefyd angen i edrych ar fodelau eraill ar gyfer byw yn y gymuned. Mewn modelau cyfredol, mae pobl yn byw gyda'i gilydd am 10-20 mlynedd (neu fwy mewn rhai achosion). Mae eu hanghenion yn newid yn ystod y cyfnod hwn, ac mae'n

Draft

anodd dod o hyd i gyfatebiaeth dda ar gyfer pobl dros y cyfnod hwn o amser. Mae modelau tai newydd yn cynnwys darparu ‘eu drws ffrynt eu hunain’ gyda chymorth.

Tra bydd unigolyn yn byw mewn cynllun tai â chymorth, bydd yn cael gofal a/neu gymorth cartref i hybu annibyniaeth. Mae'r gofal y mae'n ei gael fel arfer ar wahân i'r llety. Mae angen gweithio gyda darparwyr gwasanaethau byw â chymorth i ddatblygu rhagor o fodelau sy'n seiliedig ar ganlyniadau o ran darparu gwasanaethau. Mae angen dylunio'r rhain i sicrhau bod pobl yn cael gwasanaethau wedi'u personoli i ddiwallu anghenion eu hasesiadau, fel y nodir yn eu cynlluniau cymorth unigol.

Y nod yw cyflwyno rhagor o fodelau blaengar o ran darparu gwasanaethau, sy'n gam tuag at fwy o annibyniaeth, ac sy'n hybu cynhwysiant cymdeithasol ac integreiddio i'r gymuned leol. Bydd y cymorth y mae unigolyn yn ei gael yn newid wrth i anghenion yr unigolyn newid. Yn gyffredinol, wrth i bobl gysylltu mwy â'u cymunedau a datblygu eu rhwydweithiau cymorth eu hunain, disgwylir y bydd eu hangen am ofal cymdeithasol yn gostwng, a bydd y cymorth yn cael ei addasu mewn ymateb i'r sefyllfa newidiol.

Mae gwaith rhanbarthol ar y gweill i adolygu trefniadau contractio ar gyfer cytundebau fframwaith o ran gofal cartref a byw â chymorth. Y nod yw datblygu marchnad gynaliadwy yng Ngogledd Cymru gydag amrediad o ddarparwyr, gan ddarparu gofal a chymorth i ddiwallu'r ystod amrywiol o anghenion (yn cynnwys anghenion cymhleth) ledled Gogledd Cymru, a pharhau i leihau nifer y lleoliadau y tu allan i'r sir.

Mae hefyd angen darparu cymorth tai i bobl na allant bellach fyw gartref, er enghraifft os na all eu teuluoedd ofalu amdanynt mwyach, neu drefnu cymorth tai ar eu cyfer. Yn aml, mae unigolion a'u teuluoedd yn ei chael hi'n anodd meddwl am y dyfodol, ond pan fydd gofalwr yn marw, bydd adeg anodd iawn yn mynd yn fwy anodd os nad oes cynlluniau ar waith, ac os bydd rhaid i'r gwasanaethau cymdeithasol ddod o hyd i gartref newydd i'r unigolyn ar frys. Mae Tabl 5.4 isod yn amcangyfrif o nifer y bobl ag anabledd dysgu sy'n byw gyda gofalwyr hŷn yng Ngogledd Cymru.

Drafft

**Tabl 5.4** Amcangyfrif o nifer y bobl ag anabledd dysgu sy'n byw gyda gofalwyr 60 oed a hŷn.

| | 2016 (a) |
|---|---|
| Ynys Môn | 27 |
| Gwynedd | 75 |
| Conwy | 50 |
| Sir Ddinbych | 50 |
| Sir y Fflint | 60 |
| Wrecsam | 60 |
| Gogledd Cymru | 322 |

Ffynhonnell: Data cyngor lleol
Noder: Amcangyfrifwyd yn seiliedig ar ddyddiad geni yr unigolyn ag anabledd dysgu, nid y gofalwr.
Mae'r ffigurau hyn wedi'u hamcangyfrif gan na chofnodir dyddiadau geni gofalwyr fel arfer.

Mae dadansoddiad o'r anghenion tai ym mhob sir yn dangos anghenion tebyg, yn cynnwys:

- Gwell gwasanaeth ysbaid sydd wedi'i foderneiddio, i ddarparu mwy o gyfleoedd i bobl iau er mwyn iddynt allu cael egwyl hirach, a allai olygu y byddant yn gallu aros gartref yn hirach. Mae aros gartref yn cael ei ystyried yn rhywbeth cadarnhaol, ac mae'n adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd ym mhoblogaeth y bobl ifanc yn gyffredinol. Mae pobl ifanc ag anabledd dysgu yn aml yn dibynnu ar fudd-daliadau, a bydd gallu fforddio eu cartrefi eu hunain yn dod yn fwyfwy o broblem oherwydd y newidiadau o ran yr hawl i gael budd-daliadau, a'r cap arfaethedig o ran budd-daliadau tai. Gall ysbaid roi hyfforddiant sgiliau i bobl i'w paratoi ar gyfer symud i denantiaeth.
- Ysbaid ar gyfer pobl ag anghenion cymhleth ac ymddygiad heriol.
- Llety hirdymor ar gyfer pobl ag anghenion cymhleth/ymddygiad heriol, a fydd yn galluogi pobl i ddychwelyd adref i'w sir o leoliadau y tu allan i'r sir.
- Mae llety ar gyfer pobl iau (cyfnod pontio) yn debygol o fod yn seiliedig ar fflat un ystafell gydag ardaloedd cyffredinol, gwasanaeth gofalwr/warden cyffredinol, a chymorth ychwanegol wedi'i gomisiynu, fel y bo'r angen, sy'n seiliedig ar asesiad. Byddai'n diwallu anghenion: pobl dan 35 oed lle mae fforddiadwyedd yn broblem; plant sy'n gadael gofal; pobl â hanes o fân gollfarnau.
- Mae angen datblygu dewisiadau eraill yn lle modelau traddodiadol o fyw yn y gymuned, yn cynnwys fflatiau gofal ychwanegol ar gyfer pobl ag anabledd dysgu (eu drws ffrynt eu hunain, cymorth a rennir), a model tai sy'n gwbl hygyrch ac sy'n cael ei gefnogi'n helaeth ar gyfer byw'n annibynnol.
- Llety mewn hostel: ar hyn o bryd, prin yw'r cyfleoedd am lety mewn hostel sy'n addas i bobl ag anabledd dysgu; byddai'r math hwn o lety yn llety byrdymor.
- Mae angen cynllunio i ddiwallu anghenion pobl, sydd ar hyn o bryd yn byw gyda gofalwyr hŷn, o ran tai yn y dyfodol.
- Mae yna alw am dai â chymorth yn seiliedig ar denantiaeth ar gyfer unigolion o bob oed.

Draft

- Ehangu ar y Cynllun Lleoli Oedolion/Cysylltu Bywydau – mae angen cyflogi mwy o alluogwyr.
- Tai wedi'u haddasu ar gyfer unigolion â nam ar eu golwg/synhwyrau.

Her i gynghorau lleol fyddai darganfod digon o dai o ansawdd da i ddiwallu'r ystod eang o anghenion sydd gan bobl ag anabledd dysgu, ac i roi mwy o ddewis i unigolion ynghylch lle maent yn byw, gyda phwy maent yn byw, a phwy sy'n eu cefnogi. Mae cynghorau lleol yng Ngogledd Cymru yn parhau i archwilio opsiynau eraill o ran tai gyda rhanddeiliaid allweddol, yn cynnwys datblygwyr eiddo, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, adrannau tai a chymdeithasau tai, ac i gydweithio i ddod o hyd i ddatrysiadau arloesol o ran tai ar gyfer pobl ag anabledd dysgu. Gall hyn gynnwys gwaith dylunio ac addasu gwell o ran eiddo cyfredol, yn ogystal â dysgu o arfer da a phrosiectau tai llwyddiannus mewn ardaloedd eraill, er enghraifft syniadau ar gyfer defnyddio technoleg gynorthwyol yn well i gefnogi annibyniaeth.

Roedd y gwaith ymgysylltu o ran yr asesiad poblogaeth hefyd yn amlygu angen sydd heb ei ddiwallu yn rhanbarthol mewn perthynas â lleoliadau nyrsio o'r raddfa flaenaf, wedi'u hariannu ar y cyd, ar gyfer oedolion ag anabledd dysgu difrifol sydd ag anghenion yn ymwneud ag iechyd. Mae yna bobl yn Ysbyty Bryn y Neuadd y mae dod o hyd i leoliadau ar eu cyfer wedi bod yn dasg anodd, oherwydd nad oes unman y gallant fynd a all ddelio'n ddigonol â'u hanghenion.

Yn gyffredinol, dywedodd pobl ag anabledd dysgu fod tai yn gweithio'n dda iddynt. Gweler adran 5.3 ‘Beth y mae pobl yn ei ddweud wrthym?’ am ragor o wybodaeth.

## Cyfleoedd dydd

Ystyr *cyfleoedd dydd* yw cymorth ffurfiol ar gyfer pobl yn ystod yr wythnos waith, sy'n cael ei ddarparu i ffwrdd oddi wrth eu cartref – mae hyn yn cynnwys cyfleoedd gwaith sy'n tueddu i fod â ffocws galwedigaethol neu sydd wedi'u lleoli mewn lleoliad busnes. Mae gan bob sir gymysgedd o fentrau Taliadau Uniongyrchol, mentrau mewnol, mentrau sector annibynnol a mentrau cymdeithasol, gydag ystod o wasanaethau a gweithgareddau seiliedig ar waith ym mhob cyngor lleol.

Mae *menter gymdeithasol* yn fusnes sy'n ailfuddsoddi ei elw yn ôl i mewn i'w wasanaethau neu i'r gymuned. Mae *cwmni cydweithredol* yn grŵp sy'n gweithio gyda'i gilydd yn wirfoddol i ddiwallu angen economaidd a chymdeithasol. Mae'n ddyletswydd newydd ar gynghorau lleol i hyrwyddo mentrau cymdeithasol sy'n cynnwys pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth. Mae cyfleoedd yn ystod y dydd yn faes yr hoffem annog mentrau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol i'w darparu.

Draft

## Gwasanaethau ysbaid

Mae gan bob sir wasanaethau ysbaid sy'n cynnig egwyl i deuluoedd. Mae'r trefniadau'n amrywio o sir i sir, ond maent yn cynnwys 'gwelyau' ysbaid mewn Cartrefi Gofal, Lleoli Oedolion ar gyfer ysbaid, gwyliau byr, a'r defnydd o Daliadau Uniongyrchol.

## Gwasanaethau cymorth – cyfleoedd o ran cymdeithasu a hamdden

Mae pobl ag anabledd dysgu yn aml yn wynebu rhwystrau o ran cael mynediad at gyfleoedd cymdeithasu neu hamdden, er enghraifft efallai na allant yrru, neu efallai bod angen cymorth arnynt i ddefnyddio cludiant cyhoeddus. Pe na fyddai cynghorau lleol y darparu'r cymorth hwn, yna ni fyddai rhai pobl yn gallu cael bywyd cymdeithasol. Mae llawer o'r datrysiadau yn rhai cost isel, ac mae gan bob sir ffordd wahanol o ariannu'r gwasanaethau hyn. Ariennir rhai yn rhan o ddarpariaeth arall, er enghraifft darparwr sy'n cynnal nosweithiau disgo. Mae eraill yn defnyddio grantiau bach (naill ai gan y Cyngor neu gyllidwyr eraill) neu drefniadau anffurfiol. Mae'r ddarpariaeth yn amrywio, yn dibynnu ar y galw a'r ddaearyddiaeth. Mae yna gyfleoedd i sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn cael eu harwain fwy gan y defnyddiwr. Er enghraifft, y 'Grŵp Cyfeillgarwch' sy'n cael ei redeg ar hyn o bryd yng Nghonwy gan unigolyn ag anabledd dysgu.

## Cymorth Gweithredol

Mae Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol y gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt, wedi'i ddylunio i sicrhau bod iechyd a llesiant yn ganolog i'r gwaith datblygu o ran darparu gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys cymorth priodol ar gyfer pobl ag anableddau dwys a lluosog. Efallai na fydd rhai unigolion yn gallu siarad, a bod eu hymddygiadau yn herio gwasanaethau. Mae rhai siroedd yn hyfforddi staff mewnol ac yn gweithio gyda sefydliadau allanol sy'n ymarfer cymorth gweithredol, ac sy'n defnyddio dulliau cyfathrebu gweithredol.

Mae cymorth gweithredol yn ddull ar gyfer pobl ag anghenion dwys, na allant wneud gweithgareddau nodweddiadol yn annibynnol, ac mae iddo dair cydran:

1. Rhyngweithio i Hybu Cyfranogiad. Bydd y bobl sy'n cefnogi'r unigolyn yn dysgu sut i roi iddo'r lefel gywir o gymorth er mwyn iddo allu gwneud yr holl weithgareddau dydd i ddydd nodweddiadol sy'n codi mewn bywyd.

2. Cynlluniau Cymorth Gweithredol. Mae'r rhain yn darparu ffordd o drefnu tasgau yn y cartref, hunanofal personol, hobïau, trefniadau cymdeithasol a gweithgareddau eraill y mae ar unigolion angen neu eisiau eu gwneud bob dydd, ac i weithio allan pa gymorth sydd ar gael er mwyn gallu cwblhau gweithgareddau yn llwyddiannus.

Draft

3. Cadw Golwg. Ffordd o gofnodi'n syml y cyfleoedd sydd gan bobl bob dydd, sy'n caniatáu i ansawdd yr hyn sy'n cael ei drefnu gael ei fonitro, ac i welliannau gael eu gwneud ar sail y dystiolaeth.

Mae gan bob cydran system ar gyfer cadw golwg ar gynnydd, sy'n rhoi adborth i dîm y staff, ac sy'n llywio adolygiadau rheolaidd (Jones *et al.*, 2014).

### Gwasanaethau eraill a ffynonellau cymorth

*Cyllid Grant*

Mae'r Gronfa Byw'n Annibynnol (ILF) wedi cael ei diddymu, ac mae swm llai o arian wedi cael ei drosglwyddo i gynghorau lleol.

Mae cyllid Cefnogi Pobl yn cefnogi nifer o brosiectau tai arbenigol ar gyfer pobl ag anabledd dysgu. Cafodd y cyllid ei dorri yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a disgwylir i doriadau barhau, gan roi'r prosiectau hyn mewn perygl.

*Iechyd*

Yng Ngogledd Cymru, mae gennym wasanaeth nyrs gyswllt i gefnogi dulliau o gyfathrebu â phobl ag anabledd dysgu yn yr ysbyty.

*Gwybodaeth*

Mae Dewis Cymru yn darparu gwybodaeth am gymorth a leolir yn y gymuned ledled y rhanbarth.

*Gwasanaethau Eirioli*

Gweler y cyflwyniad am ragor o wybodaeth am eiriolaeth.

## 5.5 Casgliad ac argymhellion

### Y prif ganfyddiadau

- **Demograffeg:** Mae nifer y bobl ag anabledd dysgu y mae angen cefnogaeth arnynt yn cynyddu, ac mae pobl ag anabledd dysgu yn byw'n hirach. Mae'r tueddiadau demograffig hyn y debygol o barhau. Mae nifer cynyddol y bobl sydd ag anabledd dysgu a dementia yn cynnig heriau sylweddol i'r gwasanaethau gofal, ac i'r staff sy'n gweithio yn y gwasanaethau hynny, i ddarparu'r math iawn o gymorth.
- **Anghenion iechyd:** Mae pobl ag anabledd dysgu yn tueddu i gael iechyd gwaeth, mae mwy o angen gofal iechyd arnynt, ac maent mewn mwy o berygl o farw'n gynnar o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol.
- **Pobl ifanc ag anghenion cymhleth:** Bydd angen i wasanaethau addasu i sicrhau eu bod yn gallu diwallu anghenion pobl ifanc ag anghenion cymhleth, wrth iddynt symud i wasanaethau oedolion.



Draft

- **Agweddau a disgwyliadau:** Mae'r rhan fwyaf o unigolion am gael lefel uwch o annibyniaeth a bod yn rhan allweddol o'u cymuned, neu maent yn disgwyl hynny. Gall hyn gynnwys rhieni hŷn nad ydynt erioed wedi gofyn am gymorth, neu ofalwyr sy'n darganfod nad yw'r cymorth yr oeddent yn ei ddisgwyl yn cael ei ddarparu bellach, neu ei fod yn cael ei ddarparu mewn ffordd wahanol.
- **Pontio rhwng gwasanaethau plant ac oedolion:** Mae hyn yn gweithio'n dda ar y cyfan, a bydd y gwasanaethau cymdeithasol yn canolbwyntio fwyfwy ar ddull integredig a fydd yn helpu gyda'r broses bontio.
- **Cyllid:** Mae lefel y gwariant ar wasanaethau anabledd dysgu wedi bod yn codi, ond erbyn hyn rydym yn wynebu cefnogi mwy o bobl gyda llai o arian.
- **Deddfwriaeth:** Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn newid y ffordd yr ydym yn gweithio, yn cynnwys y ffordd yr ydym yn canfod yr hyn sy'n bwysig i bobl, a'r ffordd y mae pobl yn cael eu cefnogi.
- **Darpariaeth sy'n bodoli:** Ar hyn o bryd, mae cymorth yn cael ei ddarparu, yn gyffredinol, gan aelodau o'r teulu agos a/neu staff gofal hirdymor cyflogedig.

## Argymhellion

1. Cefnogi gofalwyr hŷn, a sicrhau eu bod yn cael y cymorth a'r gwasanaethau ysbaid y mae eu hangen arnynt. Dylai hyn gynnwys gwasanaethau ‘cynllunio ymlaen llaw’ ar gyfer teuluoedd, sy'n cynnwys gwaith i nodi gofalwyr cudd, ac i asesu eu hanghenion o ran cymorth.
2. Iechyd a gwasanaethau cymdeithasol i weithio'n well gyda'i gilydd, gan sicrhau bod digon o gefnogaeth ar gael ar gyfer materion iechyd pobl hŷn ag anabledd dysgu, yn cynnwys pobl â dementia.
3. Parhau i gefnogi pobl ag anabledd dysgu i gael mynediad at ofal iechyd trwy'r Gwasanaethau Cyswllt Iechyd ar gyfer Anabledd dysgu, a hynny trwy ddatblygu gwybodaeth hygyrch i bobl ag anabledd dysgu er mwyn gwella dulliau cyfathrebu, a chefnogi darparwyr gofal iechyd i adnabod yn well bobl ag anabledd dysgu er mwyn iddynt wneud ‘addasiadau rhesymol’ i'w gofal. Hybu mynediad at wasanaethau hyrwyddo iechyd a thriniaeth gynnar.
4. Darparu modelau cymorth cynaliadwy ar y cyd rhwng iechyd a gofal cymdeithasol i ddiwallu anghenion unigolion ag anghenion cymhleth. Dylai hyn gynnwys mynd i'r afael ag angen sydd heb ei ddiwallu am leoliadau nyrsio o'r raddfa flaenaf, wedi'u hariannu ar y cyd, ar gyfer oedolion ag anabledd dysgu difrifol sydd ag anghenion yn ymwneud ag iechyd.
5. Staff cymorth i reoli disgwyliadau sy'n newid o ran cymorth ar gyfer pobl ag anabledd dysgu, yn cynnwys y newidiadau sy'n ofynnol gan y ddeddf newydd.
6. Recriwtio mwy o staff cymorth sy'n siarad Cymraeg.

Draft

7. Darparu mwy o gymorth ar gyfer pobl o ran cadw'n ddiogel wrth ddefnyddio'r Rhyngrwyd.
8. Annog mwy o gymorth anffurfiol, di-dâl, i leihau'r ddibyniaeth ar gymorth ffurfiol cyflogedig. Byddai hyn yn helpu i hwyluso cyfeillgarwch a bywydau cymdeithasol ehangach ar gyfer pobl ag anabledd dysgu, y tu hwnt i ofalwyr cyflogedig.
9. Recriwtio mwy i'r cynllun Cysylltu Bywydau/Lleoli Oedolion.
10. Datblygu'r ddarpariaeth o dechnoleg gynorthwyol ar gyfer pobl ag anabledd dysgu.
11. Parhau i archwilio a datblygu opsiynau o ran tai er mwyn diwallu anghenion pobl ag anabledd dysgu, a hynny mewn partneriaeth â sefydliadau eraill.

## Agenda datblygu data

- Sicrhau bod yna ddealltwriaeth gyffredin a chysondeb ledled y chwe sir yng Ngogledd Cymru o ran y ffordd y caiff data eu cofnodi a'u dadansoddi.
- Gwneud mwy o waith dadansoddi i gefnogi gwasanaethau oedolion er mwyn cynllunio ar gyfer anghenion pobl ifanc ag anghenion cymhleth.

## Cydraddoldeb a hawliau dynol

Mae'r bennod hon yn cynnwys yr heriau a wynebir gan bobl ag anabledd dysgu, ynghyd â rhai o'r ffyrdd y gallwn weithio gyda'n gilydd i ddiwallu'r anghenion hyn. Efallai y bydd gan bobl ag anabledd dysgu nodweddion eraill a ddiogelir, a'u bod o dan anfanteision ychwanegol oherwydd y rheiny. Mae'r bennod yn trafod materion penodol a wynebir gan bobl hŷn ag anabledd dysgu a phobl ag anableddau dwys a lluosog, yn ogystal â'r defnydd o'r Gymraeg. Bydd angen i waith yn y dyfodol roi ystyriaeth i faterion gwahanol sy'n effeithio ar fenywod a dynion, pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol (LGBT), pobl Dduon, Asiaidd ac o Leiafrifoedd Ethnig (BAME), yn ogystal â chredoau crefyddol unigolion.

Efallai y bydd yna faterion eraill sy'n effeithio ar grwpiau o bobl sy'n rhannu nodweddion a ddiogelir, sydd heb eu nodi yn yr asesiad hwn. Byddem yn croesawu unrhyw dystiolaeth benodol bellach a allai helpu i lywio’r asesiad terfynol. Gellid mynd i'r afael â hwy wrth adolygu'r asesiad poblogaeth yn y dyfodol, wrth ddatblygu'r cynllun ardal, neu yn y gwasanaethau sy’n cael eu datblygu neu eu newid mewn ymateb i'r cynllun.

Draft

## Atodiad 1: Trosolwg ar Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Bydd hwn yn cael ei gynnwys fel un atodiad ar gyfer pob pennod ...

Ar lefel genedlaethol, mae'r ffordd y bydd awdurdodau lleol yn trefnu ac yn darparu cymorth i oedolion ag anabledd dysgu yn cael ei lywio gan Ddeddf newydd Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r Ddeddf hon, a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2016, yn disodli'r ddeddfwriaeth flaenorol ar gyfer darparu gofal cymdeithasol, ac mae'n sylfaen i fframwaith statudol newydd ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru. Bydd yn gweddnewid y ffordd y darperir gwasanaethu cymdeithasol, gan hybu annibyniaeth pobl, a rhoi mwy o reolaeth a llais cryfach iddynt.

Mae nifer o'r egwyddorion a'r nodau cefnogol eisoes yn tanategu'r newidiadau a gyflwynwyd ledled y Gwasanaethau Cymdeithasol, ac mae cynghorau lleol wedi bod yn paratoi ar gyfer gweithredu'r Ddeddf, gyda phwyslais cryf ar hyfforddiant a datblygiad staff.

**Sut y bydd pethau'n newid o ganlyniad i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014?**
Bydd y Ddeddf yn gwneud y canlynol:

- Rhoi llais cryfach i bobl, yn ogystal â rheolaeth weinyddol dros y gwasanaethau gofal cymdeithasol y maent yn eu defnyddio, a bydd yn helpu i ddarparu ar gyfer eu hanghenion newidiol. Bydd hi'n sbardun i ddatblygu modelau gwasanaeth newydd sy'n cynnal ac yn gwella llesiant pobl mewn angen.
- Hyrwyddo gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar, yn seiliedig ar fwy o weithio mewn partneriaeth ac integreiddio gwasanaethau rhwng awdurdodau lleol a phartneriaid.
- Sefydlu Asesiadau sy'n Canolbwyntio ar Ganlyniadau ar gyfer unigolion a'u gofalwyr. Bydd y rhain yn canolbwyntio ar y canlyniadau sy'n bwysig i'r unigolion, ac nid yn unig ar eu cymhwystra i gael gwasanaeth penodol.
- Sefydlu meini prawf cymhwystra cenedlaethol. Asesir pobl ar sail eu hanghenion yn hytrach nag ar sail y gwasanaethau sydd ar gael yn lleol.
- Cryfhau pwerau diogelu plant ac oedolion, er mwyn i bobl agored i niwed gael eu diogelu'n fwy effeithiol yn ein cymdeithas.
- Hyrwyddo Taliadau Uniongyrchol – estyn yr ystod o wasanaethau sydd ar gael trwy daliadau uniongyrchol, sy'n golygu y bydd gan bobl fwy o reolaeth dros y gwasanaethau y maent yn eu defnyddio.
- Darparu asesiadau symudol – os bydd pobl yn symud o un rhan o Gymru i'r llall, ni fydd gofyn i'w hanghenion gael eu hailasesu os nad yw'r rhain wedi newid.

Draft

- Sefydlu hawliau cyfatebol i ofalwyr, fel bod pobl sy'n gofalu am rywun, er enghraifft perthynas neu gyfaill oedrannus neu anabl, yn cael yr un hawliau â'r unigolyn y maent yn gofalu amdano.

Yn ogystal, mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol o ran darparu'r canlynol i bobl:

- Gwybodaeth a Chyngor sy'n berthnasol i ofal a chymorth; a
- Help llaw â chael mynediad at ofal a chymorth.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: http://www.cgcymru.org.uk/y-ddeddf/?force=2

Mae'r gwaith ymgysylltu a wnaed yn genedlaethol o ran effaith y Ddeddf yn pwysleisio pwysigrwydd helpu pobl ag anabledd dysgu i ddeall y newidiadau. Dywed awduron yr adroddiad, 'Heb hyn, mae yna berygl y bydd yr un set o amgylchiadau ar gyfer unigolyn ag anabledd dysgu yn cael ei hystyried mewn moddau gwahanol iawn, gyda'r awdurdod lleol yn ei hystyried yn enghraifft gadarnhaol o wasanaethau cymdeithasol cynaliadwy, a gynhyrchir ar y cyd, a'r unigolyn ei hun yn ei hystyried yn gyfyng-gyngor dryslyd ac ynysol. Yn olaf, rhaid pwysleisio bod yna dystiolaeth o'r arolygiad cenedlaethol fod llawer o bobl eisoes yn dibynnu mwy ar eu teuluoedd nag ar y gwasanaethau am gymorth'. (AGGCC, 2016)

Draft

## Atodiad 2: Sut y mae canllawiau cenedlaethol wedi llywio gwasanaethau anabledd dysgu

**Deddfwriaeth genedlaethol:** Mae yna ddyletswydd statudol ar y cyngor lleol i ddarparu gwybodaeth a/neu i drefnu cymorth (a llety, mewn rhai achosion) o dan Ddeddf Cymorth Gwladol 1948, Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 a Deddf y GIG a Gofal Cymunedol 1990. Rhaid asesu pob unigolyn trwy ddefnyddio Mynediad Teg at Ofal.

**1983: Y Strategaeth ar gyfer Cymru Gyfan (1983) a'r Canllawiau Diwygiedig (1994)** Roedd y Strategaeth ar gyfer Cymru Gyfan yn cydnabod hawliau pobl ag anabledd dysgu i batrymau bywyd normal yn y gymuned, i gael eu trin fel unigolion, ac i gael help a chymorth ychwanegol gan y cymunedau y maent yn byw ynddynt, a chan wasanaethau proffesiynol, er mwyn datblygu eu potensial.

Ers cyflwyno'r Strategaeth ar gyfer Cymru Gyfan, cafwyd llwyddiannau sylweddol ar hyd a lled Cymru, gan gynnwys y rhaglen cau ysbytai ac adleoli, mwy o wasanaethau dydd lleol wedi'u lleoli yn y gymuned, a sefydlu cynlluniau byw yn y gymuned.

Mae ‘byw yn y gymuned’ yn galluogi pobl i fyw fel tenantiaid mewn eiddo ‘cyffredin’ yn eu cymuned eu hunain. Yng Ngogledd Cymru, mae effaith y Strategaeth ar gyfer Cymru Gyfan wedi bod yn sylweddol, yn enwedig mewn perthynas â symud i ffwrdd oddi wrth ofal mewn sefydliad, gyda byw yn y gymuned bellach wedi'i sefydlu fel yr opsiwn a ffefrir ar gyfer y rhan fwyaf o bobl y mae arnynt angen byw i ffwrdd oddi wrth gartref y teulu.

Yn nhermau gweithgareddau yn ystod y dydd, rydym hefyd wedi gweld symudiad i ffwrdd oddi wrth wasanaethau dydd arunig, mawr, a thuag at ‘fusnesau’ a leolir mwy yn y gymuned.

**2001: Cyflawni'r Addewidion:** Yn 2001, cyhoeddodd y Grŵp Cynghori ar Anabledd dysgu eu cynigion o ran fframwaith ar gyfer gwasanaethau i bobl ag anabledd dysgu. Roedd yr adroddiad, ‘Cyflawni'r Addewidion’, yn amlinellu gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau sy'n seiliedig ar egwyddorion y Strategaeth ar gyfer Cymru Gyfan. Roedd yn sefydlu nifer o egwyddorion allweddol mewn meysydd megis cyflogaeth, byw yn y gymuned, ac anghenion o ran iechyd.

**2004: Canllawiau Adran 7 – Egwyddorion Gwasanaethau ac Ymatebion Gwasanaethau:** Er bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud yng Nghymru ers sefydlu'r Strategaeth ar gyfer Cymru Gyfan gyntaf, roedd yna gydnabyddiaeth bod angen datblygiad pellach. Mewn ymateb i hyn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ganllawiau Adran 7 ar egwyddorion Gwasanaethau ac Ymatebion Gwasanaethau yn 2004, gan ddyrannu cyllid grant ar gyfer prosiectau a oedd yn cefnogi'r canllawiau hyn.

Roedd y papur gwyn **Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu**, a gyhoeddwyd yn 2011, yn amlinellu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ac yn amlygu'r heriau sy'n wynebu'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Draft

# Cyfeiriadau

Gofal yn y Gymuned (2015) *Decisions to safeguard adults with learning disabilities can make them less safe*. Ar gael yn: http://www.communitycare.co.uk/2015/04/21/decisions-safeguard-adults-learning-disabilities-can-make-less-safe/.

Cyswllt Conwy (2014) *Reducing Stigma*. Ar gael yn: http://www.conwy-connect.org.uk/category/engagement-service/reducing-stigma/.

AGGCC (2016) 'National inspection of care and support for people with learning disabilities'. Ar gael yn: http://cssiw.org.uk/our-reports/national-thematic-report/2016/national-inspection-care-and-support-for-people-with-learning-disabilities/?lang=en (Cyrchwyd: 26 Gorffennaf 2016).

Yr Adran Iechyd (2001) 'Valuing People: A new Strategy for Learning Disability in the 21st Century'. Llundain: Yr Adran Iechyd.

Emerson, E. a Hatton, C. Adroddiad ymchwil CeDR 2008:6 (2008) 'Estimating future need for adult social care services for people with learning disabilities in England'. Caerhirfryn: Centre for Disability Research. Ar gael yn: http://eprints.lancs.ac.uk/21049/1/CeDR_2008-6_Estimating_Future_Needs_for_Adult_Social_Care_Services_for_People_with_Learning_Disabilities_in_England.pdf.

Emerson, E. a Hatton, C. (2011) 'Estimating future need for social care among adults with Learning Disabilities in England: An Update'. Arsyllfa Anabledd dysgu. Ar gael yn: http://www.improvinghealthandlives.org.uk/uploads/doc/vid_10673_IHaL2011-05FutureNeed.pdf (Cyrchwyd: 27 Ionawr 2016).

Emerson, E. a Heslop, P. (2010) 'A working definition of Learning Disabilities'. Improving health and lives: Arsyllfa Anabledd dysgu.

Holland, A. J. (2000) 'Ageing and learning disability', *The British Journal of Psychiatry*, 176, tt. 26-31.

Holland, A. J., Hon, J., Huppert, F. A., Stevens, F. a Watson, P. (1998) 'Population based study of the prevalence and presentation of dementia in adults with Down's syndrome.', *British Journal of Psychiatry*, 172, tt. 493-498.

Y Swyddfa Gartref (2015) *Hate crime, England and Wales, 2014 to 2015*. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/statistics/hate-crime-england-and-wales-2014-to-2015.

Y Sefydliad Gofal Cyhoeddus (2015) *Daffodil: Projecting the need for care services in Wales*. Ar gael yn: **http://www.daffodilcymru.org.uk/** (Cyrchwyd: 27/01/2016).

Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir Y Fflint, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (2016) 'Asesiad poblogaeth Gogledd Cymru: Dadansoddiad o'r adborth gan sefydliadau'.

Draft

Jones, E., Perry, J., Lowe, K., Allen, D., Toogood, S. a Felce, D. (2014) 'Active Support: A handbook for supporting people with learning disabilities to lead full lives'. ARC Cymru. Ar gael yn: http://arcuk.org.uk/activesupport/2012/03/17/handbook/ (Cyrchwyd: 30 Awst 2016).

Kerr, D. (2007) 'Understanding Learning Disability and Dementia: Developing Effective Interventions'. Llundain: Jessica Kingsley Publishers.

Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Lerpwl (2013) 'Learning disabilities and autism: A health needs assessment for children and adults in Merseyside and North Cheshire'. Ar gael yn: https://www.liverpool.ac.uk/media/livacuk/instituteofpsychology/researchgroups/lpho/94,HNA,for,learning,disabilities,full,summary,,,recommendations.pdf.

Cymdeithas Llywodraeth Leol (2007) 'Vulnerable people wanting to live healthy, independent lives'.

MENCAP (2007) 'Death by indifference: Following up the 'Treat me right!' report' *Following up the Treat me right! report*. Ar gael yn: https://www.mencap.org.uk/sites/default/files/2016-06/DBIreport.pdf (Cyrchwyd: 26 Gorffennaf 2016).

Mencap (2012) 'Death by indifference: 74 deaths and counting' *A progress report 5 years on*. Ar gael yn: https://www.mencap.org.uk/sites/default/files/2016-08/Death%20by%20Indifference%20-%2074%20deaths%20and%20counting.pdf (Cyrchwyd: 16 Tachwedd 2016).

Michael, J. (2008) 'Healthcare for all: report of the independent inquiry into access to healthcare for people with learning disabilities'. Ar gael yn: http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20130107105354/http:/www.dh.gov.uk/en/Publicationsandstatistics/Publications/PublicationsPolicyAndGuidance/DH_099255 (Cyrchwyd: 16 Tachwedd 2016).

NICE (2015) *Challenging behaviour and learning disabilities: prevention and interventions for people with learning disabilities whose behaviour challenges*. Ar gael yn: https://www.nice.org.uk/guidance/ng11/chapter/introduction.

Partneriaeth Anabledd dysgu Gogledd Cymru (2015) 'Adroddiad gwerthuso: Digwyddiad Partneriaeth Anabledd dysgu Gogledd Cymru 26 Mawrth 2015'.

Ward, C. (2012) 'BILD Factsheet: Older people with a learning disability'. Sefydliad Anabledd dysgu Prydain.

Llywodraeth Cymru (2015) 'Casglu data ar reoli perfformiad gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer oedolion (PM2)'. Ar gael yn: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Adult-Services/Service-Provision/adultsreceivingservices-by-localauthority-clientcategory-age.

Llywodraeth Cymru (2016) 'Mwy na geiriau' *Fframwaith Strategol Olynol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol 2016-2019*. Ar gael yn: http://gov.wales/docs/dhss/publications/160317morethanjustwordscy.pdf (Cyrchwyd: 26 Gorffennaf 2016).

Draft

Drafft

# 6 Iechyd meddwl

**Cynnwys**

6 Iechyd meddwl ....1

6.1 Ynglŷn â’r bennod hon ....2

Beth yw ystyr y term iechyd meddwl? ....2

Sut y bydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn newid pethau? ....3

Diogelu ....3

6.2 Beth yr ydym yn ei wybod am y boblogaeth? ....3

6.3 Beth y mae pobl yn ei ddweud wrthym? ....11

6.4 Adolygiad o’r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd ....15

6.5 Casgliad ac Argymhellion ....19

Atodiad 1: Crynodeb o ddeddfwriaeth a pholisi iechyd meddwl ....22

Cyfeiriadau ....23

Draft

## 6.1 Ynglŷn â’r bennod hon

Mae'r bennod hon yn cynnwys anghenion y boblogaeth o ran anghenion iechyd meddwl oedolion. Mae gwybodaeth am grwpiau eraill o'r boblogaeth i'w gweld yn y penodau:

- Plant a phobl ifanc [Ychwanegu dolen]
- Pobl hŷn: am wybodaeth am ddementia, fodd bynnag, mae dementia cynnar yn cael ei drafod yn y bennod hon [Ychwanegu dolen]
- Anableddau dysgu ac awtistiaeth: mae’r asesiad poblogaeth wedi tynnu sylw at y ffordd nad yw’r adrannau gwasanaeth presennol yn gweithio, efallai, i bobl ar y sbectrwm awtistig. Mae rhagor o wybodaeth i’w gweld yma [Ychwanegu dolen].
- Gofalwyr [Ychwanegu dolen]

I gael gwybodaeth am gamddefnyddio sylweddau, gweler asesiad angen y Bwrdd Cynllunio Ardal [Ychwanegu dolen]

### Beth yw ystyr y term iechyd meddwl?

Mae Sefydliad Iechyd y Byd (2014) wedi diffinio iechyd meddwl fel a ganlyn:

> "cyflwr o lesiant lle mae pob unigolyn yn gwireddu ei botensial ei hun, yn gallu ymdopi â straen arferol bywyd, yn gallu gweithio'n gynhyrchiol ac yn llwyddiannus, ac yn gallu cyfrannu at ei gymuned"

Mae Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 yn cynnwys pedair ffordd wahanol bosibl y bydd angen cymorth ar bobl:

- Gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol: gwasanaethau y ceir mynediad atynt trwy atgyfeiriad gan feddyg teulu.
- Cydlynu gofal a chynllunio gofal a thriniaeth: ar gyfer pobl â phroblemau iechyd meddwl y mae angen cymorth mwy arbenigol arnynt (a ddarperir yn yr ysbyty neu yn y gymuned), a oruchwylir gan 'Gydlynydd Gofal' proffesiynol megis seiciatrydd, seicolegydd, nyrs neu weithiwr cymdeithasol.
- Pobl sydd wedi defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol o’r blaen: gallant ofyn am ailasesiad gan y gwasanaeth iechyd meddwl.
- Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol: ar gyfer pobl sy'n cael gofal eilaidd.

Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn cwmpasu pobl yng Nghymru a Lloegr nad ydynt yn gallu gwneud rhai penderfyniadau drostynt eu hunain, neu nad ydynt yn gallu gwneud unrhyw benderfyniadau. Yr enw ar y gallu i ddeall a gwneud penderfyniad yw 'galluedd meddyliol'. Mae'r Ddeddf Galluedd Meddyliol yn ei gwneud yn ofynnol i gydlynwyr gofal dybio bod *gan* unigolyn alluedd, ac mae hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer Eiriolwyr Galluedd Meddyliol

Draft

Annibynnol a/neu 'Aseswyr Lles Gorau' i gefnogi pobl sydd heb alluedd meddyliol i wneud penderfyniadau.

### Sut y bydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn newid pethau?

Mae egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn debyg i'r rheiny a fabwysiadwyd eisoes gan y gwasanaethau iechyd meddwl yng Ngogledd Cymru. Mae gwaith rhanbarthol yn cael ei wneud i sicrhau bod dogfennaeth yn cydymffurfio â'r ddeddf, a bod cynlluniau gofal a thriniaeth sy'n ofynnol o dan y Mesur Iechyd Meddwl yn cyd-fynd â'r gofynion asesu o dan y ddeddf newydd. Am ragor o wybodaeth am y ddeddf, gweler atodiad x

I gael rhagor o wybodaeth am y ddeddfwriaeth a'r canllawiau sy'n ymwneud ag iechyd meddwl, gweler atodiad x.

### Diogelu

Mae'r materion diogelu ar gyfer oedolion ag anghenion iechyd meddwl yn debyg i faterion diogelu poblogaeth yr oedolion yn gyffredinol. Mae angen i bobl nad oes ganddynt y galluedd i wneud penderfyniadau ynghylch ble maent yn byw, ac am eu trefniadau cynllunio gofal, gael eu hasesu ar gyfer Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS). Nod y trefniadau diogelu yw sicrhau bod y bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas yn cael 'llais' fel bod eu hanghenion, eu dymuniadau a'u teimladau yn cael eu hystyried, a bod pobl yn gwrando arnynt pan fydd penderfyniadau pwysig yn cael eu gwneud amdanynt.

Mae yna ddiffiniad newydd o 'oedolyn mewn perygl', dyletswydd ar bartneriaid perthnasol i roi gwybod am oedolion mewn perygl, a dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud ymholiadau a ddylai helpu i ddiogelu oedolion mewn perygl, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion cymorth iechyd meddwl.

## 6.2 Beth yr ydym yn ei wybod am y boblogaeth?

Amcangyfrifir y bydd 1 o bob 4 o bobl yn y DU bob blwyddyn yn dioddef problem iechyd meddwl (Mind, 2016), a allai gynnwys gorbryder neu iselder. Yn Arolwg Iechyd Cymru, dywedodd 13% o'r ymatebwyr eu bod yn cael triniaeth am salwch meddwl, sydd yn gynnydd bychan ers cychwyn yr arolwg yn 2003/4 (Llywodraeth Cymru, 2015b).

**Mae pobl yng Ngogledd Cymru yn adrodd bod eu iechyd meddwl ychydig yn well na iechyd meddwl pobl Cymru gyfan**

MaeFfigur 6.1yn dangos sut y mae ymatebwyr yn adrodd am eu hiechyd meddwl, gan ddefnyddio sgôr gryno'r gydran feddyliol lle mae sgoriau uwch yn dynodi iechyd gwell. Mae hyn yn dangos bod pobl yng Ngogledd Cymru yn adrodd am iechyd meddwl sydd ychydig yn well na phoblogaeth Cymru gyfan,



Draft

ac y bu gostyngiad bychan (gwaethygiad) mewn sgoriau ar gyfer lles meddyliol ers 2009-10.

**Ffigur 6.1** Sgôr y crynodeb o'r elfen feddyliol (mae sgoriau uwch yn dynodi iechyd gwell)




Ffynhonnell: Arolwg Iechyd Cymru (a welwyd)

MaeTabl 6.1yn dangos sgôr y crynodeb o'r elfen feddyliol ar gyfer pob sir. Mae'r gwahaniaethau rhwng y siroedd yn eithaf bach, ac mae amrywiad rhyngddynt o flwyddyn i flwyddyn. At ei gilydd, mae gan Wrecsam y sgoriau isaf ac mae gan Gwynedd ac Ynys Môn y sgoriau uchaf, gyda gwahaniaeth o 2 bwynt rhyngddynt.

**Tabl 6.1** Sgôr y crynodeb o'r elfen feddyliol (mae sgoriau uwch yn dynodi iechyd gwell)

| | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 50.8 | 51.0 | 51.5 | 51.4 | 51.1 |
| Gwynedd | 50.9 | 51.3 | 51.3 | 51.1 | 51.4 |
| Conwy | 51.1 | 50.3 | 50.2 | 50.3 | 50.6 |
| Sir Ddinbych | 50.6 | 50.9 | 50.5 | 50.1 | 50.5 |
| Sir y Fflint | 51.3 | 50.6 | 50.4 | 50.7 | 50.3 |
| Wrecsam | 50.2 | 50.4 | 50.0 | 49.3 | 49.6 |
| Gogledd Cymru | 50.8 | 50.7 | 50.6 | 50.4 | 50.5 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, (Arolwg Iechyd Cymru, a welwyd)

Mae Ffigur 6.2 yn dangos canran yr oedolion sy'n adrodd eu bod yn cael triniaeth am salwch meddwl.

**Ffigur 6.2** Canran yr oedolion (16 oed a hŷn) sy'n adrodd eu bod yn cael triniaeth ar hyn o bryd am salwch meddwl.




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (Arolwg Iechyd Cymru)

**Mae nifer y bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl yn debygol o gynyddu**

Gellir defnyddio data o Arolwg Iechyd Cymru i weld sut y mae'r niferoedd yn newid dros amser. Cafodd Ffigur 6.3 a Thabl 6.2 eu cynhyrchu o nifer yr achosion o Arolwg Iechyd Cymru a'u cymhwyso i amcanestyniadau poblogaeth hyd at 2035. Mae hyn yn dangos y rhagwelir y bydd nifer yr oedolion yng Ngogledd Cymru sydd â phroblem iechyd meddwl gyffredin yn cynyddu o 93,000 i tua 99,000 erbyn 2035. Efallai y bydd y niferoedd yn cynyddu ymhellach os bydd cynnydd hefyd yn y ffactorau risg ar gyfer iechyd meddwl gwael, er enghraifft diweithdra; incwm is; dyledion; trais; digwyddiadau bywyd llawn straen; a thai annigonol.

Draft

**Ffigur 6.3** Nifer y bobl 16 oed a hŷn y rhagwelir y bydd ganddynt broblem iechyd meddwl gyffredin, Gogledd Cymru, 2015 i 2035




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Daffodil

**Tabl 6.2** Nifer y bobl 16 oed a hŷn y rhagwelir y bydd ganddynt broblem iechyd meddwl gyffredin, Gogledd Cymru 2015 i 2035

| | 2015 | 2020 | 2025 | 2030 | 2035 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 9,400 | 9,300 | 9,300 | 9,300 | 9,300 |
| Gwynedd | 17,000 | 17,000 | 17,000 | 17,000 | 18,000 |
| BS Conwy | 16,000 | 16,000 | 16,000 | 16,000 | 16,000 |
| Sir Ddinbych | 13,000 | 13,000 | 13,000 | 13,000 | 14,000 |
| Sir y Fflint | 20,000 | 20,000 | 21,000 | 21,000 | 21,000 |
| Wrecsam | 18,000 | 19,000 | 20,000 | 21,000 | 22,000 |
| Gogledd Cymru | 93,000 | 94,000 | 96,000 | 98,000 | 99,000 |

*Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu, felly efallai na fyddant yn symio*
Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Daffodil

**Y mathau o salwch meddwl mwyaf cyffredin yr adroddir amdanynt yw gorbryder ac iselder**

Mae timau iechyd meddwl yn cefnogi pobl ag ystod eang o salwch meddwl, yn ogystal â phobl â phroblemau seicolegol, emosiynol a chymdeithasol gymhleth, er enghraifft cronni, anhwylderau bwyta ac Anhwylder Straen Wedi Trawma (PTSD).

Gall y Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau (QoF) – gwybodaeth o gofnodion meddygon teulu – ddarparu amcangyfrifon bras iawn o nifer yr achosion o rai anhwylderau seiciatrig. Mae'r data hyn yn debygol o danamcangyfrif nifer

gwirioneddol yr achosion oherwydd eu bod yn dibynnu ar glaf yn mynd at Feddyg Teulu am driniaeth, yn cael diagnosis gan y meddyg teulu, ac yn cael ei gofnodi ar gofrestr clefyd. Mae Tabl 6.3 yn dangos nifer y cleifion yng Ngogledd Cymru ar gofrestrau clefydau QoF perthnasol.

**Tabl 6.3** Nifer y bobl ar gofrestrau clefydau QoF yng Ngogledd Cymru

| Cyflwr | Nifer ar y gofrestr |
|---|---|
| Iselder | 37,000 |
| Dementia | 4,600 |
| Salwch meddwl difrifol (Sgitsoffrenia, anhwylder affeithiol deubegynol a seicosisau eraill) | 5,800 |

*Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu, felly efallai na fyddant yn symio*
Ffynhonnell: Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau

Ffordd arall o amcangyfrif nifer y bobl sydd ag anhwylderau seiciatrig cyffredin yw defnyddio nifer yr achosion o Arolwg 2007 ar Forbidrwydd Seiciatrig mewn Oedolion, a'u cymhwyso i amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2013 ar gyfer Gogledd Cymru ar gyfer y rhai 16 oed a hŷn. Mae'r canfyddiadau yn cael eu dangos yn Tabl 6.4 isod.

**Tabl 6.4** Niferoedd amcangyfrifedig yr oedolion yng Ngogledd Cymru yr effeithir arnynt gan broblemau iechyd meddwl

| Cyflwr | Nifer yr achosion a amcangyfrifir (%) | Amcangyfrif o nifer y bobl yr effeithir arnynt |
|---|---|---|
| O leiaf un o'r anhwylderau meddwl cyffredin | 16.2 | 92,000 |
| Anhwylder gorbryder ac iselder cymysg | 9.0 | 51,000 |
| Anhwylder gorbryder cyffredinol | 4.4 | 25,000 |
| Digwyddiad o iselder mawr | 2.3 | 13,000 |
| Ffobiâu | 1.4 | 8,000 |
| Anhwylder Gorfodaeth Obsesiynol | 1.1 | 6,000 |
| Anhwylder panig | 1.1 | 6,000 |

*Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu, felly efallai na fyddant yn symio*
Ffynhonnell: Arolwg 2007 ar Forbidrwydd Seiciatrig mewn Oedolion; ONS, Amcangyfrifon Canol Blwyddyn 2013

## Dementia cynnar

Mae gwasanaethau i bobl â dementia yn tueddu i gael eu darparu fel rhan o wasanaethau pobl hŷn (gweler y bennod Pobl Hŷn am ragor o wybodaeth). Efallai na fydd hyn yn diwallu anghenion pobl iau â dementia cynnar. Mae gwasanaethau iechyd meddwl yn aml yn cefnogi pobl â Syndrom Korsakoff, sef math o ddementia a achosir amlaf gan gamddefnyddio alcohol. Mae gwasanaethau camddefnyddio sylweddau hefyd yn debygol o fod yn ymwneud ag unigolyn â Syndrom Korsakoff, gan ganolbwyntio ar y materion cyffuriau ac alcohol, tra gall gwasanaethau iechyd meddwl ddarparu cymorth ar gyfer y symptomau.



Draft

### Mae ymchwil yn awgrymu bod yna nifer uchel o bobl â phroblemau iechyd meddwl nad ydynt yn ceisio cymorth

Mae nifer amcangyfrifedig yr achosion o broblemau iechyd meddwl a gynhyrchir gan yr Arolwg ar Forbidrwydd Seiciatrig mewn Oedolion ac Arolwg Iechyd Cymru yn fwy na dwywaith yr amcangyfrif o bobl sy'n adrodd eu bod yn cael triniaeth am broblem iechyd meddwl. Mae hyn yn awgrymu efallai bod yna lawer o bobl yr effeithir arnynt yn y boblogaeth nad ydynt yn ceisio cymorth am wahanol resymau.

### Mae nifer y derbyniadau i gyfleusterau iechyd meddwl yn gostwng

Mae Ffigur 6.4 yn dangos derbyniadau i gyfleusterau iechyd meddwl. Mae hyn yn dangos gostyngiad yn nifer y derbyniadau, ond nid yw'n bosibl dweud o'r data hyn a yw'r dirywiad o ganlyniad i ostyngiad yn y galw neu ostyngiad yn argaeledd gwelyau iechyd meddwl acíwt. Roedd yr ymgynghoriad ar gyfer yr asesiad poblogaeth yn nodi bod pobl yn cael eu lleoli y tu allan i'r rhanbarth, gan gynnwys enghreifftiau o leoliadau mor bell i ffwrdd â Llundain ac Arfordir De Lloegr. Fodd bynnag, mae gan BIPBC dimau triniaeth cartref i geisio osgoi derbyniadau i'r ysbyty.

**Ffigur 6.4** Nifer y derbyniadau i gyfleusterau iechyd meddwl




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, casglu data ar dderbyniadau, newidiadau mewn statws a chadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (KP90)

**Mae nifer y bobl ag anghenion mwy cymhleth yn cynyddu**

Mae'r gwasanaethau yn adrodd cynnydd mewn materion mwy cymhleth o ganlyniad i amddifadedd, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, a chamddefnyddio sylweddau. Maent hefyd yn adrodd cynnydd yn y canlynol:

- nifer y bobl sydd â diagnosis o anhwylder personoliaeth, ond nid yw'n glir a yw hyn yn gynnydd o ganlyniad i resymau cymdeithasol neu newid yn y ffordd y gwneir diagnosis o'r anhwylder.
- difrifoldeb o ran y cleifion sydd ag anorecsia nerfosa o'i gymharu â rhai blynyddoedd yn ôl, sy'n peri pryder gan nad yw'r grŵp cleientiaid hwn yn aml yn gofyn am gymorth yn wirfoddol.
- nifer y bobl ag Anhwylderau Sbectrwm Awtistiaeth sydd angen cymorth

**Mae pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl yn fwy tebygol o fod â iechyd corfforol gwael**

Mae afiechyd meddwl yn gysylltiedig ag afiechyd corfforol, disgwyliad oes is ac i'r gwrthwyneb (Coleg Brenhinol y Seiciatryddion, 2010). Mae iechyd meddwl gwael hefyd yn gysylltiedig â mwy o ymddygiad peryglus ac ymddygiad ffordd o fyw afiach, er enghraifft ysmygu, yfed alcohol i raddau peryglus, camddefnyddio cyffuriau, a lefelau is o weithgaredd corfforol (Llywodraeth Cymru, 2012).

Er enghraifft, mae ymchwil cyfredol yn awgrymu y gall ysmygu 20 sigarét y dydd leihau disgwyliad oes ddeng mlynedd, ar gyfartaledd. Er bod nifer y bobl sy'n ysmygu yng nghyfanswm y boblogaeth tua 25 i 30 y cant, mae nifer yr achosion ymhlith pobl â sgitsoffrenia tua thair gwaith yn uwch – neu bron yn 90%, ac oddeutu 60% i 70% ar gyfer pobl sydd ag anhwylder deubegynol. Mae cyfraddau marwolaethau ar gyfer pobl â sgitsoffrenia ac anhwylder deubegynol yn amlygu gostyngiad mewn disgwyliad oes o 25 mlynedd, yn bennaf oherwydd problemau iechyd corfforol (Coleg Brenhinol y Seiciatryddion, 2010). Mae gordewdra, deiet gwael, ffordd o fyw segur, a defnydd hirdymor o feddyginiaeth, hefyd yn ffactorau cyfrannol sy'n gysylltiedig â salwch meddwl difrifol ac iechyd corfforol gwael.

Mae'r gwasanaethau yn nodi cyfraddau uchel o Glefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint (COPD: o ganlyniad i ysmygu trwm), diabetes a phroblemau'r galon, er bod yr anghenion hyn yn aml yn pylu mewn perthynas â difrifoldeb y materion iechyd meddwl. Mae hwn yn faes y mae cynghorau wedi bod yn ei ddatblygu, er enghraifft, trwy ddefnyddio nyrsys i gefnogi unigolion â chyflyrau iechyd meddwl hirdymor i wella eu hiechyd corfforol.

Draft

**Mae anghydraddoldeb yn un o'r ffactorau allweddol o ran iechyd meddwl, ac mae afiechyd meddwl yn arwain at anghydraddoldeb pellach**

Gall problemau iechyd meddwl ddechrau’n gynnar mewn bywyd, yn aml o ganlyniad i amddifadedd gan gynnwys tlodi, ymlyniadau ansicr, trawma, colled neu gam-drin (Llywodraeth Cymru, 2012). Mae’r ffactorau risg ar gyfer iechyd meddwl gwael mewn oedolion yn cynnwys diweithdra; incwm is; dyledion; trais; digwyddiadau bywyd llawn straen; a thai annigonol (Coleg Brenhinol y Seiciatryddion, 2010).

Yng Nghymru, mae 24% o'r rheiny sy’n ddi-waith yn yr hirdymor, neu’r rheiny nad ydynt erioed wedi gweithio, yn adrodd am gyflwr iechyd meddwl o gymharu â 9% o oedolion mewn grwpiau rheolwyr a gweithwyr proffesiynol. Canfu astudiaeth ddiweddar fod mwy o gleifion a fu farw trwy hunanladdiad yn dioddef o broblemau economaidd, gan gynnwys digartrefedd, diweithdra a dyled (Canolfan Iechyd a Diogelwch Meddwl, 2016).

Mae ffactorau risg ar gyfer iechyd meddwl gwael yn effeithio'n anghymesur ar bobl o grwpiau risg uwch a grwpiau ymylol. Mae grwpiau risg uwch yn cynnwys plant sy'n derbyn gofal; plant sydd wedi cael eu cam-drin; unigolion du a lleiafrifoedd ethnig; pobl ag anabledd deallusol; pobl ddigartref; mamau newydd; pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol; ffoaduriaid a cheiswyr lloches, a charcharorion (Panel comisiynu ar y cyd ar gyfer iechyd meddwl, 2013).

Gall cael rhwydwaith cymorth eang, tai da, safon uchel o fyw, ysgolion da, cyfleoedd ar gyfer rolau cymdeithasol gwerthfawr, ac amrywiaeth o weithgareddau chwaraeon a hamdden, amddiffyn iechyd meddwl pobl (Yr Adran Addysg, 2016).

**Hunanladdiad**

Mae'n anodd llunio casgliadau o'r data sydd ar gael ar hunanladdiad yng Ngogledd Cymru oherwydd y nifer bach o achosion a chafeatau eraill. Gostyngodd nifer cyfartalog yr achosion o hunanladdiad blynyddol ymhlith pobl 15 oed a hŷn yng Ngogledd Cymru o tua 82 rhwng 2002 a 2004 i 69 rhwng 2011 a 2014, er bod amrywiad o flwyddyn i flwyddyn. Nid oes gan yr un o ardaloedd y cynghorau lleol yng Ngogledd Cymru gyfraddau hunanladdiad sy’n sylweddol uwch yn ystadegol na chyfartaledd Cymru o ran pobl 15 oed a hŷn (Jones *et al.*, 2016). Mae niferoedd yr achosion o hunanladdiad yn fwy na thair gwaith yn uwch ymhlith dynion nac ydyw ymhlith menywod (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2014).

Mae achosion hunanladdiad yn gymhleth (Jones *et al.*, 2016) . Mae yna nifer o ffactorau sy'n gysylltiedig â risg uwch o hunanladdiad, gan gynnwys rhyw (gwryw); oedran (15-44 mlwydd oed); amddifadedd economaidd-gymdeithasol; salwch seiciatrig, yn cynnwys iselder difrifol; anhwylder deubegynol;

Draft

anhwylderau gorbryder; salwch corfforol megis canser; hanes o hunan-niweidio a hanes o hunanladdiad yn y teulu (Price *et al.*, 2010). Mae yna nifer o ffyrdd y mae gofal iechyd meddwl yn fwy diogel ar gyfer cleifion, a gall gwasanaethau leihau'r risg fel a ganlyn: wardiau mwy diogel; gweithredu'n gynnar y dilyn rhyddhau, dim derbyniadau y tu allan i'r ardal; timau argyfwng 24 awr; gwasanaeth diagnosis deuol; cyfranogiad teuluol o ran 'dysgu gwersi'; canllawiau ar iselder; rheoli risg personol; trosiant staff isel (Canolfan Iechyd a Diogelwch Meddwl, 2016). Mae gan lawer o bobl sy'n marw trwy hunanladdiad hanes o gamddefnyddio cyffuriau neu alcohol, ond ychydig yn unig ohonynt oedd mewn cysylltiad â gwasanaethau arbenigol ar gyfer camddefnyddio sylweddau. Dylai mynediad at y gwasanaethau arbenigol hyn fod ar gael yn fwy eang, a dylent weithio'n agos gyda gwasanaethau iechyd meddwl (Canolfan Iechyd a Diogelwch Meddwl, 2016).

Mae ffermwyr yn cael eu nodi yn grŵp galwedigaethol risg uchel, oherwydd bod ganddynt fwy o wybodaeth a mynediad parod at ddulliau (hefyd meddygon, nyrsys a gweithwyr amaethyddol eraill). Mae rhai ffactorau wedi cael eu nodi fel rhai sy'n creu risg a straen penodol i bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, y tu hwnt i'r ffactorau risg hunanladdiad sy'n effeithio ar y boblogaeth yn gyffredinol: unigedd, incwm sy'n dirywio, bod yn wahanol o fewn y cyd-destun gwledig; stigma cynyddol sy'n gysylltiedig â phroblemau iechyd meddwl; rhwystrau i gyrchu gofal priodol (diwylliant o hunanddibyniaeth, darpariaeth wael o ran gwasanaethau); rhwydweithiau cymdeithasol gwael; darnio cymdeithasol; argaeledd rhai dulliau o gyflawni hunanladdiad (meddu ar arfau tanio); a grwpiau galwedigaethol risg uchel, er enghraifft ffermwyr a milfeddygon (Llywodraeth Cymru, 2015a).

Strategaeth Llywodraeth Cymru o ran atal hunanladdiad a hunan-niweidio yw *Siarad â fi 2* (Llywodraeth Cymru, 2015a), ac mae yna grŵp yng Ngogledd Cymru sy'n cydlynu gwaith ar atal hunanladdiad.

## 6.3 Beth y mae pobl yn ei ddweud wrthym?

**Adborth gan sefydliadau**

Mae'r sefydliadau a arolygwyd ar gyfer yr asesiad poblogaeth wedi nodi'r materion canlynol:

- Nid oes digon o gymorth ar gael ar gyfer pryder ac iselder lefel isel.
- Mae llawer o wasanaethau ar gael dros y ffôn yn unig, sy'n gallu ei gwneud yn anodd i bobl mewn argyfwng iechyd meddwl gael mynediad atynt; byddai'n ddefnyddiol cael dulliau eraill, er enghraifft e-bost neu negeseuon testun. Os yw galwad ffôn yn angenrheidiol, yna dylai'r unigolyn o'r sefydliad y cysylltwyd ag ef ei gwneud yn glir pryd y gall y sawl sydd mewn trallod ddisgwyl galwad, er mwyn iddo baratoi yn feddyliol ar ei gyfer.



Draft

- Dylai fod cymaint o gymorth ar gael ar gyfer salwch meddwl ag ar gyfer salwch corfforol.
- Efallai y bydd yn anodd i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl fynd yn ôl i gyflogaeth.
- Mae angen mwy o ymarferwyr iechyd meddwl.
- Byddai'n ddefnyddiol iawn i ymarferydd gael y cyfle i wneud ymweliad cartref, yn enwedig ar gyfer yr asesiad cychwynnol mewn lleoliad cyfarwydd.
- Mae oedi o ran unigolion yn derbyn asesiadau iechyd meddwl yn achosi problem gwirioneddol.
- Mae angen i gymorth fod yn hyblyg.

Mae rhagor o wybodaeth am yr arolwg ar gael yn  atodiad x.

Roedd adborth gan reolwyr y gwasanaethau mewn ymateb i'r arolwg yn cefnogi'r canfyddiadau o ran anawsterau cyflogaeth, yn ogystal â'r angen am ragor o ymarferwyr iechyd meddwl. Roeddent hefyd yn amlygu’r canlynol.

- Mae BIPBC wedi comisiynu Parabl i ddarparu cymorth lefel isel.
- Mae’n cydnabod mantais ymweliadau cartref gan y gallant roi mwy o wybodaeth am sut y mae rhywun yn ymdopi yn y cartref. Fodd bynnag, nid yw hyn yn bosibl yn aml o ganlyniad i’r angen i weithio'n effeithlon a phrinder staff. Hefyd, byddai'n well gan rai gael gwasanaeth y tu allan i amgylchedd y cartref.
- Mae angen ystyried materion sy'n ymwneud â chynhwysiant digidol wrth ystyried ffyrdd amgen o ddarparu cymorth a chyfathrebu â phobl.

**Adborth gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl**

Roedd y gweithdai a'r arolygon a gynhaliwyd ar gyfer yr asesiad poblogaeth yn amlygu’r materion canlynol:

- Trafnidiaeth: mae’n cyfyngu mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau lleol gan fod costau tacsis yn ddrud; mae angen mwy o drafnidiaeth gymunedol leol a gwell gwasanaethau bysiau.
- Mae cost hefyd yn cyfyngu ar fynediad at weithgareddau yn y gymuned leol; byddai'n dda cael mwy o weithgareddau fforddiadwy, yn ogystal â mwy o wybodaeth am y gweithgareddau sydd ar gael.
- Mae cyfeillgarwch a rhwydweithiau cymdeithasol yn bwysig iawn i'r grŵp hwn. Ni fyddai llawer yn gofyn i deulu neu ffrindiau am gymorth, gan nad oes arnynt eisiau bod yn faich arnynt. Maent yn tueddu i gadw pethau iddynt hwy eu hunain gan eu bod yn teimlo na fydd eraill yn eu deall, gan gynnwys meddygon teulu. Dywedodd un unigolyn:

  "Byddai'n well gen i fynd i'r ysbyty na gadael i fy nghymuned leol wybod bod gen i broblem iechyd meddwl, yn enwedig sgitsoffrenia".
- Roedd cyfranogwyr yn gwerthfawrogi'r cymorth sydd ar gael: teulu, Timau Iechyd Meddwl, Tîm Argyfwng, Sesiynau Galw Heibio, Cysylltiadau

Draft

Cymdeithasol, Mind, eiriolaeth a chyrsiau mewn dysgu ar gyfer y rhaglen adfer a llesiant.

- Roedd y rheiny a oedd yn mynychu sesiynau galw heibio yn eu gwerthfawrogi; fel y dywedodd un unigolyn:

  > "mae'r sesiynau galw heibio hyn yn fy helpu i deimlo fel pe bawn yn gysylltiedig â staff a ffrindiau, ac yn cael cymorth ganddynt, sy'n fy mharatoi ar gyfer yr wythnos. Nid wyf yn teimlo ar fy mhen fy hun."

- Mae teimlo fy mod yn cael cymorth yn bwysig iawn, fel arall ni fyddwn yn teimlo bod gen i'r cymhelliant neu'r hyder i wneud pethau gwahanol, a byddwn yn aros gartref heb unrhyw ryngweithio cymdeithasol.
- Mae angen rhywun ar unigolion i gysylltu â hwy mewn argyfwng. Os nad oes aelod o staff neu weithiwr proffesiynol ar gael, nid yw'n ddigon da cael galwad yn ôl y diwrnod wedyn. Os yw unigolyn mewn argyfwng, mae angen help arno ar unwaith.
- Byddai cymorth yn y cartref yn cael ei groesawu, gan fod unigolion yn teimlo'n fwy diogel, ac maent yn gallu rheoli pethau.
- Diffyg gweithiwr allweddol/cydlynydd gofal pan fo unigolyn o dan ofal Seiciatrydd, gan nad oes modd, ar hyn o bryd, cysylltu â nhw pan fo angen.
- Mae'r rhwystrau sy'n atal cynnydd yn cynnwys: pryder, straen, dim bywiogrwydd (gyda staff/ffrindiau) a blinder/lludded.

**Adborth gan staff a sefydliadau partner**

O'r ymgynghoriad, canfuwyd tystiolaeth fod pobl yn aml yn cysylltu â gwasanaethau eraill â'u hanghenion iechyd meddwl, a bod angen gwell dealltwriaeth o sut i gefnogi unigolyn ag anghenion lluosog.

Er enghraifft, dywedodd cymdeithasau tai eu bod yn nodi pobl ag anghenion cymorth iechyd meddwl, ond nad ydynt yn gwybod ble i fynd i gael help. Maent yn cael eu trosglwyddo rhwng meddygon teulu, gwasanaethau eraill y bwrdd iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau trydydd sector. Dywedodd ymatebwyr y byddai'n ddefnyddiol cael mwy o wybodaeth a chyngor ar sut i gefnogi pobl neu lle i gyfeirio pobl. Er enghraifft, ceisio cefnogi rhywun i reoli dyled ac arian pan fo'n dioddef o iselder.

Un angen mawr a nodwyd yw cymorth i oedolion ag awtistiaeth nad oes ganddynt anabledd dysgu ac y gellid eu proffilio fel pobl â syndrom Asperger neu awtistiaeth uwch. Gall asesu unigolyn fod yn broses hir. Dywedodd rhai bod pobl yn cael eu trosglwyddo rhwng gwasanaethau anableddau dysgu a gwasanaethau iechyd meddwl/pobl sy'n agored i niwed (gweler y bennod ar Anableddau Dysgu ac Awtistiaeth am ragor o wybodaeth)

Roedd anghenion eraill a nodwyd yn cynnwys:

- Cynnydd yn nifer y cyfeiriadau i'r Gwasanaeth Cefnogi Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol.
- Nifer cynyddol o gyfeiriadau i'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol

Draft

gyda straen cymdeithasol yn hytrach na phroblemau iechyd meddwl; mae'r rhain yn fwy anodd eu cefnogi ac nid meddyginiaeth yw'r ateb. Mae enghreifftiau yn cynnwys trais yn y cartref a gwrthdaro mewn perthnasoedd.

- Mae cynnydd mewn achosion mwy cymhleth a dod o hyd i'r trothwy ar gyfer cymorth wedi cynyddu dros y blynyddoedd.
- Pontio rhwng gwasanaethau iechyd meddwl plant ac iechyd meddwl oedolion.
- Cymorth sy'n canolbwyntio ar adferiad.
- Trafnidiaeth a defnyddio cyfleusterau cymunedol.
- Mae'r rhestrau aros ar gyfer cymorth seicoleg yn rhy hir.
- Roedd yr angen am gymorth cyn diagnosis hefyd wedi'i nodi fel angen.

Roedd awgrymiadau ar gyfer sut i wella gwasanaethau yn cynnwys:

- Strategaeth drosfwaol gyda gwell cydlynu rhwng tai, budd-daliadau, addysg, ac ati. Rhoddodd un grŵp enghraifft lle roedd teulu yn gweithio gyda thri thîm gwahanol o fewn adran gwasanaethau cymdeithasol y cyngor lleol.
- Mwy o gapasiti o fewn timau iechyd meddwl.
- Ystyried modelau sy'n cynnwys teulu a ffrindiau, er enghraifft Atgyfnerthu Cymunedol a Hyfforddiant Teulu (CRAFT) a Therapi Ymddygiad Cymdeithasol a Rhwydweithiau (SBNT).
- Darparu gwasanaethau y tu allan i 9 tan 5.
- Gwneud gwell defnydd o Dewis Cymru i rannu gwybodaeth am wasanaethau trydydd sector.
- Mae angen i wasanaethau iechyd a phartneriaid tai gydweithio a sicrhau y canlyniadau gorau i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, a dylanwadu ar gynllunio strategol o ran llety yn y dyfodol, a hynny'n cynnwys tai â chymorth ac anghenion cyffredinol yn y gymuned.

**Y Gymraeg**

O ganlyniad i'r broses ymgynghori ac ymgysylltu, nodwyd pryderon nad oes yna ddigon o seiciatryddion a seicolegwyr sy'n siarad Cymraeg i ddarparu gwasanaeth sy'n diwallu anghenion siaradwyr Cymraeg yng Ngogledd Cymru. Gallai hyn effeithio ar allu pobl i gael diagnosis cywir, yn ogystal â chael mynediad at wasanaethau fel cwnsela. Mae hwn yn faes y mae angen ymchwilio ymhellach iddo.

Gweler proffil yr iaith Gymraeg am ragor o wybodaeth

Draft

**Anghenion o ran tai a digartrefedd**

Mae cymorth tai i bobl ag anghenion iechyd meddwl yn cael ei ariannu'n bennaf trwy’r grant Cefnogi Pobl ar draws Gogledd Cymru, ac mae gwasanaethau iechyd meddwl yn gweithio mewn partneriaeth â thimau strategaeth tai a chymdeithasau tai.

Amlygodd yr ymgynghoriad brinder llety 'symud ymlaen' addas, prinder llety i bobl sengl a phrinder llety dros nos brys. Mae'r system fudd-daliadau, gan gynnwys y 'dreth ystafell wely', yn achosi anawsterau i rai. Hyd yn oed pan fo pobl yn gallu cynilo ar gyfer llety preifat ar rent, mae stigma ymysg rhai i beidio â chymryd tenantiaid sy'n byw ar fudd-daliadau. Mae yna bryderon bod y llety a gynigir mewn fflatiau mewn ardaloedd lle ceir lefelau uchel o ymddygiad gwrthgymdeithasol a chamddefnyddio sylweddau, ac mae hyn yn wirioneddol annefnyddiol i bobl sy'n dod allan o'r ysbyty neu sydd â’u problemau camddefnyddio sylweddau eu hunain. Mae hyn hefyd yn eu rhoi mewn perygl o gael eu hecsbloetio. Gall hefyd fod yn anodd dod o hyd i lety ar gyfer dynion mewn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd oherwydd eu hymddygiadau posibl.

Mae gwasanaethau tai ac iechyd meddwl yn gweithio ar y cyd i wella mynediad at dai addas ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau sy'n gadael sefydliadau a lleoliadau acíwt. Mae tai yn bartner pwysig, ac mae mwy o waith yn cael ei wneud i ddeall y rolau ar gyfer pob asiantaeth, a sut y gallwn weithio'n fwy effeithiol i gynhyrchu’r canlyniadau gorau.

Mae grŵp cydweithredol rhanbarthol yn gweithio yn y maes hwn, sef y Grŵp Adsefydlu a Llety Iechyd Meddwl, sydd wedi ystyried y ddau fodel priodol i’w cyflwyno, ac sydd wedi ysgrifennu Datganiad Comisiynu (2015) ar gyfer y rhanbarth. Mae gan y grŵp hwn gynrychiolwyr o bob cymdogaeth, BIPBC a phartneriaid yn y trydydd sector.

Mae BIPBC hefyd wedi creu swydd Rheolwr Datblygu ar gyfer Tai â Chymorth, sy'n cadeirio'r grŵp rhanbarthol, ac sydd hefyd yn gweithio gyda lleoliadau acíwt, gwasanaethau arbenigol, gwasanaethau adsefydlu a gwasanaethau cymunedol i sicrhau bod pobl y mae angen gwasanaethau tai arnynt yn cael eu lleoli yn briodol.

Mae darparwyr tai i’r digartref yn ceisio sicrhau mynediad cyfartal ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl, ac maent yn galluogi’r rhai sydd mewn angen i gael mynediad hefyd at wasanaethau iechyd a symud ymlaen.

## 6.4 Adolygiad o’r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd

Mae gwasanaethau iechyd meddwl yn cael eu darparu trwy gyfleusterau cleifion mewnol a thimau iechyd meddwl cymunedol, sy'n cynorthwyo cleifion y tu allan i amgylchedd yr ysbyty. Mae cynghorau lleol a'r bwrdd iechyd yn darparu gofal a



Draft

chymorth i bobl sydd â salwch meddwl yn y gymuned. Mae gofal preswyl, gwasanaethau dydd a thimau allgymorth yn rhan bwysig o ofal seiciatrig.

### Atal a llesiant

Gallai buddsoddi i gynyddu mynediad at wasanaethau iechyd meddwl ymyrraeth gynnar arwain at arbedion sylweddol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus eraill (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2016).

Mae iechyd meddwl cyhoeddus yn canolbwyntio ar atal salwch meddwl ar raddfa ehangach, ac ar hybu iechyd meddwl ar gyfer pobl o bob oed. Mae ymyraethau costeffeithiol yn bodoli i atal salwch meddwl ac i hybu iechyd meddwl yn y boblogaeth ehangach (Coleg Brenhinol y Seiciatryddion 2010).

Mae camau gweithredu i hyrwyddo llesiant meddyliol yn cynnwys hyrwyddo cynhwysiant, perthyn a chysylltioldeb, cynyddu gwydnwch unigolion a datblygu sgiliau bywyd, meithrin a chefnogi sgiliau magu plant, cryfhau cymunedau, a gwella llesiant yn y gwaith.

Mae'r "Pum Ffordd at Lesiant" yn set o negeseuon iechyd cyhoeddus sy'n seiliedig ar dystiolaeth, sy'n anelu at wella iechyd a llesiant meddyliol y boblogaeth gyfan. Crynhoir y pum cam y gall pobl eu cymryd i wella eu llesiant fel a ganlyn: *cysylltu, bod yn weithgar, cymryd sylw, parhau i ddysgu, a rhoi*. Mae'r negeseuon yn tanlinellu bodolaeth iechyd meddwl fel cyflwr cadarnhaol a dymunol, a gellir eu defnyddio mewn sawl ffordd wahanol, o gefnogi unigolion i gyfrannu at ddatblygu polisi. Gall Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl a hyrwyddo llythrennedd iechyd meddwl helpu i atal salwch meddwl, yn ogystal â chymorth ar gyfer hunangymorth a hunanreolaeth, er enghraifft trwy’r cynllun Llyfrau ar Bresgripsiwn.

Mae'r rhaglen OPUS yn rhaglen a ariennir gan Ewrop ar gyfer pobl 25 oed a hŷn sy'n economaidd anweithgar ac sy’n ddi-waith yn yr hirdymor. Mae'n cefnogi pobl â phroblem iechyd meddwl, pobl ag anabledd dysgu, pobl o aelwyd ddi-waith, gofalwyr, a phobl 54 oed a hŷn.

Mae'r prosiect yn cefnogi pobl i agosáu at waith trwy gynnig nifer o ddewisiadau gwahanol, yn cynnwys cymorth un i un, cefnogaeth grŵp a chymorth hyblyg, i ddiwallu anghenion unigolion. Bydd y cyllid yn dod i ben ym mis Awst 2019.

### Gwasanaethau iechyd meddwl

Yn Ynys Môn, mae ffocws y gwasanaethau o gwmpas timau iechyd meddwl cymunedol, gyda gwasanaeth cefnogi gwaith cynhwysfawr sy’n cynnwys cymorth un i un, gwaith grŵp, sesiynau galw heibio, a chymorth yn y gymuned. Mae partneriaid y trydydd sector hefyd yn darparu llawer o gymorth gan gynnwys Mind, Hafal (sy’n cynnwys cymorth ar gyfer gofalwyr iechyd meddwl) a Mentrau Agro. Mae'r cyngor lleol hefyd yn darparu llety â chymorth.



Draft

Mae cymorth yng Ngwynedd yn cael ei ddarparu trwy'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol. Mae Cyngor Gwynedd yn darparu Gweithwyr Cymorth i weithio'n ddwys gyda chleifion, ac i weithio o fewn y model adfer. Mae tîm Gwynedd yn gweithio'n agos gyda phartneriaid yn y trydydd sector i ddarparu cymorth (mae'r rhain yn cynnwys 3 Chanolfan Adnoddau Iechyd Meddwl ar draws y sir, Hafal, Cais). Darperir y gwaith grŵp trwy'r timau a thrwy ein partneriaid yn y trydydd sector. Mae'r tîm yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Triniaeth yn y Cartref.

Mae'r ddarpariaeth yng Nghonwy yn debyg o ran strwythur i'r ddarpariaeth yn Ynys Môn, gyda Thimau Iechyd Meddwl Cymunedol y gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol wedi'u cydleoli yn nwyrain a gorllewin y sir. Mae'r ddarpariaeth Trydydd Sector yn cael ei chomisiynu i gefnogi'r rheiny sy'n gofalu am unigolion â phroblemau iechyd meddwl (Hafal), yn ogystal â datblygiad newydd allweddol o'r enw 'Cwmpawd Adfer'. Mae'r Cwmpawd Adfer yn cynnig amrywiaeth o ymyraethau ar gyfer unigolion er mwyn iddynt lywio eu ffordd i bwyntiau priodol ar eu taith adfer gyda'u dyheadau neu eu cyrchfannau eu hunain yn ffocws neu'n ganlyniad. Cyflwynir y Cwmpawd gan Aberconwy Mind, a'r nod yn y dyfodol yw y bydd defnyddwyr gwasanaethau yn trosglwyddo o wasanaethau statudol gyda Chynllun Gweithredu Adfer Iechyd Da (WRAP), a bod y llwybr cymorth yn cael ei ymestyn i gymorth sy'n gynaliadwy ac sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr gwasanaethau.

Mae gan Sir Ddinbych ddau dîm iechyd meddwl cymunedol amlddisgyblaethol (CMHT), a ddarperir mewn partneriaeth ag iechyd: Hafod yn y Rhyl, a Thîm Dyffryn Clwyd yn Ninbych. Mae'r gwasanaethau yn seiliedig ar ddull pedair haen, gyda'r CMHT yn cefnogi haen 1 (asesiadau, gwybodaeth a chyngor i bobl sydd wedi cael eu gweld gan eu meddyg teulu) a haen 2 (gwasanaethau ar gyfer pobl yr ystyrir bod ganddynt salwch neu anhwylder meddwl difrifol). Mae Gwasanaethau Iechyd Meddwl yn canolbwyntio ar y Model Adfer i gefnogi defnyddwyr gwasanaethau i adennill neu i wella eu hiechyd meddwl, ac i gael gwell ansawdd bywyd.

Yn Sir y Fflint, darperir cymorth trwy'r timau iechyd meddwl cymunedol. Mae gwasanaethau'r cyngor lleol yn cynnwys Tîm Cymorth Dwys, Tîm Cefnogi Byw yn y Gymuned a Chymorth Canolig, a thîm Galwedigaeth a Chymorth (Cyngor Sir y Fflint, 2016). Mae partneriaid y trydydd sector hefyd yn darparu llawer o gymorth, gan gynnwys MIND, Hafal, KIM Inspire, ac AsNEw (gwasanaeth eiriolaeth).

Mae yna bartneriaeth hyfforddiant da rhwng y cyngor lleol a sefydliadau'r trydydd sector i ddarparu rhaglen hyfforddi i bobl â phroblemau iechyd meddwl a'u gofalwyr, sydd wedi cael ei gydnabod yn arfer da a'i rannu â siroedd eraill.

Mae'r pwynt cyswllt cyntaf yn Wrecsam ar gyfer pobl yn y gymuned trwy Bwynt Mynediad Sengl y gwasanaeth iechyd meddwl. Yna, mae pobl yn cael mynediad naill ai at y Tîm Gofal Sylfaenol neu at y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol, yn dibynnu ar lefel a chymhlethdod eu hanghenion. Mae'r ddau dîm

Draft

uchod yn dimau amlddisgyblaethol ar y cyd rhwng Gofal Cymdeithasol Oedolion a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC). Mae pobl sy’n dod trwy driniaeth yn cael eu cefnogi gan y Tîm Adsefydlu Cymunedol, sef tîm amlddisgyblaethol yn BIPBC. Gall pobl y mae angen cymorth arnynt i symud ymlaen i fyw'n annibynnol yn y gymuned gael mynediad at Wasanaeth Adfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion neu at Dai Adfer Hafal; mae'r rhain yn wasanaethau gofal cartref cofrestredig sy'n darparu cymorth i fynd i mewn i lety annibynnol neu i lety gyda landlord cymdeithasol cofrestredig. Ariennir y gwasanaeth hwn yn bennaf gan Cefnogi Pobl, gyda chyllid ar y cyd hefyd gan Ofal Cymdeithasol i Oedolion a BIPBC. Mae gwasanaeth atal ac adfer lefel isel yn cael ei ddarparu gan Advance Brighter Futures: hyfforddiant ar ffordd o fyw, therapïau siarad, hyrwyddo ymwybyddiaeth a gwydnwch, a Gwasanaeth Cyswllt Cymunedol Hafal. Mae cymorth i Ofalwyr yn cael ei gomisiynu gan Wasanaeth Cefnogi Teuluoedd a Gofalwyr Hafal.

**Model adfer**

Mae'r model adfer yn ymwneud â chefnogi adferiad personol a symud oddi wrth ganolbwyntio ar drin salwch (adferiad clinigol) tuag at hyrwyddo llesiant (Slade, 2009). Gall adferiad personol gael ei ddiffinio fel a ganlyn:

> Proses bersonol, unigryw iawn o newid eich agweddau, gwerthoedd, teimladau, nodau, sgiliau, a/neu rolau. Mae’n ffordd o fyw bywyd sy’n rhoi boddhad, sy’n llawn gobaith, ac sy’n cyfrannu, hyd yn oed o fewn y cyfyngiadau a achosir gan y salwch. Mae adferiad yn golygu datblygu ystyr a diben newydd i’ch bywyd wrth i chi dyfu y tu hwnt i effeithiau trychinebus salwch meddwl (Anthony, 1993).

Mae hwn yn ddull y mae cynghorau lleol wedi bod yn gweithio tuag ato. Roedd ymgynghoriad â staff yn nodi ei fod yn debyg i fodel cymdeithasol yn hytrach na model meddygol, ac mae’r gwasanaethau iechyd wedi cael trafferth â hyn. Ystyrir bod egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn unol â'r model adfer – gan ganolbwyntio ar yr unigolyn, gyda phwyslais ar daliadau uniongyrchol a rheolaeth, perthynas gyfartal/hyfforddi rhwng yr ymarferwr a'r claf.

Mae timau iechyd a gofal cymdeithasol integredig yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod gan unigolion mewn gwasanaethau gynlluniau gofal gyda chanlyniadau adfer. Dylai’r cynllun gofal fod yn glir o ran cyfrifoldeb unigol a phwy all/fydd yn helpu i gyflawni nodau tuag at annibyniaeth.

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

Mae un rhan o bump o wariant y GIG ar gyfer Cymru ar wasanaethau iechyd meddwl. Mae cyfran fawr o’r ymweliadau ag Adrannau Achosion Brys a derbyniadau cyffredinol i'r ysbyty yn gysylltiedig â phroblemau iechyd meddwl.

Draft

Yn 2013/14, cafwyd bron 10,300 o dderbyniadau i gyfleusterau iechyd meddwl yn BIPBC; roedd ychydig dros 8,600 yn dderbyniadau anffurfiol, ac roedd tua 1,690 yn dderbyniadau ffurfiol (pobl wedi'u cadw dan adran o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983). Mae nifer y derbyniadau i gyfleusterau iechyd meddwl yn lleihau.

## 6.5 Casgliad ac Argymhellion

**Y prif negeseuon**

- Mae pobl yng Ngogledd Cymru yn adrodd am iechyd meddwl sydd ychydig yn well nag yng Nghymru gyfan
- Mae nifer y bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl yn debygol o gynyddu
- Y mathau o salwch meddwl mwyaf cyffredin a gofnodwyd yw gorbryder ac iselder
- Mae ymchwil yn awgrymu na fydd nifer fawr o bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl yn ceisio cymorth
- Mae nifer y derbyniadau i gyfleusterau iechyd meddwl yn lleihau
- Mae nifer y bobl sydd ag anghenion mwy cymhleth yn cynyddu
- Mae pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl yn fwy tebygol o fod ag iechyd corfforol gwael

Mae nifer y cleifion sy'n ceisio mynediad at yr ysbyty wedi cynyddu ar draws y rhanbarth. Mae adborth gan staff yn awgrymu y gall y nifer cyfyngedig o dderbyniadau fod o achos pwysau ar welyau – mae Oedi wrth Drosglwyddo Gofal (DTOC) a diffyg lleoliadau priodol, lle bo angen, yn dylanwadu ar hyn. Mae hyn wedi arwain at ddefnyddio gwelyau acíwt y tu allan i Ogledd Cymru, sydd yn bell o fod yn ddelfrydol ar gyfer cleifion, eu gofalwyr a'u teuluoedd.

Mae egwyddorion cyffredin a rennir gan y cynghorau lleol a'r bwrdd iechyd yn cynnwys cyfranogiad defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr; eiriolaeth gymunedol; cymorth i ofalwyr, a rôl cyfleoedd dysgu a gweithio yn ystod y cyfnod adfer; cydweithio rhwng asiantaethau.

Mae angen cael llwybr clir o'r gwasanaethau acíwt i wasanaethau yn y gymuned. Dylai fod mwy o waith o ran yr agenda ataliol er mwyn atal anghenion rhag gwaethygu ac arwain at fynd i ysbyty, ac er mwyn lleihau'r galw ar wasanaethau cyhoeddus eraill. Mae enghreifftiau yn cynnwys cymorth cartref a gwasanaethau cofleidiol, yn ogystal ag ymyraethau a pholisïau i gefnogi rhieni a phlant ifanc, newidiadau i ffordd o fyw, gwella gweithleoedd, darparu cymorth cymdeithasol a gwelliannau amgylcheddol sy'n cefnogi cymunedau (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2016). Gallai cydweithio â'r trydydd sector a mentrau cymdeithasol ddarparu hyn.

Mae'n rhaid i gynghorau lleol ac iechyd reoli'r cynnydd yn y galw am wasanaethau yn wyneb cyllidebau sy'n lleihau.

**Bylchau yn y gwasanaeth/cymorth**

- Yn yr ymgynghoriad, nodwyd yn gyson fod yna fwlch o ran cymorth i bobl ag anhwylder sbectrwm awtistig.

Draft

- Mae yna fwlch o ran cyfleoedd cyfeillio (rhaid iddynt rymuso, nid annog dibyniaeth) i gefnogi pobl i gael mynediad at weithgareddau cymdeithasol sy’n bodoli.
- Nodwyd tlodi a diwygio lles fel risgiau i ddefnyddwyr gwasanaethau, gan y gall yr ymgyrch i gael pobl yn ôl i waith achosi straen ychwanegol i bobl sy'n agored i niwed. Gall hyn fod yn arbennig o anodd i bobl iau â phryderon budd-daliadau tai.
- Mae angen cyflenwad digonol o lety i gefnogi pobl i symud o ofal preswyl i adnoddau cymunedol.
- Rhaid i ni ddatblygu iechyd meddwl cyhoeddus yng Ngogledd Cymru a hybu llesiant meddyliol i atal afiechyd meddwl. Dylai iechyd meddwl cyhoeddus fod yn rhan o strategaeth iechyd meddwl Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

**Agenda datblygu data/awgrymiadau ar gyfer ymchwil yn y dyfodol**

- Anghenion pobl agored i niwed heb ddiagnosis, ac arfer gorau o ran darparu cymorth
- Ymchwilio i bryderon a godwyd ynghylch diffyg darpariaeth Gymraeg mewn gwasanaethau iechyd meddwl
- Cael gwybod mwy am y rhesymau dros y nifer gostyngol o dderbyniadau i gyfleusterau iechyd meddwl.

**Ein hymateb**

Cam nesaf y prosiect fydd trafod yr wybodaeth yn yr adroddiadau hyn a chytuno ar ddull o fynd i'r afael â'r materion a godwyd. Gallai hyn gynnwys gwneud gwaith ymchwil pellach mewn ardal, neu gamau gweithredu lleol neu ranbarthol.

**Materion cydraddoldeb a hawliau dynol**

Mae'r bennod hon yn codi nifer o faterion ynghylch sut y mae ffactorau risg ar gyfer anghenion iechyd meddwl yn effeithio'n anghymesur ar bobl o grwpiau ymylol. Mae'r rhain yn cynnwys llawer o bobl sy’n rhannu nodweddion gwarchodedig – er enghraifft, grwpiau BAME; pobl LGBTQ; pobl ag anabledd corfforol, nam ar y synhwyrau neu gyflyrau iechyd hirdymor; ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Mae'r ffactorau amddiffynnol craidd sy'n dylanwadu ar lesiant meddyliol yn cynnwys hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol. Mae'n hysbys fod grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig yn fwy tebygol o gael eu hallgau yn gymdeithasol, a bydd rhaid ystyried hyn yn yr asesiadau ar gyfer unigolion.

Mae rhagor o wybodaeth am anghenion gofal a chymorth y grwpiau hyn i'w chael mewn penodau eraill o’r asesiad poblogaeth hwn.

Draft

Efallai y bydd yna faterion eraill sy'n effeithio ar grwpiau o bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig, nad ydynt wedi’u nodi gan yr asesiad hwn. Byddem yn croesawu unrhyw dystiolaeth benodol bellach a allai helpu i lywio'r asesiad terfynol. Gellid mynd i'r afael â hyn mewn wrth adolygu’r asesiad poblogaeth yn y dyfodol, wrth ddatblygu’r cynllun ardal a fydd yn dilyn yr asesiad hwn, neu yn y gwasanaethau a gânt eu datblygu neu eu newid mewn ymateb i'r cynllun.

Rhaid i wasanaethau ar gyfer pobl ag anghenion iechyd meddwl fabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n cymryd i ystyriaeth anghenion gwahanol pobl â nodweddion gwarchodedig. Dylai’r symudiad tuag at y model adfer, sy'n symud y ffocws oddi wrth drin salwch tuag at hyrwyddo llesiant, gefnogi'r broses o nodi rhwystrau y mae unigolion yn dod ar eu traws, ac ymateb yn briodol iddynt.

Drafft

## Atodiad 1: Crynodeb o ddeddfwriaeth a pholisi iechyd meddwl

- Deddf Iechyd Meddwl 1983: mae hon yn cwmpasu asesu, triniaeth a hawliau pobl ag anhwylder iechyd meddwl.
- Mesur Iechyd Meddwl (Cymru). Mae 4 prif ran i'r Mesur:
  - mae rhan 1 o'r Mesur yn sicrhau bod rhagor o wasanaethau iechyd meddwl ar gael ym maes gofal sylfaenol
  - mae rhan 2 yn sicrhau bod gan bob claf yn y gwasanaethau eilaidd gynllun Gofal a Thriniaeth
  - mae rhan 3 yn galluogi pob oedolyn sy'n cael ei ryddhau o'r gwasanaethau eilaidd i atgyfeirio ei hun yn ôl i'r gwasanaethau hynny
  - mae rhan 4 yn cefnogi pob claf mewnol i gael cymorth gan eiriolwr iechyd meddwl annibynnol, os yw'n dymuno hynny.
- Law yn Llaw at Iechyd Meddwl: Strategaeth ar gyfer Iechyd Meddwl a Llesiant yng Nghymru (2012). Strategaeth a chynllun cyflawni Llywodraeth Cymru sydd â'r nod o weithio tuag at system sengl, ddi-dor, gynhwysfawr ar gyfer mynd i'r afael â'r holl anghenion iechyd meddwl, ni waeth beth yw oed yr unigolyn. Ei blaenoriaeth yw cymryd y cam nesaf, cau bylchau sy'n bodoli yn y ddarpariaeth, gwella cysondeb o ran ansawdd, a gwneud cysylltiadau ar draws y llywodraeth, gan gydnabod y cysylltiadau rhwng iechyd meddwl a thai, incwm, cyflogaeth ac addysg.
- Law yn Llaw at Iechyd Meddwl: Cynllun Cyflawni: 2016-19
- Roedd canfyddiadau o adolygiad dilynol Swyddfa Archwilio Cymru o Wasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion 2011 yn cynnwys yr argymhelliad 'Cryfhau trefniadau ar gyfer cynnwys defnyddwyr gwasanaethau wrth gynllunio a rheoli eu gofal'.
- Deddf Galluedd Meddyliol 2005

Draft

# Cyfeiriadau

(WHO), W. H. O. (2014) *Mental health: a state of well-being*. Ar gael yn: http://www.who.int/features/factfiles/mental_health/en/ .

Anthony, W. (1993) 'Recovery from mental illness: the guiding vision of the mental health system in the 1990s.', 2, tt. 17-24.

Centre for Mental Health and Safety (2016) *National Confidential Inquiry into Suicide and Homicide*. Ar gael yn: http://research.bmh.manchester.ac.uk/cmhs/research/centreforsuicideprevention/nci/.

Adran Addysg (2016) 'Mental health and behaviour in schools: Departmental advice for school staff'. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/508847/Mental_Health_and_Behaviour_-_advice_for_Schools_160316.pdf .

Cyngor Sir y Fflint (2013) 'Strategaeth Comisiynu Iechyd Meddwl 2013-2018'.

Cyngor Sir y Fflint (2016) 'Gwasanaethau cymorth iechyd meddwl: adroddiad perfformiad/monitro 2015/16'.

Panel comisiynu ar y cyd ar gyfer iechyd meddwl (2013) 'Canllawiau ar gyfer comisiynu gwasanaethau iechyd meddwl y cyhoedd'.

Jones, C., Andrew, R. ac Atenstaedt, R. (2016) 'Proffil Iechyd Poblogaeth Gogledd Cymru, i gefnogi'r asesiad o anghenion ar gyfer y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, a'r asesiad o lesiant ar gyfer Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol'. Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mind (2016) *How common are mental health problems?* Ar gael yn: http://www.mind.org.uk/information-support/types-of-mental-health-problems/statistics-and-facts-about-mental-health/how-common-are-mental-health-problems/

Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol y Gogledd (2015) 'Datganiad Comisiynu Byw gyda Chymorth (Iechyd Meddwl) Gogledd Cymru'.

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2014) 'Suicides in the United Kingdom'. Ar gael yn: http://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/deaths/bulletins/suicidesintheunitedkingdom/2014registrations .

Price, S., Weightman, A., Morgan, H., Mann, M. a Thomas, S. (2010) 'Atal hunanladdiad: diweddariad ar grynodeb o'r tystiolaeth'. Iechyd Cyhoeddus Cymru

Uned Gymorth ar gyfer Tystiolaeth Ymchwil, Prifysgol Caerdydd. Ar gael yn: http://www.wales.nhs.uk/sites3/documents/749/Suicide%20Prevention%20-%20Update%20of%20the%20summary%20of%20evidence.doc (Cyrchwyd: 19 Hydref 2016

Iechyd Cyhoeddus Cymru (2016) 'Gwneud gwahaniaeth: Buddsoddi mewn Iechyd a Llesiant Cynaliadwy i Bobl Cymru'.

Draft

Coleg Brenhinol y Seiciatryddion (2010) 'No health without public mental health, the case for action'. Llundain: Coleg Brenhinol y Seiciatryddion

Slade, M. Rethink recovery series: volume 1 (2009) '100 ways to support recovery: A guide for mental health professionals'. Rethink.

Llywodraeth Cymru (2012) 'Law yn Llaw at iechyd meddwl: strategaeth ar gyfer iechyd meddwl a lles yng Nghymru'.

Llywodraeth Cymru (2015a) 'Siarad â fi – Strategaeth atal hunanladdiad a hunan-niweidio ar gyfer Cymru 2014-2020'. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: http://gov.wales/docs/dhss/publications/150716strategycy.pdf (Cyrchwyd: 7 Tachwedd 2016

Llywodraeth Cymru (2015b) *Arolwg Iechyd Cymru.* Ar gael yn: http://gov.wales/statistics-and-research/welsh-health-survey/?skip=1&lang=cy

Draft

# 7 Gofalwyr

## Cynnwys

7 Gofalwyr ... 1

7.1 Ynglŷn â'r bennod hon ... 2

Diffiniadau: ... 2

Sut y bydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn newid pethau? ... 3

Diogelu ... 5

7.2 Beth yr ydym yn ei wybod am y boblogaeth? ... 5

Tai a digartrefedd ... 9

Mesuriadau perfformiad ac asesiadau gofalwyr ... 9

7.3 Beth y mae pobl yn ei ddweud wrthym? ... 10

Yr angen am wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg ... 11

7.4 Adolygiad o'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd ... 13

7.5 Gofalwyr ifanc ... 14

7.6 Casgliad ac Argymhellion ... 19

Y prif ganfyddiadau ... 19

Bylchau yn y gefnogaeth ac argymhellion ... 19

Materion cydraddoldeb a hawliau dynol ... 20

Y camau nesaf ar gyfer yr asesiad poblogaeth a'r cynllun ardal ... 21

Atodiad 1 Deddfwriaeth hanesyddol ar gyfer gofalwyr ... 22

ATODIAD 2: Ymgynghori ac ymgysylltu ... 27

Cyfeiriadau ... 28

Draft

## 7.1 Ynglŷn â’r bennod hon

Mae'r bennod hon yn cynnwys anghenion poblogaeth pob gofalwr yn cynnwys gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc. Mae gwybodaeth am wahanol anghenion gofal a chymorth pobl y gofelir amdanynt i'w gweld yn y penodau canlynol:

- Plant a phobl ifanc [Ychwanegu linc]
- Pobl hŷn [Ychwanegu linc]
- Iechyd, anableddau corfforol a nam ar y synhwyrau [Ychwanegu linc]
- Anableddau dysgu ac awtistiaeth [Ychwanegu linc]
- Iechyd meddwl [Ychwanegu linc]
- Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol Ychwanegu linc]
- Sefydliadau diogel [Ychwanegu linc]
- Cyn-filwyr [Ychwanegu linc]
- Digartrefedd [Ychwanegu linc]

### Diffiniadau:

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio gofalwr fel "unigolyn sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal i oedolyn neu blentyn".

Mae'r ddeddf yn mynd ymlaen i ddweud "yn gyffredinol, ni ddylai gofalwyr proffesiynol sy'n cael tâl gael eu hystyried yn ofalwyr at ddiben y ddeddf, ac ni ddylai pobl sy'n darparu gofal fel gwaith gwirfoddol gael eu hystyried felly chwaith. Fodd bynnag, gall awdurdod lleol drin rhywun fel gofalwr hyd yn oed os na fyddai’n cael ei ystyried fel arall yn ofalwr, os yw’n credu y byddai’n briodol i wneud hynny yng nghyd-destun y berthynas ofalgar. Gall awdurdod lleol drin rhywun fel gofalwr mewn achosion lle nad yw'r berthynas ofalgar yn bennaf yn un fasnachol."

Mae'r diffiniad hwn yn cynnwys gofalwyr o bob oedran.

Yn aml, nid yw gofalwyr yn eu hystyried eu hunain yn ofalwyr. Byddant yn disgrifio eu hunain fel rhiant, gŵr, gwraig, partner, mab, merch, brawd, chwaer, ffrind neu gymydog, ond nid fel gofalwr.

Bydd rhai gofalwyr yn eu disgrifio eu hunain fel gofalwyr, ond nid fel pobl sydd â rolau eraill mewn bywyd – cyflogai, cyflogwr, aelod o glwb neu gymdeithas, myfyriwr, trefnydd yr aelwyd, ac yn y blaen.

Mae *rhiant ofalwr* yn rhiant neu'n warcheidwad sydd â dyletswyddau a chyfrifoldebau ychwanegol tuag at ei blentyn/phlentyn oherwydd bod gan ei blentyn/ phlentyn salwch neu anabledd. Bydd rhiant ofalwyr yn aml yn eu hystyried eu hunain yn rhieni yn hytrach nag yn ofalwyr, ond efallai y bydd angen gwasanaethau ychwanegol arnynt er mwyn diwallu anghenion eu plentyn, neu er mwyn parhau i wneud hynny.

## Sut y bydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn newid pethau?

Mae'r ddeddf yn cynnwys diffiniad ehangach o ofalwr (gweler uchod) ac yn dileu'r gofyniad bod rhaid i ofalwyr ddarparu 'swm sylweddol o ofal yn rheolaidd'.

Bellach, mae gan ofalwyr yr un hawliau â'r rheiny y maent yn gofalu amdanynt. Mae dyletswydd newydd ar awdurdodau lleol i gynnig asesiad i unrhyw ofalwr os yw'n ymddangos i'r awdurdod lleol y gallai fod gan ofalwr angen am gymorth. Os bydd y cyngor lleol yn penderfynu bod anghenion gofalwr yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd, yna mae'n rhaid iddo ystyried beth y gellid ei wneud i ddiwallu'r anghenion hynny. Yn flaenorol, roedd y cyfrifoldeb ar y gofalwr i ofyn am asesiad.

Mae anghenion gofalwr yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer cymorth os yw'r canlynol yn wir:

a) mae'r angen yn codi o ganlyniad i ddarparu gofal ar gyfer naill ai oedolyn neu blentyn

b) ni all y gofalwr ddiwallu'r angen, boed

- ar ei ben ei hun
- gyda chymorth pobl eraill sy'n barod i ddarparu'r cymorth hwnnw, neu
- gyda chymorth gwasanaethau yn y gymuned y mae gan y gofalwr fynediad atynt, ac

c) mae'r gofalwr yn annhebygol o gyflawni un neu fwy o'i ganlyniadau personol sy'n ymwneud â'r canlyniadau a nodir yn rhan 3 y ddeddf.

Efallai y bydd y cyngor lleol 'nawr yn cynnal asesiad ar y cyd, lle mae asesiad o'r person y gofelir amdano ac o'r gofalwr yn cael ei wneud ar yr un pryd, os yw'r ddau barti yn fodlon, ac os byddai'n fuddiol gwneud hynny. Mae hyn yn arfer da, ond mae yna bryderon y gallai'r asesiad o'r gofalwr gael ei beryglu trwy ganolbwyntio ar yr hyn y gall y gofalwr ei wneud, neu'r hyn na all ei wneud, ar gyfer y person y gofelir amdano, yn hytrach nag edrych ar ei ganlyniadau yn ei rinwedd ei hun.

Mae angen i elfen y gofalwr o'r asesiad ganolbwyntio ar 'yr hyn sy'n bwysig' i'r gofalwr ac ar anghenion y gofalwr yn ei rinwedd ei hun, er enghraifft, ei anghenion o ran cyflogaeth, addysg a hyfforddiant.



Draft

Mae'n rhaid i'r cyngor lleol gynnwys y gofalwr yn yr asesiad, a chynnwys:

- Y graddau y mae'r gofalwr yn gallu darparu'r gofal a pharhau i ddarparu'r gofal, ac y mae’n barod i wneud hynny
- Y canlyniadau y mae’r gofalwr yn dymuno eu cyflawni

Rhaid i asesiad o’r gofalwr hefyd ystyried a yw'r gofalwr yn dymuno gweithio, ac a yw’n cymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant neu weithgareddau hamdden, neu a yw’n dymuno gwneud hynny.

Bydd angen i ofalwyr fod yn glir iawn ynghylch yr hyn y gallant ei wneud a’r hyn na allant ei wneud, yn ogystal ag unrhyw wahaniaethau rhwng eu disgwyliadau hwy a disgwyliadau’r unigolyn y gofelir amdano. Bydd rhaid i’r bobl sy’n cynnal yr asesiadau fod yn fedrus wrth dynnu’r wybodaeth hon. Mae'r ddeddf yn dweud bod angen gofyn i ofalwyr beth y gallant ei wneud, felly bydd angen monitro hyn i sicrhau ei fod yn digwydd yn ymarferol, a’i fod yn cael ei gynnwys yn yr asesiad. Mae'n bwysig bod yr unigolyn yn teimlo ei fod yn bartner cyfartal yn ei berthynas â gweithwyr proffesiynol.

Mae'r ddeddf yn cydnabod bod gan ofalwyr rôl allweddol yn y dull gwasanaeth ataliol o fewn ardal awdurdod lleol, a bod y gofalwyr eu hunain yn darparu math o wasanaeth ataliol.

Mae'r pwyslais ar y defnydd cynyddol o daliadau uniongyrchol yn newid sylweddol i ofalwyr. Erbyn hyn, mae’n rhaid i gynghorau lleol gynnig taliadau uniongyrchol, er mai dewis yr unigolyn o hyd yw manteisio arnynt ai peidio. Mae taliadau uniongyrchol yn galluogi unigolion i brynu cymorth neu wasanaethau y byddai cynghorau lleol fel arall yn eu darparu. Mae hyn yn rhoi rheolaeth i unigolion trwy ddarparu dewis amgen i wasanaethau gofal cymdeithasol a ddarperir gan gyngor lleol. Mae hyn yn helpu i gynyddu cyfleoedd am annibyniaeth, cynhwysiant cymdeithasol a mwy o hunan-barch.

Mae'r ddeddf yn nodi 'fframwaith cymhwysedd' cenedlaethol newydd i benderfynu a fydd gofalwr sydd wedi cael ei asesu ac y mae ganddo anghenion cymorth yn bodloni'r meini prawf ar gyfer gwasanaethau ai peidio [ychwanegu linc i'r fframwaith cymhwysedd]. Bydd gan ofalwyr ag anghenion cymwys gynllun cymorth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau y mae hwy eu hunain wedi’u nodi. Bydd hefyd yn nodi'r cymorth i'w helpu i gyflawni'r canlyniadau a nodwyd. Bydd cynlluniau cymorth yn destun adolygiadau rheolaidd gan gynghorau lleol, yn ogystal ag ailasesiad o anghenion os yw eu hamgylchiadau yn newid(Care Council for Wales, 2016).

Bu i’r Mesur Gofalwyr gynorthwyo wrth ddechrau newid diwylliant adnabod gofalwyr yn gynnar a’u cefnogi, yn enwedig ar gyfer y bwrdd iechyd. Mae yna bryderon bod y dyletswyddau a’r rhwymedigaethau yn cael eu gwanhau yn y ddeddf newydd. Mae mwy i'w wneud o hyd i sicrhau bod staff iechyd yn

Draft

adnabod gofalwyr, yn enwedig meddygon teulu a staff gofal iechyd sylfaenol eraill(Betsi Cadwaladr University Health Board, 2015).

Gweler atodiad x am fwy o fanylion am y ddeddf newydd a gwefan Cyngor Gofal Cymru, 'Dod i ddeall y Ddeddf' am ragor o wybodaeth am ofalwyr a'r ddeddf http://www.cgcymru.org.uk/adnoddau-dysgu-1/y-ddeddf/gofalwyr-ar-ddeddf/?force=2

Gweler atodiad x am ragor o fanylion am y ddeddfwriaeth, strategaethau a pholisïau hanesyddol yn ymwneud â gofalwyr.

### Diogelu

Gall y straen o ofalu arwain at faterion diogelu i'r gofalwr a'r person y gofelir amdano ill dau. Mae yna adegau pan fydd gofalwyr yn cael eu cam-drin gan y person y maent yn cynnig gofal a chymorth iddo, neu gan y gymuned leol lle maent yn byw. Efallai bydd perygl o niwed i'r unigolyn sy'n derbyn cymorth hefyd  oherwydd straen, blinder, neu ddiffyg gwybodaeth, sgiliau neu gymorth o ran y gofalwr. Mae angen i ddarparwyr gwasanaethau asesu'n ofalus y gallu i ofalu er mwyn atal risgiau rhag codi a sicrhau bod y gofalwr yn cael ei gefnogi i gynnal ei lesiant, gan leihau ffactorau straen emosiynol neu gorfforol.

Mae'r ddeddf newydd yn cynnwys diffiniad newydd o 'blentyn mewn perygl' ac 'oedolyn mewn perygl', dyletswydd newydd ar bartneriaid perthnasol i roi gwybod am blant ac oedolion mewn perygl, a dyletswyddau ar gynghorau lleol i wneud ymholiadau(Care Council for Wales, 2015).

## 7.2 Beth yr ydym yn ei wybod am y boblogaeth?

Mae tua 73,000 o bobl yn darparu gofal di-dâl yng Ngogledd Cymru yn ôl cyfrifiad 2011, sef tua 11% o'r boblogaeth. Mae hyn ychydig yn is na'r ffigwr ar gyfer Cymru gyfan, sef 12%, ac ychydig yn uwch na ffigur Cymru a Lloegr, sef 10%.

**Mae nifer y gofalwyr yng Ngogledd Cymru yn cynyddu, yn enwedig yng ngogledd-orllewin Cymru**

Roedd 6,000 yn fwy o ofalwyr yng Ngogledd Cymru yn 2011 nag yng nghyfrifiad 2001, sydd yn gynnydd o 8%. Ar y cyfan, mae mwy o fenywod yn darparu gofal di-dâl na dynion: mae 57% o'r gofalwyr yng Ngogledd Cymru yn fenywod, a 42% yn ddynion, sy'n debyg i'r gyfran ar draws Cymru ac yn ardal pob cyngor lleol. Mae'r gwahaniaeth hwn wedi lleihau ychydig ers cyfrifiad 2001 o un pwynt canran oherwydd bod mwy o gynnydd yn y niferoedd o ddynion sy'n darparu gofal di-dâl.

MaeTabl 7.1yn dangos bod gan Sir y Fflint y nifer uchaf o ofalwyr yng Ngogledd Cymru ac Ynys Môn yr isaf, sy'n adlewyrchu niferoedd cyffredinol y boblogaeth.



Draft

**Tabl 7.1** Nifer y gofalwyr yng Ngogledd Cymru fesul awdurdod lleol, 2001 a 2011

| | Ebrill 2001 | Ebrill 2011 | % y cynnydd: |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 7,200 | 8,000 | 11 |
| Gwynedd | 11,000 | 12,000 | 11 |
| BS Conwy | 12,000 | 14,000 | 11 |
| Sir Ddinbych | 11,000 | 12,000 | 9 |
| Sir y Fflint | 16,000 | 18,000 | 7 |
| Wrecsam | 15,000 | 15,000 | 2 |
| Gogledd Cymru | 73,000 | 79,000 | 8 |

*Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu, felly efallai na fyddant yn symio*
Ffynhonnell: Cyfrifiad

Mae'r cynnydd yn yr angen am ofal cymdeithasol, a nodwyd ym mhenodau eraill yr adroddiad asesiad poblogaeth hwn, yn debygol o arwain at fwy o bobl sy'n darparu gofal di-dâl ac sy'n darparu gofal am gyfnod hwy. Gall newidiadau mewn patrymau gwaith, ynghyd ag oedran ymddeol sy'n cynyddu, leihau gallu pobl i ddarparu gofal di-dâl. Efallai y bydd pobl sy'n symud i'r ardal i ymddeol hefyd wedi symud i ffwrdd oddi wrth deulu a rhwydweithiau cymdeithasol a allai fod wedi rhoi cymorth.

MaeFfigur 7.1 yn dangos nifer y gofalwyr fel cyfran o gyfanswm y boblogaeth yn y sir: yn Sir Ddinbych y mae'r gyfran uchaf sy'n darparu gofal di-dâl tra bo'r gyfradd isaf yng Ngwynedd. Er bod gan Sir y Fflint y nifer mwyaf o ofalwyr yn gyffredinol, nid yw hyn lawer yn uwch na'r cyfartaledd yng Ngogledd Cymru fel cyfran o'r boblogaeth.

**Ffigur 7.1** Canran o gyfanswm y boblogaeth sy'n darparu gofal di-dâl, 2011




Ffynhonnell: Y Cyfrifiad

### Pobl 50 i 64 oed yw'r rhai mwyaf tebygol o ddarparu gofal di-dâl

Yng Ngogledd Cymru, mae tua 20% o bobl 50 i 64 oed yn darparu gofal di-dâl o gymharu ag 11% o'r boblogaeth gyfan. Yn gyffredinol mae cyfran y bobl sy'n darparu gofal di-dâl yn cynyddu gydag oedran hyd at y grŵp oedran 65 a hŷn. Yn y grŵp oedran 65 a hŷn mae 14% o bobl yn darparu gofal di-dâl, sef yr un gyfran ag yn y grŵp 35-49 oed. Mae'r cyfrannau hyn yn dilyn patrwm tebyg ym mhob awdurdod lleol.

**Tabl 7.2** Nifer y gofalwyr yng Ngogledd Cymru yn ôl oedran ac awdurdod lleol, 2011

| | Oedran | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **0 i 15** | **16 i 24** | **25 i 34** | **35 i 49** | **50 i 64** | **65 a hŷn** |
| Ynys Môn | 140 | 360 | 520 | 1,800 | 3,000 | 2,200 |
| Gwynedd | 250 | 620 | 780 | 3,000 | 4,500 | 3,300 |
| BS Conwy | 260 | 550 | 750 | 3,200 | 4,800 | 4,100 |
| Sir Ddinbych | 260 | 640 | 740 | 2,800 | 4,100 | 3,100 |
| Sir y Fflint | 340 | 920 | 1,200 | 4,500 | 6,600 | 4,100 |
| Wrecsam | 290 | 860 | 1,300 | 4,000 | 5,400 | 3,200 |
| Gogledd Cymru | 1,500 | 4,000 | 5,300 | 19,000 | 28,000 | 20,000 |

*Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu, felly efallai na fyddant yn symio*
Ffynhonnell: Y Cyfrifiad

### Mae hanner yr holl ofalwyr yng Ngogledd Cymru mewn cyflogaeth

Mae'r rhan fwyaf o'r 50% o ofalwyr sydd mewn cyflogaeth yn gweithio'n llawn-amser, fel y dangosir ynFfigur 7.2 isod. Mae tua 30% o ofalwyr wedi ymddeol.

**Ffigur 7.2** Canran y gofalwyr yng Ngogledd Cymru sy'n 16 oed a hŷn yn ôl gweithgaredd economaidd, 2011




Ffynhonnell: Y Cyfrifiad

Draft

O'r 39,000 o ofalwyr sydd mewn cyflogaeth ar draws Gogledd Cymru, mae 5,800 yn darparu mwy na 50 awr o ofal bob wythnos, ac mae 1,600 yn gweithio’n llawn-amser ac yn darparu 50 awr neu ragor o ofal yr wythnos. Mae yna 3,500 o ofalwyr yng ngogledd Cymru sy'n eu disgrifio eu hunain yn bobl a chanddynt salwch neu anabledd hirdymor, ac mae 1,500 o’r rheiny yn darparu 50 awr neu ragor o ofal yr wythnos. Ar gyfer gofalwyr mewn cyflogaeth, mae cymorth eu cyflogwr a chydweithwyr yn hanfodol i’w helpu i barhau â'u rôl ofalu. Mae’n bwysig ystyried hyn wrth gynllunio gwasanaethau, yn enwedig gyda'r ffocws yn y ddeddf newydd ar gefnogi gofalwyr i barhau mewn cyflogaeth os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

### Lwfans Gofalwyr

Yn 2015, roedd 10,000 o bobl yng Ngogledd Cymru yn hawlio lwfans gofalwyr. Mae'r nifer hwn lawer yn is na'r 73,000 a amcangyfrifir sy'n darparu gofal di-dâl. Fodd bynnag, mae’r lwfans hwn ar gael i’r rhai o dan oedran pensiwn yn unig, ond mae yna elfen credyd pensiwn ar gyfer gofalwyr. Ni fydd chwaith ar gael i'r rhan fwyaf o bobl mewn cyflogaeth, sef tua 50% o ofalwyr. Mae'r cynnydd yn y nifer sy'n hawlio, yn ôl pob tebyg, yn ganlyniad i gyfuniad o gynnydd yng nghyfanswm nifer y gofalwyr a gwell ymwybyddiaeth o'r lwfans. Mae'r niferoedd hyn yn dal i awgrymu bod yna broblem o ran gofalwyr nad ydynt yn hawlio'r budd-daliadau y mae ganddynt yr hawl i'w cael, ac yn tynnu sylw at bwysigrwydd gwasanaethau hawliau lles i ofalwyr.

**Ffigur 7.3** Nifer y bobl sy'n cael lwfans gofalwyr yng Ngogledd Cymru, 2011-2015



## Tai a digartrefedd

Mae tai yn rhan bwysig o lesiant gofalwyr, ac mae gwasanaethau tai yn bartner allweddol wrth gefnogi gofalwyr. Gall gofalwyr wynebu materion tai megis tlodi tanwydd o ganlyniad i incwm isel, er enghraifft, os ydynt wedi gorfod rhoi'r gorau i weithio. Gall tai nad ydynt yn addas, neu addasiadau ar gyfer anghenion, wneud y gwaith o ofalu yn fwy anodd, a gall fod yn fwy anodd i bobl sy'n byw mewn eiddo ar rent wneud addasiadau.

Gall gofalwyr bryderu y byddant yn dod yn ddigartref os yw'r unigolyn y maent yn gofalu amdano yn marw neu'n mynd i lety preswyl.

## Mesuriadau perfformiad ac asesiadau gofalwyr

Mae data ar gael ar nifer yr asesiadau gofalwyr a gynhaliwyd ar draws Gogledd Cymru. Nid ydym wedi eu cynnwys yma oherwydd eu bod yn rhoi darlun camarweiniol, gan y cafodd y niferoedd eu cyfrif yn wahanol ym mhob sir. Roedd y data hefyd yn seiliedig ar asesiad o'r unigolyn y 'gofelir amdano', felly nid oeddent yn cynnwys asesiadau o ofalwyr a oedd wedi hunangyfeirio. Mae angen dull cyson o asesu a chofnodi data.

Bydd gwybodaeth newydd am ofalwyr yn dechrau cael ei chasglu gan gynghorau lleol yn ystod 2016-17, a dylai fod ar gael ar gyfer yr asesiad poblogaeth nesaf neu adolygiad interim. Mae hyn yn cynnwys arolwg blynyddol o ofalwyr, i'w gynnal gan awdurdodau lleol, a fydd yn canfod y canlynol:

- Nifer y gofalwyr sy'n adrodd eu bod, yn eu bwrn hwy, yn cael cymorth i barhau yn eu rôl ofalu
- Nifer y gofalwyr sy'n adrodd eu bod, yn eu bwrn hwy, yn cael cyfrannu at ddylunio'r cynllun gofal a chymorth ar gyfer yr unigolyn y maent yn gofalu amdano(Welsh Government, 2015)

Mae data eraill a fydd yn cael eu casglu yn cynnwys:

- Nifer yr asesiadau o angen am gymorth i ofalwyr a wnaed yn ystod y flwyddyn ac, o'r rheiny, sawl un a arweiniodd at gynllun cymorth
- Nifer yr asesiadau gofalwyr a wrthodwyd gan ofalwyr yn ystod y flwyddyn
- Nifer y ceisiadau i adolygu cynlluniau gofal a chymorth a chynlluniau cymorth ar gyfer gofalwyr cyn yr amserlenni a gytunwyd a wnaed gan oedolyn yn ystod y flwyddyn ac, o'r rheiny, sawl un a wnaed
- Nifer yr oedolion a dalodd y ffi wythnosol uchaf tuag at gost gofal a chymorth neu gymorth i ofalwyr yn ystod y flwyddyn
- Nifer yr oedolion a dalodd ffi cyfradd unffurf ar gyfer gofal a chymorth neu gymorth i ofalwyr yn ystod y flwyddyn

Draft

## 7.3 Beth y mae pobl yn ei ddweud wrthym?

Mae’r prif ganfyddiadau o weithgareddau ymgysylltu a gynhaliwyd ar gyfer yr asesiad poblogaeth, ac o ymgynghoriadau blaenorol a gynhaliwyd gan bob cyngor lleol ac iechyd, yn cael eu rhestru isod. Am ragor o wybodaeth gweler atodiad x.

**Sut i gefnogi gofalwr trwy ddiwallu anghenion yr unigolyn y gofelir amdano yn well**

- Gall offer ac addasiadau a thechnoleg gynorthwyol ddarparu gwasanaethau gwerthfawr iawn. Gall problemau gynnwys anghenion hyfforddi a rhestrau aros.
- Gofal seibiant, gan gynnwys seibiannau byrdymor
- Asesiadau Gofal Iechyd Parhaus i gynnwys seibiannau byrdymor i ofalwyr
- Rhagor o weithgareddau ar gyfer pobl y gofelir amdanynt, yn enwedig unigolion â dementia
- Cymorth dibynadwy o ansawdd da ar gyfer y rheiny y gofelir amdanynt
- Cymorth pan fydd gofalwr yn sâl, o ran triniaeth frys a’r hyn sydd wedi'i gynllunio
- Cludiant dibynadwy i'r ysbyty, sy'n cynnwys cludiant ar gyfer gofalwyr. Mae angen i ofalwyr gael mynediad cyfartal at gludiant, hyd yn oed pan na fydd yr unigolyn y gofelir amdano gyda hwy, i’w galluogi i gasglu presgripsiynau, er enghraifft.
- Gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol – cael gweithwyr a all helpu gyda meddyginiaeth yn ogystal â gofal personol

**Cymorth penodol ar gyfer gofalwyr**

- Gwybodaeth a chyngor hygyrch (yn ddelfrydol mewn un lle)
- Cymorthfeydd gwybodaeth, hybiau, pwyntiau trafod a gwasanaethau galw i mewn yn lleol
- Eiriolaeth ar gyfer y gofalwr
- Cymorth un i un ar gyfer y gofalwr, er enghraifft clust i wrando a chymorth dros y ffôn 24 awr y dydd
- Grwpiau cymdeithasu a grwpiau gofalwyr yn y gymuned leol
- Mynediad at weithgareddau hamdden
- Cyfleoedd i wirfoddoli
- Addysg, sgiliau a chyflogaeth

Draft

- Cydnabyddiaeth a pharch, ymgynghori fel partneriaid mewn gofal, gan gynnwys pan fydd unigolyn yn mynd i mewn i ofal hirdymor
- Gwell cyfathrebu rhwng yr holl bartïon sy’n rhan o’r gwaith o roi cymorth i ofalwyr a'r rheiny y gofelir amdanynt
- Cymorth y trydydd sector – mae gofalwyr yn gwerthfawrogi’n fawr yr ystod o gymorth a ddarperir gan sefydliadau'r trydydd sector
- Cymorth i'r gofalwr pan ddaw ei rôl ofalu i ben, gan gynnwys materion cyflogaeth, budd-daliadau a thai

Nododd yr ymgynghoriad hefyd y bylchau canlynol mewn gwasanaethau:

- Diffyg cludiant mewn ardaloedd gwledig
- Diffyg gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig, gan gynnwys gofalwyr yn y cartref sy’n derbyn tâl
- Anallu mewn rhai ardaloedd i wneud apwyntiadau gyda meddyg hysbys/a enwir, y mae ei angen er cysondeb, yn enwedig ar gyfer pobl ag anghenion iechyd meddwl neu ddementia
- Diffyg ymwybyddiaeth ymhlith staff gofal sylfaenol o ofalwyr, eu pwysigrwydd a'u hanghenion
- Gwasanaethau cwnsela annigonol ar gyfer gofalwyr yr effeithir ar eu hiechyd meddwl gan eu rôl ofalu; mae hyn yn arbennig o bwysig oherwydd effaith a straen rôl ofalu
- Amrywiaeth, argaeledd a hyblygrwydd annigonol o ran gofal seibiant a seibiannau byr i ofalwyr
- Bwlch mewn cymorth i’ rheiny sy’n gofalu am bobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau
- Cyllid cynaliadwy, hirdymor ar gyfer prosiectau cefnogi gofalwyr

Roedd adborth arall yn cynnwys effaith negyddol gofalu ar iechyd; mae gofalu yn haws pan ceir cymorth da gan deulu a ffrindiau (er yr ymddengys bod rhai gofalwyr yn meddwl na allai/na ddylai teulu roi cymorth oherwydd bod ganddynt eu bywydau eu hunain i’w byw); amrywiaeth fawr rhwng gofalwyr sy'n teimlo eu bod yn cael cymorth da a gofalwyr sy'n dweud nad ydynt yn cael unrhyw gymorth. Roedd llawer o ofalwyr, oni bai eu bod yn cael eu hannog, yn methu gweld sut y mae eu cymuned leol yn helpu, neu sut y gallai helpu.

## Yr angen am wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg

Amlygodd y broses ymgynghori ac ymgysylltu bwysigrwydd sicrhau bod gwasanaethau gofal a chymorth ar gael yn y Gymraeg. Dylai gwasanaethau sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn rhan o’r gwaith o gynllunio a chyflenwi gwasanaethau, a bod gwasanaethau yn cael eu cynnig trwy gyfrwng y Gymraeg i siaradwyr Cymraeg, a hynny heb iddynt orfod gofyn amdanynt fel sy'n ofynnol

Draft

gan y 'cynnig gweithredol'. Mae'r penodau eraill o'r asesiad poblogaeth yn nodi lle nad yw'r anghenion hyn yn cael eu diwallu ar gyfer pobl sy'n cael gofal a chymorth, ac mae proffil iaith Gymraeg o'r boblogaeth wedi'i gynnwys yn y cyflwyniad [ychwanegu lincs].

Mae angen ymgynghori ac ymgysylltu i amlygu meysydd angen penodol o ran darpariaeth Gymraeg ar gyfer gofalwyr; er enghraifft, amlygodd ein hymgynghoriad yr angen am grŵp cefnogi gofalwyr iaith Gymraeg ym Meirionnydd. Mae hyn yn cael sylw, a bydd yn cael ei ddarparu gan y trydydd sector.

Drafft

## 7.4 Adolygiad o’r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd

Yn hanesyddol, gall llawer o'r cymorth y mae ei angen ar ofalwyr gael ei ddarparu trwy asesiad statudol o’r unigolyn y gofelir amdano. Gyda chyflwyno’r ddeddf newydd, rhaid ystyried darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth neu wasanaethau ataliol ac adsefydlu ar gyfer yr unigolyn y gofelir amdano. Bydd yr asesiad hwn, ynghyd â'r cynllun gofal a chymorth, yn canolbwyntio ar ganlyniadau i'w cyflawni a ffyrdd arloesol o’u cyflawni, er enghraifft mynd i grwpiau lleol sy'n darparu cyfleoedd yn ystod y dydd. Fodd bynnag, os nad oes unrhyw ffordd arall, yna bydd gwasanaethau, er enghraifft gofal yn y cartref, yn cael eu darparu gan y gwasanaethau cymdeithasol. Yn ogystal, gall gwasanaethau gofal seibiant, ar ffurf gofal byrdymor mewn lleoliad preswyl a gwasanaethau gwarchod, gael eu rhoi i'r unigolyn y gofelir amdano er mwyn rhoi seibiant i’r gofalwyr o'r rôl ofalu. **Gall pob un o'r gwasanaethau hyn ddarparu cymorth i ofalwyr a seibiant i ffwrdd o’r rôl ofalu**.

**Yn ogystal,** fodd bynnag, mae ystod eang o gymorth i ofalwyr yng Ngogledd Cymru yn cael ei ariannu gan grantiau neu’n cael ei gomisiynu i fudiadau trydydd sector sydd â hanes hir a gwerthfawr o gefnogi gofalwyr. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau ataliol a all gefnogi gofalwyr drwy gydol eu taith ofalu, a gwasanaethau a gomisiynir sy'n bodloni rhwymedigaethau statudol, er enghraifft asesiadau o anghenion gofalwyr.

Gall grantiau cynghorau a byrddau iechyd lleol ariannu gwasanaethau gofalwyr yn rhannol neu'n gyfan gwbl ac, mewn rhai achosion, mae’r cyllid yn cyfrannu at gostau craidd. Mae rhai gwasanaethau trydydd sector yn cael cyllid gan gynghorau lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), er nid o reidrwydd o dan un contract. Mae gwasanaeth Gofalwyr Ifanc WCD (sy’n gwasanaethu Wrecsam, Conwy, Sir Ddinbych) yn enghraifft dda o gydweithio yn arwain at ddull comisiynu rhanbarthol ynghyd â BIPBC i gefnogi gofalwyr.

Rhaid cydnabod hefyd y gall y trydydd sector ddenu cyllid allanol yn effeithiol er mwyn datblygu gwasanaethau gofalwyr i ddarparu gwerth ychwanegol i wasanaethau a ddarperir.

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o'r math o wasanaethau sy'n cael eu darparu i ofalwyr ar draws Gogledd Cymru, sy’n amrywio ar draws y rhanbarth. Er bod rhai o'r gwasanaethau hyn yn generig, rhaid nodi bod eraill yn wasanaethau arbenigol, er enghraifft darparu cymorth i’r rheiny sy’n gofalu am unigolion â dementia neu gyflyrau iechyd meddwl. Mae'r rhestr hefyd yn cynnwys gwasanaethau sy'n codi ymwybyddiaeth o faterion gofalwyr:

- Gwybodaeth, cyngor a chymorth
- Aseswyr anghenion gofalwyr dynodedig (yn fewnol ac wedi’u comisiynu allan)
- Cefnogaeth un i un

Draft

- Clust i wrando/cymorth emosiynol
- Cwnsela
- Swyddogion cymorth gofalwyr – ysbytai acíwt
- Grwpiau/fforymau/caffis cymorth
- Swyddogion gofal sylfaenol – codi ymwybyddiaeth gyda meddygfeydd teulu
- Hyfforddiant i ofalwyr, er enghraifft, dementia, cymorth cyntaf, symud a lleoli, ymlacio, pennu nodau
- Hyfforddiant i staff – i godi ymwybyddiaeth o faterion gofalwyr a'r cymorth sydd ar gael
- Taliadau uniongyrchol/cyllidebau cymorth/grantiau untro
- Cymorth i gael mynediad at ddysgu gydol oes, cyflogaeth a chyfleoedd gwirfoddoli
- Cymorth a gweithgareddau i ofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc

Seibiannau byrdymor: mae cynghorau lleol a BIPBC hefyd yn buddsoddi'n sylweddol mewn gwasanaethau gofalwyr sy'n darparu seibiannau byr ar ffurf gwasanaeth gwarchod neu ofal amnewid. Er bod y rhain yn wasanaethau a ddarperir i'r unigolyn y gofelir amdano, maent yn cael eu hystyried yn wasanaethau gofalwyr. Mae'r trefniadau cytundebol a'r meini prawf ar gyfer y gwasanaethau hyn yn amrywio ar draws y rhanbarth ond, ar hyn o bryd, maent yn wasanaethau nas codir tâl ar ofalwyr amdanynt. Mae rhai sefydliadau trydydd sector hefyd yn denu cyllid allanol ar gyfer y mathau hyn o wasanaethau.

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi cytuno i benodi swydd ranbarthol i fapio'r ystod lawn o wasanaethau sydd ar gael i ofalwyr yng Ngogledd Cymru.

Mae Porth Dinasyddion Cymru Gyfan, DEWIS, yn darparu gwybodaeth gofal cymdeithasol a llesiant, yn cynnwys gwasanaethau a chymorth i ofalwyr https://www.dewis.cymru/ .

## 7.5 Gofalwyr ifanc

Mae Llywodraeth Cymru yn diffinio gofalwyr ifanc fel gofalwyr dan 18 oed. Mae Côd Ymarfer Rhan 3 yn diffinio gofalwyr sy'n oedolion ifanc fel rhai rhwng 16 a 25 oed.

Mae gofyn bod cynghorau lleol yn cynnig asesiad gofalwr i unrhyw ofalwyr y gwelir y mae arno ei angen. Mae Atodiad A i'r Côd Ymarfer yn nodi amrywiaeth o enghreifftiau sy'n ymwneud â gofalwyr ifanc, yn cynnwys:

- Mae'r plentyn yn annhebygol o gyrraedd ei nodau datblygu

- Nid yw/ni fydd yr unigolyn yn gallu cyrchu gwaith, hyfforddiant, addysg, gwaith gwirfoddol neu weithgareddau hamdden, na chymryd rhan ynddynt.

Wrth gynnal yr asesiad, rhaid i'r cyngor roi sylw i bwysigrwydd hwyluso magu'r plentyn gan ei deulu, i'r graddau y bydd hynny'n cyd-fynd â hybu llesiant y plentyn.

Pan fydd plentyn yn ofalwr, rhaid i'r cyngor ystyried ei anghenion datblygiadol a'r graddau y mae'n briodol i'r plentyn ddarparu'r gofal. Dylai hynny arwain y cyngor i ystyried a yw'r gofalwr, mewn gwirionedd, yn blentyn â'i anghenion gofal a chymorth ei hun.

## Beth yr ydym yn ei wybod am y boblogaeth?

Mae nifer y gofalwyr ifanc a nodwyd yng Ngogledd Cymru wedi cynyddu yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf, a hynny yn sgil y cynnydd mewn atgyfeiriadau o ganlyniad i waith codi ymwybyddiaeth llwyddiannus a chysylltiadau cadarnhaol â sefydliadau partner.

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae 1,096 o ofalwyr ifanc yn cael eu cefnogi ledled Gogledd Cymru (Tachwedd 2016) fel y gwelir yn Tabl 7.3. Yn ôl cyfrifiad 2011, roedd 1,500 o ofalwyr ifanc 0 i 15 oed, a 4,000 o ofalwyr ifanc 16 i 24 oed yng Ngogledd Cymru.

**Tabl 7.3** Gofalwyr ifanc – achosion agored, Gogledd Cymru, Tachwedd 2016

| | Nifer y gofalwyr ifanc |
|---|---|
| Ynys Môn | 80 |
| Gwynedd | 157 |
| Conwy | 223 |
| Sir Ddinbych | 174 |
| Sir y Fflint | 265 |
| Wrecsam | 197 |
| Gogledd Cymru | 1,096 |

Ffynhonnell: Darparwyr gwasanaethau i ofalwyr ifanc (Gweithredu Dros Blant, Barnardos)

Mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru yn tynnu sylw at y materion canlynol sy'n wynebu gofalwyr ifanc.

- Amcangyfrifir bod 29,000 o ofalwyr dan 25 oed yng Nghymru, 17,500 ohonynt dros 18 oed, ond mae ymchwil yn awgrymu y gall y nifer hwn fod yn sylweddol uwch. O holl ardaloedd y DU, Cymru sydd â'r gyfran uchaf o ofalwyr sy'n oedolion ifainc.

Draft

- Gwelwyd yn glir mewn ymchwil ledled y DU (Prifysgol Nottingham a'r Carers Trust) fod gofalwyr sy'n oedolion ifanc yn grŵp o bobl nad ydynt yn cael eu hadnabod na'u cefnogi'n llawn.
- Ar gyfartaledd, mae cyflawniad gofalwyr ifanc 9 gradd yn is mewn arholiadau TGAU.
- Ar gyfartaledd, mae gofalwyr sy'n oedolion ifanc yn colli 48 o ddiwrnodau ysgol cyfan neu rannol bob blwyddyn (bron 5 wythnos).
- Mae gofalwyr sy'n oedolion ifanc bedair gwaith yn fwy tebygol o roi'r gorau i addysg uwch.
- Roedd un o bob pedwar gofalwr ifanc yn dweud iddynt gael eu bwlio oherwydd eu rôl ofalu.

## Adolygiad o'r gwasanaethau a ddarperir

Comisiynwyd cefnogaeth benodol o'r trydydd sector ar gyfer gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc ar draws Gogledd Cymru. Comisiynwyd Gofalwyr Ifanc WCD/Credu i ddarparu'r gwasanaethau hyn yn Wrecsam, Sir Ddinbych a Chonwy. Barnardos sy'n darparu'r gwasanaeth yn Sir y Fflint, a Gweithredu Dros Blant sy'n darparu'r gwasanaeth yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Ar Ynys Môn, mae'r Carers Trust yn darparu gwasanaethau i Ofalwyr sy'n Oedolion Ifanc.

Mae'r mudiadau hyn i gyd yn darparu'r un lefel o gefnogaeth, sy'n cynnwys gwybodaeth a chyngor, gweithgareddau a digwyddiadau cymdeithasol, cefnogaeth â gwytnwch a llesiant personol, cludiant, cwnsela, eiriolaeth a chyswllt ag ysgolion, colegau, y gwasanaethau cymdeithasol neu weithwyr iechyd proffesiynol. Nid yw'r gwasanaethau hyn yn ymyrryd yn uniongyrchol i ateb anghenion yr unigolyn y gofelir amdano gan y person ifanc. Maent yno i liniaru effaith y rôl ofalu ar y person ifanc.

Yr anghenion mwyaf cyffredin ymhlith gofalwyr ifanc a nodwyd gan y darparwyr gwasanaethau hyn yw: yr angen am ysbaid a chyfle i gymdeithasu (rhoi'r amser iddynt fod yn blentyn); meithrin gwytnwch, llesiant emosiynol a hunan-barch; yr angen am rwydweithiau cefnogaeth gan gyfoedion â gofalwyr ifanc eraill sy'n deall; cefnogaeth ag addysg a dysgu; a chefnogaeth eiriolaeth er mwyn i'w lleisiau gael eu clywed.

Y gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau plant arbenigol, Teuluoedd yn Gyntaf a swyddogion lles addysg ar ran ysgolion sy'n gwneud y mwyafrif o'r atgyfeiriadau. Yng Ngogledd-orllewin Cymru, gwelwyd cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau gan y gwasanaeth iechyd, yn bennaf gan nyrsys ysgol, ymwelwyr iechyd ac ymgynghorwyr, yn y ddwy flynedd diwethaf, a hynny yn dilyn cynllun arbrofol oedd â'r nod o wella iechyd a llesiant emosiynol gofalwyr ifanc.



Draft

### Tueddiadau sy’n dod i’r golwg

Mae pob darparwr yn adrodd am gynnydd sylweddol yn nifer y gofalwyr ifanc y mae arnynt angen cefnogaeth un i un, a dywedant fod hynny’n cael effaith sylweddol ar yr adnoddau sydd ar gael. Nodwyd nifer o resymau am yr angen dwysach, gan gynnwys: o ran hunan-niweidio; a’r cynnydd yn nifer y plant a phobl ifanc â diagnosis o ADHD neu Awtistiaeth a phroblemau ymddygiad sylweddol eraill sy’n cysylltu â’r gwasanaeth.

### Tai a digartrefedd

Gall gofalwyr ifanc deimlo’n ansicr ynghylch eu tai gan nad ydynt yn gallu cael budd-dal nac ysgwyddo cyfrifoldeb am dalu’r dreth gyngor eu hunain.

### Diogelu

Gall gofalwyr ifanc wynebu nifer o ffactorau o safbwynt diogelu. Mae’n anodd adnabod gofalwyr ifanc yn aml, a gall hynny olygu na fydd eu hanghenion yn dod i’r golwg nes bod argyfwng yn codi. Gall graddau rolau gofalu plant, ynghyd ag effaith hynny ar eu datblygiad, fod yn bryderon diogelu ynddynt eu hunain ac, oherwydd hynny, mae’n hanfodol bwysig fod gwasanaethau’n adnabod ac yn asesu eu hanghenion yn llawn er mwyn sicrhau eu bod yn cael y gefnogaeth iawn ar yr adeg iawn.

Gall gofalu gael effaith ar ddatblygiad emosiynol a chorfforol, addysg, a rhwydweithiau cymdeithasol a chyfeillgarwch gofalwyr ifanc (Becker *et al.*, 2000). Mae gofalwyr ifanc iawn, dan wyth oed, yn wynebu risg benodol, ac ni chawsant eu cynnwys mewn rhai asesiadau gofalwyr ifanc yn y gorffennol ar y sail na ddylai’r un plentyn dan wyth oed fod â chyfrifoldebau gofalu. Mae angen i gomisiynwyr sicrhau bod cefnogaeth ar gael i’r bobl ifanc hyn trwy wasanaethau gofalwyr ifanc neu drwy wasanaethau eraill ar gyfer plant diamddiffyn.

Gall plant a rhieni fod â syniadau gwahanol hefyd ynghylch lefelau gofal priodol ac, weithiau, gall rhieni fod yn amharod i ymgysylltu â gwasanaethau oherwydd canfyddiadau negyddol neu ofnau ynghylch y camau y gall y gwasanaethau cymdeithasol eu cymryd.

Yn yr un modd, mae gofalwyr sy’n oedolion ifanc yn wynebu’r un materion diogelu â gofalwyr ifanc. Gall bod yn ofalwr roi straen aruthrol ar bobl ifanc, gan effeithio ar eu cyrhaeddiad addysgol, mynediad at hyfforddiant a chyflogaeth, a’u hiechyd a’u llesiant cyffredinol.

Nid yw bod yn ofalwr ifanc yn golygu, o reidrwydd, fod angen amddiffyn plentyn neu berson ifanc. Fodd bynnag, mae’n arwydd bod yn rhaid i wasanaethau roi prosesau ataliol ar waith i sicrhau na fydd teuluoedd yn wynebu argyfwng ac yn sbarduno gweithdrefnau amddiffyn plant yn sgil hynny.

Draft

## Beth y mae gofalwyr ifanc wedi ei ddweud wrthym?

Canfyddiadau'r ymgynghoriad a'r broses ymgysylltu â gofalwyr ifanc.

Y meysydd a oedd yn heriol i ofalwyr ifanc oedd: canolbwyntio, cyfathrebu, bod yn hyderus a gwneud ffrindiau (oherwydd eu rôl ofalu, o bosibl). Roedd eu hanghenion fel a ganlyn:

- Cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi gan athrawon i lwyddo'n academaidd.
- Eiriolaeth wrth ddelio â gweithwyr proffesiynol, na fyddant o bosibl yn gwrando ar ofalwyr ifanc, yn enwedig y rhai ieuengaf.
- Gwasanaethau cwnsela a cefnogaeth â'u hanghenion iechyd eu hunain.
- Problemau cael apwyntiad â'r meddyg teulu.
- Diffyg ymwybyddiaeth a pharch gan rai gweithwyr proffesiynol, yn enwedig gweithwyr iechyd.
- Gwybodaeth hwylus, hawdd ei defnyddio naill ai ar-lein neu drwy ddarpariaeth un i un, nad yw'n defnyddio jargon.
- Cael cydnabyddiaeth, cefnogaeth a gwrandawiad gan ffrindiau, teulu a gweithwyr proffesiynol ym mhob maes.
- Lleoedd i fynd i wneud ffrindiau a chael hwyl.

Nododd canfyddiadau'r broses ymgynghori ac ymgysylltu â gofalwyr sy'n oedolion ifanc fod ganddynt anghenion penodol o ran gofal ysbaid a chefnogaeth ymarferol, gwybodaeth a chefnogaeth un i un. Bydd rhai gofalwyr yn defnyddio cefnogaeth ysbaid i'w galluogi i fynd allan fel teulu, heb fod un ohonynt yn gorfod aros ar ôl i ofalu am yr unigolyn y gofelir amdano. Bydd yn well gan eraill gael cefnogaeth ymarferol â thasgau'r tŷ fel bod gan y gofalwyr sy'n oedolion ifanc lai i'w wneud ar ôl cyrraedd adref o'r coleg, gan ryddhau amser astudio. Gall arwahanrwydd fod yn broblem hefyd i ofalwyr sy'n oedolion ifanc, weithiau oherwydd problemau cludiant.

## Adolygiad o'r gwasanaethau a ddarperir

Ar y cyfan, comisiynir gwasanaethau ar gyfer gofalwyr ifanc i gefnogi plant dros 8 mlwydd oed, oherwydd credir bod cyflawni rôl ofalu gan blentyn iau na hynny yn arwydd o angen uwch, ac y dylai teuluoedd yn yr achosion hynny gael cefnogaeth ac ymyrraeth gan y gwasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag, mae Gofalwyr Ifanc WCD/Credu wedi cael arian ychwanegol gan Blant Mewn Angen y BBC i ddarparu cefnogaeth wedi'i deilwra ar gyfer gofalwyr ifanc dan 8 oed.

Mae angen rhagor o eglurder i ddatblygu ein dealltwriaeth o'r rhychwant o gefnogaeth a ddarperir gan ofalwyr ifanc yng Ngogledd Cymru. Tra bydd y mwyafrif o atgyfeiriadau'n ymwneud â pherson ifanc sy'n cefnogi perthynas sy'n

Draft

dioddef anabledd neu salwch hirdymor, gwelir bod nifer gynyddol o'r rhai a atgyfeirir yn gofalu am riant neu rieni â phroblem camddefnyddio sylweddau.

Mae angen gwneud rhagor o waith i ymchwilio i'r ystod o anghenion ymysg poblogaeth gofalwyr ifanc Gogledd Cymru. Mae pob gwasanaeth yn darparu cefnogaeth yn ôl haen, yn seiliedig ar asesiad, er nad oes dull gweithredu safonedig ar draws y tri darparwr, ac nid yw'n glir faint o blant sy'n cael cefnogaeth ym mhob haen. Mae angen archwilio'r tueddiadau sy'n dod i'r amlwg er mwyn rhoi gwedd gliriach ar fynycher pob mater a llywio datblygiad gwasanaethau a'r cynlluniau comisiynu yn y dyfodol.

Awgrymai'r adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth fod bwlch yn y ddarpariaeth ar gyfer gofalwyr sy'n oedolion ifanc a gofalwyr ifanc dan 8 oed. Mae anghenion a phrofiadau'r gofalwyr yn y grwpiau hyn yn wahanol iawn i anghenion a phrofiadau gofalwyr ifanc (8-16 oed), ac mae gofyn cynnig lefel wahanol o gefnogaeth iddynt.

## 7.6 Casgliad ac Argymhellion

Mae gofalwyr yn chwarae rôl hanfodol wrth ddarparu gofal a chymorth, ac yn darparu gwasanaeth ataliol eu hunain. Amcangyfrifir bod gofalwyr yn darparu rhwng 70% a 95% o ofal, gan arbed £7.72 biliwn bob blwyddyn yng Nghymru (Yeandle and Buckner, 2015; Welsh Government, 2016). Mae pob sefyllfa ofalu yn unigryw.

### Y prif ganfyddiadau

- Mae nifer y gofalwyr yng Ngogledd Cymru yn cynyddu, yn enwedig yng ngogledd-orllewin Cymru.
- Pobl 50 i 64 oed sy'n fwyaf tebygol o fod yn darparu gofal di-dâl.
- Mae hanner yr holl ofalwyr yng Ngogledd Cymru mewn cyflogaeth: ar gyfer gofalwyr mewn cyflogaeth, mae cymorth eu cyflogwr a chydweithwyr yn hanfodol i'w helpu i barhau yn eu rôl ofalu.
- Mae'r cynnydd yn yr angen am ofal cymdeithasol, a nodwyd ym mhenodau eraill yr adroddiad asesu poblogaeth, yn debygol o arwain at fwy o bobl yn darparu gofal di-dâl ac yn darparu gofal am gyfnod hwy.
- Nodwyd bod mwy na 1,000 o ofalwyr ifanc yng Ngogledd Cymru, a bod y nifer hwn wedi cynyddu yn y blynyddoedd diweddar.

### Bylchau yn y gefnogaeth ac argymhellion

Mae yna her i wasanaethau yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, gyda gwasanaethau yn cael eu torri ar gyfer gofalwyr ac ar gyfer y bobl y maent yn gofalu amdanynt. Mae llawer o'r cymorth i ofalwyr, yn enwedig gan y trydydd



Drafft

sector, yn dibynnu ar gyllid byrdymor, ac mae yna risgiau o ran cynaliadwyedd y cymorth hwn.

Ceir adborth bod darpariaeth gofal seibiant/seibiant byr yn lleihau, yn ogystal â materion sy’n ymwneud â pha mor bell ymlaen llaw y mae angen iddo gael ei gynllunio, sy'n golygu ei bod yn anodd i ofalwyr wneud cynlluniau munud olaf. Mae’n rhaid i ni ailfeddwl sut yr ydym yn darparu gwasanaethau i gyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer gofalwyr a'r unigolyn y gofelir amdano yn yr hinsawdd hon.

Mae cymorth mewn ysbytai acíwt yn anghyson – mae swyddog cymorth gofalwyr ar gael yn rhanbarthau’r Gorllewin a’r Dwyrain yng Ngogledd Cymru a gynhelir gan y trydydd sector, ond nid oes unrhyw ddarpariaeth yn yr ardal ganolog. Yn yr ardal hon, ac mewn ardaloedd eraill, mae angen ystyried sut i ddarparu mwy o gysondeb ar draws y rhanbarth.

Mae yna angen cynyddol am gefnogaeth un i un ar gyfer gofalwyr ifanc, ynghyd â chefnogaeth i ofalwyr ifanc dan 8 oed.

Yn ogystal â’r enghreifftiau uchod, amlygodd yr ymgynghoriad yr angen am well cymorth i ofalwyr trwy ddiwallu anghenion yr unigolyn y gofelir amdano yn well, yn ogystal â darparu cymorth penodol ar gyfer gofalwyr. Amlygodd fylchau o ran cludiant, gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig, ymwybyddiaeth staff gofal sylfaenol, gwasanaethau cwnsela ar gyfer gofalwyr a chymorth i’r rheiny sy’n gofalu am unigolion sy’n camddefnyddio sylweddau. Amlygodd yr adolygiad o wasanaethau fod darpariaeth ar gael yng Ngogledd Cymru i ddiwallu llawer o'r anghenion hyn, er nad yw'r ddarpariaeth hon yn gyson ar draws y rhanbarth.

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi cytuno i benodi swydd ranbarthol i fapio’r ystod lawn o wasanaethau sydd ar gael i ofalwyr yng Ngogledd Cymru. Mae'r ymarfer cwmpasu yn debygol o nodi bylchau ac anghysonderau eraill ar draws Gogledd Cymru, ac o amlygu blaenoriaethau ar gyfer gweithio ar y cyd. Mae grŵp gweithredol gofalwyr rhanbarthol yn bodoli, a fydd yn edrych ar gyfleoedd i weithio’n rhanbarthol, sy’n deillio o'r asesiad poblogaeth hwn.

## Materion cydraddoldeb a hawliau dynol

Mae'r bennod hon yn cydnabod y gall gofalwyr gael eu heffeithio’n anghymesur o ganlyniad i'w rôl fel gofalwyr, er na nodir yn ffurfiol bod gan ofalwyr a gofalwyr ifanc nodweddion a ddiogelir, ac mewn llawer o achosion maent yn wynebu anfanteision economaidd a chymdeithasol sylweddol. Ar gyfer gofalwyr ifanc a gofalwyr sy’n oedolion ifanc, gall hyn effeithio ar eu datblygiad eu hunain ac ar eu cyfleoedd mewn bywyd.

Mae'r bennod hon yn amlinellu’r ffaith y gall gofalwyr feddu ar nodweddion a ddiogelir, ac mae’n nodi data sy'n dangos effeithiau anghymesur o ran oedran a



Drafft

rhyw. Mae’r bennod hon hefyd yn cynnwys adran benodol sy’n edrych ar anghenion gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc.

Mae yna grwpiau eraill â nodweddion a ddiogelir y gellid effeithio arnynt oherwydd natur eu rôl ofalu. Mae'r asesiad o effaith ar gydraddoldeb yn yr asesiad  poblogaeth hwn yn myfyrio ar ystyriaethau ac effeithiau pellach. Efallai na fydd materion sy'n effeithio ar bobl â’r nodweddion a ddiogelir yn cael eu nodi yn yr asesiad hwn, ond gellid mynd i'r afael â hwy wrth adolygu'r asesiad poblogaeth yn y dyfodol, wrth ddatblygu'r cynllun ardal, neu yn y gwasanaethau sy’n cael eu datblygu neu eu newid mewn ymateb i'r cynllun.

Rhaid i wasanaethau ar gyfer gofalwyr fabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n cymryd i ystyriaeth anghenion gwahanol y bobl â nodweddion a ddiogelir. Bydd hyn yn ddull parhaus yn ystod y gwaith o ddatblygu cynlluniau gweithredu yn y dyfodol, a bydd yn chwarae rôl allweddol o ran datblygu gwasanaethau.

Byddem yn croesawu unrhyw dystiolaeth benodol bellach a allai helpu i lywio'r asesiad.

## Y camau nesaf ar gyfer yr asesiad poblogaeth a’r cynllun ardal

- Cael gwybodaeth am effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i ofalwyr, gwella’r gwaith o werthuso prosiectau, ac edrych ar yr hyn y gellir ei ailadrodd ar draws y rhanbarth i ddarparu cymorth mwy cyson, hyd yn oed o ystyried amrywiadau lleol.
- Ystyried sut yr ydym yn nodi canlyniadau a systemau i nodi angen heb ei ddiwallu, er enghraifft, mae Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ddinbych yn treialu defnyddio sgyrsiau 'yr hyn sy'n bwysig' gyda gofalwyr.
- Mapio gwasanaethau gofalwyr ar draws Gogledd Cymru, gan gynnwys argaeledd y ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Rhannu’r canfyddiadau o'r asesiad poblogaeth a’r cynllun ardal â Llywodraeth Cymru i lywio datblygiad Strategaeth Cymru Gyfan ar gyfer Gofalwyr.

Drafft

## Atodiad 1 Deddfwriaeth hanesyddol ar gyfer gofalwyr

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diddymu y rhan fwyaf o'r ddeddfwriaeth gofal cymunedol bresennol gan gynnwys:

- Deddf Gofalwyr (Cydnabyddiaeth a Gwasanaethau) 1995
- Deddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000
- Deddf Gofalwyr (Cyfle Cyfartal) 2004
- Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010

### A1.1 Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010

"Diben y Mesur hwn yw galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i ddeddfu i gyflwyno gofyniad newydd ar y GIG ac Awdurdodau Lleol yng Nghymru ("yr awdurdodau perthnasol") i weithio mewn partneriaeth i baratoi, cyhoeddi a gweithredu strategaeth ar y cyd mewn perthynas â gofalwyr.

http://gov.wales/docs/dhss/publications/120206carerestrategiesmeasure2010guidancecy.pdf

http://www.legislation.gov.uk/wsi

### A1.2 Deddf Gofalwyr (Cydnabyddiaeth a Gwasanaethau) 1995

Hwn oedd y darn cyntaf o ddeddfwriaeth a roddodd hawliau i ofalwyr o bob oed sydd yn darparu gofal rheolaidd a sylweddol. Mae'r Ddeddf yn cynnwys y cyfrifoldebau statudol craidd, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal asesiad o allu gofalwr i ddarparu gofal, ac i barhau i ddarparu gofal, os yw'r gofalwr yn gofyn am hynny, ar adeg asesiad yr unigolyn y maent yn gofalu amdano.

http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1995/12/contents

### A1.3 Deddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000

Rhoddodd y Ddeddf hon yr hawl i Ofalwyr ofyn am asesiad, hyd yn oed pan oedd yr unigolyn yr oeddent yn gofalu amdano yn gwrthod asesiad. Roedd hefyd yn rhoi pŵer i Awdurdodau Lleol ddarparu gwasanaethau yn uniongyrchol i Ofalwyr, yn ogystal â darparu Taliadau Uniongyrchol i Ofalwyr.

http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/16/contents

### A1.4 Deddf Gofal Cymunedol (Rhyddhau Gohiriedig) 2000

Mae'r Ddeddf hon yn datgan, pan fydd gofalwr yn gofyn am asesiad, fod yn rhaid i'r Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn ymgynghoriad â'u partneriaid yn y GIG, benderfynu pa wasanaeth y bydd yn ei ddarparu ar gyfer y Gofalwr pan fydd yr unigolyn y gofelir amdano yn barod i gael ei ryddhau.

http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2003/5/contents



Draft

### A1.5 Deddf Gofalwyr (Cyfle Cyfartal) 2004

Roedd y Ddeddf hon yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i roi gwybod i Ofalwyr am eu hawl i gael asesiad Gofalwyr. Roedd hefyd yn sicrhau bod cyfleoedd y Gofalwyr o ran hamdden, dysgu gydol oes a chyflogaeth yn cael eu cymryd i ystyriaeth wrth gynnal asesiad. Roedd yn rhoi pŵer i Awdurdodau Lleol ofyn am gymorth Tai, Addysg ac Iechyd o ran darparu cymorth i Ofalwyr.

http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2004/15/contents

### A1.6 Deddf Plant 1989

Gall Gofalwr Ifanc gael ei nodi fel 'plentyn mewn angen'.

http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1989/41/contents

### A1.7 Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008

Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau digonol i ddarparu seibiannau byr ar gyfer Plant Anabl.

http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2008/23/contents

### A1.8 Deddf Personau Anabl (Gwasanaethau, Ymgynghori a Chynrychioli) 1986

Mae’r Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi sylw i allu'r gofalwr i ddarparu gofal, neu i barhau i ddarparu gofal, wrth benderfynu pa wasanaethau i'w darparu i'r unigolyn anabl.

http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/32/contents

### A1.9 Deddf Addysg 2002, Adran 175

Mae Adran 175 yn ymwneud â dyletswyddau Awdurdodau Addysg Lleol a chyrff llywodraethu mewn perthynas â llesiant plant

http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2002/32/contents

**A1.10** Ar gyfer pob un o adrannau dan orchymyn **Deddf Iechyd Meddwl 1983** gosodir dyletswyddau ar Reolwyr Ysbytai (ac weithiau ar eraill) i ddarparu gwybodaeth ysgrifenedig a gwybodaeth ar lafar i gleifion (ac, mewn rhai achosion, i’w perthynas agosaf, ac efallai nad y gofalwr fydd hwn, gyda llaw). Er mwyn cefnogi Rheolwyr Ysbytai i gyflawni eu dyletswyddau, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu cyfres o daflenni. Mae'r cyfan ar gael (yn Saesneg ac yn Gymraeg) yn:

http://www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=816&pid=33957

Draft

### A1.11 Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011

Diben y Mesur hwn yw gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru a'r Prif Weinidog i roi sylw dyledus i'r hawliau a'r rhwymedigaethau yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a'i Brotocolau Dewisol, wrth wneud penderfyniadau strategol am sut i arfer swyddogaethau sy'n arferadwy ganddynt.

http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-legislation/bus-legmeasures/businesslegislationmeasures-rightsofchildren.htm

### A1.12 Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010

Mae Rhan 2 o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) yn rhoi dyletswyddau statudol i ddarparwyr gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru (Byrddau Iechyd Lleol ac awdurdodau lleol) er mwyn sicrhau bod yr holl gleifion mewn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd yn cael cynllun gofal a thriniaeth o fath rhagnodedig, sy'n cael ei ddatblygu a'i adolygu, mewn partneriaeth â'r claf, gan gydlynydd gofal. Mae rheoliadau a wneir o dan y Rhan hon o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i gydgysylltwyr gofal ymgynghori ag unigolion penodol eraill (gan gynnwys gofalwr/gofalwyr y claf) wrth ddatblygu ac adolygu cynlluniau gofal a thriniaeth. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i unigolion penodol (unwaith eto, gan gynnwys gofalwr/gofalwyr y claf) gael copi o'r cynllun, neu rannau perthnasol ohono. Mae gan y cydgysylltydd gofal rywfaint o ddisgresiwn o ran a ddylid ymgynghori â gofalwyr ai peidio, ac a ddylent gael copïau yn erbyn dymuniadau'r claf, lle nad yw'r claf wedi rhoi ei ganiatâd.

Yn ogystal, mae'r ddeddfwriaeth hon yn galluogi gofalwr/gofalwyr) i ofyn am adolygiad o gynllun gofal a thriniaeth y claf os yw'n credu bod hyn yn angenrheidiol (er bod gan y cydgysylltydd gofal rywfaint o ddisgresiwn o ran a fydd adolygiad yn cael ei gynnal yn dilyn cais o'r fath).

Mae Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) hefyd yn gosod dyletswyddau statudol ar ddarparwyr gwasanaethau iechyd meddwl i sicrhau bod gwybodaeth benodol ar gael i gleifion, yn ysgrifenedig, pan gânt eu rhyddhau o wasanaethau iechyd meddwl eilaidd (gan gynnwys y rheswm dros eu rhyddhau, a'r camau i'w cymryd pe byddai iechyd meddwl yr unigolyn yn dirywio ar ryw adeg yn y dyfodol). Mae Pennod 7 o'r Cod Ymarfer Drafft, sydd wedi ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r Rhan hon o Ddeddf Iechyd Meddwl (Cymru), yn datgan y dylai darparwyr gwasanaethau ystyried rhoi'r wybodaeth hon i ofalwr yr unigolyn os credir y byddai hynny yn briodol, ac os yw'r unigolyn yn cytuno i hynny.

Am ragor o wybodaeth am ofynion y ddeddfwriaeth hon, gweler tudalennau gwe Iechyd Meddwl Llywodraeth Cymru:

http://wales.gov.uk/topics/health/nhswales/healthservice/mentalhealthservices/?lang=en

Draft

## A1.13 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)

Yr Erthyglau sy’n arbennig o berthnasol i Blant fel Gofalwyr Ifanc yw:

**Erthygl 3** Ym mhob gweithred sy'n ymwneud â phlant, p'un a’u hymgymerir gan sefydliadau lles cymdeithasol cyhoeddus neu breifat, llysoedd barn, awdurdodau gweinyddol neu gyrff deddfwriaethol, rhaid i les pennaf y plentyn fod yn brif ystyriaeth.

**Erthygl 12** Rhaid i Wladwriaethau sy’n Barti sicrhau i'r plentyn sy'n gallu ffurfio ei farn ei hun yr hawl i fynegi'r farn honno'n ddirwystr ym mhob mater sy'n effeithio ar y plentyn, gyda barn y plentyn yn cael ei bwys dyledus yn unol ag oedran ac aeddfedrwydd y plentyn.

**Erthygl 13** Bydd gan y plentyn hawl i ryddid mynegiant; bydd yr hawl hon yn cynnwys rhyddid i geisio, cael a chyfrannu gwybodaeth a syniadau o bob math, heb ystyried ffiniau, naill ai ar lafar, yn ysgrifenedig neu mewn print, ar ffurf celf, neu drwy unrhyw gyfrwng arall o ddewis y plentyn.

**Erthygl 15** Mae Gwladwriaethau sy’n Barti yn cydnabod hawliau'r plentyn i gael rhyddid i ymgysylltu a rhyddid i ymgynnull yn heddychlon.

**Erthygl 19** Rhaid i Wladwriaethau sy’n Barti gymryd pob cam deddfwriaethol, gweinyddol, cymdeithasol ac addysgol sy'n briodol i amddiffyn y plentyn rhag pob math o drais corfforol neu feddyliol, anaf neu gamdriniaeth, esgeulustod neu driniaeth esgeulus, camarfer neu gamfanteisio, gan gynnwys camdriniaeth rywiol, tra bo’r plentyn yng ngofal rhiant/rhieni, gwarcheidwad/gwarcheidwaid neu unrhyw unigolyn arall sydd â gofal drosto.

**Erthygl 28** Mae Gwladwriaethau sy’n Barti yn cydnabod hawl y plentyn i gael addysg, a chyda golwg ar sicrhau'r hawl hon yn raddol ac ar sail cyfle cyfartal

**Erthygl 31** Mae Gwladwriaethau sy’n Barti yn cydnabod hawl y plentyn i orffwys a hamdden, i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae a hamdden sy'n briodol i oedran y plentyn, ac i gymryd rhan ddirwystr mewn bywyd diwylliannol a'r celfyddydau.

**Erthygl 36** Rhaid i Wladwriaethau sy’n Barti amddiffyn y plentyn rhag unrhyw ffurf arall ar gamfanteisio sy'n niweidiol i unrhyw agwedd ar les y plentyn.

http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/uncrcarticles/?lang=en

## A1.14 Deddf Gwaith a Theuluoedd 2006

Draft

Daeth y Ddeddf hon i rym yng Nghymru ym mis Ebrill 2007. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr ystyried ceisiadau gan bobl sydd â chyfrifoldebau gofalu am gael gweithio'n hyblyg.

http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/18/contents

Drafft

## ATODIAD 2: Ymgynghori ac ymgysylltu

Roedd y gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu a gafodd eu cynnwys yn y crynodeb fel a ganlyn:

- Adborth o arolwg sefydliad a gynhaliwyd ar gyfer yr asesiad poblogaeth (gweler atodiad x)
- Digwyddiad ymgynghori grŵp cyfeirio gofalwyr (29 Mehefin 2016)
- Adroddiad ar ddigwyddiad y gofalwyr ifanc (30 Ionawr 2016)
- Ymgynghoriad gofalwyr ifanc (cynhaliwyd i lywio'r contract ar y cyd rhwng Conwy, Sir Ddinbych a Wrecsam)
- Digwyddiad Gofalwyr Cyngor Sir y Fflint (19 Hydref 2015)
- Bwrdd Partneriaeth Gofalwyr – ymgynghoriad â gofalwyr yn Ynys Môn

Draft

# Cyfeiriadau

Becker, S., Dearden, C. and Aldridge, J. (2000) 'Young carers in the UK: research, policy and practice', *Research, Policy and Planning*, 8(2), pp. 13-22.

Betsi Cadwaladr University Health Board (2015) 'Annual report 2014/15: Implementation of the Carers Strategies (Wales) Measure at BCUHB'.

Care Council for Wales (2015) 'Social Services and Well-being (Wales) Act Summary: Safeguarding'. Available at: http://www.ccwales.org.uk/learning-resources-1/?search=safeguarding-level-a-materials.

Care Council for Wales (2016) 'Supporting carers and delivering new duties in the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014' Carers Wales and Carers Trust Wales. Available at: http://www.ccwales.org.uk/learning-resources-1/carers-and-the-act/.

Welsh Government (2015) 'Performance management framework for local authorities'. Available at: http://gov.wales/topics/health/socialcare/well-being/performance/?lang=en (Accessed: 13 September 2016).

Welsh Government (2016) *Press release: £2m to support carers in Wales*. Available at: http://gov.wales/newsroom/health-and-social-services/2016/carers/?lang=en.

Yeandle, S. and Buckner, L. (2015) 'Valuing Carers'. Carers UK,. Available at: http://www.carersuk.org/for-professionals/policy/policy-library/valuing-carers-2015.

Draft

# 8 Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

## Cynnwys

8 Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol....1

8.1 Ynglŷn â'r bennod hon ....2

Diffiniadau ....2

Diogelu ....4

Polisi a deddfwriaeth ....5

8.2 Beth yr ydym yn ei wybod am y boblogaeth? ....7

8.3 Beth y mae pobl yn ei ddweud wrthym? ....14

8.4 Adolygiad o'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd ....16

8.5 Casgliad ac argymhellion ....20

Cyfeiriadau ....23

Draft

## 8.1 Ynglŷn â'r bennod hon

Gall trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol gynnwys cam-drin corfforol, rhywiol ac emosiynol, ac mae'n digwydd mewn pob mathau o berthnasoedd personol, gan gynnwys perthnasoedd rhwng partneriaid o'r un rhyw. Mae cam-drin domestig yn effeithio ar bobl o boed oed a chefndir, ac mae unigolion sydd wedi dioddef cam-drin domestig yn wynebu risg sylweddol uwch o ddioddef anhwylderau iechyd meddwl, o ddibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol, ac o ddod yn ddigartref. Mae cam-drin domestig a thrais rhywiol yn effeithio'n anghyfartal ar bobl ag anghenion gofal a chymorth. Gellir cael rhagor o wybodaeth am anghenion gofal a chymorth pobl yng Ngogledd Cymru, ac am anghenion cymorth gofalwyr, yn y penodau canlynol. Mae pob pennod yn cynnwys adran am ddiogelu.

- Plant a phobl ifanc [Ychwanegu dolen]
- Pobl hŷn [Ychwanegu dolen]
- Iechyd, anableddau corfforol a nam ar y synhwyrau [Ychwanegu dolen]
- Anableddau dysgu ac awtistiaeth [Ychwanegu dolen]
- Iechyd meddwl [Ychwanegu dolen]
- Gofalwyr [Ychwanegu dolen]
- Sefydliadau diogel [Ychwanegu dolen]
- Cyn-filwyr [Ychwanegu dolen]
- Digartrefedd [Ychwanegu dolen]

### Diffiniadau

Mae yna sawl diffiniad o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (TEMCDTRh), sy'n cael eu cydnabod yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Mae Llywodraeth y DU yn diffinio trais a cham-drin domestig fel a ganlyn:

> 'Unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau o reoli, gorfodi, ymddygiad bygythiol, trais neu gam-drin, rhwng pobl 16 oed neu'n hŷn sydd yn, neu sydd wedi bod yn, bartneriaid agos, neu sy'n aelodau o'r un teulu, beth bynnag fo'u rhyw neu rywioldeb. Gall y mathau o gam-drin domestig gynnwys y canlynol, ond nid ydynt wedi'u cyfyngu iddynt:
>
> - Seicolegol
> - Corfforol
> - Rhywiol

Draft

- Ariannol
- Emosiynol

Mae ymddygiad sy'n rheoli yn amrediad o weithredoedd sydd â'r nod o wneud rhywun yn ddarostyngol a/neu yn ddibynnol, a hynny trwy ei ynysu rhag ffynonellau o gefnogaeth, defnyddio ei adnoddau a'i alluoedd er budd personol, sicrhau nad oes ganddo ffordd o wrthsefyll, dianc na bod yn annibynnol, a rheoleiddio ei ymddygiad bob dydd.

Mae ymddygiad sy'n gorfodi yn weithred neu'n batrwm o weithredoedd o ymosod, bygwth, bychanu a chodi ofn, neu gamdriniaeth arall sy'n cael ei defnyddio i niweidio, cosbi neu ddychryn y dioddefwr.

Mae diffiniad y Llywodraeth, nad yw'n ddiffiniad cyfreithiol, yn cynnwys trais ar sail 'anrhydedd', anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM) a phriodas dan orfod, ac mae'n glir nad yw dioddefwyr yn gyfyngedig i un rhyw neu grŵp ethnig.

Y ddealltwriaeth gyffredinol ers tro yw bod gorfodi a rheoli yn rhan greiddiol o gam-drin domestig. Gan hynny, ni fydd helaethu'r diffiniad yn ei newid yn sylfaenol. Fodd bynnag, mae'n tynnu sylw at bwysigrwydd adnabod y weithred o orfodi a rheoli fel patrwm cymhleth o gam-drin sy'n gorgyffwrdd ac sy'n cael ei ailadrodd yng nghyd-destun pŵer a rheolaeth.

Oni fydd y diffiniad o gam-drin domestig yn cynnwys gorfodi a rheoli, gall trais a cham-drin domestig gael eu gweld yn ddigwyddiadau ynysig. O ganlyniad, gall dioddefwyr fod yn ansicr ynghylch beth sy'n cael ei gyfrif yn gam-drin domestig – er enghraifft, gallent feddwl mai trais corfforol yn unig sydd dan sylw. Gwyddom mai anaml y cysylltir â'r heddlu neu asiantaethau y tro cyntaf y bydd cam-drin yn digwydd; yn aml, bydd pobl wedi dioddef trais a chamdriniaeth lawer gwaith cyn iddynt ofyn am gymorth' (Y Swyddfa Gartref, 2013)

Daeth y drosedd o ymddygiad sy'n gorfodi neu'n rheoli i rym ym mis Rhagfyr 2015, a chanddi'r ddedfryd fwyaf o bum mlynedd yn y ddalfa, dirwy neu'r ddau. Gall dioddefwyr ymddygiad sy'n gorfodi a rheoli, nad yw'n mynd mor bell â thrais corfforol, ond sy'n gyfystyr â cham-drin seicolegol ac emosiynol eithafol, ddod â'r cyflawnwyr o flaen eu gwell. Mae cyflwyno'r drosedd hon yn cau'r bwlch yn y gyfraith o ran patrymau ymddygiad sy'n gorfodi neu'n rheoli mewn perthynas rhwng partneriaid agos, cyn-bartneriaid sy'n dal i gyd-fyw, neu aelodau o'r un teulu.

Mae dioddefwyr trais domestig yn fwy tebygol na dioddefwyr unrhyw fathau eraill o droseddau o brofi erledigaeth sy'n cael ei hailadrodd (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2016). Mae targedu dioddefwyr a meithrin perthynas amhriodol â hwy yn gyffredin iawn, a gall y cyflawnwr barhau i stelcio neu

Draft

aflonyddu ar y dioddefwr ymhell wedi iddo/iddi roi terfyn ar y berthynas. Gall y cam-drin parhaus hwn gynnwys tadau treisgar sy'n mynnu cael mwy o gysylltiad â'u plant, fel bod y fam yn treulio llawer o'i hamser yn y llys neu gyda'r gwasanaethau eirioli.

Ystyr trais rhywiol yw treisio ac ymosod yn rhywiol, cam-drin rhywiol, camfanteisio'n rhywiol, aflonyddu rhywiol, meithrin perthynas amhriodol, neu fygythiadau o drais rhywiol eu natur (The Survivors Trust Cymru, 2014).

## Diogelu

Mae wedi'i hen gydnabod bod cam-drin domestig yn fater diogelu plant. Yn rhinwedd A120 o'r Ddeddf Mabwysiadu a Phlant, ehangwyd y diffiniad o 'niwed' yn y Ddeddf Plant i gynnwys dod i gysylltiad â chamdriniaeth neu fod yn dyst iddi. Mae tua 18% o bobl ifanc 11 i 17 mlwydd oed wedi dod i gysylltiad â cham-drin domestig rhwng oedolion yn y cartref (Radford *et al.*, 2011), a nodwyd bod cam-drin domestig yn ffactor risg mewn 54% o adolygiadau o achosion difrifol a gynhaliwyd rhwng 2011 a 2014 yn Lloegr (Sidebotham *et al.*, 2016).

Yn fwy diweddar, cydnabyddir bod cysylltiad rhwng nifer yr achosion o drais a cham-drin domestig a diogelu oedolion. Mynegwyd pryder gan Community Care (2013) ynghylch defnyddio ymyriadau gwasanaethau cymdeithasol mewn sefyllfaoedd cam-drin domestig, lle mae perygl y bydd y prif fater yn cael ei esgeuluso neu'n cael sylw annigonol. Mae ymchwil yn awgrymu bod menywod a dynion â salwch neu anabledd hirdymor bron ddwywaith mor debygol o ddioddef troseddau rhywiol (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2014). Mae ymchwil arall yn awgrymu y gall trais a cham-drin domestig fod yn fwy cymhleth lle bydd anabledd, neu y gall dechrau'r anabledd ei hun arwain at ymddygiad treisgar neu waethygu trais a cham-drin sydd eisoes yn bod (Casteel 2008).

Gall creu'r cysylltiadau rhwng diogelu a cham-drin domestig fod yn heriol wrth weithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â phobl sydd ag anghenion gofal a chymorth, ac sydd eisoes yn agored i niwed oherwydd eu hamgylchiadau.

Mae cyfran sylweddol o waith diogelu plant ac oedolion yn gysylltiedig â cham-drin neu esgeuluso pobl ag anghenion gofal a chymorth sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain. Hwyrach mai trais rhwng partneriaid agos yw'r syniad mwyaf cyffredin o drais domestig, ond gall ddigwydd ar sawl ffurf arall, a chael ei gyflawni gan amrywiaeth o bobl. Gan hynny, mae llawer o waith diogelu yn gysylltiedig hefyd â cham-drin domestig.

### Creu'r cysylltiadau rhwng diogelu oedolion a cham-drin domestig

Dengys ymchwil fod angen cymorth diogelu ar gyfran sylweddol o bobl oherwydd eu bod yn dioddef cam-drin domestig (Cymdeithas Llywodraeth Leol). Er bod gwaith cefnogi pobl sy'n dioddef cam-drin domestig a gwaith diogelu oedolion yn gorgyffwrdd yn glir, maent wedi datblygu yn ddau faes proffesiynol

Draft

ar wahân. Mae angen creu cysylltiadau clir o ran strategaeth ac ymarfer rhwng y dulliau gweithredu hyn.

**Creu'r cysylltiadau rhwng diogelu plant a cham-drin domestig**

Mae yna hefyd gysylltiad cryf, yn seiliedig ar dystiolaeth, rhwng cam-drin domestig a cham-drin plant. Mae dod i gysylltiad â thrais a cham-drin domestig bob amser yn niweidiol i blant, er bod ei effaith arnynt yn gallu amrywio.

Mae ymchwil yn awgrymu bod 62% o blant sy'n dod i gysylltiad â thrais a cham-drin domestig hefyd yn dioddef niwed uniongyrchol oherwydd camdriniaeth neu esgeulustod corfforol neu emosiynol ((Co-ordinated action against domestic abuse (caada), 2014). Mae bron pob un o'r rheiny sy'n cael eu cam-drin yn gorfforol yn cael eu cam-drin gan gyflawnwr y cam-drin domestig. Mae yna gydnabyddiaeth gynyddol hefyd fod gweld cam-drin domestig yn cael effaith seicolegol niweidiol ar blant.

Golyga hyn fod gan weithwyr proffesiynol sy'n delio â materion diogelu oedolion a thrais a cham-drin domestig sy'n cynnwys plant, neu lle mae plant yn bresennol, ddyletswydd i gyfeirio'r mater i'r gwasanaethau plant gan ddefnyddio protocolau a gweithdrefnau lleol. Mae hyn yn wir hyd yn oed os yw'r oedolyn sy'n dioddef yn dewis peidio â derbyn cymorth ei hun neu'n methu gwneud hynny.

Pan fydd cyfleoedd yn codi i gynnal asesiadau ar y cyd ac i gydweithio ar draws y gwasanaethau oedolion a phlant a'r gwasanaethau cam-drin domestig, dylid ystyried gwneud hynny bob amser. Mae Cynghorwyr Trais Pobl Ifanc (YPVA) yn cynnig cymorth ymarferol i bobl ifanc rhwng 13 a 17 oed sy'n cael eu cam-drin mewn perthynas, ac mae'r cynghorwyr hyn ar gael mewn rhai ardaloedd. Yn ogystal, gall cymorth arbenigol fod ar gael i blant iau yn yr ysgol.

Gweler y bennod Plant a phobl ifanc i gael rhagor o wybodaeth [ychwanegu dolen].

## Polisi a deddfwriaeth

O ystyried y cysylltiadau amlwg rhwng diogelu a thrais a cham-drin domestig, mae angen i weithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol fod yn ymwybodol o'r canlynol:

- Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015
- Creu trosedd newydd o'r enw Ymddygiad sy'n Gorfodi a Rheoli mewn Perthynas Agos neu Deuluol yn ddarostyngedig i adran 76 o'r Ddeddf Troseddau Difrifol



Draft

O ran ei photensial i fynd i'r afael â cham-drin domestig, mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn cyflwyno tair swyddogaeth allweddol newydd:

- diffiniad newydd o Oedolyn sy'n wynebu Risg,
- cyflwyno gorchmynion amddiffyn a chynorthwyo oedolion a byrddau diogelu oedolion, a
- dyletswydd i holi a rhoi gwybod pan fydd gan awdurdod lleol achos rhesymol i amau bod unigolyn yn oedolyn sy'n wynebu risg.

Mae'r ddarpariaeth yn rhan 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ymchwilio pan amheuir bod plentyn neu oedolyn ag anghenion gofal a chymorth yn wynebu risg o gamdriniaeth neu esgeulustod (adran 126).

Mae creu Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yn rhoi pwerau a chyfrifoldebau i gynghorau ymateb i amheuaeth o gam-drin. Pan fydd pob ymgais arall i gael mynediad at eiddo wedi methu, gall Swyddog Awdurdodedig a benodwyd gan gyngor lleol wneud cais i Ynad Heddwch am ganiatâd i fynd i mewn i eiddo gyda swyddog heddlu i gael sgwrs breifat â'r sawl yr amheuir ei fod yn ddioddefwr, ac i ganfod a yw'n gwneud penderfyniadau o'i wirfodd ac nad yw'r unigolyn hwnnw yn 'oedolyn sy'n wynebu risg'.

At hynny, mae'n bosibl y gallai cynnal asesiadau ar sail ymddangosiad o angen arwain at nodi camdriniaeth neu gamdriniaeth bosibl. I gael rhagor o wybodaeth am y ddeddf, gweler atodiad x.

Bydd Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn cryfhau ymwybyddiaeth gweithwyr proffesiynol o gam-drin domestig, ac o sut i adnabod y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol ar Gam-drin Domestig yn well o dan adran 15. Mae'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol yn cynnwys 6 grŵp o hyfforddiant â'r deilliannau canlynol:

- Grŵp 1: Gweithlu sy'n effro i TEMCDTRh ac yn ymwybodol ohono
- Grŵp 2: Ymarferwyr medrus, sydd yn y lle iawn, sy'n adnabod ac yn cynorthwyo dioddefwyr TEMCDTRh mewn modd rhagweithiol
- Grŵp 3: Staff allweddol, sy'n barod i gynorthwyo cydweithwyr a chleientiaid pan gaiff dioddefwyr TEMCDTRh eu hadnabod
- Grŵp 4: Ymarferwyr arbenigol a all gynnig ymyrraeth effeithlon, gwybodus ar gyfer pob atgyfeiriad a geir
- Grŵp 5: Rheolwyr arbenigol, galluog sy'n rhedeg gwasanaethau cryf ac sy'n rheoli ymarferwyr effeithiol

Draft

- Grŵp 6: Arweinwyr cryf sy'n creu diwylliant sy'n cydnabod bod TEMCDTRh yn faterion gwasanaeth cyhoeddus sy'n gofyn am ymateb o ansawdd.

Mae Lefelau 1 i 3 yn cynnwys e-ddysgu i godi ymwybyddiaeth holl staff awdurdodau lleol a chyrff gwasanaethau cyhoeddus eraill. Mae Lefel 2 a 3 yn cynnwys cwestiynau targededig o dan y teitlau Gofyn a Gweithredu a Gofyn a Gweithredu manwl, yn y drefn honno, i helpu gweithwyr proffesiynol i adnabod arwyddion a symptomau cam-drin domestig, i ofyn cwestiynau sensitif a phenodol, ac i atgyfeirio achosion i sefydliadau arbenigol. Disgwylir y bydd lefel 2 a 3 yn arbennig o berthnasol i swyddogion llinell flaen ac uwch-reolwyr nad yw cam-drin domestig yn rhan o'u busnes craidd, o bosibl, ond sydd, yn rhan o'u gwaith, yn dod i gysylltiad â chleientiaid sydd wedi dioddef cam-drin domestig.

Ymhlith y ddeddfwriaeth berthnasol arall, mae Deddf Tai (Cymru) 2014, i atal a lleddfu digartrefedd, sy'n pennu bod wynebu risg o gam-drin, gan gynnwys cam-drin domestig, yn ffactor wrth benderfynu a yw'n rhesymol i unigolyn barhau i fyw yn ei lety presennol. Hefyd, mae Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 yn disgrifio dull gweithredu newydd o ran contractau ar y cyd a fydd yn helpu goroeswyr trwy ganiatáu i gyflawnwyr gael eu targedu a'u troi allan.

Gall y fframweithiau deddfwriaethol eraill hyn helpu i gryfhau swyddogaeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ac, yn sgil y ddyletswydd i ymholi a hysbysu, gallant gynnig mwy o amddiffyniad i blant ac oedolion agored i niwed, ac annog y gwasanaethau cymdeithasol i gydweithio'n well ag eraill.

## 8.2 Beth yr ydym yn ei wybod am y boblogaeth?

Amcangyfrifir bod un ym mhob pedair menyw ac un ym mhob chwe dyn yn dioddef trais yn ystod eu hoes (Office for National Statistics, 2014). Dywed oddeutu 8.5% o fenywod a 4.5% o ddynion iddynt brofi cam-drin domestig yn y flwyddyn flaenorol (Office for National Statistics, 2014). Yn ôl yr amcangyfrifon, mae hyn yn gyfystyr ag 16,000 o ddioddefwyr benywaidd ac 8,000 o ddioddefwyr gwrywaidd yng Ngogledd Cymru bob blwyddyn.

Mae Tabl 8.1 yn dangos bod cyfanswm y digwyddiadau domestig a gofnodwyd gan yr heddlu (yn cynnwys troseddau a digwyddiadau eraill), yn fras, yn 11,000 yn 2015-16.

Draft

**Tabl 8.1 Cyfanswm nifer y digwyddiadau domestig (troseddau a digwyddiadau eraill)**

| | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 1,130 | 1,060 | 960 | 760 | 960 |
| Gwynedd | 1,870 | 1,980 | 1,600 | 1,190 | 1,620 |
| Conwy | 2,260 | 2,570 | 2,130 | 1,550 | 1,960 |
| Sir Ddinbych | 2,300 | 2,330 | 1,790 | 1,500 | 1,900 |
| Sir y Fflint | 2,400 | 2,760 | 2,250 | 1,870 | 2,140 |
| Wrecsam | 2,870 | 3,290 | 2,840 | 2,180 | 2,720 |
| Gogledd Cymru | 12,800 | 14,000 | 11,600 | 9,000 | 11,300 |

*Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu, felly efallai na fyddant yn symio*
Ffynhonnell: Heddlu Gogledd Cymru

## Mae cam-drin domestig yn costio £66 miliwn y flwyddyn i'r gwasanaethau cyhoeddus yng Ngogledd Cymru

Amcangyfrifir mai £66 miliwn[1] (Walby, 2009) yw cyfanswm costau cam-drin domestig yng Ngogledd Cymru. Mae hyn yn cynnwys costau gofal iechyd, cyfiawnder troseddol, gwasanaethau cymdeithasol, tai a llochesau a chostau cyfreithiol, yn ogystal ag allbwn economaidd a gollir. Ar ben hynny, amcangyfrifir bod y costau dynol ac emosiynol yn £114 miliwn (Walby, 2009). Yn ôl adroddiad diweddaru Walby (2009), gwelwyd gostyngiad sylweddol yng nghostau cyffredinol cam-drin domestig rhwng 2001 a 2008, yn bennaf oherwydd bod llai o allbwn economaidd wedi'i golli, yn ogystal â  llai o gostau dynol ac emosiynol o ganlyniad i ddefnyddio mwy ar wasanaethau cyhoeddus. Bu i gyfradd gyffredinol trais domestig ostwng hefyd rhwng 2001 a 2008, a'r casgliad oedd bod y buddsoddiad mewn gwasanaethau cyhoeddus yn gost-effeithiol i'r wlad gyfan, yn ystod y cyfnod hwnnw.

Gallai lleihau trais a chamdriniaeth ymhellach arwain at arbedion sylweddol o ran iechyd a gofal cymdeithasol (Public Health Wales, 2016). Mae ymyriadau effeithiol yn cynnwys canolbwyntio ar blant a phobl ifanc; atal trais a cham-drin domestig a thrais yn erbyn menywod; lleihau defnydd niweidiol o alcohol; a dulliau gweithredu amlasiantaeth. Er enghraifft, gallai rhoi Canllawiau NICE ar Drais a Cham-drin Domestig (NICE, 2015) ar waith arbed £4,700 fesul unigolyn bob mis o ran costau hirdymor sy'n gysylltiedig â thrin a chynorthwyo unigolion sy'n dioddef anhwylder straen wedi trawma o ganlyniad i drais a cham-drin.

## Ni roddir gwybod i'r heddlu am bob achos o gam-drin domestig, ond mae nifer yr adroddiadau yn cynyddu

[1] Cyfrifwyd y ffigur trwy gyfuno amcangyfrifon o gostau pob cyngor lleol yng Ngogledd Cymru gan Trust for London a ffigurau Elusen Henry Smith sy'n seiliedig ar amcangyfrifon Walby (2009).

Dengys Tabl 8.2 fod nifer y troseddau trais domestig ag anafiadau yng Ngogledd Cymru yn llawer is na'r amcangyfrif o'r bobl sy'n debygol o fod wedi dioddef y drosedd. Ers blynyddoedd, ni roddir gwybod i'r heddlu am bob achos o drais a cham-drin domestig, ac mae'n debygol mai cynnydd yn nifer yr adroddiadau yn hytrach na nifer y digwyddiadau sydd i gyfrif am y cynnydd yn nifer y troseddau a gofnodwyd dros y tair blynedd diwethaf (North Wales Police, 2016). Yn 2015-16 roedd 1,700 o droseddau trais domestig ag anafiadau yng Ngogledd Cymru, 870 ohonynt yn ymwneud ag unigolyn dan 16 oed a 560 yn ymwneud â phlentyn dan 6 oed (gweler Tabl 8.2, 0 a 0 i gael rhagor o wybodaeth).

**Tabl 8.2 Nifer y troseddau trais domestig ag anafiadau yn ôl y sir yng Ngogledd Cymru**

| | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 100 | 130 | 170 |
| Gwynedd | 180 | 210 | 280 |
| Conwy | 280 | 210 | 270 |
| Sir Ddinbych | 210 | 260 | 270 |
| Sir y Fflint | 270 | 300 | 340 |
| Wrecsam | 350 | 340 | 380 |
| Gogledd Cymru | 1,400 | 1,500 | 1,700 |

*Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu, felly efallai na fyddant yn symio*
Ffynhonnell: Heddlu Gogledd Cymru

**Tabl 8.3 Nifer y troseddau trais domestig ag anafiadau yn ymwneud ag unigolyn dan 16 oed**

| | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 50 | 70 | 100 |
| Gwynedd | 90 | 100 | 130 |
| Conwy | 130 | 90 | 130 |
| Sir Ddinbych | 110 | 130 | 130 |
| Sir y Fflint | 150 | 160 | 170 |
| Wrecsam | 190 | 190 | 210 |
| Gogledd Cymru | 720 | 730 | 870 |

*Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu, felly efallai na fyddant yn symio*
Ffynhonnell: Heddlu Gogledd Cymru

Draft

**Tabl 8.4 Nifer y troseddau trais domestig ag anafiadau yn ymwneud â phlentyn dan 5 oed**

| | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 30 | 50 | 60 |
| Gwynedd | 60 | 60 | 90 |
| Conwy | 80 | 60 | 80 |
| Sir Ddinbych | 70 | 90 | 80 |
| Sir y Fflint | 90 | 90 | 110 |
| Wrecsam | 130 | 120 | 140 |
| Gogledd Cymru | 470 | 470 | 560 |

*Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu, felly efallai na fyddant yn symio*
Ffynhonnell: Heddlu Gogledd Cymru

**Mae menywod yn fwy tebygol na dynion o ddioddef trais a cham-drin domestig**

Ar draws Gogledd Cymru mae tua 80% o ddioddefwyr trais a cham-drin domestig yn fenywod ac 20% yn ddynion. Yr un gyfran a welir ym mhob sir, ac mae hon wedi aros yn weddol gyson dros y pedair blynedd diwethaf, er y gwelwyd gostyngiad cyffredinol yn nifer y dioddefwyr, fel y gwelir yn Ffigur 8.1 a Tabl 8.5.

Derbyniodd Llinell Gymorth Byw Heb Ofn, sy'n cael ei rhedeg gan Gymorth i Ferched Cymru, tua 5,000 o alwadau yn 2015-16. Roedd y mwyafrif o'r rhain (4,800) yn alwadau gan fenywod. Yn ogystal, derbyniwyd tua 20 o alwadau gan blant dan 17 oed, a 170 o alwadau gan oedolion 56 oed a hŷn.

**Ffigur 8.1 Trais domestig yn ôl rhyw y dioddefwyr, Gogledd Cymru, 2012/13 i 2015/16**




Ffynhonnell: Heddlu Gogledd Cymru

**Tabl 8.5 Dioddefwyr trais domestig yn ôl rhyw yng Ngogledd Cymru**

| | 2012/13 | | 2013/14 | | 2014/15 | | 2015/16 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor lleol | Ben. | Gwr. | Ben. | Gwr. | Ben. | Gwr. | Ben. | Gwr. |
| Ynys Môn | 220 | 60 | 190 | 50 | 220 | 50 | 270 | 70 |
| Conwy | 410 | 110 | 430 | 130 | 380 | 100 | 490 | 140 |
| Sir Ddinbych | 430 | 110 | 380 | 100 | 390 | 110 | 470 | 120 |
| Sir y Fflint | 400 | 120 | 430 | 90 | 480 | 130 | 550 | 180 |
| Gwynedd | 420 | 120 | 370 | 80 | 360 | 90 | 450 | 140 |
| Wrecsam | 590 | 140 | 600 | 120 | 660 | 130 | 720 | 200 |
| Cyfanswm | 2,500 | 670 | 2,400 | 580 | 2,500 | 620 | 2,900 | 840 |

*Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu, felly efallai na fyddant yn symio*
Ffynhonnell: Heddlu Gogledd Cymru

### Mae achosion o orfodi a rheoli yn cael eu cofnodi bellach

Cofnodwyd 33 o droseddau ymddygiad sy'n gorfodi/rheoli mewn perthynas agos/deuluol yn ardal Gogledd Cymru ers cyflwyno'r drosedd yn Rhagfyr 2015.

### Mae nifer y troseddau rhywiol yn cynyddu yng Ngogledd Cymru

Gwelwyd bod cyfanswm y troseddau rhywiol yng Ngogledd Cymru wedi cynyddu o 900 yn 2012-13 i 1,400 yn 2015-16. Gwelwyd y cynnydd hwn ym mhob sir yng Ngogledd Cymru, fel y nodir yn Tabl 8.6. Credir mai cynnydd mewn adroddiadau am ddigwyddiadau o'r gorffennol sydd i gyfrif am hyn yn hytrach na nifer yr achosion yn gyffredinol. (North Wales Police, 2016)

**Tabl 8.6 Nifer y troseddau rhywiol yn ôl awdurdod lleol**

| | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 80 | 80 | 130 | 120 |
| Gwynedd | 140 | 160 | 190 | 260 |
| Conwy | 150 | 160 | 180 | 220 |
| Sir Ddinbych | 150 | 160 | 200 | 270 |
| Sir y Fflint | 140 | 160 | 180 | 270 |
| Wrecsam | 240 | 270 | 240 | 280 |
| Gogledd Cymru | 900 | 970 | 1,100 | 1,400 |

*Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu, felly efallai na fyddant yn symio*
Ffynhonnell: Heddlu Gogledd Cymru

Mae'r gwahaniaeth yng nghyfrannau'r menywod a'r dynion sy'n dioddef trais rhywiol yn debyg i'r hyn a welir ymhlith dioddefwyr trais a cham-drin domestig. Yn ardal Gogledd Cymru, dros y pedair blynedd diwethaf, roedd 80% o ddioddefwyr trais rhywiol yn fenywod ac roedd 20% yn ddynion. Fodd bynnag, mae'r cyfrannau hyn yn amrywio o'r naill flwyddyn i'r llall, fel y nodir yn Ffigur 8.2.

Draft

**Ffigur 8.2 Troseddau rhywiol yng Ngogledd Cymru yn ôl cyngor lleol a rhyw y dioddefwyr**




Ffynhonnell: Heddlu Gogledd Cymru

### Camfanteisio'n rhywiol ar blant (CSE)

> 'Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn golygu gorfodi plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, neu ddylanwadu arnynt i wneud hynny. Mae'n fath ar gam-drin rhywiol lle mae rhyw fath o daliad yn cael ei gyfnewid, a all gynnwys arian, ffonau symudol ac eitemau eraill, cyffuriau, alcohol, lle i aros, 'amddiffyniad' neu anwyldeb. Mae natur agored i niwed y person ifanc, ynghyd â'r broses hudo a ddefnyddir gan y rhai sy'n cyflawni'r troseddau, yn ei wneud yn ddi-rym i adnabod natur gamfanteisiol perthnasoedd, ac i roi caniatâd gwybodus.' (Barnardos, 2013).

Mae nifer yr asesiadau o ran Fframwaith Asesu'r Risg o Gamfanteisio'n Rhywiol (SERAF) yng Nghymru yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn oherwydd bod ymwybyddiaeth o'r mater yn cynyddu. (Barnardos, 2016). Mae rhagor o wybodaeth am y gwaith i daclo camfanteisio'n rhywiol ar blant yng Ngogledd Cymru ar gael yma http://www.north-wales.police.uk/advice-and-support/stay-safe/child-sexual-exploitation/what-is-cse.

### Yr heddlu sy'n gwneud y rhan fwyaf o atgyfeiriadau MARAC, ac mae nifer yr achosion MARAC wedi aros yn debyg dros amser

Mae MARAC (cynhadledd asesu risg amlasiantaeth) yn gyfarfod i rannu gwybodaeth am yr achosion o gam-drin domestig uchaf eu risg rhwng cynrychiolwyr yr heddlu lleol, iechyd, diogelu, swyddogion tai, Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig (IDVAs), swyddogion prawf, ac arbenigwyr eraill o'r sectorau statudol a gwirfoddol. Bydd y cynrychiolwyr yn trafod y dewisiadau ar gyfer gwella diogelwch y dioddefwr, ac yn datblygu Cynllun Gweithredu ar gyfer Rheoli Risg.

Yn 2015-16, cynhaliwyd 72 MARAC yng Ngogledd Cymru (un bob mis yn y chwe sir), a thrafodwyd 910 o achosion. Gwelwyd niferoedd tebyg i'r rhain mewn blynyddoedd blaenorol. Roedd 25% o'r achosion a drafodwyd yn rhai a drafodwyd o'r blaen. Yr heddlu sy'n atgyfeirio'r nifer fwyaf o achosion i MARAC, sef 58% o'r atgyfeiriadau. Mae Tabl 8.7 yn dangos bod nifer yr achosion ar draws Gogledd Cymru yn eithaf tebyg, ond mae nifer yr achosion yn Wrecsam a Sir Ddinbych yn uwch na'r cyfartaledd o ystyried maint y boblogaeth.

**Tabl 8.7 Nifer yr achosion MARAC yn ôl awdurdod lleol, 2015-16**

| | Achosion a drafodwyd | Achosion am bob 10,000 o'r boblogaeth |
|---|---|---|
| Ynys Môn | 80 | 26 |
| Gwynedd | 140 | 27 |
| Conwy | 130 | 25 |
| Sir Ddinbych | 130 | 32 |
| Sir y Fflint | 160 | 25 |
| Wrecsam | 280 | 51 |
| Gogledd Cymru | 910 | 31 |

*Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu, felly efallai na fyddant yn symio*
Ffynhonnell: SafeLives

Mae Tabl 8.8 yn dangos canran yr achosion MARAC sy'n ymwneud â phobl â nodweddion gwarchodedig o dan y ddeddfwriaeth cydraddoldeb. Mae'r tabl yn cynnwys y niferoedd y mae 'SafeLives' yn awgrymu y gellid disgwyl eu gweld, ac mae hyn yn dangos, ar y cyfan, fod mwy o achosion na'r disgwyl yng Ngogledd Cymru yn ymwneud â phobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, ond bod llai o achosion na'r disgwyl yn ymwneud â phobl LGBT a phobl anabl.

**Tabl 8.8 Achosion MARAC yn ôl nodweddion gwarchodedig ac awdurdod lleol, 2015-16**

| | % BME | % LGBT | % Anabl | % Dynion (a) | % 16-17 oed |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 4 | 0 | 0 | 1 | 3 |
| Gwynedd | 8 | 0 | 1 | 5 | 1 |
| Conwy | 4 | 1 | 0 | 6 | 3 |
| Sir Ddinbych | 3 | 0 | 2 | 5 | 2 |
| Sir y Fflint | 5 | 2 | 6 | 7 | 1 |
| Wrecsam | 6 | 2 | 6 | 7 | 2 |
| Gogledd Cymru | 5 | 1 | 3 | 6 | 1 |
| Awgrym SafeLives | 0 | 5 | 17 | 4-10 | - |

*Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu, felly efallai na fyddant yn symio*
Ffynhonnell: SafeLives



Draft

**Anghenion o ran tai a digartrefedd**

Mapiwyd anghenion yng Ngogledd Cymru ar gyfer y Grant Cefnogi Pobl, a gwelwyd bod angen cymorth yn gysylltiedig â thrais domestig ar 1,600 o bobl yn ardal Gogledd Cymru (92% yn ferched/8% yn ddynion).

Mae lle i 63 o oedolion mewn llochesau yng Ngogledd Cymru, naill ai mewn llety cyfunol neu mewn unedau gwasgaredig. Mae'r llochesau'n darparu ar gyfer plant hefyd. Mae'r galw am leoedd yn barhaus ac yn fwy na'r cyflenwad sydd ar gael. Mae cyhoeddusrwydd yn y cyfryngau sy'n codi ymwybyddiaeth o gamdriniaeth yn helpu dioddefwyr i adnabod eu sefyllfa eu hunain. Dywed darparwyr eu bod yn cadw rhestrau aros (North Wales Social Care and Wellbeing Services Improvement Collaborative, 2016). Darperir lleoedd lloches yn dilyn asesiad risg trylwyr gan y darparwr arbenigol; bydd yr asesiad hwn yn diogelu'r preswylwyr presennol, ac yn cynnig mwy o ddiogelwch a chyfrinachedd i'r dioddefwr. I'r rhai a dderbynnir, mae'r llochesau ar gael bob awr o bob dydd, a gellir cysylltu'n uniongyrchol â'r darparwr neu ddilyn protocolau ar-alwad Byw Heb Ofn trwy ffonio 0808 801 0800 ar ôl oriau. Prin yw'r lleoedd lloches i bobl y mae angen llawer o gymorth arnynt, neu i bobl ag anabledd corfforol.

Yn ogystal â'r ddarpariaeth llochesau, mae'r dewisiadau ar gyfer cartrefu dioddefwyr trais domestig pan na fydd yn ddiogel iddynt aros yn eu cartref eu hunain yn cynnwys:

- Unedau gwasgaredig – eiddo hunangynhwysol ar gyfer dioddefwyr trais a cham-drin domestig heb y cymorth dwys a ddarperir mewn llochesau.
- Tai diogel.

Mae angen sicrhau bod darpariaeth ar gael i bobl ag anghenion gofal a chymorth.

## 8.3 Beth y mae pobl yn ei ddweud wrthym?

Mae i bob ffurf ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol oblygiadau o ran gofal cymdeithasol. I raddau helaeth, mae'n anodd rhagweld y galw am wasanaethau, er bod yna alwadau dwys, niferus a brys yn aml iawn. Ar ben hynny, bydd y troseddau hyn yn cael effaith ddirdynnol ar lesiant dioddefwyr yn y byrdymor a'r hirdymor, gan gynyddu'r pwysau ar ystod eang o wasanaethau.

Ar adeg cyflwyno Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 gan Lywodraeth Cymru, mae toriadau cyllideb yn effeithio ar bob darparwr gwasanaethau arbenigol. Mae hyn er gwaethaf y ffaith fod yr asiantaethau hyn yn cael eu boddi gan atgyfeiriadau gan yr heddlu, ymwelwyr iechyd, gweithwyr cymdeithasol a sefydliadau trydydd Sector

Draft

(Hobbs, 2016). Er bod gan ddioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol anghenion ymarferol clir, clywir yr un apeliadau damcaniaethol yn gyson (Welsh Women's Aid, 2016);

- Credwch fy stori (ni waeth pa mor afresymegol mae’n ymddangos)
- Cefnogwch fi (a’m plant), a helpwch fi i gadw’n ddiogel
- Nid fi sy’n gyfrifol, ond y cyflawnwr

Caiff y sylwadau hyn gan oroeswyr eu hailadrodd gan fenywod sy’n cael cymorth datblygu gwytnwch wedi iddynt ddianc o berthynas lle caent eu gorfodi a’u rheoli (Hobbs, 2016). Nid yw dioddefwyr yn gwahodd y profiadau hyn; maent yn digwydd oherwydd bod cyflawnwyr yn dreisgar tuag atynt. Mewn perthynas agos, mae’r cam-drin hwn yn achosi dryswch a thrallod. Tra bydd darparwyr gwasanaethau arbenigol yn deall deinameg taith y dioddefwr, mae rhai gwasanaethau cyhoeddus yn llai abl i ddirnad trais a cham-drin domestig. Nododd yr Ymgynghoriad â Goroeswyr gan Gymorth i Ferched Cymru (2016) fod dioddefwyr (gwryw a benyw) yn cael eu beio am eu hamgylchiadau, a phrin y cydnabyddir ymdrechion dioddefwyr i atal neu leihau’r niwed. Mae hyn yn arbennig o wir pan fydd rhieni a gafodd eu cam-drin yn ceisio amddiffyn eu plant, ond yn wynebu holi didrugaredd a chyhuddiadau gan y gwasanaethau cymdeithasol a’r system cyfiawnder troseddol. Maent yn meddwl tybed pam mae cyflawnwyr yn osgoi’r fath sylw, er bod dioddefwyr yn ymwybodol o sail grym y cyflawnwyr hyn.

Effaith y trais a’r cam-drin ar eu plant yw consyrn pennaf llawer o oroeswyr (Welsh Women's Aid, 2016). Gwelant fod ar blant angen clust i wrando, a mynediad at gymorth arbenigol sy’n wahanol i’r cymorth a ddarperir i’r rhiant neu ofalwr a gafodd ei gam-drin, ac ar wahân iddo. Mae angen rhagor o waith hefyd i atal plant a phobl ifanc rhag cael eu cam-drin, yn cynnwys helpu plant a phobl ifanc i adnabod camdriniaeth, ac i wybod lle mae cymorth i’w gael. Gallai hyn gynnwys rhaglenni yn yr ysgol (gan ddechrau gyda phlant ifanc), gwasanaethau cyfrinachol sydd ar gael trwy’r ysgol, a gwasanaethau therapiwtig.

Nodwyd 10 prif argymhelliad i Lywodraeth Cymru gan oroeswyr (Welsh Government, 2016; Welsh Women's Aid, 2016)

1. Gwasanaethau arbenigol pwrpasol ar gyfer plant a phobl ifanc sy’n dioddef cam-drin domestig, trais rhywiol, Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM), priodas dan orfod, camfanteisio neu aflonyddu rhywiol, neu ar gyfer plant a phobl ifanc y mae’r materion hyn yn effeithio arnynt.
2. Gwasanaethau arbenigol i oroeswyr o ran cam-drin domestig a thrais rhywiol, sydd ar gael yn hwylus, a chanddynt adnoddau digonol i ddiwallu anghenion grwpiau penodol o oroeswyr.

Draft

3. Gwelliannau i arferion y llys teulu a CAFCASS Cymru, a chyswllt diogel i blant mewn achosion o gam-drin domestig a thrais rhywiol.
4. Cymorth hwylus o ran ‘gwasanaeth lloches’ ym mhob ardal, ochr yn ochr â dewisiadau tai diogel, fforddiadwy, hirdymor i ddarparu hyblygrwydd a dewis.
5. Grwpiau menywod a chymorth gan gymheiriaid sy’n lleihau arwahanrwydd ac sy’n manteisio ar fannau annibynnol, a hynny i feithrin hyder, parch a grymuso.
6. Mynediad cyfartal at ddiogelwch, cymorth, amddiffyniad a chyfiawnder, ac arian i fyw’n annibynnol, ni waeth beth fydd statws mewnfudo dioddefwyr.
7. Cwnsela a gwasanaethau therapiwtig i oroeswyr, sydd ar gael pan fydd ei angen, sy’n briodol i oed yr unigolion, ac sy’n gymorth i feithrin gwytnwch ac adferiad.
8. Canolbwyntio’n fwy ar atal ymddygiad cyflawnwyr a chael y cyflawnwyr, mewn achosion o orfodi a rheoli, i adael a rhoi diwedd ar berthnasoedd treisgar.
9. Gwell hyfforddiant i’r holl wasanaethau ar bob agwedd ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, wedi’i lywio gan brofiadau goroeswyr.
10. Atal trais yn erbyn menywod rhag digwydd yn y lle cyntaf, trwy raglenni addysg ataliol gorfodol ym mhob ysgol, a thrwy gynyddu ymwybyddiaeth o’r materion a’r cymorth sydd ar gael yn y cymunedau lleol.

## 8.4 Adolygiad o’r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd

Gall dioddefwyr a’u teuluoedd gael mynediad at amrywiaeth o gymorth gan wasanaethau arbenigol yn eu hardaloedd neu, os nad yw’n ddiogel iddynt wneud hynny, gellir eu helpu i gael gymorth mewn ardal arall. Gellir crynhoi anghenion ymarferol dioddefwyr (a’u plant) sydd wedi datgelu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a/neu drais rhywiol fel a ganlyn:

- Gwasanaethau arbenigol pwrpasol a lleol sydd ar gael yn hwylus, ac y mae ganddynt ddigon o adnoddau i ddiwallu anghenion penodol.
- Mynediad at loches ar gyfer dioddefwyr sy’n gorfod gadael eu cartref ar frys i ffoi rhag camdriniaeth neu drais ac, yn ddiweddarach, llety dilynol ac atebion tai hirdymor.
- Grwpiau cymorth gan gymheiriaid, cwnsela therapiwtig a chyrsiau adfer. Mae’r rhain yn fodd i ddioddefwyr ddod i delerau â’r hyn sydd wedi digwydd, ac i ddeall ac adnabod ymddygiad treisgar a’i effaith. Mae grwpiau yn lleihau arwahanrwydd dioddefwyr, ac yn eu helpu i feithrin eu hyder a’u gwytnwch unwaith eto. Bydd gan lawer o ddioddefwyr anghenion pellach o ran cymorth

iechyd meddwl, hunan-niweidio, camddefnyddio sylweddau, a chyflyrau eraill. Nid oes cymorth lloches ar gael yng Ngogledd Cymru i fenywod sydd ag anghenion sylweddol sy'n gofyn bod staff ar gael ddydd a nos.

- Mynediad cyflym at gymorth ariannol i ddioddefwyr sy'n ddiymgeledd – oherwydd bod y sawl sy'n eu cam-drin yn dwyn eu cyflog neu eu budd-dal, neu oherwydd ni allant droi at arian y wlad. Mae diogelwch a chyfiawnder i ddioddefwyr yn hanfodol, ni waeth beth fydd eu statws mewnfudo neu breswylio, neu eu gallu i dalu. Nid yw lloches, o reidrwydd, yn ddewis fforddiadwy i fenywod sy'n ennill cyflog isel. Gwaetha'r modd, diffyg arian yw'r prif reswm pam y mae dioddefwyr yn aros gyda'r sawl sy'n eu cam-drin. I'r rhai sy'n ffoi o'u cartref heb ddim, mae llochesau yn dibynnu ar roddion gwirfoddol a haelioni'r staff i ddarparu bwyd, dillad a nwyddau hylendid sylfaenol i ddioddefwyr a'u plant.
- Mae hyfforddiant arbenigol yn hanfodol bwysig i bob gwasanaeth sy'n dod i gysylltiad â dioddefwyr, a hynny er mwyn sicrhau bod staff yn effro i unrhyw awgrym o ddatgeliad, ac yn hyderus y gallant gymryd camau ar unwaith i gadw'r dioddefwr yn ddiogel. Wrth ddelio â dioddefwyr, mae angen i staff fod yn ymwybodol o'r dylanwad sydd ganddynt: yr agwedd yw'r allwedd. Bydd wfftio neu awgrymu y dylai dioddefwyr ddatrys materion â'u partner yn dwysáu'r risg, a gall achosi perygl enbyd i'r dioddefwr. Mae'n rhaid cefnogi a pharchu dioddefwyr ar hyd eu taith, o'r datgeliad i adferiad.

**Gwybodaeth a chymorth**

Mae llinell gymorth Byw Heb Ofn (a elwid gynt yn llinell gymorth Cymru gyfan ar Gam-drin Domestig a Thrais Rhywiol) yn llinell gymorth genedlaethol i Gymru gyfan a chanddi weithwyr wedi'u hyfforddi sy'n gallu darparu pob math o gymorth i'r rhai sy'n galw (yn ddioddefwyr ac yn weithwyr proffesiynol). Gall gweithwyr y llinell gymorth gyfeirio dioddefwyr i lochesau mewn llety â chymorth ar hyd a lled y DU, llety ar gyfer menywod (neu ddynion) a'u plant y mae angen lle diogel arnynt i aros o ganlyniad i gam-drin domestig. Yn gyffredinol, cynigir mynediad at lochesau bob awr o bob dydd.

Fel arall, gall y llinell gymorth hefyd gynnig cymorth i gyrchu gwasanaethau eraill, er enghraifft allgymorth a chymorth hyblyg. Bydd gweithwyr yn gweithio gyda chleientiaid i ddatblygu Cynllun Cymorth Unigol sy'n darparu gwasanaethau priodol megis cwnsela, gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, gwasanaethau iechyd corfforol a meddyliol, grwpiau cymorth a rhaglenni addysg, neu sy'n cysylltu â'r gwasanaethau hynny. Mae'r rhain yn cynnwys y Rhaglen Rhyddid a'r Rhaglen Adfer. Mae'r ddwy raglen yn para 12 wythnos ac yn darparu gwybodaeth am gyflawni cam-drin domestig: yr arwyddion, yr effaith, a'r llwybrau adfer. Yn ystod yr ymgynghori a'r ymgysylltu ar gyfer yr asesiad poblogaeth, gwelwyd bod bwlch yn narpariaeth y cymorth arbenigol, er enghraifft cymorth hyblyg, ar gyfer pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig



Draft

yng Ngogledd Cymru. Fodd bynnag, nid yw ethnigrwydd yn rhwystr rhag darparu lloches neu gymorth hyblyg.

Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau arbenigol yn cynnig gwasanaeth galw heibio neu siop un-alwad lle gellir cysylltu â gwasanaethau eraill, er enghraifft cymorth tai, cyngor cyfreithiol, cymorth riannol, cwnsela, ac ati, o dan yr un to.

**Gwasanaethau Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA)**

Mae gwasanaethau IDVA ar gael ledled y rhanbarth. Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig yw'r rhain, sy'n cefnogi menywod a dynion sy'n wynebu risg fawr o gam-drin domestig. Maent yn gweithio'n agos gydag ystod o asiantaethau, gan gynnwys yr heddlu, gwasanaethau plant ac oedolion, gwasanaethau cyfreithiol, ac asiantaethau cyfiawnder troseddol, a hynny i asesu, monitro a rheoli'r risgiau y mae dioddefwyr yn eu hwynebu. At hynny, gallant gyfeirio dioddefwyr at wasanaethau fel rhai diogelu'r cartref (sy'n cymryd camau ymarferol i wella diogeledd eiddo er mwyn gwrthsefyll ymosodiad neu ddifrod a galluogi'r dioddefwr i aros yn y cartref), yn ogystal â darparu cymorth emosiynol ac ymarferol arall.

**Rhaglenni ataliol mewn ysgolion**

Mae atal cam-drin a thrais yn flaenoriaeth bwysig. Mae angen dysgu plant a phobl ifanc am berthnasoedd iach a diogel, a dylid sylweddoli bod unrhyw un, ni waeth beth yw ei oed, yn agored i gamdriniaeth.

Fel rhan o'r ymgyrch i daclo trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, mae nifer o raglenni ar waith mewn ysgolion yn ardal Gogledd Cymru, er enghraifft rhaglen Sbectrwm, Cwmni Theatr Cat's Paw, Criw Craidd, Rhaglen Starr, ac ati. Mae'r rhaglenni hyn yn targedu plant oed ysgol, a'u nod yw hyrwyddo perthnasoedd iach a chynyddu ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o faterion trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Darperir y rhaglenni hyn gan hwyluswyr cymwys a phrofiadol: gellir darparu sesiynau yn Gymraeg neu Saesneg, maent yn drawsgwricwlaidd ac wedi'u cynllunio i annog trafod â chyfoedion, a hynny trwy ddefnyddio amryw o dechnegau. Defnyddiant ddeunyddiau treiddgar, ond ni fwriedir iddynt gyffroi teimladau cryf iawn sy'n achosi trallod. Mae'n bwysig nodi bod y sesiynau hyn wedi'u cynllunio i ysgogi trafodaeth yn hytrach na datgeliad, ond darperir cymorth a chyfeirio priodol os digwydd hynny.

**Cymorth arbenigol ar gyfer Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig**

Mae BAWSO yn darparu cymorth i bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig sy'n dioddef cam-drin domestig, neu sy'n cael eu bygwth â hynny, yn ogystal â darparu amrywiaeth eang o wasanaethau cymorth ar draws Cymru. Ymhlith y gwasanaethau arbenigol a ddarperir y mae darparu llety dros dro yng Nghymru i'r rheiny sy'n dioddef cam-drin domestig a phob math arall o drais, yn cynnwys



Draft

anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM), priodas dan orfod, trais ar sail anrhydedd a masnachu pobl.

### Rhaglenni ar gyfer cyflawnwyr

Mae angen hoelio mwy o sylw ar gymhelliad a gweithredoedd y rhai sy'n cam-drin ac yn cyflawni trais. Y rhain sy'n achosi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, er mai'r dioddefwyr, yn ôl yr adroddiadau, sy'n cael eu beio a'u cosbi. Bydd rhai cyflawnwyr yn ymosodol a threisgar yn eu hanfod, ond gall eraill ddewis a dethol eu dioddefwyr. Ffrwyth pŵer a rheolaeth yw cam-drin partner agos. Mae yna rai unigolion a oedd yn cam-drin cyn-bartneriaid yn barhaus, er nad ydynt yn dreisgar yn eu perthynas newydd. Mae gofyn am brotocol caeth ar gyfer atgyfeirio pobl i raglenni cyflawnwyr, er mwyn cadw'r dioddefwr yn ddiogel.

Mae cymorth ar gael i gyflawnwyr cam-drin domestig trwy'r system cyfiawnder troseddol (y gwasanaeth prawf) neu yn y gymuned, lle gallant ddefnyddio rhaglen Relate Cymru, Choose2Change, sydd wedi'i hachredu gan Respect. Prif flaenoriaeth y rhaglen hon yw gwella diogelwch dioddefwyr a phlant sy'n dioddef cam-drin domestig, neu sydd wedi ei ddioddef. Caiff cyflawnwyr gyfle i fynychu rhaglen gwaith grŵp i roi sylw i'w hymddygiad treisgar er mwyn lleihau'r risg o gam-drin pellach yn eu perthnasoedd. Caiff eu partneriaid a'u plant yr wybodaeth a'r cymorth y mae eu hangen arnynt i'w cadw'n ddiogel. Mae Choose2Change yn rhaglen sydd wedi cael achrediad llawn gan Respect, ac fe'i cynigir i deuluoedd y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt yng Ngogledd Cymru. Datblygwyd yr achrediad er mwyn cynnig sicrwydd i aelodau o'r cyhoedd, cyllidwyr, asiantaethau sy'n comisiynu, a gweithwyr proffesiynol, eu bod yn cael gwasanaeth o ansawdd uchel, sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch, gan sefydliadau a gafodd eu hachredu gan Respect. Dim ond rhaglenni ar gyfer cyflawnwyr wedi'u hachredu sy'n dderbyniol, ac mae angen hyfforddiant ar atgyfeirwyr ar sut i drin y cyflawnwr a'r dioddefwr wrth wneud atgyfeiriad.

### Caethwasiaeth fodern

Mae BAWSO – Prosiect Diogel (Lloches) yn cefnogi dioddefwyr caethwasiaeth fodern gan ddarparu cymorth ymarferol o ran tai, cyllid personol, cyngor cyfreithiol a materion mewnfudo, a chymorth emosiynol i helpu adferiad ac adsefydlu.

Mae'r prosiect yn cynorthwyo'r rhai sydd wedi dianc rhag masnachu pobl neu sydd wedi cael eu rhyddhau o afael rhwydweithiau troseddol. Mae'n cynnal asesiadau risg, ac mae'n darparu cymorth wedi'i deilwra i anghenion yr unigolyn. Mae'r cymorth a gynigir yn unol â Safonau Gofal Masnachu Pobl, ac mae ganddo agwedd gyfannol at anghenion cymorth.

Mae BAWSO yn gweithio'n agos gyda phartneriaid hyd a lled y rhanbarth, gan gynnwys Awdurdodau Lleol, Heddlu Gogledd Cymru, Byddin yr Iachawdwriaeth,



Draft

Ymwelwyr Iechyd, ymarferwyr iechyd rhywiol, y Groes Goch ac Uned Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl (MSHTU).

Mae'r prosiect yn darparu'r gwasanaethau canlynol i ddioddefwyr: gwasanaethau cwnsela, cyngor cyfreithiol a chynrychiolaeth mewn apeliadau llys, mynediad at fargyfreithwyr arbenigol i erlyn achosion yn llys y goron, cymorth gyda'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (NRM) fel ymatebydd cyntaf cydnabyddedig yn ystod y broses ceisio lloches a mewnfudo, yn ogystal â chymorth gyda'r system cyfiawnder troseddol.

**Stepping Stones**

Mae Stepping Stones yn darparu cwnsela cyfrinachol ar gyfer unigolion a grwpiau o oedolion a gafodd eu cam-drin yn rhywiol pan oeddent yn blant.

**Canolfan Atgyfeirio Dioddefwyr Troseddau Rhywiol (SARC)**

Amethyst yw Canolfan Atgyfeirio Dioddefwyr Troseddau Rhywiol (SARC) yn ardal Gogledd Cymru. Mae'n fenter ar y cyd rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Heddlu Gogledd Cymru a grwpiau gwirfoddol. Mae'n darparu gwybodaeth am opsiynau; cyngor a chymorth o ran hysbysu'r heddlu; gwybodaeth a chymorth os na hysbysir yr heddlu; cyngor neu apwyntiad iechyd rhyw; atal cenhedlu brys; cyngor ar haint hepatitis a HIV, ac atgyfeiriad ar gyfer cymorth a chwnsela.

**RASASC**

Mae Canolfan Trais a Cham-drin Rhywiol (RASASC) (Gogledd Cymru) yn sefydliad cydnabyddedig sy'n darparu cymorth arbenigol annibynnol i helpu pobl i weithio trwy eu profiad o drais rhywiol.

Mae rhagor o wybodaeth yn y rhestr lawn o wasanaethau yn atodiad x

## 8.5 Casgliad ac argymhellion

**Y prif negeseuon**

- Ni roddir gwybod i'r heddlu am bob achos o drais a cham-drin domestig a rhywiol, ond mae nifer yr adroddiadau yn y cynyddu
- Mae trais a cham-drin domestig a rhywiol yn effeithio ar fenywod a dynion, ond mae menywod yn fwy tebygol o'u dioddef.
- Mae achosion o orfodi a rheoli 'nawr yn cael eu cofnodi yng Ngogledd Cymru ers cyflwyno'r drosedd yn Rhagfyr 2015
- Mae cam-drin domestig yn costio £66 miliwn y flwyddyn i wasanaethau cyhoeddus yng Ngogledd Cymru o ran gofal iechyd, cyfiawnder troseddol, y gwasanaethau cymdeithasol, tai a llochesau, costau cyfreithiol, a cholli allbwn economaidd.



Draft

**Y bylchau mewn gwasanaethau a'r cymorth sydd ar gael**

Mae'r asesiad poblogaeth yn awgrymu y dylid ystyried rhoi sylw i'r canlynol yn y dyfodol:

- Datblygu cysylltiadau cryfach o ran strategaeth ac ymarfer rhwng cam-drin domestig a diogelu oedolion.
- Effaith torri cyllidebau ar allu darparwyr gwasanaethau arbenigol i ateb y galw ac i ddiwallu'r angen am wasanaethau.
- Y cymorth y mae ei angen ar blant a phobl ifanc sy'n dystion i drais a cham-drin domestig.
- Sicrhau bod digon o ddewisiadau o ran cartrefu dioddefwyr trais a cham-drin domestig sydd ag anghenion gofal a chymorth ychwanegol sy'n gofyn bod staff ar gael ddydd a nos.
- Casglu rhagor o wybodaeth am yr angen am gymorth arbenigol, megis cymorth hyblyg, ar gyfer pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yng Ngogledd Cymru.

**Y blaenoriaethau cenedlaethol**

Mae Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2016-2021 (Welsh Government, 2016) wedi cael ei gyhoeddi, ac mae'n cynnwys y 10 prif argymhelliad (gweler adran 8.3), ynghyd â'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol (gweler adran 8.1).

Nodir yr amcanion canlynol yng Nghynllun Blynyddol y Cynghorydd Cenedlaethol (Bowen-Davies, 2016):

1. Cynghori ar weithrediad strategol y ddeddfwriaeth a'i gefnogi
2. Datblygu dull gweithredu strategol, cydlynol ac integredig o ran materion polisi a phenderfyniadau ynghylch darparu gwasanaethau
3. Datblygu argymhellion ymarferol i wella effaith ac effeithiolrwydd y gwasanaeth a ddarperir gan y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol
4. Darparu llwyfan strategol ar gyfer rhannu addysg ac ymchwil
5. Galluogi cyfathrebu effeithiol a chynhwysol â goroeswyr, rhanddeiliaid a'r cyhoedd.

**Y camau nesaf**

Mae'n rhaid i gynghorau lleol a'r bwrdd iechyd baratoi a chyhoeddi strategaeth o dan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2014 erbyn 1 Ebrill 2018. Defnyddir yr asesiad poblogaeth i lywio'r strategaeth hon.

Draft

Gwelsom hefyd fod angen i ni gynnwys rhagor o wybodaeth am drais rhywiol, camfanteisio'n rhywiol ar blant, masnachu pobl, a chaethwasiaeth fodern pan fyddwn yn adolygu'r asesiad poblogaeth. Cofiwch gysylltu â ni os bydd gennych unrhyw dystiolaeth yr hoffech ei chyflwyno [ychwanegu dolen].

**Cydraddoldeb a hawliau dynol**

Mae'r bennod hon yn cynnwys gwybodaeth am y nifer anghyfartal o fenywod, plant a phobl anabl y mae TEMCDTRh yn effeithio arnynt. Hefyd, mae'n tynnu sylw at y ffaith fod angen i wasanaethau fod ar gael i bawb, er enghraifft dynion yn ogystal â menywod, ac at yr angen am gymorth arbenigol i bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Mae'n cynnwys data ynghylch cyfran y bobl â nodweddion gwarchodedig sy'n cael eu trafod yn y MARAC, er enghraifft nifer fach o bobl LGBT. Mae rhagor o wybodaeth am yr effaith ar grwpiau penodol i'w chael yn yr adran ddiogelu ym mhob pennod o'r asesiad poblogaeth [ychwanegu dolen].

Efallai y bydd yna faterion eraill sy'n effeithio ar bobl â'r nodweddion gwarchodedig, ac ar anghenion siaradwyr Cymraeg, sydd heb eu nodi yn yr asesiad hwn, ac y gellid rhoi sylw iddynt wrth adolygu'r asesiad poblogaeth yn y dyfodol, wrth ddatblygu'r cynllun ardal, neu yn y gwasanaethau a gânt eu datblygu neu eu newid mewn ymateb i'r cynllun.

Byddem yn croesawu unrhyw dystiolaeth benodol bellach a allai helpu i lywio'r asesiad terfynol [ychwanegu dolen].

Draft

# Cyfeiriadau


Barnardos (2013) 'Safeguarding and promoting the welfare of children who are at risk of abuse through sexual exploitation'. All Wales Child Protection Procedures Review Group.

Barnardos (2016) *Child sexual exploitation in Wales: Seraf service*. Available at: http://www.barnardos.org.uk/serafservice/seraf_service_sexual_exploitation_wales.htm.

Bowen-Davies, R. (2016) 'National Adviser for tackling Violence against Women, other forms of Gender based Violence, Domestic Abuse and Sexual Violence (1 April 2016 to 31 March 2017)'.

Co-ordinated action against domestic abuse (caada) (2014) *In plain sight: the evidence from children exposed to domestic abuse*.

Hobbs, J. K. (2016) 'Project Freehand: The stories so far'. Glyndwr Women's Aid.

North Wales Police (2016) *Figures reveal a positive picture for North Wales*. Available at: http://www.north-wales.police.uk/news-and-appeals/figures-reveal-a-positive-picture-for-north-wales.aspx.

North Wales Social Care and Wellbeing Services Improvement Collaborative (2016) 'North Wales population assessment: Analysis of feedback from organisations report'.

Office for National Statistics (2014) 'Chapter 4 - Intimate Personal Violence and Partner Abuse'. Available at: http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20160105160709/http://www.ons.gov.uk/ons/dcp171776_352362.pdf (Accessed: 1 November 2016).

Public Health Wales (2016) 'Making a difference: Investing in sustainable health and well-being for the people of Wales'.

Sidebotham, P., Brandon, M., Bailey, S., Belderson, P., Dodsworth, J., Garstang, J., Harrison, E., Retzer, A. and Sorensen, P. (2016) 'Pathways to harm, pathways to protection: a triennial analysis of serious case reviews 2011 to 2014'. Department for Education. Available at: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/533826/Triennial_Analysis_of_SCRs_2011-2014_-__Pathways_to_harm_and_protection.pdf (Accessed: 1 November 2016).

The Survivors Trust Cymru (2014) 'Submission to inquiry into the general principles of the Gender-Based Violence, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Bill'. Available at: http://www.senedd.assembly.wales/documents/s29901/GBV%2018%20-%20Survivors%20Trust%20Cymru.pdf (Accessed: 17 October 2016).

Walby, S. (2009) 'Costs of domestic violence per local area'. Trust for London

Henry Smith Charity.


Draft

Welsh Government (2016) 'National Strategy on Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (2016-2021)'.

Welsh Women's Aid (2016) 'Are you listening and am I being heard?' *Survivor consultation: A report of the recommendations made by survivors of violence against women, domestic abuse and sexual violence, to inform the National Strategy in Wales.*

Drafft

# 9 Sefydliadau Diogel

**Cynnwys**


9 Sefydliadau Diogel ....... 1

9.1 Ynglŷn â'r bennod hon ....... 3

Diffiniad o sefydliadau diogel: ....... 3

Polisi a Deddfwriaeth ....... 4

Plant 5

Dod yn oedolyn mewn sefydliad diogel: ....... 5

Cludadwyedd ....... 6

Diogelu ....... 6

9.2 Darpariaeth sefydliadau diogel ....... 7

Y ddarpariaeth bresennol ....... 7

Llety Cadw Ieuenctid (YDA): ....... 10

Chwefror 2017 Ymlaen – Carchardai ....... 11

9.3 Beth yr ydym yn ei wybod am y boblogaeth: ffeithiau allweddol ....... 14

Niferoedd ....... 14

Prif ystadegau ....... 16

Nodweddion carcharorion a goblygiadau ar gyfer gofal cymdeithasol ....... 17

Y Gymraeg ....... 20

Ailsefydlu ....... 20

Plant a Theuluoedd ....... 22

9.4 Beth y mae pobl yn ei ddweud wrthym? ....... 25

Ymgynghoriad yr asesiad poblogaeth ....... 25

Gwybodaeth ategol ar gyfer yr ymgynghoriad ....... 26

9.5 Adolygiad o'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd ....... 27

Darpariaeth Hanesyddol ....... 27

Y Ddarpariaeth Bresennol ....... 27

Cynllunio ar gyfer Carchar y Berwyn ........................................................28
Pobl ifanc..............................................................................................29
Menywod ..............................................................................................32
Tai 33
Plant a Theuluoedd................................................................................36
9.6 Casgliad ac Argymhellion................................................................37
Atodiad 1: Rhestr o'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd .....................................39
Atodiad 2: Data poblogaeth ailsefydlu ......................................................40
Cyfeiriadau ..............................................................................................41

Draft

## 9.1 Ynglŷn â'r bennod hon

Mae'r bennod hon yn cynnwys anghenion poblogaeth dynion, menywod a phobl ifanc y rhanbarth sydd mewn sefydliadau diogel – sydd wedi'u lleoli ledled Cymru a Lloegr oherwydd y diffyg cyfleusterau ar hyn o bryd yng Ngogledd Cymru.

Gellir cael gwybodaeth berthnasol arall yn y penodau canlynol:

- Plant a phobl ifanc [add link]
- Pobl hŷn [add link]
- Iechyd, anableddau corfforol a nam ar y synhwyrau [add link]
- Anabledd dysgu ac awtistiaeth
- Iechyd meddwl [add link]
- Gofalwyr
- Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol
- Cyn-filwyr [add link]
- Digartrefedd [add link]

Dynion, yn bennaf, yw'r boblogaeth sydd mewn sefydliadau diogel; mae dynion, ar gyfartaledd, yn cynrychioli 95% o boblogaeth y carchardai yng Nghymru a Lloegr. Gan ystyried y bydd carchar oedolion gwrywaidd cyntaf y rhanbarth (Carchar y Berwyn yn Wrecsam) yn agor yn 2017, yn ogystal â chyfrifoldebau gofal cymdeithasol yr awdurdod lleol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar gyfer y boblogaeth hon, mae cwmpas y bennod hon yn ymwneud yn bennaf â'r rheiny mewn sefydliadau diogel i oedolion gwrywaidd a fydd yn bwrw eu tymor yn y carchar yng Ngogledd Cymru o Chwefror 2017 ymlaen.

### Diffiniad o sefydliadau diogel:

Mae sefydliadau diogel yn cynnwys:

- carchardai;
- safleoedd a gymeradwywyd: llety dan oruchwyliaeth, tebyg i hostel, ar gyfer goruchwylio ac adsefydlu troseddwyr;
- llety cadw ieuenctid; a
- llety mechnïaeth: ar gyfer pobl a fyddai, fel arfer, yn byw yn y gymuned ar fechnïaeth neu dan Gyrffyw Cyfyngu i'r Cartref, ond nid oes ganddynt fel arall gyfeiriad addas, neu y mae angen cymorth ychwanegol arnynt.

## Polisi a Deddfwriaeth

O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf), mae gan gynghorau lleol amrywiaeth o ddyletswyddau i'w cyflawni mewn perthynas ag asesu a diwallu anghenion gofal a chymorth yr unigolion hynny sydd mewn sefydliadau diogel. Mae angen iddynt ddefnyddio dull cyfannol pan fydd unigolion yn bwrw eu tymor yn y carchar, ac wrth gynllunio ar gyfer eu rhyddhau.

Mae hyn yn newid mawr. Cyn hyn, nid oedd yn glir pwy oedd yn gyfrifol am asesu a diwallu anghenion gofal cymdeithasol y rheiny mewn sefydliadau diogel, a'r canlyniad oedd bod anghenion o'r fath yn aml heb gael eu hadnabod neu heb gael eu diwallu yn effeithiol.

O dan y Ddeddf, rhaid i gynghorau lleol ymgysylltu â sefydliadau partner i nodi sut y gall adnoddau presennol gael eu defnyddio orau. Gall cynghorau lleol gomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth neu drefnu i bobl eraill eu darparu, neu ddirprwyo'r swyddogaeth i barti arall, ond bydd y cyfrifoldeb ar gyfer cyflawni'r ddyletswydd yn aros gyda'r cyngor lleol.

Rhaid i gynghorau lleol gefnogi plant ac oedolion sydd ag anghenion gofal a chymorth mewn sefydliadau diogel yng Nghymru, yn union fel y byddent yn ei wneud ar gyfer rhywun yn y gymuned. Fodd bynnag, efallai y bydd angen addasu'r ffordd o gyflwyno'r trefniadau gofal a chymorth sy'n gweithredu yn y gymuned er mwyn diwallu anghenion y boblogaeth a chyfundrefn y sefydliadau diogel.

**Oedolion**

O dan y Ddeddf, rhaid i gyngor lleol fodloni'r dyletswyddau gofal a chymorth ar gyfer yr oedolion hynny sy'n 18 oed a hŷn, ac sydd mewn sefydliadau diogel yng Nghymru, ni waeth beth yw eu man preswylio arferol yng Nghymru neu yn rhywle arall cyn eu cadw, lle mae'r carchar neu'r sefydliad diogel arall o fewn ei ffiniau.

Mae i hyn oblygiadau sylweddol ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, sef yr awdurdod a fydd yn gartref i garchar cyntaf y rhanbarth, a hwnnw'n garchar mwyaf y Deyrnas Unedig, pan fydd yn agor yn 2017.

Mewn trefniant dwyochrog, bydd anghenion gofal a chymorth oedolion o Gymru sydd mewn sefydliadau diogel yn Lloegr yn cael eu diwallu o dan Ddeddf Gofal 2014, a'r cyngor lleol yn yr ardal lle maent yn cael eu cadw fydd yn gyfrifol amdanynt.

Pan fydd troseddwyr yn cynllunio i gael eu rhyddhau ac i ailsefydlu yn y gymuned, bydd y ddyletswydd yn symud at y cyngor lleol lle maent yn bwriadu adleoli, a bydd trefniadau cludadwyedd yn berthnasol. Felly, er nad yw pob ardal cyngor lleol yn cynnwys sefydliadau diogel, bydd pob cyngor lleol yn

gyfrifol am barhad gofal ar gyfer troseddwyr gwrywaidd a benywaidd, gyda phecyn gofal sy’n dod i mewn i'w hardal pan fydd yr unigolion hynny yn cael eu rhyddhau, fel rhan o'u cyfrifoldeb dros eu poblogaeth leol.

**Plant**

Mae'r sefyllfa ar gyfer plant yn wahanol, oherwydd mae’n rhaid i’r cyngor lleol cartref yng Nghymru gyflawni'r dyletswyddau gofal a chymorth ar gyfer plant mewn sefydliadau diogel p’un a ydynt yn cael eu cadw yng Nghymru neu yn Lloegr, yn union fel y byddent pe baent yn byw yn y gymuned.

Mae Tabl 9.1 yn nodi cyfrifoldebau awdurdodau lleol o ran anghenion gofal a chymorth i blant mewn sefydliadau diogel, gan ystyried unrhyw gysylltiad blaenorol â’r gwasanaethau cymdeithasol, preswylfa arferol y plentyn, a lle y mae’n cael ei gadw.

**Tabl 9.1** Cyfrifoldeb awdurdod lleol (ALl) am blant mewn sefydliadau diogel

| Preswylfa arferol | Statws y plentyn | Lleoliad cadw | Pwy |
|---|---|---|---|
| Dim statws preswylydd arferol | Mudol neu ddim statws preswylydd arferol | Cymru | Yr ALl yng Nghymru lle mae’r plentyn yn cael ei gadw |
| Preswylydd arferol yng Nghymru | Heb ystyried cysylltiad blaenorol â'r gwasanaethau cymdeithasol | Cymru | ALl cartref yng Nghymru |
| Preswylydd arferol yng Nghymru | A20 neu 31 o Ddeddf Plant 1989 cyn cael ei gadw | Lloegr | ALl cartref yng Nghymru |
| Preswylydd arferol yn Lloegr | A20 neu 31 o Ddeddf Plant 1989 cyn cael ei gadw | Cymru | ALl cartref yn Lloegr |
| Preswylydd arferol yn Lloegr | Dim cysylltiad blaenorol â'r gwasanaethau cymdeithasol neu ddim yn derbyn gofal | Cymru | ALl yng Nghymru lle mae’r plentyn yn cael ei gadw |
| Preswylydd arferol yng Nghymru | Dim cysylltiad blaenorol â'r gwasanaethau cymdeithasol neu ddim yn derbyn gofal | Lloegr | Cyfrifoldeb ar y cyd |

Ffynhonnell: Cyflwyniad gan Gyngor Gofal Cymru, 'Asesu a Diwallu Anghenion Unigolion yn yr Ystad Ddiogeledd'

**Dod yn oedolyn mewn sefydliad diogel:**

Pan fydd plentyn mewn sefydliad diogel yn cyrraedd 18 oed, fe’i hystyrir yn gyfreithiol yn oedolyn. Mae'n rhaid i'r cyngor lleol, lle mae'r carchar wedi’i leoli, gymryd cyfrifoldeb am ei anghenion gofal a chymorth. Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, nid oes unrhyw rwymedigaeth barhaus ar y cyngor lleol cartref yng Nghymru wedi i'r plentyn gyrraedd 18 oed, oni bai y byddai’r cyngor lleol

Draft

hwnnw yn gyfrifol oherwydd bod y sefydliad i oedolion y mae'r oedolyn ifanc yn cael ei drosglwyddo iddo yn ei ardal.

**Cludadwyedd**

Nod cludadwyedd yw sicrhau parhad mewn gofal. Mae'n berthnasol i'r rhai hynny sy'n cael 'gofal a chymorth' pan fyddant yn symud ar draws ffiniau cynghorau lleol yng Nghymru. Rhaid i'r cyngor sy'n 'anfon' roi gwybod i'r cyngor sy'n 'cymryd' am y symud a fwriedir, a rhaid iddo sicrhau bod yr wybodaeth a geir yn yr asesiad a'r cynllun gofal a chymorth ar gael ar unwaith i'r cyngor newydd.

Rhaid i'r cyngor sy'n 'cymryd' gynnal asesiad newydd o anghenion, gan ystyried unrhyw newidiadau sy'n deillio o'r broses symud.

Rhaid i gyngor lleol gynnal y darpariaethau mewn unrhyw gynllun gofal a chymorth os nad oes asesiad newydd wedi cael ei gynnal cyn y symud, hyd nes y bydd asesiad newydd yn cael ei gynnal.

Mewn rhai achosion, bydd oedolion mewn sefydliad diogel yn symud ar draws ffin Cymru/Lloegr: er enghraifft, trosglwyddiadau rhwng carchardai, er mwyn cael mynediad i safleoedd a gymeradwywyd neu lety mechnïaeth, neu wrth ddychwelyd i gymunedau lleol o sefydliad diogel. Er nad yw'r trefniadau cludadwyedd yng Nghymru, na'r parhad o ran trefniadau gofal yn Lloegr, yn berthnasol yn ffurfiol, mae'r gweinyddiaethau datganoledig a Whitehall wedi cytuno ar ddull cyffredin. Mae hyn wedi'i nodi yn 'Egwyddorion parhad gofal trawsffiniol yn y Deyrnas Unedig: Atodiad 2, Rhan 4 cod ymarfer'[1].

Mae rhagor o wybodaeth am y dyletswyddau o dan y Ddeddf ar gael yma:

http://gov.wales/docs/dhss/publications/151218part11cy.pdf

## Diogelu

Mae'r ddolen uchod hefyd yn cynnwys canllawiau perthnasol ar ddiogelu oedolion a phlant mewn sefydliadau diogel.

Mae Cyfarwyddyd Gwasanaeth Carchardai (PSI) Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS) sy'n ymwneud â Diogelu Oedolion mewn Carchardai, ar gael yma:

https://www.justice.gov.uk/downloads/offenders/psipso/psi-2015/psi-16-2015-adult-aafeguarding-in-prisons.pdf

Am ragor o wybodaeth yn ymwneud â diogelu, cyfeiriwch at yr adrannau ym mhob pennod.

1 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Llywodraeth Cymru – Cod Ymarfer Rhan 4 (Diwallu Anghenion) http://gov.wales/docs/phhs/publications/160106pt4cy.pdf

## 9.2 Darpariaeth sefydliadau diogel

### Y ddarpariaeth bresennol

**Carchardai**

Nid oes unrhyw garchardai yng Ngogledd Cymru ar hyn o bryd. Ar 31 Rhagfyr 2013, roedd gan 857 o garcharorion gyfeiriad wedi'i gofnodi yng Ngogledd Cymru, o gyfanswm ar gyfer Cymru o 4,712 (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ymateb i gais Rhyddid Gwybodaeth). Dyma'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael i'r cyhoedd.

Roedd y troseddwyr hyn wedi'u lleoli mewn tua 80 o garchardai yn y DU, gyda'r mwyafrif (oedolion gwrywaidd yn unig) yn cael eu cadw yng Ngharchar Altcourse yng Nglannau Mersi. Yn y Gogledd Orllewin, roedd nifer sylweddol hefyd yn y carchardai gwrywaidd, sef Carchar Risley, Carchar Wymott a Charchar Garth.

Mae diffyg darpariaeth carchardai yng Ngogledd Cymru wedi bod yn broblem ar gyfer y rhanbarth ers amser maith. Mae wedi arwain at nifer o anawsterau o ran rheoli troseddwyr, yn cynnwys: ei gwneud yn weithredol anodd ei reoli; anodd sicrhau'r canlyniadau adsefydlu gorau ar gyfer carcharorion; ac effaith negyddol ar blant a theuluoedd carcharorion. Mae hefyd wedi arwain at broblemau mawr o ran darpariaeth y Gymraeg i garcharorion. Gall yr holl ffactorau hyn ei gwneud yn fwy anodd rheoli anghenion gofal cymdeithasol y rheiny mewn sefydliadau diogel yn effeithiol, gan gynnwys parhad o ran gofal ar ôl eu rhyddhau.

Amlygwyd y materion hyn gan y Pwyllgor Materion Cymreig yn ei adroddiad ar 'Welsh Prisoners in the English Estate, Third Report of Session 2006-7'[2] ac yn ei adroddiad dilynol ar 26 Gorffennaf 2010.[3]

Mae adroddiadau a gyflwynwyd gan gynghorau Gogledd Cymru a'u Harweinwyr i Ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cymreig ym mis Gorffennaf 2014 ar 'Prisons in Wales and the Treatment of Welsh Offenders', yn nodi'r rhesymau pam mae angen darpariaeth carchardai yng Ngogledd Cymru (gweler y dolenni isod).

http://data.parliament.uk/WrittenEvidence/CommitteeEvidence.svc/EvidenceDocument/Welsh%20Affairs/Prisons%20in%20Wales%20and%20treatment%20of%20Welsh%20offenders/written/11115.html - (Gorffennaf 2014)

http://data.parliament.uk/WrittenEvidence/CommitteeEvidence.svc/EvidenceDocument/Welsh%20Affairs/Prisons%20in%20Wales%20and%20treatment%20of%20Welsh%20offenders/written/11110.html - (Gorffennaf 2014)

2 Tŷ'r Cyffredin – Pwyllgor Materion Cymreig 'Welsh Prisoners in the English Estate – Third Report of Session 2006-7' http://www.publications.parliament.uk/pa/cm200607/cmselect/cmwelaf/74/74.pdf
3 Tŷ'r Cyffredin – Pwyllgor Materion Cymreig – adroddiad dilynol Gorffennaf 2010 http://www.publications.parliament.uk/pa/cm201011/cmselect/cmwelaf/398/398.pdf

*Carchardai i ddynion*

Mae pum carchar i ddynion yn Ne Cymru (gweler Ffigur 9.1). Fodd bynnag, mae'r dynion o Ogledd Cymru yn gyffredinol yn bwrw eu tymor yn y carchar yn Lloegr: maent yn tueddu i fynd i Garchar Altcourse yng Nglannau Mersi. Mae llawer o garcharorion, fodd bynnag, nad ydynt yn bwrw eu tymor cyfan yn Altcourse ac mae llawer yn symud i garchardai eraill.

**Ffigur 9.1** Poblogaeth Troseddwyr Cymru a Charchardai yng Nghymru

| Cyfleuster rheoli | Nifer y troseddwyr |
|---|---|
| Carchar Caerdydd[1] | 800 |
| Carchar Abertawe[1] | 450 |
| Carchar y Parc[1] | 1,660 |
| Carchar Brynbuga/Prescoed[1] | 500 |
| Carchar y Berwyn (o 2017)[2] | 2,100 |
| Gwasanaeth Prawf Cymru[3] | 5,940 o droseddwyr risg uchel |
| Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru[3] | 9,180 o droseddwyd risg isel i ganolig |
| Does dim cyfleusterau cadw ar gyfer menywod yng Nghymru | |

*Ffigurau wedi'u talgrynnu i ddau ddigid ystyrlon*

1 https://www.gov.uk/government/statistics/prison-population-figures-2015
2 https://en.wikipedia.org/wiki/HM_Prison_Berwyn
3 https://www.gov.uk/government/statistics/offender-management-statistics-quarterly-july-to-september-2015




Ffynhonnell: Cyflwyniad NOMS yng Nghymru ar 'Cefnogi Darpariaeth Gofal Cymdeithasol Effeithiol ar gyfer Troseddwyr trwy Rannu Data yn Effeithlon', 30 Mawrth 2016

Yn 2013, cafodd hyn ei ddatrys, i ryw raddau, pan gyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder y byddai'n adeiladu Carchar Categori C i oedolion gwrywaidd yng Ngogledd Cymru, a fyddai'n weithredol o 2017.

*Carchardai i Fenywod*

Nid oes unrhyw gyfleusterau carchar i fenywod yng Nghymru. Mae llawer o'r menywod o Ogledd Cymru yn bwrw eu tymor yn y carchar yng Ngharchar Styal yn Swydd Gaer, sef y carchar lleol ar gyfer Gogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr ac mae'n derbyn oddi wrth y llysoedd. Ym mis Tachwedd 2016, roedd 40 o fenywod o Ogledd Cymru yng Ngharchar Styal (ffynhonnell: Carchar Styal, 16 Tachwedd 2016). Mae yna ddeuddeg o garchardai i fenywod yn Lloegr (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2016).

**Safleoedd a Gymeradwywyd**

Mae Mangreoedd a Gymeradwywyd (AP) yn elfen ar wahân, nad yw'n cynnwys dalfeydd, o sefydliadau diogel NOMS sy'n darparu llety â lefel uwch o oruchwyliaeth; maent yn bodoli i amddiffyn y cyhoedd ac i leihau aildroseddu. Fel y cyfryw, mae'r Mangreoedd a Gymeradwywyd yn darparu elfen allweddol o drefniadau'r Gwasanaeth Prawf o ran rheoli troseddwyr.

Prif bwrpas Mangreoedd a Gymeradwywyd yw darparu llety dan oruchwyliaeth ar gyfer troseddwyr 'risg uchel a risg uchel iawn o niwed' sy'n cael eu rhyddhau o'r carchar ar drwydded.

Mae chwech o'r 100 o Fangreoedd a Gymeradwywyd sy'n gwasanaethu Cymru a Lloegr ar gyfer menywod yn unig, tra bod y gweddill yn lletya dynion yn unig. Mae yna tua 2,200 o leoedd preswyl ledled sefydliadau diogel y Mangreoedd a Gymeradwywyd. Mae'r Ymddiriedolaethau Prawf yn gweithredu 89 o'r Mangreoedd a Gymeradwywyd; mae'r 11 arall yn eiddo i sefydliadau nid-er-elw, sydd yn eu gweithredu ar ran NOMS.

Yr arhosiad cyfartalog cymedrig mewn Mangre a Gymeradwywyd oedd 64 diwrnod yn 2011/12, gyda chanolrif yr arhosiad yn 34 diwrnod, a'r modd yn bum niwrnod – mae hyn yn dangos amrywiaeth eang o ran hyd yr arhosiad ('A Review of Healthcare in Approved Premises, Phase 1 Report', Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr, Rhagfyr 2013).

Mae pedwar mangre a gymeradwywyd yng Nghymru, pob un ohonynt ar gyfer oedolion gwrywaidd (gweler Tabl 9.2). Mae dau o'r adeiladau hyn yng Ngogledd Cymru – Wrecsam a Gwynedd.

Nid oes unrhyw mangreoedd a gymeradwywyd i fenywod yng Nghymru.

**Tabl 9.2** Mangreoedd a gymeradwywyd yng Nghymru

| Enw | Math | Y boblogaeth | Cyngor Lleol |
|---|---|---|---|
| Quay House | Mangre a gymeradwywyd | Gwrywod 18+ oed | Cyngor Abertawe |
| Tŷ Newydd | Mangre a gymeradwywyd | Gwrywod 18+ oed | Cyngor Gwynedd |
| Plas y Wern | Mangre a gymeradwywyd | Gwrywod 18+ oed | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Manderville House | Mangre a gymeradwywyd | Gwrywod 18+ oed | Cyngor Caerdydd |

Ffynhonnell: Cyflwyniad Llywodraeth Cymru ar 'Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Rhan 11: Y rhai mewn Sefydliadau Diogel – Ailsefydlu Oedolion', 27 Ionawr 2016

### Llety Mechnïaeth

Mae llety mechnïaeth yn dal pobl ar fechnïaeth ac ar Gyrffyw Cyfyngu i'r Cartref – mae'r rhain yn oedolion y mae arnynt angen cyfeiriad addas, neu ryw gymorth, fel y gallant gael eu rhyddhau. Nid yw'r bobl ganlynol yn gymwys:

- y rheiny a gafwyd yn euog/gyhuddwyd o drosedd rywiol;
- y rheiny sy'n peri risg sylweddol;
- y rheiny dan 18 oed; neu
- y rheiny na allant dalu rhent neu hawlio budd-dal tai.

Draft

Mae yna 32 o leoedd mewn 11 llety mechnïaeth yng Nghymru (Ffigur 9.2). Dim ond dau o'r rhain (3 lle i fenywod a 3 lle i ddynion) sydd yng Ngogledd Cymru (Wrecsam).

Ychydig yn unig o lety sydd i fenywod.

**Ffigur 9.2** Llety Mechnïaeth yng Nghymru

| Cynghorau Lleol | Dynion/Menywod |
|---|---|
| Pen-y-bont ar Ogwr | 3 lle i ddynion |
| Caerdydd | 4 lle i ddynion |
| Caerdydd | 2 le i fenywod |
| Llanelli | 3 lle i ddynion |
| Merthyr Tudful | 3 lle i fenywod (dros dro) |
| Casnewydd | 3 lle i ddynion |
| Casnewydd | 2 le i ddynion |
| Abertawe | 3 lle i ddynion |
| Abertawe | 3 lle i ddynion |
| Wrecsam | 3 lle i fenywod |
| Wrecsam | 3 lle i ddynion |

Ffynhonnell: Cyflwyniad Llywodraeth Cymru ar 'Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Rhan 11: Y rhai mewn Sefydliadau Diogel – Ailsefydlu Oedolion', 27 Ionawr 2016

**Llety Cadw Ieuenctid (YDA):**

Mae llety cadw ieuenctid yn golygu:

- cartref diogel i blant;
- canolfan hyfforddi ddiogel;
- sefydliad troseddwyr ifanc;
- cadw mewn llety a ddarperir, a ddodrefnir ac a gynhelir gan Weinidogion Cymru o dan adran 82(5) o Ddeddf Plant 1989 i ddiben cyfyngu ar ryddid plant; a
- llety neu lety a bennir trwy orchymyn o dan adran 107(1)(e) o Ddeddf Pwerau’r Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000 (llety cadw ieuenctid i ddibenion gorchmynion cadw a hyfforddi).

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddarpariaethau diogel lleol yng Ngogledd Cymru ar gyfer pobl ifanc sy'n cael eu remandio i Lety Cadw Ieuenctid neu eu dedfrydu gan y Llysoedd i dymor yn y carchar (Gorchmynion Cadw a Hyfforddi neu ddedfrydau Adran 90-92 gan Lysoedd y Goron). Mae hyn yn amlygu problem sylweddol, fel y cyfeiriwyd ati eisoes, gan gynnwys problem ynghylch y Gymraeg, ac ni ragwelir unrhyw newid.

Mae'r holl leoliadau mewn sefydliadau diogel cenedlaethol gryn bellter o Ogledd Cymru. Y rheol gyffredinol ar gyfer lleoliadau yw y bydd plant o dan 14 oed yn cael eu gosod mewn Cartrefi Diogel i Blant (SCH), bydd y rhai 14 i 16 oed yn

cael eu gosod mewn Canolfannau Hyfforddi Diogel (STC), a'r rhai 16 i 18 oed mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc (YOI). Mae yna nifer o Gartrefi Diogel i Blant ledled y wlad, ac mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn comisiynu nifer o welyau ym mhob cyfleuster gan y cynghorau cartref sy'n eu cynnal. Yr un agosaf i Wrecsam yw Barton Moss ym Manceinion.

Ar hyn o bryd, mae tair Canolfan Hyfforddi Ddiogel yn y wlad (Rainsbrook yn Rugby, Medway yng Nghaint, ac Oakhill yn Milton Keynes). Werrington YOI yn Swydd Stafford yw'r YOI lleol ar gyfer Gogledd Cymru. Deellir bod y diffyg darpariaeth Gymraeg yma yn arwain at broblemau penodol iawn.

Mae'r rhan fwyaf o Gartrefi Diogel i Blant a Chanolfannau Hyfforddi Diogel yn darparu ar gyfer dynion ifanc. Mae tair uned ddynodedig ar gyfer menywod ifanc yn y wlad – yr agosaf i Ogledd Cymru yw New Hall yn Ne Swydd Efrog (Ffynhonnell: Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Tîm Troseddau Ieuenctid).

## Chwefror 2017 Ymlaen – Carchardai

**Carchar y Berwyn – Categori C Poblogaeth yr Oedolion Gwrywaidd:**

Bydd y sefyllfa ar gyfer poblogaeth yr oedolion gwrywaidd Categori C yn newid yn sylweddol pan fydd Carchar y Berwyn yn agor yn Wrecsam ym mis Chwefror 2017, gyda chapasiti gweithredol o 2,106.

Bydd carcharorion Gogledd Cymru sy'n rhai Categori C yn dechrau cael eu gosod yng Ngharchar y Berwyn o'r pwynt hwn. Bydd Berwyn hefyd yn cynnal carcharorion o Loegr, yn bennaf o Sir Gaer, Manceinion Fwyaf, Glannau Mersi a Chanolbarth Lloegr.

Bydd hyn yn galluogi'r boblogaeth Categori C sy'n ddynion i fod yn nes at adref, ond bydd menywod a throseddwyr ifanc yn parhau i gael eu cadw y tu allan i'r rhanbarth.

I ddibenion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, bydd pob un o'r 2,106 o ddynion a gedwir yng Ngharchar y Berwyn yn dod yn breswylwyr arferol Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Felly, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn gyfrifol am y gofal a chymorth ar gyfer dynion yn y carchar.

Bydd y ddyletswydd hon yn trosglwyddo i gyngor lleol arall dim ond pan fydd carcharorion yn cynllunio i gael eu rhyddhau ac i ailsefydlu yn y gymuned. Ar y pwynt hwn, bydd y ddyletswydd yn symud i'r cyngor lleol lle y maent yn bwriadu adleoli, a bydd y trefniadau cludadwyedd yn berthnasol i sicrhau parhad gofal.

*Proffil Carchar y Berwyn*

Carchar y Berwyn fydd y carchar mwyaf yn y DU. Mae'n modelu dulliau newydd, a bydd ei ddiwylliant yn cael ei lywio gan ffocws ar adsefydlu. Mae'r ethos yn ymroddedig i ddarparu amgylchedd diogel, gweddus a chyfiawn, lle mae dynion yn cael eu hannog a'u cynorthwyo i baratoi ar gyfer dechrau newydd mewn

bywyd. Mae pwysigrwydd y Gymraeg wrth adsefydlu troseddwyr o Gymru yn cael ei gydnabod, fel y mae rôl allweddol partneriaid cyd-gomisiynu.

Bydd nodweddion allweddol tybiedig Carchar y Berwyn fel a ganlyn o ran ei nodweddion cyffredinol, ei swyddogaeth adsefydlu, ac iechyd a gofal cymdeithasol.

**Cyffredinol**

- Bydd yn garchar hyfforddi Categori C.
- Bydd yn garchar ailsefydlu ar gyfer dynion a fydd yn byw yng Ngogledd Cymru ar ôl cael eu rhyddhau.
- Ni fydd yn gwasanaethu fel carchar ailsefydlu ar gyfer y rheiny a gedwir o Loegr, felly, tua diwedd eu dedfryd, bydd dynion o Loegr yn trosglwyddo i garchar ailsefydlu yn agosach i'w preswylfa wreiddiol.
- Bydd ganddo gapasiti gweithredol o 2,106 o leoedd.
- Hwn fydd y carchar mwyaf yn y DU.
- Bydd pwyslais ar 'wneud i’r mawr deimlo’n fach' i helpu i oresgyn yr her o'i faint, ac i ddysgu o garchardai blaenorol a adeiladwyd o’r newydd.
- Dyma’r carchar cyntaf a weithredir gan y sector cyhoeddus i gael ei adeiladu ers 30 mlynedd.
- Adsefydlu yw’r llywiwr allweddol – bydd yn cynnig amrywiaeth o waith, addysg, cymorth cymheiriaid a chyfleoedd hamdden i'r dynion.
- Bydd yna swyddogaeth remánd bach.
- Dynion 18 oed a throsodd yn unig a fydd yn mynd yno.
- Bydd yn garchar 'digidol' – bydd y dynion yn cael mynediad at dechnoleg yn eu celloedd a fydd yn eu galluogi i gymryd perchenogaeth fwy personol o'u bywydau.
- Bydd y Gymraeg a diwylliant Cymru yn rhan annatod o'r carchar.
- Bydd y carchar yn dod yn weithredol ym mis Chwefror 2017.

**Gweledigaeth adsefydlu/darpariaeth ailsefydlu**

- Bydd Carchar y Berwyn ar flaen y gad o ran gweledigaeth adsefydlu y gwasanaeth carchardai.
- Bydd yna ddarpariaeth trwy-y-giât.
- Bydd gweithio gyda phlant a theuluoedd y dynion yn y ddalfa yn nodwedd allweddol o'r carchar.
- Bydd amgylchedd 'academi ddysgu' yn y carchar, gyda bloc addysg dynodedig ac ardaloedd gwaith mewn dau adeilad diwydiannau.

Draft

- Bydd Novus a darparwr Addysg Bellach (AB) lleol, Coleg Cambria, yn darparu'r addysgu a'r gwaith sgiliau yn y carchar.
- Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn darparu gwasanaeth y llyfrgell.
- Bydd yna ffocws ar sgiliau a chymwysterau a fydd yn cael ei lywio gan y farchnad lafur leol i helpu'r dynion i gael swyddi ar ôl cael eu rhyddhau.
- Y nod yw y bydd bywyd yng Ngharchar y Berwyn yn teimlo mor debyg ag y bo modd i fywyd y tu allan i gynorthwyo'r gwaith o ailsefydlu ac adsefydlu.

**Iechyd, Llesiant a Gofal Cymdeithasol**

- Bydd y carchar yn ddi-fwg.
- Nid fydd unrhyw garcharor nad oes modd rheoli ei iechyd a gofal cymdeithasol yn ddiogel yng Ngharchar y Berwyn yn cael mynd yno.
- Os bydd carcharor yn datblygu anghenion na ellir eu rheoli'n ddiogel yn rhesymol gan y carchar yng Ngogledd Cymru, bydd yn cael ei drosglwyddo i sefydliad â'r cyfleusterau angenrheidiol.
- Bydd dyluniad a threfn y carchar yn hwyluso'r gwaith o ddarparu iechyd, llesiant a gofal cymdeithasol integredig i boblogaeth y carchar, gan gynnwys gofynion iechyd a llesiant gwell y boblogaeth remánd, ac anghenion y boblogaeth sy'n heneiddio.
- Bydd y bwrdd iechyd lleol yn darparu'r gofal iechyd, a bydd y cyngor lleol yn darparu'r gofal cymdeithasol.
- Bydd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu darparu mewn modd integredig.
- Bydd y carchar newydd yn ei sefydlu ei hun yn garchar sy'n hybu iechyd, gan fabwysiadu dull carchar cyfan o ran iechyd a llesiant ei garcharorion a'i staff.

*Carchar y Berwyn – Cynyddu'r Boblogaeth*

Gan ddechrau o fis Chwefror 2017, bydd y carchar yn raddol adeiladu i'w boblogaeth lawn, a charcharorion ar remánd (y rheiny sy'n aros i'w hachos ddechrau neu barhau cyn rheithfarn) fydd yr olaf i fynd yno. Bydd partneriaid gofal iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion yn cael gwybod gan NOMS o leiaf chwe mis cyn i'r swyddogaeth remánd (a fydd yn gwasanaethu llysoedd y rhanbarth) ddod yn weithredol yn y carchar.

Bydd dynion yn cael eu cyflwyno mewn carfannau dros gyfnod o tua blwyddyn, a bydd hyn yn cynnwys dynion o Ogledd Cymru a fydd, lle bo hynny'n briodol, yn cael eu trosglwyddo i gwblhau eu tymor yn y carchar yng Ngharchar y Berwyn.



Draft

# 9.3 Beth yr ydym yn ei wybod am y boblogaeth: ffeithiau allweddol

## Niferoedd

Ar 31 Rhagfyr 2013, roedd gan 857 o garcharorion gyfeiriad wedi'i gofnodi yng Ngogledd Cymru, a hynny o gyfanswm ar gyfer Cymru o 4,712.

Mae'r ffigur hwn yn cynnwys pobl ar remánd a rhai wedi'u dedfrydu, carcharorion gwrywaidd a benywaidd, oedolion, troseddwyr ifanc a charcharorion ifanc. Mae hyn yn adlewyrchiad da o'r niferoedd yng Ngogledd Cymru, sy'n tueddu i fod, ar gyfartaledd, tua 750-850 o leoedd, y mae tua 40-50 ohonynt yn fenywod, 60-70 yn droseddwyr ifanc a 50-60 yn unigolion diogelwch uchel.

Ni fu’n bosibl sefydlu nifer yr asesiadau gofal cymdeithasol a wnaed ar y boblogaeth hon, nac ar y niferoedd sy'n gymwys.

**Menywod**

Yn gyffredinol, mae merched yn tueddu i gynrychioli tua 5% o boblogaeth gyfan carchardai yn y DU. Ar 17 Mehefin 2016, roedd 3,861 o fenywod yn y carchar yng Nghymru a Lloegr (Bromley Briefings, Haf 2016).

Mae Ffigur 9.3 yn nodi nifer y troseddwyr sy'n fenywod a ddedfrydwyd i garchar ar unwaith yng Ngogledd Cymru rhwng 2010 a 2015. Ledled Cymru, mae’r defnydd o ddedfrydau o gaethiwed byr iawn o chwe mis neu lai wedi cynyddu bob blwyddyn ers 2011. Mae cyfanswm y defnydd o ddedfrydau o garchar ar unwaith i fenywod yng Nghymru yn fwy cymhleth.

**Ffigur 9.3** Troseddwyr benywaidd Gogledd Cymru a gafodd ddedfryd o garchar ar unwaith o lai na chwe mis, 2010-2014




Ffynhonnell: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2010-2015

Mae'r rhai a ddedfrydwyd i garchar ar unwaith, gyda dedfryd o chwe mis neu fwy, wedi codi o 74 yn 2010 i 107 yn 2015, sy'n gynnydd o bron 50% mewn pum mlynedd. Mae'r ffigurau hyn yn achosi pryder, pan fo'r mwyafrif o'r menywod a ddedfrydwyd i garchar wedi cyflawni troseddau di-drais, ac mae llawer yn cael eu cadw gryn bellter oddi wrth eu teuluoedd, sy'n amharu'n sylweddol ar fywyd teuluol a'r broses o adsefydlu.

**Ffigur 9.4** Troseddwyr benywaidd Gogledd Cymru a gafodd ddedfryd o garchar ar unwaith o chwe mis neu ragor, 2010-2015




Ffynhonnell: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder 2010-2015

**Plant a Phobl Ifanc:**

Mae ffigurau o ran nifer y plant a phobl ifanc a gafodd ddedfryd o garchar, a sut y mae'r ffigurau wedi newid rhwng 2013 a 2016, i'w gweld yn Tabl 9.3.

**Tabl 9.3** Nifer y plant a phobl ifanc sy'n cael dedfryd o garchar, Gogledd Cymru, 2013 i 2016

| Cyngor Lleol | Ebrill 2013 – Mawrth 2014 | Ebrill 2014 – Mawrth 2015 | Ebrill 2015 – Mawrth 2016 |
|---|---|---|---|
| Conwy a Sir Ddinbych | 7 | 4 | 8 |
| Sir y Fflint | 6 | 1 | 2 |
| Gwynedd Môn | 4 | 1 | 2 |
| Wrecsam | 6 | 6 | 11 |
| Gogledd Cymru | 23 | 12 | 23 |

Ffynhonnell: Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid

Ym mis Mawrth 2016, roedd 23 o blant a phobl ifanc mewn sefydliadau diogel o Ogledd Cymru, yn erbyn ffigur o 881 (Awst 2016) ar gyfer Cymru a Lloegr (Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, Adroddiad Misol y Ddalfa – Gorffennaf 2016).[4]

[4] 'Adroddiad Misol y Ddalfa' Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid – Awst 2016 – https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/567400/youth-custody-report-september-2016.xls

## Prif ystadegau

Mae'r prif ystadegau ar gyfer poblogaeth carchardai Cymru a Lloegr, o fis Mawrth 2016, ('Prison Population Statistics', Papur Briffio Tŷ'r Cyffredin, 4 Gorffennaf 2016 )[5], fel a ganlyn.

- Mae yna duedd waelodol gyffredinol bod nifer cynyddol o bobl yn cael eu cadw yn y carchar.
- Mae proffil oedran y carcharorion wedi newid dros amser. Mae poblogaeth y carchar sy'n cynnwys troseddwyr 50 oed neu hŷn wedi cynyddu yn gyfatebol yn fwy nag unrhyw grŵp oedran arall. Ar ddiwedd mis Mawrth 2016, roedd nifer y carcharorion 50 oed neu hŷn 161% yn uwch na'r nifer yn 2002. Nid yw'r tueddiadau yn amrywio yn ôl rhyw. Mae hon yn ffaith bwysig wrth ddarparu gofal cymdeithasol.

**Ffigur 9.5** Cyfran poblogaeth y carchardai yn ôl oedran, 2005-2016




Ffynhonnell: 'Prison Population Statistics', Papur Briffio Tŷ'r Cyffredin, 4 Gorffennaf 2016.

- Roedd unigolion â dedfrydau yn cynnwys tua 87% o boblogaeth y carchardai. O hyn, roedd oedolion yn cyfrif am tua 94% o garcharorion, pobl 18-20 oed am 5%, a phobl 15-17 oed am tua 0.6%.
- Roedd pobl ar remánd yn cyfrif am 8% o boblogaeth y carchardai. O'r rhain, roedd 89% yn oedolion, 9% yn 18-20 oed ac 1.9% yn 15-17 oed. Mae'r boblogaeth remánd yn tueddu i fod ag anghenion mwy dwys a chymhleth na charcharorion wedi'u dedfrydu.
- Roedd gan Gymru a Lloegr 146 o garcharorion fesul 100,000 o'r boblogaeth, yr 11eg cyfradd uchaf yn Ewrop, a'r uchaf yng ngorllewin Ewrop.
- Hyd fwyaf cyffredin y ddedfryd oedd yn cael ei bwrw oedd dedfryd benodol o dros 4 blynedd. Roedd tua chwarter y carcharorion yn bwrw dedfrydau a oedd yn amrywio rhwng 1 a 4 blynedd.

[5] Papur Briffio Tŷ'r Cyffredin – 'Prison Population Statistics' - 4 Gorffennaf 2016.
http://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/SN04334/SN04334.pdf

## Nodweddion carcharorion a goblygiadau ar gyfer gofal cymdeithasol

Gweler atodiad 1 am restr lawn o'r dogfennau a ddefnyddiwyd i lywio'r asesiadau lleol ar gyfer Carchar y Berwyn.

Er mwyn cefnogi gweithrediad Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r Ddeddf Gofal yn Lloegr, cynhaliodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder arolwg i amcangyfrif anghenion gofal cymdeithasol carcharorion ledled Cymru a Lloegr.

Canfu'r arolwg y canlynol (Cymdeithas Llywodraeth Leol, 2014) [6]

- Adroddwyd bod gan lai nag un y cant (0.9%) o gyfanswm poblogaeth y carchardai un neu ragor o anghenion gofal personol.
- Amcangyfrifir bod gan 5.5% o garcharorion 50 oed neu hŷn un neu ragor o anghenion gofal personol, o gymharu â 0.2% o garcharorion o dan 50 oed.
- Mae cyfran y carcharorion ag anghenion gofal personol yn cynyddu gydag oedran, gyda 12.6% o'r rhai 65-74 oed a 22.7% o'r rhai 75+ oed ag anghenion gofal personol.
- Help gyda symud, defnyddio'r baddon, bwyta ac yfed, ac ymolchi oedd yr anghenion gofal personol mwyaf cyffredin a adroddwyd ar gyfer carcharorion 50 oed neu hŷn.

Mae adroddiad arall yn tynnu sylw at y mater cynyddol o droseddwyr sydd ag anghenion lluosog (Prison Reform Trust)[7]. Mae angen gweithio'n integredig er mwyn i'r unigolion hyn beidio ân syrthio'n is na'r trothwyon cymhwystra pan fydd anghenion personol yn cael eu hasesu ar wahân. Yng Nghymru, mae ffocws yr asesu a'r gwaith cynllunio gofal a chymorth ar ganlyniadau yn symud i ffwrdd oddi wrth nodi diffygion a achosir gan gyflyrau, a dylai hyn helpu i leihau'r potensial ar gyfer pobl sy'n syrthio'n is na'r meini prawf cymhwystra.

Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi bod gan oedolion ag anghenion lluosog, yn aml, gyfuniad o broblemau iechyd meddwl, anabledd dysgu, anhwylderau datblygiadol, ac anawsterau o ran ymddygiad a chyfathrebu. Felly, yn aml, mae ganddynt anawsterau o ran camddefnyddio sylweddau, iechyd corfforol, tai a pherthnasoedd. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith bod y materion hyn yn waeth mewn pobl ifanc, ac mae'n pwysleisio pwysigrwydd nodi'r materion hyn yn y cyfnod pontio hollbwysig i wasanaethau oedolion o wasanaethau plant.

Dwy ddogfen allweddol a baratowyd i gefnogi'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Ngharchar y Berwyn pan fydd yn agor yw:

[6] Cymdeithas Llywodraeth Leol, 2014 – 'Social Care in Prisons questionnaire summary'
http://www.local.gov.uk/documents/10180/5756320/Social+care+needs+in+prison/fbeaa153-6e1d-483d-9fa4-f90973291940

[7] Prison Reform Trust – 'Making the Difference: the Role of Adult Social Care Services in Supporting Vulnerable Offenders'
http://www.prisonreformtrust.org.uk/Portals/0/Documents/Making%20the%20difference.pdf

- ‘Prospective Initial Health Needs Assessment for North Wales Prison’, Mai 2015 http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/North%20Wales%20prison_HNA_FINAL_19thMay.pdf
- ‘Adult Social Care Prison Strategy’, Ebrill 2016.

Mae canfyddiadau cryno allweddol yr adroddiadau hyn wedi'u nodi isod.

**Asesiad Anghenion Iechyd Carchar Gogledd Cymru (Iechyd Cyhoeddus Cymru):**

Yn gyffredinol, dywedodd yr asesiad anghenion iechyd fod gan garcharorion:

- lefelau sylweddol o iechyd meddwl gwael ac anhwylderau personoliaeth;
- mwy o risg o niweidio a lladd eu hunain o gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol;
- lefelau sylweddol o gamddefnyddio sylweddau, camddefnyddio alcohol a defnyddio tybaco;
- lefelau uchel o gyflyrau cronig lluosog mewn carcharorion hŷn;
- lefelau sylweddol o heneiddio cynamserol ‘carlam’, a lefelau sylweddol o salwch ac anabledd y gellir eu hatal;
- lefelau uchel o firysau a gludir yn y gwaed;
- ychydig o dystiolaeth i awgrymu mynediad rheolaidd at wasanaethau ataliol sylfaenol ac eilaidd ac ymyraethau cyn mynd i'r carchar; a
- lefelau isel o lythrennedd a rhifedd.

Roedd canfyddiadau allweddol eraill (Stewart, 2008 a’r Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2014a)[8] yn dangos y canlynol:

- Roedd bron hanner y sampl wedi bod yn ddi-waith yn y flwyddyn cyn mynd i’r carchar, ac nid oedd 13% erioed wedi cael swydd.
- Roedd pum deg wyth y cant wedi chwarae triwant o'r ysgol yn rheolaidd, ac nid oedd gan 46% unrhyw gymwysterau.
- Roedd cyflogaeth cyn mynd i’r carchar yn fwy tebygol ymysg dynion, carcharorion sy'n oedolion a'r rheiny sy'n bwrw dedfrydau hirach.
- Roedd pymtheg y cant yn byw mewn llety dros dro neu yn ddigartref cyn mynd i’r carchar; roedd hyn yn fwy cyffredin ymysg carcharorion byrdymor ac oedolion.
- Roedd chwarter yn adrodd am o leiaf un salwch neu anabledd hirdymor. Cyflyrau cyhyrysgerbydol ac anadlol oedd y cyflyrau iechyd yr adroddwyd amlaf amdanynt.

[8] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder ‘The problems and needs of newly sentenced prisoners results from a national survey’ – Duncan Stewart Hydref 2008 http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20100505212400/http:/www.justice.gov.uk/publications/docs/research-problems-needs-prisoners.pdf



Draft

- Roedd dros bedair rhan o bump o'r sampl (82%) wedi rhoi gwybod am un neu ragor o symptomau iechyd meddwl, ac roedd traean (36%) wedi rhoi gwybod am chwech i ddeg o symptomau.
- Roedd y rhan fwyaf o garcharorion wedi defnyddio cyffuriau anghyfreithlon yn ystod y flwyddyn cyn mynd i'r carchar. Roedd menywod, carcharorion sy'n oedolion, a'r rhai a ddedfrydwyd i lai na blwyddyn, yn fwy tebygol o roi gwybod am ddefnyddio heroin neu gocên.
- Roedd 36% o'r sampl wedi rhoi gwybod am yfed yn drwm, ac roedd hyn yn fwy cyffredin ymysg carcharorion byrdymor a dynion.
- Roedd carcharorion yn tueddu i flaenoriaethu cyflogaeth a diffyg sgiliau dros faterion iechyd a theulu o ran y cymorth yr oeddent am ei gael yn ystod eu dedfryd. Dywedodd bron hanner (48%) y sampl fod angen help arnynt i ddod o hyd i gyflogaeth. Roedd 42% yn crybwyll help i gael cymwysterau, a 41% yn crybwyll gwella sgiliau sy'n gysylltiedig â gwaith. Dywedodd tua thraean fod arnynt eisiau help gyda thai a'u hymddygiad troseddol.

Mae cyflyrau iechyd carcharorion wedi cynyddu ers yr 1990au, ond maent wedi bod yn gymharol sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf.[9]

Mae yna gysylltiadau rhwng iechyd gwael ac aildroseddu. Er enghraifft, mae'n fwy tebygol y bydd angen cymorth ar droseddwyr sydd â dibyniaeth neu gyflwr iechyd meddwl o ran tai, addysg neu gyflogaeth i newid eu bywydau ac i atal dioddefwyr yn y dyfodol. Fodd bynnag, ar yr un pryd, mae ymchwil yn dangos y bydd y troseddwyr hyn yn ei chael yn fwy anodd cael gafael ar gymorth prif ffrwd na'r boblogaeth yn gyffredinol. Felly, mae anghydraddoldebau iechyd cynyddol yn cael eu gwaethygu gan fwy o rwystrau o ran cael mynediad at wasanaethau i ddiwallu'r anghenion hynny (Fazel a Baillargeon, 2011).

Mae'r Asesiad Anghenion Iechyd hefyd yn amlygu nodweddion a gofynion penodol y boblogaeth remánd gan y bydd i Garchar y Berwyn swyddogaeth remánd. Mae anghenion carcharorion remánd, o gymharu â charcharorion wedi'u dedfrydu, yn tueddu i fod yn fwy difrifol a chymhleth. Canfu asesiad anghenion iechyd diweddar fwy o achosion o gamddefnyddio sylweddau ac anhwylderau iechyd meddwl ymhlith carcharorion remánd (Cairns *et al*., 2014a). Mae dynion sy'n dod o'r llys yn tueddu i fod ag anghenion iechyd mwy brys, megis dadwenwyno acíwt neu gyflyrau heb eu rheoli (Cairns *et al*., 2014a).

**Strategaeth y carchar ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam)**

Mae'r strategaeth yn amlygu'r canlynol.

[9] Y Weinyddiaeth Amddiffyn 'Research Summary 5 – 'Factors linked to reoffending: a one-year follow-up of prisoners who took part in the Resettlement Surveys 2001, 2003 and 2004' – Chris May, Nalini Sharma a Duncan Stewart http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20110201125714/http:/www.justice.gov.uk/publications/docs/research-factors-reoffending.pdf

- Amcangyfrifir bod gan 0.9% o boblogaeth y carchardai anghenion gofal personol.
- Symudedd, ymolchi, cael baddon, bwyta ac yfed yw’r anghenion mwyaf cyffredin.
- Amcangyfrifir bod gan 11% o garcharorion anabledd corfforol.
- Amcangyfrifir bod gan 18% orbryder neu iselder.
- Amcangyfrifir bod gan 8% anabledd corfforol a gorbryder neu iselder.
- Yn fras, mae'r lefelau hyn ddwywaith yn fwy cyffredin yn y carchar ag y maent yn y gymuned.
- Mae tua 12.6% o boblogaeth y carchardai yn 50 oed a hŷn.
- Amcangyfrifir bod gan 5 i 10% anabledd dysgu, o gymharu â 2% o'r boblogaeth gyffredinol.

## Y Gymraeg

Mae darpariaeth y Gymraeg mewn sefydliadau diogel wedi bod yn fater allweddol ers amser maith ar gyfer poblogaeth Gogledd Cymru oherwydd y diffyg darpariaeth ddiogel yng Ngogledd Cymru. Dyma oedd un o'r prif ddadleuon yn achos busnes y rhanbarth ar gyfer y carchar newydd.

Yn ei adroddiad yn 2007, mynegodd y Pwyllgor Materion Cymreig bryderon difrifol ynghylch darpariaeth y Gymraeg ar gyfer carcharorion o Gymru. Roedd hyn yn codi pryder arbennig oherwydd tystiolaeth sy'n dangos bod carcharorion a gedwir mewn amodau lle nad ydynt yn deall y diwylliant sylfaenol, y dafodiaith neu’r ieithoedd sy'n cael eu defnyddio, yn gallu wynebu lefelau uwch o straen nag arfer, ynghyd â phroblemau o ran cynnal ymdeimlad cadarnhaol o hunaniaeth.

Bydd agor Carchar y Berwyn yn 2017 yn mynd i'r afael â'r mater hwn ar gyfer oedolion gwrywaidd mewn sefydliadau diogel sy’n garchardai categori C. Fodd bynnag, mae materion difrifol yn parhau i fodoli ar gyfer menywod, troseddwyr ifanc ac oedolion gwrywaidd sy’n cael eu cadw mewn carchardai categori A a B, yn ogystal â’r dynion categori C hynny nad ydynt yn cael eu cadw yng Ngharchar y Berwyn oherwydd eu hanghenion penodol iawn.

## Ailsefydlu

Mae ailsefydlu effeithiol yn allweddol i leihau aildroseddu. Mae’r ffeithiau sy’n ymwneud ag aildroseddu fel a ganlyn:

- mae 45% o oedolion yn cael eu heuogfarnu am yr eildro o fewn blwyddyn o gael eu rhyddhau;
- ar gyfer y rheiny sy'n bwrw dedfrydau o lai na 12 mis, mae hyn yn cynyddu i 58%; ac

- mae dros ddwy ran o dair o’r rheiny dan 18 oed yn cael eu heuogfarnu am yr eildro o fewn blwyddyn o gael eu rhyddhau (Prison Reform Trust, 2015).

Ar gyfer data poblogaeth ar ailsefydlu, gweler y dogfennau a restrir yn atodiad 2.

Mae'r diffyg darpariaeth yng Ngogledd Cymru yn ei gwneud yn anodd i:

- fodloni anghenion ailsefydlu pobl o Ogledd Cymru o dan y saith llwybr, sef llety; addysg, hyfforddiant a chyflogaeth; iechyd meddwl; iechyd corfforol; cyffuriau ac alcohol; cyllid, budd-daliadau a dyled; a phlant a theuluoedd.
- datblygu'r sgiliau galwedigaethol a chyflogadwyedd y mae cyflogwyr yng Ngogledd Cymru yn gofyn amdanynt, oherwydd yr anawsterau o ran datblygu cysylltiadau â chyflogwyr a sefydliadau addysg a hyfforddiant.
- datblygu gwaith partneriaeth effeithiol a threfniadau ailsefydlu lleol da.

O ystyried y cysylltiadau rhwng iechyd gwael ac aildroseddu, yn ogystal â'r cyfrifoldebau newydd o dan y Ddeddf, gan gynnwys trefniadau cludadwyedd, mae hyn yn achosi pryder mawr. Bydd Carchar y Berwyn yn cynorthwyo i ddatrys rhai o'r anawsterau hyn.

**Anghenion tai**

Gall tai sefydlog weithredu fel porth i ailsefydlu, ac mae cysylltiad rhwng bod yn ddigartref, neu fyw mewn llety dros dro, ac aildroseddu. Gall diffyg llety leihau siawns cyn-garcharorion o ddod o hyd i gyflogaeth. Mae pobl sydd â llety wedi’i drefnu ar eu cyfer ar ôl iddynt gael eu rhyddhau bedair gwaith yn fwy tebygol o gael gwaith, addysg a hyfforddiant wedi’i drefnu na’r rheiny nad oes ganddynt lety (‘Resettlement Outcomes on Release from Prison’, Niven a Stewart, 2005).

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder – Accommodation homelessness and re-offending of prisoners – (Mawrth 2012)

https://www.gov.uk/government/publications/accommodation-homelessness-and-reoffending-of-prisoners

Fodd bynnag, mae hawl i fudd-dal tai yn dod i ben ar gyfer pob carcharor a ddedfrydwyd ac y disgwylir iddo fod yn y carchar am fwy na 13 wythnos. Mae hyn yn golygu mai cyfle bach iawn fydd gan lawer o garcharorion o gadw eu tenantiaeth ar agor tan ddiwedd eu dedfryd, ac maent yn colli eu tai.

Mae dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i gynorthwyo cyn-droseddwyr digartref a diamddiffyn o dan rai amgylchiadau. Fodd bynnag, oherwydd newidiadau mewn deddfwriaeth digartrefedd yn 2015, mae lefel y flaenoriaeth a roddir i'r rheiny sy'n gadael sefydliadau diogel wedi newid. Serch hynny, mae'r ddyletswydd o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant i asesu a diwallu anghenion gofal a chymorth y rheiny mewn sefydliadau diogel sy'n gadael y sefydliadau diogel hynny yn berthnasol.

Mae Tabl 9.4 yn dangos y bu i bron 200 o bobl sydd wedi gadael sefydliadau diogel yn uniongyrchol gael eu hatgyfeirio ar gyfer cymorth tai rhwng misoedd

Ionawr a Medi 2016. Mae pwynt cyswllt unigol ar waith ar gyfer Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. Fodd bynnag, mae'r swydd hon yn un dros dro tan fis Mawrth 2017. Nid yw'r ffigurau ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd ar gael. Mae'n amlwg mai Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam sydd â'r lefel uchaf o alw am y gwasanaethau hyn.

**Tabl 9.4** Nifer yr atgyfeiriadau ar gyfer cymorth tai i bobl sydd wedi gadael sefydliadau diogel, Ionawr – Medi 2016

| Cyngor Lleol | Nifer yr atgyfeiriadau ar gyfer cymorth tai |
|---|---|
| Conwy | 21 |
| Sir Ddinbych | 9 |
| Sir y Fflint | 35 |
| Wrecsam | 134 |
| Cyfanswm | 199 |

Adran Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Hydref 2016

Mae'r ffigurau hyn yn cyfeirio at yr holl oedolion a phobl ifanc sy'n gadael sefydliadau diogel, ond nid at blant. Er eu bod yn dangos y galw, nid bob amser y bydd y rheiny sy'n cael eu hatgyfeirio ar gyfer cymorth yn mynd at y cyngor lleol pan fyddant yn gadael sefydliadau diogel.

Ni all y data hyn gael eu cymharu â blynyddoedd blaenorol, gan fod y dyletswyddau o ran digartrefedd ar gyfer y rheiny sy'n gadael sefydliadau diogel wedi newid ym mis Ebrill 2015. Cyn hynny, roedd dyletswydd yn ddyledus o dan ddeddfwriaeth i bawb a oedd yn cael eu rhyddhau o garchar. Felly, byddai'r ffigurau wedi bod yn llawer uwch (Ffynhonnell: Adran Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Hydref 2016).

## Plant a Theuluoedd

Mae ffigurau NOMS yn awgrymu bod gan 59% o ddynion yn y carchar blant o dan 18 oed, felly gallai carchar o faint Carchar y Berwyn gynnwys tua 1,242 o ddynion â phlant o dan 18 oed.

Mae teulu a ffrindiau troseddwr yn ganolog i broses adsefydlu lwyddiannus, a '*theulu troseddwr yw'r asiantaeth ailsefydlu fwyaf effeithiol.*'[10] Mae ymgysylltu'n gadarnhaol â'r teulu tra bod unigolyn yn y ddalfa yn cyfateb i arbediad cost ariannol gyfartalog ar raddfa sy'n codi, ac sy'n dechrau ar £16,000 ar gyfer pob unigolyn, a hynny ar gyfer pob cylch[11].

[10] The 2015 Joint Thematic Inspection Report of Resettlement of Adult Offenders https://socialwelfare.bl.uk/subject-areas/services-activity/resettlement/criminaljusticejointinspection/1693032014_Resettlement-thematic-for-print-Sept-2014.pdf
[11] The Indigo Trust Measuring Together 'Improving prisoner family ties – piloting a shared a shared measurement approach' – Ebrill 2011

Fodd bynnag, nid yw llawer o unigolion mewn sefydliadau diogel yn cael cyswllt neu gyswllt rheolaidd â'u teuluoedd. Profwyd bod cydberthyniad uniongyrchol rhwng hyn â chyfraddau aildroseddu. Dywedodd Arolwg Adsefydlu y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn 2008 fod *"troseddwyr a oedd wedi cael o leiaf un ymweliad yn ystod eu hamser yn y ddalfa 39% yn llai tebygol o aildroseddu na'r rhai nad oeddent wedi cael unrhyw ymweliadau"*.

Mewn rhai ardaloedd, mae'r cyfraddau aildroseddu hyn yn cael eu lleihau gan waith a wneir, mewn carchardai i ddynion a menywod, gyda phlant a theuluoedd yr effeithir arnynt. Profwyd hefyd fod hyn wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol o ran troseddu rhyng-genedliadol, yn ogystal â chanlyniadau llesiant y plant a'r teuluoedd.

Amcangyfrifir bod 200,000 o blant y flwyddyn yng Nghymru a Lloegr y mae eu rhieni yn y carchar (y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2012). Fodd bynnag, nid oes mesur swyddogol ar gyfer adnabod y plant hynny, ychydig iawn o ymwybyddiaeth sydd o'u hanghenion penodol, ac nid oes cymorth systematig ar gael. Mae'r fath ansicrwydd ynghylch grŵp mawr o blant sy'n agored i niwed yn golygu efallai na fydd y gwasanaethau a'r cymorth y gallent elwa arnynt ar gael iddynt.

Dengys ymchwil ac ymarfer bod yr effeithiau ar blant o gael rhiant yn y carchar yn gyffredinol negyddol, a bod eu canlyniadau yn tueddu i fod yn waeth na chanlyniadau eu cymheiriaid; mae'r rhain hyd yn oed yn fwy difrifol pan fydd y fam yn y carchar:

- dim ond 5% o blant sy'n aros yn y cartref teuluol pan fydd mam yn mynd i'r carchar;
- mae 12% o blant sydd â mam yn y carchar yn mynd i mewn i ofal; ac
- mae carcharorion benywaidd yn cael eu cadw yn llawer pellach i ffwrdd o gartref.

Gall straen cronig o'r fath o adeg plentyndod achosi niwed hirdymor, fel y dangosir yn adroddiad Iechyd Cyhoeddus Cymru (2015) ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, lle mae cael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni yn cael ei ystyried yn Brofiadau Niweidiol sylweddol yn ystod Plentyndod, sy'n arwain at ymddygiad sy'n niweidio iechyd.

Mae plant sydd â rhiant yn y carchar ddwywaith yn fwy tebygol o gael problemau ymddygiad ac iechyd meddwl na phlant eraill, a theirgwaith yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn gweithgarwch troseddol, gyda 65% o fechgyn y

---

http://www.google.co.uk/url?sa=t&rct=j&q=&esrc=s&source=web&cd=1&cad=rja&uact=8&ved=0ahUKEwj8oor11rLQAhUkB8AKHTBoDBUQFggpMAA&url=http%3A%2F%2Fwww.thinknpc.org%2Fpublications%2Fmeasuring- at ei gilydd-2% 2Fimproving-garcharorion-teulu-cysylltiadau% 2F% 3Fpost-riant% 3D4836 & USG = AFQjCNFVCBK6pxaiaOzN2IYKgabhLbuksw

mae eu tad wedi'i gael yn euog yn mynd ymlaen i droseddu. Maent hefyd yn costio deg gwaith yn fwy i'r pwrs cyhoeddus erbyn iddynt gyrraedd 28 oed.

Yng Ngogledd Cymru, mae amcangyfrifon anffurfiol yn awgrymu y gallai tua 7,112 o blant oedran ysgol fod yn cael eu heffeithio gan riant yn y carchar (gweler Tabl 9.5). Os yw 50% o'r rhain yn fechgyn, yn seiliedig ar y data uchod, gallai dros 2,000 fynd ymlaen i droseddu, gan effeithio ar wasanaethau yn gyffredinol.

**Tabl 9.5** Amcangyfrif o nifer y plant oed ysgol yr effeithir arnynt o gael rhiant yn y carchar

| | Nifer y plant yn yr ysgol | Amcangyfrif o'r nifer yr effeithir arnynt o gael rhiant yn y carchar |
|---|---|---|
| Ynys Môn | 9,665 | 677 |
| Gwynedd | 17,041 | 1,193 |
| Conwy | 15,916 | 1,114 |
| Sir Ddinbych | 15,653 | 1,096 |
| Sir y Fflint | 23,649 | 1,655 |
| Wrecsam | 19,676 | 1,377 |
| Gogledd Cymru | 101,600 | 7,112 |

Ffynhonnell: Cyfrifwyd o ddata PLASC Ionawr 2016, gan dybio yr effeithir ar 7% (Adran Addysg, 2003)

Draft

## 9.4 Beth y mae pobl yn ei ddweud wrthym?

### Ymgynghoriad yr asesiad poblogaeth

Yn rhan o'r asesiad poblogaeth, cynhaliwyd ymgynghoriad â sefydliadau allweddol. Cafwyd dau ymateb sy'n berthnasol i'r bennod hon: y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol fel sefydliad, a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn ei swyddogaeth fel Mangre a Gymeradwywyd.

Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn wasanaeth cyfiawnder troseddol statudol sy'n goruchwylio troseddwyr risg uchel sy'n cael eu rhyddhau i'r gymuned. Mae'n gyfrifol am asesu troseddwyr yn y carchar, ac am eu paratoi ar gyfer cael eu rhyddhau ar drwydded i'r gymuned, lle y byddant yn dod o dan oruchwyliaeth y gwasanaeth.

Dywedodd y gwasanaeth y canlynol:

**Heriau**: mynediad gwael at ofal iechyd, parhad gofal iechyd ar ôl dod allan o'r carchar, cymorth cymdeithasol i mewn i dai arbenigol ar gyfer yr henoed a'r anabl, anawsterau achlysurol o ran gofynion addysg a hyfforddiant a gallu cael gwaith.

**Prif ddarparwyr gwasanaethau sy'n cefnogi'r Gwasanaeth Prawf**: y cyngor lleol, asiantaethau camddefnyddio sylweddau, timau iechyd meddwl cymunedol, darparwyr addysg a hyfforddiant, ac asiantaethau partner eraill trwy MAPPA.

**Yn gyffredinol**: mae'r rhan fwyaf o bethau yn gweithio'n dda ond, ar adegau, mae yna ddiffyg cynllunio hirdymor ac, weithiau, mae yna ymdeimlad bod staff yn gorfod dod o hyd i atebion munud olaf. Mae yna gysylltiadau gweithio cryf iawn ag ystod o bartneriaid a darparwyr gwasanaethau, ac mae hyn wedi helpu i atgyfnerthu eu trefniadau gweithio ar y cyd ac, ar yr un pryd, wedi gwella eu gallu i wneud atgyfeiriadau, a'u galluogi i fod mewn sefyllfa well i roi'r wybodaeth angenrheidiol i bobl am y cymorth sydd ar gael iddynt.

**Pethau nad ydynt yn gweithio cystal**: weithiau, mae staff yn ei chael yn anodd cael gwybodaeth asesu gan bartneriaid; mae hyn yn ei gwneud yn anodd i staff nodi ac asesu anghenion perthnasol a gwneud yr atgyfeiriadau angenrheidiol. Gall staff hefyd gael anhawster o ran cael mynediad at offer, er enghraifft cadeiriau olwyn, ffyn baglau, seddau addas a gwelyau, ar gyfer preswylwyr oedrannus ac anabl yn eu mangreoedd a gymeradwywyd.

**Materion eraill a amlygwyd**: y diffyg tai addas mewn sawl rhanbarth yng Nghymru, sy'n ei gwneud yn anodd dod o hyd i lety sefydlog addas ar gyfer pobl sy'n gadael sefydliadau diogel a mangreoedd a gymeradwywyd.

**Er mwyn gwella'r gwasanaeth y maent yn ei gynnig ar hyn o bryd**: byddent yn hoffi gweld proses rhannu gwybodaeth gliriach yn cael ei datblygu, er mwyn sicrhau bod anghenion gofal cymdeithasol yn cael eu nodi yn gynnar, a bod

atgyfeiriadau priodol yn cael eu gwneud i ddiwallu eu hanghenion. Awgrymwyd hefyd y dylid edrych ar roi protocolau ar waith, gyda phartneriaid yn manylu ar y math o wybodaeth y gellir ei rhannu, gan gynnwys darparu hyfforddiant ar gyfer staff rheng flaen fel eu bod yn glir ynghylch pa wybodaeth y caniateir iddynt ei rhannu.

**Y camau nesaf**

Ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad â'r defnyddwyr gwasanaethau sydd â phrofiad o sefydliadau diogel, ac argymhellir hyn yn gryf ar gyfer gwaith yn y dyfodol, ynghyd ag ymgynghori â sefydliadau ychwanegol.

## Gwybodaeth ategol ar gyfer yr ymgynghoriad

Amlygodd ymgynghoriad yr Adran Iechyd (2014)[12] y themâu canlynol fel rhai pwysig: cyfathrebu, asesu, ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau, a chyllid.

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu grŵp o randdeiliaid i ddysgu o arfer gorau gan gynghorau lleol â charchardai yn eu ffiniau yn Ne Cymru. Bydd yr adroddiad hwn ar gael ym mis Chwefror 2017, ac argymhellir y dylid ymgysylltu â'r darn hwn o waith.

Roedd arolwg cenedlaethol yn argymell y dylai asesiad trylwyr o anghenion carcharorion gael ei gynnal ar y cyfle cynharaf. Adroddwyd nad yw'r System Asesu Troseddwyr (OASys), sy'n offeryn asesu risg a chynllunio dedfrydau safonol, ar gael fel mater o drefn i garcharorion a ddedfrydwyd i lai na 12 mis, sef mwyafrif y boblogaeth a ddedfrydwyd (Stewart, 2008).[13] Fodd bynnag, erbyn hyn mae pob carcharor yn cael ei asesu pan fydd yn mynd i garchar lleol am y tro cyntaf, a hynny trwy ddefnyddio offeryn safonol: Offeryn Sgrinio Sylfaenol y Ddalfa (BCST).

Draft

[12] Llais y Defnyddiwr – 'What people with convictions think about care in custody'
Ymateb defnyddwyr gwasanaethau i ymgynghoriad yr Adran Iechyd ar y Ddeddf Gofal (2014) – Medi 2014
http://www.uservoice.org/wp-content/uploads/2014/11/User-Voice-Who-Cares.pdf
[13] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder - 'The problems of needs of newly sentenced prisoners: results from a national survey – (Stewart 2008)
http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20100505212400/http:/www.justice.gov.uk/publications/docs/research-problems-needs-prisoners.pdf

## 9.5 Adolygiad o’r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd

### Darpariaeth Hanesyddol

Yn y gorffennol, mae’r cyfrifoldebau ar gyfer diwallu anghenion gofal cymdeithasol y rheiny mewn sefydliadau diogel wedi bod yn aneglur, ac mae hyn wedi arwain at ddryswch rhwng awdurdodau lleol, carchardai, gwasanaethau prawf a sefydliadau eraill. Roedd hyn yn creu anhawster yn hanesyddol o ran sicrhau bod anghenion yn cael eu diwallu. Mae'r deddfau perthnasol yng Nghymru a Lloegr wedi egluro cyfrifoldeb cynghorau lleol am ofal a chymorth i garcharorion er mwyn sicrhau bod ganddynt hawl i gael darpariaeth gyfatebol i bobl yn y gymuned (gydag eithriadau cyfyngedig). Mae'n ofynnol i gynghorau lleol weithio mewn partneriaeth â Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr a’r gwasanaethau iechyd.

Yn aml, mae gan garcharorion anghenion iechyd, gofal a chymorth cymhleth ac, yn gyffredinol, mae eu canlyniadau iechyd corfforol a meddyliol yn waeth na'r boblogaeth yn gyffredinol. Mae tystiolaeth yn dangos mwy o achosion o salwch meddwl, camddefnyddio sylweddau ac anabledd dysgu ymhlith poblogaeth y carchardai sy’n oedolion nag yn y boblogaeth gyffredinol. Mae’r boblogaeth o garcharorion hŷn (50 oed a throsodd) yn arbennig wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a chyda hynny yr achosion o anableddau ac anghenion cysylltiedig ag oedran. Mae mynediad at iechyd a gofal a chymorth da ac integredig yn arbennig o bwysig ar gyfer y grwpiau hyn.

### Y Ddarpariaeth Bresennol

Mae’r polisi ar gyfer darparu gofal cymdeithasol i oedolion mewn carchardai yng Nghymru wedi'i nodi yn Llwybr Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal a chymorth ar gyfer y rheiny mewn sefydliadau diogel: Oedolion mewn Carchardai. Mae'r llwybr hwn yn cynnwys y Gwasanaeth Carchardai, y Cwmni Adsefydlu Cymunedol, y gwasanaethau cymdeithasol a’r gwasanaethau tai (ar gyfer darparu gwasanaethau cymorth tai i garcharorion pan gânt eu rhyddhau).

Disgwylir hefyd y bydd y polisi yn sicrhau gwelliant sylweddol o ran asesu, cynllunio a darparu cymorth i garcharorion a ryddhawyd. Bydd y llwybr newydd yn sefydlu llwybr rhyddhau 12 wythnos. Gallai’r profiad blaenorol, lle nad oedd y Gwasanaeth Carchardai, y gwasanaethau cymdeithasol na’r gwasanaethau tai yn rhan o lwybr integredig, arwain at ryddhau carcharorion wedi rhybudd o ddiwrnodau neu oriau yn unig.

Mae’r polisi ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol mewn carchardai yn cael ei nodi mewn amrywiaeth o Gyfarwyddiadau gan y Gwasanaeth Carchardai (PSI) a gyhoeddwyd gan NOMS, gan gynnwys: PSI 03/2016: Gofal Cymdeithasol i Oedolion.

Ar hyn o bryd, fodd bynnag, nid oes unrhyw wybodaeth ar gael i'r cyhoedd am nifer yr asesiadau a gynhaliwyd, a'r niferoedd a ddosbarthwyd yn gymwys.

Argymhellir y dylid cysylltu’n uniongyrchol â’r sefydliadau diogel i gaffael y ffigurau hyn.

## Cynllunio ar gyfer Carchar y Berwyn

Yn amlwg, daw’r rhwymedigaeth fwyaf o ran gofal cymdeithasol ar gyfer gwasanaethau yng Ngogledd Cymru law yn llaw ag agor Carchar y Berwyn, pan fydd dynion mewn sefydliadau diogel yn dod yn breswylwyr arferol Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae hyn yn gosod dyletswydd newydd sylweddol ar y cyngor lleol yn ei berthynas â phobl mewn sefydliadau diogel.

**Iechyd a gofal cymdeithasol integredig i oedolion:**

Mae'r partneriaid sy'n cymryd rhan wedi achub ar y cyfle i sefydlu model integredig o iechyd, gofal cymdeithasol a gofal yn y ddalfa o'r cychwyn cyntaf. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws darparu gofal a chymorth personol amserol, cyson ac effeithlon i'r nifer bach o garcharorion y disgwylir y bydd ei angen arnynt.

Mae model o ddarpariaeth integredig wedi cael ei ddatblygu gan y cyngor ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), gyda disgwyliad y bydd yna berthnasoedd gwaith agos â'r carchar a’r amrywiol wasanaethau eraill sydd ar gael yng Ngharchar y Berwyn, er enghraifft addysg a'r llyfrgell. Mae hyn yn seiliedig ar asesiadau o anghenion a gynhaliwyd gan BIPBC a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam [add reference]. Cafodd yr asesiadau hyn eu cynnal ar wahân, yn seiliedig ar ragdybiaethau am y carchar a phroffil y boblogaeth. Bydd gwaith yn y dyfodol yn cael ei wneud ar y cyd. Mae’r wybodaeth am y boblogaeth remánd hefyd yn gyfyngedig gan mai ychydig iawn o astudiaethau remánd-benodol sy’n bodoli, ac argymhellir y dylid casglu data ar angen gofal cymdeithasol y boblogaeth categori C a'r boblogaeth remánd pan fydd y carchar wedi agor.

Bwrdd Partneriaeth Iechyd, Llesiant a Gofal Cymdeithasol y Carchar fydd yn gyfrifol am y trefniadau llywodraethu ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Ngharchar y Berwyn. Mae’r Bwrdd hwn yn gweithredu ar ffurf gysgodol yn ystod y cam paratoi, ac mae’n cynnwys cynrychiolwyr o BIPBC, Llywodraeth Cymru, Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, GIG Cymru a gwasanaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Mae BIPBC a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam hefyd yn rhan o'r rhaglen ar gyfer llywodraethu Carchar y Berwyn.

Mae'r cyfrifoldeb am gynllunio ar gyfer cymorth i garcharorion ar ôl eu rhyddhau yn cael ei rannu â'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol (CRC). Ar gyfer anghenion gofal a chymorth yn benodol, pan fydd troseddwyr yn cynllunio i gael eu rhyddhau ac i ailsefydlu yn y gymuned, y cyngor lleol lle maent yn bwriadu adleoli sydd â’r ddyletswydd, ac mae

trefniadau cludadwyedd yn berthnasol. Felly, bydd holl awdurdodau lleol Gogledd Cymru yn gyfrifol am barhad gofal ar gyfer troseddwyr, gyda phecyn gofal sy’n dod i mewn i'w hardal pan fydd y troseddwyr yn cael eu rhyddhau, a hynny yn rhan o'u cyfrifoldeb dros eu poblogaeth leol.

**Gofal cymdeithasol i oedolion:**

Mae Adran Gofal Cymdeithasol i Oedolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam bellach yn llunio ei gwasanaethau i fodloni dyletswyddau’r Ddeddf, gan gynnwys gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth, a gwasanaethau atal sydd wedi’u hintegreiddio gyda'r GIG. Yn gryno, byddant:

- yn darparu llinell wybodaeth sy'n cynnig cyngor ac arweiniad;
- yn darparu Gwasanaeth Cymorth Bywyd Beunyddiol;
- yn darparu’n uniongyrchol asesiadau anghenion o ran gofal cymdeithasol ar gyfer dynion y gallai fod angen gofal a chymorth arnynt gyda gweithgareddau o ddydd i ddydd;
- yn gweithio ledled Carchar y Berwyn i hyrwyddo llesiant ac i sicrhau bod anghenion gofal a chymorth y dynion yn cael eu deall a'u diwallu; ac
- yn darparu offer neu’n rhoi darpariaeth ychwanegol ar waith i ddiwallu angen cymwys am ofal a chymorth na fyddai fel arall yn cael ei ddiwallu.

Mae hyn yn ymgorffori gofal cymdeithasol ar lefel uchel yn ethos y carchar, ac nid yw’n fodel safonol.

Amcangyfrifir bod gan y mwyafrif o garcharorion anghenion llesiant ar ryw lefel, a bydd angen teilwra’r gwasanaethau gwybodaeth ac atal i anghenion penodol y carcharorion. Mae hyn yn gofyn am ddatblygu dull penodol oherwydd anghenion arbennig carcharorion.

Bydd anghenion gofal a chymorth i garcharorion yn cael eu darparu gan Ofal Cymdeithasol i Oedolion, er na ddisgwylir i’r galw fod yn uchel. Gweler 'Strategaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn y Carchar' CBSW, Ebrill 2016 [add reference] am ragor o wybodaeth. Wrth i’r darpar boblogaeth ddechrau cael ei nodi, bydd yna ddarlun gwell o ran anghenion y boblogaeth. I ddibenion cynllunio, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cael ei lywio gan ei Strategaeth Gofal Cymdeithasol.

Mae'r carchardai a fydd yn bwydo Berwyn hefyd wedi cael eu nodi. O ganlyniad, y cam nesaf a argymhellir byddai dod o hyd i asesiadau a data anghenion iechyd a gofal cymdeithasol a ddelir gan Wasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS) ar gyfer y dynion o’r carchardai hynny a fydd yn cael eu cadw yng Ngharchar y Berwyn.

## Pobl ifanc

Yn aml, mae gan blant a phobl ifanc â phrofiad o garchar broblemau lluosog a chymhleth, yn ogystal â hanes o ymdrechion aflwyddiannus gan weithwyr

proffesiynol i ddarparu’r help a'r cymorth y mae eu hangen arnynt hwy a’u teuluoedd i gyflawni canlyniadau cadarnhaol mewn bywyd.

Mae diffyg darpariaeth sefydliadau diogel yng Ngogledd Cymru yn atal materion pellach ar gyfer pobl ifanc sy’n cael eu remandio i Lety Cadw Ieuenctid (YDA), neu sy’n cael eu dedfrydu gan y Llysoedd i gyfnodau yn y ddalfa.

Pan fydd person ifanc yn cael ei euogfarnu, mae asesiad cynhwysfawr yn cael ei gynnal i ddod o hyd i leoliad addas o fewn sefydliadau diogel a fydd yn diwallu anghenion y person ifanc ac yn mynd i'r afael ag unrhyw berygl o ymddygiadau niweidiol a phroblemau llesiant posibl. Os oes gan y person ifanc bryderon penodol ynghylch ei lesiant (er enghraifft, person ifanc 17 oed â materion diogelwch a llesiant sylweddol), gellir ei osod mewn Cartref Diogel i Blant neu Ganolfan Hyfforddi Ddiogel, ond mae hyn yn aml yn dibynnu ar argaeledd.

Unwaith y bydd y person ifanc mewn sefydliad diogel, mae yna uned arbennig yn Sefydliad Troseddwyr Ifanc Wetherby (Uned Keppel) lle y gall pobl ifanc sy’n arbennig o agored i niwed, ac sydd ag anghenion cymhleth, gael eu gosod, a hynny trwy gytundeb rhwng y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a staff y ddalfa. Mae gan y rhan fwyaf o Sefydliadau Troseddwyr Ifanc unedau arbennig hefyd.

Pan fydd pobl ifanc wedi troseddu, bydd y mwyafrif yn gaeth i fechnïaeth ddiamod neu amodol, a osodir gan yr Heddlu neu'r Llysoedd, nes iddynt gael eu dedfrydu. O dan Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012, gall mechnïaeth gael ei gwrthod o dan feini prawf penodol, er enghraifft ar gyfer troseddau difrifol, ail-droseddu pan fo’n gaeth i amodau mechnïaeth, a thorri amodau mechnïaeth. Mae hyn yn golygu y gallai'r plentyn neu'r person ifanc gael ei remandio i ofal y cyngor lleol. Gall y cyngor lleol osod y plentyn/person ifanc yn ôl gartref gyda'i rieni, gyda chymorth ychwanegol, oni bai fod y llys yn nodi fel arall. Yn yr achos hwnnw, mae gan y cyngor lleol ddyletswydd i chwilio am lety addas arall, er enghraifft gyda theulu estynedig, gofalwyr maeth, neu mewn lleoliad preswyl. Byddai dyletswydd o'r fath yn dod i ben ar adeg dedfrydu.

Pan fydd y troseddau mor ddifrifol, neu pan fydd y person ifanc yn parhau i ail-droseddu ar fechnïaeth/remánd, yna gall y llysoedd ei remandio i Lety Cadw Ieuenctid (YDA). Yna, caiff y person ifanc ei osod mewn sefydliad diogel, ond bydd hefyd yn dod yn 'Blentyn sy'n Derbyn Gofal' trwy gydol ei arhosiad. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y bydd gweithiwr cymdeithasol yn cael ei benodi i'r achos gan y cyngor lleol cartref i asesu anghenion y person ifanc, ac y bydd Swyddog Adolygu Annibynnol yn cael ei benodi i gynnal cyfarfod Cynllunio Gofal o fewn wythnos gyntaf y lleoliad, yn ogystal ag adolygiadau/cyfarfodydd statudol ar ôl 4, 7 a phob 6 wythnos wedi hynny. Os bydd y plentyn/person ifanc yn parhau mewn Llety Cadw Ieuenctid am 13 wythnos neu ragor, bydd wedyn yn dod yn gymwys i gael gwasanaethau gadael gofal.

Mae troseddwyr ifanc o Ogledd Cymru sydd ar hyn o bryd yn bwrw eu tymor mewn carchardai yn Lloegr, yn tueddu i'w chael yn anodd wrth fynd i mewn i sefydliadau diogel a gorfod byw a chysylltu â phobl ifanc o Loegr. Dywed rhai y byddent yn hoffi bod gyda phobl ifanc eraill o Gymru. Mewn rhai sefydliadau, mae aelodau o gangiau yn cael eu carcharu, gan gyflwyno pobl ifanc leol i ffyrdd o fyw, diwylliannau ac ymddygiad troseddol gwahanol.

Mae cyswllt rhwng rhieni a theulu a phobl ifanc mewn sefydliadau diogel yn aml yn anodd ei gynnal oherwydd y pellteroedd hir, er bod rhywfaint o gymorth a llety ar gael mewn rhai amgylchiadau.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi cynllunio ers tro i ddatblygu darpariaeth leol arall i atal yr angen i bobl ifanc gael eu remandio i Lety Cadw Ieuenctid. Mae'n ystyried darparu llety a fydd yn cael ei staffio gan ddarparwr a gomisiynwyd, ac a gefnogir gan staff o'r Gwasanaethau Plant a'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Rydym yn gobeithio y bydd cyfleuster ar gael o fewn y flwyddyn ariannol gyfredol. Nodwyd hefyd angen i recriwtio gofalwyr maeth addas i ddarparu llety remánd, ond mae hyn wedi bod yn anodd ers nifer o flynyddoedd oherwydd yr ymddygiad heriol a'r risgiau y gall y bobl ifanc hyn eu dangos, y mae gofalwyr yn ei chael yn anodd ymdopi â hwy a'u rheoli yn eu cartrefi eu hunain.

Mae Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Wrecsam yn gweithio'n agos gyda nifer o asiantaethau i sicrhau bod pobl ifanc sydd mewn perygl o fynd i'r ddalfa/ar remand i Lety Cadw Ieuenctid/sy'n bwrw dedfryd o garchar, yn cael gwasanaethau cefnogi ar bob cam.

O dan y Safonau Cenedlaethol a'r Canllawiau Rheoli Achosion a ddarperir gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder), mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn sicrhau bod pobl ifanc yn y ddalfa yn cael cymorth a gofal trwy gydol eu cyfnod yn y ddalfa, ac wrth symud i wasanaethau oedolion, gan gynnwys y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, os byddant yn dod yn 18 oed yn ystod eu dedfryd.

Yn rhan o'r broses hon, mae staff Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Wrecsam yn cynllunio ar gyfer adsefydlu'r person ifanc a'i ryddhau i'r gymuned, yn bennaf o dan amodau trwydded, ac maent yn adrodd i'r 'Panel Ailsefydlu a Chymorth'. Mae hwn yn fforwm amlasiantaethol i gynorthwyo o ran cyflwyno'r cynllun ailsefydlu ar gyfer y person ifanc. Mae'r panel yn cynnwys cynrychiolwyr rheoli o'r Gwasanaethau Plant, Tai, yr Heddlu, Addysg, CAMHS, y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a'r Gwasanaethau Ieuenctid. Bydd y cyfarfod hefyd yn trafod pobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth ac a allai fod mewn perygl o fynd i mewn i'r ddalfa yn y dyfodol agos. Mae hyn yn rhoi cyfle arall i asiantaethau weithio gyda'i gilydd ac osgoi pobl ifanc yn mynd i mewn i sefydliadau diogel.

Mae gwella canlyniadau ailsefydlu ar gyfer pobl ifanc yn flaenoriaeth i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, ac mae'n rhan o raglen waith a gyflawnwyd gan Fwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru. [14] [15] [16]

Un broblem barhaus fu'r diffyg parhad o ran 'gofal' rhwng y ddalfa a'r gymuned, sydd yn hollbwysig o ran ailsefydlu ac ailintegreiddio'n effeithiol i'r gymuned. Mae Bwrdd Ailintegreiddio ac Ailsefydlu y Tîm Troseddau Ieuenctid yn bartneriaeth amlasiantaethol a ffurfiwyd i fynd i'r afael â bylchau a rhwystrau o ran ailsefydlu ac ailintegreiddio'n effeithiol ar gyfer pobl ifanc (10 i 18 oed ar y cam y gofynnir am gymorth) sy'n profi newid sylweddol yn narpariaeth eu gwasanaeth.

Mapiwyd gwasanaethau ailsefydlu ar gyfer pobl ifanc o Ogledd Cymru yn 2013.[17] Nod y gwaith hwn oedd adeiladu darlun cynhwysfawr o'r canlynol:

- y gwasanaethau presennol sydd ar gael i bobl ifanc;
- bylchau yn narpariaeth y gwasanaethau;
- rhwystrau a wynebir yn ystod y broses ailsefydlu;
- gwendidau yn y trefniadau presennol; a
- nodi arferion da.

Mae Prosiect Broceriaid Ailsefydlu Gogledd Cymru wedi bod yn rhedeg ers mis Awst 2013. Swyddogaeth y prosiect oedd mapio arferion ailsefydlu presennol ledled y rhanbarth ar gyfer pobl ifanc sy'n cael eu hailsefydlu ar ôl cyfnod yn y ddalfa, gyda'r bwriad o nodi sut y gallai'r arferion hyn gael eu gwella ar draws pob sector cysylltiedig. Cafodd gopi o'r adroddiad terfynol ei gyhoeddi eleni gydag argymhellion pellach.[18] Un o'r argymhellion oedd bod canllaw arfer da yn cael ei greu, ac mae hwn wedi cael ei gynhyrchu.[19]

## Menywod

Gan fod menywod mewn sefydliadau diogel yn cael eu cadw y tu allan i'r rhan-barth, ac y bydd y sefyllfa honno yn parhau, mae angen mwy o ddealltwriaeth am eu hanghenion. Argymhellir bod gwaith pellach yn cael ei wneud yn y maes hwn.

[14] Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid – 'Youth Justice Board Plan 2016 to 2017' https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/567003/yjb-business-plan-2016-17.pdf
[15] Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid – ' Strategic Plan 2015-2018' https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/469954/YJB_Strategic_Plan_2015-18.pdf
[16] Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer Cymru a Lloegr 'Business Plan 2016/17' https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/567003/yjb-business-plan-2016-17.pdf
[17] Llamau – 'Mapping of resettlement services for North Wales - An analysis of strengths, weaknesses, barriers, and gaps for young people http://www.llamau.org.uk/creo_files/products/llamau_mapping_report_(north).doc

[18] Llamau – Adroddiad y Prosiect Broceriaid Ailsefydlu 'Final Report 2016' http://www.llamau.org.uk/creo_files/default/final_report_on_the_resettlement_broker_project.pdf
[19] Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid – 'Reintegration and Resettlement Partnership Boards – Good Practice Guide' http://www.llamau.org.uk/creo_files/default/reintegration_and_resettlement_partnership_boards_-_good_practice_guidance.pdf

## Tai

Mae'r rhai sy'n gadael llety mewn sefydliadau diogel yn cael eu rheoli yn unol â Llwybr Cenedlaethol Llywodraeth Cymru.[20] Mae hwn yn nodi'r gwasanaethau sydd ar gael i unigolyn wrth iddo baratoi i adael llety mewn sefydliad diogel os yw tai wedi cael ei nodi yn fater yn y cynllun ar gyfer ei ryddhau gan ei Reolwr Troseddwyr.

Y llwybr hwn yw'r cyntaf o'i fath yn y DU, ac mae'n anelu at wella'r ffordd y mae'r sefydliadau yn gweithio gyda'r rheiny sy'n gadael y carchar.

Mae'r Llwybr yn mynd i'r afael â gofynion Deddf Tai (Cymru) Llywodraeth Cymru, Ebrill 2014. Roedd y Ddeddf yn diwygio deddfwriaeth digartrefedd yn y ffordd fwyaf trawiadol ers dros 30 mlynedd, gan osod dyletswydd ar gynghorau lleol i weithio gyda phobl sy'n wynebu digartrefedd ar gam llawer cynharach er mwyn helpu i ddod o hyd i ateb o ran eu hanghenion tai.

Cafodd y Llwybr Cenedlaethol ei ddatblygu ar ôl ymgynghori'n helaeth â sefydliadau, gan gynnwys Shelter Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC). Mae'n rhoi sylw arbennig i anghenion pobl sy'n gadael y ddalfa, er mwyn eu hatal rhag dod yn ddigartref, gwella'r broses o'u hailsefydlu yn y gymdeithas, ac lleihau'r risg eu bod yn aildroseddu.

Bydd carcharorion sy'n wynebu digartrefedd yn dechrau cael cymorth 56 diwrnod cyn cael eu rhyddhau. Mae'r Llwybr hefyd yn egluro rolau a chyfrifoldebau pob asiantaeth a sefydliad sy'n rhan o'r broses, gan arwain at ddull mwy cydlynol a gwell cymorth i bobl sy'n gadael y ddalfa.

### Oedolion

Ar gyfer pob oedolyn mewn sefydliadau diogel, bydd cynlluniau ailsefydlu unigol yn cael eu llunio wrth iddynt gael eu fynd i mewn i'r sefydliad. 12 wythnos cyn iddynt gael eu rhyddhau, bydd y cynllun ailsefydlu hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru yn ôl yr angen. Os nad oes angen wedi'i nodi o ran tai, ac os oes cyfeiriad ar gael, bydd y manylion yn cael eu hanfon ymlaen i'r cyngor lleol perthnasol gael gwneud sylwadau.

Os oes angen wedi'i nodi o ran tai, rhaid i Gwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru gefnogi carcharor i gadw llety neu ddod o hyd i lety arall addas.

66 diwrnod cyn i'r unigolyn gael ei rhyddhau, bydd adolygiad pellach o anghenion llety yn cael ei wneud gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ar y cyd â Chwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru. Os yw'r angen a nodwyd o ran tai yn dal i fodoli ar y cam hwn, bydd atgyfeiriad yn cael ei anfon at y cyngor lleol perthnasol trwy Reolwr Troseddwyr y carcharor. Wrth anfon yr atgyfeiriad, bydd

[20] Llwybr Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd http://gov.wales/docs/desh/publications/151215-national-pathway-for-homelessness-services-cy.pdf

y Rheolwr Troseddwyr yn cynnwys asesiad risg. Mae hyn er mwyn sicrhau y gall asesiad trylwyr o unrhyw ddyletswydd tai sy'n ddyledus i'r carcharor gael ei gynnal.

Os penderfynir bod dyletswydd yn ddyledus, rhaid i'r cyngor lleol gymryd drosodd y cyfrifoldeb am ddarparu camau rhesymol i helpu i sicrhau llety. Bydd y camau rhesymol hyn yn dibynnu ar a yw dyletswydd yn ddyledus i'r carcharor o dan adran 66 neu adran 73 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

**Plant a phobl ifanc:**

Mae'r prif wahaniaethau i'r llwybr ar gyfer plant a phobl ifanc fel a ganlyn.

- Does dim sbardun o 12 wythnos ar gyfer adolygu cynlluniau ailsefydlu. Cânt eu hadolygu bob mis.
- Bydd Timau Troseddau Ieuenctid yn gweithio gyda'r unigolyn i helpu i gael mynediad at lety arall addas ar ôl iddo gael ei ryddhau.
- Os nad yw'r carcharor wedi cyrraedd 18 oed eto, cyfrifoldeb y Gwasanaethau Plant yw helpu a chefnogi plant a phobl ifanc i gael mynediad at lety addas ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.

**Heriau o ran tai:**

Mae dod o hyd i lety addas ar gyfer y rheiny sy'n gadael sefydliadau diogel yn amlinellu materion penodol. Mae'r materion canlynol wedi cael eu nodi gan Wasanaeth Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Mae yna anawsterau wrth geisio dod o hyd i lety addas ar gyfer pobl sengl. Yn draddodiadol, mae cynghorau wedi canolbwyntio ar adeiladu tai ar gyfer teuluoedd. O ganlyniad, mae unedau llai o lety anghenion cyffredinol yn dod ar gael i'w dyrannu yn llai aml na mathau eraill o eiddo. Mae'r broblem hon wedi dwysáu ymhellach ers cyflwyno'r newidiadau Budd-dal Tai yn rhan o agenda Diwygio Lles y Llywodraeth.

Mae'r Budd-dal Tai wedi'i leihau ganran benodol ar gyfer tenantiaid Tai Cymdeithasol, sydd o oedran gweithio, ac sy'n cael Budd-daliadau Lles, os ydynt yn tanfeddiannu eu heiddo presennol. Mae hyn wedi cynyddu'r galw am eiddo anghenion cyffredinol llai o faint, ar adeg pan fo'r galw eisoes yn gymharol uchel, gan fod pobl yn edrych am eiddo llai o faint.

Yn yr un modd, ni all pobl sengl o dan 35 oed sy'n rhentu'n breifat, ar hyn o bryd, ond hawlio digon o Fudd-dal Tai ar y gyfradd sy'n gymesur â'r swm ar gyfer rhentu ystafell mewn tŷ a rennir. Mae hyn yn creu pwysau pellach oherwydd efallai na fydd rhannu llety yn opsiwn ymarferol ar gyfer rhai pobl sy'n gadael sefydliadau diogel.

Gall dod o hyd i lety â chymorth hefyd fod yn heriol. Yn ddibynnol ar anghenion unigolyn, mae rhai mathau o lety â chymorth arbenigol yn fwy anodd i'w canfod nag eraill. Gall cadw ystafelloedd mewn llety â chymorth fod yn broblem, yn enwedig pan fydd achosion argyfwng yn codi y mae angen eu diwallu ar frys. Weithiau, gall hyn arwain at le sydd wedi cael ei glustnodi ar gyfer rhywun sy'n gadael sefydliad diogel yn cael e ddyrannu i unigolyn sy'n dod i'r gwasanaeth Opsiynau Tai, ar y diwrnod hwnnw, mewn angen dybryd am gymorth.

Gall rheoliadau Budd-dal Tai hefyd bennu sefyllfa dai unigolyn. Yn ddibynnol ar hyd y ddedfryd, mewn rhai achosion mae'n bosibl i rywun sy'n mynd i sefydliad diogel barhau i hawlio Budd-dal Tai. Gall hyn olygu y gall llety gael ei gadw ac, ar ôl i'r unigolyn gael ei ryddhau, mae ei gyn-eiddo yn parhau i fod ar gael i'w feddiannu.

Fel arall, os nad oes digon o arian ar gael i dalu costau rhent wythnosol, does dim dewis gan rai ond ildio'u tenantiaeth. Mae hyn er mwyn osgoi cronni ôl-ddyledion mawr o ran rhent. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu bod unigolyn yn wynebu digartrefedd wrth gael ei ryddhau o'r sefydliad diogel.

**Sefydliadau partner**

Mae yna nifer o sefydliadau sy'n darparu amrywiol fathau o gymorth neu lety ychwanegol. Gall y rhain ehangu dewisiadau unigolyn o ran tai, helpu pobl i gadw eu tenantiaethau presennol neu, yn achos llety â chymorth, ddarparu cymorth hyd nes y byd unigolyn yn gallu symud i mewn i lety anghenion cyffredinol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan Cefnogi Pobl. [21]

**Yr hyn sy'n gweithio'n dda**

Mae gweithio mewn partneriaeth â darparwyr tai a darparwyr cymorth eraill yn gweithio'n dda ar hyn o bryd. Mae yna berthnasoedd gwaith da sydd wedi eu sefydlu dros amser. Gall y rhain helpu i esmwytháu taith unigolyn o sefydliad diogel i lety mwy sefydlog.

Er ein bod yn cydnabod bod yna brinder opsiynau addas o ran symud ymlaen ar gyfer y rheiny sy'n byw mewn sefydliadau diogel, gall cael perthynas waith dda helpu'n rhannol o ran lliniaru'r diffygion hyn.

**Ystyriaethau ar gyfer tai yn y dyfodol**

Bydd adeiladu Carchar y Berwyn yn cyflwyno ystyriaethau gwahanol ar gyfer cynghorau.

Er bod y cyfrifoldeb o ddiwallu anghenion gofal a chymorth unigoion sy'n preswylio mewn sefydliadau diogel yn cael ei ysgwyddo gan y cyngor lleol lle

[21] 'Cyfeirlyfr Cefnogi Pobl Wrecsam' Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam https://www.wrexham.gov.uk/assets/pdfs/housing/supporting_people/supporting_people_directory.pdf

mae'r llety wedi ei leoli, ar ôl i'r broses rhyddhau ac ymsefydlu ddechrau ar gyfer unrhyw unigolyn, mae’r ddyletswydd yn symud i'r cyngor y maent yn bwriadu ail-leoli iddo.

Bydd angen cael systemau prydlon ar waith er mwyn ymgysylltu â'r rheiny sy'n gadael sefydliadau diogel ar y cyfle cyntaf posibl. Bydd hyn yn caniatàu i’r ymyrraeth gywir gael ei rhoi ar waith, ac i atgyfeiriadau gael eu gwneud i'r cyngor priodol yng Ngogledd Cymru.

## Plant a Theuluoedd

Mae llawer o waith wedi cael ei wneud yn ddiweddar ar lefel Gogledd Cymru i amlygu anghenion plant a theuluoedd troseddwyr, ac i ddangos y cyydberthyniad uniongyrchol rhwng cysylltiad â theuluoedd a chyfraddau aildroseddu ymhlith y rheiny mewn sefydliadau diogel. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu ymateb traws-bartneriaeth strategol ac ymarferol i nodi'r plant yng Ngogledd Cymru, ac i gefnogi plant a theuluoedd o Ogledd Cymru yr effeithir arnynt gan garchariad aelod o'r teulu. Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud gan y partneriaid ar Fwrdd Cymunedau Diogelach Gogledd Cymru, a bydd yn cynnwys y canlynol.

- Casglu gwybodaeth a data i ddatblygu darlun mwy gwybodus o anghenion y plant yng Ngogledd Cymru, a faint o blant sy’n cael eu heffeithio.
- Mapio'r bwlch rhwng theori ac ymarfer yng Ngogledd Cymru, ac edrych ar atebion i lenwi'r bwlch yn effeithiol, yn cynnwys protocolau rhannu gwybodaeth.
- Ymgysylltu'n uniongyrchol â Charchar y Berwyn i ddylanwadu ar ddatblygiad ei ddull o fynd i’r afael â phlant a theuluoedd.
- Galluogi darparwyr gwasanaethau i ddiwallu’r anghenion hyn yn well trwy ganllawiau, gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth i ddatblygu dull teulu cyfan.
- Codi ymwybyddiaeth o’r mater a chyfathrebu’r gwaith.
- Mwy o waith amlasiantaethol.

Ar lefel ranbarthol, y gobaith yw y bydd y dull hwn:

- yn darparu ffocws pendant ar gyfer cydweithio, gweithio amlasiantaethol a chyfathrebu effeithiol;
- yn ei gwneud yn haws i ymgysylltu â sefydliadau allweddol eraill, yn cynnwys y trydydd sector a'r sector preifat; ac
- yn dangos ymrwymiad unedig gan Ogledd Cymru i gyflawni’r canlyniadau gorau ar gyfer carcharorion a'u plant a'u teuluoedd.

Rhagwelir y bydd hon yn rhaglen pum mlynedd i ymgorffori'r gwaith yn y rhanbarth.



Draft

## 9.6 Casgliad ac Argymhellion

Mae'r ddeddf newydd yn arwydd o newid hanesyddol yng nghyfrifoldebau gofal cymdeithasol llywodraeth leol ar gyfer dynion, merched a phlant a gedwir mewn sefydliadau diogel, ac wrth iddynt gael eu rhyddhau i'r gymuned. Yn flaenorol, roedd y cyfrifoldebau ar gyfer diwallu anghenion gofal cymdeithasol y rheiny mewn sefydliadau diogel yn aneglur, ac arweiniodd hyn at ddryswch rhwng awdurdodau lleol, carchardai, gwasanaethau prawf a sefydliadau eraill.

Mae'r Ddeddf yn egluro cyfrifoldebau ac yn sicrhau bod gan y rheiny a gedwir mewn sefydliadau diogel hawl i gael darpariaeth gyfatebol i bobl yn y gymuned, ac mae’n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol weithio mewn partneriaeth â Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr ‘r gwasanaethau iechyd. Mae'n cynnig cyfleoedd i weithredu llwybrau gofal integredig ac i ddarparu gwasanaethau ar y cyd ar gyfer anghenion iechyd a gofal cymdeithasol y rheiny mewn sefydliadau diogel.

O ystyried efallai y bydd gan garcharorion anghenion iechyd a gofal a chymorth cymhleth yn aml, a’u bod yn gyffredinol yn dioddef iechyd corfforol a meddwl gwaeth, mae hyn yn ddatblygiad arwyddocaol.

Mae ffocws ar iechyd a lles hefyd yn cyfrannu at ganolbwyntio o'r newydd ar adsefydlu, ailsefydlu a lleihau aildroseddu.

Ceir tystiolaeth o hyn yn y gwaith cynllunio ar gyfer Carchar y Berwyn, a fydd yn agor yng Ngogledd Cymru ym mis Chwefror 2017. Mae Carchar y Berwyn yn modelu dulliau newydd, a bydd ei ddiwylliant yn cael ei lywio gan ffocws ar adsefydlu. Mae'r ethos yn ymroddedig i ddarparu amgylchedd diogel, gweddus a chyfiawn, lle bydd dynion yn cael eu hannog a'u cynorthwyo i baratoi ar gyfer dechrau newydd mewn bywyd. Mae pwysigrwydd y Gymraeg wrth adsefydlu troseddwyr o Gymru yn cael ei gydnabod, fel ag y mae rôl allweddol partneriaid cydgomisiynu.

Mae hyn yn rhoi'r boblogaeth categori C sy'n oedolion gwrywaidd mewn sefyllfa dda. Bydd yn helpu i gryfhau cysylltiadau rhwng cynghorau lleol yng Ngogledd Cymru a'r carchar, a bydd yn cefnogi ailsefydlu effeithiol. Fodd bynnag, bydd menywod a throseddwyr ifanc yn parhau i gael eu cadw y tu allan i'r rhanbarth, yn ogystal â dynion o gategorïau eraill, a’r rheiny na ellir rheoli eu hanghenion iechyd a gofal cymdeithasol yn ddiogel yng Ngharchar y Berwyn.

Mae angen gwell dealltwriaeth o anghenion y grwpiau hyn ac, wrth iddynt gael eu rhyddhau, bydd y ddyletswydd ar gyfer oedolion yn symud i’r cyngor lleol y maent yn ailsefydlu ynddo, fel rhan o'r gofyniad am barhad gofal dan y Ddeddf; mae hyn yn cynnwys gwasanaethau megis tai. Mae hyn yn rhoi cyfle unigryw i ddatblygu model ar gyfer creu cysylltiadau â charchardai y tu allan i Ogledd Cymru, gan gynnwys y rheiny sy'n dal menywod o Ogledd Cymru.

Mae argymhellion yn cael eu cynnwys yn adrannau perthnasol y bennod. Fodd bynnag, mae'r argymhellion allweddol sy’n codi yn sgil gwaith y bennod hon yn cynnwys y canlynol.

- Ymgynghori pellach â rhanddeiliaid, gan gynnwys defnyddwyr gwasanaethau.
- Cynnal asesiad anghenion iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer Carchar y Berwyn ar ôl i'r carchar ddod yn weithredol, a hynny mewn partneriaeth rhwng BIPBC a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.
- Y data ar anghenion gofal cymdeithasol y boblogaeth Categori C a’r boblogaeth remánd i gael eu coladu pan fydd Carchar y Berwyn yn weithredol.
- Rhoi protocolau ar waith gyda phartneriaid yn manylu ar y math o wybodaeth y gellir ei rhannu.
- Ymgysylltu â'r Llysoedd i ddatblygu protocolau ar gyfer remandio pobl anabl, er mwyn sicrhau bod amgylchiadau eu remánd yn gallu diwallu eu hanghenion penodol pan gânt fyddant yn mynd i’r ddalfa.
- Datblygu gwaith partneriaeth â'r carchardai yn Ne Cymru er mwyn rhannu dysg.
- Gwell dealltwriaeth o anghenion gofal cymdeithasol menywod ac ieuenctid, yn ogystal â’r ystyriaethau penodol iawn sydd ynghlwm wrth y grwpiau hyn.
- Plant a theuluoedd – cymorth ar gyfer y dull rhanbarthol o ddatblygu model plant a theuluoedd, ynghyd â chysylltiadau â’r gwaith hwn.
- Digartrefedd: yr angen am gael systemau prydlon ar waith er mwyn ymgysylltu â'r rheiny sy'n gadael sefydliadau diogel ar y cyfle cyntaf posibl; bydd hyn yn golygu y gellir rhoi’r ymyrraeth gywir ar waith, a gwneud atgyfeiriadau i'r cyngor priodol.
- Mae angen i’r gwaith o drosglwyddo gofal ar ôl i garcharorion gael eu rhyddhau ‘trwy-y-giât’ gael ei ymgorffori yn y gymuned, gan ddarparu parhad gofal i sicrhau bod y gwelliant mewn iechyd a gafwyd pan oedd yr unigolyn yn y carchar yn cael ei gynnal ar ôl iddo gael ei ryddhau.

Draft

## Atodiad 1: Rhestr o'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder – Estimating the prevalence of disability amongst prisoners (Mawrth 2012)

https://www.gov.uk/government/publications/estimating-the-prevalence-of-disability-amongst-prisoners

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder – Needs and characteristics of older prisoners – (Hydref 2014)

https://www.gov.uk/government/publications/needs-and-characteristics-of-older-prisoners-spcr-survey-results

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder – Gender differences in substance misuse and mental health amongst prisoners – (Chwefror 2014)

https://www.gov.uk/government/publications/gender-differences-in-substance-misuse-and-mental-health-amongst-prisoners--2

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder – Surveying Prisoner Crime Reduction (SPCR) – (Hydref 2014)

https://www.gov.uk/government/collections/surveying-prisoner-crime-reduction-spcr

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder – Results from SPCR Technical Report – (Ebrill 2014)

https://www.gov.uk/government/publications/results-from-the-surveying-prisoner-crime-reduction-survey-technical-reports

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder – Prisoners Childhood and Family backgrounds – (Chwefror 2014)

https://www.gov.uk/government/publications/prisoners-childhood-and-family-backgrounds

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder – The pre-custody employment training and educational staus of newly sentenced prisoners – (Mawrth 2012)

https://www.gov.uk/government/publications/the-pre-custody-employment-training-and-education-status-of-newly-sentenced-prisoners

## Atodiad 2: Data poblogaeth ailsefydlu

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder – Factors associated with proven re-offending following release from prison – (Chwefror 2014)

https://www.gov.uk/government/publications/results-from-the-surveying-prisoner-crime-reduction-survey

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder – Prisoners' criminal backgrounds and proven re-offending after release – (Ionawr 2013)

https://www.gov.uk/government/publications/2012

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder – Prisoners' experience of prisons and outcomes on release – (Hydref 2014)

https://www.gov.uk/government/publications/prisoners-experience-of-prison-and-outcomes-on-release

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder – The impact and experiences in prison on employment status of longer sentenced prisoners after release – (Ebrill 2014)

https://www.gov.uk/government/publications/the-impact-of-experience-in-prison-on-the-employment-status-of-longer-sentenced-prisoners-after-release

Dra

# Cyfeiriadau

Ymchwiliad Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin yn 2014 ar 'Prisons in Wales and the Treatment of Welsh Offenders'

https://www.parliament.uk/business/committees/committees-az/commons-select/welsh-affairs-committee/news/prisons-in-wales-and-treatment-of-welsh-offenders/

Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin – 'Welsh Prisoners in the English Estate, Third Report of Session 2006-2007'

http://www.publications.parliament.uk/pa/cm200607/cmselect/cmwelaf/74/74.pdf

Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin – 'Prisoners in Wales and the Treatment of Welsh Offenders' – Pedwerydd adroddiad sesiwn 2014-2015

http://www.publications.parliament.uk/pa/cm201415/cmselect/cmwelaf/113/113.pdf

Papur Briffio Tŷ'r Cyffredin Rhif SN /SG/04334 – 4 Gorffennaf 2016 'Prison Population Statistics'

http://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/SN04334/SN04334.pdf

Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin – Welsh Prisoners in the prison estate: Follow-up: Government Responses to the Committee's Ninth Report of Session 2009-10

http://www.publications.parliament.uk/pa/cm201011/cmselect/cmwelaf/398/398.pdf

Llywodraeth Cymru: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru): Rhan 11: Y rhai sydd mewn sefydliadau diogel – Ailsefydlu Oedolion – 27 Ionawr/3 Chwefror 2016

http://wccsj.ac.uk/images/presentations/Prisoner_Housing_4th_Feb/PDFs/9_HEATHER%20GILES_4%20February%202015%20-%20PART%2011%20Social%20Services%20and%20Well-being%20(Wales)Act.pdf

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder/Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr – 'Approved Premises Manual' – Ebrill 2013

https://www.justice.gov.uk/downloads/offenders/probation-instructions/pi-32-2014-annex-a-approved-premises-manual.doc

Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid 'Monthly Custody Report'– Awst 2016

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/559950/youth-custody-report-august-2016.xls

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder 'The problems and needs of newly sentenced prisoners' canlyniadau o arolwg cenedlaethol – Duncan Stewart – Cyfres ymchwil 16/08 Hydref 2008.

http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20100505212400/http:/www.justice.gov.uk/publications/docs/research-problems-needs-prisoners.pdf

Iechyd Cyhoeddus Cymru 'Asesu Anghenion Iechyd ar gyfer Carchar Gogledd Cymru' Iechyd Cyhoeddus Cymru 19 Mai 2015

http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/North%20Wales%20prison_HNA_FINAL_19thMay.pdf

Cymdeithas Llywodraeth Leol 2014 'Social Care needs in Prison'

http://www.local.gov.uk/documents/10180/5756320/Social+care+needs+in+prison/fbeaa153-6e1d-483d-9fa4-f90973291940

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – 'Strategaeth Gofal Cymdeithasol Carchardai'

Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai – Canolfan ar gyfer Iechyd Meddwl 'Making the Difference: the role of adult social care services in supporting vulnerable offenders'

http://www.prisonreformtrust.org.uk/Portals/0/Documents/Making%20the%20difference.pdf

Adroddiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i'r Pwyllgor Craffu Iechyd a Llesiant – Adroddiad Rhif: HASC/02/16S – 11 Mai 2016 'Implications of HMP Berwyn for Adult Social Care'

http://moderngov.wrexham.gov.uk/documents/s5319/Item%206.pdf?LLL=undefined

Prison Reform Trust 'Prison and the Facts' – Bromley Briefings Haf 2016

http://www.prisonreformtrust.org.uk/Portals/0/Documents/Bromley%20Briefings/summer%202016%20briefing.pdf

HMP Inspectorate of Probation 'Joint Thematic Inspection of resettlement services to Children by Youth Offending Teams and Partner Agencies' Mawrth 2015

https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/wp-content/uploads/sites/5/2015/03/Youth-Resettlement_report.pdf

Arolygiad ar y Cyd o ran Cyfiawnder Troseddol – Adolygiad thematig ar y cyd gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi ac Ofsted 'Resettlement provision for adult offenders: Accommodation and education, training and employment'

https://www.justiceinspectorates.gov.uk/cjji/wp-content/uploads/sites/2/2014/09/Resettlement-thematic-for-print-Sept-2014.pdf

‘Improving Prisoners’ family ties – piloting a shared measurement approach’ – Ebrill 2011

http://www.thinknpc.org/publications/measuring-together-2/improving-prisoners-family-ties/?post-parent=4836

Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS) – Polisi ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y carchar – 'NOMS responsibilities resulting from the requirement of the Care Act 2014 and Social Services and Wellbeing (Wales) Act 2014'

https://www.google.co.uk/url?sa=t&rct=j&q=&esrc=s&source=web&cd=1&ved=0ahUKEwi4i_X08IfQAhXsKMAKHZUGCosQFggoMAA&url=https%3A%2F%2Fwww.justice.gov.uk%2Fdownloads%2Foffenders%2Fpsipso%2Fpsi-2016%2Fpsi-03-2016-adult-social-care.docx&usg=AFQjCNH3vsJFIyMbpRyPcULl3SfySY3Vbw

User Voice – only offenders can stop re-offending ‘Who Cares? – what people with convictions think about care in custody’ – Ymateb defnyddwyr gwasanaethau i ymgynghoriad yr Adran Iechyd ar Ddeddf Gofal (2014)

http://www.local.gov.uk/documents/10180/5756320/Who+cares+-+What+people+with+convictions+think+about+care+in+custody/25eb1162-286b-46d4-8687-6ccd84560a73

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MOJ) Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012: ‘The New Youth Remand Framework and Amendments to Adult Remand Provision’

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/219974/circular-06-12-youth-remand-adult-bail.pdf

Deddf Tai (Cymru) 2014

http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/7/pdfs/anaw_20140007_we.pdf

Llywodraeth Cymru ‘Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd i Blant, Pobl Ifanc ac Oedolion mewn Sefydliadau Diogel’.

http://gov.wales/docs/desh/publications/151215-national-pathway-for-homelessness-services-cy.pdf

Shelter Cymru – ‘A brand new start: homelessness and the Housing (Wales) Act’ – Rhagfyr 2015

http://gov.wales/docs/desh/publications/151215-national-pathway-for-homelessness-services-cy.pdf

'Cyfeirlyfr Cefnogi Pobl' Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

https://www.wrexham.gov.uk/assets/pdfs/housing/supporting_people/supporting_people_directory_w.pdf

Adroddiad y Grŵp Trawsbleidiol ar blant sy'n dioddef gan fod eu rhieni wedi'u carcharu:

http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s49946/Adroddiad%20y%20Grp%20Trawsbleidiol%20ar%20CAPI.pdf

Iechyd Cyhoeddus Cymru – Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod yng Nghymru (Astudiaeth ACE) – 'Adverse Childhood Experiences and their impact on health-harming behaviours in the Welsh Adult Population'

http://www2.nphs.wales.nhs.uk:8080/PRIDDocs.nsf/7c21215d6d0c613e80256f490030c05a/d488a3852491bc1d80257f370038919e/$FILE/ACE%20Report%20FINAL%20(E).pdf

Offenders in the Community Health Needs Assessment Toolkit for Adult Offenders 2015

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder – Surveying Prisoner Crime Reduction (SPCR)

https://www.gov.uk/government/collections/surveying-prisoner-crime-reduction-spcr

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder – Prisoners' experience of prisons and outcomes on release

https://www.gov.uk/government/publications/prisoners-experience-of-prison-and-outcomes-on-release

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder – Needs and characteristics of older prisoners

https://www.gov.uk/government/publications/needs-and-characteristics-of-older-prisoners-spcr-survey-results

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder – The impact and experiences in prison on employment status of longer sentenced prisoners after release

https://www.gov.uk/government/publications/the-impact-of-experience-in-prison-on-the-employment-status-of-longer-sentenced-prisoners-after-release

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder – Results from SPCR Technical Report

https://www.gov.uk/government/publications/results-from-the-surveying-prisoner-crime-reduction-survey-technical-reports

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder – Prisoners' Childhood and Family backgrounds

https://www.gov.uk/government/publications/prisoners-childhood-and-family-backgrounds

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder – Factors associated with proven re-offending following release from prison

https://www.gov.uk/government/publications/results-from-the-surveying-prisoner-crime-reduction-survey

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder – Gender differences in substance misuse and Mental health amongst prisoners

https://www.gov.uk/government/publications/gender-differences-in-substance-misuse-and-mental-health-amongst-prisoners--2

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder – Prisoners' criminal backgrounds and proven- re-offending

https://www.gov.uk/government/publications/2012

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder – Accommodation homelessness and re-offending of prisoners

https://www.gov.uk/government/publications/accommodation-homelessness-and-reoffending-of-prisoners

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder – Estimating the prevalence of disability amongst prisoners

https://www.gov.uk/government/publications/estimating-the-prevalence-of-disability-amongst-prisoners

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder – The pre-custody employment training and educational status of newly sentenced prisoners

https://www.gov.uk/government/publications/the-pre-custody-employment-training-and-education-status-of-newly-sentenced-prisoners

Target Operating Model, Rehabilitation Programme: Transforming Rehabilitation, Medi 2013, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

https://www.justice.gov.uk/downloads/rehab-prog/competition/target-operating-model.pdf

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr, Ensuring Equality, PSI 32/2011, 14 Ebrill 2011

https://www.google.co.uk/url?sa=t&rct=j&q=&esrc=s&source=web&cd=1&ved=0ahUKEwj9ibGi_IfQAhXBJsAKHcb7BjYQFgglMAA&url=https%3A%2F%2Fwww.justice.gov.uk%2Fdownloads%2Foffenders%2Fpsipso%2Fpsi-2011%2Fpsi_2011_32_ensuring_equality.doc&usg=AFQjCNGQMQfyG-Z6b2xkXHfwJFHubPWXkQ

Canllawiau Statudol ar gyfer Gofal a Chymorth a Gyhoeddwyd o dan Ddeddf Gofal 2014, Yr Adran Iechyd

https://www.gov.uk/government/publications/care-act-statutory-guidance/care-and-support-statutory-guidance

Social Care Needs in Prison, Adroddiadau Awdurdodau Lleol, Hydref 2014

http://www.local.gov.uk/documents/10180/5756320/Social+care+needs+in+prison/fbeaa153-6e1d-483d-9fa4-f90973291940

Social Care Needs in Prison, Cymdeithas Llywodraeth Leol

http://www.local.gov.uk/documents/10180/5756320/Social+care+needs+in+prison/fbeaa153-6e1d-483d-9fa4-f90973291940

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Crynodeb Ymchwil 4/12, Estimating the prevalence of disability amongst prisoners, results from the Surveying Prisoner Crime Reduction Survey.

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/278827/estimating-prevalence-disability-amongst-prisoners.pdf

Health Services and Delivery Research, Volume 1, Issue 5, Awst 2013, Health and social care services for older male adults in prison: the identification of current service provision and piloting of an assessment and care planning model.

http://www.journalslibrary.nihr.ac.uk/__data/assets/pdf_file/0008/76562/FullReport-hsdr01050.pdf

Fair Access to Justice? Support for vulnerable defendants in the criminal courts. Jenny Talbot. Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai

http://www.prisonreformtrust.org.uk/portals/0/documents/fairaccesstojustice.pdf

No One Knows: offenders with learning difficulties and learning disabilities. The prevalence and associated needs of offenders with learning difficulties and learning disabilities. Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai. Mawrth 2007

http://www.prisonreformtrust.org.uk/Portals/0/Documents/No%20One%20Knows%20report-2.pdf

http://www.prisonreformtrust.org.uk/uploads/documents/noknl.pdf

https://www.justiceinspectorates.gov.uk/cjji/wp-content/uploads/sites/2/2015/03/Learning-Disabilities-phase-two-report.pdf

Who cares? What people with convictions think about care in custody: A service user response to the Department of Health's consultation on the Care Act (2014), User

Voice, Medi 2014 http://www.uservoice.org/wp-content/uploads/2014/11/User-Voice-Who-Cares.pdf

Iechyd Cyhoeddus Cymru (2015) 'Welsh Adverse Childhood Experiences (ACE) Study: Adverse Childhood Experiences and their impact on health-harming behaviours in the Welsh Adult Population'.

Draft

# 10 Cyn-filwyr

## Cynnwys

10 Cyn-filwyr ....... 1

10.1 Ynglŷn â’r bennod hon ....... 2

Diffiniad ....... 2

Sut y bydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn newid pethau? Polisi a deddfwriaeth ....... 2

Diogelu ....... 2

10.2 Beth yr ydym yn ei wybod am y boblogaeth? ....... 3

10.3 Beth y mae pobl yn ei ddweud wrthym? ....... 13

10.4 Adolygiad o’r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd ....... 15

10.5 Casgliad ac argymhellion ....... 18

Atodiad 2: Trosolwg ar y ddeddfwriaeth/y cyd-destun cenedlaethol a lleol ar gyfer cyn-filwyr ....... 22

Cyfeiriadau ....... 25

Draft

## 10.1 Ynglŷn â’r bennod hon

Mae’r bennod hon yn cynnwys anghenion poblogaeth cyn-filwyr. Fe’i seiliwyd ar asesiad manwl o anghenion a gynhaliwyd ar ran Fforwm Lluoedd Arfog Gogledd Cymru (Atenstaedt a Jones, 2016). Gellir cael gwybodaeth am anghenion gofal a chymorth eraill yn y penodau canlynol:

- Pobl hŷn [add link]
- Iechyd, anableddau corfforol a namau ar y synhwyrau [add link]
- Iechyd meddwl [add link]
- Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol [add link]
- Digartrefedd [add link]
- Sefydliadau diogel [add link]
- Gofalwyr [add link]

### Diffiniad

Diffinnir cyn-filwr fel unigolyn sydd wedi gwasanaethu am o leiaf ddiwrnod yn Lluoedd Ei Mawrhydi. Mae hyn yn cynnwys pobl sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Wrth Gefn/Cynorthwyol.

### Sut y bydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn newid pethau? Polisi a deddfwriaeth

Mae egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn debyg i’r egwyddorion y mae’r gwasanaethau sy’n cefnogi cyn-filwyr yng Ngogledd Cymru eisoes wedi eu mabwysiadu. I gael rhagor o wybodaeth am y Ddeddf, gweler Atodiad 1.

I gael rhagor o wybodaeth am y ddeddfwriaeth a’r canllawiau sy’n ymwneud â chyn-filwyr, ynghyd â rhywfaint o wybodaeth fanwl am y cyd-destun strategol lleol a chenedlaethol, gweler y prif asesiad anghenion sydd ar gael yn Atodiad 2.

### Diogelu

Mae’r un materion diogelu yn berthnasol i gyn-filwyr ag sy’n berthnasol i’r boblogaeth gyffredinol. Mae yna ddiffiniad newydd o ‘oedolyn sy’n wynebu risg’, dyletswydd i bartneriaid perthnasol roi gwybod am oedolion sy’n wynebu risg, a dyletswydd i awdurdodau lleol wneud ymholiadau a ddylai helpu i ddiogelu cyn-filwyr.

Draft

## 10.2 Beth yr ydym yn ei wybod am y boblogaeth?

Ar hyn o bryd, nid oes ffigurau swyddogol ar gael ar gyfer nifer y cyn-filwyr yn y DU, yn enwedig ar lefel leol. Yn ôl yr amcangyfrifon, roedd tua 51,000 o gyn-filwyr yn byw yng Ngogledd Cymru yn 2014 (Tabl 10.1). Mae hyn, yn fras, yn 9% o boblogaeth Gogledd Cymru sy'n 16 oed a hŷn, neu'n 7% o'r boblogaeth gyfan. Y sir â'r ganran uchaf o holl gyn-filwyr Gogledd Cymru yw Sir y Fflint (21%), a'r sir â'r ganran isaf yw Ynys Môn (11%) (0). O ran y gyfran o'r boblogaeth 16 oed a hŷn ym mhob sir sy'n gyn-filwyr (Tabl 10.3), Conwy sydd â'r gyfran uchaf, sef 10%, a Wrecsam sydd â'r ganran isaf, sef 8.1% (8.9% yw cyfartaledd Gogledd Cymru). Mae nifer o rybuddion ynghylch y data hyn a nodir y rhain yn y prif adroddiad asesu anghenion (Atenstaedt a Jones, 2016).

**Tabl 10.1 Amcangyfrif o boblogaeth y cyn-filwyr, pob unigolyn 16 oed a hŷn, Gogledd Cymru**

| | 16-24 | 25-34 | 35-44 | 45-54 | 55-64 | 65-74 | 75-84 | 85+ | Cyfanswm 16+ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 50 | 100 | 260 | 520 | 730 | 890 | 2,360 | 540 | 5,470 |
| Gwynedd | 120 | 190 | 450 | 870 | 1,130 | 1,410 | 3,840 | 1,000 | 9,010 |
| Conwy | 80 | 160 | 420 | 900 | 1,150 | 1,500 | 4,370 | 1,210 | 9,780 |
| Sir Ddinbych | 70 | 130 | 360 | 750 | 930 | 1,160 | 3,100 | 740 | 7,240 |
| Sir y Fflint | 110 | 250 | 650 | 1,240 | 1,430 | 1,680 | 4,150 | 930 | 10,440 |
| Wrecsam | 100 | 250 | 600 | 1,050 | 1,230 | 1,380 | 3,480 | 870 | 8,970 |
| Gogledd Cymru | 530 | 1,080 | 2,750 | 5,340 | 6,610 | 8,020 | 21,300 | 5,290 | 50,920 |
| Cymru | 2,630 | 5,200 | 12,460 | 23,570 | 28,460 | 32,010 | 86,330 | 20,930 | 211,590 |

*Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu felly efallai na fyddant yn cyfansymio*

Ffynhonnell: Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio amcangyfrifon canol blwyddyn (SYG) ac amcangyfrifon o niferoedd gan y Lleng Brydeinig Frenhinol

**Tabl 10.2 Canran poblogaeth cyn-filwyr Gogledd Cymru sy'n 16 oed a hŷn yn ôl awdurdod lleol, 2014**

| | % |
|---|---|
| Ynys Môn | 11 |
| Gwynedd | 18 |
| Conwy | 19 |
| Sir Ddinbych | 14 |
| Sir y Fflint | 21 |
| Wrecsam | 18 |
| Gogledd Cymru | 100 |

Ffynhonnell: Yn seiliedig ar ffigurau a ddarparwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio amcangyfrifon canol blwyddyn (SYG) ac amcangyfrifon o niferoedd gan y Lleng Brydeinig Frenhinol

Draft

**Tabl 10.3 Canran y boblogaeth 16 oed a hŷn ym mhob cyngor lleol sy'n gyn-filwyr, 2014**

| | Poblogaeth 16 oed a hŷn | Nifer y cyn-filwyr (amcangyfrif) | Canran y boblogaeth sy'n gyn-filwyr |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 58,100 | 5,470 | 11 |
| Gwynedd | 101,360 | 9,010 | 18 |
| Conwy | 97,350 | 9,780 | 19 |
| Sir Ddinbych | 77,650 | 7,240 | 14 |
| Sir y Fflint | 125,390 | 10,440 | 21 |
| Wrecsam | 110,430 | 8,970 | 18 |
| Gogledd Cymru | 570,270 | 50,910 | 100 |

*Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu felly efallai na fyddant yn cyfansymio*
Ffynhonnell: Yn seiliedig ar ffigurau a gynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio amcangyfrifon canol blwyddyn (SYG) ac amcangyfrifon o niferoedd gan y Lleng Brydeinig Frenhinol

Amcangyfrifir bod y gymuned 'gudd' o gyn-filwyr yng Ngogledd Cymru (sef y rhai sy'n byw mewn sefydliadau a lleoliadau cyfunol) yn cynnwys rhwng 2,100 a 3,200 o unigolion (Y Lleng Brydeinig Frenhinol, 2014). Mae'r ffigur hwn yn cynnwys cyn-filwyr, dibynyddion sy'n oedolion, a dibynyddion sy'n blant.

Rhagwelir y bydd nifer cyffredinol y cyn-filwyr yng Ngogledd Cymru yn gostwng yn y dyfodol (o 51,000 yn 2014 i 22,000 yn 2030), fel y nodir yn Ffigurau 10.1 a 10.2, ond eto mae'n amlwg bod anghenion gofal a chymorth yn bodoli ar draws yr ystod oedran, a dylai darparwyr gwasanaethau sicrhau eu bod yn parhau i roi blaenoriaeth i'r boblogaeth hon wrth ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol.

Draft

Figure 10.1 **Amcangyfrif o'r boblogaeth cyn-filwyr 16 oed a throsodd ac yn ôl rhyw, Gogledd Cymru 2014-2030**




Ffynhonnell: Lluniwyd y siart gan Dîm Iechyd Cyhoeddus Gogledd Cymru. Cynhyrchwyd y data gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio amcangyfrifon canol blwyddyn (SYG) ac amcangyfrifon o niferoedd gan y Lleng Brydeinig Frenhinol

Figure 10.2 **Amcangyfrif o boblogaeth y cyn-filwyr 16 oed a hŷn yn ôl cyngor lleol, Gogledd Cymru 2014-2030**




**Poblogaeth amcangyfrifedig wedi'i thalgrynnu i'r 10 agosaf*

Ffynhonnell: Lluniwyd y siart gan Dîm Iechyd Cyhoeddus Gogledd Cymru. Cynhyrchwyd y data gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio amcangyfrifon canol blwyddyn (SYG) ac amcangyfrifon o niferoedd gan y Lleng Brydeinig Frenhinol

Mae dosbarthiad oed poblogaeth y cyn-filwyr wedi'i sgiwio tuag at y rhai sydd wedi cyrraedd oedran ymddeol a hŷn (Figure 10.3). Fodd bynnag, mae'r gostyngiad a ragwelir yn y grŵp hwn, yn ogystal â'r newidiadau sydd ar waith yn

Lluoedd Arfog Prydain, yn golygu y bydd poblogaeth y cyn-filwyr yn y dyfodol yn cynnwys cyfran lawer mwy o bobl iau â chefndiroedd mwy amrywiol, er enghraifft pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Mae'n bwysig bod darparwyr gofal yn ystyried y mater hwn, gan fod anghenion iechyd cyn-filwyr iau o gefndiroedd ethnig mwy amrywiol yn debygol o fod yn dra gwahanol i anghenion y rhai sy'n perthyn i'r grwpiau oedran hŷn.

Figure 10.3 **Cyfran y cyn-filwyr 16 oed a hŷn, yn ôl grŵp oedran, Gogledd Cymru, 2014 a 2013**




Ffynhonnell: Lluniwyd y siart gan Dîm Iechyd Cyhoeddus Gogledd Cymru. Cynhyrchwyd y data gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio amcangyfrifon canol blwyddyn (SYG) ac amcangyfrifon o niferoedd gan y Lleng Brydeinig Frenhinol

Nid oes data ar gael ar gyfer sgiliau Cymraeg cyn-filwyr yng Ngogledd Cymru, ac mae angen rhoi sylw i'r diffyg hwn.

Mae'r rhan fwyaf o gyn-filwyr yn disgrifio eu cyfnod yn y lluoedd fel profiad cadarnhaol, ac nid ydynt yn dioddef effeithiau iechyd negyddol o ganlyniad i'w cyfnod gwasanaethu. Fodd bynnag, mae tua un o bob pum cyn-filwr sy'n dioddef salwch tymor hir yn ei briodoli i'w wasanaeth milwrol, yn enwedig problemau cyhyrysgerbydol, problemau â'r clyw, a salwch meddwl (Y Lleng Brydeinig Frenhinol, 2014). Mae hyn yn cyfateb i 6,400 o gyn-filwyr yng Ngogledd Cymru a all fod yn gymwys i gael triniaeth flaenoriaethol o dan Gyfamod y Lluoedd Arfog.

Mae cyn-filwyr 16-64 oed yn fwy tebygol na’r boblogaeth gyffredinol o roi gwybod am salwch hirdymor sy’n cyfyngu ar eu gweithgareddau. Mae’r rhain yn cynnwys y canlynol (y Lleng Brydeinig Frenhinol, 2014):

| | % y cyn-filwyr | % y boblogaeth gyffredinol |
|---|---|---|
| Iselder | 10 | 6 |
| Problemau â’r cefn | 14 | 7 |
| Problemau â’r coesau a’r traed | 15 | 7 |
| Problemau â’r breichiau | 9 | 5 |
| Problemau â’r galon | 12 | 7 |
| Diabetes | 6 | 3 |
| Trafferth clywed | 6 | 2 |
| Trafferth gweld | 5 | 1 |
| Cyfanswm salwch hirdymor | 24 | 13 |

Mae anhwylderau cyhyrysgerbydol cyffredinol (yn cynnwys arthritis a chryd cymalau) yn faterion allweddol o ran iechyd cyn-filwyr (yn enwedig problemau â’r coesau a’r traed ymhlith pobl dros 55 oed). Yn gyffredinol, roedd 28% o gyn-filwyr (sy’n cyfateb i 14,000 o gyn-filwyr yng Ngogledd Cymru) yn dweud bod hyn yn broblem; roedd 18% o gyn-filwyr (sy’n cyfateb i 2,600 o gyn-filwyr Gogledd Cymru) yn priodoli hyn i’w gwasanaeth blaenorol. Mae anhwylderau cyhyrysgerbydol yn effeithio ar iechyd yr unigolyn ond maent hefyd yn effeithio ar feysydd eraill, er enghraifft cyflogaeth. Mae unrhyw effaith negyddol ar y gallu i weithio hefyd yn debygol o gael effaith ar iechyd meddwl, gan ychwanegu at unrhyw broblemau presennol, o bosibl.

Ni fydd y mwyafrif o gyn-filwyr yn dioddef iechyd meddwl gwael ar ôl gadael y Lluoedd. Y problemau iechyd meddwl mwyaf cyffredin sydd gan gyn-filwyr yw iselder, gorbryder ac anhwylderau’n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau (alcohol yn bennaf), yn union fel y boblogaeth gyffredinol ehangach. Dengys arolwg aelwydydd yng nghymuned cyn-aelodau’r Lluoedd Arfog (y Lleng Brydeinig Frenhinol, 2014) fod y nifer sy’n dioddef salwch meddwl oddeutu 8%, sy’n cyfateb i 4,100 o gyn-filwyr yng Ngogledd Cymru. Nodwyd hefyd fod problemau iechyd meddwl wedi dyblu ers 2005, ac mai dim ond un o bob ugain unigolyn sydd wedi gofyn am gymorth â’r mater hwn (y Lleng Brydeinig Frenhinol, 2014). Yn ogystal, canfu arolwg aelwydydd y Lleng Brydeinig Frenhinol fod yr achosion o anhwylderau iechyd meddwl ymhlith cyn-filwyr iau (16-44 oed) deirgwaith yn fwy nag ymhlith poblogaeth y DU sydd o’r un oed.

Rhoddwyd sylw neilltuol i iechyd meddwl cyn-filwyr y DU, gan ganolbwyntio’n benodol ar achosion o Anhwylder Straen Wedi Trawma (PTSD). Yn aml, mae PTSD mewn cyn-filwyr yn ganlyniad i brofiadau trawmatig lluosog, mewn cyd-

destun milwrol penodol iawn, a gall fod yn gysylltiedig â theimladau o gywilydd ac euogrwydd ychwanegol ynghylch gofyn am gymorth. Credir bod cyfran y cyn-filwyr sy’n dioddef PTSD fymryn yn fwy yn unig na’r gyfran yn y boblogaeth gyffredinol, ond gwelwyd bod rhai o’r achosion ymhlith cyn-filwyr yn llawer mwy dwys a difrifol.

Gall cyn-filwyr wynebu mwy o risg o hunan-niweidio, ac mae mwy o risg o hunanladdiad ymhlith cyn-filwyr ifainc, gwrywaidd (o dan 24 oed), yn enwedig y rhai sydd â chyfnodau gwasanaeth byrrach. Gallant fod yn amharod iawn i ofyn am gymorth (ac mae’n bosibl na fydd rhai ohonynt hyd yn oed yn eu hystyried eu hunain yn gyn-filwyr). Mae’n hanfodol bwysig fod y Grŵp Atal Hunanladdiad yng Ngogledd Cymru yn ystyried cyn-filwyr yn flaenoriaeth yn ei waith.

Mae cyn-filwyr gwrywaidd ifainc yn gysylltiedig â ffactorau risg eraill, fel gadael y lluoedd yn gynharach a gorddefnyddio alcohol. Mae sicrhau bod systemau data yn adnabod cyn-filwyr yn lleol, ynghyd â hybu cofrestru â meddyg teulu a pharodrwydd i ofyn am gymorth, yn allweddol o ran lliniaru unrhyw risg gynyddol ymhlith y grŵp lleol hwn o gyn-filwyr.

Mae yna ddiffyg gwybodaeth am ymddygiad cyn-filwyr a’u ffordd o fyw, ac eithrio ynghylch alcohol ac ysmygu tybaco, ac mae angen rhagor o ymchwil yn y maes.

Efallai y bydd gan gyn-filwyr amrywiaeth o anghenion gofal cymdeithasol ar ôl bod yn y lluoedd. Er enghraifft, efallai y bydd yn anodd i gyn-filwyr gael hyd i dai addas, cael addasu eu cartref mewn ymateb i anafiadau neu anghenion iechyd corfforol eraill, neu gael y cymorth ariannol y mae ganddynt hawl iddo. Gall hyn fod yn gysylltiedig â phroblemau pontio o ganlyniad i amryw o ffactorau, boed y rheiny’n gysylltiedig â’r gwasanaeth yn y Lluoedd Arfog neu beidio. Mae’r rhain yn cynnwys problemau ariannol, lles, iechyd corfforol ac iechyd meddwl.

Yn ôl Arolwg Aelwydydd y Lleng Brydeinig Frenhinol (2014), dywedodd 42% o’r oedolion yng nghymunedau cyn-aelodau’r Lluoedd Arfog iddynt gael rhyw anhawster yn y flwyddyn flaenorol (**Error! Reference source not found.**). Mae hyn yn cyfateb i 21,400 o gyn-filwyr yng Ngogledd Cymru. Mae anawsterau yn fwyaf tebygol o fod yn gysylltiedig â pherthnasoedd neu arwahanrwydd (yn enwedig unigrwydd a phrofedigaeth), hunanofal, symudedd (yn enwedig y tu allan i’r cartref) a phroblemau seicolegol (yn enwedig iselder), wedi’u dilyn gan faterion ariannol a thai. Dim ond 6% a grybwyllodd broblemau cyflogaeth. Roedd hyn yn uwch ymhlith y rhai a adawodd y gwasanaeth yn y pum mlynedd diwethaf (un o bob tri), a’r rheiny o oedran gweithio (un o bob chwech). Y ddau grŵp oedran sy’n fwyaf tebygol o roi gwybod am anawsterau yw 35-44 oed ac 85-94 oed. Yn naturiol ddigon, mae’r grŵp hŷn yn fwyaf tebygol o roi gwybod am broblemau hunanofal a symudedd.

**Tabl 10.4 Anawsterau personol neu anawsterau sy'n gysylltiedig â'r cartref yn y flwyddyn ddiwethaf**

| | % | Number *(miloedd)* |
|---|---|---|
| Unrhyw fater | 42 | 2,090 |
| Perthynas/arwahanrwydd | 16 | 770 |
| Hunanofal | 15 | 720 |
| Symudedd | 14 | 710 |
| Seicolegol | 12 | 610 |
| Ariannol | 9 | 430 |
| Delio â'r awdurdodau | 8 | 410 |
| Tai | 8 | 400 |
| Cyflogaeth | 6 | 320 |
| Ofn trais/troseddu | 4 | 190 |
| Integreiddio yn y gymuned/ym mywyd sifiliaid | 3 | 170 |
| Cludiant | 2 | 120 |
| Cynnal plant | 1 | 40 |

Ffynhonnell: Y Lleng Brydeinig Frenhinol, 2014. Sylfaen: Oedolion yng nghymuned cyn-aelodau'r lluoedd

Cymhwyswyd yr amcangyfrifon ynghylch anawsterau personol ac anawsterau sy'n gysylltiedig â'r cartref i boblogaeth cyn-filwyr Gogledd Cymru (Tabl 10.5).

Draft

**Tabl 10.5 Anawsterau personol neu anawsterau sy'n gysylltiedig â'r cartref yn y flwyddyn ddiwethaf, Gogledd Cymru, 2014**

| | Oedolion sy'n gyn-aelodau o'r lluoedd 2014 | Cyfanswm |
|---|---|---|
| | % | |
| **Perthnasoedd/arwahanrwydd** | **16** | **8,146** |
| Unigrwydd | 8 | 4,073 |
| Profedigaeth | 7 | 3,564 |
| Diffyg cyfleusterau hamdden/bywyd cymdeithasol | 4 | 2,036 |
| Priodas neu berthynas yn chwalu | 2 | 1,018 |
| Anhawster wrth greu perthnasoedd agos | 1 | 509 |
| **Anawsterau hunanofal** | **15** | **7,637** |
| Blinder neu boen | 9 | 4,582 |
| Diffyg rheolaeth ar y bledren | 7 | 3,564 |
| Anhawster i falu amdanynt eu hunain | 3 | 1,527 |
| **Anawsterau symudedd** | **14** | **7,127** |
| Anhawster wrth symud o gwmpas y tu allan i'r cartref | 13 | 6,618 |
| Anhawster wrth symud o gwmpas y cartref | 8 | 4,073 |
| **Anawsterau seicolegol** | **12** | **6,109** |
| Teimlo'n isel | 10 | 5,091 |
| Diffyg hyder/hunan-barch | 4 | 2,036 |
| Diffyg gobaith/pwrpas/cyfeiriad | 4 | 2,036 |
| Cymryd cyffuriau/yfed yn drwm | 1 | 509 |
| **Trafferthion ariannol** | **7** | **3,564** |
| Dim digon o arian i fyw o ddydd i ddydd | 5 | 2,546 |
| Mynd i ddyled | 3 | 1,527 |
| **Delio â'r awdurdodau** | **8** | **4,073** |
| Anhawster wrth ddelio â materion personol (e.e. talu biliau, llenwi ffurflenni, ysgrifennu llythyrau) | 4 | 2,036 |
| Anhawster i gael triniaeth feddygol | 3 | 1,527 |
| Anhawster i gael gwybodaeth am wasanaethau neu fudd-dal y mae ganddynt hawl iddynt | 3 | 1,527 |
| **Anawsterau o ran tai** | **8** | **4,073** |
| Trafferth cynnal a chadw'r tŷ neu'r ardd | 7 | 3,564 |
| Tai gwael/tai amhriodol i'ch anghenion | 1 | 509 |
| **Anawsterau cyflogaeth** | **6** | **3,055** |
| Diweithdra | 3 | 1,527 |
| Ofn diweithdra | 3 | 1,527 |
| Diffyg hyfforddiant/sgiliau/cymwysterau | 1 | 509 |

Ffynhonnell: Wedi'i addasu o siart a luniwyd yn Arolwg Aelwydydd 2014 y Lleng Brydeinig Frenhinol a Compass Partnership

Mae'r Arolwg Aelwydydd gan y Lleng Brydeinig Frenhinol (y Lleng Brydeinig Frenhinol, 2014) yn awgrymu bod tua 8% o gyn-filwyr y DU wedi cael problemau o ran tai yn y flwyddyn ddiwethaf, sy'n cyfateb i 4,100 o gyn-filwyr yng Ngogledd Cymru (Tabl 10.6). Roedd y mwyafrif helaeth o'r rhain wedi rhoi gwybod am broblemau yn ymwneud â chynnal a chadw'r tŷ a'r ardd, wedi'i ddilyn gan dai gwael neu dai oedd yn amhriodol i'w hanghenion, ac anhawster o ran cael tai cyngor neu dai gan gymdeithas dai. Fodd bynnag, roedd y ffigur yn llawer uwch (6%) ymhlith y rheiny oedd wedi gadael y Lluoedd Arfog yn y pum mlynedd flaenorol.

**Tabl 10.6 Anawsterau personol neu anawsterau sy'n gysylltiedig â'r cartref yn y flwyddyn ddiwethaf, Gogledd Cymru, 2014**

| | Oedolion sy'n gyn-aelodau o'r lluoedd % | Poblogaeth cyn-filwyr Gogledd Cymru |
|---|---|---|
| **Unrhyw anawsterau cyflogaeth** | **8** | **4,073** |
| Diweithdra | 4 | 2,036 |
| Ofn diweithdra | 3 | 1,527 |
| Gorfod cymryd swydd sy'n gofyn am lai o sgiliau/talu cyflog rhy isel | 2 | 1,018 |
| Diffyg hyfforddiant/sgiliau/ cymwysterau | 2 | 1,018 |

Ffynhonnell: Wedi'i addasu o siart a luniwyd yn Arolwg Aelwydydd 2014 y Lleng Brydeinig Frenhinol a Compass Partnership

Mae digartrefedd yn fater sy'n wynebu lleiafrif o gyn-bersonél y Lluoedd Arfog. Dangosodd nifer o astudiaethau fod nodweddion a phrofiad cyn- bersonél y Lluoedd Arfog o fod yn ddigartref yn eithaf tebyg i nodweddion a phrofiad y boblogaeth gyffredinol sy'n ddigartref, er bod cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog yn hŷn ac yn gallu bod yn ddigartref am fwy o amser. Y rheiny sydd wedi gadael y Lluoedd Arfog ar ôl cyfnod byrrach o wasanaeth, yn ogystal â chyn-aelodau o'r fyddin, sy'n wynebu'r risg fwyaf o ddigartrefedd, ac felly mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Mae'n bwysig bod darparwyr cymorth traddodiadol, er enghraifft elusennau'r Lluoedd Arfog ac awdurdodau lleol, yn cysylltu â darparwyr, er enghraifft cymdeithasau tai, nad ydynt yn darparu'n benodol ar gyfer y Lluoedd Arfog, er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth gorau posibl yn cael ei gynnig i gyn-filwyr.

Mae arwahanrwydd cymdeithasol yn her benodol i'r rheiny sydd wedi symud yn aml yn ystod eu gwasanaeth milwrol. Hefyd, mae cyn-filwyr oed gwaith (rhwng 16 a 64 blwydd oed) yn llawer llai tebygol na'r boblogaeth gyffredinol o fod mewn gwaith (63% o gymharu â 77%). Roedd 8% o gyn-filwyr wedi cael anawsterau cyflogaeth (sy'n cyfateb i 4,100 o gyn-filwyr yng Ngogledd Cymru) a bu 4% (sef 2,000 o gyn-filwyr) yn ddi-waith yn y flwyddyn flaenorol. Mae cyn-filwyr a fu'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog am lai na thair blynedd yn llai tebygol o fod mewn gwaith llawn-amser ar hyn o bryd (dim ond eu hanner sydd mewn gwaith), ac yn fwy tebygol o fod yn chwilio am waith (18%) na'r ffigur cyfartalog ar gyfer yr holl gyn-filwyr.

Cyrhaeddiad addysgol sy'n cynnig y gobaith mwyaf o wella amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd, ac mae'n elfen allweddol o ran lleihau tlodi, amddifadedd neu allgáu cymdeithasol. Mae addysg yn cynyddu'r cyfleoedd i gael gwaith ac incwm sicr. Felly, mae diweithdra'n fwy cyffredin ymhlith pobl sydd â chyrhaeddiad addysgol isel. Dangosodd dadansoddiad y Lleng Brydeinig Frenhinol (2014) nad oedd gan un o bob deg yng nghymuned ehangach cyn-aelodau'r lluoedd unrhyw gymwysterau ffurfiol, a bod hyn yn

cynyddu i un o bob pump ymhlith y grŵp 55-64 oed. Felly mae addysg a hyfforddiant i gyn-filwyr yn flaenoriaeth bendant.

Mae yna gydnabyddiaeth gynyddol fod cyn-filwyr sy'n troseddu yn grŵp cymhleth o ddefnyddwyr gwasanaethau, a bod yr ymddygiad troseddol hefyd yn cael effaith ddwys a niweidiol ar deuluoedd, er enghraifft trwy gam-drin domestig. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod y gyfran o gyn-filwyr sy'n troseddu yn fach iawn o gymharu â'r nifer sy'n gadael y lluoedd ac, yn y rhan fwyaf o achosion, ymddengys bod cyfnod sylweddol o amser yn mynd heibio rhwng gadael y lluoedd a throseddu sy'n arwain at gyfnod yn y carchar.

Dengys arolwg troseddau Prydain y bydd cam-drin domestig yn effeithio ar un o bob pedair menyw ac un o bob chwe dyn yn ystod eu hoes. Yn ogystal, ni ellir gwadu bod gwasanaeth milwrol yn gosod cyfyngiadau a phwysau gwahanol ar y rheiny sy'n gwasanaethu, a'u teuluoedd, ac y gall llawer o'r cyfyngiadau hyn ddwysáu materion sy'n ymwneud â cham-drin domestig. Mae angen rhagor o ymchwil yn y maes hwn.

Dengys data o'r arolwg aelwydydd gan y Lleng Brydeinig Frenhinol (Tabl 10.7) fod 20% o'r aelodau yng nghymuned cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog (sy'n cyfateb i 10,000 o gyn-filwyr yng Ngogledd Cymru) yn darparu rhywfaint o ofal a chymorth di-dâl. Mae hyn yn uwch na'r ganran o'r boblogaeth gyffredinol, sef 13%. Mae gan un o bob pedwar cyn-filwr 16-64 oed, yn fras, gyfrifoldebau gofalu, sydd bron ddwywaith cymaint â chyfartaledd y boblogaeth gyffredinol. Yn bwysicach na hynny, dywedodd un o bob deg gofalwr yng nghymuned cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog eu bod yn cael trafferth dygymod â'u cyfrifoldebau gofalu; mae hyn yn cyfateb i 1,000 o gyn-filwyr yng Ngogledd Cymru. Mae'n bwysig bod yr unigolion hyn yn cael cymorth priodol.

**Tabl 10.7 Cyfrifoldebau gofalu**

| | % veterans | Number *(thousands)* |
|---|---|---|
| Unrhyw gyfrifoldeb | 20 | 990 |
| Iechyd corfforol (henaint) | 8 | 420 |
| Iechyd corfforol (heblaw am henaint) | 6 | 290 |
| Afiechyd meddwl arall | 3 | 150 |
| Other mental ill health | 4 | 200 |
| Arall | 1 | 50 |

Sylfaen: Oedolion yng nghymuned cyn-aelodau'r lluoedd arfog
Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

## 10.3 Beth y mae pobl yn ei ddweud wrthym?

Gwelwyd y canlynol yn Arolwg Aelwydydd y Lleng Brydeinig Frenhinol (2014).

- Y meddyg teulu oedd y gwasanaeth iechyd mwyaf cyffredin, wedi'i ddilyn gan yr Uned Damweiniau ac Achosion Brys a'r podiatrydd.
- Roedd un o bob 10 cyn-filwr a oedd wedi cyrraedd oedran ymddeol yn cytuno bod angen mwy o gymorth arnynt yn y misoedd i ddod er mwyn parhau i fyw'n annibynnol, gan eu bod yn cael trafferth dygymod ag edrych ar eu hôl eu hunain heb gymorth.
- Y cais mwyaf cyffredin am gymorth gan y rhai a oedd wedi cyrraedd oedran ymddeol neu a oedd yn dioddef salwch/ anabledd oedd cymorth i dorri ewinedd traed (13%), wedi'i ddilyn gan baratoi prydau bwyd (6%). Yr angen mwyaf cyffredin a fynegwyd gan 12% oedd siopa am eitemau bob dydd angenrheidiol. Yn yr achos hwn, nid oedd tua 1% o gyn-filwyr yn cael y cymorth hwn.
- Dim ond 14% o gymuned cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog a ddywedodd eu bod wedi defnyddio cymorth am resymau heblaw iechyd, sy'n cyfateb i 7,100 o gyn-filwyr yng Ngogledd Cymru.
- Dywedodd 8% eu bod yn defnyddio cymorth gofal cymdeithasol (sy'n cyfateb i 4,100 o gyn-filwyr yng Ngogledd Cymru). Roedd y rhai oedd mewn trafferthion ariannol yn fwy tebygol o fod wedi defnyddio un o'r ffynonellau cymorth hyn, yn enwedig Cyngor Ar Bopeth, Canolfan Byd Gwaith, neu gyngor lleol.
- Teimlai 30% y gallai aelodaeth o wasanaethau cymorth lles fod yn ddefnyddiol iddynt yn y dyfodol agos. Mae hyn yn cyfateb i 15,300 o gyn-filwyr yng Ngogledd Cymru. Y ddau wasanaeth cymorth â'r apêl fwyaf uniongyrchol oedd clybiau cymdeithasol a chymorth â phrofedigaeth. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith mai problemau â pherthnasoedd ac arwahanrwydd yw'r anawsterau a nodir amlaf.
- Roedd gan 10% ddiddordeb mewn cael cymorth ariannol mewn argyfwng tra bo cymorth â symudedd, cartrefi gofal a chymhorthion cartref yn apelio i 7-8% o'r rhai a holwyd.

Mae angen darparu'r rhain i gyd i gyn-filwyr yng Ngogledd Cymru. Mae hyn yn adlewyrchu'r nifer fawr o faterion hunanofal a symudedd sy'n wynebu poblogaeth sy'n heneiddio. Yn gyffredinol, dywed Arolwg Aelwydydd y Lleng Brydeinig Frenhinol (Y Lleng Brydeinig Frenhinol, 2014) fod 1 o bob 20 o gyn-aelodau'r Lluoedd yn dweud bod ganddynt ryw anghenion cymorth heb eu diwallu. Mae hyn yn cyfateb i 2,500 o gyn-filwyr yng Ngogledd Cymru, ac yn codi i un o bob pedwar ymhlith y rhai sy'n ddi-waith.

Gwelodd arolwg sefydliadau a gynhaliwyd yng Ngogledd Cymru fod cyn-filwyr yn wynebu'r materion canlynol: anghenion tai a chyflogaeth; gwell mynediad i wasanaethau gofal a chymorth, yn enwedig gwasanaethau sy'n hyrwyddo

Draft

llesiant meddwl cadarnhaol; mwy o gydweithio rhwng gwasanaethau er mwyn symleiddio taith cyn-filwyr; symleiddio llwybrau atgyfeirio rhwng sefydliadau. Ar ben hynny, nodwyd y dylid gwella sgiliau'r staff yn y sector statudol i weithio gyda chyn-filwyr, ac y dylent fod yn fwy rhagweithiol wrth holi ynghylch statws cyn-filwyr. Roedd y grwpiau o gyn-filwyr sydd â blaenoriaeth o ran cael sylw arbennig yn cynnwys:

- Y cyn-filwyr hynaf a mwyaf bregus. Mae anghenion y rhain yn amlwg o ran cymorth (corfforol ac emosiynol) i fyw'n annibynnol ac i osgoi arwahanrwydd.
- Cyn-filwyr 16-54 oed â phroblemau iechyd sy'n gysylltiedig â'u gwasanaeth milwrol
- Y cyn-filwyr ieuengaf a adawodd y gwasanaeth milwrol yn fwyaf diweddar. Gall y rhain wynebu problemau wrth bontio i fywyd sifiliaid

Roedd grŵp ffocws lleol â chyn-filwyr a gynhaliwyd ar gyfer yr asesiad poblogaeth wedi nodi'r materion canlynol: gwell cyfathrebu a rhannu gwybodaeth rhwng y gwasanaethau milwrol a'r gwasanaethau statudol neu gyhoeddus; mae angen sicrhau bod tîm adsefydlu amlddisgyblaethol ar waith cyn bod cyn-filwyr a anafwyd yn gadael yr ysbyty; mwy o ymwybyddiaeth "dargededig" o'r hyn sydd ar gael i gyn-filwyr, gan gynnwys datblygu gwefan ar gyfer cyn-filwyr, sy'n cynnwys yr holl wybodaeth y bydd ei hangen arnynt, o bosibl, yn ystod y cyfnod pontio; datblygu dull achredu tebyg i "fuddsoddwyr mewn pobl" ar gyfer staff; datblygu cynllun "cyfeillgar i gyn-filwyr" ar gyfer adeiladau, yn gysylltiedig, o bosibl, â lleoliadau'r pencampwyr.

Nodwyd y materion canlynol mewn cyfarfod cynllunio a drefnwyd gan Fforwm Lluoedd Arfog Gogledd Cymru (NWAFF, 2016; Singleton, 2016) yn ddiweddar: dylid cydnabod bod cyn-filwyr yn grŵp â blaenoriaeth, a dylent gael sylw blaenllaw wrth gynllunio gwasanaethau; mae angen isrannu rolau cymorth yn well rhwng sefydliadau; dylid datblygu llyw-wyr gwasanaethau â phwynt cyswllt sengl/ siop un stop. Nodwyd mai'r flaenoriaeth i gyn-filwyr oedd "addysg iechyd", cymorth â phroblemau iechyd meddwl (yn enwedig materion yn ymwneud ag alcohol), tai a chyflogaeth. Tynnwyd sylw hefyd at bwysigrwydd datblygu gwybodaeth o ansawdd da. Yn gyffredinol, daeth tair thema gyffredin i'r amlwg: mae angen gwybodaeth a chyfathrebu mwy effeithiol rhwng sefydliadau; mae angen defnyddio dull gweithredu cyson o ran adnabod cyn-filwyr; mae angen cael gwybodaeth am y gwasanaethau a ddarperir ar draws Gogledd Cymru.

Awgrymwyd y gwelliannau canlynol mewn adolygiad diweddar a gomisiynwyd gan Ymddiriedolaeth Forces in Mind (Ymddiriedolaeth Forces in Mind a Community Innovations Enterprise, 2016): Fforymau a Phencampwyr y Lluoedd Arfog ar hyd a lled Cymru i weithio'n fwy effeithiol a chyson ledled y wlad; dull gweithredu mwy strategol a chydlynol o ran cynllunio a chomisiynu ym maes iechyd meddwl cyn-filwyr ar draws rhanbarthau a sectorau, gan

gynnwys ardaloedd trefol a rhai gwledig, ynghyd ag ymatebion amserol a phriodol i anghenion iechyd cysylltiedig, er enghraifft iechyd corfforol a dementia; llwybrau asesu ac atgyfeirio amlasiantaethol syml, clir, effeithlon a chydlynol ar gyfer anghenion seicogymdeithasol cymhleth, yn enwedig ar gyfer grwpiau ag anghenion mawr fel Milwyr sy’n gadael y Lluoedd yn Gynnar, cleifion â diagnosis deuol, a chyn-filwyr yn y system cyfiawnder troseddol; dylai llunwyr polisïau yng Nghymru sicrhau bod anghenion iechyd meddwl ac anghenion iechyd cysylltiedig cyn-filwyr a’u teuluoedd yn cael sylw mewn deddfwriaeth newydd a ddaw i rym yng Nghymru; dileu’r rhwystrau sy’n atal cyn-filwyr a’u teuluoedd rhag cysylltu â meddygon teulu a gwasanaethau eraill, a chefnogi cyn-filwyr a’u teuluoedd i fod yn fwy parod i ddefnyddio gwasanaethau prif ffrwd; annog cymhwystra diwylliannol o ran gwasanaethau prif ffrwd er mwyn sicrhau y gellir diwallu anghenion cyn-filwyr mewn modd cynaliadwy, a rhoi sylw i anghenion cyn-filwyr sy’n dioddef PTSD wrth gydnabod, ar yr un pryd, anghenion amrywiol y rheiny â phroblemau iechyd meddwl cyffredin; gwella’r trefniadau casglu a defnyddio data er mwyn llywio’r gwaith cynllunio a chomisiynu lleol hirdymor; rhagor o dystiolaeth ynghylch anghenion teuluoedd cyn-filwyr â phroblemau iechyd meddwl, yn ogystal â mynediad at wybodaeth a gwasanaethau ar gyfer eu hanghenion ymarferol ac emosiynol, ynghyd â’u hanghenion o ran cymorth; “meithrin gallu” teuluoedd er mwyn rhoi iddynt y gwytnwch a’r wybodaeth i adnabod, cefnogi a chynnal adferiad aelodau o’r teulu sy’n gyn-filwyr.

## 10.4 Adolygiad o’r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd

Mae cyn-filwyr yng Ngogledd Cymru yn cael cymorth gan adrannau ac asiantaethau Llywodraeth EM, Llywodraeth Cymru, y GIG, cynghorau lleol, y trydydd sector a’r sector preifat.

Mae gan lywodraeth y DU, trwy’r Weinyddiaeth Amddiffyn, yr heddlu, y gwasanaeth carchardai ac asiantaethau eraill, er enghraifft Canolfan Byd Gwaith, rôl hollbwysig o ran cefnogi cyn-filwyr. Mae milwyr sy’n gadael Lluoedd Arfog y DU am resymau meddygol yn cael ystod gynhwysfawr o wasanaethau arbenigol gan y Weinyddiaeth Amddiffyn i’w helpu i addasu i fywyd sifiliaid.

Mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo’r cyfamod milwrol, ac mae wedi datblygu pecyn cymorth ar gyfer cymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru. Nodir ynddo y polisïau penodol y mae Llywodraeth Cymru yn eu rhoi ar waith yn y meysydd cyfrifoldeb a ddatganolwyd iddi.

Mae pob cyngor lleol yng Ngogledd Cymru wedi llofnodi Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog, gan addunedu i gefnogi personél sy’n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, cyn-filwyr, a’u teuluoedd, a hynny mewn pedwar maes allweddol: addysg; sgiliau a chyflogaeth; tai; iechyd a llesiant. Mae grwpiau

partneriaeth sirol Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog ar waith mewn rhai cynghorau. Nodir isod feysydd lle gall cynghorau lleol gefnogi cyn-filwyr:

- Gofal cymdeithasol: nid yw'r systemau TG sy'n cefnogi gofal cymdeithasol yn casglu gwybodaeth am gyn-filwyr ar hyn o bryd.
- Gwella iechyd: er enghraifft, cynllun nofio am ddim i gynyddu'r niferoedd sy'n gwneud ymarfer corff a gwella'u hiechyd a'u llesiant. Nid yw'r cynllun hwn ar waith ym mhob ardal. Dylid adolygu gwasanaethau gwella iechyd fel y rhain, a ddarperir gan gynghorau lleol i gyn-filwyr, a'u cryfhau lle bo angen.
- Tai a digartrefedd: mae'r categorïau ar gyfer anghenion blaenoriaethol a restrir yn adran 70 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn cynnwys unigolion sydd wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog rheolaidd y Goron ac sydd wedi bod yn ddigartref ers gadael y Lluoedd hynny (neu rywun y mae unigolyn o'r fath yn preswylio gydag ef, neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswylio gydag ef). Bydd angen gwella systemau TG i sicrhau bod yr wybodaeth hon yn cael ei chasglu, a bydd angen hyfforddi staff.
- Cyfrifoldebau gofalu: bydd cynghorau lleol yn darparu asesiad a chymorth lle bo angen. Mae yna arwyddion pendant nad yw anghenion cyn-filwyr yn cael eu diwallu yn y maes hwn, ac felly mae angen i wasanaethau wella'r hyn a ddarperir.

Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr arweinydd a enwir ar gyfer Fforwm y Lluoedd Arfog, pencampwr Gweithredol, a phencampwr sy'n aelod o'r Bwrdd Gweithredol ar lefel anweithredol ac sy'n cadeirio'r Fforwm. Mae'r nodyn safonol "Healthcare for Veterans: Standard Note" (Powell, 2011) yn adeiladu ar Gyfamod y Lluoedd Arfog, ac yn pennu mesurau i wella mynediad at wasanaethau iechyd corfforol ac iechyd meddwl ar gyfer cyn-filwyr. Mae'r nodyn safonol hefyd yn ail-ddweud bod gan gyn-filwyr hawl i driniaeth flaenoriaethol gan y GIG. Mae hyn yn debygol o gael effaith benodol ar wasanaethau awdioleg, iechyd meddwl ac orthopedig.

Rhestrir isod y meysydd lle gall y bwrdd iechyd lleol gynorthwyo cyn-filwyr.

- Mae therapyddion cyn-filwyr yn gweithio ym mhob ardal o'r bwrdd iechyd yn rhan o Wasanaeth Iechyd a Llesiant Cymru gyfan ar gyfer Cyn-filwyr.
- Meddygon teulu: mae'n bwysig bod cyn-filwyr yn rhoi gwybod i'w meddyg teulu am eu statws cyn-filwr. Prin yw'r wybodaeth sydd ar gael am y defnydd o ofal eilaidd gan gyn-filwyr.
- Gwasanaethau prosthetig y GIG: nid oes systemau data ar gael i'n galluogi i asesu nifer presennol y cyn-filwyr sy'n cael gwasanaethau prosthetig gan y GIG yng Ngogledd Cymru. Nodwyd 45 o gleientiaid gan Wasanaeth Ystum Corff a Symudedd BIPBC yn sgil chwilio â llaw trwy'r cofnodion papur (Cadeiriau olwyn ac aelodau artiffisial). Fodd bynnag, mae'r

Draft

gwasanaeth yn bwriadu cysylltu â gwasanaeth Ystum Corff a Symudedd Caerdydd a'r Fro, sy'n rheoli'r system ystum corff a symudedd, i sicrhau y cedwir cofnod penodol o gyn-filwyr.

- Gwasanaethau iechyd meddwl: a gyrchir trwy feddygon teulu. Dylid cyfeirio cyn-filwyr a milwyr wrth gefn sydd ag anghenion sy'n gysylltiedig â'u gwasanaeth, ac y credir bob angen gofal mwy penodol arnynt, at wasanaeth GIG Cymru i Gyn-filwyr. Yn y cyfnod 1 Ebrill 2015 hyd at 31 Mawrth 2015 cafodd cangen BIPBC o wasanaeth GIG Cymru i Gyn-filwyr 163 o atgyfeiriadau, sef 19 o Ynys Môn, 13 o Wynedd, 24 o Gonwy, 25 o Sir Ddinbych, 23 o Sir y Fflint, a 49 o Wrecsam, yn ogystal â 2 o Bowys ac 8 o fannau eraill.
- Yn 2014-15, derbyniwyd 135 o achosion i'r ysbyty yng Ngogledd Cymru lle nodwyd bod PTSD yn un o'r codau diagnosis (i fyny o 71 yn 2010-11). Roedd tua 6 o bob 10 o'r rhain yn ddynion, ac roedd ychydig llai na hanner y bobl a dderbyniwyd yn iau na 40 oed (Ffynhonnell: Tîm Gwybodaeth Prifysgol Betsi Cadwaladr). Does dim ffordd i ni wybod ar hyn o bryd ai cyn-filwyr oedd y cleifion hyn a dderbyniwyd.
- Camddefnyddio sylweddau: cafodd 92 o gleifion o Ogledd Cymru sy'n gyn-filwyr eu hatgyfeirio i wasanaethau Cyffuriau ac Alcohol BIPBC rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016 (Ffynhonnell: Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Prifysgol Betsi Cadwaladr), ond mae'n ddigon posibl bod yr amcangyfrif hwn yn rhy isel.
- Yn rhan o'r gwaith cynllunio ar gyfer Carchar y Berwyn, nododd yr asesiad cychwynnol o anghenion iechyd fod 3-4% o'r boblogaeth yn debygol o fod yn gyn-filwyr, sef tua 60-70 o ddynion. Mae hwn yn debyg i nifer y cyn-filwyr yng Ngogledd Cymru sy'n debygol o fod yn y carchar ar hyn o bryd (55-110).

Mae llawer o gyrff trydydd sector yn cynnig cymorth gwerthfawr i gymuned y Lluoedd Arfog yng Ngogledd Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys y Lleng Brydeinig Frenhinol, Cymdeithas Milwyr, Morwyr, Awyrenwyr a'u Teuluoedd (SSAFA), Combat Stress, Newid Cam, Homes for Veterans, Poppy Factory, SoldiersCharity.org, Blesma, a Chyn-filwyr Dall. Argymhellir ystyried cyflwyno safon ansawdd i gynnig sicrwydd i gyn-filwyr, eu teuluoedd a sefydliadau sector cyhoeddus fod y cyrff y maent yn delio â nhw yn rhai o ansawdd uchel a chanddynt drefniadau llywodraethu da.

Cwmni preifat cyfyngedig ac iddo ddiben cymdeithasol yw Big White Wall (BWW), sydd ar gael, yn rhad ac am ddim, i bersonél sy'n gwasanaethu yn Lluoedd Arfog y DU, cyn-filwyr a'u teuluoedd. Mae'n darparu gwasanaeth digidol dienw i gefnogi pobl sy'n dioddef problemau iechyd meddwl cyffredin, er enghraifft iselder a gorbryder. Mewn rhai ardaloedd, mae BWW hefyd yn cynnig therapi 'byw' trwy sesiynau un i un ar-lein â chwnselwyr a therapyddion



Draft

profiadol, gan ddefnyddio gwe-gamera, darpariaeth glywedol neu negeseua gwib.

Sefydlwyd Fforwm Lluoedd Arfog Gogledd Cymru (NWAFF) yn 2012 i gefnogi cyn-filwyr, aelodau presennol o'r Lluoedd Arfog yn y rhanbarth, a'u teuluoedd. Mae'r Fforwm yn dwyn ynghyd gynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), Iechyd Cyhoeddus Cymru, Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru, y Lluoedd Arfog, Heddlu Gogledd Cymru, Llywodraeth Cymru, addysg, cyflogaeth a sefydliadau (gwirfoddol) y trydydd sector. Mae'r Fforwm hefyd yn mynd ati i gefnogi cyfamodau cymunedol cynghorau lleol Gogledd Cymru.

## 10.5 Casgliad ac argymhellion

**Gwybodaeth ac ymchwil**

Mae angen gwella'r canlynol:

- Yr wybodaeth ddemograffig, iechyd a lles sydd ar gael am gyn-filwyr, gan gynnwys eu defnydd o'r Gymraeg, materion sy'n ymwneud â'u ffordd o fyw (ac eithrio alcohol), a'u hymwneud â gwasanaethau cam-drin domestig.
- Casglu gwybodaeth am ddefnydd cyn-filwyr o wasanaethau ar hyd a lled Gogledd Cymru.
- Yr wybodaeth a ddarperir i gyn-filwyr am y gwasanaethau sydd ar gael, trwy gyfeiriadau gan staff, datblygu gwefan siop un stop i gyn-filwyr neu hwb/man cyswllt sengl, a thrwy ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i roi cyhoeddusrwydd i wasanaethau.

Mae'r argymhellion fel a ganlyn:

- Dylai NWAFF gefnogi ymgyrch "Count Them In" y Lleng Brydeinig Filwrol
- Dylai NWAFF ystyried comisiynu astudiaeth o broffil iaith cyn-filwyr yng Ngogledd Cymru
- Dylai pob darparwr gwasanaethau wella'r ffordd y mae'n adnabod cyn-filwyr, yn ogystal â'r data ar eu defnydd o wasanaethau (yn enwedig gofal sylfaenol a gofal eilaidd y GIG, a gwasanaethau awdurdodau lleol)
- Dylai NWAFF ystyried datblygu "dangosfwrdd o ddata cyn-filwyr" sy'n tynnu ynghyd ddata am gyn-filwyr
- Dylai pob darparwr gwasanaethau wella'r wybodaeth a ddarperir i gyn-filwyr am y gwasanaethau sydd ar gael iddynt, a hynny trwy eu cyfeirio'n well at wasanaethau, rhoi gwell cyhoeddusrwydd iddynt trwy ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, a chefnogi datblygiad gwefan newydd y Weinyddiaeth Amddiffyn, "Porth y Cyn-filwyr"

Draft

- Dylai NWAFF ystyried comisiynu ymchwil mewn meysydd megis ymddygiad ffordd o fyw cyn-filwyr, a sut mae cyn-filwyr yn rhyngweithio â materion sy’n ymwneud â cham-drin domestig

**Cynllunio gwasanaethau**

Dylai cyn-filwyr gael eu hystyried yn grŵp â blaenoriaeth o fewn trefniadau cynllunio rheolaidd. Mae’r argymhellion fel a ganlyn.

- Dylai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) ystyried anghenion cyn-filwyr wrth ddatblygu eu Cynlluniau Llesiant
- Dylai cynghorau lleol ystyried anghenion cyn-filwyr, fel grŵp agored i niwed, yn eu cynlluniau corfforaethol ac wrth bennu eu blaenoriaethau corfforaethol
- Dylai BIPBC ystyried anghenion cyn-filwyr wrth ddatblygu ei Gynllun Gweithredu Blynyddol a’i Gynllun Tymor Canol Integredig
- Wrth iddo ddatblygu ei Strategaeth Iechyd Meddwl, dylai BIPBC ystyried anghenion cyn-filwyr sy’n methu cael mynediad i’r gwasanaeth a ddarperir gan GIG Cymru i Gyn-filwyr (e.e. anghenion nad ydynt yn gysylltiedig â’u gwasanaeth milwrol). Bydd hyn yn cynnwys cydnabod effaith negyddol bosibl stigma ar barodrwydd a gallu cyn-filwyr i ofyn am gymorth â chyflyrau iechyd meddwl. Dylid datblygu iechyd meddwl cyhoeddus yn rhan o’r strategaeth hon gan hybu llesiant emosiynol a dewisiadau eraill heblaw lleoliadau ysbyty
- Dylid adolygu’r gwasanaethau gwella iechyd y mae awdurdodau lleol yn eu darparu i gyn-filwyr, a’u cryfhau lle bo angen
- Dylai’r holl ddarparwyr gwasanaethau gefnogi’r gwaith o ddatblygu Gwasanaethau Iechyd a Llesiant ar gyfer cyn-filwyr yng Ngharchar y Berwyn.

**Darparu gwasanaethau**

Mae gan wasanaethau gyfrifoldeb i gyflawni’r ymrwymiadau a bennwyd yng Nghyfamod y Lluoedd Arfog. Mae’r argymhellion fel a ganlyn.

- Dylai pob darparwr gwasanaethau fod yn ymwybodol o’i ymrwymiadau a’i gyfrifoldebau o dan Gyfamod y Lluoedd Arfog. Mae hyn yn cynnwys blaenoriaeth o ran mynediad at driniaeth gan y GIG ar gyfer cyflyrau sy’n gysylltiedig â gwasanaeth milwrol cyn-filwyr, ynghyd â blaenoriaeth o ran mynediad i dai cymdeithasol.
- Dylai pob darparwr gwasanaethau ddarparu gwasanaethau a chymorth effeithiol mewn modd cydlynol, er mwyn cyflawni’r deilliannau angenrheidiol ar gyfer cyn-filwyr, a rhoi sylw i anghenion sydd heb eu diwallu. Dylai’r grwpiau â blaenoriaeth gynnwys y rhai hynaf a mwyaf bregus y mae ganddynt anghenion clir o ran cymorth (corfforol ac

Draft

emosiynol) i fyw yn annibynnol ac i osgoi arwahanrwydd cymdeithasol; cyn-filwyr 16-54 oed sydd â phroblemau iechyd sy'n gysylltiedig â'u gwasanaeth milwrol, a'r cyn-filwyr ieuengaf a adawodd y lluoedd yn fwyaf diweddar.

- Dylai pob darparwr gwasanaethau gydweithio i ddatblygu modelau o lwybrau gofal i gyn-filwyr yn seiliedig ar glustnodi cynnar, ymyrraeth gynnar ac ymateb i anghenion ar sail tystiolaeth, gan isrannu rolau yn glir.
- Dylai pob darparwr gwasanaethau gydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â diwylliant y Lluoedd Arfog, a'u deall. Mae'n bwysig bod pob aelod o staff yn cael hyfforddiant priodol, a'u bod yn gofalu gofyn a yw eu cleientiaid yn gyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog. Dylid ystyried cyflwyno system i achredu staff, penodi rhagor o bencampwyr cyn-filwyr, a chynllun ar gyfer gwasanaethau sy'n "gyfeillgar i gyn-filwyr".
- Dylai pob darparwr gwasanaethau fanteisio ar bob cyfle i gyfeirio cyn-filwyr at gymorth. Gallai lleoliadau rheng flaen penodol gynnwys Adrannau Achosion Brys, dalfeydd yr heddlu a phwyntiau cyswllt sengl/Timau Mynediad at Dai yn y cynghorau lleol.
- Gan fod llawer o sefydliadau trydydd sector yn cael eu sefydlu i weithio gyda chyn-filwyr, argymhellir y dylid ystyried creu safon ansawdd a fyddai'n cynnig sicrwydd i gyn-filwyr, eu teuluoedd, a chyrff sector cyhoeddus, fod y mudiadau y maent yn delio â nhw yn rhai o ansawdd da a chanddynt drefniadau llywodraethu da.
- Dylai contractwyr Gofal Sylfaenol roi blaenoriaeth i gofrestru cyn-filwyr. Dylai meddygon teulu ofyn i'r DMS ddarparu cofnodion meddygol llawn er mwyn iddynt gael darlun cyflawn o hanes meddygol cyn-filwyr. Dylid hyrwyddo'r cyhoeddiad ar y cyd gan Goleg Brenhinol y Meddygon Teulu, y Lleng Brydeinig Frenhinol a Combat Stress i'r holl ddarparwyr iechyd lleol.
- Dylai pob darparwr gwasanaethau flaenoriaethu cymorth iechyd meddwl i gyn-filwyr, gan gynnwys cymorth â phroblemau sy'n gysylltiedig ag alcohol. Dylai'r gwaith hwn gynnwys cyfeirio pobl yn well at y cymorth sydd ar gael trwy GIG Cymru i Gyn-filwyr, gwasanaethau iechyd meddwl BIPBC a'r trydydd sector. Dylai'r Grŵp Atal Hunanladdiad yng Ngogledd Cymru roi ystyriaeth benodol i anghenion cyn-filwyr.
- Dylai cynghorau lleol adolygu'r gwasanaethau gwella iechyd a ddarperir i gyn-filwyr, a'u gwella lle bo angen.
- Dylai cynghorau lleol a BIPBC ystyried sut y gallant gefnogi cyn-filwyr ar eu llwybr i gyflogaeth trwy'r cyfleoedd gwirfoddoli a ddatblygir yn eu sefydliadau.
- Dylai pob darparwr gwasanaethau roi ystyriaeth benodol i anghenion gofalwyr sy'n gyn-filwyr, a rhoi sylw i unrhyw anghenion sydd heb eu diwallu.

Draft

### Materion cydraddoldeb i'w hystyried

Er nad yw statws cyn-filwr wedi'i gydnabod yn ffurfiol fel un o'r nodweddion a ddiogelir, mae'r adroddiad hwn yn cydnabod bod eu hamser yn y Lluoedd Arfog yn gallu cael effaith anghyfartal ar y rheiny a fu'n gwasanaethu. Er enghraifft, mae cyn-filwyr oedran gweithio yn fwy tebygol na'r boblogaeth gyffredinol o ddioddef salwch hirdymor sy'n cyfyngu ar eu gweithgareddau; maent yn llai tebygol o gael gwaith ar ôl gadael y Lluoedd Arfog; ac yn llai tebygol o gael tai addas. Gall yr holl ffactorau hyn arwain at arwahanrwydd cymdeithasol ac iechyd meddwl gwael. Lle mae data ar gael, mae'r adroddiad hwn yn disgrifio dosbarthiad oed, proffil rhyw, ethnigrwydd a sgiliau Cymraeg cyn-filwyr. Dylid ystyried anghenion cyn-filwyr wrth gynllunio gwasanaethau, a dylai darparwyr gwasanaethau fod yn ymwybodol o'u hymrwymiadau a'u cyfrifoldebau o dan y cyfamod milwrol. Efallai y bydd materion pellach yn effeithio ar gyn-filwyr â nodweddion a ddiogelir nad ydynt wedi eu nodi yn y bennod hon. Gallai'r materion hyn gael eu nodi yn y dyfodol, os bydd darparwyr gwasanaethau yn gwella'u dulliau o adnabod cyn-filwyr ac o gofnodi data am y gwasanaethau y maent yn eu defnyddio.

Draft

## Atodiad 2: Trosolwg ar y ddeddfwriaeth/y cyd-destun cenedlaethol a lleol ar gyfer cyn-filwyr

**Ymrwymiad y Genedl: Cymorth traws-lywodraethol i'n Lluoedd Arfog, eu Teuluoedd a Chyn-filwyr**

Yn 2008, bwriad Papur Gorchymyn Llywodraeth y DU oedd rhoi diwedd ar yr anfantais y mae aelodau o Luoedd Arfog ei Mawrhydi a chyn-filwyr yn ei hwynebu, a chael gwell cymorth a chydnabyddiaeth i'r rhai a anafwyd wrth wasanaethu eu gwlad (Y Weinyddiaeth Amddiffyn, 2008). Mae'r Papur Gorchymyn yn cynnwys dwy egwyddor drosfwaol:

- Ni ddylai cymuned y Lluoedd Arfog wynebu anfantais o gymharu â dinasyddion eraill o ran cael gwasanaethau cyhoeddus neu fasnachol
- Mae ystyriaeth arbennig yn briodol mewn rhai achosion, yn enwedig i'r rhai a wnaeth y cyfraniad mwyaf, er enghraifft y rhai sydd wedi'u hanafu neu wedi colli anwyliaid

Cydnabyddir hefyd fod cyn-filwyr yn grŵp agored i niwed, a bod rhaid rhoi blaenoriaeth i asesu eu hanghenion.

**Cyfamod y Lluoedd Arfog**

Mewn ymateb i'r Papur Gorchymyn, sefydlwyd Cyfamod y Lluoedd Arfog gan Lywodraeth y DU yn 2011 (Y Weinyddiaeth Amddiffyn, 2011). Mae'r Cyfamod yn crynhoi'r mesurau y mae Llywodraeth y DU yn eu gweithredu, gan gynnwys materion sydd heb eu dirprwyo, sy'n effeithio ar Gymru a'i dinasyddion.

O ran iechyd a llesiant, mae'r cyfamod y datgan: "Bydd cyn-filwyr yn cael gofal iechyd gan y GIG, a dylent gael triniaeth flaenoriaethol ar gyfer cyflyrau sy'n ganlyniad i'w gwasanaeth yn y Lluoedd Arfog, yn amodol ar yr anghenion clinigol. Dylai'r rhai a anafwyd yn ystod eu gwasanaeth, boed yn gorfforol neu'n feddyliol, gael gofal sy'n adlewyrchu dyletswydd foesol y genedl iddynt, ac sy'n parchu dymuniadau'r unigolyn. O ran y rheiny sy'n pryderu am eu hiechyd meddwl, lle bydd y symptomau o bosibl yn dod i'r amlwg gryn amser ar ôl iddynt adael y Gwasanaeth, dylent gael mynediad at wasanaethau gan weithwyr iechyd proffesiynol sy'n deall diwylliant y Lluoedd Arfog". (Y Weinyddiaeth Amddiffyn, 2011)

**Fighting Fit: cynllun iechyd meddwl ar gyfer aelodau'r lluoedd arfog a chyn-filwyr**

Yn 2010, cyhoeddodd y Weinyddiaeth Amddiffyn adolygiad gan Andrew Murrison AS (Murrison, 2010), a oedd yn amlinellu cynllun iechyd meddwl ar gyfer aelodau'r Lluoedd Arfog a chyn-filwyr yng nghyd-destun Cyfamod y Lluoedd Arfog. Mae'r Cynllun yn cynnwys nifer o argymhellion, ond amlygir pedwar prif faes gweithredu:

- Ymgorffori ymholiad systemau iechyd meddwl strwythuredig yn yr archwiliadau meddygol a gynhelir yn ystod gwasanaeth milwrol
- Cynyddu nifer y gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol o'r Ymddiriedolaethau Iechyd Meddwl, mewn partneriaeth ag elusen iechyd meddwl flaenllaw, sy'n gwneud gwaith allgymorth gyda chyn-filwyr
- Gwasanaeth Gwybodaeth ar gyfer Cyn-filwyr (VIS) i'w roi ar waith flwyddyn ar ôl i unigolyn adael y Lluoedd Arfog
- Treialu gwasanaeth ymyrraeth gynnar ar-lein ar gyfer aelodau'r lluoedd arfog a chyn-filwyr

**Byddin 2020**

Roedd "Adolygiad Diogelwch ac Amddiffyn Strategol" 2010 (Llywodraeth ei Mawrhydi, 2010) yn disgrifio'r angen i amddiffyn y DU mewn ymateb i heriau diogelwch mewn dyfodol ansicr. Mae Byddin 2020 yn gysyniad ar gyfer trawsnewid Byddin Prydain erbyn 2020 a'r tu hwnt i hynny. Erbyn 2020, bydd Byddin Prydain wedi'i lleoli yn y DU yn bennaf, gan grynhoi mwyfwy mewn saith canolfan. Bydd hyn yn lleihau'n sylweddol yr angen am symud milwyr, gan roi diwedd ar yr arfer o'u symud o amgylch y wlad fel mater o drefn. Nod hyn yw cynnig mwy o sicrwydd i aelodau o'r Fyddin a'u teuluoedd o ran lle y byddant yn byw ac yn gweithio.

**Lluoedd Wrth Gefn y Dyfodol 2020**

Pan gyhoeddodd Prif Weinidog y DU ganlyniad yr "Adolygiad Diogelwch ac Amddiffyn Strategol" (Llywodraeth ei Mawrhydi, 2010), comisiynodd hefyd adolygiad ar wahân o'r Lluoedd Wrth Gefn. Argymhellodd yr adolygiad hwn y dylid integreiddio'r elfennau Wrth Gefn yn strwythur y Fyddin, ac ymgorffori rolau sydd wedi'u diffinio'n gliriach hefyd, er mwyn gwella gwytnwch, defnyddioldeb a chynaliadwyedd Lluoedd Arfog y DU.

**Rhaglen Colli Swyddi y Lluoedd Arfog**

Amlinellwyd Cynllun Colli Swyddi'r Lluoedd Arfog hefyd yn "Adolygiad Diogelwch ac Amddiffyn Strategol" (Llywodraeth ei Mawrhydi, 2010). Disgwylir y bydd tua 30,000 o bersonél yn gadael y Lluoedd trwy gyfuniad o ymddeoliadau, colli swyddi a recriwtio llai. Bydd y gostyngiad mwyaf i'w weld yn y Fyddin, a fydd yn cwtogi'i niferoedd i 82,000 erbyn 2020, sef gostyngiad o 20,000.

**Y Lluoedd Arfog yng Nghymru**

Nid yw Lluoedd Ei Mawrhydi yng Nghymru yn fater sydd wedi'i ddirprwyo, a chânt eu rheoli o hyd gan y Weinyddiaeth Amddiffyn (Middle, 2015). Lleolir pencadlys Brigâd 160 y Troedfilwyr a Phencadlys Cymru yn Aberhonddu, ac mae'n gyfrifol am lawer o unedau a chyfleusterau o gwmpas y wlad.

Pencadlys Brigâd 160 y Troedfilwyr a Phencadlys Cymru sydd hefyd yn gyfrifol am ymgysylltu â sifiliaid ar ran y Tri Llu yng Nghymru (Middle, 2015). Cefnogir y

swyddogaeth hon gan gynrychiolwyr yn yr unedau milwrol yng Nghymru, sy'n gyfrifol am ymgysylltu â sifiliaid yn eu meysydd cyfrifoldeb priodol. I alluogi'r gwaith hwn, pennwyd bod unedau milwrol ar hyd a lled Cymru yn fannau cyswllt sengl ar gyfer ymgysylltu â'r Awdurdodau Lleol (ALlau) perthnasol er mwyn cyflawni egwyddorion y Cyfamod yn lleol.

**Fforwm Lluoedd Arfog Gogledd Cymru**

Sefydlwyd Fforwm Lluoedd Arfog Gogledd Cymru (NWAFF) yn 2012 i gefnogi cyn-filwyr, aelodau presennol y lluoedd arfog yn y rhanbarth, a'u teuluoedd. Mae'r Fforwm yn dwyn ynghyd gynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), Iechyd Cyhoeddus Cymru, ALlau Gogledd Cymru, y Lluoedd Arfog, Heddlu Gogledd Cymru, Llywodraeth Cymru, addysg, cyflogaeth a sefydliadau (gwirfoddol) y trydydd sector. Yn rhan o'i gylch gorchwyl, cytunodd y Fforwm yng Ngogledd Cymru y byddai'n gweithio ar draws ffiniau siroedd a sefydliadau i wneud y canlynol:

- Sicrhau bod anghenion cymuned y Lluoedd Arfog yn cael eu nodi, eu hadolygu'n gyson a'u hadlewyrchu'n llawn mewn cynlluniau lleol ar gyfer darparu a datblygu gwasanaethau

- Datblygu a chadw cyfeiriadur lleol o wasanaethau a fydd yn helpu aelodau cymuned y Lluoedd Arfog, yn ogystal â sefydliadau ac elusennau i helpu unigolion i gael mynediad at gefnogaeth briodol mewn modd amserol ac effeithiol

- Rhannu gwybodaeth am wasanaethau a phroblemau a all effeithio ar gyn-filwyr a'u teuluoedd yng Ngogledd Cymru

- Rhannu arloesedd ac ymarfer gorau ar draws pob rhanddeiliad

- Monitro ac adolygu pa mor effeithiol yw'r trefniadau o ran triniaeth flaenoriaethol yng ngwasanaethau'r Bwrdd Iechyd

- Darparu ffocws strategol ar gyfer y chwe Fforwm Sirol yng Ngogledd Cymru.

Mae'r Fforwm hefyd yn rhoi cefnogaeth weithredol i Gyfamod Cymunedol Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru. Mae pob un o'r chwe ALl yn y rhanbarth wedi llofnodi Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog, gan ymrwymo i gefnogi personél y Lluoedd Arfog a chyn-filwyr a'u teuluoedd, a hynny mewn pedwar maes allweddol: addysg; sgiliau a chyflogaeth; tai; iechyd a llesiant.

**Cynllun Grant Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog**

Sefydlwyd y cynllun hwn i ariannu prosiectau lleol sy'n cryfhau cysylltiadau neu gyd-ddealltwriaeth rhwng aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog a'r gymuned ehangach (y Weinyddiaeth Amddiffyn, 2012).

Draft

# Cyfeiriadau


Atenstaedt, R. a Jones, C. (2016) *Care & Support Needs of Military Veterans in North Wales.* Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Forces in Mind Trust a Community Innovations Enterprise (2016) *Call to Mind: Wales. Findings from the Review of Veterans' and their Families' Mental and Related Health Needs in Wales.*

Llywodraeth ei Mawrhydi (2010) *Securing Britain in an age of Uncertainty: Defence and Security Review.*

Middle, C. (2015) *160 – Armed Forces Covenant Framework for Wales.*

Y Weinyddiaeth Amddiffyn (2008) *The Nation's Commitment: Cross-Government Support to our Armed Forces, their Families and Veterans*. Llundain.

Y Weinyddiaeth Amddiffyn (2011) *The Armed Forces Covenant: Today and Tomorrow*. Llundain: 2011.

Y Weinyddiaeth Amddiffyn (2012) *Community Covenant Grant Scheme.*

Murrison, A. (2010) *Fighting Fit – a mental health plan for servicemen and veterans.*

NWAFF (2016) *North Wales Armed Forces Forum (NWAFF) Planning Day Outputs March 2016.*

Powell, T. (2011) *Standard Note: SN/SP/5764 Healthcare for Veterans.*

Y Lleng Brydeinig Frenhinol (2014) *A UK Household Survey of the Ex-Service Community.*

Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu, y Lleng Brydeinig Frenhinol a Combat Stress (2010) *Meeting the healthcare needs of veterans – a guide for general practitioners*.

Gwasanaeth Tystiolaeth Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2016 *Map of evidence and evidence based guidance for north Wales early intervention and prevention (Social Services & Wellbeing Act implementation)*

Singleton, L. (2016) *North Wales Armed Forces Forum Discussion Paper – Action Plan 2016-17 28th July 2016.*

Tannock, S., Burgess, S. a Moles, K. (2013) *Military Recruitment, Work & Culture in the South Wales Valleys: A Local Geography of Contemporary British Militarism.* Caerdydd: Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD).


Draft

# 11 Digartrefedd

## Cynnwys


11 Digartrefedd ........ 1

11.1 Ynglŷn â’r bennod hon ........ 2

Beth yw ystyr y term digartrefedd? ........ 2

Polisi a deddfwriaeth ........ 3

11.2 Beth yr ydym yn ei wybod am y boblogaeth, a'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd ........ 3

Adolygiad Ystadegol ........ 9

Cefnogi Pobl ........ 9

11.3 Beth y mae pobl yn ei ddweud wrthym? ........ 10

Canfyddiadau o ymgysylltu â sefydliadau ........ 11

Ymgysylltu â phobl sy'n ddigartref ........ 12

11.4 Casgliad ac argymhellion ........ 13

Y prif negeseuon ........ 13

Bylchau yn y gwasanaeth/cymorth ........ 14

Cydraddoldeb a hawliau dynol ........ 15

Cyfeiriadau ........ 16


Draft

## 11.1 Ynglŷn â’r bennod hon

Mae'r bennod hon yn cynnwys asesiad o anghenion y boblogaeth ar gyfer gwasanaethau digartrefedd. Mae gwybodaeth am anghenion tai pob grŵp poblogaeth wedi’i chynnwys ym mhennod berthnasol yr asesiad poblogaeth. Mae rhagor o wybodaeth am anghenion iechyd pobl sy'n ddigartref ar gael yn yr asesiad anghenion a baratowyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (2016).

### Beth yw ystyr y term digartrefedd?

Mae'r diffiniad cyfreithiol ar gyfer digartrefedd wedi ei nodi o dan adran 55 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 fel a ganlyn:

> ‘Mae person yn ddigartref os nad oes unrhyw lety ar gael i’r person ei feddiannu, yn y Deyrnas Unedig neu yn rhywle arall, y mae’r person â hawl i’w feddiannu ... Mae person yn ddigartref hefyd os oes gan y person lety ond nad yw’n gallu cael mynediad iddo, neu mae’n strwythur, yn gerbyd neu’n gwch symudol, sydd wedi ei ddylunio neu ei addasu i bobl fyw ynddo ac nad oes unrhyw fan lle mae’r person â’r hawl neu’r caniatâd i’w leoli a hefyd i fyw ynddo. Ni chaniateir i berson gael ei drin fel person sydd â llety oni bai ei fod yn llety y byddai’n rhesymol i’r person barhau i’w feddiannu’.

Yn ei Chod Canllawiau diwygiedig ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd (2016), mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi rhoi diffiniad ehangach, ac mae’n disgrifio digartrefedd fel a ganlyn:

> 'Pan fo person heb lety, neu lle nad yw ei denantiaeth yn sicr'. Bydd hyn yn cynnwys pobl sydd:
>
> - yn cysgu ar y stryd
> - yn byw mewn tai ansicr/dros dro (ac eithrio tenantiaid sicr/byrddaliad sicr)
> - yn byw mewn hosteli byrdymor, llochesau nos, hosteli mynediad uniongyrchol
> - yn byw mewn llety gwely a brecwast
> - yn symud yn aml rhwng perthnasau/ffrindiau
> - yn sgwatio
> - yn methu aros mewn tai, neu ddychwelyd atynt, oherwydd amodau gwael, gorlenwi, problemau fforddiadwyedd, trais yn y cartref, aflonyddu, cam-drin meddyliol, corfforol a/neu rywiol, anaddasrwydd ar gyfer anghenion corfforol, ac ati
> - dan fygythiad o golli eu cartref, ac sydd heb lety addas arall am unrhyw reswm, e.e. trais yn y cartref

Draft

- yn gadael ysbytai, dalfa'r heddlu, carchardai, y lluoedd arfog a sefydliadau eraill, neu dai â chymorth, heb gartref i fynd iddo, yn gadael dan orfodaeth teulu neu ffrindiau neu o ganlyniad i dor-perthynas, o fewn 56 diwrnod i ddiwedd y denantiaeth, yn wynebu achos meddiant neu fygythiad o droi allan.'

### Polisi a deddfwriaeth

Cyflwynodd Deddf Tai (Cymru) 2014 nifer o newidiadau i ddeddfwriaeth ddigartrefedd statudol a gawsant eu rhoi ar waith o 27 Ebrill 2015, ac sydd wedi arwain at fwy o bwyslais ar atal a lleddfu digartrefedd. Mae'r rhain wedi effeithio ar y ffordd y darperir ac y cofnodir gwasanaethau. Mae'r newidiadau a gyflwynwyd yn gyson â'r heriau a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, sy'n canolbwyntio ar wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, a'r saith nod llesiant am Gymru fwy cyfartal, ffyniannus, gwydn, iach a chyfrifol yn fyd-eang, gyda chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog, a'r iaith Gymraeg yn ffynnu. O dan Adran (10)(1) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi 46 o ddangosyddion cenedlaethol ("dangosyddion cenedlaethol"). Mae Dangosydd 34 yn canolbwyntio ar wasanaethau digartrefedd ac yn ei gwneud yn ofynnol i ni i fesur 'Nifer yr aelwydydd a gafodd eu hatal yn llwyddiannus rhag bod yn ddigartref, fesul 10,000 o gartrefi'.

## 11.2 Beth yr ydym yn ei wybod am y boblogaeth, a'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd

Gall digartrefedd godi o ganlyniad i ystod o resymau gwahanol, gan gynnwys teulu neu berthynas yn chwalu, rhybudd gan y landlord na fydd y denantiaeth yn cael ei hadnewyddu pan ddaw i ben (hysbysiad adran 21), troi allan oherwydd ffactorau megis cyflwr eiddo, ac ôl-ddyledion morgais/rhent. Bydd rhai pobl sy'n wynebu digartrefedd eisoes yn agored i niwed, a gall hyn fod oherwydd eu bod yn ffoi rhag camdriniaeth yn y cartref, yn ifanc, neu'n cael problemau o ran camddefnyddio sylweddau, cyn-droseddu neu faterion iechyd meddwl. Bydd gan rai broblemau iechyd meddwl a phroblemau camddefnyddio sylweddau sy'n cydfodoli – yr hyn a elwir yn 'ddiagnosis deuol'. Gall digartrefedd hefyd gynyddu pa mor agored i niwed y mae unigolyn. Er y bydd rhai pobl sy'n ceisio cymorth, er enghraifft pobl ag anabledd dysgu, pobl hŷn, pobl ag anabledd corfforol/synhwyraidd neu broblemau iechyd meddwl, eisoes yn hysbys i asiantaethau statudol, ac yn cael gwasanaethau eraill, gall pobl eraill fod yn anhysbys iddynt.

Er mai awdurdodau lleol sy'n statudol gyfrifol am ddigartrefedd, mae atal digartrefedd a mynd i'r afael ag ef yn aml yn gofyn am ddull corfforaethol cydlynol, yn ogystal â chyfraniadau gan sefydliadau partner, er enghraifft iechyd, cyfiawnder troseddol, cymdeithasau tai a phartneriaid trydydd sector.

Draft

Mae angen i ymyraethau gan asiantaethau ganolbwyntio ar y ffordd orau o fynd i'r afael â'r tair prif elfen:

a) **Atal digartrefedd:** gan gynnwys rhoi gwybodaeth a chyngor priodol, neu gyfeirio ymgeiswyr at gymorth tenantiaeth a chymorth argyfwng, er enghraifft: cynghori ar ddyledion, cyfryngu teuluol a budd-dal tai.

b) **Adnabod llety addas:** gan gynnwys mapio cyflenwad a galw am dai, sicrhau tai brys a thai dros dro eraill, a threfniadau symud ymlaen ar gyfer pobl sy'n ddigartref, neu bobl y gallent ddod yn ddigartref.

c) **Sicrhau cefnogaeth foddhaol:** gan gynnwys asesu, darparu gwasanaeth Cefnogi Pobl a gwasanaethau cefnogi eraill, adsefydlu, a gwaith allgymorth i atal digartrefedd, lle bo modd.

Bydd cydweithio gyda'r GIG, asiantaethau cyfiawnder troseddol a diogelwch cymunedol, a gwasanaethau cymorth a gomisiynir gan Cefnogi Pobl i ddiwallu anghenion pobl ac aelwydydd sydd mewn perygl o ddigartrefedd, yn cael effaith sylweddol ar ba mor llwyddiannus y gall problemau gael eu datrys, a pha mor gynaliadwy y gall datrysiadau fod o ran tai.

MaeTabl 11.1yn dangos y cafodd tua 1,200 o aelwydydd yng Ngogledd Cymru eu hasesu yn rhai digartref yn 2015-16.

Tabl 11.1 Cyfanswm yr aelwydydd a aseswyd yn ddigartref (Adran 73) , 2015-16

| | **Aelwydydd â phlant dibynnol** | **Aelwydydd un person** | **Grwpiau aelwydydd eraill** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 15 | 78 | 3 | 96 |
| Gwynedd | 45 | 93 | 9 | 150 |
| Conwy | 63 | 228 | 9 | 300 |
| Sir Ddinbych | 54 | 198 | 21 | 270 |
| Sir y Fflint | 36 | 144 | 12 | 190 |
| Wrecsam | 51 | 135 | 6 | 200 |
| Gogledd Cymru | 260 | 880 | 60 | 1,200 |

*Mae'r rhifau wedi'u talgrynnu felly efallai na fyddant yn cyfansymio*
Ffynhonnell: Ystadegau Cymru

Draft

## Digartrefedd

**Map 1:** Aelwydydd a ganfuwyd eu bod yn gymwys ac a fygythir gan ddigartrefedd (Adran 66), 2015-16 – Nifer fesul 10,000 o aelwydydd



## Digartrefedd

**Map 2:** Nifer yr aelwydydd a aseswyd yn rhai digartref (Adran 73) – Nifer fesul 10,000 o aelwydydd



## Digartrefedd

**Map 3:** Nifer yr aelwydydd a aseswyd yn rhai digartref (Adran 73) – Nifer fesul 10,000 o aelwydydd



Tabl 11.2 Canran yr achosion lle y llwyddodd gweithredu cadarnhaol i atal (Adran 66) neu i leddfu (Adran 73 ac Adran 75) digartrefedd, 2015-16

| | **Digartrefedd wedi'i atal yn llwyddiannus % (Adran 66)** | **Digartrefedd wedi'i leddfu yn llwyddiannus % (Adran 73)** | **Datryswyd yn Gadarnhaol % (Adran 75)** |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 60 | 61 | 100 |
| Gwynedd | 85 | 64 | 94 |
| BS Conwy | 70 | 40 | 71 |
| Sir Ddinbych | 55 | 29 | 80 |
| Sir y Fflint | 76 | 54 | 100 |
| Wrecsam | 59 | 53 | 100 |
| Cymru | 65 | 45 | 80 |

*Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu*
Ffynhonnell: Casglu data Digartrefedd Statudol gan awdurdodau lleol
(a) O dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014.
(b) Mae Atal yn llwyddiannus yn cyfeirio at nifer yr aelwydydd lle yr ataliwyd digartrefedd yn llwyddiannus am o leiaf 6 mis, fel canran o'r holl aelwydydd a aseswyd yn rhai dan fygythiad o ddigartrefedd o fewn 56 diwrnod.
(c) Mae Lleddfu yn llwyddiannus yn cyfeirio at nifer yr aelwydydd a gafodd gymorth i gael llety a oedd yn debygol o barhau am 6 mis, fel canran o'r aelwydydd a aseswyd yn rhai digartref o dan Adran 73 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014
(ch) Mae Datryswyd yn gadarnhaol yn cyfeirio at nifer yr aelwydydd y darparwyd llety addas ar eu cyfer, a oedd yn debygol o barhau am 6 mis, fel canran o'r aelwydydd a dderbyniwyd yn rhai cymwys, yn anfwriadol ddigartref, ac mewn angen blaenoriaethol, gyda dyletswydd i ddarparu llety ar eu cyfer (o dan Adran 75 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014).

MaeTabl 11.2uchod yn dangos mai yng Ngwynedd y cafwyd y ganran uchaf o ganlyniadau atal llwyddiannus (Adran 66) ac o ganlyniadau lleddfu digartrefedd llwyddiannus (Adran 73) yng Nghymru yn ystod 2015-16, sef 85 y cant a 64 y cant, yn y drefn honno.

Adroddodd Ynys Môn y nifer isaf o aelwydydd a aseswyd yn rhai digartref, sef 96 o aelwydydd.

Yn ystod 2015-16, cofnododd 9 o'r 22 o awdurdodau lleol gyfraddau o aelwydydd dan fygythiad o ddigartrefedd a oedd yn uwch na chyfartaledd Cymru o 53.7 fesul 10,000 o aelwydydd.

Ar gyfer aelwydydd sy'n cael eu hasesu yn rhai sy'n gymwys i gael cymorth, sy'n anfwriadol ddigartref ac y mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd i sicrhau llety ar eu cyfer (Adran 75), cafodd y digartrefedd ei ddatrys yn gadarnhaol mewn 100 y cant o achosion ledled pedwar awdurdod, sef Ynys Môn, Sir y Fflint, Wrecsam a Blaenau Gwent. Mewn 10 o'r 22 o awdurdodau lleol, roedd canran y canlyniadau o ran datrysiad cadarnhaol yn uwch na chyfartaledd Cymru o 80 y cant.

Draft

Draft

## Adolygiad Ystadegol

Mae tystiolaeth ystadegol ac empirig yn parhau i gadarnhau'r angen am opsiynau llety mwy priodol a fforddiadwy, yn ogystal ag am wasanaethau a all helpu i atal digartrefedd neu wneud tenantiaethau yn y dyfodol yn gynaliadwy. At hynny, cydnabyddir y gall buddsoddi yn y maes hwn leddfu'r pwysau a'r galw ar asiantaethau eraill.

Yn nodweddiadol, yr ystod oedran y mae'n fwyaf tebygol y bydd angen cymorth arni gan y gwasanaethau digartrefedd yw 16 i 24 oed. Pobl rhwng 25 a 40 oed yw'r ail grŵp mwyaf y mae angen cymorth arno. Fodd bynnag, gall digartrefedd effeithio ar bobl o bob oedran, ac ar grwpiau gwahanol o fewn cymdeithas.

Er gwaethaf y cynnydd diweddar trwy ymyraethau a chymorth cynharach i geisio atal digartrefedd, mae gwaith mapio anghenion yn dangos bod anghenion o ran cymorth yn fwy na'r cyflenwad, yn enwedig mewn ardaloedd penodol ac ymhlith rhai grwpiau anodd eu cyrraedd, er enghraifft y rheiny sy'n cael eu cam-drin yn y cartref, cyn-droseddwyr, pobl ifanc ac agored i niwed, a phobl sengl.

Mae yna amrywiadau hefyd yn y math o alw ledled y rhanbarth, er enghraifft, gall digartrefedd ar y stryd fod yn gyffredin ac yn amlwg mewn rhai cymunedau, ond nid mewn eraill. Mae hyn yn gosod heriau o ran ceisio nodi ac ymateb i angen a all fod yn eithaf amrywiol iawn ei natur ac sy'n gallu amrywio rhwng cymunedau cyfagos. Yng Ngogledd Cymru, mae yna hefyd yr her ychwanegol o ddarparu rhai gwasanaethau dros ardal ddaearyddol eang sydd â gwahanol lefelau o angen, lle y gallai fod angen cyflwyno gwasanaethau mewn ffordd arall, er enghraifft, trwy gyfrwng y Gymraeg, lle mae'n anodd sicrhau rhai mathau o ddarpariaeth heb orfod teithio pellteroedd mawr.

## Cefnogi Pobl

Mae cyfran fawr o'r gwasanaethau digartrefedd yng Ngogledd Cymru yn cael eu darparu neu eu cefnogi gyda chyllid Cefnogi Pobl. Roedd y dyraniad grant ar gyfer Cymru yn 2015/16 yn £124.4 miliwn, gyda Gogledd Cymru yn cael £33.8 miliwn. Golyga hyn fod Cefnogi Pobl yn un o gronfeydd refeniw mwyaf y llywodraeth. Ers 2012, mae Gogledd Cymru wedi wynebu gostyngiad yn y cyllid o dros £7 miliwn. Yn ystod 2016/17, cafodd y rhaglen gyllideb sefydlog yn dilyn 3 blynedd o doriadau; fodd bynnag, nid oes unrhyw sicrwydd ynghylch cyllid yn y dyfodol, a gallai hyn effeithio ar y gallu i ddarparu gwasanaethau.

Mae Cyllid Cefnogi Pobl, a chadw'r cyllid hwn, wedi bod yn allweddol o ran cefnogi'r agenda ataliol trwy helpu i leddfu'r galw ar wasanaethau statudol eraill, yn enwedig iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae Canllawiau Grant Rhaglen Cefnogi Pobl (Cymru) 2013 yn amcangyfrif bod £2.38 yn cael ei arbed mewn arian cyhoeddus am bob £1 a warir ar Cefnogi Pobl. Yn ystod 2015/16, bu'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn cefnogi ac yn helpu tua 21,000 o bobl yng

Ngogledd Cymru i ddod o hyd i lety addas a diogel a'i gadw, ac i barhau'n annibynnol.

Gallai gostyngiadau pellach i'r gronfa gael effaith ddomino ar wasanaethau statudol, ac mae'n hanfodol sicrhau ymyraethau cynnar effeithiol i atal problemau rhag gwaethygu i'r gwasanaethau prif ffrwd, a chyrraedd y gwasanaethau cymdeithasol, y gwasanaeth iechyd, neu'r system cyfiawnder troseddol.

Tabl 11.3 Cyllid grant Cefnogi Pobl 2012 i 2017 (£)

| | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 7,900,000 | 7,600,000 | 7,200,000 | 6,500,000 | 6,500,000 |
| Gwynedd | 6,700,000 | 6,400,000 | 6,100,000 | 5,500,000 | 5,500,000 |
| BS Conwy | 7,100,000 | 6,800,000 | 6,500,000 | 5,800,000 | 5,800,000 |
| Sir Ddinbych | 3,200,000 | 3,100,000 | 2,900,000 | 2,600,000 | 2,600,000 |
| Sir y Fflint | 6,200,000 | 5,900,000 | 5,600,000 | 5,000,000 | 5,000,000 |
| Wrecsam | 6,100,000 | 5,800,000 | 5,500,000 | 5,000,000 | 5,000,000 |
| Cymru | 37,000,000 | 36,000,000 | 34,000,000 | 30,000,000 | 30,000,000 |

*Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu*

## 11.3 Beth y mae pobl yn ei ddweud wrthym?

Er bod dadansoddiad cynnar o effaith Deddf Tai (Cymru) 2014 yn dangos cynnydd, ac yn dangos ei fod wedi bod yn bosibl atal digartrefedd, mae'n anodd nodi patrwm a dod i gasgliadau cadarn ar sail un flwyddyn o ddata. Mae ymchwil a phrofiad yn cadarnhau bod rhai unigolion ac aelwydydd y mae angen cymorth arnynt yn byw bywydau cymhleth, ac mae rhai grwpiau o gleientiaid yn parhau i fod yn her wirioneddol i wasanaethau. Mae hyn yn gofyn i asiantaethau weithio'n agos gyda'i gilydd er mwyn gwella'r cyfleoedd i sicrhau opsiynau llety parhaol a chynaliadwy, ac mae'n bwysig bod cefnogaeth barhaus ar gael ochr yn ochr â llety. Gall llety diogel a sicr wella cyfleoedd a siawns pobl mewn bywyd. Fodd bynnag, nid yw darparu llety ar ei ben ei hun yn gwarantu llwyddiant.

**Cyllid grant trosiannol** – Er mwyn hwyluso'r broses o gyflwyno'r Ddeddf Tai, dyrannwyd cyllid grant trosiannol i gefnogi'r broses o weithredu'r ddarpariaeth Ddigartrefedd o fewn y Ddeddf. Mae'r cyllid hwn wedi helpu awdurdodau lleol a phartneriaid i sicrhau manteision cadarnhaol. Fodd bynnag, gallai'r lleihau graddol ar y cyllid hwn, sydd wedi ei dargedu at ardaloedd problemus, ynghyd â'r swm cynyddol o waith papur sy'n gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth newydd, fod yn gryn her, a bydd yn anodd prif ffrydio rhai o'r ymatebion a ddatblygwyd heb ddyrannu adnoddau ychwanegol.

Draft

**Diwygio lles** – Mae cyflwyno Credyd Cynhwysol, yn ogystal â newidiadau cysylltiedig i ddyraniadau budd-dal tai, yn debygol o gael effaith andwyol ar rai unigolion. Mae perygl y bydd rhai grwpiau mewn cymdeithas yn dod yn fwy agored i risg o ddigartrefedd, yn enwedig unigolion sengl dan 35 oed, gan y bydd cyfraddau budd-daliadau diwygiedig yn annigonol i sicrhau opsiynau llety priodol mewn nifer fawr o gymunedau.

**Effaith ar iechyd** – Mae tystiolaeth yn dangos bod unigolion sy'n ddigartref yn fwy agored i iechyd gwael ac y byddant yn dibynnu mwy ar wasanaethau statudol eraill. Mae digartrefedd, neu ddiffyg llety addas i ddychwelyd iddo, wedi cael ei nodi yn ffactor sy'n cyfrannu at rai o'r achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal, ac mae'n hysbys hefyd fod unigolion sy'n ddigartref yn debygol o greu mwy o alw ar wasanaethau iechyd eraill, gan gynnwys y gwasanaeth ambiwlans a derbyniadau i adrannau damwain ac achosion brys (Iechyd Cyhoeddus Cymru 2016).

**Iechyd meddwl** – Mae unigolion sydd â phroblemau iechyd meddwl yn arbennig o agored i niwed ac i ddigartrefedd. Gall sicrhau datrysiadau tai diogel a fforddiadwy fod yn hollbwysig wrth hyrwyddo adferiad a helpu pobl i integreiddio i'r gymuned sefydlog (Rhwydwaith Iechyd Meddwl, Cydffederasiwn y GIG, 2011, t.3). Gall opsiynau llety o ansawdd da leihau'r galw cyffredinol am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae sicrhau bod pobl sy'n byw gyda phroblemau iechyd meddwl yn cael llety addas, sefydlog yn gallu cynorthwyo adferiad a'u helpu i ymgysylltu, i gysylltu, i ddysgu, ac i ddatblygu'r sgiliau bywyd ymarferol y mae eu hangen arnynt i fyw yn dda yn annibynnol, gyda'r lefel angenrheidiol o gymorth priodol. Fodd bynnag, gall llety anaddas neu ddiffyg gwasanaeth cymorth ac ymateb beri i'r problemau waethygu, a chyfrannu at risg gynyddol o droseddu, diffyg cyfleoedd gwaith, a diffyg anghenion cymorth cymdeithasol.

### Galwadau newydd

Trafodir y galwadau ychwanegol sy'n deillio o'r carchar newydd yn Wrecsam, Carchar y Berwyn, ym mhennod 9 *Sefydliadau Diogel*.

## Canfyddiadau o ymgysylltu â sefydliadau

Roedd y materion a nodwyd yn yr arolwg a gynhaliwyd ar gyfer yr asesiad poblogaeth fel a ganlyn:

- Mae angen cymorth byrdymor a hirdymor priodol ar gyfer unigolion sy'n cael eu hunain yn ddigartref.
- Mae angen cymorth ymhlith pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig na all y gwasanaethau cymorth megis BAWSO ei ddiwallu ar hyn o bryd. Maent yn

Draft

ymwybodol o bobl sydd wedi colli eu tenantiaethau neu sydd wedi mynd i ddyled. Maent yn argymell darparu cymorth arbenigol.
- Nododd un sefydliad brinder llety un ystafell wely ledled y rhanbarth. Mae hyn yn arbennig o bwysig ers cyflwyno'r cymhorthdal ystafell sbâr, ac yn wyneb gostyngiad arfaethedig mewn Budd-dal Tai i denantiaid mewn tai cymdeithasol sydd o dan 35 oed.
- Mae yna bryderon cyffredinol ynghylch gallu pobl dan 25 oed i fforddio llety oherwydd y newidiadau o ran diwygio lles.
- Mewn ymateb i gwestiynau am y pwyslais newydd yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ar gymorth gan deulu, ffrindiau a'r gymuned leol, dywedodd un sefydliad nad yw llawer o bobl ddigartref yn cael unrhyw gymorth gan deulu neu ffrindiau gan fod y berthynas wedi torri i lawr, a dyna pam eu bod yn ddigartref yn y lle cyntaf.

I gael rhagor o wybodaeth am yr arolwg, gweler atodiad x.

## Ymgysylltu â phobl sy'n ddigartref

Fel rhan o'r broses ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth ar gyfer yr asesiad poblogaeth, cynhaliwyd grŵp ffocws gyda grŵp o bobl ddigartref a phobl â phroblemau o ran camddefnyddio sylweddau. Roedd yr adborth gan y grŵp yn cynnwys pryder nad oedd gwasanaethau yn deall eu hanghenion. Er enghraifft, meddygon a oedd yn gwneud rhagdybiaethau neu nad oeddent yn gwrando, swyddogion tai nad oedd yn deall materion iechyd meddwl, neu gael eu 'categoreiddio' gan staff yn y Ganolfan Waith, yr Adran Gwaith a Phensiynau a gwasanaethau iechyd. Soniodd un unigolyn fod teithio i gyfweliadau ac i'r gwaith yn broblem, a dywedodd unigolyn arall, y mae ganddo anawsterau dysgu, am y broblem o ddod o hyd i hyfforddiant priodol. Gall rheoli arian fod yn anodd os oes yna faterion yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau, neu pan fo anawsterau o ran hawlio'r budd-daliadau cywir neu lenwi'r ffurflenni angenrheidiol. Gall dod o hyd i lety fod yn anodd, yn enwedig os yw unigolyn yn dod o'r tu allan i'r ardal. Gall cael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl hefyd fod yn anodd. Soniodd eraill am yr heriau y maent yn eu hwynebu o ganlyniad i broblemau iechyd, er enghraifft cysgu llawer a chael trafferth gyda sefyllfaoedd cymdeithasol oherwydd iselder.

Roedd pobl a gafodd gyfweliad yn cael cymorth gan y gwasanaethau canlynol: Arc Communities, Canolfan Dawn, Nyrs Seiciatrig Cymunedol, gweithiwr Nacro, Cais, Hafal ac Aberconwy Mind (gan gynnwys prosiect celf). Roedd ffrindiau, teulu ac aelodau eraill o'r gymuned hefyd yn darparu rhywfaint o gymorth, ond roedd yna sylw ynghylch 'llosgi pontydd' â ffrindiau a theulu.

Roedd gan bobl safbwyntiau cymysg ar ansawdd y cymorth – dywedodd rhai fod angen mwy o amser, ei fod yn teimlo fel brwydr i gael cymorth, a bod strwythurau yn newid a chyllid yn cael ei dynnu. Dywedodd un unigolyn:



Drafft

> 'Weithiau mae eich problemau eich hun yn rhwystr i gael help, nid ydych bob amser yn gwybod bod angen help arnoch hyd nes ei bod yn rhy hwyr'.

Roedd meysydd lle roedd angen mwy o help ar bobl yn cynnwys llety, mynediad i gyfleoedd cyflogaeth, cymryd meddyginiaeth ragnodedig, a chynllunio o ran camddefnyddio sylweddau. Gall atgyfeiriadau i Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol gymryd hyd at bedair wythnos pan weithiau nid yw'r mater yn un a all aros. Dywedodd pobl bod arnynt angen rhywun i siarad â nhw, teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt, a chael parhad o ran staff.

Dywedodd aelod o staff:

> 'Oherwydd y credyd cynhwysol a newidiadau i fudd-daliadau [nid yw rhent bellach yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'r landlord] bydd llawer mwy o bwysau a mwy o bobl yn mynd yn ddigartref.'

Am ragor o wybodaeth am y gweithgareddau ymgysylltu, gweler atodiad x.

## 11.4 Casgliad ac argymhellion

Mae gwybodaeth sy'n ymwneud â'r flwyddyn weithredu gyntaf (data 2015-16) yn awgrymu bod y newidiadau a gyflwynwyd yn Neddf Tai (Cymru) 2014 yn cael effaith gadarnhaol, a bod y pwyslais ar ymyrraeth gynharach ac atal digartrefedd yn darparu canlyniadau gwell ar gyfer unigolion. Fodd bynnag, mae heriau sylweddol yn parhau. Mae'n bosibl y bydd peth o'r cynnydd cychwynnol yn cael ei lesteirio os bydd y cyllid trosiannol a ddyrannwyd yn cael ei dynnu.

Mae'n rhaid i ni hefyd fod yn ymwybodol o'r effaith y gall newidiadau o fewn gwasanaethau eraill ei chael ar ddigartrefedd ac, yn yr un modd, yr effaith y gall pobl ddigartref ei chael ar wasanaethau eraill. Disgwylir i ddiwygio lles, ac yn arbennig newidiadau i Fudd-dal Tai a chyflwyno Credyd Cynhwysol, gynyddu'r galw ar rai gwasanaethau, yn enwedig gan rai grwpiau yn y gymuned, er enghraifft pobl ifanc, ac y bydd hyn yn creu heriau newydd. Felly, mae'n hollbwysig ein bod yn ceisio canolbwyntio ar nodi ffyrdd o sicrhau'r gwerth mwyaf, ac yn ystyried sut y gallwn gyfuno ymdrech ac adnoddau a chanolbwyntio ar ddull ataliol o fynd i'r afael â digartrefedd, a all helpu i ddarparu canlyniadau cadarnhaol i bobl agored i niwed, a gobeithio osgoi'r angen am ymyraethau mwy dwys a chostus.

### Y prif negeseuon

**Newidiadau i'r budd-daliadau lles** – Nid yw effaith y newidiadau arfaethedig i'r budd-daliadau lles, yn enwedig y rhai a neilltuwyd tuag at gostau sy'n gysylltiedig â thai, wedi ei graddnodi eto gyda'r system. Rhagwelir y bydd rhai unigolion a grwpiau yn profi gostyngiadau sylweddol yn y cyllid ar gyfer cymorth tuag at dai, a bydd yn dod yn fwy anodd sicrhau opsiynau llety priodol

Draft

ac addas ar y lefelau is hyn. Mae yna gydberthyniad eithaf agos rhwng rhai o'r grwpiau yr effeithir arnynt yn y modd mwyaf andwyol a grwpiau y mae'n hysbys ar hyn o bryd eu bod yn fwy bregus ac agored i ddod yn ddigartref. Mae yna bryderon hefyd y bydd cyflwyno Credyd Cynhwysol – sy'n cyfuno taliadau'r holl fudd-daliadau, ac nad yw'n caniatáu i'r elfen rent gael ei throsglwyddo yn awtomatig i'r landlord – yn arwain at broblemau. Mae ymchwil o ardaloedd sydd wedi cyflwyno credyd cynhwysol yn adrodd am lefel uwch o ôl-ddyledion a allai, dros gyfnod o amser, fod yn broblematig gan effeithio ar gynaliadwyedd tenantiaethau.

**Comisiynu rhanbarthol** – Er mai'r nod fydd darparu'r mwyafrif helaeth o wasanaethau digartrefedd mor agos â phosibl at gymuned wreiddiol yr unigolyn a, lle bo hynny'n bosibl, o fewn ffiniau awdurdodau lleol, bydd angen cynllunio a darparu rhai gwasanaethau digartrefedd yn rhanbarthol. Lle nad yw'n bosibl nac yn gosteffeithiol ymateb i anghenion yn lleol, byddwn yn defnyddio partneriaethau strategol hirdymor, er enghraifft y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol a grwpiau cynllunio lleol, i ystyried anghenion a blaenoriaethau o ran tai ledled ardaloedd yr awdurdodau lleol.

**Lleoliadau y tu allan i'r Ardal –** Mae'r rhan fwyaf o bobl agored i niwed sy'n ceisio cymorth yn tueddu i fod yn sefydlog o ran lleoliad, gan aros o fewn eu hardal yn hytrach na symud o un ardal i'r llall. Fodd bynnag, mae rhywfaint o symud ar draws ffiniau yn digwydd, ac weithiau bydd angen cefnogi unigolion a hwyluso'r broses adsefydlu. Mae deddfwriaeth ac arfer gorau yn awgrymu y dylai lleoliadau y tu allan i'r sir fod yn bethau eithriadol, ac yn seiliedig ar ystyriaethau megis diogelwch personol a chyhoeddus. Lle bydd achosion o'r fath yn codi, mae angen trafod cydweithredu trawsffiniol yn ogystal â chynnal rhwydweithiau cymorth presennol defnyddwyr gwasanaethau, a hynny ar y cam cynharaf posibl.

**Rhannu Cyfrifoldeb** – Bydd gan Gymdeithasau Tai a darparwyr cymorth yn y trydydd sector sydd â phrofiad o gyflwyno gwasanaethau i grwpiau agored i niwed penodol, rôl bwysig wrth gynorthwyo ymdrechion sefydliadau statudol. Bydd yna angen parhaus i ddarparu gwasanaethau cymorth sy'n ategu'r sector statudol, gan ein bod yn rhagweld cynnydd cyson yn y boblogaeth hyd at 2020.

## Bylchau yn y gwasanaeth/cymorth

- Diffyg llety i bobl sengl
- Darpariaeth gyfyngedig mewn hosteli
- Prinder darpariaeth arbenigol ar gyfer unigolion sydd â chyflyrau meddygol parhaus
- Bylchau mewn gwasanaethau cymorth



Draft

## Cydraddoldeb a hawliau dynol

Mae'r bennod hon yn cydnabod y gall llawer o bobl sy'n ddigartref gael eu nodi yn bobl â nodweddion a ddiogelir, er nad yw digartrefedd ynddo'i hun yn nodwedd a ddiogelir, ac, o ganlyniad, gellir effeithio arnynt yn anghymesur a gallant fod yn fwy agored i niwed a/neu risg.

Mae'r bennod hon yn amlygu data sy'n dangos effeithiau anghymesur o ran oedran ac ethnigrwydd. Mae'n amlygu'n benodol mai'r ystod oedran y mae'n fwyaf tebygol y bydd angen cymorth arni gan y gwasanaethau digartrefedd, fel arfer, yw 16 i 24 oed. Pobl rhwng 25 a 40 oed yw'r ail grŵp mwyaf y mae angen cymorth arno. Mae'r bennod hon yn nodi bod yna angen am gymorth ymhlith pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BME) gyda materion tai. Mae hefyd yn trafod gwendidau ychwanegol y gall pobl feddu arnynt, er enghraifft anabledd dysgu, pobl hŷn, pobl ag anabledd corfforol/synhwyraidd, camddefnyddio sylweddau a/neu broblemau iechyd meddwl.

Mae yna grwpiau eraill â nodweddion a ddiogelir a allai hefyd gael eu heffeithio oherwydd digartrefedd. Mae angen rhagor o wybodaeth am anghenion siaradwyr Cymraeg, er enghraifft. Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn myfyrio ar ystyriaethau ac effeithiau pellach. Efallai bod yna faterion eraill sy'n effeithio ar bobl â'r nodweddion a ddiogelir nad ydynt wedi'u nodi gan yr asesiad hwn. Gellid mynd i'r afael â wrth adolygu'r asesiad poblogaeth yn y dyfodol, wrth ddatblygu'r cynllun ardal, neu yn y gwasanaethau a fydd yn cael eu datblygu neu eu newid mewn ymateb i'r cynllun.

Rhaid i wasanaethau sy'n cefnogi digartrefedd fabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n rhoi ystyriaeth i anghenion gwahanol pobl â nodweddion a ddiogelir, a bydd hwn yn ddull parhaus yn ystod y gwaith o ddatblygu cynlluniau gweithredu yn y dyfodol, ac yn chwarae rôl allweddol o ran datblygu gwasanaethau.

Byddem yn croesawu unrhyw dystiolaeth benodol bellach a allai helpu i lywio'r asesiad terfynol.

Draft

# Cyfeiriadau

Digartrefedd yng Nghymru, 2015-16
http://gov.wales/statistics-and-research/homelessness/?lang=cy

Cynllun Comisiynu Rhanbarthol Cefnogi Pobl Gogledd Cymru 2016-17

Adolygiad Blynyddol Pwyllgor Rhanbarth Gogledd Cymru Ebrill 2015 Mawrth 2016

Canllawiau Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl (SPPG) (Cymru) 2013

Straeon Ein Pobl – Gwella Bywydau, Arbed Costau – cyhoeddiad Pwyllgor Cydweithredo Rhanbarthol Gogledd Cymru 2016

Mae Canllawiau Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.
http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/services-and-support/supporting-people/publications/sppgguide/?skip=1&lang=cy

**Cronfa ddata dadansoddiad cost a budd economi newydd 2013**
https://www.gov.uk/government/publications/supporting-public-service-transformation-cost-benefitanalysis-guidance-for-local-partnerships

**Datganiad Comisiynu Byw â Chymorth (Iechyd Meddwl) Gogledd Cymru**

Iechyd Cyhoeddus Cymru (2016). Adroddiad terfynol yr asesiad anghenion gofal iechyd a phroffil iechyd: pobl ddigartref. Ar ran cynllun gweithredu iechyd grwpiau digartref ac agored i niwed Gogledd Cymru/BIPBC.

Draft

# 12 Anhwylder y Sbectrwm Awtistiaeth (ASA)

## Cynnwys


12 Anhwylder y Sbectrwm Awtistiaeth (ASA) ........ 1

12.1 Ynglŷn â'r bennod hon ........ 2

Beth yw ystyr y term Anhwylder y Sbectrwm Awtistiaeth? ........ 2

Diogelu ........ 2

12.2 Beth yr ydym yn ei wybod am y boblogaeth? ........ 3

12.3 Beth y mae pobl yn ei ddweud wrthym? ........ 5

12.4 Adolygiad o'r gwasanaethau a gynigir ar hyn o bryd ........ 6

12.5 Casgliad ac argymhellion ........ 7

Cyfeiriadau ........ 9


Draft

## 12.1 Ynglŷn â'r bennod hon

Mae'r bennod hon yn cynnwys anghenion poblogaeth dinasyddion ag Anhwylder y Sbectrwm Awtistiaeth. Mae yna benodau ar wahân ar gyfer anableddau dysgu ac iechyd meddwl [add link].

### Beth yw ystyr y term Anhwylder y Sbectrwm Awtistiaeth?

Mae Anhwylder y Sbectrwm Awtistiaeth (ASA) yn gyflwr niwroddatblygiadol sydd fel arfer yn ymddangos yn gynnar mewn plentyndod (yn aml, ond nid bob amser, mae'n amlwg erbyn tair oed). Mae'r cyflwr yn un gydol oes. Fodd bynnag, gall y nodweddion craidd a ddangosir newid wrth i'r unigolyn ddatblygu. Mae ASA yn effeithio ar dri maes eang o ran gweithredu:

- Dealltwriaeth gymdeithasol a rhyngweithio cymdeithasol cyfatebol
- Cyfathrebu – yn arbennig cyfathrebu cyfatebol mewn cyd-destun cymdeithasol
- Anawsterau yn ymwneud â diddordebau cyfyngedig, ymddygiad ailadroddus, ac anawsterau synhwyraidd sylweddol

Mae ASA yn gyflwr sy'n bodoli ar draws yr ystod gallu, o'r rheiny sydd ag anabledd dysgu dwys/sylweddol i'r rheiny sy'n abl iawn yn ddeallusol (er enghraifft, y rheiny sydd ag IQ yn yr ystod uwch).

Dros amser, cafodd nifer o labeli eu defnyddio i ddisgrifio'r cyflwr, yn cynnwys Awtistiaeth, Awtistiaeth yn ystod Plentyndod, Awtistiaeth Uwch-weithredol, a Syndrom Asperger. Gan fod pob un o'r cyflyrau hyn yn rhannu'r meysydd craidd o ran anawsterau a amlinellir uchod, mae'n arfer cyfredol, erbyn hyn, defnyddio'r categori diagnostig byd-eang o ASA. Ar hyn o bryd, mae yna ddadl ynghylch a yw'n fwy priodol defnyddio Cyflwr y Sbectrwm Awtistiaeth (CSA), yn hytrach nag ASA. Fodd bynnag, yr ail derm sy'n cael ei ddefnyddio mewn llawlyfrau diagnostig cyfredol.

### Diogelu

Mae'n hysbys bod oedolion ag anabledd dysgu yn agored i gael eu cam-drin a'u hecsbloetio, a gall hyn ddigwydd mewn lleoliadau cymunedol a phreswyl (NICE, 2015); byddai hyn hefyd yn cynnwys pobl ag ASA. Mae staff wedi nodi bod yna broblemau sylweddol o ran diogelwch mewn perthynas â defnyddio'r Rhyngrwyd gan bobl ag ASA, yn ogystal â phryder o ran radicaliaeth. Mae bwlio hefyd yn broblem i bobl ag ASA, ac yn enwedig i bobl ifanc â Syndrom Asperger mewn ysgolion prif ffrwd. Mae'n bosibl iawn fod yna risg uwch o ran Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant ymhlith pobl ag ASA/Syndrom Asperger.

Draft

## 12.2 Beth yr ydym yn ei wybod am y boblogaeth?

Yn 2011, tybiwyd bod gan rhwng 0.6% ac 1% o boblogaeth y DU ASA, gyda chymhareb gwrywod:benywod o 4:1. Mae amcangyfrifon o nifer yr achosion o ASA wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod yr ychydig ddegawdau diwethaf, ac mae rhai astudiaethau yn priodoli hyn i ehangu'r cysyniad o ASA, yn ogystal â mwy o ymwybyddiaeth o'r cyflwr, yn hytrach nag i gynnydd gwirioneddol yn y niferoedd o achosion, ond ni ellir diystyru hyn.

Roedd nifer yr achosion o ASA yn y boblogaeth yn 2011 yn dangos y canlynol:

- 1.1% mewn pobl 16 i 44 oed
- 0.9% mewn pobl 45 i 74 oed
- 0.8% mewn pobl 75 oed a hŷn.

Mae yna awgrym cryf fod yna achosion o oedolion ag ASA a fethwyd; dim ond ers dechrau'r 1990au y mae asesiad ar gyfer ASA wedi bod ar gael, ac mae'r asesiad hwn wedi canolbwyntio'n bennaf ar blant.

Mae'r ffigurau ar gyfer cyfanswm nifer y bobl 19 oed a hŷn yr amcangyfrifir y mae ganddynt ASA yng Ngogledd Cymru i'w gweld isod, ynghyd â rhagfynegiadau ar gyfer y dyfodol. Mae'r ffigurau hyn yn dangos cynnydd yn y nifer a ragwelir o bobl 18 oed a hŷn ag ASA yng Ngogledd Cymru.

**Ffigur 12.1** Plant 0 i 17 oed y rhagwelir y bydd ganddynt ASA erbyn 2035 yng Ngogledd Cymru




Ffynhonnell: Daffodil

**Tabl 12.1** Plant 0 i 17 oed y rhagwelir y bydd ganddynt ASA erbyn 2035

| | 2015 | 2020 | 2025 | 2030 | 2035 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 159 | 163 | 164 | 155 | 145 |
| Gwynedd | 267 | 265 | 268 | 271 | 277 |
| Conwy | 252 | 254 | 254 | 242 | 227 |
| Sir Ddinbych | 226 | 232 | 237 | 231 | 222 |
| Sir y Fflint | 372 | 373 | 368 | 349 | 332 |
| Wrecsam | 348 | 365 | 373 | 368 | 364 |
| Gogledd Cymru | 1,624 | 1,652 | 1,664 | 1,616 | 1,567 |

Ffynhonnell: Daffodil

**Ffigur 12.2** Cyfanswm y boblogaeth dros 18 oed y rhagwelir y bydd ganddynt ASA erbyn 2035




**Tabl 12.2** Cyfanswm y boblogaeth dros 18 oed y rhagwelir y bydd ganddynt anhwylderau'r sbectrwm awtistig

| | 2015 | 2020 | 2025 | 2030 | 2035 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 553 | 550 | 547 | 546 | 544 |
| Gwynedd | 986 | 1,017 | 1,046 | 1,074 | 1,095 |
| Conwy | 913 | 923 | 932 | 942 | 950 |
| Sir Ddinbych | 744 | 765 | 783 | 803 | 821 |
| Sir y Fflint | 1,201 | 1,217 | 1,227 | 1,241 | 1,246 |
| Wrecsam | 1,094 | 1,148 | 1,204 | 1,264 | 1,321 |
| Gogledd Cymru | 5,491 | 5,620 | 5,739 | 5,870 | 5,977 |

Ffynhonnell: Daffodil

## Proffil y Gymraeg

Mae yna amrywiaeth ledled Gogledd Cymru o ran cyfran y bobl y mae'r Gymraeg yn iaith a ffefrir ganddynt. Mae hyn yn golygu bod yna anghenion amrywiol ledled Gogledd Cymru o ran staff cymorth sy'n siarad Cymraeg ac sy'n gallu cefnogi iaith ac anghenion diwylliannol siaradwyr Cymraeg ag ASA. Mae'r angen yn tueddu i gael ei ddiwallu'n well mewn ardaloedd lle mae mwy

o bobl yn siarad Cymraeg, er enghraifft Gwynedd, nag mewn ardaloedd tebyg i Sir Ddinbych a Chonwy, lle mae recriwtio staff cymorth sy'n siarad Cymraeg wedi bod yn dasg anodd (AGGCC 2016). Mae mwy o wybodaeth ar gael ym mhroffil y Gymraeg a gynhyrchwyd ar gyfer yr asesiad poblogaeth [add link].

## 12.3 Beth y mae pobl yn ei ddweud wrthym?

Mae cynllunio ar gyfer gwasanaethau ASA yn dasg anodd. Nid yw gwasanaethau anableddau dysgu traddodiadol yn ddigon hyblyg ac ymatebol i ddiwallu anghenion pobl ag ASA. Mae nifer y bobl sy'n cael diagnosis wedi cynyddu yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, ers i feddyg penodol ar gyfer ASA ymddeol, nid yw'r gwasanaethau wedi parhau i ddatblygu yng Ngogledd Cymru.

Mae'r gyfradd hunanladdiad ymhlith pobl ag ASA yn uchel, ac mae yna gyfran uchel yn y carchar; gall hyn fod oherwydd cyfuniad o anawsterau â'r system a naïfrwydd.

Dywed rhieni plant ag ASA fod gofalu am blentyn â'r cyflwr yn heriol oherwydd problemau ymddygiad. Ychydig iawn o gefnogaeth sydd ar gael o ran llesiant emosiynol ar gyfer teuluoedd er mwyn iddynt allu parhau i ddarparu'r gofal, a chael perthnasoedd teuluol da. Byddai rhieni yn hoffi i'r gymuned fod yn fwy ymwybodol o awtistiaeth (gan ei fod yn anabledd cudd), a bod yn fwy parod i'w dderbyn.

Mae rhieni hefyd yn crybwyll anallu i gael mynediad at gyngor amserol, diffyg gweithgareddau cymdeithasol, sy'n arwain at arunigedd cymdeithasol, yn ogystal â diffyg hyfforddiant a chymorth i reoli problemau ac ymddygiadau.

Mae bylchau yn y ddarpariaeth yn rhwystredig i rieni ac oedolion ag ASA, ac mae yna batrwm o ran anghenion heb eu diwallu ledled yr holl weithgareddau yr ymgymerir â hwy.

Yn aml, nid yw llawer o bobl ag ASA, yn enwedig y rheiny sy'n uwch-weithredol, yn gymwys i gael gwasanaethau a chymorth iechyd meddwl a gofal cymdeithasol. Ond, yn aml, bydd gan nifer ohonynt anghenion cymorth lefel isel a allai ddatblygu i fod yn broblemau iechyd meddwl mwy difrifol, digartrefedd, ac anawsterau ariannol, os nad eir i'r afael â hwy.

Mewn perthynas â chymorth a darpariaeth barhaus, mae'r meysydd yr adroddir amlaf arnynt o ran anghenion heb eu diwallu ar gyfer plant ac oedolion fel a ganlyn:

- cymorth ar gyfer materion emosiynol/ymddygiadol;
- cymorth ar gyfer materion sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag ASA a sgiliau bywyd;

Draft

- mynediad at gyfleoedd o ran cymdeithasu a hamdden o fewn eu cymunedau eu hunain; a
- chymorth seibiant ar gyfer teuluoedd.

Yn ogystal â diffyg cymorth, dywedir bod y ddarpariaeth addysg o ran ymwybyddiaeth o ASA yn aml yn broblem ar gyfer plant ag ASA, a bod diffyg cymorth ar gyfer cyflogaeth yn angen heb ei ddiwallu ar gyfer oedolion.

Dywedodd y gwaith cenedlaethol yn 2015 fod yna dair thema newydd ar draws pob maes angen a phob oedran.

- Mae yna ddiffyg sgiliau a gwybodaeth i gefnogi unigolion ag ASA ymhlith staff o fewn gwasanaethau generig a gwasanaethau cymunedol.
- Mae'r meini prawf cymhwystra ar gyfer gwasanaethau haen 2 a 3 yn golygu bod unigolion ag ASA Uwch-weithredol (a'u gofalwyr) yn disgyn i'r bylchau rhwng gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau anableddau dysgu, ac felly ni chânt fynediad at gymorth emosiynol, ymddygiadol, iechyd meddwl lefel isel a sgiliau bywyd.
- Mae angen addasu cymorth a gwasanaethau generig sy'n bodoli yn y gymuned er mwyn iddynt fod yn addas ar gyfer unigolion ag ASA oherwydd eu hanghenion penodol.

## 12.4 Adolygiad o'r gwasanaethau a gynigir ar hyn o bryd

Ymddengys bod gwasanaethau a chymorth i blant ag ASA yn gwahaniaethu o sir i sir, a'u bod yn cael eu darparu gan sefydliadau gwahanol, yn dibynnu ar oedran y plant. Er enghraifft, yng Ngwynedd ar hyn o bryd mae plant yn cael eu hasesu gan dîm integredig plant anabl Derwen os ydynt o dan bump oed, a chan CAMHS os ydynt dros bump oed. Os bydd gan y plant hyn anabledd dysgu hefyd, byddant yn mynychu Derwen.

Ym mis Ebrill 2008, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistiaeth (ASA) ar gyfer Cymru. Nod y cynllun oedd nodi sut i ddiwallu anghenion unigolion ag ASA, eu teuluoedd a'u gofalwyr, ac roedd yn ofynnol i bob cyngor lleol ddatblygu ei gynllun lleol ei hun.

Mae'r mwyafrif o'r gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer pobl ag ASA yn cael ei ddarparu gan sefydliadau'r trydydd sector. Mae yna sefydliadau cenedlaethol sy'n darparu gwasanaeth yng Ngogledd Cymru, er enghraifft Autism Initiatives, yn ogystal â grwpiau cefnogi mwy lleol, er enghraifft Grŵp Cefnogi Asperger/Awtistiaeth Gwynedd a Môn. Mae Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth hefyd yn darparu gwasanaeth gofal cartref.

Yn genedlaethol, adnewyddwyd Cynllun Gweithredu Strategol ASA ar gyfer Cymru, ac yn 2015 cyhoeddwyd cynllun cyflawni dros dro i alluogi gwaith

Draft

datblygu pellach i gael ei wneud i lywio'r gwaith o ddatblygu polisïau. Roedd y cynllun yn cynnwys ymrwymiad i ymgymryd ag ymarfer cwmpasu i archwilio'r ddarpariaeth sy'n bodoli, er mwyn mynd i'r afael â'r bwlch yn y gwasanaethau yng Nghymru. Archwiliwyd hefyd anghenion heb eu diwallu yn rhan o'r gwerthusiad o'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer ASA. Casglwyd tystiolaeth bellach trwy ymgynghori â rhanddeiliaid yn ystod 2015, ac amlygwyd bylchau yn y gwasanaethau, a nodwyd galw am gymorth ataliol lefel isel. O ganlyniad i'r gwaith ymchwil diweddaraf, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu gwasanaeth awtistiaeth integredig, a fyddai'n golygu datblygu ymhellach y ddarpariaeth o ran asesiad diagnostig ar gyfer oedolion, yn ogystal â chymorth gydol oes ar gyfer unigolion ag ASA a'r rheiny sy'n eu cefnogi. Bydd y gwasanaeth hwn yn cael ei gyllido o Gronfa Gofal Canolraddol Llywodraeth Cymru. Bydd y gwasanaeth ASA newydd hwn yn fodel gwasanaethau integredig, a bydd wedi'i leoli o fewn strwythurau sy'n bodoli, ac yn eu cefnogi.

## 12.5 Casgliad ac argymhellion

Mae plant a phobl ag ASA yn adrodd ar anghenion heb eu diwallu mewn perthynas â:

- chymorth ymddygiadol/emosiynol;
- materion sy'n ymwneud yn benodol ag ASA a sgiliau bywyd; a
- mynediad at wasanaethau cymdeithasol a hamdden, a chyfle yn y gymuned.

Efallai y bydd gan blant a phobl ag ASA anabledd dysgu neu anabledd dysgu ysgafn, neu beidio. Efallai y bydd gan blant a phobl ag ASA anawsterau iechyd meddwl cymedrol, neu efallai y byddant yn datblygu anawsterau iechyd meddwl cymedrol os na fydd cymorth ar gael iddynt yn gynnar iawn.

Mae gwasanaeth Awtistiaeth cenedlaethol yn cael ei ddatblygu, a ariennir o Gyllid Gofal Canolraddol Llywodraeth Cymru, a bydd y gwasanaeth yn datblygu yng Ngogledd Cymru yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf, a hynny yn rhan o raglen gyflwyno tair blynedd. Bydd y gwasanaeth hwn yn cael ei adeiladu ar arfer gorau ac ymchwil, a bydd ar gael ar gyfer pob oedran.

Hefyd, mae'n bwysig bod y cymorth sydd ar gael ar hyn o bryd yng Ngogledd Cymru trwy amrediad o sefydliadau trydydd sector sy'n gweithredu yn yr ardal, yn parhau, a'u bod yn ategu'r gwasanaeth cenedlaethol. Dylid hysbysebu argaeledd gwasanaethau cymorth o'r fath yn eang, fel y gall y rheiny y mae angen cymorth arnynt gael mynediad atynt.

Mae yna fylchau o ran codi ymwybyddiaeth ynghylch ASA ar gyfer y cyhoedd, cyflogwyr, staff a meysydd eraill o'r gwasanaethau cyhoeddus, er enghraifft canolfannau hamdden a chludiant cyhoeddus.

Draft

Er bod yna amrediad cynhwysfawr o wybodaeth ar y we, nid oes modd gwybod pa un a yw pobl yn defnyddio hyn ai peidio – mae angen codi ymwybyddiaeth o argaeledd gwasanaethau a chymorth ar wefannau tebyg i DEWIS.

Mae angen hyfforddiant i wella'r ddealltwriaeth o effeithiau a goblygiadau ASA, yn enwedig mewn perthynas â rheoli ymddygiad a strategaethau ymdopi, ac mae angen i hyn ddigwydd ar draws y sectorau, ac yn arbennig yn y gwasanaethau addysg. Nodir hefyd fod angen hyfforddi'r gwasanaeth heddlu i adnabod a oes gan unigolyn ASA. Yn ddelfrydol, dylai'r hyfforddiant hwn gael ei ddatblygu ar y cyd ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, ac mae'n cynnwys y canlynol yn benodol:

- rheoli diddordebau arbennig,
- y cyfnod pontio o fod yn blentyn i fod yn oedolyn,
- tai a byw yn y gymuned,
- cyflogaeth a hyfforddiant,
- cefnogaeth ar ôl diagnosis ar gyfer partneriaid ac aelodau o'r teulu,
- arunigedd cymdeithasol, datblygu sgiliau cymdeithasol a chynnal perthnasoedd,
- cadw'n ddiogel/ymyraethau gwrth-fictimeiddio,
- awtistiaeth mewn benywod,
- dynion ac awtistiaeth,
- cadw'n iach a rheoli gorbryder,
- ymddygiad heriol a rheoli dicter.

Yn olaf, bydd yna lwybr niwrolegol datblygiadol newydd, sef gwasanaeth a fydd ar gael i blant a phobl ifanc nad ydynt yn ffitio i'r llwybrau CALDS/CAMHS ar gyfer diagnosis a chymorth, a sefydlir yn gynnar yn 2017 yng Nghonwy/Sir Ddinbych – os bydd hyn yn llwyddiannus, dylai fod ar gael ledled Gogledd Cymru.

Draft

# Cyfeiriadau

ASDinfoWales (2016) *Gwasanaeth Awtistiaeth Cenedlaethol: Cefndir a Gwybodaeth Arweiniol.* Ar gael yn: https://ASDinfoWales.co.uk

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (2011) *Gwasanaethau Iechyd Meddwl ar gyfer Oedolion ag Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistiaeth yng Ngogledd Cymru*

Cyswllt Conwy ar gyfer Anableddau Dysgu (2009) *Cau'r Bwlch: Adroddiad ar ymgynghoriad ar y gwasanaethau awtistiaeth yng Nghonwy*.

Cyngor Sir Ddinbych (2016) *Strategaeth Comisiynu Drafft ar gyfer Oedolion ag Anhwylder y Sbectrwm Awtistiaeth 2016-2020*

NICE (2015) *Challenging behaviour and learning disabilities: prevention and interventions for people with learning disabilities whose behaviour challenges.* Canllawiau NICE [NG11]: NICE. Ar gael yn: https://www.nice.org.uk/guidance/ng11/chapter/introduction

Draft

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **14.2.17** |
| **Pwnc:** | **Cymeradwyo Strategaeth Gomisiynu a Chynllun Gwario Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl.** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cynghorydd Aled Morris Jones** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Shan Lloyd Williams** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | **Arwel Jones, Prif Swyddog Datblygu, Gwasanaethau Tai**<br>**01248 752064** |
| **Aelodau Lleol:** | |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

1. Cymeradwyo argymhellion y Cynllun Comisiynu Cefnogi Pobl 2017-20
   a,

2. Cymeradwyo'r dyraniad o gyllid ar gyfer pob maes Gwasanaeth, fel yr amlinellir ar dudalen 47 o'r Cynllun Comisiynu Cefnogi Pobl.

**Rhesymau**

**1.0 Cyflwyniad**

1.1 Mae'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn fenter fframwaith polisi a chyllid gan Lywodraeth Cymru sy'n darparu cefnogaeth sy'n ymwneud â thai ar gyfer amrywiaeth o grwpiau o bobl ond rhai sydd yr un mor fregus â'i gilydd. Nid yw'r gwasanaethau yn cynnwys ariannu'r llety na'r gofal na'r ddarpariaeth iechyd.

1.2 Mewn llythyr a dderbyniwyd oddi wrth Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2016, dywedwyd mai oddeutu £2,643,866 fyddai'r dyraniad i Ynys Môn ar gyfer 2017-2018. Bydd hyn yn weithredol o 1.4.17.

1.2 Mae'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn canolbwyntio ar gynllunio, comisiynu llety â chefnogaeth a chefnogaeth ar wasgar fel bo'r angen ac a ddarperir gan wahanol ddarparwyr ar draws amrywiaeth o ddeiliadaethau sy'n cynnwys llety hygyrch a fforddiadwy, stoc tai cyngor, stoc cymdeithasau tai, rhentu preifat, tai gwarchod,

perchen ddeiliaid, byw â chymorth, tenantiaethau â chymorth a thai gofal ychwanegol.

1.4 Mae mathau cyffredin o ddarpariaethau cefnogaeth sy'n ymwneud â thai yn cynnwys:

- O fewn 56 diwrnod, cynorthwyo rhywun sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref i ddod o hyd i rywle i fyw.
- Darparu pecyn cefnogaeth er mwyn galluogi'r unigolyn bregus i gynnal tenantiaeth a lliniaru'r risg y bydd y denantiaeth yn torri lawr a / neu y bydd yr unigolyn yn cael ei droi allan o'r tŷ.
- Darparu cymorth gyda dyledion rhent, rheoli dyledion a sgiliau cyllidebu.
- Cefnogi'r defnyddiwr gwasanaeth i hawlio budd-daliadau lles a chynorthwyo a galluogi'r unigolyn i barhau i dderbyn y budd-daliadau y mae'n gymwys i'w derbyn delio ag asiantaethau perthnasol.
- Cefnogi'r defnyddiwr gwasanaeth i gadw eu llety'n ddiogel, e.e. egluro sut i gloi a rheoli mynediad priodol.
- Annog ac ysgogi'r defnyddiwr gwasanaeth i gadw unrhyw apwyntiadau sy'n berthnasol i wella eu gallu i reoli eu hunain yn eu llety.
- Annog ac ysgogi'r defnyddiwr gwasanaeth i ddatblygu sgiliau cymdeithasol ac i gael yr hyder angenrheidiol i deimlo'n rhan o'r gymuned ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau o ddiddordeb.
- Hyrwyddo, annog ac ysgogi defnyddwyr gwasanaeth i ddatblygu'r sgiliau bywyd angenrheidiol megis coginio, glanhau a golchi dillad.
- Darparu'r gefnogaeth angenrheidiol er mwyn galluogi defnyddwyr gwasanaeth i gael mynediad i gyfleoedd addysg, hyfforddiant a/neu gyflogaeth briodol.
- Darparu cyngor mewn perthynas â chyfleoedd i symud ymlaen neu gyfleoedd am dai parhaol.

1.3 Un o ofynion cyllido Cefnogi Pobl yw'r angen i baratoi Cynllun Comisiynu er mwyn hysbysu Llywodraeth Cymru a'r holl bartneriaid a rhanddeiliaid o'n bwriadau a'n blaenoriaethau comisiynu. Yn unol ag Arweiniad Llywodraeth Cymru mae'r Cynllun arfaethedig yn cynnwys Cylch comisiynu 2017/20 ac fe'i adolygir yn flynyddol.

1.4 Mae Llywodraeth Cymru wedi gwarchod lefelau cyllido grantiau'r Rhaglen Cefnogi Pobl ar gyfer 2017/18 ledled Cymru ac wedi atal dros dro yr rhaglen ailddosbarthu sydd wedi gweld cyllid Gogledd Cymru yn gostwng dros 23% yn ystod y 5 mlynedd flaenorol.

1.5 Er i'r Ysgrifennydd Cabinet ddweud bod y trefniadau cyllido presennol ar gyfer y Rhaglen Cymunedau'n Gyntaf o dan adolygiad, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ymrwymo i sicrhau bod gwell aliniad ar draws y Rhaglenni Mynd i'r Afael â Thlodi eraill sy'n cynnwys Cefnogi Pobl, Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, gan olygu defnydd mwy effeithiol o gyllid a lleihau dyblygu lle bo hynny'n bosibl. Bydd y rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid yn dod i ben ym Mawrth 2017 a deallwn y bydd cyfle i ymgeisio am raglen grant newydd yn y dyfodol –

rydym yn disgwyl y cyhoeddir y manylion yn ystod y misoedd nesaf.

1.6 Yn hanesyddol, mae Cefnogi Pobl wedi buddsoddi'n drwm yn y ddarpariaeth o gefnogaeth ar gyfer Pobl ag Anableddau Dysgu, gyda dros 33% o gyfanswm y gyllideb wedi'i dyrannu i anghenion y maes gwasanaeth hwn. Cafodd hyn ei ostwng i tua 27% yn ystod 2016/17. Cafodd gwaith pellach ei wneud ar ffurf adolygiadau gwasanaeth yn ystod 2016. Rhoddwyd pwyslais ar graffu cymhwysedd y tasgau **(anstatudol)** a ariennir gan Gefnogi Pobl ac a gyflawnir gan ddarparwyr gwasanaeth. Gwelwyd bod y ddarpariaeth yn rhoi llawer mwy o bwyslais ar swyddogaethau gofal **(statudol)** yn hytrach na chefnogaeth sy'n ymwneud â thai. Yn unol ag argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Cydweithio Rhanbarthol i sicrhau mai dim ond tasgau cymwys a oedd yn cael eu hariannu gan y Grant Cefnogi Pobl. Gwnaed argymhelliad i'r Grŵp Cynllunio lleol aml-asiantaeth y dylid cyfyngu lefel y ddarpariaeth cefnogaeth sy'n ymwneud â thai i uchafswm o15 awr yr wythnos ar gyfer pob person. Cymeradwywyd y cynnig gan y Grŵp Cynllunio sydd â chyfrifoldeb llywodraethu am y Rhaglen o fewn pob Awdurdod Lleol ac sy'n cynnwys y Pennaeth Tai, Gwasanaethau Plant ac Oedolion ac Uwch Reolwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol Cymru a dau gynrychiolydd o blith darparwyr. Mae darparwyr hefyd wedi eu hysbysu am y gostyngiad mewn cyllid o Ebrill 2017 ymlaen.

1.7 Mae cymeradwyo'r cynnig a nodir uchod yn sicrhau bod amodau a thelerau derbyn y grant yn cael eu bodloni. Fodd bynnag, mae gostyngiad o £287,000 mewn cyllid Cefnogi Pobl o fewn y ddarpariaeth anableddau dysgu yn cael effaith negyddol ar Gyllidebau'r Gwasanaethau Cymdeithasol gan fod y ddyletswydd statudol i ddarparu yn unol â'r anghenion gofal a aseswyd yn parhau i fod yr un peth.

1.8 Mae gwaith yn mynd rhagddo rhwng Cefnogi Pobl (Gwasanaethau Tai) a Gofal Cymdeithasol Oedolion er mwyn ad-drefnu'r ddarpariaeth ar gyfer anableddau dysgu a fydd yn golygu allanoli'r ddarpariaeth fewnol bresennol yn ystod 2017/18. Bydd gwaith ychwanegol hefyd yn cael ei wneud er mwyn ad-drefnu'r ddarpariaeth gofal a chymorth sydd eisoes wedi'i hallanoli i ddarparwyr trydydd sector. Rhagwelir y bydd ymagwedd ar y cyd, a fydd yn galluogi'r awdurdod lleol i gydweithio'n agos â darparwyr gwasaneth, defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd a rhanddeiliaid allweddol ehangach megis iechyd, eiriolaeth a sefydliadau trydydd sector yn fodd i ni i ddarparu model sy'n addas i'r diben ar gyfer y tymor canolig a hirdymor.

1.9 Mae'r Cynllun Gwaith Cefnogi Pobl yn cynnwys rhaglen o adolygiadau a gynhelir bob tair blynedd. Yn ystod 2017, bydd adolygiadau manwl, sydd fel arfer yn cymryd 3 mis yr un i'w gwneud, yn cael eu cwblhau ar gyfer y meysydd gwasanaeth canlynol:

- Gwasanaethau Tai = Gwasanaeth Atal Digartrefedd (posibilrwydd o estyniad am 2 flynedd yn unol â chydymffurfiaeth â pherfformiad a chontract).
- Gwasanaethau Camdriniaeth yn y Cartref

- Gwasanethau ar gyfer Pobl Ifanc Fregus
- Gwasanethau ar gyfer Rheini Sengl Bregus

1.10 Yn ychwanegol at hynny, mae'n fwriad gennym, yn unol â Rheoliadau Caffael Ewrop a chyfansoddiad y Cyngor, i ymgymryd ag ymarferiad tendro llawn ar gyfer:

- Tai yn Gyntaf, a ddarperir gan 'The Wallich' ar hyn o bryd
- Pobl Ifanc Fregus
- Anableddau Dysgu ar y cyd â Gofal Cymdeithasol Oedolion
- Pobl Ifanc Fregus (16-24 oed)

1.11 Yn ddibynnol ar gyfeiriad strategol Llywodraeth Cymru, bydd hefyd angen rhoi ystyriaeth i ymgymryd ag ymarfer tendro ar gyfer atal camdriniaeth yn y cartref. Yn ddiweddar, penododd Llywodraeth Cymru Ymgynghorwyr Camdriniaeth yn y Cartref sydd wedi'u lleoli'n rhanbarthol ac er nad yw eu bwriadau terfynol wedi eu cadarnhau, fe awgrymwyd y gellid efallai trosglwyddo'r cyllid Cefnogi Pobl sydd wedi'i glustnodi ar gyfer y maes gwasaneth hwn i'r gronfa ranbarthol. Ar y llaw arall, petai'r trefniadau presennol yn parhau, disgwylir y byddai proses dendro'n cael ei chynnal a fyddai'n golygu y byddai gwasanaethau camdriniaeth yn y cartref a rhieni sengl bregus yn cael eu cyfuno a allai olygu gwell gwerth am arian a chynnydd yn nifer yr unedau a ddatblygir er mwyn cynorthwyo pobl sy'n dioddef camdriniaeth yn y cartref.

1.10. Ac eithrio Prosiect Craidd a Chlwstwr Coedlys a'r gwasanaeth cefnogaeth ar wasgar ar gyfer teuluoedd ifanc, a gawsant oll eu comisiynu yn 2013, nid yw gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc cael wedi eu profi ar y farchnad ers cael eu comisiynu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Mae'n angenrheidiol felly, yn dilyn cwblhau adolygiad strategol yn ystod 2017, bod proses dendro lawn yn cael ei chynnal ar gyfer y 40 uned, a hynny'n ychwanegol at y tendr ar gyfer y rhai a nodwyd yn flaenorol yn cynnwys hostel 9 gwely yng Nghaergybi, y 2 fynglo llety a rennir cyfagos yn y Gilfach rhannu llety cyfagos, 4 uned llety a chefnogaeth, 2 ohonynt yng Nghaergybi a 2 ym Mhorthaethwy ac 8 uned o gefnogaeth ar wasgar.

**2.0 Meysydd Newydd ar gyfer Datblygiad**

2.1 Mae achos busnes sy'n argymell sefydlu Un Pwynt Mynediad / Swyddog Porth Cefnogi Pobl wedi ei gymeradwyo gan y Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl. Yn wahanol i reolaeth a gweinyddiaeth gyffredinol y Rhaglen Cefnogi Pobl, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried rôl y Porth fel prosiect ynddo'i hun ac o'r herwydd gellir defnyddio'r cyllid grant blynyddol i'r diben hwn.

2.2 Rhagwelir y bydd y ffordd newydd o ddelio ag atgyfeiriadau, gan ddyrannu yn amserol ac yn briodol, yn weithredol erbyn dechrau Mehefin 2017. Mae manteision y rôl yn cynnwys:

- Gweld symudiad yn y rheolaeth o atgyfeiriadau sydd ar hyn o bryd yn gyfrifoldeb i ddarparwyr CP ar Ynys Môn.
- Hwyluso a gwella'r modd y caiff lleoedd gwag ar draws y sector eu rheoli;
- Lleihau bylchau neu ddiffyg defnydd o oriau dynodedig o fewn y prosiectau;
- Hwyluso mynediad haws a gwell i wasanaethau ar gyfer ein defnyddwyr gwasaneth mwyaf bregus;
- Darparu teclyn rheoli defnyddiol a mwy cadarn er mwyn gwella'r modd y caiff darparwyr gwasanaeth eu monitro;
- Tebygol o gynyddu'r pwysau ar ddarparwyr i wella canlyniadau o ran symud pobl ymlaen. Fodd bynnag, ni fydd hyn ond yn digwydd mewn achosion lle ystyrir bod defnyddwyr gwasaneth yn barod i gael eu symud ymlaen ac ni ddylai ddylanwadu mewn unrhyw ffordd ar ddarparwyr i symud ymlaen er mwyn derbyn atgyfeiriadau newydd.
- Sicrhau bod Ynys Môn yn gweithredu yn yr un modd â'r mwyafrif helaeth o Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru sydd wedi gweithredu'r agwedd hon gan gynnwys 4 o'r 6 Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru.
- Hwyluso a gwella cyfathrebu ac arferion gwaith rhwng Cefnogi Pobl ac Opsiynau Tai a'r Tîm Un Pwynt Mynediad Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Sicrhau y cymerir ymagwedd fwy strategol tuag at ddatblygu gwasanaethau cynaliadwy a datrysiadau tai a bod y Rhaglen Cefnogi Pobl yn ymateb i anghenion presennol ac anghenion sy'n codi;
- Cynorthwyo i leihau'r bylchau mewn anghenion gwasanaeth a llety.

2.3 Amcangyfrifir bod y gost o weithredu'r gwasanaeth yn £50,000 (yn cynnwys argostau a holl gostau swyddfa gefn). Bydd hyn yn cynnwys un swyddog amser llawn ac efallai y bydd angen peth cymorth gweinyddol.

**3.0 Gwasanaeth Cymorth Hyblyg parhaus lefel isel**

3.1 Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod nifer sylweddol o bobl yn parhau i fod yn fregus ar ôl i'w cymorth ddod i ben ac o ganlyniad mae hyn yn gallu arwain at broblemau tenantiaeth, dirywiad mewn iechyd a lles ac mewn rhai achosion, ail droseddu. Yn dilyn trafodaethau gyda darparwyr a rhanddeiliaid yn y Sir a thu draw, mae achos busnes yn cael ei gyflwyno i'r Grŵp Cynllunio yn ystod 2017 yn gofyn am gomisiynu gwasanaeth cymorth hyblyg parhaus lefel isel. Bydd hyn yn galluogi unigolion bregus sydd mewn perygl o fod yn ddigartref i gael mynediad i'r gwasanaeth

hyblyg hwn ar wahanol adegau yn eu bywydau. Rhagwelir y bydd ymyrraeth gynnar, ar lefel is, yn atal argyfwng pellach rhag codi ac, yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, bydd yn atal yr angen am ymyrraeth statudol.

3.2 Amcangyfrifir y bydd cost y gwasanaeth tua £110,000. Gallai'r ddarpariaeth fod yn destun tendr, oni bai y bydd y Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl yn cymeradwyo Prosiect Peilot lle gallai darpariaeth fod yn uniongyrchol gysylltiedig â gwasanaeth presennol.

**4.0 Pwyllgor Cydweithio Rhanbarthol**

4.1 Mae Aelodau o Bwyllgor Cydweithio Rhanbarthol Gogledd Cymru, sy'n cynnwys Deiliaid Portffolio a Phenaethiaid Gwasanaeth (Tai / Gwasanaethau Cymdeithasol) yn awyddus i ddatblygu rhai gwasanaethau a gomisiynir yn rhanbarthol o fewn meysydd penodol megis camdriniaeth yn y cartref neu anghenion yn ymwneud â throseddu. Er mwyn cyflawni'r nod hwn, mae wedi'i gynnig ar Lefel Ranbarthol ac wedi'i gymeradwyo mewn Byrddau Grwpiau Cynllunio Lleol ledled Gogledd Cymru y dylai pob Awdurdod Lleol wneud cyfraniad o 1% o'r dyraniad blynyddol Cefnogi Pobl yn uniongyrchol.

4.2 Yn seiliedig ar gyfraniad o 1%, byddai grant Ynys Môn ar gyfer darpariaeth leol yn lleihau £26,438.

4.3 Yn ystod 2017, bydd Pwyllgor Cydweithio Rhanbarthol Gogledd Cymru yn ymgymryd ag adolygiad o'r trefniadau presennol er mwyn bodloni anghenion y rhai hynny ar hyd a lled Gogledd Cymru sy'n gadael y carchar. Mae ymgynghorydd allanol eisoes wedi'i benodi a gallai'r argymhellion arwain at ymagwedd ranbarthol tuag at Adsefydlu Carcharorion. Bydd cyfraniad Ynys Môn i'r dasg hon yn cael ei gymryd o'r swm canolog a nodir ym mhwynt 4.2 uchod.

**5.0 Newidiadau yn y modd yr ariennir y Gwasanaeth**

5.1 Bydd cynnydd o 4.0% mewn gwasanaethau i bobl hŷn yn dilyn ad-drefnu'r gwasanaethau warden ym mis Medi 2016. Yn fwy na hynny, bydd buddsoddiad mewn gwasanaethau i bobl ifanc yn cynyddu 17.9% o ganlyniad i ddwyn i ben refeniw loteri a oedd yn talu am dair blynedd gychwynnol y prosiect hwn.

5.2 Bydd yr holl gostau datblygu a chostau ychwanegol ar gyfer pobl hŷn yn cael eu hariannu o'r gostyngiad yn y buddsoddiad yn y Rhaglen Cefnogi Pobl o fewn y Gwasanaethau ar gyfer Anableddau Dysgu ac felly bydd unrhyw newid ariannol yn gost niwtral i Gyngor Sir Ynys Môn.

5.3 Mae'r gwasanaethau canlynol wedi derbyn yr un lefel o fuddsoddiad yn y Cynllun

| |
|---|
| Gwariant â'r flwyddyn flaenorol, a bydd unrhyw newid pellach yn destun prisiad tendr ble bo hynny'n berthnasol.<br><br>• Camdriniaeth Ddomestig<br>• Camddefnyddio sylweddau<br>• Hanes Troseddu<br>• Rhieni Sengl Bregus<br>• Cymorth cysylltiedig â Thenantiaeth<br>• Pobl Sengl 25-54 oed<br>• Larymau Cymunedol |
| |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Roedd y penderfyniadau yn seiliedig ar ymagwedd strategol a oedd yn canolbwyntio ar:<br>• Gymhwysedd yn unol ag Amodau Grant y Rhaglenni Cefnogi Pobl<br>• Perthnasedd strategol yn unol â Nodau Corfforaethol Cyngor Sir Ynys Môn a rhai'r Gwasanethau Tai<br>• Ansawdd Gwasanaeth fel y gwelwyd yn y rhaglen o adolygiadau manwl a ymgymerwyd â nhw yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.<br>• Gwerth am arian yn dilyn ymarfer manwl a gynhaliwyd ar draws yr holl ddarparwyr a lefelau'r angen a nodwyd gan ddarparwyr pan fydd defnyddwyr gwasanaeth ag amrywiaeth o faterion amrywiol a chymhleth sydd angen cefnogaeth.<br>• Sicrhau bod nodau ac amcanion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cael eu bodloni.<br><br>Mae'r ffactorau uchod yn amlinellu'r rhesymeg a ddefnyddiwyd wrth ystyried gwahanol opsiynau ar gyfer lleihau cyllid mewn gwasanaethau penodol, ailfodelu eraill ac mewn rhai achosion, datgomisiynu yn llawn. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae'n un o ofynion Amodau'r Grant Rhaglen Cefnogi Pobl a nodir gan Lywodraeth Cymru, fod y Cynllun Blynyddol yn cael ei gymeradwyo ar Lefel Aelodau Etholedig Lleol. |

| CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ddim yn berthnasol. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ddim yn berthnasol – Mae Cefnogi Pobl yn Raglen Grant Llywodraeth Cymru. |

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Wedi ei anfon dros e-bost ond heb gael y cyfle i dradod ymhellach |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Dim Sylwadau pellach |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Dim Sylwadau |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Dylai unrhyw fater arall sy'n codi o ganlyniad uiongyrchol i'r Cynllun Comisiynu gael ei ddelio yn unol a'r drefn a phrosesau a ddefnyddir ar gyfer ymgynghori. Os y bydd angen cefnogaeth AD mewn perthynas ag ymgynghori, efallai y bydd angen adeiladu capasiti'r uned er mwyn ei gynnwys o fewn y llwyth gwaith. |
| 5 | **Eiddo** | Ddim yn berthnasol |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | Ddim yn berthnasol |
| 7 | **Sgriwtini** | Heb ei gyflwyno |
| 8 | **Aelodau Lleol** | Ddim yn berthnasol |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Darparwyr wedi cael mewnbwn trwy drafodaeth gyson . |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | Rhagwelir na fydd datgomisiynu gwasanaethau o fewn anableddau dysgu yn cael fawr o effaith economaidd o gwbl gan mai swyddogaethau gofal ydynt mewn gwirionedd sydd angen yr un lefelau staffio o ganlyniad i ofynion statudol – disgwylir i |

| | | |
|---|---|---|
| | | TUPE hefyd fod yn berthnasol. |
| **2** | **Gwrthdlodi** | Ni ragwelir unrhyw effaith uniongyrchol o ganlyniad i newidiadau er gallai newidiadau polisi cymdeithasol, yn enwedig diwygio lles, waethygu amgylchiadau ar gyfer rhai unigolion bregus a / neu unigolion a theuluoedd anhrefnus. |
| **3** | **Trosedd ac Anrhefn** | Dim effaith uniongyrchol o'r strategaeth. Fodd bynnag, byddai cynnydd mewn trosedd ac anrhefn o ganlyniad i newid mewn polisi cymdeithasol a mwy o dlodi yn golygu mwy o alw na chyflenwad ac anallu i fodloni anghenion sy'n cynyddu. Gallai hyn gael effaith sylweddol ar ddefnyddwyr gwasanaeth a darparwyr ac yn enwedig o ystyried anghenion anhrefnus a chymhleth rhai o'r defnyddwyr gwasaneth sydd angen cefnogaeth ac ymyrraeth aml-asiantaethol. |
| **4** | **Amgylcheddol** | Ddim yn berthnasol |
| **5** | **Cydraddoldebau** | Mae Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi'i gynnwys o fewn y Strategaeth Comisiynu Lleol a rannwyd yn flaenorol. |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | Mae darparwyr Cefnogi Pobl yn gorfod glynu wrth fframwaith canlyniadau mandadol a ragnodir gan Lywodraeth Cymru. |
| **7** | **Arall** | Ddim yn Berthnasol |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Grant Rhaglen Cefnogi Pobl - Strategaeth Comisiynu Lleol 2017-2020 |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| |

# Cynllun Comisiynu Cefnogi Pobl Cyngor Sir Ynys Môn 2017/20

**Galluogi pobl sydd angen cefnogaeth i fyw'n annibynnol drwy ddarparu gwasanaethau cefnogi priodol o safon uchel sy'n ymwneud â thai**
**a**
**chyflawni hyn drwy weithio mewn partneriaeth gyda defnyddwyr y gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill fel y gallwn wella ansawdd bywyd, cynnig mwy o ddewis a sicrhau gwerth am arian**

# Cynnwys


**1. Rhagarweiniad** **1 – 8**

**2. Y Cyd-destun Strategol a'r Blaenoriaethau** **9 - 16**

**3. Lefelau Angen, a'r Bylchau yn y Gwasanaeth** **17 - 28**

**4. Tystiolaeth Ymgynghori** **29 - 31**

**5. Blaenoriaethau ar gyfer Datblygu** **32 - 42**

**6. Cynllun Gwariant** **43 - 44**

**Atodiadau**

***7. Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb (Atodiad 1)*** ***45-63***

***8. Data Mapio Anghenion (Atodiad 2)*** ***64 -82***

***9. Eich Gwasanaeth Eich Barn Holiadur Ymgynghori (Atodiad 3)*** ***83 - 101***

***10. Gweithgarwch Cyfranogiad Defnyddwyr Gwasanaeth (Atodiad 4)*** ***102-121***

# 1. Rhagarweiniad

1.1 Dyma'r pumed Cynllun Comisiynu Lleol (CCLl) Cefnogi Pobl ers i Grant Rhaglen Cefnogi Pobl gael ei gyflwyno ym mis Awst 2012. Prif bwrpas y ddogfen hon yw rhoi trosolwg strategol ar y bwriadau a'r blaenoriaethau comisiynu ar gyfer y rhaglen Cefnogi Pobl ar Ynys Môn rhwng Ebrill 2017 a Mawrth 2020.

1.1.1 Menter fframwaith polisi a chyllido gan Lywodraeth Cymru yw Cefnogi Pobl, sy'n darparu cefnogaeth sy'n ymwneud â thai ar gyfer ystod o bobl amrywiol ond yr un mor fregus â'i gilydd. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cynnwys cyllido llety a darpariaeth gofal. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar gynllunio, comisiynu a monitro llety â chefnogaeth, a gwasanaethau cefnogi ar wasgar, sy'n cael eu darparu gan amrywiol ddarparwyr ar draws amrediad o ddeiliadaethau. Mae'r, mathau gwahanol o lety yn cynnwys tai hygyrch a fforddiadwy, stoc y cyngor, stoc cymdeithasau tai, tai rhent preifat, tai gwarchod, hunan berchnogaeth, tai byw gyda chymorth tenantiaeth â chefnogaeth, a Gofal Ychwanegol.

1.1.2 At hynny, mae gwasanaethau larwm cymunedol a monitro teleofal hefyd yn wasanaethau cymwys ac yn cael eu cyllido'n rhannol drwy gyllideb Cefnogi Pobl.

1.1.3 Mae Gwasanaethau sy'n gysylltiedig â Thai yn darparu gwasanaeth eang i alluogi pobl fregus i gynnal eu tenantiaethau / cartrefi a neu fyw'n annibynnol o fewn cartrefi a chymunedau o'u dewis cyhyd â phosib. Bwriad y rhaglen yw i weithredu ethos gwneud gydag yn hytrach na gwneud ar ran ac mae mathau nodweddiadol o wasanaeth yn cynnwys ( nid yw'n rhestr holl gynhwysfawr)

- Cefnogi rhywun sy'n ddigartref neu mewn risg o ddigartrefedd o fewn 56 diwrnod i ddod o hyd i rywle i fyw.
- Darparu pecyn o gefnogaeth i alluogi person bregus i gynnal tenantiaeth a lliniaru risg o denantiaeth i dorri lawr fyddai'n arwain at orchymyn i adael.
- Darparu cefnogaeth gyda dyledion rhent, rheoli dyled a sgiliau cyllido.
- Cefnogi'r defnyddiwr gwasanaeth i hawlio budd-daliadau lles a chynnig cefnogaeth i alluogi unigolion i barhau i hawlio budd-daliadau y maent yn gymwys i dderbyn a delio hefo asiantaethau priodol.
- Cefnogi'r defnyddiwr gwasanaeth i gynnal diogelwch yr eiddo e.e. esbonio sut i gloi i fyny a rheoli mynediad priodol.

- Annog ac ysgogi defnyddwyr gwasanaeth i gadw apwyntiadau su'n briodol i'w gallu i hunan reoli yn eu llety.
- Annog ac ysgogi'r defnyddwyr gwasanaeth i ddatblygu sgiliau cymdeithasol ac i gael yr hyder angenrheidiol i allu teimlo'n rhan o'r gymuned ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau o ddiddordeb

- Hyrwyddo annog ac ysgogi defnyddwyr gwasanaeth i feithrin a datblygu sgiliau byw angenrheidiol megis coginio, glanhau a golchi.

- Darparu cefnogaeth i alluogi defnyddiwr gwasanaeth i allu cael mynediad at addysg, hyfforddiant ac /neu gyfleoedd gwaith priodol.

- Cynnig cyngor parthed cyfleoedd symud ymlaen neu fynediad at lety parhaol

1.1.4 Mae'r gwasanaethau'n gwneud cyfraniad amhrisiadwy tuag at gyflawni amcanion polisi lleol a chenedlaethol, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd, gofal cymdeithasol a lles, gan leihau digartrefedd ac allgau cymdeithasol a hyrwyddo diogelwch cymunedol.

1.1.5 Ar adeg ysgrifennu, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi rhybudd ynghylch ei bwriad i gynnal lefel ariannu gyfredol ar draws holl Awdurdodau Lleol Cymru o fis Ebrill 2017. O ganlyniad, bydd y swm yn aros heb newid ar £2,643,866 yn 2017/18. Mae hyn yn hwb sylweddol i Gomisiynwyr Cefnogaeth sy'n Ymwneud â Thai a'r holl randdeiliaid ar adeg pan mae lefelau'r angen a'r galw am wasanaethau cefnogi i'w gweld yn cynyddu gydol yr amser.

1.1.6 Bydd angen i Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl Cyngor Sir Ynys Môn gymeradwyo'r Cynllun cyn iddo gael ei gyflwyno i'w ddadansoddi a'i gymeradwyo gan Bwyllgor Cydweithredol Gogledd Cymru. Mae aelodaeth y Grŵp Cynllunio yn cynnwys Penaethiaid Gwasanaethau Tai, Oedolion a Phlant o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Sir Ynys Môn, Uwch Reolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Prawf Cymru, dau gynrychiolydd o'n darparwyr a Rheolwr Prosiect Trechu Tlodi / Diwygio Lles o fewn y Cyngor. Bydd y bwriadau comisiynu yn y ddogfen hon ynghyd â 5 Cynllun Comisiynu Lleol arall Gogledd Cymru yn sail i gyfeiriad y Cynllun Comisiynu Rhanbarthol, wrth inni geisio sicrhau lefel uwch o gysondeb ar draws y rhanbarth a llai o ddyblygu.

## 1.2 Datblygiadau Rhanbarthol yng Ngogledd Cymru.

1.2.1 Mae'r 6 Phwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol (PCRh) a grëwyd ar draws Cymru bellach wedi hen ymsefydlu. Mae gan Ogledd Cymru ei phwyllgor ei hun, lle mae'r 6 Awdurdod ar draws y rhanbarth yn cael eu cynrychioli'n gyfartal ac yn atebol i'r un

graddau. Cynhelir cyfarfodydd bob yn ail fis pan drafodir blaenoriaethau a bwriadau comisiynu, manylion gwariant (yn cynnwys manylion tanwario a gorwario) materion perfformiad a materion strategol eraill. Mae aelodaeth y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol yn cynnwys Aelod Cabinet dynodedig Awdurdod Lleol gyda chyfrifoldeb portffolio am y Rhaglen Cefnogi Pobl, Uwch Swyddogion priodol o Awdurdodau Lleol, y gwasanaeth Iechyd a'r gwasanaeth Prawf. At hyn, mae yna ddau aelod wedi eu hethol i gynrychioli'r darparwyr (y naill yn cynrychioli darparwyr gwasanaethau tymor hir a'r llall ddarparwyr gwasanaethau tymor byr), Cartrefi Cymunedol Cymru ynghyd ag aelodau cyfetholedig, a gafodd eu gwahodd gan y gwahanol Bwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol.

1.2.2 Mae rôl a swyddogaethau'r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol wedi eu cryfhau ymhellach drwy'r Memorandwm o Ddealltwriaeth a ffurfiwyd ac a weithredwyd ar gyfer pob Grŵp sydd wedi ei lofnodi gan holl aelodau'r amrywiol gyrff amlasiantaethol.

1.2.3 Er nad oes ganddo unrhyw bwerau gweithredol i wneud penderfyniadau na chyllid wedi ei ddyrannu iddo, ystyrir rôl y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol yn un anhepgor o ran craffu ar y cynlluniau gwariant unigol a chyfunol yng Ngogledd Cymru a sicrhau bod cyllid yn cael ei wario'n briodol. Ymhellach, ers y cychwyn, mae perthynas waith agosach wedi datblygu ar draws y 6 Awdurdod Lleol, ac mae'r rhyngwyneb rhwng y comisiynwyr, y darparwyr a'r landlordiaid hefyd yn ymddangos fel pe bai wedi cael ei gryfhau.

1.2.4 Rhydd y diagram isod amlinelliad o drefniadau Llywodraethu Cefnogi Pobl ar draws Cymru ers mis Awst 2012.

Bydd **Llywodraeth Cymru** yn gwneud dyraniadau dangosol i awdurdodau lleol yn XXXX

↗ ↘

| | | |
|---|---|---|
| Bydd **BYCCP**<br><br>yn cynghori'r Gweinidog ynghylch polisi Llywodraeth Cymru ac yn monitro blaenoriaethau a chanlyniadau cenedlaethol | | Bydd **Awdurdodau Lleol a Grwpiau Cynllunio Cefnogi Pobl leol**<br><br>yn creu'r Cynllun Comisiynu Lleol (CCLl) mewn cydweithrediad â'r holl randdeiliaid (gan gynnwys y Cydlynydd CP Rhanbarthol), ac ar sail tystiolaeth gadarn o anghenion.<br><br>Bydd y Grŵp Cynllunio CP lleol yn craffu ar hwn a llofnodir y cynllun gan aelodau'r Awdurdod Lleol drwy'r sianel leol gytunedig.<br><br>Gyda'r cydlynydd CP, bydd Awdurdodau Lleol yn nodi'r gwasanaethau rhanbarthol sy'n mynd i'r afael â blaenoriaethau a nodwyd yn lleol a lle nad yw'r angen lleol yn ddigon i ddarparu gwasanaeth (e.e. hostel mynediad uniongyrchol). |

↖ ↘

| Bydd **Llywodraeth Cymru** | | Bydd y **Cydlynydd CP Rhanbarthol** |
|---|---|---|
| ar sail argymhellion y PCRh naill ai'n cadarnhau'r dyraniadau dangosol i'r awdurdodau lleol<br>***NEU***<br>yn 'galw'r Proffil i mewn' i'w archwilio ymhellach. Bydd y Gweinidog yn ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael a'r safbwyntiau ac yn dyrannu'n unol â hynny (yn fuan). | | yn cynorthwyo gyda'r broses o lunio cynlluniau gwariant lleol er mwyn sicrhau eu bod yn cymryd y cyd-destun rhanbarthol i ystyriaeth yn llawn.<br>Bydd yn cynhyrchu 'Proffil Comisiynu a Gwariant Rhanbarthol' ar sail y Cynlluniau Comisiynu Lleol a gytunwyd.<br>Bydd y Proffil yn nodi meysydd ar gyfer comisiynu/digomisiynu a chaffael sydd i gael eu cyflawni ar lefel ranbarthol. |

↗ ↙

| Bydd y **Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol (PCRh)** |
|---|
| yn craffu ar y Proffil ac yn gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru. |
| Caiff yr asesiad hwn ei wneud yn erbyn yr egwyddorion lefel uchel y tynnwyd sylw atynt yn y canllawiau. |
| Mae holl aelodau'r PCRh i werthfawrogi'n llawn y cyd-destun gwaith a'r cyfeiriad rhanbarthol. |

1.2.5 Rhaid i'r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol lunio Cynllun Gweithredu Rhanbarthol treigl dros 3 blynedd, sy'n cael ei adolygu'n flynyddol. Amlinellir y blaenoriaethau isod.

## 1.3 Blaenoriaethau'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol

**Adnabuwyd y themâu canlynol fel blaenoriaethau rhanbarthol yn ystod 2016/17**

**1.3.1Anableddau Dysgu -** Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Cydweithio Rhanbarthol yn ystod yr Haf 2016 gyda'r argymhelliad y dylai'r 6 Awdurdod Lleol Gogledd Cymru adolygu eu lefelau buddsoddi mewn Anableddau Dysgu. Cafwyd dau argymhelliad o fewn yr adroddiad, y naill i glustnodi cap uchafswm o oriau'r wythnos fesul unigolyn ar gyfer cefnogaeth sy'n ymwneud â thai, a'r llall yn cynnig mabwysiadu ymagwedd haenog. O fewn yr ymagwedd haenog byddai pecynnau cefnogaeth yn cael eu dyrannu i dair lefel, sef anghenion isel, canolig neu uchel, ac y byddai yn gwrthgyferbynnu gyda lefelau gofal fyddai'n cael ei ddarparu. Ble y byddai lefel uchel o ofal yn cael ei ddarparu, byddai lefelau cefnogaeth yn isel ac i'r gwrthwyneb ble byddai lefel gofal yn isel. Mae'r Pwyllgor Cydweithio Rhanbarthol wedi datgan nad yw cynnal y 'status quo' yn opsiwn ac y byddai gwrthod newid yn peryglu'r grant cyfan.

1.3.2Mae Ynys Môn yn ystod 2016 wedi ymgymryd ag adolygiad o'i holl ddarpariaeth ar gyfer cefnogaeth sy'n ymwneud â thai ar gyfer anableddau dysgu ac mae'r Grŵp Cynllunio wedi cymeradwyo'r argymhelliad i osod cap o 15 awr yr wythnos ar bob un pecyn unigol, Gellir gweld manylion pellach ym Mhennod 5 o'r ddogfen hon**.**

**1.4 Mabwysiadu Memorandwm o Ddealltwriaeth a** sut y bydd y Pwyllgor Cydweithio Rhanbarthol yn gweithio tuag at ddatblygu a chyflawni'r Cynllun Strategol 3 blynedd. Bydd hyn hefyd yn cynnig canllawiau sut ydym yn cynnwys rhanddeiliaid eraill.

**1.41** Mae'r Pennaeth Tai a'r Deilydd Portffolio ar gyfer Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi arwyddo'r cytundeb uchod.

**1.5 Fframwaith Cyfranogiad Defnyddwyr Gwasanaeth -** Ail ymwelir â'r fframwaith, yn ystod 2017. Ar hyn o bryd mae gan Wrecsam ac Ynys Môn holiadur ar-lein ar gyfer ei gwblhau gan ddefnyddwyr gwasanaeth. Mae'r holiaduron wedi bod yn boblogaidd yn y ddau awdurdod, ac mae'r nifer o ymatebion wedi bod yn uchel. Er bod y ddau Awdurdod yn gweithredu hyn mewn modd gwahanol, mae trafodaethau yn parhau ar gyfer ystyried os oes modd addasu i fersiwn Gogledd Cymru neu fersiynau Gogledd Orllewin a Gogledd Ddwyrain ( gyda'r Awdurdodau Lleol yn gofyn yr un cwestiynau).

**1.5.1** Mae Ynys Môn wedi parhau i flaenoriaethu Cyfranogiad Defnyddwyr Gwasanaeth. Ceir disgrifiad o farn defnyddwyr gwasanaeth, ynghylch darpariaeth gwasanaeth, ansawdd, a meysydd penodol ar gyfer datblygu a gwella yn atodiad 3 o'r ddogfen hon. Hefyd gellir gweld rhestr gynhwysfawr o weithgareddau a chyfranogiad gwasanaeth yn ystod 2016/17 yn atodiad 4 o'r ddogfen yma.

**1.6 Paratoi am effaith Carchar Gogledd Cymru -** Bydd Carchar Y Berwyn, Wrecsam ar gyfer dynion sy'n troseddu yn agor yn ystod 2017 ac fe fydd y ffocws ar addysg, hyfforddiant ac adsefydlu. Ynghyd â newidiadau deddfwriaethol o fewn Deddf Tai (Cymru) 2014 a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2104, bydd hyn yn cael effaith sylweddol ar ail-sefydlu troseddwyr yn ardal Gogledd Cymru.  Bydd Awdurdodau Lleol, yn parhau i fynychu cyfarfodydd  Grŵp Llywio Adsefydlu Troseddwyr, yn dilyn agor y carchar.

1.6.1Mae Ynys Môn yn parhau i ariannu swydd Swyddog Ad Sefydlu Troseddwyr ac ar hyn o bryd yn adolygu'r trefniadau mewn fel rhan o baratoi tuag at y flwyddyn newydd ariannol. Mae deilydd presennol y swydd wedi llwyddo i adeiladu perthynas effeithiol gyda Charchardai, Altcourse, Stoke Heath a Styall. Yn ôl tystiolaeth sy'n bodoli, mae'n ymddangos bod gwell cyfathrebu rhwng y Carchardai a'r Tîm Atal Digartrefedd wedi cyfrannu tuag at gynllunio gwell, cyn i'r troseddwyr adael y carchar ac o ganlyniad wedi lleihau'r niferoedd sy'n cyflwyno'n ddigartref yn dilyn eu rhyddhau. Hefyd mae posib y gall hyn arwain at leihau ail-droseddu. Serch hynny, mewn ambell i achos, yn enwedig y rhai hynny sydd wedi eu hanfon i garchar am gyfnod byr, megis hyd at 28 diwrnod, mae problemau yn codi o blith methiant gan y carchar i hysbysu'r Awdurdod Lleol o fewn yr amserlen benodol, neu weithiau ddim o gwbl.

1.6.2Yn ystod 2017, bydd y Pwyllgor Cydweithio Rhanbarthol yn comisiynu ymgynghorydd allanol i adolygu trefniadau ar gyfer troseddwyr sy'n gadael carchar ar draws Gogledd Cymru. Fe all  hyn arwain, at argymhelliad i gomisiynu ymagwedd ranbarthol ar gyfer gwaith adsefydlu yn dilyn cyfnod mewn carchar.

1.6.3 Ar adeg ysgrifennu, mae Pwyllgor Cydweithio Rhanbarthol ar hyn o bryd yn llunio'u blaenoriaethau ar gyfer 2017.

# 2. Y Cyd-destun Strategol a'r Blaenoriaethau

2.1 Bydd amrywiaeth o strategaethau, fframweithiau a pholisïau cenedlaethol, a lleol yn creu sail gadarn i Gynllun Comisiynu Rhaglen Cefnogi Pobl. Bydd y rhain yn cynnwys

- **Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol 2015**
- **Deddf Tai (Cymru) 2014.**
- **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**
- **Strategaeth Tai Cenedlaethol, Gwella, Bywydau a Chymunedau – Cartrefi yng Nghymru,**
- **Cynllun Digartrefedd Deng Mlynedd 2009-2019**
- **Fframwaith Cenedlaethol Deilliannau Cefnogi Pobl ,**
- **Cynllun Corfforaethol Cyngor Ynys Môn 2017-2021**
- **Strategaeth Dai Lleol Cyngor Sir Ynys Môn 2014 – 2019**
- **Cynllun Integredig Sengl Ynys Môn - Ein Hynys Ein Dyfodol**
- **Diwygio Lles**
- **Trechu Tlodi**

**2.2 Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol 2015**

2.2.1 Daeth y Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol yn gyfraith yn Ebrill 2015 ac yn weithredol o'r 1af Ebrill 2016.

2.2.2 Rhoes y Ddeddf ddyletswydd ar Gyrff Cyhoeddus, megis Cyngor Sir Ynys Môn i sicrhau llesiant y boblogaeth dros y tymor hir. Mae llesiant yn cwmpasu ffactorau megis bywyd cymdeithasol, statws economaidd, iechyd, llesiant diwylliannol ac amgylchfyd y person.

2.2.3 Disgwylir dros amser y bydd gweithredu'r ddeddf yn arwain at ymagwedd sy'n cydweddu'n well ac y cyflawnir mewn modd sy'n gynaliadwy. Y brif nod yw creu Cymru yr ydym oll yn dymuno byw yma,, nawr ac yn y dyfodol.

**2.2.4 Nodau Llesiant**

Rhoes y ddeddf saith nod llesiant er mwyn sicrhau bod pawb yn gweithio tuag at yr un weledigaeth. Gweler y darlun isod.




**2.2.5 Egwyddorion Datblygiad Cynaliadwy**

Ceir 5 o feini prawf sy'n gwneud yr Egwyddorion Datblygiad Cynaliadwy sydd yn eu tro yn helpu i gwrdd â'r 7 nod.

1. **Meddwl Tymor-Hir** – sefydlu cydbwysedd o anghenion tymor-byr gyda materion diogelu i gyfarfod anghenion tymor-hir.
2. **Ataliol –** gweithrediadau i atal problemau rhag cynyddu
3. **Integreiddio** – ystyried sut y gall amcanion effeithio ar eraill
4. **Cydweithio** - gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau eraill er mwyn cyrraedd y nodau ( gall hyn gynnwys y trydydd sector).
5. **Cyfranogiad** - cynnwys pobl a chymunedau sydd â diddordeb mewn helpu i gyfarfod a'r nodau , ac adlewyrchu'r gwahanol bobl sy yn yr ardal.

Mae gan Raglen Cefnogi Pobl rôl allweddol i'w chwarae er mwyn cyrraedd y nodau o fewn y Ddeddf. Mae natur Rhaglen Cefnogi Pobl yn hyrwyddo methodoleg o gydweithio sy'n cynnwys perthynas waith agos rhwng amrediad o randdeiliaid allweddol ar draws y gwahanol sectorau. Mae'r Rhaglen yn un o'r prif gyfranwyr i sicrhau bod gwasanaethau ataliol trwy fecanwaith ymyrraeth gynnar yn gostwng yr angen am ymyraethau statudol sy'n fwy costus dros y tymor hir. Yn ychwanegol, mae'r Rhaglen yn caniatáu i lais a barn y defnyddwyr gwasanaeth gael eu clywed a gwrando arnynt, ac mae anghenion y defnyddiwr gwasanaeth yn ganolig i gyrraedd yr amcanion.

**2.3 Cynllun Corfforaethol CSYM** – Wrth ysgrifennu'r ddogfen hon, mae'r gwaith o lunio Cynllun Corfforaethol CSYM 2017-2021 yn parhau. Cynhelir proses o ymgynghori ym mis Mai / Mehefin 2017. Bydd y Cynllun yn cael ei hysbysu gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, ynghyd ac asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru. Bydd y Cyngor a Chyrff Sector Gyhoeddus eraill wedyn yn cael eu cynrychioli ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, fydd yn arwain y drefn o gydweithio ar y lefel uchaf yn strategol ar draws sefydliadau amlwg Ynys Môn.

2.4 Darperir crynodeb byr yn y tabl isod o'r strategaethau. Fframweithiau a pholisïau y mae gan Raglen Cefnogi Pobl rôl allweddol mewn sicrhau bod y nodau a'r amcanion yn cael eu cyflawni

| Strategaeth / Cynllun / Fframwaith | Prif Bwyntiau e.e. Blaenoriaethau ayyb | Cyswllt Uniongyrchol / Anuniongyrchol gyda Rhaglen Grant Cefnogi Pobl |
|---|---|---|
| **Deddf Tai (Cymru)** | Cyflwyniad o gofrestr a chynllun trwyddedu gorfodol ar gyfer landlordiaid sector breifat ac i asiantau gosod a rheoli (Rent Smart Wales)<br><br>Diwygio cyfraith ddigartrefedd, gan gynnwys gosod dyletswydd gryfach ar awdurdodau lleol i atal digartrefedd a'u galluogi hwy i ddefnyddio llety addas yn y sector breifat.<br><br>Pwyslais ar ymyrraeth gynnar i atal sefyllfaoedd droi yn argyfwng | Bydd angen i gomisiynwyr cefnogaeth sy'n ymwneud â thai sicrhau bod holl landlordiaid sydd ag eiddo y rhentir i denantiaid sy'n derbyn cefnogaeth ganddynt yn cydymffurfio gyda gofynion Rent Smart Wales<br><br>Disgwylir cynnydd yn y niferoedd o bobl sy'n cyflwyno gydag anghenion cefnogaeth sy'n ymwneud â thai yn y sector breifat.<br><br>Tebygrwydd y bydd pwyslais yn cael ei roi ar ymyrraeth gynnar er mwyn atal digartrefedd a risg o ddigartrefedd o fewn 56 diwrnod.<br><br>Cynnydd mewn gwaith cyn ac ôl- denantiaeth ble mae pobl yn wynebu gorfod gadael tenantiaethau.<br><br>Gwell cynllunio a'r angen am weithio'n agosach rhwng Opsiynau Tai a darparwyr Cefnogaeth sy'n ymwneud â thai. |
| **Strategaeth Cenedlaethol i Gymru: Gwella Cymunedau – Cartrefi yng Nghymru** | Gwella gwasanaethau Cefnogaeth sy'n ymwneud â Thai, yn enwedig ar gyfer pobl fregus o fewn grwpiau lleiafrifol. | Cynnig cefnogaeth i alluogi pobl i fyw mor annibynnol â phosib.<br>Darparu cefnogaeth sydd ei angen arnynt i fyw yn eu cartrefi eu hunain, hosteli, tai gwarchod, neu unrhyw fath arall o lety arbenigol.<br>Atal problemau rhag digwydd yn y lle cyntaf neu gynnig cymorth mor fuan â phosibl er mwyn lleihau'r galw ar wasanaethau eraill, megis gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd.<br>Darparu cefnogaeth sy'n cydweddu'r gofal personol a meddygol y gall rhai fod ei angen.<br><br>Sicrhau y darperir gwasanaethau cefnogaeth sy'n ymwneud a Â thai sydd o ansawdd ac y darperir hwynt mewn modd effeithiol ac effeithlon, drwy gyd weithio rhwng sefydliadau sy'n cynllunio ac |

| | | |
|---|---|---|
| | | ariannu gwasanaethau a'r rhai sy'n eu darparu.<br>Hyrwyddo cydraddoldeb a lleihau anghydraddoldebau |

| | | |
|---|---|---|
| **Cynllun Digartrefedd Deng Mlynedd** | Atal digartrefedd ble'n bosibl<br><br>Gweithio ar draws ffiniau sefydliadol a pholisi<br><br>Gosod y defnyddiwr gwasanaeth yng nghanol y ddarpariaeth gwasanaeth.<br><br>Sicrhau cynhwysiad cymdeithasol a mynediad cyfartal at wasanaethau<br><br>Gwneud y defnydd gorau o adnoddau | Ymyrraeth gynnar ble bynnag mae'n bosibl i atal sefyllfa droi'n argyfyngus ac o bosib arwain at ddigartrefedd ac angen ymyrraeth statudol.<br><br>Trefniadau gweithio'n agosach eu hangen rhwng comisiynwyr Cefnogi Pobl, Opsiynau Tai, Darparwyr Gwasanaeth a rhanddeiliaid allweddol eraill, gan gynnwys rhai ar draws sectorau statudol preifat a gwirfoddol.<br><br>Diwallu anghenion amrediad eang o ddefnyddwyr gwasanaeth a chyd weithio er mwy cyflawni deilliannau cadarnhaol fydd yn gwella ansawdd bywyd pob grŵp gwasanaeth.<br><br>Darparu cyfleoedd ystyrlon i bobl ar draws yr holl grwpiau gwasanaeth er mwyn eu galluogi i deimlo'n rhan o'r gymuned ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau o'u dewis, er mwyn lleihau unigrwydd a chyrraedd llawn botensial.<br><br>Hyrwyddo datblygiad a defnydd o hybiau cymunedol fydd yn rhyng-oedrannol ac felly'n magu a meithrin unigolion annibynnol a gwydn o fewn cymunedau cryf yn unol â gweledigaeth CSYM i'r dyfodol.<br>.<br><br>Sicrhau bod gwasanaethau Cefnogi Pobl sy'n cael eu comisiynu yn darparu cefnogaeth o'r ansawdd uchaf, yn strategol berthnasol, ac yn cynnig gwerth am arian.<br><br>Gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i leihau dyblygu darpariaeth gwasanaeth ble'n bosibl. |

| | | |
|---|---|---|
| **Strategaeth Dai Lleol 2014-2019** | 1.Datblygu cartrefi addas ar gyfer y dyfodol yn Ynys Môn.<br><br>2.Gwneud defnydd gorau o'r stoc gyfredol, a gwella cartrefi a chymunedau.<br><br>3.Atal argyfyngau llety a chynyddu opsiynau tai.<br><br>4.Cefnogaeth i hyrwyddo annibyniaeth llety<br><br>5.Cartrefi ar gyfer bywydau hirach<br><br>6.Sicrhau bod y cysylltiadau rhwng tai a'r economi ehangach yn cael eu gwireddu. | 1. Darparu data cadarn mewn perthynas â chefnogaeth sy'n ymwneud â thai ac anghenion tai er mwyn hysbysu'r broses gynllunio a sicrhau bod anghenion tai poblogaeth Ynys Môn yn cael eu diwallu.<br><br>2. Cefnogi cymunedau i fod yn fwy gwydn ac i gynnig cymorth i daclo materion megis ymddygiad gwrth gymdeithasol, sefydlu hybiau cymunedol a hyrwyddo gweithgareddau rhyng oedrannol.<br><br>3 Darparu'r gefnogaeth ac ymyrraeth briodol ac amserol i atal digartrefedd ac i liniaru unrhyw risg o ddigartrefedd o fewn 56 diwrnod.<br><br>4. Darparu cefnogaeth amserol a phriodol i alluogi pobl i fyw'n eu cartrefi eu hunain cyhyd a phosibl ac felly atal cyfnod mewn diangen mewn ysbyty, cartref gofal neu amgylchedd sefydliadol arall.<br><br>5, Darparu cefnogaeth ar draws pob math o ddaliadaeth gan gynnwys gofal ychwanegol i alluogi pobl i aros yn annibynnol cyhyd a phosib.<br><br>6. Cyrraedd deilliannau cadarnhaol fydd yn ysbrydoli, unigolion a theuluoedd gwydn a chymunedau cryfach |
| **Diwygio Lles** | Effaith parhaus o'r sybsidi ystafell sbâr (neu'r Dreth Ystafell Wely del yr adnabyddir) ble mae<br><br>Tenantiaid gydag un ystafell wely fwy nag y sydd ei angen = 14% o ostyngiad mewn Cymhorthdal Rhent Lleol | Bydd angen i ddarparwyr gwasanaeth a gomisiynir i ddeall a diweddaru'r newidiadau parhaus mewn polisi cymdeithasol ac yn enwedig mewn perthynas â diwygio lles<br><br>Bydd angen i ddarparwyr cefnogaeth, gynnig cyngor, cefnogaeth a chyfeirio ymlaen i wasanaethau arbenigol ble'n briodol, er mwyn lliniaru effaith gymdeithasol ac economaidd newidiadau mewn diwygio lles. |

| | | |
|---|---|---|
| | Tenantiaid gyda dwy neu fwy o ystafelloedd gwely nag y sydd ei angen = 25% o ostyngiad mewn Cymhorthdal Rhent Lleol.<br><br>Cymhorthdal Rhannu Ystafell ar gyfer unigolion sengl hyd at 35 mlwydd oed yn arwain at ddiffyg arian digonol i allu fforddio rhent y farchnad, ac o bosib arwain at gynnydd mewn digartrefedd<br><br>Cyflwyno Credyd Cynhwysol yn 2018.<br><br>Argymhellion parhaus i ddiwygio'r ffordd yr ariennir llety â chefnogaeth | Cefnogi, cynghori ac atal amgylchiadau rhag cynyddu i fod yn argyfwng, a all arwain at gynnydd mewn digartrefedd.<br><br>Sicrhau bod darparwyr wedi cofrestru ac achredu gan Awdurdod Rheoli Cyllid (FCA) os ydynt am gynnig cyngor rheoli dyled |
| **Trechu Tlodi** | Gwella aliniad o Raglenni Trechu Tlodi | Gweithio'n agosach rhwng Rhaglenni Trechu Tlodi. Megis,<br><br>• Cefnogi Pobl<br>• Dechrau'n Deg<br>• Teuluoedd yn Gyntaf<br>• Cymunedau'n Gyntaf<br>• Lleoedd Llewyrchus a Llawn Addewid<br><br>Gwneud defnydd mwy effeithlon o gyllidebau'r trwy gynllunio'n well a rhannu data cadarn ar draws y rhaglenni uchod, a thrwy hyn lleihau dyblygi a gwella'r ddarpariaeth |

| | | |
|---|---|---|
| | | Ystyried yr effaith ar ddarpariaeth Rhaglen Cefnogi Pobl a rhaglenni priodol eraill, pe byddai trefniadau ariannu Cymunedau'n Gyntaf yn cael ei ddiwygio, o ganlyniad i'r adolygiad y mae Llywodraeth Cymru yn ei hymgymryd.<br><br>Disgwylir i Raglen Lleoedd Llewyrchus a Llawn Addewid ddod i ben ym mis Mawrth 2017, ac rydym ar ddeall y bydd cyfle i wneud cais am raglen grant o'r newydd yn y dyfodol - rhagwelir y bydd manylion pellach yn cael eu cyhoeddi dros y misoedd nesaf.<br><br>Sicrhau y byddwn yn cyrraedd nodau ac amcanion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Tai (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant a Chymunedau'r Dyfodol 2015. |

# 3. Lefelau Angen, a'r Bylchau yn y Gwasanaeth

3.1 Y prif offeryn a ddefnyddir i asesu angen yw'r ffurflen Mapio Anghenion, a gwblheir gan yr holl ddarparwyr a gomisiynir yn ogystal â rhai rhanddeiliaid megis Dewisiadau Tai'r Cyngor, BAWSO, Shelter ac yn y blaen, pan fydd defnyddiwr gwasanaeth newydd yn dod atynt gydag anghenion llety neu gefnogaeth. Cofnodir y wybodaeth ynghylch yr holl unigolion sy'n dod i'w sylw, p'un a ydynt yn cael eu hasesu neu beidio fel rhai sydd angen math o gefnogaeth sy'n ymwneud â thai ac a fydd gwasanaeth cefnogi'n cael ei ddyrannu iddynt wedyn neu beidio.

3.1.1 Mae 6 Awdurdod Gogledd Cymru wedi mabwysiadu dull partneriaeth o gasglu data NME (*Needs Mapping Exercise*). Cyflwynwyd ffurflen mapio anghenion a chronfa ddata rhanbarthol ym mis Mai 2012, oedd yn ei gwneud yn bosibl dadansoddi'r data ar lefel leol ac ar lefel y rhanbarth er mwyn rhoi darlun cynhwysfawr o'r angen ar draws rhanbarth Gogledd Cymru. Ers mis Ebrill 2014 mae'r holl ddata'n cael ei fewnbynnu ar-lein gan y rhai sy'n cwblhau'r wybodaeth.

3.1.2 Er gwaethaf y data cynhwysfawr y gellir ei gael allan o'r gronfa ddata, mae rhai anawsterau'n parhau ynglŷn â defnyddio'r dull yma. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Nid yw'r holl ddarparwyr yn cwblhau'r ffurflen
- Efallai bod yna gyfrif dwbl

## 3.2 Y Ffurflenni NME a Ddychwelwyd

3.2.1 Cafodd cyfanswm o 1,441 o ffurflenni eu cwblhau a'u dychwelyd gan ddarparwyr gwasanaethau rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2016.

Tabl 2

| Blwyddyn | Nifer y Ffurflenni NME a Gwblhawyd |
|---|---|
| 2008/09 | 617 |
| 2009/10 | 724 |
| 2010/11 | 825 |
| 2011/12 | 690 |
| 2012/13 | 443 |
| 2013/14 | 683 |
| 2014/15 | 1,185 |
| 2015/16 | 1,441 |

3.2.2 Roedd cyfanswm y ffurflenni Mapio Anghenion oedd yn ymwneud â Gwasanaethau Cefnogi Pobl Ynys Môn yn ystod 2015 /16 yn dangos cynnydd sylweddol unwaith eto o'i gymharu â'r data a dderbyniwyd am y 12 mis blaenorol. Gwelwyd cynnydd o 256

(21.6%) wedi ei gofnodi ar gyfer Ynys Môn am y flwyddyn. Roedd hyn yn cymharu gyda chynnydd o 11% ar draws Gogledd Cymru.

## 3.3 Dadansoddiad o'r Ffurflenni NME a Ddychwelwyd ar gyfer 2014/15

3.3.1




3.3.2 Roedd Pobl Hŷn (55 oed a throsodd) yn cyfri am dreian o'r holl brif anghenion a gyflwynwyd i ddarparwyr Cefnogi Pobl neu asiantaethau cyfeirio. Roedd 26% heb ddatgan eu prif angen, ac mae'n debyg yn adlewyrchu'r nifer uchel o bobl sydd ag anghenion eilaidd ynghyd ag anghenion cymhleth ac yn byw bywydau anhrefnus, wrth gyflwyno ac angen ymyrraeth. Gellir dadansoddi ymhellach wrth edrych ar y Siart Cylch, sy'n dangos yr holl brif anghenion sydd wedi eu cofnodi. Ymddengys bod Camdriniaeth yn y Cartref gyda 11% iechyd meddwl gyda 10% a phobl ifanc gyda 8% sy'n cynrychioli'r grwpiau sy'n fwyaf tebygol o gyflwyno'n ddigartref, gydag anghenion sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau a throseddu wedi eu cofnodi am 4% yr un. Mae'r niferoedd sy'n cyflwyno o fewn y grwpiau yma yn adlewyrchu tueddiadau cyson dros y tair blynedd olaf.

## 3.4 Y Rheswm dros Ymgyflwyno mewn Angen

3.4.1 Ymgyflwynodd 42% ( 612) o unigolion ag anghenion cefnogaeth yn unig. Mae hyn yn cymharu â 55.3% (655)yn y flwyddyn flaenorol. Mewn cyferbyniad ymgyflwynodd 31% ( 441) ag anghenion llety yn unig, Mae hyn yn gymharol â 256 (21.6%) yn ystod y flwyddyn flaenorol. Roedd 25% (366) ychwanegol wedi'u cofnodi ag anghenion cefnogaeth a llety, o'i gymharu â 257 (21.7%) yn ystod y flwyddyn flaenoro. Methwyd a chofnodi rheswm ar gyfer 2% (22) a wnaeth gyflwyno.




## 3.5 Rhaniad o ran Rhyw

3.5.1 O'r cyfanswm o 1,441o geisiadau a wnaed, roedd 826 (57%) yn ferched a 615 (43%) yn ddynion. Mae hyn yn cymharu â 750 (63) o ferched a 435 (37) o ddynion gan adlewyrchu newid o 7% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.




## 3.6 Rhaniad o ran Oed

3.6.1 Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r grŵp oedran 16-24 mlwydd oed wedi cyfrif am y nifer uchaf o unigolion yn ymgyflwyno ag anghenion. Fodd bynnag, mae'r data diweddaraf a gasglwyd yn tynnu sylw at newid sylweddol mewn tueddiadau oedran, fel y dangosir yn y graff isod.




3.6.2 Roedd 35% (509) o'r rhai a gyflwynodd yn 61 mlwydd oed neu hŷn, gyda 26% (374) rhwng 25-40 mlwydd oed. O'i gymharu roedd y niferoedd rhwng 16-24 a 41-60 yn 20% (290) a 19% (268) yn benodol. Mae'n debyg bod y niferoedd uchel o rhai hynny sydd yn 61 mlwydd oed neu hŷn o ganlyniad i fuddsoddiad mewn gwasanaethau ail-alluogi, ac mae'r niferoedd sy'n cyflwyno i'r gwasanaeth yma a'r trosiant yn uchel. Dylid cymryd gofal wrth ddadansoddi'r siart cylch yma gan na fydd arian Cefnogi Pobl yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ail-alluogi o Ebrill 2017 oherwydd y gogwydd sydd tuag at ofal yn hytrach na chefnogaeth neu atal digartrefedd. Mae'r nifer gwirioneddol o bobl ifanc sy'n cyflwyno yn parhau'n uchel ac yn gyson o ran niferoedd gyda'r blynyddoedd blaenorol.

### 3.7. Pob Lefel o Angen




3.7.1 Cofnodwyd cyfanswm o 2,373, o anghenion i gyd ar gyfer y cyfnod o 12 mis, o 1.4.15 i 31/03/2016. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r flwyddyn flaenorol sef 1,706.

3.7.2 Roedd Camdriniaeth yn y Cartref yn cyfrif am 204 o achosion, oedd yn cyfateb i 9% o'r holl anghenion yr adroddwyd amdanynt. Roedd hyn yn sylweddol is na'r manylion cyfatebol am y flwyddyn flaenorol pryd y cofnodwyd 371 o gyflwyniadau a oedd yn adlewyrchu 22% o'r cyfanswm cyfan. Wrth ystyried y niferoedd o gyflwyniadau sydd wedi eu cofnodi am y blynyddoedd blaenorol, mae'n debyg nad yw ffurflenni wedi cael eu cwblhau neu eu hanfon ymlaen ar gyfer rhai sydd wedi dioddef camdriniaeth yn y cartref. Fe gofnodwyd y nifer uchaf o gyflwyniadau ar gyfer pobl hŷn sef 525 (22%) gyda phobl ag anghenion anableddau corfforol a synhwyraidd gyda 237 (10%) pellach. Mae yna gydberthyniad cryf rhwng pobl hŷn ac anableddau corfforol a synhwyraidd ac mae'r

ddau grŵp wedi eu cyfuno yn cyfrif am fwy na threian o'r holl anghenion sydd wedi eu cofnodi. Fodd bynnag, dylid cymryd gofal pellach, gyda'r dadansoddiad yma gan fod ffurflen mapio angen wedi ei chwblhau ar gyfer pob un unigolyn sy'n derbyn gwasanaeth ail-alluogi, er gwaetha'r ffaith os ydynt yn derbyn cefnogaeth sy'n ymwneud â thai ai peidio. Wrth ystyried bod y rhan helaeth sy'n derbyn gwasanaeth ail-alluogi ond yn derbyn yr elfen gofal yn unig, rydym yn rhagweld gostyngiad sylweddol ar gyfer ystadegau'r ddau grŵp yma dros y flwyddyn nesaf, o ganlyniad i ail-gyflunio darpariaeth ar gyfer pobl hŷn ers mis Medi 2016.

3.7.3 Mae'n debyg bod y nifer o bobl a gyflwynodd gydag anghenion generic yn adlewyrchu niferoedd uchel o bobl sy'n cyflwyno gyda sawl angen cymhleth. Roedd hwn mewn gwirionedd yr ail gategori uchaf gyda 407 (17%), gyda iechyd meddwl yn dilyn yn agos ar 358 (15%). Mae iechyd meddwl, wastad wedi bod yn un o'r prif resymau pam bod pobl yn cyflwyno gydag anghenion cefnogaeth, ac fe ellir dadlau mai dyma'r un o'r ffactorau sy'n draws groesi fwyaf ar draws yr holl anghenion. Mae'n wir i ddweud, allan ô'r data a gofnodwyd bod 107 mwy o bobl gyda math o iechyd meddwl o'i gymharu gyda'r flwyddyn flaenorol, er gwaethaf y ffaith bod y ganran o'r holl gyfeiriadau wedi aros yr un faint sef 15%.

3.7.4 Mae'r nifer o bobl ifanc bregus wedi aros mwy na heb yr un faint, ac wedi cofnodi union yr un faint o anghenion cyffredinol a'r flwyddyn flaenorol sef 154 (7%) o'i gymharu gyda 9% y llynedd. Yn yr un modd, mae 113 (8%) o'r rhan yn brif anghenion, sydd unwaith yn rhagor yn cymharu'n debyg i'r manylion o'r llynedd sef 115 (7%)

## 3**.8 Deilliannau Targed**




3.8.1 Cofnodwyd cyfanswm o 4,312, o ddeilliannau targed allan o'r data mapio anghenion dros y flwyddyn. Dengys hyn gynnydd sylweddol sef 3,155, o'r llynedd dros y flwyddyn olaf. Rheoli llety oedd wedi cofnodi amlaf gyda 871(20%). Mae hyn yn rhoi sicrwydd bod yn nhermau bod rhanddeiliaid a darparwyr gwasanaeth sy'n cwblhau'r data yn adnabod ac yn gweithredu'n briodol o ran y nodau a deiliannau perthnasol, yn unol â phrif amcanion a nodau'r rhaglen, ac yn benodol yn cyfrannu tuag at leihau digartrefedd ac yn amlygu pwysigrwydd gweithredu'n ataliol. Gwelir cyferbyniad sylweddol hefyd yn y niferoedd a gofnodwyd yn y categori yma o ganlyniad i'r flwyddyn flaenorol, pryd cofnodwyd llety fel yr ail isaf o'r un ar ddeg categori a gofnodwyd gyda 111 (3.6%). Roedd teimlo'n saff unwaith eto'n amlwg yn nhermau'r deilliannau a nodwyd, a fwy na thebyg o ganlyniad uniongyrchol i'r nifer uchel o bobl hŷn a phobl sydd ag anableddau corfforol sydd wedi cyflwyno dros y flwyddyn. Dangoswyd hefyd y rôl allweddol a chwaraeir gan gefnogaeth sy'n ymwneud â thai o ran anghenion Iechyd meddwl, trwy atal uchafu i wasanaethau dwys a statudol, wrth i 487 (11%) gael eu cofnodi yn y categori yma.




Roedd 61% o'r bobl a oedd angen mynediad gefnogaeth yn wybyddus i unai y Gwasanaethau Cymdeithasol neu ddarparwyr gwasanaeth cefnogaeth sy'n ymwneud â thai, gyda 39% yn gleientiaid y Gwasanaethau Cymdeithasol.

## 3.10 Bylchau yn y Gwasanaeth

3.10.1 Mae'n anochel y bydd bylchau ar unrhyw un adeg mewn rhaglen megis Cefnogi Pobl, sy'n darparu cefnogaeth i gymaint o wahanol feysydd gwasanaeth, llawer ohonynt ag anghenion dyrys. Mae'r bylchau yn y gwasanaeth wedi cael eu gwneud yn waeth dros y gan yr angen i liniaru effaith y gostyngiadau sylweddol mewn cyllid rhwng Ebrill 2012 a Mawrth 2016 rhai prosiectau, mewn cyfnod pan y bod lefelau anghenion yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn. Fodd bynnag mae'r penderfyniad gan Lywodraeth Cymru i gynnal lefelau arian ers Ebrill 2016 i'w groesawu ac mae wedi cynnig cyfle i atgyfnerthu ac i ail gyflunio darpariaeth yn unol ag ein prif flaenoriaethau strategol. Yn ogystal mae ffactorau ychwanegol megis mwy o dlodi, economi leol fregus, cynnydd mewn costau byw, ac effaith diwygio lles, i gyd yn cael effaith andwyol ar y mwyaf bregus o fewn ein cymdeithas, ac o ganlyniad yn cynyddu'r galw ar amser pan fod darpariaeth yn cael ei leihau.

**3.10.2 Pobl Ifanc**

3.10.3 Mae'r nifer o ymholiadau a dderbyniwyd gan ein gwasanaethau ar gyfer Pobl Ifanc, a'r cyfeiriadau fel dilyniant wedi cynyddu'n sylweddol dros y bum mlynedd olaf. Mae'r rhain yn cynnwys plant sy'n gadael gofal, er mai yn y lleiafrif mae'r rhain, gan fod y mwyafrif o'r bobl ifanc rhwng 16-24 oed heb gael unrhyw gyswllt gyda'r system ofal. Yn ogystal mae'r anghenion a gyflwynir yn fwy cymhleth ac yn aml angen ymyrraeth gan sawl asiantaeth.

3.10.4 Er bod 22 uned o lety â chefnogaeth ynghyd a 18 uned o gefnogaeth ar wasgar yn cael ei gomisiynu, mae'r galw yn dal yn fwy na'r cyflenwad a gan dderbyn cyfeiriad y polisi cymdeithasol cyfredol, yn enwedig gyda'r newidiadau diwygio lles pellach a ddisgwylir, ni ragwelir y bydd tueddiadau yn dangos gostyngiad yn y niferoedd sydd angen math o ymyrraeth. O ganlyniad, mae gwelliant yn amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd rhai o'n pobl ifanc mwyaf bregus yn annhebygol. Mae'n fwriad gennym yn ystod 2017/18 i adolygu ein darpariaeth o gefnogaeth sy'n ymwneud â thai ar gyfer pobl ifanc. Ceir gwybodaeth bellach am hyn yn rhan 5 o'r Strategaeth Gomisiynu yma.

**3.10.5 Camdriniaeth yn y Cartref**

3.10.6 Mae tystiolaeth anecdotaidd sydd wedi ei dynnu o'r data mapio anghenion ynghyd ac ymweliadau monitro yn awgrymu bod camdriniaeth yn y cartref yn cynyddu o fewn ein cymdeithas, gyda sawl achos yn dangos anghenion dwys sydd angen asesiad ac ymyrraeth gan sawl asiantaeth . Fodd bynnag, mae nifer uchel o achosion camdriniaeth yn y cartref yn parhau i fod yn guddiedig oherwydd y stigma sy'n gysylltiedig â hefyd yr ofn sy'n bodoli o sgil-effeithiau pellach pe byddai'r drosedd yn cael ei chyfeirio ymlaen yn briodol. Yn anffodus felly, fe fydd wastad elfen o angen ddim yn cael ei ddiwallu parthed materion sy'n ymwneud â chamdriniaeth yn y cartref.

3.10.7 Parhau bydd y gwaith o ail fodelu ein darpariaeth Camdriniaeth yn y Cartref yn ystod 2017/18. Serch hynny, bydd ein cyfeiriad terfynol yn ddibynnol os yw materion camdriniaeth yn y cartref yn parhau'n lleol neu'n cael ei ddarparu ar lefel rhanbarthol. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i apwyntio Cydlynydd Camdriniaeth yn y Cartref ar lefel rhanbarthol.

**3.10.8 Cefnogaeth ar Wasgar Lefel Isel Parhaus** – Yn ôl tystiolaeth anecdotaidd sydd wedi ei dderbyn trwy ffurf data ac ymgynghoriad uniongyrchol gyda defnyddwyr gwasanaeth, mae'n ymddangos bod nifer uchel o ddefnyddwyr gwasanaeth yn parhau i fod yn fregus yn dilyn terfynu'r cyfnod o wasanaeth. Bydd achos busnes yn cael ei lunio yn ystod 2017/18 i ystyried comisiynu cynllun Cefnogaeth ar Wasgar lefel isel fel trefniant

parhaus ar gyfer y rhai hynny fydd yn parhau ag anghenion yn dilyn terfynu cyfnod o gefnogaeth arbenigol, ond sydd heb fynediad at unrhyw gymorth o fewn gwasanaethau statudol neu wirfoddol. Gweler Rhan 5 o'r ddogfen yma.

**3.10.9 Toriadau Ariannol** - Er gwaethaf y ffaith bod arian Rhaglen Cefnogi Pobl yn aros heb newid am yr ail flwyddyn yn olynol, bydd toriadau sylweddol o fewn gwasanaethau statudol yn ei gwneud yn anorfod y bydd mwy o bwysau yn cael ei roi ar wasanaethau arbedol, er mwyn llenwi'r bwlch a grëir yn y ddarpariaeth angenrheidiol.

Heb os, bydd cynnydd yn y meini prawf ar gyfer gwasanaethau statudol yn arwain at fwy o bobl yn cyflwyno hefo angenion ac o ganlyniad bydd angen i wasanaethau cefnogaeth orfod flaenoriaethu yn unol ag angen. Felly, mae'n debygol y bydd anghenion a phroblemau'r rhai hynny sy'n cyflwyno ar y lefel isaf yn cynyddu dros amser, oherwydd diffyg ymyrraeth amserol, sydd yn ei hun yn mynd i arwain at broblemau pellach, ac arwain at alw yn cynyddu i lefel uwch na'r unedau a gyflenwir, yn enwedig mewn meysydd megis Iechyd Meddwl, Pobl Ifanc a Chamdriniaeth yn y Cartref.

**3.10.10 Swyddog Adsefydlu Troseddwyr**

Cyflogir Swyddog Adsefydlu Troseddwyr gan Gyngor Sir Ynys Môn sy'n gweithio ar y cyd gydag Opsiynau Tai a'r Gwasanaeth Atal Digartrefedd a Chefnogaeth sy'n Ymwneud â Thai yn fewnol, Ariennir y swydd ar hyn o bryd trwy grant atal digartrefedd gan Lywodraeth Cymru, ac mae hyn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor Cydweithio Rhanbarthol wedi comisiynu astudiaeth o anghenion troseddwyr sy'n gadael carchar, ar draws Gogledd Cymru, Gwelir hyn yn rhywbeth amserol gan fod Carchar Y Berwyn yn Wrecsam i fod i agor yn ystod 2017.

Mae'r swydd yma wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr mewn rhoi cymorth i droseddwyr sy'n gadael carchar ynghyd ac eraill sydd mewn cyswllt a Threfn Cyfiawnder Troseddol er mwyn eu galluogi i dderbyn ymyrraeth a chefnogaeth amserol ac felly cyfrannu at leihau digartrefedd a'r risg o ail-droseddu.

**3.10.11 Diffyg Llety Addas** - Heb os mae taro ar y cydbwysedd angenrheidiol o fewn ein stoc tai o blith beth sydd yn fforddiadwy ac yn addas yn cynyddu'n fwy o her dros amser. Gyda'r niferoedd o gartrefi gydag ond un person yn byw ynddynt yn cynyddu'n gyflym, oherwydd ffactorau megis poblogaeth yn heneiddio, mwy o dor-priodas, a theuluoedd yn chwalu, ynghyd a materion sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl, mae'r angen am, lety un a dwy ystafell wely yn fwy nag erioed. Crëir problemau pellach o ran dod o hyd i lety addas gyda diffyg yn y nifer o dai fforddiadwy sydd ar gael, yn bennaf oherwydd newidiadau mewn polisi cymdeithasol, megis diwygio lles.

Bydd yr angen am lety ychwanegol hefyd yn cael ei effeithio gan ddatblygiad Wylfa B, fydd yn golygu bod rhwng 6,000 ac 8,000

yn fwy o bobl ar yr ynys, gyda nifer uchel ohonynt angen llety eu hunain. Bydd hun yn ei hun o bosib yn arwain at gynyddu'r lefelau digartrefedd gan y bydd y stoc tai ar draws pob daliadaeth yn debygol i fod yn gwegian hefo galw. O ganlyniad rhagwelir y bydd mwy byth o gyfeiriadau yn cael eu gwneud at Ddarparwyr Cefnogi Pobl,

# 4. Tystiolaeth Ymgynghori

4.1 Mae Tîm Cefnogi Pobl Ynys Môn wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran mynd i'r afael â materion yn ymwneud ag ymgynghori dros y tair blynedd ddiwethaf.

Mae'r canlynol yn dystiolaeth i'n cynnydd dros y deuddeng mis diwethaf mewn perthynas â:

- Chyfranogaeth Defnyddwyr Gwasanaeth
- Ail-gyflunio Pobl Hŷn
- Arferion Tendro
- Darparwyr yn ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth mewn ffordd ystyrlon
- Monitro Darpariaeth Gwasanaeth / Cyfranogiad gan Ddarparwyr

## 4.2 Cynnwys Defnyddwyr Gwasanaeth.

4.2.1 Mae cyfranogiad Defnyddwyr Gwasanaeth wedi cael ei nodi fel blaenoriaeth allweddol gan Lywodraeth Cymru o fewn Rhaglen Cefnogi Pobl ac mae'n awr yn eitem sefydlog ar yr agenda yng nghyfarfodydd Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gogledd Cymru bob dau fis.

4.2.2 Cesglir barn defnyddwyr gwasanaeth sy’n derbyn gwasanaethau yr ariennir trwy Cefnogi Pobl yn Ynys Môn fel trefniant parhaus, trwy holiadur ar-lein (Eich Gwasanaeth Eich Barn). Ceir crynodebau o’r data sydd wedi ei gasglu rhwng Ebrill 2016 a Rhagfyr 2016 yn Atodiad 3 o’r ddogfen hon.

4.2.3 Dengys y tabl yn Atodiad 4 o’r ddogfen yma'r lefelau a’r amrywiaeth o waith cyfranogiad defnyddwyr gwasanaeth yr ymgymerir gan Dîm Cefnogi Pobl a’r Darparwyr Gwasanaeth dros y 12 mis olaf.

## 4.3 Ail-gyflunio Pobl Hŷn:

4.3. Ym mis Medi 2016, cwblhaodd y Cyngor y broses o ail-gyflunio cefnogaeth sy’n Ymwneud â thai ar gyfer pobl hŷn. Cynhaliwyd ymgynghoriad manwl gyda thenantiaid tai gwarchod, a’u teuluoedd a’r gymuned ehangach. Bu i’r ymgynghori gael ei gynnal trwy nifer o ffyrdd gwahanol, megis sesiynau briffio wyneb yn wyneb, comisiynu gwasanaeth eiriolaeth annibynnol, newyddlenni rheolaidd oedd yn cynnwys rhestr o gwestiynau ac

atebion a dynnir eu sylw yn aml, ynghyd a diweddaru ein gwefan gorfforaethol. Bu person hyn sydd hefyd yn denant i'r cyngor yn aelod gwerthfawr o'r panel dyfarnu a benderfynodd ar y cais llwyddiannus.

## 4.4 Arferion Tendro

Mae'r angen i brofi'r farchnad ac ymgymryd ag ymarferion tendro i sicrhau cydymffurfio â Rheolau Caffael Ewropeaidd wedi bod yn arferiad rheolaidd o fewn Rhaglen Cefnogi Pobl ar Ynys Môn, dros y tair blynedd ddiwethaf. Yn ystod y cyfnod hwn, mae defnyddwyr gwasanaeth wedi cael eu cynrychioli yn ystod yr holl baneli gwerthuso a gynhaliwyd ac, ar ôl cael sesiynau ymsefydlu a pharatoad, maent wedi dylanwadu a gwneud cyfraniadau sylweddol i'r broses derfynol o wneud penderfyniadau.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cefnogi Tenantiaeth yn Gyffredinol
- Pobl Ifanc ag Anghenion Cymhleth
- Pobl Sengl rhwng 24 a 55
- Camddefnyddio Sylweddau
- Troseddu
- Iechyd Meddwl
- Pobl Hŷn

## 4.5 Eich Gwasanaeth Chi, Eich Barn Chi

4.5.1 Yn ystod cyfnodau diweddaraf 2015/16, mae Tîm Cefnogi Pobl Ynys Môn, mewn cydweithrediad â Thîm Technoleg Gwybodaeth y Cyngor, wedi datblygu Eich Gwasanaeth Chi Eich Barn Chi ar-lein i ddefnyddwyr gwasanaeth.

4.5.2 Rhwng 1af Ebrill 2016 a 31ain Ragfyr 2016, fe ymwelodd 75 o ddefnyddwyr gwasanaeth yr adnodd ar-lein yma. Cwblhawyd yr arolwg yn llawn gan 55 o bobl gydag 20 ychwanegol yn rhannol gwblhau'r wybodaeth, sy'n darparu data defnyddiol ar gyfer mesur barn defnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd y gwasanaeth, cyfleoedd ar gyfer cyfranogi, bylchau yn y ddarpariaeth a meysydd ar gyfer gwella. Ers ei gyflwyno, mae'r niferoedd sydd wedi dangos diddordeb wedi bod yn gyson ac fe ragwelir y gall yr adnodd gynnig data cadarn ac ystyrlon er mwyn adlewyrchu darpariaeth gyfredol a chyfrannu at ddatblygu a gwella gwasanaethau yn y dyfodol.

4.5.3 Darperir naratif o'r data rhwng 1.4.16 a 31.12.16 yn Atodiad 3 o'r ddogfen hon. Heb os mae sylwadau'r defnyddwyr gwasanaeth yn amlygu gwerth y rhaglen a

gwerthfawrogiad y defnyddwyr eu hunain o'r Rhaglen. Ceir manylion am ddata rhwng Tachwedd 2015 a 31 o Fawrth 2016 yn y Cynllun Comisiynu blaenorol rhwng 2016-2019.

## 4.6 Monitro Darpariaeth Gwasanaeth / Cyfranogiad Defnyddwyr Gwasanaeth

4.6.1 Cynhaliwyd cyfres o ymweliadau monitro ym mis Mawrth / Ebrill a Thachwedd / Rhagfyr 2016. Cwblhawyd adroddiad ar bob prosiect a fei rhannwyd gyda'r darparwyr yn unigol, gan amlygu materion o bryder ynghyd ac enghreifftiau o ymarfer da mewn perthynas â darparu gwasanaeth a rheoli cytundeb / perfformiad. Trafodwyd a rhannwyd y canfyddiadau gyda'r darparwyr perthnasol ac fe ddiweddarwyd y cynlluniau gwella a datblygu a luniwyd fel rhan o'r adolygiad mwy manwl.

4.6.2 Ymgynghorwyd gyda phob un o'n darparwyr cyn llunio achos busnes a'i gyflwyno i'r Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl, parthed sefydlu Man Mynediad Sengl / Porth Cefnogi Pobl.

# 5. Blaenoriaethau ar gyfer Datblygiadau yn Ynys Môn 2017-2018

## 5.1 Adolygu a Monitro Gwasanaethau

5.1.2 Mae'r Tîm Cefnogi Pobl ar Ynys Môn wedi bod yn cynnal rhaglen o adolygiadau strategol bob tair blynedd ers cychwyn y Rhaglen yn 2003. Mae'r broses adolygu yn ddull trylwyr a chadarn a ddefnyddir i benderfynu ar gymhwyster, perthnasedd strategol a gwerth am arian ac yn ogystal, mae'n gweithredu fel cyfrwng i hyrwyddo ymgysylltiad gyda defnyddwyr gwasanaeth a datblygu gwasanaethau.

5.1.3 Cynhaliwyd rhaglen ddwys o adolygiadau gwasanaeth gan y Tîm Cefnogi Pobl yn ystod 2013 a 2014, 2105, 2016 ac fe fydd y gwaith o weithredu cylch newydd yn cychwyn yn 2017 er mwyn cynnal adolygiadau o'r Grwpiau isod:

- Atal Digartrefedd
- Gwasanaethau i Bobl Ifanc
- Camdriniaeth Ddomestig
- Teuluoedd Sengl Bregus
- Pobl Hŷn (2 Gynllun)

5.1.4 Mae'r dystiolaeth o ran ansawdd gwasanaeth, gwerth am arian a pherthnasedd strategol wedi bod yn amhrisiadwy i benderfynu lle mae ein blaenoriaethau yn gorwedd, y gwasanaethau y bu angen eu hailfodelu, eu hail-gomisiynu neu, mewn rhai achosion, eu dadgomisiynu yn llawn a hynny o fewn cyfnod o dair blynedd sydd wedi bod yn hynod heriol o safbwynt ariannol.

5.1.5 Mae manylion am y modd yr ydym yn bwriadu defnyddio'r arian ar gyfer 2017/18 yn cael eu hamlinellu isod. Yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru, mae'r newidiadau wedi bod yn seiliedig ar gynllunio strategol a gwybodaeth yn hytrach na gwneud toriadau cyfartal ar draws yr holl wasanaethau. Mae'r holl wasanaethau a gomisiynir yn cael eu cynnwys gyda mapiau cyflenwi a hynny'n gyson â Chategorïau Grwpiau Cymwys a Chynlluniau Gwariant Llywodraeth Cymru.

## 5.2 Camdriniaeth yn y Cartel

| 5.2.1 **Darparwr** | **Unedau** | **Disgrifiad** |
|---|---|---|
| Gorwel | 4 | Darpariaeth Lloches |

| | | |
|---|---|---|
| Gorwel | 1 | Lloches wasgaredig |
| Gorwel | 6 | Cefnogaeth ar Wasgar |
| Gorwel | 14 | IDVA |
| | 25 | |

5.2.2 Yn ystod 2014, cynhaliwyd adolygiad o'r gwasanaethau camdriniaeth yn y Cartref y mae Gorwel yn cael eu comisiynu i'w darparu. Yn ôl canfyddiadau'r adolygiad, nid oedd y model cyfredol o ddarpariaeth, yn enwedig yr elfen cefnogaeth ar wasgar, yn gost-effeithiol. O ganlyniad, cytunwyd ar ostyngiad yn y cyllid o Ebrill 2015.

5.2.3 Rydym yn bwriadu adolygu'r ddarpariaeth o safbwynt Camdriniaeth yn y Cartref ar y cyd â chomisiynwyr eraill o fewn yr Awdurdod Lleol yn ystod 2017/18. Mae'n debyg y byddir yn ystyried modelau amgen i ddiwallu anghenion pobl yn y grŵp gwasanaeth hwn, ac yn y cyfamser, nid oes bwriad i ostwng ymhellach y dyraniad cyfredol ar gyfer y maes gwasanaeth hwn. Fodd bynnag, fel y soniwyd uchod, mae'n bosibl y bydd y cyfeiriad y byddwn yn ei gymryd yn y dyfodol o ran comisiynu gwasanaethau ar gyfer pobl sy'n dioddef digwyddiadau / achosion o gamdriniaeth yn y cartref yn cael ei benderfynu gan bolisi Llywodraeth Cymru, ac yn benodol, a fydd dull rhanbarthol yn cael ei fabwysiadu ar gyfer y grŵp hwn ai peidio.

## 5.3 Anableddau Dysgu

### 5.3.1 Map Cyflenwi

| **Darparwr** | **Unedau** | **Disgrifiad** |
|---|---|---|
| Cartrefi Cymru | 14 | Prosiectau Llety â Chefnogaeth parhaol ar draws 6 Chynllun. |
| Tyddyn Môn | 19 | Prosiectau Llety â Chefnogaeth parhaol ar draws 5 Cynllun. |
| Gofal Môn | 9 | 6 o Gynlluniau Llety â Chefnogaeth Parhaol a 3 Uned o Gymorth Hyblyg |
| | 42 | |

5.3.2 O'r holl grwpiau cymwys sy'n derbyn cyllid Cefnogi Pobl, y gwasanaeth llety â chefnogaeth i bobl ag anableddau dysgu sy'n costio fwyaf o gryn dipyn. Mae'r gwariant blynyddol mewn perthynas â darparu cefnogaeth sy'n ymwneud â thai i bobl ag anableddau dysgu ar hyn o bryd yn £ 722,689, sy'n cyfateb i 27.33% o'r dyraniad Cefnogi Pobl ar gyfer 2016/17. Mae hyn yn gyfystyr â chost flynyddol o £ 18,530 ar gyfartaledd ar gyfer pob un o'r 39 o unigolion sy'n cael eu cefnogi i fyw'n annibynnol yn y gymuned. Nid yw'r ffigwr cyfartalog hwn yn cynnwys 3 uned o gymorth hyblyg sy'n cael ei gomisiynu ar gost o £ 22,563.84 sy'n cyfateb i £ 7521.28 fesul unigolyn.

5.3.3 Cafodd adolygiad o wasanaethau cefnogaeth sy'n ymwneud â thai i bobl ag anableddau dysgu ei gynnal yn ystod 2016, ar gyfer yr hyn sydd, yn ei hanfod, wedi bod

yn drefniant a etifeddwyd ers cychwyn y rhaglen gyllido Cefnogi Pobl yn 2003. Nododd canfyddiadau'r adolygiad yn glir bod nifer o dasgau sy'n cael eu hariannu drwy'r Grant Cefnogi Pobl mewn gwirionedd yn ymwneud â gofal ac o'r herwydd, yn anghymwys.

5.3.4 Ymhellach, canfuwyd bod lefel anghymesur o gyllid Cefnogi Pobl yn cael ei ddefnyddio ar draws nifer o brosiectau llety â chefnogaeth ac ystyriwyd ei fod yn disodlin, yn hytrach nag ategu'r ddarpariaeth statudol ar gyfer y defnyddwyr gwasanaeth bregus hyn.

5.3.5 O ganlyniad, cyflwynwyd cynnig i'r Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl i gapio'r holl gefnogaeth sy'n ymwneud â thai i bobl ag anableddau dysgu ar uchafswm o 15 awr yr wythnos. Er bod hyn yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd o 5 awr yr wythnos, sy'n cael ei ddyrannu i grwpiau bregus eraill, mae'n dal i fod gryn dipyn yn llai na'r trefniant presennol, a bydd yn arwain at ddadfuddsoddi £287,000 yn y cyllid Cefnogi Pobl ar gyfer pobl ag Anableddau Dysgu o fis Ebrill 2017.

5.4.5 Mae'n anochel y bydd y dadfuddsoddiad yn y cyllid Cefnogi Pobl ar gyfer anableddau dysgu yn cyflwyno heriau ariannol o ran Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn ystod y tymor byr i ganolig. Mae Cefnogi Pobl yn ymrwymo i gydweithio gyda Gofal Cymdeithasol i Oedolion, Iechyd, Defnyddwyr Gwasanaeth a'u teuluoedd a'r darparwyr gwasanaeth i ailfodelu'r ddarpariaeth bresennol yn wasanaeth addas i'r pwrpas a chynaliadwy a fydd hefyd yn bodloni anghenion defnyddwyr gwasanaeth eraill yn y dyfodol.

## 5.5 Iechyd Meddwl

### 5.5.1 Map Cyflenwi

| Darparwr | Unedau | Disgrifiad |
|---|---|---|
| Gwasanaethau Cymorth yn y Gymuned | 9 | Llety â Chefnogaeth |
| Gwasanaethau Cefnogaeth yn y Gymuned | 150 awr yr wythnos (50 o ddefnyddwyr gwasanaeth / 3 awr yr wythnos) | Cefnogaeth ar Wasgar |
| | 59 | |

5.5.2 Yn dilyn trafodaethau ac ymgysylltiad rheolaidd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf rhwng y Tîm Cefnogi Pobl a darparwyr dynodedig sy'n cynnig cefnogaeth sy'n ymwneud â thai i bobl ag anghenion iechyd meddwl, cymerwyd camau breision i sicrhau bod y gwasanaeth bellach yn cwrdd ag anghenion cymwys o ran cefnogaeth sy'n ymwneud â thai.

5.5.3 Cynhaliwyd ymarfer tendro ym mis Ebrill 2016, a welodd uno'r pedwar gwasanaeth blaenorol ar gyfer darparu cefnogaeth sy'n ymwneud â thai i bobl ag anghenion iechyd meddwl (2 x llety â chefnogaeth a 2 x cefnogaeth ar wasgar). Arweiniodd hyn at gael un yn hytrach na dau ddarparwr ac o ganlyniad, gwelwyd gostyngiad yn y costau rheoli a chynnydd yn lefel y ddarpariaeth gyda hynny'n rhoi gwerth ychwanegol.

5.5.4 Yr un modd ag unrhyw wasanaeth newydd neu wasanaethau a ail-gyfluniwyd, sefydlwyd grŵp cydranddeiliaid amlasiantaethol yn cynnwys cynrychiolwyr o Cefnogi Pobl, Opsiynau Tai, y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol, Gwasanaethau Plant, y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, Camddefnyddio Sylweddau. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob 6 wythnos i drafod perfformiad yn erbyn y contract, mewnbwn, problemau neu bryderon ac i rannu arfer dda.

## 5.6. Camddefnyddio sylweddau

### 5.6.1 Map Cyflenwi

| Darparwr | Unedau | Disgrifiad |
|---|---|---|
| CAIS | 7 | Llety â Chefnogaeth a Phrosiectau Symud ymlaen |
| Cefnogaeth ar Wasgar | 33 | Hyblyg Isel-Uchel |
| | 40 | |

5.6.2 Cynhaliwyd ymarfer tendro a welodd y ddarpariaeth o gefnogaeth sy’n ymwneud â thai i bobl sy'n camddefnyddio sylweddau, sydd â hanes o droseddu ac / neu atal digartrefedd lefel isel generig, yn cael eu cyfuno’n un contract.

5.6.3 Yn yr un modd â’r tendr iechyd meddwl, cafodd dau o’r tri darparwr eu dadgomisiynu’n dilyn y cyfuno gyda hynny’n arwain at arbedion sylweddol, yn enwedig o ran y gostyngiad yn y costau rheoli. Mae'r ail-gyflunio hefyd wedi arwain at gynnydd bychan yn nifer yr unedau a ddarperir gyda'r fantais ychwanegol o fwy o hyblygrwydd i ddelio ag anghenion wrth iddynt godi, yn enwedig pan mae lleoedd gweigion yn codi mewn un o'r prosiectau dynodedig oherwydd gellir eu llenwi gydag unigolion sydd ag unrhyw o'r prif anghenion eraill o fewn cytundeb y contract. Mae hefyd yn caniatáu mwy o hyblygrwydd mewn perthynas â derbyn atgyfeiriadau i'r gwasanaethau cefnogaeth ar wasgar, a gall arwain at ymyrraeth gynharach ac o’r herwydd, ostyngiad yn y gost a’r ddibyniaeth ar wasanaethau statudol.

5.6.4 Yn unol ag arfer safonol ac o ganlyniad uniongyrchol i ail-gyflunio’r gwasanaeth, mae grŵp cydranddeiliaid wedi cael ei sefydlu am gyfnod a fydd o leiaf 12 mis i fonitro cynnydd a pherfformiad yn erbyn y trefniant cytundebol, mewnbwn, problemau a phryderon a rhannu arfer orau.

## 5.7 Pobl Ifanc a Bregus

### 5.7.1 Map Cyflenwi

| Darparwr | Unedau | Disgrifiad |
|---|---|---|
| Digartref | 9 | Llety â Chefnogaeth, Model Craidd a Chlwstwr gyda 7 o Unedau Craidd a 2 o Unedau Clwstwr (Coedlys) |
| Digartref | 6 | Cefnogaeth ar Wasgar ynghlwm wrth brosiect Coedlys |

| | | |
|---|---|---|
| Digartref | 13 | 9 o Unedau Llety â Chefnogaeth yn Llys y Gwynt a 4 yn y Gilfach |
| Digartref | 12 | 8 o Unedau Cefnogaeth ar Wasgar a 4 o Unedau Symud Ymlaen |
| | 40 | |

5.7 .2 Mae'r galw am wasanaethau i gefnogi pobl ifanc ac atal digartrefedd wedi bod yn cynyddu'n barhaus yn ystod y tair blynedd diwethaf. Mae Prosiect Llety â Chefnogaeth Coedlys ar gyfer pobl ifanc sydd ag anghenion cymhelth wedi derbyn, 38 o ymholiadau sydd wedi creu 38 o gyfeiriadau. Cafodd 29 eu cyfweld, fodd bynnag, ni fu modd ond darparu llety a chefnogaeth ar gyfer15 oherwydd mae cymhlethdod anghenion y bobl ifanc yn golygu eu bod yn aros yn yr unedau am gyfnodau hwy. Yn ystod yr un cyfnod, gadawodd 14 y prosiect fel a ganlyn

- Symudodd 11 i mewn yw tenantiaethau eu hunain yn y sector breifat
- Symudodd 1 i lety annibynnol
- Symudodd 1 yn ôl i'r cartref teuluol

5.7.3 Yn ychwanegol i Gynllun Coedlys, darperir 13 o unedau llety â chefnogaeth eraill yn Hostel Llys Y Gwynt (9 uned) a'r 2 eiddo a rennir rhwng 4 o bobl ifanc, ac sydd wedi eu lleoli ger ei gilydd ym Morawelon, Caergybi. Rhwng 1af Ebrill 2016 a 30 o Ragfyr 2016, derbyniwyd 83 o ymholiadau i'r prosiectau yna gynhyrchodd 70 o gyfeiriadau ar gyfer yr 13 o unedau. Cafodd 46 o bobl ifanc eu cyfweld, gyda 33 yn cael cynnig llety yno yn ystod y cyfnod hwn. Ymddengys o'r data sydd wedi ei dderbyn gan y darparwr bod 10 allan o'r 33 a adawodd y cynllun wedi symud i'w tenantiaethau eu hunain yn y sector breifat a 7 wedi dychwelyd i'w cartrefi teuluol.

5.7.4 Cafodd Uned Craidd a Chlwstwr Coedlys ei chomisiynau ar y cyd o fis Mai 2013, gydag arian Cefnogi Pobl, Teuluoedd yn Gyntaf ac arian y Loteri Fawr, am gyfnod o 3 blynedd i gychwyn, gydag opsiwn i ymestyn yr elfen Cefnogi Pobl am 3 blynedd arall ar yr amod ei bod yn cydymffurfio a bod y cyllid ar gael.

5.7.5 Pan ddaw'r cyllid loteri i ben, bydd raid cynyddu'r cyfraniad Cefnogi Pobl 19.7%. Gellir darparu'r cyllid ychwanegol ar gyfer y gwasanaeth hwn o'r gostyngiad yn y Gwasanaethau Anableddau Dysgu.

5.7.6 Nodwyd angen hefyd i brofi'r farchnad mewn perthynas â gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai ar gyfer pobl ifanc, ac mae hyn wedi cael ei raglennu ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18, yn dilyn adolygiad gwasanaeth llawn.

## 5.8 Rhieni Sengl Bregus

### 5.8.1 Map Cyflenwi

| Darparwr | Unedau | Disgrifiad |
|---|---|---|
| Hafan Cymru | 4 | Llety  â Chefnogaeth |
| Hafan Cymru | 12 | Cefnogaeth ar Wasgar |
| | 16 | |

5.8.1 Mae Hafan Cymru yn darparu cyfuniad o 4 uned Llety â Chefnogaeth a 12 o Unedau Cefnogaeth ar Wasgar. Er bod prif angen y rhai sy'n mynd i Hafan Cymru yn gysylltiedig â'r ffaith eu bod yn Rhieni Sengl Bregus, mae'r mwyafrif ohonynt hefyd wedi dioddef camdriniaeth yn y cartref. Mae'r gwasanaeth felly yn ategu'r ddarpariaeth o'r gwasanaeth lefel uwch a ddarperir gan Gorwel ar gyfer dioddefwyr camdriniaeth yn y cartref.

5.8.2 Yn ystod y cylch comisiynu nesaf, nid oes bwriad i ostwng y buddsoddiad a roddir tuag at ddarparu cefnogaeth sy'n ymwneud â thai i rieni sengl bregus. O'r herwydd, byddir yn ystod uno'r gwasanaeth hwn a'r ddarpariaeth mewn perthynas â chamdriniaeth yn y cartref yn ystod 2017/18 wrth i ni geisio  moderneiddio a chynnig dewisiadau eraill i nifer o rieni sengl bregus a'r sawl sydd wedi dioddef camdriniaeth yn y cartref. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd polisi cenedlaethol arfaethedig o ran y trefniadau comisiynu ar gyfer camdriniaeth yn y cartref yn dylanwadu ar gyfeiriad y maes gwasanaeth penodol hwn yn y dyfodol.

## 5.9 Cymorth Hyblyg Generig

### 5.9.1 Map Cyflenwi

| Darparwr | Unedau | Disgrifiad |
|---|---|---|
| Gwasanaethau Tai Cyngor Sir Ynys Môn | 80 | Cefnogaeth ar Wasgar Generig Lefel Ganolig |
| CAIS Generig | 34 | Cefnogaeth ar Wasgar Generig hyblyg |
| | | |
| | 114 | |

5.9.2 Cynhaliwyd ymarfer tendro ym mis Ebrill 2016 ac o ganlyniad, digomisiynwyd dau o'r tri gwasanaeth generig blaenorol a'u cyfuno'n un contract gyda'r gwasanaeth cymorth ar gyfer camddefnyddio sylweddau a throseddu. Mae hyn wedi bod yn llwyddiannus ac wedi arwain at fwy o hyblygrwydd er mwyn diwallu anghenion nifer o bobl sy'n cyflwyno gydag ystod o anghenion gwahanol a heriol lle mae'n anodd ar adegau i benderfynu p'un yw'r angen mwyaf sydd ganddynt.

5.9.3 Byddwn yn cynnal adolygiad o'r 80 Uned Cefnogaeth Hyblyg Generig yn ystod Chwarter 2 / Chwarter 3 yn 2017, a fydd yn penderfynu a ddylem fynd am yr opsiwn o ymestyn y contract presennol am ddwy flynedd arall.

## 5.10 Hanes Troseddu

### 5.10.1 Map Cyflenwi

| Darparwr | Unedau | Disgrifiad |
|---|---|---|
| CAIS | 6 | Cefnogaeth ar Wasgar |
| CAIS | 6 | Llety â Chefnogaeth |
| | 12 | |

5.10.2 Mae gwasanaethau cefnogaeth sy’n gysylltiedig â thai i bobl sy'n cyflwyno gydag anghenion sy'n ymwneud â throseddu wedi cael eu cyfuno gyda’r ddarpariaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau a’r gwasanaeth digartrefedd lefel isel generig. O ganlyniad, fe ddigomisiynid y darparwr blaenorol ac fe gollwyd y prosiect ‘Doorstop’. Fel rhan o’r broses o ailfodelu, mae'r 5 uned Cymorth Hyblyg a’r 3 Uned Llety â Chymorth a gynigiwyd yn flaenorol trwy'r Project Doorstop yn cael eu dyrannu yn hyblyg bellach ac o ganlyniad gall y bobl sydd ag anghenion sy’n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau, troseddu neu rai generig gael eu lletya hynny’n unol â'r galw.

5.10.3 Mae’r Grŵp Cydranddeiliaid a nodwyd yn yr Adran uchod ar Gamddefnyddio Sylweddau hefyd yn ymdrin â’r holl faterion mewn perthynas â phobl sydd ag anghenion sy’n gysylltiedig â throseddu a hyd yn hyn, mae wedi bod yn adnodd defnyddiol o ran rhannu a thrafod problemau a phryderon gyda chydweithwyr o’r Gwasanaeth Prawf.

## 5.11 Pobl Hŷn

### 5.11.1 Map Cyflenwi

| Darparwr | Unedau | Disgrifiad |
|---|---|---|
| Gorwel | 460 | Cefnogaeth ar Wasgar |
| Clwyd Alyn | 40 | 2 x 20 Unedau Tai Gwarchod gyda Warden Cymunedol a Larymau |
| | 500 | |

5.11.2 Ym mis Mai 2016, cafodd ymarfer tendro ei werthuso er mwyn penderfynu ar y darparwr llwyddiannus a fyddai’n darparu cefnogaeth sy’n ymwneud â thai ar gyfer pobl hŷn ar draws pob deiliadaeth ac a fyddai’n sicrhau bod CSYM yn cydymffurfio ag Argymhellion Aylward.

5.11.3 Gydag ail-gyflunio’r gwasanaeth, dadgomisiynwyd y gwasanaeth warden tai gwarchod blaenorol (lle yr oedd llai na 1/3 yn defnyddio’r gwasanaeth), y gwasanaeth ail-alluogi a dementia cynnar (a oedd yn seiliedig ar ofal yn bennaf).

5.11.4 Ym mis Medi, daeth gwasanaeth wedi ei ail-gyflunio yn weithredol sy’n darparu 460 o unedau ar draws y gymuned sydd hefyd yn cynnwys cymorth sy’n gysylltiedig â thai yng Nghynllun Gofal Ychwanegol Penucheldre a Chynlluniau Tai Gwarchod Llys Mair, sydd,

y ddau ohonynt, yn eiddo i Grŵp Cynefin ac yn cael eu darparu gan Gorwel, sef is-gwmni o Grŵp Cynefin.

5.11.5 Mae grŵp prosiect wedi goruchwylio datblygiad a gweithrediad y prosiect ac mae wedi cyfarfod yn rheolaidd. Mae grŵp rhanddeiliaid newydd wedi cael ei sefydlu, a fydd yn disodli'r Grŵp Prosiect, ac a fydd yn cael ei gadeirio gan Reolwr Gwasanaeth Gorwel. Bydd y Swyddog Arweiniol Cefnogi Pobl yn mynychu'r grŵp gyda chydweithwyr o Dai, Gwasanaethau Cymdeithasol, Grŵp Cynefin, Diogelwch Cymunedol, ac Age Cymru.

5.11.6 Nid yw Prosiectau Tai Gwarchod Clwyd Alyn a leolir yn Amlwch a Benllech yn rhan o'r gwasanaeth a ddisgrifir uchod ac ni fydd unrhyw newid iddynt yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

## 5.12 Pobl sengl 25-54 oed sydd yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn Ddigartref

### 5.12.1 Map Cyflenwi

| Darparwr | Unedau | Disgrifiad |
|---|---|---|
| Y Wallich | 20 | Tai yn Gyntaf - Cefnogaeth ar Wasgar lefel Dwys ar gyfer Pobl sydd naill ai'n Ddigartref neu'n Cysgu Allan |
| | 20 | |

5.12.2 Comisiynwyd y Wallich ym mis Ebrill 2013 i ddarparu 12 uned o Gefnogaeth ar Wasgar lefel Dwys yn y lle cyntaf, yn seiliedig ar y model Tai yn Gyntaf i Bobl sy'n Cysgu Allan a'r rhai sydd naill ai'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref. Cynyddodd hyn wedyn i 14 ac i 17 erbyn mis Ebrill 2016-17. Mewn ymarfer gwerth am arian a gynhaliwyd yn ddiweddar, amlygwyd y gymhareb uchel eithriadol o gymorth y mae'r prosiect hwn yn ei ddarparu fesul defnyddiwr gwasanaeth. Arweiniodd trafodaethau pellach gyda'r darparwr at gynnydd pellach i 20 uned yr wythnos.

5.12.3 Daw'r cytundeb presennol i ben yn ystod 2017, ac mae'r darparwr eisoes wedi cael gwybod y bydd yn gorfod cymryd rhan mewn proses dendro lawn yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Nodwyd hyn fel blaenoriaeth allweddol yn ystod 2017/18.

## 5.13 Larymau Cymunedol

### 5.13.1 Map Cyflenwi

| Darparwr | Unedau | Disgrifiad |
|---|---|---|
| Gwasanaethau Tai | 1280 | Larymau Cymunedol mewn Llety Tai |

| | | |
|---|---|---|
| (Tunstall) | | Gwarchod a Llety sydd wedi ei ddynodi ar gyfer Pobl Hŷn |
| Grŵp Cynefin (Galw Gofal) | 119 | 119 o Larymau Cymunedol ym Mhenucheldre a Llys Mair |
| Gofal Môn (Galw Gofal) | 170 | Darparu Larymau Cymunedol a Darpariaeth Teleofal. |
| | 1569 | |

5.13.1 Ystyrir bod darparu larymau cymunedol yn hanfodol bwysig ar gyfer hyrwyddo'r agenda ataliol, hyrwyddo annibyniaeth ar draws amrywiaeth o grwpiau a fyddai, fel arall, yn fregus ac mae'n golygu bod gwasanaethau a gyllidir drwy Cefnogi Pobl yn cyfrannu'n sylweddol tuag at gyflawni canlyniadau cadarnhaol, yn enwedig o ran hyrwyddo diogelwch personol a chymunedol, yn ogystal ag annibyniaeth a rheolaeth.

5.13.2 Nid oes amheuaeth y byddai annibyniaeth nifer sylweddol o bobl hŷn yn y fantol heb y ddarpariaeth o larymau cymunedol a phethau ychwanegol megis synwyryddion teleofal a thele-iechyd.

5.13.3 Ar adeg ysgrifennu, roedd trafodaethau'n mynd rhagddynt rhwng y Gwasanaethau Cymdeithasol a Chefnogi Pobl ynghylch cost a threfniadau comisiynu o Ebrill 2017.

## 5.14.Un Pwynt Mynediad

5.14.1 Mae cynnig wedi ei gymeradwyo gan y Grŵp Cynllunio Lleol i benodi Cydlynydd Porth a fyddai'n gweithio fel rhan o'r Tîm Opsiynau Tai. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn delio gyda, ac yn cydlynu'r holl gyfeiriadau Cefnogi Pobl ac yn eu didoli. Rhagwelir y bydd y rôl

- Yn newid y modd y mae cyfeiriadau'n cael eu rholi, tasg y mae darparwyr CP ar Ynys Môn yn gyfrifol amdani ar hyn o bryd;
- Yn golygu bod swyddi gweigion ar draws y sector yn cael eu monitro'n well;
- Yn golygu gostyngiad yn nifer y lleoedd gweigion a nifer yr oriau dynodedig sydd ddim yn cael eu defnyddio o fewn prosiectau;
- Yn hwyluso mynediad rhwyddach a gwell i wasanaethau i'n defnyddwyr gwasanaeth mwyaf bregus;
- Yn darparu dull rheoli defnyddiol a mwy cadarn i wella'r modd y caiff darparwyr gwasanaeth eu monitro;

- Mae'n debygol o gynyddu'r pwysau ar ddarparwyr i wella canlyniadau o ran symud ymlaen. Fodd bynnag, ni fydd hyn ond yn berthnasol mewn achosion lle ystyrir bod defnyddwyr gwasanaeth yn barod i symud ymlaen, ac ni ddylai mewn unrhyw fodd ddylanwadu ar ddarparwyr i symud defnyddwyr gwasanaeth yn eu blaenau er mwyn derbyn atgyfeiriadau newydd;

- Yn dod ag Ynys Môn i'r un sefyllfa â'r mwyafrif helaeth o Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru sydd wedi gweithredu'r ymagwedd hon, gan gynnwys 4 allan o'r 6 Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru.

- Hwyluso a gwella cyfathrebu ac arferion gwaith rhwng Cefnogi Pobl ac Opsiynau Tai a Thîm Un Pwynt Mynediad y Gwasanaethau Cymdeithasol;

- Sicrhau bod dull mwy strategol yn cael ei fabwysiadu i ddatblygu gwasanaethau a datrysiadau tai cynaliadwy a bod y Rhaglen Cefnogi Pobl yn ymateb i anghenion cyfredol ac anghenion sy'n esblygu;

- Helpu i leihau'r bylchau o ran anghenion gwasanaeth a llety fel ei gilydd.

5.14.2 Ystyrir bod y Prosiect un Pwynt Mynediad neu'r Prosiect Porth ('Gateway') fel y'i gelwir hefyd, yn brosiect ynddo'i hun ac o'r herwydd mae'n uniongyrchol gymwys i dderbyn Cyllid Cefnogi Pobl.

5.14.3 Er nad yw'r trefniadau'n derfynol eto, rhagwelir y bydd y swydd hon yn costio oddeutu £40,000 (yn cynnwys argostau a chostau teithio). Felly, mae'r swydd yn gost-niwtral i'r Cyngor.

## 5.15 Cefnogaeth Hyblyg Lefel Isel Barhaus

5.15.1 Mae'n ymddangos bod rheol anysgrifenedig sy'n dweud na ddylai unrhyw berson bregus dderbyn llety â chefnogaeth, llety symud ymlaen, cefnogaeth ar wasgar neu gyfuniad o ddau neu fwy o'r rhain am fwy na dwy flynedd. Mae llawer o'n darparwyr yn ymwybodol o hyn ac yn aml, maent yn gofyn am gyngor wedi i'r person bregus ddod i ddiwedd y cyfnod hwn neu pan mae'r cyfnod o gefnogaeth ar fin dod i ben.

5.15.2 Yn dilyn trafodaethau gyda darparwyr a rhanddeiliaid, mae llawer wedi nodi bod nifer o bobl fregus yn parhau felly wedi i'r cyfnod o wasanaeth gyda chefnogaeth ddod i ben, sy'n dibrisio'r amser, yr ymdrech a'r arian a ddarparwyd yn ystod y cyfnod o gefnogaeth. Y bobl sydd fwyaf tebygol o elwa o wasanaeth o'r fath fyddai pobl ag anableddau dysgu nad ydynt yn bodloni'r meini prawf statudol ar gyfer cael eu cofrestru fel pobl anabl, anghenion iechyd meddwl lefel isel megis pryder, pobl hŷn sydd wedi'u hynysu, a'r rhai sy'n tueddu i fod â bywydau anhrefnus lle gellir cysylltu gyda nhw ar fyr rybudd neu pan fyddant yn taro rhyw sbardun sy'n golygu y gallant fynd yn ôl i fel yr oeddynt o'r blaen. Rhagwelir mai am gyfnod byr iawn y byddent angen cymorth a dylai hynny gyfrannu at atal gorfod dychwelyd i'r gwasanaeth llety â chefnogaeth / cefnogaeth ar wasgar.

5.15.3 Felly cynigir y dylid arbrofi gyda chynllun peilot lefel isel parhaus (dipio i mewn ac allan) am gyfnod o am 18 mis a'i werthuso bryd hynny ac os yw'n llwyddiannus, dylid ystyried sefydlu proses dendro lawn gyda'r posibilrwydd o uno gwasanaethau.

5.15.4 rhag amcenir y byddai darparu'r gwasanaeth hwn yn costio oddeutu £ 110,000 y flwyddyn, a byddai'n cael ei ariannu drwy'r ddefnyddio'r arian a geir yn sgil gostwng y ddarpariaeth ar gyfer y rhai sydd ag Anableddau Dysgu.

## 5.16 – Cronfa Gomisiynu Ranbarthol

5.16.1 Mae'r Pwyllgor Cydweithio Rhanbarthol wedi cynnig bod yr holl Awdurdodau Lleol yng Ngogledd Cymru yn torri'r swm y mae'n ei neilltuo i Cefnogi Pobl bob blwyddyn gan 1%. Bydd yr arian hwnnw wedyn yn cael ei reoli'n ganolog gan Bwyllgor Cydweithio Rhanbarthol Gogledd Cymru a fydd yn ceisio nodi cyfleoedd i ddefnyddio'r arian hwn i gomisiynu rhai gwasanaethau yn rhanbarthol yn y dyfodol.

# 6.0 Cynllun Gwariant

**6.1** Mae'r wybodaeth a'r data sydd wedi eu cynnwys yn y tabl isod yn cymharu'r gyllideb arfaethedig ar gyfer blwyddyn 2016-17 gyda'r pedair blynedd flaenorol. Dylid nodi hefyd mai swm dangosol yw'r swm arfaethedig ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon.

| Blwyddyn Ariannol | Grant Rhaglen Cefnogi Pobl |
|---|---|
| 2012/13 (Awst/Mawrth) | £2,111,315 |
| 2013/14 | £3,052, 211 |
| 2014/15 | £2,899,598 |
| 2015/16 | £2,643,866 |
| 2016/17 | £2,643,866 |
| 2017/18 | £2,643,866 |

| **Grŵp Cleientiaid** | **Cyfanswm y Grant a Ddyrannwyd 2017/18** | **% y Cynnydd neu'r Gostyngiad ers 2016/17** |
|---|---|---|
| Merched sy'n dioddef Camdriniaeth Ddomestig | 160,752 | 0.00% |
| Dynion sy'n dioddef Camdriniaeth Ddomestig | 0.00 | 0.00% |
| Pobl ag Anableddau Dysgu | 465,846 | -32.8% |
| Pobl ag Anghenion Iechyd Meddwl | 183,771 | -4.7% |
| Pobl ag Anghenion Alcohol | 0.00 | 0.0% |
| Pobl ag Anghenion Camddefnyddio Sylweddau | 135,066 | 0.0% |
| Pobl â Hanes o Droseddu | 47,625 | 0.0% |
| Pobl â Statws Ffoaduriaid | 0 | 0.0% |
| Pobl ag Anableddau Corfforol a Synhwyraidd | 0.00 | -100% |
| Pobl ag Anhwylderau Datblygiad (e.e. Awtistiaeth) | 0.00 | 0.00 |
| Pobl ag Anghenion Afiechyd Cronig gan gynnwys HIV ac Aids) | 0.00 | -100% |
| Pobl Ifanc sy'n Gadael Gofal | 0.00 | 0.00 |
| Pobl Ifanc ag Anghenion Cefnogaeth (16-24) | 497,292 | +19.7% |
| Teuluoedd Rhiant Sengl ag Anghenion Cefnogaeth | 74,189 | 0.00 |
| Teuluoedd ag Anghenion Cefnogaeth | 0.00 | 0.00 |
| Pobl Sengl ag Anghenion Cefnogaeth nas rhestrwyd uchod (25-54) | 122,857 | +0.00% |
| Pobl dros 55 mlwydd oed ag Anghenion Cefnogaeth (ac eithrio gwasanaethau larymau) | 349,731 | +4.0% |
| Cefnogaeth ar Wasgar Cyffredinol Peripatetig (gwasanaethau cefnogi tenantiaeth sy'n cynnwys anghenion amrywiol) | 284,535 | 0.0% |
| Gwasanaethau Larymau (gan gynnwys tai gwarchod/gofal ychwanegol) | 113,148 | 0.0% |
| Prosiectau Newydd Arfaethedig 17/18<br>1. Llwybr Sengl at Fynediad<br>2. Cefnogaeth ar Wasgar Lefel Isel<br>**3.** 1% o gyfraniad Rhanbarthol | <br>£50,000<br>£111,615<br>£26,439 | |
| **Cyfanswm** | **£,2643,866.03** | |

# 7. Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb

**Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb (EIA)**
**Rhan A – Asesiad Cychwynnol o’r Effaith ar Gydraddoldeb**

Dyddiad dechrau: 4.12.14 (        Dyddiad cwblhau: **Parhaus**

**RHAN A – Cam 1: Paratoad**



| | | |
|---|---|---|
| 1. | Beth ydych chi’n ei asesu? | Effaith y cynigion sydd wedi eu cynnwys yn Strategaeth Gomisiynu Grant Rhaglen Cefnogi Pobl ar gyfer 2017/20.<br><br>Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar gomisiynu cefnogaeth sy'n ymwneud â thai ar gyfer ystod amrywiol o unigolion neu deuluoedd, sydd yr un mor fregus â'i gilydd, sydd naill ai'n ddigartref neu mewn perygl o ddod yn ddigartref.<br><br>Mae'r cynigion yn cynnwys ailfodelu, digomisiynu ac ail-gomisiynu gwasanaethau cefnogi fel y disgrifir yn y Strategaeth Gomisiynu a'r Cynllun Gwariant gorfodol. |
| 2. | Ydy hwn yn bolisi newydd ynteu un sy’n bod yn barod? | Diweddarwyd o strategaeth 2016/19. |
| 3. | Beth yw nodau a phwrpas y polisi hwn? | I amlinellu argymhellion ar gyfer comisiynu gwasanaethau cefnogaeth sy’n ymwneud â thai ar gyfer amrediad eang a gwahanol o bobl sydd yr un mor fregus â’i gilydd, yn unol â’u hanghenion sydd wedi eu hasesu.<br><br>Yn unol â Deddf Tai (Cymru) 2014, a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae ffocws y strategaeth yma yn canolbwyntio ar gomisiynu darpariaeth gwasanaeth sydd o ansawdd ac yn cynnig gwerth am arian mewn perthynas ag: |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Atal digartrefedd ble'n bosibl<br>• Lleihau risg digartrefedd o fewn 56 diwrnod ar ôl cyflwyno a chefnogi pobl i fyw mor annibynnol â phosib.<br>• Darparu cefnogaeth sydd ei angen ar bobl i fyw yn eu cartrefi eu hunain, hosteli, tai gwarchod neu fath arall o lety arbenigol.<br>• Atal problemau rhag digwydd yn y man cyntaf neu ddarparu cefnogaeth cyn gynted â phosib er mwyn lleihau galw ar wasanaethau eraill megis iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol.<br>• Darparu cefnogaeth i gydweddu gofal personol neu iechyd y bydd rhai pobl ei angen, ond nid cynnig darpariaeth yn eu lle.<br>• Sicrhau bod darpariaeth o ansawdd ar gael mewn modd sydd mor effeithlon ac effeithiol a phosibl, trwy gydweithio agos rhwng sefydliadau ac asiantaethau sy'n cynllunio ac ariannu gwasanaethau i ddiwallu anghenion cefnogaeth sy'n ymwneud â thai.<br>• Hyrwyddo cydraddoldeb a lleihau anghydraddoldebau<br><br>Data Cydraddoldeb.<br><br>Rhydd y data isod ddarlun cryno o'r tenantiaid/defnyddwyr gwasanaeth sydd wedi derbyn Cymhorthdal Cefnogi Pobl yn ystod chwarter 2 y flwyddyn 2015/16. Yn unol â gofynion rhanbarthol Cefnogi Pobl, rhoi ciplun o ddechreuwyr newydd yn unig y mae'r data yn ystod y chwarter arbennig hwnnw. |

| Rhyw | Gwryw | Benyw: |
|---|---|---|
| | 375 | 619 |

| Oedran | 16-24 | 25-34 | 35-44 | 45-54 | 55-64 | 65+ |
|---|---|---|---|---|---|---|

Tudalen 696

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 171 | 171 | 131 | 85 | 80 | 373 |

| Ethnigrwydd | Gwyn | Cymysg Gwyn ac Asiaidd | Cymysg Gwyn a Du Caribïaidd | Cymysg Gwyn – Arall | Asiaidd / Asiaidd Prydeinig - Indiad | Asiaidd / Asiaidd Prydeinig – o Bacistan |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1126 | 0 | 1 | 1 | 1 | 3 |

| Ethnigrwydd | Asiaidd / Asiaidd Prydeinig - o Fangladesh | Asiaidd / Asiaidd Prydeinig – Tsieineaidd | Asiaidd / Asiaidd Prydeinig – Ffilipino | Asiaidd / Asiaidd Prydeinig – Arall | Du neu Ddu Brydeinig Garibïaidd | Du neu Ddu Prydeinig Affricanaidd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 1 |

| Ethnigrwydd | Du neu Ddu Prydeinig Arall | Arab | Sipsi / Teithiwr | Arall | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 0 | 1 | 1 | 3 | |

| Cenedl | Cymro / Cymraes | Sais | Gwyddel o Ogledd Iwerddon | Albanwr | Prydeinig | Gwyddel o Dde Iwerddon | Arall |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 327 | 146 | 1 | 0 | 172 | 4 | 17 |

| Iaith Orau | Cymraeg | Saesneg | Yr Iaith Arwyddion Brydeinig | Arall | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 188 | 454 | 2 | 10 | |

| Crefydd | Dim | Bwdhydd | Iddew | Sikh | Hindŵ | Cristnogol | Mwslim | Arall | Dim ar Gael |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 318 | 0 | 0 | 1 | 0 | 181 | 3 | 10 | 111 |

| Anabledd / Nam | Symuded d | Golwg | Clyw | Iechyd Meddwl | Anhawster Dysgu | Deheurwydd | Dim | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 46 | 6 | 6 | 196 | 71 | 6 | 208 | 25 |

| Tuedd Rywiol | Deurywiol | Hoyw neu Lesbïaidd | Heterorywiol | Gwell gennyf beidio â dweud | |
|---|---|---|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| | | \| \| 31 \| 5 \| 501 \| 105 \| \| \| 1 |
| 4. | Pwy sy'n gyfrifol am y polisi/gwaith yr ydych yn ei asesu? | Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl Lleol Ynys Môn, sy'n cynnwys Cynrychiolydd yr Awdurdod Lleol ar lefel Pennaeth Gwasanaeth a/neu reolaeth ganol. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gwasanaeth Prawf Cymru yn ogystal â darparwyr Tymor Hir a Byr a Chymdeithas Ymbarél y Trydydd Sector hefyd yn aelodau o'r Grŵp. |
| 5. | Pwy yw'r Prif Swyddog ar gyfer yr EIA hwn? | Shan Lloyd Williams (Pennaeth Gwasanaethau Tai, Cyngor Sir Ynys Môn) |
| 6. | Pwy arall sydd â rhan mewn cynnal yr EIA hwn? | Arwel Jones – Prif Swyddog Datblygu, Gwasanaethau Tai, gyda chyfrifoldeb Swyddog Arweiniol am Raglen Cefnogi Pobl.<br><br>Sara Ankers- Swyddog Adolygu, Contractau a Datblygiad y Tîm Cefnogi Pobl.<br><br>Anne Sutton - Dadansoddwr Data a Chyllid. |
| 7. | Ydy'r polisi'n perthyn i bolisïau/meysydd gwaith eraill? | Fframwaith polisi a chyllido a arweinir gan Lywodraeth Cymru yw'r Rhaglen Cefnogi Pobl, sy'n dosbarthu cyllid blynyddol i awdurdodau lleol i gefnogi a chynorthwyo rhai o'r bobl fwyaf anhrefnus a bregus i redeg eu cartrefi eu hunain, i gadw eu hannibyniaeth, a gwella ansawdd eu bywyd.<br><br>Mae cefnogi rhai o'r bobl fwyaf bregus yn ein cymdeithas wedi cael ei nodi fel un o'r tair blaenoriaeth yng Nghynllun Corfforaethol Cyngor Sir Ynys Môn 2013-2017. Meysydd polisi eraill y mae'r polisi hwn yn perthyn iddynt yw:<br><br>• Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol 2015<br>• Deddf Tai (Cymru) 2014 |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014<br>• Y Strategaeth Dai Genedlaethol, Gwella Bywydau a Chymunedau – Cartrefi yng Nghymru,<br>• Cynllun Digartrefedd Deng Mlynedd ar gyfer Cymru 2009-2019<br>• Fframwaith Deilliannau Cenedlaethol Cefnogi Pobl<br>• Cynllun Corfforaethol Cyngor Sir Ynys Môn<br>• Strategaeth Dai Leol Ynys Môn 2014-2019<br>• Cynllun Integredig Sengl Ynys Môn – Ein Hynys Ein Dyfodol,<br>• Diwygio Lles<br>• Trechu Tlodi |
| 8. | Pwy yw'r prif randdeiliaid? | Defnyddwyr Gwasanaeth, Tenantiaid, Cydweithwyr yn yr Awdurdod Lleol, o'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn bennaf, Darparwyr Gwasanaethau sy'n darparu Cefnogaeth sy'n ymwneud â Thai a'u gweithlu, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, Landlordiaid yn y Sector Preifat, Aelodau Etholedig, Cymunedau Lleol, Iechyd, y Gwasanaeth Prawf, y 3ydd Sector lleol. |

| 9 - Ydy'r polisi'n berthnasol i'r modd y mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â dyletswydd gyffredinol y sector cyhoeddus ynglŷn â phobl sy'n cael eu gwarchod oherwydd oedran; anabledd; rhyw; ailbennu rhyw; beichiogrwydd a mamolaeth; hil, ethnigrwydd neu genedl; crefydd neu gred a thueddfryd rhywiol? | Ydy | Nac ydy |
|---|---|---|
| Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu | ✓ | |
| Hyrwyddo cyfle cyfartal | ✓ | |
| Meithrin perthynas dda | ✓ | |
| Amddiffyn a hyrwyddo hawliau dynol | ✓ | |

**RHAN A – Cam 2: Casglu Gwybodaeth**

| | |
|---|---|
| 10 – Ydy'r polisi / maes gwaith hwn yn sicrhau cydraddoldeb i'r Gymraeg a'r Saesneg yn unol â Chynllun Iaith y Cyngor? | Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg ar draws ei holl wasanaethau. Rydym yn hybu dull rhagweithiol i sicrhau y gellir cynnig gwasanaethau yn Gymraeg yn unol â Fframwaith Strategaeth Llywodraeth Cymru, 'Mwy Na Geiriau'. Rydym eisoes yn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg y Cyngor drwy fonitro gwasanaethau yn chwarterol ac rydym yn cynnal arolwg blynyddol o ddarparwyr i werthuso eu cydymffurfiad â Deddf yr Iaith Gymraeg a Mesur y Gymraeg a rhennir y canfyddiadau gyda Llywodraeth Cymru. |
| 11 - Oes yna gyfle drwy'r polisi / | Bydd nifer fawr o'r defnyddwyr gwasanaeth yn siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf. Telir y sylw |

| | |
|---|---|
| maes gwaith hwn i gynnig mwy o gyfleoedd i bobl ddysgu a/neu ddefnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd? | dyledus i'w hanghenion iaith a byddwn yn sicrhau fel y crybwyllwyd uchod bod defnyddwyr gwasanaethau yn gallu cyfathrebu gyda'r holl ddarparwyr sy'n darparu cefnogaeth yn ymwneud â thai yn yr iaith o'u dewis.<br><br>Disgwylir i holl ddarparwyr cefnogaeth yn ymwneud â thai (presennol a newydd) ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg hefyd a gallu dangos agwedd ddiwylliannol sensitif sy'n dathlu amrywiaeth ac yn sensitif i anghenion crefyddol, diwylliannol, ethnig ac ieithyddol defnyddwyr gwasanaeth, heb wahaniaethu ar sail rhyw, rhywioldeb, iaith nac anabledd. |
| 12 – Pa gyfraniad posibl mae'r polisi / maes gwaith hwn yn ei wneud tuag at sicrhau bod diwylliant hanesyddol a chyfoes yr Ynys yn blodeuo ac yn ffynnu? | Mae Cefnogi Pobl yn cefnogi'r unigolion a'r teuluoedd mwyaf bregus mewn cymdeithas ar draws y sbectrwm oed cyfan. Mae cynorthwyo pobl i chwilio, sefydlu a chynnal eu cartrefi ar draws pob deiliadaeth a'u cynorthwyo i ddatblygu elfennau angenrheidiol byw o ddydd i ddydd, gwella eu rhwydweithiau cymdeithasol ac atal unigrwydd, derbyn cymorth i ddod o hyd i waith a gwella rheolaeth ariannol i gyd yn ffactorau allweddol mewn galluogi dinasyddion i fyw a rhwydweithio o fewn y gymuned o'u dewis ac felly maent yn cyfrannu'n sylweddol at sicrhau bod diwylliant hanesyddol a chyfoes yr Ynys yn blodeuo ac yn ffynnu. |
| 13 – Oes yna unrhyw broblemau Hawliau Dynol?<br>Os oes, beth ydynt?<br><br>(Mae'r 16 hawl sylfaenol yn y ddeddf Hawliau Dynol wedi eu rhestru yn Atodiad 1). | Yn unol â'r dull seiliedig ar hawliau dynol, wrth gomisiynu a darparu gwasanaethau cefnogi o safon yn ymwneud â thai, mae'r weledigaeth ar Ynys Môn yn annog ac yn pwysleisio'r angen i'r bobl a'r cymunedau sy'n elwa cyfranogi a chymryd rhan mewn dylunio a darparu gwasanaethau, polisïau a rhaglenni.<br><br>Dylid talu'r sylw dyledus os torrir unrhyw rai o'r canlynol:<br>Erthygl 8 – Yr hawl i fywyd preifat, parch, teulu a chyfeillgarwch<br>Erthygl 10 – Rhyddid Mynegiant o ran gallu cael mynediad at y wybodaeth briodol ynghylch gwasanaethau, a'r hawl i gwestiynu pan wrthodir mynediad at wasanaethau neu i gwyno ynghylch agwedd ar y gwasanaeth a ddarperir.<br>Erthygl 14 – Glynu at Ddeddf Cydraddoldeb 2010. |
| 14 – Beth sydd wedi cael ei wneud | Rhoddwyd ystyriaeth i gymhwyster gwasanaethau a chafodd y trefniadau comisiynu eu |

| | |
|---|---|
| hyd yma o ran ymgysylltu ac ymgynghori gyda golwg ar y polisi hwn? | blaenoriaethu i ddechrau yn unol â hyn.<br>Mae pob un o'n gwasanaethau yn cael eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd gan edrych ac adrodd ar berfformiad yn erbyn trefniadau darparu o fewn y cytundeb. Cynhelir grwpiau a fforymau rhanddeiliaid yn rheolaidd gyda darparwyr, ble y bydd meysydd a blaenoriaethau ar gyfer datblygu yn cael eu hadnabod a'u trafod. Ceir atborth defnyddiol gan ystod o ran ddeiliaid sy'n cynnwys, swyddogion a rheolwyr o fewn y Cyngor, rheolwyr a staff darparwyr gwasanaeth, a defnyddwyr gwasanaeth eu hunain. Gellir cael mynediad at holiadur ar lein ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth ar lefel barhaus a derbynnir atborth ystyrlon ar ddarpariaeth gwasanaeth, ansawdd, a meysydd sydd angen datblygu. Yn atodiadau 3 a 4 o'r Cynllun hwn, ceir cofnod manwl o gyfranogiad defnyddwyr gwasanaeth a'u barn ar y gwasanaethau a'u darperir. |
| 15 – Oes yna unrhyw fylchau yn y wybodaeth a gasglwyd hyd yn hyn? Os oes, sut yr eir i'r afael â hyn? | Nac oes |

**RHAN A – Cam 3: Ystyried yr effaith bosibl**

*Ar gyfer pob nodwedd warchodedig, rhowch fanylion yn y golofn ar y dde yn y tabl isod:

(1) Unrhyw adroddiadau, ystadegau, gwefannau, dolennau cyswllt ac yn y blaen, sy'n berthnasol i'ch dogfen / cynnig ac sydd wedi cael eu defnyddio yn sail i'ch asesiad, a/neu

(2) Unrhyw wybodaeth a gasglwyd wrth ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau neu staff; a/neu

(3) Unrhyw wybodaeth arall sydd wedi bod yn sail i'ch asesiad o'r effaith bosibl

**Ar gyfer penderfynu ar yr effaith bosibl, dewiswch o blith y canlynol:
Negyddol uchel; Negyddol canolig; Negyddol isel; Niwtral; Cadarnhaol isel; Cadarnhaol canolig; Cadarnhaol uchel; Dim effaith/Dim yn berthnasol



| **Grŵp Gwarchodedig** | ****Yr Effaith Bosibl** | ***Manylion** | **Camau lliniaru** |
|---|---|---|---|
| Oedran | Cadarnhaol Uchel | Gall Rhaglen Cefnogi Pobl gefnogi unigolion sydd wedi eu hasesu fel rhai ag anghenion cefnogaeth yn ymwneud â thai, o 16 mlwydd oed i fyny. Mae'r Rhaglen yn cefnogi ystod eang o feysydd gwasanaeth gyda phobl fregus â'r un faint o angen. Efallai y bydd hyn yn golygu darparu llety â chefnogaeth i berson ifanc 16-24 oed, lloches neu dŷ diogel i berson sydd wedi dioddef camdriniaeth ddomestig neu berson hŷn ac eiddil sy'n byw mewn llety gwarchod neu ofal ychwanegol. Mae'r rhaglen ar Ynys Môn yn darparu oddeutu 2,350 o unedau ac o'r rhain mae oddeutu 1,350 yn larymau cymunedol mewn cartrefi lle mae pobl hŷn, a neu rywun sydd wedi cofrestru'n anabl yn byw.<br><br>Rhaid gwerthuso pob dewis i sicrhau nad oes | Canlyniad y newidiadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru i Raglen Cefnogi Pobl ar draws Cymru yw bod gwasanaethau i bobl hŷn yn seiliedig ar angen yn hytrach nag ar ddeiliadaeth. Yn hanesyddol, mae'r holl denantiaid mewn tai gwarchod wedi derbyn Gwasanaeth Cefnogi Pobl, ni waeth beth oedd eu hangen, gyda'r mwyafrif oherwydd eu bod yn derbyn budd-dal tai yn derbyn cymhorthdal llawn at y gost drwy Cefnogi Pobl, tra mae eraill wedi gorfod talu allan o'u hincwm eu hunain fel rhan o'r cytundeb tenantiaeth.<br><br>Mae Cyngor Sir Ynys Môn ar hyn o bryd yn trawsnewid y llety a'r gwasanaethau cefnogi y mae'n eu darparu i bobl hŷn, gan osod y pwyslais ar ddatblygu tai gyda gofal ychwanegol a chanolfannau cymunedol. Mae gan Cefnogi Pobl |

| Grŵp Gwarchodedig | **Yr Effaith Bosibl | *Manylion | Camau lliniaru |
|---|---|---|---|
| | | yr un tenant/defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei osod dan anfantais o gymharu â phobl iau sydd â graddau tebyg o anghenion cefnogaeth sy'n ymwneud â thai.<br><br>Gall pobl hŷn yn gyffredinol ei chael yn anodd dygymod â newid ac efallai y byddant yn gweld ofn newid yn eu hansefydlogi | swyddogaeth anhepgor mewn datblygu gwasanaethau cefnogi sy'n ymwneud â thai o fewn amgylchedd canolfan gymunedol seiliedig mewn cymdogaeth. Bydd y gwasanaeth yn cynnwys pob deiliadaeth ac felly'n ymestyn i bobl hŷn ag anghenion cefnogaeth sy'n byw mewn naill ai tai preifat, tai ar rent neu mewn tai lle mae'r perchennog yn preswylio, na allant dan y trefniadau presennol gael mynediad at wasanaethau cefnogi sy'n ymwneud â thai.<br><br>Bydd pobl sydd ar hyn o bryd yn derbyn cefnogaeth ail-alluogi a dementia cynnar yn dal i dderbyn cefnogaeth sy'n ymwneud â thai ar yr amod fod ganddynt angen a aseswyd.<br><br>Mae ymgynghoriad llawn wedi cael ei gynnal gyda thenantiaid a wardeniaid presennol ynghylch y cynigion i ddigomisiynu elfen y warden a symud i fodel peripatetig.<br><br>Bydd y lefel buddsoddiad mewn darparu cefnogaeth sy'n ymwneud â thai i bobl hŷn yn cynyddu 4%. |
| Anabledd | **Negyddol canolig.** | Ers cychwyn y Rhaglen Cefnogi Pobl, Anableddau Dysgu sydd wedi cyfrif am y pwysau cost uchaf o gryn dipyn. Yn gyfan gwbl roedd lefel y buddsoddiad yn y maes | Ni chaiff Cefnogi Pobl ariannu gwasanaethau megis gofal cymdeithasol nag iechyd. Cynigir yn y strategaeth gomisiynu bod adolygiad llawn i gael ei gynnal i ddynodi lefel y gofal a |

Tudalen 703

Tudalen 704

| Grŵp Gwarchodedig | **Yr Effaith Bosibl | *Manylion | Camau lliniaru |
|---|---|---|---|
| | | gwasanaeth yma'n parhau i gyfrif am oddeutu 33% o'r rhaglen gyfan yn ystod 2016/17.<br><br>Mae'r dystiolaeth a gasglwyd o adolygiadau gwasanaeth strategol wedi cyfeirio at lefel o gyllid Cefnogi Pobl sy'n sylweddol anghymesur yn y maes gwasanaeth hwn. Mae nifer o gynlluniau gofal yn cynnwys lefelau uchel eithriadol o oriau o gefnogaeth sy'n ymwneud â thai i ddefnyddwyr gwasanaeth o'u cymharu ag unigolion mewn meysydd gwasanaeth eraill a all fod yn ddibynnol iawn ac yn byw bywydau anhrefnus dros ben. Cafodd hefyd ei nodi bod nifer uchel dasgau a gwblhawyd yn rhai oedd yn ymwneud a gofal personol neu ofal tymor hir ac felly yn anghymwys i dderbyn arian Rhaglen Cefnogi Pobl.<br><br>At hynny, ceir lefel uchel o fewnbwn gofal iechyd, sy'n awgrymu nad yw o fewn gallu rhai defnyddwyr gwasanaeth i gyrraedd y lefel o annibyniaeth sy'n cyd-fynd ag ethos Rhaglen Cefnogi Pobl o 'wneud gyda, yn hytrach na gwneud i'. O ganlyniad, fel y dywedir yng Nghanllawiau Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru, ni ddylai Cefnogi Pobl gymryd lle'r gwasanaeth gofal neu'r gwasanaeth iechyd, na chael ei ddefnyddio | chefnogaeth gymwys sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd mewn lleoliadau llety â chefnogaeth ar gyfer pobl ag anableddau dysgu.<br><br>A derbyn cymhareb gyllido bendrwm cefnogaeth i ofal mewn nifer o dai byw a rennir, bydd angen i gyllid cynyddol yn y dyfodol ddod oddi wrth Ofal Cymdeithasol Oedolion, gan y bydd gofyn statudol i ariannu oherwydd natur gymhleth yr anghenion sy'n bodoli mewn prosiectau o'r fath. Gosodir uchafswm o 15 awr o ddarpariaeth Cefnogaeth sy'n Ymwneud â Thai'r wythnos ar gyfer unrhyw unigolyn sydd ag anableddau dysgu ac sy'n gymwys i dderbyn y gwasanaeth, Bydd cyfrifoldeb statudol ar Wasanaethau Cymdeithasol a neu Iechyd i orfod parhau i ariannu unrhyw ddiffyg ariannol o ganlyniad i ostyngiad ym muddsoddiad Cefnogi Pobl, ac fe fydd yn gost ychwanegol ar sail anghenion pob unigolyn fydd wedi ei asesu.<br>O ganlyniad felly, ni fydd y dadfuddsoddiad o arian Rhaglen Cefnogi Pobl yn cael effaith negyddol ar lefel gofal a'i darperir fel swyddogaeth statudol. |

| Grŵp Gwarchodedig | **Yr Effaith Bosibl | *Manylion | Camau lliniaru |
|---|---|---|---|
| | | fel ffynhonnell gyllid wahanol, lle mae dyletswydd statudol i ddarparu. | |
| Rhyw | **Niwtral.** | Bydd effaith unrhyw ddi-fuddsoddiad yn niwtral ar ddarpariaeth gwasanaeth, oherwydd parhad y ddyletswydd statudol i gefnogi'r meysydd gwasanaeth yr effeithir hwynt | Ddim yn berthnasol |
| Ailbennu rhyw | **Dim effaith** | Ni ddisgwylir i unrhyw newidiadau arfaethedig effeithio o gwbl ar y nodwedd warchodedig hon. | |
| Beichiogrwydd a Mamolaeth | **Niwtral** | Bydd defnyddwyr gwasanaeth / tenantiaid sy'n derbyn cefnogaeth yn cael asesiad risg o'r cychwyn neu pan ddisgwylir newid sylweddol yn eu hamgylchiadau. Dylai darparwyr gwasanaeth ymateb i feichiogrwydd a mamolaeth yn unol â hyn a'u polisi cyfundrefnol.<br><br>Glynir wrth bolisïau ac arferion Adnoddau Dynol Cyngor Sir Ynys Môn a darparwyr eraill hefyd a gomisiynir, o ran staff ac o ran asesiadau risg priodol. | Ni ddisgwylir i'r toriadau arfaethedig gael effaith uniongyrchol ar y grŵp gwarchodedig hwn. Disgwylir, os bydd unrhyw unigolyn yn cael ei chynnal o fewn amgylchedd byw a rennir megis lloches, hostel neu uned llety â chefnogaeth hunangynhwysol, y bydd yn cael ei hasesu felly a, lle bo'n briodol, yn ddiogel ac yn rhesymol, yn cael ei symud i ddarpariaeth cefnogaeth ar wasgar. |

| Grŵp Gwarchodedig | **Yr Effaith Bosibl | *Manylion | Camau lliniaru |
|---|---|---|---|
| Hil / Ethnigrwydd/ Cenedl | **Niwtral.** | Ni ddisgwylir i unrhyw rai o'r dewisiadau arfaethedig beri anfantais i unigolyn neu deulu o unrhyw grŵp hi, ethnigrwydd neu genedligrwydd neilltuol. Fodd bynnag, lle y darperir gwasanaethau penodol ar hyn o bryd i ateb anghenion neilltuol, mae'n bwysig nodi'r rhain a chymryd camau i sicrhau eu bod yn cael eu diogelu a'u cynnwys yn y dewis a gynigir. | Mae ymarferiad Mapio Anghenion Cefnogi Pobl yn cynnwys data cyfartaleddau llawn fel y mae'r ffurflenni monitro chwarterol y disgwylir i'r holl wasanaethau a gyllidir gan Cefnogi Pobl eu darparu. Mae'r holl gontractau yn cynnwys cymal yn datgan gofynion i nodi amrywiaeth sy'n cynnwys cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 ac mae ein proses dendro yn gweithredu fel fframwaith achrediad cadarn i sicrhau bod yr holl wasanaethau posibl yn dathlu amrywiaeth ac yn sensitif i anghenion crefyddol, diwylliannol, ethnig ac ieithyddol defnyddwyr gwasanaeth ac nad ydynt yn gwahaniaethu o ran rhyw, rhywioldeb, iaith nac anabledd. |
| Crefydd neu gred | **Niwtral.** | Gwelwch y blwch uchod | Gwelwch y blwch uchod |
| Tuedd Rywiol | **Niwtral.** | Gwelwch y blwch uchod | Gwelwch y blwch uchod |
| Y Gymraeg | **Cadarnhaol uchel** | Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth hollol ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg ar draws ei holl wasanaethau ac mae ganddo gymal ym mhob contract sy'n gofyn i bob darparwr gwasanaeth a gyllidir gan Cefnogi Pobl gydymffurfio â gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg a Mesur y Gymraeg. | Byddwn yn sicrhau bod y darparwyr newydd yn cydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg y Cyngor a dogfen strategaeth 'Mwy Na Geiriau' Llywodraeth Cymru. Cynhelir cyfarfodydd monitro bob chwe mis gyda darparwyr i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r contract, a rhoddir holiadur blynyddol i'r holl ddarparwyr sy'n benodol i'r thema hon. Caiff canfyddiadau'r arolwg eu bwydo'n ôl i Gomisiynydd y Gymraeg yn Llywodraeth Cymru. |
| Hawliau Dynol | **Negyddol** | Bydd yr arbedion effeithlonrwydd arfaethedig | Rhaid i holl Wasanaethau Cefnogi Pobl lynu at |

| **Grŵp Gwarchodedig** | ****Yr Effaith Bosibl** | ***Manylion** | **Camau lliniaru** |
|---|---|---|---|
| | **Canolig** | yn cael effaith ddiamheuol ar allu pobl fregus a'u teuluoedd i gael mynediad at wasanaethau, yn enwedig os bydd y galw am wasanaethau yn cynyddu, fel y disgwylir, oherwydd effaith diwygio lles a chyflwyno'r Credyd Cyffredinol. | bob agwedd o Hawliau Dynol yn unol â thelerau ac amodau'r Contract. |

**Rhan A – Cam 4: Canlyniad yr EIA Cychwynnol**

| | |
|---|---|
| **Ai canlyniad yr asesiad gwreiddiol yw mynd ymlaen i Asesiad Effaith Llawn ar Gydraddoldeb?** | **Na** – Bydd yr EIA cychwynnol hwn yn ffurfio sail ar gyfer gwaith pellach fel y nodir isod: |
| | Adolygir yr Asesiad Effaith hwn ar Gydraddoldeb yn dilyn cyflwyno'r cynigion a'r dystiolaeth i Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl. |
| **Os na, a oes yna broblemau i ymdrin â hwy?** | |
| | **Cofnodi Manylion:** fel uchod |

---

Os ydych wedi penderfynu **bod angen Asesiad Effaith llawn ar Gydraddoldeb**, ewch ymlaen i **Ran** B, os gwelwch yn dda.

Os mai eich penderfyniad yw **peidio â mynd ymlaen i Asesiad Effaith llawn ar Gydraddoldeb**, dilëwch Ran B o'r templed hwn ac ewch ymlaen i **Ran C – Adroddiad Deilliannau**.

Ewch ymlaen i **Ran C – Adroddiad Deilliannau.**

## Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb (EIA) – Deilliannau

### RHAN C – Cam 1: Adroddiad Deilliannau

| | |
|---|---|
| Sefydliad: | Cyngor Sir Ynys Môn |

| | |
|---|---|
| Beth sy'n cael ei asesu?: (copi o Ran A – cam 1) | Effaith y cynigion sydd wedi eu cynnwys yn Strategaeth Gomisiynu Grant Rhaglen Cefnogi Pobl ar gyfer 2017/20.<br><br>Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar gomisiynu cefnogaeth sy'n ymwneud â thai ar gyfer ystod amrywiol o unigolion neu deuluoedd, sydd yr un mor fregus â'i gilydd, sydd naill ai'n ddigartref neu mewn perygl o ddod yn ddigartref.<br><br>Mae'r cynigion yn cynnwys ailfodelu, digomisiynu ac ail-gomisiynu gwasanaethau cefnogi fel y disgrifir yn y Strategaeth Gomisiynu a'r Cynllun Gwariant gorfodol. |

| | |
|---|---|
| Y Nodau a'r Amcanion yn gryno: (copi o Ran A – cam 1) | Argymhellion a manylion gwariant ar gyfer darparu cefnogaeth sy'n ymwneud â thai ar gyfer amrediad eang o unigolion a theuluoedd sydd yr un mor fregus â'i gilydd, ac sydd ar draws ystod o feysydd gwasanaeth. |

| | |
|---|---|
| A aeth yr asesiad effaith cychwynnol ymlaen i Asesiad Effaith Llawn ar Gydraddoldeb? (RHAN A – Cam 4) | **Naddo –** Bydd yr EIA hwn yn ffurfio sail i waith pellach fel y nodir isod: |
| | Cofnodwch y rhesymau dros y penderfyniad<br><br>Adolygir yr EIA yn dilyn ei gyflwyno i'r Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl |
| Os na, a oes yna broblemau i ymdrin â hwy? | Fel uchod |

| | |
|---|---|
| Os do, beth oedd canlyniad yr EIA llawn? | |

---

| | |
|---|---|
| A gaiff y Polisi ei fabwysiadu/anfon ymlaen i'w gymeradwyo? Pwy fydd yn penderfynu? | **Bydd y penderfyniadau terfynol, seiliedig ar yr argymhellion a gyflwynir, yn gorffwys gyda Grŵp Cynllunio amlasiantaethol Cefnogi Pobl Ynys Môn.** |
| | **Os na, cofnodwch y rheswm ac unrhyw gam gweithredu arall sydd ei angen:** |

| | |
|---|---|
| Oes yna drefniadau monitro wedi eu sefydlu? Beth yw'r rhain? | Mae gan y Tîm Cefnogi Pobl drefniadau monitro cadarn a rheolaidd. |

| | | |
|---|---|---|
| Pwy yw'r Swyddog Arweiniol? | Enw: | Shan Lloyd Williams |
| | Teitl: | Pennaeth Gwasanaeth – Gwasanaethau Tai |
| | Adran: | Adran Cymunedau |
| Dyddiad adolygu'r polisi a'r EIA: | I'w benderfynu | |

| | | |
|---|---|---|
| Enwau'r holl bartïon fu â rhan mewn cynnal yr asesiad hwn | Enw | Teitl |
| | | |
| | Arwel Jones<br>Sara Ankers<br>Anne Sutton<br><br>**Aelodau Panel Cydraddoldeb.** | Prif Swyddog Datblygu<br>Swyddog Adolygu, Contractau a Datblygu Cefnogi Pobl<br>Dadansoddwr Data a Chyllid Cefnogi Pobl |

| | | |
|---|---|---|
| | Rhian Hughes – Polisi Corfforaethol | |
| | Shan Lloyd Williams | Pennaeth Gwasanaethau Tai |
| | Llŷr Bryn | Pennaeth Gwasanaethau Plant dros dro |
| | Phil Forbes | Rheolwr Llety â Chefnogaeth Ranbarthol |
| | Sharon Williams | Rheolwr Gwasanaethau Prawf |
| | Barbara Williams | Rheolwr Gweithrediadau Anableddau Dysgu ac Iechyd Meddwl |
| | Elliw Llŷr | Rheolwr Comisiynu, Polisi a Strategaeth Gwasanaethau Tai |
| Sylwer: Dylid gosod Cynllun Gweithredu ynghlwm wrth yr Adroddiad Deilliannau hwn cyn ei gwblhau. | | |



**RHAN C - Cam 2: Cynllun Gweithredu**

Disgrifiwch unrhyw gamau gweithredu sydd wedi eu cynllunio yn dilyn cwblhau eich EIA. Dylech gynnwys unrhyw newidiadau a wnaed i leihau neu ddileu effeithiau negyddol posibl neu wirioneddol, yn ogystal ag unrhyw drefniadau i gasglu data neu gynnal ymchwil bellach.

| Cyf | Camau arfaethedig | Y Swyddog Arweiniol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |

## Atodiad 1 – Hawliau Dynol

Hawliau a rhyddid yw hawliau dynol, sy'n eiddo i bob unigolyn, ni waeth beth yw ei genedl na'i ddinasyddiaeth.
Ceir 16 o hawliau sylfaenol yn y Ddeddf Hawliau Dynol – i gyd wedi eu cymryd allan o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.
I ddibenion y Ddeddf, fe'u hadwaenir fel 'Hawliau'r Confensiwn'. Maent wedi eu rhestru isod:

(Rhagarweiniol yw Erthygl 1 ac nid yw wedi ei hymgorffori yn y Ddeddf Hawliau Dynol)

Erthygl 2: Hawl i fywyd
Erthygl 3: Gwahardd arteithio
Erthygl 4: Gwahardd caethwasiaeth a llafur gorfodol
Erthygl 5: Hawl i ryddid a diogelwch
Erthygl 6: Hawl i dreial teg
Erthygl 7: Dim cosb heb gyfraith
Erthygl 8: Hawl i barch at fywyd preifat a theuluol
Erthygl 9: Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd
Erthygl 10: Rhyddid mynegiant
Erthygl 11: Rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu
Erthygl 12: Hawl i briodi
Erthygl 14: Gwahardd gwahaniaethu
Erthygl 1 o Brotocol 1: Amddiffyn eiddo
Erthygl 2 o Brotocol 1: Hawl i addysg
Erthygl 3 o Brotocol 1: Hawl i etholiadau rhydd
Erthygl 1 o Brotocol 13: Dileu'r gosb eithaf

**Atodiad 2**

## Cefnogi Pobl Gogledd Cymru

# Adroddiad Mapio Anghenion 2015-16

**20/06/2016**

| **Blwyddyn Gwblhau** | **Nifer** |
|---|---|
| **Cyfanswm** | 1,441 |
| **Ebrill 2015 - Maw 2016** | 1,441 |

**Distinct count of forms (HSID)** 1,441

| **Ffurflenni** | **Number** |
|---|---|
| **Cyfanswm** | 1,441 |
| **Ynys Môn** | 1,441 |

**Nifer o Ffurflenni gan yr Awdurdod Lleol**




64

Ynys M

## Section: Person this Form is About

| Oedran | Niferoedd |
|---|---|
| **Cyfanswm** | 1,441 |
| **16-24** | 290 |
| **25-40** | 374 |
| **41-60** | 268 |
| **61 neu hŷn** | 509 |




| Rhyw | Niferoedd |
|---|---|
| **Cyfanswm** | 1,441 |
| **Benywaidd** | 826 |
| **Gwrywaidd** | 615 |




| Lluoedd Arfog | Number |
|---|---|
| **Ie** | 23 |

## Rhan: Person Sy’n Cwblhau’r Ffurflen

| Ffynhonnell Ffurflenni MA | Ffurflenni |
|---|---|
| Cyfanswm | 1,441 |
| Agorfa / Cefni Lettings | 102 |
| BAWSO | 3 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University | 6 |
| CAIS | 46 |
| Digartref | 113 |
| GISDA | 5 |
| Gorwel | 118 |
| Hafan Cymru | 30 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 414 |
| Môn Care | 496 |
| Nacro Cymru | 67 |
| Cymdeithas Tai Gogledd Cymru Association | 2 |
| Cartref Gofal Pen Y Graig | 1 |
| The Wallich | 35 |
| Tyddyn Mon | 3 |

## Rhan: Rheswm Dros Gwblhau'r Ffurflen

### Rheswm Dros Gwblhau

| | Niferoedd |
|---|---|
| **Cyfanswm** | 1,441 |
| **Anghenion Cefnogaeth yn unig** | 612 |
| **Anghenion Llety yn unig** | 441 |
| **Anghenion Cefnogaeth a Llety** | 366 |
| **Heb ei ddatgan** | 22 |

### Rheswm Dros Gwblhau'r Ffurflen




| Wedi Cwblhau'r Ffurflen o'r Blaen | Niferoedd |
|---|---|
| **Cyfaswm** | 1,441 |
| **Do** | 94 |
| **Naddo** | 1,347 |

### Os "Do" Pryd Gwblhawyd y Ffurflen

| | Niferoedd |
|---|---|
| **Cyfanswm** | 94 |
| **1 mis neu lai** | 34 |
| **1-3 mis** | 12 |
| **3-6 mis** | 12 |
| **6-12 months** | 15 |
| **1-2 flynedd** | 16 |
| **2-5 mlynedd** | 3 |
| **5 mlynedd neu fwy** | 2 |

### Pryd Gwblhawyd y Ffurflen Flaenorol?



## CYDFYW GYDA PHARTNER?

| | Number |
|---|---|
| **Cyfanswm** | 1,441 |
| **Ie** | 208 |
| **Na** | 1,217 |
| **Unspecified** | 16 |




## Plant Sy'n Ddibynnol?

| | Niferoedd |
|---|---|
| **Cyfanswm** | 1,441 |
| **Ie** | 278 |
| **Na** | 1,144 |
| **Heb ei ddatgan** | 19 |




## Nifer o Blant

| | Niferoedd |
|---|---|
| **Cyfanswm** | 277 |
| **1** | 121 |
| **2** | 88 |
| **3** | 50 |
| **4** | 11 |
| **5** | 4 |
| **6** | 3 |



**PARTNER / PLANT**

| | | Plant: Ie | Plant : Na | Plant : Heb ei ddatgan |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | 1,441 | 278 | 1,144 | 19 |
| **Partner: Ie** | 208 | 59 | 145 | 4 |
| **Partner: Na** | 1,217 | 211 | 997 | 9 |
| **Partner: Heb ei ddatgan** | 16 | 8 | 2 | 6 |

## Beichiog?

| | Niferoedd |
|---|---|
| **Cyfanswm** | 1,441 |
| **Ie** | 49 |
| **Na** | 1,356 |
| **Heb ei Ddatgan** | 36 |

## Beichiog?




## Oedolion Sy'n Ddibynnol ar Eraill?

| | Niferoedd |
|---|---|
| **Cyfanswm** | 1,441 |
| **Ie** | 18 |
| **Na** | 1,392 |
| **Heb ei Ddatgan** | 31 |

## Oedolion Sy'n Ddibynnol ar Eraill?



## Rhan : Gwasanaethau Cyfredol

7

| | |
|---|---|
| **Cefnogaeth Sy'n Ymwneud Â Thai** | 285 |
| **Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion** | 503 |
| **Gwasanaethau Plant a Theuluoedd** | 99 |
| **Gwasanaeth Cymunedol Alcohol a Chyffuriau** | 118 |
| **Gwasanaeth Prawf** | 93 |
| **Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid** | 12 |
| **Gwasanaeth Iechyd Meddwl yn y Gymuned** | 170 |
| **Gwasanaeth Iechyd Meddwl ar gyfer Plant a** | 11 |
| **Gwasanaeth Iechyd Meddwl Fforensig** | 1 |

### Nifer o Wasanaethau Gwahanol (heb gynnwys C GsyaTh)

800

## Rhan: Angenion Cefnogaeth a Thargedau Cymunedol




**Nifer o Wasanaethau Gwahanol sydd wedi cael mynediad atynt (heb gynnwys GsyaTh)**

| | |
|---|---|
| **Camdriniaeth yn y Cartref** | 204 |
| **Anawsterau Dysgu** | 49 |
| **Iechyd Meddwl** | 358 |
| **Alcohol** | 145 |
| **Cyffuriau** | 131 |
| **Ffoaduriaid / Mewnfudo** | 5 |
| **Anabledd Corffol / Synhwyraidd** | 237 |
| **Person Ifanc Bregus** | 154 |
| **Troseddu** | 129 |
| **Generig** | 407 |
| **Salwch Cronig** | 29 |
| **Person Ifanc Bregus** | 525 |

| | |
|---|---|
| **Teimlo'n ddiogel** | 509 |
| **Hunan Ddiogelwch / Diogelwch Eraill** | 493 |
| **Llety** | 871 |
| **Perthnasau** | 218 |
| **Cynhwysiad Cymunedol** | 229 |
| **Rheoli Arian** | 324 |
| **Addysg/Dysgu** | 166 |
| **Cyflogaeth/Gwirfoddoli** | 194 |
| **Iechyd Corfforol** | 528 |
| **Iechyd Meddwl** | 293 |
| **Bywydau Iach a Llawn** | 487 |

## Prif Angen

| | Niferoedd |
|---|---|
| **Cyfanswm** | 1,441 |
| **Camdriniaeth yn y Cartref** | 156 |
| **Anhawsterau Dysgu** | 14 |
| **Iechyd Meddwl** | 139 |
| **Alcohol** | 50 |
| **Cyffuriau** | 32 |
| **Ffoaduriaid / Mewnfudo** | 2 |
| **Anableddau Corfforol a Synhwyraidd** | 17 |
| **Person Ifanc Bregus** | 113 |
| **Troseddu** | 54 |
| **Generig** | 281 |
| **Salwch Cronig** | 6 |
| **Person Hŷn Bregus** | 482 |
| **Heb ei Ddatgan** | 95 |



## Rhan: Anghenion Llety

### DIGARTREFEDD

| | Niferoedd |
|---|---|
| **Yn ddigartref pan yn cwblhau'r Ffurflen** | 361 |
| **Risg o Ddigartrefedd o fewn 2 fis** | 256 |
| **Risg o ddigartrefedd yn y tymor hir** | 81 |




| Unman i AROS HENO? | Niferoedd |
|---|---|
| **Blwch wedi ei groesi** | 80 |

| | |
|---|---|
| **Rhybudd i Adael** | 178 |
| **Cyflwr / Addasrwydd yr Eiddo** | 118 |
| **Dyledion Rhent / Morgais** | 56 |
| **Teulu /Perthynas yn Chwalu** | 357 |
| **Trafferthion Cymdogol / Aflonyddwch** | 22 |

## Cyfredol

| | Niferoedd |
|---|---|
| **Cyfanswm** | 1,441 |
| **Ynys Môn** | 1,353 |
| **Conwy** | 4 |
| **Sir Ddinbych** | 1 |
| **Gwynedd** | 47 |
| **Wrecsam** | 3 |
| **Arall yn y DU** | 5 |
| **Heb ei Ddatgan** | 28 |




**Cyfnod**

| | Niferoedd |
|---|---|
| **Cyfanswm** | 1,441 |
| **Llai nag wythnos** | 70 |
| **1-4 Wythnos** | 80 |
| **1-3 Mis** | 65 |
| **3-6 Mis** | 81 |
| **6-12 Mis** | 73 |
| **1-2 Flynedd** | 96 |
| **2-5 Flynedd** | 102 |
| **Mwy na 5 mlynedd** | 417 |
| **Heb ei ddatgan** | 457 |



## Rhan: Lleoliad Blaenorol

| Blaenorol | Niferoedd |
|---|---|
| **Cyfanswn** | 1,441 |
| **Ynys Môn** | 528 |
| **Conwy** | 11 |
| **Sir Ddinbych** | 4 |
| **Sir Fflint** | 8 |
| **Gwynedd** | 55 |
| **Wrecsam** | 6 |
| **Arall yn y DU** | 65 |
| **Gwlad Arall** | 25 |
| **Heb ei Ddatgan** | 739 |




| Cyfnod yn y Lleoliad Presennol / Lleoliad Blaenorol | | Ynys Môn | Conwy | Sir Ddinbych | Sir Fflint | Gwynedd | Wrecsam | Arall DU | Gwlad Arall | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | 1,441 | 528 | 11 | 4 | 8 | 55 | 6 | 65 | 25 | 739 |
| **Llai nag 1 wythnos** | 70 | 34 | 2 | 3 | 5 | 11 | 0 | 6 | 8 | 1 |
| **1-4 Wythnos** | 80 | 56 | 2 | 1 | 1 | 3 | 0 | 8 | 5 | 4 |
| **1-3 Mis** | 65 | 40 | 1 | 0 | 1 | 7 | 1 | 6 | 3 | 6 |
| **3-6 Mis** | 81 | 49 | 1 | 0 | 0 | 8 | 2 | 8 | 1 | 12 |
| **6-12 Mis** | 73 | 40 | 0 | 0 | 0 | 4 | 1 | 8 | 1 | 19 |
| **1-2 Flynedd** | 96 | 58 | 2 | 0 | 0 | 5 | 1 | 6 | 2 | 22 |
| **2-5 Flynedd** | 102 | 57 | 1 | 0 | 0 | 5 | 0 | 6 | 0 | 33 |
| **Mwy na 5 Mlynedd** | 417 | 161 | 1 | 0 | 0 | 5 | 1 | 15 | 3 | 231 |
| **Heb ei Ddatgan** | 457 | 33 | 1 | 0 | 1 | 7 | 0 | 2 | 2 | 411 |

## Rhan: Lleoliad Presennol

| Llety Parhaol | Cyfanswm | Byw yn y Cartref Teuluol / Ffrindiau | Eraill |
|---|---|---|---|
| **Tai Cyngor** | 188 | 23 | 165 |
| **Cymdeithas Tai** | 55 | 2 | 53 |
| **Rhentu Preifat** | 219 | 15 | 204 |
| **Perchenog** | 124 | 2 | 122 |
| **Carafán neu Gartref Symudol** | 18 | 3 | 15 |
| **Arall** | 97 | 30 | 67 |

### Llety Presennol




### o Lety

| Dim math o Lety | Cyfanswm |
|---|---|
| **Cysgu'r Stryd** | 69 |
| **Lloches Dros Nos / Hostel** | 12 |
| **Gwesty neu w&b** | 68 |
| **Teulu neu ffrindiau tymor byr** | 154 |
| **Ysbyty** | 4 |
| **Carchar** | 2 |



**Rhan: Lleoliad Presennol**

Cysgu'r Stryd

Ysbyty

13

Carchar

Arall

## Rhan: Lleoliad a Ffafrir



| | |
|---|---|
| **Ynys Môn** | 928 |
| **Conwy** | 11 |
| **Sir Ddinbych** | 9 |
| **Sir Fflint** | 3 |
| **Gwynedd** | 70 |
| **Wrecsam** | 2 |
| **Arall DU** | 7 |
| **Gwlad Arall** | 2 |

## Rhan: Math o Lety a Ffafrir

### LLETY CYFFREDIN

| | |
|---|---|
| **Tai Cyngor** | 522 |
| **Cymdeithas Tai** | 208 |
| **Rhentu Preifat** | 302 |
| **Perchennog Tŷ** | 15 |
| **Carafán neu Gartref Symudol** | 1 |
| **Arall** | 8 |

### Llety â Chefnogaeth

| | |
|---|---|
| **Llety â Chefnogaeth Hunangynhwysol** | 109 |
| **Llety â Chefnogaeth a rennir** | 64 |
| **Tai Gwarchod** | 52 |
| **Llety â Chymorth** | 5 |
| **Lloches neu Lety Diogel** | 3 |
| **Hostel Tymor Byr** | 30 |
| **Cyfleuster Adfer Preswyl** | 2 |
| **Cartref Gofal Preswyl neu Nyrsio** | 1 |
| **Cefnogaeth ar Wasgar** | 207 |
| **Llety â Chefnogaeth Arall** | 19 |

## Rhan: Gwybodaeth Cydraddoldeb

### Gofalydd

| | Niferoedd |
|---|---|
| Cyfanswm | 1,441 |
| **Ie** | 28 |
| **Na** | 1,276 |
| **Heb ei Ddatgan** | 137 |

### ETHNIGRWYDD:

### A. GWYN

| | Total |
|---|---|
| **Cyfanswm** | 1,382 |
| **Gwyn** | 1,382 |

### CYMYSG

| | Total |
|---|---|
| **Cyfanswm** | 9 |
| **Gwyn ac Asiaiddd** | 3 |
| **Gwyn a Du Affricanaidd** | 1 |
| **Gwyn a Du Caribiaidd** | 2 |
| **Arall** | 3 |

### C. ASIAIDD OR ASIAN BRITISH

| | Total |
|---|---|
| **Cyfanswm** | 5 |
| **O India** | 1 |
| **O Bacistan** | 1 |
| **Tseiniaidd** | 1 |
| **O’r Philipinees** | 1 |
| **Other** | 1 |

### D. DU NEU DU PRYDEINIG

| | Niferoedd |
|---|---|
| **Cyfanswm** | 5 |
| **Affricanaidd** | 4 |
| **Caribi** | 1 |

### E. Grwpiau Arall

| | Niferoedd |
|---|---|
| **Cyfanswm** | 9 |
| **Arabaidd** | 2 |
| **Arall** | 7 |

| Cenedligrwydd | Niferoedd |
|---|---|
| **Cyfanswm** | 1,406 |
| **Cymru** | 552 |
| **Saeson** | 234 |
| **Albanwyr** | 1 |
| **G. Iwerddon** | 5 |
| **Prydeinig** | 558 |
| **Gwyddelig** | 16 |
| **Arall** | 40 |




| IAITH | Niferoedd |
|---|---|
| **Cyfanswm** | 1,033 |
| **Cymraeg** | 294 |
| **Sasesneg** | 720 |
| **BSL** | 2 |
| **Arall** | 17 |




| IAITH | Niferoedd |
|---|---|
| **Cyfanswm** | 9 |
| **Arabaidd** | 2 |
| **Almaeneg** | 2 |
| **Pwyleg** | 4 |
| **Thai** | 1 |

| Crefydd | Niferoedd |
|---|---|
| **Cyfanswm** | 789 |
| **Dim** | 626 |
| **Bwdhaidd** | 4 |
| **Cristnogol** | 112 |
| **Muslimaidd** | 6 |
| **Arall** | 41 |



## Anabledd

| | |
|---|---|
| **Amhariad Symudedd** | 168 |
| **Amhariad ar y Golwg** | 14 |
| **Amhariad ar y Clyw** | 12 |
| **Amhariad Deheurwydd** | 14 |
| **Anawsterau Dysgu** | 46 |
| **Iechyd Meddwl** | 276 |
| **Amhariad Arall** | 19 |

| Rhyw'r un fath ag ar enedigaeth | Niferoedd |
|---|---|
| **Cyfanswm** | 1,441 |
| **Ie** | 1,056 |
| **Na** | 21 |
| **Heb ei Ddatgan** | 364 |

| Tuedd Rhywiol | Niferoedd |
|---|---|
| **Cyfanswm** | 1,441 |
| **Heterorywiol** | 710 |
| **Hoyw neu Lesbiaidd** | 7 |
| **Deurywiol** | 13 |
| **Gwell gennyf beidio dweud** | 137 |
| **Heb ei ddatgan** | 574 |

# Ynys Môn

# Adroddiad Mapio Anghenion
# Adroddiad 2015-16

**20/06/2016**

| Blwyddyn Gwblhau | Niferoedd |
|---|---|
| **Cyfanswm** | 1,441 |
| **Ebrill 2015 - Mawrth 2016** | 1,441 |

| | |
|---|---|
| **Cyfrif Penodol o Ffurflenni (HSID)** | 1,441 |

| | |
|---|---|
| **Camdriniaeth yn y Cartref** | 156 |
| **Anableddau Dysgu** | 14 |
| **Iechyd Meddwl** | 139 |
| **Alcohol** | 50 |
| **Cyffuriau** | 32 |
| **Ffoaduriaid / Mewnfudo** | 2 |
| **Anabledd Corfforol / Synhwyraidd** | 17 |
| **Person Ifanc Bregus** | 113 |
| **Troseddu** | 54 |
| **Salwch Cronig** | 6 |
| **Person Hŷn Bregus** | 482 |
| **Heb ei Ddatgan** | 376 |

## Cefnogi Pobl

## Eich Gwasanaeth – Eich Barn

**www.ynysmon.gov.uk/arolwgcefnogipobl**

*Cyfnod Ebrill 2016 to 31ain o Ragfyr 2016*

***Mae 75*** *o ddefnyddwyr gwasanaeth wedi defnyddio dolen gyswllt yr arolwg*

***Mae 55*** *wedi cwblhau'r arolwg*

***Mae 20*** *wedi cyflwyno'r arolwg yn rhannol ond nid yn gyflawn*

## Cefnogi Pobl: Eich Gwasanaeth – Eich Barn

**Cwestiwn 1**

Gofynnwyd i'r defnyddwyr gwasanaeth: **Beth yw enw Darparwr eich Gwasanaeth?**

| **Dewis Ateb** | | **Canran yr Ymateb** | **Cyfanswm yr Ymatebion** |
|---|---|---|---|
| 3 | CAIS | 24.07% | 13 |
| 4 | Cartrefi Cymru | 1.85% | 1 |
| 5 | Clwyd Alyn | 0.0% | 0 |
| 6 | Digartref | 11.11% | 6 |
| 7 | Gorwel | 14.81% | 8 |
| 8 | Hafan Cymru | 9.26% | 5 |
| 9 | Tyddyn Môn | 0.0% | 0 |
| 10 | Hylands | 0.0% | 0 |
| 12 | Gofal Môn | 0.0% | 0 |
| 13 | Grŵp Cynefin | 0.0% | 0 |
| 14 | The Wallich | 11.11% | 6 |
| 15 | Cefnogaeth Tai (Cyngor Sir Ynys Môn) | 24.07% | 13 |
| 16 | Gwasanaeth Iechyd Meddwl Cymunedol | 3.70% | 2 |
| | | ***Atebodd*** | **54** |

Roedd 1 defnyddiwr gwasanaeth yn dymuno peidio â datgelu gan ba ddarparwr yr oedd yn derbyn cefnogaeth.

**Cwestiwn 2**

Gofynnwyd i'r defnyddwyr gwasanaeth dicio'r grŵp cleientiaid oedd yn berthnasol iddynt.

| **Dewis Ateb** | | **Canran yr Ymateb** | **Cyfanswm yr Ymatebion** |
|---|---|---|---|
| 1 | Generig | 32.69% | 17 |
| 2 | Iechyd Meddwl | 23.69% | 17 |
| 3 | Anableddau Corfforol | 7.69% | 4 |
| 4 | Anableddau Dysgu | 11.54% | 6 |
| 5 | Camddefnyddio Sylweddau | 17.31% | 9 |
| 6 | Pobl Hŷn (55+) | 0.00% | 0 |
| 7 | Pobl Ifanc a Theuluoedd Ifanc (16-25) | 15.38% | 8 |
| 8 | Camdriniaeth yn y Cartref | 13.46% | 7 |
| 9 | Pobl Sengl Fregus | 11.54% | 6 |
| 10 | Troseddu | 1.92% | 1 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 11 | Digartrefedd a thros 25 mlwydd oed | 13.46% | 7 |
| | | ***Atebodd*** | **52** |

Allan o 55 o holiaduron a gwblhawyd, roedd 3 o bobl yn dymuno peidio â datgelu pa grŵp cleientiaid oedd fwyaf perthnasol iddynt.




**Cwestiwn 3**

Gofynnwyd i'r defnyddwyr gwasanaeth nodi ym mha wasanaeth yr oeddent yn cael eu cefnogi.

| Ydych chi yn cael eich cefnogi mewn... | | Canran yr Ymateb | Cyfanswm yr Ymatebion |
|---|---|---|---|
| 1 | Llety â Chefnogaeth? | 23.53% | 12 |
| 2 | Cefnogaeth ar Wasgar? | 76.47% | 39 |
| | | ***answered*** | **51** |

Roedd 4 o bobl yn dymuno peidio â datgelu a oeddent yn cael eu cynorthwyo drwy’r Gwasanaeth Cefnogaeth ar Wasgar ynteu mewn Llety â Chefnogaeth.

**Cwestiwn 4**

Gofynnwyd i'r defnyddwyr gwasanaeth: - **Sut y byddech chi’n disgrifio ansawdd y gwasanaeth yr ydych wedi ei dderbyn?**

| Dewis Ateb | | Canran yr Ymateb | Cyfanswm yr Ymatebion |
|---|---|---|---|
| 1 | Da iawn | 78.43% | 40 |
| 2 | Da | 19.61% | 10 |
| 3 | Canolig | 1.96% | 1 |
| 4 | Gwael | 0.0% | 0 |
| 5 | Gwael iawn | 0.0% | 0 |
| 6 | Pam yr ydych chi'n rhoi'r disgrifiad yma? | 0.0% | 0 |
| Pam yr ydych chi'n rhoi'r disgrifiad yma? | | | (40) |
| | | ***Atebodd*** | **51** |

Dewisodd 4 o bobl beidio ag ateb y cwestiwn hwn. Rhoddwyd sylw o "*Ddim yn hoffi'r newidiadau newydd"* ar gyfer y disgrifiad "*canolig".*

Rhai o'r sylwadau a roddwyd am ddisgrifio'r gwasanaeth yn *dda iawn* oedd:-

*"5 seren"*

*"Maent yn rhoi llawer o gefnogaeth yn ôl fy angen yn drylwyr iawn ac yn garedig..."*

*"Roedd y staff yn y lloches wedi gwneud fy mhrofiad personol yn hawdd ac yn gyfforddus iawn. Maent wedi bod yn gefnogol iawn ac maent yn haeddu clod am eu gwaith parhaus*

*"Achos ei bod yn anhygoel ac yn fy helpu ac yn gwneud i mi deimlo'n ddiogel ac yn gyfforddus"*

*"Rwyf wedi cael cymorth am 2 flynedd, cyngor bob amser wedi cael ei esbonio yn dda a chlir."*

*"Wedi fy helpu i gael fy mywyd yn ôl ar y trywydd iawn yn ariannol ac yn feddyliol."*

*"Mae wedi cefnogi ac yn fy ngalluogi i fynd i'r afael a fy anghenion".*

*"Rwy'n gwybod bod fy ngweithiwr cefnogi bob amser yno i mi".*

*"Rwyf wedi cael cefnogaeth wych a ystyriaf yn achub bywydau".*

*"Holl staff y cyfarfûm gan y.... yn agored iawn, yn anfeirniadol ac yn hawdd iawn mynd atynt. Maent yn gweithio'n galed iawn ar beth maent yn ei wneud i gefnogi eu cleientiaid. Wedi helpu fi yn fawr ers y bûm yn eu gofal ac yr wyf yn ddiolchgar iawn iddynt, wedi cael effaith fuddiol ar fy mywyd".*

*"Mae fy nghefnogwr wedi bod mor ddefnyddiol a gwych. Mae wedi helpu fi drwy lawer o bethau."*

*"Rwy'n cael cefnogaeth well nag y gwneuthum yn fy ngwasanaeth blaenorol ac rwy'n hoffi bod yn fwy annibynnol"*

*"Bob amser yno pan oedd arnaf angen y gwasanaeth."*

*"Roedd fy ngweithiwr cefnogi yn fy nghynorthwyo yn fy holl anghenion, canfu dy i mi"*

**Cwestiwn 5**

Gofynnwyd i ddefnyddwyr y gwasanaeth:-

**Ydych chi wedi derbyn Gwasanaeth Cefnogaeth sy'n ymwneud â Thai o'r blaen?**

| Dewis Ateb | | Canran yr Ymateb | Response Cyfanswm yr Ymatebion |
|---|---|---|---|
| 1 | Do | 19.61% | 10 |
| 2 | Naddo | 80.39% | 41 |
| | | ***Atebodd*** | **51** |

Roedd 4 defnyddiwr gwasanaeth heb ateb y cwestiwn hwn.

Dengys y siart isod nifer y bobl sydd wedi cael eu cynorthwyo o'r blaen a chan ba ddarparwyr.




__**Cwestiwn 6**__

| Pa un yw eich dewis iaith? | | | |
|---|---|---|---|
| **Dewis Ateb** | | **Canran yr Ymateb** | **Cyfanswm yr Ymatebion** |
| 1 | Cymraeg | 8.00% | 4 |
| 2 | Saesneg | 86.00% | 43 |
| 3 | Os arall, dywedwch beth: | 6.00% | 3 |
| | | ***Atebodd*** | **50** |

Allan o 55 defnyddiwr gwasanaeth roedd 5 o bobl heb ateb y cwestiwn. O’r 3 person na ddywedodd p’un ai Cymraeg ynteu Saesneg oedd eu dewis iaith, dywedodd dau “Cymraeg a Saesneg” a’r trydydd wedi rhoi “miwsig”.

Gofynnwyd i'r defnyddwyr gwasanaeth:-

*“Ydych chi yn derbyn eich cefnogaeth yn yr iaith sydd orau gennych?”* Roedd 4 defnyddiwr gwasanaeth heb ateb y cwestiwn hwn. Roedd 96.08% o bobl yn derbyn eu cefnogaeth yn yr iaith oedd orau ganddynt. Dywedodd y 2 wrth ateb ‘arall’ "*yr wyf yn hapus i siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg*" a "*Oherwydd bod fy ngweithiwr cefnogaeth ddim yn rhugl Gymraeg, ond yn dysgu*".

**Cwestiwn 7**

**Ble, yn eich barn chi, fyddech chi heddiw, oni bai am y gefnogaeth yma?** Atebwyd y cwestiwn hwn gan 43 defnyddiwr gwasanaeth gyda 12 yn dewis i beidio ag ateb.

Roedd y sylwadau ar gyfer y rheini a wnaeth gwblhau yn cynnwys y canlynol:-

*"Yn sownd mewn perthynas dreisgar gyda dim diwedd mewn golwg."*

*"mewn sefyllfa waeth o lawer, ac o bosibl yn ddigalon iawn oherwydd fy salwch meddwl ond maent wedi cadw llygad arnaf a rhoi pob cefnogaeth y gallant l i mi."*

*“Byddwn yn yr un sefyllfa ddramatig wrth i mi ffoi a heb unman i droi i gyda fy merch. Staff lloches hon wedi gwneud yn y gorau y gallant.”*

*“Eistedd yn fy fflat yn gwneud dim byd ond mynd yn fwy digalon”*

*"Credaf y byddem yn ddigartref. Doeddwn i ddim yn gwybod beth i'w wneud fel y deuthum i’r goleudy ar gyfer cefnogaeth i ddeall pam yr oedd fy landlord yn gofyn imi adael. Roedd eisiau ei werthu”*

*“Yr wyf yn meddwl y byddwn yn dal efo canser ac yn dal i fod yn yfed ac ysmygu!”*

*“yn dal i fod yn ddigartref fwy na thebyg,”*

*"Carchar.”*

*“gyda fy ffrindiau neu fy nhad”*

*”Ddim yn gwybod”*

*“Fyddwn i ddim yn y lle yr wyf yn awr, a byddai fy iechyd meddwl wedi dirywio ymhellach”*

*“Mae'n debyg bod yn ddigartref ac yn waglaw”*

*“Mae'n debyg byddwn yn ddigartref ac yn delio gyda llawer iawn o ddyled”*

*“Digartref mewn ffoes”*

*“ - - - Byddem yn dal i fyw mewn cartref anaddas ac ynysig”*

*“ Credaf y byddwn yn "6 troedfedd o dan” "*

*“Mewn lle drwg iawn”*

*“Nid yn byw yn fy nghartref fy hun o ganlyniad i ddyledion ar fy nghyfrif rhent ac wedi marw.”*

*“Wedi marw”.*

*“Ddigartref neu mewn Gwely a Brecwast”*

*“Byddwn yn ar y stryd, yn fregus ac yn anhapus iawn”*

*“Ni fyddem yn y sefyllfa yr wyf yn awr, siawns dda y byddwn wedi marw”*

*“Fwy na thebyg wedi colli fy nghartref ac mewn dyled”.*

*“Dal i fyw yn fy mhabell lle rwyf wedi bod yn byw am y tri mis blaenorol”.*

*“Byddwn mewn trafferth ddifrifol”*

*“Byddwn yn ddigartref heb y gefnogaeth yr wyf wedi ei gael”*

*“Dal mewn llety anfforddiadwy fynd i mewn i fwy a mwy o ddyled”*

*“Teimlaf os na fyddem wedi derbyn y gefnogaeth yr wyf wedi ei gael byddem wedi marw ac ar waelod afon Menai”*

*“Yn ôl yn y carchar”*

*“Dal i yfed a ddim yn gallu ymdopi â fy llythyrau a materion tai”*

*“Fyddwn i ddim yn hoffi i ddweud ag y gallwn fod mewn cyflwr drwg iawn gyda fy yfed”*

*“Nid wyf yn gwybod fel oedd fy lleoliad diwethaf yn cau i lawr, ac nid wyf yn gallu byw ar fy mhen fy hun ar hyn o bryd”*

*“Yn y gwter neu farw”*

*“Ddigartref a theulu wedi gwahanu”*

*“Marw, yn ddifrifol wael neu yn y carchar am lofruddiaeth”*

*“Gyda’r gefnogaeth yma, rwyf wedi dod yn fwy annibynnol ac os na wnes, ni fyddwn yn y lle rwyf bellach”*

*“Mae'n gas hyd yn oed meddwl am hynny”*

*“Byddwn yn y carchar neu’r ysbyty neu wedi marw”*

*“Byddai iechyd meddwl yn dirywio yn waeth. Ddim yn gwybod lle y byddwn”*

*“Ddim yn gwybod”*

*"Ddim yn siŵr, roeddwn o dan fygythiad o fod yn ddigartref"*

**Cwestiwn 8**




Allan o 55 o holiaduron a gwblhawyd atebodd 52 o bobl y cwestiwn hwn. Dewisodd rhai defnyddwyr gwasanaeth ateb y dewisiadau oedd yn berthnasol iddynt yn unig. Dim ond 43 o bobl atebodd y cwestiwn ar gefnogaeth cyn-denantiaeth a 43 yn unig yn ateb ar y gefnogaeth ar ôl tenantiaeth. Dewisodd 3 o bobl i beidio cwblhau'r cwestiwn hwn o gwbl.

Roedd 36 o bobl o'r farn fod y Gefnogaeth yn dilyn tenantiaeth yn dda iawn, dywedodd 6 ei bod yn dda ac 1 yn meddwl bod y gwasanaeth angen gwella, nid oedd neb o'r farn bod y gwasanaeth yn wael iawn.

Roedd 23 o bobl o'r farn bod y Gefnogaeth cyn tenantiaeth yn dda iawn, dywedodd 5 ei bod yn dda, 5 bod angen ei gwella a dywedodd 10 ei bod yn wael iawn. Mae hyn yn faes sy'n peri pryder a bydd angen ei ystyried ymhellach; roedd nifer sylweddol o atebion i'r cwestiwn hwn o'r farn fod y gefnogaeth cyn tenantiaeth yn wael iawn neu angen ei wella.

Dywedodd 45 o bobl bod ansawdd y staff yn eu darparwyr yn dda iawn, gyda 5 o'r farn fod y staff yn dda ac 1 o'r farn fod angen gwella ansawdd y staff. Nid oedd neb yn meddwl ei fod yn wael iawn.

Datganodd 42 o ddefnyddwyr gwasanaeth fod ansawdd y gwasanaeth yr oeddent yn ei dderbyn yn dda iawn. Roedd 10 o bobl wedi dweud bod yr ansawdd yn dda, ac nid oedd neb yn meddwl bod angen ei wella na'i fod yn wael iawn.

Adroddodd 41 o ddefnyddwyr gwasanaeth fod y cyfathrebu rhwng y staff a'r cleientiaid yn dda iawn, gyda 11 yn dweud ei fod yn dda. Nid oedd neb yn meddwl bod angen ei wella na'i fod yn wael iawn.

**Cwestiwn 9**

Ydy'r gwasanaeth wedi eich cefnogi chi i gyflawni'r deilliannau isod?

Rhowch dic wrth unrhyw rai sy'n berthnasol i chi.




Atebodd 48 o bobl am y deilliannau oedd yn berthnasol iddynt. Roedd 3 o bobl heb ateb y cwestiwn hwn.

| Deilliannau | Perthnasol i nifer yr unedau cefnogaeth |
|---|---|
| Teimlo'n ddiogel yn eich cartref ac yn y gymuned | 39 |
| Rheoli a chynnal eich llety | 44 |
| Rheoli perthynas, e.e. aelodau o'r teulu, cymdogion, eraill | 30 |
| Teimlo'n rhan o'r gymuned | 31 |
| Rheoli'ch arian | 37 |
| Cymryd rhan mewn addysg a dysgu | 21 |
| Cymryd rhan mewn gwaith cyflogedig / gwirfoddol | 13 |
| Bod yn gorfforol iach | 22 |
| Eich helpu i fod yn feddyliol iach | 38 |
| Eich helpu i ddilyn ffordd iach ac egnïol o fyw | 27 |
| Cynnal eich tenantiaeth ac atal digartrefedd | 44 |

**__Cwestiwn 10__**

**"Oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau yr ydych chi'n meddwl fyddai'n gwella'r gwasanaeth sy'n cael ei darparu ar hyn o bryd?"**

*"Ni chafodd pob maes fy anghenion emosiynol a chorfforol eu diwallu."Gorwel*

*"Nac oes, maent yn wych!" Gorwel*

*"Mwy o gyfarfodydd a gweithgareddau" CAIS*

*"Mae'r staff yn gefnogol iawn, maen nhw wedi fy helpu i ennill hyder. Mae gen i berthynas well gyda fy mam. Rwyf wedi cael cefnogaeth i wneud ffrindiau. Rwyf wedi cael cefnogaeth i ymuno â champfa i fod yn iach. Yr wyf wedi cael sesiynau cwnsela sy'n wirioneddol wedi helpu fy iselder ac nid wyf mor flin. Rwyf wedi dysgu sut i gyllidebu, ond yr wyf yn dal i fod angen cefnogaeth gyda hyn. Mae gennyf ffydd yn y staff ac yr wyf yn gallu siarad â nhw am unrhyw beth. Yr wyf yn dysgu sut i gadw fy ystafell yn daclus a golchi fy nillad. Rwyf wedi bod yn gallu datblygu fy nysgu ac yr wyf wedi ennill cymwysterau gan Agored. Rwyf wedi mwynhau gweithdai tenantiaeth rwyf wedi mynychu a bydd yn fy helpu pan fyddaf yn cael fy nhenantiaeth fy hunain." Coedlys*

*"Yr wyf yn fodlon iawn ar y gwasanaeth fel y mae". CAIS*

*"Dim o gwbl, gwasanaeth yr wyf wedi ei dderbyn wedi bod yn wych!" Gwasanaeth Tai CSYM*

*"Maent yn gwneud popeth o fewn eu gallu yn barod" Gwasanaeth Tai CSYM*

*"Bob amser ar alwad ar gyfer argyfyngau y tu allan i oriau gwaith" Gwasanaeth Tai CSYM*

*"Ddim, yn dda fel y mae" Gwasanaeth Tai CSYM*

*"Mwy o fforymau!" Gwasanaeth Tai CSYM*

*"Maent yn wych" The Wallich*

"Ni *chefais unrhyw wasanaeth gwell – wedi yn cael cymorth 24/7 gyda rhywun bob amser ar ddiwedd y ffôn imi os bydd ei angen. Yn fy marn i mae hyn yn beth y mae ar bobl ei angen" The Wallich*

*"Mae angen cyffredinol am y gwasanaeth" CAIS*

*"Na rwyf yn hapus gyda'r gefnogaeth a gofal fyddaf yn derbyn yn awr lle cefais fy nghyfyngu yn fy lleoliad olaf" Cartrefi Cymru*

*"Doedd gen i ddim syniad fod y gwasanaeth hwn ar gael nes i'r heddlu rhoi'r rhif mi. Nid oedd gennyf yr hyder i alw arnynt. Yn ffodus i mi eu bod wedi galw â mi ar ôl iddynt wedi derbyn adroddiad yr heddlu" Gorwel*

*"Darparu rhifau ffonau symudol personol y staff, nid rhif y swyddfa yn unig"*

Rhoddwyd **Na, does dim angen newid dim" neu D/B** gan 14 defnyddiwr gwasanaeth.

**<u>Cwestiwn 11</u>**

**Oes gennych unrhyw bryderon ynghylch y gwasanaeth yr ydych chi'n ei dderbyn?** Cwblhaodd 33 defnyddiwr gwasanaeth y cwestiwn. Dewisodd 23 defnyddiwr gwasanaeth beidio ag ateb y cwestiwn. Gwnaeth 29 defnyddiwr gwasanaeth y sylw "Na" "D/B" neu "Dim". Sylwadau eraill oedd:-

*"Na – wrth fy modd efo Coedlys"*

*"Na - rwy'n credu ei fod yn wasanaeth gwych"*

*"Na, nid oes gennyf unrhyw ofidiau neu bryderon"*

## Cwestiwn 12

**Ydych chi'n meddwl bod yna unrhyw wasanaethau nad ydynt ar gael ar yr ynys?** H.y. gwasanaethau arbenigol, cwnsela, cludiant ac yn y blaen. Cwblhaodd 32 o bobl y cwestiwn hwn ac roedd 23 heb ateb y cwestiwn.

Dywedodd 15 o bobl "*Na*"or "*D/B".* Isod mae rhai o'r sylwadau eraill a roddwyd:-.

*"Mae trafnidiaeth gyhoeddus ar yr ynys yn eithaf cyfyngedig. Fodd bynnag, mae'r aelodau staff yn gymwynasgar iawn."*

*"Rwy'n credu y gallai apwyntiadau iechyd meddwl fod yn gyflymach i'w cael"*

*"Mwy o swyddfeydd lleol"*

*"Triniaeth deintydd a mwy i roi gwybod i chi o beth sy'n digwydd"*

*"Swyddi"*

*"Rwy'n credu y dylai fod yn opsiwn i dderbyn 121, yr wyf yn teimlo yn anodd siarad ac yn ei chael yn hyd yn oed yn fwy anodd yn y cyfarfodydd CAIS*

*"*

*"Mae trafnidiaeth yn wael iawn mewn ardaloedd gwledig"*

*"Defnydd meddyginiaethol ar gyfer Canabis"*

*"Wedi stopio trafnidiaeth, rhestr aros hir ar gyfer cwnsela ac apwyntiadau ar gyfer yr ysbyty yn cymryd gormod o amser"*

"Problemau gyda thrafnidiaeth – nid oes unrhyw le i fynd ar y Sul gan nad oes unrhyw fysus yn rhedeg *(Amlwch)"*

*"Cefnogaeth i bobl nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer iechyd meddwl neu anableddau dysgu"*

*"Dim digon o fysiau"*

*"Nid wyf yn gwybod amdanynt"*

*"Trafnidiaeth i apwyntiadau ar gyfer pobl sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl"*

*"Allai fod yn well"*

*"Dylai cyrsiau rheoli dicter fod  fwy ar gael"*

*"Gweithwyr iechyd meddwl arbenigol. Rwy'n teimlo bod cefnogaeth iechyd meddwl ddim yn bodoli yma ar Ynys Môn"*

Ystyrir bod trafnidiaeth yn dal i fod yn broblem i lawer o rai sy'n cwblhau'r arolwg yn ychwanegol at y problemau sy'n ymwneud â mynediad at wasanaethau iechyd meddwl a chwnsela.

**Cwestiwn 13**

Gofynnwyd i'r defnyddwyr gwasanaeth; - **Ydych chi'n cael y cyfle i roi mewnbwn / neu NEWID unrhyw rai o'r canlynol?**

| **Dewis Ateb** | | **Ydw** | **Nac Ydw** | **Cyfanswm yr Ymatebion** |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Cyfarfodydd | 46 | 6 | 52 |
| 2 | Mewnbwn i'r Cylchlythyr | 24 | 26 | 50 |
| 3 | Holiaduron ynghylch ansawdd y gwasanaeth | 45 | 5 | 50 |
| 4 | Digwyddiadau Defnyddwyr Gwasanaeth | 41 | 9 | 50 |
| 5 | Trefnu gweithgareddau unigol neu grŵp | 32 | 16 | 48 |
| 6 | Gwella'r gwasanaeth presennol a / neu ddatblygu gwasanaethau newydd | 37 | 12 | 49 |
| 7 | Amser a dreuliwyd yn eich cefnogi chi | 44 | 4 | 48 |
| 8 | Y gweithgareddau a'r math o gefnogaeth yr ydych yn ei derbyn | 43 | 6 | 49 |
| 9 | Newid mewn gweithiwr cefnogi neu ddarparwr | 42 | 6 | 48 |
| 10 | Polisïau / gweithdrefnau | 23 | 21 | 44 |
| 11 | Ydych chi'n meddwl bod y cyfnod yr ydych wedi derbyn y gefnogaeth ynddo yn iawn ar gyfer eich anghenion? | 45 | 4 | 49 |
| 12 | Do you feel involved and part of the support Ydych chi'n teimlo eich bod yn cyfranogi ac yn rhan o'r gefnogaeth yr ydych yn ei derbyn? | 48 | 2 | 49 |
| 13 | Ydi nifer yr oriau yr ydych yn eu derbyn bob wythnos yn eich cynorthwyo i fynd i'r afael â'ch anghenion? | 44 | 4 | 48 |
| | | | ***Atebodd*** | **52** |

Roedd 3 defnyddiwr gwasanaeth heb ateb unrhyw ran o'r cwestiwn hwn.

**Cwestiwn 18**




| | Nifer y Defnyddwyr Gwasanaeth |
|---|---|
| Chi eich hun | 21 |
| Cefnogaeth gan y darparwr gwasanaeth | 28 |
| Cefnogaeth gan deulu/cyfeillion | 1 |

Cwblhaodd 50 defnyddiwr gwasanaeth y cwestiwn hwn a dewisodd 5 beidio ateb y cwestiwn.

**Cwestiwn 19**

| Fyddech chi'n argymell y gwasanaeth hwn? | | | |
|---|---|---|---|
| **Dewis Ateb** | | **Canran yr Ymateb** | **Cyfanswm yr atebion** |
| 1 | Byddwn | 97.87% | 46 |
| 2 | Na fyddwn | 2.13% | 1 |
| | | ***Atebodd*** | **47** |

Roedd 8 defnyddiwr gwasanaeth heb ateb y cwestiwn hwn. **Mae'r person na fyddent yn argymell y gwasanaeth hefyd wedi nodi bod ansawdd y staff angen gwella yng nghwestiwn 8**

**Cwestiwn 20**

| Dywedwch wrthym yn gryno, yn eich geiriau eich hun, os gwelwch yn dda, pam y byddech chi'n argymell y gwasanaeth hwn neu ddim. | | | |
|---|---|---|---|
| **Dewis Ateb** | | **Canran yr Ymateb** | **Cyfanswm yr Ymatebion** |
| 1 | | 100.0% | 38 |
| | | ***answered*** | **38** |

Roedd 17 defnyddiwr gwasanaeth heb ateb y cwestiwn hwn.

1 person dywedodd na fyddent yn argymell y gwasanaeth ond nid oedd sylw gydag esboniad o'u hateb.

Dyma rai o’r sylwadau cadarnhaol a roddwyd.

*“Y gwasanaeth a dderbyniais yma wedi bod yn ddiguro. Dod i mewn i loches yn brofiad ofnus iawn ond mae'r staff wedi bod yn anhygoel ac yn eich hannog i gael rheolaeth mewn ffyrdd nad oedwn yn meddwl oedd yn bosibl” Gorwel*

*“Byddem yn argymell y gwasanaeth hwn gan ei fod yn wasanaeth defnyddiol a meithrin i bobl sydd ei angen .... y gefnogaeth yn rhagorol " Gorwel*

*“Oherwydd eu bod yn eich helpu chi ac yn cymryd straen i ffwrdd ohonoch ac maent yn gwneud i chi weld synnwyr Ac os oes gennych ben fel fi mae'n werth cael.” Cefnogaeth ar Wasgar Digartref*

*“Helpodd fi i beidio ag yfed, yn help i mi ddeall trin biliau a llythyrau.” CAIS*

*“Oherwydd eu bod yn fy helpu i fynd i'r ysbyty a chael triniaeth ar gyfer fy salwch. -.” CAIS*

*“Roeddwn yn nerfus yn y dechrau am ddod i Coedlys, ond ar ôl dod roeddwn yn teimlo’n gartrefol. Staff wedi fy helpu i setlo i mewn, mae'n amgylchedd cyfeillgar iawn. Rwy'n teimlo bod y staff fel fy nheulu ac maent yn fy nhrin â pharch. Rwyf wedi dysgu cymaint ers dod yma, yr wyf yn teimlo fel person gwahanol. Rwyf cymaint mwy hyderus, Rwyf wedi gwneud ffrindiau a gallaf reoli fy nicter yn well. Yr wyf yn dysgu sut i reoli fy nhenantiaeth a fydd yn fy helpu pan fyddaf yn cael fy lle fy hun. Byddwn yn argymell Coedlys i bobl ifanc eraill oherwydd bod y staff yn gadarn ac yn wir yn eich helpu” Coedlys*

*“Drwy fy sefyllfa eu hunain roeddwn wedi dod i fethu siarad gydag unrhyw un, dwi yn araf ddysgu siarad eto gyda diolch i gefnogaeth gan CAIS” CAIS*

*“Byddem yn argymell fel y gwnaeth fy helpu gyda fy sefyllfa ariannol, wedi helpu i mi gymryd y cyfrifoldeb o dalu biliau ac ati fy hun. Dysgais sut i gyfathrebu ynghylch budd-daliadau tai ac ati. Dysgais hefyd bwysigrwydd agor fy mhost ac nid cuddio fy mhen yn y tywod” Gwasanaeth Cefnogaeth Tai CSYM*

*“Eich rhwystro rhag bod yn ddigartref” Digartref Llys y Gwynt*

*“Heb y gefnogaeth a gefais nid wyf yn credu byddem yn fyw heddiw. Mae fy ngweithiwr cefnogi fy helpu i ddeall am bŵer a rheolaeth camdriniaeth yn y cartref ac mi roddodd gefnogaeth sydd ei hangen i ddianc oddi wrth berthynas gyfnewidiol. Gwrandawodd fy ngweithiwr cefnogol bob amser, mae hi wedi aros yn gyson a bob amser wedi gwneud y gwaith. Ar ôl bod yn gaeth yn y tŷ am 10 mis a ddim yn trafferthu i wisgo, yn raddol tyfodd fy hunan-barch a hyder ac rwyf wedi dechrau mynd i'r afael â materion. Pan oeddwn yn sâl bûm yn gweithio gyda llawer o asiantaethau gwahanol ond gweithiwr cefnogol Hafan Cymru sydd wedi tynnu mi drwy’r adegau gwael.” Hafan Cymru*

*“Hafan Cymru wedi fy helpu a fy mhlant yn cael rhentu tŷ preifat pan symudais yn ôl i'r Ynys ar ôl profi Camdriniaeth yn y Cartref - Yr wyf bellach wedi mynd i'r afael a’m dyledion ac wedi cael Tenantiaeth*

*Tai Cymdeithasol yn ddiweddar. Byddaf yn gallu fforddio'r rhent hwn a hefyd bydd yn llety parhaol. Mae hyn yn golygu llawer i mi a'r plant a minnau wedi symud o gwmpas llawer yn y gorffennol" Hafan Cymru*

*"Mae wedi fy helpu i symud ymlaen i le llawer mwy cadarnhaol yn fy mywyd" Hafan Cymru*

*"Roeddwn i'n teimlo'n isel iawn ar ôl fy ngwraig farw. Mae fy ngweithiwr Cefnogaeth wedi edrych ar ôl fy anghenion ac wedi fy helpu i ddatrys pethau fel y gallaf a fy merch yn aros yn ein tŷ." Hafan Cymru*

*"Mae wedi fy helpu i roi trefn ar fy arian ac wedi helpu i fod yn teimlo'n gryfach - Rwy'n teimlo'n fwy hyderus i fynd i'r afael â phroblemau lle ynghynt byddwn wedi gadael iddynt adeiladu ac yn eu hysgubo o dan y carped." Hafan Cymru*

*"Rwy'n argymell y cymorth hwn gan fy mod yn teimlo'n well siarad i ... .. ac mae hi'n wir yn fy helpu gyda biliau ac ati" Gwasanaeth Tai CSYM*

*"Byddwn yn argymell y gwasanaeth oherwydd fod y gefnogaeth tai yn dda iawn am ddelio â fy mhroblemau" Gwasanaeth Tai CSYM*

*"Person hyfryd (............) felly yr wyf yn eich parchu ar bob adeg." IoACC Housing Support Service*

*"Cefnogaeth anhygoel, ymateb cyflym, cyfforddus yn dweud fy mhroblemau wrthi." Gwasanaeth Tai CSYM*

*"Defnyddiol iawn a bob amser yn gwrando ar yr hyn sydd gennyf i'w ddweud a chefnogi fy anghenion h.y. digartrefedd, cyllidebu a byw'n annibynnol" Gwasanaeth Tai CSYM*

*"Ddiamod felly" Gwasanaeth Tai CSYM*

*"Help mawr i mi, nid oeddwn yn ymwybodol o hanner y pethau sydd ar gael nes i mi gael fy nghefnogi gan ......... …………." Gwasanaeth Tai CSYM*

*"Mae'r Wallich yn wasanaeth mae llawer angen sy'n cael effaith gwerthfawr o fewn y gymuned. Nid wyf yn gwybod lle byddwn yn hebddynt. A dweud y gwir dwi ddim (byddwn i'n fod yn ddigartref, yn gorfforol, yn feddyliol, yn emosiynol, yn dirywio)" The Wallich*

*"Ddigwyddodd yn gyflym. Fodlon ar y gwasanaeth" The Wallich*

*"Byddwn yn argymell y gwasanaeth oherwydd fy mhrofiad personol" The Wallich*

*"Mae'r gweithwyr cefnogol yn llawer iawn o gymorth. Maen nhw wedi fy helpu llawer ac nid wyf yn gwybod beth fyddwn i'n ei wneud gyda chefnogaeth a chymorth fy ngweithiwr cefnogol". CAIS*

*"Byddai'n sicr yn argymell y Wallich maen nhw'n grêt" The Wallich*

*“Oherwydd cewch gefnogaeth 100% – maent yn gwbl broffesiynol, gofalgar, hawdd i gael gafael, hawdd cael ymlaen, heb fod yn wrthdrawiadol a dealltwriaeth hynod” The Wallich*

*“Oherwydd bod fy ngweithiwr cefnogi wedi helpu llawer i mi ac mae wedi cael ei sylwi ar gan fy meddyg teulu a fy ngweithiwr SMS. Rwy'n gallu siarad â fy ngweithiwr cefnogi am unrhyw beth.” CAIS*

*“Oherwydd heb y gwasanaeth fyddwn i ddim ble rydw i nawr” CAIS*

*“Oherwydd bod y staff yn fy nhrin â pharch ac yn edrych ar fy ôl yn dda iawn” Cartrefi Cymru*

*“Oherwydd y gefnogaeth mae CAIS yn rhoi imi sy’n agor llwybrau i feysydd eraill fel tîm Iechyd Meddwl Cymunedol a SMS” CAIS*

*“O fudd i mi a fy nheulu. Rydym wedi cael cymorth pan na allem helpu ein hunain ac wedi cael cefnogaeth gref gan Cais” CAIS*

*“Hoffwn ac eisoes wedi cyfeirio yn aelod o'r teulu i Gorwel” Gorwel*

*“Eu bod yn ddefnyddiol iawn” Gorwel*

*“Os wyf yn gwybod am berson mewn sefyllfa debyg byddwn yn argymell lloches hwn, y gefnogaeth a'r help a gaf yma o safon uchel iawn. Mae'r tîm yma yn Llangefni yn ddefnyddiol iawn ac yn gyfeillgar ac yn gwneud i chi deimlo'n gyfforddus” Gorwel*

*“Gan nad wyf yn teimlo'n ddiogel yn siarad am sut yr wyf yn teimlo ond yma yr wyf wedi teimlo'n ddiogel ac yn gallu rhannu fy nheimladau” Gorwel*

*“Byddwn yn argymell y gwasanaeth hwn i unrhyw un mewn sefyllfa debyg i mi fy hun, yr wyf yn gyn-ddefnyddiwr heroin sy'n ceisio cael fy mywyd yn ôl at ei gilydd ac osgoi llithro'n ôl - mae wedi bod yn amhrisiadwy wrth bontio'r bwlch hwnnw rhwng cam-drin sylweddau a bywyd troseddol yn ôl i mewn i ffordd o fyw positif a cynhyrchiol.” CAIS*

## **Amdanoch chi** (dewisol oedd y rhan hon o’r holiadur.)

**C1** - O’r 55 o holiaduron a gafodd eu cwblhau, roedd 21 yn ddynion, 30 yn ferched, ac roedd 3 wedi dewis i beidio ateb y cwestiwn.

**C2**- Dengys y siart isod ystod oedran y 52 a gwblhawyd yr holiaduron. Roedd 3 o bobl nad oeddent yn dymuno datgelu eu hystod oedran.




| Ystod Oedran | Nifer defnyddwyr gwasanaeth |
|---|---|
| 16 - 24 | 11 |
| 25 - 44 | 19 |
| 45 - 64 | 20 |
| 65+ | 2 |
| 75+ | 0 |
| 85+ | 0 |

**C3- Anabledd os yn berthnasol**

Anabledd - Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diffinio person anabl fel rhywun sydd â nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol ac anffafriol hirdymor ar ei allu ef/hi i gyflawni gweithgareddau pob dydd arferol.

Roedd 5 o bobl heb ateb y cwestiwn hwn.

| **Dewis Ateb** | | **Canran yr Ymateb** | **Cyfanswm yr Ymatebion** |
|---|---|---|---|
| 1 | Dim anabledd | 32.00% | 16 |
| 2 | Anabledd dysgu penodol | 12.00% | 6 |
| 3 | Afiechyd neu gyflwr iechyd ers amser maith | 16.00% | 8 |
| 4 | Cyflwr Iechyd Meddwl | 42.00% | 21 |
| 5 | Nam corfforol neu broblemau symudedd | 8.00% | 4 |
| 6 | Byddar neu nam clyw difrifol | 4.00% | 2 |
| 7 | Nam ar y golwg | 4.00% | 2 |
| 8 | Nam gwybyddol | 6.00% | 3 |
| 9 | Math arall o anabledd | 2.00% | 1 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 10 | Gwell gennyf beidio â dweud | 6.00% | 3 |
| | | ***Atebodd*** | **50** |

**C4 – Ethnigrwydd**

Roedd 7 o bobl heb ateb y cwestiwn hwn.

| **Dewis Ateb** | | **Canran yr Ymateb** | **Cyfanswm yr Ymatebion** |
|---|---|---|---|
| 1 | Gwyn | 93.75% | 45 |
| 2 | Asiaidd | 2.08% | 1 |
| 3 | Du | 0.0% | 0 |
| 4 | Tseiniaidd | 0.0% | 0 |
| 5 | Cymysg | 4.17% | 2 |
| 6 | Arall (dywedwch beth): | 0.0% | 0 |
| | | ***answered*** | **48** |

**C5 – Crefydd neu Gred**

Roedd 4 o bobl heb ateb y cwestiwn hwn

| **Dewis Ateb** | | **Canran yr Ymateb** | **Cyfanswm yr Ymatebion** |
|---|---|---|---|
| 1 | Cristnogol | 41.18% | 21 |
| 2 | Bwdhydd | 0.0% | 0 |
| 3 | Baha'i | 0.0% | 0 |
| 4 | Hindŵ | 0.0% | 0 |
| 5 | Jain | 0.0% | 0 |
| 6 | Iddew | 0.0% | 0 |
| 7 | Mwslim | 0.0% | 0 |
| 8 | Sikh | 0.0% | 0 |
| 9 | Arall | 11.76% | 6 |
| 10 | Gwell gennyf beidio â dweud | 5.88% | 3 |
| 11 | Dim crefydd na chred | 41.18% | 21 |
| | | ***answered*** | **51** |

**C6 –Tuedd Rywiol**

Roedd 4 o bobl heb ateb y cwestiwn hwn

| **Dewis Ateb** | | **Canran yr Ymateb** | **Cyfanswm yr Ymatebion** |
|---|---|---|---|
| 1 | Deurywiol | 3.92% | 2 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2 | Heterorywiol | 80.39% | 41 |
| 3 | Lesbïaidd / hoyw | 3.92% | 2 |
| 4 | Gwell gennyf beidio â dweud | 11.76% | 6 |
| | | | **51** |

**C7- Cenedl**

Roedd 4 o bobl heb ateb y cwestiwn hwn




| Cenedl | Nifer defnyddwyr gwasanaeth |
|---|---|
| Cymraeg | 27 |
| Saesneg | 13 |
| Gogledd Iwerddon | 0 |
| Prydeinig | 9 |
| Gwyddel | 2 |
| Arall | 0 |

# CANLYNIADAU YMGYSYLLTIAD DEFNYDDWYR GWASANAETH CEFNOGI POBL 2016-2017

**Ymgysylltiad Defnyddwyr Gwasanaeth gyda Gwella Gwasanaethau –** Sut mae gwasanaethau wedi gwella o ganlyniad uniongyrchol i ymgysylltu/ymgynghori gyda defnyddwyr gwasanaeth?

**Ymgysylltiad Defnyddwyr Gwasanaeth gyda Datblygu Gwasanaethau –** Y modd y mae defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu cynnwys yn y broses o ddatblygu gwasanaethau newydd, e.e. prosesau mapio / tendro.

**Ymgysylltiad Defnyddwyr Gwasanaeth gyda Gwella Gwybodaeth a Mynediad i Wasanaethau –** Y modd y mae defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu cynnwys yn y broses o ddylunio a datblygu gwybodaeth a mynediad i wasanaethau cefnogi pobl

cefnogipobl
supportingpeople
supporting independence
cefnogi annibyniaeth

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL



## Ymgysylltiad Defnyddwyr Gwasanaeth

| Ymgysylltiad Defnyddwyr Gwasanaeth | Ffynhonnell yr Ymgysylltiad | Maes Ymgysylltiad | Camau Gweithredu o ganlyniad i'r Ymgysylltiad | Dyddiad(au) Gweithredu/Rhannu Gwybodaeth |
|---|---|---|---|---|
| ***CAIS*** | CHANGE STEP<br>Mae gwirfoddolwyr a mentoriaid cymheiriaid eisoes wedi helpu'r pencampwr tyfu dahlias, Eric Thompson, o Fflint, ail-afael yn ei hoff hobi o iard gefn a oedd wedi gordyfu.<br>Yn y cyfamser, mae'r prosiect Change Step ar gyfer Cyn-filwyr Oedrannus yn darparu cymorth penodol ar gyfer cyn-bersonel y Lluoedd Arfog sy'n 65 oed neu'n hŷn, a'u teuluoedd – gan eu cynorthwyo i fyw bywydau actif a chyflawn drwy sicrhau bod modd iddynt gael mynediad at yr amrediad eang o gymorth sydd ar gael a nodi unrhyw fylchau.<br>Mae'r cynllun sy'n cael ei gyllido gan y Lleng Brenhinol Prydeinig, yn cynnig pwynt cyswllt ar gyfer cyn-filwyr, eu teuluoedd a'u gofalwyr, gwasanaeth mentora cymheiriaid sy'n seiliedig yn y gymuned ac sy'n helpu i fynd i'r afael ag ynysiad ac unigrwydd. | **Datblygu gwasanaeth au a chodi proffil y gwasanaeth** | Meithrin cysylltiadau da gyda'r gymuned leol, codi proffil y gwasanaeth | 19.08.2016 |
| ***CAIS*** | Cafodd prosiect newydd o'r enw Caniad ar gyfer ymgysylltu gyda defnyddwyr gwasanaeth ei lansio yn ystod y cyfnod monitro hwn. Mae Caniad yn cael ei ddarparu mewn partneriaeth rhwng CAIS a Hafal ac mae'n cynnwys ardaloedd y chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru. Mae'r prosiect yn galluogi | **Datblygu gwasanaeth au a chodi proffil y gwasanaeth** | Bydd defnyddwyr gwasanaeth a'u gofalwyr yn rhan hanfodol o'r broses o gynllunio, comisiynu, dylunio, darparu a | Hydref - Rhagfyr 2016 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr i gymryd rhan yn y broses o gynllunio, comisiynu, dylunio, darparu a gwerthuso'r gwasanaethau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau neu iechyd meddwl. | | gwerthuso'r gwasanaethau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau neu iechyd meddwl. | |
| ***CAIS*** | Roedd y grŵp ymgysylltu gyda defnyddwyr gwasanaeth a sefydlwyd eisoes ar Ynys Môn wedi cael ei ohirio yn y lle cyntaf oherwydd lansio Caniad a hynny er mwyn osgoi unrhyw ddyblygu. Mae Caniad bellach yn gwbl weithredol ac mae defnyddwyr gwasanaeth Ynys Môn yn cael eu cynrychioli arno. .Mae'r Darparwr am barhau i weithio gyda'r grŵp defnyddwyr gwasanaeth gwreiddiol ar Ynys Môn a oedd yn cynnwys 6 o ddefnyddwyr gwasanaeth a 6 o weithwyr cymorth. Bydd sgôp a phwrpas grŵp Ynys Môn yn wahanol i Caniad a bydd yn canolbwyntio mwy ar y gwasanaethau lleol yn Ynys Môn. | **Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth** **Datblygu gwasanaeth au a chodi proffil y gwasanaeth** | Hyrwyddo ymgysylltiad gyda defnyddwyr gwasanaeth ar Ynys Môn | Parhaus Rhagfyr 2016 |
| ***CAIS*** | Mae defnyddwyr gwasanaeth yn parhau i fod yn rhan o'r broses o recriwtio staff i'r gwasanaeth. Bydd defnyddiwr gwasanaeth yn rhan o'r panel cyfweld hefyd ar gyfer swydd y Swyddog Cymorth Tenantiaeth sy'n wag ar hyn o bryd. | **Gwella Gwasanaeth au** **Datblygu Gwasanaeth au** | Galluogi defnyddwyr gwasanaeth i fod yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau. | Parhaus |

| **Ymgysylltiad Defnyddwyr Gwasanaeth** | **Ffynhonnell yr Ymgysylltiad** | **Maes Ymgysylltiad** | **Camau Gweithredu o ganlyniad i'r Ymgysylltiad** | **Dyddiad(au) Gweithredu/Rhannu Gwybodaeth** |
|---|---|---|---|---|
| ***Cartrefi*** | Mae'r polisïau a ddarparwyd gan Cartrefi Cymru yn cynnwys tystiolaeth eu bod yn darparu gwahanol | **Datblygu Gwasanaethau** | Defnyddwyr gwasanaeth yn cymryd | Parhaus |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ***Cymru*** | gyfleoedd i staff gyfranogi ac maent hefyd wedi cadarnhau bod ganddynt 2 o wirwyr ansawdd ar hyn o bryd. | | rhan weithredol mewn meysydd penodol o'r gwasanaethau a ddarperir Service | |
| ***Cartrefi Cymru*** | Mae yna Grŵp Cenedlaethol Cynrychioliadol (NRG) ac mae dau o ddefnyddwyr gwasanaeth o Ynys Môn yn eistedd ar y panel. Mae'r naill o Gorwel Las a'r llall o Cae'r Delyn.<br><br>Cadarnhawyd bod y Grŵp Cynrychioliadol Cenedlaethol (NRG) yn y broses o gael ei newid a'i ail-frandio i 'Get Together'. Roedd y darparwr wedi sylweddol nad oedd lefelau presenoldeb yn uchel iawn ar gyfer yr NRG. Sefydlwyd bod nifer o ddefnyddwyr gwasanaeth eisiau mwy o weithgareddau hwyliog yn y grŵp yn ogystal â'r gweithgareddau ymgysylltiad mwy difrifol. Bydd y grŵp yn cael ei ailstrwythuro yn y modd hwn er mwyn cynyddu lefelau cyfranogiad. | **Datblygu Gwasanaethau**<br><br>**Datblygu Gwasanaethau** | Ymgysylltiad defnyddwyr gwasanaeth ar lefel genedlaethol, cyfle i fod yn rhan o'r trafodaethau.<br><br>Cyfleoedd i ddefnyddwyr gwasanaeth gymryd rhan mewn gwahanol feysydd o'r gwasanaeth. Bydd y grŵp newydd hwn yn defnyddio dulliau ymgysylltu newydd megis 'think cards' fel y gall defnyddwyr gwasanaeth wneud dewisiadau a phenderfynu beth yr hoffent ei gael o'r cymorth a roddir iddynt. | Parhaus<br><br>Hydref 2016 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| ***Cartrefi Cymru*** | Cynhelir bore coffi ar 15 Hydref 2016 gan drigolion 136 Bryn Meurig er mwyn codi arian i Macmillan. | **Cynnwys Defnyddwyr Gwasanaeth** | | Hydref 2016 |
| ***Cartrefi Cymru*** | Mae cyfarfod mwy anffurfiol ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth yn cael ei drefnu ar gyfer canol mis Tachwedd a bydd yn fath o ffair Nadolig?? Christmas fare (fair??). | **Cynnwys Defnyddwyr Gwasanaeth** | | Tachwedd 2016 |

| Ymgysylltiad Defnyddwyr Gwasanaeth | Ffynhonnell yr Ymgysylltiad | Maes Ymgysylltiad | Camau Gweithredu o ganlyniad i'r Ymgysylltiad | Dyddiad(au) Gweithredu/Rhannu Gwybodaeth |
|---|---|---|---|---|
| ***Clwyd Alyn*** | Mae cyfleoedd cyson ar gael yng Nghlwyd Alun i ddefnyddwyr gwasanaeth wneud cyfraniad, mae'r rhain yn cynnwys, ond heb eu cyfyngu i:-<br>• Pwyllgor Gwella Gwasanaeth<br>• Cynhadledd Tenantiaid<br>• Hyfforddiant TG<br>• Cyngor ariannol<br>• Arolygwyr sy'n Denantiaid (*a fydd yn gwirio gwaith trwsio)*<br>• Grŵp Ymbarél Tai Gwarchod<br>• Arolygon – mae'r Arolwg Star wedi cael ei gwblhau'n ddiweddar<br><br>*Lle mae hynny'n briodol, bydd Clwyd Alyn hefyd yn trefnu cludiant fel y gall defnyddwyr gwasanaeth fynychu cyfarfodydd rhanbarthol a fydd efallai yn cael eu cynnal y tu allan i'r ardal.* | **Cynnwys Defnyddwyr Gwasanaeth**<br>**Gwella gwybodaeth a mynediad i'r gwasanaeth** | Cyfleoedd i ddefnyddwyr gwasanaeth fod yn rhan o weithgareddau Clwyd Alyn ei hun a all fod o fudd iddynt fel unigolion. | Parhaus |
| ***Clwyd Alyn*** | Cafodd y Grŵp Ymbarél ar gyfer Tai Gwarchod ei | **Datblygu** | Galluogi defnyddwyr | Parhaus |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | sefydlu fel cyfrwng i ddefnyddwyr gwasanaeth ymgeisio am arian grant ac er bod Clwyd Alyn ei hun yn sefydliad elusennol, mae'n rhy fawr i gyflwyno'r ceisiadau hyn ar ran defnyddwyr gwasanaeth. | **gwasanaethau a chodi proffil y gwasanaeth** | gwasanaeth i ymgeisio am arian grant ar gyfer gwahanol brosiectau | |
| ***Clwyd Alyn*** | Bydd newyddlen Clwyd Alyn yn cael ei chylchredeg cyn Nadolig 2016 a fydd yn cynnwys gwybodaeth am yr holl ddigwyddiadau a gynhelir | **Gwella gwybodaeth a mynediad i'r gwasanaeth** | Rhannu gwybodaeth ynghylch gwasanaeth Clwyd Alyn | Hydref 2016 |

| Ymgysylltiad Defnyddwyr Gwasanaeth | Ffynhonnell yr Ymgysylltiad | Maes Ymgysylltiad | Camau Gweithredu o ganlyniad i'r Ymgysylltiad | Dyddiad(au) Gweithredu/Rhannu Gwybodaeth |
|---|---|---|---|---|
| ***Gwasanaeth Cymorth Cymunedol*** | Dywedodd y Darparwr bod clwb llesiant yn cael ei gynnal yng Nghaergybi lle gall defnyddwyr gwasanaeth gymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau a chwaraeon. Mae'r staff yn gweithio gyda defnyddwyr gwasanaeth i'w hannog i redeg y clwb eu hunain. | **Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth Gwella Gwasanaethau** | Defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu grymuso i redeg y clwb llesiant | Parhaus |
| ***Gwasanaeth Cymorth Cymunedol*** | Mae Swyddog Datblygu wedi cael ei benodi ar gyfer y gwasanaeth am flwyddyn er mwyn datblygu'r elfen o'r gwasanaeth sy'n ymwneud ag ymgysylltiad defnyddwyr gwasanaeth. | **Gwella Gwasanaethau Datblygu Gwasanaethau** | Gwell cyfranogiad o du'r defnyddwyr gwasanaeth | Parhaus |

| Ymgysylltiad | Ffynhonnell yr Ymgysylltiad | Maes | Camau Gweithredu o | Dyddiad(au) |
|---|---|---|---|---|

| Defnyddwyr Gwasanaeth | | Ymgysylltiad | ganlyniad i'r Ymgysylltiad | Gweithredu/Rhannu Gwybodaeth |
|---|---|---|---|---|
| ***Digartref (Coedlys)*** | Mae Coedlys wedi creu Cynllun Gweithredu ar gyfer cyfranogiad defnyddwyr gwasanaeth dros y misoedd nesaf ac yn trefnu cyfleoedd ar gyfer hyn yn rheolaidd. Mewn perthynas â'r trip i Lundain y gofynnwyd amdano, roedd y defnyddwyr gwasanaeth wedi gweithio'r costau allan drostynt eu hunain ac wedi cysylltu gyda gwahanol gyflenwyr i drefnu cludiant am ddim a mynediad am ddim i rai o'r atyniadau yn Llundain. | **Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth** | Roedd defnyddwyr gwasanaeth yn allweddol o ran penderfynu ar y llefydd yr oeddynt yn dymuno ymweld â nhw ac yn rhan lawn o'r broses o gael gafael ar docynnau a chludiant fel y gallai'r trip fynd yn ei flaen. | Hydref 2016 |
| ***Digartref (Coedlys)*** | Cynhelir Digwyddiad Nadolig yn y Ganolfan Fenter a bydd defnyddwyr gwasanaeth yn helpu i baratoi'r bwffe. Wrthi'n gwneud Cardiau Nadolig a fydd yn cael eu gwerthu i godi arian i i elusen. | **Cynnwys Defnyddwyr Gwasanaeth** | Bydd defnyddwyr gwasanaeth yn codi arian ar gyfer elusennau ac yn ymgysylltu mwy gyda'r gymuned. | Nadolig 2016 |
| ***Digartref (Coedlys)*** | Mae newyddlen ddiweddaraf Coedlys wedi cael ei pharatoi a bydd copïau yn cael eu cylchredeg unwaith y bydd wedi cael ei chyfieithu. Mae'r defnyddwyr gwasanaeth wedi cymryd rhan lawn yn y broses o greu'r newyddlen hon. | **Cynnwys Defnyddwyr Gwasanaeth** **Gwella gwybodaeth a mynediad i'r gwasanaeth** | Rhoi cyhoeddusrwydd i'r prosiect, rhannu gwybodaeth a chynllunio diwyg y newyddlen. | Hydref 2016 a Pharhaus. |
| ***Digartref (Llys y Gwynt)*** | Mae nifer o gyfleoedd o fewn darpariaeth Digartref i'r defnyddwyr gwasanaeth gyfranogi. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gan gynnwys Clybiau Brecwast a Chinio wythnosol a 4-6 o gyfarfodydd wythnosol i denantiaid. | **Cynnwys Defnyddwyr Gwasanaeth** | Mynychu cyfarfodydd yn rheolaidd, sylweddoli bod rhannu syniadau yn bwysig | Parhaus |
| ***Digartref (Llys y Gwynt)*** | Mae Trip Bowlio wedi cael ei drefnu ar gyfer Rhagfyr 2016 ac mae'r trigolion yn edrych ymlaen at yr Ŵyl Coed Nadolig. Mae'r holl ddefnyddwyr | **Cynnwys Defnyddwyr Gwasanaeth** | Bod yn rhan o'r digwyddiad. | Rhagfyr 2016 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | gwasanaeth yn helpu i drefnu'r Diwrnod Agored a gynhelir yn o fuan ar 15 Rhagfyr 2016. | | | |
| ***Digartref (Llys y Gwynt)*** | Mae ymweliadau diweddar wedi cynnwys trip i Go Below a barbeciw ar y cyd gyda Coedlys yng Nghoedwig Niwbwrch. Trefnwyd hyn er mwyn cydnabod cyfraniad y defnyddwyr gwasanaeth at yr adolygiad gwasanaeth. | **Cynnwys Defnyddwyr Gwasanaeth** **Gwella Gwasanaethau** **Datblygu Gwasanaethau** | Deall y pwysigrwydd o fod yn rhan o'r broses adolygu gwasanaethau. | Haf 2016 |
| ***Digartref (Llys y Gwynt)*** | Mae gweithgareddau wedi cynnwys clirio'r ardd, mae llawer o waith wedi cael ei wneud a bwriedir gwneud mwy'r gwanwyn nesaf. Gobeithir cael mwy o ddodrefn gardd a chreu gwelyau uchel ar gyfer tyfu llysiau.<br>Ymgynghorir gyda'r defnyddwyr gwasanaeth ynghylch sut y dylai'r hostel edrych a byddant yn chwarae rhan yn y broses o ddewis lliw'r carpedi, lliw'r paent ac yn helpu i ddewis y dodrefn. Bydd unrhyw waith ailaddurno'n cael ei wneud gan bobl broffesiynol. Dylai hyn helpu i wneud Llys y Gwynt deimlo'n fwy cartrefol. | **Cynnwys Defnyddwyr Gwasanaeth** **Gwella Gwasanaethau** | Gwella'r cyfleusterau yn y prosiect, defnyddwyr gwasanaeth yn cael dewis o ran yr addurniad yn gyffredinol.<br>Garddio – deall pwysigrwydd gweithio gyda'n gilydd er mwyn cwblhau'r gwaith a'r angen am ymrwymiad i dyfu llysiau a chynnal a chadw'r ardd lysiau. | Parhaus a Gwanwyn 2017 |
| ***Digartref (Llys y Gwynt)*** | Yn ddiweddar, gofynnwyd i'r defnyddwyr gwasanaeth lenwi nifer o ymgynghoriadau Defnyddwyr Gwasanaeth ar gyfer Shelter, Take Notice, Llais Cymunedol, Caniad, Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. | **Gwella Gwasanaethau Services** **Datblygu Gwasanaethau** | Darparu adborth defnyddiol am y gwasanaethau gwahanol y gallent fod wedi dod i gysylltiad â nhw | Hydref 2016 |

| **Ymgysylltiad** | **Ffynhonnell yr Ymgysylltiad** | **Maes** | **Camau gweithredu o** | **Dyddiad(au)** |
|---|---|---|---|---|

| Defnyddiwr Gwasanaeth | | Ymgysylltiad | ganlyniad i'r Ymgysylltiad | Gweithredu / Rhannu Gwybodaeth |
|---|---|---|---|---|
| ***Gorwel (Camdriniaeth Ddomestig)*** | Digwyddiad ymgynghori gyda defnyddwyr gwasanaeth | **Ymgynghoriad defnyddiwr gwasanaeth** **Gwella Gwasanaethau** **Datblygu Gwasanaethau** | Cyfle am ymgynghoriad rhwng gwahanol grwpiau gwasanaeth, rhanddeiliaid a darparwyr. | Ionawr/Chwefror 2017 |
| ***Gorwel (Gwasanaethau Pobl Hŷn)*** | Digwyddiad ymgynghori gyda defnyddwyr gwasanaeth (wedi'i gyfuno â'r uchod) | **Ymgynghoriad defnyddiwr gwasanaeth** **Gwella Gwasanaethau** **Datblygu Gwasanaethau** | Cyfle am ymgynghoriad rhwng gwahanol grwpiau gwasanaeth, rhanddeiliaid a darparwyr. | Ionawr/Chwefror 2017 |
| ***Gwasanaethau Pobl Hŷn)*** | Fel rhan o hyrwyddo'r gwasanaeth newydd i Bobl Hŷn, trefnodd y darparwr Sioe Deithiol ar gyfer Ynys Môn a ymwelodd â phob un o'r Cynlluniau Tai Gwarchod ar yr Ynys ar ddechrau 2016. Cynhaliwyd yr ymweliadau gan ddefnyddio bws Gorwel a darparwyd lluniaeth. | **Gwella gwybodaeth a mynediad i'r gwasanaeth.** | Hyrwyddo'r gwasanaeth newydd i Bobl Hŷn a sicrhau bod pawb o fewn y cynlluniau tai gwarchod wedi derbyn llawlyfr a gwybodaeth am y gwasanaeth newydd. | Tachwedd 2016 |

| Ymgysylltiad Defnyddiwr Gwasanaeth | Ffynhonnell yr Ymgysylltiad | Maes Ymgysylltiad | Camau gweithredu o ganlyniad i'r Ymgysylltiad | Dyddiadau) Gweithredu / Rhannu Gwybodaeth |
|---|---|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ***Gwasanaeth Cefnogi Tai*** | Gwelodd ein 5ed cyfarfod Grŵp Defnyddwyr ni'n dychwelyd i'r Neuadd Cadetiaid Môr yn Nhraeth Newry, Caergybi. Ein nod, fel pob amser oedd cynnwys ein cleientiaid yn y cyfarfod cymaint â phosibl drwy drefnu cyflwyniadau a stondinau sy'n briodol ac yn berthnasol iddyn nhw. Fe welsom rhai wynebau cyfarwydd wrth i ni geisio annog cleientiaid sydd wedi symud ymlaen o gael cymorth gennym wrth iddynt alw heibio i ddweud helo. Yn ogystal â'r rhain fe welsom rhai wynebau newydd hefyd. Cawsom ymateb rhagorol gan ein cydweithwyr a alwodd heibio'r i godi ymwybyddiaeth am eu gwaith ac i drefnu apwyntiadau gydag unrhyw un sydd â diddordeb. Dros y tudalennau nesaf byddwn yn rhoi manylion am bwy ddaeth heibio a beth maent yn ei wneud ac yn eich cynghori i gysylltu â nhw os ydych yn dymuno. Byddwn yn ceisio trefnu cyfarfod arall cyn diwedd y flwyddyn. Rhowch wybod i ni os oes gennych unrhyw syniadau! | **Datblygu gwasanaethau a chodi proffil y gwasanaeth** **Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth** | Gwybodaeth berthnasol a defnyddiol wedi ei rhannu, cynnal cysylltiadau gyda chyn ddefnyddwyr gwasanaeth yn cadw mewn cysylltiad. | Gorffennaf 2016. Bydd cyfarfodydd parhaus |

Tudalen 761

| | Ffynhonnell yr Ymgysylltiad | Maes Ymgysylltiad | Camau gweithredu o ganlyniad i'r Ymgysylltiad | Dyddiad(au) Gweithredu / Rhannu Gwybodaeth |
|---|---|---|---|---|
| ***Hafan Cymru*** | Cynhadledd Defnyddwyr Gwasanaeth Hafan Cymru 2016 | **Gwella Gwasanaethau** **Datblygu Gwasanaethau** | Rhoi cyfle i Ddefnyddwyr Gwasanaeth gyfarfod gyda defnyddwyr gwasanaeth o ardaloedd / meysydd eraill er mwyn rhannu syniadau ac adrodd yn | Adroddiad dyddiedig Hydref 2016 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | ôl. | |
| ***Hafan Cymru*** | Cynhaliodd Hafan Cymru ei Arolwg Boddhad Cwsmer diweddaraf dros gyfnod o 6 wythnos rhwng Ebrill a Mehefin 2016. Cafodd holl ddefnyddwyr Hafan Cymru (gan gynnwys rhai'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf) eu gwahodd i gymryd rhan mewn arolwg drwy'r post. | **Gwella Gwasanaethau** | Mae cyfle i'r defnyddwyr gwasanaeth roi sylwadau ar y gwasanaethau a ddarperir iddynt. Roedd un defnyddiwr gwasanaeth a gefnogwyd ar Ynys Môn yn un o chwech o bobl a ddewiswyd i dderbyn gwobr o £50 am gwblhau'r arolwg | Ebrill – Mehefin 2016 |

| Ymgysylltiad Defnyddiwr Gwasanaeth | Ffynhonnell yr Ymgysylltiad | Maes Ymgysylltiad | Camau gweithredu o ganlyniad i'r Ymgysylltiad | Dyddiad(au) Gweithredu / Rhannu Gwybodaeth |
|---|---|---|---|---|
| ***Hyland*** | Bydd trigolion yn cynnal cyfarfod bob dydd Mawrth. Yn y cyfarfod bydd trigolion yn trafod y bwydlenni yr hoffent eu gweld yn ystod yr wythnos ddilynol. Maent yn cael eu hannog i chwilio am ryseitiau newydd yr hoffent eu gweld, ni ellir ychwanegu'r rhain tan y byddant wedi eu profi am alergedd. Mae gan y llyfr ryseitiau gategorïau ar ffurf goleuadau traffig coch, melyn a gwyrdd yn ôl y lefelau colesterol sydd ym mhob rysáit.<br>Bydd trigolion yn gwneud penderfyniadau o ran unrhyw waith addurno yn y fflat. | **Cynnwys defnyddiwr gwasanaeth**<br>**Gwella Gwasanaethau** | Mae defnyddwyr gwasanaeth yn gallu gwneud penderfyniadau eu hunain am brydau a chymryd rhan yn y broses o wneud y bwyd. Trafodir unrhyw waith mewn perthynas â'r adeilad gyda'r defnyddwyr gwasanaeth a gallant benderfynu sut | Parhaus |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Bydd y defnyddwyr gwasanaeth yn cymryd rhan yn y gwaith o baratoi a choginio prydau. | | maent yn dymuno addurno eu lle byw eu hunain. | |



| Ymgysylltiad Defnyddiwr Gwasanaeth | Ffynhonnell yr Ymgysylltiad | Maes Ymgysylltiad | Camau gweithredu o ganlyniad i'r Ymgysylltiad | Dyddiad(au) Gweithredu / Rhannu Gwybodaeth |
|---|---|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ***Môn Care (Anableddau Dysgu)*** | Cyfarfodydd rheolaidd â thenantiaid yn cael eu cynnal o fewn y cynlluniau. | **Cynnwys Defnyddwyr Gwasanaeth** | Cyfle i drafod a nodi unrhyw faterion sy'n codi. | Parhaus. |
| ***Môn Care (Pobl Hŷn)*** | Mae gan bobl sy'n byw yn Llangoed a Llandegfan Gydlynydd Asedau Lleol dros dro sef Gwyneth Rowlands, Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion ynys Môn. Bydd yn cynnal Sesiynau Cymunedol yn yr ardaloedd bob wythnos ac yn mynd o un lleoliad i'r llall bob yn ail ac mae nifer dda'n mynychu'r sesiynau hyn. | **Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth** | Cynnig cyfleoedd i ddod yn rhan o weithgareddau'r cymunedau lleol | Parhaus |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ***Gofal Môn Care (Pobl hŷn)*** | Annog defnyddwyr gwasanaeth i fynychu'r canolfannau Heneiddio'n Dda yn Llangefni ac Amlwch. | **Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth** | Cynhwysiant cymdeithasol, cyfle i fynychu nifer o grwpiau, rhannu gwybodaeth ddefnyddiol. | Parhaus |
| ***Gofal Môn Care (Pobl hŷn)*** | Caiff defnyddwyr gwasanaeth eu hannog i fynychu Caffi Cofio yn ogystal â'r Canolfannau Dydd, Canolfan Hafan ac i gymdeithasu yn y gymuned. Sesiynau symud i gerddoriaeth. | **Cynnwys Defnyddwyr Gwasanaeth** | Cynhwysiant cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn sydd ag arwyddion cynnar o ddementia. | Parhaus |



| Ymgysylltiad Defnyddiwr Gwasanaeth | Ffynhonnell yr Ymgysylltiad | Maes Ymgysylltiad | Camau gweithredu o ganlyniad i'r Ymgysylltiad | Dyddiad(au) Gweithredu / Rhannu Gwybodaeth |
|---|---|---|---|---|
| ***Gofal Ychwanegol Penucheldre*** | Mae yna grŵp Cyfranogiad Tenantiaid wedi'i sefydlu sef Grŵp Penllys, a hynny er mwyn cydlynu'r digwyddiadau. | **Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth** **Gwella Gwasanaethau** | Cyfleoedd i ddefnyddwyr gwasanaeth chwarae eu rhan | Parhaus |

| | Ffynhonnell yr Ymgysylltiad | Maes Ymgysylltiad | Camau gweithredu o ganlyniad i'r Ymgysylltiad | Dyddiad(au) Gweithredu / Rhannu Gwybodaeth |
|---|---|---|---|---|
| ***Y Wallich*** | Gwrando a Chinio. Digwyddiad defnyddwyr gwasanaeth, 28 Gorffennaf 2016. Mynychodd dau ddefnyddiwr gwasanaeth. | **Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth** | Astudiaethau achos wedi eu cwblhau ar gyfer y defnyddwyr gwasanaeth a fynychodd a oedd wedi eu cynnwys ar eu gwefan. | Hydref 2016 |
| ***Y Wallich*** | Cinio Nadolig yng Nghanolfan Gymunedol Ebeneser. Defnyddwyr gwasanaeth presennol a blaenorol. | **Datblygu gwasanaethau a chodi proffil y gwasanaethau** | Cynhyrchodd y defnyddwyr gwasanaeth boster er mwyn hyrwyddo'r digwyddiad. Defnyddiwr gwasanaeth i weithio ar ymgysylltiad ychwanegol gan y defnyddwyr ac mae mewn cysylltiad â'r Cyfarwyddwr Codi Arian a Phartneriaeth yn Y Wallich (Jan Basildon) sy'n gweithio gyda'r defnyddiwr gwasanaeth ar brosiectau eraill. Wedi cysylltu ag Asda er mwyn gofyn am fwyd am ddim ar gyfer y cinio Nadolig drwy'r Gronfa Gymunedol. | Nadolig 2016 |
| ***Y Wallich*** | Digwyddiad gyda Rhun ap Iorwerth er mwyn hyrwyddo'r gwasanaeth. | **Datblygu gwasanaethau a chodi proffil** | Codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth. | Parhaus |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | y gwasanaeth | | |

| Ymgysylltiad Defnyddiwr Gwasanaeth | Ffynhonnell yr Ymgysylltiad | Maes Ymgysylltiad | Camau gweithredu o ganlyniad i'r Ymgysylltiad | Dyddiad(au) Gweithredu / Rhannu Gwybodaeth |
|---|---|---|---|---|
| ***Tyddyn Môn*** | Roedd defnyddiwr gwasanaeth yn rhan o gyfweliad am swydd wag a'r broses cyfarfod a chyfarch a mwynhaodd y profiad. | **Cynnwys Defnyddwyr Gwasanaeth** **Datblygu Gwasanaethau** | Ymwneud â'r broses cyfweld staff. | Parhaus |
| ***Tyddyn Môn*** | Mae'r Grŵp Tasg a Gorffen, a oedd wedi bod yn datblygu Ffurflen atgyfeirio ac Asesiad Cychwynnol, bellach wedi cwblhau'r prosiect. Mae'r ddogfen 'Egluro Fy Nhenantiaeth' hefyd wedi ei gweithredu. Mae Grŵp Cynefin wedi cynghori y byddent yn hoffi gweithio gyda Tyddyn Môn er mwyn datblygu dogfen cytundeb tenantiaeth hawdd ei defnyddio. | **Datblygu Gwasanaethau** | Galluogi defnyddwyr gwasanaeth i fod yn rhan o'r broses yn Nhyddyn Môn a dylanwadu ar y newid. | Parhaus |
| ***Tyddyn Môn*** | Mae defnyddwyr gwasanaeth yn ymwneud â'r gwaith o gynhyrchu cylchlythyr Tyddyn Môn. | **Gwella gwybodaeth a mynediad i'r gwasanaeth.** | Hysbysebu'r gwasanaeth gan alluogi defnyddwyr gwasanaeth i gael mewnbwn. | Hydref 2016 |

| Ymgysylltiad Defnyddiwr Gwasanaeth | Ffynhonnell yr Ymgysylltiad | Maes Ymgysylltiad | Camau gweithredu o ganlyniad i'r Ymgysylltiad | Dyddiad(au) Gweithredu / Rhannu Gwybodaeth |
|---|---|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ***Cefnogi Pobl - Ymgysylltiad Defnyddiwr Gwasanaeth - Eich Gwasanaeth, Eich Barn*** | Datblygiad yr arolwg ar-lein Eich Gwasanaeth, Eich Barn er mwyn galluogi defnyddwyr gwasanaeth i roi gwybodaeth, gan gynnwys lle roeddent o'r farn o bosibl bod bwlch yn y gwasanaeth a bydd angen i'r tîm CP edrych ar gau'r bwlch. | **Gwella Gwasanaethau Ddatblygu Gwasanaethau** | Parhaus | Adroddiad bob chwe mis yn cael ei baratoi a'i rannu â defnyddwyr a gwybodaeth yn cael ei chynnwys yn y cylchlythyr CP Hydref /Gaeaf 2016 |
| ***Ymgynghoriad ar Wasanaethau Pobl Hŷn*** | Cynhaliwyd sesiynau rhannu gwybodaeth rhwng 3 a 12 Tachwedd, 2015 ar gyfer Wardeiniaid a Thenantiaid er mwyn rhannu gwybodaeth ac ateb unrhyw gwestiynau a oedd gan bobl. Rhannwyd unrhyw adborth a gafwyd. Cafodd yr adborth a gawsom drwy'r sesiynau hyn ei rannu yn ystod y Fforwm Tai Gwarchod ar 10 Rhagfyr, 2015. | **Datblygu Gwasanaethau** | Cynhaliwyd cyfarfodydd ag unigolion mewn nifer o wahanol brosiectau Tai Gwarchod ledled Ynys Môn. Rhoddwyd cyflwyniadau am fanylion y newidiadau a chafodd y defnyddwyr gwasanaeth y cyfle i ymateb i'r newidiadau ac i wneud awgrymiadau am yr hyn yr hoffent ei weld. | Tachwedd 3 – 12 2015 gyda sesiynau diweddaru ychwanegol yn ystod Mawrth ac Ebrill 2016 |
| ***Ymgysylltiad Defnyddwyr ar Banel Gwerthuso Tendrau*** | Mae'r defnyddiwr gwasanaeth a nodwyd uchod wedi cytuno yn garedig iawn i gymryd rhan mewn Gwerthusiad Tendr arall, y tro hwn ar gyfer Cymorth yn ymwneud â'r Gwasanaeth Pobl Hŷn lle byddai ei harbenigedd yn cael ei werthfawrogi. | **Datblygu Gwasanaethau** | Darparu safbwynt gwahanol ar gyfer gwerthuso'r ymatebion a gafwyd. | 11 a 12 Mai 2016 |
| ***Ymgysylltiad Defnyddwyr ar Banel Gwerthuso Tendrau*** | Gofyn i ddefnyddwyr gwasanaeth gymryd rhan yn y Paneli Gwerthuso ar gyfer tendrau sydd ar y gweill a thendrau ar gyfer gwasanaethau Anableddau Dysgu a Chamdriniaeth Ddomestig. | **Datblygu Gwasanaethau** | Darparu gwerthusiad o safbwynt y defnyddiwr gwasanaeth. | Wedi'i gynllunio ar gyfer Ebrill 2017. |
| ***Adborth yn*** | Ymgysylltiad Defnyddiwr Gwasaneth drwy | **Gwella** | Holiaduron defnyddwyr | Gwanwyn 2016 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ***dilyn adolygiadau CP*** | Holiaduron fel rhan o'r Adolygiad Gwasanaeth AD. | **Gwasanaethau** | gwasanaeth i gael eu llenwi. | |
| ***Cyfweliadau defnyddiwr gwasanaeth yn ystod Cyfarfodydd Monitro*** | Cyfweliadau defnyddiwr gwasanaeth i gael eu cynnwys fel rhan o'r Cyfarfodydd Monitro. Cyfweliadau wedi'u cynnal â chleientiaid o: -<br>• Digartref (3)<br>• Gorwel OP (2)<br>• Hafan Cymru (1)<br>• Cartrefi Cymru (1)<br>• Tyddyn Môn (1)<br>• Gofal Môn (1)<br>• Cymorth Tai (1)<br>• CAIS (i'w drefnu)<br>• CSS (i'w drefnu)<br>• Wallich (i'w drefnu)<br>• Gorwel DA (i'w drefnu) | **Gwella Gwasanaethau** | Darparu adborth ar y gwasanaethau sy'n cael eu derbyn a galluogi'r defnyddiwr gwasanaeth i wneud sylwadau agored ac awgrymiadau ar yr hyn sydd ar goll neu pa newidiadau y gellid eu gwneud. | Hydref a Tachwedd 2016. |
| ***Ymgynghoriad arfaethedig ar Gasglu*** | Ymgysylltu ag asiantaethau partner a defnyddwyr gwasanaeth. Trefnu digwyddiad ar Hel Celc. Cynnwys hyn ar agenda ar gyfer Fforwm Darparwyr ar y cyd. | **Datblygu Gwasanaethau** | Gwaith parhaus. | Digwyddiad Chwefror / Mawrth 2017 |
| ***Ymgynghoriad Arfaethedig ar fapio Gwasanaeth Camdriniaeth yn y Cartref*** | Ymgynghoriad ag asiantaethau partner a defnyddwyr gwasanaeth er mwyn ceisio adnabod anghenion sydd heb eu bodloni o fewn yr ardal leol. Cyhoeddusrwydd i'w baratoi ac arolwg ar-lein i'w drefnu. | **Datblygu Gwasanaethau** | Wedi cynllunio.<br>- Arolwg ledled yr Ynys ar gyfer rhai sydd wedi dioddef Camdriniaeth Ddomestig yn y gorffennol.<br>- Cyfweliadau gyda nhw<br>- Arolwg ar agor am gyfnod o chwe wythnos dros y Nadolig ac Ionawr / Chwefror 2017. | Ionawr / Chwefror 2017 |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **14 Chwefror 2017** |
| **Pwnc:** | **Polisi ar fenthyciadau Ecwiti ar gyfer prynwyr tro cyntaf a Grantiau Tai Gwag a ariennir drwy'r premiwm treth gyngor ar Dai Gwag ac Ail Gartrefi** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cynghorydd Aled Morris Jones** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Shan Lloyd Williams** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Lucy Reynolds, Rheolwr Strategaeth a Datblygu Tai**<br>Est 2225<br>lucyreynolds@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | **Pawb** |

## A – Argymhelliad / argymhellion a rhesymau

### Argymhelliad

Bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r polisi ar gyfer gweithrediad dau gynllun newydd:

1)Grant i helpu prynwyr tro cyntaf brynu ac ailwampio tai gwag
2)Benthyciadau ecwiti er mwyn helpu prynwyr tro cyntaf

Ariennir y ddau gynllun o'r premiwm Treth Cyngor a godir ar ail gartrefi a chartrefi gwag ar Ynys Môn o Ebrill 2017 ymlaen.

Bydd y polisi yn weithredol yn yr ardaloedd cyngor cymuned penodol sydd â'r nifer uchaf o ail gartrefi a/neu'r lefelau isaf o gartrefi sydd â phrisiau tai ar y chwartel isaf.

### Rhesymau

Bydd y ddau gynllun yn defnyddio rhan o'r refeniw ychwanegol a godir o'r premiwm er mwyn darparu cymorth i drigolion lleol sydd wedi eu heffeithio gan y diffyg tai fforddiadwy sydd ar gael. Dewiswyd y cynlluniau hyn yn dilyn trafodaeth gydag aelodau'r Pwyllgor Gwaith am y ffordd a ffefrir ar gyfer defnyddio'r arian a godwyd gan y premiwm. Cafodd meysydd penodol ar gyfer eu targedu hefyd eu hadnabod o ganlyniad i'r trafodaethau.

### Cefndir

Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn rhoi i awdurdodau lleol bwerau dewisol er mwyn penderfynu a ddylid codi premiwm ar eiddo gwag tymor hir neu ail gartrefi (neu'r ddau). Nod Llywodraeth Cymru wrth greu'r pŵer dewisol a fyddai'n galluogi awdurdodau lleol i allu codi premiwm ar ben y raddfa sylfaenol o Dreth Cyngor, oedd helpu awdurdodau lleol i:

1. Ddod â thai sydd wedi bod yn wag am gyfnod hir yn ôl i ddefnydd er mwyn gallu darparu cartrefi saff, diogel a fforddiadwy;

a

2. Chefnogi awdurdodau lleol i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a gwneud cymunedau lleol yn fwy cynaliadwy.

Penderfynodd Cyngor Sir Ynys Môn ym mis Mawrth 2016 y byddai, o 1 Ebrill 2017 ymlaen, yn codi premiwm o 25% ar ben y raddfa safonol o dreth cyngor ar dai sydd wedi bod yn wag am gyfnod hir ac ar ail gartrefi. Bydd y swm hwn yn cael ei adolygu yn ystod 2018/19.

Cynhyrchwyd papur trafodaeth a gynigiodd nifer o opsiynau ar gyfer defnyddio cyfran o'r arian a godir o'r premiymau er mwyn cynorthwyo trigolion yr Ynys sy'n ei chael hi'n anodd cael mynediad i dai fforddiadwy, rhywbeth a fyddai hefyd yn cynorthwyo i ddod â thai gwag yn ôl i ddefnydd ac a fyddai o ganlyniad yn gwella'r cymunedau lle meant wedi'u lleoli. Yr opsiynau a ffafriwyd oedd dau gynllun a anelir at brynwyr tro cyntaf

1. Grantiau ar gyfer prynwyr tro cyntaf er mwyn eu galluogi i brynu tai gwag mewn ardal cyngor cymuned y mae gan y prynwr gysylltiad lleol â hi. Bydd y grantiau hyn ar gael i brynwyr tro cyntaf ledled yr Ynys.

2. Perchnogaeth cartref cost isel ar gyfer prynwyr tro cyntaf drwy fenthyciad ecwiti er mwyn eu cynorthwyo i brynu tŷ. Bydd benthyciadau ar gael o fewn ardaloedd cynghorau cymuned penodol lle mae'r nifer uchaf o ail gartrefi a / neu'r nifer isaf o gartrefi sydd â phrisiau tai yn y chwartel isaf. Bydd yn rhaid i brynwyr fod â chysylltiad lleol ag ardal y cyngor cymuned perthnasol.

Mae polisi manwl wedi'i ddatblygu sy'n amlinellu manylion cymhwysedd ar gyfer y cynllun a sut y byddai'n gweithio yn ymarferol. Mae hwn wedi'i atodi i'r adroddiad.

**Ariannu'r cynlluniau**

Mae dyraniad arwyddol o £170,000 wedi'i adnabod er mwyn ariannu'r cynlluniau hyn yn ystod 2017-2018, nid yw'r dyraniad hwn yn cynnwys ariannu Swyddog Tai Gwag a Swyddog Budd-daliadau Tai.

Gan y bydd hyn yn cael ei arwain gan alw fe roddir blaenoriaeth i geisiadau yn ôl eu dyddiad.

Yn seiliedig ar y dyraniad dynodol uchod, mae'r tabl isod yn enghraifft yn unig, gweler nifer yr aelwydydd y gellid eu cynorthwyo bob blwyddyn:

| Premiwm | Refeniw ychwanegol a amcangyfrifir | Grant i ailwampio tai gwag – nifer y tai a gynorthwywyd | Benthyciad ecwiti ar gyfer perchnogaeth gan ddefnyddio stoc tai presennol – nifer y tai a gynorthwywyd |
|---|---|---|---|
| 25% | **£170,000** | **5** | **2** |

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Rhoddwyd ystyriaeth gychwynnol i nifer o opsiynau a fyddai'n cefnogi nod Llywodraeth Cymru a nodir yn yn yr arweiniad ar y cod statudol ar weithrediad y premiwm, sef y dylai codi premiwm gynorthwyo i ddod â thai sydd wedi bod yn wag am yn y tymor hir yn ôl i ddefnydd fel cartrefi saff, diogel a fforddiadwy a chynyddu nifer y cartrefi fforddiadwy.

Yr opsiynau a ffafrir yw'r rhai hynny y gellir eu gweithredu ac y gellir gweld eu heffaith ar unwaith ac sy'n ategu'r gwaith y mae'r Cyngor eisoes yn ei wneud er mwyn ceisio cynyddu nifer y tai fforddiadwy (e.e. rhaglen y Cyngor a'r Gymdeithas Dai i ddatblygu tai cymdeithasol).

Yr opsiynau eraill, yn dilyn ystyriaeth, y penderfynodd aelodau'r Pwyllgor Gwaith i beidio â'u gweithredu oedd:

- Cymorth i brynu cartref – datblygiadau penodol

Problem – byddai hyn wedi cyfyngu benthyciadau ecwiti i gynlluniau adeiladu tai newydd penodol ar yr Ynys.

- Cymorth ychwanegol mewn perthynas â blaendal ar gyfer prynwyr tro cyntaf er mwyn iddynt allu cael morgais.

Problem – mae risgiau'n gysylltiedig â sefyllfa lle byddai'r Cyngor yn darparu cyllid lle nad yw prynwyr wedi gallu fforddio cynilo i dalu blaendal.

- Grantiau ar gyfer tai newydd, tebyg i'r grant tai cymdeithasol

Problem – dyblygu'r cyllid sydd ar gael drwy'r Grant Tai Cymdeithasol a'r Grant Cyllid Tai

- Cyllid er mwyn cefnogi Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol

Problem – prosiect tymor hirach y mae'n anodd rhagweld beth fyddai'r canlyniadau

Mae manylion y Polisi hwn wedi'u datblygu i gymryd i ystyriaeth natur y broblem tai gwag ar yr Ynys ac er mwyn rhoi blaenoriaeth i'r rhannau hynny o'r Ynys lle mae ail gartrefi a diffyg tai fforddiadwy ar gyfer prynwyr tro cyntaf yn broblem o ganlyniad i fforddiadwyedd yr eiddo hyn. Mae cartrefi gwag wedi eu lleoli ledled yr Ynys felly mae'n briodol bod y grant hwn ar gael ym mhob rhan o'r Ynys.

**C – Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

| |
|---|
| Mae hwn yn bolisi newydd, nid yw'n bolisi sydd wedi ei neilltuo i'r Cyngor ac nid yw o fewn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion felly mae'n swyddogaeth awtomatig i'r Pwyllgor Gwaith o dan a13(2) DLIL 2000" |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Cytunodd y Cyngor llawn ym mis Mawrth 2016 i ddefnyddio ei bwerau dewsiol i godi premiwm Treth Gyngor ar eiddo gwag tymor hir ac ail gartrefi a hynny o 1 Ebrill 2017. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ariennir y cynlluniau drwy'r cyllid ychwanegol a dderbynnir drwy'r premiwm Treth Cyngor ar Dai Gwag ac Ail Gartrefi, a bydd yn weithredol o ail hanner y flwyddyn ariannol 2017-2018 |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (Gorfodol) | Sylwadau wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (Gorfodol) | cefnogi'r cynnig |
| **3** | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** (Gorfodol) | Sylwadau wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | |
| **9** | **Aelodau lleol** | |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrth-dlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anrhefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniadau** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad 1: Polisi ar Gymorth i brynwyr tro cyntaf a ariennir drwy'r Premiwm Treth Cyngor ar dai gwag ac ail gartrefi. |

| **FF – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Arweiniad ar weithrediad y Premiymau Treth Cyngor ar Gartrefi Gwag Tymor Hir ac Ail Gartrefi yng Nghymru – Llywodraeth Cymru, Ionawr 2016. |

**Atodiad 1: Polisi ar gymorth i brynwyr tro cyntaf lleol a ariennir o'r Premiwm Treth Gyngor ar dai gwag ac ail gartrefi.**

## 1. Cefndir i'r Polisi

Yn sgil newidiadau deddfwriaethol i Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") rhoddwyd pwerau i Awdurdodau Lleol benderfynu a ddylid codi premiwm ar dai gwag tymor hir neu ail gartrefi (neu'r ddau). Nod Llywodraeth Cymru wrth greu'r pŵer dewisol hwn i awdurdodau godi premiwm ar ben y raddfa sylfaenol o Dreth Cyngor oedd rhoi arf i Awdurdodau Lleol a fyddai'n eu cynorthwyo nhw i:

- Ddod â chartrefi gwag yn ôl i ddefnydd a darparu cartrefi diogel, cadarn a fforddiadwy;

a

- Cefnogi awdurdodau lleol i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a gwneud cymunedau lleol yn fwy cynaliadwy.

Ym Mawrth 2016, Penderfynodd Cyngor Sir Ynys Môn y byddai, o 1 Ebrill 2017 yn codi premiwm sydd wedi'i osod ar 25% o raddfa sylfaenol y dreth gyngor ar eiddo gwag tymor hir ac ail gartrefi. Caiff y swm hwn ei adolygu eto yn ystod 2018/19.

Bydd yr arian a godir drwy'r premiwm yn cael ei ddefnyddio i ariannu dwy fenter a fydd yn cefnogi aelwydydd lleol a fyddai fel arall yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i dŷ addas yn eu cymuned leol. Bydd hefyd yn cynorthwyo i ddod ag eiddo gwag tymor hir a all fod yn ddolur llygad mewn cymunedau yn ôl i ddefnydd a darparu cartrefi fforddiadwy o safon o fewn cymunedau.

Mae cartrefi gwag o wahanol fath a chyflwr i'w gweld ar draws yr Ynys. Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall cyflwr cartrefi gwag ddirywio'n gyflym a denu ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac yn golygu hefyd bod llai o gartrefi ar gael ar gyfer y rhai sydd eu hangen. Bydd grantiau felly ar gael ledled yr Ynys ar gyfer prynwyr tro cyntaf sy'n dymuno dod â chartref sydd wedi bod yn wag am gyfnod hir yn ôl i ddefnydd at eu defnydd eu hunain.

Mae ail gartrefi hefyd i'w gweld ym mhob rhan o'r Ynys bron ond mae rhai ardaloedd yn cael eu heffeithio fwy nag eraill. Mae'r rhain, yn bennaf, i'w gweld mewn ardaloedd sy'n boblogaidd gyda thwristiaid lle mae cyfartaledd prisiau tai yn uchel.

Ar gyfer diben y polisi hwn, mae'r ddau gynllun yn cael eu targedu ar ardaloedd cyngor cymuned sydd â'r ganran uchaf o ail gartrefi ac at ardaloedd y cynghorau cymuned hynny sydd â'r ganran uchaf o ail gartrefi ac at ardaloedd cyngor cymuned lle gwelwyd yn ddiweddar y lleiaf o gyfleoedd i brynu cartrefi am £115,000 neu lai (£115,000 oedd y pris tŷ chwartel isaf ar gyfer yr holl werthiannau tai ar Ynys Môn rhwng Ionawr 2015 a Medi 2016). Caiff hyn ei adolygu yn dilyn y flwyddyn gyntaf o weithredu.

Mae'r adrannau canlynol yn disgrifio'r ddau gynllun a gynigir ar gyfer 2017-18 ac a ariennir drwy'r premiwm treth Gyngor.

## 2. Grantiau i Brynwyr Tro Cyntaf allu prynu eiddo gwag

### Sut mae'n gweithio?

Mae eiddo sydd wedi bod yn wag ers 6 mis ac sydd angen ei wella, ac sydd wedi bod ar werth ar y farchnad agored, yn cael ei adnabod gan brynwr tro cyntaf.

Dyfernir grant o hyd at £20,000 tuag at gost y gwaith perthnasol. Bydd hyn yn sicrhau y gellir gwneud yr eiddo yn “gynnes, saff a diogel”. Rhoddir mwy o fanylion am y weithdrefn hon yn Atodiad 1a.

**Pwy sy’n elwa o’r opsiwn hwn?**

Aelwydydd sydd â chysylltiad lleol ag ardal y Cyngor Cymuned perthnasol yn Ynys Môn ac sy’n bwriadu byw yn y cartref am o leiaf 10 mlynedd.

ac

- Sydd ag amgylchiadau ariannol sefydlog sy’n golygu y gallant dalu a chynnal taliadau morgais a thalu blaendal

ac

- Sy’n gallu dangos ei bod hi’n briodol iddynt gael cymorth grant drwy brawf modd ariannol.

3. **Perchnogaeth o dŷ am gost isel – benthyciad ecwiti er mwyn cynorthwyo i brynu tŷ (“Prynu Cartref”)**

**Sut mae’n gweithio?**

Bydd prynwyr tro cyntaf yn cael y cyfle i gael benthyciad ecwiti er mwyn eu galluogi nhw i brynu cartref addas yn eu hardal leol, cartref na fyddai modd iddynt ei fforddio fel arall.

I wneud hyn, bydd y Cyngor neu’r Gymdeithas Dai yn cymryd cyfran rhwng 20% a 50% o’r ecwiti yn y tŷ newydd neu’r tŷ sydd eisoes wedi’i adeiladu sy’n cael ei adnabod gan y prynwr.

Bydd y Cyngor neu’r Gymdeithas Dai yn prynu cyfran gwerth uchafswm o £75,000 o’r tŷ ond bydd y gyfran yn llai na hyn fel arfer. Yn y tymor hir, bydd y cymhorthdal yn cael ei ailgylchu pan fydd deiliaid y tŷ yn symud neu’n penderfynu prynu’r gyfran wreiddiol a roddwyd gan y Cyngor/Cymdeithas Dai. Mae’r swm yn dibynnu ar bris y tai yn yr ardal lle mae’r deiliaid angen prynu ynddi a beth yw sefyllfa ariannol yr unigolion.

Mae angen i’r darpar brynwyr allu talu 5% o flaendal ar y gyfran o’r tŷ y byddant yn berchen arni a bydd angen iddynt allu cael morgais ar y gyfran y byddant yn ei phrynu.

**Pwy sy’n elwa o’r opsiwn hon?**

Prynwyr tro cyntaf sydd â chysylltiad lleol ag ardal y Cyngor Cymuned lle maent yn bwriadu prynu tŷ.

- Y mae eu sefyllfa ariannol yn sefydlog ac yn golygu y gallent dalu morgais yn rheolaidd a thalu blaendal.
  **ond**
- nad ydynt yn gallu fforddio prynu ar y farchnad agored heb gymorth.

Mae’r cynllun ar gael ar hyn o bryd yn y ardaloedd y Cyngor Cymuned canlynol sydd â’r nifer uchaf o ail gartrefi a / neu’r nifer isaf o gartrefi yn y chwartel isaf o brisiau tai.

| | |
|---|---|
| Biwmares | Llanfair Pwllgwyngyll |
| Bodffordd | Llanfair-Mathafarn-Eithaf |
| Cwm Cadnant | Llangefni |

| | |
|---|---|
| Llanbadrig | Llangristiolus |
| Llanddona | Mechell |
| Llanddyfnan | Porthaethwy |
| Llaneugrad | Moelfre |
| Llanfachraeth | Rhoscolyn |
| Llanfaelog | Rhosybol |
| Llanfaethlu | Bae Trearddur |

**Atodiad 1a)**

**Grant trin Eiddo Gwag ar gyfer Prynwyr Tro Cyntaf**

Diben y grantiau hyn yw cefnogi prynwyr tro cyntaf i ddod yn berchnogion tai sy'n fforddiadwy iddyn nhw ac i wneud y defnydd gorau o'r stoc dai drwy ddod â chartrefi sydd wedi bod yn wag yn y tymor hir yn ôl i ddefnydd ac sydd angen eu gwella ac sydd yn aml iawn, yn difetha'r gymdogaeth.

Bydd y grantiau ar gael yn yr ardaloedd canlynol:

| | |
|---|---|
| Biwmares | Llanfair Pwllgwyngyll |
| Bodffordd | Llanfair-Mathafarn-Eithaf |
| Cwm Cadnant | Llangefni |
| Llanbadrig | Llangristiolus |
| Llanddona | Mechell |
| Llanddyfnan | Porthaethwy |
| Llaneugrad | Moelfre |
| Llanfachraeth | Rhoscolyn |
| Llanfaelog | Rhosybol |
| Llanfaethlu | Bae Trearddur |

**Crynodeb o'r amodau a'r broses ar gyfer cael grant**

**Amodau**

1. Nid yw'r grant ond ar gyfer eiddo sydd wedi bod yn wag am chwe mis neu fwy, sydd wedi bod ar werth ar y farchnad agored ac sydd angen gwelliannau er mwyn ei godi i safon sy'n ei wneud yn addas i rywun allu byw yno. I'r graddau y mae hynny'n bosibl, Safon Ansawdd Tai Cymru fyddai'r safon honno.
2. Mae'r grant ar gael i brynwyr tro cyntaf sydd â chysylltiad lleol yn unig*.
3. Rhaid i faint y tŷ fod yn briodol ar gyfer anghenion yr ymgeisydd. Golyga hyn na ddylai'r tŷ gael mwy nag un ystafell wely sy'n fwy na'r angen presennol (h.y. aelwyd lle mae person sengl neu gwpwl = tŷ 2 ystafell wely ar y mwyaf, tŷ ag un plentyn = tŷ 3 ystafell wely ar y mwyaf, tŷ â dau o blant = tŷ 4 ystafell wely ar y mwyaf)
4. Caiff y grant ei gofrestru fel pridiant tir am 10 mlynedd a bydd yn rhaid ei ad-dalu os bydd yr ymgeisydd yn gwerthu'r tŷ cyn y dyddiad hwn.

**Grant taladwy**

1. Hyd at uchafswm o £20,000 (yn cynnwys TAW), yn dibynnu ar lefel y gwaith sydd angen ei wneud.
2. Telir y grant ar ôl cwblhau'r gwaith pan fydd y grant o dan £10,000 ac mewn dau gam, 50% ac ar ôl cwblhau'r gwaith, pan fydd cost y gwaith yn fwy na £20,000.

**Proses**

Rhaid bod yr ymgeisydd wedi adnabod cartref gwag ac wedi gwirio gyda Swyddog Tai Gwag y Cyngor ei fod wedi bod yn wag am chwe mis neu fwy cyn ymgeisio am y grant.

**Asesiad Ariannol**

Cynhelir asesiad fforddiadwyedd. Bydd yr ymgeisydd yn llenwi ffurflen Asesiad Anghenion Tai a bydd angen iddynt ddarparu dogfennau perthnasol (slipiau cyflog, datganiadau banc, datganiadau cynilion).

1. Mae'r broses hon er mwyn sicrhau bod gan yr ymgeisydd angen am dŷ fforddiadwy ac nad oes ganddynt ddigon o adnoddau o ran cynilion neu gynnig morgais er mwyn gallu trin yr eiddo. Fodd bynnag, rhaid i'r ymgeisydd hefyd ddangos bod ganddynt ddigon o gyllid er mwyn gallu cynnal morgais a gwneud y gwaith angenrheidiol i'r eiddo petai'r grant yn cael ei roi.
2. Bydd y Gwasanaethau Tai yn cynnal asesiad o bris gwerthu'r tai yn yr ardal berthnasol ar gyfer y ddwy flynedd ddiwethaf er mwyn asesu canolrif prisiau tai yn yr ardal. Bydd y pris hwn a lefel yr incwm sydd ei angen er mwyn gallu prynu eiddo addas yn yr ardal honno felly'n cael ei ystyried wrth benderfynu a yw'r eiddo yn addas ar gyfer benthyciad.
3. Bydd angen i'r ymgeisydd ddarparu cynnig morgais yn cadarnhau uchafswm y morgais sydd ar gael. Disgwylir fel arfer i gymhareb morgais i incwm fod tua 1:3 neu 1:3.5.

* Ystyr cysylltiad lleol yw bod yr ymgeisydd neu o leiaf un o'r ymgeiswyr wedi byw neu wedi gweithio yn ardal y Cyngor Cymuned perthnasol yn Ynys Môn am gyfnod o bum mlynedd neu fwy yn union cyn cyflwyno'r cais neu eu bod wedi byw yn ardal y Cyngor Cymuned perthnasol ar Ynys Môn am gyfnod parhaus o bum mlynedd neu fwy rhyw dro yn y gorffennol.

**Atodiad 1b)**

**Benthyciad ecwiti i gynorthwyo i brynu tŷ (a ddarperir drwy gyllid gan y premiwm ail gartrefi)**

Diben y benthyciad hwn yw cefnogi prynwyr tai tro cyntaf i fod yn berchnogion cartrefi sy'n fforddiadwy iddyn nhw mewn ardaloedd ar yr Ynys lle mae prisiau tai yn uwch na'r cyfartaledd a lle byddent yn aml allan o gyrraedd prynwyr tro cyntaf. Y bwriad yw cynorthwyo prynwyr sydd, o ganlyniad i brisiau tai uchel yn eu cymunedau lleol, yn cael eu cosbi ac yn methu â phrynu tai addas o gymharu â'r rhai hynny sy'n byw mewn ardaloedd lle mae'r prisiau'n is.

Bydd y benthyciadau ar gael yn yr ardaloedd canlynol.

| | |
|---|---|
| Biwmares | Llanfair Pwllgwyngyll |
| Bodffordd | Llanfair-Mathafarn-Eithaf |
| Cwm Cadnant | Llangefni |

| | |
|---|---|
| Llanbadrig | Llangristiolus |
| Llanddona | Mechell |
| Llanddyfnan | Porthaethwy |
| Llaneugrad | Moelfre |
| Llanfachraeth | Rhoscolyn |
| Llanfaelog | Rhosybol |
| Llanfaethlu | Bae Trearddur |

**Amodau**

1. Mae'r benthyciad ar gyfer prynwyr tro cyntaf (rhywun sydd erioed wedi bod yn berchen ar dŷ o'r blaen).

   Rhaid bod gan y prynwr tro cyntaf gysylltiad lleol ag ardal y cyngor cymuned lle maent yn bwriadu prynu tŷ. Ystyr cysylltiad lleol yw bod yr ymgeisydd neu o leiaf un o'r ymgeiswyr wedi byw neu wedi gweithio yn ardal y Cyngor Cymuned perthnasol yn Ynys Môn am gyfnod o bum mlynedd neu fwy yn union cyn cyflwyno'r cais neu eu bod wedi byw yn ardal y Cyngor Cymuned perthnasol ar Ynys Môn am gyfnod parhaus o bum mlynedd neu fwy rhyw dro yn y gorffennol.

2. Bydd ymgeiswyr yn llenwi holiadur er mwyn sefydlu eu sefyllfa a'r math o dŷ sydd ei angen, y cysylltiad lleol a'u sefyllfa ariannol (asesiad ariannol)

3. Rhaid i faint y tŷ fod yn briodol ar gyfer anghenion yr ymgeisydd. Golyga hyn na ddylai'r tŷ gael mwy nag un ystafell wely yn fwy na'r angen presennol (h.y. aelwyd lle mae rhywun sengl neu gwpwl = tŷ 2 ystafell wely ar y mwyaf, tŷ ag un plentyn = tŷ 3 ystafell wely ar y mwyaf, tŷ â dau o blant = tŷ 4 ystafell wely ar y mwyaf)

4. Bydd y Gwasanaethau Tai yn cynnal asesiad o bris gwerthu'r tai yn ardal y cyngor cymuned perthnasol ar gyfer y ddwy flynedd diwethaf er mwyn asesu prisiau tai yn y chwartel isaf a disgwylir na fydd y cartref a brynir â phris uwch na phris y chwartel isaf am y math o eiddo sydd ei angen. Lefel y prisiau chwartel isaf yn ardal y cyngor cymuned perthnasol fydd yn penderfynu ar y cyfyngiad incwm a fydd yn berthnasol.

**Proses**

1. Mae'r ymgeisydd yn gyfrifol am adnabod cartref sydd ar gael ac yr hoffent ei brynu.

2. Ar ôl dod o hyd i eiddo, bydd angen i'r Cyngor gael prisio'r eiddo yn annibynnol er mwyn sicrhau bod y pris prynu yn un priodol.

3. Os yw'r cais yn llwyddiannus bydd landlord cymdeithasol* [Y Cyngor neu Gymdeithas Tai] yn cymryd cyfran ecwiti yn yr eiddo gyda'r amodau a nodir isod.

**Asesiad Ariannol**

1. Cynhelir asesiad fforddiadwyedd. Bydd yr ymgeisydd yn llenwi ffurflen Asesiad Anghenion Tai a bydd angen iddynt ddarparu dogfennau perthnasol (slipiau cyflog, datganiadau banc, datganiadau cynilion).

2. Mae'r asesiad fforddiadwyedd yn sicrhau bod modd i'r unigolyn gael morgais ond bod y swm sydd ar gael drwy'r dulliau hyn a thrwy gynilon yn annigonol er mwyn gallu fforddio prynu cartref addas ar gyfer eu hanghenion yn gyfan gwbl.

3. Uchafswm y cymorth a ganiateir yw £75,000.00 ac oni bai y cytunir fel arall, bydd uchafswm cymorth y benthyciad yn 30% o werth yr eiddo cymwys.

**Enghraifft o sut mae'r cynllun yn gweithio:**

- Pris y tŷ sy'n cael ei adnabod gan y deiliaid ac sy'n addas ar gyfer eu dibenion = £120,000.000
- Incwm Blynyddol y Cartref = £23,000.00
- Morgais x 3.5 yr incwm = £80,500.00
- + 5% blaendal = 4000.00
- Diffyg = £120,000.00 - £84,500.00.00 = £35,500.00 Neu 30% o werth yr eiddo

Sut mae'r benthyciad yn gweithio

1. Bydd y diffyg rhwng y swm sy'n fforddiadwy i'r ymgeisydd a phris yr eiddo'n cael ei dalu gan y landlord cymdeithasol gyda'r swm yn cael ei gyfrifo fel % o werth presennol yr eiddo. Os caiff yr eiddo ei werthu yn y dyfodol yna % gwerth y farchnad ar adeg gwerthu'r eiddo fydd angen ei dalu'n ôl i'r Cyngor a'i 'ailgylchu' ar gyfer defnydd yn y dyfodol. Bydd gan y deiliaid gyfrifoldeb llawn am berchnogaeth y tŷ ac ni fyddant yn talu unrhyw log ar y benthyciad a roddir, fodd bynnag, os bydd gwerth yr eiddo yn gostwng yna byddant yn cael llai o arian yn ôl os byddant yn dymuno gwerthu yn y dyfodol (Enghraifft a). Os bydd gwerth yr eiddo yn codi, yna byddant yn cael mwy o arian na gwerth prynu'r eiddo yn wreiddiol (Enghraifft b).

   Enghraifft a)
   Mae cwpwl yn defnyddio'r cynllun i brynu eiddo 2 ystafell wely yn 2017 am £120,000. Ariennir 30% o hyn drwy fenthyciad ecwiti o £35,000 gan y Cyngor. Maent yn talu blaendal o £4000 ac yn cael morgais o £80,500 am y gweddill felly mae ganddynt gyfran ecwiti o 70% o werth yr eiddo. Ar ôl tair blynedd maent yn symud i ffwrdd o Ynys Môn ac yn gwerthu'r eiddo, yn 2020, am £118,000. Bydd y cwpwl yn derbyn 70% o'r pris gwerthu h.y. £82,600 a rhaid ad-dalu 30% i'r Cyngor sef £34,500.

   Enghraifft b):
   Bydd cwpwl yn defnyddio'r cynllun i brynu eiddo 2 ystafell wely yn 2017 am £120,000. Ariennir 30% o hyn drwy fenthyciad ecwiti o £35,00 gan y Cyngor a byddant yn cael morgais £80,500 am y gweddill (70% o werth yr eiddo). Maent yn gwerthu'r eiddo yn 2022 am £132,000. Bydd y cwpwl yn derbyn 70% o'r pris gwerthu h.y. £92,400 a rhaid talu 30% yn ôl i'r Cyngor sef £39,600.

2. Bydd modd i aelwydydd brynu'r ecwiti nad ydynt yn berchen arno mewn cyfrannau o 10% o bris y farchnad ar yr amser ad-dalu (Enghraifft c).

   Enghraifft c:
   Mae cwpwl yn defnyddio'r cynllun er mwyn prynu eiddo 2 ystafell wely yn 2017 am £120,000. Ariennir 30% o hyn gan fenthyciad ecwiti o £35,500 gan y Cyngor a byddant yn cymryd morgais o £80,500 ar gyfer y gweddill (70% o werth yr eiddo). Ar ôl tair blynedd, maent yn gweld y gallant fforddio cynyddu eu cyfran yn yr eiddo gan 10% i 80%. Maent yn cael prisio'r eiddo gan Syrfëwr Siartredig cymwys sy'n nodi bod yr eiddo werth £125,000. Maent yn talu £12,500 i'r Cyngor er mwyn cynyddu cyfran eu hecwiti i

80%. Pan fyddant yn gwerthu'r eiddo yn 2022 am £132,00 byddant yn derbyn 80% o'r derbyniadau (£105,600) a bydd 20% (£26,400) yn cael ei ad-dalu i'r Cyngor.

*Bwriad y Cyngor fyddai rhedeg y cynllun ei hun, yn amodol ar sicrhau y gall fodloni unrhyw ofynion y drwydded Credyd Cwsmeriaid. Mae cynllun "Prynu Cartref" tebyg yn cael ei redeg ar hyn o bryd ar ran y Cyngor gan Grŵp Cynefin.

Ionawr 2017

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **14/02/17** |
| **Pwnc:** | **Adroddiad Diweddaru – Safleoeodd Posib ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Aled Morris Jones** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Shan Lloyd Williams** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Dafydd Rowlands**<br>**752203**<br>**DafyddJRowlands@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Y Cynghorwyr Meirion Jones, Alun Mummery, Jim Evans** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

A1. Nodi cyngor gan Gwmni Capita
A2. Nodi canfyddiadau Asesiad Effaith ar Iechyd
A3. Awdurdodi Swyddogion i symud ymlaen i'r cam nesaf sef dylunio safleoedd a gweithio allan y costau
A4. Dod ag adroddiad pellach i'r Pwyllgor Gwaith ym Mehefin 2017.

**1.0 Cefndir**

Ers cyfarfod 19 Rhagfyr, 2016 mae Grŵp Prosiect wedi cael ei sefydlu sydd yn cynnwys swyddogion o'r Gwasanaethau Tai, Eiddo, Iechyd yr Amgylchedd, yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, yr Heddlu a hefyd o gwmni Capita a enillodd y tendr a gyhoeddwyd ar gwerthwchigymru.

Mae nifer o asesiadau technegol wedi cael eu cynnal sydd yn edrych ar bob agwedd gan gynnwys

- Gwerthusiad Cyffredinol o'r Safle
- Asesiad o Ansawdd yr Aer
- Asesiad Sŵn
- Asesiad Ecolegol

ar gyfer y ddau safle – Penhesgyn ar gyfer safle parhaol a Star ar gyfer safle dros dro.

Nod yr asesiadau technegol hyn yw sefydlu a oes unrhyw resymau technegol a allai rwystro'r safleoedd rhag bod yn rhai addas. Yn ogystal a'r asesiadau hyn, mae asesiadau technegol wedi cael eu cynnal ar faterion megis maint y safleoedd, mynediad i'r safleoedd a nodweddion ffisegol eraill ac wedi cael eu cymryd i ystyriaeth.

Caiff copi o grynodeb Capita ei amgáu yn Atodiad 1 yr Adroddiad.

Casgliad yr holl waith yw:

**2.0 Penhesgyn**

**Crynodeb a Chasgliadau**

Mae'r Adroddiad Arfarnu Rhagarweiniol (PAR) yn crynhoi canfyddiadau'r asesiadau technegol a gynhaliwyd hyd yma; mae'r arfarniadau technegol ar gael hefyd fel dogfennau unigol. Mae canfyddiadau'r PAR yn dangos fod safle Penhesgyn yn lleoliad addas ar gyfer datblygiad preswyl parhaol ar gyfer teithwyr. Bydd angen ymgorffori rhai mesurau lliniaru yng nghynigion y cynllun er mwyn i'r safle ateb rhai gofynion, yn enwedig o ran sŵn ac ansawdd yr aer. Argymhellir bwrw ymlaen â'r dyluniad a chynigion y cynnig felly gyda golwg ar baratoi cais cynllunio manwl i'w gyflwyno rywbryd yn ystod 2017.

Y camau nesaf fydd paratoi dyluniadau amlinellol yn unol â chanllawiau ymarfer da a thrafodaethau â rhanddeiliaid allweddol i sicrhau bod gofynion technegol ac iechyd a diogelwch eraill yn cael eu hymgorffori yng nghynigion y cynllun. Efallai y bydd gofyniad i gynnal rhagor o asesiadau technegol neu amgylcheddol i sicrhau bod yr holl wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer cais cynllunio manwl ar gael. Ymgynghorir â'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystod y broses hon i sicrhau bod modd paratoi a dilysu cais cynllunio dilys i gael ei ystyried ymhellach. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gwarantu y bydd y cais cynllunio'n llwyddiannus nac yn ystyried materion eraill a all effeithio ar y gallu i ddarparu safle preswyl parhaol ym Mhenhesgyn.

Efallai y bydd gofyniad hefyd i gynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol neu AEA gan fod y safle'n cynnwys tir nad yw wedi cael ei ddatblygu o'r blaen a gall cyfanswm yr arwynebedd a fydd ei angen ddod o fewn gofynion y Rheoliadau AEA. Unwaith eto, bydd hyn yn fater lle bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn penderfynu beth sydd ei angen er mwyn dilysu unrhyw gais cynllunio.

Caiff copi o Adroddiad Arfarnu Rhagarweiniol Capita mewn perthynas a Penhesgyn ei amgáu yn Atodiad 2.

**3.0 Safle Star**

**Crynodeb a Chasgliadau**

Mae'r Adroddiad Arfarnu Rhagarweiniol (PAR) yn crynhoi canfyddiadau'r asesiadau technegol a gynhaliwyd hyd yma; mae'r arfarniadau technegol ar gael hefyd fel dogfennau unigol. Mae canfyddiadau'r PAR yn dangos fod safle Star yn lleoliad addas ar gyfer Man Aros Dros Dro. Bydd angen ymgorffori rhai mesurau lliniaru yng nghynigion y cynllun er mwyn i'r safle ateb rhai gofynion, yn enwedig o ran sŵn. Argymhellir bwrw ymlaen â'r dyluniad a chynigion y cynnig felly gyda golwg ar baratoi cais cynllunio manwl i'w gyflwyno rywbryd yn ystod 2017.

Y camau nesaf fydd paratoi dyluniadau amlinellol yn unol â chanllawiau ymarfer da a thrafodaethau â rhanddeiliaid allweddol i sicrhau bod gofynion technegol ac iechyd a diogelwch eraill yn cael eu hymgorffori yng nghynigion y cynllun. Efallai y bydd gofyniad i gynnal rhagor o asesiadau technegol neu amgylcheddol cynnal i sicrhau bod yr holl wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer cais cynllunio

manwl ar gael. Ymgynghorir â'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystod y broses hon i sicrhau bod modd paratoi a dilysu cais cynllunio dilys i gael ei ystyried ymhellach. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gwarantu y bydd y cais cynllunio'n llwyddiannus nac yn ystyried materion eraill a all effeithio ar y gallu i ddarparu Man Aros Dros Dro yn Star.

Caiff copi o Adroddiad Arfarnu Rhagarweiniol Capita mewn perthynas â Star ei amgáu yn Atodiad 3.

**4.0 Asesiad Cyflym o'r Effaith ar Iechyd - Safleoedd i Deithwyr a Sipsiwn yn Star a Phenhesgyn.**

Cynhaliwyd gweithdy hanner diwrnod ar yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd wedi ei hwyluso gan Huw Thomas Rheolwr Gweithrediadau Iechyd yr Amgylchedd, Ionawr 2017, a fynychwyd gan y tri Aelod Etholedig lleol, sef y Cynghorwyr Meirion Jones, Alun Mummery, Jim Evans, Bryn Hall o Unity, sef arbenigwr yn y maes ymgysylltu gyda chymunedau Sipsiwn a Theithwyr, Jon Stoddard a Laura Fretwell o Capita, Gareth Jones, Eiddo, Lucy Reynolds, Tai, Mike Evans o'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, a Trystan P Owen Iechyd yr Amgylchedd.

Amgaeor copi o'r Asesiad Cyflym o'r Effaith ar Iechyd - Safleoedd i Deithwyr a Sipsiwn yn Star a Phenhesgyn yn Atodiad 4 yr Adroddiad.

Crynodeb a chasgliad - Dalier sylw, mae'r ddogfen allan am ymgynghoriad ar hyn o bryd ymysg y rhai a fynychodd y gweithdy.
Yn gyffredinol, ystyrir bod y ddau safle yn cael effaith gadarnhaol o safbwynt iechyd a llesiant y sipsiwn a'r teithwyr o gymharu â'r ddarpariaeth gyfredol.

Ni nodwyd unrhyw anghytuno sylweddol.

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Mae'r safleoedd dan sylw wedi derbyn cymeradwyaeth, yn amodol ar ymchwiliadau pellach y Pwyllgor Gwaith yn dilyn penderfyniadau gwnaethpwyd ar y 31ain Mai a 25ain Orffennaf, 2016. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Er mwyn nodi'r cynnydd a gofyn am ganiatâd i symud ymlaen i wneud gwaith pellach. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Yndi |

| D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Yndi |

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | I'w gadarnhau |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | I'w gadarnhau |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Dim sylw |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Atodiad 1. Adroddiad Arfarnu Rhagarweiniol (PAR) Crynodeb Gweithredol gan Capita, 2*6ain Ionawr 2017.*<br><br>Atodiad 2. Adroddiad Arfarnu Rhagarweiniol Capita mewn perthynas â Penhesgyn<br><br>Atodiad 3. Adroddiad Arfarnu Rhagarweiniol Capita mewn perthynas â Star<br><br>Atodiad 4. Adroddiad drafft Asesiad Cyflym o'r Effaith ar Iechyd - Safleoedd i Deithwyr a Sipsiwn yn |

| |
|---|
| Star a Phenhesgyn. *Yn seiliedig ar Weithdy Cyfranogiad a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2017* |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| |

CAPITA

Public Document

# Prosiect Sipsiwn a Theithwyr Ynys Môn

**Safle Preswyl Parhaol, Penhesgyn**
**Man Aros Dros Dro, Star**

**Adroddiad Arfarnu Rhagarweiniol (PAR)**
**Crynodeb Gweithredol**

**Chwefror 2017**






We | Listen Create Deliver

## Cynnwys

1. Cyflwyniad
2. Safle Preswyl Parhaol, Penhesgyn
3. Man Aros Dros Dro, Star

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae’r ddogfen hon yn Grynodeb Gweithredol o Adroddiad Arfarnu Rhagarweiniol (PAR) a baratowyd gan Capita Real Estate and Infrastructure ar ran Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor Sir). Diben y PAR yw:-

- Adolygu a deall pa broblemau a risgiau amgylcheddol posibl sy’n gysylltiedig â dau safle sipsiwn a theithwyr sy’n cael eu cynnig gan y Cyngor Sir
- Cynnal asesiadau technegol ym mhob un o’r safleoedd arfaethedig
- Profi pa mor ymarferol fyddai datblygu pob un o’r safleoedd ar gyfer llety i sipsiwn a theithwyr
- Gwneud argymhellion ynglŷn ag addasrwydd pob safle i symud ymlaen trwy’r broses gynllunio

1.2 Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ddarparu safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr lle mae angen wedi’i ganfod. Mae dogfen Llywodraeth Cymru *‘Teithio at Ddyfodol Gwell* (2015) yn cyflwyno fframwaith polisi y dylai Awdurdodau Lleol ei ddilyn. Mae Cylchlythyr Llywodraeth Cymru *30/2007 Cynllunio ar gyfer Safleoedd Carafanau Sipsiwn a Theithwyr* yn cryfhau’r gofyniad bod awdurdodau lleol yn canfod ac yn darparu safleoedd digonol a phriodol yn eu Cynlluniau Datblygu Lleol.

1.3 Mae gofyniad cyfreithiol felly ar Gyngor Sir Ynys Môn (yn ôl Deddf Tai (Cymru) 2014) i asesu ac i ddiwallu anghenion llety’r boblogaeth yn ei ardal. Mae hyn yn cynnwys anghenion y Gymuned Sipsiwn a Theithwyr a phobl sy’n gysylltiedig â sioeau teithiol. Mae’r term Sipsiwn a Theithwyr yn cynnwys Sipsiwn Romani a Theithwyr Gwyddelig yn ogystal â phobl o unrhyw grŵp sy’n byw bywyd teithiol. Mae hefyd yn cynnwys pobl sy’n gysylltiedig â Sioeau Teithiol a Theithwyr yr Oes Newydd sydd â hanes o deithio a byw mewn cartrefi symudol.

| **Tabl 1.1 – Deddfwriaeth a pholisïau allweddol sy’n gysylltiedig â darparu Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr** | |
|---|---|
| Teitl | Disgrifiad |
| Deddf Tai (Cymru) 2014 | Dywed Adrannau 225 a 226 fod dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i gynnal asesiad o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr |
| Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 | Mae’r Ddeddf yn cydgrynhoi’r ddeddfwriaeth ar safleoedd cartrefi symudol yng Nghymru. |
| Cylchlythyr 30/2007 Cynllunio ar gyfer Safleoedd Carafanau Sipsiwn a Theithwyr | Mae Cylchlythyr Llywodraeth Cymru’n tynnu sylw at y gofyniad ar Awdurdodau Lleol i ganfod ac i ddarparu safleoedd priodol yn eu cynlluniau. |

1.4 Cafodd *“Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Ynys Môn a Gwynedd 2016 (yr Asesiad o Anghenion)”* ei baratoi ar y cyd gan Gyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd yn ystod ail hanner 2015 ac mae’n diweddaru Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Gogledd Orllewin Cymru blaenorol a gyhoeddwyd yn 2013. Mae cynnwys Asesiad o Anghenion 2016 wedi ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru gydag Adran 102 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

1.5 Yn dilyn ymarferiadau ymgynghori, mae’r Cyngor Sir wedi canfod dau safle posibl ar yr Ynys ar gyfer safleoedd sipsiwn a theithwyr a allai gyfrannu at ddiwallu’r angen am leiniau ychwanegol a

nodwyd yn Asesiad 2016. Mae un yn safle preswyl parhaol i gymryd lle'r gwersyll Teithwyr anghyfreithlon ar yr A5025 a'r llall, man aros dros dro i ateb anghenion sipsiwn a theithwyr sy'n ymweld. Mae'r ddau safle posibl ar gyfer sipsiwn a theithwyr fel a ganlyn:-

- Safle Preswyl Parhaol, Penhesgyn
- Man Aros Dros Dro, Star

1.6 Ceir disgrifiad byr isod o bob safle a'r cynigion ac fe'i dilynir gan grynodeb o'r asesiadau technegol a gynhaliwyd ym mhob safle dan sylw.

# 2. Safle Preswyl Parhaol, Penhesgyn

**Disgrifiad o'r Safle a'r Cynigion**

2.1 Mae safle Penhesgyn wedi'i nodi gan y Cyngor Sir fel y lleoliad mwyaf priodol ar gyfer safle preswyl parhaol ar gyfer Sipsiwn a theithwyr yn dilyn proses i ddethol safleoedd a gynhaliwyd yn 2016.

2.2 Y cynnig yw safle preswyl parhaol ym Mhenhesgyn gyda phedair llain ar gyfer cymuned Teithwyr yr Oes Newydd sydd ar hyn o bryd yn byw mewn cilfan wrth yr A5025 rhwng Porthaethwy a Phentraeth.

2.3 Mae'r safle arfaethedig ym Mhenhesgyn wedi'i leoli oddi ar isffordd rhwng yr A5025 a'r B5420 ar dir i'r dwyrain o Ganolfan Ailgylchu Penhesgyn ac i'r de ddwyrain o gyn Safle Tirlenwi Penhesgyn. Mae'r safle'n cynnwys dau gae sy'n eiddo i'r Cyngor Sir ac sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd fel porfeydd garw; deallir nad yw'r tir wedi cael ei ddatblygu o'r blaen.

2.4 Byddai'n rhaid i fynediad i'r ddau gae fod trwy'r brif ffordd fynediad i Ganolfan Ailgylchu Penhesgyn (y Ganolfan Ailgylchu) a dros dir sydd mewn dwylo preifat ac sydd ar hyn o bryd yn cael ei ddefnyddio i bori anifeiliaid.

2.5 Mae'r cynigion ar gyfer llety preswyl parhaol ar gyfer sipsiwn a theithwyr ym Mhenhesgyn yn cynnwys y canlynol:-

- Ffordd fynediad ar draws cae sydd mewn perchnogaeth breifat
- Pedair llain breswyl
- Byddai gan bob llain lawr caled ar gyfer cerbyd byw'r aelwyd
- Byddai pob llain yn cynnwys bloc amwynderau gyda thoiled, ystafell ymolchi a chegin
- Golau ar gyfer diogelwch y cyhoedd a diogelwch
- Gofod i storio biniau sbwriel domestig a chynwysyddion ailgylchu
- Ffens gadarn o amgylch y safle a giât y gellir ei chloi

**Asesiadau Cyffredinol a Thechnegol o'r Safle**

2.6 Cynhaliwyd asesiadau technegol ar gyfer y pynciau amgylcheddol canlynol ar gyfer safle Penhesgyn. Y nod wrth gynnal yr asesiadau technegol oedd canfod a oedd unrhyw resymau neu gyfyngiadau technegol a fyddai'n golygu na fyddai'r safle'n addas i gael ei ddefnyddio fel safle preswyl parhaol gan y gymuned teithwyr sydd ar hyn o bryd yn byw mewn cerbydau yn y gilfan ym Mhentraeth. Yn ychwanegol at yr arfarniadau technegol penodol, cafodd ystyriaethau mwy cyffredinol fel maint y safle, mynediad a nodweddion ffisegol eraill eu hystyried:-

- Arfarniad Cyffredinol o'r Safle
- Asesiad o Ansawdd yr Aer
- Asesiad o Effeithiau Sŵn
- Asesiad Ecolegol

Ceir crynodeb o bob arfarniad technegol isod:-

**Arfarniad Cyffredinol o'r Safle**

2.7 Mae'r safle'n cynnwys dau gae sy'n eiddo i'r Cyngor Sir ac mae eu harwynebedd tua 3.5 hectar (8.65 erw) a chae arall i'r de sydd mewn perchnogaeth breifat ac sydd tua 2.91 hectar (7.19 erw) sy'n rhoi cyfanswm o 6.41 hectar (15.84) o dir. Gwnaethpwyd y sylwadau cyffredinol canlynol fel rhan o'r broses arfarnu ar y safle:

- Mae'r safle mewn lleoliad gwledig heb fynediad at amwynderau na chyfleusterau lleol o fewn pellter cerdded cyfleus
- Byddai'n rhaid i fynediad i'r safle groesi cae sydd mewn perchnogaeth breifat a byddai'n rhaid ad-drefnu'r giât ddiogelwch ar gyfer Canolfan Ailgylchu Penhesgyn (y Ganolfan Ailgylchu)
- Mae'r ddau gae lle byddai'r pedair llain wedi'u lleoli ar lethr serth ac mae'r draenio'n wael.
- Byddai angen ffordd fynediad newydd i gael mynediad i'r pedair llain a byddai hynny'n golygu llawer o waith draenio a gwaith daear.
- Byddai angen cloddiau i ffurfio bwnd lleihau sŵn ar hyd y terfyn gorllewinol (gweler isod)
- Byddai angen cysylltiadau at ffynonellau dŵr yfed a thrydan
- Mae carthffosiaeth yn debygol o gael ei reoli trwy ddefnyddio tanc septig.

2.8 Mae digon o le ar gyfer y pedair llain breswyl barhaol arfaethedig ar safle Penhesgyn lle byddai angen creu ffordd fynediad newydd a datblygu llwyfan ar gyfer y pedair llain breswyl. Nid oes dim cyfyngiadau wedi deillio o'r arfarniad cyffredinol o'r safle a fyddai'n golygu na fyddai'r safle'n addas fel safle preswyl parhaol ar gyfer y gymuned teithwyr. Byddai'n rhaid ail-ddylunio rhywfaint ar fynedfa'r cyhoedd i Ganolfan Ailgylchu Penhesgyn (y Ganolfan Ailgylchu), giât y fynedfa a ffens ddiogelwch y safle.

**Asesiad o Ansawdd yr Aer**

2.9 Mae'r safle'n agos at gyn safle tirlenwi a chanolfan ailgylchu sy'n dal yn weithredol, a allai olygu risg posibl i iechyd; fodd bynnag nid yw'r safle wedi'i leoli o fewn Ardal Rheoli Ansawdd yr Aer (AQMA). Gan fod y datblygiad arfaethedig yn un bychan gyda gwaelodlin llygrwyr isel, barnwyd fod asesiad gwaelodlin yn ddigon i asesu amlygiad posibl defnyddwyr y dyfodol a derbynyddion presennol fel defnyddwyr Canolfan Ailgylchu Penhesgyn.

2.10 Yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, rhoddwyd sylw dyladwy i faterion yn ymwneud ag iechyd a llesiant posibl y preswylwyr tebygol ar Safle Penhesgyn.

2.11 Daeth yr astudiaeth gwaelodlin i'r casgliad bod lefelau gormodol o nitrogen deuocsid ($NO_2$) ar ffin y safle yn annhebygol. Mae'r amodau hyn yn bodoli eisoes ac nid ydynt yn debygol o waethygu o ganlyniad i'r datblygiad. Mae hefyd yn debygol na fydd lefelau'r deunydd gronynnol ($PM_{10}$) yn uwch na lefelau derbyniol ar ffin y safle ac felly ni thybir fod effeithiau $PM_{10}$ arwyddocaol. Fodd bynnag, tybir fod effeithiau baeddu llwch o ganlyniad i symudiadau cerbydau gwastraff a Cherbydau Nwyddau Trwm (HGV) sy'n gysylltiedig â'r cyfleusterau ailgylchu o bosibl yn risg uchel.

2.12 Daeth yr asesiad risg ar gyfer effeithiau posibl llwch yn ystod y gwaith o adeiladu'r lleiniau arfaethedig a'r ffordd fynediad i'r casgliad bod y safle'n safle risg isel o ran effeithiau baeddu llwch ac effeithiau ar iechyd pobl.

2.13 Ni thybir fod effeithiau ar dderbynyddion newydd o Nwy Tirlenwi (LFG) o'r cyn safle tirlenwi'n arwyddocaol. Bydd crynodiadau methan yn sylweddol is na lefelau fflamadwyedd ac ni fyddant ychwaith yn cael effaith andwyol ar iechyd pobl. Disgwylir y bydd crynodiadau carbon deuocsid yn gwasgaru nes byddant yn grynodiadau atmosfferig ansylweddol. Ni chredir felly fod angen mesurau i liniaru effeithiau LFG.

2.14 Ni thybir fod lefelau arogleuon yn arwyddocaol. Yn seiliedig ar gofnodion o gwynion a gafwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn a Cyfoeth Naturiol Cymru bernir nad oes angen mesurau lliniaru. Nid yw crynodiadau bio-aerosol yn debygol o fod yn uwch na throthwyon Asiantaeth yr Amgylchedd ar y safle, cyn belled â bod derbynyddion wedi'u lleoli ymhellach na 250 m oddi wrth safle compostio Penhesgyn.

2.15 Os bydd mesurau priodol i liniaru effaith llwch yn cael eu cyflwyno a bod preswylwyr newydd wedi'u lleoli fwy na 250 m i ffwrdd oddi wrth gyfleusterau compostio presennol Penhesgyn, daeth yr asesiad o ansawdd yr aer i'r casgliad y bydd y cynllun arfaethedig ar gyfer safle preswyl parhaol ar gyfer y gymuned teithwyr yn addas i gael ei ystyried ar gyfer caniatâd cynllunio.

**Asesiad o Effeithiau Sŵn**

2.16 Cafodd arolwg mesur sŵn ei gynnal i fesur lefelau sŵn amgylcheddol arferol yn ystod y dydd a'r nos. Mae'r safle wedi'i leoli mewn amgylchedd gwledig tawel iawn a'r brif ffynhonnell sŵn a oedd yn effeithio ar safle'r datblygiad yn ystod y dydd oedd sŵn gweithredu Canolfan Ailgylchu Penhesgyn (y Ganolfan Ailgylchu), a'r mwyaf amlwg oedd gwaith malu pren. Defnyddiwyd data'r arolwg i gynnal astudiaeth modelu sŵn i ragweld lefelau sŵn mewn yn lleoliadau ffasâd y lleiniau arfaethedig.

2.17 Disgwylir gallu cyflawni meini prawf sŵn allanol mewn cartrefi symudol gyda'r ffenestri ar agor ac ynghau. Disgwylir y bydd lefelau allanol yn cyflawni'r lefel is o 50 dB $L_{Aeq}$ fel y mae Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) yn ei argymell ar gyfer amwynderau allanol.

2.18 Dangosodd asesiad arall a gynhaliwyd yn unol â Nodyn Technegol 11: Sŵn (TAN 11) y bydd lleiniau posibl carafanau / ôl-gerbydau a fydd wedi'u lleoli ar safle'r datblygiad yn dod o fewn Categori Amlygiad i Sŵn (NEC) A yn ystod y dydd a'r nos. Mae hyn yn golygu na fydd angen ystyried sŵn fel ffactor wrth benderfynu rhoi caniatâd cynllunio.

2.19 Mae asesiad a gynhaliwyd yn unol â Safon Brydeinig (BS 4142:2014) a ddefnyddir i asesu lefelau sŵn o natur ddiwydiannol / masnachol wedi dangos potensial ar gyfer effaith andwyol o ganlyniad i waith gweithredu'r Ganolfan Ailgylchu yn ystod y dydd, gwaith malu pren yn fwyaf penodol. Felly mae cynllun lliniaru'n cael ei argymell a dylai gynnwys y canlynol:-

- Bwnd pridd ar hyd terfyn de orllewinol y Ganolfan Ailgylchu ar uchder o 1.5m;
- Hefyd dylid codi ffens â byrddau clos o bren acwstig 1.8m o uchder ar ymyl man malu pren y Ganolfan Ailgylchu.

2.20 Mae'r strategaeth lliniaru sŵn hon yn lleihau'r posibilrwydd o effaith andwyol nes ei fod yn cyrraedd lefel foddhaol ar draws y safle preswyl parhaol arfaethedig ar gyfer teithwyr ym Mhenhesgyn. Hefyd, gall y prosesau a'r gweithrediadau ailgylchu gwastraff presennol newid yn y dyfodol a gellid eu rheoli i leihau'r lefelau sŵn presennol ymhellach.

**Ecoleg**

2.21 Cynhaliwyd asesiad ecolegol rhagarweiniol ac Arolwg Cynefin Cam 1 ac asesiad o'r safle ym mis Tachwedd 2016. Mae'r cynefinoedd yn yr ardal a arolygwyd yn cynnwys glaswelltir gwael wedi'i wella'n rhannol, glaswelltir wedi'i wella, coed llydanddail, gwrychoedd a waliau cerrig sych, prysgwydd gwasgaredig a glaswelltir corsiog.

2.22 Mae'r ystyriaethau ecolegol posibl ar y safle'n cynnwys:

- Potensial i amharu ar goeden lle gallai ystlumod glwydo (yn ddibynnol ar leoliad y ffens ddiogelwch arfaethedig)
- Amharu ar adar sy'n nythu wrth gael gwared ar lystyfiant (os bydd y safle'n cael ei glirio yn ystod y tymor nythu adar)
- Mae angen asesu pwll cyfagos (nid yw o fewn ffiniau'r safle ond i'r gogledd orllewin o'r safle) i ganfod y potensial am amffibiaid fel mesur rhagofalus

2.23 Nid yw'n ymddangos bod unrhyw gyfyngiadau ecolegol arwyddocaol ar y safle a fyddai'n arwain at wrthod caniatâd cynllunio am resymau ecolegol. Mae cyfleoedd ar y safle yn ystod cam dylunio'r datblygiad i gadw gwrychoedd mewn mannau a ffiniau'r safle a hefyd i gynyddu bioamrywiaeth bosibl y safle.

**Crynodeb a Chasgliadau**

2.24 Mae'r Adroddiad Arfarnu Rhagarweiniol (PAR) yn crynhoi canfyddiadau'r asesiadau technegol a gynhaliwyd hyd yma; mae'r arfarniadau technegol ar gael hefyd fel dogfennau unigol. Mae canfyddiadau'r PAR yn dangos fod safle Penhesgyn yn lleoliad addas ar gyfer datblygiad preswyl parhaol ar gyfer teithwyr. Bydd angen ymgorffori rhai mesurau lliniaru yng nghynigion y cynllun er mwyn i'r safle ateb rhai gofynion, yn enwedig o ran sŵn ac ansawdd yr aer. Argymhellir bwrw ymlaen â'r dyluniad a chynigion y cynnig felly gyda golwg ar baratoi cais cynllunio manwl i'w gyflwyno rywbryd yn ystod 2017.

2.25 Y camau nesaf fydd paratoi dyluniadau amlinellol yn unol â chanllawiau ymarfer da a thrafodaethau â rhanddeiliaid allweddol i sicrhau bod gofynion technegol ac iechyd a diogelwch eraill yn cael eu hymgorffori yng nghynigion y cynllun. Efallai y bydd gofyniad i gynnal rhagor o asesiadau technegol neu amgylcheddol i sicrhau bod yr holl wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer cais cynllunio manwl ar gael. Ymgynghorir â'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystod y broses hon i sicrhau bod modd paratoi a dilysu cais cynllunio dilys i gael ei ystyried ymhellach. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gwarantu y bydd y cais cynllunio'n llwyddiannus nac yn ystyried materion eraill a all effeithio ar y gallu i ddarparu safle preswyl parhaol ym Mhenhesgyn.

2.26 Efallai y bydd gofyniad hefyd i gynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol neu AEA gan fod y safle'n cynnwys tir nad yw wedi cael ei ddatblygu o'r blaen a gall cyfanswm yr arwynebedd a fydd ei angen ddod o fewn gofynion y Rheoliadau AEA. Unwaith eto, bydd hyn yn fater lle bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn penderfynu beth sydd ei angen er mwyn dilysu unrhyw gais cynllunio.

# 3. Man Aros Dros Dro, Star

**Disgrifiad o'r Safle a'r Cynigion**

3.1 Mae safle'r Man Aros Dros Dro arfaethedig yn Star wedi ei nodi gan y Cyngor Sir fel y lleoliad mwyaf priodol ar gyfer Man Aros Dros Dro yn dilyn proses i ddethol safleoedd a gynhaliwyd yn 2016.

3.2 Mae'r safle rhwng Llanfairpwll a chroesffordd Star ar lain o dir rhwng yr A55 a'r A5. Mae tref Llanfairpwll tua 1 cilometr i'r dwyrain ac mae anheddiad Star i'r gogledd y tu draw i'r A55. Mae mesuriadau'r safle tua 435 metr o hyd a 50 metr o led ac mae ei arwynebedd tua 18,252 metr sgwâr neu 1.82 hectar.

3.3 Mae'r A55 ac ystâd feddal yn ffurfio ffin ogleddol y safle, a'r A5 y ffin ddeheuol. I'r gorllewin mae'r ffin wedi'i diffinio gan ystâd feddal yr A55 a'r rhwydwaith ffyrdd lleol sy'n cysylltu'r A5 a phentref Star trwy gyfrwng pont dros yr A55. I'r dwyrain, mae'r ffin wedi'i diffinio gan gwrs dŵr Afon Braint sy'n llifo o dan yr A5 a thrwy gwlfert i gyfeiriad y de orllewin.

3.4 Mae'r safle sy'n cael ei ystyried yn cynnwys tri chae sydd ar hyn o bryd yn laswelltir garw a phrysgwydd. Mae'r caeau'n weddol wastad ar y cyfan ond mae llethr raddol o'r gorllewin i'r dwyrain. Mae pob un o'r caeau mewn perchnogaeth breifat gyda'r cae mwyaf gorllewinol yn eiddo i un tirfeddiannwr preifat a'r cael canol a dwyreiniol yn eiddo i gwmni coetir preifat. Mae'r cae dwyreiniol yn nodedig am ddioddef llifogydd o Afon Braint.

3.5 Byddai'r cynnig am Fan Aros Dros Dro yn cynnwys darn o dir ar gyfer cyfanswm o hyd at 15 o garafanau a cherbydau tynnu ar unrhyw un adeg. Bwriedir i'r Man Aros Dros Dro gynnig llety tymor byr am hyd at 2-3 wythnos ar y tro. Byddai'r safle'n cael ei reoli gan y Cyngor Sir. Byddai'r cynigion ar gyfer y Man Aros Dros Dro yn Star yn cynnwys y canlynol:-

- Pwynt mynediad oddi ar yr A5 gyda giât 5 metr a rhwystr sy'n cyfyngu ar uchder
- Llawr caled digon mawr ar gyfer 15 o garafanau neu ôl-gerbydau a cherbydau tynnu
- Ffens ddiogel o amgylch y ffin a giât y gellir ei chloi
- Llain blannu 5 metr ar hyd y ffin ddeheuol
- Cyflenwad dŵr oer
- Toiledau cludadwy pan fydd y safle'n cael ei ddefnyddio
- Pwynt Gwaredu Carthffosiaeth
- Pwynt Casglu ac Ailgylchu Sbwriel wedi'i Sgrinio
- Pwyntiau cysylltu â'r cyflenwad trydan (gofyniad diweddar)

**Asesiadau Cyffredinol a Thechnegol o'r Safle**

3.6 Cynhaliwyd arfarniadau technegol ar gyfer y pynciau amgylcheddol canlynol ar safle Star. Y nod wrth gynnal yr asesiadau technegol oedd canfod a oedd unrhyw resymau neu gyfyngiadau technegol a fyddai'n golygu na fyddai'r safle'n addas i gael ei ddefnyddio fel safle preswyl dros dro gan y gymuned sipsiwn a theithwyr sy'n dymuno aros ar yr ynys am gyfnodau cymharol fyr. Yn ychwanegol at yr arfarniadau technegol penodol, cafodd ystyriaethau mwy cyffredinol fel maint y safle, mynediad a nodweddion ffisegol eraill eu hystyried:-

- Arfarniad Cyffredinol o'r Safle

- Asesiad o Ansawdd yr Aer
- Asesiad o Effeithiau Sŵn
- Asesiad o Effeithiau Llifogydd
- Asesiad Ecolegol

**Asesiad Cyffredinol o'r Safle**

3.7 Mae'r safle rhwng yr A55 a'r A5 a choridor y ffyrdd yw'r brif nodwedd.

- Tir isel rhwng coridorau ffyrdd pwysig
- Mae prif Reilffordd Caer – Caergybi'n agos at y safle ac i'r de o'r A5
- Bydd angen mynediad at ffordd unffrwd heb gyfyngiadau (60 mya)
- Mae llystyfiant y briffordd yn ffurfio sgrin rannol i ardal breswyl Star i'r gogledd o goridor ffordd yr A55
- Mae'r A5 wedi'i chyfrif fel Llwybr Hanesyddol
- Safle Bws yn agos at Groesffordd Star
- Dim llwybr cyhoeddus ar hyd ymyl y ffordd ond cyfle i gysylltu i'r gorllewin yn agos at Groesffordd Star
- Dim golau stryd ger y Man Aros Dros Dro arfaethedig ond cyfle i ymestyn y ddarpariaeth o Groesffordd Star
- Bydd angen ail alinio'r wal derfyn bresennol i sicrhau gwelededd digonol i'r fynedfa a'r ffordd allan o'r safle
- Cyfleustodau a chysylltiadau i gael sylw yn ystod cyfnod y dylunio manwl gyda chyrff statudol (efallai y bydd angen mesurau diogelu BT)

3.8 Mae asesiad dylunio rhagarweiniol yn dangos bod y safle'n ddigon mawr ar gyfer 15 man aros dros dro ar gyfer carafanau a cherbydau tynnu. Bydd angen ffens ddiogelwch i ddiffinio terfynau'r safle ac i sicrhau diogelwch y preswylwyr dros dro. Bydd angen rheoli dŵr wyneb a'i ryddhau (trwy ryddhau cyfyngedig) o ffos gyfagos sy'n cysylltu ag Afon Braint.

**Asesiad o Ansawdd yr Aer**

3.9 Nid yw'r safle wedi'i leoli o fewn Ardal Rheoli Ansawdd yr Aer (AQMA). Nid yw'r datblygiad yn debygol o arwain at gynnydd sylweddol mewn traffig; fodd bynnag, gall gyflwyno derbynyddion sensitif fel preswylwyr y carafanau a gallai'r rhain gael eu heffeithio gan draffig ffordd a rheilffordd sy'n mynd heibio. Oherwydd maint bychan y datblygiad arfaethedig, tybiwyd fod asesiad sgrinio safonol yn briodol i asesu amlygiad posibl defnyddwyr yn y dyfodol.

3.10 Mae'r asesiad yn canolbwyntio ar grynodiadau o nitrogen deuocsid ($NO_2$) a mater gronynnol y gellir ei anadlu ($PM_{10}$), fel y prif lygrwyr sy'n gysylltiedig ag allyriadau o draffig ffordd. Mae crynodiadau gwaelodlin $NO_2$ a $PM_{10}$ yn seiliedig ar waith modelu a rhaglenni monitro a gynhaliwyd eisoes. Cafwyd data traffig gan yr Adran Drafnidiaeth (DfT).

3.11 Cafodd asesiad risg ei gynnal hefyd i ganfod effaith bosibl allyriadau llwch sy'n ffoi a $PM_{10}$ ar dderbynyddion lleol fel preswylwyr lleol yn ystod y cam adeiladu. Mae'r asesiad yn seiliedig ar fanylion y datblygiad arfaethedig a ddisgrifir uchod.

3.12 Byddai'r datblygiad arfaethedig yn y Man Aros Dros Dro, Star, yn cyflwyno preswylwyr newydd y cyfeirir atynt fel arall fel derbynyddion i'r safle. Tybiwyd fod lleoliadau'r derbynyddion a

ddefnyddiwyd yn yr asesiad yn cynrychioli amlygiad preswylwyr y dyfodol yn y Man Aros Dros Dro. Barnwyd fod effaith bosibl allyriadau o lif traffig ffordd a rheilffordd ar breswylwyr y safle yn y dyfodol yn ddibwys.

3.13 Daeth asesiad risg o effeithiau posibl llwch yn ystod gwaith adeiladu'r datblygiad arfaethedig i'r casgliad fod y safle'n safle risg isel ar gyfer baeddu llwch ac effeithiau ar iechyd pobl. O ganlyniad, bernir nad oes angen mesurau lliniaru.

3.14 Casgliad yr asesiad hwn yw bod y cynllun arfaethedig, o safbwynt ansawdd yr aer, yn addas i gael ei ystyried ar gyfer caniatâd cynllunio.

**Asesiad o Effeithiau Sŵn**

3.15 Cafodd arolwg mesur sŵn ei gynnal i fesur lefelau sŵn amgylcheddol arferol yn ystod y dydd a'r nos. Roedd y lefelau a fesurwyd yn debyg i'r rhai a gyflwynwyd ym mapiau sŵn Cymru 2012, a oedd yn rhan o ofynion y Gyfarwyddeb Sŵn Amgylcheddol (2002/49/EC). Defnyddiwyd y data i gynnal astudiaeth modelu sŵn i ragweld lefelau sŵn yn lleoliadau ffasâd y carafanau / ôl-gerbydau wedi'u lleoli yn y Man Aros Dros Dro.

3.16 Y brif ffynhonnell sŵn a oedd yn effeithio ar y safle yn ystod y dydd a'r nos oedd traffig ffordd yr A55. Mae'r datblygiad arfaethedig ar hyn o bryd yn cael ei effeithio gan lefelau sŵn allanol sy'n fwy na 60 dB $L_{Aeq}$ yn ystod y dydd, a rhagwelir y byddai'n methu cyflawni meini prawf Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) o 55 dB $L_{Aeq(16h)}$ ar gyfer gerddi a mannau hamdden awyr agored. O ganlyniad argymhellir fod cynigion y cynllun yn cynnwys rhwystr acwstig 3m ar hyd y ffin â'r A55 ac ar hyn ffin ddwyreiniol a gorllewinol y safle, i leihau amlygiad y safle i sŵn.

3.17 Ar ôl cyflwyno'r cynllun lliniaru uchod disgwylir y bydd y lefelau sŵn mewnol yn dderbyniol yn ystafelloedd byw ac ystafelloedd gwely'r carafanau dros dro gyda'r ffenestri ar gau. Fodd bynnag, rhaid cydnabod bod lefelau'r sŵn yn debygol o fod yn fwy na lefelau amwynderau awyr agored a byddant yn parhau'n uwch na'r meini prawf a'r canllawiau a argymhellir ar gyfer gerddi a mannau hamdden allanol.

**Asesiad o Effeithiau Llifogydd**

3.18 Mae perygl llifogydd ar y safle wedi cael ei ystyried o bob ffynhonnell. Mae'r Man Aros Dros Dro arfaethedig wedi'i leoli o fewn Parth Llifogydd 1, ac felly bydd y perygl llifogydd gweddilliol yn isel er bod angen ystyried mynedfa ac allanfa diogel i'r A5 yn nyluniadau'r datblygiad. Tybir fod y perygl llifogydd o ddŵr daear a ffynonellau artiffisial yn ddibwys.

3.19 Er bod y rhan fwyaf o'r safle wedi'i leoli o fewn Parth Llifogydd A TAN15 (caniateir datblygiadau safleoedd carafanau a gwersylla mewn Parth A) ac mae rhan o'r safle'n dod o fewn Parth Llifogydd C2. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi gwerthuso'r safle arfaethedig ac mae o'r farn y gellid bwrw ymlaen â datblygu'r safle, cyhyd â bod y Prawf Cyfiawnhad yn cael ei weithredu. I basio'r prawf hwn, rhaid i'r datblygiad ddangos:

- Bod lleoliad y datblygiad yn angenrheidiol i gynorthwyo neu i fod yn rhan o gynllun adfywio awdurdod lleol a / neu strategaeth i gynnal aneddiadau presennol; neu
- Bod lleoliad y datblygiad yn angenrheidiol i gyfrannu at amcanion cyflogaeth allweddol i gynnal aneddiadau neu ranbarthau presennol; a

- Bod y datblygiad yn cyd-fynd â nodau Polisi Cynllunio Cymru (PCC); a
- Bod effeithiau posibl llifogydd ar gyfer y math penodol o ddatblygiad wedi cael eu hystyried a chanfuwyd eu bod yn dderbyniol (gyda chyfeiriad at y meini prawf a bennwyd yn TAN15).

3.20 Ni fyddai'r fan lle caniateid i'r carafanau aros wedi'i lleoli o fewn parth llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru ond ymhellach i'r gorllewin ar dir uwch. Argymhellir fod y dyluniad dŵr wyneb terfynol yn cynnwys mabwysiadu System Ddraenio Drefol Gynaliadwy (SuDs) er mwyn cadw dŵr ffo o fewn y cyfraddau maes glas cyfredol. Bydd angen ymgynghori rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol (Cyngor Sir Ynys Môn). Fodd bynnag, mae'r safle'n addas i gael ei ddatblygu o safbwynt perygl llifogydd.

**Ecoleg**

3.21 Cafodd asesiad ecolegol rhagarweiniol ac Arolwg Cynefin Cam 1 ac asesiad ei gynnal ym mis Tachwedd 2016. Roedd y cynefinoedd yn yr ardal a arolygwyd yn cynnwys llystyfiant cynefinol tal dros laswelltir gwael wedi'i wella'n rhannol, prysgwydd, coed gwasgarog a waliau cerrig sych.

Mae'r ystyriaethau ecolegol posibl ar y safle'n cynnwys:

- Amharu ar adar sy'n nythu wrth godi llystyfiant (os bydd y safle'n cael ei glirio yn ystod tymor nythu adar))
- Tynnwyd sylw at ddyfrgwn a llygod y dŵr yn ystod astudiaeth ddesg o'r ffos i'r dwyrain sydd y tu allan i derfynau'r safle. Nid oes dim cynefinoedd addas na thystiolaeth o fodolaeth y rhywogaethau hyn ar y safle ei hun.

3.22 Ni yw'n ymddangos bod gan y safle unrhyw gyfyngiadau ecolegol arwyddocaol a fyddai'n golygu bod caniatâd cynllunio'n cael ei wrthod am resymau ecolegol cyn belled ag y cedwir at yr argymhellion a wneir yn yr adroddiad ecoleg.

**Crynodeb a Chasgliadau**

3.23 Mae'r Adroddiad Arfarnu Rhagarweiniol (PAR) yn crynhoi canfyddiadau'r asesiadau technegol a gynhaliwyd hyd yma; mae'r arfarniadau technegol ar gael hefyd fel dogfennau unigol. Mae canfyddiadau'r PAR yn dangos fod safle Star yn lleoliad addas ar gyfer Man Aros Dros Dro. Bydd angen ymgorffori rhai mesurau lliniaru yng nghynigion y cynllun er mwyn i'r safle ateb rhai gofynion, yn enwedig o ran sŵn. Argymhellir bwrw ymlaen â'r dyluniad a chynigion y cynnig felly gyda golwg ar baratoi cais cynllunio manwl i'w gyflwyno rywbryd yn ystod 2017.

2.24 Y camau nesaf fydd paratoi dyluniadau amlinellol yn unol â chanllawiau ymarfer da a thrafodaethau â rhanddeiliaid allweddol i sicrhau bod gofynion technegol ac iechyd a diogelwch eraill yn cael eu hymgorffori yng nghynigion y cynllun. Efallai y bydd gofyniad i gynnal rhagor o asesiadau technegol neu amgylcheddol cynnal i sicrhau bod yr holl wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer cais cynllunio manwl ar gael. Ymgynghorir â'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystod y broses hon i sicrhau bod modd paratoi a dilysu cais cynllunio dilys i gael ei ystyried ymhellach. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gwarantu y bydd y cais cynllunio'n llwyddiannus nac yn ystyried materion eraill a all effeithio ar y gallu i ddarparu Man Aros Dros Dro yn Star.

CAPITA

Public Document

**Capita Property and Infrastructure Ltd**
Bryn Eirias
Abergele Road
Colwyn Bay LL29 8BY

Tel +44 (0)1492 510200
Fax+44 (0)1492 510201

www.capita.co.uk

CAPITA

Dogfen Gyhoeddus

Prosiect Sipsiwn a Theithwyr Ynys Môn
Safle Preswyl Parhaol, Penhesgyn.

# Adroddiad Arfarnu Rhagarweiniol (PAR)

Chwefror 2017





We | Listen Create Deliver

## Rheoli Ansawdd

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Rhif y Gwaith** | CS/090626 | | |
| **Prosiect** | Prosiect Sipsiwn a Theithwyr Ynys Môn | | |
| **Lleoliad** | Ynys Môn | | |
| **Teitl** | Adroddiad Arfarnu Rhagarweiniol (PAR) – Safle Preswyl Parhaol – Penhesgyn | | |
| **Cyf y Ddogfen** | CS/090626/03/02 Reports | **Rhifyn / Diwygiad** | V1 |
| **Dyddiad** | Chwefror 2017 | | |
| **Paratowyd gan** | Jon Stoddard | | |
| **Gwiriwyd gan** | Laura Fretwell | | |
| **Awdurdodwyd gan** | Jon Stoddard | | |

## Statws / Hanes Diwygio

| Diwygiad | Dyddiad | Rhifyn / Pwrpas / Sylwadau | Paratowyd | Gwiriwyd | Awdurdodwyd |
|---|---|---|---|---|---|
| V1 | 31-01-17 | Dogfen Gyhoeddus | J. Stoddard | L. Fretwell | J. Stoddard |
| | | | | | |

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| 0. Crynodeb Gweithredol | 1 |
| 1. Cyflwyniad | 2 |
| 2. Cefndir | 4 |
| 3. Disgrifiad o'r Safle | 8 |
| 4. Cynigion y Cynllun | 10 |
| 5. Asesiadau Technegol | 11 |
| 6. Crynodeb a Chasgliadau | 14 |


## Ffigurau

Ffigur 1: Cynllun Lleoliad y Safle

## Atodiadau

Atodiad A : Ffigur 1 : Cynllun Lleoliad y Safle
Ffigur 2 : Cynllun y Safle Presennol

Atodiad B : Lluniau o'r Safle

Atodiad C : Cynllun Cyfyngiadau'r Safle

# Crynodeb Gweithredol

Mae gofyniad cyfreithiol ar Gyngor Sir Ynys Môn, yn ôl Deddf Tai (Cymru) 2014, i asesu ac i ddiwallu anghenion llety'r boblogaeth yn ei ardal. Mae hyn yn cynnwys anghenion y Gymuned Sipsiwn a Theithwyr a phobl sy'n gysylltiedig â sioeau teithiol. O dan Ran 3 o'r Ddeddf, mae gofyniad ar Awdurdodau Lleol i gynnal Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn eu hardal. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru'n nodi y dylid canfod, deall a mynd i'r afael ag anghenion llety sipsiwn a theithwyr ar yr un sail â sectorau eraill o'r gymuned.

Yn 2015, ac yn unol â'r ddeddfwriaeth, roedd Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd wedi mynd ati ar y cyd i baratoi Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Ynys Môn a Gwynedd (GTAA). Cyhoeddwyd y GTAA yn 2016 a chymeradwywyd y cynnwys gan Lywodraeth Cymru yn ôl Adran 102 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

Yn dilyn ymlaen o GTAA 2016, cynhaliodd Cyngor Sir Ynys Môn broses Ymgynghori oedd wedi canfod yr angen am safle preswyl parhaol i ddiwallu anghenion Teithwyr yr Oes Newydd, oedd yn deillio o safle anawdurdodedig ar Ffordd Pentraeth, Ynys Môn. Yn dilyn proses ddethol safle, canfuwyd llecyn o dir ym Mhenhesgyn, ger Penmynydd fel y lleoliad a ffefrir ar gyfer safle preswyl parhaol.

Penodwyd Capita gan Gyngor Môn yn Nhachwedd 2016 i ymgymryd â nifer o arfarniadau technegol er mwyn asesu p'un a yw'r safle ym Mhenhesgyn yn addas fel Safle Preswyl Parhaol. Roedd asesiadau technegol yn cynnwys ymchwiliad pellach i wahanol bynciau, sef ansawdd yr aer, sŵn, ac ecoleg. Ymgynghorwyd â Swyddog Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Sir Ynys Môn yn ystod y gwaith o baratoi'r asesiadau technegol.

Mae'r Adroddiad Arfarnu Rhagarweiniol (PAR) yn crynhoi canfyddiadau'r asesiadau technegol a gynhaliwyd hyd yma; mae'r arfarniadau technegol ar gael hefyd fel dogfennau unigol. Mae canfyddiadau'r PAR yn dangos fod safle Penhesgyn yn lleoliad addas ar gyfer safle preswyl parhaol. Bydd angen ymgorffori rhai mesurau lliniaru yng nghynigion y cynllun er mwyn i'r safle ateb rhai gofynion, yn enwedig o ran sŵn. Felly, argymhellir bwrw ymlaen â'r dyluniad a chynigion y cynnig gyda golwg ar baratoi cais cynllunio manwl i'w gyflwyno rywbryd yn ystod 2017.

Y camau nesaf fydd paratoi dyluniadau amlinellol ar gyfer trafodaethau â rhanddeiliaid allweddol i sicrhau bod gofynion technegol ac iechyd a diogelwch eraill yn cael eu hymgorffori yng nghynigion y cynllun. Efallai y bydd gofyniad i gynnal rhagor o asesiadau technegol neu amgylcheddol i sicrhau bod yr holl wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer cais cynllunio manwl ar gael. Ymgynghorir â'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystod y broses hon i sicrhau bod modd paratoi a dilysu cais cynllunio dilys i gael ei ystyried ymhellach. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gwarantu y bydd y cais cynllunio'n llwyddiannus nac yn ystyried materion eraill a all effeithio ar y gallu i ddarparu safle preswyl parhaol ym Mhenhesgyn.

# 1. Cyflwyniad

1.1 Adroddiad Arfarnu Rhagarweiniol (PAR) yw hwn sy'n adrodd ynghylch dichonoldeb bwrw ymlaen â'r cynigion ar gyfer safle preswyl parhaol ar gyfer y gymuned o deithwyr yr oes newydd ar lecyn o dir ym Mhenhesgyn ger Penmynydd, Ynys Môn. Mae'r safle'n dir amaethyddol ar hyn o bryd a leolir i'r dwyrain o Ganolfan Ailgylchu Penhesgyn.




**Ffigur 1 – Cynllun Lleoliad y Safle – Cyfeiriwch hefyd at Atodiad A**

1.2 Mae'r PAR yn darparu disgrifiad o gefndir a chyd-destun y datblygiad arfaethedig ac mae'n crynhoi canfyddiadau cychwynnol nifer o arfarniadau technegol sydd ar gael fel dogfennau ar wahân.

1.3 Paratowyd y PAR gan Capita Real Estate and Infrastructure ar ran Adran Tai Cyngor Sir Ynys Môn. Penodwyd Capita ar 14eg Tachwedd 2016 yn dilyn proses gyflwyno tendr cystadleuol o dan Lot 'Cynhwysfawr' Fframwaith y GCC, NPS-PS-00014-14.

1.4 Mae'r PAR hwn wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

| **Tabl 1.1 – Strwythur yr Adroddiad Arfarnu Rhagarweiniol (PAR)** | |
|---|---|
| Adran | Disgrifiad |
| 1. Cyflwyniad | Cyflwyniad byr i darddiad, pwrpas a chynnwys yr Adroddiad Arfarnu Rhagarweiniol (PAR) hwn |
| 2. Cefndir | Disgrifiad o gefndir Prosiect Sipsiwn a Theithwyr Ynys Môn, gan gynnwys y broses o ddethol safle |
| 3. Disgrifiad o'r Safle | Disgrifiad o'r safle presennol ym Mhenhesgyn, ei leoliad a'i nodweddion ffisegol |
| 4. Cynigion y Cynllun | Disgrifiad o gynigion amlinellol y cynllun |
| 5. Asesiadau Technegol | Crynodeb o'r Arfarniadau Technegol a gynhaliwyd ar gyfer y safle preswyl parhaol i deithwyr ym Mhenhesgyn |
| 6. Crynodeb a Chasgliadau | Crynodeb o'r PAR a chanfyddiadau'r adroddiad |

# 2. Cefndir

**Deddfwriaeth mewn perthynas â darparu Safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr**

2.1 Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ddarparu safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr lle mae angen wedi'i ganfod. Mae dogfen Llywodraeth Cymru *'Teithio at Ddyfodol Gwell* (2015) yn cyflwyno fframwaith polisi y dylai Awdurdodau Lleol ei ddilyn. Mae Cylchlythyr Llywodraeth Cymru *30/2007 Cynllunio ar gyfer Safleoedd Carafanau Sipsiwn a Theithwyr* yn cryfhau'r gofyniad bod awdurdodau lleol yn canfod ac yn darparu safleoedd digonol a phriodol yn eu Cynlluniau Datblygu Lleol.

2.2 Mae gofyniad cyfreithiol felly ar Gyngor Sir Ynys Môn (yn ôl Deddf Tai (Cymru) 2014) i asesu ac i ddiwallu anghenion llety'r boblogaeth yn ei ardal. Mae hyn yn cynnwys anghenion y Gymuned Sipsiwn a Theithwyr a phobl sy'n gysylltiedig â sioeau teithiol. Mae'r term Sipsiwn a Theithwyr yn cynnwys Sipsiwn Romani a Theithwyr Gwyddelig yn ogystal â phobl o unrhyw grŵp sy'n byw bywyd teithiol. Mae hefyd yn cynnwys pobl sy'n gysylltiedig â Sioeau Teithiol a Theithwyr yr Oes Newydd sydd â hanes o deithio a byw mewn cartrefi symudol. Mae'r diwethaf o'r rhain, sef Teithwyr yr Oes Newydd, yn ymwneud â'r gymuned o sipsiwn a theithwyr sy'n byw ar hyn o bryd mewn cilfan ger Pentraeth ac y bwriedir eu symud i'r safle preswyl parhaol ym Mhenhesgyn.

**Tabl 2.1 – Deddfwriaeth a pholisïau allweddol sy'n gysylltiedig â darparu Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr**

| Teitl | Disgrifiad |
|---|---|
| Deddf Tai (Cymru) 2014 | Dywed Adrannau 225 a 226 fod dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i gynnal asesiad o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr |
| Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 | Mae'r Ddeddf yn cydgrynhoi'r ddeddfwriaeth ar safleoedd cartrefi symudol yng Nghymru. |
| Cylchlythyr 30/2007 Cynllunio ar gyfer Safleoedd Carafanau Sipsiwn a Theithwyr | Mae Cylchlythyr Llywodraeth Cymru'n tynnu sylw at y gofyniad ar Awdurdodau Lleol i ganfod ac i ddarparu safleoedd priodol yn eu cynlluniau. |

2.3 Cafodd *"Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Ynys Môn a Gwynedd 2016 (yr Asesiad o Anghenion)"* ei baratoi ar y cyd gan Gyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd yn ystod ail hanner 2015 ac mae'n diweddaru Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Gogledd Orllewin Cymru blaenorol a gyhoeddwyd yn 2013.

2.4 Deallir y cynhaliwyd GTAA 2016 yn unol â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru, ac fel yr argymhellwyd yn y canllawiau gan Grŵp Llywio oedd yn cynnwys Aelodau Cynghorau Ynys Môn a Gwynedd, swyddogion o'r adrannau Polisi Cynllunio a Thai, ynghyd ag aelod o'r Gymuned Sipsiwn a Theithwyr. Cymeradwywyd y GTAA (2016) gan Gabinet Cyngor Gwynedd ar 19eg Ionawr 2016, a gan Bwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn ar 8fed Chwefror 2016.

**Gwersylloedd Anawdurdodedig**

2.5 Ym Môn, fel mewn sawl rhan arall o Gymru, ceir nifer o wersylloedd anawdurdodedig bob blwyddyn. Efallai bod safleoedd anawdurdodedig o'r fath yn darparu amodau byw ansicr a gwael weithiau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, yn ogystal â'u bod yn tarfu ar gymdogion sydd wedi ymgartrefu yn eu cyffiniau, ac yn creu pryder iddynt. Bydd costau posibl i'r Cyngor yn cynnwys mynd i'r afael ag unrhyw faterion o ran rheolaeth a gorfodaeth. Ystyrir bod Sipsiwn a Theithwyr sydd heb lain awdurdodedig ar gyfer eu carafanau neu gerbydau byw yn ddigartref.

2.6 Dengys tystiolaeth o gofnodion y Cyngor ei hun o wersylloedd anawdurdodedig bod y rhain yn debygol o ymddangos yn ardal Caergybi, pan fo Teithwyr Sipsi yn teithio yn ôl ac ymlaen i Iwerddon drwy Borthladd Caergybi. Yn ogystal, ac mewn lleoliad mwy canolog ar yr ynys, mae Stad Ddiwydiannol Mona ar gyrion Llangefni yng nghanol yr ynys wedi dod yn fan aros boblogaidd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, gyda grŵp cymharol fawr yn dewis aros am 2-3 wythnos ym mis Gorffennaf/Awst bob blwyddyn. Mewn blynyddoedd diweddar, cafwyd gwersylloedd anawdurdodedig eraill yn ymddangos yn ystod misoedd y gaeaf. Lleolir gwersyll parhaol o Deithwyr yr Oes Newydd mewn cilfan ym Mhentraeth, sy'n safle anawdurdodedig ond yn cael ei ganiatáu.

2.7 Nododd GTAA 2016 yr angen am y canlynol ar Ynys Môn:

- Safle preswyl parhaol i ddiwallu anghenion Teithwyr yr Oes Newydd sy'n deillio o wersyll anawdurdodedig (o bedair llain) a leolir ar hyn o bryd mewn cilfan; a
- Dau safle i'w defnyddio fel Mannau Aros Dros Dro ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ar hyd yr A55 ym Môn, un yng Nghaergybi ac un yng nghanol yr ynys.

2.8 Mae'r PAR hwn yn ymwneud â'r cyntaf o'r rhain, sef safle preswyl parhaol i ddiwallu anghenion Teithwyr yr Oes Newydd sy'n deillio o wersyll anawdurdodedig (o bedair llain) a leolir ar hyn o bryd mewn cilfan ym Mhentraeth,

**Y Broses Ddethol Safle**

2.9 Wrth ymgymryd â'r GTAA a ddisgrifiwyd uchod, ymgymerodd Cyngor Sir Ynys Môn â phroses ddethol safle i ganfod y lleoliad mwyaf priodol ar gyfer safle preswyl parhaol.

2.9 O fewn y broses hon, defnyddiwyd saith maen prawf gan Gyngor Sir Ynys Môn, sy'n deillio o'r ddogfen *Ymgynghoriad ar Safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr ar Ynys Môn 11eg Chwefror – 11eg Mawrth, 2016* sef:

**Tabl 2.2 – Meini Prawf Dethol Safle – Safleoedd Preswyl**

| Meini Prawf | Sylwadau/Nodiadau |
|---|---|
| 1. Lleoliad | Rhannwyd yr ynys yn bum band yn seiliedig ar y pellter o'r gwersyll anawdurdodedig presennol, ond sy'n cael ei ganiatáu, ar Ffordd Pentraeth. |
| 2. Hygyrchedd | Mynediad i/oddi ar brif ffyrdd a llwybrau cludiant cyhoeddus ar gyfer safle preswyl parhaol. |
| 3. Addasrwydd y Safle | Addasrwydd y safle a graddau'r gwaith ffisegol a fynnir i ddarparu cyfleusterau sylfaenol i'w ddefnyddio fel safle ar gyfer sipsiwn/teithwyr. |
| 4. Mwynderau | Dylai mwynderau a chyfleusterau lleol fel siopau ac ysgolion fod yn agos. |
| 5. Yr Amgylchedd | Ansawdd yr amgylchedd o amgylch y safle, gan gynnwys halogi ar y safle, llygredd gerllaw, lefelau sŵn, y perygl o lifogydd. |
| 6. Cyfleustodau | Argaeledd ac agosrwydd cyfleustodau fel trydan, dŵr a charthffosiaeth, er y gellid defnyddio system garthffosiaeth nad yw'n rhan o'r brif rwydwaith ynghyd â generaduron trydan mewn safleoedd preswyl parhaol. |
| 7. Argaeledd | Mewn cymhariaeth, mae safle Cyngor neu un o dan berchnogaeth gyhoeddus yn debygol o fod yn haws ac yn llai drud i'w gyflenwi na safle mewn perchnogaeth breifat fyddai efallai'n gofyn am drafodaethau helaeth neu gamau Prynu Gorfodol. Byddai angen cyflwyno rhybudd i denantiaid Mân-ddaliadau'r Cyngor i gael tir ar gyfer safleoedd preswyl. |

**Y Cyfnod Ymgynghori Cyntaf**

2.11 Nodwyd tri safle yn yr ymarfer ymgynghori cyntaf hwn fel safleoedd preswyl posibl yn y lleoliadau a ganlyn:

Safle 1: Gwersyll presennol, cilfan oddi ar yr A5025 rhwng Porthaethwy a Phentraeth
Safle 2: Parsel o dir ar Fân-ddaliad yn y Gaerwen
Safle 3: Tir ym Mhenhesgyn, ger Penmynydd

2.12 Ymgynghorodd y Cyngor â'r cyfleustodau, cyrff amgylcheddol statudol ac adrannau'r Cyngor yn Chwefror a Mawrth 2016. O ganlyniad i'r broses ymgynghori ac ymarferion asesu'r safleoedd, ystyriodd Pwyllgor Craffu Partneriaeth ac Adfywio'r Cyngor, ynghyd â'r Pwyllgor Gwaith, mai Safle 3, Tir ym Mhenhesgyn oedd y safle mwyaf priodol. Fe'i detholwyd hefyd fel y safle a ffefrir i fynd ymlaen i'w gynnwys yng Nghynllun Datblygu Lleol Gwynedd ac Ynys Môn ar y Cyd, fel dyraniad i ddiwallu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr.

2.14 Mae'r Adroddiad Arfarnu Rhagarweiniol hwn yn ymwneud â dethol y safle preswyl parhaol a ddetholwyd gan y Cyngor Sir ym Mhenhesgyn ar gyfer y pedair llain ar gyfer Teithwyr yr Oes Newydd sy'n byw ar hyn o bryd mewn gwersyll anawdurdodedig, ond sy'n cael ei ganiatáu, ym Mhentraeth. Disgrifir safleoedd preswyl parhaol yn *'Dylunio Safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr - Canllawiau - Mai 2015"* fel a ganlyn:-

**Safleoedd Preswyl Parhaol**

2.15 Dylai pob llain breswyl ddarparu ar gyfer y canlynol, mae angen pedair llain breswyl yn safle Penhesgyn. Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru *'Dylunio Safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr'* (2015) yn awgrymu y dylid darparu'r canlynol ar gyfer bob llain:-

- bloc amwynder sydd wedi'i gysylltu â'r cyflenwad dŵr, trydan a gwasanaethau/ cyfleusterau eraill;
- llecyn o lawr caled â systemau draenio priodol;
- arwyneb y mae'n hawdd ei lanhau a'i gynnal a'i gadw;
- cynhwysydd addas ar gyfer sbwriel cartref;
- pwyntiau cysylltu â thrydan er mwyn gallu gosod cartrefi symudol mewn lleoedd gwahanol ar y safle;
- ffordd o gadw'r cartrefi symudol yn ddiogel yn y llain yn ystod gwyntoedd cryf, fel cylchoedd dur wedi'u gosod mewn concrid;
- cysylltiad â systemau draenio a charthffosiaeth; a
- lle i sychu dillad.

2.16 Yn ychwanegol i'r uchod, mae'r Cyngor Sir yn mynnu y dylai'r canlynol fod ar gael ar gyfer y safle ym Mhenhesgyn:

- ffordd fynediad i'r safle ar draws cae;
- llain lawr caled ar gyfer cerbyd byw'r aelwyd;
- bloc amwynderau gydag ystafell ymolchi ac ati;
- goleuadau ar gyfer diogelwch y cyhoedd a diogelwch;
- cyflenwad dŵr ar gyfer yfed a defnydd domestig;
- ffens gadarn o amgylch y safle a giât y gellir ei chloi.

2.17 Ar hyn o bryd, mae'r mynediad i safle Penhesgyn yn gyfyngedig neu nid yw'n bodoli o gwbl, a chydnabyddir y bydd angen darparu isadeiledd newydd, gan gynnwys ffordd fynediad newydd i gysylltu â'r rhwydwaith ffyrdd lleol. Felly tybir fod darparu isadeiledd yn ofyniad ar gyfer datblygu'r safle, ac at ddibenion yr adroddiad hwn, nid yw'n cael ei ystyried fel cyfyngiad neu'n elfen o'r prosiect fyddai'n effeithio ar ddichonoldeb y safle o ran ei ddatblygu fel safle preswyl parhaol.

2.18 Mae'r Adroddiad Arfarnu Rhagarweiniol hwn yn archwilio dichonoldeb bwrw ymlaen â'r safle hwn, gyda golwg ar baratoi cais cynllunio manwl ar gyfer ei ddefnyddio fel safle preswyl parhaol.

# 3 Disgrifiad o'r Safle

3.1 Lleolir safle Penhesgyn mewn ardal wledig yn bennaf, tua 2.5 cilomedr i'r gogledd o Llanfairpwllgwyngyll a 2 gilomedr i'r gogledd orllewin o Borthaethwy. Mae'r B5420 yn rhedeg o Borthaethwy i Langefni ac yn pasio o fewn 1 cilomedr i'r safle.

3.2 Mae'r safle arfaethedig ym Mhenhesgyn wedi'i leoli oddi ar y B5420 ar hyd isffordd sy'n cysylltu'r B5420 â Ffordd Porthaethwy i Bentraeth yr A5025. Lleolir gwersyll anawdurdodedig Teithwyr yr Oes Newydd yn y gilfan oddi ar yr A5025, tua 1.5 cilomedr i'r dwyrain o safle Penhesgyn.

3.3 Mae'r safle'n cynnwys dau gae sy'n eiddo i'r Cyngor Sir ac mae eu harwynebedd tua 3.5 hectar (8.65 erw) a chae arall i'r de sydd mewn perchnogaeth breifat ac sydd tua 2.91 hectar (7.19 erw) sy'n rhoi cyfanswm o 6.41 hectar (15.84) o dir. Bydd angen yr ail gae ar gyfer mynediad i'r ddau gae sydd ym mherchnogaeth y Cyngor Sir. Ystyrir ar hyn o bryd ei bod yn annhebygol y bydd angen y cae cyfan at ddibenion adeiladu ffordd fynediad, ac mae'n debygol y gellir cadw'r rhan fwyaf o'r cae fel tir amaethyddol.

3.4 Gwnaed y sylwadau cyffredinol a ganlyn fel rhan o'r broses o arfarnu'r safle:

- Lleolir y safle wrth ymyl Canolfan Ailgylchu bresennol Penhesgyn a hen safle tirlenwi Penhesgyn
- Byddai'n rhaid i fynediad i'r safle groesi cae sydd mewn perchnogaeth breifat a byddai'n rhaid ad-drefnu'r giât ddiogelwch ar gyfer Canolfan Ailgylchu Penhesgyn (CAP). Yn ogystal, byddai angen man troi yn y fynedfa i CAP ar gyfer yr adegau nad yw'r ganolfan ar agor i'r cyhoedd, i alluogi troi cerbydau
- Mae'r safle mewn lleoliad gwledig heb fynediad at amwynderau na chyfleusterau lleol o fewn pellter cerdded cyfleus. Nid oes unrhyw lwybrau cyhoeddus yn croesi'r safle. Lleolir y llwybr cyhoeddus agosaf i'r safle tua 20-30 metr i'r dwyrain, ac mae'n cysylltu eiddo Cae Uchaf a Bryn-eryr-Uchaf a Bryn-eryr-Isaf
- Mae'r safle'n cael ei guddio'n dda gan ei dopograffi a'r gwrychoedd a choed y gwrychoedd o'i amgylch, ac ni ellir ei weld yn hawdd. Gellir cael golygfa o'r safle o bell o'r mannau cyhoeddus tua'r gorllewin a'r gogledd orllewin, tua 2 gilomedr i ffwrdd. Mae eiddo Bryn-eryr-Uchaf a Bryn-eryr-Isaf yn weladwy o'r safle i'r gogledd, tua 800 metr i ffwrdd
- Mae'r ddau gae lle byddai'r pedair llain wedi'u lleoli ar lethr serth ac mae'r draenio'n wael.
- Byddai angen ffordd fynediad newydd i gael mynediad i'r pedair llain a byddai hynny'n golygu llawer o waith draenio a gwaith daear.
- Byddai angen cloddiau i ffurfio bwnd lleihau sŵn ar hyd y terfyn gorllewinol (gweler isod)
- Byddai angen cysylltiadau at ffynonellau dŵr yfed a thrydan
- Mae carthffosiaeth yn debygol o gael ei reoli trwy ddefnyddio tanc septig.

3.5 Mae digon o le ar gyfer y pedair llain breswyl barhaol arfaethedig ar safle Penhesgyn lle byddai angen creu ffordd fynediad newydd a datblygu llwyfan ar gyfer y pedair llain breswyl. Nid oes dim cyfyngiadau wedi deillio o'r arfarniad cyffredinol o'r safle a fyddai'n golygu na fyddai'r safle'n addas fel safle preswyl parhaol ar gyfer y gymuned teithwyr. Byddai'n rhaid ail-ddylunio rhywfaint ar fynedfa'r cyhoedd i Ganolfan Ailgylchu Penhesgyn (CAP), giât y fynedfa a ffens ddiogelwch y safle.

3.6 Lleolir trydydd cae, sydd mewn perchnogaeth breifat, i'r de o'r ddau gae a ddisgrifir uchod. Byddai angen cael mynediad ar draws y trydydd cae hwn i ddarparu mynediad o'r safle i'r rhwydwaith ffyrdd lleol. Rhagwelir y bydd y rhan fwyaf o'r cae yn cael ei gadw fel tir amaethyddol, yn amodol ar ystyriaethau manylach o ran dylunio.

# 4 Cynigion y Cynllun

4.1 Mae cynnig y cynllun yn darparu pedair llain ar gyfer safle preswyl parhaol ym Mhenhesgyn. Mae'r gofynion ar gyfer safle preswyl wedi'u disgrifio eisoes yn adrannau 2.14 a 2.15 o'r PAR hwn ond fe'u hailadroddir isod er hwylustod. Ymgynghorir â'r gymuned o Deithwyr yr Oes Newydd yn ystod y broses ddylunio. O ran pob llain breswyl, ystyrir y gofynion a ganlyn:-

- ffordd fynediad i'r safle ar draws cae;
- bloc amwynder sy'n cynnwys toiled, ystafell ymolchi, cegin, storfa a lle bwyta;
- bloc amwynder sydd wedi'i gysylltu â'r cyflenwad dŵr a gwasanaethau/ cyfleusterau eraill;
- llawr caled ar bob llain ar gyfer cerbyd byw'r aelwyd;
- llawr caled gwastad gyda systemau draenio priodol;
- arwyneb y mae'n hawdd ei lanhau a'i gynnal a'i gadw;
- cynhwysydd addas ar gyfer sbwriel cartref;
- pwyntiau cysylltu â thrydan er mwyn gallu gosod cartrefi symudol mewn lleoedd gwahanol ar y safle;
- ffordd o gadw'r cartrefi symudol yn ddiogel yn y llain yn ystod gwyntoedd cryf, fel cylchoedd dur wedi'u gosod mewn concrid;
- cysylltiad â systemau draenio a charthffosiaeth; a
- lle i sychu dillad.

4.2 Bydd y pedair llain wedi'u gwahanu o'i gilydd, ac yn annhebyg i rai safleoedd preswyl parhaol eraill, ni fyddant wedi'u trefnu mewn cylch. Mae hyn yn rhannol oherwydd gofynion y gymuned o deithwyr yr oes newydd y deallir eu bod eisiau rhywfaint o breifatrwydd a bod o'r neilltu, ac yn rhannol oherwydd natur serth y safle.

4.3 Bydd angen man gwastad bach ar gyfer pob safle, tua 20 metr x 20 metr o ran maint, gyda mynediad uniongyrchol i ffordd fynediad newydd a fydd yn cysylltu â ffordd fynediad Canolfan Ailgylchu Penhesgyn. Efallai y bydd angen darparu storfa finiau ar gyfer casglu sbwriel yn agos i'r is-ffordd a'r ffordd fynediad i Ganolfan Ailgylchu Penhesgyn, sy'n cysylltu â'r B5420 tua 60 metr i'r de o Lasfryn.

4.4 Bydd gwrychoedd presennol y cae o amgylch y safle yn cael eu cadw er mwyn cadw cymeriad tirwedd yr ardal a hefyd i ddarparu sgrin weledol ar gyfer y safle. Os yn bosib, bydd gwrych presennol sy'n diffinio man gwahanu'r ddau gae yn cael ei gadw, er ei bod yn debygol y bydd gofyn i'r ffordd fynediad wasanaethu'r cae a leolir bellaf, i gyfeiriad y gogledd ddwyrain.

4.5 Mae rhagor o waith i'w wneud eto i ddatblygu cynigion presennol y cynllun ac mae'r Asesiadau Technegol a nodir yn Adran 5 isod wedi dechrau llywio'r broses ddylunio. Er enghraifft, oherwydd y materion posibl o ran llwch yng nghyffiniau'r safle ac ansawdd yr aer, mae gofyn lleoli'r lleiniau mor bell â phosib o Ganolfan Ailgylchu Penhesgyn er mwyn cyflawni lefelau derbyniol o ran ansawdd yr aer. Daeth yn amlwg hefyd y bydd angen mesurau lliniaru sŵn yn ffurf rhwystr acwstig, fyddai'n cael ei godi mewn rhai rhannau o Ganolfan Ailgylchu Penhesgyn i liniaru effeithiau'r gwaith anaml sy'n cynhyrchu sŵn.

4.6 Bydd unrhyw fesurau lliniaru a amlinellir uchod ac fel yr awgrymwyd fel rhan o'r asesiadau technegol (dylid cyfeirio at adran 5 isod), ac sydd ar gael fel dogfennau ar wahân, yn cael eu hymgorffori o fewn cynigion y cynllun ac yn cael eu cynnwys fel rhan o unrhyw gais cynllunio.

# 3. Asesiadau Technegol

5.1 Cynhaliwyd arfarniadau technegol ar gyfer y pynciau amgylcheddol canlynol ar safle Penhesgyn yn 2016/17. Y nod wrth gynnal yr asesiadau technegol oedd canfod a oedd unrhyw resymau neu gyfyngiadau technegol a fyddai'n golygu na fyddai'r safle'n addas i gael ei ddefnyddio fel safle preswyl parhaol. Yn ychwanegol at yr arfarniadau technegol penodol, cafodd ystyriaethau mwy cyffredinol fel maint y safle, mynediad a nodweddion ffisegol eraill eu hystyried hefyd ac fe'u hadroddwyd uchod yn Adran 4.

5.2 Ymgymerwyd â'r arfarniadau technegol a ganlyn ac fe'u crynhoir isod:-

- Asesiad o Ansawdd yr Aer
- Asesiad o Effeithiau Sŵn
- Asesiad Ecolegol

5.3 Oherwydd natur uchel a serth y safle ni chynhaliwyd Asesiad o'r Perygl o Lifogydd fel rhan o'r PAR hwn. Fodd bynnag, gall fod yn ofyniad ar gyfer unrhyw gais cynllunio manwl a bydd yn destun ymgynghoriad gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol.

**Asesiad o Ansawdd yr Aer**

5.4 Mae'r safle'n agos at gyn safle tirlenwi a chanolfan ailgylchu sy'n dal yn weithredol, a allai olygu risg posibl i iechyd; fodd bynnag nid yw'r safle wedi'i leoli o fewn Ardal Rheoli Ansawdd yr Aer (AQMA). Gan fod y datblygiad arfaethedig yn un bychan gyda gwaelodlin llygrwyr isel, barnwyd fod asesiad gwaelodlin yn ddigon i asesu amlygiad posibl defnyddwyr y dyfodol a derbynyddion presennol fel defnyddwyr Canolfan Ailgylchu Penhesgyn.

5.5 Yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, rhoddwyd sylw dyladwy i faterion yn ymwneud ag iechyd a llesiant posibl y preswylwyr tebygol ar Safle Penhesgyn.

5.6 Daeth yr astudiaeth gwaelodlin i'r casgliad bod lefelau gormodol o nitrogen deuocsid ($NO_2$) ar ffin y safle yn annhebygol. Mae'r amodau hyn yn bodoli eisoes ac nid ydynt yn debygol o waethygu o ganlyniad i'r datblygiad. Mae hefyd yn debygol na fydd lefelau'r deunydd gronynnol ($PM_{10}$) yn uwch na lefelau derbyniol ar ffin y safle ac felly ni thybir fod effeithiau $PM_{10}$ arwyddocaol. Fodd bynnag, tybir fod effeithiau baeddu llwch o ganlyniad i symudiadau cerbydau gwastraff a Cherbydau Nwyddau Trwm (HGV) sy'n gysylltiedig â'r cyfleusterau ailgylchu o bosibl yn risg uchel.

5.7 Daeth yr asesiad risg ar gyfer effeithiau posibl llwch yn ystod y gwaith o adeiladu'r lleiniau arfaethedig a'r ffordd fynediad i'r casgliad bod y safle'n safle risg isel o ran effeithiau baeddu llwch ac effeithiau ar iechyd pobl.

5.8 Ni thybir fod effeithiau ar dderbynyddion newydd o Nwy Tirlenwi (LFG) o'r cyn safle tirlenwi'n arwyddocaol. Bydd crynodiadau methan yn sylweddol is na lefelau fflamadwyedd ac ni fyddant ychwaith yn cael effaith andwyol ar iechyd pobl. Disgwylir y bydd crynodiadau carbon deuocsid yn gwasgaru nes byddant yn grynodiadau atmosfferig ansylweddol. Ni chredir felly fod angen mesurau i liniaru effeithiau LFG.

5.9 Ni thybir fod lefelau arogleuon yn arwyddocaol. Yn seiliedig ar gofnodion o gwynion a gafwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn a Cyfoeth Naturiol Cymru bernir nad oes angen mesurau lliniaru. Nid yw crynodiadau bio-aerosol yn debygol o fod yn uwch na throthwyon Asiantaeth yr Amgylchedd ar y safle, cyn belled â bod derbynyddion wedi'u lleoli ymhellach na 250 m oddi wrth safle compostio Penhesgyn.

5.10 Os bydd mesurau priodol i liniaru effaith llwch yn cael eu cyflwyno a bod preswylwyr newydd wedi'u lleoli fwy na 250 m i ffwrdd oddi wrth gyfleusterau compostio presennol Penhesgyn, daeth yr asesiad o ansawdd yr aer i'r casgliad y bydd y cynllun arfaethedig ar gyfer safle preswyl parhaol ar gyfer y gymuned teithwyr yn addas i gael ei ystyried ar gyfer caniatâd cynllunio.

**Asesiad o Effeithiau Sŵn**

5.11 Cafodd arolwg mesur sŵn ei gynnal i fesur lefelau sŵn amgylcheddol arferol yn ystod y dydd a'r nos. Mae'r safle wedi'i leoli mewn amgylchedd gwledig tawel iawn a'r brif ffynhonnell sŵn a oedd yn effeithio ar safle'r datblygiad yn ystod y dydd oedd sŵn gweithredu Canolfan Ailgylchu Penhesgyn (y Ganolfan Ailgylchu), a'r mwyaf amlwg oedd gwaith malu pren. Defnyddiwyd data'r arolwg i gynnal astudiaeth modelu sŵn i ragweld lefelau sŵn mewn yn lleoliadau ffasâd y lleiniau arfaethedig.

5.12 Disgwylir gallu cyflawni meini prawf sŵn allanol mewn cartrefi symudol gyda'r ffenestri ar agor ac ynghau. Disgwylir y bydd lefelau allanol yn cyflawni'r lefel is o 50 dB $L_{Aeq}$ fel y mae Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) yn ei argymell ar gyfer amwynderau allanol.

5.13 Dangosodd asesiad arall a gynhaliwyd yn unol â Nodyn Technegol 11: Sŵn (TAN 11) y bydd lleiniau posibl carafanau / ôl-gerbydau a fydd wedi'u lleoli ar safle'r datblygiad yn dod o fewn Categori Amlygiad i Sŵn (NEC) A yn ystod y dydd a'r nos. Mae hyn yn golygu na fydd angen ystyried sŵn fel ffactor wrth benderfynu rhoi caniatâd cynllunio.

5.14 Mae asesiad a gynhaliwyd yn unol â Safon Brydeinig (BS 4142:2014) a ddefnyddir i asesu lefelau sŵn o natur ddiwydiannol / masnachol wedi dangos potensial ar gyfer effaith andwyol o ganlyniad i waith gweithredu'r Ganolfan Ailgylchu yn ystod y dydd, gwaith malu pren yn fwyaf penodol. Felly mae cynllun lliniaru'n cael ei argymell a dylai gynnwys y canlynol:-

- Bwnd pridd ar hyd terfyn de orllewinol y Ganolfan Ailgylchu ar uchder o 1.5m;
- Hefyd dylid codi ffens â byrddau clos o bren acwstig 1.8m o uchder ar ymyl man malu pren y Ganolfan Ailgylchu.

5.15 Mae'r strategaeth lliniaru sŵn hon yn lleihau'r posibilrwydd o effaith andwyol nes ei fod yn cyrraedd lefel foddhaol ar draws y safle preswyl parhaol arfaethedig ar gyfer teithwyr ym Mhenhesgyn. Hefyd, gall y prosesau a'r gweithrediadau ailgylchu gwastraff presennol newid yn y dyfodol a gellid eu rheoli i leihau'r lefelau sŵn presennol ymhellach.

**Ecoleg**

5.16 Cynhaliwyd asesiad ecolegol rhagarweiniol ac Arolwg Cynefin Cam 1 ac asesiad o'r safle ym mis Tachwedd 2016. Mae'r cynefinoedd yn yr ardal a arolygwyd yn cynnwys glaswelltir gwael wedi'i wella'n rhannol, glaswelltir wedi'i wella, coed llydanddail, gwrychoedd a waliau cerrig sych, prysgwydd gwasgaredig a glaswelltir corsiog.

5.17 Mae'r ystyriaethau ecolegol posibl ar y safle'n cynnwys:

- Potensial i amharu ar goeden lle gallai ystlumod glwydo (yn ddibynnol ar leoliad y ffens ddiogelwch arfaethedig)
- Amharu ar adar sy'n nythu wrth gael gwared ar lystyfiant (os bydd y safle'n cael ei glirio yn ystod y tymor nythu adar)
- Mae angen asesu pwll cyfagos (nid yw o fewn ffiniau'r safle ond i'r gogledd orllewin o'r safle) i ganfod y potensial am amffibiaid fel mesur rhagofalus

5.18 Nid yw'n ymddangos bod unrhyw gyfyngiadau ecolegol arwyddocaol ar y safle a fyddai'n arwain at wrthod caniatâd cynllunio am resymau ecolegol. Mae cyfleoedd ar y safle yn ystod cam dylunio'r datblygiad i gadw gwrychoedd mewn mannau a ffiniau'r safle a hefyd i gynyddu bioamrywiaeth bosibl y safle.

# 5 Crynodeb a Chasgliadau

6.1 Mae'r Adroddiad Arfarnu Rhagarweiniol (PAR) yn crynhoi canfyddiadau'r asesiadau technegol a gynhaliwyd hyd yma; mae'r arfarniadau technegol ar gael hefyd fel dogfennau unigol. Mae canfyddiadau'r PAR yn dangos fod safle Penhesgyn yn lleoliad addas ar gyfer datblygiad preswyl parhaol ar gyfer teithwyr. Bydd angen ymgorffori rhai mesurau lliniaru yng nghynigion y cynllun er mwyn i'r safle ateb rhai gofynion, yn enwedig o ran sŵn ac ansawdd yr aer. Argymhellir bwrw ymlaen â'r dyluniad a chynigion y cynnig felly gyda golwg ar baratoi cais cynllunio manwl i'w gyflwyno rywbryd yn ystod 2017.

6.2 Y camau nesaf fydd paratoi dyluniadau amlinellol yn unol â chanllawiau ymarfer da a thrafodaethau â rhanddeiliaid allweddol i sicrhau bod gofynion technegol ac iechyd a diogelwch eraill yn cael eu hymgorffori yng nghynigion y cynllun. Efallai y bydd gofyniad i gynnal rhagor o asesiadau technegol neu amgylcheddol i sicrhau bod yr holl wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer cais cynllunio manwl ar gael. Ymgynghorir â'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystod y broses hon i sicrhau bod modd paratoi a dilysu cais cynllunio dilys i gael ei ystyried ymhellach. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gwarantu y bydd y cais cynllunio'n llwyddiannus nac yn ystyried materion eraill a all effeithio ar y gallu i ddarparu safle preswyl parhaol ym Mhenhesgyn.

6.3 Efallai y bydd gofyniad hefyd i gynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol neu AEA gan fod y safle'n cynnwys tir nad yw wedi cael ei ddatblygu o'r blaen a gall cyfanswm yr arwynebedd a fydd ei angen ddod o fewn gofynion y Rheoliadau AEA. Unwaith eto, bydd hyn yn fater lle bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn penderfynu beth sydd ei angen er mwyn dilysu unrhyw gais cynllunio.

# Atodiad A

Ffigur 1: Cynllun Lleoliad y Safle
Ffigur 2: Cynllun y Safle Presennol




**ANGLESEY GYPSY AND TRAVELLER PROJECT**
**PERMANENT RESIDENT SITE, PENHESGYN - LOCATION PLAN**
1: 25,000 @ A3
Figure Ref - CS90626/Figure 1




**ANGLESEY GYPSY AND TRAVELLER PROJECT**
**PERMANENT RESIDENT SITE, PENHESGYN - EXISTING SITE PLAN**
1: 2500 @ A3
Figure Ref - CS90626/Figure 2

# Atodiad B

Lluniau o'r safle



Photograph looking north west, across the site towards Pentraeth Forest



Photograph looking west, towards Penmynydd and the waste transfer station

**ANGLESEY GYPSY AND TRAVELLER PROJECT**
**PERMANENT RESIDENT SITE, PENHESGYN - SITE PHOTOGRAPHS**
Figure Ref - CS90626/Figure 3



Photograph of site entrance to the waste Recycling Centre



Photograph looking  north towards waste transfer station from the site entrance access road



Photograph looking west towards the waste transfer station



Photograph looking north west from the western boundary of the site

**ANGLESEY GYPSY AND TRAVELLER PROJECT**
**PERMANENT RESIDENT SITE, PENHESGYN - SITE PHOTOGRAPHS**
Figure Ref - CS90626/Figure 4

# Atodiad C

Cynllun Cyfyngiadau'r Safle




**ANGLESEY GYPSY AND TRAVELLER PROJECT**
**PERMANENT RESIDENT SITE, PENHESGYN - ENVIRONMENTAL CONSTRAINTS PLAN**
1: 2500 @ A3
Figure Ref - CS90626/Figure 5

**Capita Property and Infrastructure Ltd**
Bryn Eirias
Abergele Road
Colwyn Bay LL29 8BY

Tel +44 (0)1492 510200
Fax+44 (0)1492 510201

CAPITA

Commercial in Confidence

Prosiect Sipsiwn a Theithwyr Ynys Môn
Man Aros Dros Dro, Star

# Adroddiad Arfarnu Rhagarweiniol (PAR)

Chwefror 2017



We | Listen Create Deliver

# Rheoli Ansawdd

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Rhif y Gwaith** | CS/090626 | | |
| **Prosiect** | Prosiect Sipsiwn a Theithwyr Ynys Môn | | |
| **Lleoliad** | Ynys Môn | | |
| **Teitl** | Adroddiad Arfarnu Rhagarweiniol (PAR) Man Aros Dros Dro - Star | | |
| **Cyf y Ddogfen** | CS/090626/03/02 Reports | **Rhifyn / Diwygiad** | V1 |
| **Dyddiad** | Chwefror 2017 | | |
| **Paratowyd gan** | Jon Stoddard | | |
| **Gwiriwyd gan** | Laura Fretwell | | |
| **Awdurdodwyd gan** | Jon Stoddard | | |

# Statws / Hanes Diwygio

| Diwygiad | Dyddiad | Rhifyn / Pwrpas / Sylwadau | Paratowyd | Gwiriwyd | Awdurdodwyd |
|---|---|---|---|---|---|
| V1 | 31-01-17 | Dogfen Gyhoeddus | J. Stoddard | L. Fretwell | J. Stoddard |
| | | | | | |

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| 0. Crynodeb Gweithredol | 1 |
| 1. Cyflwyniad | 2 |
| 2. Cefndir | 4 |
| 3. Disgrifiad o'r Safle | 9 |
| 4. Cynigion y Cynllun | 10 |
| 5. Asesiadau Technegol | 15 |
| 6. Crynodeb a Chasgliadau | 18 |

# Ffigurau

Ffigur 1: Cynllun Lleoliad y Safle

# Atodiadau

Atodiad A : Ffigur 1 : Cynllun Lleoliad y Safle
Ffigur 2 : Cynllun y Safle Presennol

Atodiad B : Lluniau o'r Safle

Atodiad C : Cynllun Cyfyngiadau'r Safle

# Crynodeb Gweithredol

Mae gofyniad cyfreithiol ar Gyngor Sir Ynys Môn, yn ôl Deddf Tai (Cymru) 2014, i asesu ac i ddiwallu anghenion llety'r boblogaeth yn ei ardal. Mae hyn yn cynnwys anghenion y Gymuned Sipsiwn a Theithwyr a phobl sy'n gysylltiedig â sioeau teithiol. O dan Ran 3 o'r Ddeddf, mae gofyniad ar Awdurdodau Lleol i gynnal Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn eu hardal. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru'n nodi y dylid canfod, deall a mynd i'r afael ag anghenion llety sipsiwn a theithwyr ar yr un sail â sectorau eraill o'r gymuned.

Yn 2015, ac yn unol â'r ddeddfwriaeth, roedd Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd wedi mynd ati ar y cyd i baratoi Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Ynys Môn a Gwynedd (GTAA). Cyhoeddwyd y GTAA yn 2016 a chymeradwywyd y cynnwys gan Lywodraeth Cymru yn ôl Adran 102 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

Yn dilyn ymlaen o GTAA 2016, cynhaliodd Cyngor Sir Ynys Môn broses Ymgynghori oedd wedi canfod yr angen am Fan Aros Dros Dro i ddarparu llety dros dro i sipsiwn a theithwyr. Yn dilyn proses ddethol safleoedd, canfuwyd bod llecyn o dir yn Star, rhwng yr A55 a'r A5 yn safle addas i'w yrru yn ei flaen.

Penodwyd Capita gan Gyngor Môn yn Nhachwedd 2016 i ymgymryd â nifer o arfarniadau technegol er mwyn asesu pu'n a yw'r safle yn Star yn addas fel Man Aros Dros Dro. Roedd asesiadau technegol yn cynnwys ymchwiliad pellach i wahanol bynciau, sef ansawdd yr aer, sŵn, y perygl o lifogydd ac ecoleg. Ymgynghorwyd â Swyddog Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Sir Ynys Môn yn ystod y gwaith o baratoi'r asesiadau technegol.

Mae'r Adroddiad Arfarnu Rhagarweiniol (PAR) yn crynhoi canfyddiadau'r asesiadau technegol a gynhaliwyd hyd yma; mae'r arfarniadau technegol ar gael hefyd fel dogfennau unigol. Mae canfyddiadau'r PAR yn dangos fod safle Star yn lleoliad addas ar gyfer Man Aros Dros Dro. Bydd angen ymgorffori rhai mesurau lliniaru yng nghynigion y cynllun er mwyn i'r safle ateb rhai gofynion, yn enwedig o ran sŵn. Felly, argymhellir bwrw ymlaen â'r dyluniad a chynigion y cynnig gyda golwg ar baratoi cais cynllunio manwl i'w gyflwyno rywbryd yn ystod 2017.

Y camau nesaf fydd paratoi dyluniadau amlinellol ar gyfer trafodaethau â rhanddeiliaid allweddol i sicrhau bod gofynion technegol ac iechyd a diogelwch eraill yn cael eu hymgorffori yng nghynigion y cynllun. Efallai y bydd gofyniad i gynnal rhagor o asesiadau technegol neu amgylcheddol i sicrhau bod yr holl wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer cais cynllunio manwl ar gael. Ymgynghorir â'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystod y broses hon i sicrhau bod modd paratoi a dilysu cais cynllunio dilys i gael ei ystyried ymhellach. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gwarantu y bydd y cais cynllunio'n llwyddiannus nac yn ystyried materion eraill a all effeithio ar y gallu i ddarparu Man Aros Dros Dro yn Star.

# 1. Cyflwyniad

1.1 Adroddiad Arfarnu Rhagarweiniol (PAR) yw hwn sy'n adrodd ynghylch dichonoldeb bwrw ymlaen â'r cynigion ar gyfer Man Aros Dros Dro ar gyfer y gymuned sipsiwn a theithwyr ar lecyn o dir yn Star, Ynys Môn. Mae'r safle yn llecyn o dir sydd heb ei ddatblygu, nad oes digon o ddefnydd yn cael ei wneud ohono ar hyn o bryd, a leolir rhwng Llanfairpwll a'r ardal i'r dwyrain o'r Gaerwen.




**Ffigur 1 – Cynllun Lleoliad y Safle – Cyfeirlwch hefyd at Atodiad A**

1.2 Mae'r PAR yn darparu disgrifiad o gefndir a chyd-destun y datblygiad arfaethedig ac mae'n crynhoi canfyddiadau cychwynnol nifer o arfarniadau technegol sydd ar gael fel dogfennau ar wahân.

1.3 Paratowyd y PAR gan Capita Real Estate and Infrastructure ar ran Adran Tai Cyngor Sir Ynys Môn. Penodwyd Capita ar 14eg Tachwedd 2016 yn dilyn proses gyflwyno tendr cystadleuol o dan Lot 'Cynhwysfawr' Fframwaith y GCC, NPS-PS-00014-14.

1.4 Mae'r PAR hwn wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

**Tabl 1.1 – Strwythur yr Adroddiad Arfarnu Rhagarweiniol (PAR)**

| Adran | Disgrifiad |
|---|---|
| 1. Cyflwyniad | Cyflwyniad byr i darddiad, pwrpas a chynnwys yr Adroddiad Arfarnu Rhagarweiniol (PAR) hwn |
| 2. Cefndir | Disgrifiad o gefndir Prosiect Sipsiwn a Theithwyr Ynys Môn, gan gynnwys y broses o ddethol safle |
| 3. Disgrifiad o'r Safle | Disgrifiad o'r safle presennol yn Star, ei leoliad a'i nodweddion ffisegol |
| 4. Cynigion y Cynllun | Disgrifiad o gynigion amlinellol y cynllun |
| 5. Asesiadau Technegol | Crynodeb o'r Arfarniadau Technegol a gynhaliwyd ar gyfer y Man Aros Dros Dro yn Star |
| 6. Crynodeb a Chasgliadau | Crynodeb o'r PAR a chanfyddiadau'r adroddiad |

# 2. Cefndir

**Deddfwriaeth mewn perthynas â darparu Safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr**

2.1 Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ddarparu safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr lle mae angen wedi'i ganfod. Mae dogfen Llywodraeth Cymru *'Teithio at Ddyfodol Gwell* (2015) yn cyflwyno fframwaith polisi y dylai Awdurdodau Lleol ei ddilyn. Mae Cylchlythyr Llywodraeth Cymru *30/2007 Cynllunio ar gyfer Safleoedd Carafanau Sipsiwn a Theithwyr* yn cryfhau'r gofyniad bod awdurdodau lleol yn canfod ac yn darparu safleoedd digonol a phriodol yn eu Cynlluniau Datblygu Lleol.

2.2 Mae gofyniad cyfreithiol felly ar Gyngor Sir Ynys Môn (yn ôl Deddf Tai (Cymru) 2014) i asesu ac i ddiwallu anghenion llety'r boblogaeth yn ei ardal. Mae hyn yn cynnwys anghenion y Gymuned Sipsiwn a Theithwyr a phobl sy'n gysylltiedig â sioeau teithiol. Mae'r term Sipsiwn a Theithwyr yn cynnwys Sipsiwn Romani a Theithwyr Gwyddelig yn ogystal â phobl o unrhyw grŵp sy'n byw bywyd teithiol. Mae hefyd yn cynnwys pobl sy'n gysylltiedig â Sioeau Teithiol a Theithwyr yr Oes Newydd sydd â hanes o deithio a byw mewn cartrefi symudol.

**Tabl 2.1 – Deddfwriaeth a pholisïau allweddol sy'n gysylltiedig â darparu Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr**

| Teitl | Disgrifiad |
|---|---|
| Deddf Tai (Cymru) 2014 | Dywed Adrannau 225 a 226 fod dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i gynnal asesiad o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr |
| Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 | Mae'r Ddeddf yn cydgrynhoi'r ddeddfwriaeth ar safleoedd cartrefi symudol yng Nghymru. |
| Cylchlythyr 30/2007 Cynllunio ar gyfer Safleoedd Carafanau Sipsiwn a Theithwyr | Mae Cylchlythyr Llywodraeth Cymru'n tynnu sylw at y gofyniad ar Awdurdodau Lleol i ganfod ac i ddarparu safleoedd priodol yn eu cynlluniau. |

2.3 Cafodd *"Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Ynys Môn a Gwynedd 2016 (yr Asesiad o Anghenion)"* ei baratoi ar y cyd gan Gyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd yn ystod ail hanner 2015 ac mae'n diweddaru Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Gogledd Orllewin Cymru blaenorol a gyhoeddwyd yn 2013.

2.4 Deallir y cynhaliwyd GTAA 2016 yn unol â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru, ac fel yr argymhellwyd yn y canllawiau gan Grŵp Llywio oedd yn cynnwys Aelodau Cynghorau Ynys Môn a Gwynedd, swyddogion o'r adrannau Polisi Cynllunio a Thai, ynghyd ag aelod o'r Gymuned Sipsiwn a Theithwyr. Cymeradwywyd y GTAA (2016) gan Gabinet Cyngor Gwynedd ar 19eg Ionawr 2016, a gan Bwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn ar 8fed Chwefror 2016.

**Gwersylloedd Anawdurdodedig**

2.5 Ym Môn, fel mewn sawl rhan arall o Gymru, ceir nifer o wersylloedd anawdurdodedig bob blwyddyn. Efallai bod safleoedd anawdurdodedig o'r fath yn darparu amodau byw ansicr a gwael weithiau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, yn ogystal â'u bod yn tarfu ar gymdogion sydd wedi ymgartrefu yn eu cyffiniau, ac yn creu pryder iddynt. Bydd costau posibl i'r Cyngor yn cynnwys mynd i'r afael ag unrhyw faterion o ran rheolaeth a gorfodaeth. Ystyrir bod Sipsiwn a Theithwyr sydd heb lain awdurdodedig ar gyfer eu carafanau neu gerbydau byw yn ddigartref.

2.6 Dengys tystiolaeth o gofnodion y Cyngor ei hun o wersylloedd anawdurdodedig bod y rhain yn debygol o ymddangos yn ardal Caergybi, pan fo Teithwyr Sipsi yn teithio yn ôl ac ymlaen i Iwerddon drwy Borthladd Caergybi. Yn ogystal, ac mewn lleoliad mwy canolog ar yr ynys, mae Stad Ddiwydiannol Mona ar gyrion Llangefni yng nghanol yr ynys wedi dod yn fan aros boblogaidd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, gyda grŵp cymharol fawr yn dewis aros am 2-3 wythnos ym mis Gorffennaf/Awst bob blwyddyn. Mewn blynyddoedd diweddar, cafwyd gwersylloedd anawdurdodedig eraill yn ymddangos yn ystod misoedd y gaeaf.

**Yr angen am Fannau Aros Dros Dro**

2.7 Nododd GTAA 2016 yr angen am y canlynol ar Ynys Môn:

- Safle preswyl parhaol i ddiwallu anghenion Teithwyr yr Oes Newydd sy'n deillio o wersyll anawdurdodedig (o bedair llain) a leolir ar hyn o bryd mewn cilfan; a
- Dau safle i'w defnyddio fel Mannau Aros Dros Dro ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ar hyd yr A55 ym Môn, un yng Nghaergybi ac un yng nghanol yr ynys.

2.8 Mae'r PAR hwn yn ymwneud â'r ail o'r rhain, sef Man Aros Dros Dro ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ar hyd yr A55 yng nghanol yr ynys.

**Y Broses Ddethol Safle**

2.9 Wrth ymgymryd â'r GTAA a ddisgrifiwyd uchod, ymgymerodd Cyngor Sir Ynys Môn â phroses ddethol safle i ganfod y lleoliad mwyaf priodol ar gyfer Man Aros Dros Dro yng nghanol yr ynys.

2.10 O fewn y broses hon, defnyddiwyd saith maen prawf gan Gyngor Sir Ynys Môn, sy'n deillio o'r ddogfen *Ymgynghoriad ar Safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr ar Ynys Môn 11eg Chwefror – 11eg Mawrth, 2016* sef:

| Tabl 2.2 – Meini Prawf Dethol Safle | |
|---|---|
| Meini Prawf | Sylwadau/Nodiadau |
| 1. Lleoliad | Gofyniad i ddarparu lleoliad yng nghanol yr ynys |
| 2. Hygyrchedd | Mynediad i ac oddi ar brif ffyrdd, sef yr A55/A5 |
| 3. Addasrwydd y Safle | Addasrwydd ffisegol y safle i ddiwallu anghenion |
| 4. Mwynderau | Dylai mwynderau a chyfleusterau lleol fel siopau ac ysgolion fod yn agos (sy'n bwysicach wrth ystyried lleoliad safleoedd preswyl na mannau aros dros dro) |
| 5. Yr Amgylchedd | Ansawdd yr amgylchedd o amgylch y safle, gan gynnwys halogi ar y safle, llygredd gerllaw, lefelau sŵn, y perygl o lifogydd |
| 6. Cyfleustodau | Argaeledd ac agosrwydd cyfleustodau fel trydan, dŵr a charthffosiaeth, er y gellid defnyddio system garthffosiaeth nad yw'n rhan o'r brif rwydwaith ynghyd â generaduron trydan mewn mannau aros dros dro |
| 7. Argaeledd | Mewn cymhariaeth, mae safle Cyngor neu un o dan berchnogaeth gyhoeddus yn debygol o fod yn haws ac yn llai drud i'w gyflenwi |

**Y Cyfnod Ymgynghori Cyntaf**

2.11 Nodwyd sawl safle yn yr ymarfer ymgynghori cyntaf hwn fel mannau aros dros dro posibl yn y lleoliadau a ganlyn. Nodwch fod Safleoedd 1 - 3 yn safleoedd preswyl parhaol ac nad ydynt wedi'u cynnwys isod:-

- Tir gwag yn Stad Ddiwydiannol Mona – Safle A (Safle 4)
- Tir gwag yn Stad Ddiwydiannol Mona – Safle B (Safle 5)
- Tir gwag yn Stad Ddiwydiannol Penrhos – (Safle 6)
- Tir yn union i'r dwyrain o B&M (Homebase gynt) – (Safle 7)
- Tir i'r de o Alpoco (Safle 8)

2.12 Ymgynghorodd y Cyngor â'r cyfleustodau, cyrff amgylcheddol statudol ac adrannau'r Cyngor yn Chwefror a Mawrth 2016. O ganlyniad i'r broses ymgynghori, ystyriodd Pwyllgor Gwaith y Cyngor na ddylid mynd ar drywydd yr un o'r Mannau Aros Dros Dro posibl uchod, ac felly bod angen canfod safleoedd eraill ar gyfer ymarfer ymgynghori pellach. Nid oedd yr un o'r safleoedd ymgeisiol yn y broses ymgynghori gyntaf a oedd o dan berchnogaeth y Cyngor yn cael eu hystyried i fod yn addas, ac felly diwygiwyd y meini prawf chwilio i gynnwys safleoedd posibl o fewn perchnogaeth breifat.

**Yr Ail Gyfnod Ymgynghori**

2.13 Felly ymgymerwyd ag ail ymarfer ymgynghori am gyfnod o bedair wythnos, a oedd yn rhedeg o'r 2[il] Mehefin – 1[af] Gorffennaf 2016. Roedd yr ymarfer ymgynghori'n canolbwyntio ar ddarparu Mannau Aros Dros Dro ar gyfer y safleoedd a ganlyn ar y rhestr fer:-

| **Man Aros Dros Dro am hyd at bythefnos i Sipsiwn a Theithwyr sydd eisoes yn gwersylla yng nghanol yr ynys** | **Man Aros Dros Dro yn ardal Caergybi am hyd at ddwy noson** |
|---|---|
| Safle 1 – Stribedyn o dir rhwng yr A55/A5 rhwng Llanfairpwll a Chroesffordd Star | Safle 4 – Tir ar hen fferm, oddi ar Lôn Cyttir, Caergybi (i'r de o Ysgol Kingsland) |
| Safle 2 – Parsel o dir ar Fân-ddaliad yn y Gaerwen | Safle 5 – Tir yn Fferm Tyddyn Lantern, Caergybi |
| Safle 3 – Tir ger yr A5 yn ymyl Fferm Cymunod, Bryngwran | |

2.14 Mae'r Adroddiad Arfarnu Rhagarweiniol hwn yn ymwneud â dethol Man Aros Dros Dro yng nghanol yr ynys, ac nid safle yn ardal Caergybi. Felly dylid diystyru'r cyfeiriadau at Safleoedd 4 a 5 uchod, ac ni chawsant ond eu cynnwys er cyflawnder.

2.15 Mae angen i'r Man Aros Dros Dro yng nghanol yr ynys ddarparu lle ar gyfer hyd at 15 o garafanau.

**Mannau Aros Dros Dro**

2.16 Mae Mannau Aros Dros Dro ar gyfer gwersylloedd y mae eu hangen am gyfnodau cymharol fyr, sef safle ar gyfer arosiadau byr o hyd at 28 diwrnod. Mae'n rhaid i'r safleoedd hyn wneud darpariaeth ar gyfer gwaredu gwastraff, cyflenwad dŵr a glanweithdra, fan leiaf.

2.17 Deallir, yn ystod y broses ymgynghori gyntaf, mai'r hyn a ffafriwyd gan Sipsiwn a Theithwyr a chymunedau lleol oedd safle a oedd *"yn gwarchod preifatrwydd y deiliaid ac un nad oedd yn amharu'n sylweddol ar fusnesau ac aelwydydd cyfagos."*

[1] Ymgynghoriad ar Fannau Stopio Dros Dro ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn Ynys Môn 2[il] Mehefin – 1[af] Gorffennaf 2016 – para 4.1.2

2.18 Ar gyfer yr ail ymgynghoriad ar Fannau Aros Dros Dro, defnyddiwyd pump o feini prawf i sgorio'r safleoedd a ddetholwyd er mwyn profi a oeddynt yn addas ac yn ymarferol. Gwnaed mân newidiadau i'r meini prawf dethol yn dilyn y gwersi a ddysgwyd o'r broses ymgynghori gyntaf, sef:-

- Nid yw lleoliad mwyach yn faen prawf annibynnol ar yr amod bod ganddynt fynediad rhwydd i'r prif lwybrau trafnidiaeth
- Nid yw cyfleustodau wedi'u cynnwys mwyach fel maen prawf annibynnol oherwydd nid yw cysylltiad i'r prif wasanaethau'n hanfodol
- Nid yw mwynderau'n cael eu cynnwys fel maen prawf annibynnol oherwydd mae'r sawl sy'n defnyddio mannau aros dros dro wedi teithio i'r safleoedd hynny, ac ystyrir felly fod ganddynt eu cludiant eu hunain i ddefnyddio'r cyfleusterau y byddant eu hangen yn ystod eu harhosiad byr

- Cynhwysir maen prawf ychwanegol "Defnydd Cyfagos". Mae hwn yn asesu i ba raddau y gellir sicrhau preifatrwydd y safle er budd ei ddefnyddwyr a busnesau a thrigolion cyfagos i'r safle

2.19 Roedd canlyniadau'r ail ymgynghoriad yn argymell y ffafriwyd bwrw ymlaen ag un o'r ddau safle a ganlyn:

- Safle 1 – Stribedyn o dir rhwng yr A55/A5 rhwng Llanfairpwll a Chroesffordd Star
- Safle 2 – Parsel o dir ar Fân-ddaliad yn y Gaerwen

Yn dilyn ystyriaeth bellach, daeth Cyngor Sir Ynys Môn i'r casgliad, ar ôl pwyso a mesur, y gellir cynllunio a chyflenwi Safle 1 o fewn amserlen resymol, ond na ellid rhoi'r un sicrwydd ar gyfer Safle 2.

2.20 Mae'r Adroddiad Arfarnu Rhagarweiniol hwn yn archwilio dichonoldeb bwrw ymlaen â'r safle hwn, gyda golwg ar baratoi cais cynllunio manwl ar gyfer ei ddefnyddio fel Man Aros Dros Dro.

# 3. Disgrifiad o'r Safle

3.1 Mae safle'r Man Aros Dros Dro arfaethedig yn Star wedi ei nodi gan y Cyngor Sir fel y lleoliad mwyaf priodol ar gyfer Man Aros Dros Dro, yn dilyn proses i ddethol safleoedd a gynhaliwyd yn 2016 ac fel y disgrifiwyd uchod yn Adran 2.

3.2 Mae safle'r Man Aros Dros Dro arfaethedig yn Star wedi'i leoli rhwng Llanfairpwll a chroesffordd Star ar lain o dir rhwng yr A55 a'r A5. Mae tref Llanfairpwll tua 1 cilometr i'r dwyrain ac mae anheddiad Star i'r gogledd y tu draw i'r A55. Mae mesuriadau'r safle yn tua 435 metr o ran hyd a 50 metr o ran lled, ac mae ei arwynebedd yn tua 18,252 metr sgwâr neu 1.82 hectar.

3.3 Lleolir y safle rhwng dau goridor ffyrdd yr A55 a'r A5. Cwblhawyd y rhan hon o'r A55 (Gwibffordd Gogledd Cymru) ar draws Ynys Môn yn 2001, i gymryd lle'r A5. Dosbarthir yr A5 fel llwybr hanesyddol a ddyluniwyd gan Thomas Telford ar ddechrau'r 1900'au. I'r de o'r A5, ceir prif Lein Rheilffordd Caer – Caergybi sy'n ffurfio rhan o goridor cludiant ehangach ar draws y rhan hon o Ynys Môn.

3.4 Mae'r A55 ac ystâd feddal yn ffurfio ffin ogleddol y safle, a'r A5, y ffin ddeheuol. I'r gorllewin, mae'r ffin wedi'i diffinio gan ystâd feddal yr A55 a'r rhwydwaith ffyrdd lleol sy'n cysylltu'r A5 a phentref Star trwy gyfrwng pont dros yr A55. I'r dwyrain, mae'r ffin wedi'i diffinio gan gwrs dŵr Afon Braint sy'n llifo o dan yr A5 a thrwy gwlfert i gyfeiriad y de orllewin.

3.5 Mae'r safle sy'n cael ei ystyried yn cynnwys tri chae sydd ar hyn o bryd yn laswelltir garw a phrysgwydd. Mae'r caeau'n weddol wastad ar y cyfan ond mae llethr raddol o'r gorllewin i'r dwyrain. Mae pob un o'r caeau mewn perchnogaeth breifat gyda'r cae mwyaf gorllewinol yn eiddo i un tirfeddiannwr preifat a'r cael canol a dwyreiniol yn eiddo i gwmni coetir preifat. Mae'r cae dwyreiniol yn nodedig am ddioddef llifogydd o Afon Braint.

3.6 Mae'r cae sydd fwyaf i'r gorllewin wrth ymyl y bont dros yr A55 mewn perchnogaeth breifat. Rhoddwyd caniatâd cynllunio yn Hydref 2016 ar gyfer codi bloc stablau, ynghyd â newidiadau i'r fynedfa bresennol ar y tir wrth ymyl Caniátau.

3.7 Byddai angen i Gyngor Môn gaffael y caeau sydd mewn perchnogaeth breifat er mwyn bwrw ymlaen â'r Man Aros Dros Dro yn Star.

# 4. Cynigion y Cynllun

4.1 Y cynnig a wneir yn y cynllun yw darparu Man Aros Dros Dro. Er eglurder ac i osgoi amheuaeth, nodir y diffiniad o Fan Aros Dros dro yn y 'Canllaw Arfer Da o ran Dylunio Safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru', fel a ganlyn:-

*"Dylai Mannau Aros Dros Dro fod yn hynny'n union, dros dro. O ran pwrpas, dylent ddarparu llety ysbeidiol i Sipsiwn a Theithwyr sydd angen llety ar safle. Gall hyn fod oherwydd ffeiriau neu ddigwyddiadau diwylliannol fel Sioe Frenhinol Cymru neu hyd yn oed ar gyfer teithio rhwng Cymru ac Iwerddon a all arwain at gynnydd mewn galw am fannau o'r fath".*

Y prif nod felly yw darparu llety dros dro i sipsiwn a theithwyr ar safle dynodedig yn hytrach na chael un neu ragor o wersylloedd anawdurdodedig.

4.2 Mae'r ddogfen "Designing Gypsy and Traveller Sites – Good Practice Guide" yn disgrifio Mannau Aros Dros Dro fel:-

*"Temporary Stopping Places accommodate intermittent needs for site accommodation for which a charge may be levied as determined by the local authority concerned. They are not occupied all year round but may be available at times of increased demand, such as fairs or cultural celebrations that are attended by Gypsy and Travellers."*

4.3 Mae'r Canllawiau'n nodi rhai paramedrau y mae angen eu hystyried wrth ddethol safle fel Man Aros Dros Dro sef:

| **Tabl 4.1 – Canllawiau Arfer Da o ran Dylunio** | |
|---|---|
| Canllaw Arfer Da o ran Dylunio Safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru | Designing Gypsy and Traveller Sites – Good Practice Guide |
| Mynediad diogel a da i rwydweithiau ffyrdd – amharu cyn lleied â phosib ar gymunedau cyfagos | Mynediad diogel a hwylus i rwydweithiau ffyrdd ac wedi'u lleoli i amharu cyn lleied â phosib ar gymunedau cyfagos |
| Gall defnyddio tir cyfagos gael effaith sylweddol ar y safle a'i ddeiliaid dros dro | Wedi'u lleoli i amharu cyn lleied â phosib ar gymunedau cyfagos |
| Dylid rhoi ystyriaeth ofalus i blant ifanc | Risgiau i blant o ddefnydd tir cyfagos |
| Nifer ac amlder digwyddiadau diwylliannol | Pellter diogel rhwng ôl-gerbydau/carafanau a strwythurau eraill sy'n llosgadwy |
| Agosrwydd at borthladdoedd fferi a ph'un a yw'r ardal yn llwybr sefydledig ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr | Mae'n rhaid i'r ffordd i mewn ac allan o'r safle fod yn gadarn ar gyfer ei defnyddio gan gerbydau trymion fel ôl-gerbydau |
| Ffyrdd mynediad digon cadarn ar gyfer cerbydau trymion, dylid cael giât ar y fynedfa i'r safle | Mynediad i gerbydau brys, galluogi gwneud y defnydd mwyaf o'r safle o fewn ei gapasiti bwriadedig |
| Marcio ffiniau, mynediad i gerbydau brys | Rhwystr clir o amgylch man aros brys |
| Cyflenwad dŵr oer | Dŵr oer, naill ai o safbibell neu dancer |
| Portaloos ar gyfer dynion a merched. Un portaloo ar gyfer bob pedwar aelwyd + portashower | Portaloos ar gyfer dynion a merched. Un portaloo ar gyfer bob pedwar aelwyd |
| Pwynt Gwaredu Carthffosiaeth a darpariaeth ar gyfer gwaredu gwastraff | Pwynt Gwaredu Carthffosiaeth a darpariaeth ar gyfer gwaredu gwastraff |
| Cynghorir y dylid ymgynghori â Swyddog Tân a'r Heddlu | Cynghorir y dylid ymgynghori â Swyddog Tân a'r Heddlu |

4.4 Defnyddir y canllawiau arfer da a amlinellir uchod i ddatblygu cynigion y cynllun ymhellach. At ddibenion yr Adroddiad Arfarnu Rhagarweiniol hwn, mae paramedrau sylfaenol y cynllun yn cael eu nodi isod. Hyd yma, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghori â swyddog diogelwch tân, ac felly efallai y bydd angen addasu'r paramedrau dylunio a nodir isod ar ôl datblygu'r dyluniad ymhellach.

4.5 Mae'r cynnig presennol o ran y Man Aros Dros Dro yn Star ar gyfer darn o dir i gynnwys cyfanswm o hyd at 15 o garafanau a cherbydau tynnu ar unrhyw un adeg. Bwriedir i'r Man Aros Dros Dro gynnig llety tymor byr, fel y nodwyd yn y canllawiau uchod, am hyd at 2-3 wythnos ar y tro. Byddai'r safle'n cael ei reoli gan y Cyngor Sir. Byddai'r cynigion ar gyfer y Man Aros Dros Dro yn Star yn cynnwys y canlynol:-

- Pwynt mynediad oddi ar yr A5 gyda giât 5 metr a rhwystr sy'n cyfyngu ar uchder
- Llawr caled digon mawr ar gyfer 15 o garafanau neu ôl-gerbydau a cherbydau tynnu
- Ffens ddiogel o amgylch y ffin a giât y gellir ei chloi
- Llain blannu 5 metr ar hyd y ffin ddeheuol
- Cyflenwad dŵr oer
- Toiledau cludadwy pan fydd y safle'n cael ei ddefnyddio
- Pwynt Gwaredu Carthffosiaeth
- Pwynt Casglu ac Ailgylchu Sbwriel wedi'i Sgrinio
- Pwyntiau cysylltu â'r cyflenwad trydan (gofyniad diweddar)

4.6 Mae cynigion presennol y cynllun yn dal i fod angen eu datblygu ymhellach, ac mae'r Asesiadau Technegol a nodir yn Adran 5 isod wedi dechrau llywio'r broses ddylunio. Er enghraifft, oherwydd lleoliad y safle wrth ymyl yr A55, daeth yn amlwg y bydd angen lliniaru sŵn yn defnyddio rhwystr acwstig i leihau sŵn i lefel dderbyniol. Bydd angen ymgorffori hyn o fewn cynigion cyffredinol y cynllun pe bai'r safle'n cael ei ystyried yn un addas i fwrw ymlaen ag ef mewn cais cynllunio manwl. Mae ystyriaethau rhagarweiniol o ran dylunio, y rhoddwyd sylw iddynt yn ddiweddar, yn cael eu nodi isod:-

**Arfarniad Cyffredinol o'r Safle**

4.7 Mae'r safle rhwng yr A55 a'r A5 a choridor y ffyrdd yw'r brif nodwedd, ac fe'i disgrifir mewn cyfres o bwyntiau bwled isod:-

- Tir isel rhwng coridorau ffyrdd pwysig
- Mae prif Reilffordd Caer – Caergybi'n agos at y safle ac i'r de o'r A5
- Bydd angen mynediad at ffordd unffrwd heb gyfyngiadau (60 mya)
- Mae llystyfiant y briffordd yn ffurfio sgrin rannol i ardal breswyl Star i'r gogledd o goridor o'r A55
- Ceir arwyddbost ar gyfer yr A5 fel Llwybr Hanesyddol
- Safle Bws yn agos at Groesffordd Star
- Dim llwybr cyhoeddus ar hyd ymyl y ffordd ond cyfle i gysylltu i'r gorllewin yn agos at Groesffordd Star
- Dim golau stryd ger y Man Aros Dros Dro arfaethedig ond cyfle i ymestyn y ddarpariaeth o Groesffordd Star
- Bydd angen ail alinio'r wal derfyn bresennol i sicrhau gweledledd digonol i'r fynedfa a'r ffordd allan o'r safle

- Cyfleustodau a chysylltiadau i gael sylw yn ystod cyfnod y dylunio manwl gyda chyrff statudol (efallai y bydd angen mesurau diogelu BT)

4.8 Ymgymerwyd ag asesu ac ystyried y dyluniad rhagarweiniol fel rhan o'r Adroddiad Arfarnu Rhagarweiniol a ddisgrifir yn fanylach isod :-

**Cynllun y Safle**

4.9 Bydd cynllun arfaethedig y safle yn cynnwys llecyn o lawr caled 38m o ran lled, a 95.5m o ran hyd. Bydd hyn yn darparu ar gyfer 15 o fannau aros dros dro a wahanir yn defnyddio marciau ar y ffordd. Yn ogystal, bydd y safle'n cynnwys mannau sy'n rhoi lle i droi ac ar gyfer darpariaeth toiledau cludadwy. Pennwyd maint y llecynnau llawr caled yn ôl yr anghenion o ran gallu symud cerbydau yn ôl ac ymlaen er mwyn troi, fel bod modd i gerbydau gael mynediad i bob un o'r lleiniau dros dro, sy'n caniatáu'r lle sydd ei angen rhwng unedau i fodloni safonau a chanllawiau presennol. Bydd angen trafod manylion cynllun y safle gyda'r Swyddog Tân Lleol.

4.10 Yn unol â'r canllawiau a argymhellir, adeiladir llecyn llawr caled cyffredinol, yn defnyddio slab concrid neu orffeniad tebyg, sy'n barhaol ac yn hawdd i'w gynnal a chadw. Bydd hyn yn darparu safle gwydn ar gyfer gosod traed sefydlogi carfanau, a gellir eu cynnal a chadw'n hawdd. Defnyddir cyrbiau uchel o amgylch y llecyn llawr caled i atal llygru mannau oddi ar y safle gyda dŵr ffo.

4.11 Mae'n debygol y bydd mannau ar gyfer darparu cyfleusterau toiled cludadwy yn cael eu hadeiladu yn defnyddio deunydd sylfaen gwaelodol neu debyg wedi'i gywasgu, wedi'i gynnwys o fewn ymylon pren cywastad.

4.12 Cynhaliwyd asesiad sŵn ar y safle oherwydd ei leoliad wrth ymyl Gwibffordd Gogledd Cymru, yr A55, a chrynhoir y canfyddiadau yn Adran 5. Mae canfyddiadau'r asesiad wedi argymell y dylid darparu rhwystr lliniaru sŵn ar hyd ffiniau gogleddol, dwyreiniol a gorllewinol y safle. Bydd y rhwystr arfaethedig yn ffurf ffens liniaru sŵn 3m o uchder wedi'i wneud o ddur a phlastig wedi'i ailgylchu. Yn unol â'r canllawiau presennol, lleolir y ffens fel bod clustogfa o o leiaf 3m rhyngddi â'r lleiniau dros dro. Darperir tirlunio/llystyfiant o fewn y glustogfa i gynnal 'off set' clir.

4.13 I gynnal diogelwch, bydd y ffin ddeheuol yn cael ei chau yn defnyddio ffens 'weld mesh' rhwng y rhwystrau lliniaru sŵn, a darperir system giât wedi'i rheoli ar draws y fynedfa newydd. Lleolir y giatiau i alluogi lleoli cerbyd ac ôl-gerbyd oddi ar y brif ffordd yn gyfan gwbl, er mwyn gweithio'r giatiau wrth fynd i mewn ac allan o'r safle.

**Priffyrdd a Mynediad**

4.14 Mae'r cynigion drafft presennol yn cynnwys y ddarpariaeth o lawr caled concrid gyda 15 llain aros dros dro wedi'u marcio. Mae angen mynedfa newydd i mewn i'r safle oddi ar Ffordd Caergybi (yr A5) a bydd y cynllun yn gofyn am ail alinio'r wal derfyn bresennol i ddarparu ar gyfer y lleiniau gweledd o'r gyffordd.

4.15 Mae'r cyfyngiad cyflymder ar yr A5 heibio'r safle wedi'i ddatgyfyngu, ac felly mae'n cyd-fynd â'r llawlyfr dylunio ar gyfer Ffyrdd a Phontydd TD 41/95, tybiwyd llain gweledEdd o 219m ar y naill ochr i'r fynedfa, o bellter o 4.5m yn ôl o ymyl y gerbytffordd. Mae'r pellter o 4.5m o ymyl y gerbytffordd yn bellter arferol ond gellir lleihau hyn i 2.4m ar gyfer mynedfeydd sy'n cael llai o ddefnydd. Bydd y pellter hwn o 4.5m yn cael ei ymgorffori er mwyn darparu ar gyfer y sefyllfa waethaf o ran y cais hwn.

4.16 Er mwyn darparu'r gwelededd a fynnir o'r fynedfa, mae angen ail alinio'r wal derfyn bresennol rhwng y safle presennol a'r ffordd gyhoeddus. Ynghyd ag ail alinio'r wal derfyn, darperir troetffordd newydd i gerddwyr tua'r dwyrain, i gysylltu â'r droetffordd bresennol yn y gyffordd â'r bont dros Wibffordd Gogledd Cymru, yr A55.

4.17 Gellir ymestyn y ddarpariaeth o oleuadau stryd ar hyd ffordd gyhoeddus yr A5 i ddarparu'r golau a fynnir o amgylch y fynedfa newydd arfaethedig i'r safle. Bydd angen cynnal asesiad o'r cyfarpar presennol ar gyfer goleuadau i gadarnhau p'un a oes capasiti digonol i ymestyn y rhwydwaith presennol. Fel arall, bydd angen rhwydwaith newydd ar wahân ar gyfer y colofnau goleuadau ychwanegol.

**Cynigion o ran Dŵr Arwyneb a Draenio Dŵr Budr**

4.18 Mae'r safle presennol ar lethr naturiol o tua 2.8% (1 mewn 35) o'r gogledd i'r de, ac ar lethr o tua 1.0% (1 mewn 100) o'r gorllewin i'r dwyrain. Lleolir ffos agored ar hyn o bryd y tu ôl i'r wal ar hyd ffin ddeheuol y safle. Mae dŵr wyneb sy'n llifo oddi ar y safle arfaethedig ar hyn o bryd yn gollwng i mewn i'r ffos ac yn cael ei gario tua 200m i'r dwyrain, i ollyngfa i mewn i Afon Braint.

4.19 Bydd y ffos bresennol yn cael ei llenwi i ddarparu ar gyfer y fynedfa arfaethedig ac ail alinio'r wal derfyn, ac felly bydd angen ffurfio cwrs dŵr newydd i gymryd ei lle y tu ôl i'r wal sy'n cael ei hail alinio. Bydd angen creu cwlfert ar ffurf pibell 600mm o ran diamedr.

4.20 Gan fod y safle yn ardal maes glas ar hyn o bryd, bydd dŵr wyneb sy'n gollwng o'r llecyn llawr caled newydd yn cael ei gyfyngu i'r gyfradd dŵr ffo bresennol ar gyfer ardaloedd maes glas. Bydd y dŵr ffo o'r llecyn hwn yn cael ei atal rhag gollwng yn syth i mewn i'r cwrs dŵr gan gyrbiau uchel o amgylch y slab. Bydd hyn yn atal llygredd uniongyrchol i mewn i'r ffos agored ac Afon Braint. Darperir system ddraenio SuDS, gyda dŵr wyneb yn cael ei gasglu mewn gylïau ar y ffordd ac yn cael ei gario, drwy ddisgyrchiant, i strwythur arafu, gyda'r gollyngiadau'n cael eu cyfyngu i'r cwrs dŵr i lawr yr afon.

4.21 Datblygir y dull arafu yn ystod cyfnod y dylunio manwl, ond darperir mesurau i ddarparu dull sgrinio ar gyfer atal llygredd yn naturiol. Bydd gylïau'r ffordd yn darparu'r lefel gyntaf o sgrinio gyda draeniau hidlo efallai, ynghyd â phantiau neu fesurau eraill sy'n darparu diogelwch ychwanegol.

4.22 Nid oes unrhyw garthffosydd budr cyhoeddus wedi'u lleoli o fewn cyffiniau'r safle arfaethedig ar hyn o bryd. Bydd angen neilltuo mannau o fewn y safle ar gyfer cyfleusterau toiled dros dro a gellir darparu unedau cludadwy fel y bo angen. Gellid danfon unedau i'r safle ar ôl derbyn rhybudd bod ymwelwyr yn cyrraedd neu wedi cofrestru, ac yna gellir eu symud oddi yno ar ôl iddynt adael.

4.23 Gellid gosod system fwy parhaol yn ffurf rhwydwaith disgyrchiant wedi'i gysylltu ynghyd â threfniant tanc septig. Gellid cysylltu unedau dros dro neu barhaol i'r rhwydwaith gyda'r gollyngiadau'n suddo i un tanc septig. Byddai hyn yn osgoi'r angen am ddanfon cyfleusterau toiled dros dro yn ôl a blaen, ond byddai angen gwagio'r tanc ar y safle.

4.24 O ran unedau casét toiledau, y gellir fod wedi eu defnyddio wrth deithio, darperir cyfleusterau ar gyfer eu gwagio ar y safle. Gwasanaethir hyn gan drefniant tanc septig unigol o faint cyfatebol, fodd bynnag, byddai angen ei wagio'n rheolaidd ar ôl i ymwelwyr adael. Pe darperir y trefniadau draenio dŵr budr mwy parhaol, gellid cysylltu'r system wagio casetiau â'r tanc septig cyffredinol fel y disgrifiwyd uchod, a byddai hwn yn cael ei wagio'n llai aml.

**Gwasanaethau**

4.25 Mae'r safle yn ardal Maes Glas ar hyn o bryd ac felly nid oes unrhyw gysylltiadau o ran gwasanaethau cyfleustodau i mewn i'r safle.

4.26 Ceir tystiolaeth ar y safle o gyfarpar British Telecom sy'n bodoli eisoes o fewn ymyl cerbytffordd yr A5. Bydd manylion y llinell gyfarpar ynghyd â'i lefel ar draws mynedfa arfaethedig y safle, yn cael eu canfod er mwyn asesu p'un a oes angen gostwng y gwasanaeth neu ddefnyddio'r mesurau diogelu uchod.

4.27 Mae angen pwyntiau cysylltu â gwasanaethau ym mhob llain, felly bydd angen canfod lleoliad y gwasanaethau dŵr a thrydan cyhoeddus. Lleolir eiddo preswyl a masnachol yn agos i'r safle sy'n cael eu gwasanaethu gan y darparwyr cyfleustodau, ac mae ceblau uwchben a siambrau hydrantau dŵr yng nghyffordd Croesffordd Star yn dangos bod gwasanaethau yn bresennol yn yr ardal.

# 5. Asesiadau Technegol

5.1 Cynhaliwyd arfarniadau technegol ar gyfer y pynciau amgylcheddol canlynol ar safle Star yn 2016/17. Y nod wrth gynnal yr asesiadau technegol oedd canfod a oedd unrhyw resymau neu gyfyngiadau technegol a fyddai'n golygu na fyddai'r safle'n addas i gael ei ddefnyddio fel Man Aros Dros Dro. Yn ychwanegol at yr arfarniadau technegol penodol, cafodd ystyriaethau mwy cyffredinol fel maint y safle, mynediad a nodweddion ffisegol eraill eu hystyried hefyd ac fe'u hadroddwyd uchod yn Adran 4.

5.2 Ymgymerwyd â'r arfarniadau technegol a ganlyn ac fe'u crynhoir isod:-

- Asesiad o Ansawdd yr Aer
- Asesiad o Effeithiau Sŵn
- Asesiad o Effeithiau Llifogydd
- Asesiad Ecolegol

**Asesiad o Ansawdd yr Aer**

5.3 Nid yw'r safle wedi'i leoli o fewn Ardal Rheoli Ansawdd yr Aer (AQMA). Nid yw'r datblygiad yn debygol o arwain at gynnydd sylweddol mewn traffig; fodd bynnag, gall gyflwyno derbynyddion sensitif fel preswylwyr y carafanau a gallai'r rhain gael eu heffeithio gan draffig ffordd a rheilffordd sy'n mynd heibio. Oherwydd maint bychan y datblygiad arfaethedig, tybiwyd fod asesiad sgrinio safonol yn briodol i asesu amlygiad posibl defnyddwyr yn y dyfodol.

5.4 Mae'r asesiad yn canolbwyntio ar grynodiadau o nitrogen deuocsid ($NO_2$) a mater gronynnol y gellir ei anadlu ($PM_{10}$), fel y prif lygrwyr sy'n gysylltiedig ag allyriadau o draffig ffordd. Mae crynodiadau gwaelodlin $NO_2$ a $PM_{10}$ yn seiliedig ar waith modelu a rhaglenni monitro a gynhaliwyd eisoes. Cafwyd data traffig gan yr Adran Drafnidiaeth (DfT).

5.5 Cafodd asesiad risg ei gynnal hefyd i ganfod effaith bosibl allyriadau llwch sy'n ffoi a $PM_{10}$ ar dderbynyddion lleol fel preswylwyr lleol yn ystod y cam adeiladu. Mae'r asesiad yn seiliedig ar fanylion y datblygiad arfaethedig a ddisgrifir uchod.

5.6 Byddai'r datblygiad arfaethedig yn y Man Aros Dros Dro, Star, yn cyflwyno preswylwyr newydd y cyfeirir atynt fel arall fel derbynyddion i'r safle. Tybiwyd fod lleoliadau'r derbynyddion a ddefnyddiwyd yn yr asesiad yn cynrychioli amlygiad preswylwyr y dyfodol yn y Man Aros Dros Dro. Barnwyd fod effaith bosibl allyriadau o lif traffig ffordd a rheilffordd ar breswylwyr y safle yn y dyfodol yn ddibwys.

5.7 Daeth asesiad risg o effeithiau posibl llwch yn ystod gwaith adeiladu'r datblygiad arfaethedig i'r casgliad fod y safle'n safle risg isel ar gyfer baeddu llwch ac effeithiau ar iechyd pobl. O ganlyniad, bernir nad oes angen mesurau lliniaru.

5.8 Casgliad yr asesiad hwn yw bod y cynllun arfaethedig, o safbwynt ansawdd yr aer, yn addas i gael ei ystyried ar gyfer caniatâd cynllunio.

**Asesiad o Effeithiau Sŵn**

5.9 Cafodd arolwg mesur sŵn ei gynnal i fesur lefelau sŵn amgylcheddol arferol yn ystod y dydd a'r nos. Roedd y lefelau a fesurwyd yn debyg i'r rhai a gyflwynwyd ym mapiau sŵn Cymru 2012, a oedd yn rhan o ofynion y Gyfarwyddeb Sŵn Amgylcheddol (2002/49/EC). Defnyddiwyd y data i gynnal astudiaeth modelu sŵn i ragweld lefelau sŵn yn lleoliadau ffasâd y carafanau / ôl-gerbydau wedi'u lleoli yn y Man Aros Dros Dro.

5.10 Y brif ffynhonnell sŵn a oedd yn effeithio ar y safle yn ystod y dydd a'r nos oedd traffig ffordd yr A55. Mae'r datblygiad arfaethedig ar hyn o bryd yn cael ei effeithio gan lefelau sŵn allanol sy'n fwy na 60 dB $L_{Aeq}$ yn ystod y dydd, a rhagwelir y byddai'n methu cyflawni meini prawf Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) o 55 dB $L_{Aeq(16h)}$ ar gyfer gerddi a mannau hamdden awyr agored. O ganlyniad argymhellir fod cynigion y cynllun yn cynnwys rhwystr acwstig 3m ar hyd y ffin â'r A55 ac ar hyn ffin ddwyreiniol a gorllewinol y safle, i leihau amlygiad y safle i sŵn.

5.11 Ar ôl cyflwyno'r cynllun lliniaru disgwylir y bydd y lefelau sŵn mewnol yn dderbyniol yn ystafelloedd byw ac ystafelloedd gwely'r carafanau dros dro gyda'r ffenestri ar gau. Fodd bynnag, rhaid cydnabod bod lefelau'r sŵn yn debygol o fod yn fwy na lefelau mwynderau awyr agored a byddant yn parhau'n uwch na'r meini prawf a'r canllawiau a argymhellir ar gyfer gerddi a mannau hamdden allanol.

**Asesiad o Effeithiau Llifogydd**

5.12 Flood risk at the site has been considered from all sources. The proposed Temporary Stopping Place is located within Flood Zone 1,kand therefore the residual flood risk will be minimal although it is required that safe access/egress onto the A5 needs to be considered in the development designs. Flood risk from both groundwater and artificial sources is considered negligible.

5.13 Er bod y rhan fwyaf o'r safle wedi'i leoli o fewn Parth Llifogydd A TAN15 (caniateir datblygiadau safleoedd carafanau a gwersylla mewn Parth A) ac mae rhan o'r safle'n dod o fewn Parth Llifogydd C2. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi gwerthuso'r safle arfaethedig ac mae o'r farn y gellid bwrw ymlaen â datblygu'r safle, cyhyd â bod y Prawf Cyfiawnhad yn cael ei weithredu. I basio'r prawf hwn, rhaid i'r datblygiad ddangos:

- Bod lleoliad y datblygiad yn angenrheidiol i gynorthwyo neu i fod yn rhan o gynllun adfywio awdurdod lleol a / neu strategaeth i gynnal aneddiadau presennol; neu
- Bod lleoliad y datblygiad yn angenrheidiol i gyfrannu at amcanion cyflogaeth allweddol i gynnal aneddiadau neu ranbarthau presennol; a
- Bod y datblygiad yn cyd-fynd â nodau Polisi Cynllunio Cymru (PCC); a
- Bod effeithiau posibl llifogydd ar gyfer y math penodol o ddatblygiad wedi cael eu hystyried a chanfuwyd eu bod yn dderbyniol (gyda chyfeiriad at y meini prawf a bennwyd yn TAN15).

5.14 Ni fyddai'r fan lle caniateid i'r carafanau aros wedi'i lleoli o fewn parth llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru ond ymhellach i'r gorllewin ar dir uwch. Argymhellir fod y dyluniad dŵr wyneb terfynol yn cynnwys mabwysiadu System Ddraenio Drefol Gynaliadwy (SuDs) er mwyn cadw dŵr ffo o fewn y cyfraddau maes glas cyfredol. Bydd angen ymgynghori rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol (Cyngor Sir Ynys Môn). Fodd bynnag, mae'r safle'n addas i gael ei ddatblygu o safbwynt perygl llifogydd.

**Ecoleg**

5.15 Cafodd asesiad ecolegol rhagarweiniol ac Arolwg Cynefin Cam 1 ac asesiad ei gynnal ym mis Tachwedd 2016. Roedd y cynefinoedd yn yr ardal a arolygwyd yn cynnwys llystyfiant cynefinol tal dros laswelltir gwael wedi'i wella'n rhannol, prysgwydd, coed gwasgarog a waliau cerrig sych.

Mae'r ystyriaethau ecolegol posibl ar y safle'n cynnwys:

- Amharu ar adar sy'n nythu wrth godi llystyfiant (os bydd y safle'n cael ei glirio yn ystod tymor nythu adar)
- Tynnwyd sylw at ddyfrgwn a llygod y dŵr yn ystod astudiaeth ddesg o'r ffos i'r dwyrain sydd y tu allan i ffiniau'r safle. Nid oes dim cynefinoedd addas na thystiolaeth o fodolaeth y rhywogaethau hyn ar y safle ei hun.

5.16 Nidyw'n ymddangos bod gan y safle unrhyw gyfyngiadau ecolegol arwyddocaol a fyddai'n golygu bod caniatâd cynllunio'n cael ei wrthod am resymau ecolegol cyn belled ag y cedwir at yr argymhellion a wneir yn yr adroddiad ecoleg.

# 6. Crynodeb a Chasgliadau

6.1 Mae'r Adroddiad Arfarnu Rhagarweiniol (PAR) hwn wedi crynhoi'r cefndir i'r cynigion ar gyfer darparu Man Aros Dros Dro ar gyfer y gymuned sipsiwn a theithwyr yn Star. Yn ogystal, mae wedi crynhoi'r asesiadau technegol yr ymgymerwyd â hwy, o ran ansawdd aer, sŵn, y perygl o lifogydd ac ecoleg.

6.2 Mae'r Adroddiad Arfarnu Rhagarweiniol (PAR) yn crynhoi canfyddiadau'r asesiadau technegol a gynhaliwyd hyd yma; mae'r arfarniadau technegol ar gael hefyd fel dogfennau unigol. Mae canfyddiadau'r PAR yn dangos fod safle Star yn lleoliad addas ar gyfer Man Aros Dros Dro. Bydd angen ymgorffori rhai mesurau lliniaru yng nghynigion y cynllun er mwyn i'r safle ateb rhai gofynion, yn enwedig o ran sŵn. Argymhellir bwrw ymlaen â'r dyluniad a chynigion y cynnig felly gyda golwg ar baratoi cais cynllunio manwl i'w gyflwyno rywbryd yn ystod 2017.

6.3 Ceir digon o le ar y safle ar gyfer 15 llain a chyfleusterau toiled ar wahân. Bydd y pellter rhwng y lleiniau yn destun trafodaethau pellach gyda'r Swyddog Tân, a gall bod angen gwneud rhai newidiadau. Gall cerbydau symud o fewn y safle i gael mynediad i bob llain. Darperir gwelededd digonol i gerbydau wrth adael y safle, yn y ddau gyfeiriad, ynghyd â digon o le i gerbydau ac ôl-gerbydau sefyll oddi ar y brif ffordd wrth fynd i mewn i'r safle, er mwyn stopio i agor y giatiau i gael mynediad.

6.4 Gellir darparu mesurau lliniaru sŵn a diogelwch digonol i ddarparu safle saff a diogel. Bydd lleoliad y safle yn galluogi darparu systemau draenio addas ar gyfer rheoli dŵr wyneb a gollyngiadau budr. Lleolir cyfarpar cyfleustodau dŵr a thrydan cyhoeddus yn agos i'r safle arfaethedig pe bai angen darparu gwasanaethau. Felly, mae cynnwys yr adroddiad hwn yn dangos yn glir y gellir gwneud yr addasiadau a darparu'r gwasanaethau angenrheidiol i alluogi darparu'r safle hwn fel lleoliad dichonadwy ar gyfer ei ddefnydd arfaethedig fel Man Aros Dros Dro i Sipsiwn a Theithwyr.

6.5 Y camau nesaf fydd paratoi dyluniadau amlinellol ar gyfer trafodaethau â rhanddeiliaid allweddol ac i sicrhau bod gofynion technegol ac iechyd a diogelwch eraill yn cael eu hymgorffori yng nghynigion y cynllun. Efallai y bydd gofyniad i gynnal rhagor o asesiadau technegol neu amgylcheddol cynnal i sicrhau bod yr holl wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer cais cynllunio manwl ar gael. Ymgynghorir â'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystod y broses hon i sicrhau bod modd paratoi a dilysu cais cynllunio dilys i gael ei ystyried ymhellach. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gwarantu y bydd y cais cynllunio'n llwyddiannus nac yn ystyried materion eraill a all effeithio ar y gallu i ddarparu Man Aros Dros Dro yn Star.

# Atodiad A

Ffigur 1: Cynllun Lleoliad y Safle
Ffigur 2: Cynllun y Safle Presennol




**ANGLESEY GYPSY AND TRAVELLER PROJECT**
**TEMPORARY STOPPING PLACE, STAR - SITE LOCATION PLAN**
1: 25,000 @ A3
Figure Ref - CS90626/Figure 1

**ANGLESEY GYPSY AND TRAVELLER PROJECT**

**TEMPORARY STOPPING PLACE, STAR - EXISTING SITE PLAN**

1: 2500 @ A3

Figure Ref - CS90626/Figure 2



# Atodiad B

**Lluniau o'r safle**



Photograph looking north - north east across the site towards Star



Photograph looking east along the A5 with Snowdonia Mountains in the distance. The site is to the left of the photograph

**ANGLESEY GYPSY AND TRAVELLER PROJECT**
**TEMPORARY STOPPING PLACE, STAR - SITE PHOTOGRAPHS**
Figure Ref - CS90626/Figure 3



Photograph looking west toward the Star junction with a minor road which crosses over the A55



Photograph looking east over the A55. The site is in the middle distance on the right in the photograph



Photograph of the drainage ditch which runs into the River Braint located beyond the site boundary to the east

**ANGLESEY GYPSY AND TRAVELLER PROJECT**
**TEMPORARY STOPPING PLACE, STAR - SITE PHOTOGRAPHS**
Figure Ref - CS90626/Figure 4

# Atodiad C

**Cynllun Cyfyngiadau'r Safle**




Key

- Site Boundary
- Existing vegetation (roots zones to be protected) screening/ noise buffer value along A55
- Marshy grassland
- Flood zone 2 & 3
- Noise
- Views in/ out
- Prevailing wind
- Sun path

**ANGLESEY GYPSY AND TRAVELLER PROJECT**
**TEMPORARY STOPPING PLACE, STAR - ENVIRONMENTAL CONSTRAINTS PLAN**
1: 2500 @ A3
Figure Ref - CS90626/Figure 5

CAPITA



**Capita Property and Infrastructure Ltd**
Bryn Eirias
Abergele Road
Colwyn Bay LL29 8BY

Tel +44 (0)1492 510200
Fax+44 (0)1492 510201

www.capita.co.uk

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Asesiad Cyflym o'r Effaith ar Iechyd - Safleoedd i Deithwyr a Sipsiwn yn Star a Phenhesgyn.

**Ar sail Gweithdy Cyfranogol a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2017**

Draft no status

Adran Rheoleiddio a Datblygu Economaidd,
Cyngor Sir Ynys Môn,
Swyddfa'r Sir,
LLANGEFNI,
Ynys Môn,
LL77 7TW.

(01248) 752820

Her Iechyd Môn
Health Challenge Anglesey

Regulation and Economic Development Department,
Isle of Anglesey County Council,
County Offices,
LLANGEFNI,
Anglesey.
LL77 7TW

(01248) 752820

## Rhagarweiniad

Mae'r cynnig sy’n cael sylw isod yn yr Asesiad hwn o’r Effaith ar Iechyd yn cynnwys dau safle ar wahân: -

- Safle parhaol ar gyfer 4 o leiniau a bloc cyfleusterau ger Safle Mwynderau Dinesig Penhesgyn a fwriedir i ddarparu ar gyfer trigolion sydd, ar hyn o bryd, yn defnyddio cilfan ar Ffordd Pentraeth, Porthaethwy.

- Lle aros dros dro am hyd at 3 wythnos ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ar dir rhwng yr A55 (T) a'r A5 yn Star. Byddai'r safle yn darparu 15 llain, ond ar wahân i drydan o’r prif gyflenwad a chyflenwad dŵr, ni fyddai unrhyw gyfleusterau parhaol eraill yn cael eu darparu. Byddai’r toiledau yn symudol ac yn cael eu gosod ar y safle pryd bynnag y byddai’n cael ei ddefnyddio, ynghyd â chynwysyddion gwastraff eraill.

Cafodd y gweithdy cyfranogol drosolwg o'r prosiect gan Mr Jonathan Stoddard, Cyfarwyddwr Cyswllt Capita, sef yr Ymgynghorwyr sy’n cynghori'r Cyngor ar y mater. Rhannwyd cynlluniau’r safle a ffotograffau ohono gyda’r rheini a gymerodd ran yn y gweithdy.

# Beth yw Asesiad o’r Effaith ar Iechyd?

Derbynnir yn gyffredinol mai diffiniad ConsenswS Gothenburg o’r Ganolfan Ewropeaidd ar gyfer Polisi Iechyd (1999) yw’r diffiniad gorau o’r fath Asesiadau, sef ‘A combination of procedures, methods and tools by which a policy, programme or project may be judged as to its potential effects on the health of a population, and the distribution of those effects within the population’. Fodd bynnag, mae diffiniadau eraill wedi eu cynnig yn ddiweddar (Elliott et al. 2010) wrth i’r Asesiadau esblygu:

‘…. a process through which evidence (of different kinds), interests, values and meanings are brought into dialogue between relevant stakeholders (politicians, professionals and citizens) in order imaginatively to understand and anticipate the effects of change on health and health inequalities in a given population’.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu'r defnydd o’r Asesiadau hyn fel rhan allweddol o strategaethau i wella iechyd a lleihau anghydraddoldebau. Nid ydynt yn

Draft no status

ofyniad statudol yng Nghymru neu yn unrhyw le arall yn y DU ar hyn o bryd, ond mae Llywodraeth Cymru yn gynyddol yn ystyried ei bod yn arfer dda i ystyried materion iechyd a lles yn benodol mewn meysydd nad ydynt yn ymwneud ag iechyd. Dywed Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 21 (Chwefror 2014) ar gyfer gwastraff : -

> *Undertaking a health impact assessment at an early stage may be valuable with regard to health and wellbeing concerns, however, the actual and/or potential impacts on human health arising from a proposal should be identified as part of undertaking an environmental impact assessment."*

**Paragraff 4.72 NCT 21 - Gwastraff.**

Mae dogfen ymgynghori ddiweddar Llywodraeth Cymru ar y Mesur Iechyd y Cyhoedd (Cymru) (Llywodraeth Cymru, 2016) yn cynnig y bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau bod raid i gyrff cyhoeddus gynnal asesiadau o'r effaith ar iechyd mewn amgylchiadau penodedig. Y nod yw :

*Assessments should be limited to policies, plans and programmes which have outcomes of national or major significance, or which have a significant effect at the local level on public health".*

Hefyd, er mwyn sicrhau cysondeb â Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, bwriedir y bydd raid i bob un o'r cyrff cyhoeddus y mae'r ddeddf yn berthnasol iddynt gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd. O ganlyniad, mae'n ymddangos ymrwymiad a disgwyliad cynyddol mai'r Asesiadau hyn yw'r dull priodol o asesu effaith cynigion ar iechyd. O fewn yr asesiad hwn o'r Effaith ar Iechyd, ystyrir bod "Iechyd" yn dod o dan y diffiniad o iechyd gan Sefydliad Iechyd y Byd (1948)

***"Health is a state of complete physical, mental and social well-being and not merely the absence of disease or infirmity".***

Draft no status

*Yn amlach na pheidio, cynrychiolir y* ***penderfynyddion cymdeithasol*** *ehangach ar gyfer* ***iechyd*** *gan y model a* ***ddatblygwyd gan Dahlgren a Whitehead (1991).***




Ffigur 1: Y Penderfynyddion Iechyd (Dahlgren a Whitehead 1990)

Mae'r model hwn yn dangos sut y gall ffactorau amrywiol effeithio mewn gwahanol ffyrdd ar wahanol grwpiau o bobl, gan ganolbwyntio'n benodol ar gyd-destun personol yr unigolyn. Gall rhai effeithiau ar benderfynyddion iechyd fod yn uniongyrchol, amlwg a / neu fwriadol, tra gall eraill fod yn anuniongyrchol, yn anodd eu hadnabod ac yn anfwriadol.  Mae dosbarthiad anghyfartal y penderfynyddion cymdeithasol hyn yn arwain at annhegwch yn y maes iechyd. Mae Asesiadau o’r Effaith ar Iechyd yn ceisio rhagweld yr effeithiau hyn a’u lliniaru. Maent o gymorth i wneud penderfyniadau a gallant felly roi gwybod i gymunedau a’r rheini sy’n gwneud penderfyniadau am yr effaith bosib ar iechyd a lles, ond nid ydynt yn gyfrwng ar gyfer gwneud y penderfyniad ei hun.  Un o fanteision yr Asesiad yw ei fod yn cynyddu ymwybyddiaeth ar draws pob sector o sut y gall penderfyniadau effeithio ar iechyd, gan ymgorffori gwelliannau iechyd neu gamau lliniaru a fydd, o bosib, yn lleihau'r galw ar y gwasanaethau iechyd ac yn  hyrwyddo mwy o degwch. Dylai’r Asesiadau ystyried anghydraddoldebau a'u heffeithiau ar amrywiaeth o grwpiau bregus, a hynny mewn ffordd gydlynol, p’un a ydynt yn anghydraddoldebau sy’n ymwneud ag oed neu incwm, neu grwpiau sydd wedi eu hanfanteisio’n gymdeithasol. Er mwyn gwneud y defnydd gorau o’r Asesiadau mae Canllawiau WHIASU (2012) [1]

1. UNED GYMORTH CYMRU - ASESU’R EFFAITH AR IECHYD, 2012. *Asesu'r Effaith ar Iechyd: Canllawiau ymarferol.* Ar gael yn <http://www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=522&pid=63782>

yn argymell eu bod yn cael eu gwneud ar sail ragolygol – sef yn ddigon hwyr yn y broses ddatblygu i fedru deall natur y datblygiad yn llawn ond yn ddigon cynnar i ddylanwadu ar ei ddyluniad.

Draft no status

Mae Ynys Môn wedi datblygu ei declyn cymorth ei hun, yn seiliedig ar y model Penderfynyddion Iechyd Ehangach a amlygwyd uchod. Defnyddiwyd y pecyn cymorth hwn eisoes i asesu nifer o ddatblygiadau arfaethedig, gan gynnwys safle biomas, datblygiad hamdden a maes parcio rhannu ceir. O ganlyniad, mae'r asesiad cyflym hwn o'r Effaith ar Iechyd yn seiliedig ar y pecyn cymorth hwn sydd bellach wedi hen sefydlu.

# Sgrinio - Penderfynu a ddylid cynnal Asesiad

Mae'r ddogfen o'r enw 'Travellers' Health Matters – A Retrospective Health Impact Assessment of Low Grade Traveller Accommodation' [2] yn taflu goleuni ar broblemau iechyd posib a wynebir gan deithwyr sy'n byw mewn cartrefi symudol. Mae'r Astudiaeth yn ymwneud â safle preswyl ger Galway yng Ngweriniaeth Iwerddon ac er bod hyn ychydig yn wahanol i'r hyn a gynigir yn Ynys Môn, mae'r wybodaeth am iechyd teithwyr yn arbennig o ddefnyddiol, gan nad oes gwybodaeth ar gael o ddata iechyd lleol neu gyfrifiad. Roedd yr adroddiad yn nodi bod rhai o'r effeithiau ar iechyd teithwyr yn cynnwys: -

- Gall amodau tai gwael (oerni a lleithder) arwain at gyflyrau anadlol. Gall yr angen i sychu dillad dan do yn ystod y gaeaf ychwanegu at broblemau a achosir gan leithder a llwydni
- Cysylltir amodau tai gwael hefyd ag iselder a phryder ymhlith pobl, yn enwedig menywod a phlant.
- Mae anallu i gadw bwyd a rhoi bwyd mewn oergell yn arwain at risgiau o halogi bwyd, gwenwyn bwyd  a thlodi bwyd.

2. **Mudiad Teithwyr Galway, 2009. Travellers' Health Matters – A Retrospective Health Impact Assessment of Low Grade Traveller Accommodation'.** Ar gael yn: - http://www.publichealth.ie/files/file/Travellers'%20Health%20Matters%20HIA.PDF

- Mae anallu i oeri bwyd yn ystod y nos yn arwain at orfod cael gwared ar fwyd os nad yw'n cael ei fwyta a dibyniaeth ar fwyd sydd ddim yn difetha.
- Nid oes modd prynu bwyd nad yw'n difetha ar raddfa fawr ac mae hynny'n cyfyngu ar allu'r preswylwyr i gynllunio eu diet, gan arwain at risg uwch o ordewdra a chostau byw uwch.
- Tlodi tanwydd oherwydd costau uchel tanwydd ar gyfer generaduron a dulliau eraill o wresogi dan do.

Draft no status

- Peryglon tân sy'n gysylltiedig â defnyddio canhwyllau a ffynonellau eraill o olau yn absenoldeb trydan.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn nodi mai statws iechyd ac addysg Sipsiwn a Theithwyr yw'r isaf o unrhyw grŵp sydd dan anfantais yng Nghymru. [3].Mae CLlLC hefyd yn nodi bod llety o safon dderbyniol yn hanfodol i iechyd a lles ac atgyfnerthir hynny trwy gynnwys "Tai" yn y model Dahlgren a Whitehead (1990) yn ffigur 1.

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn eu dogfen 'Gypsies and Travellers – Simple Solutions For Living Together (2009) [4] yn nodi : -

- Mae'r disgwyliad oes ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr 10 mlynedd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol i ferched a dynion.
- Mae Sipsiwn a Theithwyr sy'n famau 20 gwaith yn fwy tebygol na gweddill y boblogaeth o fod wedi dioddef marwolaeth plentyn.
- Yn 2003, enillodd llai na chwarter o blant Sipsiwn a Theithwyr bump TGAU a graddau A * - C, o gymharu â chyfartaledd cenedlaethol o dros hanner.

3. Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, (2014). Llyfr Gwaith Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr ar gyfer Cynghorwyr.Ar gael yn: - www.wlga.gov.uk/download.php?id = 5788 & l = 1

4. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, (2009). Gypsies and Travellers – Simple Solutions for Living Together. https://www.equalityhumanrights.com/en/gypsies-and-travellers-simple-solutions-living-together

Mae'r Comisiwn yn mynd ymlaen i argymell y dylai'r Adran Iechyd sefydlu targedau i leihau anghydraddoldebau iechyd ymysg Sipsiwn a Theithwyr; a datblygu canllawiau a hyfforddiant ar gyfer awdurdodau iechyd ac ymarferwyr.

Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ddarparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr lle mae angen wedi'i nodi. Mae Cyngor Sir Ynys Môn eisoes wedi nodi ac ymgynghori ar leoliadau posib ar gyfer safleoedd I Sipsiwn a Theithwyr ar yr Ynys ac mae'r ddau safle cyfredol wedi symud ymlaen i'r cam dylunio manwl. Fel rhan o'r broses hon, mae'r Awdurdod Lleol wedi comisiynu nifer o adroddiadau arbenigol ar y ddau safle a gwnaed penderfyniad i gynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd. Cafodd y mater ei drafod yn y Bwrdd Prosiect lle penderfynwyd mai'r cam gorau ymlaen fyddai cynnal Asesiad Cyflym o'r Effaith ar Iechyd, yn seiliedig ar weithdy cyfranogol. O gofio profiad yr awdurdod lleol o gynnal Asesiadau o'r fath, byddai'r

Draft no status

Asesiad yn cael ei hwyluso'n fewnol gan yr Adain Gwarchod y Cyhoedd.  Mae canlyniad y gweithdy cyfranogol i'w weld isod.

Draft no status

# Crynodeb o Declyn AEI Ynys Môn

Dyma fersiwn gryno o'r teclyn AEI llawn a gellir ei ddefnyddio fel *aide memoir* i hwyluso proses sgrinio gyflym iawn o'r effaith ar iechyd neu fel rhestr wirio ar gyfer Sgriwtini. Rhaid bod yn gwbl gyfarwydd â'r Teclyn AEI llawn cyn defnyddio hwn.

| |
|---|
| **Teitl y rhaglen, polisi neu brosiect gan gynnwys nodau ac amcanion allweddol: Safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr yn Star a Phenhesgyn.** |

**Beth yw cyfraniad y gweithgaredd tuag at: (Allwedd: -- (sylweddol negyddol), - (cymharol negyddol), Niwtral (dim effaith glir), DB (amherthnasol), + (cymharol gadarnhaol), ++ (sylweddol gadarnhaol)**

| 1. Grwpiau Bregus? / Vulnerable Groups? | + + | + | Niwtral Neutral | - | - - | D/B | Tystiolaeth gefnogol / Effaith ar Anghydraddoldeb Supporting Evidence / Effect on Inequality: |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Grwpiau cysylltiedig ag oedran (e.e. plant a phobl ifanc, oedolion 18-64 oed, pobl hŷn<br>Age related, income related, who may suffer discrimination or other social disadvantage, geographical areas | | X | | | | | Mae Safle Penhesgyn yn cynnig y cyfle i wella mwynderau gyda chyfleusterau cegin, bwyta ac ymolchi. Mae nifer o'r rhain wedi cael eu nodi fel rhai sy'n achosi iechyd gwael (Mudiad Teithwyr Galway (2009)) ac sy'n effeithio ar bob grŵp oedran. Mae sipsiwn a theithwyr yn dioddef gwahaniaethau a gall safleoedd parhaol olygu llai o wrthdaro gyda chymunedau lleol a galluogi'r plant i fynychu'r un ysgol pan yn yr ardal. Mae safle Star hefyd yn ddigon mawr ar gyfer teuluoedd mwy a all fod yn teithio gyda'i gilydd. Bydd digon o le rhwng y carafanau i ostwng y risg o dân a hynny'n unol â chanllawiau'r llywodraeth. |

| 2. Ffordd o fyw unigolion? / Individual lifestyles? | + + | + | Niwtral Neutral | - | - - | D/B | Tystiolaeth gefnogol / Effaith ar Anghydraddoldeb Supporting Evidence / Effect on Inequality: |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diet, gweithgaredd corfforol, defnydd o alcohol / tybaco / cyffuriau di-bresgripsiwn eraill, gweithgaredd rhywiol, unrhyw weithgaredd arall y mae risg yn gysylltiedig ag ef / Diet | | X | | | | | Penhesgyn: Bydd bloc mwynderau newydd yn darparu amgylchedd glân i baratoi a storio bwyd ac i ymolchi. Bwriedir cynnwys ardal ym |

Draft no status

| 2. Ffordd o fyw unigolion? / Individual lifestyles? | + + | + | Niwtral Neutral | - | - - | D/B | Tystiolaeth gefnogol / Effaith ar Anghydraddoldeb Supporting Evidence / Effect on Inequality: |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| physical activity, use of alcohol / tobacco / other non-prescription drugs, sexual activity, other risk-taking activity | | | | | | | Mhenhesgyn lle gall preswylwyr dyfu llysiau a all annog gweithgaredd corfforol ac er nad oes bwriad i ddarparu ardal fwynderau yn Star (oherwydd sŵn y traffig), roedd y gweithdy'n teimlo y dylid rhoi ardal o'r neilltu fel y gallai plant chwarae'n ddiogel ond dylid ei gwahanu'n ddigonol o'r lôn – dylai'r gwaith ffensio gan gynnwys ffensys acwstig fod yn foddhaol. Mae Penhesgyn yn bellach o'r rhwydwaith cludiant cyhoeddus a all olygu nad yw pobl yn cael eu hannog i gerdded i siopau ac ati yn enwedig os bydd angen iddynt gario eu siopa. (Ychwanegiad – nodwyd fodd bynnag, bod yna lwybr cyhoeddus mwy uniongyrchol ar draws y caeau). Mae Star yn ymyl safle bws. Bwriedir darparu llwybr wrth ochr y lôn o fynedfa'r safle i'r safle bws. Mae'r A5 yn ffordd brysur gyda chyfyngiad cyflymder 60 mya. |

| 3. Dylanwadau cymdeithasol a chymunedol ar iechyd / Social and community influences on health? | + + | + | Niwtral Neutral | - | - - | D/B N/A | Tystiolaeth gefnogol / Effaith ar Anghydraddoldeb Supporting Evidence / Effect on Inequality: |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Trefniadaeth a swyddogaethau'r teulu, rhwydweithiau cymorth cymdeithasol, balchder lleol, ynysiad cymdeithasol, ethos diwylliannol, hiliaeth / Family organisation & roles, social support networks, local pride, social isolation, cultural ethos, racism | | X | | | | | Byddai safle Penhesgyn yn well na'r lleoliad cyfredol oherwydd byddai yno fwy o gyfleusterau a blociau mwynderau pwrpasol a fyddai'n darparu mwy o gyfleoedd i gefnogi rôl y teulu. Mae'r safleoedd hefyd yn gyfreithlon a bydd llai o ofn y bydd camau'n cael eu cymryd gan yr awdurdod lleol a fydd, yn ei dro, yn cwrdd â'i ofynion statudol. Fodd bynnag, efallai y ceir gwrthwynebiad gan gymunedau lleol a gellid gwella hynny drwy grwpiau cyswllt. Bydd angen i deithwyr / y cyngor fod wedi sefydlu trefniadau i baratoi safle Star ar gyfer ei ddefnyddio. Dylai'r |

Draft no status

| 3. Dylanwadau cymdeithasol a chymunedol ar iechyd / Social and community influences on health? | + + | + | Niwtral Neutral | - | - - | D/B N/A | Tystiolaeth gefnogol / Effaith ar Anghydraddoldeb Supporting Evidence / Effect on Inequality: |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | Awdurdod Lleol ystyried a oes cyfleoedd ychwanegol i wella cysylltiadau cludiant cyhoeddus i Benhesgyn oherwydd bydd y safle'n bellach o'r A5025. |

| 4. Living and environmental conditions affecting health? | + + | + | Neutral | - | - - | N/A | Tystiolaeth gefnogol / Effaith ar Anghydraddoldeb Supporting Evidence / Effect on Inequality: |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tai dylunio cymdogaethau, sŵn ac ansawdd aer, diogelwch cymunedol, peryglon ar y ffyrdd,, gwastraff, pa mor ddeniadol yw ardal / Housing, neighbourhood design, noise & air quality, community safety, road hazards, waste, attractiveness of area | | | X | | | | Bydd Penhesgyn wedi cael ei ddylunio'n benodol ac yn fwy sympathetig i'r amgylchedd lleol na'r safle cyfredol ar Ffordd Pentraeth. Mae safle Star yn fwy gweladwy ac wedi ei godi ar gaeau rhwng dwy lôn. Er y bydd blociau mwynderau'n cael eu darparu ym Mhenhesgyn, bydd raid i breswylwyr ddarparu eu llety cysgu eu hunain yn eu cerbydau cyfredol - a oes modd eu symud? Efallai y bydd yr awdurdod lleol yn dymuno cyflwyno safonau sylfaenol i sicrhau diogelwch y safle, e.e. gollyngiadau olew. Rhwystrau acwstig i gael eu codi yn Star er mwyn gostwng sŵn ar y safle a bydd preswylwyr Penhesgyn yn cael eu lleoli yn cael sydd bellaf draw o'r safle Mwynderau Dinesig. Efallai y bydd trigolion yn Star yn gwrthwynebu ar sail weledol ond mae yna arglawdd sylweddol a choed eisoes ar y safle. Bydd mwy o goed yn cael eu plannu ar y ddau safle. Ceir mynediad i Star oddi ar yr A5 lle mae'r cyfyngiad cyflymder yn 60mya. Bydd y fynedfa'n llydan a bydd llwybr troed yn cael ei ddarparu at y safle bws. Hefyd, bydd ffens o amgylch y safle a giât. |

| 5. Economic conditions affecting health? | + + | + | Neutral | - | - - | N/A | Tystiolaeth gefnogol / Effaith ar Anghydraddoldeb Supporting Evidence / Effect on Inequality: |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Unemployment, income, economic inactivity, type of | | | X | | | | Mae Star yn darparu safle swyddogol i deithwyr |

Draft no status

| 5. Economic conditions affecting health? | + + | + | Neutral | - | - - | N/A | Tystiolaeth gefnogol / Effaith ar Anghydraddoldeb Supporting Evidence / Effect on Inequality: |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| employment, workplace conditions | | | | | | | sy'n dod i'r ardal i weithio tra bydd Penhesgyn yn cynnig cyfle i breswylwyr sefydlu cyfeiriadau parhaol a all fod o gymorth iddynt gael gwaith. Gallai diffyg cyswllt rhyngrwyd neu ffôn symudol lesteirio eu cyfleoedd busnes/cyflogaeth. Efallai y bydd angen i'r ddwy gymuned dalu rhenti a fydd yn gostwng yr incwm gwario. |

| 6. Mynediad i wasanaethau a'u hansawdd? / Access and quality of services? | + + | + | Niwtral Neutral | - | - - | D/B | Tystiolaeth gefnogol / Effaith ar Anghydraddoldeb Supporting Evidence / Effect on Inequality: |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau meddygol a gwasanaethau gofal eraill, cyngor gyrfaoedd, cludiant, addysg a hyfforddiant, siopau, technoleg gwybodaeth / Medical and other caring services, careers advice, transport, education and training, shops, information technology | | X | | | | | Bydd gan deithwyr a sipsiwn fel ei gilydd safle sefydlog a fydd yn fodd iddynt ddatblygu cysondeb wrth gael at wasanaethau megis meddygon, deintyddion ac ysgolion ac ati. Bydd gan deithwyr Penhesgyn gyfeiriad parhaol gyda blwch post ar gyfer pob preswylydd. Gellid codi hysbysfyrddau (ar gyfer gwybodaeth gan y pwynt cyswllt yn y Cyngor) i roi gwybod am wasanaethau lleol yn Star. Dylai'r awdurdod lleol ystyried gwella mynediad i gludiant cyhoeddus ym Mhenhesgyn a darparu cyswllt Wi-Fi yn y ddau safle. |

| 7. Ffactorau Macro-economaidd, amgylcheddol a chynaliadwyedd / Macro-economic, environmental & sustainability factors | + + | + | Niwtral Neutral | - | - - | D/B | Tystiolaeth gefnogol / Effaith ar Anghydraddoldeb Supporting Evidence / Effect on Inequality: |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Polisïau'r llywodraeth, cynnyrch domestig gros, datblygiad economaidd, amrywiaeth fiolegol, hinsawdd / Government policies, gross domestic product, economic development, biological diversity, climate | | X | | | | | Bydd yr Awdurdod Lleol yn cydymffurfio gyda deddfwriaeth a bydd sipsiwn a theithwyr yn teimlo'n saffach o wybod eu bod yn defnyddio safleoedd cyfreithlon sydd wedi eu dylunio'n dda ac yn ddiogel ar gyfer grwpiau o deuluoedd. Bydd gwaith adeiladu'n creu gwaith ar gyfer busnesau a bydd plannu ychwaneg o goed a gwrychoedd o gymorth i gynnal ecoleg. |

Draft no status

# Atodiad 2: Teclyn Ynys Môn ar gyfer Asesu'r Effaith ar Iechyd

**Teclyn Ynys Môn ar gyfer Asesu'r Effaith ar Iechyd:** Mae'r teclyn wedi cael ei ddylunio ar gyfer ei ddefnyddio i ddatblygu polisïau a gwerthuso prosiectau yn ystod eu datblygu a'u cyflawni. Dylai fod o gymorth i ysgogi deialog, creu syniadau newydd ac annog meddwl mewn modd mwy cydlynol. Mae'r teclyn wedi ei ddylunio i'ch helpu chi feddwl am effeithiau posibl y prosiect neu'r polisi ar Iechyd a Llesiant unigolion a chymunedau yn Ynys Môn.

**Mae iechyd yn golygu llawer iawn mwy na pheidio â bod yn sâl. Mae'n adnodd ar gyfer byw o ddydd i ddydd ac yn caniatáu i bobl gyflawni eu potensial. Mae iechyd yn gyflwr o lesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol -– ac nid absenoldeb salwch yn unig (WHO, 1984)**

**Bydd y fframwaith hwn felly yn anelu at 'hyrwyddo unigolion a chymunedau iach a llawn egni'** ***(Strategaeth Gymunedol)***

**Defnyddiwch y raddfa isod os gwelwch yn dda wrth ystyried yr effaith a gaiff y gweithgaredd / polisi / prosiect ar Iechyd a Llesiant:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **+ +** | **Effaith gadarnhaol iawn ar Iechyd a Llesiant** | **-** | **Effaith negyddol ar Iechyd a Llesiant** |
| **+** | **Effaith gadarnhaol ar Iechyd a Llesiant** | **- -** | **Effaith negyddol iawn ar Iechyd a Llesiant** |
| **N** | **Niwtral** | **D/B** | **Amherthnasol –** i Iechyd a Llesiant |

| Rhan 1 wedi'i chwblhau gan | Yn cynrychioli | Dyddiad |
|---|---|---|
| Mr Trystan P.Owen | CSYM | 25.01.17 |
| Grŵp Gwerthuso | Yn cynrychioli | Dyddiad |
| Laura Fretwell | Capita | 23.01.17 |
| Jon Stoddard | Capita | 23.01.17 |
| Bryn Hall | Unity | 23.01.17 |
| Gareth Jones | CSYM | 23.01.17 |
| Cyng Alun Mummery | CSYM | 23.01.17 |
| Cyng Meirion Jones | CSYM | 23.01.17 |
| Cyng Jim Evans | CSYM | 23.01.17 |
| Lucy Reynolds | CSYM | 23.01.17 |
| Mike Evans | CGC | 23.01.17 |
| Huw Thomas | CSYM | 23.01.17 |
| Trystan P. Owen | CSYM | 23.01.17 |
| Gwiriwyd gan | Yn cynrychioli | Dyddiad |
| Huw Thomas | CSYM | 23.01.17 |
| Cymeradwywyd gan | Yn cynrychioli | Dyddiad |
| TBC | | |

**Teitl y rhaglen, polisi neu brosiect:**

## Safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr yn Star a Penhesgyn

**Disgrifiad (nodau ac amcanion allweddol):**

Mae wnelo'r Prosiect â dau safle:-

- Safle parhaol ar gyfer 4 o leiniau a bloc mwynderau ger Safle Mwynderau Dinesig Penhesgyn a'r bwriad fyddai darparu llety ar gyfer preswylwyr cyfredol y gilfan ar Ffordd Pentraeth, Porthaethwy.
- Man stopio dros dro am hyd at 3 wythnos i Sipsiwn a Theithwyr ar dir rhwng yr A55(T) a'r A5 yn Star. Byddai'r safle'n darparu 15 o leiniau, ond ac eithrio prif gyflenwad trydan a chyflenwad dŵr, ni fyddai unrhyw fwynderau parhaol eraill yn cael eu darparu. Byddai toiledau symudol yn cael ei danfon i'r safle pryd bynnag y byddai'n cael ei ddefnyddio, ynghyd â chynwysyddion gwastraff eraill.

Draft no status

## Section 2

| Pa gyfraniad mae'r gweithgaredd hwn yn ei wneud i:<br>What contribution does this activity make to: | | Effaith disgwyliedig y gweithgaredd:<br>Expected effect of activity : | | | | | | Tystiolaeth gefnogol / Effaith ar Anghydraddoldeb:<br>Supporting Evidence / Effect on Inequality: |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **1. Grwpiau Bregus?<br>1. Vulnerable Groups?** | | **+ +** | **+** | **Niwtral<br>Neutral** | **-** | **- -** | **D/B<br>N/A** | |
| 1a | Grwpiau cysylltiedig ag oedran (e.e. plant a phobl ifanc, oedolion 18-64 oed, pobl hŷn<br>*Age related groups (e.g. children and young people, adults 18-64, older people)* | | X | | | | | P& S* Darparu cyfleusterau pwrpasol yn hytrach na gorfod dibynnu ar wersylloedd di-awdurdod a all fod â chyfleusterau iechydol gwael heb unrhyw system blymio, prif gyflenwad dŵr neu drydan ac yn dibynnu ar doiledau symudol. Bydd blociau mwynderau ym Mhenhesgyn gyda cheginau a chyfleusterau ymolchi a bydd cyflenwad o drydan a dŵr yn Star. Mae byw mewn cartrefi symudol megis carafanau a bysus gyda systemau gwresogi gwael yn achosi salwch anadlol ar draws y grwpiau oedran. Ychydig o lefydd chwarae i blant. Mae amodau tai gwael yn gysylltiedig hefyd gydag iselder a phryder ymysg pobl, yn arbennig menywod a phlant. Mae analluu i storio a chadw bwyd yn oer yn arwain at y risg o haint a gwenwyn bwyd a thlodi bwyd. Mae gwersylloedd di-awdurdod yn achosi gwrthdaro posibl gyda chymunedau lleol ac mae hynny'n effeithio ar bob grŵp oedran. |
| 1b | Grwpiau cysylltiedig ag incwm (e.e. teuluoedd neu unigolion ar incwm isel / yn economaidd anweithgar / di-waith / ddim yn gallu gweithio am resymau iechyd).<br>*Income related groups (e.g. families or individuals on low income / economically inactive / unemployed / unable to work due to ill health)* | | X | | | | | P – grŵp incwm isel gydag adnoddau a chyfleusterau cyfyngedig sydd ar hyn o bryd yn byw mewn amodau gwael. Ar hyn o bryd, ychydig iawn o ddarpariaeth sydd ar yr ynys i deithwyr. Ychydig neu ddim diogelwch tân, efallai na fydd modd i eneraduron trydan redeg nifer o gyfarpar megis peiriannau golchi neu beiriannau sychu dillad ac ati. Hylifau a nwyon fflamychol yn cael eu storio yn ymyl y carafanau. Posibilrwydd y ceir plâu o lygod mawr ar safle di-awdurdod. Tanwydd tlodi – defnyddio poteli nwy neu ddiesel / petrol ar gyfer generaduron. Cost sychu dillad mewn tŷ golchi. Diffyg lle i baratoi bwyd yn creu mwy o ddibyniaeth ar brydau parod. Prinder cyfleusterau ymolchi / cawod. |
| 1c | Grwpiau y gwahaniaethir yn eu herbyn neu sy'n dioddef anfantais cymdeithasol arall (e.e. pobl ag | | X | | | | | Mae sipsiwn a theithwyr yn dioddef gwahaniaethu. S – Ychydig iawn o deithwyr ifanc sy'n derbyn addysg ffurfiol ac mae eu cyrhaeddiad addysgol yn is. Mae disgwyliad |

Draft no status

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | anableddau / grwpiau iechyd meddwl / gofalwyr / grwpiau ffoaduriaid / pobl sy’n ceisio lloches / teithwyr / teuluoedd un rhiant / pobl lesbiaid a hoyw / grwpiau ethnig, ieithyddol a diwylliannol / grwpiau crefyddol).<br><br>*Groups who suffer discrimination or other social disadvantage (e.g. people with disabilities / mental health groups / carers / refugee groups / people seeking asylum / travellers / single parent families / lesbian and gay people / ethnic, linguistic and cultural groups / religious groups)* | | | | | | | oes sipsiwn a theithwyr yn is ac mae nifer uwch o farwolaethau ymysg babanod / plant ifanc. Cyfraddau uwch o glefyd siwgr ymysg teithwyr. Hefyd, mae cyfraddau uwch o straen, clefydau heintus a damweiniau oherwydd eu hamodau byw. Cydlyniant teuluol – gall grwpiau o deithwyr sy’n teithio hefo’i gilydd gael anhawster dod o hyd i ddigon o le. Amodau cyfyng – carafanau’n rhy agos – risg tân. Nifer o wersylloedd mewn ardaloedd cyhoeddus, ychydig iawn o breifatrwydd. Risg o wenwyn carbon monocsid oherwydd gwresogyddion hylosg cludadwy. |
| 1d | Materion daearyddol (e.e. pobl sy’n byw mewn ardaloedd lle mae’n hysbys bod dangosyddion economaidd a/neu iechyd yn wael / pobl yn byw mewn ardaloedd anghysbell / pobl yn methu â chael mynediad i wasanaethau ac adnoddau).<br><br>*Geographical issues (e.g. people living in areas known to exhibit poor economic and/or health indicators / people living in isolated areas / people unable to access services and facilities)* | | | | | | X | Cymunedau gwledig wedi cael eu dewis fel lleoliadau ar gyfer safleoedd. P – Yn bell o wasanaethau a chludiant. Costau teithio cynyddol oherwydd bod gwasanaethau’n llai cyfleus, dim yn annog pobl i gerdded. S – wedi ei leoli yn ymyl y brif ffordd ac agos at safle bws. |

- **P & S = Penhesgyn a Star.**

Draft no status

| Pa gyfraniad mae'r gweithgaredd hwn yn ei wneud i: What contribution does this activity make to: | | Effaith disgwyliedig y gweithgaredd: Expected effect of activity : | | | | | | Tystiolaeth gefnogol / Effaith ar Anghydraddoldeb: Supporting Evidence / Effect on Inequality: |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2. Ffyrdd o fyw unigol? Individual Lifestyles?** | | **+ +** | **+** | **Niwtral Neutral** | **-** | **- -** | **D/B N/A** | |
| 2a | Diet<br>*Diet* | X (P) | X (S) | | | | | Penhesgyn: Bydd bloc mwynderau newydd yn darparu amgylchedd glân i baratoi a storio bwyd; hylendid personol – darperir bloc cawodydd a pheiriannau golchi. Dynodir darn o dir i bobl dyfu eu bwyd eu hunain. **Rheoli'r safle er mwyn cynnal safonau.**<br>Star: lleiniau caled ar gyfer carafanau a cherbydau; cysylltiadau i gyflenwad dŵr glân/trydan. |
| 2b | Ymarfer Corff<br>*Physical Activity* | | X (P)<br>X(S) | | | | | Penhesgyn: Campfa werdd – y llain llysiau. Amgylchedd diogelwch. Effeithiau negyddol posibl – dim mynediad uniongyrchol i gludiant lleol; problem o bosib i bobl a chanddynt anawsterau symudedd oherwydd byddant yn cael eu cyfyngu i'r safle. Star: - Er bod y safle'n weddol swnllyd a bod dim bwriad i ddarparu llecyn mwynderau awyr agored, cydnabuwyd y byddai modd darparu rhywfaint o dir gwyrdd fel y gallai plant chwarae'n ddiogel. Mae'r safle rhwng yr A55(T) a'r A5, ond bydd ffens derfyn yn cael ei hadeiladu yn ogystal â rhwystr acwstig. |
| 2c | *Defnydd o alcohol, sigaréts, cyffuriau di-bresgripsiwn*<br>*Use of alcohol, cigarettes, non-prescription drugs* | | X(P) | X(S) | | | | Penhesgyn: Nid yw'n agos at y rhwydwaith cludiant cyhoeddus. Safle newydd – gwell ymdeimlad o lesiant a lles oherwydd bod y safle'n un tymor hir.<br>Star: gallai'r effaith ar y gymuned leol arwain at gynnydd yn y defnydd o alcohol, sigaréts ac ati. |
| 2d | Gweithgarwch rhywiol<br>*Sexual activity* | | | | | | X | D/B |
| 2e | Gweithgarwch arall a allai achosi risg<br>*Other risk-taking activity* | | | X | | | | Pen: Dim yn agos at brif ffordd.<br>Star: Ceir mynediad i'r safle oddi ar yr A5 lle mae cyfyngiad cyflymder o 60mya ond nid yw ar safel diwydiannol a allai beri risgiau eraill i blant. |

Draft no status

Draft no status

| Pa gyfraniad mae'r gweithgaredd hwn yn ei wneud i:<br>What contribution does this activity make to: | | Effaith disgwyliedig y gweithgaredd:<br>Expected effect of activity : | | | | | | Tystiolaeth gefnogol / Effaith ar Anghydraddoldeb:<br>Supporting Evidence / Effect on Inequality: |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **3. Dylanwadau Cymdeithasol a Chymunedol ar Iechyd?<br>Social & Community Influences on Health?** | | **+ +** | **+** | **Niwtral<br>Neutral** | **-** | **- -** | **D/B<br>N/A** | |
| 3a | Trefniadaeth deuluol a rolau<br>*Family organisation and roles* | | X(P)<br><br>X(S) | | | | | Penh: Safle dynodedig; gwell na'r presennol o ganlyniad i fwy o adnoddau a bloc cyfleusterau wedi'i adeiladu'n bwrpasol – gwell cyfle i drefnu'r teulu a chynlluniom ar gyfer y dyfodol, amgylchedd diogel a glân i grwpiau cefnogi eraill allu cyfarfod ar y safle.<br>Star: Safle cyfreithiol i sipsiwn a theithwyr allu parcio am gyfnod cyfyngedig heb ofn unrhyw awdurdodau, gallant gynllunio lle byddant yn aros ymlaen llaw. Dim safle gwahanol wedi'i gynnig gan y gymuned sipsiwn a theithwyr ac mae dyletswydd ar yr awdurdod lleol i ddarparu safle. |
| 3b | Grym a dylanwad dinasyddion<br>*Citizen power and influence* | | X(P) | | X(S) | | | Penhesgyn: Nid yw'r lleoliad yn cael ei ffafrio gan y gymuned – yn dilyn ymgynghoriad. Anghenion Sipsiwn a theithwyr yn cael eu hystyried.<br>Star: Efallai bod y gymuned o dan yr argraff y bydd y safle yn llawn drwy'r amser. Mae'n leoliad stopio dros dro a ddefnyddir am hyd at 3 wythnos. Er y bydd y safle ar agor drwy'r flwyddyn, bydd gan y fynedfa giât ddiogel. A yw'r adran dai yn mynd i fod yn bwynt cyswllt i'r sipsiwn wrth iddynt gyrraedd? Sut byddwn yn cael rhybudd ymlaen llaw er mwyn agor y giât a gosod toiledau symudol ar y safle ac ati. |
| 3c | Cymorth cymdeithasol ehangach, rhwydweithiau cymdeithasol a chymdogrwydd<br>*Wider social support, social networks and neighbourliness* | | X(P)<br>X(S) | | | | | Penhesgyn: Trigolion wedi bod yn byw yn Ffordd Pentraeth am gyfnod hir.<br>Bydd y safle wedi'i adeiladu'n bwrpasol, yn cael ei gynnal a'i gadw a'i reoli'n well na safle Pentraeth; gwell argraff; llai o densiwn yn y gymuned. Gallai tensiynau lleol waethygu os nad yw'r ardal yn cael ei rheoli a'i chynnal a'i chadw. |
| 3d | Hunaniaeth gymunedol ac ymdeimlad o berthyn<br>*Community identity and sense of belonging* | | X(P)<br>X(S) | | | | | Cadarnhaol i'r teithwyr – gwell ymdeimlad o dderbyniad, llai o densiwn<br>Rheolaeth o'r safle; cyfarfodydd rheolaidd rhwng cymunedau. |
| 3e | Rhaniadau yn y gymuned a phwysau gan gyfoedion<br>*Divisions in community and peer* | | | | | | | Gweler 3d. |

| Pa gyfraniad mae'r gweithgaredd hwn yn ei wneud i: What contribution does this activity make to: | | Effaith disgwyliedig y gweithgaredd: Expected effect of activity : | | | | | | Tystiolaeth gefnogol / Effaith ar Anghydraddoldeb: Supporting Evidence / Effect on Inequality: |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **3. Dylanwadau Cymdeithasol a Chymunedol ar Iechyd? Social & Community Influences on Health?** | | **+ +** | **+** | **Niwtral Neutral** | **-** | **- -** | **D/B N/A** | |
| | *pressure* | | | | | | | |
| 3f | Arwahaniad Cymdeithasol *Social isolation* | | X(S) | | X(P) | | | Penh: potensial oherwydd ei leoliad; dim mynediad uniongyrchol i drafnidiaeth lleol. Gellid ystyried ymestyn y llwybr bysiau a darparu ardal droi ger Penhesgyn a fyddai hefyd yn rhoi opsiwn o ran cludiant cyhoeddus ar gyfer gweithwyr y safle. Star: rhan fwyaf wedi gyrru i'r safle – mwy symudol. Agosach at siopau/gwasanaethau iechyd na Mona (y lleoliad maent wedi bod yn ei ddefnyddio) a ger y safle bws. |
| 3g | Ethos diwylliannol ac ysbrydol *Cultural and spiritual ethos* | | | | | | X X | Ddim yn berthnasol |
| 3h | Hiliaeth *Racism* | | | | X | | | Mae sipsiwn a theithwyr yn grŵp wedi'u gwarchod – potensial ar gyfer effeithiau negyddol ar yr iaith/sylwadau/protestiadau. Mae gan yr Awdurdod Lleol ganllawiau. |
| 3i | Eithriad cymdeithasol arall *Other social exclusion* | | X | | | | | Sut mae cymunedau ym Mhenhesgyn yn datblygu dros amser – hirhoedledd y safle. A ydynt wedi penderfynu eithrio eu hunain yn gymdeithasol oherwydd eu ffordd o fyw? |
| 3j | Ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ofn trosedd *Anti-social behaviour & the Fear of Crime* | | | | X | | | Ymysg y gymuned leol – oes yna sail dros eu hofn? Ofn yr hyn nad ydynt yn ei wybod/chwedlau/cam wybodaeth/ sylw negyddol ar y cyfryngau cymdeithasol. Cyfleusterau da ar y safle yn lleihau risg. |

Draft no status

| Pa gyfraniad mae'r gweithgaredd hwn yn ei wneud i:<br>What contribution does this activity make to: | | Effaith disgwyliedig y gweithgaredd:<br>Expected effect of activity : | | | | | | Tystiolaeth gefnogol / Effaith ar Anghydraddoldeb:<br>Supporting Evidence / Effect on Inequality: |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **4. Amodau byw ac amgylcheddol sy'n effeithio ar iechyd?<br>Living & environmental conditions affecting health?** | | **+ +** | **+** | **Niwtral<br>Neutral** | **-** | **- -** | **D/B<br>N/A** | |
| 4a | Amgylchedd adeiledig a / neu cynllun y gymdogaeth<br>*Built environment and / or Neighbourhood design* | | X(P) | | X(S) | | | Penh: Gwell na'r safle presennol yn Ffordd Pentraeth, dyluniad gwell.<br>Star: mwy gweladwy, amgylchedd fwy adeiledig, mewn cae rhwng dwy ffordd. Bydd rhwystr acwstig yn sgrîn i'r safle ond bydd y safle dal yn weladwy. Mwy o blannu – cymryd rhai blynyddoedd i dyfu. |
| 4b | Tai a/neu amgylchedd o dan do<br>*Housing and / or Indoor environment* | | X(P) | X(S) | | | | PenH: Bloc cyfleusterau i gael ei ddarparu ond byddant yn defnyddio eu cerbydau presennol fel llety. A fydd y Cyngor yn gweithredu'r safonau sylfaenol os yw'n gyfrifoldeb ar y trigolion i ddod â llety eu hunain ac a fydd y cerbydau yn gallu symud?<br><br>Star: dim blociau cyfleusterau i gael eu darparu. |
| 4c | Sŵn a/neu arogleuon<br>*Noise and / or Smell / odour* | | | | X(S)<br><br>X(P) | | | Star: rhwystr acwstig i gael ei godi er mwyn gwella'r broblem. Dim problem arogl.<br>PenH: distaw/sŵn o'r domen sydd yn swnllyd. Arogl wrth derfyn y cae ond yn lleihau y pellaf yr ydych yn symud i ffwrdd oddi yno. |
| 4d | Ansawdd yr Aer a'r Dŵr<br>*Air and water quality* | | | | | | NA | Ddim yn berthnasol. |
| 4e | Pa mor ddeniadol yw ardal<br>*Attractiveness of area* | | | X | | | | Ddim yn ardal tirlun arbennig dynodedig ond efallai fod gan bobl leol safbwyntiau gwahanol. |
| 4f | Diogelwch Cymunedol<br>*Community safety* | | | | X | | | PenH: Mynediad posibl i'r Safle CA. Dim goleuadau stryd yn yr ardal.<br>Star: Dim llwybr troed addas na goleuadau addas yn y fynedfa i'r llecyn trafnidiaeth lleol. Gweler 3J. |
| 4g | Gwaredu Gwastraff<br>*Waste disposal* | | X(P) | X(S) | | | | PenH: Tanc septig, gwelliant ar y sefyllfa bresennol.<br>Star: Portaloo – dim newid; ond ni fydd y toiledau yna'n barhaol (er mwyn lleihau fandaliaeth). |
| 4h | Peryglon ar y Ffyrdd<br>*Road hazards* | | X(P) | | | | | PenH: Symud i ffwrdd o ochr yr A5025.<br>Star: mwy o risg gan fod ffordd ar bob ochr – A5 yn fwy o |

Draft no stat

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | X(S) | | | berygl – cyfyngiad cyflymder o 60 mya. |
| 4i | Perygl o anafiadau<br>*Injury hazards* | | | | | | X | Ddim yn berthnasol |
| 4j | Ansawdd a diogelwch mannau chwarae<br>*Quality and safety of play areas* | | | | | | X | Ddim yn berthnasol – dim angen. |

Draft no status

| Pa gyfraniad mae'r gweithgaredd hwn yn ei wneud i: What contribution does this activity make to: | | Effaith disgwyliedig y gweithgaredd: Expected effect of activity | | | | | | Tystiolaeth gefnogol / Effaith ar Anghydraddoldeb: Supporting Evidence / Effect on Inequality: |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **5. Amodau Economaidd sy'n effeithio ar iechyd? Economic conditions affecting health?** | | **+ +** | **+** | **Niwtral Neutral** | **-** | **- -** | **D/B N/A** | |
| 5a | Diweithdra a / neu anweithgarwch Economaidd<br>*Unemployment and / or Economic inactivity* | | X(S)<br><br>X(P) | | | | | Star: Darparu safle swyddogol i deithwyr sy'n ymweld â'r ardal er mwyn arddel eu crefft.<br>PenH: gallai safle parhaol alluogi trigolion i sefydlu cyfeiriad parhaol a allai eu cynorthwyo i gael swydd.<br>Gallai diffyg cysylltiad rhyngrwyd neu ffôn symudol amharu ar eu cyfleoedd busnes/cyflogaeth. |
| 5b | Incwm<br>*Income* | | | X(S) | X(P) | | | PenH: lleoliad iddynt allu sefydlu unrhyw fenter, gallai talu rhent i'r Awdurdod Lleol negyddu hyn.<br>Star: Angen talu rhent? |
| 5c | Math o gyflogaeth<br>*Type of employment* | | | | | | X | |
| 5d | Amodau gweithle<br>*Workplace conditions* | | | | | | X | |
| 5e | Caffael<br>*Procurement* | | | | | | X | |



Draft no status

| Pa gyfraniad mae'r gweithgaredd hwn yn ei wneud i:<br>What contribution does this activity make to: | | Effaith disgwyliedig y gweithgaredd:<br>Expected effect of activity | | | | | | Tystiolaeth gefnogol / Effaith ar Anghydraddoldeb:<br>Supporting Evidence / Effect on Inequality: |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **6. Mynediad ac ansawdd gwasanaethau?<br>Access and quality of services?** | | **+ +** | **+** | **Niwtral<br>Neutral** | **-** | **- -** | **D/B<br>N/A** | |
| 6a | Gwasanaethau Meddygol a Gofal Iechyd<br>*Medical and Healthcare services* | | X(S) | X(P) | | | | Penhesgyn: bydd gan y teithwyr gyfeiriad parhaol a fydd yn eu galluogi nhw i gael gwell mynediad i wasanaethau fel yn y safle presennol; fodd bynnag, bydd blwch llythyrau pwrpasol yn y safle ar gyfer yr holl drigolion.<br>Star: bydd y safle hwn yn caniatáu teithwyr i ddychwelyd i'r un lleoliad a gallai ei gwneud hi'n haws iddynt gael mynediad i'r gwahanol wasanaethau. |
| 6b | Gwasanaethau gofal eraill<br>*Other caring services* | | X(S) | | | | X(P) | Fel yr uchod – gellid codi byrddau gwybodaeth ar y safle er mwyn cynnig gwybodaeth ar wasanaethau lleol megis meddyg, fferyllfa, deintydd ac ati. Mae tystiolaeth o sgiliau llythrennedd isel ymysg y gymuned deithio ac efallai y bydd angen i gyswllt y Cyngor egluro lle mae'r gwasanaethau. |
| 6c | Cyngor gyrfaol<br>*Careers advice* | | | | | | X | |
| 6d | Siopau a gwasanaethau masnachol<br>*Shops and commercial services* | | | | | | X | |
| 6e | Cyfleusterau cyhoeddus<br>*Public amenities* | | | | | | X | Gwell mynediad i safleoedd stopio. |
| 6f | Trafnidiaeth<br>*Transport* | | | | | | X | PenH: Gellid gwella'r rhwydwaith trafnidiaeth cyhoeddus a allai hefyd gynorthwyo'r rhai hynny sy'n gweithio yn y Safle Amwynder Dinesig. |
| 6g | Addysg a hyfforddiant<br>*Education and training* | | X(S) | | | | X(P) | Gallai sefydlu safle yn Star alluogi plant teithwyr i fynychu'r un ysgol pryd bynnag y byddant yn yr ardal. |
| 6h | Technoleg Gwybodaeth<br>*Information technology* | | | | | | | PenH: A allent gysylltu i WIFI yn y safle amwynder dinesig. |

Draft no status

| Pa gyfraniad mae'r gweithgaredd hwn yn ei wneud i: What contribution does this activity make to: | | Effaith disgwyliedig y gweithgaredd: Expected effect of activity: | | | | | | Tystiolaeth gefnogol / Effaith ar Anghydraddoldeb: Supporting Evidence / Effect on Inequality: |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **7. Ffactorau Macro-economaidd, amgylcheddol a chynaliadwyedd? Macro-economic, environmental and sustainability factors?** | | **+ +** | **+** | **Niwtral Neutral** | **-** | **- -** | **D/B N/A** | |
| 7a | Polisïau Llywodraeth<br>*Government policies* | X | | | | | | Cydymffurfio â deddfwriaeth – Deddf Tai (Cymru) 2014 angen i awdurdodau lleol gynnal Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr (ALISTh). Yn fwy na hynny mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ddarparu safleoedd neu lecynnau ychwanegol i Sipsiwn a Theithwyr lle mae angen wedi'i adnabod yn ei ALISTh. |
| 7b | Cynnyrch domestig gros<br>*Gross Domestic Product* | | | | | | X | |
| 7c | Datblygiad Economaidd (gwledig a dinesig)<br>*Economic development (rural & urban)* | | X | | | | | Cynllunio a Gweithgynhyrchu'r safleoedd yn darparu gwaith i fusnesau |
| 7d | Materion Cyfiawnder Cymdeithasol a Chydraddoldeb<br>*Social Justice and Equality Issues* | | X | | | | | Safleoedd saff, diogel ac awdurdodedig sy'n gyfreithiol ac sy'n cefnogi diwylliant / hunaniaeth y teithwyr. |
| 7e | Amrywiaeth Biolegol<br>Biological diversity | | X<br>X | | | | | Bydd plannu llwyni/coed yn y ddau safle yn annog bywyd gwyllt yn y safle ac yn cynnal yr amrywiaeth ecolegol presennol. |
| 7f | Hinsawdd<br>*Climate* | | | | | | X | |
| 7g | Dwyieithrwydd a Diwylliant Cymru<br>*Bilingualism and the Welsh Culture* | | | | | | X | |

Draft no status

# Adran 3 – Crynodeb Asesiad Effaith ar Iechyd (AEI)

Mae'r canlyniadau isod yn cynrychioli'r canlyniadau sydd wedi'u cytuno arnynt (enw'r polisi/prosiect) sy'n cael eu profi yn erbyn y Teclyn Asesu Effaith ar Iechyd a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o (enw'r holl Adrannau / Sefydliadau perthnasol). Mae'r cynrychiolwyr hynny yn cytuno bod hyn yn drosolwg manwl gywir o'u sylwadau cyfunol.

***Allwedd:*** **++ Cadarnhaol Iawn, + Cadarnhaol, NIWT Niwtral, - Negyddol, - - Negyddol Iawn, Negyddol, Dd/b Ddim yn berthnasol**

| ***Categori AEI*** | **Cyfraniad Cyffredinol** | **Esboniad** |
|---|---|---|
| 1. Grwpiau Bregus | ++ ☐ + ■ NIWT ☐ - ☐ - - ☐ Dd/b ☐ | Ystyrir fod y datblygiad yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd o ran grwpiau bregus gan fod y ddau safle yn gwella'r cyfleusterau sydd ar gael i deithwyr a sipsiwn ar yr Ynys. Bydd y safleoedd yn darparu mannau stopio dilys a fydd yn diddymu'r tensiynau a brofir mewn perthynas â safleoedd nad ydynt yn rhai swyddogol. Bydd hyn yn galluogi sipsiwn a theithwyr sy'n dychwelyd i'r Ynys yn rheolaidd i sefydlu cysylltiadau gyda gwasanaethau lleol megis darparwyr iechyd ac addysg. Mae modd i'r safleoedd letya grwpiau o deuluoedd mawr ar bellteroedd gwahaniad diogel sy'n cynorthwyo i hyrwyddo hunaniaeth diwylliannol a chydlyniad teuluol. |
| 2. Ffyrdd o fyw unigol | ++ ☐ + ■ NIWT ☐ - ☐ - - ☐ Dd/b ☐ | Bydd y blociau cyfleusterau ym Mhenhesgyn yn darparu amgylchedd lân er mwyn darparu a storio bwyd ac ymolchi, rhywbeth nad oes gan y trigolion yn Ffordd Pentraeth ar hyn o bryd. Bydd cyfleusterau ychwanegol megis gerddi llysiau ym Mhenhesgyn ac ardal i blant yn Star yn hyrwyddo gweithgareddau corfforol. Fodd bynnag, mae angen gwahaniad digonol rhwng y safle a'r ffordd yn Star, a fydd mwy neu lai yn gallu cael ei ddarparu gan y ffens sydd eisoes wedi'i chynnig. Fel mesur lliniaru ychwanegol, fe ddylai'r awdurdod lleol ystyried a yw'n bosibl gwella trafnidiaeth gyhoeddus i safle Penhesgyn, a allai brofi'n fantais ychwanegol i weithwyr. Mae safle Star yn agos at safle bws er mae angen darparu llwybr troed oherwydd y cyfyngiad cyflymder 60mya y ffordd brysur. |
| 3. Dylanwadau cymdeithasol a chymunedol ar iechyd | ++ ☐ + ■ NIWT ☐ - ☐ - - ☐ Dd/b ☐ | Mae'r safleoedd yn cael effaith gadarnhaol ar ddylanwadau cymdeithasol a chymunedol ar iechyd, gan fod y ddau yn cynnig gwell adnoddau na sy'n cael eu darparu i |

Draft no status

| | | |
|---|---|---|
| | | deithwyr a sipsiwn, sy'n galluogi'r grwpiau hyn i gefnogi rolau teuluol a lleihau ofn gweithredoedd cyfreithiol gan yr awdurdod lleol, a fydd o ganlyniad yn cyflawni ei ofynion statudol. Fodd bynnag, fel mesurau ychwanegol, fe ddylai'r awdurdod lleol ystyried sefydlu grŵp ymgysylltu gyda thrigolion lleol, sefydlu system hysbysu er mwyn galluogi'r safle Star i gael ei baratoi ymlaen llaw yn barod i bobl aros yno ac ystyried gwella cysylltiadau trafnidiaeth cyhoeddus â Phenhesgyn. |
| 4. Amodau byw/amgylcheddol sy'n effeithio ar iechyd | ++ ☐ + ☐ NIWT ■ - ☐ - - ☐ Dd/b ☐ | Yn gyffredinol, mae'r datblygiadau yn debygol o fod yn niwtral o ran yr effaith ar iechyd oherwydd y balans yn nifer agweddau cadarnhaol a negyddol y datblygiadau. Bydd safle Penhesgyn yn ailgartrefu trigolion o Ffordd Pentraeth sy'n safle na ellir ei weld ond mae safle Star ar gaeau rhwng y ddwy ac mae posibilrwydd y bydd modd ei weld o Star er y bydd angen plannu coed. Mae sŵn hefyd yn effeithio ar y ddau safle ac er mwyn lliniaru hyn bydd trigolion yn cael eu lleoli yn y cae pellaf o'r CA ym Mhenhesgyn ac mae angen ffens acwstig ar hyd terfynau safle Star â'r ddwy ffordd. Er y safle wedi'i ddylunio'n fwriadol ym Mhenhesgyn gyda blociau cyfleusterau sydd â dyluniad pwrpasol, bydd disgwyl i drigolion ddarparu llety eu hunain sy'n debygol o gynnwys y cerbydau presennol yn Ffordd Pentraeth. Efallai yr hoffai'r awdurdod lleol gyflwyno isafswm safonau ar gyfer y cerbydau hyn er mwyn sicrhau diogelwch y trigolion a'r safle. Bydd angen ystyried ystyriaethau diogelwch penodol yn Star gan fod mynedfa'r safle oddi ar ffordd brysur sydd â chyfyngiad cyflymder o 60mya. |
| 5. Amodau economaidd sy'n effeithio ar iechyd | ++ ☐ + ☐ NIWT ■ - ☐ - - ☐ Dd/b ☐ | Ystyrir bod safle Star yn gadarnhaol o ran amodau economaidd sy'n effeithio ar iechyd gan ei fod yn darparu sefydlogrwydd o safle parhaol ar gyfer sipsiwn a theithwyr sy'n dymuno ymweld â'r ardal er mwyn arddel eu crefftau. Bydd trigolion Penhesgyn elwa o gyfeiriad parhaol a allai gynorthwyo wrth wneud cais am gyflogaeth ond gallai'r angen i dalu rhent effeithio ar incwm gwario. Byddai Wi-Fi a signal ffôn symudol hefyd yn cynorthwyo o ran gwella amodau economaidd. |

Draft no status

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| 6. Mynediad ac ansawdd gwasanaethau | ++ ☐ + ■ NIWT ☐ - ☐ - - ☐ Dd/b ☐ | Ystyrir y ddau safle yn gadarnhaol o ran mynediad ac ansawdd gwasanaethau gan y bydd lleoliadau sefydlog yn eu galluogi nhw i ddatblygu cysondeb o ran cael mynediad i wasanaethau iechyd ac addysg. Bydd gan deithwyr Penhesgyn gyfeiriad sefydlog gyda blwch llythyrau ar gyfer yr holl drigolion a dylid darparu hysbysfwrdd a/neu gyngor priodol yn Star am wasanaethau lleol. Fel mesur lliniaru pellach, fe ddylai'r awdurdod lleol ystyried gwella mynediad i drafnidiaeth cyhoeddus ym Mhenhesgyn a darparu mynediad i Wi-Fi yn y ddau safle. |
| 7. Ffactorau Macro-economaidd, amgylcheddol a chynaliadwyedd | ++ ☐ + ■ NIWT ☐ - ☐ - - ☐ Dd/b ☐ | Bydd y datblygiadau yn galluogi'r awdurdod lleol i gydymffurfio â'i ofynion deddfwriaethol a darparu sipsiwn a theithwyr gyda safleoedd dilys sydd wedi'u cynllunio'n dda er mwyn cefnogi diwylliant a chydlyniad teuluol tra'n mabwysiadu safonau diogelwch ar wahaniad. |

***Crynodeb o Sylwadau:*** (Noder mai crynodeb cyffredinol yw hwn, ond dylid hefyd nodi unrhyw anghytundebau sylweddol a allai fod wedi codi yn ystod y profi)

**Yn gyffredinol, ystyrir y bydd y ddau safle yn cael effaith cadarnhaol ar iechyd a lles y sipsiwn a'r teithwyr o gymharu â'r ddarpariaeth bresennol.**

**Ni nodwyd unrhyw anghytundeb sylweddol.**

***Fersiwn: Mawrth 09***

Draft no status

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **14eg Chwefror 2017** |
| **Pwnc:** | **Cytundeb Cwrs Golff Llangefni** |
| **Deilydd Portffolio:** | **Y Cyng. Ieuan Williams** |
| **Prif Weithredwr:** | **Dr Gwynne Jones** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br><br>**Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Dylan J. Williams – Pennaeth Gwasanaeth Adfywio Economaidd a Chymunedol**<br>**01248 752 499**<br>**DylanWilliams@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Y Cyng. Bob Parry**<br>**Y Cyng. Nicola Roberts**<br>**Y Cyng. Dylan Rees**<br><br>**Mae hefyd yn berthnasol i bob Aelod Etholedig oherwydd bod y cyfleuster yn cynnig budd ehangach i Ynys Môn** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**Argymhelliad – Bod yr UDA yn cymeradwyo'r casgliad y dylid ymestyn y cytundeb presennol gyda Phartneriaeth Llangefni (Llangefni Social Enterprise) tan fis Gorffennaf 2018.**

Yn realistig ni fedrir gweithredu ar benderfyniad y Pwyllgor Gwaith i werthu'r ased am ei werth uchaf o fewn yr amser sy'n weddill (Gorffennaf 2017) http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/documents/g2743/Penderfyniadau%2026ain-Mai-2015%2010.00%20Pwyllgor%20Gwaith.pdf?T=2&LLL=1). Bydd angen ymdrin â'r gwerthiant yn ofalus gyda'r diwydrwydd mwyaf er mwyn gwarchod y Cyngor Sir rhag unrhyw feirniadaeth bosibl a gallai pwysau i gwblhau'r broses gyfan mewn chwe mis roi'r Cyngor Sir mewn sefyllfa o risg. Mae angen cynllunio'r broses yn ofalus gan sicrhau cytundeb a mewnbwn gan y Gwasanaethau eraill (Cyfreithiol, Cyllid, Eiddo) yn ogystal ag ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol.

Oherwydd cymhlethdod a natur unigryw'r safle, gwrthododd y Prisiwr Dosbarth brisio'r safle i'r Cyngor. Oherwydd hynny, y cyngor a gafwyd gan y Gwasanaeth Cyfreithiol oedd y dylai cwmni arbenigol annibynnol fod yn gyfrifol am werthu'r ased.

Mae Partneriaeth Llangefni o'r farn bod y Cwrs Golff yn chwarae rhan hanfodol yn eu huchelgais cyffredinol i adfywio Llangefni. Gall yr estyniad eu galluogi, ynghyd â Chyngor Sir a rhanddeiliaid eraill, symud ymlaen ymdrechion i sefydlu gweledigaeth a chyflenwi cynllun cydlynol a chadarn i wella a chryfhau Llangefni ymhellach.

| |
|---|
| Mae'r cwrs golff yn ased adfywio pwysig a gwerthfawr i Langefni ac i Ynys Môn. Mae angen ystyried safbwynt y Cyngor Sir ynglŷn â’r cyfleuster yn ofalus a byddai ymestyn y cytundeb gyda Phartneriaeth Llangefni hyd at Gorffenaf 2018 yn galluogi’r Cyngor i wneud penderfyniad ar sail yr wybodaeth sydd ar gael.<br><br>Byddai ymestyn y cytundeb hwn yn caniatáu i swyddogion y Cyngor Sir ymateb yn briodol i benderfyniad y Pwyllgor Gwaith a wnaed ym mis Mai 2015. |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod?** |
|---|
| Cafodd yr opsiwn o “Wneud Dim” ei ystyried a’i ddiystyru ar unwaith gan fod angen gwneud penderfyniad ar ddyfodol y Cwrs Golff. |

| **C – Pam fod y penderfyniad hwn i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae'r mater wedi cael ei drafod o’r blaen gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Mai 2015 a phenderfynwyd trosglwyddo’r cyfleuster i Bartneriaeth Llangefni tan fis Gorffennaf 2017. Ar ôl mis Gorffennaf 2017 cytunwyd hefyd i gael gwared â’r cyfleuster am y gwerth mwyaf posib. Bydd angen i’r Pwyllgor Gwaith roi ystyriaeth bellach i unrhyw benderfyniad i wyro oddi wrth hynny ynghyd â chytuno ar fandad newydd. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Sylwadau gan PW.<br>Sylwadau gan DPW. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Sylwadau gan Cyfreithiol. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleolo** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anrhefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F – Atodiadau:** |
|---|
| |

| **FF – Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **14/2/17** |
| **Pwnc:** | **Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cyng. Kenneth P Hughes** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Delyth Molyneux** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | **Rachel Rowlands**<br>**752094 rfxlh@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Perthnasol i'r holl aelodau** |

## A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau

**Argymhellion**

- Gofynnir i Aelodau'r Pwyllgor Gwaith ystyried y broses a ddilynwyd o ran datblygu'r strategaeth, ynghyd â'r rhesymeg y tu ôl i'r hyn a gynigir o fewn Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell.
- Gofynnir i Aelodau'r Pwyllgor Gwaith ystyried yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb ac Anghenion.
- Gofynnir i Aelodau'r Pwyllgor Gwaith roi caniatâd i fwrw ymlaen â'r gwaith o gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell, yn unol â'r amserlen isod (Eitem 9).
- Gofynnir i Aelodau'r Pwyllgor Gwaith nodi y bydd y gwasanaeth yn parhau i drafod ac ymgynghori â phartïon sydd â diddordeb ac nad oes unrhyw benderfyniadau terfynol wedi'u gwneud hyd yma.

1. **Pwrpas**

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno **Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell 2017-2022**[1]. Pwrpas y strategaeth hon yw gosod sylfeini cynaliadwy a chadarn a fydd yn caniatáu i ni wasanaethu preswylwyr yr ynys a chyflawni'r gofynion statudol yn y blynyddoedd i ddod.

1.2. Mae'n bwysig nodi ar ddechrau'r papur hwn, tra paratowyd ar gyfer amryw bapurau, a drafodwyd gan aelodau'r Cyngor, ni wnaed unrhyw benderfyniadau terfynol o ran dyfodol

[1] Atodiad 1: Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell 2017-2022

CC-016749-LB/229501

y gwasanaeth llyfrgell ar Ynys Môn.

1.3. Gall swyddogion, cyn belled ag y gallant, roi sicrwydd i aelodau bod y broses a gynhaliwyd hyd yma, ac a argymhellir ar gyfer symud ymlaen, wedi bod, ac fe fydd, yn gynhwysfawr ac yn gynhwysol, a bydd yn darparu cyfle teg a rhesymol i bawb gael cyflwyno eu barnau a'u hymatebion, os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

## 2. Cefndir

2.1. Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth llyfrgell statudol sy'n gynhwysfawr ac yn effeithlon, yn ôl gofynion adran 7 o **Ddeddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964**[2]

2.2. Mae **Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru**[3] (SLCC) yn cael eu gosod a'u hasesu gan Lywodraeth Cymru. Nid ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â statud, ond mae'r Cyngor yn cydnabod eu bod yn fodd defnyddiol o feincnodi gwasanaethau llyfrgell ar draws Cymru, ac yn rhoi sicrwydd i'r Gweinidog sy'n gyfrifol o ran y defnydd o'r gwasanaeth, ei safonau a'i ansawdd; y Safonau yw un o'r mesurau o ran p'un a yw Awdurdod Llyfrgelloedd yn cyflawni ei ddyletswydd statudol.

2.2.1. Mae cyfanswm gwariant y pen yn uwch na chanolrif Cymru (7/21). Y gost gyfartalog ar gyfer pob ymweliad yn 2014-15 oedd £2.32, sy'n is na'r canolrif ar gyfer Cymru (12/21). % y gwariant ar gyfanswm nifer y staff yw 48%; gyda'r isaf yng Nghymru yn 40%, y canolrif yn 58% a'r uchaf yn 79%.

2.2.2. Mae lefelau staffio yn is na'r safonau a osodwyd, o ran cyfanswm y lefelau staffio ar gyfer % y boblogaeth ynghyd â lefelau staffio proffesiynol (cymwysedig) ar gyfer % y boblogaeth. Mae lefelau staffio, fel y nodwyd yn y datganiad niferoedd ac yn asesiad Llywodraeth Cymru, yn dal i fod yn bryder o ran gweithredu a datblygu'r gwasanaeth.

2.2.3. Yn nhermau perfformiad dros gyfnod 2015-16, cafwyd cwymp bach yn nifer yr ymweliadau llyfrgell (corfforol) o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, cafwyd ychydig o gynnydd yn nifer yr ymweliadau rhithwir, gyda'r nifer uchaf ond un yng Nghymru, a chafwyd y niferoedd uchaf ond un yng Nghymru o ran y Defnydd o TG hefyd.

2.3. Yn 2013, bu rhaid i'r Cyngor Sir wynebu'r her o ganfod £16m mewn arbedion effeithlonrwydd yn ystod y 3 blynedd ddilynol.

---

[2] http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1964/75/contents

[3] http://gov.wales/topics/culture-tourism-sport/museums-archives-libraries/libraries/public-library-standards/?skip=1&lang=cy

CC-016749-LB/229501

2.4. Mae **Cynllun Corfforaethol Ynys Môn 2013-17**[4] yn datgan nod i leihau costau cyffredinol y gwasanaethau Hamdden, Diwylliant a Llyfrgelloedd i'r Cyngor gan 60% dros gyfnod y cynllun hwn.

2.5. O ganlyniad i'r ymrwymiadau hyn, sefydlwyd Bwrdd Rhaglen Trawsnewid ar gyfer Llyfrgelloedd, y Gwasanaeth Ieuenctid, Amgueddfeydd a Diwylliant, gyda'r nod o oruchwylio'r gwaith o gyflawni'r addewidion a wnaed yng Nghynllun Corfforaethol CSYM 2013 – 2017 i:

- Ymchwilio i opsiynau a gweithredu model diwygiedig ar gyfer y ddarpariaeth o Lyfrgelloedd

2.6. Cynhaliodd Gwasanaeth Llyfrgell Ynys Môn **Adolygiad o'r Gwasanaeth Llyfrgell**[5] gyda'r nod o sicrhau y gellir cyflenwi'r gwasanaeth gorau bosibl o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Roedd yr adolygiad yn dadansoddi testunau fel perfformiad, defnydd, anghenion ac opsiynau o ran trawsnewid. Roedd yr adolygiad wedi nodi sawl opsiwn ar gyfer datblygu'r gwasanaeth i'r dyfodol. Mae'r prif ysgogwyr newid yn ariannol ac yn dechnolegol.

## 3. Ymgynghori ac Ymgysylltu Cymunedol

3.1. Cynhaliwyd ymgynghoriad gyda'r cyhoedd a rhanddeiliaid yn ystod Hydref 2015 i gasglu barnau ar yr opsiynau a nodwyd gan Adolygiad y Gwasanaeth Llyfrgell ac i wahodd unrhyw syniadau eraill. Cafwyd bron i 2,000 o ymatebion i'r ymgynghoriad a ddarparwyd drwy holiaduron, sesiynau wyneb yn wyneb a gweithdai. Er nad oes unrhyw opsiwn clir a ffefrir wedi ymddangos o'r atebion hyn, roedd tystiolaeth y byddai'n fanteisiol i geisio cyfleoedd ar gyfer modelau 'cefnogaeth gymunedol', yn gweithio gyda mentrau cymdeithasol neu ddarparwyr amgen i weithio gyda'r Cyngor i gynnal y gwasanaeth, yn hytrach nag unrhyw bosibilrwydd o ddileu'r gwasanaeth.

3.2. Cynhaliwyd tri chyfarfod yn Amlwch, Porthaethwy a Rhosneigr (a hefyd is-grŵp rhanddeiliaid yn Llangefni) i gael trafodaeth agored am y broses drawsnewid bosibl. Yn dilyn y cyfarfodydd hyn cafwyd cyfarfodydd gyda: Cyngor Cymuned Llanbadrig (25/5/16), Cyngor Cymuned Llanfair Mathafarn Eithaf (25/5/16), Cyngor Tref Porthaethwy (19/05/16) a chynrychiolwyr o Ganolfan Biwmares (19/05/16), Cyngor Tref Amlwch (15/06/16) a Chyngor Tref Biwmares (04/07/16); cyfarfod o'r Grŵp 5 Tref (15/6/16 a 5/7/16); cyfarfod rhwng y swyddogion a Menter Môn (7/6/16); cyfarfod rhwng swyddogion o'r Gwasanaeth Llyfrgell a'r Gwasanaeth Oedolion (17/6/16); a chyfarfod gyda swyddogion MALD (08/7/16). Yn ogystal, gwahoddwyd swyddogion i fynychu cyfarfod cyhoeddus ym Mhorthaethwy a drefnwyd gan y Cyngor Tref (18/5/16).

[4] http://www.ynysmon.gov.uk/Journals/2014/04/02/f/n/i/cynllun-corfforaethol-2013---2017.pdf tud.13

[5] http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/ymgynghori/ymgynghoriadau-blaenorol/arolwg-gwasanaeth-llyfrgell/127255.article

Cyfarfod i'r holl staff : 11/11/2015 a 1/2/2017

3.3. Yn ystod y cyfarfodydd hyn, amlygwyd nifer o gyfleoedd i ddatblygu'r gwasanaeth trwy drawsnewid y modd y mae'r Gwasanaeth Llyfrgell yn cael ei gyflwyno. Mae rhai o'r cyfleoedd wedi eu trafod gan y Gwasanaeth yn ystod yr Adolygiad Gwasanaeth a'r broses ymgynghori eang fu yn ystod tymor yr Hydref 2015.

3.4. Comisiynodd Grŵp y 5 Tref (Cynghorau Tref) astudiaeth ffurfiol drwy Menter Môn i edrych ar y materion ymarferol o ran darparu gwasanaeth llyfrgell mewn partneriaeth â'r cymunedau lleol.

3.5. Mae Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell yn cyflwyno model a ffefrir o ran ymgynghori. Mae gan y model hwn a ffefrir y potensial i sicrhau sylfeini cynaliadwy cadarn a fydd yn caniatáu i ni wasanaethu ein preswylwyr a chyflawni'r gofynion statudol dros y blynyddoedd i ddod. Aseswyd hyfywedd yr opsiynau ar gyfer yr amryw ddulliau o gyflenwi'r Gwasanaeth Llyfrgell a oedd wedi llywio'r ymgynghoriad cyhoeddus cychwynnol yn Hydref 2015[6] . Mae'r asesiad wedi cael graddiad CMG (RAG) yn ôl 3 maen prawf:

- A wnaiff y Gwasanaeth gyflawni 5ed Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru (bydd yr asesiad yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r 6ed Fframwaith pan gaiff ei ryddhau)?
- A fydd effaith negyddol ar breswylwyr yr ynys?
- Beth yw'r goblygiadau o ran costau?

Mae'r asesiad hyfywedd wedi llywio Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell.

## 4. Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell

4.1. Datblygwyd Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell i ymateb i'r heriau a'r anghenion a amlinellwyd uchod.

4.2. Cynhwyswyd Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell fel Atodiad 1.

4.3. Rydym wedi gwrando ar farnau preswylwyr ac wedi eu hymwreiddio o fewn y strategaeth ddrafft hon. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cynnal gwasanaeth benthyca llyfrau a werthfawrogir yn fawr
- Cynnal darpariaeth TGCh a Rhwydwaith gref
- Parhau i helpu plant, pobl ifanc ac oedolion i wella eu sgiliau a dysgu
- Cyflenwi gwasanaethau gyda staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol

[6] Atodiad 2: Asesiad Hyfywedd

- Dangos cysylltiad clir â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[7]

**5. Y Weledigaeth**

5.1. Mae'r strategaeth yn amlinellu gweledigaeth ar gyfer Gwasanaeth Llyfrgell Ynys Môn ac yn nodi fframwaith cyflenwi a chanddo'r potensial i ddiwallu anghenion y Safonau Llyfrgelloedd, ynghyd ag ymateb i anghenion ein cwsmeriaid:

*Mae llyfrgelloedd Ynys Môn yn lleoedd croesawgar i ddarllen, dysgu a darganfod – y tywysydd y gellir ymddiried ynddo yng nghalon ein cymunedau.*

5.2. Wrth wraidd y weledigaeth, ceir y nodau craidd:

**Hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant** – Rydym yn cydnabod bod llyfrgelloedd cyhoeddus wedi cael eu hysgogi bob amser gan egwyddorion cydraddoldeb a chynhwysiant.

**Ei gwneud yn hawdd i bawb ddefnyddio ein gwasanaethau** – Rydym yn cydnabod nad yw pawb yn gallu neu'n dymuno cael mynediad i'r gwasanaeth llyfrgell yn yr un modd, byddwn yn sicrhau bod ein gwasanaeth yn gynhwysol i bawb.

**Darparu gwasanaethau o safon uchel sy'n canolbwyntio ar y cwsmer** – Byddwn yn cyflenwi adnoddau o safon uchel mewn mannau croesawgar.

**Bod yn dywysydd y gellir ymddiried ynddo –** Rydym ar gael i helpu i gael mynediad i wybodaeth mewn amgylchedd y gellir ymddiried ynddo.

**Partneriaeth gyda sefydliadau ac asiantaethau** – Rydym yn cydnabod bod gan bartneriaethau llwyddiannus rolau a chyfrifoldebau clir, ynghyd â disgwyliadau a reolir a chanlyniadau gweladwy ar gyfer bob partner.

**Staff** – Rydym eisiau i'n staff a'n gwirfoddolwyr eich helpu i wneud yn fawr o'ch llyfrgelloedd. Gwyddwn hefyd mai ein staff yw ein hased mwyaf, ac rydym eisiau bod yn lle gwych i weithio ynddo. Rydym eisiau creu cyfleoedd i wirfoddolwyr.

5.3. Yng ngolau'r uchod, mae'r Strategaeth ddrafft hon yn argymell symud i batrwm o ddarpariaeth yn seiliedig ar:

- Lyfrgelloedd Ardal
- Llyfrgelloedd a Gefnogir gan y Gymuned dan arweiniad yr Awdurdod
- Gwasanaethau Symudol (Y Gwasanaeth Symudol Cymunedol, y Gwasanaeth i rai sy'n Gaeth i'w Tai a'r Gwasanaeth Llyfrgell i Ysgolion)
- Pwyntiau mynediad posibl yn y gymuned (yn dibynnu ar ddosbarthiad A a B)

[7] http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents/enacted

5.4. Yn fanylach, dyma’r ddarpariaeth a gynigir:

**Llyfrgelloedd Ardal:** Llyfrgell lawn amser, wedi’i staffio’n llawn, sydd ar agor am tua 40 awr yr wythnos, a gefnogir gan dîm proffesiynol ar lefel y Sir gyfan. Dyma’r patrwm presennol.

**Llyfrgelloedd a Gefnogir gan y Gymuned dan arweiniad y Cyngor:** Tua 20 awr o ran oriau agor gyda staff craidd a ddarperir gan yr Awdurdod, cefnogir y staff rheng flaen (ar lefel cangen) gan dîm proffesiynol ar lefel y Sir gyfan. Dyma’r patrwm presennol.

**Llyfrgelloedd a Gefnogir gan y Gymuned dan arweiniad y Cyngor:** Tua 10-12 awr o ran oriau agor gyda staff craidd a ddarperir gan yr Awdurdod, cefnogir y staff rheng flaen (ar lefel cangen) gan dîm proffesiynol ar lefel Sir gyfan. Dyma’r patrwm presennol.

Fodd bynnag, o ran y drydedd haen hon, os na cheir cefnogaeth gan y cymunedau neu bartïon eraill, mae posibilrwydd y bydd y llyfrgell yn cau. Yn yr achos hwn, bydd angen ffactorau lliniaru, er enghraifft, ‘pwynt cyswllt’ o fewn y gymuned neu gynyddu presenoldeb y Llyfrgell Symudol.

**Gwasanaethau Symudol:** Ochr yn ochr â’r uchod, cynhelir adolygiad llawn o lwybrau’r gwasanaethau i rai sy’n gaeth i’w tai a’r Llyfrgell Symudol, ynghyd â’r mannau y byddant yn galw ynddynt. Rhagwelir newidiadau i’r maes gwasanaeth hwn wrth fynd ymlaen, er mwyn mynd i’r afael â phatrymau defnydd newidiol. Fodd bynnag, dengys gwybodaeth o ran cydraddoldeb ac angen bod ein gwasanaethau symudol yn rhan bwysig o’r ddarpariaeth ar gyfer ein Sir wledig. Mae’n bosibl y gweithredir modelau amgen, er enghraifft, partneru gyda’r trydydd sector i gyflenwi elfennau o’r Gwasanaeth i rai sy’n Gaeth i’w Tai.

## 6. Effaith Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell

6.1. Bydd yr Asesiad Cydraddoldeb ac Anghenion [8] (AECA) ar gyfer Llyfrgelloedd yn asesu’r angen am y Gwasanaeth Llyfrgell, ynghyd ag effaith unrhyw newidiadau arfaethedig i’r strwythur rheoli ar y boblogaeth a all fod yn dymuno ei ddefnyddio. Bydd angen ystyried pob opsiwn yn nhermau’r effaith ar breswylwyr Ynys Môn yn ogystal â gallu’r Cyngor i ddarparu gwasanaeth llyfrgell ‘cynhwysfawr ac effeithlon’, yn unol â Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964. Yn ogystal, rhoir ystyriaeth i Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru ynghyd â’r anghenion o ran bod Awdurdodau Llyfrgelloedd yng Nghymru’n adrodd ar eu perfformiad blynyddol mewn perthynas â’r Safonau hyn.

6.2. Wrth ddatblygu cynigion ar gyfer Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell, ymhlith dangosyddion eraill, ystyriwyd y canlynol fel rhan o’r AECA:

- Y defnydd o lyfrgelloedd (nifer y defnyddwyr) a chostau gweithredu

[8] Atodiad 3 Asesiad Cydraddoldeb ac Anghenion

- Gwybodaeth Ddemograffig am gymunedau Ynys Môn, gan gynnwys y twf i'r dyfodol
- Lleoliad llyfrgelloedd sefydlog a lle bydd y llyfrgell symudol yn galw
- Patrymau defnydd o'r llyfrgell gan gwsmeriaid
- Maint dalgylchoedd llyfrgelloedd gan gynnwys pellteroedd teithio
- Lefelau amddifadedd mewn dalgylchoedd llyfrgelloedd
- Perchnogaeth ceir
- Anghenion pobl a chanddynt nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb
- Perfformiad y Gwasanaeth Llyfrgell: Fframwaith 5 a 6 Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru

6.3. Mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd mewn perthynas â'r data diweddaraf. Fodd bynnag, ymddengys fod y cymunedau mwyaf difreintiedig o fewn dalgylch Llyfrgelloedd Llangefni a Chaergybi, a effeithir leiaf gan unrhyw newidiadau i'r model cyflenwi gwasanaeth fel yr awgrymwyd o fewn Strategaeth y Gwasanaeth Llyfrgell.

6.4. Mae ardaloedd lle gall unigolion fod dan anfantais oherwydd natur wledig eu hardaloedd neu gysylltiadau gwael yn cael eu mapio, a rhoir ystyriaeth i gynyddu'r mynediad i'r gymuned i'r gwasanaeth pe bai unrhyw newidiadau i'r model cyflenwi yn arwain at gau unrhyw lyfrgelloedd.

6.5. Darganfu'r AECA bod cyfleoedd i ddatblygu a meithrin cydlyniant cymunedol a gwydnwch mewn cymunedau lle bo awydd i gydweithio â'r Awdurdod Lleol i gyflenwi gwasanaethau drwy ddulliau newydd.

6.6. Mae'n debygol y bydd rhai grwpiau'n ystyried bod y cynnig yn annheg gan fod posibilrwydd y bydd pwyntiau gwasanaeth yn cau mewn rhai cymunedau, tra byddant yn cael eu cadw mewn mannau eraill. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod yn agored ac yn barod i dderbyn awgrymiadau o ran gwahanol ddulliau o weithio a allai arwain at wella'r gwasanaeth, yn hytrach na'i fod yn dirywio, o ganlyniad i strategaeth hirdymor.

6.7. Wrth ddatblygu'r Strategaeth, ystyriwyd ei bod yn angenrheidiol i bob rhan o'r cymunedau gael cyfle a chael eu hannog i weithio gyda'i gilydd i ddatblygu syniadau a fydd o fudd i'r gymuned gyfan.

6.8. Mewn rhai ardaloedd, gall fod gwahaniaethau barn rhwng grwpiau sefydledig y mae eu syniadau o ran cyflenwi gwasanaeth Llyfrgell i'r dyfodol yn wahanol. Fodd bynnag, drwy gynnig sawl cyfle i gael trafodaeth, rhagwelir na ddylid bod unrhyw effaith yn parhau o ganlyniad i'r cynnig.

6.9 Mae'r Asesiad Cydraddoldeb ac Anghenion (AECA) yn ddogfen fyw a bydd canfyddiadau o'r broses ymgynghori yn cael eu bwydo i mewn fel y bo'n briodol.

## 7. Ystyriaethau Ariannol

7.1. Y gyllideb ar gyfer y Gwasanaeth Llyfrgell yn 2013/14 oedd £865,360 (yn cynnwys NNDR, ac eithrio taliadau canolog a chyllid cyfalaf).

7.2. Oherwydd y newidynnau posibl yn nhermau'r model terfynol o fewn y Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgell, dengys yr arbedion isod y 2 begwn o fewn y strategaeth; gall y model terfynol fod yn rhywle rhwng y ddau. Mae colofn y lefel uchaf o gefnogaeth gan y gymuned yn dangos model lle mae pob Llyfrgell a Gefnogir gan y Gymuned dan Arweiniad yr Awdurdod yn llwyddiannus, ac mae'r golofn lle ceir y lefel isaf o gefnogaeth gan y gymuned yn dangos lle na fu modd cael cefnogaeth y gymuned, sydd yn arwain i lyfrgelloedd Haen 3 yn cau (5 llyfrgell).

7.3. Tabl yn dangos yr arbedion posibl os **cedwir y lefelau staffio** o fewn y gwasanaeth (ond gyda strwythur staffio gwahanol), sydd felly'n lliniaru'r effaith ar Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru.

| | **Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgell gyda'r lefel uchaf o gefnogaeth gan y gymuned** (Haen 2 a 3) Byddai hyn yn gweld y strategaeth yn cael ei gweithredu'n llawn ym mhob un o'r 10 llyfrgell sefydlog, heb gau yr un ohonynt | | **Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgell gyda'r lefel isaf o gefnogaeth gan y gymuned** (posibilrwydd o 5 yn cau o Haen 3 gyda ffactorau lliniaru yn eu lle) | |
|---|---|---|---|---|
| | Trosglwyddo incwm maes parcio* i grŵp 3ydd parti | Y gwasanaeth yn cadw incwm maes parcio llyfrgell o fewn cyllideb y gwasanaeth | Peidio â chynnwys incwm maes parcio yng nghyllideb y gwasanaeth | Cadw incwm maes parcio llyfrgell o fewn cyllideb y gwasanaeth |
| Cyfanswm arbediad y **strategaeth** yn erbyn cyllideb 13/14 | -£70,459.46<br>-8.14% | -£78,459.46<br>-9.11% | -£39,515.88<br>-4.57% | -£47,855.28<br>-5.53% |
| Yr arbedion a gyflawnwyd eisoes o fewn y gwasanaeth yn ystod 2013-17 | £61,000<br>-7% | £61,000<br>-7% | £61,000<br>-7% | £61,000<br>-7% |
| **Cyfanswm** Arbedion y Gwasanaeth Llyfrgell yn ystod | £131,459.46<br>-15.14% | £139,459.46<br>-16.11% | £100,515.88<br>-11.57% | £108,855.28<br>-12.53% |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2013-17 (yr arbedion a gyflawnwyd eisoes + arbedion y Strategaeth) | | | | |

*incwm y maes parcio yw'r incwm a dderbyniwyd i mewn i gyllideb y gwasanaeth o'r maes parcio cyfagos i Lyfrgell Biwmares.

7.4. Tabl yn dangos yr arbedion posibl os na fydd y **lefelau staffio yn cael eu cadw** o fewn y gwasanaeth. Mae'r Gwasanaeth eisoes yn is na'r lleiafswm o ran lefelau staffio. Caiff gostyngiad pellach effaith ar berfformiad a lefelau gwasanaeth.

| | **Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgell gyda'r lefel uchaf o gefnogaeth gan y gymuned** (Haen 2 a 3) Byddai hyn yn gweld y strategaeth yn cael ei gweithredu'n llawn ym mhob un o'r 10 llyfrgell sefydlog, heb gau yr un ohonynt | | **Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgell gyda'r lefel isaf o gefnogaeth gan y gymuned** (posibilrwydd o 5 yn cau o Haen 3 gyda ffactorau lliniaru yn eu lle) | |
|---|---|---|---|---|
| | Trosglwyddo incwm maes parcio* i grŵp 3ydd parti | Y gwasanaeth yn cadw incwm maes parcio llyfrgell o fewn cyllideb y gwasanaeth | Peidio â chynnwys incwm maes parcio yng nghyllideb y gwasanaeth | Cadw incwm maes parcio llyfrgell o fewn cyllideb y gwasanaeth |
| Cyfanswn arbediad y **strategaeth** yn erbyn cyllideb 13/14 | £115,509.46<br><br>-13.35% | -£123,848.86<br><br>-14.32% | -£121,865.88<br><br>-14.09% | -£130,205.28<br><br>-15% |
| Yr arbedion a gyflawnwyd eisoes o fewn y gwasanaeth yn ystod 2013-17 | £61,000<br><br>-7% | £61,000<br><br>-7% | £61,000<br><br>-7% | £61,000<br><br>-7% |
| **Cyfanswm** Arbedion y Gwasanaeth Llyfrgell yn ystod 2013-17 (yr arbedion a gyflawnwyd eisoes + arbedion y | £176,509.46<br><br>-20.35% | £184,848.86<br><br>-21.35% | £182,865.88<br><br>-21.09% | £191,205.28<br><br>-22% |

| Strategaeth) | | | | |
|---|---|---|---|---|

*incwm y maes parcio yw'r incwm a dderbyniwyd i mewn i gyllideb y gwasanaeth o'r maes parcio cyfagos i Lyfrgell Biwmares.

7.5. Mae **Atodiad 4** yn amlinellu'r costau hyn yn fanylach.

**8. Camau Nesaf**

8.1. Mae'r Gwasanaeth Llyfrgell bellach yn bwriadu cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell, ynghyd â hwyluso trafodaethau â phartïon a chanddynt ddiddordeb. Bydd y cam hwn yn y broses yn fodd o gasglu adborth ar ein hargymhellion.

8.2. Yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus, bydd yr Aelod Cabinet yn argymell Strategaeth Derfynol y Gwasanaeth Llyfrgell i'r Pwyllgor Gwaith ar gyfer penderfyniad terfynol yn Hydref 2017.

**9. Amserlen**

- Cyflwyno Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell ynghyd ag Asesiad Cydraddoldeb ac Anghenion Llyfrgelloedd i'r Pwyllgor Gwaith ar 13 Chwefror 2017.
- Ymgynghoriad ar Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell gyda rhanddeiliaid a defnyddwyr yn dilyn yr etholiad lleol ym mis Mai. Cynhelir yr ymgynghoriad rhwng Mehefin ac Awst 2017.
- Yng ngolau canfyddiadau'r ymgynghoriad cyhoeddus, adrodd ar Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell i'r Pwyllgor Gwaith erbyn Tachwedd 2017.
- Y Pwyllgor Gwaith i wneud penderfyniad terfynol ar gyfeiriad strategol Gwasanaeth Llyfrgell Ynys Môn i'w gytuno erbyn Tachwedd 2017, yn dilyn rhoi sylw dyledus i'r ymgynghoriad cyhoeddus a deddfwriaeth gydraddoldeb.

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Mae'r broses drawsnewid wedi ystyried ac ymgynghori ynghylch ystod eang o opsiynau posibl. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Cynhelir yr ailfodelu hwn mewn ymateb i gais Corfforaethol penodol o dan gylch gwaith y Bwrdd Trawsnewid Dysgu Gydol Oes. |

| |
|---|
| |

| CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| |

| D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| |

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Cefnogol ir egwyddorion a grybwyllir |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Dim sylwadau |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Dylid ymdrin ag unrhyw faterion staffio sy'n deillio o'r Strategaeth yn unol ag ymgynghori a phrosesau adnoddau dynol cydnabyddedig eraill. Os oes angen cymorth AD ynglŷn ag ymgynghori efallai y bydd angen meithrin gallu yn yr uned er mwyn cynnwys hyn yn y llwyth gwaith. |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Caffael** | |
| 8 | **Sgriwtini** | |
| 9 | **Aelodau Lleol** | |
| 10 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anrhefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

| **F – Atodiadau:** |
|---|
| **Atodiad 1:** Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgelloedd Ddrafft<br>**Atodiad 2:** Asesiad Hyfywedd<br>**Atodiad 2b:** Mapio<br>**Atodiad 3:** Effaith Cydraddoldeb ac Asesiad o Anghenion<br>**Atodiad 4:** Costau |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Cynhwysir papurau cefndir fel dolenni yn yr adroddiad |

**Strategaeth Ddrafft Gwasanaeth Llyfrgell Ynys Môn 2017-2022**

## 1. Cyflwyniad

Mae Gwasanaeth Llyfrgell Ynys Môn wedi ymgymryd ag Adolygiad o'r Gwasanaeth Llyfrgell gyda'r nod o sicrhau y gellir cyflenwi'r gwasanaeth gorau bosibl o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Mae'r prif ysgogwyr newid yn rhai ariannol a thechnolegol. Yn 2013, heriwyd Cyngor Sir Ynys Môn i ganfod arbedion effeithlonrwydd o £16m yn y 3 blynedd oedd yn dilyn[1].

Yn ogystal, mae'n angenrheidiol i adolygu'r gwasanaeth llyfrgell cyhoeddus yng ngolau newid technolegol sy'n effeithio ar: sut y mae pobl yn cael mynediad ac yn defnyddio'r cynnig craidd (darllen); sut y mae pobl yn diwallu eu hanghenion o ran gwybodaeth, a sut y mae pobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol yn cael eu rhoi o dan fwy o anfantais fel yr ydym yn symud yn agosach fyth at gymdeithas 'digidol yn gyntaf'.

Mae'r Cyngor Sir yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth llyfrgell cyhoeddus sy'n gynhwysfawr ac yn effeithlon, fel sy'n ofynnol gan adran 7 o Ddeddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964[2]. Nod y strategaeth hon yw gosod sylfeini cynaliadwy cadarn a fydd yn caniatáu i ni wasanaethu ein preswylwyr a chyflawni'r gofynion statudol dros y blynyddoedd i ddod.

Yn ogystal, mae'r Cyngor Sir yn ymwybodol o Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru (SLCC), a weinyddir gan Lywodraeth Cymru. Nid ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â statud, ond mae'r Cyngor yn cydnabod eu bod yn fodd defnyddiol o feincnodi gwasanaethau llyfrgell ar draws Cymru, ac yn rhoi sicrwydd i'r Gweinidog sy'n gyfrifol o ran y defnydd o'r gwasanaeth, ei safonau a'i ansawdd.

Mae'n bwysig nodi ar ddechrau'r papur hwn, tra paratowyd amryw bapurau ar gyfer aelodau'r Cyngor, sydd wedi'u trafod ganddynt, nid oes unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud o ran dyfodol y gwasanaeth llyfrgell ar Ynys Môn. Bydd y penderfyniad o ran sut i gyflenwi'r gwasanaeth gorau bosibl o fewn yr adnoddau sydd ar gael yn cael ei lywio gan yr ymgynghoriad a gynhelir gan y Cyngor, ynghyd â'r sylwadau a wnaed gan randdeiliaid, ymgyngoreion a defnyddwyr yn ystod y broses.

[1] http://www.ynysmon.gov.uk/Journals/2014/04/02/f/n/i/cynllun-corfforaethol-2013---2017.pdf

[2] http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1964/75/contents

## 2. Cyd-destun / Y broses hyd yma

Mae Cynllun Corfforaethol Ynys Môn 2013-17[3] yn nodi:

> *Rydym yn awyddus i gadw ein lle a'n presenoldeb yng nghalon ein cymunedau gan droi ein llyfrgelloedd yn 'ddrws ffrynt cyffredinol' i ni fel cyngor*

Byddai'r Cygnor yn:

> *ymchwilio i opsiynau a gweithredu model diwygiedig ar gyfer y ddarpariaeth o Lyfrgelloedd*

Nodwyd y byddai'r mesur llwyddiant fel a ganlyn:

- *Gweithredu ar fodelau newydd o ran rheoli llyfrgelloedd a safleoedd treftadaeth ddiwylliannol*
- *Darpariaeth llyfrgell bwrpasol a chynaliadwy*

a nod y Cyngor fyddai:

> *..lleihau costau cyffredinol y gwasanaethau hyn (hamdden, diwylliant a llyfrgelloedd) i'r Cyngor gan 60% dros gyfnod y cynllun hwn.*

O ganlyniad i'r ymrwymiadau hyn, ymgymerwyd ag Adolygiad o'r Gwasanaeth Llyfrgell[4] a oedd yn dadansoddi testunau fel defnydd, anghenion ac opsiynau ar gyfer trawsnewid. Roedd yr adolygiad wedi nodi sawl opsiwn ar gyfer datblygu'r gwasanaeth i'r dyfodol.

---

[3] http://www.ynysmon.gov.uk/Journals/2014/04/02/f/n/i/cynllun-corfforaethol-2013---2017.pdf tud.13

[4] http://www.ynysmon.gov.uk/download/47803



DRAFT

Cynhaliwyd ymgynghoriad gyda'r cyhoedd a rhanddeiliaid yn ystod Hydref 2015 i gasglu barnau ar yr opsiynau a nodwyd gan Adolygiad y Gwasanaeth Llyfrgell ac i wahodd unrhyw syniadau eraill. Cafwyd bron i 2,000 o ymatebion i'r ymgynghoriad a ddarparwyd drwy holiaduron, sesiynau wyneb yn wyneb a gweithdai[5]. Er nad oes unrhyw opsiwn clir a ffefrir wedi ymddangos o'r atebion hyn, roedd tystiolaeth y byddai'n fanteisiol i geisio cyfleoedd ar gyfer modelau 'cefnogaeth gymunedol', yn gweithio gyda mentrau cymdeithasol neu ddarparwyr amgen i weithio gyda'r Cyngor i gynnal y gwasanaeth, yn hytrach nag unrhyw bosibilrwydd o ddileu'r gwasanaeth[6].

Rydym wedi gwrando ar farnau ymatebwyr ac wedi ystyried eu sylwadau wrth ddyfeisio'r strategaeth hon. Mae hyn yn cynnwys y cynnig i sicrhau bod llyfrgelloedd yn:

• Cynnal gwasanaeth benthyca llyfrau a werthfawrogir yn fawr

• Cynnal darpariaeth TGCh a Rhwydwaith gref

• Parhau i helpu plant, pobl ifanc ac oedolion i wella eu sgiliau a dysgu

• Cyflenwi gwasanaethau gyda staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol

• Gweithredu fel hyb o fewn y gymuned yn darparu gwybodaeth a gweithgareddau

• Hwyluso mynediad di-dor i wasanaethau'r Cyngor

• Dangos cysylltiad clir â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[7]

## 3. Gwasanaeth Llyfrgell Ynys Môn

Mae'r galw am wasanaethau llyfrgell yn newid. Yn genedlaethol, mae llai o alw am fenthyca llyfrau ac ymweld â llyfrgelloedd. Mae'r duedd hon yn weladwy ar draws Gwasanaeth Llyfrgell Ynys Môn, er i raddau llai na hynny mewn sawl ardal arall yn y DU.

Wrth ddatblygu cynigion ar gyfer y Stratgaeth Llyfrgelloedd hon, ystyriwyd y canlynol fel rhan o Asesiad Effaith Cydraddoldeb ac Anghenion [8] manwl.

• Y defnydd o lyfrgelloedd (nifer y defnyddwyr) a chostau gweithredu

[5] http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/ymgynghori/ymgynghoriadau-blaenorol/arolwg-gwasanaeth-llyfrgell/127255.article?redirect=false

[6] http://www.ynysmon.gov.uk/cyhoeddi-canfyddiadau-ymgynghoriad-llyfrgelloedd/128048.article?redirect=false

[7] http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents/enacted

[8] **Atodiad 3**: Asesiad AECA



DRAFT

• Gwybodaeth Ddemograffig am gymunedau Ynys Môn, gan gynnwys y twf i'r dyfodol

• Lleoliad llyfrgelloedd sefydlog a lle bydd y llyfrgell symudol yn galw

• Patrymau defnydd o'r llyfrgell gan gwsmeriaid

• Maint dalgylchoedd llyfrgelloedd gan gynnwys pellteroedd teithio

• Lefelau amddifadedd mewn dalgylchoedd llyfrgelloedd

• Cyrhaeddiad addysgol plant

• Perchnogaeth ceir a chludiant cyhoeddus

• Anghenion pobl a chanddynt nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb

• Perfformiad y Gwasanaeth Llyfrgell: Fframwaith 5 a 6 Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru

**4. Y Weledigaeth i'r Dyfodol**

Mae llyfrgelloedd Ynys Môn yn lleoedd croesawgar i ddarllen, dysgu a darganfod – y tywysydd y gellir ymddiried ynddo yng nghalon ein cymunedau.

Wrth wraidd y weledigaeth, ceir y nodau craidd:

**Hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant** – Rydym yn cydnabod bod llyfrgelloedd cyhoeddus wedi cael eu hysgogi bob amser gan egwyddorion cydraddoldeb a chynhwysiant.

**Ei gwneud yn hawdd i bawb ddefnyddio ein gwasanaethau** – Rydym yn cydnabod nad yw pawb yn gallu neu'n dymuno cael mynediad i'r gwasanaeth llyfrgell yn yr un modd, byddwn yn sicrhau bod ein gwasanaeth yn gynhwysol i bawb.

**Darparu gwasanaethau o safon uchel sy'n canolbwyntio ar y cwsmer** – Byddwn yn cyflenwi adnoddau o safon uchel mewn mannau croesawgar.

**Bod yn dywysydd y gellir ymddiried ynddo** – Rydym ar gael i helpu i gael mynediad i wybodaeth mewn amgylchedd y gellir ymddiried ynddo.

**Partneriaeth gyda sefydliadau ac asiantaethau** – Rydym yn cydnabod bod gan bartneriaethau llwyddiannus rolau a chyfrifoldebau clir, ynghyd â disgwyliadau a reolir a chanlyniadau gweladwy ar gyfer bob partner.

**Staff** – Rydym eisiau i'n staff a'n gwirfoddolwyr eich helpu i wneud yn fawr o'ch llyfrgelloedd. Gwyddwn hefyd mai ein staff yw ein hased mwyaf ac rydym eisiau bod yn lle gwych i weithio ynddo. Rydym eisiau creu cyfleoedd i wirfoddolwyr.

## 5. Sut y byddwn yn cyflenwi Gwasanaeth Llyfrgell Ynys Môn i gyflawni'r weledigaeth hon

Gan edrych i'r dyfodol, mae'n rhaid i ni fod yn realistig o ran yr hinsawdd economaidd bresennol. Mae'r gwasanaeth llyfrgell yn wasanaeth statudol y mae'n rhaid iddo weithredu o fewn y gyllideb sydd ar gael. Felly mae'r strategaeth ddrafft hon yn anelu at osod sylfeini cynaliadwy a chadarn a fydd yn caniatáu i ni wasanaethu preswylwyr yr ynys a chyflawni'r gofynion statudol yn y blynyddoedd i ddod.

Mae'r Adolygiad o'r Gwasanaeth Llyfrgell, ynghyd â'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb ac Anghenion a'r ymgynghoriad cyhoeddus, yn caniatáu i ni gyflwyno strategaeth ddrafft a fydd yn cyflawni gofynion y gwasanaeth llyfrgell, yn ogystal â chynnig y gwasanaeth gorau bosibl i breswylwyr Ynys Môn.

Dengys tystiolaeth o'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb ac Anghenion[9] y gallai Gwasanaeth Llyfrgell Ynys Môn symud i fod yn Wasanaeth Llyfrgell statudol tair haen ym Môn yn nhermau defnydd, angen, effaith a lleoliad strategol. Byddai patrwm o lyfrgelloedd sefydlog yn ychwanegol i'r Gwasanaeth Llyfrgell Symudol, y Gwasanaeth Llyfrgell i rai sy'n Gaeth i'w Tai a'r Gwasanaeth Llyfrgell i Ysgolion.

Detholwyd y categorïau uchod drwy arfer dda ac ystyried yr argymhellion gan Lywodraeth Cymru yn eu hadroddiad diwethaf ar ddyfodol gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru, 'Pennu Cwmpas Gwasanaeth Llyfrgelloedd Cyhoeddus Newydd i Gymru'[10], ac maent yn seiliedig ar ofynion 6ed Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru[11].

Mae'r Cyngor yn agored i'r posibiladau o ran modelau 'cefnogaeth gymunedol', fel gweithio gyda mentrau cymdeithasol neu ddarparwyr amgen, gan gynnwys model Ymddiriedolaeth ar gyfer Gwasanaethau Llyfrgell Ynys Môn, ac nid yw'r strategaeth ddrafft hon yn gosod model llywodraethu.

Yng ngolau'r uchod, yn enwedig yr Adolygiad o'r Gwasanaeth Llyfrgell, yr ymgynghoriad ar gyfer y cyhoedd a rhanddeiliaid a gynhaliwyd hyd yma a gweledigaeth ac amcanion y Cyngor, mae'r Strategaeth ddrafft hon yn argymell symud i batrwm o ddarpariaeth yn seiliedig ar:

A. Lyfrgelloedd Ardal

B. Llyfrgelloedd a Gefnogir gan y Gymuned dan arweiniad yr Awdurdod

[9] **Atodiad 3:** Asesiad AECA

[10] http://gov.wales/docs/drah/publications/151019-scoping-a-future-for-public-libraries-cy.pdf

[11] http://gov.wales/topics/culture-tourism-sport/museums-archives-libraries/libraries/public-library-standards/?skip=1&lang=cy

C. Gwasanaethau Symudol (Y Gwasanaeth Symudol Cymunedol, y Gwasanaeth i rai sy'n Gaeth i'w Tai a'r Gwasanaeth Llyfrgell i Ysgolion)

D. Pwyntiau mynediad posibl yn y gymuned

Dyma'r model posibl:

**Haen 1 Llyfrgelloedd Ardal:** Llyfrgell lawn amser, wedi'i staffio'n llawn, sydd ar agor am tua 40 awr yr wythnos, a gefnogir gan dîm proffesiynol ar lefel y Sir gyfan, fel yn achos y patrwm presennol.

**Haen 2 Llyfrgelloedd a Gefnogir gan y Gymuned dan arweiniad y Cyngor:** Tua 20 awr o ran oriau agor gyda staff craidd a ddarperir gan yr Awdurdod, cefnogir y staff rheng flaen (ar lefel cangen) gan dîm proffesiynol ar lefel y Sir gyfan, fel yn achos y patrwm presennol.

**Haen 3 Llyfrgelloedd a Gefnogir gan y Gymuned dan arweiniad y Cyngor:** Tua 10-12 awr o ran oriau agor gyda staff craidd a ddarperir gan yr Awdurdod, cefnogir y staff rheng flaen (ar lefel cangen) gan dîm proffesiynol ar lefel Sir gyfan, fel yn achos y patrwm presennol. Fodd bynnag, o ran y drydedd haen hon, os na cheir cefnogaeth gan y cymunedau neu bartïon eraill, mae posibilrwydd y bydd y llyfrgell yn cau. Yn yr achos hwn, bydd angen ffactorau lliniaru, er enghraifft, 'pwynt cyswllt' o fewn y gymuned neu gynyddu presenoldeb y Llyfrgell Symudol; bydd y ddarpariaeth hon yn ystyried mesurau Effaith ar Gydraddoldeb.

Ochr yn ochr â'r uchod, cynhelir adolygiad llawn o lwybrau'r gwasanaethau i rai sy'n gaeth i'w tai a'r Llyfrgell Symudol a'r mannau y byddant yn galw ynddynt. Mae newidiadau i'r maes gwasanaeth hwn yn anochel wrth fynd ymlaen, ac mae'n bosibl y gweithredir modelau amgen, er enghraifft, partneru gyda'r trydydd sector i gyflenwi elfennau o'r Gwasanaeth i rai sy'n Gaeth i'w Tai.

DRAFT

**6. Tabl sy'n rhoi manylion yr hyn y mae bob categori yn ei feddwl:**

| Categori (drafft) | Y cyfleusterau a fydd ar gael: (drafft) |
|---|---|
| **Llyfrgell Ardal**<br><br>**gyda:**<br><br>Dros 50,000 o ymweliadau blynyddol a,<br>Dros 50,000 o fenthyciadau blynyddol a | • Lleolir y llyfrgell yn nalgylch y brif ardal siopa<br>• Oriau agor o rhwng 25 a 40 awr yr wythnos<br>• O leiaf 10,000 eitem o stoc ar gael mewn amrywiaeth eang o fformatau, gyda rhwng 10,000 a 15,000 eitem o stoc yn y |

| | |
|---|---|
| **Dros 8,000 sesiwn o ddefnydd cyfrifiaduron** | llyfrgelloedd mwy<br>• Cysylltiad ag e-lywodraeth ac e-ddysgu a'r ddarpariaeth o gasgliadau arbenigol, e.e. - Hanes Lleol, Iechyd a Lles, setiau o lyfrau ar gyfer Grwpiau Darllen<br>• o leiaf 16 cyfrifiadur, gwasanaeth Wi-Fi am ddim, lle i ddefnyddio gliniaduron a thabledi ar gael i'w defnyddio<br>• Lle o fewn yr ardal blant ar gyfer gweithgareddau neu fynediad rhwydd i le priodol<br>• Lle, neu fynediad i le, ar gyfer cynnal digwyddiadau cymunedol a gweithgareddau celf<br>• Ystyriaeth barhaus i gyd-leoli â gwasanaethau tebyg neu bartneriaid |
| **Llyfrgell a Gefnogir gan y Gymuned dan Arweiniad y Cyngor: tua 20 awr o wasanaeth craidd a ddarperir gan y Cyngor**<br><br>gyda:<br><br>Dros 12,000 o Ymweliadau Blynyddol<br>a<br>Dros 20,000 o Fenthyciadau Blynyddol<br>a<br>Dros 1500 o Sesiynau Cyfrifiaduron | Lleolir y llyfrgell ger canol y dref / pentref neu o fewn / yn gyfagos i ganolfan gymuned / ysgol<br><br>• Cyd-leoli gyda phartneriaid o'r gymuned / y cyngor neu eraill lle bo modd<br>• Oriau agor: lleiafswm o 20 awr<br>• Elfen o hunanwasanaeth, yn dibynnu ar anghenion lleol ac unrhyw ddefnydd arall a wneir o'r safle cymunedol<br>• O leiaf 6 chyfrifiadur ar gael i'r cyhoedd<br>• Wi-Fi am ddim<br>• Amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth ar bapur ac ar-lein<br>• Lle i gynnal cyfarfodydd neu ddigwyddiadau cymunedol lle bo modd<br>• Defnyddio gwirfoddolwyr ar gyfer gweithgareddau ychwanegol neu ymestyn oriau agor y tu hwnt i oriau craidd |
| **Llyfrgell a Gefnogir gan y Gymuned dan Arweiniad y Cyngor:**<br><br>Tua 10-12 awr o wasanaeth craidd a ddarperir gan y Cyngor.<br><br>gyda:<br><br>Llai na 12,000 o Ymweliadau Blynyddol | Lleolir y llyfrgell ger canol y dref / pentref neu o fewn / yn gyfagos i ganolfan gymuned / ysgol<br><br>• Oriau agor: lleiafswm o 10 awr<br>• O leiaf 5,000 eitem o stoc<br>• O leiaf 6 chyfrifiadur ar gael i'r cyhoedd<br>• Wi-Fi am ddim<br>• Amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth ar bapur ac ar-lein |



DRAFT

| | |
|---|---|
| a<br>Llai na 20,000 o Fenthyciadau Blynyddol<br>a<br>Llai na 1500 o Sesiynau Cyfrifiaduron | • Elfen o hunanwasanaeth, yn dibynnu ar anghenion lleol ac unrhyw ddefnydd arall a wneir o'r safle cymunedol<br>• Lle i gynnal cyfarfodydd neu ddigwyddiadau cymunedol lle bo modd<br>• Cyd-leoli gyda phartneriaid o'r gymuned / y cyngor neu eraill, lle bo modd<br>• Defnyddio gwirfoddolwyr ar gyfer gweithgareddau ychwanegol neu ymestyn oriau agor y tu hwnt i oriau craidd |
| **Llyfrgelloedd Symudol**<br><br>• **Ar gyfer y gymuned**<br><br><br><br><br><br><br><br><br>• **Ar gyfer y cartref**<br><br><br><br><br>**Gwasanaeth Llyfrgell i Ysgolion** | • Yn gwasanaethu poblogaeth o rhwng 200 a 1000 o fewn pellter cerdded o chwarter milltir<br>• Cyfnod amser pob arhosiad – rhwng chwarter a thri chwarter awr<br>• Dewisir y mannau galw yn ôl defnydd blaenorol, y pellter i'r adeilad llyfrgell agosaf, mynediad i gludiant cyhoeddus ac ystyriaethau iechyd a diogelwch<br>• Ymweliadau misol<br><br>• Cynigir 'Gwasanaeth Cartref' i'r rheiny na allant ymweld â llyfrgell sefydlog neu'r gwasanaeth llyfrgell symudol oherwydd salwch neu ffactorau eraill<br>• Ymweliadau misol<br><br>Bydd y fan lyfrgell i ysgolion yn ymweld â phob ysgol gynradd sy'n tanysgrifio i'r gwasanaeth, a gall disgyblion fenthyca llyfrau fel y bo angen.<br><br>• Pecynnau Prosiect Thematig<br>• Ymweliadau a gweithgareddau Mynediad i Awdur<br>• Mae costau tanysgrifio yn seiliedig ar niferoedd disgyblion |

## Casgliad

O fewn cyd-destun yr adnoddau sydd ar gael, bydd y Strategaeth ddrafft hon yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer cyflenwi a datblygu gwasanaeth llyfrgell effeithlon ac effeithiol o fewn cyd-destun Safonau Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r fframwaith statudol a nodir yn Neddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964.

Asesiad o hyfywedd opsiynnau ar gyfer ffyrdd amrywiol o gyflwyno'r Gwasanaeth Llyfrgell. Rydym yn defnyddio system RAG i wneud yr asesiad a hynny ar 3 ffactor;

*Assessment of the viability of options for the various ways of delivering the Library Service. The assessment is RAG rated on 3 criteria:*

1 – A fydd y Gwasanaeth yn cyrraedd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus(5ed Fframwiath) Llywodraeth Cymru; (Gwyrdd – Bydd, Amber – Rhannol, Coch – Na)

*Will the Service reach the WPLS (5th Framework); (Green – yes, Amber – Partially, Red – No)*

2 – A fydd yna effaith negyddol ar drigolion yr ynys (Gwyrdd – Dim, Amber – Peth, Coch – Mawr)

*Will there be a negative effect on the island's residents (Green – None, Amber – Some, Red – Great)*

3 – A fydd yna oblygiadau cyllidebol (Gwyrdd – Arbediad, Amber – Yr un fath, Coch – Costio Mwy)

*Will there be budgetary implications (Green – Saving, Amber – Neutral, Red – More expensive)*

| **Opsiynnau / Options** | **Safonau / Standards** | **Effaith / Effect** | **Cyllideb / Budget** | **RAG** |
|---|---|---|---|---|
| Opsiwn 1. Cynnal y gwasanaeth presennol<br>***Option 1. Maintaining the Current Service*** | Dim newid byddwn yn parhau i gyflawni yr un nifer o Safonnau<br>***No change, continue to achieve the same Standards*** | Dim newid<br>***No Change*** | Dim newid (nid yw hyn yn gynaliadwy yn y sefyllfa ariannol bresennol)<br>***Neutral (however, this is not sustainable in the current financial climate)*** | |
| Opsiwn 2. Lleihau'r Gwasanaeth Llyfrgell<br>***Option 2. Reducing the Library Service*** | | | | |
| I. Lleihau oriau agor<br>***Reducing opening hours*** | Er mwyn cyrraedd y safon WPLSQI16 Oriau agor rhaid cael 120 awr y flwyddyn i bob 1,000 o'r boblogaeth – golyga hyn y gellir colli 21 awr yr wythnos a chyrraedd y safon. | Posibl y bydd yn amharu ar allu pobl i gyrraedd y pwyntiau gwasanaeth<br>***It could have an impact on people's ability to reach service points during opening hours*** | £11,000 (oddeutu)<br>Pe collir yr oriau staffio yn unig.<br>***£11,000 (approx.)***<br>***If staffing hours alone are lost.*** | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Fodd bynnag os collir yr oriau staffio byddwn yn bellach o gyrraedd y safon WPLSQI13<br>***In order to reach the WPLSQI16 Opening Hours we must have 120 hours per annum for every 1,000 population – we could reduce by 21 opening hours per week across the service and reach the standard*** | | | |
| II. Cau rhai llyfrgelloedd a pharhau gyda'r gwasanaeth teithiol<br>***Closing some libraries and maintain mobile service*** | Gellir cyrraedd y safon WPLSQI5 lleoliad pwyntiau gwasanaeth yn rhannol – ni fydd gan 70% o'r boblogaeth fynediad at wasanaethau amrywiol ond byddan yn gallu benthyg ac archebu llyfrau<br>***WPLSQI15 could be partially met (depending on how many closures) – 70% of the housholds may not be within 3m of a static or 1/4m to a mobile and as aresult would have limited access to the service*** | Dim argaeledd cyfrifiaduron i aelodau'r cyhoedd sydd heb fynediad i offer TG /gysylltiad Band eang<br>***Reduced access to ICT infrastructure to those who do not have access to equipment/reliable and affordable connectivity*** | Bydd arbediad tymor byr yn ddibynol ar y model a ddewisir, ond gan y bydd rhaid adnewyddu'r Llyfrgell deithiol o fewn y 5 mlynedd nesaf(amc. £100,000) mae'n anodd darganfod arbedion tymor hir<br>***There would be a short term saving dependant on the model however capital cost of replacing mobile library (£100,000 approx) may impact in the long term*** | |
| III. Cau rhai llyfrgelloedd a rhoi'r gorau i'r gwasanaeth teithiol<br>***Closing some libraries and withdraw mobile service*** | Byddwn yn methu a chyrraedd y Safon (70% o fewn 3 milltr i lyfrgell statig/ .25 milltr o arhosfan symudol)<br>O ganlyniad 5/9 Safon fyddwn yn ei gyrraedd.<br>***Failure to meet WPLSQI15 can be expected if branch libraries close and the mobile is to be withdrawn*** | Aelodau'r gymuned yn methu a chael mynediad at y Gwasanaeth Llyfrgell yn lleol. Posibl na fydd yn cael ei weld fel gwasanaeth 'cynhwysfawr ac effeithlon'.<br>***Residents would not be able to access the service locally. Could be seen as failing to be a "comprehensive and efficient" service*** | Bydd arbediad yn ddibynnol ar pa lyfrgelloedd fyddai'n cau…<br>Gweler costau isod (Opsiynnau unigol)<br>***The saving would depend on which libraries would close… See costings below (individual options)*** | |
| IV. Rhoi'r gorau i'r gwasanaeth | Byddwn yn parhau i gyrraedd y | Aelodau'r gymuned yn methu a | Byddai arbediad o | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Llyfrgell deithiol<br>***Withdrawing the mobile library service*** | Safon (70% o fewn 3 milltr i lyfrgell statig/ .25 milltr o arhosfan symudol)ond bydd pobl mewn ardaloedd gwledig ac i ganol yr ynys yn cael eu hallgau<br>***We could meet WPLSQI15 should the mobile be withdrawn, however it would exclude people living in rural and central parts of the island*** | chael mynediad at y Gwasanaeth Llyfrgell yn lleol. Posibl na fydd yn cael ei weld fel gwasanaeth 'cynhwysfawr ac effeithlon'.<br>***Residents would not be able to access the service locally. Could be seen as failing to be a "comprehensive and efficient" service*** | £29,337<br>Gan gymryd y byddai'r gwasanaeth CIT yn cael ei allanoli I wirfoddolwyr<br>***A saving of £29,337 could be achieved***<br>***Assuming that the Housebound service is outsourced to volunteers/3rd sector*** | |
| V. ailstrwythuro'r gwasanaeth Llyfrgell deithiol (yn dilyn II.)<br>***restructuring the mobile library service (following II.)*** | Byddai modd Cyflawni'r un nifer o safonau a rwan<br>***It would be possible to maintain our current attainment against the Standards*** | Byddai rhoi ystod ehangach o deithiau yn cyfoethogi'r gwasanaeth. Byddai cynnig teithiau hwyrol yn rhoi mwy o gyfle i unigolion sydd yn gweithio a phlant ysgol ddefnyddio'r gwasanaeth. Byddai aros yn hirach mewn rhai mannau yn bosibilrwydd. Byddai modd cynnig mwy o wasanaeth CIT trwy recriwtio gwirfoddolwyr i gyflwyno'r gwasanaeth.<br>***Offering a broader route/timetable would enrich the service. Evening and weekend routes would give working adults and school children the opportunity to make use of the service. Longer stops in certain areas may encourage use and could possible result in the ability to offer a greater IT offer on the Mobile.*** | Mae'n anhebygol y gellir cyflawni arbediad ac yn bosibl y byddai'n costio mwy na'r hyn sydd gennym yn bresenol.<br>Byddai'n rhaid cael gyrrwr ychwanegol ac aelod o staff cefndirol yn gwneud gwaith rheoli stoc. Golyga hyn gynnydd o oddeutu £43,000<br>(dibynna'r arbediad ar pa lyfrgelloedd fyddai'n cael eu cau)<br>***It is unlikely that a saving could be made and costs would probably increase.***<br>***An additional driver would be required and possibly a library assistant to undertake stock management activity. This could mean an increase of £43,000 (the saving would depend on which libraries would close)*** | |
| VI. Lleihau'r costau staffio | Rydym eisoes yn methu a | Ni fyddai modd i'r Gwasanaeth fod | Byddai arbediad yn ddibynol ar | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ***Reducing overall staffing costs*** | chyrraedd y safon WPLSQI13 am nifer o staff 0.37/ 1000 o boblogaeth fel ag y mae yn Fframwaith 4 (0.33 ydym ni'n gyrraedd)<br>Mae'r lefel fymryn yn is yn Fframwaith 5 ar 0.36/1000 o boblogaeth sydd yn darged o 25.2fte yn seiliedig ar boblogaeth o 70000, fodd bynnag ers ei gyflwyno mae ein lefelau staffio ni wedi gostwng.<br>***We have been unable to reach the WPLSQI13 Number of staff 0.37/100 population as it was in Framwork 4 (0.33 was attained in the final reporting year)***<br>***The level is slightly lower in the 5th Framework at 0.36/1000 population which gives a target of 25.2fte based on a population of 70000 however since its introduction our staffing levels have also reduced*** | yn "Comprehensive and efficient" ac o ganlyniad bydd yr Awdurdod yn methu a chyflawni ei dyletswyddau Statudol<br>Byddai risg o ymchwiliad gan Llywodraeth Cymru ac yn y pen draw gallai'r Gweinidog drosglwyddo'r gwasanaeth I'r Llywodraeth neu sefydliad arall gyda Ynys Mon yn talu ar sail beth y mae LlC yn weld yn rhesymol I gynnal y gwasanaeth.<br>***It would not be possible for the Service to be "comprehensive and efficient" and as a result it would be difficult for the Authority to demonstrate that it was fulfilling its statutory obligation and duty. There would be a risk of a Welsh Government enquiry and the Minister could transfer the duty either to the Government or another organisation with Anglesey paying based on WG's assessment of what is reasonable to maintain the service*** | faint y lleihad.<br>***The saving would depend on the extent of the reduction*** | |
| VII. Lleihau gwariant ar lyfrau a stoc arall (megis llyfrau llafar ac e-lyfrau)<br>***Reducing expenditure on library books and other stock (such as audio books and e-books)*** | Byddwn yn parhau i fethu a chyrraedd y safon ar wariant or isafswn o £1685 / 1000 pop<br>***WE would continue to be unable to achieve the minimum spend per 1,000 population*** | Os nad oes buddsoddiad mewn adnoddau yna bydd defnydd yn gostwng (false economy)<br>***If there is no investment in resources useage will decrease (false economy)*** | | |
| Opsiwn 3. Cydleoli – rhannu | Dim effaith ar ein cyflawniad | Yn ddibynol ar argaeledd gofod | Yn ddibynol ar gytundebau gyda | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| lleoliadau gyda gwasanaethau eraill neu adleoli i adeiladau eraill o eiddo'r Awdurdod Lleol (ee. Ysgolion/canolfannau hamdden) neu adeiladau o eiddo'r gymuned<br>***Option 3. Co-Location – sharing premises with other services or relocating to other Local Authority buildings (ie. Schools/Leisure centres) or community owned buildings*** | parthed y Safonau<br>***No impact on our achievement against the Standards*** | addas<br>***Dependant on the availability of suitable space*** | gwasanaethau eraill neu sefydliadau allanol<br>***Dependant on agreement with other services or external organisations*** | |
| Opsiwn 4. Cydweithio<br>***Option 4. Collaboration*** | | Angen gyriant gwleidyddol<br>***Political steer needed*** | | |
| I. Lleol (gyda gwasanaethau eraill)<br>***Local (with other services)*** | | Angen gyriant gwleidyddol<br>***Political steer needed*** | | |
| II. Rhanbarthol (SRhLl a Gwasanaethau llyfryddol)<br>***Regional (LMS and Bibliographic Services)*** | Dim effaith ar ein cyflawniad parthed y Safonau<br>***No impact on our achievement against the Standards*** | Cynlluniau i sefydlu LMS cenedlaethol, wedi cychwyn yn rhanbarthol ar draws Gogledd Cymru – Modd ehangu TalNET i gydfynd a'r ardal hon (Economies of scale yn cael effaith)<br>***Plans for an all Wales LMS, has begun regionally across the 6 North Wales authorities – could develop TALNET to mirror this region (economies of scale could come into play)*** | Mae arbediad wedi ei gyflawni yn ystod 2015-16 (£10,000)<br>***Efficiency was achieved in 2015-16 (£10,000)*** | |
| III. Cenedlaethol (fel uchod a chaffael)<br>***National (as above plus*** | Dim effaith ar ein cyflawniad parthed y Safonau<br>***No impact on our achievement*** | Fel uchod<br>***As above*** | Bydd arbediad, ond mae'n ddibynol ar y cytundeb a'r cwmni fydd yn ennill y cytundeb beth fydd eu | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ***procurement*)** | ***against the Standards*** | | math y cytundeb!<br>Savings will be made however their extent will depend on the agreement and the companies which win any tenders and their nature | |
| Opsiwn 5. Rhannu adnoddau gyda Chynghorau eraill<br>***Option 5. Sharing services with other Councils*** | | Yn gwbl ddibynnol ar ewyllys wleidyddol ac ar hyn o bryd nid yw'n opsiwn – Hynny ydi'n bellach na Opsiwn 4.II a 4.III<br>***Completely dependent on political will and currently not an option – that is, no further than options 4.11 and 4.111*** | | |
| Opsiwn 7. Darparwyr allanol (cynghorau cymuned/ grwpiau gwirfoddol / menter gymdeithasol / cwmni preifat)<br>***Option 6. External providers (community council / voluntary group/Social enterprise/private company)*** | Effaith ar ein gallu i gyflawni'r Safonau yn ddibynol ar y model – posibl na fydd modd defnyddio fel rhan o'r Gwasanaeth Sirol - Dibynnol ar y cytundeb lefel gwasanaeth fyddai'n bodoli.<br>***Our abllity to achieve against the Standards would depend on the model – it is possible that it would not be possible to use it as part of the County Sercvice for reporting. Dependent on the SLA*** | Dim sicrwydd o safon gwasanaeth –<br>Perygl i'r Awdurdod gan fod y gyfrifoldeb statudol yn parhau gyda'r Cyngor – pe methir a chyflawni'r gwasanaeth i lefel o 'comprehensive and efficient'.<br>***NO guarantee of service quality -***<br>***Risk to the Authority as the legal responsibility remains with the Council should an organisation fail to deliver a 'comprehensive and efficient' level of service*** | Byddai unrhyw arbedion yn ddibynnol ar y model a'r CLG a gytunir<br>***Level of saving would depend on the model agreed and the SLA put in place*** | |
| Opsiwn 7. Cymunedau'n cynnal yr adnoddau<br>***Option 7. Community-run Facilities*** | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| I. Rheolaeth cymunedol o'r adeiladau<br>Community management of buildings | Dim newid i'n cyflawniad os oes Cymunedau/Grwpiau a diddordeb rhedeg yr adeiladau<br>***No change to our provision if there are Communities/Groups interested in running buildings*** | Mae'n bosibl y byddai modd gwella'r gwasanaeth i'r cyhoedd – ehangu mynediad a chyflwyno gweithgareddau eraill (ambell i Gymuned) os oes digon o wirfoddolwyr ar gael<br>***It is possible that the service to the public could be improved – extended access and introduction of new activities(in some communities) if sufficient volunteers are available*** | Arbediad yn ddibynnol ar pa gymunedau fyddai yn dangos diddordeb a'r modd ganddynt I gynnal yr adeiladau.<br>Rhwng<br>***Saving dependent on which communities would be interested and their ability to maintain the buildings***<br>***Between*** | |
| II. Gwasanaeth Llyfrgell wedi ei reoli gan y gymuned<br>Community managed library service | Ni fyddai modd cynnwys yn ein adroddiadau ni tuag at y Safonau – Ni fyddai modd i ni gyflawni…..<br>***It would not be possible to include this in reports against standards.*** | Mae'n bosibl y byddai modd gwella'r gwasanaeth i'r cyhoedd – ehangu mynediad a chyflwyno gweithgareddau eraill (ambell i Gymuned) Mae'n ddibynol ar bersonoliaethau<br>***It may be possible to improve the service to the public – extend access and introduce new activities however success dependent on volunteers and personalities*** | Byddai'r arbediad yn ddibynol ar pa leoliadau<br>£££<br>***Savings would depend on which locations*** | |
| III. Adeilad wedi ei reoli gan y gymuned gyda oriau craidd gan yr Awdurdod ac oriau pellach gan wirfoddolwyr<br>Community managed building with Authority staffed core hours and further staffed by volunteers | Byddem yn parhau i fethu a chyrraedd y safon staffio ac fe fyddem yn adrodd lleihad mewn oriau o'i gymharu a'r hyn sydd yn weithredol ar hyn o bryd.<br>***Failure to achieve the staffing Standard would continueand we we would be reporting a reduction in hoursto those in operation*** | Mae'n bosibl y byddai modd gwella'r gwasanaeth i'r cyhoedd – ehangu mynediad a chyflwyno gweithgareddau eraill (ambell i Gymuned)<br>***It is possible to improve tha service to the public by expanding access and introducing activities (some communities)*** | Costau adeiladau fyddai'r arbediad yma gyda posibilrwydd am rhywfaint o leihad mewn oriau (byddai rhaid ystyried y WPLS a'r safon ar lefelau staffio)<br>Gweler costau yn yr opsiynnau unigol isod<br>***Savings here would be building costs and a possible reduction in*** | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ***currently*** | | ***staff hours (WPLS would have to be carefully considered)***<br>***See costing in the individual options below*** | |
| Opsiwn 8. Pwyntiau mynediad cymunedol. Er enghraifft mewn ysgol/siop/neuadd gymuned<br>***Option 8. Community Library Access Points for example in shop/school/community hall*** | Ddim yn Llyfrgell – ac ni fydden nhw'n cyfrif tuag at Safonau<br>***Not a library and therefore would not be counted towards the Standards*** | Caniatau i ddarllenwyr fenthyg ac archebu llyfrau – dim modd defnyddio TG – dim cefnogaeth broffesiynol i ddefnyddwyr.<br>Fodd bynnag byddai modd defnyddio ambell leoliad I gryfhau unrhyw fodel cyflenwi newydd a gyflwynir<br>***Allows the reader to borrow and order books – no access to ICT – no professional support to users. However, it may be possible to use these to supplement any new (reduced) delivery model*** | Yn y tymor hir byddai arbedion, ond byddai rhaid buddsoddi mewn RFID a pheiriannau hunan wasanaeth neu sefydlu system o fenthyg 'trust based' gyda'r potensial i golli stoc.<br>***In the long term there would be savings but there may be set up cost (investment in RFID technology) or the development of a trust based model with the possibility of loss of stock.*** | |
| Opsiwn 9 Statws ymddiriedolaeth<br>***Option 9. Trust status*** | Byddai rhaid cael cyngor cyfreithiol manwl iawn parthed cytundebau a fyddai'n angenrheidiol er mwyn galluogi i'r Awdurdod fod yn cyflawni ei dyletswydd cyn belled ac y mae'r Ddeddf<br>***Detailed legal advice would need to be obtained regarding the required contracts to allow the Authority to fulfil its statutory duty*** | Mae'r gyfrifoldeb Statudol yn parhau gyda'r Awdurdod ac o ganlyniad mae risg y gall methiant Ymddiriedolaeth olygu costau ychwanegol yn y pendraw.<br>***The Statutory duty remains with the Authority and there is a risk that should a trust fail there may be additional costs in the long term*** | Byddai rhaid sicrhau fod adeiladau, stoc etc yn cael eu trosglwyddo yn y cyflwr gorau posibl – Byddai rhaid dod i gytundeb parthed cyfraniad yr Awdurdod tuag at gynnal yr ymddiriedolaeth wedyn.<br>***Stock, buildings etc would have to be transferred in the best possible condition – an agreement regarding any financial support would have to be agreed*** | |
| | | | | |
| Opsiynnau unigol<br>***Individual Options*** | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Torri'r oriau i'r isafswm posibl a chyrraedd y safon<br>***Cut hours to minimum possible to achieve standards*** | Er mwyn parhau i gyrraedd y Safon rhaid cynnig 120 o oriau i bob 1000 o boblogaeth (21 o oriau yr wythnos ellir eu colli)<br>Fodd bynnag pe collir yr oriau staffio o'r sefydliad byddwn yn perfformio yn waeth yn erbyn y safon ar lefelau staffio.<br>***In order to reach the standard there must be a minimum of 120 hours/annum/1000 population (hours could be reduced by 21 per week) However, if those hours are lost from the staffing establishment we would reduce our performance against the standard*** | Gellir ddewis canghenau lle mae nifer uchel o oriau er mwyn cyflawni'r arbediad heb effaith mawr ar y gymuned<br>***It would be possible to select the libraries with the highest proportion of hours in order to achieve the saving with the minimum impact on users*** | Oddeutu £11,000 Approx | |
| Cau – Llyfrgell Cemaes a cholli'r oriau staffio<br>***Close – Cemaes Library and lose staffing hours*** | Byddai prefformiad yn erbyn y safon staffio yn gwaethygu<br>Lleihad o 3.2% o boblogaeth o fewn 3m i lyfrgell Statig<br>***Performance against the staffing standard would worsen***<br>***Reduction of 3.2% of population within 3m of a static library*** | Bydd rhaid gweithio ar asesiad effaith I'r lleoliadau I gyd<br>***An impact assessment will need to be conducted for each location*** | Oddeutu £ 16,691.00 Approx | |
| Cau – Llyfrgell Amlwch a cholli'r oriau staffio<br>***Close – Amlwch Library and lose staffing hours*** | Byddai prefformiad yn erbyn y safon staffio yn gwaethygu<br>Lleihad o 7.27% o boblogaeth o fewn 3m i lyfrgell Statig<br>***Performance against the staffing standard would worsen***<br>***Reduction of 7.27% of population within 3m of a static library*** | | Oddeutu £ 28,610.00 Approx | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cau – Llyfrgell Moelfre a cholli'r oriau staffio<br>***Close – Moelfre Library and lose staffing hours*** | Byddai prefformiad yn erbyn y safon staffio yn gwaethygu<br>Lleihad o 1.57% o boblogaeth o fewn 3m i lyfrgell Statig<br>***Performance against the staffing standard would worsen***<br>***Reduction of 1.57% of population within 3m of a static library*** | | Oddeutu £ 6,927.00 Approx | |
| Cau – Llyfrgell Benllech a cholli'r oriau staffio<br>***Close – Benllech Library and lose staffing hours*** | Byddai prefformiad yn erbyn y safon staffio yn gwaethygu<br>Lleihad o 5.56% o boblogaeth o fewn 3m i lyfrgell Statig<br>***Performance against the staffing standard would worsen***<br>***Reduction of 5.56% of population within 3m of a static library*** | | Oddeutu £ 29,896.00 Approx | |
| Cau – Llyfrgell Biwmares a cholli'r oriau staffio<br>***Close – Beaumaris Library and lose staffing hours*** | Byddai prefformiad yn erbyn y safon staffio yn gwaethygu<br>Lleihad o 3.98% o boblogaeth o fewn 3m i lyfrgell Statig<br>***Performance against the staffing standard would worsen***<br>***Reduction of 3.98% of population within 3m of a static library*** | | Oddeutu £ 26,854.00 Approx | |
| Cau – Llyfrgell Porthaethwy a cholli'r oriau staffio<br>***Close – Menai Bridge Library and lose staffing hours*** | Byddai prefformiad yn erbyn y safon staffio yn gwaethygu<br>Lleihad o 11.8% o boblogaeth o fewn 3m i lyfrgell Statig<br>***Performance against the staffing standard would worsen***<br>***Reduction of 11.8% of population within 3m of a static library*** | | Oddeutu £ 42,656.00 Approx | |
| Cau – Llyfrgell Niwbwrch a | Byddai prefformiad yn erbyn y | | Oddeutu £ 4,483.00 Approx | |

Tudalen 924

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| cholli'r oriau staffio<br>***Close – Newborough Library and lose staffing hours*** | safon staffio yn gwaethygu<br>Lleihad o 3.55% o boblogaeth o fewn 3m i lyfrgell Statig<br>***Performance against the staffing standard would worsen***<br>***Reduction of 3.55% of population within 3m of a static library*** | | | |
| Cau – Llyfrgell Rhosneigr a cholli'r oriau staffio<br>***Close – Rhosneigr Library and lose staffing hours*** | Byddai prefformiad yn erbyn y safon staffio yn gwaethygu<br>Lleihad o 2.74% o boblogaeth o fewn 3m i lyfrgell Statig<br>***Performance against the staffing standard would worsen***<br>***Reduction of 2.74% of population within 3m of a static library*** | | Oddeutu £ 15,490.00 Approx | |
| Cau – Llyfrgell Llangefni a cholli'r oriau staffio<br>***Close – Llangefni Library and lose staffing hours*** | Byddai prefformiad yn erbyn y safon staffio yn gwaethygu<br>Lleihad o 9.98% o boblogaeth o fewn 3m i lyfrgell Statig<br>***Performance against the staffing standard would worsen***<br>***Reduction of 9.98% of population within 3m of a static library*** | | Oddeutu £133,332.00 Approx | |
| Cau – Llyfrgell Caergybi a cholli'r oriau staffio<br>***Close – Holyhead Library and lose staffing hours*** | Byddai prefformiad yn erbyn y safon staffio yn gwaethygu<br>Lleihad o 17.72% o boblogaeth o fewn 3m i lyfrgell Statig<br>***Performance against the staffing standard would worsen***<br>***Reduction of 17.72% of population within 3m of a static library*** | | Oddeutu £126,302.00 Approx | |
| | | | | |
| Cau – Llyfrgell Cemaes a | Byddai perfformiad yn erbyn y | Bydd rhaid gweithio ar asesiad | Oddeutu £ 10,000.00 Approx | |

Tudalen 925

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| throsglwyddo'r oriau i ran arall o'r gwasanaeth<br>***Close – Cemaes Library and transfer staffing hours to another part of the service*** | safon staffio yn parhau yn gyson ac fe fyddai modd dangos fod staff yn gallu gwneud mwy o ymgysylltu a datblygu darllenwyr<br>***Performance against the staffing standard would remain the same and it would be possible for staff to undertake more engagement and development work*** | effaith I'r lleoliadau I gyd<br>***An impact assessment will need to be conducted for each location*** | Bydd rhaid ystyried costau adleoli a allai ostwng y ffigwr hwn<br>***Need to consider the possibility of relocation expenses which may reduce this figure*** | |
| Cau – Llyfrgell Amlwch a throsglwyddo'r oriau i ran arall o'r gwasanaeth<br>***Close – Amlwch Library and transfer staffing hours to another part of the service*** | Byddai perfformiad yn erbyn y safon staffio yn parhau yn gyson ac fe fyddai modd dangos fod staff yn gallu gwneud mwy o ymgysylltu a datblygu darllenwyr<br>***Performance against the staffing standard would remain the same and it would be possible for staff to undertake more engagement and development work*** | | Oddeutu £ 8,610.00 Approx<br>Bydd rhaid ystyried costau adleoli a allai ostwng y ffigwr hwn<br>**Need to consider the possibility of relocation expenses which may reduce this figure** | |
| Cau – Llyfrgell Moelfre a throsglwyddo'r oriau i ran arall o'r gwasanaeth<br>***Close – Moelfre Library and transfer staffing hours to another part of the service*** | Byddai perfformiad yn erbyn y safon staffio yn parhau yn gyson ac fe fyddai modd dangos fod staff yn gallu gwneud mwy o ymgysylltu a datblygu darllenwyr<br>***Performance against the staffing standard would remain the same and it would be possible for staff to undertake more engagement and development work*** | | Oddeutu £ 1,927.00 Approx<br>Bydd rhaid ystyried costau adleoli a allai ostwng y ffigwr hwn<br>**Need to consider the possibility of relocation expenses which may reduce this figure** | |
| Cau – Llyfrgell Benllech a throsglwyddo'r oriau i ran arall o'r gwasanaeth<br>***Close – Benllech Library and*** | Byddai perfformiad yn erbyn y safon staffio yn parhau yn gyson ac fe fyddai modd dangos fod staff yn gallu gwneud mwy o ymgysylltu a | | Oddeutu £ 14,896.00 Approx<br>Bydd rhaid ystyried costau adleoli a allai ostwng y ffigwr hwn<br>**Need to consider the possibility of** | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ***transfer staffing hours to another part of the service*** | datblygu darllenwyr<br>***Performance against the staffing standard would remain the same and it would be possible for staff to undertake more engagement and development work*** | | **relocation expenses which may reduce this figure** | |
| Cau – Llyfrgell Biwmares a throsglwyddo'r oriau i ran arall o'r gwasanaeth<br>***Close – Beaumaris Library and transfer staffing hours to another part of the service*** | Byddai perfformiad yn erbyn y safon staffio yn parhau yn gyson ac fe fyddai modd dangos fod staff yn gallu gwneud mwy o ymgysylltu a datblygu darllenwyr<br>***Performance against the staffing standard would remain the same and it would be possible for staff to undertake more engagement and development work*** | | Oddeutu £ 10,854.00 Approx<br>Bydd rhaid ystyried costau adleoli a allai ostwng y ffigwr hwn<br>**Need to consider the possibility of relocation expenses which may reduce this figure** | |
| Cau – Llyfrgell Porthaethwy a throsglwyddo'r oriau i ran arall o'r gwasanaeth<br>***Close – Menai Bridge Library and transfer staffing hours to another part of the service*** | Byddai perfformiad yn erbyn y safon staffio yn parhau yn gyson ac fe fyddai modd dangos fod staff yn gallu gwneud mwy o ymgysylltu a datblygu darllenwyr<br>***Performance against the staffing standard would remain the same and it would be possible for staff to undertake more engagement and development work*** | | Oddeutu £ 14,656.00 Approx<br>Bydd rhaid ystyried costau adleoli a allai ostwng y ffigwr hwn<br>**Need to consider the possibility of relocation expenses which may reduce this figure** | |
| Cau – Llyfrgell Niwbwrch a throsglwyddo'r oriau i ran arall o'r gwasanaeth<br>***Close – Newborough Library and transfer staffing hours to another part of the service*** | Byddai perfformiad yn erbyn y safon staffio yn parhau yn gyson ac fe fyddai modd dangos fod staff yn gallu gwneud mwy o ymgysylltu a datblygu darllenwyr<br>***Performance against the staffing standard would remain the same*** | | Oddeutu £ 1,000.00 Approx<br>Bydd rhaid ystyried costau adleoli a allai ostwng y ffigwr hwn<br>**Need to consider the possibility of relocation expenses which may reduce this figure** | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ***and it would be possible for staff to undertake more engagement and development work*** | | | |
| Cau – Llyfrgell Llangefni a throsglwyddo'r oriau i ran arall o'r gwasanaeth<br>***Close – Rhosneigr Library and transfer staffing hours to another part of the service*** | Byddai perfformiad yn erbyn y safon staffio yn parhau yn gyson ac fe fyddai modd dangos fod staff yn gallu gwneud mwy o ymgysylltu a datblygu darllenwyr<br>***Performance against the staffing standard would remain the same and it would be possible for staff to undertake more engagement and development work*** | | Oddeutu £ 6,490.00 Approx<br>Bydd rhaid ystyried costau adleoli a allai ostwng y ffigwr hwn<br>**Need to consider the possibility of relocation expenses which may reduce this figure** | |
| Cau – Llyfrgell Llangefni a throsglwyddo'r oriau staffio i ran arall o'r gwasanaeth<br>***Close – Llangefni Library and transfer staffing hours to another part of the service*** | Byddai perfformiad yn erbyn y safon staffio yn parhau yn gyson ac fe fyddai modd dangos fod staff yn gallu gwneud mwy o ymgysylltu a datblygu darllenwyr<br>***Performance against the staffing standard would remain the same and it would be possible for staff to undertake more engagement and development work*** | | Oddeutu £ 52,332.00 Approx<br>Bydd rhaid ystyried costau adleoli a allai ostwng y ffigwr hwn. Hefyd adleoli staff canolog a staff y Gwasanaeth Llyfrgell Ysgolion (a'r stoc)<br>**Need to consider the possibility of relocation expenses which may reduce this figure. Relocation of central staff and the Schools' Library Service (and it's stock) also need to be considered** | |
| Cau – Llyfrgell Caergybi a throsglwyddo'r oriau staffio i ran arall o'r gwasanaeth<br>***Close – Holyhead Library and transfer staffing hours to another part of the service*** | Byddai perfformiad yn erbyn y safon staffio yn parhau yn gyson ac fe fyddai modd dangos fod staff yn gallu gwneud mwy o ymgysylltu a datblygu darllenwyr<br>***Performance against the staffing standard would remain the same and it would be possible for staff*** | | Oddeutu £ 50,302.00 Approx<br>Bydd rhaid ystyried costau adleoli a allai ostwng y ffigwr hwn<br>**Need to consider the possibility of relocation expenses which may reduce this figure** | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ***to undertake more engagement and development work*** | | | |
| Rhoi'r gorau - Gwasanaeth Teithiol<br>***Cease – Mobile Service*** | Byddwn 28.29% yn is yn erbyn y safon 70% o'r boblogaeth o fewn 3 milltr i Lyfrgell statig neu 0.25 milltr i arosfan<br>***We would be 29.29% lower against the standard of 70% of population within 3m of a static library or 0.25m from a mobile stop*** | | Van(ffigurau 13-14) £5900<br>Staffio = £21510<br>gorfod cynnig CIT – ond modd cynnig allan i'r 3ydd Sector (posibl arbed £1927 ychwanegol)<br>***Van (13-14 figures) = £5900***<br>***Staffing = £24844.12***<br>***Have to offer housebound but could offer out to 3rd sector (could potentially save a further £1927)*** | |
| Cynnal – 2 fan gwasanaeth mawr llawn amser 60 awr<br>***Maintain – 2 large fulltime 60hr Service points*** | Yn seiliedig ar y lefelau staffio presennol byddai'n amhosibl cyflawni'r Safon (nid ydym yn ei gyrraedd ar hyn o bryd). Buasai cyrraedd 70% o'r boblogaeth yn ddaearyddol bron yn amhosibl. Byddai'n rhiad i'r ddwy lyfrgell fod ar agor am 85 awr yr wythnos er mwyn cyrraedd y Safon SLICCQI16. Ni fyddem yn cyrraedd y safon ar fynediad at gynnig digido (ni fyddai digon o le ar gyfer y caledwydd fyddai'n angenrheidiol i leihau'r effaith o golli llyfrgelloedd).<br>***Based on current staffing levels it would be impossible to achieve staffing Standard (we do not meet this currently). Reaching 70% of the population geographically would bealmost impossible.***<br>***Both libraries would have to be*** | Byddai'n rhaid cynnal cyfres o weithgareddau allgyrraedd er mwyn lleihau'r effaith ar y gymuned yn ogystal â chynnal y dyletswydd statudol i hyrwyddo'r gwasanaeth. Amhosibl gwneud gwaith allgyrraedd gyda'r lefelay staffio presennol<br>***Would need to have a programme of outreach in order to lessen impact and maintain Statutory obligation to promote the service. Impossible to do necessary outreach work with current staffing level*** | Staffio = £193,014<br>Arall = £70,486<br>Adeiladau = £79,659<br>Gwariant cyffredinol gan gynnwys staff proff a cronfa lyfrau = £351,200<br>Cyfanswm=£694,359<br>Gallasai hyn weld y Gwasanaeth yn cyflawni arbediad o £162,451 (19% o'r gyllideb weithredol / 13% o'r gyllideb gyflawn)<br><br>(ffigurau yn seiliedig ar fodel staffio (14-15), fodd bynnag, rhagwelir y byddai angen am staffio ychwanegol yn seiliedig ar y cynnydd disgwyliedig mewn defnydd o'r 2 lyfrgell ac i gyflawni gwaith allgyrraedd)<br><br>***Staffing=£193,014*** | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ***open for 85 hours a week in order for us to achieve WPLSQI16.*** ***Would not reach standard for access to Digital offer (no space for additional PC's to negate effect of closures.*** | | ***Other=£70,486*** ***Building=£79,659*** ***PlusGeneral inc prof staff and Book fund =£351,200*** ***Total =£694,359*** ***This could see the service achieving a saving of £162,451 (19% 0f Operational / 13% of Gross)*** ***(figures based on (14-15)staffing model, however it is envisaged that there would be an increase in staffing needed to cover anticipated footfall in the 2 libraries and to cover additional outreach activities)*** | |
| Cynnal – 2 fan Gwasanaeth mawr, llawn amser 60awr & gwasanaeth teithiol wedi ei ehangu ***Maintain – 2 large fulltime 60hr Service points & an enhanced mobile service*** | Byddai'n bosibl gyflawni'r safon o gynnig arhosfan Llyfrgell deithiol o fewn 0.25 neu lyfrgell statig o fewn 3 milltr o 70% o'r boblogaeth. Fodd bynnag, buasai'r safon staffio yn sylweddol is na'r presennol. Mae nifer o risgiau i'r model hwn, er fod modd disgrifio'r Gwasanaeth Llyfrgell Deithiol yn effeithlon nid yw'n gynhwysfawr ac fe allasai'r Cyngor fethu yn ei ddyletswydd statudol ***It would be possible to achieve the standard of offering a mobile stop within 0.25miles or having a static library within a distance of 3 miles*** | Byddai'r effaith yn fawr gan na fyddai digon o staff nac adnoddau i gynnal gwasanaeth cynhwysfawr ac effeithlon ac i hyrwyddo darllen a llythrennedd fel y nodir yn neddfwrieath 1964. ***The effect would be great as there would be insufficient staff and resources to maintain a 'comprehensive and efficient' service and to promote reading and literacy as stipulated in the 1964 statute.*** | Fel uchod yn nhermau'r llyfrgelloedd statig, fodd bynnag byddai'n rhaid ailstrwythuro'r gwasanaeth teithiol er mwyn cynnwys arhosiadau hirach mewn rhai ardaloedd yn ogystal a theithiau ar benwythnosau a gyda'r nose r mwyn lleihau yr effaith. Amcangyfrifir y buasai'n rhaid cael gyrrwr llawn amser ychwanegol er mwyn cyflawni hyn a'r gwasanaeth Caeth i'w Tai ar gost o odeutu £39,000. Fe fyddai costau tanwydd a chynnal a chadw ychwanegol o tua £2,000 Byddai'r model hwn yn costio | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ***to 70% of the population. However the standard for staffing would be considerably lower than at present. There are considerable risks to this as the mobile service while it may be efficient canot be described as comprehensive and the Council could be at risk of failing to meet its statutory duty*** | | £93,337 + £694,359 = £788,356 fyddai'n arbediad o tua £68,454 (8% gweithredol / 6% o'r cyflawn)<br><br>Mae'r Llyfrgell deithiol presennol yn 10ml oed ac fe fydd yn rhaid caffael un newydd o fewn y 5 mlynedd nesaf ar gost o tua £120,000<br>***As above in terms of the static sites, however the mobile service would need to be restructured allowing for longer stops in some areas to compensate for closures as well as adding evening stops and a weekend run. It is estimated that we would need an additional FTE driver to fulfil this remit and to continue with the Housebound service at approx. £32,000. There would also be additional fuel and maintenance costs and the housebound van at approx. £2,000 Therefore this model would cost £93,337 + £694,359 = £788,356 giving a saving of £68,454 (8% of Operational / 6% of Gross)***<br><br>***The current mobile library is 10 years old and will need to be replaced in the next 5 years at a cost of circa £120,000.*** | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cynnal – 2 fan gwasanaeth llawn amser 60awr ac 1 canolig 35awr<br>***Maintain – 2 large fulltime 60hr & 1 medium 35hr Service points*** | Byddai'n amhosibl cyrraedd y safon o 70% o'r boblogaeth o fewn 3 milltir neu 15 munud gyda trafnidiaeth cyhoeddus.<br>Byddai'r model hwn hefyd yn lleihau lefel staffio sydd eisoes yn isel ac ni fyddai yn caniatau digon o weithgareddau addysgu a hyrwyddo.<br><br>***It would be impossible to achieve the standard of 70% of the population within 3 miles or 15 minutes buy public transport.***<br>***This model would also exasperate the already low staffing level and would not enable sufficient promotional/educational activities.*** | Rhaid cynnal asesiad effaith cydraddoldeb manwl yn ogystal ag asesiad effaith cymunedol.<br>***There would need to be a thorough equalities impact assessment as well as a community impact assessment.*** | Fel yr opsiwn am 2 x 60 awr - £694,359<br>Gyda'r costau adeilad ychwanegol o tua £15,000<br>Staffio 3.5clla = tua £60,000<br>Yn rhoi amcangyfrif o £769,359 yn rhoi arbediad o oddeutu £87,451 (10% o'r Gweithredol / 7% o'r gyllidef lawn)<br>***As the option for 2 x 60hr = £694,359***<br>***With the addition of building costs of approx. £15,000***<br>***Staffing 3.5FTE = £60,000 approx. giving a total estimated cost of £769,359 giving a saving of £87,451 (10% of Operational / 7% of Gross budget)*** | |
| Cynnal – 2 fan gwasanaeth mawr llawn amser 60 awr & 1 ganolig 35 awr & gwasanaeth teithiol wedi ei ehangu<br>***Maintain – 2 large fulltime 60hr & 1 medium 35hr Service points & an enhanced mobile service*** | Byddai'n amhosibl cyrraedd y safon o 70% o'r boblogaeth o fewn 3 milltir neu 15 munud gyda trafnidiaeth cyhoeddus. Ond buasai modd cyrraedd o fewn 0.25milltir i arhosfan deithiol<br>Byddai'r model hwn hefyd yn lleihau lefel staffio sydd eisoes yn isel ac ni fyddai yn caniatau digon o weithgareddau addysgu a hyrwyddo.<br>***It would be impossible to achieve the standard of 70% of the population within 3 miles or 15*** | Rhaid cynnal asesiad effaith cydraddoldeb manwl yn ogystal ag asesiad effaith cymunedol.<br>***There would need to be a thorough equalities impact assessment as well as a community impact assessment.*** | Fel uchod = £769,359 £93,337 yn rhoi cyfanswm o £862,696. Bydd hyn yn gwneud y gwasanaeth £5,886 yn ddrytach i'w redeg<br><br>Mae'r Llyfrgell deithiol presennol yn 10ml oed ac fe fydd yn rhaid caffael un newydd o fewn y 5 mlynedd nesaf ar gost o tua £120,000<br><br>***As above = £769,359 plus £93,337 Giving a total cost of £862,696 This will give a service which is*** | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ***minutes buy public transport. However, it would be possible to be within 0.25m of a mobile stop. This model would also exasperate the already low staffing level and would not enable sufficient promotional/educational activities.*** | | ***£5,886 more expensive to run*** <br><br> ***The current mobile library is 10 years old and will need to be replaced in the next 5 years at a cost of circa £120,000*** | |
| Cynnal – 2 fan gwasanaeth mawr llawn amser 60 awr a 2 canolig 25 awr <br> ***Maintain – 2 large fulltime 60hr & 2 medium 25hr Service points*** | Byddai'n amhosibl cyrraedd y safon o 70% o'r boblogaeth o fewn 3 milltir neu 15 munud gyda trafnidiaeth cyhoeddus, ond, gallai fod yn bosibl i gyrraedd 51% neu 55% o'r boblogaeth (yn ddibynnol ar pa llyfrgelloedd ychwanegol a gedwir). <br> Byddai'r model hwn hefyd yn lleihau lefel staffio sydd eisoes yn isel ac ni fyddai yn caniatau digon o weithgareddau addysgu a hyrwyddo. <br> ***It would be impossible to achieve the standard of 70% of the population within 3 miles or 15 minutes buy public transport, however it may be possible to reach between 51% and 55% of the population(dependant on which 2 additional libraries were maintained).*** <br> ***This model would also exasperate the already low staffing level and*** | Rhaid cynnal asesiad effaith cydraddoldeb manwl yn ogystal ag asesiad effaith cymunedol. <br> ***There would need to be a thorough equalities impact assessment as well as a community impact assessment.*** | £694,359 + <br> Cost 2 adeilad oddeutu £15,000 yr un = £30,000 <br> Hefyd staffio 2 lyfrgell 25 awr = £65,650 yn rhoi cost gweithredol o = £791,009 <br> Arbediad o £65,801 (7.5% Gweithredol / 5% o'r gyllideb gyflawn) <br> ***£694,359 +*** <br> ***The cost of 2 buildings approx. £15,000 each = £30,000*** <br> ***Also staffing of 2 x 25 hr libraries = £65,650 giving an operational cost of = £791,009*** <br> ***Giving a saving of £65,801 (7.5% Operational / 5% Gross Budget)*** | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ***would not enable sufficient promotional/educational activities.*** | | | |
| Trosglwyddo cyfrifoldebau adeiladau i drydydd parti (pob safle) tra'n cynnal gwasanaeth cyfredol<br>***Transfer building responsibilities to third parties(all sites) while maintaining current service*** | Byddem yn parhau i gyflawni yn yr un modd yn erbyn 5ed fframwaith SLlCC ond byddai gostyniad yn y gwariant fesul 1000 o'r boblogaeth<br>***We would continue to achieve to the WPLS 5th framework as we would currently with a further fall behind the average on spend / 1000population on the provision of a Library Service*** | Ni fydd pob cymuned mewn sefyllfa i gymryd cyfrifoldeb am adeilad cyhoeddus arall. Byddai perygl i ni wneud Llyfrgelloedd yn anhygyrch i rai o drigolion Môn ac o ganlyniad yn methu y nein dyletswydd statudol i ddarparu gwasanaeth Llyfrgell 'cynhwysfawr ac effeithlon' i'r holl 'drigolion sydd yn dymuno gwneud defnydd ohono'<br>Buasai rhaid cael trefniadau mewn lle rhag ofn i drydydd parti fethu<br>***Not all communities will be in a position to take on another community building. We would be in danger of making Libraries inaccessible to some of Anglesey's population and therefore of failing in our statutory duties to provide a 'comprehensive and efficient' library service for all 'resident who wish to make use thereof'***<br>***Would need to have arrangements in place should the third party fail*** | Gallasai gyflawni arbediad o £171,067 yn seiliedig ar gyfartaledd gwariant dros 3 blynedd (12-13, 13-14 a 14-15) 20% o'r gyllideb weithredol / 14% o'r gyllideb lawnHeb ei warantu a byddai angen cael trefniadau mewn lle pe byddai'r 3ydd parti yn methu â chynnal yr adeilad yn ariannol<br>***Could give a saving based on average of past 3 year (12-13, 13-14 a 14-15) property spend of approx. £171,067 20% of Operational / 14% of Gross budget Not guaranteed and would need to have arrangements in place should the 3rd party fail to maintain the building financially*** | |
| Trosglwyddo cyfrifoldebau adeiladau i drydydd parti (7 safle - Amlwch, Cemaes, Rhosneigr, Porthaethwy, Biwmares, | | Drwy gynnal y 2 brif Llyfrgell o fewn y gwasanaeth, byddem yn osgoi rhoi baich treuliau yr adeiladau hyn ar yr boblogaeth, | Arbedion posib o £ 68,433 (8% o'r gyllideb weithredol a 5.5% o'r Gyllideb Gros)<br>Heb ei warantu a byddai angen cael | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Benllech, Moelfre) tra'n cynnal gwasanaeth cyfredol<br>***Transfer building responsibilities to third parties (7 sites – Amlwch, Cemaes, Rhosneigr, Menai Bridge, Beaumaris, Benllech, Moelfre) while maintaining current service*** | | byddai cynnal staffio ar y lefelau presennol ar bob safle yn negyddu unrhyw effaith bosibl o gau a gall rhai o'r cymunedau weld gwelliant yn y gwasanaeth gan y gall fod parodrwydd yn y gymuned i gynnig oriau Llyfrgell pellach neu weithgareddau eraill / gwasanaethau.<br>***By maintaining the 2 main Library sites within the service we would avoid burdening the population with the expense of these buildings, however maintaining staffing at the current levels at all sites would negate any possible impact of closure and some of the communities may see an enhancement of service as there may be willingness within the community to offer further Library hours or other activities/services from the building.*** | trefniadau mewn lle pe byddai'r 3ydd parti yn methu â chynnal yr adeilad yn ariannol<br>***Possible saving of £68,433 (8% 0f the operational budget and 5.5% of the Gross Budget)***<br>***Not guaranteed and would need to have arrangements in place should the 3rd party fail to maintain the building financially*** | |
| Trosglwyddo cyfrifoldebau adeilad i 3ydd partïon tra'n cynnal 15 awr (neu'r oriau cyfredol os yn is na 15awr) o amser staffio a chymorth proffesiynol 'ystafell gefn' llawn ( Model Conwy o Lyfrgelloedd a gefnogir gan y Cymuned)<br>***Transfer building responsibilities to 3rd parties*** | | Ni fyddai hyn yn opsiwn mewn rhai safleoedd heb effaith sylweddol i'r Gwasanaeth a'i defnyddwyr. Fodd bynnag, gallai fod yn model ymarferol o fewn rhai cymunedau Er mwyn osgoi disgyn ymhellach o dan y safon ar gyfer lefelau staffio gallai'r oriau sydd yn cael eu tynnu oddi ar rai safleoedd gael eu hailgyflwyno mewn eraill i gynnal | Bydd costau'r adeilad bras yn cael eu harbed o'r gyllideb weithredol fel a ganlyn:<br>Amlwch = £ 7,500<br>Benllech = £ 12,000<br>Biwmares = £ 15,500<br>pont menai = £ 10,500<br>Cemaes = £ 7,000<br>Moelfre = £ 200<br>Niwbwrch = £ 850 | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ***while maintaining 15 hours(or maintain current if below 15hrs) of staffed time and full professional back room support (Conwy model of Community supported Libraries)*** | | gweithgareddau, i hyrwyddo darllen, llythrennedd a llythrennedd digidol. Byddai hyn yn lleihau'r effaith a allai ychwanegu gwerth pellach i waith y gwasanaeth.<br>***This would not be an option in some sites without considerable impact to the Service and its users. However it could be a workable model within some communities. To avoid falling further behind the standard for staffing levels the hours removed from some sites could be reintroduced in others to conduct activities to promote reading, literacy and digital literacy. This would lessen the impact and could add further value to the service's works*** | Rhosneigr = £ 7,500<br>Cyfanswm = £ 61,050<br>Bydd y costau staffio naill ai'n gyfartal i'r rhai cyfredol neu ychydig yn is yn dibynnu ar nifer y cymunedau sydd â diddordeb.<br>***Approximate building costs would be saved from the Operational budget as follows:***<br>***Amlwch= £ 7,500***<br>***Benllech= £12,000***<br>***Beaumaris= £15,500***<br>***Menai bridge= £10,500***<br>***Cemaes= £ 7,000***<br>***Moelfre= £ 200***<br>***Newborough= £ 850***<br>***Rhosneigr= £ 7,500***<br>***Total= £61,050***<br>***There would be staffing costs either equalling current or a little lower depending on the number of communities interested.*** | |
| Trydydd partïon yn cymryd rheolaeth dros 8 llyfrgell ac ymgymryd â chostau sy'n gysylltiedig a rhedeg yr adeilad gan gynnwys rhent, trethi a gwasanaethau 2 grwp o 4 llyfrgell (Amlwch, Benllech, Biwmares, Porthaethwy) a (Cemaes, Moelfre, Niwbwrch, | | Ni fyddai hyn yn opsiwn mewn rhai safleoedd heb effaith sylweddol i'r Gwasanaeth a'i defnyddwyr. Fodd bynnag, gallai fod yn fodel ymarferol o fewn rhai cymunedau. Er mwyn osgoi disgyn ymhellach o dan y safon ar gyfer lefelau staffio gallai'r oriau staff sydd yn cael eu tynnu oddi ar rai safleoedd yn cael | Grŵp 1 -<br>Amlwch = £ 7,500<br>Benllech = £ 12,000<br>Biwmares = £ 15,500<br>pont menai = £ 10,500<br>Cyfanswm = £ 45,500<br>Arbediad ychwanegol gan leihau oriau ac nid adleoli allai gyflawni arbediad o £ 80,460 ond rydym yn | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rhosneigr)<br>***Third parties taking control of 8 libraries and taking over the associated costs of running the building including rent, rates, utilities2 groups of 4 libraries (Amlwch, Benllech, Beaumaris, Menai Bridge) and (Cemaes, Moelfre, Newborough, Rhosneigr)*** | | eu hailgyflwyno mewn i eraill i gynnal gweithgareddau i hyrwyddo darllen, llythrennedd a llythrennedd digidol. Byddai hyn yn lleihau'r effaith a allai ychwanegu gwerth pellach i waith y gwasanaeth<br>***This would not be an option in some sites without considerable impact to the Service and its users. However it could be a workable model within some communities. To avoid falling further behind the standard for staffing levels the hours removed from some sites could be reintroduced in others to conduct activities to promote reading, literacy and digital literacy. This would lessen the impact and could add further value to the service's works*** | rhedeg y risg o gael eu dal yn atebol gan y Gweinidog am beidio â chydymffurfio â'r WPLSQI13<br><br>Grŵp 2 - Dim arbedion ychwanegol o staffio (eisoes o dan 15awr)<br><br>Cemaes = £ 7,000<br>Moelfre = £ 200<br>Niwbwrch = £ 850<br>Rhosneigr = £ 7,500<br>Cyfanswm = £ 15,550<br><br>***Group 1 –***<br>***Amlwch= £ 7,500***<br>***Benllech= £12,000***<br>***Beaumaris= £15,500***<br>***Menai bridge= £10,500***<br>***Total= £45,500***<br>***Additional saving from reducing hours and not redeploying could achieve a saving of £80,460 but we run the risk of being held accountable by the Minister for non-compliance with the WPLSQI13***<br><br>***Group 2 – No additional savings from staffing (already below 15hrs)***<br>***Cemaes= £ 7,000***<br>***Moelfre= £ 200***<br>***Newborough= £ 850*** | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | ***Rhosneigr= £ 7,500***<br>***Total= £15,550*** | |
| Adleoli'r gwasanaeth i fodel cydleoli<br>***Relocate services into collocated model*** | | | | |
| Rhosneigr i'r ysgol<br>***Rhosneigr into school*** | | Dim ond 47m2 ar gael a byddai angen i greu pwynt mynediad ar gyfer y cyhoedd sydd ar wahân i fynedfa'r ysgol.<br>***Only 47m$^2$ available and would need to create an access point for the public which is separate from the school entrance.*** | Byddai angen buddsoddiad ymlaen llaw er mwyn creu mynediad addas<br>***Up front investment would be needed to create suitable access*** | |
| Cemaes i'r ysgol<br>***Cemaes into school*** | | Nid oes lle ar gael ar gyfer darparu gwasanaeth llyfrgell o fewn adeilad yr ysgol ar hyn o bryd<br>***There is currently no available space for the provision of a library service within the school building*** | | |
| Niwbwrch i'r ysgol<br>***Niwbwrch into school*** | | Nid oes lle ar gael ar gyfer darparu gwasanaeth llyfrgell o fewn adeilad yr ysgol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, gallai o bosibl fod lle os yw cynlluniau i ailfodelu addysg yn ardal Rhosyr yn digwydd. (2018)<br>***There is currently no available space for the provision of a library service within the school building. However there could potentially be space if plans to remodel education in the Rhosyr area come*** | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ***about. (2018)*** | | |
| Amlwch i'r ysgol<br>***Amlwch into school*** | | Nid oes lle ar gael ar gyfer darparu gwasanaeth llyfrgell o fewn adeilad yr ysgol gynradd ar hyn o bryd. Mae yna le o fewn Ysgol Syr Thomas Jones.<br>***There is currently no available space for the provision of a library service within the primary school building,. However there is space within Ysgol Syr Thomas Jones.*** | | |
| Porthaethwy mewn i'r ysgol<br>***Menai Bridge into school*** | | Nid oes lle ar gael ar gyfer darparu gwasanaeth llyfrgell o fewn adeiladau'r ysgol ar hyn o bryd<br>***There is currently no available space for the provision of a library service within the school buildings*** | | |
| Caergybi mewn i ddatblygiad Neuadd y farchnad<br>***Holyhead into proposed Market Hall development*** | | Os bydd caffael yr adeilad yn mynd yn ei flaen, mae cyllid yn ei le i leoli llyfrgell newydd o fewn datblygiad Neuadd y Farchnad. Byddai'r llyfrgell yn brif denant a byddai'r datblygiad yn arwain at lyfrgell sy'n 'darparu at y dyfodol'.<br>***If the acquisition of the building goes ahead there is funding in place to locate a new Library within the Market Hall development. The Library would be the anchor tenant and the development would result in a library which is 'future proof'*** | Byddai angen cael buddsoddiad cyfalaf i ddechrau, fodd bynnag, effallai bydd rhywfaint o ryddhau cyfalaf o werthu safle llyfrgell bresennol.Bydd y Neuadd Farchnad yn rhatach i'w rhedeg na'r adeilad presennol ac mae tua £ 210,000 o waith adfer gael ei wneud yn y safle presennol.<br>***There would need to be capital investment initially, however there could be some release of capital from the sale of the current library site.***<br>***The Market Hall will be cheaper to run than the current building and*** | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | ***there is approx £210,000 of remedial works to be done in the current site.*** | |

# Asesiad Effaith Cydraddoldeb ac Anghenion (AECA)

# Y Gwasanaeth Llyfrgell

| | |
|---|---|
| **Y Cynnig** | Trawsnewid y Gwasanaeth Llyfrgell – Cyflwyno model rheoli newydd sy'n cynnig gwasanaeth llyfrgell cynaliadwy a chlir o ran ei ganolbwynt |
| **Dyddiad yr asesiad** | Parhaus |
| **Y swyddog sy'n gyfrifol am yr AECA** | |
| **Tîm Asesu** | Bethan Hughes-Jones, Rachel Rowlands, |
| **Dyddiad Adolygu** | Parhaus |

## 1. Y Cynnig

Dylai'r adran hon amlinellu manylion y cynnig. Gallai hyn gynnwys (lle bo'n berthnasol):

- Gwybodaeth am yr ymagwedd bresennol tuag at y gwasanaeth
- Disgrifiad o'r cynnig
- Nod neu bwrpas y cynnig
- Pwy ddylai gael budd o'r cynnig
- Pa ganlyniadau yr ydych eisiau eu cyflawni yn sgil y cynnig
- Manylion gwasanaethau eraill y gallai'r cynnig eu heffeithio

Yn dilyn cyhoeddi Cynllun Corfforaethol 2013-17 Cyngor Sir Ynys Môn ("y Cyngor"), mae'r Gwasanaeth Llyfrgell wedi mynd trwy adolygiad llawn, a arweiniodd at restr faith o opsiynau posibl ar gyfer cyflwyno model rheoli newydd sy'n cynnig gwasanaeth llyfrgell cynaliadwy a chlir o ran ei ganolbwynt.
Yn ystod hydref 2015, cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad ar y rhestr hir o opsiynau er mwyn cael amcan o deimladau'r cyhoedd tuag at yr opsiynau posib. Nid oedd canlyniadau'r ymgynghoriad yn derfynol; fodd bynnag, amlygwyd cefnogaeth y cyhoedd i'r gwasanaeth, ac ymddengys ei bod yn well ganddynt gael model o gefnogaeth gymunedol yn hytrach na cholli'r gwasanaeth. Yn dilyn ymlaen o ganfyddiadau'r ymgynghoriad, dechreuodd y gwasanaeth drafodaethau â chymunedau, grwpiau, mentrau cymdeithasol a chynghorau cymunedol ynghylch y posibiliadau o ran modelau cyflenwi/rheoli amgen. Y cynnig felly yw i'r Cyngor ddatblygu a chyflwyno model rheoli newydd, sy'n cynnig gwasanaeth cynaliadwy a chlir o ran ei ganolbwynt, gyda chymorth gan y gymuned lle bynnag y bo modd.

Bydd yr AECA yn asesu'r angen am y Gwasanaeth Llyfrgell, ynghyd ag effaith unrhyw newidiadau arfaethedig i'r strwythur rheoli ar y boblogaeth a all fod yn dymuno ei ddefnyddio. Bydd angen ystyried pob opsiwn yn nhermau'r effaith ar breswylwyr Ynys Môn, yn ogystal â gallu'r Cyngor i ddarparu gwasanaeth llyfrgell 'cynhwysfawr ac effeithlon' yn unol â Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964. Yn ogystal, rhoir ystyriaeth i Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru, ynghyd â'r anghenion o ran bod Awdurdodau Llyfrgelloedd yng Nghymru yn adrodd are eu perfformiad blynyddol mewn perthynas â'r Safonau hyn.

## 2. Tystiolaeth ac ymchwil

**Pa ymchwil neu wybodaeth arall a ddefnyddiwyd gennych i ddatblygu'r cynnig hwn?**

Gall ymchwil gynnwys gwybodaeth fonitro, arolygon bodlonrwydd, ymchwil pen desg, cylchgronau proffesiynol, sylwadau gan unigolion a grwpiau. Mae'n rhaid i ni gyhoeddi manylion y wybodaeth a ystyriwyd wrth asesu'r effaith.

| Ffynhonnell wybodaeth | Yr hyn y mae wedi'i ddweud wrthych? |
|---|---|
| **Arolwg Defnyddwyr Llyfrgelloedd Cyhoeddus (PLUS) 2014** | **Pwy yw ein defnyddwyr ar hyn y maent yn ein defnyddio ar ei gyfer. Mae hefyd yn rhoi syniad i ni o effaith y Gwasanaeth Llyfrgell ar fywydau pobl** |
| **Cyfrifiad 2011** | **Data gwerthfawr am grwpiau a chanddynt nodweddion gwarchodedig, perchnogaeth ceir** |
| **NOMIS** | **Gwybodaeth werthfawr mewn perthynas â'r Farchnad Lafur, gan gynnwys hawlwyr JSA a ESA mewn amryw wardiau yng nghyffiniau lleoliadau llyfrgelloedd** |
| **StatsCymru** | **Gwybodaeth ddemograffig am boblogaeth Ynys Môn** |
| **DWP** | **Nifer bresennol yr hawlwyr JSA (Awst 2016) yng nghyffiniau lleoliadau'r llyfrgelloedd presennol** |
| **Ymgynghoriad Cyhoeddus a gweithgaredd penodol yn ystod hydref 2015** | **Mae barnau'r cyhoedd o ran y newidiadau posibl i'r Gwasanaeth Llyfrgell wedi cael eu casglu a'u coladu.** |
| **MALlC (WIMD)** | **Gwybodaeth am amddifadedd drwy'r sir gyfan yn ôl LSOA** |
| **Cysylltu'r Gwledydd 2015 (Adroddiad Ofcom)** | **Yng ngolau ystyried yr holl ffactorau digidol a demograffig, mae preswylwyr Ynys Môn yn debygol o gael eu hallgáu yn ddigidol** |
| | |

### 2.1 Poblogaeth

Mae Ynys Môn yn ymestyn dros 714 km$^2$, mae'r rhan fwyaf ohoni'n wledig, gyda phoblogaeth o tua 70,000 (amcangyfrifon canol blwyddyn) a dwysedd poblogaeth o 99 o bobl y cilomedr sgwâr.

Ceir pum prif dref, Porthaethwy, Biwmares, Amlwch, Llangefni, a Chaergybi. Mae'r ddwy olaf yn cynnwys rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

### 2.2 Demograffi (Oed Rhyw Hil)

Mae poblogaeth Ynys Môn, fel gweddill Cymru, wedi'i rhannu'n gyfartal o ran rhyw. Fodd bynnag, dengys y data bod canran y bobl ifanc 0-15, sef 17.2%, yn tua 1% yn is na

chyfartaledd Cymru. Poblogaeth gweithio yr ynys yw 59.2% o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 62.5%. Ac o ran y 23.7% o'r boblogaeth yn yr oedran dros 65, Ynys Môn yw'r ail yng Nghymru, o dan Gonwy, ar 25.7%. Mae'r ddwy ardal y rhai sy'n denu pobl sydd wedi ymddeol. Cefnogir y dadansoddiad gan y data ar wledydd geni lle ganwyd 28.8% o breswylwyr yr ynys yn Lloegr. Ganed 3.6% y tu allan i'r DU.

### 2.3 Hil

Mewn ffigyrau gan StatsCymru, yn y flwyddyn yn diweddu 31ain o Fawrth, 2016, canfuwyd, o'r 69,400 o bobl sy'n byw ar Ynys Môn:-

- dywedodd 68,100 eu bod o gefndir gwyn
- dywedodd 1,300 eu bod o gefndir heb fod yn wyn (1.9% o boblogaeth Ynys Môn)

Rydym yn disgwyl gwaith mapio GIS o Wynedd i ganfod a ddylem ystyried unrhyw ardaloedd a chanddynt ddwysedd uwch o ran poblogaethau o leiafrifoedd ethnig.

### 2.4 Amddifadedd

#### Cymunedau yn Gyntaf

Mae Ynys Môn yn gartref i rai o'r wardiau mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn ôl MALlC. Mae'r ardaloedd hyn yng Nghaergybi (Tref Caergybi, Morawelon, Ffordd Llundain, Kingsland, Porthyfelin a Maeshyfryd) a Llangefni (Tudur). Mae'r Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf (Môn CF) yn rhoi cymorth i'r wardiau hyn. Ei nod yw lleihau'r bwlch rhwng y rheiny sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a'r ardaloedd mwy cyfoethog. Lleolir Llyfrgell Caergybi ar gyrion wardiau Tref Caergybi a Phorthyfelin 1, tra lleolir Llyfrgell Llangefni ychydig i'r de orllewin o ward Tudur.

#### Amddifadedd Gwledig

Er y nodwyd fod y cymunedau mwyaf difreintiedig ym Môn wedi'u lleoli yn y ddwy brif dref, ymddengys fod rhai o'r cymunedau mwy gwledig yn wynebu amddifadedd hefyd. Mae rhai o'r cymunedau gwledig y nodwyd eu bod yn y chwartel isaf (y rheiny a chanddynt y lefelau uchaf o ran amddifadedd) yn wynebu problemau o ran tai, cludiant a diffyg gwasanaethau.




**Dechrau'n Deg**

Mae Rhaglen Dechrau'n Deg yn anelu at fynd i'r afael â thlodi plant a rhoi cymorth i deuluoedd drwy ymyrraeth gynnar. Mae'r rhaglen yn seiliedig ar godau post, sy'n golygu ei bod ar gyfer ardaloedd penodol, ac nid yw o reidrwydd bod y rheini sydd â'r angen mwyaf yn ei defnyddio neu'n cael mynediad iddi. Mae'r ardaloedd a gynhwysir yn y rhaglen ar Ynys Môn yng Nghaergybi, Llangefni, Niwbwrch a Gwalchmai. Mae tua 630 o blant sy'n byw o fewn yr ardaloedd hyn yn destun ymyrraeth Dechrau'n Deg (data yn gywir ar 3ydd Awst 2016).

**Budd-daliadau i'r Di-waith**

Roedd data NOMIS ar gyfer Mai 2016 yn nodi, o'r 5,700 (14% o'r boblogaeth oedran gweithio) sy'n hawlio budd-daliadau ym Môn, roedd 2,850 (7%) yn hawlio ESA a budd-daliadau analluogrwydd, tra bo 930 (2.3%) yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith. Mae nifer yr hawlwyr JSA ymhlith dynion bron yn ddwbl nifer y merched sy'n hawlio. Bu'r cyfanswm hwn yn lleihau'n araf ers Mai 2012 (1,786 o hawliadau).

Ffigyrau hawlwyr JSA neu Gredyd Cynhwysol Ynys Môn, Gorffennaf 2016, o fewn ardaloedd llyfrgelloedd

1. LL65 1 (Caergybi) = 170
2. LL68 9 (Amlwch) = 123
3. LL77 7 (Llangefni) = 90
4. LL64 4 (Rhosneigr) = 46
5. LL61 6 (Niwbwrch) =28
6. LL59 5 (Porthaethwy) = 22

7. LL67 0 (Cemaes) = 18
8. LL58 8 (Biwmares) = 16
9. LL74 8 (Benllech) = 15
10. LL72 8 (Moelfre) = 8

(Data DWP Direct Awst 2016)

**Aelwydydd Heb Waith**

Yn y data diwedd blwyddyn ar gyfer 2015, amcangyfrifwyd bod 3,800 o aelwydydd heb waith ar Ynys Môn, sef 18.7%. Mae hyn ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer Cymru oedd yn 18.3%. O'r aelwydydd hynny, roedd gan 1,000 blant yn byw oddi mewn iddynt, sy'n 9.1% o holl aelwydydd Ynys Môn. (StatsCymru)

Mae 20.2% o'r boblogaeth oedran gweithio ym Môn, ac eithrio myfyrwyr, wedi'u dosbarthu'n economaidd anweithgar (StatsCymru – y flwyddyn yn diweddu 30ain Medi 2016).

**Rhieni Unigol**

Ceir 1811 o aelwydydd ym Môn sy'n cael eu dosbarthu fel y rhai a chanddynt rieni unigol, rhwng 16 – 74 oed, gyda phlant dibynnol.

**Yr Effaith Bosibl**

Gallai cau llyfrgelloedd neu leihad mewn oriau gael effaith negyddol ar hawlwyr JSA ac ESA a Chredyd Cynhwysol nad oes ganddynt fynediad i ddyfais ddibynadwy i fynd ar y rhyngrwyd, neu gysylltiad dibynadwy a fforddiadwy i'r rhyngrwyd. Gallai gallu pobl i wneud a rheoli hawliadau gael ei effeithio, a fyddai wedyn yn golygu na fydd yn bosib hawlio, neu'n arwain at sancsiynau os na fydd hawlwyr yn cydymffurfio â'u cytundeb.

Mae'r ffigyrau uchod yn dangos bod y niferoedd uchaf sy'n hawlio JSA yn ardaloedd y llyfrgelloedd yn y tair tref fwyaf ac yn ardaloedd gwledig Niwbwrch, ynghyd â wardiau cyfun Aberffraw a Rhosneigr 1 a 2.

**2.5 Allgáu Digidol**

Gall preswylwyr yng Nghymru wledig ddisgwyl cael cysylltedd digidol gwaelach o ganlyniad uniongyrchol i isadeiledd sefydlog neu symudol gwael, yn ôl Ofcom yn eu hadroddiad Cysylltu'r Gwledydd 2015.

Mae'r Go ON UK Digital Exclusion Heatmap, a ddatblygwyd gyda chymorth gan y BBC, y Gymdeithas Llywodraeth Leol ac Ysgol Economeg a Gwyddorau Gwleidyddol Llundain, ar y cyd â'r Lloyds Banking Group, yn treiddio ymhellach i Sgiliau Digidol Sylfaenol ynghyd ag effaith isadeiledd er mwyn dangos lle mae allgáu digidol yn debygol o fod.

Mae'r 'Digital Exclusion Heatmap' yn dangos ei bod yn dra thebygol bod preswylwyr Ynys Môn wedi'u hallgáu yn ddigidol. Dengys ymchwil nad yw 40.9% o oedolion erioed wedi bod ar-lein er bod 76% o oedolion yn honni bod ganddynt bob un o'r sgiliau digidol (Rheoli Gwybodaeth, Cyfathrebu, Trafod, Datrys Problemau a Chreu). Fodd bynnag, dim ond 36% o oedolion sydd wedi defnyddio bob un o'r 5 sgil yn y tri mis diwethaf.

Mae llyfrgelloedd ar hyn o bryd yn cynnig cyfleuster o fewn cymunedau sy'n caniatáu i'r rheiny nad ydynt yn gallu gwneud cysylltiadau digidol yn eu cartrefi gael gwneud hynny naill ai drwy ddefnyddio PC neu WiFi.

**2.6 Yr Iaith Gymraeg ym Môn**

Mae Ynys Môn yn parhau i fod yn ardal o Gymru a chanddi bresenoldeb cryf o ran y Gymraeg. Dengys Cyfrifiad 2011 bod 45.6% o'r boblogaeth yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg. Dyma'r gyfradd uchaf ond un yng Nghymru, yn ail i Wynedd (56.0%). Cyfartaledd cyffredinol Cymru oedd 14.6% (Cyfrifiad 2011).

Caergybi oedd yr ardal ym Môn lle cafwyd y nifer leiaf o breswylwyr a oedd, ar y cyd, yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg. Y LSOA yng nghyffiniau'r Fali yng ngorllewin Ynys Môn yw'r ardal lle ceir y ganran uchaf o breswylwyr yn dweud nad oes ganddynt sgiliau Cymraeg, sef 55.2%.

Mae llyfrgelloedd yn cynnig llyfrau ffisegol ac electronig, ynghyd â gweithgareddau a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn lleoliad anffurfiol, anfygythiol.

**2.7 Y Defnydd o Lyfrgelloedd ar Ynys Môn**

Ceir 10 llyfrgell sefydlog ym Môn sy'n gwasanaethu poblogaeth o tua 70,000 o breswylwyr. Mae'r sêr ar y map a ganlyn yn dangos safleoedd y llyfrgelloedd sefydlog.

Mae wyth o'r deg llyfrgell wedi'u hadeiladu'n bwrpasol, gyda'r un yn Niwbwrch wedi'i lleoli yn Neuadd Prichard Jones ac, ym Moelfre, o fewn adain gymunedol yr Ysgol Gynradd.

Ceir gwasanaeth i rai sy'n gaeth i'w tai ynghyd â Gwasanaeth Llyfrgell Symudol sy'n ymweld â thros 60 o gymunedau ac sy'n galw mewn dros 100 o leoedd bob mis. Yn ogystal, mae'r gwasanaeth i rai sy'n gaeth i'w tai yn ymweld yn fisol â phreswylwyr nad ydynt, yn gorfforol, yn gallu mynd i lyfrgell sefydlog neu lle mae'r gwasanaeth symudol yn galw.

Mae ysgolion ar draws y sir yn tanysgrifio i'r Gwasanaeth Llyfrgell i Ysgolion ac yn derbyn pecynnau adnoddau i'w cynorthwyo i gynllunio ac ychwanegu at y cwricwlwm, yn ogystal â chael ymweliad gan y fan Lyfrgell Ysgolion unwaith y tymor i alluogi plant i gael y profiad o ddewis eu llyfrau eu hunain.




Dangoswyd y defnydd o'r Gwasanaeth Llyfrgell yn fanwl yn Atodiad 3 o Adolygiad y Gwasanaeth Llyfrgell. Fodd bynnag, isod, ailadroddir y data ar gyfer y llyfrgelloedd sefydlog a gynhwyswyd o fewn y dogfennau adolygu.

| Llyfrgell | Oriau agor bob wythnos | Ymweliadau y flwyddyn | Ymweliadau bob awr y maent ar agor | Eitemau a fenthycwyd y flwyddyn | Eitemau a fenthycwyd bob awr y maent ar agor | Cost ar gyfer bob ymweliad | Cost ar gyfer pob eitem a fenthycwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amlwch | 20 | 33,133 | 33.1 | 23,758 | 23.8 | £0.86 | £1.28 |
| Biwmares | 17 | 10,522 | 12.4 | 19,942 | 23.5 | £1.65 | £0.87 |
| Benllech | 16.5 | 33,511 | 40.6 | 23,634 | 28.6 | £0.61 | £0.74 |
| Cemaes | 11 | 3,446 | 6.3 | 6,618 | 12.0 | £3.84 | £1.84 |
| Caergybi | 40.5 | 69,953 | 34.5 | 55,044 | 27.2 | £1.50 | £1.78 |
| Llangefni | 44 | 91,388 | 41.5 | 74,876 | 34.0 | £1.15 | £1.33 |
| Porthaethwy | 20 | 40,787 | 40.8 | 40,109 | 40.1 | £0.92 | £0.88 |
| Moelfre | 11 | 2,422 | 4.4 | 5,348 | 9.7 | £2.47 | £1.62 |
| Niwbwrch | 7 | 1,160 | 3.3 | 4,289 | 12.3 | £4.03 | £0.88 |
| Rhosneigr | 11 | 5,703 | 10.4 | 5,539 | 10.1 | £3.22 | £2.76 |
| **Cyfansymiau** | **198** | **286,254** | **227.3** | **273,552** | **221.3** | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | Costau Cyfartalog | £1.24 | £1.30 |

Mae'r costau uchod yn seiliedig ar gostau uniongyrchol a briodolir i bob Llyfrgell fel yr oeddent ar adeg yr Adolygiad, nid ydynt yn cynnwys stoc, cymorth proffesiynol neu gostau TGCh a ddarperir yn ganolog o fewn y gwasanaeth. Mae'r costau cyfartalog yn seiliedig ar wariant cyfartalog yn ystod y 3 blynedd cyn cyhoeddi.

Mae patrymau defnydd ar gyfer y llyfrgelloedd yn amrywio, gyda'r defnydd o rai ohonynt yn lleol iawn tra bo eraill yn denu cwsmeriaid o ardal ddaearyddol fawr.

Crëwyd mapiau sy'n dangos lle mae defnyddwyr y llyfrgelloedd yn byw yn defnyddio Data Defnyddwyr, a geir yn Atodiad 1. *(Atodiad 2b yn yr achos hwn)*

## 3.Ymgysylltu

- A ydych wedi ymgysylltu â grwpiau rhanddeiliaid allweddol neu a ydych am wneud hynny?
- Rhowch ystyriaeth i grwpiau fel cymunedau BME, gofalwyr, pobl anabl, cymunedau LGB, grwpiau crefyddol, pobl hŷn.
- Mae'n rhaid i ni gyhoeddi manylion o ran ymgysylltu wrth asesu effaith y cynigion.

| Dyddiad ymgysylltu | Pwy a wahoddwyd gennych | Faint a fynychodd? Pa grwpiau oeddynt yn eu cynrychioli? | Prif faterion |
|---|---|---|---|
| **Hyd – Tach 2015** | **Roedd yr Ymgynghoriad Cyhoeddus wedi gwahodd pob aelod o'r cyhoedd, gan gynnwys rhai sy'n defnyddio Llyfrgelloedd a rhai nad ydynt, i ymateb naill ai'n electronig drwy 'Smart Survey', neu ar bapur drwy'r post neu mewn Llyfrgelloedd neu drwy arolwg wyneb yn wyneb ar y stryd yng nghanol trefi (Tua 100)** | **1081 o ymatebwyr i'r ymgynghoriad cyhoeddus. Roedd 90% ohonynt yn defnyddio Llyfrgell yn rheolaidd.** | **Roedd ymgysylltu â rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr ynghyd â grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd er mwyn cael eu barnau yn her. Dysgwyd gwersi a rhoir mwy o bwyslais ar y grwpiau hyn yn y rownd ymgynghori nesaf.** |
| **Hyd – Tach 2015** | **Ymgynghori â Rhanddeiliaid** | **24 o ymatebwyr** | **Rhestr fanwl o Randdeiliaid a reolir gan PM – y prif fater o ran yr ymgynghoriad oedd mai dim ond tua 5% o'r rheiny** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | **a wahoddwyd i fynegi barn drwy'r post oedd wedi ymateb. Yn bosib bod angen adnoddau er mwyn canfod cysylltiadau mwy lleol ar gyfer rhai sefydliadau cenedlaethol.** |
| **Tach 2015** | **Yr holl staff o fewn y gwasanaeth** | | |
| **9+10/12/2015** | **Grwpiau iaith a chwarae yng Nghaergybi (rhieni a gwarcheidwaid plant ifanc sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig yng Nghaergybi - yn byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg yn benodol)** | **11 - rhieni ifanc, neiniau a theidiau plant sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg** | **Angen gallu cerdded /cael mynediad i gludiant cyhoeddus i fynd i weithgareddau<br>Angen gallu ymweld ar adegau sy'n gyfleus o ran ymrwymiadau teuluol eraill fel mynd i'r feithrinfa/danfon a nôl plant o'r ysgol ac ati.** |
| **14/12/2015** | **Aelodau Fforwm Llais Ni (partneriaeth 3ydd sector/ALI sy'n ymgysylltu'n benodol gyda phobl ifanc 10-25)** | **24** | **Roedd natur wledig yr ardal yn atal llawer o bobl ifanc rhag cael mynediad i wasanaethau gan eu bod yn ddibynnol ar rieni/gwarcheidwaid i gael lifft. Roedd diffyg ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael yn rhwystr arall** |
| **19-25/11/2015** | **Disgyblion o 4 o'r 5 Ysgol Uwchradd prif ffrwd** | **Tua 200** | **Roedd natur wledig yr ardal yn atal llawer o bobl ifanc rhag cael mynediad i wasanaethau gan eu bod yn dibynnol ar rieni/gwarcheidwaid i gael lifft. Roedd diffyg ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael yn rhwystr arall** |
| | **Prosiect partneriaeth yn y 3ydd sector yw Lleisiau Lleol, a sefydlwyd i ganfod barnau pobl a gynrychiolir gan** | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **sefydliadau penodol fel Age Cymru, Cymdeithas y Byddar Gogledd Cymru** | | |

- Os ydych yn cynllunio rhagor o ymgysylltu, pryd fydd hyn yn digwydd?
- Os ydych wedi canfod grwpiau o randdeiliaid y gellir gwahaniaethu yn eu herbyn neu eu trin yn annheg, sicrhewch eich bod yn rhannu'r AECA gyda hwy i gael eu hadborth ac er mwyn iddynt ei herio.
- Adolygwch yr adran hon ar ôl bob gweithgaredd ymgynghori. Gall y digwyddiad fod wedi canfod rhagor o faterion i'w hystyried.

**Yn dilyn yr Ymgynghoriad yn 2015, mae Strategaeth Ddrafft yn cael ei datblygu ac fe'i cyflwynir yn fel drafft terfynol i'r Pwyllgor Gwaith yn Chwefror 2017. Yn dilyn unrhyw newidiadau a fynnir gan y Pwyllgor Gwaith, bydd y Strategaeth yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ddiwedd y gwanwyn 2017, yn dilyn yr etholiadau lleol. Cynhelir ymgysylltu eang bryd hynny. Dilynir pob dull ymgynghori blaenorol.**

## 4. Asesu'r Effaith

Yn defnyddio'r tabl isod, nodwch, os gwelwch yn dda:

- P'un a allai'r cynnig arwain at rai grwpiau'n cael eu rhoi dan anfantais neu eu trin yn annheg; neu p'un a allai arwain at gyfle i hyrwyddo cydraddoldeb neu gynhwysiant.
- Lle bo posibiliadau o ran rhoi rhywun dan anfantais neu eu trin yn annheg, beth yw eich cynlluniau i oresgyn hyn, ei liniaru neu ei gyfiawnhau.
- Os nad ydych yn canfod unrhyw effeithiau, mae'n rhaid i chi egluro sut y daethoch i'r penderfyniad hwn.

| | **Ydy'r cynigion yn effeithio ar staff neu gwsmeriaid?** | **A allai'r cynigion arwain at unrhyw grwpiau'n cael eu rhoi dan anfantais neu eu trin yn annheg? Eglurwch pam os gwelwch yn dda.** | **Sut ydych yn bwriadu dileu, lleihau neu gyfiawnhau hyn?**<br><br>Pwy fydd yn gyfrifol am y cam gweithredu a nodwyd a pha amserlenni sydd dan sylw? | **A allai'r cynnig hyrwyddo cydraddoldeb? Eglurwch sut os gwelwch yn dda.** |
|---|---|---|---|---|
| **Oedran (pobl ifanc neu bobl hŷn)** | Cwsmeriaid | Gallant – plant a babanod 0-4 sy'n dibynnu ar gludiant cyhoeddus neu'r gallu i gerdded gyda rhiant i lyfrgell.<br>Plant 8-14 sy'n ymweld â'r llyfrgell leol heb eu rhieni<br>Pobl hŷn – mae cyfran uwch o ddefnyddwyr llyfrgelloedd dros 65, felly gallai unrhyw newidiadau gael effaith negyddol ar y grŵp oedran hwn | Gallai ailfodelu'r Gwasanaeth i rai sy'n gaeth i'r tŷ neu'r Gwasanaeth Symudol liniaru hyn i raddau. Fodd bynnag, ni wnaiff hyn gymryd lle'r weithred o fynychu'r llyfrgell mewn modd mor annibynnol â phosibl. Os bydd llyfrgelloedd yn cau, bydd angen ystyried dulliau cyflenwi gwasanaeth eraill yn yr ardaloedd hynny | |
| **Anabledd (yn cynnwys gofalwyr)** | Cwsmeriaid | Gallant – gallai cau unrhyw lyfrgell arwain at roi pobl ag anableddau neu eu gofalwyr dan | Gallai ailfodelu'r Gwasanaeth i rai sy'n gaeth i'r tŷ neu'r Gwasanaeth Symudol liniaru | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | anfantais drwy ei gwneud yn anoddach cael mynediad i'r Llyfrgell. | hyn i raddau. Fodd bynnag, ni wnaiff hyn gymryd lle'r weithred o fynychu'r llyfrgell mewn modd mor annibynnol â phosibl.<br>Tîm Trawsnewid y Gwasanaeth Llyfrgelloedd | |
| **Yn briod neu mewn partneriaeth sifil** | | Ni chanfuwyd unrhyw reswm i bobl gael eu rhoi dan anfantais am fod yn briod, yn sengl, wedi ysgaru, neu mewn partneriaeth sifil. | | |
| **Rhyw (yn cynnwys trawsrywedd, beichiogrwydd a mamolaeth)** | Cwsmeriaid<br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>Staff | Gallant - mae cyfran uwch o ddefnyddwyr llyfrgelloedd yn ferched, gallai gostyngiad mewn gwasanaeth gael effaith negyddol ar ferched hŷn sy'n dibynnu ar y gwasanaeth ar gyfer eu llesiant. Yn ogystal, gallai effeithio rhieni (y ddau ryw) sy'n dod â phlant ifanc i'r llyfrgell i ddatblygu a chefnogi eu sgiliau llythrennedd a chyfathrebu, yn ogystal ag ar gyfer eu llesiant eu hunain ac i gymdeithasu<br><br>Mae mwyafrif gweithlu'r Gwasanaeth Llyfrgell yn ferched ac felly | Gallai ailfodelu'r Gwasanaeth i rai sy'n gaeth i'r tŷ neu'r Gwasanaeth Symudol liniaru hyn i raddau. Hwyrach nad yw hyn yn ddigonol i gymryd lle'r rhyngweithio a gyflawnir drwy ymweld â llyfrgell sefydlog, ond gallai liniaru'r effaith.<br><br><br><br><br><br><br><br>Gwneud pob ymdrech bosibl i gynnal oriau staffio o fewn y gwasanaeth, a lle bo gostyngiad a newidiadau sylweddol i oriau cytundebol neu | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | mae unrhyw newidiadau'n debygol o'u rhoi hwy o dan fwy o anfantais na dynion | ddyletswyddau, gweithredu'n briodol gyda AD i sicrhau bod cyn lleied o effaith ag y bo modd. | |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | | Ni ddylai unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth gael effaith uniongyrchol ar unigolion o ganlyniad i'w cyfeiriadedd rhywiol | | |
| **Hil** | | Ni ddylai newidiadau i'r gwasanaeth gael effaith uniongyrchol ar unigolion o ganlyniad i'w hil (mae dadansoddiad manwl o ddata demograffig yn cael ei baratoi i sicrhau bod hyn yn gywir ar draws yr ardal ddaearyddol) | | |
| **Crefydd neu gred** | | Ni ddylai newidiadau i'r gwasanaeth gael unrhyw effaith uniongyrchol ar unigolion o ganlyniad i'w crefydd neu gred | | |
| **Yr Iaith Gymraeg** | Cwsmeriaid | Gall newidiadau i'r gwasanaeth gael effaith ar allu unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn eu cymunedau. | Pe bai model Cefnogaeth Gymunedol a arweinir gan y Cyngor yn cael ei fabwysiadu mewn rhai ardaloedd, bydd angen rhoi Cytundebau Lefel Gwasanaeth cadarn yn eu lle i sicrhau bod pobl sydd eisiau | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | defnyddio'r Gwasanaeth Llyfrgell yn gallu gwneud hynny yn y Gymraeg neu'r Saesneg, yn ystod oriau craidd a'r tu allan iddynt. | |

## 5. Asesu’r effaith ar gydlyniant cymunedol a chynhwysiant cymdeithasol

O dan y ddyletswydd gydraddoldeb gyffredinol, mae’r gyfraith yn mynnu ein bod yn meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy’n rhannu nodwedd berthnasol a’r rheiny nad ydynt (cydlyniant cymunedol). Wrth asesu’r effaith ar gydlyniant cymunedol, dylech ystyried y canlynol:

- A allai unrhyw grwpiau ystyried bod y cynigion yn annheg (hyd yn oed os ydych yn meddwl eu bod yn deg)?
- A allai’r cynigion arwain at fwy o gysylltiad rhwng gwahanol grwpiau a’i gilydd?
- A allai’r cynigion achosi neu gyfrannu at wrthdaro neu densiynau rhwng grwpiau?

Dylech hefyd ystyried unrhyw effaith bosibl y cynnig ar gynhwysiant cymdeithasol. Mae cynhwysiant cymdeithasol yn ymwneud â chau’r bwlch rhwng y rhai lleiaf a mwyaf difreintiedig yn y sir.

Mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd mewn perthynas â’r data diweddaraf. Fodd bynnag, ymddengys fod y cymunedau mwyaf difreintiedig o fewn dalgylch Llyfrgelloedd Llangefni a Chaergybi, a effeithir leiaf gan unrhyw newidiadau i’r model cyflenwi gwasanaeth fel yr awgrymwyd o fewn Strategaeth y Gwasanaeth Llyfrgell.

Mae ardaloedd lle gall unigolion fod dan anfantais oherwydd natur wledig eu hardaloedd neu gysylltiadau gwael yn cael eu mapio, a rhoir ystyriaeth i gynyddu’r mynediad i’r gymuned i’r gwasanaeth pe bai unrhyw newidiadau i’r model cyflenwi yn arwain at gau unrhyw lyfrgelloedd.
Ceir cyfleoedd i ddatblygu a meithrin cydlyniant cymunedol a gwydnwch mewn cymunedau lle bo awydd i gydweithio â’r Cyngor i gyflenwi gwasanaethau drwy ddulliau newydd.

Bydd y penderfyniad o ran sut i gyflenwi’r gwasanaeth gorau bosibl o fewn yr adnoddau sydd ar gael yn cael ei lywio gan yr ymgynghoriad, a bydd yr AECA terfynol yn ystyried y sylwadau a wnaed gan randdeiliaid, ymgyngoreion a defnyddwyr yn ystod y broses honno.
Fodd bynnag, mae’r Cyngor yn agored ac yn barod i dderbyn awgrymiadau o ran gwahanol ddulliau o weithio a allai arwain at wella’r gwasanaeth, yn hytrach na’i ddirywio, o ganlyniad i strategaeth hirdymor.

Wrth ddatblygu’r Strategaeth ddrafft, rydym yn ceisio barnau gan bawb.

Mewn rhai ardaloedd, gall fod tensiynau rhwng grwpiau sefydledig y mae eu syniadau o ran cyflenwi gwasanaeth Llyfrgell i’r dyfodol yn wahanol. Fodd bynnag, drwy gynnig sawl cyfle i gael trafodaeth, rhagwelir na ddylid bod tensiwn yn parhau o ganlyniad i’r cynnig.

Ni ddylai’r cynnig achosi unrhyw densiwn rhwng grwpiau a chanddynt nodweddion gwarchodedig ac eraill a chanddynt nodweddion o’r fath neu sydd heb nodweddion o’r fath.

# Diffiniadau a gofynion

**Cydraddoldeb: Yr hyn a fynnir gan y ddyletswydd gyfreithiol – amlinelliad byr**

Mae gan awdurdodau cyhoeddus ddyletswyddau cyfreithiol eang o ran cydraddoldeb. Mae hyn yn cynnwys dyletswydd gyffredinol i roi ‘sylw dyledus’ i’r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth, hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy’n rhannu nodwedd berthnasol ac unigolyn nad ydynt, ynghyd â meithrin cysylltiadau da rhwng unigolion sy’n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a rhai nad ydynt (y ddyletswydd i roi ‘sylw dyledus’)

Yn ôl y gyfraith, mae’n rhaid i asesiad effaith cydraddoldeb:

- Adlewyrchu gwybodaeth am yr effaith bosibl y gallai’r Strategaeth Ddrafft ei chael ar ei gallu i gydymffurfio â’i dyletswydd i roi sylw dyledus
- Canfod dulliau i liniaru neu osgoi unrhyw effaith negyddol

Nid oes rhaid cynnwys hyn mewn un ddogfen o’r enw Asesiad Effaith Cydraddoldeb ac Anghenion (AECA), ond mae’n rhaid i ni gyhoeddi manylion y dadansoddiad a gynhaliwyd gennym lle mae’n dangos effaith sylweddol (neu effaith debygol) ar allu’r Cyngor i gyflawni’r ddyletswydd i roi sylw dyledus, gan nodi’r wybodaeth a ystyriwyd gennym. Mae angen i ni ddangos ein bod wedi ystyried a cheisio lliniaru’r effeithiau, ac nid ein bod wedi llwyddo i’w lliniaru.

**Cynhwysiant cymdeithasol a chydlyniant cymunedol:**

I sicrhau ymagwedd gynhwysfawr, byddwn hefyd yn ystyried cynhwysiant cymdeithasol a chydlyniant cymunedol yn ein hasesiadau. **Cynhwysiant Cymdeithasol** yw ein dull llaw-fer ar gyfer asesu goblygiadau posibl ehangach cynigion o ran sut y gallant effeithio pawb y gellir eu heithrio rhag cael mynediad i wasanaethau, adnoddau a chyfleoedd. Mae angen i ni ystyried materion fel costau, lleoliadau a chludiant.

Fel yn achos cynhwysiant, nid oes dyletswydd uniongyrchol i hyrwyddo **cydlyniant cymunedol**, ond ceir achos busnes cryf. Mae arnom angen hyrwyddo cysylltiadau cadarnhaol rhwng grwpiau, ynghyd â lleihau’r tensiynau sy’n gysylltiedig ag unrhyw ran o’n gwasanaethau. Os na wnawn hyn, gall fod costau sylweddol o ran y drefn gyhoeddus, diogelwch cymunedol, iechyd, ac economi ac enw da’r sir.

**Cyllideb Llyfrgelloedd 13/14**

| | |
|---|---|
| Cemaes | 6320 |
| Amlwch | 21580 |
| Biwmares | 10810 |
| Benllech | 14580 |
| Moelfre | 4850 |
| Llangefni | 77970 |
| Niwbwrch | 3580 |
| Rhosneigr | 6840 |
| Porthaethwy | 27610 |
| Caergybi | 95240 |
| Cyllideb | 552490 |
| | 821870 |
| Namyn Anglesey Connected | 15050 |
| | 806820 |
| Symudol | 58540 |
| | 865360 |

**Strategaeth Ddrafft Gwasanaeth Llyfrgell 2017-2022: Costau ddim yn adlewyrchu cadw oriau staffio o fewn y gwasanaeth sydd wedi cael eu rhyddhau o ganlyniad i ailstrwythuro**

| | Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgell gyda'r lefel uchaf o gefnogaeth gan y gymuned | | | Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgell gyda'r lefel uchaf o gefnogaeth gan y gymuned : DIM cefnogaeth gan y gymuned (cau 5 llyfrgell) | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Costau Staffio Llyfrgelloedd | | 241830 | Costau Staffio Llyfrgelloedd | | 204530 |
| | Costau Staffio Canolog | | 230330 | Costau Staffio Canolog | | 230330 |
| | Cyfanswm ar gyfer Staffio | | 472160 | Cyfanswm ar gyfer Staffio | | 434860 |
| | Cyfanswm ar gyfer Staffio | Cyf | 517210 | Cyfanswm ar gyfer Staffio | Cyf | 517210 |
| | | Arall | 364750 | | Arall | 364750 |
| | | | 881960 | | | 881960 |
| | Arbediad | | -45050 | Arbediad | | -82350 |
| Arbediad yn erbyn cyllideb 13/14 (£865,360) | | | -5% | | | -10% |
| | £ arbediad yn erbyn cyllideb 13/14 yn seiliedig ar gyfartaledd 3 bl gyda'r lefel uchaf o gefnogaeth gan y gymuned (ond yn trosglwyddo incwm Maes Parcio - IRO£9k/bl) | | -£70,459.46 | £ arbediad yn erbyn cyllideb 13/14 yn seiliedig ar gyfartaledd 3 bl heb gefnogaeth gan y gymuned (Cau, haen 3, a cholli incwm Maes Parcio - IRO£9k/bl) | | -£39,515.88 |
| | % arbediad yn erbyn cyllideb 13/14 yn seiliedig ar gyfartaledd 3 bl | | -8.14% | % arbediad yn erbyn cyllideb 13/14 yn seiliedig ar gyfartaledd 3 bl | | -4.57% |
| | £ arbediad yn erbyn cyllideb 13/14 yn seiliedig ar gyfartaledd 3 bl gyda'r lefel uchaf o gefnogaeth gan y gymuned (ond CSYM yn cadw incwm Maes Parcio - IRO£9k/blyr) | | -£78,798.86 | £ arbediad yn erbyn cyllideb 13/14 yn seiliedig ar gyfartaledd 3 bl heb gefnogaeth y gymuned (Cau, haen 3) cadw incwm maes parcio | | -£47,855.28 |
| | % arbediad yn erbyn cyllideb 13/14 yn seiliedig ar gyfartaledd 3 bl | | -9.11% | | | -5.53% |
| Cyfanswm yr Arbediad yn erbyn cyllideb 13/14 heb gefnogaeth y gym | | | -£115,509.46<br>-13.35% | | | -£121,865.88<br>-14.09% |
| Cyfanswm yr Arbediad yn erbyn cyllideb 13/14 gyda chefnogaeth y gymuned | | | -£123,848.86<br>-14.32% | | | -£130,205.28<br>-15.05% |

## Strategaeth Ddrafft Gwasanaeth Llyfrgell 2017-2022: Costau yn adlewyrchu cadw'r oriau staffio sydd wedi cael eu rhyddhau o ganlyniad i ailstrwythuro o fewn y gwasanaeth

| | Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgell gyda'r lefel uchaf o gefnogaeth gan y | | Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgell gyda'r lefel uchaf o gefnogaeth gan y gymuned: | |
|---|---|---|---|---|
| | £ arbediad yn erbyn cyllideb 13/14 yn seiliedig ar gyfartaledd 3 bl heb gefnogaeth gan y gymuned (ond yn trosglwyddo incwm Maes Parcio - IRO£9k/bl) | -£70,459.46 | £ arbediad yn erbyn cyllideb 13/14 yn seiliedig ar gyfartaledd 3 bl heb gefnogaeth gan y gymuned (Cau, haen 3, a cholli incwm Maes Parcio - IRO£9k/bl) | -£39,515.88 |
| | % arbediad yn erbyn cyllideb 13/14 yn seiliedig ar gyfartaledd 3 bl | -8.14% | % arbediad yn erbyn cyllideb 13/14 yn seiliedig ar gyfartaledd 3 bl | -4.57% |
| | £ arbediad yn erbyn cyllideb 13/14 yn seiliedig ar gyfartaledd 3 bl gyda'r lefel uchaf o gefnogaeth gan y gymuned (ond CSYM yn cadw incwm Maes Parcio - IRO£9k/blyr) | -£78,798.86 | £ arbediad yn erbyn cyllideb 13/14 yn seiliedig ar gyfartaledd 3 bl heb gefnogaeth y gymuned (Cau, haen 3) cadw incwm maes parcio | -£47,855.28 |
| | % arbediad yn erbyn cyllideb 13/14 yn seiliedig ar gyfartaledd 3 bl | -9.11% | | -5.53% |
| Cyfanswm yr Arbediad yn erbyn cyllideb 13/14 heb gefnogaeth y gymuned | | -£70,459.46 | | -£39,515.88 |
| | | -8.14% | | -4.57% |
| Cyfanswm yr Arbediad yn erbyn cyllideb 13/14 gyda chefnogaeth y gymuned | | -£78,798.86 | | -£47,855.28 |
| | | -9.11% | | -5.53% |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **14/02/2017** |
| **Pwnc:** | **Opsiynau ar gyfer Ail-fodelu'r Gwasanaeth Ieuenctid** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng. Kenneth P Hughes** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Delyth Molyneux** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Enid Williams**<br>**01248 752938**<br>**ewxed@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Perthnasol i'r holl aelodau.** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**1. Pwrpas**

Pwrpas y papur hwn yw cyflwyno opsiynau ail fodelu'r gwasanaeth ieuenctid, a chael penderfyniad y Pwyllgor Gwaith ar pa opsiwn i'w weithredu ar gyfer dyfodol y gwasanaeth.

**2. Rhagarweiniad**

O ganlyniad i'r Cynllun Corfforaethol a hefyd anghenion y gwasanaeth gwnaethpwyd adolygiad manwl o'r gwasanaeth o 2013/14 a nodwyd 5 opsiwn ar gyfer datblygu'r gwasanaeth i'r dyfodol, yn nodi beth y gellid ei ddarparu gyda rhwng 20% a 60% o dorriad.

Cynhaliwyd ymgynghoriad eang gyda dros 1,000 o bobl ifanc (Hydref 2015), drwy holiaduron papur ac ar-lein a grwpiau ffocws. Hefyd rhoddwyd cyfle i oedolion (boed yn rieni, cynghorwyr, cynghorwyr cymuned a 'r cyhoedd) ymateb a derbyniwyd 129 o ymatebion. O ganlyniad i'r ymgynghoriad cyntaf, dilewyd y cynigion lleiaf poblogaidd o ran darpariaeth, sef yr Hafan Ieuenctid Sirol *(Youth Zone)*, a'r Gwasanaeth Bws All-ymestyn.
Mae canfyddiadau'r ymgynghoriad ar gael yn :
http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/ymgynghori/cyhoeddi-canfyddiadau-ymgynghoriadau-gwasanaeth-ieuenctid/128490.article?redirect=false

Gyda'r opsiynau oedd yn weddill cynhaliwyd Cynhadledd Ieuenctid ar y 24ain o Fedi, gyda 54 o bobl ifanc yn bresennol, gyda chroes-dorriad o oedran o 11 i 25 oed, yn fechgyn a merched, ac o bob cwr o'r ynys. Hefyd cyflwynwyd yr opsiynau gwasanaeth i staff yn y Seminar Staff ar yr

8fed o Hydref.

**3. Beth sydd yn newydd ers Sesiwn Briffio Aelodau 14 /7/16?**

Yn ystod yr ail ymgynghoriad amlygwyd rhai pethau eto oedd, ac nad oedd yn flaenoriaeth gan

y bobl ifanc fel rhan o'r ail-fodelu e.e.

- Dylid cadw'r ddau glwb ieuenctid ar gyfer pobl ifanc anghenion arbennig yn agored
- Dim cefnogaeth i gael clybiau achredu amser cinio
- Nid oeddent yn fodlon teithio i glwb yn y dref os fyddai clwb y pentref yn cau
- Dylid cael gweithwyr ieuenctid cymwysiedig/profiadol yn rhedeg y clybiau nid gwirfoddolwyr
- Ni ddylid cau clybiau ieuenctid bychan yn llwyr er mwyn cadw clybiau mawr ar agor ddwy waith yr wythnos
- Mae'n bwysig bod y gweithwyr ieuenctid yn siarad Cymraeg
- Mae'n bwysig cael gweithiwr ieuenctid ym mhob ysgol
- Roeddent yn flin/siomedig bod y Cyngor yn gwneud torriadau i'r gwasanaeth

Ymgorfforwyd rhai o'r dymuniadau yma yn yr opsiynau terfynol ar gyfer yr ail-fodelu. (Atodiad 1 Opsiynau ail-fodelu)

**4. Risgiau i'r Ail-fodelu**

Mae rhai risgiau sylweddol o fewn yr ail-fodelu, gyda'r pennaf oherwydd y newidiadau i swyddi'r staff rhan-amser, a'r perygl o golli staff cymwysiedig, gyda phrofiad helaeth yn y maes. Hefyd, na fydd yr un ddarpariaeth ar gael i ieuenctid yn eu cymunedau er y bydd cyswllt hefo Gweithiwr Ieuenctid yn fwy hygyrch, os fyddant yn gweithio'n fwy agos gyda'r ysgolion.

**5. Arbedion Refeniw**

Yn 2013/14 fe gafodd y gwasanaeth Dysgu Gydol Oes ei herio i ddod o hyd i 10% - 60% o arbedion o fewn y gyllideb Ieunctid.

Roedd y gyllideb net Ieuenctid ar y pryd yn £560,170.
Mi fyddai arbedion 10% i 60% o arbedion yn erbyn y gyllideb yma yn edrych fel hyn;

| Toriadau | 10% o doriad | 20% o doriad | 30% o doriad | 40% o doriad | 50% o doriad | 60% o doriad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £ 56,017 | £ 112,034 | £ 168,051 | £ 224,068 | £ 280,085 | £ 336,102 |

Ers 2013/14, mae'r tim Ieuenctid eisoes wedi gwneud gwerth £151,300 o arbedion. Gellir gweld isod faint fwy o doriadau fyddai eu hangen i gyrraedd y targedau o 10% i 60%.

| Toriadau pellach i'w gwneud, i gyflawni: | 10% o doriad | 20% o doriad | 30% o doriad | 40% o doriad | 50% o doriad | 60% o doriad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | wedi ei gyflawni | wedi ei gyflawni | £ 16,751 | £ 72,768 | £ 128,785 | £ 184,802 |

Mae'r gwasanaeth Dysgu Gydol Oes wedi modelu 5 opsiwn ar gyfer darparu gwasanaeth ieuenctid. Mae'r adnodd sydd yn cael ei roi i mewn i pob model yn amrywio i adlewyrchu gwahanol lefelau o arbedion posib.

Gweler effaith ariannol 3 o'r modelau isod;

| Cyllideb Ddigyfnewid 2017/18 | £ 457,710 |
|---|---|

| | Gwariant | Incwm Grant | Gwariant Net | Toriad 2017 - | Cyfanswm Toriad | Cyfanswm toriad ers 2013 (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Opsiwn 1** | £ 585,099 | -£ 133,260 | £ 451,839 | £ 5,871 | £ 157,171 | 28% |
| **Opsiwn 2** | £ 540,692 | -£ 133,260 | £ 407,432 | £50,278 | 207,449 | 36% |
| **Opsiwn 3** | £ 486,865 | -£ 133,260 | £ 353,605 | £ 104,105 | £ 255,405 | 46% |
| **Opsiwn 4** | £ 425,873 | -£ 133,260 | £ £292,613 | £ 165,097 | £ £286,742 | 56% |
| **Opsiwn 5** | £ 366,227 | -£ 133,260 | £ 232,967 | £ 224,743 | £ 376,043 | 67% |

**Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith wneud penderfyniad yn unol â'r canlynol:**
Cyflwynwyd yr opsiynau i'r Pwyllgor Sgriwtini ar 22.11.16 am eu barn, i'w rhoi gerbron y Pwyllgor Gwaith ym mis Chwefror 2017, gyda'r bwriad i gychwyn gweithredu'r model yn Ebrill 2017, ac i fod yn weithredol yn y clybiau a'r ysgolion erbyn Medi 2017.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Ystyriwyd y posibilrwydd o roi'r gwasanaeth allan i dendr i'w redeg gan y Trydydd Sector, ond oherwydd profiad awdurdodau eraill hefo methu cael darparwyr addas, a'r angen ar yr ynys i gael darpariaeth dwy-ieithog yn golygu y byddai llai fyth o ddarparwyr ar gael, di-ystyrrwyd hwn fel opsiwn ymarferol.

| C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| *Ar gais penodol gan y Pwyllgor Gwaith y gwnaethpwyd yr ail-fodelu a chyd-weithwyd drwy gydol y broses gyda Bwrdd Trawsnewid Dysgu Gydol Oes.* |

| CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydi |

| D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Na – mae'r opsiynau i gyd yn ddibynnol ar barhad grantiau presennol mae'r gwasanaeth yn dderbyn, a pharhad i gefnogi y ddau brif fudiad ieuenctid Cymraeg (yr Urdd a'r Ffermwyr Ifanc) gan Ymddiriedolaeth Ynys Môn. |

| | **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Yn gefnogol i gynnwys yr adroddiad a'r angen i gytuno ar fodel sydd yn cyfarfod a heriau'r dyfodol ac yn cyfrannu at yr arbedion ariannol angenrheidiol. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Mae'r targed arbedion ar gyfer y gwasanaeth yn heriol iawn ac mae angen i'r Pwyllgor Sgriwtini ystyried y targed a'r arbedion posib mae bob opsiwn yn roi wrth ystyried pa opsiwn maent yn ffafrio, er mae'n rhaid nodi bod angen cael balans rhwng lefel yr arbedion a sicrhau bod cyllideb digonol yn weddill i fedru darparu gwasanaeth ymarferol i'r dyfodol. |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Dylid ymdrin ag unrhyw faterion staffio sy'n codi o'r argymhellion yn unol â phrosesau ymgynghori ac adnoddau dynol eraill cydnabyddedig. |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Caffael** | |

| | | |
|---|---|---|
| **8** | **Sgrwtini 22.11.16**<br>**(Adroddiad yn Atodiad 3)** | - Mai Opsiwn 1, sef torri lleiafswm o 28%, yw'r opsiwn a ffafrir gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio;<br>- Mynegi pryder na fydd y Pwyllgor Gwaith yn rhoi ystyriaeth i'r mater hyd fis Chwefror 2017. |
| **9** | **Aelodau Lleol** | |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | Asesiad Effaith Cydraddoldeb ( Atodiad 2) |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad 1- Opsiynau ail-fodelu<br>Atodiad 2 - Asesiad Effaith Cydraddoldeb<br>Atodiad 3 – Adroddiad o Bwyllgor Sgrwtini 22.11.17<br>Atodiad 4 – Sylwadau Pobl Ifanc o'r Gynhadledd Ieuenctid 24.9.16<br>Atodiad 5 – Sylwadau Staff o'r Seminar Staff 8.10.16 |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Enid Williams, Prif Swyddog Ieuenctid ar 01248752938 neu 07775984957<br>ewxed@ynysmon.gov.uk |

# Ein Hieuenctid, Ein Dyfodol



## PAM BOD ANGEN NEWID?

Yn dilyn yr etholiad diweddar, rhagdybir na fydd newid cyfeiriad sylweddol i'r blaenoriaethau cynt ar gyfer Gwasanaethau Ieuenctid. Mae'n debygol felly y bydd y dogfennau canynol yn parhau'n berthnasol i lywio'r darpariaeth i'r dyfodol :

1. Gofynnion ***Strategaeth Ieuenctid Llywodraeth Cymru 2014-2018.***
2. Gofynnion ***Fframwaith Ymgysylltu a Chyflawniad Llywodraeth Cymru***
3. Yr ystyriaethau yn yr adroddiad ***Ymagwedd Genedlaethol at Ddarpariaeth Gwaith Ieuenctid yng Nghymru***
4. Y canllawiau drafft ar gyfer sicrhau ***'Marc Ansawdd'*** ar gyfer Gwasanaethau Ieuenctid.

Golyga hyn y bydd disgwyliad i'r gwasanaeth weithio'n fwy-fwy agos gyda'r ysgolion (a chynorthwyo gyda gofynnion argymhellion Adroddiad Donaldson ynglŷn â darparu cwricwlwm amgen), a pharhau i ddatblygu llawer mwy o waith gyda phobl ifanc sydd ddim mewn Gwaith, Addysg, na Hyfforddiant ôl-16 (NEETs). Mae'r ffigurau'n dangos bod y gostyngiad sylweddol yn y niferoedd sy'n mynychu clybiau ieuenctid rhwng 2013-14 a 2014-15, er bod hyn i'w weld wedi sefydlogi yn 2015-16, gyda chynnydd bychan yn y niferoedd a fynychodd y llynedd (o 22813 i 23060). Mae yna ambell glwb o hyd lle mae'r cyfartaledd aelodaeth yn achos pryder, ond mae clybiau eraill i'w gweld wedi troi cornel, ac wedi cynyddu'n sylweddol. Ysgogodd hyn y gwasanaeth i wneud ymgynghoriad eang gyda phobl ifanc ynglŷn ag ail-fodelu'r gwasanaeth. Y trydydd gyrrwr am newid ydi angen y Cyngor i wneud arbedion sylweddol yn y gyllideb, ac mae'r Gwasanaeth Ieuenctid wedi cyd-weithio gyda'r Bwrdd Trawsnewid wedi derbyn yr her i ddarganfod arbedion o rhwng 10% a 60% o'r gyllideb oedd gan y gwasanaeth yn 2013-14.

## YMGYNGHORIADAU

Yn ystod hydref 2015 cynhaliwyd ymgynghoriad eang gyda dros 1,000 o bobl ifanc am ddyfodol y Gwasanaeth Ieuenctid. O ganlyniad i'r ymgynghoriad cyntaf yma gollyngwyd rhai pethau o'r opsiynau gwasanaeth, megis y Bws All-ymestyn a'r Hafan Ieuenctid Sirol. Yna edrychwyd ar yr hyn oedd yn weddill o'r opsiynau, a gollyngwyd rhai ohonynt megis y Bws All-ymestyn a'r Hafan Ieuenctid *(Youth Zone).* Datblygwyd gweddill yr opsiynau a'u cyflwyno i Gynhadledd Ieuenctid yn Cartio Môn ar ddydd Sadwrn, Medi 24ain, ac wedyn i'r Staff Rhan-amser mewn Seminar Staff gynhaliwyd yn Ysgol Uwchadd Bodedern ar yr 8fed o Hydref, ac fe'u trafodwyd gyda Bwrdd Trawsnewid Dysgu Gydol Oes drwy gydol y broses.

Daeth 54 o bobl ifanc i'r gynhadledd a chafwyd trafodaethau ystyrlon, gyda'r bobl ifanc yn barod iawn i leisio barn, yn llafar ac ar bapur, mewn modd ystyrlon a pharchus. Daeth aelodau o Glybiau'r Gwasanaeth Ieuenctid o bob cwr o'r sir, aelodau o'r Urdd, y Ffermwyr Ifanc, LLais Ni a chyn-aelodau o grwpiau Gwobr Dug Caeredin. Daeth 38 o ferched ifanc a 16 o ddynion ifanc i'r gynhadledd, gyda'r oedran fel a ganlyn**:**

| Oed | Nifer |
|---|---|
| 12/13 | 11 |
| 14/15 | 21 |
| 16-26 | 22 |

Mae rhestr lawn o'r sylwadau ar bapur ar gael os dymunir eu darllen (Atodiad 4) ond yn gyffredinol dyma rai o'r prif bwyntiau i'w cymeryd i ystyriaeth o'r grwpiau trafod ac a gafodd eu mynegi ar lafar:

- Dylid cadw'r ddau glwb ieuenctid ar gyfer pobl ifanc anghenion arbennig (Clwb Ni a Chlwb Cybi) yn agored
- Dim cefnogaeth i gael clybiau achredu amser cinio
- Nid oeddent yn fodlon teithio i glwb yn y dref os fyddai clwb y pentref yn cau
- Dylid cael gweithwyr ieuenctid cymwysiedig/profiadol yn rhedeg y clybiau nid gwirfoddolwyr
- Ni ddylid cau clybiau ieuenctid bychan yn llwyr er mwyn cadw clybiau mawr ar agor ddwy waith yr wythnos
- Mae'n bwysig bod y gweithwyr ieuenctid yn siarad Cymraeg
- Mae'n bwysig cael gweithiwr ieuenctid ym mhob ysgol
- Roeddent yn flin/siomedig bod y Cyngor yn gwneud torriadau i'r gwasanaeth

Cynhaliwyd Seminar Staff ar yr 8fed o Hydref, ac yn gyffredinol cafwyd yr un negesuon, heblaw wrth gwrs bod pryder gan y staff am eu swyddi ac am ddyfodol eu clybiau lle roedd y toriadau'n uwch.  (Atodiad 5). Mae sylwadau'r aelodau staff hefyd ar gael os dymunir eu gweld.

## CYLLIDEB GWASANAETH IEUENCTID

Cyllideb net y Gwasanaeth Ieuenctid yn 2013/14 oedd £560,170.

## Ein Hieuenctid, Ein Dyfodol

Byddai arbedion rhwng 10% i 60% yn erbyn y gyllideb yma yn edrych fel hyn;

| Toriadau | 10% o doriad | 20% o doriad | 30% o doriad | 40% o doriad | 50% o doriad | 60% o doriad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £ 56,017 | £ 112,034 | £ 168,051 | £ 224,068 | £ 280,085 | £ 336,102 |

Ers 2013/14, mae'r tim Ieuenctid eisoes wedi gwneud gwerth £151,300 o arbedion. Gellir gweld isod faint yn rhagor o doriadau fyddai eu hangen i gyrraedd y targedau o 10% i 60%.



| Toriadau pellach iw gwneud, i gyflawni: | 10% o doriad | 20% o doriad | 30% o doriad | 40% o doriad | 50% o doriad | 60% o doriad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | wedi ei gyflawni | wedi ei gyflawni | £ 16,751 | £ 72,768 | £ 128,785 | £ 184,802 |

Mae'r gwasanaeth Dysgu Gydol Oes wedi modelu 5 opsiwn ar gyfer darparu gwasanaeth ieuenctid, gan gadw mewn cof hefyd disgwyliadau Llywodraeth Cymru, Cyngor Ynys Môn a phobl ifanc yr ynys, a'r angen o fewn y rhaglen arbedion effeithiolrwydd. Mae'r adnoddau roddwyd i mewn i bob model yn amrywio i adlewyrchu gwahanol lefelau o arbedion posib.

Gweler effaith ariannol y 5 model isod:

| | |
|---|---|
| **Cyllideb Sefyll yn Llonydd 2017/18** | £ 457,710 |

| | Gwariant | Incwm Grant | Gwariant Net | Toriad 2017 - | Cyfanswm Toriad | Cyfanswm toriad ers 2013 (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Opsiwn 1** | £ 585,099 | -£ 133,260 | £ 451,839 | £ 5,871 | £ 157,171 | 28% |
| **Opsiwn 2** | £ 540,692 | -£ 133,260 | £ 407,432 | £ 50,278 | £ 207,449 | 36% |
| **Opsiwn 3** | £ 486,865 | -£ 133,260 | £ 353,605 | £ 104,105 | £ 255,405 | 46% |
| **Opsiwn 4** | £ 425,873 | -£ 133,260 | £ 292,613 | £165,097 | £ 286,742 | 56% |
| **Opsiwn 5** | £ 366,227 | -£ 133,260 | £ 232,967 | £ 224,743 | £ 376,043 | 67% |



## STAFFIO

Telir staff ar hyn o bryd ar delerau cyflog Soulbury (Prif Swyddog); NJC – Staff Gweinyddol a Bar Coffi, gweithwyr llawn-amser ar deledru JNC (Telerau Cenedlaethol ar gyfer Gweithwyr Ieuenctid) a staff rhan-amser ar gytundeb lleol wedi eu gysylltu i JNC. Trafodwyd gyda'r Bwrdd Trawsnewid y poisiblrwydd o drosglwyddo'r holl staff i delerau NJC, i ddod i'r un drefn â gweddill staff y Cyngor, a hefyd gan bod bwriad ar y pryd, i ddileu graddfa JNC. Ers hynny, fodd bynnag, bu setliad Cenedlaethol lle cytunwyd i gadw'r Telerau a Graddfeydd Cyflog yma am 2 flynedd arall.

Oherwydd hyn, yr argymhelliad ar hyn o bryd, yw cadw'r holl staff ar raddfeydd JNC. (gan gynnwys y staff llawn-amser a rhan-amser) gan y byddai negodi i newid graddfeydd, yn ogystal â'r holl newidiadau eraill fydd angen eu trafod, yn llesteirio'r amserlen dynn sydd gennym i weithredu'r newidiadau erbyn tymor 2017-18.

Fel man cychwyn defnyddiwyd telerau cyflog JNC ar gyfer cyllidebau'r opsiynau. O fewn yr opsiynau gwasanaeth y swyddi dan ystyriaeth yw'r canlynol:

## SWYDDOG IEUENCTID A CHYD-LYNYDD YMGYSYLLTIAD IEUENCTID

Yn gyfrifol am reoli'r gwasanaeth a rhoi arweiniad strategol, paratoi adroddiadau ar y gwasanaeth, a sicrhau bod y gwasanaeth yn datblygu i gyd-fynd hefo gofynnion yr

## Ein Hieuenctid, Ein Dyfodol

Awdurdod, Llywodraeth Cymru a phobl ifanc y sir. Bellach mae'r Swyddog Ieuenctid hefyd yn gyfrifol am roi arweiniad strategol ar y gwaith Ymgysylltu a Chynnydd i bobl ifanc (ar y cyd hefo Rheolwr y Prosiect Trac). Mae'r swyddi yma yn ddwy swydd ar wahan mewn nifer helaeth o awdurdodau.
Yn Opsiwn 4 a 5 argymhellir ail-edrych ar y rôl yma, gyda phosibilrwydd o ddyrchafu swydd y Swyddog Gweinyddol i fod yn Reolwr Busnes, a phenodi clerc rhan-amser, neu drafod gydag Awdurdod cyfagos am rannu'r swyddogaeth o Swyddog Ieuenctid a/neu EPC ar draws 2 sir.

### SWYDDOG GWEINYDDOL YR ADRAN

Cyfrifoldeb am holl ddyletswyddau gweinyddol yr adran, yn ogystal â phrosesu biliau a chyflogau, archwilio cyfrifon y clybiau, cynorthwyo gyda rheoli cyllideb yr adran, a cynorthwyo gyda pharatoi adroddiadau'r adran, a chofnodi cyfarfodydd. Mae hi hefyd yn sicrhau staff llanw fel bo angen, ac yn rheoli cofnodion absenoldebau salwch a gwyliau staff.



### GWEITHIWR IEUENCTID YSGOL A DALGYLCH

Swydd Gweithiwr Ieuenctid Ysgol a Dalgylch – rhedeg y clybiau sydd o fewn y dalgylch, gan gynnwys llunio rhaglen, darparu'r sesiynau, goruchwylio a datblygu'r staff a'r clybiau. Byddent allan 3 noson yr wythnos yn ystod tymor ysgol, a hefyd yn gyfrifol am rai prosiectau haf, rhedeg y Ganolfan Wobr Agored ôl-ysgol ar gyfer Gwobr Dug Caeredin, gan gynnwys goruchwylio'r all-deithiau. Byddent hefyd yn gyfrifol am gynnal sesiynau galw-i-mewn yn yr ysgol, cynorthwyo gyda gwaith Addysg Iechyd o fewn yr ysgol, a chyd-weithio hefo Llais Ni i ddatblygu Cyngor Ieuenctid Sirol. Byddent hefyd yn cefnogi gwaith y Gweithiwr Ymgysylltu Ieuenctid fel bo angen fynd allan i chwilio am y bobl ifanc 16+ sydd ar Haen 1 a 2 yn y Fframwaith Ymgysylltu Ieuenctid (h.y. yw ffendio a'u hail-gysylltu hefo darpariaeth). Byddai pob gweithiwr yn dal un arbenigedd o fewn y tîm e.e. Gwobr Dug Caeredin x 2; Hyfforddiant; Rheoli Gwybodaeth/MIS; Marchnata/Hyrwyddo.

### UWCH WEITHWYR IEUENCTID (Rhan-amser)

Dyrchafu rôl Arweinydd Clwb presennol i gyd-weithio gyda'r Gweithiwr Ieuenctid Llawn-amser fel Uwch Weithiwr Ieuenctid dros y dalgylch. Byddant yn gyfrifol am gyd-weithio hefo'r Gweithiwr Ieuenctid Ardal i lunio rhaglenni'r clybiau o fewn y dalgylch, arwain y clybiau o fewn y dalgylch, darparu a chyflwyno sesiynau, a chynorthwyo gyda'r gwaith gweinyddol (bancio, siopa etc). Gweithio hyd at 3 noson (sesiwn 3.7) fel bod yna amser i wneud y gwaith darparu a chefnogi'r clybiau.
**Risg – drwy ddileu'r Arweinydd i glwb unigol – fydd yr un ymrwymiad i'r pentref/y gymuned leol?**

### GWEITHWYR IEUENCTID CYNORTHWYOL

Ar hyn o bryd yn gyfrifol am gyd-redeg y clwb gyda'r Arweinydd, darparu a chyflwyno sesiynau yn y clwb, a chefnogi'r bobl ifanc. Cyflogir am 3.7 awr ar hyn o bryd, gyda 2 awr yn waith wyneb yn wyneb, a 15 munud i agor y clwb, 15 munud i glirio a chwblhau gwaith papur, a'r gweddill yn amser paratoi sesiynau.

Argymhellir gostwng yr oriau i 2.5, ac wedyn dim ond cyflwyno'r sesiynau sydd wedi'u darparu gan y 2 weithiwr uchod**.**
**Drwy ostwng y cyflog a'r oriau mae risg sylweddol na fyddwn yn cadw'r staff presennol, ac yn medru cadw staff sydd hefo cymwysterau a phrofiad eang wedi blynyddoedd o wasanaeth**. (gweler beth sy'n digwydd hefo cymhorthyddion mewn ysgolion ar hyn o bryd).

## GWEITHWYR IEUENCTID ARBENIGOL

Swyddi Sirol. Un swydd llawn-amser yn cynnal sesiynau arbenigol yn y clybiau, ysgolion, coleg, a gwaith un-i-un ym maes Cam-ddefnydd Alcohol a Sylweddau. Ar hyn o brd mae grant yn ariannu hon yn gyfan-gwbl ac roedd yn swydd yr oedd y bobl ifanc yn awyddu i'w chadw.
Un swydd hanner-amser i weithio ar ymgysylltu pobl ifanc 16-24 sydd ddim mewn Addysg, Hyfforddiant na Gwaith (NEETs) i ail-gysylltu hefo darpariaeth, neu i ddarganfod lle mae'r bobl ifanc yma. Ar hyno bryd mae grant yn talu am y swydd yma hefyd, ond i'r dyfodol bydd disgwyliad i'r Awdurdod barhau hefo'r gwaith yma, ac mae'n debygol o ddod yn swydd statudol.



## GWEITHIWR IEUENCTID LLAIS NI

Mae'r gweithiwr yma'n gyfrifol am ddatblygu Fforymau Ieuenctid a strwythurau i ymgynghori hefo pobl ifanc. Yn y gorffennol ariannwyd y swydd yn rhannol gan y Barteriaeth Plant a Ieuenctid a Grant Loteri Fawr drwy brosiect Lleisiau Lleol, a bellach telir yn gyfangwbl am y swydd gan Lleisiau Lleol tan ddiwedd Mawrth 2017. Mae'n debygol y bydd disgwyliadau cynyddol ar i'r Awdurdod ddatblygu Cyngor Ieuenctid Sirol. Ar hyn o bryd dim ond yn Opsiwn 1 y rhoddwyd cyllid am hanner swydd, gan fod y trydydd sector yn chwilio am gyllid i ddatblygu'r gwaith yma, ond pe byddai eu ceisiadau'n aflwyddiannus, mae modd y byddant yn dychwelyd at yr awdurdod lleol i chwilo am nawddogaeth.

## DARPARIAETH IAITH GYMRAEG

Mae'r holl ddarpariaeth gan y Gwasanaeth Ieuentid yn ddwy-ieithog. Darperir gwasanaeth arbenigol yn y Gymraeg gan yr Urdd a'r Ffermwyr Ifanc, sy'n cael eu hariannu ar hyn o bryd drwy Ymddiriedolaeth Ynys Môn. Mae 3 blynedd yn weddill ar y grant yma. Mae pob opsiwn gwasanaeth ar hyn o bryd, yn cymeryd yn ganiataol y bydd y cyllid yma'n parhau. Os nad dyna fydd yn digwydd yna bydd yn debygol y bydd y ddau fudiad yn dychwelyd at y cyngor i chwilio am nawddogaeth a byddai'n rhaid i'r awdurdod ail-ystyried ei flaenoriaethau.

## I GLOI

Y bwriad yw bod y gwasanaeth yn cael penderfyniad gan y Cyngor yn Nhachwedd 2016, fel bod yr ail-fodelu ar yr Opsiwn sy'n cael ei ffafio yn cychwyn yn y flwyddyn newydd, a'r model yn ei le yn y clybiau a'r ysgolion erbyn Medi, 2017.

# Ein Hieuenctid, Ein Dyfodol

**OPSIWN 1 – fyddai'n rhoi arbediad o tua 28% o gyllideb 2013/14, byddai'r gwasanaeth yn ail-fodelu, ond dim ond arbediad o £5,871 i'r Awdurdod**

| | |
|---|---|
| Prif Swyddog Ieuenctid/EPC , 5 Gweithiwr Ieuenctid Datblygu Ardal, 1 Swyddog Gweinyddol ar eu cyflogau presennol | 257,291 |
| 2 Weithiwr Ieuenctid Arbenigol (1 Gweithiwr Ieuenctid Alcohol a Cha-ddefnydd Sylweddau a 0.5 swydd Gweithiwr Ymgysylltu Ieuenctid ôl- | 51,345 |
| 0.5 Gweithiwr Ieuenctid Llais Ni Youth Worker | 17,115 |
| Canolfan Jesse Hughes, Adain Ieuenctid Plas Arthur a rhenti | 70,000 |
| Uwch Weithwyr Ieuencid rhan-amser | 44,537 |
| Gweithwyr Ieuenctid Cefnogi Ieuenctid | 52,308 |
| Clwb Ni a Chlwb Cybi (Clybiau pobl ifanc gyda Anghenion Dysgu Ychwanegol) | 7,382 |
| Cefnogaeth Dechnegol Gwobr Dug Caeredin | 12,000 |
| Teithio, Gweinyddu, Achredu, Hyfforddiant Staff a chostau eraill | 73,121 |
| CYFASWM | £585,099 |

Glas – cyllido'n rhannol drwy grant; Pinc – cyllido'n gyfan-gwbl drwy grant



| POSITIF | RISGIAU |
|---|---|
| Clybiau i gyd ar agor yn ystod tymor ysgol (ar hyn o bryd dim od 2 glwb sy'n agor am 38 wythnos). | Nemor ddim toriadau pellach i'r Awdurdod |
| Gweithiwr ieuenctid llawn-amser yn nalgylch bob Ysgol Uwchradd – cyfle ehangach i bobl ifanc cael cyswllt hefo Gweithiwr Ieuenctid | Dim clybiau achredu amser cinio gan nad oedd pobl ifanc yn gweld hwn fel blaenoriaeth, ac mae risg na fydd yr Awdurdod yn cyrraedd y lefel achrediadau sy'n ddisgwyliedig gan Lywodraeth Cymru. |
| Cadw Canolfan Jesse Hughes a Chanolfan Ieuenctid Plas Arthur (sydd hefyd yn lletya darpariaeth o'r sector wirfoddol am ddim – y Beavers, Sgowtiaid, Majorettes a Chanolfan Wobr Agored DofE. tre | Risg uchel o golli staff Is-arweinyddion Ieuenctid cymwysiedig a phrofiadol, gan bod hyn yn golygu £11 yn llai yn noson yn eu horiau/cyflogau a gallai wneud y gwaith yn llai deniadol i staff. |
| Cadw swydd Prif Swyddog Ieuenctid ac EPC ar gyfer arweiniad strategol | |
| Cadw 5 noson o ddarpariaeth ym mhob ardal | |
| Cadw'r Gweithwyr Ieuenctid arbenigol | Swyddi Gweithwyr Ieuenctid arbenigol yn ddibynnol ar grantiau |
| Uwch Weithiwr Ieuenctid i gyd-weithio'n agosach hefo'r Gweithiwr Llawn-amser i ddatblygu rhaglenni a sesiynau i'r clybiau. | |

## Ein Hieuenctid, Ein Dyfodol

| | |
|---|---|
| Cadw'r 2 Glwb Ieuectid ar gyfer pobl ifanc hefo Anghenion Addysgol Ychwanegol (Clwb Ni a Chlwb Cybi) | Darpariaeth Iaith Gymraeg (Urdd a'r Ffermwyr Ifanc) yn parhau'n ddibynnol at arian yr Ymddiriedolaeth. |
| Gweithiwr Ieuenctid Ymgysylltiad Ieuenctid wedi ei benodi'n unol â gofynnion Fframwaith Ymgysylltu Ieuenctid Llywodraeth Cymru. | Posibilrwydd y bydd mwy o waith yn y maes yma'n cael ei basio i awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru dros y blynyddoedd nesaf, ond dim mwy o gyllid. Ar hyn o bryd mae'r awdrudod yn ddibynnol ar grant ESF i ddarparu y gwaith ychwanegol sydd ynghlwm â'r gwaith yma. |
| Cadw Gwobr Caeredin ym mhob ysgol | |
| Cyllideb fechan wedi ei neilltuo ar gyfer Gweithwyr Ieuenctid Cefnogol i ddarparu prosiectau haf. | |

Ar berfformiad/presenoldeb presennol darpariaeth clybiau presennol fyddai :

Ardal Ysgol Uwchradd Bodedern – Bodedern x 2 noson, Gwalchmai, Llanfaelog, Llanfachraeth
Ardal Ysgol David Hughes – Biwmares, Llanfairpwll, Brynsiencyn, Dwyran, Llanddaniel neu Llandegfan
Ardal Ysgol SyrThomas Jones – Penysarn, Cemaes, Amlwch, Moelfre, Llanerchymedd
Ardal Ysgol Uwchradd Caergybi – Clwb Hŷn Jesse Hughes, Valley, Llaingoch, Clwb Iau Jesse Hughes
Ardal Ysgol Gyfun Llangefni Area – Llangefni x 2, Llangristiolus, Newborough, Rhosmeirch
Clwb Cybi a Clwb Ni – aros 'run fath



Clybiau'n debygol o gau – Pentraeth, Clwb Iau Llangefni, Bodffordd, Llanddaniel neu Llandegfan.
(Pentraeth ar gau ar hyn o bryd oherwydd dim staff, a Bodffordd wedi cau mis yma oherwydd presenoldeb gwael ers 3 blynedd. Clwb Hŷn Llangefni bellach yn derbyn pobl ifanc blwyddyn 7, felly angen llai am Glwb Iau, er bod niferoedd cyfredol yn uchel. Blwyddyn 6 ddim yn flaenoriaeth i'r Gwasanaeth Ieuenctid.
Newidiadau staffio:
Cynyddu'r staff llawn-amser o 3 i 5
Colli 25 Swydd Arweinydd Ieuenctid Mewn Gofal
Apwyntio Uwch Weithwyr Ieuenctid (5 noson x 48 wythnos)
Is-arweinyddion Ieuenctid – ar hyn o bryd 47 noson o waith, yn dod i lawr i 15 gweithiwr yn cael eu cyflogi am 38 wythnos, 12 x 26 wythnos a pheth gwaith haf achlysurol, ond hefyd Gweithiwr Cefnogi Ieuenctid yn derbyn £11 yn llai y noson/lleihad oriau) – colli 20 swydd/noson
Dim cyllid am swydd Llais Ni ar hyn o bryd, ond darpariaeth yn yr opsiwn yma.

## Ein Hieuenctid, Ein Dyfodol

**OPSIWN 2 - fyddai'n rhoi 36% o dorriad o'r gyllideb yn 2013/14, ail-fodelu'r gwasanaeth, a thoriad pellach o £50,278 i'r Awdurdod**

| | |
|---|---|
| Prif Swyddog Ieuenctid/EPC , 5 Gweithiwr Ieuenctid Ardal, 1 Swyddog Gweinyddol ar eu cyflogau presennol | 257,291 |
| 2 Weithiwr ieuenctid Arbenigol (1 Gweithiwr Ieuenctid Alcohol a Cham-ddefnydd Sylweddau, 0.5 swydd Gweithiwr Ieuenctid Ymgysylltu 16+ | 51,345 |
| 0.5 Gweithiwr Ieuenctid Llais Nir | |
| Cadw Canolfan Jesse Hughes, a Chanolfan Ieuenctid Plas Arthur a rhenti | 70,000 |
| Uwch Weithwyr Ieuenctid Rhan-amser | 17,258 |
| Gweithwyr Ieuenctid Cefnogol rhan-amser | 54,861 |
| Clwb Ni a Chlwb Cybi (Clybiau ar gyfer pobl ifanc hefo Anghenion Dysgu Ychwanegol) | 7,382 |
| Cefnogaeth Dechnegol i Wobr Dug Caeredin | 12,000 |
| Teithio, Gweinyddu, Achredu, Hyfforddiant Staff a chostau eraill | 70,555 |
| TOTAL | 540,692 |

Glas – wedi ei ariannu'n rhannol drwy grant; Pinc – wedi ei ariannu'n gyfangwbl hefo grant



| POSITIF | RISGIAU |
|---|---|
| Dau glwb ym mhob ardal ar agor yn ystod tymor ysgol (ar hyn o bryd dim ond 2 sydd ar agor am 38 wythnos), a 3 ar agor am 26 wythnos. | Risg uchel o golli Gweithwyr Ieuenctid cymwysiedig/Profiadol gyda'r gostyngiad o £11 yn llai o gyflog y noson/cyflog a thymor byrrach yn llai deniadol i staff. |
| Gweithiwr Ieuenctid ar gyfer pob dalgylch Ysgol Uwchradd – cyfle i fwy o bobl ifanc gael cyswllt hefo gweithiwr ieuenctid. | Dim clybiau achredu amser cinio oherwydd nad oedd pobl ifanc yn ei weld fel blaenoriaeth, ond risg na fyddwn yn cyrraedd lefel disgwyliedig o achrediadau hefo pobl ifanc. |
| Cadw Canolfan Jesse Hughes a Chanolfan Plas Arthur (sydd hefyd yn lletya y Beavers, Sgowtiaid, Majorettes a Chanolfan Wobr Agored DofE | |
| Cadw swydd Prif Swyddog Ieuenctid ac EPC ar gyfer arweiniad strategol | |
| Cadw 5 noson o ddarpariaeth ym mhob ardal ysgol | |
| Cadw'r gweithwyr ieuenctid arbenigol | Swyddi gweithwyr ieuenctid arbenigol yn ddibynnol ar grantiau |
| Uwch Weithiwr Ieuenctid i gyd-weithio'n agosach hefo'r Gweithiwr Llawn-amser i ddatblygu rhaglenni a sesiynau i'r clybiau. | |
| 2 Glwb ar gyfer Pobl Ifanc gyda Anghenion Dysgu Ychwanegol – Clwb Ni a Chlwb Cybi | Darpariaeth Iaith Gymraeg (Urdd a Ffermwyr Ifanc) yn parhau'n ddibynnol ar Ymddiriedolaeth Ynys Môn am gyllid. |

# Ein Hieuenctid, Ein Dyfodol

| | |
|---|---|
| Gweithiwr Ieuenctid Ymgysylltu Ieuenctid 16+ fel y digwylir gan Lywodraeth Cymru gan yr awdurdod o fewn y Fframwaith Ymgysylltu a Chynnydd | Posibilrwydd y bydd mwy o waith yn y maes yma'n cael ei basio i awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru dros y blynyddoedd nesaf, ond dim mwy o gyllid. Ar hyn o bryd mae'r awdrudod yn ddibynnol ar grant ESF i ddarparu y gwaith ychwanegol sydd ynghlwm â'r gwaith yma. |
| Parhau i ddarparu Gwobr Dug Caeredin ym mhob ysgol | |

Ar berfformiad/presenoldeb ar hyn o bryd y clybiau'n debygol o barhau fyddai:
Ardal Ysgol Uwchradd Bodedern – Bodedern x 2 noson x 38 wythnos, Gwalchmai, Llanfaelog, Llanfachraeth x 26 wythnos
Ardal Ysgol David Hughes – Biwmares, Llanfairpwll, Brynsiencyn, Dwyran, Llanddaniel neu Llandegfan (2 ar agor am 38 wythnos, 3 ar agor am 26)
Ardal Ysgol Syr Thomas Jones – Penysarn, Cemaes, Amlwch, Moelfre, Llanerchymedd (2 ar agor am 38 wythnos, 3 ar agor am 26)
Ardal Ysgol Uwchradd Caergybi – Clwb Hŷn Jesse Hughes, Valley, Llaingoch, Clwb Iau Jesse Hughes Junior Club (JH Hŷn ar agor am 38 wythnos, 3 ar agor am 26)
Ardal Ysgol Gyfun Llangefni – Llangefni x 2, Llangristiolus, Niwbwrch, Rhosmeirch (Llangefni yn agor 38 wythnos, 3 arall ar agor am 26)
Clwb Cybi a Chlwb Ni – aros run fath



**Clybiau'n debygol o gau** – Pentraeth, Clwb Iau Llangefni Junior Club, Bodffordd, Llanddaniel neu Llandegfan.
(Pentraeth ar gau ar hyn o bryd oherwydd diffyg staff, a Bodffordd wedi cau mis yma oherwydd presenoldeb isel dros y blynyddoedd diwethaf. Clwb Llangefni yn awr yn cymeryd blwyddyn 7 felly llai o angen Clwb Iau, er bod presenoldeb yn uchel ar hyn o bryd.

Newidiadau staffio:
Cynyddu gweithwyr ieuenctid llawn-amser o 3 i 5
Colli 25 Swydd Arweinydd Mewn Gofal
Apwyntio Uwch Weithwyr Ieuenctid (9 noson x 26 wythnos)
Is-arweinyddion Ieuenctid – ar hyn o bryd yn darparu 47 noson, mwyafrif yn gweithio 25t wythnos ac opsiwn am dymor yr haf. Hefo'r ail-fodelu byddai 18 yn gweithio 38 wythnos. 23 am 26 wythnos ond £11 o leihad mewn oriau/cyflog y noson.
Dim cyllid ar gyfer swydd Llais Ni

## Ein Hieuenctid, Ein Dyfodol

**OPSIWN 3 - byddai'n rhoi torriad o tua 46% ers 2013/14, ail-fodelu'r gwasanaeth, a thoriad pellach i'r Awdurdod o tua £104,105**

| | |
|---|---|
| Prif Swyddog Ieuenctid/EPC , 5 Gweithiwr Ieuenctid Ardal Llawn-amser, 1 Swyddog gweinyddol ar eu cyflogau presennol | 257,291 |
| 2 Weithiwr Ieuenctid Arbenigol (1 Gweithiwr Alcohol a Cham-ddefnydd Sylweddau, 0.5 swydd Gweithiwr Ieuenctid Ymgysylltiad 16+ | 51,345 |
| 0.5 Gweithiwr Llais Ni | |
| Cadw Canolfan Jesse Hughes, a Chanolfan Plas Arthur a rhenti | 60,000 |
| Uwch Weithiwr Ieuenctid rhan-amser | 14,846 |
| Gweithwyr Cefnogi Ieuenctid rhan-amser | 34,001 |
| Clwb Ni a Chlwb Cybi (Clybiau i bobl ifanc hefo Anghenion Dysgu Ychwanegol) | 7,382 |
| Cefnoaeth Dechnegol i Wobr Dug Caeredin | 12,000 |
| Teithio, Gweinyddu Achredu, Hyfforddiant Staff a chostau eraill | 50,000 |
| CYFANSWM | £486,865 |

Glas – swydd wedi ei chyllido'n rhannol hefo grant; Pinc – swydd wedi ei chyllido'n gyfan-gwbl hefo grant



| POSITIF | RISGIAU |
|---|---|
| Un prif glwb ar agor ym mhob ardal yn ystod tymor ysgol. Ar hyn o bryd dim ond 2 glwb sydd yn agor hyd at 38 wythnos. | Risg uchel o golli staff Is-arweinyddion Ieuenctid cymwysiedig a phrofiadol, gan bod hyn yn golygu £11 yn llai yn noson yn eu horiau/cyflogau a gallai wneud y gwaith yn llai deniadol i staff. |
| Gweithiwr Ieuenctid llawn-amser yn nalgylch bob ysgol – mwy o gyfle i bobl ifanc gael cyswllt hefo Gweithiwr Ieuenctid | Dim clybiau achredu amser cinio gan nad oedd pobl ifanc yn eu gweld fel blaenoriaeth, ond mae risg i'r awdurdod o beidio cyrraedd targedau Llywodraeth Cymru o ran disgwyliadau i ennill achrediadau. |
| Cadw Canolfan Jesse Hughes a Chanolfan Plas Arthur – sydd hefyd yn lletya daprariaeth wirfoddol - Beavers, Sgowtiaid, Majorettes a Chanolfan Wobr Agored Gwobr Dug Caeredin | |
| Cadw 4 noson o ddarpariaeth clwb ym mhob ardal, ond am dymor llai. | Mwyafrif y clybiau ar agor o Fedi i Mawrth yn unig |
| Cadw Gweithwyr Ieuencid arbenigol | Gweithwyr Ieuenctid arbenigol yn ddibynnol ar grantiau. |
| Uwch Weithiwr Ieuenctid i gyd-weithio'n agosach hefo'r Gweithiwr Llawn-amser i ddatblygu rhaglenni a sesiynau i'r clybiau. | More reliance on schools to support DofE |

# Ein Hieuenctid, Ein Dyfodol

| | |
|---|---|
| Cadw 2 Glwb Ieuenctid Anghenion Arbennig – Clwb Ni a Chlwb Cybi | Darpariaeth Iaith Gymraeg (Urdd a Ffermwyr Ifanc) yn parhau'n ddibynnol ar Ymddiriedolaeth Ynys Môn am gyllid. |
| Awdurdod hefo Gweithiwr Ieuenctid Ymgysylltiad yn unol disgwyliadau Llywodraeth Cymru o dan y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd. | Posibilrwydd y bydd mwy o waith yn y maes yma'n cael ei basio i awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru dros y blynyddoedd nesaf, ond dim mwy o gyllid. Ar hyn o bryd mae'r awdrudod yn ddibynnol ar grant ESF i ddarparu y gwaith ychwanegol sydd ynghlwm â'r gwaith yma. |
| Cadw Gwobr Dug Caeredin ym mhob ysgol | |



Ar berfformiad presennol/presenoldeb/angen lleol y ddarpariaeth glwb debygol ydi:
Ardal Ysgol Uwchradd Bodedern – Bodedern x 2 noson x 38 wwythnos, Gwalchmai, Llanfaelog neu Llanfachraeth agored x 26 wythnos
Ardal Ysgol David Hughes – Beaumaris, Llanfairpwll, Brynsiencyn, Dwyran (1 open x 38 wythnos, 3 ar agor x 26 wythnos)
Ardal Ysgol Syr Thomas Jones – Penysarn, Cemaes, Moelfre, Llanerchymedd (1 ar agor am 38 wythnos, 3 ar agor am 26 wythnos)
Ardal Ysgol Uwchradd Caergybi – Clwb Hŷn Jesse Hughes x 38 weeks x 2 noson, 2 ar agor am 26 wythnos)
Ardal Ysgol Gyfun Llangefni – Llangefni x 2, Llangristiolus, Niwbwrch neu Rhosmeirch (1 ar agor am 38 wythnos x 2 noson, 2 ar agor x 26 wythnos)
Clwb Cybi a Chlwb Ni – aros run fathremain the same.

Clybiau'n debygol o gau – Pentraeth, Llangefni Iau, Bodffordd, Llanddaniel, Llandegfan, Amlwch, Jesse Hughes Iau, Niwbwrch neu Rhosmeirch, Llanfaelog neu Llanfachraeth (Pentraeth ar gau oherwydd diffyg staff, a Bodffordd wedi cau mis yma oherwydd presenoldeb isel dros y blynyddoedd diwethaf. Clwb Llangefni yn awr yn cymeryd blwyddyn 7, ac felly dim cymaint o alw am Glwb Iau ond mae presenoldeb uchel yno ar hyn o bryd. Blwyddyn 6 ddim yn flaenoriaeth i'r gwasanaeth ieuenctid.
Newidiadau staffio:
Codi gweithwyr llawn-amser o 3 i 5
Colli 25 swydd Arweinydd Mewn Gofal
Apwyntio Uwch Weithiwr Ieuenctid (5 noson x 38 wythnos)
Is-arweinydd Ieuenctid, ar hyn o bryd yn gweithio 47 noson, yn dod i lawr, i 15 yn gweithio 38 wythnos a 12 yn gweithio 26 wythnos a gostyniad cyflog/oriau o £11 y noson)
Swydd Llais Ni ddim yn cael ei hariannu gan yr Awdurdod

**OPSIWN 4 - yn rhoi tua 56% o dorriad ers 2013/14, ail-fodelu'r gwasanaeth a thoriad pellach o £165,097 i'r Awdurdod**

| | |
|---|---|
| Dyrchafu'r Swyddog Gweinyddol i fod yn Reolwr Busnes neu rannu swydd Prif Swyddog/EPC hefo Awdurdod cyfagos/ 5 Gweithiwr Ieuenctid Llawn-amser ar y cyflogau presennol | 216,529 |
| 2 Weithiwr Ieuenctid Arbenigol (1 Gweithiwr Alcohol a Cham-ddefnydd Sylweddau Llawn-amser, 0.5 swydd Gweithiwr Ymgysylltu Ieuenctid 16+ | 51,345 |
| 0.5 Cymhorthydd Clerigol | 10,869 |
| Dim Gweithiwr Llais Ni | |
| Cadw Canolfan Jesse Hughes a Chanolfan Ieuenctid Plas Arthur Youth Wing a rhenti | 40,000 |
| Uwch Weithwyr Ieuenctid Rhan-amser | |
| Gweithwyr Cefnogi Ieuenctid Rhan-amser | 37,363 |
| Gweithwyr Cefnogi Ieuenctid – prosiectau byr-dymor | 5,760 |
| Clwb Ni a Chlwb Cybi (Clybiau i bobl ifanc gyda Anghenion Dysgu Ychwanegol) | 7,382 |
| Cefnogaeth Dechnegol i Wobr Dug Caeredin | 12,000 |
| 0.5 Gweithiwr Datblygu'r Ddarpariaeth Wirfoddol | 17,115 |
| Teithio, Gweinyddu, Achredu, Hyfforddi Staff a chostau eraill | 27,510 |
| CYFANSWM | £425,873 |

Glas – swydd wedi ei hariannu'n rhannol hefo grant; Pinc – Swydd wedi hariannu'n gyfan-gwbl hefo grant

| POSITIF | RISGIAU |
|---|---|
| 3 Prif Glwb ar agor am 34 wythnos x 2 noson (Jesse Hughes, Llangefni a Bodedern) 12 clwb bach ar agor am 34 wythnos | Dim Uwch Weithiwr i gefnogi'r Gweithwyr Llawn-amser |
| Gweithiwr Ieuenctid Llawn-amser ar gyfer pob ardal Ysgol Uwchradd – mwy o gyfle i bobl ifanc gael cyswllt hefo Gweithiwr Ieuenctid | Dim clybiau achredu amser cinio gan nad oedd yn flaenoriaeth gan bobl ifanc, ond mae risg na fydd yr awdurdod yn cyrraedd y targedau disgwyliedig o ran achredu. |
| Cadw Canolfan Jesse Hughes a Phlas Arthur – sy'n lletya y Beavers, Sgowtiaid, Majorettes a Chanolfan Wobr Agored Gwobr Dug Caeredin | Risg uchel o golli staff Is-arweinyddion Ieuenctid cymwysiedig a phrofiadol, gan bod hyn yn golygu £11 yn llai yn noson yn eu horiau/cyflogau a gallai wneud y gwaith yn llai deniadol i staff. |
| | Dim cefnogaeth i Llais Ni |
| Cadw 3 noson o ddarpariaeth ym mhob ardal, ond tymor byrrach | Dim Prif Swyddog Ieuenctid ac EPC i roi arweiniad strategol |
| Cadw Gweithwyr Ieuenctid Arbenigol | Gweithwyr Ieuenctid Arbenigol yn ddibynol ar grantiau |

| | |
|---|---|
| Cadw'r 2 Glwb Ieuenctid ar gyfer pobl ifanc gyda Anghenion Arbennig | Mwy o ddibyniaeth ar ysgolion i gefnogi Gwobr Dug Caeredin |
| Gweithiwr ieuenctid Ymgysylltu Ieuenctid gan yr Awdurdod | Posibilrwydd o gynnydd yn y gwaith yny maes yma fel mae Llywodraeth Cymru'n pasio mwy o'r gwaith yma i lawr i awudrdodau lleol a dim arian ar ei gyfer. Ar hyn o bryd yn ddibynnol iawn ar arian ES i wneud llawer o'r gwaith prosiect. |
| Cadw Gwobr Dug Caeredin ym mhob ysgol l | Dapariaeth Iaith Gymraeg (Urdd a Ffermwyr Ifanc) yn parhau'n ddibynol am arian o Ymddiriedolaeth Ynys Môn |

Ar berfformiad presennol/presenoldeb/angen lleol y ddarpariaeth debygol fyddai:

Ardal Ysgol Uwchradd Bodedern Area – Bodedern x 2 noson, 1 clwb o blith Gwalchmai, Llanfaelog neu Llanfachraeth
Ardal Ysgol David Hughes – 3 noson glwb o blith Biwmares, Llanfairpwll, Brynsiencyn, Dwyran
Ardal Ysgol Syr Thomas Jones – 3 cchlwb o blith Penysarn, Cemaes, Moelfre, Llanerchymedd
Ardal Ysgol Uwchradd Caergybi – Clwb Hŷn Jesse Hughes x 2; 1 noson glwb o blith Valley neu Llaingoch
Ardal Ysgol Gyfun Llangefni – Llangefni x 2, 1 noson o blith Llangristiolus, Rhosmeirch, Niwbwrch
Clwb Cybi a Chlwb Ni – aros 'run fath



Nifer o glybiau fyddai'n cau – 14

Newidiadau i staffio:
Cynyddu'r staff llawn-amser o 3 i 5
Colli 25 Arweinydd Mewn Gofal
Dim Uwch Weithiwr oherwydd mai'r Gweithiwr Llawn-amser fydd yn gyfrifol am y clwb bob nos
Is-arweinyddion – ar hyn o bryd 47 noson o waith, yn dod i lawr i 30 x 34 wythnos a gostyniad cyflog/oriau o £11 y noson.
Swydd Llais Ni ddim yn cael ei hariannu gan yr Awdurdod ar hyn o bryd.

**OPSIWN 5 - yn rhoi toriad o hyd at 67% ers 2013/14, ail-fodelu'r gwasanaeth, a thoriad pellach o £224,743 i'r Awdurdod**

Tudalen 980

| | |
|---|---|
| Dyrchafu'r Swyddog Gweinyddol i fod yn Reolwr Busnes neu rannu swydd Prif Swyddog/EPC hefo Awdurdod cyfagos/ 3 Gweithiwr Ieuenctid Llawn-amser ar y cyflogau presennol (un mewn 1 ysgol, a dau'n gyfrifol am 2 ysgol) | 146,088 |
| 2 Weithiwr Ieuenctid Arbenigol (1 Gweithiwr Alcohol a Sylweddau Llawn-amser, 0.5 swydd Gweithiwr Ieuenctid Ymgysylltu 16+ ) | 51,345 |
| 0.5 Cymhorthydd Clerigol | 10,869 |
| Dim Gweithiwr Llais Ni | |
| Cadw Canolfan Jesse Hughes a rhenti | 35,000 |
| Uwch Weithwyr Ieuenctid | 12,371 |
| Gweithwyr Cefnogi Ieuenctid Rhan-amser | 27,400 |
| Part-time Youth Support Workers – short term project work | 5,760 |
| Clwb Ni a Chlwb Cybi (Clybiau pobl ifanc gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol) | 5,279 |
| Cefnogaeth Dechnegol i Wobr Dug Caeredin | |
| 0.5 Gweithiwr i ddatblygu'r ddarpariaeth wirfoddol | 17,115 |
| Grantiau cychwynnol | 20,000 |
| Teithio, Gweinyddu, Achredu a Hyfforddi Staff a chostau eraill | 35,000 |
| TOTAL | 336,227 |

Glas – swyddi wedi eu hariannu'n rhannol hefo grant; Pinc – swyddi wedi ei hariannu'n gyfan-gwbl drwy grant

| **POSITIF** | **RISGIAU** |
|---|---|
| 2 noson o ddarpariaeth clwb ym mhob dalgylch Ysgol Uwchradd am 34 wythnos | Dim Prif Swyddog / EPC i roi Arweiniad Strategol |
| Un Gweithiwr Ieuenctid Llawn-amser yn Ysgol Uwchradd Caergybi, Un rhwng Llangefni/Amlwch ac un rhwng David Hughes/Bodedern | Dim digon o amser mewn 4 o'r ysgolion i fedru rhoi gwaith o ansawdd |
| Cadw Canolfan Jesse Hughes | Colli Canolfan Plas Arthur yn gadael Clwb Ieuenctid Llangefni'n fregus o ran colli cefnogaeth y dref, a hefyd colli'r llety presennol i'r mudiadau gwirfoddol sy'n cael ei ddefnyddio'n rhad ac am ddim. |
| | Dim cefnogeth i weithiwr Llais Ni |
| | DofE yn gwbl ddibynnol ar yr ysgolion i'w ddarparu. |
| Cadw'r Gweithwyr Ieuenctid Arbenigol | Gweithwyr Ieuenctid arbenigol yn ddibynol ar grantiau |

| | |
|---|---|
| Cadw Clwb Ni a Chlwb Chybi – i bobl ifanc hefo Anghenion Dysgu Ychwanegol | Risg uchel o golli staff cymwysiedig a phrofiadol, gyda'r cyflog yn gostwng o £11 y noson – dim digon deniadol i dynnu staff allan gyda'r nos. |
| Gweithiwr ieuenctid Ymgysylltu Ieuenctid gan yr Awdurdod | Posibilrwydd o gynnydd yn y gwaith yny maes yma fel mae Llywodraeth Cymru'n pasio mwy o'r gwaith yma i lawr i awudrdodau lleol a dim arian ar ei gyfer. Ar hyn o bryd yn ddibynnol iawn ar arian ES i wneud llawer o'r gwaith prosiect. |
| Uwch Weithiwr Ieuenctid i gyd-weithio'n agosach hefo'r Gweithiwr Llawn-amser i ddatblygu rhaglenni a sesiynau i'r clybiau. | Darpariaeth Iaith Gymaeg (Urdd a Ffermwyr Ifanc) yn parhau'n ddibynol ar grant o Ymddiriedolaeth Ynys Môn |
| | Risg o golli grantiau i'r gwasanaeth ohrwydd nad yw'r gwasanaeth yn gallu cyrraedd digon o flaenoriaeth gosodedig Llywodraeth Cymru. |
| | **Pobl Ifanc o'r farn bod yr opsiwn yma "yn codi dychryn" a "fyddai fawr o werth cael gwasanaeth os mai dyma'r cwbl sydd ar ôl".** |



Ar berfformiad presennol/presenoldeb/angen lleol dyma'r ddarpariaeth fyddai'n weddill:

Ardal Ysgol Uwchradd Bodedern – Bodedern x 2 noson
Ardal Ysgol David Hughes – 2 noson glwb o blith Biwmares, Llanfairpwll, Brynsiencyn, Dwyran
Ardal Syr Thomas Jones – 2 noson glwb o blith Penysarn, Cemaes, Moelfre, Llanerchymedd
Ardal Ysgol Uwchradd Caergybi – Clwb Hŷn Jesse Hughes x 2;
Ardal Ysgol Gyfun Llangefni – Llangefni x 2,
Clwb Cybi a Chlwb Ni – aros run fath

**Nifer o glybiau fyddai'n cau – 18**

Newidiadau staffio:
Dim newid i'r presennol o ran nifer Gweithwyr Llawn-amser ond newid cyfrifoldebau
Colli 25 swydd Arweinydd Mewn Gofal
Apwyntio Uwch Weithwyr Ieuenctid 5 x 1 noson yr wythnos
Is-arweinyddion – ar hyn o bryd 47 noson o waith, yn dod i lawr i 22 x 34 wythnos a gostyngiad cyflog o £11 y noson/oriau mewn cyflog
Swydd Llais Ni ddim yn cael ei hariannu gan yr Awdurdod ar hyn o bryd.

# Cyngor Sir Ynys Môn

# Asesiad Effaith Cydraddoldeb

| |
|---|
| Beth ydych yn ei asesu?<br>**Sicrhau gwasanaethau effeithiol a chynaladwy i'r dyfodol:** Ail-fodelu'r Gwasanaeth Ieuenctid |
| Newydd/Yn bodoli'n barod/Diweddaru/Newid : **Newydd**<br>Dyddiad Cychwyn : 14/09/2015 Dyddiad cwblhau : parhaus |

| |
|---|
| Pwy sy'n gyfrifol am ddatblygu a gweithredu'r polisi?<br>Delyth Wyn Molyneux – Pennaeth Dysgu<br>Enid Williams – Prif Swyddog Ieuenctid |

**1. Beth yw nôd a phwrpas y Polisi?**

| |
|---|
| Nôd y polisi yw cytuno drwy ymgynghoriad cyhoeddus pa opsiwn/opsiynau fydd yn rhoi'r model mwyaf cynaladwy i ddarparu gwasanaethau ieuenctid i'r dyfodol, a'u gweithredu heb gael effaith andwyol ar ansawdd y gwasanaeth a ddarperir ar gyfer pobl ifanc. |

**2. Rhowch wybodaeth gefndirol am y polisi ac unrhyw ymchwil gwblhawyd?**

**Cefndir :**

Mae'r agenda genedlaethol a lleol a'r heriau ariannol a wynebir yn ei gwneud yn hanfodol i adolygu'r ffordd mae gwasanaethau ieuenctid yn cael eu darparu.

**Y prif gyrrwyr am newid:**

1. Targedau o fewn Strategaeth Gwaith Ieuenctid yng Nghymru 2014-2018.

Mae'n adnabod yr angen i'r gwasanaeth i barhau i fod yn rhan strategol o wasanethau addysgol a pheidio bod yn rhan o ddarpariaeth hamdden. Gall gwaith ieuenctid da wella presenoldeb, ymddygiad, cymhelliant a pherthnasau o fewn ysgolion. O fewn y strategaeth mae yna bwyslais yn awr ar roi rôl allweddol i weithwyr ieuenctid i gefnogi pobl ifanc i barhau mewn ymgysylltiad hefo addysg, a pharhau o fewn addysg neu hyfforddiant ffurfiol. Mae'r strategaeth yn adnabod tri maes lle dylai'r gwasanaeth ganolbwyntio, sef:

a. Mynediad at gyfleon dysgu anffurfiol a lled-ffurfiol sy'n ehangu'r gorwelion, herio meddwl a datblygu sgiliau drwy gryfhau'r berthynas rhwng waith ieuenctid ac addysg ffurfiol.

b. Gwella'r ffordd y darperir gwaith ieuenctid i fod gyda ymagwedd mwy cyd-lynus rhwng beth mae'r gwasanaeth ieuenctid yn gallu ddarparu drwy'r sector statudol a gwirfoddol, lleihau dyblygu, rhannu gwybodaeth a hyrwyddo gweithgareddau sy'n gwella capasiti, a darparu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n ateb gofynnion cyfoes pobl ifanc.

c. Parhau i leihau'r nifer o bobl ifanc sydd ddim mewn addysg, hyfforddiant na gwaith – drwy ymyrraeth addysgol, iechyd neu ymyryiaethau eraill.

Ch. Gwaith ieuenctid wedi ei dargedu wedi ei seilio ar bartneriaeth i sicrhau canlyniadau positif i bobl ifanc mewn addysg a hyfforddiant prif lif.

d. Cyfrannu at ddarparu addysg bersonol, addtysg iechyd ac addysg gymdeithasol mewn ysgolion.

2. Gofynnion y Fframwaith Ymgysylltu a Chynnydd

Gosoda'r ddogfen yma eto rôl allweddol ar ysgwyddau'r Gwasanaeth Ieuenctid i sicrhau bod pobl ifanc 16+ yn parhau mewn addysg, hyfforddiant neu waith.

3. Hyd yma mae Ynys Môn a Gwynedd wedi cadw'r rhwydwaith ehangaf o glybiau ieuenctid bychan gwledig drwy Gymru. Rhwng 2013-14 a 2014-15 fodd bynnag, gwelwyd gostyngiad sylweddol yn y niferoedd o bobl ifanc sy'n mynychu'r clybiau yma. Byddai hyn yn ei hun yn ysgogiad i adolygu'r ffordd yr ydym yn ymgysylltu hefo pobl ifanc, ac mae wedi bod yn fan cychwyn i waith y Bwrdd Trawsnewid i edrych ar ail-fodelu'r gwasaneth, a chynnal ymgynghoriad eang gyda phobl ifanc, yn gofyn iddynt pa wasanaethau maent hwy'n dymuno eu gweld ar eu cyfer i'r dyfodol.

4. Bydd angen cyplysu hyn hefo rhaglen yr Awdurdod o adnabod ei flaenoriaethau tra'n gweithredu toriadau effeithiolrwydd eang. Mae angen i'r gwasanaeth felly adnabod blaenoriaethau cyfredol pobl ifanc, tra'n gweithredu'r rhaglen radical o newidiadau sy'n cael eu disgwyl o'r blaenoriaethau cenedlaethol newydd, a sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth sy'n ateb gofynnion cyfoes pobl ifanc a dim yn darparu gwasanaeth sy'n seiliedig ar raglen waith hanesyddol neu draddodiadol.

**Y Ddarpariaeth Bresennol**

Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn darparu gwasaethau i bobl ifanc ar hyd a lled yr ynys, i'r oedran 10-26 oed, gyda'r prif ffocws ar y grŵp 11-16. Hyd yma mae'r gwasanethau wedi bod ar agor i unrhyw berson ifanc sy'n dewis defnyddio'r gwasanaeth (mynediad agored), a phrif elfennau'r gwasanaeth yw:

- Darpariaeth yn y clybiau (Rhaglen Gaeaf a Rhaglen Haf)
- Gwaith Ieuenctid sy'n arwain at ennill Achrediadau
- Gweithiwr Cam-ddefnydd Alcohol a Sylweddau
- Gwaith Ymgysylltiad a Chynnydd
- Gwaith Ieuenctid gwirfoddol yn cael ei gefnogi' drwy Ymddiriedolaeth Ynys Môn

Mae'r gwaith i gyd yn seiliedig ar y 5 colofn o'r Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid sef:

1. Grymusol
2. Addysgol
3. Cyfranogol
4. Cynhwysol
5. Mynegiannol

Y nôd yw creu amgylchedd anffurfiol, lle mae pobl ifanc yn teimlo'n ddiogel, yn derbyn cefnogaeth, yn

cael eu gwerthfawrogi, a phwysicaf oll, lle maent yn cael hwyl. Cefnogir pobl ifanc i wella eu rhagolygon personol drwy ddarparu rhaglen o addysg anffurfiol, a lled-ffurfiol sy'n gwella eu haddysg bersonol, cymdeithasol a gwleidyddol.

Wrth wraidd y gwasanaeth o'i gychwyn yn 1945 mae'r egwyddor bod y cyswllt yn un GWIRFODDOL rhwng y person ifanc a'r Gweithiwr Ieuenctid neu'r Gwasanaeth Ieuenctid, ac mae hyn yn gwneud y gwsanaeth yn unigryw o fewn Addysg.

Hefyd, erbyn hyn yn unigryw i Ynys Môn a Gwynedd parhawyd i ddal gafael fel gelen mewn rhwydwaith cymharol eang o glybiau ieuenctid bychain rhan-amser gwledig, sy'n darparu gwasanaeth i'r bobl ifanc yn eu cymunedau, lle bod nifer o awdurdodau eraill wedi canoli eu gwasanaethau i ychydig o ddarpariaethau mewn canolfannau mawrion, a neu weithio'n unig mewn ysgolion (e.e. Rhondda Cynon Tâf). Hefyd yn unigryw i'r ddau awdurdod yma ydi'r ffaith bod y gwasanaethau yn gwbl ddwyieithog.

Mae'r gwasaneth hefyd yn gweithio tuag at yr amcanion corfforaethol canlynol:

- Lleihau Tlodi
- Lleihau gwahaniaethau
- Gwella addysg
- Gwella cyflogadwyedd
- Gwella Iechyd a Lles, gan gynnwys lles emosiynol
- Gwella cyfranogiad pobl ifanc yn eu cymuned
- Darparu cyfleon i bobl ifanc gymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg

<u>Presenoldeb yn y Clybiau</u>

i. Dyma'r gyrrwr mwyaf am newid a pham bod adolygiad o'r gwasaneth yn angenrheidiol. Tra bod y mwyafrif o awdurdodau eraill wedi bod yn adrodd gostyngiad graddol yn y niferoedd o bobl ifanc sy'n mynychu'r clwb ieuenctid traddodiadol, dim ond yn 2014-15 y gwelodd Ynys Môn ddirywiad sylweddol. Roedd hwn yn ostyngiad o 17% rhwng 2013-14 a 2014-15. Yn 2015/16 gwelwyd cynnydd bychan. Byddai hyn ynddo'I hun yn golygu bod angen adolygiad o sut ydym yn ymgysylltu hefo pobl ifanc, a dim ond wrth ymgynghori'n eang gyda hwy, y byddwn yn gallu ateb y cwestiwn o sut wasanethau maent yn dymuno eu gweld i'r dyfodol, a sicrhau bod yna ddyfodol disglair a ffynniannus i'r gwasaneth i'r dyfodol, a sicrhau hefyd ein bod yn darparu'r gwasanaeth sy'n ateb anghenion y boblogaeth leol.

ii. Wedi ei gyplysu gyda hyn mae rhaglen yr Awdurdod I adnabod ei flaenroriaethau tra'n gweithredu rhaglen radical o arbedion effeithiolrwydd, ac mae angen I'r gwasanaeth adnabod sut mae'n mynd I wneud y newidiadau I ymateb I'r blaenoriaethau Cenedlaethol newydd hefyd. Fel rhan o'r arolwg rhoddir ystyriaeth I bob agwedd o'r gwasanaeth, gan edrych ar yr allbynnau, a sut y gellir darparu gwasanaethau i'r dyfodol, os mai'r awdurdod sydd am barhau i ddarparu'r gwasanaeth i'r dyfodol. Fel rhan o'r arolwg bydd angen I'r gwasanaeth edrych ar sut y gellir arbed hyd at 60% o'r gyllideb bresennol dros fywyd y cynllun corfforaethol o 2013-17.

Niferoedd a fynychodd glybiau 2012-2016

| Blwyddyn | Cyfanswm |
|---|---|
| **2015/16** | **23060** |
| **2014/15** | **22813** |
| **2013/14** | **27536** |
| **2012/13** | **27866** |

Darpariaeth yn y clybiau

Darpariaeth craidd –Yn draddodiadol mae'r mwyafrif o Glybiau Ieuenctid wedi agor am 26 wythnos o Fedi i ddiwedd Mawrth. Agorir am y cyfnod yma oherwydd mai dim ond digon o arian ar gyfer hyn sydd ar gael, a hefyd y patrwm mynychu, a pholisi'r awdurdod o ddapraru clybiau i bobl ifanc yn eu cymunedau eu hunain. Cynigir estyniad haf wedyn i nifer cyfyngedig i barhau ar agor tan diwedd Mehefin, ac mae 2 glwb arall ar agor tan ganol Gorffennaf. Os ydi'r niferoedd yn gostwng i nifer sydd yn anghynaladwy o isel (fel arfer 10 neu lai), yna bydd y clybiau'n cael eu cau, a staff yn cael eu symud i glwb arall, neu ymddiswyddo. Mae tâl mynediad yn 50c y noson, ac mae'r clwb yn cadw hwn tuag at ei gostau rhedeg.

Mae'r ddau glwb ar gyfer pobl ifanc gyda Anghenion Dysgu Ychwanegol (Clwb Cybi a Chlwb Ni) yn agor am 34 wythnos, a dros y 3 blynedd diwethaf maent hefyde wedi medru sicrhau grant ychwanegol I fedru agor drwy'r haf.

Oherwydd ansicrwydd ynglŷn â chyllidebau i'r dyfodol, a'r angen i ail-fodelu ac efallai newid cyfeiriad y gwasanaeth, ni agorwyd unrhyw glwb newydd dros y 3 blynedd diwethaf, er bod trafodaeth ar y gweill ar hyn o bryd i agor Clwb Cymraeg newydd yn ardal Caergybi, drwy gyd-weithio Urdd, Menter Iaith ac C Ff I. Yn lle hyn arbrofwyd gyda cynnal Canolfannau Gwobr Agored gyda'r rhain yn cael eu cynnal fel arfer yn syth ar ôl ysgol, ac yn canolbwyntio'n bennaf ar Wobr Dug Caeredin.

Darpariaeth Ymgysylltu Ieuenctid

Mae'r Prif Swyddog Ieuenctid hefyd yn gweithredu fel Cyd-lynydd Ymgysylltu Ieuenctid i'r sir, gan rannu'r swydd hefo Rheolwr Prosiect Trac (prosiect sydd wedi ei ariannu drwy arian y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd (ESF) i weithio gyda adnabod pobl ifanc sydd yn debygol o beidio bod mewn Gwaith, Addysg na Hyfforddiant yn y dyfodol . Wedi eu hadnabod mae'r prosiect yn darparu cefnogaeth ychwanegol iddynt naill ai yn yr ysgol, neu yn eu lleoliad addysgol tu allan i'r ysgol. Mae gan Trac dîm o 8 o bobl ar hyn o bryd yn gwetihio ar y cynllun yma, gyda arian wedi ei addo am 2 flynedd arall. Mae'r Prif Swyddog Ieuenctid a Rheolwr Trac hefyd yn gyfrifol am Banel Rhyng-asiantaethol ôl-16 sy'n edrych ar ail-gysylltu pobl ifanc rhwng 16 a 18 oed yn ôl i Hyfforddiant, Addysg neu Waith. Mae Gweithiwr Ieuenctid Ymgyslltu rhan-amser hefyd yn gyfrifol am ffendio'r bobl ifanc sydd wedi diflannu oddi ar system Gyrfa Cymru, fel y gellir cesio eu cysylltu'n ôl hefo darpariaeth addysgol neu gefnogol gan un o'r asiantaethau sy'n eistedd ar y Panel. Mae cais ar y gweill i sicrhau adnoddau Ewropeaidd ychwanegol i hyn, er mwyn gweithio gyda'r oedran 16-24 drwy Brosiect Ad-Trac.

Hyrwyddo Iechyd a Lles

Erys cam-argraff bod clwb ieuenctid yn le i fynd i chwarae tenis bwrdd a dartiau, ond mae'r Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol wedi rhoi pwylais ers blynyddoedd ar ddarparu rhaglen o weithgareddau ystyrlon, a bod y rhaglen hefyd yn edrych ar faterion o bwys cyfredol I bobl ifanc. Dyma ddadansoddiad o'r math o sesiynau ddarparwyd ar gyfer pobl ifanc yn y clybiau yn ystod 2014-15: :

| Thema | Nifer y Sesiynau | Merched gymerodd ran | Bechgyn gymerodd ran | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Celf a Chrefft | 344 | 1658 | 963 | 2621 |
| Y gymuned a'r amgylchedd | 76 | 449 | 414 | 863 |
| Ymgynghori | 43 | 330 | 328 | 658 |
| Coginio | 223 | 1091 | 969 | 2060 |
| Hwyl ac Adloniant | 287 | 1684 | 1688 | 3372 |
| Bwyta'n Iach a Hybu Iechyd | 127 | 715 | 654 | 1369 |
| Alcohol | 103 | 496 | 387 | 883 |
| Ysmygu | 73 | 390 | 255 | 645 |
| Bwlio | 28 | 140 | 88 | 228 |
| Cam-driniaeth yn y Cartref | 3 | 13 | 20 | 33 |
| Cyffuriau | 39 | 178 | 148 | 326 |
| Rhyw a pherthynas | 42 | 189 | 140 | 329 |
| Diogelwch – Tan Gwyllt/Cynnau Tannau | 10 | 49 | 43 | 92 |
| Digartrefedd | 1 | 9 | 4 | 13 |
| Diogelwch ar y we a chyfryngau cymdeithasol | 29 | 105 | 111 | 216 |
| Hiliaeth | 1 | 8 | 0 | 8 |
| Materion perthnasol eraill | 204 | 977 | 699 | 1676 |
| Gyrfaeodd | 12 | 45 | 59 | 104 |
| Iaith a Diwylliant | 26 | 141 | 109 | 250 |
| Drama a Cherddoriaeth | 11 | 62 | 46 | 108 |
| Sgiliau TG | 43 | 51 | 175 | 226 |
| Chwaraeon | 328 | 1583 | 2722 | 4305 |
| Tripiau | 44 | 304 | 311 | 615 |
| CYFANSWM SESIYNAU | 2097 | 10,667 | 10,333 | 21,000 |

Gweithiwr Cam-drin Alcohol a Sylweddau

Cyflogir Gweithiwr Ieuenctid arbenigol mewn Cam-drin Alcohol a Chyffuriau gyda grant gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Dyma'r unig brosiect o'i fath sydd wedi ei ariannu ar draws Gogledd Cymru, a gan bod y grant bellach wedi ei wneud yn un rhanbarthol ar draws Gogledd Cyrmu, gallai hynny fod yn fygythiad i ddyfodol y grant. Ar y funud fodd bynnag, mae adroddiad diweddar wedi ei nodi fel ymarfer da mewn ardal wledig ac edrychir i ymestyn gwaith tebyg i ardal Gwynedd yn 2017-18, gyda'r awgrym felly bod rhagolygon da i'r grant presennol barhau.

Gwaith Datblygu Achredu

Mae'r gwasanaeth wedi defnyddio cyfran sylweddol o'r grantiau a dderbynir ac amser staff craidd i ddatblygu'r agwedd yma o'r gwaith. Mae un gweithiwr llawn-amser ar hyn o bryd, yn darparu gwobrau ASDAN , Gworbr Dug Caeredin, Gwobrau Agored Cymru Awards, Gwobrau John Muir Awards, a thystysgrifau lleol megis Prifysgol yr Ifanc a Gwirfoddolwyr y Mileniwm. Mae'r Noson Wobrwyo bellach wedi sefydlu ei hun fel noson bwysig ac urddasol yng Nghalendr y Gwasanaeth.

Proffil Staff (Hydref 2016)

| | |
|---|---|
| Llawn-amser | 6 |
| Rhan-amser | 2 |
| Staff Clybiau | 50 |

**YMGYNGHORI**

Cynhaliodd y Gwasanaeth Ieuenctid ymgynghoriad rhwng yr 2il o Dachwedd a'r 11eg o Ragfyr 2015 – gyda phobl ifanc ac oedolion hefo diddordeb. Gwnethpwyd hyn drwy holiaduron (ar-lein ac ar bapur) drwy'r Clybiau Ieuenctid a grwpiau ffocws.

Canolbwyntiodd holiaduron y bobl ifanc ar ddarganfod eu barn am wasanaethau presennol, pa wasanaethau yr oeddent yn eu defnyddio, a pha wasanethau oeddent yn flaenoriaethu fel darpariaeth i'r dyfodol.

Yr Ymgynghoriad Ieuenctid

Cwblhawyd 930 o holiaduron gan bobl ifanc, gyda'r croes-dorriad o ymatebwyr fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| Dynion | 392 | 42.5% |
| Merched | 520 | 55.9% |
| Dim eisiau dweud | 18 | 1.94% |

Oed yr ymatebwyr oedd:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Oed | 10 | 4 | 0.43% |
| | 11 | 124 | 13.3% |
| | 12 | 192 | 20.65% |
| | 13 | 200 | 21.51% |
| | 14 | 200 | 21.51% |
| | 15 | 109 | 11.72% |
| | 16 | 37 | 3.98% |
| | 17 | 32 | 3.4% |
| | 18-24 | 30 | 3.2% |
| | 25+ | 2 | 0.22% |

Roedd 75.7% o ymatebwyr un ai'n mynychu Clwb Ieuenctid neu Ganolfan Wobr Agored.

Cwblhawyd holiaduron yn y 5 Ysgol Uwchradd, (gyda'r ysgolion yn dewis y disgyblion fel y dymunent) a cynhaliwyd grwpiau ffocws gyda Fforwm Ieuenctid Llais Ni, mewn digwyddiad yn y Ffair Aeaf gyda'r Ffermwyr Ifanc, ac yn y 3 Glwb ar gyfer Pobl Ifanc Gyda Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Derbyniwyd 30 o lythyrau gan unigolion neu aelodau, a 29 o ymatebion mewn fformat arall. Daeth petisiwn i law hefyd wedi ei drefnu gan Glwb Ieuenctid Llangefni, a chynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus ganddynt hwy hefyd, gyda'r bobl ifanc yn rhoi cyflwyniad yn gwrthwynebu'r bwriad i leihau'r darpariaeth ar gyfer y bobl ifanc. Mynychwyd hwn gan Gynghorwyr Sir a Chynghorwyr Tref.

O'r rhai nad oeddent yn dymuno mynychu Clwb Ieuenctid y rhesymau dros beidio a mynychu a roddwyd ganddynt oedd:

| | | |
|---|---|---|
| Dim clwb yn ymyl | 40 | 18% |
| Dim yn gwybod beth sy'n digwydd yno | 34 | 15.3% |
| Dim ym lecio'r staff | 5 | 2.25% |
| Dim yn lecio'r man cyfarfod | 10 | 4.5% |
| Dim byd o ddiddordeb ar y rhaglen | 43 | 19.37% |
| Rhy ddrud | 4 | 1.8% |
| Rhywbeth arall ar yr un noson | 63 | 28.3 |
| Teimlo'n rhy hen i fynd i glwb ieuenctid | 36 | 16.2 |
| Cyfrifoldebau gofalu ganddo/i | 2 | 0.9% |
| Arall | 38 | 17.1% |

Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr os oeddent yn mynychu darpariaeth arall. Atebodd 52.6% drwy ddweud eu bod a 47.74% ddim yn mynd i ddim byd arall. Clybiau yr oeddent yn mynd iddynt, neu wedi bod yn mynd iddynt yn y gorffennol oedd:

| | |
|---|---|
| Clybiau Ieuenctid ddim yn perthyn i'r Cyngor | 1 |
| Ffermwyr Ifanc | 39 |
| Yr Urdd | 24 |
| Geidiau | 16 |
| Cadetiaid (Y Fyddin, Llu Awyr neu Cadetiaid y Môr) | 24 |
| Llais NI | 17 |
| Majorettes | 16 |
| Pêl-droed | 89 |
| Rygbi | 32 |
| Gymnasteg, Athletau neu glybiau Trac | 35 |
| Hoci | 11 |
| Clwb Merlota neu Reidio Ceffylau | 19 |
| Bocsio | 3 |
| Pêl-rwyd | 24 |
| Cylch Teulu neu Gofalwyr Ifanc | 4 |
| Clwb Gwaith Cartref | 10 |
| Nofio, Achub Bywyd, neu Chwareon Dŵr | 32 |
| Dawns | 32 |
| 5x60 | 3 |
| Celfyddydau Ymladd | 27 |
| Gwaith Elusennol | 6 |
| Clybiau celfyddydol e.e. corau, band, sioeau, pantomeim | 29 |
| Arall (yn cynnwys badminton, dringo, coginio, saethyddiaeth, RSPB, codi pwysau, Ymladdwyr Tân Ifanc, Ambiwlans Sant Ioan | 34 |

Blaenoriaethau Pobl ifanc

Holwyd pobl ifanc beth fyddai eu 4 prif flaenoriaeth ar gyfer dyfodol y gwasanaeth ieuenctid, gan ofyn iddynt ddewis o 1 i 4, gyda 1 y pwysicaf,.
Roedd y canlyniadau fel a ganlyn

| | **1** | **2** | **3** | **4** | **Cyfanswm Atebion** |
|---|---|---|---|---|---|
| Cael un clwb mawr ym mhob dalgylch Ysgol Uwchradd ar agor hyd at 4 noson yr wythnos, drwy gydol y flwyddyn | 36.3% (160) | 19.5% (86) | 28.3% (125) | 15.9% (70) | 441 |
| Rhwng 15 ac 18 clwb yn cyfarfod un noson yr wythnos yn y prif drefi/pentrefi | 26.0% (125) | 37.4% (180) | 19.3% (93) | 17.3% (83) | 481 |
| Prosiectau tymor byr yn symud o ardal I ardal am hyd at 3 mis (mewn bws ieuenctrid neu mewn adeilad lleol ) | 12.7% (23) | 27.6% (50) | 33.7% (61) | 26.0% (47) | 181 |
| Clybiau'n cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr h.y. rhieini neu bobl o'r gymuned. | 15.6% (42) | 32.6% (88) | 25.6% (69) | 26.3% (71) | 270 |
| Cadw clybiau fel y presennol gyda'r arian fydd ar gael ond dim ond yn agor o Fedi tan diwedd Mawrth | 65.3% (359) | 15.5% (85) | 9.8% (54) | 9.5% (52) | 550 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Un Gweithiwr Ieuenctid sirol yn cefnogi pobl ifanc 16-24 oed sy'n ddi-waith i ddychwelyd i waith neu hyfforddiant. | 8.4% (14) | 30.5% (51) | 34.1% (57) | 26.9% (45) | 167 |
| Clwb Achredu Ol-ysgol yn cynnig Gwobr Dug Caeredin, OCNs, Cymeryd yr Her etc yn cael eu rhedeg gan y Gwasanaeth Ieuenctid | 14.3% (38) | 25.9% (69) | 25.9% (69) | 33.8% (90) | 266 |
| Gwobr Dug Caeredin yn cael ei redeg yn gyfangwbl gan staff ysgol h.y. athrawon neu gymorthyddion | 11.2% (12) | 20.6% (22) | 33.6% (36) | 34.6% (37) | 107 |
| Un Gweithiwr Ieuenctid Sirol yn ymweld ag ysgol i redeg gweithdai ar Alcohol, Cyffuriau, Addysg Rhyw etc. . | 10.0% (40) | 27.8% (111) | 35.1% (140) | 27.1% (108) | 399 |
| Gweithiwr Ieuenctid Llawn-amser ym mhob ysgol yn rhedeg cymysgedd o ddarpariaeth – Clwb Ieuenctid, Gwobr Dug Caeredin, clwb Achredu amser cinio, galw-i-mewn anffurfiol; ac yn cefnogi pobl ifanc 16+ o'r ardal sydd ddim mewn gwaith addysg, na hyfforddiant | 12.4% (48) | 21.8% (84) | 31.1% (120) | 34.7% (134) | 386 |
| Dim clybiau ieuenctid ond 1 neu 2 Hafan Ieuenctid (Youth Zone) yn cynnwys Caffi Ieuenctid, Stiwdio Recordio, Parc Sglefrio, a siopau dros-dro pop up mewn ardaloedd eraill . | 14.5% (23) | 23.9% (38) | 21.4% (34) | 40.3% (64) | 159 |
| Fforymau Ieuenctid (fel Llais Ni) i ddatblygu Cyngor Ieuenctid i gyd-weithio gyda'r Cyngor Sir yn eu hysbysu o farn pobl ifanc am wasanaethau | 9.6% (20) | 19.1% (40) | 22.0% (46) | 49.3% (103) | 209 |
| | | | | Atebion | 904 |

Y dewisiadau mwyaf poblogaidd o ddigon oedd cadw'r strwythur clybiau presennol, ond gan bod 75.7% o ymatebion wedi dod gan bobl ifanc oedd yn mynychu clybiau, efallai bod hyn i'w ddisgwyl. Fodd bynnag, mae opsiynau eraill hefyd yn cael eu ffafrio, sy'n rhoi syniad o lle gellid cyfaddawdu, a lle mae modd arbrofi i ddarparu gwasanaethau mewn ffyrdd eraill.

Y Gynhadledd Ieuenctid

Cynahaliwyd cynhadledd ieuenctid ar 24/09/2016.

Daeth 54 o bobl ifanc iddi (38 o ferched a 16 o ddynion) o gymysgedd o fudiadau.

| **Oed** | **Nifer** |
|---|---|
| 12/13 | 11 |
| 14/15 | 21 |
| 16-26 | 22 |

O drafodaethau'r grwpiau ar y diwrnod y negesuon clir gan y bobl ifanc oedd:

- Cadw'r ddau glwb angheion arbennig ar agor
- Dim cefnogaeth i glybiau ieuenctid amser cinio yn yr ysgolion uwchradd
- Nid oeddent yn fodlon teithio i dref neu bentref cyfagos
- Gweithwyr Ieuenctid cymwysiedig/profiadol i redeg y clybiau nid gwirfoddolwyr
- Peidio cau clybiau bach yn llwyr er mwyn rhoi dwy noson mewn clybiau mawr
- Mae'n bwysig bod gweithwyr ieuenctid yn gallu siarad Cymraeg
- Mae'n bwysig cael gweithiwr ieuenctid ym mhob ysgol
- Yn flin/siomedig bod y Cyngor yn meddwl torri'r gwasanaeth

Seminar Staff

Cynhaliwyd seminar staff seminar ar 08/10/2016 gyda 25 o weithwyr rhan-amser yn bresennol.

Roedd y prif negesuon yn debyg I rai'r bobl ifanc ar y 24/09/2016; ond eu bod fel y digwyl, yn bryderus am eu swyddi eu hunain, a'r lleihad mewn mynediad I ddarpariaeth Ii bobl ifanc pe byddai clybiau ieuenctid gwledig yn cau.

**3. ASESIAD EFFAITH AR Y NODWEDDION A WARCHODIR**

**3.1 Oed**

**A fydd y polisi yn cael effaith posib (Positif neu Negyddol) ar bobl ifanc/bobl hŷn?**

| Oed | Bydd | Na Fydd | Dim yn berthnasol |
|---|---|---|---|
| 11-16 | ✓ | | |
| 17-26 | ✓ | | |
| Dros 26 | | | √ |
| Dros 65 | | | √ |

**Rhowch fanylion o'r effaith posib a pha gamau y gellid eu cymeryd i liniaru'r effaith.**

3.1.1 Cwsmeriaid/ Defnyddwyr gwasanaeth

Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn gweithio hefo pobl ifanc 11-26 oed, gyda'r prif ffocws ar yr oedran 11-16. Byddai cau'r clybiau yn effeithio ar allu pbol ifanc mewn ardaloedd gwledig i fedru mynd Ii ddarpariaeth yn eu cymuned eu hunain. Byddai pob canran o dorriad yn golygu llai o glybiau ar gael yn y cymuendau lleol.

Ffigurau o gyfartaledd presenoldeb a’r nifer wnaeth fynychu clybiau o 2014-16 oedd:

| CLWB | Cyfartaledd presenoldeb 2014/15 | | | Nifer o ymweliadau | Cyfartaledd Presenoldeb 2015-16 | | | Nifer fynychodd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Bechgyn | Merched | Cyfan swm | | Bechgyns | Merched | Cyfan swml | |
| AMLWCH | **3** | **9** | **12** | **658** | **6** | **6** | **12** | **348** |
| BIWMARES | **8** | **7** | **15** | **564** | **14** | **7** | **22** | **593** |
| BODEDERN | **17** | **18** | **35** | **2584** | **17** | **14** | **21** | **2097** |
| BODFFORDD | **10** | **5** | **15** | **373** | **7** | **3** | **10** | **334** |
| BRYNGWRAN | **9** | **6** | **15** | **422** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| BRYNSIENCYN | **6** | **7** | **13** | **273** | **9** | **10** | **19** | **469** |
| CEMAES | **6** | **12** | **18** | **583** | **10** | **18** | **28** | **731** |
| CLWB CYBI | **10** | **7** | **17** | **707** | **10** | **7** | **17** | **634** |
| CLWB NI MON | **13** | **2** | **15** | **569** | **13** | **1** | **14** | **534** |
| DWYRAN | **9** | **11** | **20** | **523** | **11** | **8** | **19** | **546** |
| GAERWEN | **0** | **0** | **0** | **0** | **Adran Bentref yr Urdd yn cyfarfod yn awr** | | | |
| GWALCHMAI | **11** | **12** | **23** | **808** | **8** | **13** | **20** | **639** |
| J Hughes /Hyn | **9** | **6** | **15** | **1375** | **33** | **29** | **62** | **3278** |
| J Hughes / Iau | **14** | **15** | **29** | **976** | **23** | **20** | **42** | **1192** |
| Y Nyth (Clwb Achredu Amser Cinio | **7** | **11** | **19** | **843** | **11** | **10** | **21** | **629** |
| LLAIN GOCH | **17** | **14** | **31** | **801** | **12** | **9** | **22** | **680** |
| LLANDEGFAN | **10** | **2** | **12** | **430** | **9** | **0** | **9** | **217** |
| LLANDDANIEL | **5** | **9** | **14** | **352** | **3** | **8** | **11** | **226** |
| LLANERCHYMEDD | **13** | **9** | **22** | **741** | **9** | **7** | **16** | **431** |
| LLANFACHRAETH | **11** | **8** | **19** | **481** | **8** | **10** | **18** | **576** |
| LLANFAELOG | **12** | **5** | **17** | **441** | **14** | **8** | **22** | **583** |
| LLANFAIRPWLL | **20** | **6** | **26** | **863** | **14** | **12** | **26** | **733** |
| LLANFAIRYNGHORNWY | **5** | **4** | **9** | **196** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| LLANFECHELL | **0** | **0** | **0** | **0** | **Clwb galw-i-mewn gwirfoddol yn cyfarfod** | | | |
| LLANGEFNI | **22** | **7** | **29** | **2077** | **25** | **11** | **36** | **2306** |
| LLANGEFNI (Iau) | **21** | **12** | **33** | **747** | **13** | **5** | **18** | **474** |
| LLANGRISTIOLUS | **11** | **19** | **30** | **1317** | **10** | **19** | **29** | **1054** |
| MOELFRE | **3** | **10** | **13** | **331** | **7** | **9** | **16** | **382** |
| NIWBWRCH | **9** | **3** | **12** | **408** | **8** | **3** | **11** | **315** |
| PENTRAETH | **5** | **7** | **12** | **306** | **7** | **6** | **13** | **409** |
| PENYSARN | **13** | **10** | **23** | **1265** | **12** | **12** | **24** | **1243** |
| PORTHAETHWY | **0** | **0** | **0** | **0** | **Dim clwb ond Canolfan WObr Agored ar gael** | | | |
| RHOSMEIRCH | **2** | **12** | **14** | **414** | **7** | **9** | **16** | **380** |
| VALLEY | **9** | **7** | **16** | **385** | **12** | **11** | **23** | **650** |
| DofE | | | | | | | | **377** |
| TOTAL | | | | **22,813** | | | | **23,060** |

### DARPARIAETH CLWB IEUENCTID

Darpariaeth bresennol yw 28 clwb ieuenctid, rhai’n agor 26 wythnos, a rhai am 30, 34 ac un yn agor am 38 wythnos.

Bydd ail-fodelu’r gwasanaeth yn cael effaith anghymesur ar bobl ifanc rhwng 11-25 ar draws yr ynys, ond yn bennaf ar yr oedran 11-16 gan maent hwy yw’r canran uchaf o ddefnyddwyr gwasanaeth.

Opsiwn (torriad o 28% ) – Gyda'r ail-fodelu yn Opsiwn 1 edrychir ar ddarparu 5 noson o glwb ym mhob dalgylch ysgol ar agor rhwng 38-40 wythnos. 4 clwb yn cau.
**Effaith – clybiau sy'n weddill i gyd yn agor run fath, ond 4 pentref heb glwb.**

Opsiwn (torriad o 36%) – Gyda'r ail-fodelu a gynigir yn Opsiwn 2 – 2 noson o ddarpariaeth ym mhob ardal ar agor rhwng 38-40 wythnos yn y prif glybiau; 3 noson o ddarpariaeth am 26 wythnos mewn clybiau llai (Medi I Fawrth). 3 clwb yn cau.
**Effaith – Prif ddarpariaeth ym mhob ardal ar agor yn ystod tymor ysgol. 3 clwsb llai gyda rhaglen hydref a gaeaf. 3 pentref bychan heb glwb.**

Opsiwn 3 (torriad o 46%) – 3 prif glwb ym mhob ardal ar agor 38-40 wythnos x 2 noson; 14 clwb yn agor am 26 wythnos (Medi I Fawrth). 11 clwb yn cau.
**Effaith – prif ddarpariaeth mewn 3 ardal ar agor yn ystod tymor ysgol. 14 clwb bach ar agor 26 wythnos (Medi-Mawrth)**

Opsiwn 4 (torriad o 56%) - 3 prif glwb ar agor am 34 wythnos x 2 noson; 4 clwb bach ar agor am 34 weeks, 10 clwb bach am agor am 26 wythnos. 11 clwb yn cau.
**Effaith – dim darpariaeth clwb yn nunlle am y tymor ysgol i gyd. Cadw rhywfaint o strwythur o glybiau cefn gwlad.**

Opsiwn 5 (torriad o 67%) – 2 noson glwb ym mhob dalgylch ysgol ar agor am 34 wythnos.
**Effaith - 3 prif glwb ar agor am 2 noson yr wythnos. 4 clwb bach ar agor 1 noson yr wythnos. Cau 19 clwb. Dim Gweithiwr Ieuenctid ym mhob ysgol.**

Adborth Ymgynghoriad (02/11/2015-11/12/2015)

Mewn ymateb i'r cwestiwn sut maent yn teithio i'r clwb, ymateb pobl ifanc oedd:

| | |
|---|---|
| Cerdded | 54.6% |
| Car neu foto beic eu hunain | 3.34% |
| Lifft gan riant | 51.83% |
| Beic | 1.94% |
| Bws | 3.02% |
| Arall | 3.36% |

Mae angen felly i unrhyw ail-fodelu o'r Clybiau Ieuenctid ystyried bod dros 54% o bobl ifanc ar hyn o bryd yn cerdded i glwb, a gallai hyn gael effaith sylweddol ar y niferoedd o bobl ifanc sy'n gallu mynychu clwb, os oes yna lai o glybiau.

Pan ofynnwyd i bobl ifanc beth oedd yn bwysig iddynt pan oeddent yn mynd i glwb yr ymateb oedd:

| | |
|---|---|
| Cyfarfod ffrindiau | 88.5% |
| Clwb yn agos | 59.7% |
| Gwaith materion ieuenctid a gwybodaeth e.e. alcohol, cyffuriau, addysg rhyw. | 42.6% |
| Chwaraeon | 56.3% |
| Coginio, Crefftwaith | 45% |
| Actio, canu etc. | 26% |
| Cael mynegi barn | 40% |
| Teimlo'n saff yn y clwb | 60.4% |
| Dysgu petha newydd | 61.7% |
| Dysgu parchu eraill | 51% |
| Magu Hyder | 56% |

| | |
|---|---|
| Tripiau | 64% |
| Cael hwyl | 86.5% |

Roedd 59.7% o bobl ifanc yn nodi bod cael clwb yn agor iddynt yn bwysig, felly mae angen i unrhyw gynllun ail-fodelu ystyried hyn. Roeddent hefyd yn bryderus am gynnydd mewn ymddygiad gwrth-gymdeithasol heb glybiau i fynd iddynt, ac am gael lle diogel i gyfarfod. Roeddent hefyd yn bryderus am golli'r berthynas bersonol, gefnogol ac ymddiriedol oedd wedi datblygu rhygddynt hwy a'r staff presennol. Roedd methu teithio i leoliad newydd hefyd yn eu pryderu. Roedd methu cerdded i glwb neu dim clwb yn agor yn bryder yn yr ymgynghoriad cyntaf, a phwysleisiwyd hyn eto yn y gynhadledd ieuenctid. Dyma oedd y prif reswm pam roedd pobl ifanc yn dewis cael mwy o ddarpariaeth gyda'r nos, yn htyrach na chybiau achredu amser cinio. Mae'n werth nodi, fodd bynnag, bob yna gefnogaeth i'r syniad o gael gweithiwr ieuenctid yn gweithio'n agosach hefo bob ysgol uwchradd a'r ardal.

**Pa gamau gellid ei cymeriad i leihau'r effaith yma?**

Yn y cynlluniau ail-fodelu mae darparu gweithiwr ieuenctid i weithio'n agosach hefo bob ysgol uwchradd ym mhob opsiwn yn golygu bod yna fwy o bobl ifanc hefo mynediad at weithiwr ieuenctid.

Mewn ymateb i'r pryder oedd gan bobl ifanc am y golled posib o'r berthynas sefydlog hefo gweithiwr ieuenctid, byddai unrhyw ail-fodelu yn cynnwys pobl ifanc yn y broses o recriwtio a dewis staff, a chyflogi staff cymwysiedig profiadol hefo'r agweddau iawn i fedru ymgysylltu gyda phobl ifanc ac adeiladu perthynas bositif gyda amrediad eang o bobl ifanc sydd hefo gwahanol anghenion.

Os fydd angen dibynnu mwy ar staff gwirfoddol yna bydd yn rhaid sicrhau bod perthynas dda'n cael ei meithrin gyda hwy a bod ganddynt fynediad i hyfforddiant priodol ar gyfer ygwaith.

Byddai pob model yn ceisio sicrhau'r un lefel o ddarpariaeth i bob dalgylch ysgol.

**GWAITH DATBLYGU AC ACHREDU**

Mae'r gwaanaeth wedi buddsoddi'n drwm o'r grantiau mae'n dderbyn ac amser y staff craidd i ddatblgygu'r gwaith o ddarparu cyfleon i bobl ifanc ennill achrediadau. .

Gofynnwyd i bobl ifanc pa mor bywsig oedd achrediadau iddynt:

56.8% yn teimlo eu bod yn bwysig iawn
39.4 yn teimlo eu bod yn weddol bwysig
3.8% yn teimlo nad oedd dim eu hangen

O'r bobl ifanc ymatebodd i'r holiadur roedd:

43% wedi ennill tystysgrifau
56% heb ennill tystysgrifau
76 wedi eu hennill mewn clwb
42 yn yr ysgol
11 mewn Prosiectau Haf
30 mewn lleoliadau eraill

O hyn gallwn gasglu bod y cyfle i ennill achrediadau drwy'r gwasanaeth ieuenctid yn bwysig i bobl ifanc. Roeddent hefyd o'r farn eu bod am weld y Wobr Dug Caeredin yn aros hefo'r gwasanaeth ieuenctid yn hytrach na chael ei chynnig gan staff ysgolion.

**Pa gamau y gellid ei cymeryd I liniaru'r effaith?**

- Gan y bydd y staff llawn-amser ac uwch weithwyr ieuenctid yn gyfrifol am ddarparu'r sesiynau, byddant mewn gwell lle i fedru rhoi ffocws ar sesiynau sy'n arwain at bobl ifanc yn

gallu ennill achrediadau. Hefyd gyda phresenoldeb gweithiwr ieuenctid ym mhob ysgol, dylai bod cadw mewn cyswllt hefo pobl ifanc sy'n cwblhau Gwobr Dug Caeredin, dyweder, yn haws ac felly'n haws sicrhau bod gwobrau'n cael eu cwblhau.

- Byddai'r ail-strwythuro'n rhoi un person ym mhob dalgylch ysgol yn gyfrfiol am y gwaith yma, yn lle cael un gweithiwr yn ceisio cynnig yr holl ddarpariaeth I glybiau ac ysgolion ar draws y sir.

**GWEITHIWR IEUENCTID ALCOHOL A CHAM-DDEFNYDD SYLWEDDAU**

Cyflogir Gweithiwr Ieuenctid Alcohol a Cham-ddefnydd Sylweddau drwy grant gan y Bartneriaeth Diogelwch Gymunedol. Dyma'r unig brosiect o'i fath sy'n cael ei ariannu a gyda'r cyllid bellach yng ngofal Pwyllgor Rhanbarthol, mae hyn yn rhoi mwy o risg i'r prosiect yn y tymor hir.

Mae'r prosiect yn gweithio ym mhob Ysgol Uwchardd, yr Hafan i blant sydd wedi eu gwahardd o ysgolion, Clybiau Ieuenctid, y Coleg, Hosteli Di-gartref, pobl ifanc NEET a phobl ifanc unigol neu deuluoedd a gyfeirir at y gweithiwr, ac y tybid y gallant elwa o raglenni ymyrraeth priodol.

O'r bobl ifanc a ymatebodd  roedd 62.5% wedi cael cyswllt hefo'r gwasanaeth. Bu'r cyswllt hwnnw yn y lleoliadau canlynol:

| | |
|---|---|
| Clybiau | 68.7% |
| Ysgollion neu ddigwyddiadau mewn ysgolion (cyflwyniadau gan y Crucial Crew, Choose Life  ) | 72% |
| Y Bws Ieuenctid neu brosiectau cyffelyb | 1.38% |

Roedd 88% yn graddio'r gwasanaeth fel bod  yn Dda Iawn neu'n Dda, 10% yn dweud ei fod yn iawn, a 0.8% yn nodi ei fod yn wael.

**Pa gamau gellid gymeryd i liniaru'r effaith?**

- Ni fydd yr ail-fodelu'n cael golygu dim newid, i'r gwaith yma, ond mae'n parhau'n ddibynnol ar gael ei ariannu drwy grant.

**LLAIS NI**

Cynahliwyd Grŵp Ffocws gyda aelodau Fforwm Sirol Llais Ni , gyda'r ymgynghoriad wedi ei gyplysu hefo ymgynghoriad ar gyllidebau'r Awdurdod, a dyfodol y Gwasanaeth Llyfrgell. Daeth 23 o aelodau Llais Ni i'r cyfarfod. Rhedwyd y cyfarfod gyda'r aelodau yn treulio amser yn y tri grŵp gwaith yn edrych ar y 3 gwahanol ymgynghoriad.

Pobl yn mynychu oedd: :
12 oed : 3 merch, 1 bachgen
13 oed: 1 merch, 1 bachgen
14 oed: 3  merch, 1 bachgen
15 oed: 5 merch, 1 bachgen
16 oed: 1 merch, 1 bachgen
18-24 oed: 4 merch, 1 bachgen.

Canlyniadau'r grŵp oedd:

- Prif flaenoriaeth oedd sicrhau parhad Fforwm Llias Ni, gyda phob un o'r rhai ymgynghorwyd gyda hwy'n ei nodi fel eu prif flaenoriaeth neu ail.
- Ail opsiwn y grŵp oedd cadw'r strwythur presennol o glybiau ond agor o Fedi i Mawrth yn unig.
- Y trydydd opsiwn oeddent yn ffafrio oedd cael Gweithiwr Ieuencid ym mhob ysgol, gyda 19 yn gosod hwn o fewn eu 4 prif opsiwn. Yn is o dipyn (yn sgorio 12,10, a 7 oedd parhad y Gweithiwr Ieuenctid Alcohol a Sywelddau, a chefnogaeth i'r Gweithiwr Dof E gyda'r

gwasanaeth ieuenctid.
- Prin iawn oedd y gefnogaeth i unrhyw gynigion eraill.

Roedd y darganfyddiadau o'r grŵp yma felly yn debyg iawn i'r opsiynau ffafriwyd gan y grwpiau eraill a'r rhai ymatebodd drwy holiaduron.

**Pa gamau gellid eu cymeryd i liniaru'r effaith?**

Rhedir y ddapariaeth yma'n gyfangwbl gan y trydydd sector, gyda'r Cyngor yn trafod gyda'r trydydd sector am iddynt hwy barhau hefo'r gyfrifoldeb yma. Nid oes arian wedi ei gadarnhau ar gyfer y prosiect tu hwnt i Mawrth, 2017, felly os yw'r gwaith i barhau bydd yn rhaid sicrhau cyllid ar gyfer y darpariaeth i'r dyfodol, ac mae'n edrych yn debygol y bydd mwy o waith yn y maes yma e.e datblygu llais y disgybl o fewn yr ysgolion. .

**Pa effaith gaiff y polisi ar Oedolion?**

**STAFF**

Ym mhob opsiwn, edrychir ar orfod cau rhai clybiau oherwydd yr angen i drawsnewid y gwasanaeth i ymgorffori blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Bydd bob Swydd Ddisgrifiad yn cael eu diwygio felly yn unol â'r dyletswyddau newydd.

**Pa gamau y gellid eu cymeryd i liniaru'r effaith yma?**

Bydd achos i gynnig diswyddiadau gwirfoddol o'r gwasanaeth, a bydd y cyngor yn gweithio drwy'r broses hefo Adran AD y Cyngor i sicrahu cyfleon ail-leoli lle bo modd, a bydd prosesau cydnabyddedig y Cyngor yn cael eu dilyn drwy'r broses ail-fodelu.

**3.2 ANABLEDDAU**

**Fydd y polisi yn cael effaith posibl (Positif neu Negyddol) ar bobl ifanc anabl? NA**

| | **Bydd** | **Na Fydd** | **Dim yn berthnasol** |
|---|---|---|---|
| **Amhariad ar y Clyw** | | ✓ | |
| **Amhariad Corfforol** | | ✓ | |
| **Amhariad Gweledol** | | ✓ | |
| **Anabledd Dysgu** | | ✓ | |
| **Salwch neu Gyflwr Meddygol tymor hir** | | ✓ | |
| **Iechyd Meddwl** | | ✓ | |
| **Cam-ddefnydd sylweddau** | | ✓ | |
| **Arall** | | ✓ | |

**Defnyddwyr**

CLYBIAU AR GYFER POBL IFANC GYDA ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL
- CLWB CYBI A CHLWB NI

Mae'r gwasanaeth ar hyn o bryd yn rhedeg dau glwb ar gyfer pobl ifanc gyda Anghenion Dysgu ychwanegol. Cynhaliwyd grŵp ffocws yn y ddau glwb i drafod y cynigion am yr ail-fodelu.

Adborth o'r ymgynghoriad a'r grwpiau ffocws:

Roedd rhieni a gweithwyr cefnogol yn awyddus i dynnu sylw at y ffaith bod y bobl ifanc sy'n mynychu'r clybiau hefo anghenion addysgol arbennig, ac felly eu bod yn haeddu cael ystyriaeth arbennig. Yn wahanol i bobl ifanc eraill sydd yn gallu mynychu amrediad o wahanol ddarpariaethau, dyma'r unig gyfle mae'r bobl ifanc yma'n gael i gymdeithasu i bod yn annibynnol o'u rhieni. Byddai cau'r clybiau yma'n eu gwrthio i unigrwydd pellach.

Pe byddai'r ddau glwb yn cael eu huno, roedd rhai rhieni yn rhagweld na fyddent yn gallu teithio ymhellach i leoliad, ac y byddai'n rhy gostus, a hefyd yn rhy flindedig i'r person ifanc. Hefyd, roedd yr aelodau yn ddibynnol ar gael gweithwyr cefnogol i fynd a nhw i'r clwb, a gan bod rhai ohonynt yn gweithio yn y ddau glwb, na fyddai digon o weithwyr cefnogol ar gael i fynd a'r bobl ifanc i gyd i un lleoliad ar un noson.

Mae'r clwb yn achubiaeth i rieni pan mae gwasanaethau seibiant ac ati wedi lleihau, ac mae cael eu plentyn yn y clwb ar un noson yn eu galluogi i roi sylw a ffocws i'w plant eraill, sydd ddim hefo anghenion arbennig.

Roedd eraill o'r rheini yn teimlo y gallent gynorthwyo, ond un o'r agweddau pwysicaf o'r clwb i'r person ifanc ydi eu galluogi i fynd i weithgaredd yn annibynnol o'u rhieni. Mae'r ddau glwb yn ddibynnol iawn ar wirfoddolwyr sy'n gweithio yn rheolaidd, ac wedi gwneud hynny dros nifer helaeth o flynyddoedd. Nid oedd y gwirfoddolwyr yma'n teimlo y gallend ymdopi hefo'r cyfrifoldebau ychwanegol fyddai rhedeg clwb yn ei olygu.

O'r opsiynau a drafodwyd yr opsiwn o gael clwb yn y ddau leoliad bob yn ail wythnos fyddai'r gorau, ond yn y tymor hir, nid oeddent yn teimlo y byddai hyn yn gweithio gan bod y bobl ifanc yma angen patrwm rheolaidd a strwythur i'w bywydau, a byddai'r aelodaeth yn disgyn yn y pen draw gan na fyddai'r bobl ifanc na'r rheini yn gwybod lle maent. Byddai cyfarfod am amser byrrach gyda'r nos, neu dymor byrrach yn anhebygol o fod yn ddigon deniadol i gadw staff, ac yn ei gwneud o'n werth iddynt ddod allan yn ariannol.

Drwy ymgynghori hefo staff mae'n wybyddus bod yna nifer o aelodau/defnyddwyr gwasanaeth eraill gydag anghenion cymhleth yn mynychu clybiau eraill, ond nad ydynt yn eu datgelu i'r staff dan sylw.

**Adborth o'r Gynhadledd Ieuenctid 24/09/2016**

Pobl ifanc yn unfrydol eu bod weld cadw Clwb Cybi a Chlwb Ni yn agored.

**Pa gamau gellir eu cymeryd i liniaru'r effaith?**

Mae'r gwasanaeth ym mhob model oprisynau wedi cynnwys cadw Clwb Cybi a Chlwb Ni, felly ni ragwelir cau'r un o'r ddau glwb. Fodd bynnag, mae'r ddau glwb yma'n canolbwyntio ar bobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol, ac yn y dyfodol bydd y gwasanaeth angen edrych ar sut mae

cyd-weithio gyda darparwyr trydydd sector i gefnogi grwpiau ychwanegol gyda anghenion ychwanegol gwahanol e.e. pobl ifanc sydd hefo amhariad ar y clyw, neu'r golwg, neu gefnogaeth benodol ar gyfer pobl ifanc hefo problemau iechyd meddwl.

Staff

Bydd y Gwasanaeth Ieuenctid yn cyd-weithio'n llawn gyda AD i sicrhau bod gweithdrefnau cydraddoldeb yn cael eu gweithredu. Rydym yn ymwybodol bod lle i ddatblygu'r gynrychiolaeth o weithwyr gydag anabelddau a gyflogir a byddwn yn cyd-weithio i geisio cyrraedd hyn.

### 3.3 AIL-BENNU RHYW

**Pa effaith fydd y polisi yn gael (positif neu negyddol) ar bobl trawsrywiol?**

| | Bydd | Na fydd | Dim yn berthnasol |
|---|---|---|---|
| **Pobl Trawsrywiol**<br><br>( Pobl sy'n bwriadu mynd, neu yn mynd drwy driniaeth (neu ran o driniaeth) i drawsnewid eu rhyw drwy newidiadau ffisiolegol neu nodweddiol eraill o ryw.) | | ✓ | |

Ar y funud mae tri o bobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth sydd wedi datgan eu bod yn mynd drwy drwy driniaeth neu'n ystyried mynd drwy driniaeth i ail-bennu rhyw. Maent yn defnyddio gwasanethau prif lif a ddim yn gweld angen am ddim darpariaeth arbennig.

**Pa gamau y gellid eu cymeryd i liniaru effaith posib?**

Mae'r gwasanaeth ieuenctid yn rhedeg sesiynau hyfforddiant i staff sy'n gweitiho hefo pobl ifanc yn y maes yma. Gyda mwy o staff llawn-amser yn gallu derbyn gwell lefel o hyfforddiant, rhagwelir y bydd staff wedi eu darparu'n well ar gyfer gweithio gyda meysydd arbenigol fel y maes yma, ac felly'n gallu cynnig gwell cefnogaeth iddynt, i'w cadw yn y darpariaeth prif lif. Byddwn yn cyfeirio unrhyw berson ifanc sydd angen cefnogaeth ychanegol i'r asiantaethau sy'n arbenigo yn y maes.

### 3.4 Priodas neu Bartneriaeth Sifil

**Beth fydd effaith posibl y polisi? (Positif neu Neyddol ) ar briodas neu bartneriaeth sifil**

| | Bydd | Na fydd | Dim ynberthnasol |
|---|---|---|---|
| **Priodas** | | | ✓ |
| **Perthynas Sifil** | | | ✓ |

**3.5 Beichiogrwydd a Mamolaeth/Tadolaeth**

**Beth fydd effaith posibl y polisi (Positif neu Negyddol) ar feichiogrwydd neu famolaeth?**

| | **Bydd** | **Na fydd** | **Dim yn berthnasol** |
|---|---|---|---|
| **Bechiogrwydd** | ✓ | | |
| **Mamolaeth** | ✓ | | |

**Rhowch fanylion isod o'r effaith posibl a pha gamau y gellid eu cymeryd i liniaru'r effaith.**

Yn ystod 2014/15 mynychodd y nifer canlynol o bobl ifanc sesiynau ar addysg rhyw a perthynas o fewn y clybiau:

| Thema | Nifer o Sesiynau | Merched a fynychodd | Bechgyn a fynychodd | Cyfanswml |
|---|---|---|---|---|
| Rhyw a Pherthynas | **42** | **189** | **140** | **329** |
| | | | | |

Nid oedd yr un achos o feichogrwydd dan 16 wedi ei gofrestru a 21 o feichiogrwydd rhwng 16-18 a gofrestrwyd rhwng y 1af o Fedi, 2015 a'r 31ain o Awst 2016 ar yr ynys..

<u>Adborth o'r Ymgynghoriad 02/11/2015-11/12/2015</u>

Pan ofynnwyd a oedd hi'n bwysig gan bobl ifanc dderbyn gwybodaeth am faterion pynciau penodol megis Addysg Rhyw, Cyffuriau, ac alcohol, dywedodd 42% bod hyn yn bwysig.

**Pa gamau gellid eu cymeryd i liniaru'r effaith posib?**

Mae'r gwasanaeth ieuenctid yn rhedeg rhaglenni hyfforddiant i staff sy'n gweithio hefo pobl ifanc yn y maes yma. Gyda mwy o staff llawn-amser ac Uwch Weithwyr rhagwelir y gallai gweithio gyda grwpiau arbenigol fel hyn yn golygu bod y staff hefo gwell gwybodaeth, ac felly mewn gwell sefyllfa i gefnogi pobl ifanc ac ar gael i fedru ymateb yn gynt i'w pryderon.

Byddai cael gweithiwr ieuenctid ym mhob ysgol yn golygu:

- Mwy o bobl ifanc hefo mynediad at weithiwr ieuenctid
- Mynediad trwy'r holl dymor ysgol, yn hytrach na rhai cyfnodau o'r flwyddyn fel sy'n digwydd ar hyn o bryd mewn clybiau llai hefo tymor o Fedi i diwedd Mawrth yn unig
- Gwell cyfle i rwydweithio hefo asiantaethau allanol megis Project Lydia i gyflwyno mwy o raglenni addysg rhyw i bobl ifanc o fewn sefylla ffurfiol a lled-ffurifiol.

**3.6 Hil**

**Beth fydd effaith posibl y polisi (Positif neu Negyddol) ar feichiogrwydd neu famolaeth?**

**Gwyn, Cymysg/grwpiau ethnig amrywiol, Asiaidd/Asiaidd Brydeinig, Du/Affrig/Carribaidd/Du Prydeinig, grwpiau ethnig eraill**

**Dim effaith**

| **Os gwelwch yn dda rhowch fanylion yr effaith posib a pha gamau y gellid eu cymeryd i liniaru'r effaith.** |
|---|
| **Cwsmeriaid/defnyddwyr gwasanaeth**<br><br>Mae yna ganran leiafrifol o boblogaeth ethnig ar Ynys Môn (dim yn wyn) oedran 11-26 o 2.4 %.(Cyfrifiad 2011). |

**Pa gamau gellir eu cymeryd i liniaru'r effaith posib?**

Mae'r gwasanaeth ieuenctid yn gweithio'n gyfartal gyda phobl ifanc o bob cefndir, ac mae polisi drws agored sy'n golygu bod croeso i bobl ifanc o bob hil.

**3.7 Crefydd, Crêd, neu Ddi-grêd**

**Fydd y polisi yma'n cael effaith posibl (Positif neu Negyddol) i bobl ifanc o wahanol grefyddau, credoau neu'n ddi-grêd?**

**Dim effaith**

| **Os gwelwch yn dda rhowch effaith posib a pha gamau y gellid eu cymeryd i liniaru'r effaith.** |
|---|
| **Cwsmer/Defnyddiwr Gwasanaeth**<br><br>Adborth Ymgynghoriad 02/11/2015-11/12/2015<br><br>O'r nifer fechan a ddewisodd i gwblhau'r adran yma yn ystod yr ymgynghoriad, dyma'r nifer a ddatgelodd eu crefydd neu grêd. |

| **Crefydd neu Grêd** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | **Canran Ymateb** | **Canran ymateb** |
| 1 | Baha'i | | 0.00% | 0 |
| 2 | Buddhist | | 0.79% | 2 |
| 3 | Cristion | | 40.94% | 104 |
| 4 | Hindu | | 0.00% | 0 |
| 5 | Jain | | 0.00% | 0 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 6 | Iddewig | | 0.00% | 0 |
| 7 | Muslim | | 0.00% | 0 |
| 8 | Dim crefydd neu gred | | 46.46% | 118 |
| 9 | Sikh | | 0.39% | 1 |
| 10 | Gwell gen I beidio dweud | | 8.66% | 22 |
| 11 | Arall (nodwch beth): | | 2.76% | 7 |
| | | | atebion | 254 |

.

Bydd gostyngiad yn y ddarpariaeth mynediad agored yn cael effaith ar draws bob un o'r credoau'n gyfartal oherwydd y lleihad mewn mynediad i ddarpariaeth.

Staff

Dim effaith negyddol i staff cyflogedig

**Pa gamau y gellid eu cymeryd i liniaru'r effaith posib?**

Bydd y Gwasanaeth Ieuenctid yn ymrwymo i wella gwaith mewn partneriaeth gyda grwpiau o gredoau penodol i sicrhau bod anghenionpobl ifanc o bob credo yn cael eu diwallu.

Bydd y gwasanaeth hefyd yn glynu at weithdrefnau'r Cyngor mewn perthynas â sicrhau cydraddoldeb, a byddant yn sicrhau bod staff yn dod o amrywiol gymunedau sy'n adlewyrchu'r grŵp cleientau maent yn gynrychioli.

**3.8 Rhyw**

**Beth fydd effaith posibl y polisi (Positif neu Negyddol) ar ryw?**

| | **Yes** | **No** | **N/A** |
|---|---|---|---|
| **Dynion** | ✓ | | |
| **Merched** | ✓ | | |

| **Os gwelwch yn dda rhowch effaith posib a pha gamau y gellid eu cymeryd i liniaru'r effaith.** |
|---|
| Defnyddwyr gwasanaeth - Bydd gostyngiad mewn clybiau mynediad agored yn amharu ar ddynion a merched ifanc. Fodd bynnag, yn draddodiadol mae clybiau wedi apelio mwy at ddynion ifanc, gyda merched yn dewis cymdeithasu mwy yng nghartrefi ei gilydd. Mae dynion ifanc hefyd yn mynychu clybiau yn hŷn na merched – hyd at 18/19 oed lle mae yna ddarpariaeth chwaraeon yn rhan o'r clwb, tra bod merched yn peidio mynychu yn iau. Mae gwasanaethau megis yr Wobr Dug Caeredin a |

gweithio tuag at achrediadau yn gyffredinol yn apelio mwy at ferched ifanc.

Staff

Bydd y gwasanaethau yn glynu at weithdrefnau'r Cyngor yng nghyd-destun cydraddoldeb wrth ddatblygu'r strwythurau staff newydd, ac mae'n ymwybodol bod yna ddiffyg balans ar hyn o bryd rhwng y nifer o ddynion a merched a gyflogir.

**Pa gamau gellid eu cymeryd i liniau'r effaith posib yma?**

- Bydd y gweithiwr ieuenctid ysgol yn gweithio'n agosach gyda staff 5x60 yn yr ysgolion i geisio datblygu cyfleon achredu y gellid eu datblygu gyda'r adran hamdden e.e. tystysgrifau adrannol yn y Wobr Dug Caeredin ar gyfer Sgiliau am yr oriau maent yn fynychu gyda'r gweithiwr 5x60, a cheisio datblygu darpariaeth newydd ar gyfer dynion ifanc, sydd efallai bellach ddim yn gallu mynychu clwb.
- Ymgynghori gyda'r Adran Hamdden i ddatblygu cyfleon newydd lle gall y Gwasanaeth Ieuenctid a'r Adran Hamdden edrych ar gyfleon newydd sy'n defnyddio adnoddau'r cyngor i'w llawn botensial a hyrwyddo gwaith sydd eisoes mewn bodolaeth mewn adran arall o'r Cyngor.
- Gweithio ar ddatblygu rhaglen achrediadau a darganfod sesiynau sydd hefo apêl mwy generig, neu edrych hefyd ar raglenni fyddai'n gallu bod yn benodol yn apelio at grwpiau o'r un rhyw.

**3.9 Cyfeiriadedd Rhywiol**

**Fydd y polisi yn cael effaith posib (Positif neu Negyddol) ar y grwpiau canlynol?**

**Dim effaith**

| | **Bydd** | **Na Fydd** | **Dim yn berthnasol** |
|---|---|---|---|
| **Deurywiol** | | ✓ | |
| **Dynion Hoyw** | | ✓ | |
| **Lesbiaid** | | ✓ | |
| **Heterorywiol** | | ✓ | |

**Rhowch fanylion o'r effaith posib a pha gamau y gellid eu cymeryd i leihau'r effaith.**

O'r ymatebion yn yr ymgynghoriad roedd y bobl ifanc oedd yn dewis datgelu eu cyfeiriadedd rhywiol yn isel.

Ad-borth o'r Ymgynghoriad 02/11/2015-11/12/2015

| Cyfeiriadedd Rhywiol | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Canran Ymateb | Cyfanswm Ymateb |
| 1 | Deurywiol | | 1.29% | 3 |
| 2 | Hoyw | | 0.43% | 1 |
| 3 | Heterorywiol | | 88.84% | 207 |
| 4 | Lesbiaidd | | 0.86% | 2 |
| 5 | Dewis peidio dweud | | 8.58% | 20 |

**Pa gamau gellid eu cymeryd i liniaru'r effaith?**

Pobl ifanc – tybir na fydd effaith. Ar gyfer y bobl ifanc rheini fydd angen cefnogaeth ychwanegol i'r hyn fyddai gweithiwr ieuenctid yn gallu roi, byddant yn cael eu cyfeirio at asiantaethau arbenigol megis Stonewall sy'n darparu gwasanaethau penodol ar gyfer pobl ifanc sy'n hoyw, lesbiaid, cyfunrywiol.

Staff

Parhau i gefnogi drwy systemau cefnogi'r Cyngor drwy Adnoddau Dynol.

**3.10 Yr Iaith Gymraeg**

**Fydd y polisi yn cael effaith posib (Positif  neu Negyddol) ar yr Iaith Gymraeg?**

| | Bydd | Na fydd | Dim yn berthnasol |
|---|---|---|---|
| **Yr Iaith Gymraeg** | ✓ | | |

Darpariaeth Iaith Gymraeg bresennol

Mae gofynnion uwch yn awr ar Awdurdodau drwy'r Safonau Iaith Gymraeg gan Lywodraeth Cymru a thrwy'r Strategaeth Gwaith Ieuenctid i ddarparu cyfleon i bobl ifanc fedru ymarfer eu Cymraeg yn y cyd-destun cymdeithasol.

Sefylla bresennol o bobl ifanc Cymraeg eu hiaith sy'n mynychu clybiau

| **STATUDOL/STATUTORY Clwb/Club** | **Cymraeg Rhugl Fluent Welsh** | **Gallu Siarad/Able to speak some Welsh** | **Dim Cymraeg / No Welsh** | **Cyllid Funding** |
|---|---|---|---|---|
| Amlwch | 13 | 3 | 0 | Core/Craidd |
| Biwmares | 19 | 37 | 0 | Core/Craidd |
| Bodedern | 62 | 6 | 0 | Core/Craidd |
| Bodffordd | 12 | 1 | 0 | Core/Craidd |
| Brynsiencyn | 35 | 2 | 0 | Core/Craidd |
| Cemaes | 39 | 19 | 4 | Core/Craidd |
| Clwb Cybi (ADY/ALN) | 6 | 9 | 8 | Core/Craidd |
| Clwb Ni (ADY/ALN) | 8 | 10 | 1 | Core/Craidd |
| Dwyran | 17 | 6 | 1 | Core/Craidd |
| Gwalchmai | 30 | 2 | 0 | Core/Craidd |
| Jesse Hughes (Hŷn/Senior) | 54 | 143 | 41 | Core/Craidd |
| Jesse Hughes (Iau/Junior) | 47 | 48 | 14 | Core/Craidd |
| Llaingoch | 15 | 38 | 17 | Core/Craidd |
| Llanddaniel | 17 | 2 | 1 | Core/Craidd |
| Llandegfan | 14 | 4 | 0 | Core/Craidd |
| Llanerchymedd | 27 | 1 | 0 | Core/Craidd |
| Llanfachraeth | 33 | 5 | 0 | Core/Craidd |
| Llanfaelog | 11 | 10 | 4 | Core/Craidd |
| Llanfairpwll | 50 | 3 | 2 | Core/Craidd |
| Llangefni | 45 | 6 | 1 | Core/Craidd |
| Llangefni Iau | 34 | 4 | 0 | Core/Craidd |
| Llangristiolus | 59 | 1 | 0 | Core/Craidd |
| Niwbwrch | 20 | 2 | 3 | Core/Craidd |
| Moelfre | 15 | 8 | 0 | Core/Craidd |
| Pentraeth | 22 | 4 | 1 | Core/Craidd |
| Penysarn | 27 | 1 | 0 | Core/Craidd |
| Rhosmeirch | 24 | 0 | 0 | Core/Craidd |
| Y Fali | 73 | 17 | 8 | Core/Craidd |
| | 828 | 392 | 106 | |
| **GWIRFODDOL/VOLUNTARY** | | | | |
| CFfI Bodedern YFC | 54 | 0 | 0 | Ymddiriedolaeth |
| CFf I Dwyran YFC | 16 | 0 | 0 | Ymddiriedolaeth |
| CFfI Llangefni YFC | 55 | 0 | 0 | Ymddiriedolaeth |
| CFfI Llangoed YFC | 7 | 0 | 0 | Ymddiriedolaeth |
| CFfI Penmynydd YFC | 26 | 0 | 0 | Ymddiriedolaeth |
| C FfI Rhosybol YFC | 68 | 0 | 0 | Ymddiriedolaeth |
| Aelodaeth yr Urdd Membership – Secondary School Age Only / Uwchradd | 680 | 0 | 0 | Ymddiriedolaeth |

(Urdd - Uwchadran Amlwch, Uwch Adran Gaerwen, Aelwydydd Yr Ynys, Talaw and Amlwch, Aelodau mewn Ysgol, ac Aelodaeth unigol

Darpariaeth Iaith Gymraeg bresennol yn y clybiau statudol

| | |
|---|---|
| Nifer o Glybiau lle mae'r staff i gyd yn siarad Cymraeg a'r gwasanaeth yn gwbl ddwy-ieithog | 25 clwb |
| Nifer o Glybiau lle mae o leiaf un aelod o staff yn siaradwr/wraig Cymraeg rhugl a'r aelod arall yn Gymraeg ail-iaith | 3 chlwb |
| Nifer o glybiau lle mae'r staff i gyd yn Gymraeg ail-iaith | 0 |
| Nifer o glybiau lle mae o leiaf un aelod o staff yn rhugl | 28 allan o 28 |
| Canolfannau Gwobr Agored - 6 a 3 Grŵp Ysgol | 7 yn ddwyieithog |
| Grwpiau sy'n cynnig cyfle i ennill achrediadau drwy gyfrwng y Gymraeg (ASDAN/ Agored Cymru) | 20 clwb |

**Rhowch fanylion o'r effaith posib a pha gamau y gellid eu cymeryd i leihau'r effaith.**

Cwsmeriaid/Defnydwyr Gwasanaeth

Bydd cau rhai clybiau lle mae'r Gymraeg yn brif iaith yn cael effaith ar y ddarpariaeth fydd ar gael i bobl ifanc drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae cael gwasanaeth yn y Gymraeg yn bwysig i bobl ifanc.

**Adborth o'r Ymgynghoriad 02/11/2015-11/12/2015**

**Ydi o'n bwysig i chi gael siarad yn yr iaith o'ch dewis?**

| | | | Canran ymateb | Cyfanswm Ymateb |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Ydi | | 94.94% | 881 |
| 2 | Nac Ydi | | 5.06% | 47 |
| | | | atebion | 928 |

**Dewis iaith (ar lafar)**

| | | | Canran Ymateb | Cyfanswm Ymateb |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Cymraeg | | 45.36% | 132 |
| 2 | Saesneg | | 48.11% | 140 |
| 3 | Iaith Arwyddo Prydeinig | | 2.75% | 8 |
| 4 | Arall | | 3.78% | 11 |

| Dewis Iaith (ysgrifenedig) | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Canran ymateb | Cyfanswm Ymateb |
| 1 | Cymraeg | | 34.38% | 99 |
| 2 | Saesneg | | 59.03% | 170 |
| 3 | Braille | | 1.74% | 5 |
| 4 | Arall | | 4.86% | 14 |

**Y Gyhadledd Ieuenctid 24/09/2016**

Yn y Gynhadledd Ieuenctid gofynnwyd i'r bobl ifanc ymateb i'r cwestiwn canlynol :

Ydi o'n bwysig bod Gweithiwr Ieuenctid yn gallu siarad Cymraeg?

|  **Pwysig iawn** |  **Pwysig** |  **Ddim yn bwysig** |  **Ddim yn bwysig o gwbl** |
|---|---|---|---|
| **57%** | **35%** | **4%** | **4%** |

**Pa gamau gellid eu cymeryd i liniaru'r effaith?**

- Lle bydd yr opsiynau yn golygu bod clybiau'n mynd i gau, bydd angen i'r Cyngor weithio gyda'r gymuned a phartneriaid eraill i chwilio am ddarpariaethau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg e.e. yr Urdd a'r Ffermwyr Ifanc. Mae'r ddarpariaeth yma fodd bynnag, yn ddibynnol iawn ar barhad eu grantiau allanol. Bydd y gwasanaeth yn parhau i gefnogi'r ddau fudiad wrth iddynt wneud ceisiadau grantiau.
- Sicrhau bod y ddarpariaeth o fewn ysgolion a fydd yn rhannol gymeryd lle y ddarpariaeth clybiau yn gallu cynnig pob peth yn ddwyieithog.
- Edrych ar ardaloedd lle nad oes darpariaeth penodol cyfrwng Cymraeg e.e. Caergybi, a gweithio hefo'r Urdd, C Ff I a Menter Iaith i ddatblygu darpariaeth yn yr ardal. .

**3.11 Cymunedau Gwledig**

**Fydd y polisi yn cael effaith posib (Positif neu Negyddol) ar Gymunedau Gwledig?**

| | Bydd | Na fydd | Dim yn berthnasol |
|---|---|---|---|
| **Cymunedau Gwledig** | ✓ | | |

| Rhowch fanylion o'r effaith posib a'r camau y gellid eu cymeryd i liniaru'r effaith. |
|---|
| Bydd cau clybiau gwledig yn cael effaith ar gymunedau gwledig. Byddai'n rhaid i bobl ifanc deithio ymhellach i dref neu bentref cyfagos am ddarpariaeth. Yn y Gynhadledd roedd y bobl ifanc yn lleisio barn yn glir (gweler isod) nad oeddent yn hapus i deithio ymhellach. . |

**<u>Y Gynhadledd Ieuenctid 24/09/2016</u>**

**Gofynnwyd i bobl ifanc ymateb i'r datganiad isod:**

Os byddai'r clwb mewn pentref yn cau, ydych chi'n meddwl byddai pobl ifanc yn mynd i glwb yn y dref?

|  **Yn hapus iawn i wneud** |  **Yn hapus i wneud** |  **Ddim yn hapus** |  **Yn anhapus iawn** |
|---|---|---|---|
| **8%** | **20%** | **20%** | **52%** |

**Pa gamau y gellid eu cymeryd i liniaru'r effaith?**

- Mae yna rhywfaint o gyfle i ddefnyddio bysiau ysgol neu fysiau cymunedol i gynnig trafnidiaeth i bobl ifanc o bentrefi gwledig i glybiau mwy e.e. ardal Beaumaris neu ardal Bodedern.
- Bydd gan bobl ifanc fwy o fynediad ar Weithiwr Ieuenctid Ysgol mewn ysgol uwchradd, o'i gymharu â clybiau gwledig, sydd ar agor o Fedi tan ddiwedd Mawrth yn unig ar hyn o bryd, yn y clybiau lleiaf.
- Gweithwyr arbenigol e.e. Gweithiwr Cam-ddefnydd Alcohol a Sylweddaua Gweithiwr Ieuenctid Ymgysylltiad yn gweithio ar draws yr ynys.

**3.12 Tlodi/Amddifadedd**

**Fydd y polisi yn cael effaith posib (Positif neu Negyddol) ar Dlodi/Amddifadedd?**

**Bydd**

| Rhowch fanylion o'r effaith posib a pha gamau y gellid eu cymeryd i leihau'r effaith. |
|---|
| Gall y cynigion i'r newidiadau mewn gwasaaneth/cau clybiau gael effaith ar allu pobl ifanc i gyrraedd i glwb lle nad oes trafnidiaeth gyhoeddus ar gael, neu lle nad oes trafnidiaeth ar gael yn y cartref, a byddant yn ei chael hi'n anodd i gyrraedd at ddarpariaeth arall.<br><br>Hefyd, mae tynnu pobl ifanc allan o'u cymuned i ddefnyddio gwasanaeth tu allan i'w cymuned yn gallu amharu ar gadw cymunedau'n hyfyw. |

**Pa gamau y gellid eu cymeryd i liniaru'r effaith?**

- Os yw'r Awdurdod yn cael ei orfodi i wneud y toriadau llymaf (Opsiwn 3,4, neu 5) bydd angen cwblhau ymarfer mesur anghenion manwl mewn ardaloedd i sicrhau bod y ddarpariaeth yn parhau yn yr ardaloedd lle mae'r lefelau uchaf o amddifadedd.
- Sicrhau nad oes dyblygiad mewn gwasanaethau rhwng y sector gwirfoddol a statudol, yn arbennig e.e. yn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf neu lle mae'r sector gwirfoddol eisoes yn rhoi buddsoddiad sylweddol mewn ardal.
- Sicrhau bod tâl mynediad yn cael ei gadw i leiafswm lle mae ardal hefo lefelau uchel cydnabyddedig o dlodi.
- Sicrhau bod cyllideb wedi ei neilltuo i sicrhau nad yw pobl ifanc yn methu cymeryd rhan mewn gweithgaredd oherwydd tlodi e.e. Gwobr Dug Caeredin.

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

**Dyfyniad o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd 2016 (i'w gadarnhau gan y pwyllgor)**

## 4 BARN SGRIWTINI AR OPSIYNAU AIL FODELU'R GWASANAETH IEUENCTID

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Dysgu mewn perthynas â'r uchod.

Adroddwyd bod adolygiad manwl o'r Gwasanaeth Ieuenctid wedi ei gynnal o 2013/14, o ganlyniad i'r Cynllun Corfforaethol ac anghenion y gwasanaeth, a bod 5 opsiwn wedi eu hadnabod ar gyfer datblygu'r gwasanaeth i'r dyfodol. Adnabuwyd opsiynau gwahanol y gellid eu darparu a fyddai'n arwain at arbedion effeithlonrwydd o rhwng 28% a 67%. Cynhaliwyd ymgynghoriad eang gyda dros 1,000 o bobl ifanc yn ystod yr hydref 2015. Gyda'r opsiynau oedd yn weddill, cynhaliwyd Cynhadledd Ieuenctid ar 24 Medi 2016, gyda 54 o bobl ifanc yr ynys yn bresennol, gyda chroestoriad o bobl ifanc o 11 i 25 oed o bob rhan o'r ynys. Cyflwynwyd yr opsiynau hefyd i staff yn y Seminar Staff ar 8 Hydref 2016.

Yn 2013/14 cafodd Dysgu Gydol Oes y dasg o ganfod toriadau posibl rhwng 10% a 60% yng nghyllideb y gwasanaeth ieuenctid; cyllideb net y Gwasanaeth Ieuenctid ar y pryd oedd £560,170. Cynhwyswyd dadansoddiad o'r modelau/opsiynau ar gyfer lleihau gwariant yn yr adroddiad.

Yn ystod yr ail ymgynghoriad, amlygwyd y materion canlynol:

- Dylid cadw'r ddau glwb ieuenctid ar gyfer pobl sydd ag anghenion addysgol arbennig yn agored;
- Dim cefnogaeth i gael clybiau achredu amser cinio;
- Nid oeddent yn fodlon teithio i glwb yn y dref os byddai clwb y pentref yn cau;
- Dylai'r clybiau gael eu rhedeg gan weithwyr ieuenctid cymwys/profiadol, nid gwirfoddolwyr;
- Ni ddylid cau clybiau ieuenctid bychan yn llwyr er mwyn cadw clybiau mawr ar agor am ddwy noson yr wythnos;
- Mae'n bwysig bod y gweithwyr ieuenctid yn siarad Cymraeg;
- Mae'n bwysig cael gweithiwr ieuenctid ym mhob ysgol;
- Roeddent yn flin/siomedig bod y Cyngor yn gwneud toriadau i'r gwasanaeth ieuenctid.

Dywedodd y Prif Weithiwr Ieuenctid yr ystyrir bod risgiau'n gysylltiedig â'r ailfodelu oherwydd y newidiadau i swyddi rhan-amser a cholli staff cymwys sydd â phrofiad sylweddol. Yn ychwanegol, ni fydd yr un ddarpariaeth ar gael i bobl ifanc mewn cymunedau gwledig, er y bydd yn haws iddynt ddod i gysylltiad â'r Gweithwyr Ieuenctid gan y byddant yn gweithio'n agosach ag ysgolion.

Materion a godwyd gan yr Aelodau :-

- Mae pobl ifanc yn derbyn cyfleoedd gwerthfawr yn y clybiau ieuenctid ac mae angen gwarchod y gwasanaeth;
- Yn ddiweddar, mae Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn wedi cefnogi ceisiadau am grant gan Sefydliad y Ffermwyr Ieuainc a'r Urdd, ond nid oes gan glybiau ieuenctid fynediad at arian grant o'r fath;

- Mae pobl ifanc sy'n mynd i glybiau ieuenctid yn eu pentrefi yn anfodlon teithio i glybiau ieuenctid yn y trefi oherwydd bod cael ymdeimlad o berchnogaeth dros eu clwb ieuenctid yn holl bwysig iddynt. Gallai cau clybiau ieuenctid cymunedol arwain at bobl ifanc yn ymgasglu gan achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y gymuned oherwydd diffyg lleoliad iddynt gymdeithasu; nid oes gan rai pentrefi Glwb Ffermwyr Ieuainc nac adran yr Urdd;
- Byddai lleihau nifer y clybiau ieuenctid yn amddifadu pobl ifanc o deithiau diwylliannol a hanesyddol i ardaloedd gwahanol yn y Deyrnas Unedig;
- Caiff pobl ifanc gyfle i drafod pynciau amrywiol e.e. bwlio, addysg rhyw, cam-drin, problemau cyffuriau ac alcohol ayb;
- Gofynnwyd a fyddai modd i'r clybiau ieuenctid gymryd cyfrifoldeb am/cynorthwyo gyda rhai elfennau o'r Fagloriaeth Gymreig h.y. gwaith gwirfoddol cymunedol. Dywedodd y Prif Swyddog Ieuenctid y byddai lleoli Gweithwyr Ieuenctid yn yr ysgolion uwchradd yn darparu pwnt cyswllt i bobl ifanc ar gyfer gwaith gwirfoddol/cymunedol;
- O dan y trefniant newydd byddai pobl ifanc yn parhau i gael cyfle i gymryd rhan yng nghynllun Gwobr Dug Caeredin o fewn eu hysgolion gyda phob un heblaw un o'r opsiynau;
- Mae pobl ifanc yn cael cyfle i gymryd rhan yng nghynllun Gwobr Dug Caeredin o fewn y clybiau ieuenctid;
- Yn ddiweddar, agorodd Cymunedau'n Gyntaf gyfleuster ar ôl ysgol ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghaergybi. Mae 'Pod Caergybi' yn cynnig gweithgareddau i bobl ifanc sy'n disgwyl i'w rhieni/gofalwyr eu casglu ar y ffordd adref o'r gwaith. Gofynnwyd a fyddai canolfan o'r fath yn cael effaith ar y niferoedd sy'n mynd i'r clwb ieuenctid yng Nghanolfan Jesse Hughes? Dywedodd y Prif Swyddog Ieuenctid bod 'Pod Caergybi' yn denu plant a phobl ifanc sy'n dod yn syth o'r ysgol a bod y clwb ieuenctid ar agor yn hwyrach yn y nos. Awgrymodd yr Aelodau y byddai canolfan 'Pod' yn fuddiol mewn pentrefi/cymunedau eraill ar yr ynys. Ymatebodd y Prif Swyddog Ieuenctid drwy ddweud y byddai'n rhaid rhoi ystyriaeth i ddyblygu gwasanaethau cyn ystyried cyflwyno canolfan 'Pod' os oes clwb ieuenctid wedi ei leoli mewn tref;
- Codwyd pryderon am benderfyniad y Pwyllgor Gwaith i beidio â thrafod dyfodol y Gwasanaethau Ieuenctid hyd nes bydd yr Ymgynghoriad ar Gyllideb y Cyngor wedi ei gynnal.

**PENDERFYNWYD argymell i'r Pwyllgor Gwaith :-**

- **Mai Opsiwn 1, sef torri lleiafswm o 28%, yw'r opsiwn a ffafrir gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio;**
- **Mynegi pryder na fydd y Pwyllgor Gwaith yn rhoi ystyriaeth i'r mater hyd fis Chwefror 2017.**

**GWEITHREDU : Fel y nodwyd uchod.**

**Y CYNGHORYDD DERLWYN R. HUGHES**
**CADEIRYDD**

## ADBORTH Y BOBL IFANC / YOUNG PEOPLE'S FEEDBACK

(Verbatim)

| Cynigion Toriadau 20% Cutback Proposals |
|---|
| WIFI |
| Close to home |
| Why do you have to pay so much |
| Engaging youth workers |
| Keep all special needs clubs open! |
| They should keep the special needs club open why don't they open more special needs clubs |
| Lots of activities |
| Youth workers who can relate/connect with young people |
| Also kids get the bus to Cemaes with their friends to go to Cemaes youthie if it's in Amlwch it would cause issues. |
| In the 40% cut most of the small clubs will be closed and the big clubs will turn into small clubs some people will not be happy about this |
| Local youth workers who know the young people |
| The club is important because kids want to go and see their friends and chill. Cemaes Youth Club is very important also its good place for kids/teens to go so that kids aren't wondering the street at night |
| Pwysig i glybiau cael mynediad i lle cynnes sydd hefo cyfleusterau syn cwrdd a anghenion pobl ifanc |
| It worries me that there are 2 much clubs closing due to budget loss |
| I wouldn't go to any youth club if Jesse Hughes closed as I am comfortable talking to people there I wouldn't feel comfortable anywhere else |
| Youth club after school, not in school |
| Rydwyf yn meddwl ddylia un clwb amser cinio ddigwydd a cael cadw un neu ddau clwb bach |
| They should not close any special needs clubs in fact they need to open more. |
| I believe that youth clubs promote and encourage health and well being, they allow a child to express their concerns. |
| Keep all special needs clubs open!!! |
| Democratiaeth pobl ifanc yn cael sefydlu eu hunain a cael bod yn man o benderfyniadau am sut I redeg clwb darpariaeth o glybiau CFFI gyda'r nos yn bwysig. Dim jysd o fewn ysgolion. |
| Regular club meeting. Socialising with friends. Good youth clubs. WIFI. Connection between youth work. |
| If local clubs are closed people may not have the time, energy or money to be able to go further in towns. |
| It is important to give support to 16-24 year olds to go back into work or education. I BELIEVE THIS IS THE SAME FOR HOMELESS PEOPLE. We need to help give homeless people a place to live until they can get a job and provide for themselves rather than be ignored. If young people don't get this support also, they may end up homeless. |
| 20% depends where the small clubs are set, for instance if they are in small areas young people they won't have anywhere else to go. However if you closed them in large towns it wouldn't make much difference for they will have somewhere else to go. It is important to keep youth clubs open for it gives a place for young people to be themselves without any judgement from others there are other places youth can go to , e.e. ATE(search it up), however some people may not be able to afford it. |
| Why do the small clubs have huge cuts but the big ones don't!?! |
| Travelling to Amlwch for youth club would be a problem because its further for my parents, also my mother does things in Cemaes while I'm in youthie |
| I haven't attended a youth club from what I understand they're organizatively that are independent of any school, this independence must remain |
| Prioritize special needs! |

# ADBORTH Y BOBL IFANC / YOUNG PEOPLE'S FEEDBACK

(Verbatim)

| |
|---|
| They should not close special needs club, because what if the disabled person does not travel very far. |
| Dylia 1 clwb cau i cael cadw y clybiau anghenion arbennig |
| I prefer sticking to 1 youth club because I feel more comfortable around people I know. |
| If the 40% happens the big clubs will turn into 2 small clubs and lose some money |
| 20% cut I can't really make a judgement as I have no experience with youth clubs. To me it sounds reasonable. |
| I think it's more important to keep the night clubs than the school lunchtime ones. |
| Rights of children are safeguarded by these organizations. They have the best interest of CHILDREN at heart, this being a valuable asset. |
| We must evenly balance funding in the event of major cuts. We can't afford to create a discourse where cuts to youth services turns youthy to crime e.g. |
| 40% cut the larger reduction is greatly visible and saddened to see the cuts to disabled & special needs services. It is a priority that these disadvantaged members of society do not have their interests defunded. |
| |

| Cynigion Toriadau 40-60% Cutback Proposals |
|---|
| Colli clwb ychwanegol yn bob ardal I gadw clwb anghenion arbennig |
| Clybiau amser cinio ynyr ysgol yn barod. Pwysig cadw clybiau nos |
| Trfenu bws mini I rhai ardaloedd |
| Nid wyf yn cytuno hefo torri/canslo clwb anghenion arbennig! |
| Torri cyflogau gwenud synnwyr( ar hyd yn cyngor – dechra gyda dyn ar y top) |
| Dim pwynt agor ar 60% o doriad. Colli rheolwr a Llangefni yn colli gwasanaeth cyfan. |
| Safe warm well equipped meet places providing opportunities for arts and sports. |
| Torri hyder cryfder a creu trafferthion I emotions a meddyliau pobl ifanc. |
| 60% cut dim yn gweithio I pobl ifanc o gwbl. Dim ar ol iddynt |
| Rhaid cadw y llefydd mawr fel Plas Arthur Bro Alaw Jesse Hughes gan eu bod yn berffaith ir pobl ifanc dod a atmosfier iawn. |
| 60% yn negelctio angen y pobl ifanc yn eu cymuned |
| Mi fydd yna trwbl yn y cymunedau gan fod yno ddim iw wneud |
| With the 60% most of the small clubs will close and kids won't want to travel far to clubs and in the small villages there is not a lot of things for the kids to do |
| NO 60% because the small clubs will be closed and like me, people live in streets with trouble quite frequently, having nowhere to go will cause people like me to resort to the streets and cause trouble for my own amusement |
| |

| Cynigion Toriadau 60% Cutback Proposals |
|---|
| It won't be good because people will stop socialising and just stay in their home |
| Tydy gweithiwr gwirfoddol ddim yn syniad da oherwydd bydd pobl ddim eisiau rhieni/teulu/pobl lleol; I rhedeg y clybiau oherwydd rydym yn mynd yna I cael amser heb rhieni |
| Does yna ddim digon o glybiau ieuenctid lleol. Felly fuswn I ddim yn mynd I clybiau ieuenctid mawr e.e. Llanfairpwll, Biwmaris, hefyd does gan pawb ddim ffordd/lift I fynd I'r clybiau mawr. |
| Mae o yn boring yn youth club Bodedern ac dani ddim yn cael mynd allan or ysgol I mynd I siop ac |

# ADBORTH Y BOBL IFANC / YOUNG PEOPLE'S FEEDBACK

(Verbatim)

| |
|---|
| dwi heb dim lift I fynd yna. cadw clwb Llanfachraeth. |
| If the 60% cut happens all of the small youth clubs will close including our youth club Llanfachraeth if you close all the youth clubs think of the teenagers as we get older we get less social if youth club closes teenagers may well start on drugs and alcohol. |
| The 60% is not fair because they will be closing half of the youth clubs. |
| Yn Brynsiencyn mae yna pethe i neud ond tydy pobl ddim am ddod at ei gilydd ac bydd plant yn cyfarthrebu tu allan oi tai hefoi gilydd. |
| Easier to talk to than teachers. |
| Os fydd y 60% cut yn digwydd bydd pobl stopio cymdeithasu. |
| No because it will be embarrassing having your family members. |
| Os fydd na ddim youth club fydd y fi yn bedroom fi neu park neu youth shelter. So fydd o yn boring .Yn youth club gan y ni rwbath i wneud. |
| No because it will be embarrassing having your family there |
| If the 60% cut happens all of the teenagers might stop socialising and start doing drugs and alcohol maybe. |
| They say that youth club costs too much but it costs only fifty pence |
| 100's of brand new cameras in school every corner there's a camera, it's not needed it's too much and a waste of money that could be used elsewhere. |
| We need to try our best to preserve local youth clubs. Loyalty to your local club has been created some wouldn't be willing to travel to the neighbouring town for a club |
| A total of 60 million pounds has been lost through funding since 2012 leading to the closure of about 350 youth clubs in Britain |
| In the 60% cut there will be a loss of socialising in teenagers. |
| A youth club is an opportunity for youth to learn new skills, independent of schools. This is a major loss to those deprived. It would be a major blow to a community. The loss of a vital service would deprive children. |
| Sefydliadau gwirfoddol e.e.RUS yn lle talu i rhywun ffendio gwirfoddolwyr |
| 350 youth clubs have closed since 2012 |
| If the 60% cut there will be loads of small clubs closing down in our villages, |
| No because it will be embarrassing having family members there. |
| If there is willing volunteers, then we should encourage them to run these clubs. |
| Re-open Bryngwran youth club for year 6 and above. |
| Pam mae yna grants I ysgolion gael teledu's sydd yn pointless? Bysa well gennym ni gael y grant I gael fwy o adnoddau neu I gadw fwy o glybiau yn gorad! |
| Bollards refusing entrances to where teacher's park for "safety purposes" all the years before then nothing ever happened. Why waste money on it now? |
| Does dim digon o glybiau Ieuenctid a fyswn i ddim yn mynd i clwb ieuenctid arall yn yr ardal a ddim yn deg ar y pobl eraill syn mynd ir clwb. |
| Voluntary clubs are a rather good suggestion however, they'd need the training. |
| |

| Cynigion Toriadau 60% Cutbacks Proposals – positif a negatif |
|---|
| It's not good to close all the youth clubs |
| I wouldn't particularly exactly help out at a youth service or even only volunteers to run a club because I feel they wouldn't gain enough confidence because of the lack of experience, |
| Having to travel to other youth clubs is a problem some people can't travel and also having children to travel could be dangerous if they travel on a bus late at night and could miss the bus and be stuck |

# ADBORTH Y BOBL IFANC / YOUNG PEOPLE'S FEEDBACK

(Verbatim)

| |
|---|
| It's unfair if they close small youth clubs because then that would leave lots of people with no youth clubs as they would not go to a big one further away. |
| Have one big club and another one on alternative weeks for smaller clubs |
| Most kids would turn to crime because there is nothing else to do |
| I would not like my mum or dad helping because in the youth club you can have fun and it would not feel right |
| We should have a youth clubs in the villages in the same place, different dates, so one at lunch and one at night, would it make more money? |
| 60% would close loads of youth clubs cuts |
| People go to youth clubs to get away from home to release stress, I wouldn't want my mum or dad to work |
| It's not a good idea to close any of the youth because not everyone will be comfortable with it. |
| That some clubs would close which would decrease the opportunity die to the clubs being further away |
| If this quantity of youth clubs went to a miniscule amount it would decrease a great and incredibly good opportunity because if they went to a larger club they wouldn't be familiar. |
| Wouldn't like people volunteering because it will make us feel uncomfortable talking to someone unprofessional if someone had any problems |
| Some people wouldn't be comfortable with going to youth clubs with new people it's unfair making them feel that way. |
| I wouldn't go to another club because it's too far and if Llanddaniel club closed there wouldn't be anything left for the younger kids to do in the village. |
| I would not want my family members running the club it would be embarrassing and I go to club to get away from family. |
| Unfair to close down Llangefni club because a lot of people have developed many skills there and to just drop it like that isn't right. |
| People only go out to go to youth clubs no one would communicate anymore. |
| I would be ok for my mum to help in the youth club |
| I wouldn't mind a volunteer youth worker as long as they are nice and if the clubs did have a pool table and a ping pong table etc. |
| Youth worker going around schools |
| I wouldn't go to other youth clubs that meant having to travel. *keep Brynsiencyn |
| 60% not as bad as I thought but still not good |
| It is important to have prof.youth workers as they have experience |
| |

## ADBORTH STAFF / STAFF FEEDBACK
(Verbatim)

| Cynigion Toriadau 20% Cutback Proposals |
|---|
| some clubs would close but percentage would keep club open |
| No lunch clubs ,free time for lunch, no pressure for young people |
| Smaller/strong communities/clubs to stay open 3 weeks * option to large clubs on 4th week |
| Spend the money sat in accounts distribute closed clubs money and equipment to closed clubs. |
| I feel we could live with a 20% cut anything more will impact the provision and young people MASSIVLY! In a negative way!! |
| Young people need clubs in smaller areas – nothing else to offer – no one to talk to – too late when they've hit rock bottom |
| No school youth worker |
| Our members need youth clubs, so they can interact with their peers |

| Cynigion Toriadau 40% Cutback Proposals |
|---|
| Does it matter how many members in club – all need the same service and needs |
| Stop wasting time effort money consulting and tell us what the cuts are so we can move on. |
| North Wales Police grants for equipment. Town /Community Councils – letter of support and maybe help with costs of hiring halls. |
| Don't get rid of Principal Officer Council operation couldn't cope |
| To youth, clubs are more than meeting place its hard being a teenager. They need somewhere to be "safe from harm" to go to youth clubs |
| Colli clwb ychwanegol yn bob ardal I gadw clwb anghenion arbennig |
| Clybiau amser cinio yn yr ysgol yn barod. Pwysig cadw clybiau nos |
| Trfenu bws mini i rhai ardaloedd |
| Nid wyf yn cytuno hefo torri/canslo clwb anghenion arbennig! |
| Torri cyflogau gwenud synnwyr( ar hyd yn cyngor – dechra gyda'r dyn ar y top) |
| Dim pwynt agora ar 60% o doriad. Colli rheolwr a Llangefni yn colli gwasanaeth cyfan. |
| Safe warm well equipped meeting places providing opportunities for arts and sports. |
| Torri hyder cryfder a creu trafferthion I emotions a meddyliau pobl ifanc. |
| 60% cut dim yn gweithio i pobl ifanc o gwbl. Dim ar ol iddynt |
| Rhaid cadw y llefydd mawr fel Plas Arthur Bro Alaw Jesse Hughesb gan eu bod yn berffaith ir pobl ifanc dod a atmosfier iawn. |
| 60% yn negelctio angen y pobl ifanc yn ein cymuned |
| Mi fydd yna trwbl yn ein cymunedau gan fod yno ddim iw wneud |
| With the 60% most of the small clubs will close and kids won't want to travel far to clubs and in the small villages there is not a lot of things for the kids to do |
| |
| |

| Cynigion Toriadau 60% Cutback Proposals |
|---|
| If 60% could we not have skills instructors to help |
| If they don't want lunch clubs – can't we re-arrange that provision to the night? |
| Bobl ifanc angen rhywbeth ar ôl ysgol i gymdeithasu gyda ffrindiau |
| Young people don't want friends or families to volunteer |
| Children want smaller clubs geographically not all YP mix well or wish to mix, having a 60% will cause |

## ADBORTH STAFF / STAFF FEEDBACK

(Verbatim)

| |
|---|
| an overall drop in YOUTH ENGAGEMENT |
| Plas Arthur Youth Wing is V successful. Ebeneser is already utilised by other youth based project, closing PA may cause YP to no longer engage with IOACC Youth Services |
| Don't want parents to volunteer |
| No way of getting to another club parents don't drive |
| If they do close the smaller clubs will they provide or maybe subsidise cost of travel for young members to go to nearest available club |
| |

| Sylwadau pellach / Additional Comments |
|---|
| I question where the money is distributed why close front face clubs and spend £1000's on the foyer in council offices?? |
| Mae digonedd o glybiau gwahanol ar gael yn ein ysgolion uwchradd ar hyn o bryd |
| Raise subs from 50p to £1/£2 make clubs more sustainable |
| Some young people have no social interaction apart from youth club |
| Fydd cau clybiau ieuenctid yn slap mawr i hogia ifanc pob ardal. Ddylia'r Cyngor feddwl yn ddwys am eu penderfyniad. |
| Local councillor to visit their clubs to see for themselves how important youth clubs are for the young people. To show them actually how they play and learn and make friends and socialise. See them in their own environment. |
| Keeping small clubs open is just as important as keeping big clubs open |
| Where will young people go if they lose their youth clubs. |
| Club teach members important life skills that they might not get at home |
| Mae angen i chi sylweddoli y pwysigrwydd o gael clybiau ieuenctid |
| We need to keep both disabilities club open due to location |
| Youth clubs make these people feel like part of the community |
| Head of services, AO and admin costs 10% cut move money save other things |
| Cut youth worker wage 5 – 10% |
| Close 1 to 3 clubs if small numbers going per area. |
| Would volunteers be willing to volunteer in a youth club where the young people throw arts and crafts equipment all over the club and run in and out of the club and swear at you when you tell them off? For example one club a group of young boys gathered around the member of staff being aggressive and giving them verbal abuse. |
| Young people see a youth worker in a different way to a teacher or sometimes a parent. They feel they can talk to a youth worker openly and know the line between being professional. |
| Mae clwb Ieuenctid yn lle saff i berson ifanc cael mynegi eu barn a cael siarad i rhywun sydd am wrando arnyn nhw a ddim gwneud hwyl ar eu pennau nhw. Mae'r iaith Gymraeg hefyd yn bwysig i'r pobol ifanc a iddyn nhw cael dewis eu hiaith. |
| Club staff deal with a variety of issues from family troubles with estranged parents giving verbal abuse and youth club members with emotional and behavioural problems, these issues have to be sorted out in a confidential manner whilst keeping the remaining youth club members entertained, would volunteers be able to cope with this? |

# ADBORTH STAFF / STAFF FEEDBACK

(Verbatim)

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **14 Chwefror, 2017** |
| **Pwnc:** | Strategaeth a Gweledigaeth Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Ieuan Williams |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Prif Weithredwr |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | Prif Weithredwr |
| **Aelodau Lleol:** | |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**1.0 Crynodeb Gweithredol**

1.1 Mabwysiadodd y Pwyllgor Gwaith ddogfen *Gweledigaeth Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru* ym mis Medi 2016. Mae'r weledigaeth yn nodi uchelgais strategol glir ar gyfer Gogledd Cymru o ran datblygu isadeiledd, sgiliau a chyflogaeth, ynghyd â thwf busnesau. Mae Pwyllgorau Cabinet y pum Cyngor partner yn y rhanbarth wedi mabwysiadu'r strategaeth hefyd.

1.2 Mae Gogledd Cymru wedi cael gwahoddiad ffurfiol i ddatblygu'r strategaeth i greu 'Cais Twf' ar gyfer buddsoddiad cenedlaethol a rhoi pwerau i'r rhanbarth gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Mae ein gwaith rhanbarthol yn rhedeg ochr yn ochr â datblygu a chytuno cynigion twf ar gyfer rhanbarthau o Loegr a de Cymru.

1.3 Mae gwaith yn parhau i flaenoriaethu cynnwys y strategaeth i'w chynnwys mewn cais ffurfiol. Mae'r chwe chyngor wedi dod i gytundeb amlinellol ar fodel llywodraethu ar gyfer y strategaeth economaidd ranbarthol.

1.4 Mae'r model llywodraethu rhanbarthol a ffefrir, sef Cydbwyllgor statudol, wedi'i nodi yn yr adroddiad (Rhan B).

**2.0 Manylion yr Adroddiad**

2.1 Mae'r ddogfen a fabwysiadwyd, sef *Gweledigaeth Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru* ynghlwm er gwybodaeth. Mae'r weledigaeth yn nodi uchelgais glir ar gyfer Gogledd Cymru ar gyfer datblygu isadeiledd, sgiliau a chyflogaeth a thwf busnesau. Mae'r strategaeth yn anelu at gynyddu gwerth yr economi ranbarthol o £12.8 biliwn i £20 biliwn erbyn 2035 a chreu 120,000 o gyfleoedd cyflogaeth newydd.

2.2 Mae Llywodraeth y DU wedi gwahodd rhanbarthau dethol o Loegr, ardal Dinas Caerdydd ac Ardal Ddinesig Bae Abertawe i ddatblygu 'Ceisiadau Twf' i'w cymeradwyo. Gwahoddwyd Gogledd Cymru i ddatblygu cais yng nghanol 2016. Mae'r ymrwymiad hwn gan y Llywodraeth i gefnogi cais rhanbarthol wedi ei ail-gadarnhau yn y datganiad a wnaed gan y Canghellor yn yr hydref.

2.3 Mae Cais Twf yn gynnig ffurfiol ar gyfer buddsoddiad gan Lywodraeth ac am bwerau datganoledig. Mae'n rhaid i ranbarthau sy'n gwneud cais sicrhau bod ganddynt fodel llywodraethu cyfreithiol, gwydn ac atebol i gynllunio a gweithredu'r strategaeth. Disgwylir i ranbarthau fod yn barod i fuddsoddi yn eu strategaethau eu hunain, ochr yn ochr â'r Llywodraeth(au), ar ffurf dyraniadau cyfalaf, rhannu benthyca cyfalaf, defnyddio tir ac asedau a darparu adnoddau ar gyfer capasiti proffesiynol a phrosiect. Bydd gan bob cais amcanion a thargedau a negodwyd. Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn ymwneud â'r broses ymgeisio ar gyfer Gogledd Cymru, Ardal Dinas Caerdydd a Rhanbarth Bae Abertawe.

2.4 Ar gyfer Gogledd Cymru mae'r Llywodraeth yn disgwyl cydgynllunio strategol agos â Gogledd-Orllewin Lloegr a chyda'r rhwydwaith Pwerdy'r Gogledd. Mae ein gweledigaeth a'n strategaeth yn adeiladu ar y cynghreiriau cryf a'r cydgynllunio o fewn y rhanbarth, a hynny drwy waith Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, ac ar draws y ffin drwy Gynghrair Merswy-Dyfrdwy a gwaith ar y cyd gyda Phartneriaeth Menter Leol Warrington a Sir Gaer. Mae cynigion twf Gogledd Cymru a Sir Gaer a Warrington yn cael eu datblygu gyda'i gilydd ac mae cyd-ddibyniaeth o ran eu llwyddiant. Mae Gogledd Cymru hefyd yn gwneud cyfraniadau i strategaeth ehangach y rhwydwaith Pwerdy'r Gogledd, er enghraifft drwy enwebu safleoedd strategol ar gyfer twf busnes a mewnfuddsoddi. Mae isadeiledd a chysylltedd ffyrdd a rheilffyrdd, a chynlluniau trafnidiaeth ehangach, gan gynnwys llwybrau bysus, yn ganolog i'r strategaeth. Mae'r Cynllun Trac Twf 360 sy'n gwneud yr achos dros fuddsoddi mewn rheilffyrdd ar sail drawsffiniol yn mynd rhagddo drwy brosesau'r Llywodraeth ar gyfer y camau gwneud achos a gwneud penderfyniadau.

2.5 Cefnogir y strategaeth gan arweinwyr a phrif weithredwyr y chwe awdurdod unedol yn y rhanbarth, Cyngor Busnes Gogledd Cymru, Prifysgol Bangor, Prifysgol Glyndŵr, Coleg Cambria a Grŵp Llandrillo - Menai (Coleg). Mae Gogledd Cymru yn rhanbarth unedig gydag ymdeimlad cryf o hunaniaeth. Mae'r strategaeth hefyd yn cael ei chefnogi gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru sy'n cynnwys aelodaeth eang o blith y trydydd sector, y sector cyhoeddus, y sector preifat ac addysg. Bydd y Bwrdd Uchelgais Economaidd yn parhau i fod yn rhwydwaith rhanddeiliaid pwysig. Disgwylir i lywodraeth leol arwain y gwaith o gynllunio a gweithredu'r strategaeth ac mae rôl ganolog llywodraeth leol yng Nghymru o ran cynllunio rhanbarthol wedi cael ei hatgyfnerthu gan ddatganiadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Cabinet dros Lywodraeth Leol a Chyllid, ac yn fwy diweddar yn y papur gwyn ar ddiwygio llywodraeth leol. Ochr yn ochr â'r Bwrdd Uchelgais Economaidd, mae angen model llywodraethu cyfreithiol, gwydn ac atebol ar gyfer y camau hollbwysig, sef (1) datblygu Cais Twf ffurfiol o'r strategaeth (2) cytuno cynllun buddsoddi a (3) sefydlu a goruchwylio cynllun gweithredu

2.6 Yn y cyfnod interim cyn yr etholiadau lleol gwneir gwaith ar gyfansoddiad drafft a Chytundeb Rhyng-Awdurdod.

2.7 Mae gwaith yn parhau i baratoi ar gyfer Cais Twf ffurfiol gyda gweision sifil a disgwylir y bydd trafodaethau ffurfiol ynghylch cais yn dechrau erbyn mis Gorffennaf unwaith y bydd y Cydbwyllgor wedi ei sefydlu.

**ARGYMHELLIAD**

A1. Cymeradwyo'r model llywodraethu rhanbarthol a ffefrir, sef Cydbwyllgor statudol ar gyfer datblygiad pellach.

A2. Gwahodd y Cyngor newydd i ymrwymo i fodel Cydbwyllgor statudol gyda'r pum cyngor partner, o fewn tri mis cyntaf y Cyngor newydd, unwaith y bydd cyfansoddiad manwl a chytundeb rhyng-awdurdod ar gael.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Mae yna ychydig o fodelau llywodraethu gwahanol ar gael i'r chwe chyngor. Er y gallai model awdurdodau cyfun fod yn bosib yn y dyfodol, fel sy'n gynyddol boblogaidd yn Lloegr, nid oes capasiti deddfwriaethol ar gyfer y model hwn yng Nghymru ar hyn o bryd. Y model llywodraethu a ffefrir ac a argymhellir gan arweinwyr a phrif weithredwyr y Cynghorau partner, ac a gefnogir yn anffurfiol gan weision sifil Lywodraeth Cymru, Swyddfa Cymru ac adrannau Llywodraeth y Deyrnas Unedig yw Cydbwyllgor statudol.

Mae'r model Cydbwyllgor statudol yn fodel dibynadwy a hysbys. Fodd bynnag, mae ganddo gyfyngiadau. Er mwyn cefnogi'r Cydbwyllgor bydd angen enwebu awdurdod i ddarparu cymorth cyfreithiol, ysgrifenyddol a gweinyddol ac enwebu un neu ddau o awdurdodau lletyol hefyd ar gyfer y swyddogion proffesiynol a fydd yn rheoli'r rhaglenni a'r prosiectau o fewn y strategaeth. Gallai cael mwy nag un awdurdod lletyol fod yn fodel mwy ymarferol gan y bydd yna sawl swyddogaeth i'w goruchwylio - sef datblygu economaidd, trafnidiaeth a sgiliau. Mae Cydbwyllgorau yn fodel cyfarwydd yn y rhanbarth ac mae enghreifftiau diweddar yn cynnwys y Consortiwm Gwella Ysgolion GWE a Phrosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru. Enghraifft berthnasol arall o'r gorffennol yw Taith, sef y cyn-gonsortiwm trafnidiaeth.

Amlinellir y cylch gorchwyl arfaethedig isod. Bydd y Cydbwyllgor angen cyfansoddiad, a fydd yn cynnwys y cylch gorchwyl ar gyfer ei swyddogaethau, ac fe'i gefnogir gyda Chytundeb Rhyng-Awdurdod, sef cytundeb sy'n nodi sut y bydd y Cydbwyllgor yn cael ei lywodraethu, y cyfyngiadau o ran gwneud penderfyniadau a'r materion sydd wedi eu neilltuo i'r cynghorau unigol i'w cymeradwyo, rolau awdurdodau lletyol, maint y cyfraniadau i'r Cydbwyllgor a'r awdurdodau lletyol gan y cynghorau a sut y bydd risgiau a manteision yn cael eu rhannu.

Argymhellir mai arweinwyr pob un o'r chwe chyngor fydd aelodaeth y Cyd-Bwyllgor. Byddai gan bob arweinydd ddirprwy enwebedig. Byddai'r pwyllgor yn cael ei gynghori gan weithwyr proffesiynol arweiniol a'r prif weithredwyr. Mae opsiwn i gyfethol cynrychiolydd o sefydliadau partner allweddol gan gynnwys Cyngor Busnes Gogledd Cymru, y sector addysg uwch a'r sector addysg bellach. Bydd perthynas waith agos gyda Phartneriaeth Menter Leol Warrington a Swydd Gaer yn bwysig hefyd a chynigir rhyw fath o grŵp cydlynu ar y cyd trawsffiniol na fydd ganddo bwerau i wneud penderfyniadau.

**Cylch Gorchwyl Amlinellol**
**Swyddogaethau**
• Strategaeth a chynllunio twf economaidd
• Blaenoriaethu isadeiledd a chynllunio
• Cynllunio a neilltuo tir strategol
• Cynllunio a chomisiynu materion trafnidiaeth
• Strategaeth cynllunio a chomisiynu sgiliau
• Ychwanegir rhai eraill wrth i bwerau gael eu datganoli

**Strategaeth**
• Gosod cyfeiriad ar gyfer y strategaeth ranbarthol
• Parhau i asesu tystiolaeth o'r angen rhanbarthol fel sail i'r strategaeth
• Pennu blaenoriaethau a chynlluniau buddsoddi i gyflawni'r strategaeth

**Blaenoriaethu**
• Blaenoriaethu cynlluniau cyfrannol
• Datblygu Achos busnes a gwneud achos ar gyfer cynlluniau a flaenoriaethir
•Proffilio a blaenoriaethu buddsoddi
• Sicrhau cytundebau buddsoddi

**Cynrychiolaeth**
• Ymgysylltu a rheoli'r berthynas gyda phartneriaid rhanbarthol
• Ymgysylltu a rheoli'r berthynas gyda phartneriaid ar draws y ffin
• Eiriolaeth a lobïo gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, Gweinidogion a grwpiau gwleidyddol
• Cysylltiadau gyda'r cyhoedd a'r cyfryngau a'r proffil

**Perfformiad**
• Rheoli perfformiad o ran gweithredu'r strategaeth
• Goruchwylio perfformiad yn erbyn cerrig milltir allweddol a mesurau canlyniadau
• Sicrhau y rheolir y rhaglen mewn modd strategol, a sicrhau adnoddau i ddatblygu a rheoli prosiectau i weithredu cynlluniau cyfrannol

**Atebolrwydd**
• Adrodd i'r chwe awdurdod lleol
• Adrodd i'r partneriaid rhanbarthol ar berfformiad, perfformiad buddsoddi a rheoli risg
• Adrodd i Lywodraeth Cymru ar berfformiad a'r defnydd effeithiol o'u buddsoddiad
• Adrodd i Lywodraeth y DU ar berfformiad a'r defnydd effeithiol o'u buddsoddiad

Enghreifftiau o benderfyniadau a neilltuir i gynghorau unigol i'w cymeradwyo yw : -
• Cytuno ar y swyddogaethau a roddir i'r Cyd-bwyllgor
• Cytuno cyfraniadau blynyddol i'r Cyd-Bwyllgor a'r awdurdodau lletyol
• Ymrwymiadau buddsoddi a benthyca a lefelau risg
• Dyrannu tir ac asedau eraill ar gyfer cronni adnoddau

Datblygir cyfansoddiad manwl a Chytundeb Rhyng-Awdurdod yn barod ar gyfer tymor y Cynghorau newydd. Bydd Prif Weithredwyr, swyddogion arweiniol priodol yn y maes datblygu economaidd, Swyddogion Monitro a Rheolwyr Cyllid / Swyddogion Adran 151 yn rhan o'r gwaith hwn.

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mater i'r Pwyllgor Gwaith yw'r penderfyniad posib i fod yn rhan o fodel Cydbwyllgor. Mae posibilrwydd hefyd o gyfraniad ariannol tuag at weithrediad y Cyd-Bwyllgor. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Nid oes goblygiadau o ran adnoddau yn y cyfnod cynnar hwn. Bydd cost ar gyfer gwasanaethu'r Cyd-Bwyllgor, a chostau mwy sylweddol ar gyfer rheoli rhaglenni a phrosiectau i ddatblygu a gweithredu'r strategaeth. Mae'r costau'n cael eu gwerthuso ymhlith y chwe chyngor |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Y Prif Weithredwr yw awdur yr adroddiad |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Unrhyw oblygiadau staffio yn deillio o fabwysiadu'r model i'w trin yn unol â phrosesau Adnoddau Dynol y Cyngor a statudol. |

| | | |
|---|---|---|
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| |

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

Dim

**RHESTR TERMAU**

**Partneriaethau Menter Leol** - Sefydlwyd y rhain yn Lloegr yn 2011, gan yr Adran ar gyfer Busnes, Arloesi a Sgiliau i arwain twf economaidd a chreu swyddi ar draws rhanbarth. Partneriaethau gwirfoddol ydynt rhwng Awdurdodau Lleol a busnesau.

**Y Fargen Twf** - yn darparu arian ar gyfer y Partneriaethau uchod - neu bartneriaethau awdurdodau lleol yng Nghymru - ar gyfer prosiectau sydd o fudd i'r ardal leol a'r economi.

**Mentrau Datganoli** - Nid oes fformat penodol, ond maent yn golygu datganoli pwerau a chyllidebau i ddarparu gwasanaethau ar draws rhanbarth.

**Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru** - partneriaeth o awdurdodau lleol, y sector preifat a sefydliadau addysg sy'n gweithio i ddatblygu twf economaidd cryfach ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru.

**Cynghrair Merswy - Dyfrdwy** - partneriaeth o Gynghorau Sir y Fflint, Wrecsam, Cilgwri a Gorllewin Swydd Gaer a Chaer, gyda'r sector preifat a sefydliadau addysg, yn gweithio gyda'i gilydd ar gyfer twf economaidd parhaus yn y rhanbarth trawsffiniol.

DDIM I'W GYHOEDDI

# NOT FOR PUBLICATION

**Moderneiddio Ysgolion Môn – Ysgol newydd ym Mro Rhosyr/Bro Aberffraw**
**Modernising Anglesey Schools – New School in Bro Rhosyr/Bro Aberffraw**

**PRAWF BUDD Y CYHOEDD**
**PUBLIC INTEREST TEST**

| | |
|---|---|
| Paragraff 14 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Paragraph 14 Schedule 12A Local Government Act 1972 | |
| Y PRAWF – THE TEST | |
| Mae yna fudd i'r cyhoedd wrth ddatgan oherwydd / There is a public interest in disclosure as:-<br><br>Mae'r ABLl sy'n atodol yn cynnwys gwybodaeth masnachol sensitif am y prosiect.<br><br>The attached FBC contains commercial sensitive information. | Y budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-<br><br>Gwybodaeth yn ymwneud â materion ariannol neu fasnachol unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod sy'n dal y wybodaeth).<br><br>Information relating to the financial or business affairs of any particular of any particular person (including the authority holding that information). |
| Argymhelliad: *Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad yn llai o bwys na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth [* dilewch y geiriau nad ydynt yn berthnasol]<br><br>Recommendation: *The public interest in maintaining the exemption does not outweigh the public interest in disclosing the information. [*delete as appropriate] | |

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank